






Per. 14198 e.  $\frac{286}{1881}$











# Y TRAETHODYDD.


AM Y FLWYDDYN 1881.

LLYFR XXXVI.



TREFFYNNON: P. M. EVANS & SON.

MDCCCLXXXI.





## C Y N N W Y S I A D .

---

	Tu dal
Adroddiad Pwyllgor y Llywodraeth ar Addysg yn Nghymru ...	473
Arian ... ..	271
Beth a wneir i'r Gwyddelod? ... ..	230
Cychwyniad yr Achos Dirwestol yn Nghymru ... ..	434
Cyfansoddiad yr Eisteddfod Genedlaethol ... ..	406
Charlotte Brontë a'i Chwilyrydd ... ..	289
Chwareu ar y Tywod ... ..	179
Dalenau Duon yn Hanes Rwssia ... ..	16, 196
Dan y Grawen ... ..	77
Darlithiau y Parch. D. C. Davies, M.A., ar "Gristionogaeth" ...	389
Dr. Candlish ... ..	261
Eiriolaeth yr Ysbryd ... ..	5
Emyn Cleanthes ... ..	194
Gemau o " <i>In Memoriam</i> " Tennyson... ..	116

	Tu dal
John Wesley ... ..	418
Lle a Gwaith Barddoniaeth mewn Addysgiaeth ... ..	133
Nodiadau Llenyddol ... ..	123, 248, 387, 496
Oddicartref ... ..	351, 446
Syr William Jones, Prif Farnwr Bengal ... ..	319
Testament Newydd Saesoneg 1881 ... ..	364
Wanted—A Name... ..	48
William Ewart Gladstone .. ..	53, 155
Y Deg Llwyth ... ..	145
Y Ddirnadaeth am Ddaw ... ..	36, 212
Y Ddwy Ddelw ... ..	317
Y Fasnach Feddwol ... ..	336
Y Gwattwyn ... ..	229
Y Parch. William Morris, Rhuddlan... ..	464
Y Prophwydi Byron ... ..	181
Yr Enwadau Crefyddol a Dirwest ... ..	459
Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau ... ..	84
... ..	
... ..	
... ..	
... ..	

# Y TRAETHODYDD.

---

## EIRIOLAETH YR YSBRYD.

Yr ydym yn cael ein dysgu yn eglur yn y Bibl fod erfyn dros y saint yn rhan o waith yr Ysbryd Glân. Dyma ydyw y dystiolaeth ysgrythyrol ar y mater hwn: "A'r un ffunud y mae yr Ysbryd hefyd yn cynnorthwyo ein gwendid ni. Canys ni wyddom ni beth a weddiom megys y dylem; eithr y mae yr Ysbryd ei hun yn erfyn trosom ni âg ocheneidiau annhraethadwy. A'r hwn sydd yn chwilio y calonau a w'r beth yw meddwl yr Ysbryd; canys y mae efe yn ol *ewylllys* Duw yn erfyn dros y saint" (Rhuf. viii. 26, 27). Yn yr un bennod a'r geiriau hyn, fe briodolir amryw o bethau i'r Trydydd Person yn y Drindod sanctaidd, pa rai sydd yn dwyn perthynas agos a hanfodol âg iachawdwriaeth pobl yr Arglwydd. Y mae yn arweinydd iddynt; canys y maent yn rhodio "yn ol yr Ysbryd" (adn. 1, 4, 14). Y mae "yn trigo ynddynt" (adn. 9, 11); ac y maent hwythau mewn cymundeb o'r fath agosaf âg ef—maent "yn yr Ysbryd" (adn. 9). Efe fydd y gweithredydd yn eu hadgyfodiad (adn. 11). Trwyddo ef y maent "yn marweiddio gweithredoedd y corff" (adn. 13); ac y maent yn derbyn tystiolaeth ganddo eu bod yn blant i Dduw (adn. 16). Ac yn y geiriau a ddyfynasom fe briodolir eiriolaeth ar ran y saint i'r un Person bendigedig.

Y mae genym ddau ofyniad i'w hateb: yn gyntaf, Ymha beth y mae eiriolaeth yr Ysbryd yn gynnwysedig? ac yn ail, Beth yw y gwahan-iaeth rhwng eiriolaeth yr Ysbryd ac eiriolaeth y Mab? Cynnwysir yr oll sydd i'w draethu am yr athrawiaeth yr ydym yn awr wedi ei chymeryd dan ystyriaeth yn yr ymchwiliad i'r ddau gwestiwn hyn.

Yn y geiriau lle y gosodir i lawr yr athrawiaeth am eiriolaeth yr Ysbryd, mae y gwirionedd fod yr Ysbryd Glân yn erfyn dros y saint yn cael ei nodi fel prawf ei fod yn cynnorthwyo eu gwendid, sef y gwendid na wyddant pa beth i weddio megys ag y dylent. A'r cynnorthwy sydd yn amlwg yn angenrheidiol ar bobl Dduw yn ngwyneb y diffyg neu y "gwendid" hwn ydyw, eu bod yn cael eu dysgu pa beth a pha fodd i weddio. Nid ydyw yn perthyn i ni yn bresennol i brofi fod y

cyfryw wendid yn beth sydd yn bod. Mae y saint yn brofiadol iawn o hono. A hawdd y gallant, wrth agosáu at orsedd gras, ddefnyddio iaith y dysgyblion wrth eu Hathraw, fel yn wir y mae yn arfer gyffredinol ganddynt i wneyd, gan ddywedyd, "Arglwydd, dysg ni i weddio." Y ddysgidiaeth hon a roddir i'r saint gan yr Ysbryd Glân. Y mae efe yn eu cynhyrfu hwynt i weddio, yn rhoddi amlygiad i'w meddyliau ac yn cynnyrchu ynddynt deimlad dwys o'u hangen, ac yn eu galluogi i agosáu at Dduw yn hyderus, ac i wneuthur eu deisyfiadau yn hysbys mewn modd cymeradwy. Ac oblegid hyn y mae yn cael ei alw yn "Ysbryd gweddïau." "A thywalltaf ar dŷ Dafydd, ac ar breswylwyr Jerusalem, ysbryd gras a gweddïau" (Zech. xii. 10). Ac am hyn hefyd y ceir gan yr Apostol Paul yn ei lythyr at yr Ephesiaid, ynglŷn â'r annogaeth i ymwisgo yn holl arfogaeth Duw, y cyfarwyddyd, "Gan weddio bob amser â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd." Y mae perthynas gweddïau y saint â'r Ysbryd Glân yn agos a hanfodol; y mae a fyno yr Ysbryd â'u gweddïau—eu gwaith yn gweddïo, a chynnwys eu gweddïau, a'r unig agwedd addas i weddïau derbynol gan Dduw, i'r fath raddau, fel y dywedir am danynt eu bod "yn yr Ysbryd."

Yn y berthynas agos hon rhwng yr Ysbryd Sanctaidd a gweddïau y saint y mae ei eiriolaeth ef drostynt yn gorwedd. Y mae efe yn "erfyn," oblegid ei fod yn ein cynhyrfu ac yn ein galluogi ni i erfyn ar Dduw am y cyfryw fendithion a thrugareddau ag yr agorwyd ein llygaid i weled a'n calonau i deimlo ein bod mewn gwir a mawr angen am danynt. Ac y mae efe yn erfyn âg ocheneidiau am ei fod, fel y dywed Augustin, "yn ocheneidio ynom ni, yn gymaint ag mai efe sydd yn gwneuthur i ni ocheneidio." A dyma ydyw yr esboniad a roddir ar y geiriau gan yr oll o'r prif dduwinyddion ac esbonwyr. Yn yr ugeinfed bennod o'r trydydd llyfr o'i *Institutes*, y mae Calvin yn ysgrifenu fel hyn: "Yn gymaint ag 'na wyddom pa beth i weddio megys ag y dylem,' yr Ysbryd ei hun sydd yn erfyn trosom âg ocheneidiau annhraethadwy; nid ei fod ef yn weithredol yn gweddïo neu yn ocheneidio, ond y mae yn ein cynhyrfu ni i ocheneidiau, a dymuniadau, ac ymddiried, y rhai y mae ein galluoedd naturiol ni yn gwbl anabl i'w cynnyrchu." Fel y galleid dysgwyl, y mae Dr. Owen, yn ei draethawd clodfawr ar Berson a Gwaith yr Ysbryd Glân, yn gwneuthur agoriad helaeth a manwl i'r geriau y mae'r athrawiaeth dan sylw yn seiliedig arnynt, ac y mae yn rhoddi un bennod gyfan i draethu ar "Waith yr Ysbryd Glân gyda golwg ar fater gweddi," trwy ddangos yn gyntaf mai efe yn unig sydd yn abl i roddi i ni y fath ddealltwriaeth am ein hanghenion ag i'n galluogi i wneuthur yn hysbys ein hanghenion i Dduw mewn gweddïau a deisyfiadau; ac yn ail, mai yr Ysbryd sydd yn dadguddio i ni y gras a'r drugaredd sydd wedi eu darparu yn addewidion Duw i gyflawni ein rhaid; ac yn drydydd, mai efe yn unig sydd yn arwain y saint i ofyn am bob peth gydag amcan cywir ac i ddybenion priodol, canys y mae efe "yn erfyn trosom yn ol Duw"—hyn yw, yn ol ei feddwl neu ei ewyllys ef. Ac o dan y penawd diweddaf y mae yn gwneuthur dyfyniad o ysgrifeniadau Origen, lle mae yr awdwr hwnw yn cymharu gwaith yr Ysbryd yn cynnorthwyo y saint i weddio i waith athraw yn dysgu y llythyrenau i ddysgybl ieuanc

trwy eu dyweyd o'i flaen. Ac yna dywed, "Y mae yn ei wneuthur ynom ni a thrwom ni, neu y mae yn ein galluogi ni felly i wneuthur." Y mae Manton hefyd, mewn tair o'i Bregethau ar yr Wythfed o'r Rhufeiniaid, wedi traethu yn helaeth, gyda manylwch mawr, a chydâ'i feddylgarwch arferol, ar yr un mater; ac nis gallwn fyned heibio heb ddyfynu rhai o'i ymadroddion:—

"Yr Ysbryd ei hun sydd yn erfyn trosom ni;" nid fod yr Ysbryd yn gweddio, eithr yn peri i ni weddio—*sets us a-praying*. Fel y dywedir yma fod yr Ysbryd yn gweddio ynom ni, felly mewn man arall y dywedir ein bod ni yn "gweddio yn yr Ysbryd Glân" (Judas 20). Y mae efe yn gweddio, fel y dywedir fod Solomon yn adeiladu'r deml; nid oedd efe yn cyflawni gwaith y saer a'r saer maen, ond yr oedd yn cyfarwyddo pa fodd i adeiladu, yn cyflogi gweithwyr, ac yn eu cyflawni âg arian a defnyddiau. . . . Y mae yn cynnyrchu ynom ni ocheneidiau dwysion mewn gweddi, neu yn gweithio i fyny ein calonau at Dduw gyda dymuniadau yn cael eu hamlygu mewn ocheneidiau a gruddfanau. . . . 1. Y mae yn cyfarwyddo ac yn trefnu ein deisyfiadau fel ag iddynt fod yn addas i'w dyben pwysig, sef boddhdâu Duw. 2. Mae yn bywiocâu ein dymuniadau mewn gweddi. 3. Mae yn ein cefnogi ac yn rhoddi hyfdra i ni ddyfod at Dduw fel Tad.

"Mae yn erfyn;" hyny yw, mae yn ein cyfarwyddo ac yn ein cynhyrfu ni i weddio; mae yn gwnethur defnydd o'n cynneddfau,—meddwl a chalon a thafod; ie, ac o'n grasau, fydd, gobaith a chariad. Mae yn cyfnerthu ein fydd, yn bywiocâu ein cariad, yn grymuso ein gobaith; fel megys ag y dywedir yn Matt. x. 20, "Canys nid chwychwï yw y rhai sydd yn llefaru, ond Ysbryd eich Tad yr hwn sydd yn llefaru ynoch," pan y mae yn ein galluogi i ddyweyd yr hyn sydd gymhwys a phriodol ger bron awdurdodau dynol. Felly y mae yn erfyn pan y mae yn gallnogi creaduriaid deallus i lefaru yr hyn sydd gymhwys a phriodol ger bron gorsedd gras, yr hyn a fyddo yn gweddu i fydd, gobaith, a chariad.

Y mae yr esbonwyr yn rhoddi yr un eglurhâd. Megys Alford: "Ysbryd sanctaidd Duw, yr hwn sydd yn trigo ynom, ac yn gwybod ein hanghenion yn well na ni ein hunain, sydd yn erfyn yn ein gweddïau." Felly De Wette, Tholuck, ac Olshausen. A'r un modd Philippi yn yr ail gyfrol o'i waith ar yr Epistol at y Rhufeiniaid, ddygwyd allan yn ddiweddar gan y Mri. Clark o Edinburgh: "Yn mhriodas agos Ysbryd Duw âg ysbryd dyn, y mae ymgnawdoliad o'r blaenaf, megys, yn cymeryd lle, fel y gellir ymron cystal ddesgrifio iaith gweision Duw fel ymadroddion Ysbryd Duw, ag y gellir desgrifio ocheneidiau plant Duw fel profiad a mynegiad o eiddo Ysbryd Duw. Yr Ysbryd hwn ei hun, gan hyny, trwy gyfrwng yr ysbryd dynol, yn cael ei feddiannu a'i hydreiddio ganddo Ef, sydd yn dwyn ymlaen ei weithrediadau yn ngeiriau, cyflawniadau, gweddïau, ac ocheneidiau y saint." Ac yn ddiweddglo ar hyn oll, yr ydym yn cyflwyno yr eglurhâd a roddir gan Matthew Henry: "Mae yr Ysbryd yn y gair yn cynnorthwyo; llawer o gyfarwyddiadau ac addewidion sydd yn y gair i'n cymhorth. Yr Ysbryd yn y galon sydd yn cynnorthwyo, yn trigo ynom, yn gweithio ynom fel Ysbryd gras a gweddi, yn enwedig gyda golwg ar y gwendïau yr ydym danynt pan yn dyoddef, pan y mae ein fydd yn fwyaf agored i fethu. . . . Mae yn addysgu i ni ein ceisiadau, yn traethu ein deisyfiadau, yn tynu i fyny ein dadl drosom. Mae yr Ysbryd, fel yr Ysbryd sydd yn goleuo, yn ein dysgu pa beth i weddio; ac fel yr Ysbryd sydd yn sancteiddio, yn gweithio ac yn cynhyrfu grasau gweddi; ac fel yr Ysbryd sydd yn dyddanu, yn dystewi

ein hofnau, ac yn ein cymhorth dros bob digalondid. Yr Ysbryd Glân yw ffynnonell ein holl ddymuniadau a'n hanadliadau tuag at Dduw."

Y mae yr Ysbryd Glân felly yn cymeryd rhan mor fawr ac mor hanfodol yn ngweddïau y saint, fel y gellir edrych ar eu deisiyfiadau fel ei erfynïau ef. Byddai ei fod ef o gwbl, ac i'r graddau lleiaf, yn ymweyd â'n gweddïau, yn rhoddi gwerth anmhrisiadwy arnynt ac yn ddadl gref drostynt. Ond pan ystyriwn fod yr Ysbryd Glân yn gwneuthur yr oll a ddywedwyd, y maent yn cael eu dyrchafu i fod yn rhywbeth mwy na'n gweddïau ni at Dduw; y maent yn eiriolaeth iddo ef gyda Duw drosom ni. Fe ddywedir am eiriolaeth y Mab fod ei waith yn "ymddangos" yn y nefoedd, heb ei fod yn yngan gair nac yn gwneuthur dim, yn ddigon o ddadl dros bechadur; mewn geiriau eraill, fod y Mab, wrth ymddangos yn ein natur ni ar ddeheulaw Duw ac arddangos arwyddion ei ddyoddefaint yma ar y ddaear, yn eiriol drosom. Felly y mae gwaith yr Ysbryd yn disgyn i'n calonau ac yn trigo ynom i'n tueddu a'n hysgogi at bob daioni, ac i'n cyfarwyddo mewn modd arbennig pa beth a pha fodd i weddio, yn eiriolaeth rymus ac effeithiol drosom. Fe nodir dau beth i egluro hyn ac i gadarnhâu ffydd y saint yn y gwirionedd hwn. "Y mae yr Ysbryd yn erfyn trosom ni âg ocheneidiau annhraethadwy;" ac y mae "yn ol *ewylllys* Duw yn erfyn dros y saint."

Yn un peth i brofi grymusder ac effeithiolrwydd eiriolaeth yr Ysbryd, y mae yn erfyn trosom âg "ocheneidiau annhraethadwy." Mae yn erfyn trosom nid yn unig mewn dymuniadau dwys, deisiyfiadau taer, gweddïau dyfal, trwy ddiolchiadau cynhes ac addoliad cywir, eithr hyd yn nod "âg ocheneidiau annhraethadwy." Dyma ddau air cryf iawn. Yr un yw'r gair a gyfieithir "ocheneidiau" ag a ddefnyddir i ddynodi "griddfan" Israel yn yr Aipht (Act. vii. 34). Mae yn tarddu o wreiddyn yn golygu cyfyngdra. Yr ydym yn cyfarfod â'r ferf sydd yn tarddu o'r un gwreiddyn amryw weithiau. Gan gyfeirio at gystuddïau a gofidïau y bywyd hwn dywed yr Apostol, "Yr ydym ninnau ein hunain hefyd yn ocheneidio ynom ein hunain, gan ddysgwyl y mabwysiad, sef prunedigaeth y corff" (Rhuf. viii. 23). "Canys am hyny yr ydym yn ocheneidio, gan ddeisyfu cael ein harwisgo â'n tŷ sydd o'r nef. . . . Canys ninnau hefyd, y rhai ym yn y babell hon, ydym yn ocheneidio, yn llwythog" (2 Cor. v. 2, 4). Y mae'r gair "ocheneidiau," gan hyny, yn arwyddocaâu amlygiad o deimlad nerthol a dwfn, teimlad yn wedi ei wasgu i le cyfyng. Y mae y teimlad hwn mor angerddol fel nas gellir ei osod allan mewn geiriau; a'r unig ffordd y mae yn cael ymwarded iddo ei hun ydyw mewn ocheneidiau, ac am hyny y mae'r ocheneidiau yn cael eu dynodi yn "annhraethadwy." Dyma yr unig fan yr ydym yn cyfarfod â'r gair hwn. Gwir fod y gair "annhraethadwy" yn ein cyfieithiad ni hefyd yn 2 Cor. xii. 4,—“Ac mi a adwaenwn y cyfryw ddyn, ei gipio ef i fyny i baradwys, ac iddo glywed geiriau annhraethadwy;” eithr nid yr un gair ydyw yn y gwreiddiol, a'i ystyr yn amlwg yw nid ei fod yn beth anhrosibl adrodd neu lefaru y geiriau—yr oedd eu bod yn "eiriau" yn profi eu bod yn llefaradwy,—ond fel y mae yr adnod ei hun yn myned ymlaen i ddyweyd, "y rhai nid yw gyfreithlawn i ddyn eu hadrodd." I wahaniaethu rhwng y ddau air gwreiddiol, gellir cyf-

ieithu yr ymadrodd "ocheneidiau annhraethadwy" yn ocheneidiau anllefadarwy. Mae y teimladau a gynnyrchir ar brydiau gan Ysbryd Duw yn nghalonau y saint yn gyfryw o ran eu nerth a'u dwysder, dyhëadau dyfnion am faddeuant a llwyr ymwared oddiwrth lygredd a thwyll pechod, dymuniadau cryfion am fwy o wedd gwyneb yr Arglwydd, yn gystal ag am waredigaeth allan o ystormydd enbyd a themtasynau y byd a'r bywyd hwn, fel nas gallant ond yn unig ocheneidio. Tra y mae yn rhaid wrth fesur o deimlad i'n galluogi i lefaru yn rymus ac effeithiol, mae graddau helaethach o hono yn peri mudandod, yr hwn sydd yn cael tori arno yn unig gan ocheneidiau; yr un fath ag y mae mesur o oleuni yn angenrheidiol i weled, eithr graddau mwy o hono yn dallu y llygaid. Fel y dywed Philippi ar yr ymadrodd dan sylw: "Yn y modd hwn yn fwyaf cymhwys y mynegir mawredd y dyoddefaint ymha un y mae meddwl a geiriau fel eu gilydd yn methu i ddynion, ac nid oes dim yn cael ei adael iddynt ond y teimlad o'u trueni ac ocheneidio." Ac y mae yr Ysbryd Glân yn troi ffrwd y teimladau dwys a dwfn sydd yn cael eu hachlysuro gan brofedigaethau a gorthrymderau y byd hwn i gyfeiriad a sianel gweddïau y saint, fel ag iddynt ymarllwys allan, nid mewn griddfan o anobaith tua'r llawr, eithr mewn "ocheneidiau annhraethadwy" yn esgyn i fyny yn erfyniau at Dduw. A thrwy y gweithrediad hwn hefyd y mae yr "Ysbryd ei hun yn erfyn trosom âg ocheneidiau annhraethadwy."

Hefyd i brofi effeithiolrwydd eiriolaeth yr Ysbryd, fe ddywedir ei fod "yn erfyn trosom yn ol ewyllys Duw." "Yn ol Duw" ydyw'r gwreiddiol—"yn unol â'r bwriadau Dwyfol ac mewn cydymffurfïad â boddlonrwydd Duw" (Alford); "yn ol yr hyn sydd yn boddloni Duw" (Luther); ac yn gyffelyb y rhan liosocaf o'r esbonwyr. Yn gymaint felly a bod yr Ysbryd yn erfyn dros y saint yn ol meddwl ac ewyllys Duw, y mae y Tad yn gwybod meddwl yr Ysbryd, ac y mae yn ei wybod ac yn ei gymeradwyo yr un pryd. Dyma ymresymiad yr Apostol, fel y mae y geiriau yn dangos. "A'r hwn sydd yn chwilio y calonau, a w'yr beth yw meddwl yr Ysbryd; canys y mae efe yn ol ewyllys Duw yn erfyn dros y saint." Pan ystyriwn y geiriau hyn yn y cysylltiad y maent ynddo, y maent yn hynod brydferth a dewisol, ac yn myned ymhell i brofi fod Dwyfol Ysbrydoliaeth yn gofalu nid yn unig am y syniadau ond am y geiriau hefyd. "A'r hwn sydd yn chwilio y calonau"—yr hwn sydd yn gwybod gogwydd meddwl, tueddiadau mewnol, awyddfryd a dymuniadau, a holl weithredïadau yr Ysbryd, sydd i tu cefn i ac wrth wraidd gweddïau y saint,— "a w'yr beth yw meddwl yr Ysbryd;" nid yn unig y meddwl amlygedig trwy eiriau gweddïau ac erfyniau ei bobl, ond hefyd y meddwl annhraethadwy yn y dyhëad dwfn yn yr enaid a'r ochenaid a gynnyrchir ganddo, a meddwl yr Ysbryd ei hun yn yr erfyniad annhraethedig ac anllefadarwy. Ac y mae Duw yn gwybod hyn oll, nid yn unig yn rhinwedd ei hollwybod-aeth, ac fel peth y mae yn ei ganfod mewn arall y tu allan iddo ef ei hun, eithr hefyd fel yr hyn sydd yn ol ei fwrïad grasol a boddlonrwydd ei ewyllys ef ei hun tuag at ei holl saint. Pan y mae yr Ysbryd Glân yn cynhyrfu yr enaid i weddio ar Dduw, y mae yn ei ddsygu i ofyn am y cyfryw bethau ag y mae yn unol âg ewyllys yr Arglwydd i'w rhoddi iddo; a chyda'r dymuniadau a'r deisyfiadau a'r teimladau dyfnion

anllefaradwy y mae'r Ysbryd yn eu hawgrymu i'r saint, y mae yn rhoddi cymhwysder hefyd iddynt i agosáu at Dduw yn y ffordd a'r agwedd sydd yn gwneuthur eu dyfodiad at orsedd gras yn gymeradwy ganddo ef.

Yr ydym gan hyn yn terfynu y rhan yma o'n hysgrif trwy symio i fyny yr hyn a ddywedwyd mewn un gair, sef, Bod eiriolaeth yr Ysbryd yn gynnwysedig yn yr hyn a wna i gynnorthwyo y saint yn eu gweddïau.

Ac yn awr yr ydym yn dyfod at yr ail gwestiwn a ddodwyd i lawr, sef, Pa beth yw y gwahaniaeth rhwng eiriolaeth yr Ysbryd ac eiriolaeth y Mab?

Y mae dau air, neu yn hytrach ddwy ffurf ar yr un gair, yn cael eu defnyddio i ddynodi y swydd yma o eiddo yr Ysbryd. Y ffurf arno yn yr adnod flaenaf o'r ddwy ag y mae yr athrawiaeth dan sylw yn seiliedig arnynt, ydyw yr unig engraifft o'r gair yn yr oll o'r Testament Newydd. Gellid ei gyfieithu yn "erfyn-dros," i gyfleu y syniad fod yr Ysbryd nid yn syml yn "erfyn," eithr yn erfyn ar ran eraill. Ac yr oedd angenrheidrwydd am y gair yn y ffurf gryfach hon yn y lle cyntaf, oblegid fel y mae'r ysgoleigion Biblaidd goreu yn barnu, nid oedd y geiriau "trosom ni" yn yr ysgrif wreiddiol, yr hon a ddarllenai gan hyn fel hyn,—“Eithr y mae yr Ysbryd ei hun yn tros-erfyn âg ocheneidiau annhraethadwy.” Ac yna y mae yr adnod nesaf yn dyweyd yn eglur mai “dros y saint” y mae yn erfyn. Ac yma y mae yr un gair yn cael ei ddefnyddio, a hefyd yn yr un ffurf, ag a geir yn adn. 34 o'r un bennod, i ddynodi eiriolaeth Crist, “Yr hwn hefyd sydd yn erfyn trosom ni,” ac yn Heb. vii. 25, “Gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.” Gyda golwg ar y gair ei hun, ei ystyr gyntaf ydyw cyfarfod â rhywun ac ymddyddan; yna cyfarch a gwneuthur cais at; ac yn ddiweddfad dadlue dros neu yn erbyn, yn ol y blaendodiad a gysylltir â'r gair. Nid yw yn ymddangos fod esiampl o'i ystyr gyntaf i'w gael yn y Testament Newydd, ond y mae engraifft o'r ail yn Act. xxv. 24, “A Ffestus a ddywedodd, O frenin Agrippa, a chwi wŷr oll sydd gyda ni yn bresennol, chwi a welwch y dyn hwn, oblegid pa un y galwodd holl liaws yr Iuddewon arnaf fi, yn Jerusalem ac yma, gan sefain na ddylai efe fyw yn hŷy.” Y mae engraifft hefyd o'r trydydd ystyr yn y wedd o erfyn yn erbyn, yn Rhuf. xi. 2: “Oni wyddoch chwi pa beth y mae yr ysgrythyr yn ei ddywedyd am Elias? pa fodd y mae efe yn erfyn ar Dduw yn erbyn Israel.” Ond yr hyn ydym am i'n darllenwyr gofio ydyw fod yr un gair yn cael ei ddefnyddio i ddynodi eiriolaeth y Mab ag eiddo yr Ysbryd. Ac y mae y gair a gyfieithir “eiriolwr” am y Mab yn 1 Ioan ii. 1, “Y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn,” yn enw ar yr Ysbryd Glân yn Ioan xvi. 7, “Canys onid âf fi, ni ddaw y Dyddanydd atoch.” Mor wirioneddol ag y mae y Mab yn eiriolwr, y mae yr Ysbryd Glân hefyd yn eiriolwr. Ond y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y naill a'r llall. 1. Y mae eiriolaeth y Mab yn cael ei dwyn ymlaen yn y nef, lle y mae efe “yn ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni” (Heb. ix. 24); ond y mae eiriolaeth yr Ysbryd yn cael ei dwyn ymlaen ar y ddaear. 2. Y mae eiriolaeth y Mab yn cael ei dwyn ymlaen y tu allan i'w gwrthddrychau; eiriolaeth yr Ysbryd o fewn i'r rhai y mae efe yn eiriol drostynt. 3. Y mae y Mab yn eiriol ar



sail ei haeddiant ei hun; ond yr Ysbryd ar sail haeddiant y Mab. 4. Y mae eiriolaeth y Mab yn dal perthynas â'r holl gymundeb sydd rhwng dyn a Duw; eithr mewn un rhan o'i waith yn benaf, os nad yn gwbl, y mae i ni edrych ar yr Ysbryd fel eiriolwr: nid fel y Gweithredydd yn yr ailenedigaeth, nid fel Sancteiddydd, ond fel y mae yn ein cynnorthwyo ni i weddio megys ag y dylem. Tra y mae a fyfno eiriolaeth y Mab â holl fendithion y prynedigaeth i'r saint a'r cynnygiad o honynt i'r byd, y mae eiriolaeth yr Ysbryd yn dwyn perthynas sydd yn gyfyngedig i weddiau y saint. Unwaith eto yr ydym yn troi at rai o'r prif dduwinyddion, a gosodwn i lawr yma ychydig ddyfyniadau.

Manton a ddywed: "Y mae tynu i fyny ddeiseb yn un peth, y mae ei chyflwyno yn y llys yn beth arall; mae yr Ysbryd fel nodiadur yn traethu ein deisyfiadau, ac y mae Crist fel eiriolwr yn eu cyflwyno ac yn eu dadleu yn y llys" (Vol. xii. p. 226). Dr. Owen: "Nid oes gan yr Ysbryd y tu allan i ni yr un swydd i'w chyflawni yn uniongyrchol tuag at Dduw, na'r un naturiaeth islaw y ddwyfol ymha un y gallai eiriol. Mae yr oll o'r cyfryw waith mewn perthynas i ni yn gorphwys ar Grist; efe yn unig yn ei Berson ei hun sydd yn cyflawni yr hyn sydd i'w wneuthur gyda Duw drosom ni. Mae yr hyn a wna yr Ysbryd yn cael ei wneuthur ynom a thrwom ni" (Vol. iv. p. 286). Matthew Henry: "Mae Crist yn eiriol trosom yn y nefoedd, a'r Ysbryd yn ein calonau ni; mor rasol y mae Duw wedi darpar er cefnogaeth y gweddill sydd yn gweddio" (Vol. ix. p. 60). Manton eto: "Y mae Crist trwy ei aberth wedi agor y drws, a thrwy ei eiriolaeth wastadol yn ei gadw yn agored, fel na byddo digofaint Duw yn rhwystr o'r naill du, na'n heuogrwydd ninnau o'r tu arall; oblegid pe angen, 'Duw sydd dân ysol,' ac y mae pechod yn rhanu ac yn gwahanu rhwng Duw a ni. Yna y mae yr Ysbryd yn creu ac yn cynnal, yn bywhâu ac yn cynhyrfu y grasau hyny, yn yr ymarferiad o ba rai y mae ein dyfodiad at Dduw yn cael ei ddwyn ymlaen" (Vol. xii. p. 235). Dr. John Brown yn ei Esboniad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid a ddywed: "Mae y gwahaniaeth hollol rhwng eiriolaeth yr Ysbryd Glân, mewn natur, ffurf, ac amcan, o angenrheidrwydd yn amlwg ar yr adfyfyriad lleiaf" (p. 244). Mae y gwahaniaeth yn ddiammeu yn amlwg ac yn fawr; eithr nid mor fawr, fel nad ydyw yn briodol dyweyd bod yr Ysbryd Glân yn eiriolwr. Y duedd a ganfyddwn yn yr esbonwyr ydyw i egluro ymaith yr ymadroddion "erfyn âg ocheneidiau annhraethadwy," ac "erfyn dros y saint," trwy ddangos yr hyn y mae yr Ysbryd Glân yn ei wneuthur i'n cynnorthwyo ni yn ein gweddiau. Ond y maent er llwyddo i roddi eglurhâd helaeth, manwl a boddhâol, ar y rhan yma o waith yr Ysbryd, fel pe yn methu ag anturio ar sail yr hyn oll a ddywedant mor dda ac mor Ysgrhythrol i ddyfod i'r penderfyniad fod y Trydydd Person yn yr Hanfod Ddwyfol "yn erfyn dros y saint," neu yn eiriolwr fel y mae yn gweithredu ac yn eu cynnorthwyo yn eu hagosâd at Dduw mewn gweddiau a deisyfiadau, dymuniadau ac erfyniau, ac mewn teimladau o drallod ac angen ac awyddfryd a amlygir yn unig trwy "ocheneidiau annhraethadwy." Un peth ydyw rhoddi eglurhâd ar eiriau, peth arall ydyw cael allan yn eu hystyr a'u cynnwys y rheswm am yr hyn a ddywedir yn y geiriau eu hunain. Wrth ymfoddloni ar y blaenaf, y mae perygl i ni chwilio am esboniad ar eiriau y Bibl

sydd yn cydweddu â'n syniadau blaenorol, ac felly yn aml i egluro ymaith y testun; felly, er engrafft, pan yn sefyll uwch ben yr ymadrodd, "Yr Ysbryd ei hun sydd yn erfyn drosom," mae y meddwl ar unwaith yn cofio fod y Mab yn eiriol, a bod y swydd hon yn perthyn yn arbenig iddo ef fel yr unig "Gyfringwr rhwng Duw a dynion." Y mae cofio y gwirionedd hwn wrth ddyfod at yr ymadrodd crybwylledig yn berffaith naturiol. Ac yn wir y mae yn angenrheidiol i ni gadw ein llygaid ar eiriolaeth Crist pan yn ystyried gwaith yr Ysbryd "yn erfyn dros y saint." Eithr nid ydym oblegid hyny i dynu y casgliad neu i esbonio yr ymadrodd fel pe byddai yn golygu fod gwaith yr Ysbryd yn erfyn yn rhywbeth amgen nag eiriol. Yn hytrach myner allan, gan fod y gair yn dyweddy hyny yn eglur a diamwys, y rheswm neu'r eglurhad sydd yn rhoddi cyfrif am eiriolaeth yr Ysbryd Glân.

Dywedasom fod yr esboniwr yn tueddu i egluro ymaith y gair dan sylw. Y mae Dr. Brown, o'r hwn y dyfynasom ddiweddaf, yn esiampl o hyn. Sylwer ar ei eiriau:—

Mae yr Ysbryd Glân yn ein cynnorthwyo—yn cynnorthwyo ein gwendid—yn ein cymhorth pan yn wan, ac yn neillduol, pan, dan bwys ein gwendidau, na wyddom pa fodd i weddio megys ag y dylem. Mae yn cynnyrchu yr iawn ddymuniaid, ac mewn gradd briodol; ac y mae yn ein galluogi i'w ddadgan, os nad mewn geiriau hyawdl, neu mewn geiriau llefaredig o gwbl, mewn ocheneidiau dwysion. Pan y dywedir fod yr Ysbryd Glân "yn erfyn drosom âg ocheneidiau anhraethadwy," mae yn amlwg yn golygu, ei fod ef yn ein galluogi ni felly i erfyn drosom ein hunain, megys pan y mae fel Ysbryd Mab Duw wedi ei anfon i galonau Cristionogion y dywedir ei fod "yn llefain Abba, Dad" (Gal. iv. 6).—hyny yw, mae yn gwneuthur iddynt hwy "lefain Abba, Dad." Mae yn rhoddi iddynt serch mabaidd, ac yn eu galluogi i'w fynegi. Y mae, fel y dywed Fenelon, "yn enaid ein henaid." Mae yn sylw da o eiddo Augustin, "Nid yw yr Ysbryd Glân yn ocheneidio ynddo ei hun—gydag ef ei hun, fel Person yn y Drindod; ond y mae yn ocheneidio ynom ni, pan y mae yn gwneyd i ni ocheneidio." Mae yr holl wahaniaeth, mewn natur, ffurf, ac amcan, rhwng yr eiriolaeth hon o eiddo yr Ysbryd Glân ac eiriolaeth Crist, o angenrheidrwydd yn amlwg ar yr ystyriaeth leiaf.

Mae yr oll a ddywedir yma am y cynnorthwy a roddir gan yr Ysbryd i'r saint i weddio ac yn eu herfyniau yn rhagorol iawn. Ond y mae yn eglur nad yw yr awdwr yn golygu hyn oll fel prawf fod yr "Ysbryd yn erfyn dros y saint," eithr yn unig fel esboniad ar yr ymadrodd. Ac oddiwrth y frawddeg olaf yn y dyfyniad, mae genym le cryf i dybio fod Dr. Brown yn edrych ar waith yr Ysbryd yn erfyn yn beth mor hollol wahanol i eiriolaeth y Mab, fel braidd y mae yn cydnabod fod y swydd o eiriolwr yn perthyn o gwbl i'r Trydydd Person yn y Drindod. Y gwirionedd ydyw, mor bell ag yr ydym ni wedi cael cyfle i wneuthur ymchwiliad, y mae athrawiaeth eiriolaeth yr Ysbryd wedi dianc sylw y duwinyddion. Yr unig beth a ddywed Dr. Lewis yn ei *Gorff Duwinyddiaeth* mewn cyfeiriad at y geiriau y mae'r athrawiaeth hon yn amlwg yn selliedig arnynt yw, "Trwy yr Ysbryd y maent [sef y sawl ag y mae efe yn preswyllo ynddynt] yn cael eu cynhyrfu i weddio" (tu dal. 407). Yn yr unig gyfeiriad a wneir gan Howe atynt, nid yw yntau ychwaith yn sylwi dim ar y gwirionedd hwn. Ac nid ydym wedi llwyddo i gael dim yn Nghyfundaeth Dduwinyddol Dr. Hodge ar y mater hwn. Ond yn ei esboniad ar Rhuf. viii. 26, 27, yr ydym yn cael a ganlyw:—

Y mae Crist yn galw yr Ysbryd Glân yn Ioan xiv. 16, yn "eiriolwr arall," hyny yw, arall amgen nag efe ei hun. Ac y mae y swydd hon yn cael ei phriodoli i'r Ysbryd hefyd yn Ioan xiv. 26; xv. 26; a xvi. 7, yn gystal ag yn y testun ger ein bron. Fel y dywedir fod yr Ysbryd yn gwneuthur yn gyffredinol yr hyn sydd yn perthyn i eiriolwr i'w gyflawni dros yr hwn sydd dan ei amddiffyn, felly y mae yn cyflawni dyledswydd neillduol eiriolwr, sef addysgu ei noddedigion (*clients*) pa beth i ddyweyd a pha fodd i gyflwyno eu hachos. Yn yr ystyr yma mae y testun hwn i'w ddeall. Ni wyddom ni pa fodd i weddio, ond y mae yr Ysbryd yn ein dysgu. Mae pob gwir weddi yn ddyledus i ddylanwad yr Ysbryd, yr hwn sydd nid yn unig yn ein harwain yn newisiad y pethau am ba rai i weddio, ond hefyd yn rhoddi i ni ddymuniadau priodol, ac yn gweithredu ynom y ffydd heb yr hon y mae ein gweddïau yn ddiëffaith. Nid ydym i dybio fod yr Ysbryd ei hun yn gweddïo, neu yn traethu yr ocheneidiau anllafaredig am ba rai y mae'r Apostol yma yn son. Fe ddywedir ei fod yn cyflawni yr hyn y mae yn achosi i ni ei wneuthur. . . . Ar yr un pryd, y mae llawer mwy yn cael ei olygu na bod yr Ysbryd yn ein dysgu i weddio, fel y gall un dyn ddsygu arall. Ac y mae mwy yn cael ei olygu na bod dymuniadau a theimladau neillduol yn cael eu deffroi yn ein calonau, trwy ddylanwad o'r tu allan. Y mae yr Ysbryd yn preswyllo yn y credadyn fel egwyddor o fywyd. Yn ein hymwybyddiaeth ni, nid oes wahaniaeth rhwng ein gweithrediad ni a gweithrediad yr Ysbryd. Y mae, modd bynag, gydrediad a chydweithrediad o'r dwyfol a'r dynol ymhob ymarferiad duwiol, ac mewn modd mwy arbenig yn y teimladau, y dymuniadau a'r dyhêadau hyny nas gallwn eu gwisgo mewn geiriau.

Fe welir felly fod y duwinydd enwog hwn yn cydnabod hawl yr Ysbryd i'r teitl o Eiriolwr, a hefyd, trwy y cymhorth a rydd yr Ysbryd i'r saint yn eu gweddïau i ledu eu hachos ger bron Duw, y gellir edrych ar eu dymuniadau a'u hocheneidiau hwynt fel ei erfyniau ef. Buasai yn dda genym pe buasai wedi ychwanegu mewn cynifer o eiriau fod yr Ysbryd trwy hyny yn dwyn ymlaen eiriolaeth ar ran y saint. Ac y mae yn anmhosibl i ni wybod i ba raddau y mae yr Ysbryd ei hun, nid yn unig yn cydymdeimlo â dymuniadau ein gweddïau, eithr hyd yn nod yn cyfranogi o honynt ei hunan. Nid oes dim yn wrthun yn y syniad hwn. Braidd nad yw geiriau yr apostol yn ei ffafrio. "Eithr y mae yr Ysbryd ei hun yn erfyn trosom âg ocheneidiau annhraethadwy." Yr ydym ni yn egwan iawn yn ein gweddïau—yn anwybodus ac annhrefnus ar y goreu. Ond pa ddiffyg bynag sydd ynom ni, ac yn ein hymbiliau mwyaf cywir ger bron Duw, y mae yn gysur cryf i ni feddwl, ac yn gyfnerthiad annhraethol i'n hyder, fod "yr Ysbryd ei hun"—nid yn unig ynom ni, neu gyda ni, eithr "ei hun yn erfyn trosom ni âg ocheneidiau annhraethadwy"—nid i raddau bychain, ond yn anfesurrol, i raddau nas gellir eu traethu. Ac fel y mae y geiriau dilynol gan yr apostol yn dangos, y mae gan yr Ysbryd ei "feddwl." Ac y mae yn amlygu y meddwl hwn wrth gynnyrchu ysbryd gweddï yn y saint, a'u dysgu pa fodd i weddio, a pha beth i weddio am dano; ac y mae yn annichonadwy i ni synied ei fod ef yn gweithredu felly ar galonau pobl yr Arglwydd heb ei fod ef ei hun yn dymuno, yn deisyf, yn erfyn, yn eiriol ar ein rhan. Ac y mae Duw yn gwybod "meddwl yr Ysbryd;" nid yn unig, fel y dywedwyd, yn barod i wrando ein gweddïau ni a ddsygyd i ni gan yr Ysbryd, eithr meddwl yr Ysbryd ei hun mewn perthynas i'n "gwendid," a'r "cynnorthwy" a roddes efe i ni a'n gweddïau at Dduw yn rhinwedd ei gymhorth ef,—ei waith ef ei hun "yn erfyn dros y saint." Nid yw yr athrawiaeth hon yn cymylu dim ar ogoniant eiriolaeth Crist, eithr yn hytrach yn adlewyrchu gogoniant mwy arni, yn gymaint a'i bod yn dangos fod eiriolaeth y Mab ar sail

haeddiant ei aberth yn sicrhâu i ni fendith mor fawr a phwysig ag eiriolaeth yr Ysbryd Glân. Gan hyny, y mae yn gwbl afreidiol i dynu dim i lawr ar eiriolaeth yr Ysbryd wrth ei chymharu â neu ei gwahaniaethu oddiwrth eiriolaeth y Mab. Y mae Dr. Owen, i'n golwg ni, wedi syrthio i'r camsyniad hwn. Yn un o'r dyfyniadau a wnaed uchod y mae efe yn gwadu gallu yr Ysbryd i eiriol. A thrachefn yn ei sylwadau ar y teitl a roddir gan yr Arglwydd Iesu gynifer o weithiau yn Efengyl Ioan, i'r Ysbryd Glân, ag a gyfieithir "Dyddanydd," sef yr un gair ag a gyfieithir yn 1 Ioan ii. 1, "Eiriolwr," y mae yn ysgrifenu fel hyn: "Ac nid yw yr ystyr o Eiriolwr i'w adael allan, yn gymaint a bod yr hyn a wna fel y cyfryw yn tueddu at ddyddanwch yr eglwys. Ac y mae yn rhaid i ni sylwi yn gyntaf nad yw yr Ysbryd Glân yn eiriolwr i ni gyda'r Tad. Y mae hyn yn perthyn yn unig i Iesu Grist, ac yn rhan o'i swydd ef." Ond y mae yr Ysbryd, os yn erfyn o gwbl, yn erfyn ar Dduw dros y saint. Ac y mae rhai esbonwyr yn esbonio yr ymadrodd "yn ol Duw," yn Rhuf. viii. 27, fel yn golygu yn ngwydd Duw. Nid ydym ni, modd bynag, yn mabwysiadu y golygiad hwn. "Fe ddywedir, yn wir, 'ei fod yn erfyn trosom âg ocheneidiau annhraethadwy;' ond nid yw yn gwneuthur hyn yn uniongyrchol, neu yn ei Berson ei hun. Nid yw 'yn erfyn trosom ni' yn amgen na thrwy wneuthur i ni erfyn yn ol ewyllys Duw; oblegid eiriol yn ffurfiol (*formally*) sydd yn hollol anghyson â'r natur Ddwyfol ac â'i Berson, yr hwn nid oes ganddo natur arall ond y Ddwyfol." Os ydyw yr Ysbryd Glân yn erfyn dros y saint yn *wirioneddol*, er nad yw yn gallu gwneyd hyny yn *ffurfiol*, nid yw o gymaint pwys. Ac mewn perthynas i'r rheswm a ddygir ymlaen gan y duwinydd mawr hwn dros y golygiad nas gall yr Ysbryd Glân eiriol yn uniongyrchol, nac yn wir ddwyn ymlaen eiriolaeth yn *ffurfiol* o gwbl, y mae hyn yn myned at wraidd holl "ddirgelwch duwioldeb." Yn gymaint ag i'r Mab ymgawdoli, ac yn gymaint a bod yr Ysbryd yn preswyllo yn nghalonau credinwyr, nid yw yn ormod i gredu fod yr Ysbryd Glân hefyd, o'i anfeidrol dosturi, ac ar sail haeddiannau y Dwyfol Iawn, "ei hun yn erfyn dros y saint," neu yn dwyn ymlaen eiriolaeth wirioneddol, os nad uniongyrchol hefyd, ar eu rhan. "Y mae efe gan hyny yn anghymhwys i fod yn *eiriolwr* i ni gyda Duw; yr Arglwydd Iesu yn unig sydd felly, a hyny ar sail ei iawn rhagflaenol a wnaed drosom ni." Eithr tra nad yw yr Ysbryd yn ymddangos ger bron Duw yn y nefoedd, ac yn ein natur yn dadleu ei haeddiant ei hun, ac nas gall wneuthur hyny; eto pwy mor gymhwys ag Ysbryd y Tad, yr hwn hefyd yw Ysbryd Crist, i erfyn ar Dduw dros y saint, pa un bynag ai "ei hun âg ocheneidiau annhraethadwy," neu yn anuniongyrchol yn a thrwy ddymuniadau a gweddiâu y rhai sydd yn credu? Yna y mae Dr. Owen yn myned ymlaen i roddi gwedd wahanol ar eiriolaeth yr Ysbryd: "Ond y mae efe yn *eiriolwr* dros yr eglwys, yn, a chyda, ac yn erbyn y byd. Mae'r fath eiriolwr yn un ag sydd yn ymgymeryd âg amddiffyn arall mewn unrhyw achos ag y mae yn cymeryd rhan ynddo. Yr achos y mae a fynd dysgyblion Crist âg ef yn ac yn erbyn y byd yw gwirionedd yr efengyl, gallu a theyrnas eu Harglwydd a'u Meistr. I hyn y maent yn tystiolaethu; dyma sydd yn cael ei wrthwynebu gan y byd; a'r achos hwn, dan amrywiol ffurfiau, y maent hwy ymhob cenedlaeth yn dyoddef gwaradwydd ac erlidigaethau o'i

herwydd. Yn yr achos hwn yr Ysbryd Glân yw eu heiriolwr, gan gyfiawnhâu Iesu Grist a'r efengyl yn erbyn y byd" (Vol. iii. p. 362). Nid oes genym wrthwynebiad i'r golygiad hwn fel syniad ychwanegol am eiriolaeth yr Ysbryd; ac y mae cysylltiad yr amrywiol fanau y ceir y teitl "Dyddanydd" yn Efengyl Ioan yn cadarnhâu y golygiad. Ond nid dyma yr oll o eiriolaeth y Trydydd Person, na'r prif beth sydd yn perthyn iddi, nac yn wir yr hyn sydd yn ei gwneuthur yn wirioneddol yn eiriolaeth. Fel y mae hanfod eiriolaeth y Mab yn gynnwysedig yn ei waith yn ymddangos ger bron Duw yn sancteiddiolaf y gogoniant, felly eiriolaeth yr Ysbryd yn ei waith yn erfyn drosom ni yn ol ewyllys Duw, a hyn yn yr amrywiol weddau ag yr ydym eisoes wedi eu henwi ac wedi ceisio eu hegluro. I symio i fyny,—

1. Mae yr Ysbryd Glân yn eiriolwr.

2. Mae yn dwyn ymlaen ei eiriolaeth (1) trwy gyfrwng ein gweddïau ni, yn gymaint a'i fod yn ymwneyd â ni i'r fath raddau yn ein gwaith yn galw ar enw yr Arglwydd fel y gellir edrych ar ein hymbiliau ni fel ei erfynïau ef; (2) trwy ei fod "ei hun," o'i dosturi a'i gydymdeimlad, "yn erfyn drosom âg ocheneidiau annhraethadwy;" (3) trwy ei waith yn ein hamddiffyn a'n diogelu yn wyneb rhwystrau ac mewn profedig-aethau, ac yn erbyn pob math o elynion.

3. Mae ei eiriolaeth yn effeithiol, oblegid (1) grymusder ei erfynïau—"mae yn erfyn âg ocheneidiau annhraethadwy;" (2) y mae yn erfyn dros y saint "yn ol ewyllys Duw."

4. Ac y mae ei eiriolaeth; tra yn gwahaniaethu oddiwrth eiriolaeth y Mab yn y pethau a enwyd eisoes—ac ni raid i ni eu hailadrodd yma—yn un o'r bendithion goreu a mwyaf cysurol y mae cyfryngdod yr Arglwydd Iesu wedi ei sicrhâu i ni; ac yn lle tynu dim oddiwrth, y mae yn adlewyrchu gogoniant mwy ar eiriolaeth y Mab. Ac fel cymhwysiad ymarferol, yr ydym yn sylwi ei fod o'r pwys mwyaf ein bod yn offrymu ein holl weddïau yn yr Ysbryd Glân, gan ddibynu arno ef am bob cyfarwyddyd a nerth a gras i weddïo megys ag y dylem; ac hefyd, ar bwys gwirionedd yr athrawiaeth hon am eiriolaeth yr Ysbryd, dylem gredu yn fwy sicr a hyderus fod Duw yn gwrando gweddïau ei saint.

WILLIAM EVANS.

## DALENAU DUON YN HANES RWSSIA.

### I.

#### FFETHIAU HANESYDDOL.

Y MAE amgylchiadau y misoedd a'r blynnydoedd diweddf wedi tynu sylw y byd at Rwssia a'i hanes yn anad un wlad arall. Un o'r pethau cyntaf sydd yn taro ymchwilydd yn y cyfeiriad hwn ydyw mor lleied mewn gwirionedd oeddid yn ei wybod am sefyllfa pethau yn y wlad hono pan gynhyrfwyd y byd gwareiddiedig gan ofnadwyon NIHILIAETH a'i broffeswyr ychydig amser yn ol.

Trwy ba ddadblygiadau y cyrhaeddodd dosbarth o drigolion Rwssia ystâd ymha un yr edrychir ar holl-ddinestr a difodiant yr hyn sydd, fel unig obaith gwaredigaeth? Pa beth ydoedd y gwreiddyn, a pha fath ydoedd y tyfiant a gododd y fath goedwig Upasaidd i ddifa pobpeth a ddeuai o fewn cyrhaedd ei gwenwyn? Pa beth achosodd i ormesiaeth a gormeswyr wallgofi nes anghofo fod eu gwlad o fewn pellder mesurol, ys dywedir, i wareiddiad cenedlaethol? Pa beth barodd i benadur a gyfrifid (a hyny ar seiliau gweddol gadarn) ychydig amser yn ol yn "dad ei bobl," orfod cilio rhag y bobl hyny, a dianc o'r naill balas i'r llall mewn ofn a dychryn am ei fywyd? Pa fodd y daeth llosgiad a mwrdrad i fod yn bethau cyffredin, ac yn bethau a gyfiawnheid, nid ymysg gwehilion cymdeithas, ond ymhlith y dosbarth uchaf a mwyaf dysgedig? a phaham yn nghanol milwriaeth a heddlywiaeth oedd yn treiddio pob congl o'r ymherodraeth, y gadawyd i'r cyfryw droseddwyr ddianc yn ddigosb? Pa fodd y cyrhaeddwyd y fath sefyllfa dorcalonus, a pha fodd y deuir allan o honi? Dyma rai o'r cwestiynau a ofynid yn gyffredinol, ac y maent eto i raddau mawr yn aros am atebiad. Diangenrhaid yw ychwanegu fod eu hystyriaeth yn bwysig yn gystal ag yn ddyddorol, nid yn unig i'r Rwssiaid, ond i'r ddynoliaeth.

Ynghylch ymherodraeth sydd yn cyrhaedd o derfynau Germany yn Ewrop hyd at dueddau China yn Asia, ac o'r Pegwn Gogleddol hyd at y Môr Caspiaidd yn y Dehau, y mae yn naturiol dysgwyl cryn lawer o anwybodaeth. Ymlleda tiriogaethau yr Ymherodraeth Rwssiaidd dros seithfed ran o'r byd—cynnwysa fwy na hanner Cyfandir Ewrop a thrydedd ran o Gyfandir Asia—mesura yn agos i wyth miliwn a hanner o filldroedd ysgwâr—a phoblogir hi (yn ol cyfrifiad 1870) gan oddeutu pedwar ugain a chwech o filiynau o eneidiau, y rhai a wneir i fyny o Rwssiaid, Pwyliaid, Lithuaniaid, Ffiniaid, Tartariaid, Baschkiriaid, Germaniaid, Iuddewon a Thyrciaid, heblaw nifer lliosog o fân genedloedd eraill: ymhlith y rhai y proffesir daliadau Eglwys Roeg, ac Eglwys

Rhufain, Mahometaniaeth, Iuddewiaeth, Protestaniaeth, a phob *iaeth* arall adnabyddus (ac fe allai anadnabyddus) i genedloedd gwâr. Rhaid cofio ymhellach nad ydyw daearyddiaeth y wlad yn gyfryw ac i gymhell na ffafrio ymchwiliad. Y mae y tir gan mwyaf yn anaddas i driniaeth; yn y gogledd y mae y *tundras*—corsydd anffrwythlawn—bron bob amser wedi eu cloi i fyny gan rew, ac ni thyf dim arnynt ond math o fwsogl; y mae Finland wedi ei gorchuddio â llynoedd, y rhai a amgylchir gan greigiau a bryniau tywodlyd; yn y dehau oddeutu'r Môr Caspiaidd, ymdaena *steppes*—gwastadeddau tywodlyd mawrion—anferth a diffwrwyth; tra y mae Siberia a llawer o'r taleithiau mewnol wedi eu llenwi â choedwigoedd; ond y mae y wlad sydd yn ymgyrhaedd o Fôr y Baltic i'r Môr Du yn nodedig am ei ffrwythlondeb, ac yn dwyn cynnyrch rhagorol o'r grawn\* sydd yn cyfansoddi cyfoeth Rwssia mewn ystyr amaethyddol. Os ychwanegir at y ffeithiau hyn, nad ydyw Llywodraeth Rwssia un amser wedi tueddu rhyw lawer i hyrwyddo lledaeniad gwybodaeth ynghylch ei gweithrediadau ei hun nac eiddo ei deiliaid, yr amrywiaeth dylethol a diderfyn sydd yn bod mewn gwahanol ranau o'r èang-ymherodraeth ac ymhlith gwahanol haenau o'i chymdeithas, ynghyd a'r rhagfarn ymwybodol neu anymwybodol sydd y rhan amlaf yn meddiannu pob ymchwilydd i'w hanesiaeth, nid rhyfedd yw cael fod amrywiaeth barn nid yn unig gyda golwg ar *achosion*, ond *amgylchiadau* hefyd; nid yn unig gyda golwg ar *gasgliadau*, ond hefyd gyda golwg ar *ffeithiau* ei hanes. "Y mae aml i beth yn cael ei ysgrifenu ynghylch Rwssia a'i phobl," meddai beirniad diweddar, "a bar i'r Rwssiad mwyaf trist wenu mewn tosturi, ac weithiau mewn diystyrwch, wrth ddyfnder yr anwybodaeth a ddangosir gan rai fynai-fod-yn-ddysgawdwy'r." Hyd o fewn pedair neu bum' mlynedd yn ol yr oeddym yn gorffod dibynu am ein gwybodaeth ynghylch sefyllfa ac ansawdd gymdeithasol a gwleidyddol y wlad ar weithiau Haxthausen, yr hwn a ysgrifennodd ei gyfrol o dan nodded neillduol y Llywodraeth Rwssiaidd, a thegwch yr hwn gan hyny oedd yn agored o leiaf i ammheuaeth; ysgrifeniadau M. Nicolas Tourguéneff, cyfaill a dysgybl Stein y gwladweinydd Prwssiaidd; a M. Herzen, awdwr amryw weithiau chwyldrôadol, â'r hwn y cawn gyfarfod eto ymhellach ymlaen; ond erbyn hyn gall yr efrwydd gael goleuni pellach a chywirach yn ngweithiau Mr. Mackenzie Wallace (*Russia*), Mr. Sutherland Edwards (*Russians at Home*), M. Eckhardt (*Modern Russia*), Mr. Hepworth Dixon (*Free Russia*), awdwr Germanaidd (*Russia Before and After the War*), cyfieithiad Mr. Fairfax Taylor), Madame Kiréef (O.K.), awdures dalentog *Russia and England*, yr hon a gafodd y fraint o gael ei beirniadu gan Mr. Gladstone, a M. Maurice Dreyfus (*Nihilisme*), heb son am erthyglau llenyddol Mr. Ralston, traethodau gwleidyddol Mr. Grant Duff, a nofelau cymdeithasol MM. Ivan Tourguéneff, Leo Tolstoy, a Henri Greville.

Gan gymeryd mantais ar yr ymchwiliadau diweddar hyn, amcanwn mewn modd hollol ddiuedd—fel y gweddai i gofnodydd ffeithiau hanesyddol—fwrw golwg dros rai o'r bradwriaethau a'r chwyldradau sydd yn gwneyd i fyny yr hyn a elwir genym yn *Ddalenau duon hanes Rwssia*

\* Yn benaf *gwenith*, haidd (y rhai a allforir yn helaeth), ceirch a rhyg (yr hwn yw prif foddion cynnaliaeth y dosbarthiadau isaf).

—gan aros yn benaf ar ddechreuad a chynnydd, ynghyd a sefyllfa bresennol y diweddaraf o honynt, sef Nihiliaeth.

Y mae Rhyddid y Bobl ymhob gwlad, i raddau mwy neu lai, wedi ei ennill trwy ymdrechion nifer cymharol fychan o wladgarwyr, y rhai trwy ddyoddefiadau personol yn cyrhaedd weithiau hyd at ferthyrddod, a brynasant ryddid miloedd. Trwy hunanymwadiad o'r fath hwn y daeth rhyddid i Italy, i Germany, i Ffrainc, ia, ac i Brydain. Ond am Rwssia, y mae hi wedi plygu ei gwar am oesoedd dan iau gorthrwm a chaethiwed; ofnai y mwyaf hyderus o'i phlant fod ysbryd Rhyddid wedi ei lethu os nad wedi ei ladd o'i mewn; ni bu un o'i beirdd am oesoedd yn ddigon gwrol i anerech ei phobl yn ngeiriau Byron,

Hereditary bondsmen ! know ye not  
Who would be free, themselves must strike the blow !

yn hytrach gellid dyweyd

The heroic lay is tuneless . . .  
The heroic bosom beats no more.

Yr oedd ambell un, fe allai, yn barod "to feel at least a patriot's shame;" ond cymerodd ganrifoedd i Rwssia fagu cymaint ag un Puschkin, ac nid yw y Puschkin a fagodd ond cysgod digon gwan o'r Bardd a gyffrôdd Groeg i annibyniaeth a rhyddid.

O'r nawfed i ddiwedd y ddeunawfed ganrif, bu Rwssia yn ngafaelion gormesiaeth o'r fath greulonaf, ac ofer hollol yw chwilio ei hanes am gyfnod o ryddid cenedlaethol. Wrth fyned yn ol i'w chronicleau boreuol, yr ydym yn gweled i'w thrigolion cyntefig gael eu gorchfygu gan adran o'r teulu Teutonaidd a drigiannai yn y gogledd-dir, y rhai a arweinid gan Rurik, Sineus, a Truvor; ac yn y nawfed ganrif i ymherodraeth gael ei sefydlu trwy uniad gwahanol lwythau y Slavs, y Finns, a'r Tartars. Er fod y Teutoniaid hyn yn meddu hadau y rhyddfrefiniau sydd i'w canfod yn hanes boreuol eu cenedl, y mae yn ymddangos i'r chwant am allu eu troi yn ormeswyr, ac iddynt gaethiwo y gorchfygedig yn drwm. Ymhen amser syrthiodd y wlad i ddwyllaw llwyth o'r Mongoliaid, y rhai drachefn a ychwanegasant at feichiau y brodorion, dan y rhai y buont yn parhau i ocheneidio hyd nes cyfododd Tsariaeth Muscovy yn y bymthegfed ganrif, ac y syrthiasant i ddyfnach trueni o dan yr Ewyllys Fawr Unbenaethol. Fel hyn y sylwa Heberstein ar y mater pan yn ysgrifenu yn 1549: "Y mae y pen-tywysog yn llefaru, a phobpeth yn cael ei wneyd; ar ei ewyllys ef y dibyna bywyd ac eiddo pob dosbarth; nid yw yn cydnabod gwrthddywediad; y mae pobpeth a wna yn gyfiawn fel pe b'ai duw yn ei wneuthur, oblegid y mae ei bobl yn argyhoeddedig ei fod yn cyflawni yr ordeiniadau dwyfol." Cynnorthwyid y Czar fel mater o ffurf gan Gynghor gwladol, ond dibynai dewisiad hwn yn hollol ar ei ewyllys ef ei hun: os byddai mater o bwys i'w benderfynu gelwid Cynghor ynghyd wedi ei gyfansoddi yn unig o'r teulu Ymherodrol, ac weithiau mewn ysbryd o ymstyngiad gofynid cynghor y Patriarch Eglwysig, ond mewn gwirionedd nid oedd na chynghor na chyfraith a feiddiai fod yn groes i ewyllys yr Ymherawdwr, yr hwn a deimlai at ei ryddid



i ladd ac i losgi, i ddyrchafu ac i ddarostwng, yn ol ei ddymuniad a'i fympwy personol. Ambell waith, mae'n wir, pan mewn rhyw gyfyngder neillduol, arferai y Czar alw ynghyd rai i gynnrychioli y Taleithiau Cyffredinol, rhywbeth yn debyg i'r dull a ddefnyddid flynnydoedd ar ol hyny gan Siarl I. yn y wlad hon; ond gwneid y rhai hyn drachefn i fyny o urddasolion eglwysig, yr abadau, a'r *boyars*, neu bendefigion y wlad.

Galwyd ynghyd ryw gynnadledd o'r fath hyn yn 1613, ar ddiwedd y rhyfeloedd cartrefol a ddilynodd farwolaeth Ivan IV. a gyfenwid *Yr Ofnadwy*, i'r dyben o ethol llinach newydd i'r orsedd. Syrthiodd y dewisiad ar Michael Románoff, mab Philater, Archesgob Rostoff, yr hwn, yn y llw brenhinol a gymerodd, a dynghedodd ei hun i beidio cyhoeddi rhyfel, nac ordeinio cyfreithiau, na gwneuthur cyfammod o heddwch neu ffurfio cynghrair ág unrhyw wlad, na dedfrydu person i farwolaeth, nac attafaelu ei eiddo, heb gydsyniad y Gynnadledd. Parhaodd y Gynnadledd hon i fodoli mewn ystyr ymgynghorawl am rai blynyddau; ond fel y cynnyddodd gallu Michael cynnyddodd ei chwant am awdurdod, nes ei arwain i ddinystrio Siarter 1613, ac i gyhoeddi un arall, yn yr hwn yr ordeiniwyd y Romanoff yn Czar ac yn *Autocrat of All the Russias*. Dybenodd eisteddiadau y Gynnadledd; sefydlwyd Unbenaeth; ac o dan egwyddorion unbenaethol y mae Rwssia wedi bod yn griddfan o hyny hyd yn awr.

Cyn dyddiau Pedr Fawr, y mae yn ymddangos mai nid bob amser yr oedd y werin mewn cyflwr hyd yn nod i wrthryfela. Cyfyngid yr anfoddogrwydd, neu yn hytrach y mynegiad o hono, i'r dosbarthiadau uchaf neu y *boyars*, a'r dosbarth milwrol neu y *streltsi*, y rhai yn eu cydymgais am ffafr y llys a ddeuent yn aml i gydgyfarfyddiad, yr hyn yn fynych a ddiweddaid mewn tywallt gwaed. Y mae'n wir, er hyny, fod corff y bobl yn teimlo oddiwrth fradwriaethau eu huchafiaid, ac weithiau yn cymeryd mantais arnynt, fel yn nheyrnasiad y Czar Alexis, pryd yn yr olwg ar dlodi y wlad, annhrefn y Weinyddiaeth, a llygredd y swyddogaeth, y torodd eu hamynedd dros y terfynau. Codasant mewn gwrthryfel o dan lywyddiaeth Sténko Rázin, cymerasant Astracthan, ymsefydlasant yn y parthau de-ddwyreiniol, rhoddasant eu meistriaid i'r cleddyf, a pharasant ddychryn hyd yn nod yn Moscow ei hun; ond cyn hir gorchfygwyd Sténko Rázin trwy dwyll, cymerwyd ef yn garcharor, cafodd ei ddienyddio, a syrthiodd achos Rhyddid i lawr. Parwyd llawer o anfoddlonrwydd oddeutu yr un adeg trwy gyfodiad Ymneillduaeth yn yr Eglwys Rwssiaidd. Yn cael ei gynhyrfu gan ysbyrd diwygiadol, ymgymherodd y Patriarch Nikon â chywiro yr holl ffurfiwasanaeth eglwysig, yn argraffedig ac ysgrifenedig. Ar ol cymhariaeth ofalus gyda llyfrau yr Eglwys Ddwyreiniol fel yr arferid hwy yn Constantinople, a chyda'r hen gopiau oedd i'w cael mewn llyfrgelloedd mynachaid, pasiwyd penderfyniad gan y Cynghor Eglwysig, fod y llyfr newydd i gael ei dderbyn gan yr Eglwysi, a bod yr hen i gael ei losgi. Cododd hyn derfysg ymhlith y dosbarth mwyaf anwybodus o'r offeiriaid a'r werin, y rhai oedd yn anfoddlawn rhoddi i fyny ffurfiau a seremonïau eu tadau; y canlyniad fu gwrthryfel eglwysig a barhaodd am hir amser. Gwrthwynebodd y Raskolniks, neu yr Hen Gredinwyr, fel y gelwid pleidwyr yr hen drefn, hyd at farw; ac hyd y

dydd heddyw y mae y cwestiwn yn achos llawer o anghydfod gwleidyddol a chrefyddol. Amgylchiad arall a achosodd gythrwfi oddeutu'r un adeg, ydoedd anfoddlonrwydd y Streltsi, yr hwn hefyd a ddiweddodd mewn gwrthryfel. Y Naryshkins oedd mewn awdurdod yn y wladwriaeth ar y pryd; rhoddwyd amryw o honynt i farwolaeth gan y gwrthryfelwyr, y rhai mewn canlyniad a gawsant lawer o freintiau. Ymhen peth amser dofwyd eu cynddaredd gan Sophia, chwaer yr Ymherawdwr Pedr, a buont yn ufudd wasanaethwyr i'r Llywodraeth Ymherodrol hyd ymddiswyddiad Sophia o'r Rhaglafiaeth, a rhoddiad pob awdurdod yn llaw Pedr a'i bleidwyr, y *boyars*. O hyny hyd ddiwedd ei deyrnasiad, y mae y Pedr, a elwir yn Fawr, yn llywodraethu gyda grym haiarnaidd yn ol yr egwyddor unbenaethol, gan gymhwyso yn ol ei fympwy y *knout*, y fflangell, yr arteithglwyd, a'r fwyell, er dysgyblu holl ddeiliaid cyndyn ei deyrnas o bob gradd a dosbarth, i'r ufudd-dod a weddai i weision Autocrat! Ar farwolaeth Pedr I. yn 1725, gwnaethpwyd rhyw ledymdrech gan un blaid yn y wladwriaeth i sicrhâu cyfansoddiad gwleidyddol cyffelyb i'r un oedd yn llywodraethu Poland a gwledydd eraill; ond bu arddangosiad milwrol gan y *guard* Ymherodrol dan y Tywysog Mentchikoff yn ddigon i ddiffodi yr ymgais ac i osod Catherine I. fel rheolydd unbenaethol ar yr orsedd. Drachefn, ar farwolaeth Pedr II., gwnaethpwyd ymgais gan ddau bendefig o deulu y Galitsyns a'r Dolgorukoffs i gyfyngu gallu ac awdurdod y Goron; ond er iddynt lwyddo i roddi ammodau yn y cyfeiriad hwn ar yr Ymherodres Anna, torwyd hwy mor fuan ag y sicrhawyd ei gorseddffainc, a dedfrydwyd Volynski, un o aelodau y Cynghor, i gollu ei dafod a'i law ddê am gymaint ag awgrymu yr angenrheidrwydd am ddiwygiad, a chosbwyd amryw o'i gyfeillion am feiddio gwrando arno.

Yr ydym yn awr wedi nesu ymlaen hyd at y can' mlynedd diweddfaf, ond nid yw amgylchiadau y wlad nemawr dysgleiriach. Yn 1775, yr ydym yn cael y Count Panin, yr hwn fu am beth amser yn cynnrychioli Rwssia yn llys Sweden, gyda chynnorthwy Nathalie, gwraig yr Archdduc Paul, yn ffurfio cynllun Cyfansoddiadol, yn yr hwn y rhoddid hawliau y bobl yn llaw cynnrychiolwyr, ac un o amcanion pellach yr hwn ydoedd trefnu rhyddhâd y *Serfs*; ond bu Nathalie farw mewn modd ammheus, a syrthiodd y cynllun i'r llawr. Parhâodd Catherine II. a Paul I. i ddilyn llwybrau eu rhagflaenwyr; meddiennid yr olaf gymaint gan yr ysfa unbenaethol fel y dywedodd unwaith wrth ymwelydd o Ffrancwr, "Syr, nid oes boneddwr yn bod ond yr hwn y siaradwyf fi âg ef, ac ni pharhâ yn foneddwr ond cyhyd ag y byddwyf fi yn siarad." Terfynodd gwanc autocrataidd yr Ymherawdwr Paul mewn gwallgofrwydd, ac o'r diwedd—ac fe ddywedir, gyda chydysniad ei fab ef ei hun—rhoddwyd ef i farwolaeth yn ei dŷ ei hunan. Cyn ei esgyniad i'r orsedd, addawodd y mab, sef Alexander I., roddi siarter i'r bobl, ac aeth mor bell ag awdurdodi un Speranski i dynu allan gynllun o hono; ond mor fuan ag yr amlygodd Speranski ychydig o ysbryd diwygiadol, syrthiodd anfoddlonrwydd ei feistr arno, ac anfonwyd ef i dreulio y gweddill o'i oes mewn alltudiaeth,—felly mae'n debyg i fyfyrion ar y ffolineb o roddi ymddiried mewn tywysogion.

Un o ganlyniadau mawrion y rhyfel a derfynodd yn ngorchfygiad Napoleon Fawr, ydoedd rhoddi goleuni i'r milwyr Rwssiaidd a gymer-

odd ran yndde, a thrwyddynt hwy i'r bobl yn gyffredinol, ar sefyllfa y werin mewn gwledydd eraill, yn enwedig yn Germany a Ffrainc, a thrwy hyn agor y ffordd i ddadblygiad syniad cliriach a chywirach am ryddid a chydraddoldeb. Yr ydym yn cael i'r teimlad hwn wneyd ei ymddangosiad yn y ffurf o lenyddiaeth gynhyrriadol a chwyldroadol, ar yr hyn y cawn sylwi ymhellach ymlaen. Y mae'n wir nad oedd y teimlad hwn yn gallu cyrhaedd y dosbarthiadau isaf, oblegid nid oes creadur o ddyn mor druenus o dywyll ar wyneb y ddaear a'r *Russian moujik*.\* Gellir dyweyd am dano mewn aralleiriad o linell y Prif-fardd, "Sufferance,"—and suffering, gellir ychwanegu—"has been the badge of all his tribe;" ac nid ydys eto wedi cael ffordd i'w godi o'r sefyllfa y mae oesoedd o ddyoddef gormes wedi ei arwain iddi. O dan yr amgylchiadau hyn, ac yn ngwyneb y sierwydd y byddai i unrhyw amlygiad cyhoeddus o syniadau chwyldroadol neu ddiwygiadol gael ei ddilyn gan alltudiaeth neu ddienyddiad, nid rhyfedd fe allai i'r rhai mwyaf blaenllaw yn yr achos ymfurfio yn gymdeithas ddirgelaid, i'r dyben o gario eu cynlluniau allan mor ddiberygl ac effeithiol ag y byddai modd. Y mae yn debyg i'r syniad hwn wreiddio yn gyntaf yn meddyliau dau frawd, swyddogion yn y fyddin, o'r enw Mouravieff, y rhai a gymerasant atynt gyfaill o'r enw Pestel, ac o dan eu nawdd a'u cyfarwyddyd hwy y sefydlwyd *Teilung Gymdeithas Meibion y Fam-Wlad*. Methodd hon gyrhaedd un math o nôd, o herwydd diffyg cydgoradiad yn ei haelodau, ac fe allai na chlywsid am dani o gwbl oni bae iddi esgor ar bethau mwy; oblegid yn fuan sefydlwyd cymdeithas arall dan yr enw *Cymdeithas Daioni Cyhoeddus*, amcan yr hon ydoedd lleadaenu egwyddorion cyfansoddiadol. Amcanai wneuthur hyny trwy fyrhâu gallu y Goron a'i roddi yn nwyllaw y pendefigion, ond gadawai y bobl fel o'r blaen dan draed y tîrfeddiannwyr, &c. Methodd hon drachefn yn benaf trwy fod Alexander yn dal, neu yn hytrach yn barod i ddal, syniadau Rhyddfrydol pan welai unrhyw berygl. Ymhellach na hyn, yr oedd yn perthyn i'r Gymdeithas—yr hon oedd yn ddeublyg, neu yn ddwy adran, sef yr Ogleddol a'r Ddeheuol—rai aelodau oedd yn amcanu yn uwch na mesurau cyfansoddiadol o'r fath a nodwyd, a'r diwedd fu i ymwahaniad gymeryd lle, ac i'r dosbarth hwn, yn cael ei flaenori gan Pestel a Mouravieff, ffurfio cymdeithas newydd gyda rhyddhâd y *Serfs* fel ei harwyddair, a chydgyfranogiad tirol fel ei nôd. Yr oedd Pestel yn ddyn o alluoedd cryfion, ac fel hyn o dan ei gyfarwyddyd ef rhoddwyd cyfeiriad ac amcan i'r anfoddlonrwydd oedd yn llanw y wlad; trwy ei yni meddyliol, ei ddewrder, a'i barodrwydd i ddyoddef dros ei syniadau, ennillodd ddylanwad mawr, ac yn 1824 llwyddodd i raddau i uno adranau ei gymdeithas i'r amcan oedd ganddo mewn golwg, er iddynt, fel y dygwyrdda yn gyffredin yn Rwsia, fethu a chydweled gyda golwg ar y moddion i'w gyrhaedd. Penderfynwyd dwyn gwrthryfel oddiamgylch yn 1826; ond yn nechreu Rhagfyr, 1825, bu farw Alexander, ac achoswyd cyfnewidiad yn y cynllun. Yn ol gorchymyn yr Ymherawdwr cyn ei farwolaeth, newidiwyd yr olyniaeth o'r mab hynaf Constantine, i'w frawd Nicholas. Parodd hyn ansefydlogrwydd neillduol yn y Llywodr-

\* Enw neillduol a roddir ar yriedd y *sledge* Rwsiaidd, ond a ddefnyddir mewn modd mwy cyffredinol am y dosbarth isaf o'r bobl.

aeth, yr hyn a dueddai i ffafrio amcanion y gwrthryfelwyr. O herwydd hyn penderfynwyd codi baner gwrthryfel yn St. Petersburg ar y 26ain o Ragfyr; yr oedd Pestel ar y pryd yn y Deheudir, ond o dan lywyddiad Trubetzkoi, Ryleieff, Obolenski, Kahoffski, ac eraill, carwyd ymlaen y parotoadau yn egniol, er fod llawer o anghydweddiad, yn enwedig gyda golwg ar yr eithafion i ba rai y dylid myned. Amcanent ddychryn Nicholas nes peri iddo ymddiswyddo, yna cyhoeddi brenhiniaeth gyfansoddiadol, a ffurfio dau dŷ cynnrychioladol, y rhai oedd i dynu allan ngyllun y cyfansoddiad, ac i ethol brenin. Daeth boreu y chwyldroad o amgylch, a chydag ef gydgyfarfyddiad y gwrthryfelwyr â milwyr Nicholas, ac ar ol llawer o dywallt gwaed diweddodd y cythrwf yn ngorchfygiad y blaenaf. Cymerodd ymgais arall le oddentu yr un adeg o dan Pestel yn y Deheubarth, ond oddiar ddiffyg undeb rhwng y ddwy adran, terfynodd hwn drachefn mewn aflwyddiant; cafodd Pestel, Mouravieff, Ryleieff, a Kahoffski, eu dienyddio, ac anfonwyd y gweddill o'r gwrthryfelwyr i dreulio y gweddill o'u hoes yn Siberia, a chafodd Nicholas lonydd am dymmor i deyrnasu yn ol yr hen drefn unbenaethol.

Hyd yma, fel y gwelir, yr ydym wedi bod yn ymwneyd â chwyldroadau oedd yn amcanu gwella trefn y llywodraeth; ond yn ychwanegol at y rhai hyn, cymerodd amryw fradwriaethau le o natur fwy cymdeithasol, yn benaf mewn cysylltiad â'r *Serfs* neu y caethweision tirol. Un o'r cyntaf o'r rhai hyn, fel y crybwyllwyd yn barod, ydoedd y symudiad a gymerodd le dan Sténko Rázin yn 1670; ond er y llwyddiant am dymmor a ddilynodd ei ymdrechion, daeth gorchfygiad ar ei warthaf, a diweddodd y gwrthryfel, nid yn rhyddhâd y *Serfs*, ond yn nienyddiad dros un mil ar ddeg o honynt, heblaw can' mil arall a gyfarfyddodd â'u marwolaeth ar faes y rwydr. Can' mlynedd ar ol Rázin, cyfododd Pugatcheff, ac am ddwy flynedd achosodd fraw a dychryn i lywodraeth Catherine II. O dan ei faner ymunodd pob math o drueiniaid oedd yn dyoddef dan lymder caethiwed Rwssiaidd,—megys y gweision tirol, yr hen greidinwyr, y mwnwyr o'r gweithiau halen a metel, Pwyliaid alltudiedig, ac eraill; ac am amser, fel y sylwyd, yr oedd Pugatcheff a Rhyddid o fewn cyrhaedd gobaith goruchafiaeth; ond ar awr ddrwg cymerwyd ef yn garcharod gan Suwaroff a Panin, a dedfrydwyd ef i gael tori ei draed a'i ddwylaw, ac yna ei ddienyddio. Cymaint, modd bynag, oedd hoffder y bobl o hono, fel yr anghofiodd hyd yn nod y dienyddiwr ffurf y ddedfryd, a thorwyd ei ben yn gyntaf. Canlyniad y gwrthryfel hwn fu i ddeddf caethwasiaeth (*serfdom*) gael ei heangu trwy gymeryd i fewn y deheubarth, o ba le yr oedd y gwrthryfelwyr yn codi; ac fel hyn daeth bron holl boblogaeth Rwssia, oddigerth y pen- defigion, i gollu eu rhyddid personol,—yn gymaint felly fel pan y cyhoeddwyd eu rhyddhâd, y cafwyd fod dros ddwy ran o dair o holl drigolion Rwssia Ewropeaidd yn gaeth. Golygai hyn nid yn unig fod eu gwasanaeth yn ffioffietiedig i'w meistriaid, ond bod hyd yn nod eu personau a'u bywydau yn eiddo iddo. Yr oedd gan y meist'r hawl bendant ar ei *serf*, can belled a gallu ei anfon i alltudiaeth oesol neu i'r crogbren am unrhyw drosedd, dychymyngol neu weithredol.

Wrth geisio ymwneyd â chwestiwn y caethwasiaeth tirol, y mae Llywodraeth, neu yn hytrach Unbenaeth Rwssia, yn gorfod cyfarfod dau deimlad gwahanol, sef, y teimlad o ddymuniad i wrthweithio dylanwad

y gallu pendefigol trwy ryddhâu y caethion, a'r teimlad o ofn yn codi oddiar y posibilrwydd i'r caethion, os rhyddheid hwynt, fyned yn drech na'u rhyddhawr; a rhwng y ddau deimlad hyn y bu yr awdurdodau yn Rwssia yn petruso am flynyddau lawer. Yn nechreu y ganrif hon yr ydym yn cael gweision tirol y taleithiau gogledd-orllewinol yn cael eu codi i fod yn dir-amaethwyr eu hunain; ond yn y rhanau eraill o'r wlad nid oedd pethau nemawr gwell nag yn yr hen amser, ac nid oedd ond ychydig iawn o wahaniaeth rhwng sefyllfa y *serfs* a'r anifeiliaid oedd dan eu gofal. Pan ddaeth Napoleon a'i luoedd i fygwth Moscow, gorfodwyd Alexander I. i ymdeimlo â sefyllfa ei bobl. Yn ngwyneb y perygl oedd yn ei fygwth, ymostyngodd i ofyn eu hewylllys da a'u cymhorth, yr hyn, er fe allai fod hyn yn rhyfedd, a roddwyd iddo yn ewyllysgar. Y canlyniad fu i Napoleon orfod encilio dan amgylchiadau a gofr tra pery y son am ryfel a rhyfelwyr, ac i filwyr Rwsia ei ddilyn tua'r gorllewin, lle y dysgasant, fel yr ydys eisoes wedi sylwi, syniadau newyddion am ryddid gwladol a chymdeithasol. Meddyliwyd fod apeliad yr Ymherawdwr at ei bobl, a'u hatebiad teyrngarol hwythau iddo, wedi agor ei lygaid a'i galon; rhoddodd rhyw gymaint o gefnogaeth i'r symudiad Rhyddfrydol, ac aeth mor bell ag appwyntio pwyllgorau i ymchwilio i sefyllfa y *serfs*; ond yn fuan hauwyd drwgdybiau yn ei fynwes,—ofnai am awdurdod ei orsedd a sicrwydd ei olyniaeth, a dychrynai rhag sefydliadau rhyddfrydol a allai brofi yn deryn i'r gallu unbenaethol; a'r diwedd fu i'r cynllun cael ei roddi heibio. Wedi hyny cadwyd y *serfs* yn nyfnder caethiwed dan draed Nicholas, yr hwn ar ol gwrthryfel 1825 a gasai Ryddid a Rhyddfrydwyr gyda chas angerddol, er y byddai, fel y gormeswr dauwynebog ag ydoedd, ar adegau, yn estyn ambell i fraint iddynt, i'r dyben o ddychrynu y pendefigion, gan ofalu modd bynag am ei thynu yn ol drachefn pan fyddai yr amcan oedd ganddo mewn golwg wrth ei rhoddi wedi ei gyrhaedd.

Nid oes a fynom ni yn y fan hon â'r amgylchiadau a arweiniodd i ryfel y Crimea, nac ychwaith â chwrs y rhyfel; ond y mae ei ganlyniadau i Rwsia yn cyffwrdd yn agos â thestun ein hysgrif. Fel y mae yn wybyddus i bob darlennydd, terfynodd y rhyfel hwn yn gorchfygiad Nicholas a'i luoedd trwy uniad Galluoedd yn cael eu blaenori gan y Gallu mwyaf gwerinol yn Ewrop. Effaith naturiol y gorchfygiad ydoedd agor llygaid y Rwsiaid i ddiffygion llywodraeth unbenaethol, ac i fanteision a rhagorfreintiau llywodraethau mwy rhyddfrydol. Clywid swm marmur trwy'r holl wlad, ac yn nghanol anfodlonrwydd ac ansicrwydd gwladol o'r fath ddyfnaf, bu farw yr Ymherawdwr Nicholas. Dilynwyd ef ar orsedd Rwsia gan Alexander II., enw yr hwn a saif allan fel un o'r rhai mwyaf nodedig yn hanes y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Croesawyd ei esgyniad i'r orsedd fel gwawriad dyddiau gwell,—tybiwyd fod Rhyddid yn ymyl; ac am yspaid, ymddangosai fel pe cawsai y dybiaeth ei chwbl wirio. Rhyddhawyd y *serfs*, a gwnaethpwyd llawer o honynt yn dirfeddiannwyr. Symudwyd y rhwystrau oedd yn gwarafun ymdrafodaeth â gwledydd tramor trwy ostyngiad prisiau *passports*; diléwyd amryw ddulliau annynol o gosbi troseddwyr gwladol; sefydlwyd y Zemstvos, neu fyrdau cynnrychiol-iadol, i drin materion lleol; diwygiwyd yr athrofeydd a'r ysgolion; cyhoeddwyd gollyngdod (*amnesty*), trwy yr hwn y rhyddhawyd llawer o

garcharorion politicaidd; dygwyd i mewn welliantau gyda golwg ar y fyddin a'r llynges; mewn gair, newidiwyd gwedd a gwellhawyd ysbryd y ddeddfwriaeth trwyddi draw: ond eto nid yw anfoddlonrwydd y Rwssiaid y dydd hwn nemawr llai; yn hytrach y mae, yn ystod y pum' mlynedd ar hugain y mae Alexander wedi dal y deyrnwialen, wedi ychwanegu cryfder. Paham a pha fodd y mae hyn yn bod? Un o'r rhesymau mawr am y ffaith, yn ddiammeu ydyw, fod yr Ymherawdwr wedi estyn breintiau, nid yn gymaint o ryddfrydigrwydd ei galon ei hun, ag o orfodaeth amgylchiadau. Fel y sylwyd, y fath ydoedd y teimlad yn Rwssia ar ol gorchfygiad y Crimea fel yr oedd yn rhaid i'r Llywodraeth roddi ffordd i'r *public opinion*. Yr oedd yn rhaid gwneyd rhywbeth i leddfu y teimlad o anfoddlonrwydd y cyfeiriwyd ato. Yn lle estyn rhagorfreintiau etholiadol a llywodraethol i'r bobl yn gyffredinol—yr hyn o angenrheidrwydd fuasai yn dwyn rhyddhâd y caethion a lliaws o ddiwygiadau eraill oddiamgylch,—y mae yr Ymherawdwr yn dal i fyny egwyddor unbenaethol y Goron trwy estyn ei thrugaredd i nifer—lliosog, mae'n wir—o'r dosbarth gweithiol, gan ddysgwyl trwy hyn eu gwneuthur yn ufudd weision iddo. Ar y trydydd o Fawrth, 1861, cyhoeddwyd rhyddhâd y *serfs* trwy'r taleithiau Rwssiaidd, a gwnaethpwyd dwy filiwn ar hugain a hanner o ddynion yn rhydd. Ond yr oedd amser maith yn angenrheidiol er rheoleiddiad y berthynas newydd rhwng y gweision a'u meistriaid. Y fath ydoedd ansicrwydd teimlad y Llywodraeth yn gystal a'r teimlad cenedlaethol ar y mater, fel, meddai un o haneswyr yr amgylchiad, fod yn amamheus pa un ai estyn bendith neu gyhoeddi mellidith ydoedd y gwaith oedd yn cael ei wneyd. Bai mawr y mesur ydoedd nad oedd yn cyrhaedd yn ddigon pell; cyfranogai yn ormodol o ysbryd gwyliadwrs, petrusgar, ac amamheus yr Ymherawdwr a'i gynghorwyr, ac fel y cyfryw methodd foddloni y naill ochr na'r llall. Barnai y *serfs* fod blynyddau y trawsnewidiad o sefyllfa eu caethiwed i sefyllfa o ryddid, yn faich anhawdd ei ddwyn, a bod diffyg rhoddiad meddiannaeth iddynt yn y tir ar yr hwn y preswylent, yn anghyfiawnder oedd yn gorbwysio hyd yn nod eu rhyddid. Crëwyd drwgdeimlad ynddynt gan rai o'u harweinwyr; cododd nifer o honynt mewn gwrthryfel i'r dyben o hawlio cyflawnach mesur; ond y diwedd fu, fel arfer, eu dysgu i beidio grwg-nach trwy offerynoliaeth y *knout* a'r bidog, neu eu hanfon i chwilio am ryddid byd arall oddiar astellod y dienyddle. Dilynwyd hyn drachefn gan y lladdfa dorcalonus yn Warsaw, a rhanau eraill o Poland, yr hyn a gyfansodda y ddalen dduaf yn hanes yr Ymherawdwr goreu fu gan Rwssia erioed,—un, yn ol ysgrifenydd diweddar, a all hawlio fod ei ddwylaw yn lanach nag odid un penadur cyfansoddiadol oddiwrth ystaen creulondeb personol. Y gyfundrefn unbenaethol sydd yn gyfrifol, nid yr Ymherawdwr, am yr hwn y gellir dyweyd nad esgynodd i'r orsedd un mwy parod i fyw mewn heddwch â phawb, pe gadawai amgylchiadau iddo wneyd hyny. Ond y mae amgylchiadau wedi bod yn drech nag ef, ac fe allai fod yn anhawdd cael dyn mwy annedwydd heddyw ar wyneb daear na'r Ymherawdwr Alexander! Ar ol cyflafan Warsaw, y mae uchelgais ei bobl yn ei arwain i ad-drefnu ei fyddin ar raddfa sydd wedi gwneyd ei wlad am flynyddoedd yn fygythiad parhâus i heddwch Ewrop. I'r dyben o allu ei chodi i fyny i'r cryfder penodedig,

y mae yn gorfod estyn deddf y *Conscription*, ac y mae y bobl newydd-ryddedig yn cael eu cadwyno gyda llyffetheiriau newyddion. Heblaw hyn, y mae yr anfoddlonrwydd wedi cael ei ddyfnhau trwy attaliad hollol ar ryddid y wasg,—trwy osod rhwystrau ar ffordd addysg gyffredinol ac erlidigaeth efrydwyr athrofaol, y rhai gan mwyaf sydd yn dra agored i syniadau rhyddfrydol,—trwy lygriad digyffelyb yr holl swyddogaeth wleidyddol a milwrol,—trwy yr ymgeis a wnaethpwyd i figu allan o fôd iaith a chenedlgarwch y Pwyliaid, &c.,—a thrwy yr erlidigaethau crefyddol, i'r rhai y mae pob enwad, oddigerth yr hon a elwir yr iawngred, yn ddarostyngedig.

Dyma'r sefyllfa a roddodd fôd i'r ofnadwyon a barodd ddychryn trwy holl wledydd gwareiddiol y byd, ac sydd wedi gwneuthur Nihiliaeth a Nihiliaid yn enwau o arswyd, nid yn unig yn Rwssia, ond trwy holl Ewrop. Gymaint oedd y pwysigrwydd a gysylltid â'r symudiad chwyldroadol newydd fel y gosodwyd bron bobpeth o'r neilldu er cael mantais i ol-rhain hanes ei ddechreuad a'i ddadblygiad. Ymdriniwyd yn ddisgredig ar y mater ymhob newyddiadur Ewropeaidd; ysgrifenydwyd traethodau afrifed, ynghyd a lliaws o gyfrolau trwchus, i'r dyben o'i benderfynu; ond rywfodd neu gilydd y mae yn rhaid addef nad ydym eto wedi cyrhaedd syniad hollol glir am ffurfiad ac amcan y gymdeithas (os cymdeithas hefyd) ryfedd hon. Wrth ymwneyd â sefyllfa bresennol Rwssia, y mae yn ofynol cofio fod dwy blaid fawr yn profesu amcanu am ddiwygiad cenedlaethol, sef y Slavophiliaid, cyfeillion y werin, a'r Nihiliaid. Y mae y ddwy blaid yn wrthwynebol i'r Llywodraeth; ond ceisia y naill gyrhaedd ei hamcan trwy ddinystriad chwyldroawl, trwy ddefnyddiad pob moddion cyfreithlawn ac anghyfreithlawn i'r perwyl hwnw, a thrwy gyflawniad erchyllerau ac ofnadwyon o bob math er symud ymaith y rhwystrau fo ar ei ffordd; tra y mae y llall yn ymgynyng am welliantau gwleidyddol trwy ddiwygio y Cyfansoddiad ac ennyn cenedlgarwch a gwladgarwch y bobl, a thrwy ddal i fyny awdurdod y wladwriaeth mewn cyferbyniad i'r awdurdod unbenaethol. Y Slavophiliaid sydd yn gyfrifol am y rhyfel diweddar rhwng Twrci a Rwssia. Rhyfel y bobl mewn gair, ac nid rhyfel yr Ymherawdwr ydoedd, a dygwyd ef oddi-amgylch gan y blaid a enwyd trwy eu cefnogiad o'r syniad am uniad cyffredinol y *Slavs*. Y Slavophiliaid sydd trwy y blynyddoedd wedi bod yn gweithio yn egniol er Rwsseiddio (mewn dull o siarad) Poland, a thaleithiau Germanaidd Rwssia. Yn ngeiriau Tcherkasski, un o'i harweinwyr, eu bwriad ydyw, "dadwreiddio y gwareiddiad Lladinaidd, a rhoddi yn ei le wareiddiad Slavonaidd." Pa mor anghyrhaeddadwy yw y syniad hwn a welir yn eglur yn y ffaith fod pwyllgor o'r gwahanol ganghenau o'r Slavs—o Bohemia, o Hungary, o Servia, ac o Galicia, &c.—ar ol ymgyfarfod yn ddiweddar yn Moscow i ymgyngori â'u brodyr Rwssiaidd, wedi gorfod syrthio yn ol ar yr iaith Germanaidd fel cyfrwng dealltwriaeth, gan nad oedd yn bosibl iddynt ddeall eu gilydd yn y gwahanol ganghemeithoedd Slavonaidd a ddefnyddid yn eu plith. Y mae penboethiaid sydd yn breuddwydio y gellir uno dosbarthiadau mor amrywiol, symud ymaith rwystrau gwleidyddol a daearyddol, a ffurfio *type* newydd o wareiddiad Slavonaidd i fod yn gynllun gwareiddiad y dyfodol, wedi llamu mor bell o gyfeiriad y posibl fel mai gyda yr anhawser mwyaf y dygir hwynt o fewn pwys a mesur synwyr cyff-

redin. Ac eto, dyma y dynion yn ddiaw a gynneuodd y goelcerth a fu o fewn ychydig i yru Ewrop yn wenfflam. Am y tro cyntaf fe allai yn ei hanes, y mae y Llywodraeth Rwssiaidd yn cael ei gwrthio i ryfel gan symudiad poblogaidd anwrthwynebol. Y mae yn ddiawmeu fod dymuniad traddodiadol am feddiannu Constantinople, appeliadau taerion y blaid genedlaethol neu y *Panslavists* ar ran eu cydhiliogaeth, ynghyd a phenboethni yr Eglwys Ddwyreiniol, wedi ymuno i ennyn teimladau uchelgeisiol y genedl. "Y mae bywyd Rwssiaidd," meddai un o arweinyddion y blaid, "wedi derbyn ystyr ac arwyddocâd newydd. Yr unig ffordd i'r bywyd hwn ennill ffurfiau newyddion yw trwy iddo ymestyn a chymeryd i mewn fywyd ad-grynhoawl *Slavdom*. Trwy hyn yn unig y gall Rwssia ennill y gallu angenrheidiol i ladd elfenau y Rhufeiniaeth a'r Germaniaeth sydd wedi ymosod arni, ac adeiladu gwrthglawdd a geidw draw y symudiad Dwyreiniol ar ran Germany, yr hwn sydd ddwbl beryglus ar ol buddugoliaethau Sadowa a Sedan." Fel y mae y byd erbyn hyn yn gwybod, llusgwyd yr Ymherawdwr a'i Lywodraeth i ryfel, a thrwy hyn rhoddwyd dyrnod a all brofi yn farwol i'r awdurdod unbenoethol. Yn lle y buddugoliaethau gogoneddus a brophwydwyd gan y *Panslavists*, y mae milwyr Rwssia yn cael eu dal mewn *check* gan y gelynyddion a ddiystyrasant, a hyn nid oddiar un diffyg yn ffyddlondeb na dewrder y milwyr eu hunain, ond oddiar ddiffygion o du y cadlywyddion,—aelodau gan mwyaf o'r teulu Ymherodrol. Priodolwyd methiantau dechreuol yr ymgyrch yn gyhoeddus i'r rhai hyn, a daliwyd hwy yn gyfrifol ger bron y wlad. Pan ymhen amser y trodd buddugoliaeth o du Rwssia, tafwyd y wlad drachefn i siomedigaeth oblegid yr hyn yr edrychid arno fel bychander yr ennill; a phan ddaeth y *Treaty of Berlin*, y mae y *Panslavists*, nid yn unig yn cael eu siomi, ond yn rhoddi ffordd i'w siomedigaeth, a thrwy enau un o'u llefarwyr yn dyweyd nas gallasai gelyn penaf Rwssia ddyfeisio telerau mwy dinystriol i'w heddwoch a'i llonyddwoch cartrefol. "Awduron y *Treaty* hwn," meddai yr un gŵr mewn man arall, "ydyw y gwir Nihiliaid—dynion i'r rhai nid oes na Rwssia, na chenedlgarwch Rwssiaidd, nac Eglwys uniawngred yn bodoli o gwbl." Y mae canlyniadau y rhyfel yn disgyn, nid ar y rhai a'i dygodd oddiamgylch, ond ar Lywodraeth nas cefnogodd er nad attaliodd ef, "yr hon," meddid, "oedd yn amddifad o'r gwrolder a'r cymhwysder i'w ddechreu yn yr amser priodol, i'w gario ymlaen gyda'r egni priodol, nac i'w ddiweddu yn briodol pan oedd amgylchiadau yn gofyn am hyn." Yn bresennol y mae *Panslavism* o dan lèn, ond y perygl parhâus ydyw i'r Llywodraeth, yn ngwyneb anfoddlonrwydd cartrefol, gymeryd ei themtio i dderbyn rhai o gynlluiau M. Katkoff o'r *Moscow Gazette*, a'r *Mission Society of Benevolence*, fel y gelwir y Pwyllgor Slavonaidd, i'r dyben o gadw sylw y genedl ar bethau tu allan i'w chylch hi ei hun.

On dalen dduaf hanesiaeth Rwssia yn ddiawmeu yw yr hyn a elwir NIHLIAETH. Y mae yn anhawdd d'od o hyd i wir ystyr y gair; ond dywedir mai M. Ivan Tourguéneff sydd yn gyfrifol am dano, ac iddo gael ei roddi ar y cyntaf fel math o lysenw, a'i dderbyn fel arwyddair—yn debyg i'r modd y daeth *Sansculottes* a *Gueux* i gael eu harfer yn Ffrainc—gan broffeswyr chwyldrodaeth o'r fath fwyaf dinystriol. Fel hyn y mae Mr. Grant Duff, yn un o'i *Political Studies*, yn ei ddarnodi:



"Nihiliaeth sydd athrawiaeth wedi ei gwneyd i fyny o olygiadau nifer o athronwyr a damcanwyr Gorllewinol, y rhai a gamddefnyddir ac a gamgyfaddasir i gylch bywyd cyffredin, yn lle cael eu cadw o fewn y cylch gwyddonol er doeth-ymbarotoad gogyfer â'r dyfodol. Cymerer cynifer o ronynau o Comte, rhyw gymaint o Lasalle, cynifer o Darwin, a rhyw gymaint o Buckle (o waith yr hwn y mae o leiaf bump o gyfieithiadau Rwssiaidd). Cymysger hwynt âg elfenau anghydwedol eraill yn y fath fodd ag a barai i'r dynion a enwyd frawychu ac arswydo; twymner hwynt i bwynt berwedol gan dân hunandybiaeth a brwdfrydedd ieuentyd; a defnyddier y cymysgedd fel prif foddion cynnaliaeth efrydwyr amhrofedig, gan gofio cadw allan yn ofalus o'u lluniaeth holl ddyllanwadau yr amser a fu (y rhai yn gyffredin a gyfrifir fel gwagbethau dychymyg ac ofergoeledd). Yr effaith fydd Nihiliaeth yn ei wir ystyr, a'i ystyr waethaf. Ond fel y mae llawer o bethau tra chymeradwy yn ysgrifeniadau yr hen athronwyr, o flaen y rhai y mae y Nihiliaid yn barod i blygu, y mae llawer o bethau hefyd mewn Nihiliaeth a dderbynia yn gynt neu yn hwyrach ragor o gydnabyddiaeth nag sydd iddynt yn awr; pan y bydd y gormodedd afuniaiidd i'r hyn y rhoddodd fôd wedi cael ei anghofo." Gwelir oddiwrth y dyfyniad hwn afresymoldeb daliadau y Nihiliaid. Ond nid yw yr afresymoldeb, rhaid cofio, yn rhoddi i ni un math o ddirnadaeth am y gefnogaeth a roddir iddynt. Y mae yn amlwg oddiwrth hanes y blynyddoedd diweddfaf yn Rwssia fod gormesiaeth oesoedd wedi cynnyrchu yn meddyliau dosbarth a all fod yn dra lliosog sefyllfa yn yr hon y dabblygir athroniaeth anfoddlonrwydd, anobaith, a dinystr, yn yr hon yr edrychir ymlaen at ddifodi yr hyn sydd, ac y llwyr anghofir y dyfodol. Y mae rhyw ddrwgdeimlad o'r fath wedi ac yn bod bron ymhob gwlad Ewrop-ëaidd: nid yw y *Socialists* Germanaidd, y *Communistiaid* Ffrengig, y *Camorra* Italaidd, na'r Ffeniaid Gwyddelig, ond canghenau o gorrif mawr anfoddloniaid y byd. Y mae y rhai hyn, er hyny, yn meddu ar amcanion a chynlluniau sydd yn eglur os nad yn rhesymol; ond am y Nihiliaid, neu o leiaf y dosbarth eithafol o honynt, yr unig syniad penodol o'u blaen yw, fod pob peth a'r sydd yn bod yn bydredig, ac mai yr unig ffordd i gael gwared o hono yw trwy lwybr hollol ddiddymiant.

Y mae awdwr galluog *Russia Before and After the War* yn dangos mewn modd dyddorol mai dau o'r pethau rhyfeddaf ynglŷn â hanes *radicaliaeth* ddiweddar yn Rwssia yw fod ei brif broffeswyr i'w cael ymhlith disgynyddion rhai o'r teuluoedd mwyaf urddasol, a bod ei ledaeniad yn dibynnu i raddau mawr ar ymdrechion y rhyw fenywaidd. Os teflir golwg dros rai o'r enwau mwyaf adnabyddus mewn cysylltiad â'r symudiad, ceir ar unwaith weled gwirionedd y gosodiad cyntaf. Y mae perthynasau Michael Bakounin, prif ledaenydd os nad sefydlydd Athrawiaeth Diddymiant, yn cael eu hadnabod yn awr fel *Adjutant Generals* a *Marshals of Noblesse*. Y mae y Tywysog Alexander Urossoff, prif amddiffynydd Netchaijeff ac eraill o'r blaid, yn gefnder i Ganghell-ydd yr Ymherodraeth. Y mae y Tywysog Michael Krapotkine yn frawd i'r Llywodraethwr Krapotkine o Kharkoff, a lofruddiwyd gan y Nihiliaid. Yr oedd Ogareff, un o gyfeillion agosaf Herzen, yn hanu o deulu pendefigaidd, ac yn fab i seneddwr; tra yr oedd Rostovzoff, un o ohebwyrr y *Kolokol* (Y Gloch), a'r hwn a garcharwyd o herwydd ei

ysgrifau, yn fab i'r *Adjutant General* Jacob Rostovzoff. Y mae y Ty-wysog Peter Dolgorouki, awdwr un o'r llyfrau mwyaf miniog a ysgrif-enwyd erioed yn erbyn yr Ymherodraeth Rwssiaidd, yn hawlio disgyriad o Rurik ei sefydlydd; ac y mae cyndadau Ivan Golowin i'w cael yn rhestr y pendefigion bum' can mlynedd yn ol. Y mae Alexander Herzen, yr hwn o bawb, fe allai, sydd fwyaf cyfrifol, nid yn gymaint am Nihiliaeth, ond yn sicr am syniadau chwyldroadol yr oes, yn fab naturiol i bendefig uchel, ac yn berthynas agos i un o lysgenhadon Rwssia. Y mae y rhai hyn, un ac oll, wedi eu dwyn i fyny yn ol traddodiadau mwyaf cul yr hen drefn, gan rieni o'r dosbarth mwyaf ceidwadol, ac ymhlith cyfoedion sydd hyd y dydd heddyw yn dal i fyny egwyddorion caethwasiaeth tirol a gormesiad y bobl. Diffygion mawr Rwssiaid o bob dosbarth yw, anghymhwysder i waith cyson a threfnus, rhoddi ffordd i hunanewyllys a hunanfodhdhâd, ac adgasrwydd at bob math o awdurdod allanol. Y mae y diffygion hyn yr un mor ganfyddadwy ymhlith y Radicaliaid mwyaf eithafol ag ydynt ymhlith pendefigion ac urddasolion yr hen drefn. Y mae hanes bywyd Herzen yn hynod o addysgiadol ar y pen hwn, ac yn rhoddi cyfrif am lawer o'r neillduolion sydd i'w gweled ymhlith eraill o'i gyfoedion a'i ddilynwyr. Yn ei fywgraffiad, y mae Herzen wedi tynu darluniau bywiog o'i berthynasau a'i gydnabod, y rhai sydd yn dra gwerthfawr er cyrhaedd syniad clir am fywyd ac arferion Rwssiaidd. Oddiwrth y gwaith hwn, yn gystal ag oddiwrth adroddiad arall o'r un amgylchiadau a ysgrifenydd o gyfeiriad tra gwahanol gan Tatjana Passek, un o berthynasau Herzen, yr ydym yn cael fod y dosbarth o'r hwn y cyfododd y chwyldroadwyr yn hollol amddifad o unrhyw syniad am ddyledswydd a moesoldeb, a bod eu drygau wedi llygru eu holl ddisgynyddion yn gyffelyb,—hyd yn nod y rhai hyny o ddaliadau ac opiniynau hollol wahanol iddynt. Y mae amgylchiadau teuluaid Herzen—y rhai gyda llaw a ddesgrifir yn ddigél ganddo ef ei hun—yn profi hyn; ac er nas gellir dyweyd fod y fath hanes yn iachus, y mae yr amgylchiadau eu hunain mor arddangosiadol o sefyllfa y bendefigaeth yn Rwssia fel fe allai y maddeuir i ni am dafu brasolwg drostynt. Oddeutu can' mlynedd yn ol, preswyliai yn Moscow *boyar* o'r enw Alexei Jakovleff, gŵr cyfoethog a phendefigol, yn meddu dwy ferch a phedwar o feibion, hiliogaeth y rhai sydd heddyw, er yn lliosog, gan mwyaf yn ddiennw. Y mae yr hynaf, Peter, yn rhedeg ymaith gyda merch ieuanc o athrawes, genedigol o Switzerland, yr hon a ddaeth yn fam i amryw ferched, un o ba rai a briododd M. Kutchsin, ac ymhen amser a roddodd enedigaeth i'r Tatjana Passek a grybwyllwyd yn barod. Y mae yr ail fab, Alexander, ar ol derbyn "ei ran o'r da," yn ymsefydlu ar ei etifeddiaeth, yn camdrin ei weision yn ddychrynlyd, ac yn hel o'i gwmpas gynifer o ordderchwagedd ag a dafai *harem* y Sultan ei hun i'r cysgod. Mab i'r Alexander hwn ydoedd y *chemist* a ddesgrifir gan Griboyedoff yn y chwareugerdd, "Tristwch sy'n d'od o deimlad" (*Gôre ot umâ*), yr hwn a ddarlunir fel yn ymneillduo oddiwrth y byd, ac yn byw mewn unigedd meudwyr yn ei balas. Y mae Ivan, y trydydd mab, ar ol treulio rhai blynyddoedd mewn gwasanaeth milwraidd yn Germany, Ffrainc, ac Italy, yn dychwelyd i Moscow yn 1811, a chydag ef fel morwyn (*coffee-server*) ferch o'r enw Henriette Haag, yr hon a ymddug iddo ddau fab, un o ba rai ydoedd

Alexander Herzen. Yn y pedwerydd mab, Leo, yn unig y ceir ychydig nodweddion cymeradwy; bu ef fyw bywyd gweddol foesol a pharchus. Fel y gellid tybio, yr oedd trefniadau teuluaid Ivan Jakovleff ymhell o'r hyn y dylasant fod; ac nid rhyfedd fod Herzen ieuanc, er ar achlysuron yn cyfeillachu â'r uchaf yn y tir, wedi ei ddwyn i fyny gyda'r syniadau mwyaf anghywir am rinwedd a rhyddid. Er i'w tad—os teilwng rhoddi iddo y fath enw cysegredig—ofalu am eu gosod ar y rhestr bendefigol, nid yw yn ymddangos iddo, ac yn wir nis gellid dysgwyl i'w fath wneyd hyny, dalu un sylw i'w haddysg foesol, yr hon o dan yr amgylchiadau oedd y waethaf oedd yn bosibl; yr oedd parch i foesoldeb a syniadau crefyddol allan o'r cwestiwn; ac erbyn ei fod yn dair ar ddeg oed yr oedd Herzen wedi colli y teimladau defosiynol y dywedir oedd yn ei feddiannu pan yn blentyn, ac yn ymfalchïo gymaint yn y ffaith o'i fod yn rhyddfedlyiwr nes peri i'r hen offeiriad teuluaid—oblegid cedwid offeiriad yn nghanol yr holl annuwoldeb—ei gyflwyno i "dad y celwydd" fel enaid colledig. Yr oedd ei foesoldeb, wrth gwrs, yn dra diffgiol, oblegid ni chafodd erioed ei ddysgu am ddyledswydd, am awdurdod, am y ddeddf foesol, nac am ufudd-dod iddi, ar wahan i fympwy a hunan-ewyllysiant; ac eto fe ddywedir wrthym fod ganddo linellau prydferth yn ei gymeriad yn ychwanegol at alluoedd meddyliol cryfion; meddai gydymdeimlad tyner â beichiau ei gyd-dynion, adgasrwydd at bethau isel a brwnt, a chasineb at yr anghyfiaunder a ddangosid at y *serfs* ac eraill yn ngwasanaeth mawrion y tir. Ymroddodd i rodio llwybrau dysg yn hytrach na rhedeg ar ol gogoniant milwrol, a phan yr oedd ei gyfoedion yn ymfeddwi ar yr hyn a elwir yn bleserau y byd, ymbriododd â geneth dlawd rinweddol o gyfnither iddo, ac ymroddodd yn nghymdeithas rhai o gyffelyb ysbryd i ddadleu dros iawnder a rhyddid y bobl, yr hyn a'i dygodd yn foreu i'r anrhydedd o alltudiaeth! Ond, ysywaeth, dros y cyfan yr oedd ystaen y drygau a etifeddodd, a'r drygau a gynnyrchodd ei ddygiad i fyny ynddo. Yr oedd mor druenus o goegfalch fel nas gallai ddal y feirniadaeth fwyaf tyner; cwerylai â'r wraig a garai ac â'i gyfeillion mwyaf mynwesol, yr hyn drachefn a barai iddo ymollwng i afradlonedd a meddwod. Yr oedd yn fyr o'r yni a'r penderfyniad angenrheidiol i gario gwaith mawr i derfyniad boddhaol; a boddlonai ef a'i gyfeillion ar hunan-edmygedd yn hytrach nag ymdrechu ennill parch ac edmygedd y rhai hyny a amcanent ryddhâu. Ar yr un pryd gadawodd Herzen, trwy ei ysgrifau a moddion eraill, effaith sydd eto yn parhâu i ymddad-blygu yn yr oes a'i dilynodd. Ffatrai Herzen y syniad *Panslavaidd*, a dymunai weled Constantinople yn brifddinas a chanolbwynt ymherodraeth Slavonaidd. Nid yw y syniad hwn mor dderbiniol ymhlith y mwyafafri chwyldroadol; a chiliodd ei ddylanwad yntau i raddau mawr o flaen dylanwad Bakounin, yr hwn mewn gwirionedd yw sefydlydd Nihiliaeth fel yr edrychir arno yn awr.

Y mae Michael Bakounin, fel y sylwyd, yn disgyn o deulu urddasol o ddoesbarth y *boyars*. Ganwyd ef yn Nhalaeth Twer yn 1814, a dygwyd ef i fyny gogyfer â gyrfa filwrol. Dangosodd yn foreu ysbryd anghyd-naws âg ufudd-dod i reolau milwrol, yr hyn a rwystrodd ei gynnydd a'i ddyrchafiad fel swyddog, ac a barodd iddo ymneillduo o'r fyddin pan yn ddwy ar hugain oed. Ymsefydlodd yn Moscow, lle yr ymunodd â

chymdeithas o wfr ieuainc, y rhai a ymroddent i astudio athroniaeth Hegel, "yr hon," meddai Herzen, un o flaenoriaid y gymdeithas, "sydd yn hanfodol gymdeithasol (*socialistic*) o ran egwyddor, ac yn gwneuthur dynion yn rhyddion mewn ffordd nas gall un ddysgidiaeth arall, oblegid nad yw yn gadael cymaint ag un gareg yn y gyfundraeth Gristionogol heb ei dymchwelyd." Yn 1841, yn y gobaith, mae'n debyg, o dd'od o hyd i ddeuparth o ysbryd yr athronydd Germaidd, yr hwn, gyda llaw, oedd wedi marw er ys rhai blynyddau, y mae Bakounin yn myned i Berlin, lle y mae yn dyfod i gydnabyddiaeth â Tourguéneff y nofelydd. Yno y mae yn dychrynu ei gyfeillion cymedrol trwy yr ysgrifau eithafol y mae yn anfon i'r *Jahrbücher*, dan y ffugenw Jules Elizard. Yn un o'i erthyglau y mae yn cyhoeddi fod y Gristionogaeth a fu wedi ei lapio ynghyd, a'i gwneyd yn droedfainc i nefoedd yr amseroedd diweddaraf; fod diwedd i fod ar attaliad y ddynoliaeth i'r baradwys ddaearol; a bod yr ymdrech cyffredinol i ysgwyd ymaith yr hyn a fu yn arwydd fod cyfnod newydd ar ddechreu. "Ai ni ddarllenasoeh," meddai wrth amddiffynwyr cyfryngiad, "y geiriau cyfriniol, Rhyddid, Cydraddoldeb a Brawdgarwch (*Liberté, Egalité, et Fraternité*) ar deml Rhyddid y Chwyldroad Ffrengig, ac oni wyddoch, ac onid ydych yn teimlo eu bod yn arwyddo hollol ddiddymiant cymdeithas a gwleidyddiaeth fel y maent yn bresennol? . . . Boed i ni roddi ein hymddiried yn Ysbryd Deall, yr hwn sydd yn dinystrio ac yn diddymu, am mai Ef yw ffynnonell ddihsbydd a byth-greol pob bywyd. Yr un, felly, yw llawenydd dinystr a llawenydd creadigaeth." Fod y baldorrd a gynnwysir yn y dyfyniad hwn yn cael lle yn un o brif gylchgronau Germany, ac yn cael ei ystyried fel pwynt uchaf doethineb athronyddol a gwleidyddol, ydyw un o'r ffeithiau rhyfedd yn hanes dadblygiad Nihiliaeth. Derbyniwyd ef, modd bynag, gyda mawr gymeradwyaeth gan ddynion ieuainc o deimladau poethion; edmygid y *bombast* fel gwirionedd argyhoeddiad, a'r nwyd am ddiddymiant fel gwrolder cymeriad; ac nid rhyfedd i Bakounin ymfalchio a myned i osod deddfau i lywodraethu dadblygiad diwylliant gwleidyddol a chymdeithasol cyn iddo o'r bron ddeall fod y fath bethau yn bod. Ar ol talu ymweliad â Dresden, a dysgu, meddai ef, gymaint ag oedd gan Germany i'w dysgu iddo, yn 1844 y mae yn myned i Paris, lle y mae yn ymuno â Proudhon, a Louis Blanc, a chwyldroadwyr eraill oedd ar y pryd yn cydfradwriaethu i ddimchwelyd y Frenhiniaeth Gyfansoddiadol yn Ffrainc. Y mae Llywodraeth Rwsia yn ei ddrwgdybio, yn ei wyllo, ac o'r diwedd yn 1847, am draddodi araeth chwyldroadol yn erbyn y Czar, y mae Nicholas yn cael gan Lywodraeth Ffrainc ei alltudio. Yn 1848 y mae y chwyldroad Ffrengig yn ail gyfodi ei obeithion; aeth yn ol i Paris, ond ni chafodd y croesaw a ddymunai gan ei hen gyfeillion. Am hyny aeth i Prague, lle y bu yn brysur wrth y gwaith o hau hadau gwrthryfel ymhlith ieuencyd y lle; y mae yn gorfod dianc oddiyno i Dresden, lle y bu â'i holl egni yn ffafrio gwrthryfel 1849. Modd bynag, cymerwyd ef yn garcharor gan y milwyr Prwssiaidd yn agos i Chemnitz, ac ymhen amser trosglwyddwyd ef i drugaredd Nicholas, yr hwn a'i rhoddodd i gadw yn nghelloedd y Schlüsselburg islaw lefel yr afon Neva, lle y bu yn dihoeni hyd 1856, pryd y gollyngwyd ef o'r carchar ar esgyniad yr Ymherawdwr presennol i'r orsedd, ac yr anfonwyd ef i alltudiaeth:

yn nwyreinbarth Siberia. Bu yno hyd 1859, pryd y cafodd genad i fyw yn nhiriogaeth yr Amoor, ac y cymerodd fantais ar y caniatâd i ddianc i Japan, ac oddiyno i'r Unol Daleithiau, o'r lle y cyrhaeddodd Lundain, lle yr ymunodd â'r alltudion gwleidyddol sydd ar gael trwy'r blynyddau yn nghymydogiaeth Soho a Leicester Square. Yma y pryd hwnw yr oedd Ogareff a Herzen, yr hwn oedd yn golygu y *Kolokol*, cyhoeddiad a ddygid allan, os nad ydym yn camgymeryd, gyda phamphledau a gweithiau chwyldroadol eraill, o ryw wasg anadnabyddus tua'r Caledonian Road. Perthynai llawer o ddylanwad i'r *Kolokol* ymysg rhai dosbarthiadau, ond parodd syniadau eithafol Bakounin i'w gyfeillion goreu gefnu arno; a thrwy ddadleu dros doriad pob cysylltiad â chrefydd, diwygiad, a threfn, aeth y *Kolokol* yn organ Nihiliaeth, yr hyn yr oedd yn bell o fod ar y dechreu. Symudodd Bakounin a Herzen i Switzerland, lle y bu yr olaf yn gystal â'r *Kolokol* farw, ond nid cyn i Bakounin dori pob cysylltiad âg ef. Yn 1867 y mae Bakounin yn aelod o'r *Internationale* ac o'r *League of Universal Peace*, dwy gymdeithas chwyldroadol o ddylanwad eang—y gyntaf o ba rai sydd yn cyfrif ei haelodau wrth yr ugeiniau yn y wlad hon; ond mor eithafol oedd ei olygiadau fel y mae hyd yn nod y rhai hyn yn gorfod ei ddiaelodi. Rhydd y dyfyniad canlynol o un o'i weithiau reswm digonol am hyn, a dengys ymhellach yr hyn yw Nihiliaeth yn ol ei sefydlydd:—

Frodyr (meddai), yr wyf fi yn d'od i gyhoeddi Efyngyl newydd, yr hon sydd i dreiddio i bellerau y byd. Rhaid dinystrio yr hen fyd a chyfodi un newydd. Rhaid sathru allan yr Anwiredd a gwneyd ffordd i Wirionedd. Ein gwaith ni yw lladd yr Anwiredd, ac i wneuthur hyn rhaid dechreu gyda'r dechreuad. Yn awr, dechreuad pob celwydd sydd wedi sathru ar y ddynoliaeth yw y syniad am Dduw. Am gannoedd o flynyddoedd y mae brenhinoedd ac offeiriad wedi llenwi calonau dynion â'r syniad fod Duw yn rheoli y byd: y maent hefyd wedi dyfeisio syniad am fyd arall yn yr hwn y mae eu Duw yn cosbi â phoenedigiaeth dragywyddol y rhai hyn sydd yn gwrthod ufuddhau i'w deddfau hwynt yma ar y ddaear! Nid yw y Duw hwn namyn personoliaeth gormesiaeth a chreulondeb, wedi ei ddyfeisio, naill ai i ddychrynu neu i hud-ddennu naw rhan o'r ddynoliaeth i ufudd-dod i'r ddeddf ran. Pe buasai Duw yn bod, buasai yn defnyddio ei fellt i ddinystrio y gorseddfeinciau wrth risiau pa rai y mae y ddynoliaeth yn rhwym,—yn enwedig defnyddiasai hwynt i ddymchwelyd yr alloran lle y cuddir gwirionedd gan gymylau o aroglarth celwyddog. Rhwygwch o'ch calonau y grêd yn ei fodolaeth, oblegid tra yr erys yn och y gronyn lleiaf o'r fath ofergoeledd, nis gellwch byth ddirnad pa beth yw Rhyddid. Pan y cewch ymward o'r syniad am y Duw offeiriad-anedig hwn, a phan eich argyhoeddir fod eich bodolaeth chwi a'r byd o'ch amgylch i'w briodoli i gydgysffurfiaid atomau, mewn cydrediad â deddfau atyniad a dysgyrchiant, yna, ac yna yn unig, y byddwch wedi cymeryd y cam cyntaf tuag at Ryddid, ac y deuwch i brofi llai o anhawder i wrthod yr ail Anwiredd y mae gormesiaeth wedi ei ddyfeisio, sef Hawl neu Awdurdod. *Gallu* a ddyfeisiodd hwn i sicrhau a chryfhau ei lywodraeth; hawl nad yw gallu yn talu un sylw iddo, ond sydd yn wrthglawdd rhag pob ymosodiad o eiddo y ddynoliaeth arno. Gallu sydd yn ffurfio seiliau cymdeithas; gallu sydd yn gwneyd a dadwneyd deddfau, a dylai y gallu hwn fod yn llaw y mwyafrif. Unwaith yr argyhoeddir chwi o'ch gallu eich hun, gellir yn rhwydd ddinystrio y syniad o awdurdod; ac unwaith yr ymyrddhewch oddiwrth ofn Duw a pharch plentynaid i awdurdod, ymollynys pob cadwen arall sydd yn eich rhwymo, a'r rhai a elwir gwyddoniaeth, gwareiddiad, priodas, cyfiawnder, a moesoldeb. Boed eich hunan-ddeddyddwch eich unig ddeddf: ond mewn trefn i ddwyn y ddeddf hon i gael ei chydabod, ac i ddwyn oddiamgylch y berthynas briodol a ddylai fod rhwng mwyafrif a lleiafrif y ddynoliaeth, rhaid i chwi ddinystrio pob peth sydd yn bod yn y ffurf o gyfundraethau gwladwriaethol a chymdeithasol. Ein gorchwyl cyntaf raid fod dinystr a diddymiad pobpeth ag sydd yn awr yn bodoli; a rhaid i chwi gymhwyso

eich hunain i ddinystrio y da gyda'r drwg, oblegid tra yr erys y gronyn lleiaf o'r hen fyd bydd yn anhosibl creu y newydd. Yn ol chwedlau yr offeiriad, boddwyd y ddynoliaeth unwaith, ond cadwyd Noah yn fyw fel y byddai i hadau gormes a thrais gael eu trosglwyddo i'r byd newydd. Pan y dechreuwch chwi eich gwaith o ddinystrio, a phan gyfyd diluwr dynoliaeth sathredig i gladdu temlau a phalasau gormes ac ofergoeldd, gofelwch chwi y pryd hyny na bo un arch i achub gronyn o'r hen fyd a neillduir genym i ddinyst'r.

Yr wyf yn casân Cydffeddiannaeth—*Communism*, (meddai mewn man arall,) am ei fod yn wadiad ar Ryddid; yr wyf yn ei wrthwynebu am ei fod yn crynhoi ac yn sugno iddo ei hun holl alluoedd cymdeithas; ac am ei fod yn gosod eiddo a chyfalaf yn nwyllaw y *Commune*, neu y Wladwriaeth. Wrth hawlio diddymiad y *Commune* a'r Wladwriaeth, yr wyf hefyd yn dymuno dilead deddf olyniaeth ac etifeddiath a ddygwyd i fôd gan y Wladwriaeth. Rhodder i bob plant o'u genedig-aeth yr un moddion cynnalïaeth ac addysgiaeth: yna rhodder i bobl yr un safle gymdeithasol a'r un moddion i ddiwallu eu hangenion trwy eu llafur eu hun, a chewch weled yr anghyfartalwch yn cilio, oblegid nid yw y cyfryw anghyfartalwch ond effaith y gwahaniaeth a wneir yn nhelerau eu daddblygiad. Gellwch ragori ar natur drwy ddinystrio y gyfundrefn gymdeithasol, oblegid pan lwyddwch i wneyd pawb a phobpeth yn gyfartal, pan y gwastadheir holl ammodau daddblygiad a llafur, yna fe ddiflana llawer o droseddau, o drueni ac o ddrwgau. . . . Y mae yn anhosibl dinystrio yr ofergoelïaeth o grefydd trwy resymau nac addysg. Y mae crefydd nid yn wriad meddyliol, ond yn wrthdystiad o eiddo'r natur a'r galon ddydol yn erbyn trueni a chulni yr hyn sydd o'u cwmpas. Gan nad yw dyn yn cael dim yn y byd ond anghyfiawnder, dylni, a thrueni, y mae yn gadael i'w ddychymyg ffurfio byd newydd; ond pan dderbynia'r ddaear yr hyn sydd ddyledus iddi, sef hapusrwyd a brawdoliaeth, yna colla crefydd reswm ei bodolaeth (*raison d'être*). Nid oes arnom eisien ond chwyldroad cymdeithasol i beri i bob crefydd ddiffanu. . . . Nid yw cydwybod yn ddim ond mater o addysg. Y mae Cristion Ewrop-eaidd, ar ol ladd dyn o fwriad, yn teimlo rhyw gymaint o euogrydd; ond y mae yr Indiaid, yr hwn sydd yn ddydol o gig a gwaed fel yntau, yn llawenyachu yn laddiad ei elynion. Nid yw ei gydwybod yn teimlo o gwbl oddiwrth y weithred, oblegid y mae wedi cael ei ddysgu o'i febyd pa fwyaf o *scalps* fydd ganddo, goreu oll fydd ei dderbyniad i'r "*happy hunting grounds*."

Dyma ddaliadau Bakounin, y rhai, trwy areithiau a phamphledau, &c., a ledaenwyd trwy yr oll o Rwsia. Yn 1869 yr ydym yn ei gael yn anfon Netchajeff i St. Petersburg fel cenad neillduol i ledaenu ei egwyddorion; ond parodd gweithredoedd anfad y gŵr hwnw iddo gael ei anfon i ddiweddu ei oes yn mwneu Siberia. Ar ei berson cawfyd Catecism Nihilïaeth, o'r hwn y dyfynwn a ganlyn:—

Y mae yn rhaid i ni dd'od i gysylltiad agos â'r bobl, yn enwedig y rhai hyny sydd, er sefydliad y Gallu Rwsiaidd, wedi parhau i wrthdystio trwy weithredoedd, nid geiriau, yn erbyn pobpeth cysylltiol uniongyrchol neu anuniongyrchol â'r gallu hwnw; yn erbyn ei bendeffigion, ei swyddogion, ei offeiriad, a'i fasnachwyr. Y mae ein holl gyfundraeth yn seiliedig ar wneuthur pob elfen wrthwynebol i'r Wladwriaeth yn offeryn i'w dinystrio. Nid oes ond dau gyfnod yn hanes Rwsia yn y rhai y gellir dywedyd fod ei phobl yn fyw, sef cyfnod Sténko Rázin a Pugatcheff. Ein gorchwyl ni yw dinyst'r llwyr a chyffredinol yr hyn sydd yn bod; gwaith cenedlaethau i ddyfod yw yr hyn a gyfyd ar ol hyny. Rhaid gofalu na byddo ein chwyldroad ni yn gyffelyb i rai Gorllewin Ewrop, y rhai a foddlon a gyfnewidiadau gwleidyddol heb gyffwrdd â pherehenogaeth, a'r pethau a elwir yn wareiddiad. Nis gellir gwella sefyllfa y bobl ond trwy chwyldroad a ddadwreiddia bob gallu yn y wladwriaeth, ac a ddinystria holl draddodiadau gwleidyddol a chymdeithasol y wlad. Dyu ydyw y chwyldroadydd Rwsiaidd o dan lŵ; nid oes ganddo deimladau na buddianau personol, na hyd yn nod enw. Gan gadw mewn golwg ei unig amcan—dinyst'r fe all, ac y mae yn rhaid iddo, fyw mewn cymdeithas; rhaid iddo weithio ei ffordd i bob cangen o honi, i'r swyddfeydd gwladol a milwrol, i'r byd llenyddol, i blith yr heddegidwaid dirgelïadd, ac hyd yn nod i'r Palas Gauafol ei hun. Nid yw yn adnabod na pherthynas, na chyfeillgarwch, na chariad, na mawrfrydigrwydd, nac hyd yn nod anrhydedd; y mae ei holl deimladau i gael eu cadw i lawr gan y nwyd chwyldroadol.

Yn 1870 bu Bakounin yn helpu y gwrthryfelwyr Ffrengig yn Lyons, ond anfonwyd ef yn ei ol i Geneva, lle y bu farw oddeutu dwy flynedd yn ol. Dilynwyd ef fel arweinydd y Nihiliaid gan un M. Dragomonow, yr hwn sydd yn cael nodedd, fel ei ragflaenydd, ymysg mynyddoedd Switzerland. Y mae i Bakounin liaws o ddsygyblion, fel y galleid dysgwyl; ac nid yn unig y maent yn dilyn ei lwybrau, ond fel y dywed Shylock, *They have bettered his instructions*. Fel hyn y dywed un o honynt: "Nis gall unrhyw beth yn sefyllfa bresennol cymdeithas fod o fawr werth, am y rheswm syml mai ein henafiaid a'i sefydlodd. Os ydym ni yn awr yn gorfod addef ein hanalluogrwydd i dynu y llinell wahaniaethol rhwng drwg a da, pa fodd y gallai ein henafiaid llai goleuedig na nynt ei thynu? Yma, gan hyn, a'r fwyall, a dinystrier pobpeth! Bydd i'r rhai a'n dilyna wybod pa fodd i ail gyfodi adeilad lawn mor gadarn a'r un sydd yn bresennol yn ysgwyd uwch ein pen." Y mae un arall yn condemnio priodas fel sefydliad gwleidyddol a chrefyddol ynfyd a diangenrhaid, sydd yn uchel alw am ddilêad, ac yn amddiffyn llosgwyr a llofruddion fel gwir wladgarwyr. "Yn fuan ceir gweled," meddai, "awduron y pethau hyn yn mwynhâu yr ystyriaeth uchaf yn ein plith. Y mae yr hen fyd wedi cael ei dro. Ar ei adfeilion llongyfarcha y tlawd a'r gorthrymedig eu gilydd, a gwena gwir ddsygyblion Crist—that grand Nihilist—pan gofiant chwedl y dyn tlawd yn mynwes Abraham yn gwrthod dyferyn o ddwfr i'r gŵr goludog yn uffern, ac yn dyweyd, Ti a gefaist dy dro; yn awr myfi sydd uchaf. . . . O ymdrech i ymdrech, ennillir yr oruchafiaeth nes y cyrhaedda y ddynoliaeth berffeithrwydd, a d'od yr hyn a elwir yn Dduw. Ymarfogwch gan hyn, fy mrodyr, a dilynwch fi i goncwest y Duwdod." "Unig amcan ein cyfundraeth a'n bradwriaeth," medd un arall, "yw adgrynhoad holl alluoedd y byd i un gallu holddinystriol ac anorchfygol." Yn y *Narodnaya Volya* (Ewyllys y Bobl), un o newyddiaduron y blaid, y mae eu gofynion yn cael eu gosod i lawr yn eglurach nag yn yr ymfflamychiadau a nodwyd. Y maent yn gofyn am gydnabyddiad yr egwyddor mai eiddo'r bobl yw y tir y maent yn byw arno,—fel y gwna'r arweinwyr Gwyddelig y dyddiau hyn; daliant y dylid trosglwyddo pob math o weithfeydd i'r dosbarth sydd yn gwneyd y gwaith; a hawlant annibyniaeth y *Communes* gwladol fel gallu deddfwriaethol. Dylid deall fod pum' rhan o chwech o'r tir yn Rwssia yn cael ei amaethu gan *Communes*, y rhai a ffurfiant fath o gymdeithasau cydweithredol (*co-operative societies*) ymhlith trinwyr y tir. Y mae y *Commune* yn cynnwys fe allai gant o aelodau, ac yn talu iawn fel cyfangorff i berchenog y tir (h.y., pan na fyddo'r tir yn eiddo'r *Commune*, fel y mae weithiau yn dygwydd bod), yn gystal a thalu trethi i'r Llywodraeth fel cyfangorff yn ol cyfartaledd y gwrywiaid a berthyn iddo. O fewn y terfynau hyn y mae holl helyntion y lle yn cael eu rheoli gan bywllgor o'r penau teuluoedd a berthynant i'r *Commune*; nid yw y perchenog na'r wladwriaeth yn ymyraeth â hwynt ymhellach na chasglu y *dues*. Y pwyllgor sydd yn dosbarthu y tir ymysg yr aelodau; efe sydd yn penderfynu modd ac amser ei driniaeth; ac efe hefyd sydd yn cosbi pob trosedd yn erbyn y *bye-laws*. Un o effeithiau y *Commune* ydyw ei fod yn cadw y *peasant* ynglŷn â'r tir bron yn gymaint a phan oedd yn *serf*, fel nad oes yn Rwssia ddim tebyg i ymgasgliad y bobl

sydd i'w gael yn Llundain, Paris, a Berlin, ac felly y mae yn fwy anhawdd eu dwyn i gyffyrddiad â syniadau chwyldroadol. Fel y sylwyd, y mae Bakounin yn siarad yn gryf yn erbyn cyffredinolrwydd meddiant; ond nid yw hyn yn lluddias i'r Nihiliaid gymeryd mantais ar y *Commune* i ledaenu egwyddorion chwyldroawl. Y mae eu cynghor i'r *Communes* yr un yn gymhwys â'r un roddir i'r Gwyddelod gan Mr. Parnell, sef i lynu yn y tir a pheidio talu ardreth, am y rheswm digonol mai y bobl *bia'r* tir. Y maent yn hawlio rhaniad y tir rhwng nifer o *Communes* annibynol, nid yn gymaint am eu bod yn pleidio cydfeddiannaeth, ond am y byddai cynhyrriad yn y cyfeiriad hwn o du y *peasants* yn ffafriol i'w hegwyddorion dinystriol hwy. Er fod y *peasant* yn nyfnder anwybodaeth, y mae ganddo syniad clir am ei fuddiannau ei hun, a dealla yn rhwydd unrhyw appeliad a seilir ar anghyfiawnder treth ac ardreth. Y mae yr anwybodaeth, er hyny, yn gwneud y dosbarth hwn yn un anhawdd ei gyrhaedd; am hyny y mae arweinwyr y blaid yn sicrhau lledaenwyr ei hegwyddorion ymhlith dosbarth uwch—yn benaf ymhlith bechgyn ieuainc yr athrofaau, a merched ieuainc sydd yn awyddu am rywbeth a allont alw yn *mission*. Pa mor lwyddiannus y maent wedi bod gyda'r dosbarth hwn a ddangoswyd ar dreial Netchaijef, cenad Bakounin, am lofruddiaeth Ivanoff. Er achub ei gorffyn ysgeler ei hun, bradychodd Netchaijef ei gyfeillion, ac yn Mai, 1875, tynwyd rhwyd y *Third Section* trwy bob rhan o'r wlad; cymerwyd ugeiniau o chwyldroadwyr i'r ddalfa, yn benaf meibion a merched is-swyddogion ac offeiriad, rhai yn perthyn i'r bendefigaeth, ac ambell un o'r dosbarth gweithiol. Cafwyd oddeutu cant o honynt yn euog, ac anfonwyd hwy i Siberia; ond gwnaeth y treial niwed mawr i'r Llywodraeth, oblegid darfu i'r hyawdledd gyda'r hwn yr amddiffynai dynion fel Nushkin a Rabinovitch eu daliadau ennyn cydymdeimlad y werin o'u plaid, a'u cyffroi yn erbyn eu cyhuddwyr. Ymhen ychydig amser ar ol hyn cynhyrwyd yr holl wlad drwyddi gan dreial Vera Sassulitsch. Ymddengys i Vera gael ei charcharu i ddechreu o herwydd ei bod yn adnabod chwaer Netchaijef. Cadwyd hi yn y carchar am ddwy flynedd, ac alltudiwyd hi i dalaeth bellenig; ond daeth yn ol i St. Petersburg, ac yno, wedi ei chynhyrfu gan y gamdriniaeth a roddwyd i Nihiliaid o'r enw Bogoljuboff, talodd ymweliad â'r Cadfridog Trepoff, penaeth y *Third Section*, neu yr heddlu dirgelaidd, a saethodd ef. Fel y mae yn wybyddus i ddarllenwyr newyddiaduron, ar ol treial gollyngwyd hi yn rhydd; a dangosai y llawenydd gyda'r hwn y derbynwyd ei rhyddhad nad oedd addysg Bakounin wedi bod yn ddieffaith, er iddo ef ei hun roddi i fyny yr ysbryd oddeutu'r adeg hon yn Switzerland. Dilynwyd esiampl Vera Sassulitsch gan eraill. Saethwyd Menzentseff, dilynwyd Trepoff, yn un o ystrydoedd St. Petersburg, a diangodd y llofrudd. Gwnaed ymgais feiddgar i lofruddio Kotlarevski yn un o ystrydoedd cyhoeddus Kieff; trywanwyd Heyking, swyddog y *gendarmerie*, yn yr un dref, a lladdwyd gweithiwr a geisiodd ddal y llofrudd. Archollwyd Krapotkine, Llywodraethwr Kharkoff, pan yn gadael dawnnsfa; llofruddiwyd y Milwriad Knoop yn Odessa, a thrywanwyd Pietrovski, penaeth yr heddgeidwaid yn Archangel. Gwnaed ymgais i saethu Drenteln, olynwyd Menzentseff, a Loris Melikoff, pen y Commissiwn Milwrol; ac amcanwyd at fywyd y Czar ei hun amryw weith-



iau, hyd yn nod o fewn ei balas ei hun. Pan fyddai y fwled neu y ddaigr yn methu cyrhaedd yr amcan, treid tân, a llosgwyd rhanau mawrion o'r prif ddinasoedd; mewn gair, gweithredwyd i fyny mor agos ag oedd yn bosibl at y drefn o ddinystr cyffredinol a bregethwyd gan Bakounin. Y mae ei ddysgybllion yn hollol argyhoeddiadol o fanteision y drefn. "Yn bresennol," meddai un o honynt, "tra y parheir i uno dagr y llofrudd â sicrwydd a diogelwch, erys ein bradwriaeth yn allu yn y wlad; gallu ofnadwy i'n gelynyon, y rhai ni wyddant pa le na pha bryd y tarewir hwynt, y rhai ni allant ddyweyd y man na'r awr y derbyniant eu gwobr." "Y mae yr amser wedi d'od," medd un arall, "pan y rhaid cyfrif bradlofruddiaeth fel un o'r galluoedd gweithredol i ymwneyd â gwleidyddiaeth y dydd."

Yn wyneb yr erchyllerau a nodwyd, dychrynodd y Czar a'i Lywodraeth gymaint fel y rhoddwyd gallu pendant ar ryddid a bywyd y deiliaid yn llaw y Cadfridog Melikoff a'r Comisiwn Milwrol. Trwy y weithred hon rhoddodd y Llywodraeth Rwssiaidd ei hun a'i deiliaid islaw gwareiddiad cyffredin. Faint bynag o angenrheidrwydd oedd am y fath fesur eithafol,—a'i fod yn angenrheidiol i ryw raddau a brofir gan y ffeithiau a nodwyd uchod,—yr oedd gollyngiad yr awdurdod i ddwyllaw y fath Gomisiwn yn arddangosiad o wendid a iselhaodd Rwssia ymysg gwledydd. Ar yr un pryd, gellir dyweyd i'r Count Loris Melikoff, yn wyneb dirfawr anhawdsderau, gyflawni ei ddyledswyddau yn ffyddlawn ac yn llwyddiannus. Y mae wedi dwyn mesur o heddwch yn ol i'r wlad, ac wedi estyn iddi yr hunanbarch a roddasai o'r neilldu. Yn Awst diweddfaf gallodd y Czar gyhoeddi *Ukase* yn symud ymaith y feistrolaeth filwraidd, ac yn adferu Rwssia i'r safle oedd o'r blaen yn ei feddu ymlith cenedloedd gwareiddiedig. Y mae telerau yr *Ukase* yn addaw un gwelliant pwysig, sef gwneuthur holl weithred oedd y *Third Section*, yr heddlu Ymherodrol, yn agored i arolygiaeth Gweinyddiaeth Gartrefol, ar yr hon y mae Melikoff i fod yn ben. O'r blaen nid oedd y *Third Section* yn gyfrifol ond i'r Ymherawdwr yn unig, yr hwn mewn gwirionedd oedd bron heb lais yn y mater. Effaith hyn ydoedd ei gwneyd yn ormesiaeth o'r fath fwyaf annyoddefol, tra ar yr un pryd yr oedd ei swyddogion yn hollol analluog i gyfarfod â'r ymosodiadau ar bersonau, &c., a barodd yr holl gythrwf diweddar.

Yn bresennol y mae yn ymddangos fel pe b'ai Nihiliaeth wedi ei dawelu, a'i allu wedi ei ysigo; ond rhaid bod yn ofalus, yn wyneb helyntion Rwssia a'r hyn yw Nihiliaeth, rhag coleddu syniadau gorobeithiol. Y mae lle i ofni mai arwyddion yr afiechyd yn unig sydd wedi eu symud, ac nid yr afiechyd ei hun; ac nid oes a'wyr pa mor fuan y gall eto dori allan. Fe gofir yn ddiamedig y syndod gyda'r hwn y derbyniwyd y newydd am y chwyldroad Communistaidd yn Paris yn 1870. Deffrodd trigolion Paris un boreu i gael Llywodraeth newydd wedi ymsefydlu yn yr Hôtel de Ville, wedi ei gwneyd i fyny o bersonau oedd ar y pryd yn hollol anadnabyddus i'r mwyafrif. Cafodd dosbarth na wyddai'r byd ddim am dano, yr hwn er fod ei amcanion yn chwyldroadol, oedd heb gymaint a chynllun o chwyldroad, ei hun mewn meddiant o'r brifdinas ardderchocaf yn Ewrop, gyda byddin, amddiffynfeydd, a chyflegrau, &c., y fath na fu gan un fradwriaeth er dechreuad y byd. Am ddau fis cariyd ymlaen wrth-

ryfel nad oes son am ei debyg mewn hanesiaeth. Am ragor na dau fis buont yn llywodraethu poblogaeth o ddwy filiwn gyda gormesiaeth fwy trom nag a deimlodd Paris erioed, nes, ar ol alltudio neu wneuthur yn elynion, trwy weithredoedd eithafol ac ysgeler, filoedd o ddinaswyr oedd wedi eu cydnabod ar y dechreu, y syrthiasant i *fand* o ellyllon penboeth—gwaddod duaf y berw chwyldroadol—y rhai a gadarnhasant eu nerth o byllau sydd yn melltithio dinasoedd mawrion; a roddasant arfau yn nwyllaw drwgweithredwyr a charcharorion; a wnaethant weithredoedd o ysgelerder mor ofnadwy nes peri i'r byd grynu gan arswyd; ac a ddangosasant nad yr ewylls ond y gallu oedd yn eisieu ganddynt er dymchwelyd y byd gwareiddiedig yn eu dinystr eu hunain. Gall yr un peth ddygywydd yn Rwssia. Y mae pob gwlad yn magu cythreuliaid o'r fath, y rhai sydd yn wastad yn barod i osod cymdeithas yn wenfflam. Y mae yr elfenau i'w cael yn Lloegr ac America, ond y mae llwyddiant bydol i raddau yn eu cadw i lawr; y mae Ffrainc yn llawn o honynt; ac yn Germany yn ddiweddar dychrynwyd hyd yn nod Bismarck ei hun gan arwyddion o'u presenoldeb. Y fantais fawr sydd gan y dosbarth hwn yn Rwssia, ydyw fod cydymdeimlad mwyafrif y bobl, nid, mae'n wir, gyda hwynt, ond nid mor gryf yn eu herbyn ac o blaid trefn a heddwch ag y dylai fod. Pe byddai y bobl eu hunain yn elyniaethol i Nihiliaeth, nid oes ammheuaeth na ddiwreiddid ef yn fuan. Y mae y fynydd hon nifer mawr o ddeiliaid teyrngarol y Czar a arswydynt rhag cydnabod Nihiliaeth yn personol; eto yn ei oddef yn y gobaith y bydd i'w anfadwaith orfodi y Llywodraeth i roddi iddynt gynnrychiolaeth gyfansoddiadol. Er y gwelliantau diweddar y cyfeiriwyd atynt, y mae yn anmhosibl dysgwyl i'r anfoddlonrwydd gael ei symud yn llwyr, ac i'r wlad roddi cam gwirioneddol ymlaen, heb newid cwrs ei deddfwriaeth yn nghyfeiriad rhyddid personol a gwleidyddol.

E. VINCENT EVANS.

---

## Y DDIRNADAETH AM DDUW.

### I.

DICHON y dylid gwahaniaethu rhwng y drychfeddwl am Dduw a'r ddirnadaeth am dano. Yn yr ystyr a roddwn ni i'r gair, mae y drychfeddwl yn bod, mewn un ffurf, o flaen y ddirnadaeth neu y wybodaeth. Er nad yw ar y dechreu wedi ymagor yn syniad o'r hwn y mae y meddwl yn ymwybodol, eto, o ran amser yn gystal ag o ran trefn, y

mae yn rhagflaenu y ddirnadaeth. Gorwedda yn guddiedig yn nghyfansoddiad y meddwl fel hedyn dechreuol y wybodaeth—fel tueddiad at y ddirnadaeth—fel cymhwysder i ffurfio y grediniaeth. Y drychfeddwl sydd yn gwneuthur y ddirnadaeth yn bosibl ac angenrheidiol; ac oni buasai am ei bresennoldeb yn y meddwl, buasai yn anmhosibl iddo ymddyrchafu at y syniad am Dduw oddiwrth yr amlygiadau o hono yn y byd naturiol. Mae ei elfenau yn treiddio holl gasgliadau Duwinyddiaeth Naturiol. Trwyddo ef y cyrhaeddir y syniad am yr Anfeidrol, yn hytrach nag oddiwrth y byd allanol, er nad heb gymundeb â'r byd allanol; oblegid nis gellir cael allan o wrthddrych y peth nad yw o'i fewn: nis gall naturiaeth derfynol gyflwyno y syniad am yr annherfynol. Y drychfeddwl gwreiddiol am Dduw yw y rheswm am ddyfnder y syniad am dano mewn dynion sydd yn treulio eu hoed mewn anghof o hono, ac am yr anhawsder i ymryddhâu yn hollol oddiwrtho er pob ymdrech: hwn hefyd yw yr esboniad ar gyffredinolrwydd y grediniaeth mewn rhyw Fôd Goruchaf, dan yr holl wahaniaeth yn nirdadaethau dynion am natur y Bôd hwnw. Mewn un ystyr, mae yr hyn y dewiswn ei alw, y *drychfeddwl am Dduw*, yn unfurf a chyffredinol, a'r bôd o hono, yn annibynol ar amgylchiadau hanes dynolryw. Dangoser i ni ddyd o unrhyw wlad ac o ba genedl bynag, beth bynag yw graddau ei wareiddiad, y mae y ffaith ei fod yn ddyd yn ddigon o sicrhâd o bresennoldeb hedyn y syniad am Dduw yn nyfnderau ei natur. Mae holl blant dynion ar yr un tir a'u gilydd o ran bod yn berchen ar ryw egwyddorion gwreiddiol sydd yn cyfeirio eu golygon at y Duw a'u gwnaeth.

Ond y mae y ddirnadaeth am Dduw, neu gynnwys y grediniaeth am dano, yn amrywio yn ddirfawr mewn personau gwahanol. Mewn un y mae yn bur, dyrchafedig, a chynnwysfawr, ac yn urddasu yr hwn a'i medd. Mewn arall y mae mor gyfyng a salw nes darostwng a llygru yr addolydd: nid yw ei natur yn derbyn y graddau lleiaf o eangiad oddiwrth ei syniad am ei dduw. A phan yn gyffelyb o ran ei hansawdd—o ran ei phurdeb a'i chynnwys—gall fod mewn un meddwl yn ffynonell y dylanwad mwyaf grymus, tra yn y llall, er yr un mor gywir, y mae mor egwan yn ei heffaith fel nad yw y Gwir a'r Bywiol Dduw *iddo ef* yn fwy o allu nag yw yr eilun i'r pagan: mae y Duw ag y medd ryw fath o syniad cywir am dano, iddo ef megys pe na byddai. Cynnyrch araf lliaws o ddylanwadau yw y grediniaeth am Dduw ymhob dyn; ac y mae yn ymddibynu o ran ei hansawdd, megys ei bod yn gywir neu yn anghywir, yn gyflawn neu yn ddiffygiol, yn effeithiol neu yn egwan, ar natur y dylanwadau a'i cynnyrchodd. Cyfyd dosbarth o'r dylanwadau hyn oddifewn, allan o gymeriad a moes y dyn ei hun, tra y deillia eraill oddiallan, oddiar yr addysg a dderbyniodd, y traddodiadau a'r amgylchiadau lliosog fuont yn ffurfio ei ddulliau o feddwl. Nid oes un amgylchiad, pa mor ddibwys bynag, nad yw yn gadael rhywfaint o argraff ar y meddwl; ac os yw holl feddwl dyn ar waith yn ffurfiad ei ddirnadaeth am Dduw, yna nid oes un amgylchiad yn hanes dyn nad yw yn cyflawni ei ran, yn raddol a dystaw, yn ffurfiad y ddirnadaeth hono. Pell fyddom oddiwrth y syniad mai creadur amgylchiadau yw dyn; ac eto byddai yn rhaid i ni gau ein llygaid ar hanesiaeth ac anghredu ein profiad ein hunain, cya n

galleu wadu nad oes gan amgylchiadau effaith arno. Ac nid oes gwell prawf o hyn nag yw hanes y grediniaeth am Dduw ymysg y gwahanol genedloedd. Cawn un engraifft yn y ffaith fod rhyw gydrywiaeth rhwng ffurfiau neillduol o'r grediniaeth â hinsoddau neillduol. Tuedda ambell hinsawdd at fywyd tawel a myfyriol yn y bobl, tra y mae hinsawdd arall yn gwneuthur arferion bywiog a gweithgar yn angenrheidiol i gynnalid a chysur bywyd; o herwydd hyn y mae y cyntaf yn fwy manteisiol i gyfodiad a chynnydd Pantheistiaeth, tra y mae yr olaf, trwy ddwyn allan egnion dyn, a pheri iddo ymdeimlo yn fwy â nerth yr ewyllys, yn fantais i osod mwy o arbenigrwydd ar bersonoliaeth yn ei dduw. I'r gwrthwyneb, mae y llall, yn rhinwedd dylanwadau ei amgylchoedd, yn colli personoliaeth mewn rhyw annherfynoldeb amhenodol. Y bywyd grymusaf, mwyaf gweithgar, ydyw y mwyaf manteisiol i roddi lle mawr i'r ewyllys fel prif elfen. Tawelwch cyfriniol, breuddwydiog, ydyw y maes i dyfu syniadau Pantheistiaid. Mae prif arwyr y byd—dynion galluog mewn gweithred—fel rheol yn Theistiaid. Myfyrywyr cyfriniol sydd fwyaf agored i swynion Pantheistiaeth. Dengys hyn fod dirnadaeth dynion am Dduw yn ymddibynu, i raddau helaeth, ar natur eu hamgylchiadau; a dyna yw y ddirnadaeth yn y cyfan o honi—cynnyrch yr holl ddylanwadau sydd yn gweithio ar y meddwl; y dylanwadau allanol mewn undeb â naws foesol y meddwl ei hun; a'r drychfeddwl gwreiddiol yn gorwedd islaw'r cyfan, ac yn rhoddi ystyr a ffurf i'r cyfan; oblegid y mae y drychfeddwl hwn yn cyfranu i'r ddirnadaeth rai elfenau nad allasai y meddwl eu cael o un ffynnonell arall.

Mae y drychfeddwl a'r ddirnadaeth am Dduw ymysg prif gwestiynau athroniaeth. Profa hanes dynolryw nad oes un grediniaeth fwy cyffredinol na'r grediniaeth am Dduw; ac y mae hyn yn cael ei addef hyd yn nod gan annuwiad: addefir ei chyffredinolrwydd fel ffaith gan y rhai a wadant y casgliad naturiol oddiwrthi, ac a geisiant brofi fod eithriadau i'r cyffredinolrwydd. Yn awr, naturiol ydyw gofyn, O ba le y daeth y fath grediniaeth? Pa un yw yr esboniad mwyaf rhesymol ar y ffaith o'i pharhâd trwy yr holl oesoedd, a'r ffaith o'i lledaeniad ymysg yr holl genedloedd? A oes sail i dybied mai dadguddiad goruwchnaturiol yw yr unig ffynnonell? A oes digon o fywyd mewn traddodiad i sicrhau parhâd iddo ei hun am ueginiau o ganrifoedd? A allai ymgynghreiriad rhwng niferi o ddynion er cyrhaedd yd rhyw amcan dewisol yn eu golwg eu hunain, gadw y syniad yn fyw? A yw yr amlygiadau o Dduw mewn natur yn ddigon o esboniad ar yr holl ffaith? Ynte, a yw dyfnder yn gystal ag eangder y grediniaeth yn cyfeirio at ryw reddfau neu egwyddorion gwreiddiol yn natur dyn, sydd yn ei chynnal a'i meithrin, mewn undeb â'r amlygiadau oddiallan o Dduw? Dengys gofyniadau o'r fath fod y cwestiwn yn perthyn i dduwinyddiaeth ac i hanesyddiaeth, ond yn fwyaf neillduol i athroniaeth y meddwl; ac y mae yr atebion a roddir iddo yn ymddibynu ar natur yr athroniaeth fyddo yn arwain yr efrydwyr.

Mae yn hysbys i'n darllenwyr fod dwy brif gyfundrefn athronyddol yn rhedeg yn gyfochrog trwy yr oesoedd. Nid allwn ar hyn o bryd fanylu ar y gwahaniaeth rhyngddynt: digon fe allai ydyw sylwi fod un o nodwedd fwy materol; yn ymwneyd yn unig âg ymddangosiadau;

yn olrhain pob gwybodaeth at argraffiadau y synwyrâu; yn cyfyngu ei hun i'r unigol, y damweiniol, y diflanedig; yn gwneuthur y meddwl yn oddefydd:—fod y llall yn fwy ysbrydol; yn credu yn modolaeth egwyddorion gwreiddiol yn y meddwl fel yn anheborol angenrheidiol i uno a threfnu argraffiadau y synwyrâu; yn ymddyrchafu oddiwrth yr unigol at y cyffredinol, ac yn deall yr unigol yn ngoleuni y cyffredinol; yn cydnabod rhyw sylwedd arosol o'r tu cefn i'r ymddangosiadau cyfnewidiol, rhyw un yn rhwymo y lliaws ynghyd, rhyw allu gweithredol yn y meddwl ei hun, yr hwn a gysyllta yr argraffiadau a dderbynir ganddo, ac a rydd feddwl ac ystyr iddynt; ac yn enwedig rhyw allu i lamu dros derfynau y meidrol at yr Anfeidrol, a'r gallu hwn yn wreiddiol yn y meddwl, heb yr hwn y byddai bodolaeth y meidrol yn ddirgelwch anhosibl ei esbonio. Mae y gyntaf o'r ddwy yn tueddu yn amlwg at Atheistiaeth: Atheistiaeth, yn wir, ydyw y casgliad naturiol oddiwrthi; nis gall fod yn amgen os unig ffynnonell gwybodaeth ydyw y synwyrâu. Mae yr athroniaeth arall, wrth gael ei gweithio i eithafion, yn terfynu mewn Pantheistiaeth; o'i hiawn ddeall, yr ydym yn credu ei bod yn ategu y wir wybodaeth am Dduw ac am ddyn ac am natur. Yr oedd egwyddorion synwryddol athroniaeth Locke, yn nwylaw athronwyr Firainc yn y ganrif ddiweddfaf, pan heb eu cymedroli gan awgrymau goreu ei draethawd, yn esgor ar annw-iaeth ddigymysg; ac y mae yr un peth yn wir am rai o athronwyr yr Almaen yn yr oes hon. Mae cefnogwyr yr un athroniaeth yn awr yn Mhrydain, yn hytrach nag yn gwadu y bôd o Dduw, yn dewis ei adael allan; dywedant na wyddant ac nas gallant wybod dim am dano.\* Perygl yr athroniaeth arall yw Pantheistiaeth; a pha beth bynag am athroniaeth Hegel yn ei weithiau ef ei hun, mae yn ddiammheul fod Hegeliaeth rhai o'i ddsygybllion yn gyfundraeth Bantheistiaidd.

Mae yn amlwg fod y wybodaeth am Dduw yn gyfran bwysig o wir athroniaeth. Maen prawf pob cyfundraeth athronyddol ydyw y gofyniad, Pa le a rydd i Dduw? Mae cyfundraeth Comte yn cau ei hun allan o fysg cyfundraethau athronyddol, trwy ymwrthod â'r syniad am Dduw; oblegid tra yn profesu ymwneyd yn unig â ffeithiau, y mae yn cau ei llygaid ar un o brif ffeithiau hanesiaeth, sef y grediniaeth gyffredinol am Dduw, ac ar un o brif ffeithiau y meddwl dynol, sef ei dueddiadau crefyddol. Anghyflawn yw pob athroniaeth, a salw a diwerth yw ei chynnyrch, os nad yw Duw yn sylfaen ei hadeiladaeth—os nad yw Duw yn cael y prif le o'i mewn. Duw ydyw rhwymyn undeb gwahanol adranau gwir athroniaeth. Ei fodolaeth Ef ydyw yr unig esboniad ar fodolaeth natur a bodolaeth meddwl. "Yn ei oleuni ef y gwelwn ni oleuni." Mae y Meddwl Anfeidrol yn cael ei dybied ymhob *act* o feddwl. Megys nad allasai meddwl a natur ddyfod erioed i fodolaeth heb y Meddwl a'r Gallu Anfeidrol, felly hefyd nid ellir cyrhaedd gwybodaeth am y cyntaf ond yn ngoleuni yr olaf. A'r berthynas sydd rhyngddynt â'u gilydd mewn bodolaeth a ddylai fod rhyngddynt hefyd mewn athroniaeth. Nôd athroniaeth ydyw bod yn

\*Buom yn agos a chael ein gollwng i ysgrifenu y gair newydd rhyfedd *amrybyddu*; ond cawson ein gwaredu.

ddrych o fodolaeth. Mae y fath berthynas rhwng ei gwahanol ranau, fel, os bydd Duw yn cael ei adael allan, na fydd yr ymdriniaeth o'r rhanau eraill ond tra arwynebol: ac y mae yn deilwng o sylw, ac yn ddigon eglur i bawb a fyno sylwi, mai odiaeth o arwynebol ydyw pob ymchwiliad fyddo wedi ei ysgar oddiwrth uchaniaeth, pa un bynag ai ymchwiliad i'r meddwl dynol ai ymchwiliad i hanes y byd. Ni raid i ni fyned ymhellach am brawf o hyn na'r athroniaeth ddiweddaraf—athroniaeth Comte. Nid all yr annuwiad adnabod ei hun, na deall natur, am ei fod yn troi ei gefn ar Dduw. Ac y mae yr un mor wir—yr hyn sydd yn ddangosiad ychwanegol o gydberthynas gwahanol ranau athroniaeth—fod i ddyn ddeall ei hun yn angenrheidiol fel cynnorthwy i adnabod Duw. Ynom ein hunain y gwelwn Dduw; a pho fwyaf perffaith fyddo ein natur ein hunain, a pho oreu y deallwn y natur hono, mwyaf fydd ein gallu i adnabod Duw, a mwyaf cyflawn fydd ein dirnadaeth am dano. Mae y syniad a fêdd yr anghoeth a'r iselfrydig am Dduw yn rhwym o fod yn syniad isel a chyfyng. Priodol y sylwa Martensen fod ein golygiadau ar natur ac ar ddynoliaeth yn lliwio ein syniad am natur Duw. Os meddylir nad yw y byd allanol ond ymddangosiad disylwedd, ac nad yw y bywyd dynol ond coegchwareu, bydd yn anmhosibl ffurfio syniad cywir am Dduw. Gallwn syniau yn briodol am Dduw, yn unig pan fyddom yn adnabod y byd ac yn adnabod ein meddyliau ein hunain fel yn meddu, mewn ystyr berthynasol, ar fodolaeth, bywyd, a rhyddid ynddynt eu hunain. Gwelwn, gan hynny, fod perthynas fywydol rhwng gwahanol ranau athroniaeth. Mae y naill ran i'w deall, nid yn unig mewn undeb â'r rhanau eraill, ond yn y rhanau eraill. Maent yn sefyll, nid yn unig mewn agosrwydd at eu gilydd, ochr yn ochr, ond yn croesi eu gilydd, y naill a'r llall yn treiddio trwy eu gilydd, yn cydgyrnal eu gilydd; ac y mae Duw, o angenrheidrwydd, i lanw y lle mwyaf pwysig mewn athroniaeth, megys y gwna mewn bodolaeth, o'r hyn y mae athroniaeth i fod yn ddrych neu ddeongliad.

Mae y berthynas sydd rhwng athroniaeth & Duw, neu le y syniad am Dduw mewn athroniaeth, yn dyfod i'r golwg yn y mater dan sylw. Mae y syniad am darddiad y wybodaeth am Dduw yn ymddibynu ar natur cyfundaeth athronyddol yr efrwydd. Tarddiad ein gwybodaeth ydyw cwestiwn mawr athroniaeth, ac nid oes un ran o'n gwybodaeth i'w chystadlu mewn pwysigrwydd â'r wybodaeth am Dduw. O ganlyniad, mae y golygiadau ar y gangen hon yn ddangosiad o natur yr holl athroniaeth, ac yn faen prawf wrth yr hwn y gellir barnu yr holl gyfundaeth. Mae natur y cyfan yn cael ei amlygu yn y rhan. Os yw barnau athronwyr y synwyr ar darddiad ein gwybodaeth am Dduw yn dwyn mwy o ddelw gwirionedd na barnau athronwyr y drychfeddyliau, yna y mae genym, o leiaf, debygolrwydd cryf mai athroniaeth y synwyr ydyw y deongliad goreu o holl gwestiynau athroniaeth. Os ceir, ar y llaw arall, mai ei hesboniad ar y mater yw y gwaelf, trwy nad yw yn rhoddi cyfrif am brif elfenau y wybodaeth, y mae genym sail i greu mai hi sydd yn rhoddi yr esboniad lleiaf cyflawn a chywir ar gwestiynau eraill athroniaeth.

Nid oes ynom y petrusder lleiaf pan yn dyweyd mai esboniad yr athroniaeth hon ar y cwestiwn dan sylw ydyw yr un mwyaf anffod-

haol. Heblaw ei fod yn camesbonio y greddfau ysbrydol sydd yn ein natur yn cyfeirio at y Perffaith a'r Diderfyn, y mae hefyd yn rhoddi deongliad anghywir o egwyddorion gwreiddiol y meddwl, y rhai a wnant wybodaeth profiad yn bosibl. Pan yn haeru fod ein holl ddrychfeddyliau yn gynnwyrch profiad, y mae yn cau ei llygaid ar y ffaith fod rhyw egwyddorion yn gorwedd dan brofiad. Yn hytrach na bod y drychfeddyliau yn dyfod trwy brofiad, y mae profiad ei hun yn rhagdybio eu bodolaeth. Nid all y synwyrâu roddi un syniad am yr ysbrydol a'r diderfyn; o herwydd hyny nis gall yr athroniaeth sydd yn dysgu mai synwriaeth ydyw unig ffynnonell ein gwybodaeth gymeryd i fewn y syniadau mwyaf sylfaenol yn y grediniaeth am Dduw. Nid yw yr athroniaeth hon ychwaith yn cydnabod prif elfen achosiant, sef presennoldeb rhyw allu yn yr hyn a elwir yn achos, i *beri* yr hyn a elwir yn effaith; o ganlyniad y mae yn anialluog i ddirnad grym y dadleuon dros y bôd o Dduw oddiwrth fodolaeth derfynol ac oddiwrth yr amlygiadau o fwriad yn y greadigaeth. Mae hyn yn peri fod cyfathrach naturiol rhwng synwryddiaeth ac atheistiaeth. Weithiau ni a welwn atheistiaeth yn codi oddiar synwryddiaeth; ac weithiau y mae yn ategu ei hun âg egwyddorion synwryddiaeth. Tri syniad a ganfyddir yn cyredeg â'u gilydd yn hanes y meddwl dynol ydyw y rhai hyn: y synwyrâu ydyw unig ffynnonell gwybodaeth; mater ydyw yr unig fodolaeth; nid oes un bôd ysbrydol, angenrheidiol, yn cyfateb i gyflawnder y drychfeddwl a gynnwysa y gair Duw. Ac ond cael dyn i ddechreu trwy gredu y cyntaf, arweinir ef yn naturiol at y ddau olaf, os gedy ei hun yn llaw ei athroniaeth. Neu, os dechreua trwy gredu yr olaf, bydd yn dda ganddo gael ymguddio yn nghysgod y ddau syniad cyntaf, a chael ryw rith-egus dros dybied fod ei annuwiaeth yn gyson âg athroniaeth. Ni a addefwn fod athroniaeth y synwyrâu rai prydiau yn ymuno â'r grediniaeth am Dduw. Ond y mae yr undeb yn hollol anghymarhar, ac nis gall fod yn undeb gwirioneddol. Un ai y mae yr athroniaeth yn llygru y syniadau duwinyddol, neu y mae y naill a'r llall yn cael eu cadw ar wahân yn y meddwl, gweithrediad y deall yn cael ei ysgar oddiwrth weithrediad ffydd, a'r meddwl yn ymostwng i ddadguddiad er gwaethaf yr athroniaeth a gredir ganddo. Ni a edrychwn ar ddylanwad yr athroniaeth hon, yn gyntaf, ar feddyliau Anffyddwyr wrth chwilio am darddiad y wybodaeth am Dduw, ac yna ar feddyliau Cristionigion.

Mae pob cais i esbonio tarddiad y wybodaeth gan anffyddwyr ar dir synwriaeth yn hollol afwyddiannus. "Nid oes un Duw," ebe yr annuwiaid: er hyny cenfydd fod dynolryw trwy gydol yr oesoedd yn credu fod Duw yn bod; ac yna ceisia roddi cyfrif am y grediniaeth yn yr absennoldeb o fodolaeth un gwrthddrych cyfatebol iddi. Ac adeiladol ydyw olrhain ei drofeydd, yn y rhai yr ymbalfala am reswm, ac heb gael yr un. *Ofn a roddes fôd i'r syniad*, ydyw un dybiaeth a gynnwyr. Ond gellir ateb fod ofn yn agosach perthynas i annuwiaeth nag i ffydd. Mae ofn yn fynych, mewn un wedd arno, yn rhoddi bôd i annuwiaeth, ac edrychir ar yr anghof o Dduw, a'r gwadiad o'i Fôd, fel noddfa rhag rhai dychrynfeydd y mae dyn pechadurus yn agored iddynt. Ar y llaw arall, y syniad am Dduw, fel yr un mwyaf mawreddog, ydyw y syniad mwyaf cryfhaol yn meddwl dyn: dyma y syniad sydd yn rhoddi

mwyaf o nerth, yn cyfranu mwyaf o dangnefedd, trwy yr holl ysbryd : ac y mae yn anghredadwy—yn anmhosibl ei ddirnad—pa fodd y gallai syniad sydd, yn ol y dybiaeth, yn effaith ofn, ac yn dwyn arno ei hun, o angenrheidrwydd, ddelw ei achos, fod yn ffynnonell y dylanwad mwyaf cryfhaol. Heblaw hyny, mae y teimlad o ofn yn tybied crediniaeth yn sail i'r teimlad. Pa ddychymygion bynag y dichon ofn roddi bodolaeth iddynt, mae yn rhaid fod rhyw grediniaeth yn ei flaenori. Ffurf arall ar yr un dybiaeth ydyw mai *ofergoledd* a genedlodd y grediniaeth. Ond gellir sylwi eto yn yr un modd fod mwy o gydrywiaeth rhwng ofergoeledd ac atheistiaeth. Mae y ddau yn gyffelyb i arwyddion gwahanol yr un afiechyd ; yn gyffelyb i'r ias boeth a'r cryndod oer yn yr un clefyd. Mynych iawn y mae ofergoeledd yn terfynu mewn anffyddiaeth, ac anffyddiaeth, yr un modd, yn esgor ar ofergoeledd : yn wir, y mae hyn yn dygwydd mor fynych fel y mae meddylwyr pob oes yn barnu fod cyfathrach naturiol yn bod rhyngddynt. Yr oedd Plutarch yn deall y berthynas mewn rhan. "Mae yr annuwiad yn meddwl nad oes un Duw : byddai yn dda gan yr ofergoelus feddwl yr un peth, ond y mae yn credu yn erbyn ei ewylls, oblegid y mae yn ofni credu yn wahanol. Mae ofergoeledd yn cenedlu annuwiaeth, ac ar ol hyny yn darpar esgusawd drosto." Mae yr ochr arall hefyd yn bod, yr hyn na ddeallwyd gan Plutarch, sef fod annuwiaeth yn gyru dynion i ofergoeledd. Mae holl hanes dynolryw yn profi hyny ; ac nid oes prawf gwell nag a geir yn nysgyblion Comte, y rhai a gyfunant atheistiaeth ac ofergoeledd o'r fath wylltaf yn eu credo. Lle y byddo lleiaf o ffydd, gno y bydd mwyaf o ofergoeledd. Dywed Bacon y byddai yn well gan y dynion doethaf goelio holl chwedlau y Coran na chofneidio y syniad nad oes i'r greadigaeth Wneuthurwr a Rheolwr. Pan deimla y meddwl ei hun wedi ei yspeilio o'r grediniaeth am Dduw, y mae yn barod i groesawu y coelion cyntaf a gynnygiant eu hunain iddo. Ar ol cefnu ar lawnder tŷ ei dad, fe fynai yr afraclawn yn y wlad bell lanw ei fol â'r cibau a fwytâi y moch.

Ond o'r holl dybiaethau disail, fe allai mai yr wrthunaf ydyw tybiaeth y dosbarth mwyaf anghoeth a chableddus o annuwiad,—mai dyfais gyfrwys llywodraethwyr ydyw ffynnonell y grediniaeth. Yn ol y dybiaeth hon, bu adeg ryw bryd yn moreu'r byd pan ymgyfarfu penaethiaid y llwythau i gydlunio y moddion goreu i ddarostwng eu deiliaid dan eu llywodraeth. Syrthiasant, ar ol ystyriaeth bwyllus, ar y ddyfais o ddwyn dynion i gredu fod Duw yn bod, a bod byd ar ol hwn i wobrwyo ac i gosbi ; a thrwy yr holl oesoedd, ydym y bwgan sydd yn dychrynu y miliynau i dawelwch a threfn : arswyd y Bôd dychymyngol hwn, a'r dinystr tybiedig a all ddwyn ar anufuddion, ydyw y teimlad y gweithia llywodraethwyr arno mewn trefn i sicrhâu ufudd-dod oddiwrth eu deiliaid. Ond gellir ateb fod y dybiaeth, nid yn unig yn ddisail, ond yn ymddangos yn llawn gwrthuni, o ba gyfeiriad bynag yr edrychir arni. Nid oes un ddaol o'i phlaid mewn hanesyddiaeth : nid oes dim yn hanes un wlad yn cyfeirio at y fath ddyfais—yr un chwedl na chyfraith, arferiad na thraddodiad. Pwy bynag a'i credo, mae yn rhwym o gredu cyfres faith o'r tybiaethau mwyaf anhygoel mewn trefn i'w chredu. Rhaid credu fod penaethiaid llwythau anwar, eu hunain yn anwariaid, yn meddu ar raddau helaeth



o allu i gynllunio, ac o bwyll a phenderfyniad i weithio allan eu cynlluniau. Rhaid credu yn y posibilrwydd o ymgynghoriad ar adeg yn hanes y byd pan oedd pob penaeth yn edrych ar benau llwythau eraill yn elynion, y rhai yr oedd yn brif ddyledswydd yn ei olwg eu dyfetha hyd y gallai. Rhaid credu fod y cymundeb sydd yn bosibl mewn oesoedd diweddar rhwng llywodraethwyr yn byw ymhell oddiwrth eu gilydd, yn bod mewn amser pan nad oedd cyfleusderau i'r cyfryw gymundeb, mwy na thuedd ato. Rhaid credu fod y cyfryw gynghrair a'r cyfryw ddyfais wedi eu cadw mewn cymaint o dywyllwch—fod pob un o'r cynghreiriaid wedi bod mor ffyddlawn i gelu y gyfrinach, fel na chafodd neb o'r werin wybod dim am dani o hyny hyd yn awr. Rhaid credu fod digon o rym yn mhenderfyniad yr ychydig i argraffu crediniaeth na chyfranogai neb o honynt hwy eu hunain o honi ar feddyliau y miliynau, a hyny mor ddwfn fel ag i sicrhâu parhâd iddi o oes i oes. Ac yn olaf, rhaid credu mai ymysg y werin y ceir y grediniaeth, ac nid ymysg y llywodraethwyr: yr olaf, yn ol y dybiaeth, ydyw llunwyr y celwydd; y cyntaf sydd yn ei dderbyn fel gwirionedd: ond y mae hanes pob gwlad yn profi fod gormeswyr mor agored i ddychrynfeydd Duw a braw y byd arall, ag yw y mwyaf ehud o'u deiliaid. Pwy bynag a all gredu y fath dybiau, gall hwnw gredu hefyd mai dyfais llywodraethwyr a greodd y syniad am Dduw: ac os gall rhywun roddi coel iddynt, nid yw hyny ond prawf o'r dywediad mai yr Atheistiad ydyw y mwyaf ofergoelus o bawb. Gellid sylwi ymhellach fod y grediniaeth am Dduw mewn rhyw ffurf ymysg llwythau anwar yn flaenorol i bob syniad am lywod-ddysg. Mae y syniad am ryw allu anweledig yn rheoli tynged dynion, yn deffro yn gynt yn y llwythau iselaf na'r ymofyniad pa fodd i sicrhâu trefn a llywodraeth yn eu mysg. Gwelwn, gan hyny, oddiwrth yr esiamplau uchod mai tra aflwyddiannus ydyw ceisiadau synwryddiaeth Atheistaidd i olrhain tarddiad y ddirnadaeth am Dduw.

Ac nid mwy llwyddiannus yw ceisiadau rhai Cristionogion i'w hesbonio oddiar safle yr un athroniaeth. Dadleua rhai mai unig ffynnonell y ddirnadaeth ydyw dadguddiad a thraddodiad. Mae yn hawdd gweled fod y dybiaeth hon, os ydyw yn wir, yn difodi Duwinyddiaeth Naturiol. Mae yn wir nad yw ei chefnogwyr yn anturio ar wadiad ffurfiol o dystiolaeth Paul yn yr epistol at y Rhufeiniaid,—“Canys ei anweledig bethau Ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei dragywyddol allu Ef a'i Dduwdod, hyd onid ydynt yn ddiesgus.” Mae y parch sydd ganddynt i'r Bibl, a'r ymostyngiad diammodol a broffesant i'w awdurdod, yn gwneyd yn anmhosibl iddynt wadu y dystiolaeth. Eto, y mae eu deongliad braidd yn gyfystyr â gwadiad. Tra y dywed Paul fod anweledig bethau y Creawdwr i'w gweled yn amlwg yn y pethau a wnaed, y maent hwy yn dysgu mai yn ngoleuni dadguddiad yn unig y gall y meddwl dynol ddyfod i feddu gwybodaeth am Dduw. Eu dadl ydyw nad yw argraff yr Enw Anfeidrol ar natur yn ddigon eglur i'w ddarllen gan ddyw, trwy fod ei feddwl wedi ei dywyllu yn drwyadl gan bechod. Fe wél ein darlennydd mai math o barch camsyniol i ddadguddiad y Gair ydyw gwreiddyn y syniad. Er mwyn dyrchafu yr Ysgrhythrau y maent yn meddwl fod yn angenrheidiol iselhâu pob dadguddiad arall—

fel pe meddylid fod yn rhaid tynu y ser o'r ffurfafen i wneuthur lle i'r haul. Er mwyn rhoddi arbenigrwydd i rwymau dynolryw i Cristionogaeth, meddyliant fod yn rhaid profi nad oes dim goleuni mewn dyn yn naturiol, wrth yr hwn y gall ddeall dadguddiad natur. Ar ryw gyfrif, nis gellir peidio parchu y cymhelliad y gweithredant oddiarno, sef eu hawydd i egluro yr angenrheidrwydd am ddadguddiad goruwchnaturiol; ac eto, buasem yn eu parchu hwy eu hunain yn fwy, pe cawsem hwynt yn chwilio y mater oddiar gymhelliad uwch hyd yn nod na hwn, sef awyddfryd pur i gael allan y gwirionedd. Gan nad hyn oedd wrth wraidd eu hymchwiliadau, y canlyniad oedd i grefydd a dadguddiad ddyoddef oddiwrth eu cefnogaeth. Yr oeddynt yn ddjarwybod yn dinstrio sylfeini crefydd wrth geisio dyrchafu Cristionogaeth; oblegid, gan mai crefydd ydyw y rhwymyn sydd yn uno dyn â'i Greawdwr, yr oeddynt yn tori y rhwymyn mor bell ag yr oedd yn eu gallu, trwy geisio profi nad oes cydnawsedd yn natur dyn â chrefydd. Ffaith o'r un natur yn yr oes hon oedd cais Mr. Mansel i ddangos nas gall dyn gyrhaedd gwybodaeth wirioneddol am Dduw. Wrth geisio dangos eiddilwch rheswm er mwyn dyrchafu ffydd, yr oedd yn yspeilio ffydd o bob sail, yn ei hysgar oddiwrth reswm, yn tynu ei llygaid o'i phen, yn ei gosod ar yr un tir ag ofergoedd.

Mae llawer mwy o fri ar Dduwinyddiaeth Naturiol yn yr oesoedd diweddaraf nag a roddid arni gan y tadau a chan dduwinyddion y canol oesoedd, ac y mae amryw resymau dros hyny, y rhai nid awn ar hyn o bryd i sylwi arnynt. Gallwn sylwi wrth fyned heibio, fod yma un ddadl yn erbyn yr wrthddadl gyffredin i ymchwiliadau duwinyddol, nad oes dim cynnydd ar dduwinyddiaeth fel sydd ar y gwyddonau. Mae yr wrthddadl yn ddisail, ac y mae ystad bresennol Duwinyddiaeth Naturiol yn brawf o hyny. Mae y gangen hon, a'r holl faterion perthynol iddi, megys perthynas y meddwl dynol â'r dadguddiad goruwchnaturiol, yr argraffiadau o Dduw ar y meddwl yn gystal ag ar natur, athroniaeth crefydd, crefydd gymhariaethol, yn arddangos cyfoeth mawr o wybodaeth yn meddiant yr oes hon o'i chymharu â gwybodaeth yr oesoedd a aethant heibio: ac nid yw hyn ond un siampl allan o lawer o'r cynnydd yn maes Duwinyddiaeth. Mae yn rhaid addef fod tueddiadau anffydddaidd wrth wraidd yr ymchwiliad ar y dechreu; ond y mae yr un peth yn wir am bob cynnydd yn hanes yr athrawiaeth: un o brif achlysuron y cynnydd oedd cyfeiliornad. Ac yr oedd yr eithafion i ba rai yr oedd rhai yn cario yr ymchwiliad yn cynnyrchu yr eithafion gwrthwyneb yr ydym wedi eu nodi ymysg y Cristionogion hyny yr oedd eu zel yn fwy amlwg na'u gwybodaeth. Wrth geisio dangos fod egwyddorion Duwinyddiaeth Naturiol yn guddiedig ymhob crefydd adnabyddus, yr oedd rhai Deistiaid yn y wlad hon yn myned mor bell ag i haeru nad yw pob crefydd ond cangen o grefydd natur, nad yw Cristionogaeth ond adgyhoeddiad o honi, a bod Cristionogaeth yn ei hanfod can hyned a'r greadigaeth. Yn ngwyneb hyn yr oedd y rhai mwyaf goleuedig o amddiffynwyr crefydd a dadguddiad yn amcanu profi fod Cristionogaeth yn ddadguddiad newydd, yn cynnwys gwirioneddau mawrion priodol iddi ei hun, ac eto ei bod yn gorwedd ar seiliau crefydd natur, ac yn dwyn egwyddorion natur i fwy o eglurdeb. Dyma

y tir a gymerai Butler. Yr oedd dadleuwyr eraill yn meddu llawer llai o oleuni, er eu bod, rai o honynt, o fewn terfynau cyfyng, yn ddyinion pur alluog. Dysgent mai y Bibl ydyw yr unig ffynnonell o wybodaeth am Dduw, ac am ein dyledswyddau ninnau tuag ato; ac elai ambell un mor bell ag i haeru fod y Bibl yn rhagweled holl ddarganfyddiadau gwyddoniaeth. Mae yn awr ger ein bron lyfr oedd unwaith mewn bri gan Gristionogion efengylaidd y deyrnas, yr hwn y mae ei deitl yn awgrymu os nad yn cynnwys cyfeiliornad;—*Y Wybodaeth am Bethau Dwyfol oddiworth Dadguddiad, nid oddiworth Reswm a Natur.\** Pe dywedasid yn eglur mai Dadguddiad ydyw unig ffynnonell gwybodaeth am Dduw, buasai amcan a drychfeddwl camsyniol yr holl draethawd yn amlwg ar y wynebdden. Yr athronydd y tynga yr awdwr iddo ydyw Locke, ac y mae yn cymeryd gofal i gywiro Locke os gwel ynddo ambell awgrym yn ochri rhywfaint at athroniaeth y drychfeddyliau. Mae yn amlwg ei fod yn barnu fod Locke yn meddwl fod adfyfyrdod yn ail ffynnonell o wybodaeth, ac y mae yn trafferthu i brofi, a hyny, dybygem, yn foddhaol, nad oes dim mater newydd mewn adfyfyrdod, os nad oes yma fwy nag adfyfyrdod, nad oedd o'r blaen mewn synwryddiaeth. Erthygl fawr ei gredo athronyddol ydyw mai y synwryau ydyw unig ffynnonell ein gwybodaeth. "Nid yw yn bosibl fod unrhyw ddrychfeddyliau yn y meddwl cyn iddynt gael eu trosglwyddo iddo gan y synwryau, oblegid nid oes un cyfrwng arall o gymundeb rhwng y gwrthddrych oddiallan a'r gallu oddimewn. Byddai yn wrthau dyweyd y gall y meddwl gyflenwi ei hun â drychfeddyliau, neu y gall feddwl pan nad oes ganddo ddim i feddwl am dano." Ac felly ymlaen am ddegau o du dalenau; ond yr ydym yn y frawddeg uchod wedi dyweyd y cwbl sydd ganddo ar y pwnc. Ond y mae yn amlwg nad oedd y duwinydd parchedig yn meddwl gydag eglurder, ac nad yw ei bennodau ar y mater ond swp o gymysgedd. Mae drychfeddwl yr un peth ganddo a syniad penodol, eglur—yr un peth a dirnadaeth gyflawn am wrthddrych. Traffertha i fwrw i lawr adailad ddychymyngol; oblegid nid oes neb yn barnu fod gan ddyw syniad am wrthddrychau allanol ar wahan i weithrediad y synwryau; ein bod, er engraifft, yn dyfod i feddu syniad am liwiau yn amgen na thrwy y llygaid, neu am seiniau yn amgen na thrwy y glust. Ac nid oes neb yn dysgu am gynghreddfau y meddwl y dygasid hwy i weithrediad ar wahan i weithrediad y synwryau. Ond y mae gwahaniaeth mawr rhwng yr addefiadau fod yn rhaid wrth y synwryau i dderbyn gwybodaeth am wrthddrychau y synwryau, ac mai trwy gyffyrddiad a'r byd allanol y deffroir cynghreddfau y meddwl i weithrediad, a'r haerriad mai y synwryau sydd yn rhoddi i ni ein holl wybodaeth. Un peth ydyw dyweyd nad allasem gyrhaedd gwybodaeth heb synwryaeth a phrosiad; peth arall mai oddiyma y daw ein holl wybodaeth, neu nad yw dyn ond derbynydd goddefol o'r byd oddiallan. Nid yr un peth ydyw mater ein gwybodaeth a'i ffurf, neu ei ffynnonell a'i hachlysur. Mae y synwryau, yn wir, yn darpar defnydd ein gwybodaeth; ond heb ryw

\* *The Knowledge of Divine Things from Revelation, not from Reason or Nature*; by John Ellis, D.D., Vicar of St. Catherine's, Dublin. 1743.

allu arall, ni fyddai argraffiadau y synwyrâu ond pethau dilun ac anghysylltiol, yn parhâu am fynydyn ac yna yn diflanu, gan roddi lle i argraffiadau eraill yr un mor amddifad o ystyr a chysylltiad, ac yn gadael y meddwl heb unrhyw wybodaeth. A'r un modd am brofiad: yn lle fod yr hyn a elwir yn ddrychfeddyllian yn firwyth profiad, y maent, o ran y bôd o honynt, er nad, fe allai, o ran ymwybyddiaeth y meddwl o'u bodolaeth, yn blaenori profiad: y rhai hyn sydd yn rhoddi sicrwydd i brofiad; arnynt hwy y mae profiad yn gorphwys; hwynt-hwy ydyw ei ddechreuad a'i sail, nid ei ddiwedd a'i nôd. Dyma, gan hyny, un o osodiadau cyntaf yr ysgol hon o dduwinyddion,—Mai unig ffynnonell ein gwybodaeth ydyw y synwyrâu; o ganlyniad, gan nad yw y meddwl ei hun ond memrwn i ysgrifenu arno, neu ystordŷ i dderbyn nwyddau; oddiallan yn unig yr ydym yn derbyn ein gwybodaeth am Dduw. Nis gallwn ei derbyn i'r graddau lleiaf oddiwrth natur a rheswm; mae athroniaeth bob amser yn llygru crefydd; yr oedd yr hen baganiaid mwyaf galluog yn cydnabod annigonolrwydd rheswm i gael allan wirionedd: mae rheswm yn egwan a thywyll trwy bechod: yr oedd syllu ar weithredoedd Duw yn arwain y cenedloedd i eilunaddoliaeth yn hytrach nag i'r wybodaeth am y gwir Dduw.

Fe welir fod yr awdwr yr ydym yn sylwi arno yn myned dros faes êang, ac y mae yn rhaid addef ei fod yn gwneuthur llawer o sylwadau da. Ei brif goll ydyw coll mewn cymesuredd. Pan yn sylwi nad oedd gan y paganiaid wybodaeth am Dduw, y cwbl a brofir ganddo ydyw nad oedd eu gwybodaeth yn gyflawn, yr hyn a ellir ddyweyd hefyd am wybodaeth angel yn y nef; nad oedd yn effeithiol, yr hyn sydd yr un mor wir am wybodaeth llawer cristion mewn enw; ac nad oedd yn ddigonol i adferu y byd, yr hyn na haerir gan neb. Ond y cwestiwn yw, Onid oedd ganddynt ryw wybodaeth am Dduw? Gwna lawer o ddefnydd o'r ffaith fod y paganiaid mwyaf ystyriol yn sychedu am ddadguddiad: ond nid yw hyny yn profi eu bod heb ddim gwybodaeth am Dduw; oblegid pe buasent heb ddim gwybodaeth, ni fuasai ynddynt syched am wybodaeth fwy eglur a helaeth. Nid yw y creadur direswm yn awyddu am ddim yn y cyfeiriad hwn; nid oes ynddo ddim i roddi bôd i'r awydd. Yr oedd awydd y pagan am fwy o oleuni yn profi fod yn ei feddwl eisoes rywfaint o oleuni, a'r goleuni naturiol oedd ynddo oedd yn peri ei fod yn ymofyn am oleuni trwy ddadguddiad goruwch-naturiol, ac ar unwaith yn ei addasu i dderbyn y dadguddiad hwnw. Fel hyn, wrth geisio profi nad oedd gan y pagan un syniad am Dduw, oddiwrth ei awydd am ddadguddiad, y mae pob prawf a ddygir ymlaen o'r awydd hwn ar unwaith yn brawf o ryw syniad dwfn am Dduw yn y meddwl mwyaf tywyll. Mewn gair, y mae y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau at hanesyddiaeth, yn gystal â'r dadleuon a seilia yr awdwr ar athroniaeth, yn profi y gwrthwyneb i'r hyn yr amcana ei brofi.

Mae y rhai a olrheinant ein syniad am Dduw at ryw ddadguddiad cyntefig a wnaeth Duw o'i fôd a'i briodoliaethau i ddynion, yn gwneuthur hyny er mwyn dyrchafu dadguddiad. Ond y mae yn amlwg fod y dybiaeth ei hun yn un o'r rhai mwyaf anghrefyddol a ddichon fod. Po fwyaf a edrychir arni, mwyaf y daw ei hanghreffyddolder i'r golwg. Mae yn wir fod dyn dan y ddyled fwyaf i'r dadguddiad yn y Gair, ond cam â natur dyn ac âg Awdwr ei natur fyddai credu mai i'r Gair y mae

yn ddyledus am yr oll o'i ddirnadaeth am Dduw : mae elfenau hanfodol y ddirnadaeth—Duw fel yr achos cyntaf o bob bôd terfynol, Duw fel Bôd angenrheidiol a thragywyddol, Duw fel Bôd Anfeidrol—yn gyrrhaeddadwy i ddyn ar wahân i bob dadguddiad oddieithr y dadguddiad yn ngweithredoedd Duw ac yn natur dyn ei hun. Os gwadwn hyn, nid oes modd osgoi y syniad hwnw am ein natur, fod ynddi “Atheistiaeth gynhenid.” Ac nid allai dyn fod yn ddeiliad addas i ddadguddiad newydd oni buasai am y dadguddiad gwreiddiol yn ei natur, yn ngoleuni yr hwn y mae yn alluog i ddarllen enw Duw ar y greadigaeth. Nid allai ddyfod i feddu crefydd o un math. Oni buasai ei bod mewn un ystyr yn wreiddiol yn ei feddwl, ni ellid ei phlanu yno : mae crefyddolder dyn ymhob oes ac ymhob cenedl yn brawf o ryw gydnawsedd â chrefydd yn ei natur. Mae rhai, fel y gwelsum, yn olrhain crefydd at ofnau a dychrynfeydd, at ddychymygion a breuddwydion yn cael eu hachosi gan anwybodaeth neu afiechyd. Dywedai pawb o'n darllenwyr fod y rhai hyny yn cablu—ar unwaith yn cablu crefydd ac yn difrio dyn. Ond nid llawer mwy crefyddol yw y syniad sydd yn ei holrhain yn ei holl elfenau at ddadguddiad wedi ei roddi yn nechreu y byd, ac yn cael ei drosglwyddo i lawr ymysg dynion trwy draddodiad. Gall dadguddiad oddiallan gywiro a boddloni y reddf grefyddol mewn dyn, ond nid ei chreu, mwy nag y gall yr athraw mwyaf medrus roddi dealltwriaeth i'r hurtyn. Ac y mae yr Ysgrhythrau eu hunain yn dysgu fod dyn wedi ei greu “i geisio yr Arglwydd, os gall ymbalfalu am dano ef a'i gael; nad yw Efe yn ddiau neppell oddiwrth bob un o honom; ei hiliogaeth ef ydym ni, ac ynddo yr ydym yn byw, yn symud ac yn bod.” Cydnebydd fod mewn dyn fath o ganfyddiad ysbrydol wrth naturiaeth; nid yn wir i ganfod gogoniant Duw, ac i feddu yr adnabyddiaeth o hono sydd yn fywyd thragywyddol, ond er hyny i ymdeimlo â'i fodolaeth ac â'i berthynas ef ei hun â Duw; ac y mae hefyd yn priodoli i'r paganiaid, ac felly i ddyn fel dyn, ryw allu i adnabod Duw oddiwrth “y pethau a wnaed,” ac oddiwrth eu cydwybodau eu hunain : ac ni fuasant yn ddiesgus am lygru o honynt y wybodaeth oedd unwaith yn eu meddiant, oni buasai fod ei elfenau o fewn eu natur. (Esa. xl. 26; Act. xiv. 17; xvii. 27—29; Matt. vi. 22, 23; Luc xi. 34—36; Rhuf. i. 19, 20.) Pe y profid nad oes gan ddyn wrth naturiaeth yn syniad am dda a drwg mewn cysylltiad â'i gymydog—mai y gyfraith wladol ydyw unig ffynnonell y syniad fod llofruddiaeth neu ladrad yn ddrwg, nis gallwn ddeall pa fodd y byddai yn iawn cosbi dyn am droseddiad o'r gyfraith hono. Ond yn gymaint a bod “gweithred” y prif ddeddfau gwladol yn ysgrifenedig ar galonau y deiliaid, y mae eu troseddiad yn gwneuthur drwgweithredwyr yn ddiesgus, er nad ydynt erioed wedi cael cyfle i ddarllen y deddfau hyny. Ac y mae yn deilwng o sylw fod athrawiaeth y Bibl ar oleuni natur a rheswm yn unol â dywediadau meddyliau uchaf y byd paganaidd. Sylwa un fod tebygrwydd mawr yn ngeiriau Aristotle yn gystal ag yn ystyr y geiriau i'r eiddo Paul yn y Rhufeiniaid. “Er fod Duw yn anweledig i bob natur farwol, eto y mae yn cael ei amlygu yn ei weithredoedd.” “Nid ydwyf yn gweled Duw,” ebe Cicero, “ac eto yr wyf yn ei adnabod oddiwrth ei weithredoedd.” Mae yn hollol anrhebygol y buasai gwirionedd mor bwysig i ddyn â'r Bôd o Dduw yn cael ei osod i orphwys ar

sail mor sigledig & thraddodiad. Mae y dybiaeth mai trwy draddodiad y disgynodd y wybodaeth yn annigonol i esbonio cyffredinolrwydd y syniad. Ac y mae yn amlwg, os nad oedd dyn ond goddefydd,—os nad oedd yn wreiddiol yn ei feddwl ryw ddeddfau angenrheidiol neu ddrychfeddyliau—nad allasai dadguddiad gyflwyno iddo y syniad am Dduw; llawer llai y gallasai argraffu y syniad mor ddwfn ag y mae, heb fod rhyw dueddiad yn ei feddwl ato, a rhyw gymhwysder ynddo i'w dderbyn.

JOHN HUGHES.

## WANTED—A NAME.

*To the Editor of Y TRAETHODYDD.*

SIR,—One of the Welsh papers lately had a paragraph with some such heading as the above, giving an account of a trial, in which there figured so many John Joneses and David Davieses as to make any account of it perfectly unintelligible, unless the various persons bearing the same christian and surnames were numbered. I remember, when I was at school, being one of three Thomas Thomases, and I had to answer twice a day, when the roll was called, to the euphonious appellation of T. Thomas 1, which was in the playground abbreviated into Tom Wan. So that in the appeal to my countrymen which I venture to ask you to allow me to make through your columns, I may, I hope, reckon upon enlisting their sympathies as a fellow-sufferer. I appeal to them to take into their most serious consideration the paucity of surnames in Wales, a paucity so great that the special object of them, namely distinctiveness, is only partially attained. In the old English play, when the Welshman in the dock is asked by the magistrate, whether he has any one to bail him, the prisoner answers, Yes! and begins to name Jenkin ap Howell ap Gwilym ap Evan ap — “Stop, stop,” cried the magistrate, “I don't want all those. One respectable man will do.” “An't please your honour,” interrupted the Irish gaoler, “it's one man he is after naming, and more by token he hasn't done yet.” Now the state of things described in the play was more tolerable than the present state, for surely there would be but one Jenkin in the parish, who had a father Howell, who had a father Gwilym, who had a father Evan, who — The magistrate stopped him there providentially. But now we are a lot of plain John Joneses and Robert Robertses undistinguished and undistinguishable. Our pedigree was once our

name: now we are stopped short at the first step, and condemned through all generations to bear as final surnames the accidental *pronomina* of the generation existing before Henry VIII. enacted fixity of appellation. The *Cambrian News* gives some amusing instances of the expedients adopted in a well-known Welsh seaport to classify the various Mary Joneses. "The difficulty is often reduced by taking names which are startlingly distinctive. Suppose there are four Mary Joneses. The first may be called Mary Gasworks, the second Mary Jones Steamer, the third Mary Jones Forty-five, and the fourth Mary Ocean Wave (the name of a vessel)." The same difficulty is felt in the border counties of Scotland, as the following extract from *Guy Mannering* will show. "Ye see, Sir," said an old shepherd, "the folks hereabouts are a' Armstrongs and Elliots and sic like, and so, for distinction's sake, the lairds and farmers have the names of their places that they live at—as, for example, Tam o' Todshaw, Will o' the Flat, Hobbie o' Sorbie-trees, and our good master here o' the Charlies-hope. Aweel, Sir, and then the inferior sort o' people, ye'll observe, are kend by sorts o' by-names some o' them, as Glaiket Christie, and the Deuke's Davie, or maybe like this lad Gabriel by his employment, Tod Gabbie or Hunter Gabbie." In a note to this passage Scott adds:—"The distinction of individuals by nicknames, when they possess no property, is still common on the Border, and indeed necessary from the number of persons having the same name. In the small village of Instruther in Roxburghshire there dwelt in the memory of man four inhabitants called Andrew or Dandie Oliver. They were distinguished as Dandie Easselgate, Dandie Wassailgate, Dandie Thumbie, and Dandie Dumbie. The two first had their names from living eastward and westward in the street of the village, the third from something peculiar in the conformation of his thumb, the fourth from his taciturn habits. It is told as a well-known jest that a beggar woman, repulsed from door to door as she solicited quarters through a village of Annandale, asked in her despair if there were no Christians in the place. To which the hearers, concluding that she inquired for some persons so surnamed, answered, 'Na, na, there are nae Christians here, we're a' Johnstones and Jardines.'" This can all be matched in agricultural Glamorganshire. Thomas Thomas of Tydraw would be called, according to the size of his holding, in a descending series: Mr. Tomos, Tydraw; gŵr y Tydraw; Tomos Tydraw; Twm Tydraw. Never so low as Twm. When a man descends to Twm, he ceases to have a "property qualification." At best he can only figure as Twm y gôf, or Twm yr efal. In the mining districts, Twm y collier or Twm y puddler would be about as good as no name at all. It is there accordingly that nicknames most abound. I am aware that nicknames are not confined to the Scottish Border and Wales, but that they are found among the lower classes in England, where there is sufficient variety of surnames. But there is, I think, this difference, that the English nicknames are unnecessary and gratuitous, and probably on that account as a rule offensive. The practical Saxon seizes upon some salient physical feature in his "mate," labels him Bill Ugly Mug or Conky Jem, and thinks he has done abundantly well. But that is not the Welsh style. I may perhaps be allowed to

give a few examples,—all authentic. A certain John marries a woman rejoicing in the uncommon but, I believe, Scriptural appellation of Achsah, and for the term of his natural life John is known as Shôn Achsah. The issue of this marriage, a daughter named Margaret, goes by the name of Peggy Shôn Achsah. Peggy Shôn Achsah marries in process of time, and her husband's rather lengthy *soubriquet* is Twm Peggy Shôn Achsah. A small boy strays away to a hillside some distance from his home, and falls asleep among the furze bushes. By and by he is missed, the neighbours turn out to assist in the search for him, and his father makes the welkin ring with shouts of "Shôni, aped (ateb) Dyta." Poor little Shôni is found very soon, but he goes down to his grave as Shôni aped Dyta, and his daughter after him has no other name than Mari Shôni aped Dyta. Sometimes there is a sly allusion. A *laudator temporis acti* named John, is styled Shôn Gwelais y Dydd. A certain David who fancies that he has risen somewhat in the social scale, and makes no secret of the fact that he thinks so, is dubbed by his late fellow-workmen, Dai Step yn Uwch.\* Another David, whose unsupported testimony is not usually received without hesitation, is appropriately termed Dafydd Gweyd y Gwir. Such are some of the desperate expedients to which a naturally not unkindly people are driven for want of an adequate supply of legitimate surnames.

Of late years an attempt has been made to vary the monotony a little by introducing a middle name. Instead of John Jones,† a child is called John Edward Jones; or perhaps it is left to the young man himself, when he has arrived at years of discretion, especially if he has an eye to the pulpit, to endow himself with a double-barrelled name; and he suddenly bursts forth as J. Ardudwy Jones, or W. Aberdaugleddau Williams. To the first plan, I have only to say that John I like, and Edward I like, but Jones remains; and to the ministerial interpolations,

\* Clywsom stori dda am gyfreithiwr parchus o Forganwg ag oedd, mae yn eglur, yn dra chydnybuddus ō'r talfyriad Dehenol "Dai" am David, ac o herwydd ei wybodaeth ieithyddol, a osodid nid yn anfynych i gyfieithu rhwng y Cymry uniaith a'u huchafiaid dysgedig, y barnwyr Seisonig, yn y llysoedd barn. Yr oedd Cymro ieuanc deallus, un o feibion yr Ysgol Sabbothol, yn cael ei holi. "And what did he say then?" ebe'r barnwr. "Mae ei *honour* yn gofyn beth 'wedsoc'h chi wedin?" "Mi ddwedes na ddwedwn i ddim rhagor wrtho ar y mater ond yn mhresenoldeb dau dyst." "He says, your honour, that he said that he would not say any more to him except in the presence of some fellow he calls Dai Dyst."

Mewn amgylchiad arall yr oedd pob rheswm yn dangos yn amlwg fod y carcharor yn euog, er nad oedd prawf cyfreithiol digonol dros ei gondemnio. Dan yr amgylchiadau tybiodd y barnwr yn addas roddi cerydd llym iddo, yr hyn a wnaeth mewn anerchiad difrifol, a gymerodd gryn amser i'w draddodi. "Now translate that," ebai wrth yr un Cymro enwog a ddywedai mor ddoniol am Dai Dyst. "Ac mae'r *judge* yn dweyd," meddai yntau, "dy fod yn greadur drwg diawledig!" "Have you told him all I said?" "Yes, my Lord." "Then I must say that the Welsh is a very expressive language!"

Mewn amgylchiad arall gofynai y dadleuydd, "How much stock was there on the farm?" "Faint o *stock* o'dd ar y fferm?" rhŷai yr atwrnai dysgedig oedd yn cyfieithu. "Tair burwh ac aner," atebai y tyst oedd yn cael ei holi. "Three cows and a half," ebai y cyfieithydd. "What!" ebe'r barnwr. "That's what he said, my Lord! I can't make anything else of it."—Gol. y TRAEHTHODYDD.

† Bai blynyddoedd yn ol yr oedd offeiriad parchus yn Nghroesoswallt o'r enw Mr. Cuthbert. Un diwrnod cyfarfu fachgenyn ar y ffordd a gofynodd, "What is your name, my boy?" "John, Sir." "John what?" "John Jones, Sir." "Ah, my poor boy," ebe yntau, "you may as well be without any name at all!"—Gol. y TRAEHTHODYDD.



that they are usually outlandish in appearance and sound to English eyes and ears, names such as would make Quintilian stare and gasp worse than even the Irish and Scotch names mentioned by Milton. I would therefore, with great submission, offer this suggestion to the Welsh public. If we are to adopt new names, let us adopt them not *in addition to*, but *instead of* the common ones. You will not get people in general to recognise your Aberdaugleddau. They will call you Williams briefly. It is therefore not by inserting middle names that any great reform can be effected, but by changing the final names, throwing over Thomas and Williams and Davies and Evans, and a few more of the commoner Welsh names altogether (please observe that I would not have anyone drop such names as Ellis, Griffith, Howel, Llewelyn, Lloyd, and Rhys—they are not overcrowded), and substituting for them new surnames. By all means select a Welsh name, but choose one that others besides native of Wales can pronounce correctly, or nearly so, on reading them. To that end, you must slightly Anglicize some of them, before will they grow sleek to Saxon mouths. No one will deny to the Scotch the qualities of patriotism and sturdy independence, and what the dour Scot has not thought it derogatory to do, we may surely without loss of dignity do likewise. Take for instance the following Highland names: how they have softened them! The Gregarach have become Macgregors, Gregors, Grigors, and Gregories; and the MacNeachdaill, Macnicola, Nicols, Nicolsons, and Nicholsons. Mach-Klyoda has become Macleod, and Gearaidh na'h Aimphe (the name of a mountain) has been consolidated into Garra-na-hinna. Balmerinoch is now Balmerino, and Evan Dhu Maccombich, the cattle-lifter and blackmail levier of "The Forty-five," has toned down into Mr. M'Combie, M.P., of Tillyfour, cattle-breeder and prize-medal winner of this generation. These are probably not the best instances that could be found, but only a few that I have happened to come across. Nor are we entirely without specimens of this tendency in Welsh names of persons and places. I have found Angharad, the name of a Welsh lady, transformed in an English History book into Ankaret, and Ednyfed into Ednevet. Other instances will be found below. But I may be asked, Where are these easily pronounced Welsh names to be found? If we escape from the commonplace names of to-day, shall we not find ourselves landed in the midst of the certainly more striking but uncommonly bristling Brochmael Ysgythros of the old genealogies? Not at all. There is no sort of necessity for so extreme a measure. The following names are thoroughly Welsh, and still, though too rarely, in use in various parts of Wales: Anwyl, Bengough, Beynon, Blethyn, Breese, Cadwallader, Cradock, Devonald (Dyfnwal), Eynon, Games (claiming descent from Sir David Gam), Gethin, Gough, Glyn, Gronow (Goronwy), Gwillim, Gwyn, Gwyther, Leyshon, Maddock, Meredith, Meyler, Meyrick or Merrick, Mostyn, Pennant, Penrice, Penry, Protheroe and perhaps Petherick (Prydderch), Rotheroe, Trevor, Tudor (or Tydder, as Queen Elizabeth pronounced her surname), Traherne, Treharne, Vaughan (Fychan), and Yorath (Iorwerth). Take again the following names, all genuine Welsh, but now, I believe, exclusively borne by English families—presumably

of Welsh extraction: Bethel, Beevor, Bithel, Cadell,\* Cadogan, Conway, Floyd (evidently an attempt to preserve the sound of the *Ll* in Lloyd—compare Fluellen and Llywelyn), Garth, Gwilt, Heylyn, Kemeys (Cemmaes), Kyffyn (readers of Macaulay will remember a London Alderman of that name), Laugharne (the Langhorne of some history books: it was the name of the Royalist commander who was defeated at St. Fagan's), Mervyn, Moyle (descendants apparently of an unusually bald progenitor), Penrhyn, and Sayce or Seys. Other suitable names, now extinct, such as Cadwallon, Dervel, Glendower, Jestyn, Tremerin, might be found in any History of Wales. Then again, what a field there is for judicious coining from names of places and natural objects! To give two instances, I met with the name Rhyl the other day in a Medical Directory, and the name Trevaldwyn (a very beautiful name in my opinion) in the Clergy List. Why should we not have names beginning with Aber and Llan, or why should we leave to the Bretons and Cornish a monopoly of those beginning with Caer † or Car and Tre and Pen? That Welsh names can be found euphonious enough for peers to wear and be known by in English society is sufficiently proved by such titles as Aberdare, Brecknock, Cadogan, Cardigan, Carmarthen, Carnarvon, Denbigh, Dinorben, Dunraven (Dindryfan), Dynevor (Dinefawr), Emlyn, Glamorgan, Gwydyr, Meredyth, Mostyn, Pembroke, Penrhyn, Powis, Tredegar. Some of these have already been mentioned as being in use as ordinary surnames, and most of them might be so used. I will venture to add to them a few of my own selecting: Alyn, Carvan, Colwyn, Caerleon, Corris, Dinorwick, Duffryn, Elwy or Elwey, Glascombe, Gledwyn, Gwent and Gwyneth (why not as well as Powis?) Kennarth, Lisworney, Merthyr, Penmayne, Trevelyn, Trevethin, Vardray, Vaynor, Wenvoe. I submit these names merely as samples. What I said about the specimens of softened Highland names I repeat here. They are not probably the best that could be found, but the best or rather some of the best that I have been able to find. They are at any rate Welsh and easily pronounced.

But how is this reform to be brought about? Are all Welshmen to drop their present honest names for these new-fangled or old-fangled productions? I do not propose anything so revolutionary. I do not

\* There are no fewer than seven officers of this name in the Army List. The original Cadell appears to have been the grandfather of the above-named Brochmael Ysgythrog. "Brochmael Ysgythrog oedd fab i Cyngen ap Cadell Deyrnllug."

† The following advertisement, which I copy from a recent *Times*, may interest some of your readers: "Whereas from A.D. 1274 until A.D. 1765, the right and legal orthography of my surname was, in all charts, deeds, and legal documents, spelt Caerdoel, and it was only since the latter date that it has been spelt Kerdoel, I intend henceforth to resume the former legal orthography of my surname. Therefore I, Emile Cherubin Buzic de Maurepas Caerdoel, of \_\_\_\_\_, will from this day's date write in all deeds, documents, and correspondence, and sign my name according to its legal orthography thus—Caerdoel."

EMILE CHERUBIN BUZIC DE MAUREPAS CAERDOEL."

Readers of English History will remember the name of the French or rather Bretonne adventuress, who negotiated the Treaty of Dover—Louise de Querouaille, popularly known in England as Madam Carwell. Querouaille itself is only the French form of Kerhoel, that is, Caerhywel. We have then Caerhywel Armorized or *Llydanized* into Kerhoel, which is Frenchified into Querouaille, which is Anglicized into Carwell.

wish to destroy the Welsh nomenclature but to diversify it. I would, if I could, blot out none (or very few—I confess to a spite against Thomas) of the existing names; but intersperse them with others. The proposed change would be gradually accomplished, if in every neighbourhood a few young men beginning life, who have no long past to break with, had the courage to adopt new names for themselves, or if a few fathers of families did so for their children. I have several sons, whom I do not mean to send out into the wide world handicapped with the depressing surname of Thomas. For myself, I am too old, and have borne my present name too long to change without inconvenience—real or fancied. I shall therefore, I fear, continue to the end of the chapter to subscribe myself

T. T.

---

## WILLIAM EWART GLADSTONE.

*The Life of the Right Hon. W. E. Gladstone.* By GEORGE BARNETT SMITH. Cassell, Petter, Galpin, & Co. 1879.

*Gleanings of Past Years.* By the RIGHT HON. W. E. GLADSTONE, M.P. 7 Vols. John Murray, London. 1879.

Os oes enaid o wirionedd yn nghynghor y doethawr Groegaid, “Na elwch neb yn ddedwydd cyn ei farwolaeth,” yna y mae gwaith y ganrif bresennol yn cyhoeddi hanes bywyd dynion cyn bod y bywyd hwnw wedi gorphen ei waith, ac o ganlyniad ei ddadblygiad, yn beth na ddylid bob amser ei dderbyn gyda ffafwr. Y mae bywyd y dynion goreu,—ac ni ddylid ysgrifenu hanes neb arall gyda'r manylrwydd sydd yn briodol i fywgraffiaeth,—yn ddadblygiad parhâus o'r cryd i'r bedd; ac nid ydyw wedi gorphen ffurfio ei hun fel dylanwad arosol ar y ddynoliaeth hyd nes bydd yr *act* ddiweddar ar ben, a lleni marwolaeth wedi ei guddio o'n golwg. Wedi hyny, yn briodol, y mae yn dyfod yn wrthddrych hanesyddiaeth; ac y mae yr hanes yn gwasanaethu fel cyfrwng i gadw byth mewn coffadwriaeth y dyn sydd bellach wedi ei symud o'n plith. Dyma ydyw yr amcan sydd mewn golwg wrth ysgrifenu Bywgraffiadau dynion; fel y mae y gair yn awgrymu, llun ac argraff ysbryd dyn ydyw mewn papyr ac inc; a champ fawr bywgraffydd ydyw anadlu anadl einioes i fewn i'r llyfr, a'i wneyd yn fyw gan eiriau a phresennoldeb y dyn fu unwaith yn symud yn ein mysg. I'r graddau y mae Bywgraffiaeth yn llwyddiannus i wneyd hyn, mae hi yn dyfod yn un o' ganghenau pwysicaf llenyddiaeth cenedloedd.

Heblaw hyn, nid yn unig y mae bywyd yn anorphenol tra y mae y dyn byw yn aros yn ein mysg, ond y mae yn amheus iawn a ellir bod yn ddigon rhydd ac anhleiddgar mewn cronicle gweithredoedd dyn tra y mae efe ei hun eto gyda ni, ac yn edrych yn ein llygaid. Y mae rhyw gymaint o bellder yn angenrheidiol tuag at ddeall y darluniau goreu; nis gellir yn hawdd werthfawrogi y gelfyddyd, nac amgyffred drychfeddwl yr arlunydd, os byddwn yn rhy agos at ei waith. Felly hefyd dichon fod rhyw gymaint o bellder yn angenrheidiol cyn y gallwn roddi ei le priodol i unrhyw ddyn. Y mae yn sicr o fod yn fantais tuag at iawn farnu ei ddylanwad a'i le yn hanes y ddynoliaeth, fod ei fywyd wedi cael rhedeg ei gwrs allan; canys am ddyn gwirioneddol fawr a da, fel holl fendithion mawrion y nefoedd i'r byd, nis gellir gwybod ei wir werth cyn ei golli o blith y byw. Doeth, gan hynny, fel rheol, ydyw i fywgraffiaeth aros amser Duw; a chymeryd fel arwyddair eiriau yr Ysgrhythyr Lân—"Y mae efe wedi marw yn llefaru eto."

Ond y mae ychydig o gymeriadau dewisol ag yr ydym yn foddolawn eu hystyried yn eithriad i hyn; dynion sydd wedi llenwi y fath le pwysig yn hanes eu gwlad, a'u bywydau mor lawn o'r egwyddorion sydd yn hanfodol i fywyd uchaf y wladwriaeth, fel y mae yn un o'r arwyddion goreu mewn gwlad pan y mae hi yn dyheu am gael eu hanes yn ysgrifenedig cyn y bydd Rhagluniaeth wedi eu symud o'n mysg. Bywyd felly ydyw yr un sydd ger ein bron, yn ol pleidlais y mwyafrif; ac y mae yn dyweyd llawer am awydd y wlad am dano fod y trydydd, y pedwerydd, a'r pummed argraffiad o'r ddwy gyfrol wythplyg wedi eu gwerthu mewn llai na phum wythnos, a bod y seithfed o'r argraffiad poblogaidd yn awr allan. Y mae y wlad wedi dangos yn ddiweddar ei bod yn gwerthfawrogi bywyd a llafur Mr. Gladstone, nid yn unig trwy ddarllen ei hanes yn y cyfrolau hyn, ond hefyd mewn modd mwy gwledig ac effeithiol, trwy ei alw drachefn i'w llywodraethu; ac y mae yn hanes ei fywyd ddefnyddiau helaeth i gadw y parch hwn yn fyw am flynyddoedd lawer, yn gystal ag i godw yr addysg uchaf yn egwyddorion gwladweiniaeth bur a rhyddfrydig.

Y mae y gwaith hwn yn dangos yn eglur iawn fod Mr. Gladstone wedi llanw lle pwysig yn hanes ei wlad. Yn wir, ei hanes ef ydyw hanes pob peth mawr a da yn Senedd Prydain am y deugain mlynedd diweddaf. Ped ysgrifenedig hanes sylweddol y Senedd am y tymmor a enwyd, fe fuasai yn rhedeg yn gyfochrog â'r hyn a gawn yma; ac fe fuasai bod geiriau a gweithredoedd Mr. Gladstone yn eisieu, yn debyg i ddrama Hamlet a rhan Hamlet wedi ei gadael allan. Y mae ei fywyd ef yn un o'r etifeddiaethau goreu sydd yn perthyn i'r Senedd yn ei holl hanes; y mae yn crynhoi i fyny iddo ei hun bob peth sydd yn fawr, ac yn rhinweddol, ac yn bur, am y tymmor crybwylledig; ac mewn oesoedd i ddyfod y mae yn ddiau y bydd ei hanes yn arweiniad diogel iddi mewn llawer dyryswech, ac yn ysbrydoliaeth iddi yn ei hymdrech dros ryddid y byd.

Ni a welwn yma hefyd fod gwahaniaeth mawr rhwng Gladstone yr henafgwr a Gladstone yn ei ieuentyd—bod ei feddwl wedi bod yn agored i oleuni, ac oblegid hyny i gyfnewidiad. Nis gwyddom am well engrafft o ddadbyliad yn hanes y meddwl na'r bywyd sydd yn

gorwedd ger ein bron yn y tu dalenau hyn. Fe welir hyny, i raddau, yn y darluniau gawn yma o ddyrn allanol Mr. Gladstone. Y mae yma ddau ddarlun o hono, un pan oedd yn 31 oed, a'r llall wedi ei gymeryd y flwyddyn ddiweddar, pan oedd yn 69. Mae y ddau mor wahanol fel mai yn ddigon prin y gellir meddwl eu bod yn ddarluniau o'r un person; ond wrth sylu yn daer, fe ganfyddir yr un edrychiad treiddgar a difrifol yn y llygaid, yr un penderfyniad ac ystwythder yn llinellau y genau, yr un eangder a chadernid yn y talcen, ac wedi sylwi am beth amser, a chyda'r holl fanylrwydd sydd yn ddichonadwy, yr ydym yn dyfod i'r penderfyniad mai yr un wynebpryd ydyw; ond yn unig fod wyneb yr henafgwr yn ymddangos yn fwy agored a dilyfethair na gwyneb y llanc. Tybiwn y delai yr un gwahaniaeth i'r golwg, pe caffem olwg ar ei ysbryd ar y gwahanol gyfnodau hyn. Y mae ei feddwl oddiar hyny wedi ennill mewn nerth a haelfrydedd. Oddiar y gallu sydd ganddo i edrych ar bob symudiad a phob agwedd mewn cymdeithas yn syth yn ei wyneb, ac oddiar ei gydwobodolrwydd i ddilyn y goleuni lle bynag yr arweiniai ef, y mae wedi cyfnewid lawer yn ei syniadau gwleidyddol. Ond nid ydyw y cyfnewidiad hwn yn ddirmyg arno mwy na'r ffaith ei fod wedi bod unwaith yn ieuanc; yn hytrach, y mae y cyfnewidiad hwn yn dangos ddblygiad nerthol ei feddwl yn tori trwy y terfynau a dafwyd o'i gwmpas gan addysg ac amgylchiadau boreu oes. Y mae yn hysbys iddo gychwyn ei fywyd cyhoeddus fel Ceidwadwr, ac edrychai Macaulay arno fel prif obaith y blaidd hono—"The rising hope of those stern and unbending Tories;" ond nis gallai gau y goleuni allan o'i feddwl, a chyn hir fe'i harweiniwyd gan ei gydymdeimlad dwfn â dyn, yn gystal a'i syniad am yr egwyddorion sydd wrth wraidd mawredd a llwyddiant y wladwriaeth, i dafu ei ran a'i lafur i fysg y Rhyddfrydwyr, y blaidd sydd wedi bod yn enwog yn hanes ein gwlad am gefnogi rhyddid ymhob gwedd arni. Yr ydym gan hyny yn cymhell darllenwyr y TRAETHODYDD i'n dilyn ni tra y gosodwn ger eu bron brif ffeithiau a helyntion ei fywyd.

Mae Mr. Gladstone wedi hanu o'r dosbarth canol o gymdeithas—y dosbarth sydd yn ffurfio asgwrn cefn Prydain Fawr, blaenffwrth ei nerth a phen conglaen ei rhyddid gwladol a chrefyddol. Ac y mae egni a gweithgarwch y canolraddau yn elfen amlwg iawn yn ei natur. Yr oedd ei dad, Syr John Gladstone, yn fasnachwr enwog yn Liverpool; ac yr oedd wedi ei ddonio yn fawr â'r galluedd hyny sydd wrth wraidd llwyddiant y ddinas enwog hono fel un o brif borthladdoedd y byd. Daeth efe i Liverpool o Leith, tref yn Scotland; ac ni bu nemawr o amser cyn codi ei hun, trwy ei graffder a'i ysbryd anturiaethus, yn un o dywysogion masnachol y dref. Yr oedd ei dad, Thomas Gladstone, yn hanu o hen deulu Ysgotaidd y Gladstones o Arthurshiel yn Clydesdale; ac y mae profion cyfreithiol fod yr ystad uchod yn berchenogaeth y teulu yn 1623; ac y mae rhai yn olrhain y teulu i fyny i'r drydedd ganrif ar ddeg. Mab hynaf Thomas Gladstone o Leith ydoedd Syr John Gladstone, tad y Prifweinidog. Fe briododd Syr John Gladstone yr ail waith âg Ann Robertson, merch Mr. Andrew Robertson o Stornoway. Yr oedd hi yn foneddiges o ddiwylliad helaeth, o ymddygiadau swynol ac ennillgar, yn urddasol o rau ei hymddangosiad, ac o alluedd meddyliol tu hwnt i'r cyffiredin.

Ganwyd iddynt chwech o blant,—pedwar mab a dwy ferch. O'r rhai hyn dau yn unig sydd yn fyw, Syr Thomas Gladstone, Barwnig, o Fasque, a'r Prifweiniog. Olrheinia rhai linach mam Mr. Gladstone o Harri III. o Loegr, a Robert Bruce o Ysgotland. Cymered y darllenydd hyn am ei werth; ac y mae iddo roesaw i roddi parch ychwanegol i'r gŵr da o herwydd hyn. Nid ydyw yn debyg ei fod ef ei hun yn rhoddi fawr o bwys arno; ac i ninnau, yr hyn ydyw ynddo ei hun, ac nid yn ei henafiaid, sydd yn ei wneyd yn urddasol.

Pan anwyd y Prifweiniog yn Rhagfyr 29, 1809, yr oedd hi yn amser tywyll ar y wlad, ac yn wir ar Ewrop. Yr oedd Napoleon I. y pryd hwnw yn anterth ei ogoniant a'i warth; yr oedd Ewrop bron i gyd yn gorwedd yn ei gwaed wrth ei draed: Prydain oedd yr unig rwystr ar ffordd ei uchelgais. Tua'r amser hwn y dywedodd Syr James Mackintosh: "Mae holl gofgolofnau rhyddid yn Ewrop wedi eu dyfetha. Mae yr hen adeilad a godwyd yn raddol gan ddoethineb a gwroldeb ein henafiaid yn sefyll eto; ond y mae yn sefyll mewn unig-rwydd, ac ymysg adfeilion." "Yr oedd hi yn amser," fel y dywed Mr. Smith yn y gwaith sydd ger ein bron, "i beri i bob dyn ymbwyllo; ac nid oes fawr o reswm genym i synu fod dynion o feddiannau, marsiandwyr ac eraill, y rhai nid oeddynt hyd yn hyn yn cael eu drwg-dybio o un duedd at Geidwadaeth, yn awr yn teimlo attyniad cryf i'r cyfeiriad hwnw. Fe ddichon fod a fyno hyn âg ymlyniad Mr. John Gladstone wrth Mr. Canning. Beth bynag, wrth ddilyn hanes ei fab, rhaid cadw golwg ar y dylanwad hwn. Derbyniodd ei wladweiniaeth a'i ewyllys gref oddiwrth ei dad; ei deimladau tyner, ei allu a'i barodrwydd i dderbyn argraffiadau, oddiwrth ei fam. O dan ddysgeidiaeth ei dad, ac yn cael ei adgofio yn gyson, a'i hyfforddi yn egwyddorion Canning, nid ydyw yn rhyfedd fod Mr. Gladstone wedi cychwyn bywyd fel Tory."

George Canning ydoedd yr Ysgrifenydd Tramor yn Ngweinyddiaeth y Duc o Portland; ac efe oedd ysbryd a bywyd y Weinyddiaeth. Yr oedd yn un o ganlynwyr mwyaf brwdfrydig Pitt yr ieuengaf, yn ddylanwad mawr yn y Senedd trwy ei hyawdledd, ac yr oedd nerth ac eangder ei feddwl wedi rhoddi ysbryd newydd yn y deyrnas yn ei gwrthwynebiad yn erbyn Napoleon. Ni fu pethau erioed mor dywyll yn Ewrop; ac yr oedd gwrthwynebiad yn erbyn y teyrn a symudai fel angel dinystriol ar y Cyfandir, yn ymddangos bron yn anobeithiol. Yr oedd holl Ewrop Orllewinol yn gorwedd wrth ei draed; ac yr oedd ei gyfeillgarwch â'r Czar Alexander ar ol brwydr Eylau, yn argoeli yn ddrwg am y Dwyrain. Yr oedd Rwsia law yn llaw â Napoleon mewn cario allan osodiadau Berlin yn erbyn masnach Prydain; ac y mae yn sicr fod Liverpool, fel porthladdoedd mawrion eraill, ymysg y cyntaf i deimlo y ddyrnod. Ond fe roddodd craffder ac egni yr Ysgrifenydd Tramor gyfeiriad newydd i'r ymosodiad yn erbyn Napoleon; a thrwy ei fesurau craffus a pharod, efe a drodd y llanw yn ei erbyn, ac a hyrwyddodd ddiwedd yr hwn oedd wedi bod yn bla ar Ewrop. Nid rhyfedd gan hyny fod tad y Prifweiniog wedi teimlo attyniad tuag at egwyddorion Canning; ac yr ydym yn ei gael yn y flwyddyn 1812 yn llywydd cyfarfod a gynnullwyd yn Liverpool, i'r dyben o wahodd Canning i ddyfod yn ymgeisydd am gynrychiolaeth y dref. A'r un

flwyddyn, wedi yr etholiad, yn yr hwn y dychwelwyd Canning a Gascoyne, fe anerchodd y blaenaf y dorf o ffenestr Mr. Gladstone yn Rodney Street. Yr oedd y Prifweinidog yn dair blwydd oed y pryd hynny; a thrwy y cyfeillgarwch oedd rhwng ei dad a Canning, a'i edmygedd mawr o hono, fe hauwyd hadau edmygedd cyffelyb yn meddwl William Ewart; ac y mae y dylanwad hwn wedi ei ddilyn trwy ei oes. Y mae yr ysbryd a gynhyrfodd y gŵr hwnw, i arwain y deyrnas yn yr ymosodiad bythgofiadwy yn erbyn Napoleon I., pan oedd ei seren ddysgleiriaf, wedi bod yn gweithio yn Mr. Gladstone yn ei ymosodiad parhâus yn erbyn gormes a thrais,—yr ysbryd a'i gwnaeth yn wrthwynebydd eyson, ac o'r diwedd llwyddiannus, yn erbyn gwladweiniaeth ymherodrol a gormesol Arglwydd Beaconsfield.

Mewn amser cyfaddas, wedi iddo fod o dan addysg y Parch. William Rawson, yr hwn a fu yn athraw hefyd i Syr R. A. Cross, y cyn-Ysgrifenydd Cartrefol, a Deon Stanley, penderfynodd ei dad ei ddanfôn i Eton. Canfyddodd yn foreu ddadblygiad ei alluoedd a gobeithion amlwg ynddo o ddefnyddioldeb ac enwogrwydd; ac yr oedd yn ofalus ar bob achlysur i ddeffro ei feddwl i weithgarwch. Dywedir pan nad ydoedd y bachgen ond 12 oed, y byddai ei dad yn arfer dadleu gydag ef ar bynciau mawrion y dydd, gan ei ddysgu i feddwl a barnu drosto ei hun, ac i chwilio yn fanwl am resymau dros y farn oedd ganddo ar gwestiynau politicaidd. Y mae Prydain a'r byd yn sier o fod yn ddyledus iawn i Syr John Gladstone am y gofal gymerodd mor foreu gyda William Ewart, trwy ei ddysgu i feddwl drosto ei hun, a chloddio yn ddwfn am resymau dros y farn a ffurfiad ganddo am ddyinion a'u cysylltiadau; ac y mae yn ddigon posibl mai i'r ddysgyblaeth foreu hon y mae y blaidd Ryddfrydig yn ddyledus am ei harweinydd a'i Phrifweinidog presennol. Dyma a'i gwnaeth yn Rhyddfrydwr bron heb yn wybod iddo ei hun,—y duedd a dynwyd allan mor foreu yn y dadleuon cartrefol i edrych islaw y wyneb, a mynu gweled y gwaelodion dwfn ar ba rai y mae pob barn dda a chywir i orphwys. Diau fod Mr. Gladstone yn awr yn teimlo ei hun yn ddyledus iawn i'r oriau a dreuliodd yn ei ieuentyd gyda'i dad yn Rodney Street; ac y mae yn dda genym gael yr achlysur hwn wrth fyned heibio, i dalu gwarogaeth i dad sydd yn deilwng o fab mor enwog.

Aeth William Ewart i Eton yn 1821, a gadawodd yn 1827. Y mae yn sier fod i'r blynyddoedd hyn le pwysig yn ei hanes. Clasurol ydoedd natur yr addysg a gyfrenid yn Eton yr adeg hon; ac er fod y sefydliad wedi gorfod cyfaddasu ei hunan ar gyfer yr oes, trwy dderbyn i mewn yr ieithoedd diweddar a'r *mathematics*, eto i gyd mae y canghenau hyn yn ail-raddol, ac y mae yr addysg yn parhâu hyd y dydd hwn yn benaf yn un glasurol. Ond yr adeg yr aeth William Ewart Gladstone yno, nid oedd dim addysg yn cael ei gyfranu mewn *mathematics*, *physics*, *metaphysics*, a'r canghenau eraill sydd yn rhan o addysg gyflawn y dyddiau hyn. Yr unig bethau y derbynid addysg ynddynt ar y pryd yno oedd ynt yr ieithoedd clasurol, Groeg a Lladin; a chymaint o dduwinyddiaeth ag a ellid ei gasglu trwy ddarllen y Testament Groeg, a *Tomline on the Thirty-nine Articles*, ac ychydig o ddaearyddiaeth. Y cyfryw ydoedd natur y sefydliad a'r awyrgylch lle y treuliodd Mr. Gladstone ei ieuentyd; ac y mae yn fwy na thebyg

mai dyma lle y gosodwyd i lawr sylfaen yr ysgolheigddod clasurol, sydd wedi bod yn un o'i ddifyrion penaf yn ei oriau hamddenol, ac wedi ei wneyd yn un o addurniadau penaf ei oes. Tra yn Eton ennillodd radd dda iddo ei hun fel ysgolaig diwyd a llwyddiannus; ac yma ni a welwn flaenffwrth y diwydrwydd a'r ffurwythlondeb sydd yn un o'i nodweddion mwyaf adnabyddus. Fe fu yn brif offeryn i gychwyn yr *Eton Miscellany*, misolyn a gyhoeddwyd gan yr Etoniaid, ac er ei fod o dan olygiaeth broffesedig un Bartholemew Bouverie, Gladstone ydoedd ei brif nerth. Yn y rhan olaf o'r rhagymadrodd, yr hwn a ysgrifenydwyd gan Gladstone, cawn y geiriau hyn, y rhai sydd yn ddyddorol heddyw fel yn dangos yr ofnau a'r gobeithion oedd yn ymddoni yn ei feddwl pan yn edrych ymlaen at fywyd:—

In my present undertaking there is one gulf in which I fear to sink, and that gulf is Lethæ. There is one stream which I dread my inability to stem, it is the tide of Popular Opinion. I have ventured, and no doubt rashly ventured—

Like little wanton boys that swim on bladders  
To try my fortune in a sea of glory,  
But far beyond my depth.

At present it is hope alone that buoys me up; for more substantial support I must be indebted to my own exertions, well knowing that in this land of literature merit never wants its reward. That such merit is mine I dare not presume to think; but still there is something within me that bids me hope that I may glide prosperously down the stream of public estimation; or in the words of Virgil:

*Celerare viam rumore secundo.*

"Little," ysgrifena ei fywgraffydd, "could the writer of these words imagine—forecasting the future even by the aid of youth's most ardent desires—that he would live to fill the most exalted office it was in the power of his Sovereign to bestow." Digon gwir, ac eto y mae yn ddigon amlwg, hyd yn nod yn y cyfnod hwn, ei fod yn edrych gyda brwdfrydedd, beth bynag am benderfyniad, i'r cyfeiriad hwnw. Mewn papyr a ysgrifenydwyd ganddo ar *Eloquence* cawn y geiriau hyn: "A successful *debut*, an offer from the Minister, a Secretaryship of State, and even the Premiership itself, are the objects which form the vista along which a young visionary loves to look." Y mae y frawddeg hon yn brawf sicr fod llygad ei feddwl y pryd hwnw ar yr uchelderau y mae yn sefyll arnynt yn bresennol.

Ar ol ei ymadawiad âg Eton yn 1827, ac wedi bod ddwy flynedd o dan addysg bersonol Dr. Turner, wedi hyny Esgob Calcutta, aeth Mr. Gladstone i Rydychain, lle y bu yn efrdydd yn Christ Church. Gadawodd y Brifysgol yn 1831, gan ddyfod allan yn *double first class*—graddau uchaf y Brifysgol. Yn Rhydychain yr oedd ei fywyd yn bob peth a allasai fod yn rhagfynegiad o'r dyfodol dysglær oedd o'i flaen. Cymerodd ran amlwg yn nadleuon yr Oxford Union—cymdeithas ddadl-euol mewn cysylltiad â'r Brifysgol, lle y cyfarfydd yr efrydwyr unwaith yr wythnos i ddadleu ar bynciau mawrion y dydd mewn Gwleidyddiaeth a Llenyddiaeth. Taffodd ei hun i'r dadleuon hyn gyda'i agni arferol; ac ar ol ei araeth gyntaf yn Chwefror 11, 1830, etholwyd ef



yn aelod o'r pwyllgor. Y flwyddyn nesaf etholwyd ef yn Ysgrifenydd, ac wedi hyny yn Llywydd y Gymdeithas. Yn ystod yr amser y bu yn Rhydychain, cawn hefyd fod Arglwydd Selborne, Arglwydd Sherbrooke, ac Archesgob Caergaint, wedi bod yn llywyddion.

Y mae ei fywyd cyhoeddus wedi profi gwirionedd y prophwydoliaethau a aethan o'r blaen am dano pan oedd yn Rhydychain. Nid ydyw llwyddiant athrofaol bob amser yn troi allan yn rhagfynegiad mor gywir. O'r llu o ddynion ieuainc a hynodant eu hunain mewn athrofa, nid ydyw y degwm o honynt yn dyfod i sylw yn y byd. Mae mwyafrif mawr y *Senior Wranglers*, a'r *double first class*, yn diflanu o olwg y byd unwaith y diflanant o'r *pass list*; nid oes pedwar ugain a deg y cant o honynt byth yn codi i'r golwg drachefn. Y mae genym awdurdod uchel dros ddyweyd, fod rhai a gymerasant raddau uchel mewn Prifysgolion wedi eu cael mewn safleoedd digon dinod mewn bywyd. "An Oxford education fits a man extremely well for the trade of a gentleman. I do not know for what other trade it does fit him, as at present constituted. More than one man who has taken high honours there, who has learnt faithfully all that the University undertakes to teach him, has been seen in these late years breaking stones upon a road in Australia. That was all he was found fit for when brought in contact with the primary realities of things." Dyma fel y llefarodd James Anthony Froude wrth efrydwyr St. Andrews yn 1869. Ond er credu fod yr engrafft a noda yn un eithriadol iawn, eto i gyd y mae yn ffaith fod esieu y fath gyfuniad o alluoedd i godi i enwogrwydd yn y byd, fel y mae aml un sydd wedi bod yn hynod fedrus i feistrolï llyfrau ac i gasglu gwybodaeth, wedi methu gorchfygu y rhwystrau oedd ar ei ffordd, pan ddaeth i gyffyrddiad â'r pethau a eilw Mr. Froude "the primary realities of things." Y mae hyn i raddau, o bosibl, yn ddyledus i waith y dyn ei hun yn gorphwys ar ei rwyfau, ac yn tynu ei hwyliau i fewn, wedi cyrhaedd nod ei uchelgais yn yr Athrofa. Nis gall dyn wneyd fawr o argraff ar y byd heb iddo yn barhâus fod ar ei oreu yn defnyddio ei alluoedd a'i wybodaeth; ac y mae llwyddiant athrofaol yn troi yn fagl ac yn rhwyd iddo os na fydd yn symbyliad i fwy o egni a llafur yn y dyfodol. Fe gyll y meddwl galluocaf ei awch a'i ddysgleirdeb, beth bynag fyddo ei lwyddiant athrofaol, os na fydd uchelgais ac egni yr athrofa yn troi yn weithgarwch parhâus mewn bywyd. Nid ydyw graddau uchaf unrhyw Athrofa yn ddim ynddynt eu hunain, ond i'r graddau y maent yn gymhwysder i ddefnyddioldeb helaethach, ac yn symbyliad iddo: heb hyn fe ddechreu a goron wywo cyn bod y dyn wedi croesi trothwy ei *Alma Mater* allan i'r byd. Ar yr un pryd y mae yn rhaid addef fod llwyddiant athrofaol, pan y mae yn gynnyrch diwydrwydd, penderfyniad, ac egni meddyliol, yn addaw yn dda am ddyfodol dyn. Fe fydd cyfansoddiad y gymdeithas ddynol yn wahanol i'r peth ydyw cyn y gorfodir y cymhwysderau hyn i dori ceryg ar yr heol. Yr un, fel rheol, ydyw ammodau llwyddiant yn y byd ag yn yr Athrofa; ac os gall yr efrydydd llwyddiannus sydd wedi esgyn grisiau uchaf y Brifysgol, ddwyn diwydrwydd a brwdfrydedd ac egni ei fywyd athrofaol at ei alwedigaeth yn y byd, beth bynag fyddo, y mae yn sicr o fod yn llwyddiannus. Gwelwn hyn yn mywyd Mr. Gladstone ac eraill oeddynt yn gydefrydwyr ag ef yn Rhydychain; ac y mae yn

ffaith bur ddyddorol fod yn Ngweinyddiaeth ddiweddf Mr. Gladstone saith o'r rhai a fuont yn llywyddion yr *Oxford Union*, y rhai wrth gwrs oeddynt ymysg efrydwyr goreu y Brifysgol.

Wedi ymadael â Rhydychain, fe dreuliodd Mr. Gladstone beth amser mewn taith ar Gyfandir Ewrop. Nid oes dim yn dylanwadu yn fwy iachus ar feddwl dyn diwylliedig, nac yn fwy effeithiol tuag at wneyd ei addysg yn berffaith, nag ymweliad â'r gwahanol wledydd. Nis gall dim fod yn well arweiniad i mewn i fywyd cyhoeddus. Y mae yn deffro y meddwl i lawn ymwybyddiaeth o hono ei hun a'i alluoedd, yn rhoddi adnabyddiaeth ddyfnach o'r natur ddynol, a chydymdeimlad cyffredinol â sefydliadau cymdeithasol. Ac yr ydym yn sier na fu neb erioed yn teithio â mwy o allu ganddo i wneyd defnydd o'r oll welai ac a glywai i orphen ei addysg na Mr. Gladstone. Y mae y dyfyniadau o'i Ddyddlyfr a osodir o'n blaen gan ei fywgraffydd yn profi ei sylwadaeth graffus, ei wybodaeth äang, ynghyd a chyflawnder yr iaith oedd ganddo wrth law i ddesgrifio pob gwrthddrych a golygfa. "It gives," meddai Mr. Smith, "with great freshness the first impressions of a mind susceptible to the grand and imposing aspects of nature."

Dyma Mr. Gladstone yn awr ger ein bron yn ddyn ieuanc 23 oed, wedi gorphen ei addysg yn yr Athrofa, ac wedi rhoddi gorphenrwydd ar ei addysg mewn taith ddyddorol trwy ddinasoedd enwog deheudir Ewrop; ac y mae eu golygfeydd, a'u sefydliadau, a'u harferion, yn deimladau ac yn egwyddorion ynddo at wasanaeth bywyd yn y dyfodol. Y mae genym ei eiriau ef ei hun i ddesgrifio dylanwad yr addysg gafodd yn Rhydychain, yn gystal â'r hyn a ystyriai oedd yn ddiffygiol ynddi. Mewn araeth a draddododd ar agoriad y *Palmerston Club* yn Rhydychain Rhagfyr, 1878, cawn ef yn defnyddio y geiriau canlynol: "I trace in the education of Oxford of my own time one great defect. Perhaps it was my own fault; but I must admit that I did not learn when at Oxford that which I have learned since, viz. to set a due value on the imperishable and the inestimable principles of human liberty. The temper which, I think, too much prevailed in academic circles was, that liberty was regarded with jealousy, and fear could not be wholly dispensed with." Ni a welwn oddiwrth hyn fod Mr. Gladstone yn priodoli y lliw neillduol oedd ar ei syniadau politicaidd yn nechreu ei oes gyhoeddus i ddylanwad Rhydychain ar ei feddwl; hyny ydyw, os ydym yn ei ddeall yn iawn, y mae yn priodoli i hyn, ymysg pethau eraill, y ffaith ei fod wedi dechreu ei fywyd cyhoeddus fel Tory. Yn nadleuon yr *Oxford Union* cawn ei enw yn barhâus ymysg gwrthwynebwyr mesurau Diwygiadol y dydd. Un rheswm am hyn, fel y dywedodd ei hunan wedi hyn, ydoedd dylanwad enw Canning arno; ac oblegid hyn yr oedd yn dueddol i gymeryd yr un ochr ag ef gyda golwg ar gwestiwn y *Reform Bill*. Fe allai fod Canning yn hyn, fel llawer o ddynion blaenaf yr oes hono, o dan ddylanwad y Dymchweliad a gymerodd le yn Ffrainc ddiweddf y ganrif flaenorol. Wedi i'r môr gael ei gynhyrfu unwaith gan dymhestl, y mae yn ystormus ac yn gynhyrfus am beth amser wedi i'r dymhestl beidio; y mae yr *after-swell* yn parhâu yn hir wedi i'r gwynt ostegu. Y mae yr un fath mewn cymdeithas. Y mae cynhyrifiadau mawrion yn gadael aflonyddwch ar ol, sydd yn effeithio yn ddystaw ac yn anweledig ar ddynion yn hir wedi i'r cynhwrf ei hunan fyned heibio. Ac nid oedd

*after-swell* y Dymchweliad Ffrengig wedi tawelu pan oedd Canning yn byw ac yn anterth ei ddylanwad, yr amser yr oedd Mr. Gladstone yn llanc. Nid oedd yn rhyfedd fod y gŵr hwnw yn edrych gydag eiddigedd ar ryddid y bobl, ac o ganlyniad yn wrthwynebol i *reform*, pan gofiwn y golygfeydd gymerodd le yn Ffrainc yr adeg hono. Trwy Canning fe ymddengys fod oldymhestl y Dymchweliad hwnw wedi cyrhaedd Mr. Gladstone; a phan gymerwn i ystyriaeth yr hyn a ddywed ef ei hun am awyrgylch Rhydychain, a'r duedd oedd yn y Brifysgol i edrych ar ryddid ac awdurdod y bobl fel peth peryglus, y mae gwrthwynebiad yr efrydyddieuanic hyawdl yn erbyn diwygiad yn senedd fechan y Brifysgol, yn beth sydd yn sefyll mewn goleuni pur amlwg. Ond nid hir y bu ei feddwl galluog cyn taffu ymaith y llyffetheiriau hyn. Yr oedd yr addysg a'r ddysgyblaeth gafodd gan ei dad ar yr aelwyd gartref pan yn ddeuddeg oed, pan ddysgid ef i chwilio am resymau ac achosion pethau, i fyned yn drech na dylanwad Rhydychain; yr hon, fel y sylwa un awdwr, a gyfeiriai ei sylw at ffeithiau a chanlyniadau, yn hytrach nag at egwyddorion sylfaenol. Yr oedd ei feddwl yn agored i oleuni; ac yr oedd ganddo ddigon o wroldeb a chydwybodolrwydd i'w ddilyn, hyd yn nod pan yn ei arwain oddiwrth y blaidd y dechreuodd fyw gyda hwynt. A dyddorol iawn fydd i ni wylid y cyfnewidiad hwn ynddo, a'i weled yn dringo i fyny i enwogrwydd fel arweinydd ei blaidd fabwysiedig, a Phrifweinidog ei wlad.

Yn y flwyddyn 1833, y Senedd gyntaf a gyfarfyddodd ar ol pasio y *Reform Bill*, y cymerodd Mr. Gladstone ei le gyntaf yn Senedd Prydain fel aelod dros Newark. Y mae ei anerchiad cyntaf i'r etholwyr mor dda, ac mor wahanol i'r anerchiadau ystrydebol a glywyd ac a ddarllenwyd yn y newyddiaduron yn ystod yr etholiad diweddar, fel yr haedda gael ei osod o flaen y darlennydd yn gyflawn pe byddai ein gofod yn caniatáu. Er ei fod yn dyfod oddiwrth ymgeisydd a restrai ei hunan y pryd hwnw gyda'r Toryaid, y mae yn fwy rhyddfrydig yn ei ysbryd na'r hyn a geir oddiwrth aml i Ryddfrydwr professedig yn y dyddiau hyn; ac y mae yn cyffwrdd mewn modd goleu ac annibynol â chwestiynau mawrion y dydd. Rhoddwn un dyfyniad yn unig, yr hwn sydd yn cynnwys un o egwyddorion pwysicaf doethineb gwleidyddol; ac ar yr un pryd, yn dangos parch yr ymgeisydd ieuanc i Air Duw. Yr oedd Rhyddhâd y Caethion y pryd hwn yn gwthio ei hunan yn gyflym i sylw y wlad, ac yn un o erthyglau pwysicaf y credo politicaidd. Ar y mater hwn dywed Mr. Gladstone ei farn mewn modd eglur ac annibynol yn y geiriau canlynol:—

Gyda golwg ar gyfreithlondeb Caethwasaneith ynddo ei hun, yr wyf yn ei gydnabod yn unig mor bell ag y mae yn cynnwys hawl un dyn i wasaneith un arall; ac yr wyf yn ei sylfaenu ar y ffaith fod yr Ysgrhythrau, yr awdurdod uchaf ar y cyfryw fatar, yn rhoddi cyfarwyddiadau i bersonau yn sefyll yn y berthynas o feistr a chaethwas, pa fodd i ymddwyn yn y berthynas hono; ond pe byddai y peth yn bechadurus ynddo ei hun, ni fuasai yn rhoddi y fath gyfarwyddiadau. Gan ystyried pechod fel achos pob darostyngiad, ymdrecha, a hyny yn y modd mwyaf llwyddiannus, i feddyginiaethu yr olaf trwy ddiwreiddio y blaenaf. Yr ydym yn cytuno y dylid diddymu caethiwed tymmorol a moesol y caethwas. Y cwestiwn rhyngom ydyw gyda golwg ar y drefn o wneyd hyn, a'r drefn yn unig. Yn awr ymosoda yr Ysgrhythrau ar y drwg moesol o flaen yr un tymmorol, ac ar y tymmorol ymosoda trwy y moesol; ac yr ydwyf yn foddlaun ar y drefn sefydlwyd gan yr Ysgrhythr.

I'r dyben hyn, dymunwn weled yn cael ei osod ar droed ar unwaith, trwy awdur-

dod gyflawn a brenhinol, gyfundrefn eang ac effeithiol o addysg Griationogol, heb un amcan i wrthwynebu cynulluniau daionus a doeth personau unigol er sicrhâu dyrchafiad crefyddol y Negroaid, ond yn hytrach i wneyd yn gyflawn ac effeithiol yr hyn a allant hwy wneyd yn unig mewn rhan.

Gyda golwg ar ryddhâd uniongyrchol, pa un bynag ai gyda iawn—*compensation*—neu heb hyn, y mae amryw reasymau llai yn ei erbyn; ond yr hyn sydd yn pwysu drymaf yn fy meddwl i ydyw, y byddai iddo, fel yr wyf yn mawr ofni, gyfnewid y drygau sydd yn awr o amgylch y Negro am eraill fyddai yn fwy,—am ddirywiad i ddyfnach darostyngiad, os nad i ryfel a thywallt gwaed. Gwneler cyfaddasder yn ammod rhyddid; a bydded i ni ymdrechu ei ddwyn i'r sefyllfa hono trwy y llwybr byraf sydd yn bosibl. Rhodder yn ei feddiant foddion i ennill ei ryddid trwy arferion gonest a diwyd; ac felly trwy yr un moddion ag yr ennilla ei ryddid y cyrhaedda hefyd gymhwysder i'w ddefnyddio; ac felly yr wyf yn gobeithio yn ddirifol, heb dywallt gwaed, heb berygl i feddiannau, gyda bendith gyflawn i'r Negro, a chyda'r cyflymdra mwyaf y gallai doethineb ei ganiatáu, nyni a gyrhaeddwn y terfyn mwyaf dymunol hwnw—diddymiad hollol y gaethwasanaeth.

Ni a welwn oddiwrth y dyfyniad hwn, fod gan yr ymgeisydd ieuanc dysgedig barch dwfn i Air Duw; nid ydoedd uwchlaw cyfeirio at ei ddoethineb, a chyfaddef ei hun yn foddolawn i ddilyn ei arweiniad—peth na welir yn aml mewn ymgeiswyr seneddol, ac yn enwedig rhai ieuainc, yn y dyddiau hyn. Ni a welwn yma hefyd y doethineb a'r pwyll sydd yn anheggorol i wladweinydd diogel; y gofal fod pob cynfnewidiad yn neddfau y wladwriaeth yn gorphwys ar sylfaen sier yn nheimlad y wlad; ac y mae yn bur sier fod ychydig o'r elfen hono i'w gweled, ag yr ystyriai yr ymgeisydd ei hun yn ddyledus i Rydychain am dani—eiddigedd ac ofn gyda golwg ar ryddid y bobl.

Rhoddodd boneddigeiddrwydd a hyawdledd Mr. Gladstone yn ei ymddangosiad cyntaf hwn ger bron y cyhoedd foddlonrwydd cyffredinol; ac mewn newyddiadur Toryaidd fe ymddangosodd y geiriau hyn, ac y mae yn debyg fod y prophwyd a'u hysgrifenodd yn awr yn fyw: "He is a gentleman of amiable manners, and the most extraordinary talent; and we venture to predict, without the slightest exaggeration, that he will one day be classed amongst the most able statesmen in the British Senate."

Y mae y Senedd gyfarfyddodd yn 1833 yn enwog yn hanes y wlad fel yr un ddygodd oddiamgylch ryddhâd y caethion; ac yn enwog yn hanes Mr. Gladstone fel yr un a wrandawodd ar ei araeth wryfol. "Mr. Gladstone's maiden speech," ysgrifena ei fywgraffydd, "in the House of Commons differed completely from the first melodramatic display of his great rival. From the first the young member for Newark appears to have favourably impressed the House. Modest in demeanour, earnest in manners, and fluent of speech, he at once commanded the respect and attention of his fellow-members." Ar yr achlysur hwn cododd ar yr 17eg o Fai, pan oedd y cwestiwn o ryddhâd y caethion ger bron y Tŷ, i siarad mewn atebiad i sylwadau a wnaethai Arglwydd Howick, mewn cyfeiriad at ystad oedd gan ei dad yn Demerara. Ar y 3ydd o Fehefin siaradodd drachefn, yn y ddadl ohiriedig ar ryddhâd y caethion, pan atebodd yn fwy manwl sylwadau Arglwydd Howick, ac yr ymdrinodd â'r cwestiwn cyffredinol oedd o flaen y Tŷ. Yr oedd yn ffafriol i ryddhâd y caethion, er ar yr un pryd yn anffafriol i ryddhâd disymwth ac uniongyrchol; ac yr oedd hefyd yn ffafriol i roddi iawn i'r caethfeistriaid am y golled a

ddisgynai arnynt mewn canlyniad i'r rhyddhâd hwn. Yn ei holl areithiau y flwyddyn hon, dangosodd wrthwynebiad i Fesurau pwysicaf y Weinyddiaeth Ryddfrydol oedd mewn awdurdod ar y pryd. Ar yr 8fed o Orphenaf, siaradodd ar fesur a ddygwyd i mewn i'r Tŷ gan Arglwydd Althorp, mewn cysylltiad â'r Eglwys yn yr Iwerddon; ac nid oedd dim yn yr araeth hono yn rhoddi yr awgrym lleiaf i un dewin mai efe fyddai yr un a ddadgysylltai yr Eglwys hono oddiwrth y Wladwriaeth. Yr oedd y pryd hwn yn barod i amddiffyn yr Eglwys Wyddelig, ac yn anfoddlawn i weled y Llywodraeth yn cymeryd un cam gwrthwynebol iddi. Siaradodd hefyd yn erbyn y mesur a ddygwyd i mewn gan Mr. Hume, i wneyd i fwrdd â'r angenrheidrwydd o arwyddo cydsyniad âg Erthyglau yr Eglwys Sefydledig ar fynediad un i Brifysgol Rhydychain. Nid rhyfedd, gan hyny, ei fod yn cael ei ystyried y pryd hwn "the rising hope of the stern and unbending Tories."

Yn 1834 syrthiodd Gweinyddiaeth Arglwydd Melbourne. Derbyniodd Syr Robert Peel orchymyn oddiwrth y Brenin i ffurfio Gweinyddiaeth, ac ynddi derbyniodd Mr. Gladstone y swydd o un o Arglwyddi lleiaf y Trysorlys—*Junior Lord of the Treasury*. Yn Chwef. 1835, yn fuan wedi cyfarfyddiad y Senedd, dyrchafwyd ef i fod yn Is-ysgrifenydd y Trefedigaethau. Ar y 30ain o Fawrth y flwyddyn hon, siaradodd drachefn ar yr Eglwys yn yr Iwerddon, ar gynnygiad Arglwydd Russell, "Fod y Tŷ hwn yn ffurfio ei hun yn bwyllgor i gymeryd i ystyriaeth waddoliadau yr Eglwys yn Iwerddon." Siaradodd yn erbyn y cynnygiad; ac yr oedd yn ymddangos can belled ag erioed oddiwrth un symudiad fuasai yn debyg o'i wneyd un amser yn offeryn i ddadgysylltu yr Eglwys. Ond gorchfygwyd y Llywodraeth yr oedd yn aelod o honi; ac mewn canlyniad aeth allan o'i swydd gyda'r aelodau eraill a berthynent iddi. Cawn ef mor ddirifol ag erioed yn ei wrthwynebiad i Fesurau y Weinyddiaeth Ryddfrydol o dan arweiniad Arglwydd Melbourne drachefn; ac yn y ddadl ar Fesur Mr. Spring Rice, Canghellydd y Trysorlys, i ad-drefnu Trethoedd Eglwysig, modd y byddent yn fwy didramgwydd i Ymneillduwyr, ac ar yr un pryd yn gydweddol â hawliau Eglwyswyr, ni a'i cawn ef drachefn gyda'i hyawdledd arferol yn gwrthwynebu yr ymgais i gyffwrdd â'r sefydliad oedd mor gysegredig yn ei olwg.

Ar ddadgorfforiad y Senedd mewn canlyniad i farwolaeth William IV., Mehefin 20fed, 1837, daeth Mr. Gladstone ymlaen drachefn fel ymgeisydd dros Newark, a dychwelwyd ef. Yn 1838, y flwyddyn ar ol yr etholiad, traddododd araeth yn y Senedd ar y ddadl ynghylch *Negro Apprenticeship*, a'i cododd i'r dosbarth blaenaf o areithwyr Seneddol. Y dydd ar ol yr araeth, llongyfarchai y *Times* ef am dani, gan gydnabod ei bod am nerth a hyawdledd yn llwyddiant perffaith. Yn ngeiriau Mr. Smith, "This speech on Negro Apprenticeship, though delivered on the unpopular side of the question, confessedly brought him into the front rank of Parliamentary debaters. Detailed in facts and fervid in appeal, it was alike successful as an example of strong and vigorous argument, and as an oratorical display." Yn yr araeth hon siaradai o blaid y penderfyniad y daethpwyd iddo pan basiwyd deddf rhyddhâd y caethion. Trwy y ddeddf hono diddymwyd y

gaethfasnach yn 1834, ond yr oedd y Negroaid oeddynt wedi eu prentisio i barhâu yn eu prentisiaeth hyd 1840. Ystyrir hyn fel rhan o'r iawn yn ychwanegol at y £20,000,000 a roddwyd gan y Llywodraeth i'r meistriaid. Ond daeth Sir George Strickland â chynnygiad ger bron y Tŷ i ddiddymu y prentisiaeth hwn. Yn erbyn y cynnygiad hwnw y siaradodd Mr. Gladstone yn yr araeth grybwylledig; ac y mae yn ddiarneu i'r araeth rymus hon fod yn effeithiol uwchlaw un arall mewn cael mwyafrif yn ei erbyn. Mewn un araeth a draddododd tua'r amser hwn o blaid cynnygiad Syr James Graham, yn condemnio y Llywodraeth o herwydd y rhyfel oedd wedi tori allan rhwng y wlad hon a China, yr ydym yn gweled, beth bynag oedd ei olygiadau ar y cwestiynau cyfyng oedd yn gwahaniaethu Toryaid a Rhyddfrydwr gyda golwg ar wladweiniaeth gartrefol, ei fod y pryd hwnw gyda golwg ar y cwestiynau mawrion sydd yn dwyn cysylltiad â heddwch cenedloedd, yr un farn ag ydyw yn awr; llywodraethid ef y pryd hwnw gan yr un cariad at heddwch, yr un casineb at ormes, yr un parch i hawliau cyfiawnder a rhyddid, ag sydd yn ei lywodraethu yn bresennol, ac sydd yn dyfod i'r golwg mor amlwg yn ei holl ymwneyd â'r Cwestiwn Dwyreiniol yn y dyddiau hyn. Mewn atebiad i Mr. Maucalay yn yr araeth hon y defnyddiodd y geiriau lyawdl canlynol:—

The right hon. gentleman opposite spoke last night in eloquent terms of the British flag waving in glory at Canton, and of the animating effects produced on the minds of our sailors by the knowledge that in no country under heaven was it permitted to be insulted. But how comes it to pass that the sight of that flag always raises the spirit of Englishmen? It is because it has always been associated with the cause of justice, with opposition to oppression, with respect to national rights, with honourable commercial enterprise; but now, under the auspices of the noble lord, that flag is hoisted to protect an infamous contraband traffic, and if it were never to be hoisted except as it is now hoisted on the coast of China, we should recoil from its sight with horror, and should never again feel our hearts thrill, as they now thrill with emotion, when it floats proudly and magnificently on the breeze.

Gydag ymddangosiad y gyfrol, *The State in its Relation to the Church*, y gallwn ystyried fod y cyfnod cyntaf o'i fywyd yn terfynu. Yr oedd amryw weithiau wedi sefyll i fyny yn ei le yn y Senedd i amddiffyn yr Eglwys Sefydledig yn wyneb y llifeiriant oedd yn dechreu rhedeg yn ei herbryn; ac yn 1838 daeth allan mewn modd cyhoeddus yn y gwaith uchod o'i phlaid; a thrachefn mewn gwaith arall, *Church Principles considered in their Results*, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1840. Nid oes a fynom â'r gweithiau hyn ond i'r graddau y cynnorthwyant ni i ddeall y dyn a dadblygiad ei feddwl. Y mae yn sicr o fod yn un o'r pethau a berthynent i wawdiaeth tynged—the "irony of fate," fel y dywedir weithiau—fod yr un oedd i fod yn offerynol i ddadgysylltu yr Eglwys yn yr Iwerddon, yn dyfod allan yn awr mewn modd difrifol a brwdfrydig i amddiffyn Eglwys Wladol, ac i geisio profi ei bod yn hanfodol i amcan uchaf y Wladwriaeth.

Yn y geiriau canlynol symia i fyny ei resymau dros barhâu y cysylltiad rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth:—

Am fod y Llywodraeth yn sefyll mewn perthynas dadol â'r bobl, ac yn rhwym o ystyried ymhob peth, nid yn unig eu dymuniadau presennol, ond y gallu sydd ynddynt i ymddadbygu, a'r ffurfiau goreu i ddwyn hyny oddiamgylch; am fod

ganddi gyfaddaader mewnol a chyfyngau allanol i ddiwygio ac i gynorthwyo eu dewisiad; am fod yn rhaid iddi, er mwyn bod yn gydweddol â'g ewyllys Duw, feddu crefydd, a thuag at iddi fod yn gydweddol â'i chydwybod rhaid i'r grefydd hono fod yn wirionedd, fel y delir of ganddi o dan y cyfrifoldeb mwyaf difrifol a phwysig; am mai dyma yr unig ddylanwad all sancteiddio a chynnal cymdeithas, yn gystal a'r fendith hono i'r dyn unigol, heb yr hon y byddai pob bendith arall yn waeth na diwerth; rhaid i ni ddiystyru terfysg dadleuon gwleidyddol, a dylanwad cymhellion bydol ac o fyr barhâd, ac ar ran ein parch tuag at ddyn a'n hufudd-dod i Dduw, gadw i fyny yn ein plith, lle yn ffodus y bodola hyd yn hyn, y cysylltiad sydd rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth.

Gŵyr llawer o'n darllenwyr fod y traethawd *The Church in its Relation to the State* wedi ei adolygu yn fanwl a'i feirniadu yn llym gan Macaulay; ac er iddo dalu gwarogaeth i gymeriad a galluoedd Mr. Gladstone, condemnai syniadau y gwaith am natur Llywodraeth a'i pherthynas dadol â'r bobl fel rhai anghywir. Erbyn hyn gwyddom fod Mr. Gladstone wedi cyfnewid llawer yn ei syniadau, ac na fyddai yn awr yn debyg o osod ei law wrth syniad arweiniol y llyfr gyda golwg ar natur y Llywodraeth a'i pherthynas â'r bobl. Mae yn ddiammeu fod llawer yn edrych ar hyn fel anghysondeb mawr ei fywyd, ac yn barod i'w feio, os nad i'w ddiystyru am hyn. Oddiar yr ystyriaeth fod yma anghysondeb ymddangosiadol, fe gyhoeddodd yn 1868 *A Chapter of Autobiography*; ac fe daflodd y traethawd hwn lawer o oleuni ar y cyfnewidiad yr aethai ei feddwl trwyddo gyda golwg ar y mater yma. Dengys mai nid oddiar ddiffyg meddylgarwch neu zel ddallbleidiol y dadleuai dros yr Eglwys, ond oddiar argyhoeddiad cydwybodol; er fe ddichon fod dylanwad addysg ac amgylchiadau boreuol yn rheswm paham na fuasai wedi gwled tuedd yr oes ac angen yr amseroedd yn gynt. Ond yn ngoleuni y traethawd hwn, gwelwn fod y cyfnewidiad yn gynnyrch dylanwad yr amseroedd ar feddwl agored a pharod i dderbyn argraff ddofn oddiwrth anghenion neillduol yr oes. Fe gaiff lefaru drosto ei hun, ac ni a gawn y cyfnewidiad hwn yn ei syniadau yn cael ei egluro yn y geiriau canlynol:—

Y mas sefydliad sydd yn gweithio yn dda ac yn addawol, a thebyg o wneyd gwaith mwy; sefydliad sydd yn meddu ffordd hawdd ac agored yn fyw i galon y bobl; sefydliad sydd yn hawlio gwasanaeth yn y presennol oddiwrth adgofion a thraddodiadau am y gorphenol; sefydliad all apelio at aiddgarwch y mwyafrif, ac at barch neu ragfarnau pawb bron, a'i ddeiliaid yn byw, gan mwyaf, ar eu gwasanaeth sylweddol a defnyddiol, a'i wrthwynebwyr, os oes ganddo rai, yn dawel i greu fod dyfodol yn eu haros hwy a'u hopiniynau; mae y cyfryw sefydliad yn haeddiannol o gael ei gadw i fyny. Ond sefydliad nad ydyw yn gwneyd, nac yn meddu gobaith gwneyd gwaith ond i ychydig, a'r ychydig hyny y rhan hono o'r boblogaeth sydd yn meddu yr hawl leiaf i gymhorth oddiwrth y wlad; sefydliad sydd wedi ei rwygo oddiwrth fywyafrif y bobl gan agendor mawr a chan fur o bres; sefydliad ag y mae cadwen hir o adgofion poenus a chywilyddus yn rhwyastro y bobl i dderbyn ei ragorfreintiau pe byddai ganddo rai i estyn iddynt; sefydliad sydd yn pwysu ar y Wladwriaeth am gymhorth allanol, yr hon sydd yn colli ei pharch gyda'r bobl yn weithred o'i estyn; fe wnelai sefydliad felly yn dda, ped ymddiosgai, can gynted ag y byddo modd, er ei fwyn ei hun ac er mwyn ei greddo, oddiwrth bob addurn allanol, a dechreu bywyd newydd, yn yr hwn, gan ymwrthod ar unwaith â'r parch a'r amharch o fod dan nawdd y Wladwriaeth, y dibynai arno ei hun am ei nerth, ac y gosodai ymddiried dwn yn ei genadwri.

Oddiwrth y geiriau hyn, gwelwn y rheswm paham y daeth yr hwn a ysgrifonodd *The Church in its Relation to the State*, i ysgrifenu ei enw ar hanes ei wlad, fel yr hwn a ddadgysylltodd yr Eglwys yn yr

Iwerddon oddiwrth y Wladwriaeth. Yn y goleuni hwn, y mae y cyfnewidiad yma a gymerodd le yn syniadau, ac mewn canlyniad yn mywyd Mr. Gladstone, yn ymddangos yn fwy fel dadblygiad nag anghysondeb. Mae yn wir, nad oes un rheswm paham na buasai wedi gweled pethau yn y goleuni hwn yn gynt; oblegid yr un oedd perthynas yr Eglwys Sefydledig yn yr Iwerddon â'r bobl pan yr ysgrifenydwyd *The Church in its Relation to the State*, a phan y dadgysylltwyd hi, yn ol cyfaddefiad yr awdwr ei hunan. Yr unig reswm y gallwn ei gael am hyn ydyw ei fod ar yr adeg gyntaf dan ddylanwad yr addysg a'r ddysgyblaeth dderbyniodd yn Rhydychain o dan gysgod y Sefydliad. Ond y mae fod y cyfnewidiad hwn wedi dyfod pan y daeth, yn dangos ei fod yn cadw ei feddwl yn agored, i ystyried y nerthoedd oedd ar waith mewn cymdeithas, a'i fod yn ddigon gwrol a chydwybodol i gyfnewid ei syniadau, pan ddeallodd yn ngoleuni feithiau eu bod yn anghywir. Nid ydyw yn un anghysondeb mewn dyn ei fod yn cyfnewid yn ei farn. Nid oes ond UN yn meddu y rhagorfraint o fod yn gyson trwy fod yn anghynewidiol. Y mae ei wybodaeth Ef yn gylch anfeidrol, sydd â'i ymylon ymhob man, a'i ganolbwynt heb fod mewn un man; ac ynddo Ef y mae cysondeb ac anghynewidioldeb yn gyfystyr. Ond nis gall dyn, yn yr ystyr uchaf, fod yn gyson heb iddo gyfnewid i ryw raddau; y mae cynnydd a dadblygiad yn perthyn i'w wybodaeth ef; ac i fod yn gyson âg ef ei hun, y mae yn rhaid i'r dadblygiad hwn yn ei wybodaeth newid yn aml ei farn a'i gynlluniau. A dyma ydyw cysondeb mewn dyn—nid cysondeb mewn glynu wrth yr un syniadau yn ngwahanol gyfnodau ei oes; canys yn aml iawn y mae yr anghysondeb mwyaf yn gorwedd o dan y cysondeb ymddangosiadol hwn; pan y mae dyn yn glynu oddiar amcanion ehud wrth yr un blaidd a'r un syniad, er fod ei farn wedi cyfnewid yn llwyr. Cysondeb mewn dyn ydyw cysondeb i egwyddor ac amcan llywodraethol bywyd; cysondeb gweithredoedd ac amgylchiadau allanol i'w farn a'i argyhoeddiad mewnol ydyw; gwroldeb i gyfnewid barn a chynllun pan y tywyna goleuni newydd i'r meddwl, yr hyn sydd yn ffurfio unoliaeth byw rhwng geiriau a gweithredoedd dyn a'i fywyd mewnol; ac y mae yr unoliaeth yma yn bod yn aml o dan yr amrywiaeth allanol mwyaf. Cysondeb yr anifail, cysondeb greddf, ydyw glynu wrth yr un syniad, ac wrth yr un cwrs o weithredu; mae cysondeb creadur rhesymol yn anfesurolo uwch na hyn, ac yn galw am symudiad a dadblygiad parhâus ynddo, gydag eangiad cylch ei wybodaeth am y gwirionedd. Dyma sydd yn gwneyd dyn yn wrthddrych hanesyddiaeth, y ffaith ei fod yn cyfnewid; os ydyw yr oes hon yn rhagori ar yr oesoedd blaenorol, y mae hyn yn ddyledus i'r ffaith fod dynion wedi cyfnewid er gwell: mewn gair, dyma y pegwn ar yr hwn y mae hanesyddiaeth yn troi—cyfnewidioldeb. Ac y mae y cyfnewidiad hwn yn mywyd Mr. Gladstone yn ymddangos i ni yn gynllun, yn *type*, o'r cyfnewidiadau hyny mewn hanesyddiaeth, sydd yn gyru y ddynoliaeth o hyd ymlaen at uchelnod gwareiddiad: cyfnewidiad ydyw yn y dyn sydd yn cymeryd lle mewn canlyniad i'r cyfnewidiad a gymer le y tu allan iddo yn ysbryd y byd—yn y *Zeitgeist*, neu ysbryd yr oes, fel y gelwir ef gan yr Eilmynywyr; ac y mae pawb sydd yn myned rhagddynt mewn tyfiant meddyliol ac ysbrydol yn rhwym o fyned trwy gyfnewidiadau cyffelyb.



Nid dyma y cyfnewidiad a ddylid gondemnio; ond un mympwyol, am sydd yn codi yn unig oddiar uchelgais a thwyll, heb fod dim yn mywyd mewnol y dyn yn cyfateb iddo. Dyma y cyfnewidiadau sydd yn gwneyd y byd yma mor anhawdd ei adnabod, a dynion mor ansicr i gyfrif arnynt. Ac nid oes eisieu chwilio yn hir yn hanes dynion cyhoeddus unrhyw wlad am engreiffiau o hyn. Y mae y brychau yma yn ddigon amlwg. Ac nid ydyw yn rhyfedd, pan y mae dynion yn llygadu am anrhydedd a lleoedd cyhoeddus ac urddasol, heb fod o dan lywodraeth egwyddor gref o onestrwydd a chydwybodolrwydd, eu bod yn engreiffiau mor druenus weithiau o wamalrwydd ac ansefydlogrwydd carictor; yn ansafadwy fel dwfr, yn cymeryd ffurf pob llestr yr arllwysir hwynt iddo gan law gadarnach na hwy eu hunain. Mae hyn yn wendid mawr mewn cymeriad, ac yn wenwyn mawr mewn cymdeithas; ond y mae cyfnewidiad barn, ac mewn canlyniad gyfnewid plaid, pan y mae egwyddorion rheswm a chwrs hanesyddiaeth yn galw am hyn, yn profi craffder, gonestrwydd a gwroldeb.

Mae cyfnewidiad fel yr un sydd o dan ein sylw yn gydweiddol â'r syniad uchaf am Wladweiniaeth. Y Gwladweinydd goreu ydyw y dyn mwyaf craffus i ddeall tueddiadau ymarferol ac anghenion yr oes, ac i ddyfeisio y moddion goreu i'w cyfarfod. Y mae elfen gyfnewidiol yn gystal ag un sefydlog yn perthyn i Wladweiniaeth. Y mae yr hyn sydd yn sefydlog ynddi yn gwreiddio yn natur foesol dyn, ac yn gynnwysedig mewn cymhwysiad o egwyddorion tragywyddol moesoldeb at ei fywyd ymarferol. Y mae yn rhaid iddi, tuag at fod yn ddiogel ac effeithiol, fod yn sylfaenedig ar gyfiawnder a moesoldeb; fel nas gall yr hyn sydd yn ddaioni gwleidyddol fod yn ddrwg moesol. Y mae yr athrawiaeth y gall yr hyn sydd yn ddrwg moesol fod yn ddaioni i'r wladwriaeth yn un felldigedig, ac yn myned o dan sylfaeni Gwladweiniaeth bur a diogel. Soniai Burke yn ei areithiau hyawdl yn erbyn Warren Hastings, am ryw ysgol o wladweinwyr, ag yr oedd ei moesoldeb yn dibynu ar ei ledred daearyddol; ac nad oedd raid iddynt ond croesi ychydig linellau o ledred tuag at gyfnewid yn holl egwyddorion eu gwladweiniaeth. Fe glywir yr athrawiaeth hon yn cael ei phregethu yn y dyddiau hyn gan gwacyddiaeth wleidyddol; a phe byddai llywodraethwyr y byd yn dilyn arweiniad y *quacks* hyn, fe grynai sylfeini y gwledydd, ac fe elai y gymdeithas ddynol yn ddarnau. Na, y mae yn rhaid i wladweiniaeth, tuag at iddi fod yn ddiogel ac effeithiol, fod yn sylfaenedig ar gyfiawnder; ac y mae gwrthdarawiad parhâs yn ei erbyn yn sicr o'i dyfetha. "Cyfiawnder a ddyrchafa genedl; ond cywilydd pobloedd yw eu pechod." Ond o'r ochr arall, y mae yn perthyn iddi elfen gyfnewidiol sydd yn cyfarfod â'r cyfnewidiol mewn dyn a'i amgylchiadau; ac y mae yn ofyniad sydd yn dygwydd yn aml i'r gwladweinydd, Beth ydyw y peth mwyaf manteisiol dan yr amgylchiadau i gyfarfod â'r sefyllfa? Y mae ei lwyddiant yn dibynu yn aml, nid ar ei allu i benderfynu yr hyn sydd dda neu ddrwg mewn ystyr foesol—gwaith hawdd yn gyffredin ydyw gwneyd hyn; ond beth ydyw y cam mwyaf manteisiol—*expedient*, ar gyfer yr amgylchiadau? Peth ymarferol ydyw gwladweiniaeth; a chwestiynau ymarferol ydyw ei chwestiynau mawrion. A'r gwladweinydd mwyaf llwyddiannus ydyw yr un sydd yn meddu y craffder mwyaf i edrych ymlaen, a'r eangder mwyaf i gymeryd i mewn holl amgylchiad-

au unrhyw sefyllfa yn y Wladwriaeth, fel y gallo ddyfeisio mesurau effeithiol i arwain y wlad ymlaen mewn rhinwedd a daioni. Y mae yn rhaid iddo, gan hynny, fod yn gyfryw fel ag y gall gymeryd i mewn yn llwyr ysbryd ac amgylchiadau yr oes; a thrwy hynny ei harwain ymlaen at ddadblygiad uwch mewn rhinwedd. Ni ddoniwyd neb erioed â'r gallu hwn yn uwch na Mr. Gladstone; ac nid ydyw yn dyfod yn fwy amlwg i'r golwg mewn dim yn ei fywyd cyhoeddus, nag yn y cyfnewid- iad hwn gymerodd le yn ei feddwl ar ol iddo ysgrifenu ar yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Fe broffodd trwy hyn ei fod yn gallu symud ymlaen gyda theimlad ac argyhoeddiad yr oes; er ei fod trwy hyn yn symud yn groes i'r hen derfynau a osododd i lawr iddo ei hun, pan safai i fyny yn y Senedd ac yn y Wasg mewn amddiffyniad i'r Eglwys Sefydledig.

Mae y blynyddoedd o 1841 i 1850, yn hynod yn ei fywyd fel cyfnod y cyfnewidiad y cyfeiriwyd ato uchod. Dyma adeg ei dröedigaeth fel gwladweinydd, pan oedd y dadblygiad graddol a gymerai le yn ei feddwl yn creu pellder rhyngddo â'i blaid, ond yn ei wneyd yn fwy gwirioneddol yn ddyn y bobl. Yr oedd y blynyddoedd hyn yn rhai o gyfyngder a chaledi i'r deyrnas. Yr oedd Deddfau yr Yd yn pwysu yn drwm ar y bobl, gan ddwyn newyn at ddrysau lliaws; ac yr oedd methiant y cnydau mewn pedwar drwg yn tymmor drwg yn mwyhâu dylanwad difaol y Deddfau hyn. Galwyd sylw at y caledi hwn yn Nhŷ y Cyffredin lawer gwaith; a chynnygiwyd diddymiad Deddfau yr Yd gan Mr. Villiers yn 1842; ond yr oedd y mwyafrif yn ei erbyn yn 300, allan o lai na 500 o aelodau. Ond yr oedd y Deddfau hyn eisoes wedi eu dedfrydu gan ddeddfau uwch, y rhai a osodwyd nid gan ddyn, ond a blannwyd yn nghyfansoddiad cymdeithasol y byd gan ei Wneuthurwr; ac yr oedd meddyliau arweinwyr y bobl yn barod yn dechreu gwelod ôl y llaw ar galchiad y pared. Er fod Mr. Gladstone y pryd hyn yn aelod o'r Weinyddiaeth Doryaidd, yr hon oedd yn wrthwynebol i ddiddymiad y Deddfau hyn, eto dygasant i fewn amryw fesurau pwysig i wrthweithio eu dylanwad; ac yr oeddynt yn ddiwyd a difrifol, can belled ag yr oedd sefyllfa y cyllid yn caniatáu, mewn lleihâu y trethi. Yr oedd yn amlwg iawn fod Syr Robert Peel, Mr. Gladstone, ac eraill, er nad oeddent ymysg dysgyblion professedig Masnach Rydd, yn teithio yn gyflym yn y cyfeiriad hwnw. Yr oedd llaw arweiniol gan Mr. Gladstone yn ffurfiad Cyllid y Weinyddiaeth. Yr oedd y *Tariff Bill*, a ddygwyd i mewn i'r Tŷ gan y Prifweinidog, Syr Robert Peel, yn cael ei ystyried yn hollol ddyledus iddo; ac ni a gawn iddo fod ar ei draed ddim llai na 129 o weithiau yn ystod y tymmor hwn, a hynny yn benaf mewn cysylltiad â'r mesur uchod. "No measure," medd ei fywgraffydd, "with which Mr. Gladstone's name has since been connected, more fully attested his mastery over detail, his power of comprehending the commercial interests of the country, or his capacity as a practical statesman in suggesting the best means for relieving the manufacturing industries of their burden, than the revised Tariff scheme of 1842." Yr oedd y Weinyddiaeth yma, er ei bod mewn enw yn un Doryaidd, yn deall y gelfyddyd o lywodraethu. Ymddygent fel rhai yn gwybod fod y Llywodraeth yn bod er mwyn y wlad, a gwnaent eu goreu i leddfau telerau bywyd, y rhai a bwysent yn drwm ar ysgwyddau y werin. Nid

ydyw gan hyny yn beth mor ryfedd wedi y cwbl, mai y dynion oedd yn wrthwynebol i ddiddymiad Deddfau yr Yd yn 1842 a'u diddymodd hwynt yn 1846; canys y mae genym broffion, mai nid egwyddorion, ond amser ac anaddfedrwydd, oedd rheswm eu gwrthwynebiad.

Y mae ymddiswyddiad Mr. Gladstone o'i swydd yn y Weinyddiaeth yn 1845 yn haeddu gair o sylw wrth fyned heibio, o herwydd ei fod yn dangos ei gydwybodolrwydd, yn gystal a'i gynnydd graddol mewn egwyddorion rhyddfrydol. Yr oedd ei ymddiswyddiad yn cael ei beri gan gwrs y Llywodraeth gyda golwg ar Athrofa Maynooth yn yr Iwerddon. Bwriadent ychwanegu at waddoliad y sefydliad hwnw; ac yr oedd y cam hwn, yn gystal a sefydliad colegau anenwadol, yn groes i'r hyn a ysgrifenasai yn flaenorol yn ei lyfr ar yr Eglwys a'r Wladwriaeth. O herwydd hyn, er ei fod yn gefnogwr i'r mesur, yn hytrach na bod un ymddangosiad ei fod yn ei gefnogi er mwyn ei swydd, ac nid er mwyn cydwybod, efe a ddewisodd ymddiswyddo, a chefnogi y mesur fel aelod annibynol. Yn ystod y ddadl ar yr araeth Frenhinol, talwyd gwarogaeth uchel iddo gan y Prifweinidog, Syr Robert Peel, a chan Arglwydd John Russell; ac nis gallai cydwybodolrwydd mor fawr, yr hwn a'i hysgarodd oddiwrth Weinyddiaeth yn yr hon y codai yn gyflym i sylw a dylanwad, lai nag ennill edmygedd cyffredinol. Pan ddaeth gan hyny y *Maynooth Improvement Bill* ger bron y Tŷ am yr ail darlleniad, cododd Mr. Gladstone i fyny, ac mewn gwrthwynebiad i deimlad cryf yn y wlad, ac yn erbyn ei syniadau cyhoeddus ei hunan, dywedodd ei fod yn barod i roddi ei gefnogaeth i'r mesur. Dengys hyn nid yn unig gyfeiriad ei feddwl, yr hwn o'r diwedd a'i harweiniodd oddiwrth y Toryaid, ond hefyd ei gydwybodolrwydd, y syniad uchel oedd ynddo am onest-rwydd gwleidyddol, a'r goleuni cryf yn yr hwn yr edrychai ar ei gyfrifoldeb i'w wlad, yr hwn sydd wedi ei wneyd yn un o'r esiamplau dysgleiriaf o wladweinydd cydwybodol.

Yn 1845 hefyd y cyhoeddodd bampled bychan dan yr enw, *Remarks upon Recent Commercial Legislation*; ac y mae yn beth pur sicr fod i'r traethawd hwn ddylanwad mawr mewn addfedu meddwl Syr Robert Peel i ddwyn i mewn Fesur er diddymu Deddfau yr Yd. Yn y *Times*, Rhagfyr 4, 1845, yr ymddangosodd yr hysbysiad gyntaf y byddai i'r Senedd gyfarfod yr wythnos gyntaf yn Ionawr; ac y byddai crybwylliad yn yr araeth Frenhinol am y Deddfau hyn, gyda golwg ar eu diddymiad. Fe ymddiswyddodd Syr Robert Peel, mewn canlyniad i'r hysbysiad dderbyniodd oddiwrth Arglwydd Stanley, Iarll Derby wedi hyny, a'r Duc o Buccleuch, na allent gefnogi mesur i'r perwyl hwnw; ac fe orchymynodd y Frenhines i Arglwydd John Russell ffurfio Gweinyddiaeth. Fe fethodd. Wedi hyny fe ymaffodd Syr Robert Peel yn y gorchwyl drachefn; ac yn y Weinyddiaeth newydd fe ymddangosodd Mr. Gladstone fel Ysgrifenydd y Trefedigaethau, yn lle Arglwydd Stanley. Mewn canlyniad i hyn fe ymneillduodd oddiwrth gynnrychiolaeth Newark, am fod y Duc o Newcastle, o dan aden yr hwn yr etholwyd ef gyntaf dros Newark, yn wrthwynebol i egwyddorion Masnach Rydd. Yr oedd mewn canlyniad heb un sedd yn y Senedd y tymmor y diddymwyd Deddfau yr Yd; ond os oedd yn absennol o'r Senedd, yr oedd yn wybyddus mai efe oedd y blaenaf yn y Cyfringynghor am ei gred ddiysgog mewn Masnach Rydd; ac efe oedd ysbryd

arweiniol y Llywodraeth a yagubodd ymaith y Deddfau hyny, a thrwy wneyd hyny a wnaeth fwy nag un Lywodraeth ddiweddar tuag at wneyd Prydain yn fawr ac yn ddedwydd.

Yr ydym yn ei gael drachefn, wedi ei ddychweliad i'r Senedd yn 1847, fel aelod dros Rydychain, yn dangos yr un tueddiadau Rhyddfydol yn ei araeth rymus o blaid cynnygiad Arglwydd John Russell dros agor drws y Senedd i'r Iuddewon. Yr oedd yr araeth hon yn un anwrthwynebol fel ymresymiad, ac fe gariwyd y penderfyniad gyda mwyafrif mawr.

Mae ei holl areithiau yn y blynyddoedd hyn yn dangos ei fod yn ysgwyd ei hunan yn rhydd yn gyflym iawn oddiwrth ragfarnau boreuol; ei fod yn edrych pob cwestiwn yn fyw yn ei wyneb; ac yn meddu digon o onestrwydd a gwroldeb i ddadgan ei farn, hyd yn nod pan oedd yn ngolwg llawer o'i gyfeillion yn dadwneyd rhyw ran o'i oes flaenorol. Yn ei hanes y cyfnod hwn, gwelwn ddyrn yn sefyll uwchlaw plaid, ac yn gwasanaethu ei wlad a'i Dduw gyda'r ffyddlondeb hwnw i'w gydwybod sydd yn un o elfenau anheborol gwir fawredd a gwasanaethgarwch. Mae yn beth digon cyfreithlawn i ddyrn ym-gysylltu â phlaid, fel cymhorth i'w ddefnyddioldeb personol; ond y mae ffyddlondeb i plaid i fod yn ddarostyngedig i ffyddlondeb dyn iddo ei hun, i'w gydwybod, a Duw. Pan y mae cydwybod yn cael ei gwadu, ac ysbryd plaid yn eistedd wrth y llyw, y mae gwladweiniaeth yn myned yn fellidith gwlad; canys nis gall haid o ddynion sydd heb ddysgu y ffordd i werthfawrogi rhyddid eu cydwybod eu hunain, dalu fawr iawn o barch i ryddid y wlad. Parch i'r gydwybod sydd wrth wraidd pob rhyddfod gwladol a chrefyddol; a'r wers gyntaf sydd gan ein haelodau Seneddol i'w dysgu tuag at fod yn ddylanwad yn y wlad, ac yn ychwanegiad at wir nerth y Senedd, ydyw ffyddlondeb i'w cydwybodau, ac nid aberthu eu hunain i *Suggernaut* plaid. Fe fyddai astudio y cyfnod yma yn hanes Mr. Gladstone yn un o'r pethau goreu y gallai ein Seneddwyr wneyd. A phe byddai mwy o'i ysbryd yn ffynu yn y Senedd, ni welem yr hyn yw ein gofid a'n gwarth i weled mor aml—mwyafrif gwasaidd yn cael ei weithio fel *puppet* dienaidd, wrth fawd Prifweinidog, beth bynag fyddo natur ei wladweiniaeth.

Mae yn bur sicr mai yr hyn sydd yn sylfaen i'r gonestrwydd hwn yn ei gymeriad ydyw ei deimlad crefyddol dwfn. Y mae yn anhawdd meddwl y gallai cydwybodolrwydd mor fyw fodoli mewn un dyn heb fod crefydd wedi rhoddi golwg gysegredig iddo ar ei rwymedigaethau. Ac mewn araeth a draddodwyd ganddo ar agoriad Sefydliad Athrofaol yn Liverpool yn 1843, y mae yn gosod crefydd yn uchaf ac yn bwysicaf yn mywyd dyn. Pan yn siarad am yr angenrheidrwydd am grefydd, yn ychwanegol at addysg a diwylliad, fel cymhwysder ar gyfer bywyd, llefarodd y geiriau canlynol:—

Credwn pe gallech adeiladu cyfundrefn yr hon a osodai o flaen dyn holl ganghenau gybodaeth heblaw yr un sydd yn hanfodol, na wnelech ddim ond adeiladu tŷr Babel, yr hwn, pan orphenech ef, a fyddai yn fwy hynod yn ei gwmp, ac a gladdai ei adeiladwyr yn ei adfeillion. Credwn pe cymerech ddyrn yn ei ieuentyd, a phe gwnelech ef yn gyflawn mewn athroniaeth naturiol, mewn rhifyddge, neu yn y wybodaeth sydd yn angenrheidiol tuag at fod yn farsiadwr, yn gyfreithiwr, neu yn feddyg; pe gallech ffurfio ei feddwl i rai neu yr oll o'r cymhwysderau hyn—ia, pe

gallech ei gynnysgaethu â gwyddoniaeth ac â gallu Newton, ac felly ei ddanfôn sillan i'r byd—a phe cuddiech oddiwrtho, neu yn hytrach beidio rhoddi iddo wybodaeth o'r ffydd Gristionogol a chariad tuag ati,—efe a elai allan i'r byd yn alluog yn wir mewn gwyddoniaeth, yn ddyn llwyddiannus i bentyrn golud er mwyn lliosogi cyfoeth; ond yn dlawd, yn resynol, yn ddall, ac yn noeth" gyda golwg ar bob peth sydd yn cyfansoddi amcan penaf bywyd—yn wir, yn waeth, yn waeth—gyda golwg ar yr amcan uchaf, na phe buasai eto yn trigo yn yr anwybodaeth sydd yn wrthddrych tosturi pawb, ac yn amcan i'r sefydliad hwn ei symud ymaith.

Nis gallasai neb siarad fel hyn ond yr hwn a deimlai fod crefydd yn hanfodol i fywyd llwyddiannus; iaith dyn ydyw yn meddu adnabyddiaeth ddofn o'r natur ddynol a phrofiad byw fod crefydd Crist yn anwahanol gysylltiedig â'i fywyd. Ac y mae yn bur amlwg oddiwrth y geiriau hyn, yn gystal a holl dôn ei fywyd, fod ei ddirifoldeb, ei onestrwydd, a phurdeb ei fywyd cyhoeddus, yn dyfiant allan o'r afael gref sydd gan grefydd yn ei natur. Y mae yr un perarogl sydd yn y dyfyniad uchod wedi dilyn ei fywyd hyd yn hyn; ac wedi ei wneyd mor amlwg yn ei grefydd, ag ydyw yn ei dalentau dysglær a'i ymroddiad difino.

Yr oedd y flwyddyn 1848 yn un derfysglyd a chynhyrfus. Yr oedd Ewrop mewn sefyllfa o aflonyddwch; ac yr oedd Ffrainc wedi ei throï wyneb i waered gan Ddymchweliad sydyn, yr hyn bellach sydd yn bur gyffredin yn ei hanes. Fe achosodd y newyddion am y sefyllfa yr ochr arall i'r Sianel gynhwrf mawr yn Lloegr, ac yn enwedig yn y Brifddinas. Fe chwyddodd y dôn i'r taleithiau; ac fe dorodd allan derfysgoedd yn Glasgow, Edinburgh, Manchester, a manau eraill. Yr oedd pryder wedi meddiannu dynion cyhoeddus; ac ymysg y rhai a frysient i Lundain ac a gymerent eu tyngu i mewn fel heddeidwaid neillduol, cawn enwau Louis Napoleon, Duc o Norfolk, Edward Geoffrey Stanley (Iarl Derby), a William Ewart Gladstone. Y flwyddyn hon yn y Senedd, pan ddygodd Canghellydd y Trysorlys ei Gyllideb i mewn, cafwyd dadl frwd ar egwyddorion Masnach Rydd, pan wnaeth Mr. Disraeli ymosodiad ar wladweiniaeth Syr Robert Peel, ac a waddod ei llwyddiant. Dygodd hyn Gladstone i fyny, a phrofodd trwy ystadegau manwl ei llwyddiant; ac wrth derfynu, cyfeiriodd at sefyllfa pethau ar y Cyfandir yn y geiriau hyn: "Yr wyf yn sicr y bydd i'r Tŷ hwn brofi ei hun yn deilwng o'r Seneddau eraill sydd wedi ei ragflaenu, yn deilwng o'r Penadur y galwyd ef ynghyd i'w chyfarwyddo, ac yn deilwng o'r bobl y dewiswyd ef i'w cynnrychioli, trwy gynnal i fyny y genedl, a'i galluogi i sefyll yn gadarn yn nghanol y cyrhyrifiadau sydd yn ysgwyd cymdeithas yn Ewrop, trwy wneyd pob peth a berthyn i ni tuag at gadw trefn mewn cymdeithas, sefydlogrwydd mewn masnach, a moddion cynnal-iaeth i'r bobl; a thrwy foddioni ein cydwybodau, o'n tu ni, o dan amgylchiadau anhawdd y cyfnod profedigaethus, yn yr hyder perffaith, os bydd i ni osod esiampl dda o flaen y deyrnas—dros fuddiannau yr hon y dewiswyd ni i ymgynghori—hwythau hefyd a safant yn ddiysgog, fel y gwnaethant mewn amseroedd eraill o gyfyngder anobeithiol; ac y bydd i ni, trwy eu synwyr da, eu harafwch, a'u serch at sefydliadau y wlad, weled y sefydliadau hyn yn sefyll eto, yn fendith ac yn ddaioni i oesoedd dyfodol, beth bynag fyddo yr ofnau, a pheth bynag yr aflwydd a all yn anffodus gyfarfod â rhanau eraill Ewrop wareiddiedig." Geiriau difrifol yn cael eu llefaru gan Seneddwr a ddygai achos y bobl bob

amser yn ei galon, ac a wyliai yn bryderus dros ei wlad fel tad dros einioes ei blant.

Cafwyd prawf pellach y tymmor hwn o'i duediadau Rhyddfrydol yn yr araeth draddododd o blaid y mesur a ddygwyd i mewn er mwyn cyfreithloni cysylltiad diplomyddol rhwng y wlad hon a'r Pab: *A Bill to legalise diplomatic relations with the Court of Rome.* Wrth gefnogi y mesur, dywedai nad allai oddiar ofn gael ei gamddeall, ac o gael ei ddrwgdybio o goleddu syniadau gyda golwg ar gynlluniau dyfodol—y rhai a adawai hyd yr amser priodol i'w trin—nad allai oddiar y cyfryw ystyriaethau wrthod cefnogi y mesur. Mae hon yn engrafft dda o'i wroldeb a'i onestrwydd, gan ei fod yn beiddio oddiar argyhoeddiad cydwybodol wneyd yr hyn fuasai yn sicr o gael ei gamliwio y tu allan, a chan neb yn fwy na chan ei etholwyr—offeiriaid a phroffeswyr Rhydychain Brotestanaidd. Dywed ei fywgraffydd am yr araeth hon: "Ten years before this speech would have been an impossibility with Mr. Gladstone. But to close observers of the changes being gradually wrought in his convictions upon ecclesiastical questions, it would have added one more straw indicating the direction of the current."

Ni chaniatâ amser, ac fe balla gofod i ni ei ddilyn o dymmor i dymmor yn ei fywyd Seneddol. Sicrhawn y darlennydd y deil ei fywyd ei ddilyn a'i efrynu yn ei fanylion; y mae yndo dryloëwder na chyfarfyddir âg ef yn aml mewn dynion cyhoeddus. Rhaid i ni foddloni ar ddefnyddio yr ychydig ddoethineb sydd yn ein meddiant i roddi bras ddarlun o hono o'r defnyddiau helaeth sydd genym wrth law.

Yn y flwyddyn 1850 y gwnaeth un o'r areithiau goreu a draddododd erioed yn y Senedd, yr hon sydd o ddyddordeb mawr yn bresennol fel dadganiad clir a hyawdl o egwyddorion ei wladweiniaeth dramor, sydd wedi bod gymaint yn sylw y wlad yn ddiweddar mewn gwrthgyferbyniad i un Arglwydd Beaconsfield. Yr oedd cryn anfoddlonrwydd yn y wlad ar y pryd at y modd yr ymddygodd y Llywodraeth tuag at Groeg, mewn rhyw annealltwriaeth oedd wedi codi rhwng y ddwy wlad; ac yr oedd bodolaeth y Weinyddiaeth Whigaidd yn troi ar ganlyniad y ddadl. Cafwyd y Llywodraeth yn y lleiafrif yn Nhŷ yr Arglwyddi ar gynnygiad a ddygwyd ymlaen i'w chondemnio. Ar yr awr olaf dygodd Mr. Roebuck gynnygiad i mewn yn y Tŷ isaf, yn dadgan cymeradwyaeth o gwrs y Llywodraeth. Dechreuodd y ddadl ar Mehefin 24ain, a pharhaodd am bedair noswaith. Traddododd Arglwydd Palmerston, yr Ysgrifenydd Tramor ar y pryd, araeth rymus yn agos i bum' awr o hyd, mewn amddiffyniad i'w wladweiniaeth. Ar ei diwedd, wrth gymhell cymeradwyaeth y Tŷ i'r cwrs a gymerodd, gwnaeth gyfeiriad at eiriau y Rhufeinwr, *Civis Romanus sum*—Dinesydd Rhufeinig ydwyf, gan gymhwyso y geiriau at y diogelwch y gallai dinasyddion Prydain ymfrostio ynddo, o dan amddiffyniad Llywodraeth ei Mawrhydi. Yr oedd araeth Mr. Gladstone ar yr achlysur yn un o'r rhai goreu draddodwyd yn ystod y ddadl. "In a rhetorical sense it was worthy of the occasion, and fully entitled to rank with the remarkable orations of Lord Palmerston, Sir Robert Peel, Mr. Cockburn, Mr. Cobden, and Mr. Disraeli. It was trenchant and exhaustive, producing great effect upon the House." Mewn atebiad i ddarn Rhufeinig araeth Arglwydd Palmerston, dywedodd:—

Syr, yn fawr fel y mae dylanwad Prydain, nis gall fforddio dilyn am amser hir wladweiniaeth hunan-neillduedig. Fe fyddai yn wrthwynebol i ddeddf natur a Duw, pe byddai yn bosibl i un genedl yn ngwledydd Cred ymryddhâu oddiwrth y rhwym-edigaethau sydd yn uno yr holl genhedloedd, ac i hōni iddi ei hun ger bron dynolryw sefyllfa o ragorfreintiau neillduol. Ac yn awr mi a ddadlenaf â'r pendefig anrhydeddus ar y tir a ddewisodd iddo ei hun yn y rhan fwyaf buddngoliaethus o'i araeth, pan wnaeth gyfeiriad gyda phwyslais at y geiriau "*Civis Romanus sum.*" Efe a ymfrostiodd, yn nghanol cymeradwyaeth ei gefnogwyr, y byddai Prydeiniwr o dan ei wladweiniaeth ef trwy yr holl fyd, yr hyn oedd dinesydd Rhufeinig. Beth, gan hyn, syr, ydoedd dinesydd Rhufeinig? Aelod ydoedd o gymdeithas neillduedig; perthynai i bobl fuddngoliaethus, i genedl a ddaliai eraill yn ddarostyngedig trwy fraich gref a chadarn. Iddo ef yr oedd cyfundrefn eithriadol o ddeddfau i fod; er ei fwyn of yr honid egwyddorion, a chanddo ef yr oedd hawliau i'w mwynhâu y rhai a gedwid oddiwrth y gweddill o ddynolryw. Ai dyma syniad i pendefig anrhydeddus am y berthynas ddylai fodoli rhwng Prydain a gwledydd eraill y byd? A ydyw yn hawlio ar ein rhan ein bod yn ddyrchafedig ar esgynlawr uchel uchel, uwchlaw yr holl genhedloedd? Yn wir, y mae yn rhy eglur, nid yn unig oddiwrth frawddegau, ond oddiwrth dōn gyffredin y pendefig urddasol, fod gormod o'r syniad hwn yn llechu yn ei feddwl; ei fod yn mabwysiadu, mewn rhan, y syniad gwag hwnw, fod genym ni, os gwelwch yn dda, genadwri i fod yn geryddwyr drygioni a ffolineb, amherffeithrwydd a cham ymysg gwledydd eraill y byd; ein bod yn yagolfeistri y byd; a bod pawb sydd yn anmharod i gydnabod ein swydd yn cael eu llywodraethu gan ragfarn a gelyniad, ac y dylent gael rhyfel dall gwladweiniaeth wedi ei chyhoeddi yn eu herbyn. Ac yn sicr, os dyledswydd Ysgrifenydd Tramor ydyw dwyn ymlaen frwydrau diplomyddol, y mae yn rhaid i ni oll gyfaddef fod y pendefig urddasol yn feistr mewn cyflawni y dyledswyddau hyn. Ond beth, syr, ddylai Ysgrifenydd Tramor fod? A ydyw i fod fel Marchog dewr, mewn rhyw faledgamp gynt, yn gyru allan i ganol y rhengoedd, yn arfog o'i ben i'w draed, gan ymddiried yn ei nerth a'i ddehurwydd, yn herio pawb er mwyn anrhydedd, ac heb feddu un ddyledswydd uwch na thafu cynifer ag sydd yn bosibl o'i wrthwynebwyr yn sybyrthol yn y llwch? Os hyn ydyw y drychfeddwl sydd genym am Ysgrifenydd Tramor da, o'm rhan i, mi fyddwn yn foddllawn pleidleisio ei swydd bresennol i'r pendefig urddasol am ei oes. Ond, syr, nid ydwyf yn deall dyledswyddau Ysgrifenydd Tramor i fod yn gyfryw. Yr wyf yn deall mai ei ddyledswydd ydyw sefydlu heddwch gydag anrhydedd. Meddylwyf mai un o'i ddyledswyddau cyntaf ydyw gwylid yn ofalus, a dyrchafu i anrhydedd ymysg y ddynoliaeth y casgliad mawr hwnw o egwyddorion a adnabyddir wrth yr enw deddf cenhedloedd (*the law of nations*), yr hon, yn wir, a ddarganfyddwyd gan yr aelod anrhydeddus dros Sheffield i fod yn bur amhenodol yn ei natur, ac yn dibynau gau mwyaf ar ddoethineb pob gwlad, ond yn yr hon yr wyf fi, i'r gwrthwyneb, yn gweled cofadail fawr ac urddasol o ddoethineb y byd, yn sylfaenedig ar ddyseidiaeth unol rheswm a phrosiad, etifeddiaeth werthfawr wedi ei gadael i ni gan yr oesoedd blaenorol, ac yn sylfaen gadarn ar yr hon y dylem fod yn ofalus i adalluad beth bynag fydd ein rhan mewn ychwanegu at eu cyrbaeddiadau, os, yn wir, y dymunwn ddal i fyny a chadarnhâu brawdoliaeth y gwledydd, a chynnyddu heddwch a llwyddiant y byd.

Yna wedi dadleu fod tuedd yn ngwladweiniaeth dramor y Llywodraeth i gryfhâu ein tymher ynysol, a'n tuedd hunan-ogoneddgar, terfynodd yn y geiriau hyn:—

Syr, dywedaf fod gwladweiniaeth y pendefig urddasol yn tueddu i gefnogi a chryfhâu yr hyn ydyw ein bai a'n gwendid parod fel cenedl, yn gystal ag fel personau unigol. Lle bynag y teithia Prydeiniwr fel dyn unigol, teimlir yn gyffredin ei fod yn ulawn, uchelfryd, gwrol, rhyddfrydig, a geirwir; ond er hyn i gyd, mae dseithriad yn deimladol yn rhy aml o rywbeth yn ei bresennoldeb sydd yn eu clwyfo, a thybiaf y cyfyd hyn o fod gormod o duedd ynddo at hunan-barch—rhy fach o'r ysbryd sydd yn parchu teimladau, ac arferion, a syniadau pobl eraill. Syr, canfyddaf y nodweddion hyn yn rhy amlwg yn ngwladweiniaeth y pendefig urddasol. Nid wyf yn ammu na wneir defnydd o'r ddadl bresennol i weithio ar wendid neillduol y meddwl Prydeinig. Fe gaiff y bobl glywed fod y rhai a wrthwynebant y cynnygiad yn cael eu llywodraethu gan gymhellion personol, eu bod yn ddibarch i agwyddorion gwladgarwch, nad oes ganddynt syniadau eang am wladweiniaeth genedlaethol. Chwi a

ddygwch eich achos o flaen rheithwyr ffafriol, a meddyliwch gael y ddedfryd yn eich ffafir; ond, syr, cymered y Tŷ rybudd—rhybuddied ei hunan—yn erbyna pob hudoliaeth. Y mae yn yr achos hwn gwra o appél. Y mae appél, fel yr un a wna yr aelod anrhydeddus dros Sheffield, o un Senedd-dŷ at y llall. Y mae appél pellach oddiwrth y Tŷ hwn at bobl Lloegr; ond, yn y lle olaf, y mae appél oddiwrth bobl Lloegr at deimlad cyffredinol y byd gwareiddiedig; ac o'm rhan i, yr wyf o'r farn y saif Prydain yn foel o'i phrif ogoniant a'i hymffrost, os gwelir ei bod wedi gwahanu ei hunan, trwy ei gwladweiniaeth dramor, oddiwrth y gefnogaeth foesol a estynir iddi gan argyhoeddiad sefydlog y ddynoliaeth—os daw y dydd pan y gall barhâu i ennyn syndod ac ofn mewn cenhedloedd eraill, ond pan na fydd ganddi yr un gyfran yn eu serch a'u hedmygodd.

Yr ydym wedi bod yn helaeth yn ein dyfyniadau, oblegid, fel y gwel y darlennydd, mae yr araeth yn un ragorol odiaeth; ac yn sicr nis gallasai neb draddodi syniadau fel hyn ond un oedd yn feistr ar egwyddorion eangaf gwladweiniaeth.

Mae y syniadau hyn ar wladweiniaeth dramor yn cydgordio â'r rhai sydd wedi seinio yn ystod y chwe' blynedd diweddaf oddiar yr un tafod hyawdl, ac yn profi yn ddiammheuol fod syniadau Mr. Gladstone ar wladweiniaeth dramor yn y dyddiau pan eisteddai ar y faine Doryaidd, i gyd o'r un natur â'r rhai a glywyd genym ninnau yn y dyddiau hyn oddiar y faine Ryddfrydol. Mae hyn yn myned ymhell iawn i brofi mai damwain yn ei fywyd ydoedd ei Doryaeth—*accident*, fel y dywedir mewn Rhesymeg, ac nid priodoledd sydd yn anwahanol gysylltiedig, neu yn dyfiant allan o'i natur. Rhywbeth dygwyddiadol ydyw yn codi oddiar ddylanwad ei addysg foreuol a rhagfarnau anaddfed ei ieuencyd. Fel prawf o hyn, hyd yn nod pan yn eistedd ar feinciau y Toryaid, y mae egwyddorion Rhyddfrydol yn perarogli yn ei areithiau—yr un parch i hawliau y ddynoliaeth—yr un cydymdeimlad eang â dyn—yr un afael sefydlog ar yr egwyddorion cyffredinol hyny sydd wrth wraidd heddwch a brawdoliaeth y cenedloedd. Gallwn dybied fod ei wrthwynebwr enwog, Beaconsfield, yn Rhyddfrydwr yn llawn cystal ag yn Dory; mae ei hanes yn profi mai gwisg am dano, ac nid tyfiant allan o hono, ydyw ei Geidwadaeth. Gallasai efe dafu gwisg Ryddfrydol am dano ei hun, ac actio yn hono lawn cystal ag y mae wedi gwneyd yn ystod ei oes. Ond y mae Mr. Gladstone yn Rhyddfrydwr hyd yn nod pan yn Dory mewn enw. Y mae ei wladweiniaeth yn dyfiant allan o'i ysbryd ei hun, yn gwreiddio yn nghyfansoddiad ei natur; ac fe aeth ei natur o'r diwedd yn drech na'r amgylchiadau damweiniol a'i harweiniodd at y Toryaid yn nechreu ei oes. Ac nid ydyw yr anghysondeb hwn yn ddim ond rhywbeth mewn ymddangosiad, er cymaint y mae ei elynion wedi ei wneyd o hono. Y mae Gladstone ar y faine Ryddfrydol a Gladstone ar y faine Geidwadol yr un dyn; a'i fywyd yn dyfiant allan o'r un egwyddorion; nid oes yma ddim gwahaniaeth mewn egwyddor a syniad. Credwn yr ymddengys fod mwy o wahaniaeth yn Ngheidwadaeth Arglwydd Beaconsfield, i'r hwn a edrycho arni yn fanwl, mewn gwahanol gyfnodau o'i oes, nag sydd rhwng Ceidwadaeth bore oes Mr. Gladstone a Rhyddfrydiaeth diwedd ei oes.

His words and works and fashion too  
All of a piece, and all are clear and straight.

Yn ngauaf 1851—52 y cymerodd, yn ol ei dystiolaeth ei hun, ran amlwg a chyhoeddus gyntaf mewn gwladweiniaeth dramor. Treuliodd



yn y ganaf hwnw ychydig o fisoedd yn Naples; ac er iddo fyned yno, nid gydag un bwriad cyhoeddus ond teuluaidd,—er mwyn iechyd un o'i blant, fe fu ei arosiad yno yn foddion i wneyd ei enw yn air teuluaidd yn Ewrop. Gwelsom ef yn ddiweddar, trwy ei leferydd a'i ysgrifbin, yn ymosod ar greulonderau Twrci yn Nghyflafan Bulgaria, a thrwy ei hyawdledd tanllyd yn troi llais y wlad fel corwynt yn ei herbwn; ac yn Naples, yr adeg o dan sylw, ni a'i gwelwn ef yn gwneyd gwaith cyffelyb, trwy ddynoethi creulonderau y llywodraeth Neapolitaidd, a thynu ar ormes ac anghyfiawnder ddialedd y byd. Yr oedd llywodraeth Italy ar y pryd yn hollol o dan ddylanwad rheolaeth Awstria. Teyrnasai y brenin Ferdinand yn greulawn ac yn ormesol; gw'nai ei ewyllys ei hunan yn ddeddf; a sathrai ddeddf natur a hawl dyn yn hollol dan ei draed. Yr oedd tuag 20,000 o ddeiliaid y brenin mewn carchar yn unig o herwydd ystyriaethau politicaidd; ac yn eu mysg rai o'r dinasyddion enwocaf—dynion o allu a dylanwad fuasai yn addurn i unrhyw wlad. Allan o 140 o gynnrychiolwyr Seneddol, yr oedd 76 wedi eu cymeryd i fyny gan y Llywodraeth, a'u danfon i alltudiaeth. Y Llywodraeth oedd y troseddwr mwyaf; ac yn groes i'r gyfraith, cadwai wylhadwriaeth ar y bobl fel ar ladron; torai i mewn i'w hanneddau; cloddiai i fyny y lloriau, o dan yr esgus o chwilio am arfau. Nid oedd un cartref yn gysegredig; a danfonid dynion i garchar wrth yr ugeiniau, heb un cyhuddiad, heb un warant, ac heb rith o brawf cyfreithiol. Condemniwyd rhai o'r dynion enwocaf yn y wlad i garchar ac i heiyrn. Yn eu mysg yr oedd Carlo Poerio, un o'r gwladgarwyr llwyr af mwyaf urddasol. Yr oedd y carcharorion anrhydeddus hyn yn rhwym mewn haiarn yn pwyso 32 pwys ar bob un; ac ni symudid yr heiyrn hyn oddiam danynt na dydd na nos. Mewn gwirionedd, edrychai y cyhoedd meddylgar ar y Llywodraeth fel corfforiad o anghyfiawnder a cham, a'r geiriau yn y rhai y desgrifid hi gan y bobl oeddynt, "*E la negazione di Dio eretta a sistema di governo*"—Gwadiad o fôd Duw wedi ei ddyrchafu i fod yn egwyddor Llywodraeth.

Fe deimlodd Mr. Gladstone, er nad ydoedd yn y wlad gydag un bwriad cyhoeddus, ei fod yn ddyledsyydd arno ddynoethi y drygau hyn. Cyhoeddodd ddau lythyr wedi eu cyfeirio at Iarll Aberdeen. Y mae yn y llythyrau hyn yr un casineb difaol yn erbyn pob math o drais a chreulondeb, yr un cydymdeimlad dwfn â dyn, yr un hyawdledd i ddeffro gwlad i deimlad dialeddol yn erbyn anghyfiawnder, ag a ddaeth i'r golwg yn ddiweddar yn ei bamphled ar y *Bulgarian Horrors*.

Fe aeth y llythyrau hyn trwy Ewrop fel corwynt, gan ysgwyd y Llywodraeth farbaraidd hon i'w sylfeini. Ac y mae yn sicr fod hon yn bennod ddysglær yn hanes Mr. Gladstone. Dengys ef i ni bob amser yn barod i amddiffyn y gorthrymedig; yn barod i aberthu ei hunan dros ddyn, ac i dafu ei dalentau dysglær a'i ddylanwad mawr yn gysgod dros genhedloedd sydd yn dyoddef o dan iau gormes. Y mae yn sicr fod ei ddylanwad yn yr achos hwn wedi bod yn gymhorth ar ol hyn i Cavour a Garibaldi yn eu hymdrechion o blaid rhyddid ac annibyniaeth Italy.

Gallwn ei ystyried erbyn hyn yn Rhyddfrydwr ymhob peth ond mewn enw. Nid ydyw yn hawdd penderfynu yn sicr pa bryd y gadawodd y Toryaid. Yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, yr oedd mewn

cysylltiad â'r blaid yn 1851. Ond nid ydyw penderfynu hyn o fawr o bwys. Y mae yr ansicrwydd hwn yn ddyddorol fel prawf o'r hyn a ddywedwyd yn barod,—mai tyfiant graddol ydoedd y cyfnewidiad hwn, ac nid dychweliad gymerodd le ar unwaith, nes tynu sylw y wlad gan ei bwysigrwydd. Pan ymneillduodd Arglwydd Derby oddiwrth y Toryaid yn ddiweddar, daeth yr holl wlad i wybod hyn; ac ni fydd dim anhawser mewn blynyddoedd i ddyfod i benderfynu y flwyddyn yn ei hanes. Yr oedd y cyfnewidiad yn un sydyn a disymwth, ac wedi ei achosi fe ddichon, nid yn gymaint o herwydd Rhyddfrydiaeth dwfn yr Iarll, ond o herwydd Toryaeth eithriadol Beaconsfield. Pe buasai Toryaeth yn lifo ymlaen yn ei hen sianel arferol, y mae yn beth tebygol mai Tory fuasai hyd y dydd hwn; ond pan aeth i chwareu campau, a gydwedda i fwy âg awdurdod unbenaethol llys dwyreiniol nag â llywodraeth gyfansoddiadol, fe gollodd yr Iarll ei anadl, ac fe fethodd a'i dilyn; ac y mae ei enciliad oddiwrth y blaid yn wrthdystiad, nid yn gymaint yn erbyn Toryaeth, ond yn erbyn Disraeliaeth,—Toryaeth Arglwydd Beaconsfield. Ond oblegid tyfiant graddol a naturiol egwyddorion Rhyddfrydol yn Mr. Gladstone, y mae yr adeg y gadawodd efe y Toryaid yn anhawdd ei benderfynu. Nis gellir ei ystyried yn Dory mewn enw yn ddiweddarach nag 1851, er na ddaeth yn Rhyddfrydwr mewn proffes am ychydig amser wedi hyn. Dengys hyn y tu hwnt i bob ammheuaeth, mai tyfiant a dadblygiad dystaw ynddo ydoedd. Gwelwn y tyfiant hwn yn dyfod i'r golwg yn ei holl weithredoedd, ac yn ei areithiau yn y Senedd pan yn siarad oddiar feinciau y Toryaid; ac yr oedd yn ddigon hawdd i bawb oedd yn deall egwyddorion ac ysbryd y pleidiau weled beth fuasai y diwedd. Gellir ystyried ei fod yn 1851—52 wedi ymwahanu yn hollol yn ei ysbryd oddiwrth Doryaeth.

Y mae yn angenrheidiol i ni ddwyn ar gof i'r darllenwyr, fod gwahaniaeth dirfawr rhwng Toryaeth y Senedd, pan oedd Mr. Gladstone yn aelod o'r blaid, a Thoryaeth o dan arweiniad Arglwydd Beaconsfield. Mae Mr. Gladstone ei hun, wrth ddynoethi gweithredoedd y Weinyddiaeth ddiweddar, wedi dangos hyn yn eglur iawn. Nis gallasai efe byth fod yn aelod o'r blaid o dan arweiniad Beaconsfield. Gwelsom eisoes oddiwrth ei areithiau Seneddol pan oedd yn Dory fod ei syniadau am wladweiniaeth yn hollol groes iddo. Yr oedd Toryaeth y dyddiau hyn, o dan arweiniad Syr Robert Peel a Wellington, yn meddu parch diffuant tuag at hen arferion cyfansoddiadol; ei hegwyddorion hanfodol oeddynt ymlyniad mawr wrth gyfansoddiad y wlad fel y derbyniasid ef oddiwrth yr oes flaenorol, ac anmharoddrwydd i roddi ystyriaeth ddyladwy i'r nerthoedd oedd ar waith mewn cymdeithas yn galw am gyfnewidiad. Yr oedd Syr Robert Peel, o dan arweiniad yr hwn yr eisteddai Mr. Gladstone ar yr ochr Doryaidd, yn wladweinydd enwog; yn meddu gallu a gonestrwydd i godi uwchlaw plaid mewn gwasanaeth-garwch i'w wlad. Ni wnaeth ac nis gallasai wneyd un cam â'r wlad er mewn dyrchafu ei blaid. Y mae Toryaeth y dyddiau hyn, o dan arweiniad yr hwn sydd yn awr yn gorphwys oddiwrth ei lafur yn neillduaeth Hughenden, yn meddu nodweddion gwahanol. Dangoswyd gan y Weinyddiaeth ddiweddar nad oedd ynddi ymlyniad parchus wrth draddodiadau cyfansoddiadol ein gwlad, na'r parch lleiaf i hawliau cenhedloedd. Defnyddiai awdurdod Prydain i borthi yr hyn oedd iselaf

yn y bobl—balchder a gwagedd cenedlaethol; ac aflonyddai ar heddwch y byd er mwyn brawddegau swnfawr heb ddim ystyr ynddynt. Nid oes dim yn gondemniad mwy llwyr ar wladweiniaeth dramor y Weinyddiaeth ddiweddfaf na rhai o'r areithiau a draddodwyd gan Mr. Gladstone oddiar y fainc Doryaidd yn y Tŷ. Y mae yn angenrheidiol cadw hyn mewn cof, onidê gall ein darllenwyr gamddeall y gwahaniaeth sydd rhwng Mr. Gladstone ein dyddiau ni a Mr. Gladstone dyddiau ein tadau.

Yn 1852 daeth Iarll Derby yn Brifweinidog. Cynnygiodd swydd yn ei Weinyddiaeth i Mr. Gladstone; ond efe a'i gwrthododd. Gallwn ystyried ei fod erbyn hyn yn teimlo ei hunan yn ormod o Ryddfrydwr i gymeryd swydd mewn Gweinyddiaeth Doryaidd. Trwy fod yn ffyddlawn iddo ei hun y mae wedi cyrhaedd ymwybyddiaeth sicr o'i egwyddorion, ac o'r blaidd a roddai y cymhorth mwyaf iddo i weithio yr egwyddorion hyny allan. Ar ddechreu ei fywyd cyhoeddus nid oedd neb mor annhebyg o droi ei gefn ar y Toryaidd ag efe; ond fe gymerodd y cyfnewidiad le mor naturiol ag ydyw tywyniad y goleuni. Nid daeargryn barodd yr ymranied hwn, ond dadblygiad graddol yn mywyd yr enaid.

JOHN HUGHES.

*Dowlais.*

---

## DAN Y GRAWEN.

Y MAE daeargrynfau a mynyddoedd tanllyd wedi profi bob amser o ddyddordeb arbenig i'r meddwl dynol, ac o'r amseroedd boreuaf am ba rai y mae genym unrhyw hanes, ni cheir adeg pan na fyddai damcaniaethau mewn perthynas i'r achosion o honynt, a chyda golwg ar yr hyn sydd y tu fewn i'r ddaear, yn cael eu gosod ger bron. Y mae ymron yr oll o'r damcaniaethwyr yn cytuno mewn ystyried y ddaear fel crawen allanol galed yn cychwynu canol toddedig oddifewn. Y mae cymhwysio ymchwilid gwyddonol manwl at y cwestiwn yma, fodd bynag, wedi profi gwendid llawer o'r hen olygiadau, rhai yn eu hegwyddor hanfodol a rhai yn eu manylion, ac y mae ar yr un pryd wedi dwyn allan gyda mwy o eglurder yr elfenau hyny yn y mater y rhai, tra yn hanfodol, nad ydyw yn bosibl yn sefyllfa bresennol ein gwybodaeth eu hegluro yn gwbl foddhaol. Er pigo ein ffordd o gam i gam, ni a gychwynwn gyda'r gosodiad hwn: *Fod ardymeredd uchel yn ffyni islau arwyneb y grawen.* Y mae gwirionedd y gosodiad yma yn cael ei gadarnhau gan gyflawnder o brofion, y rhai y gellid eu crynhoi dan dri phen.

1. Mynyddoedd tanllyd. Mewn rhanau neillduol o'r byd y mae

mynyddoedd, y rhai, ar adegau afreolaidd, ydynt ddarostyngedig i rwygdarddiadau neu *eruptions* nerthol, pan mae cymylau o ager a nwyon eraill, yn gystal a ffrydiau o lafa toddedig, yn cael eu gollwng allan o agoriad yn mhen y mynydd, a elwir y *crater*. Nid ydyw y mynyddoedd tanlyd hyn eu hunain ond crugiau anferth a fwrwyd i fyny gan weithrediad llosgfalaidd neu *volcanic*—sothach, lludw, a lafa wedi ymgasglu o amgylch agoriad yn nghrawen y ddaear trwy ba un y bwrid allan y defnyddiau llosgedig oddi-isod. Mai dyma yn weithredol ydyw dull ffurfiad côn llosgfalaidd a brofir trwy gyfansoddiad y côn ei hunan, ac a gadarnhêir ymhellach gan y ffaith fod, mewn un engraifft, holl gwrs dygiad y peth oddiamgylch wedi ei weled gan nifer o bersonau a ddygwyddent fod yn bresennol pan gymerodd y rhwygdarddiad le. Fe ddaeth côn llosgfalaidd Monte Nuovo, gerllaw Vesuvius, yn Italy, i fôd yn y flwyddyn 1538. Y mae hwn yn 440 o droedfeddi o uchder, ac yn sefyll ar le ag oedd hyd y 29ain o Fedi, 1538, yn cael ei orchuddio gan lyn bychan. Yr oedd y gymydogeath am ddeuddydd neu dri yn flaenorol i'r diwrnod hwnw wedi ei haflonyddu gan ddaear-grynfaau mynych. Ar y 29ain, tuag un o'r gloch y bore, ymddangosai agoriad yn y llawr ar y fan lle yn awr y saif Monte Nuovo (y Mynydd Newydd), a thrwy hwnw y taffwyd allan ludw ac yspyngfeini (*pumice stones*), yn gymysgedig â dwfr, mewn helaethrwydd mawr. Fe barhaodd y taffiad allan yma o laid, lludw, a cheryg yn ddiattaliad, hyd ymhen deuddeng awr yr oedd bryn uchel wedi ei ffurfio, yr hwn ymhen ychydig ddyddiau—yr *eruption* yn parhâu yn awr ac yn y man—oedd wedi tyfu i faintioli y mynydd fel y saif yn awr. Felly y mae yr ager a'r defnyddiau llosg a fwrld allan yn dangos ffynnonell gwres rywle o fewn y ddaear.

2. Y mae y ffynnonau poethion sydd mewn rhai gwledydd yn profi yr un peth. Mae y rhai hyn i'w cael yn gyffredin mewn rhanbarthau llosgfalaidd neu *volcanic*. Y ffynnon boeth fwyaf adnabyddus yn Mhrydain Fawr, ac yn wir yr unig un o bwys, ydyw Hen Ffynnon Bath, dwfr pa un sydd yn meddu arymheredd at ei gilydd o 120 gradd Fahrenheit. Yn nghanolbarth Ffrainc, yn Auvergne, y mae ffynnonau yn meddu arymheredd o 147° F., ac y mae un yn ngogledd-orllewin Spaen mor uchel â 192° F. Y mwyaf hynod o'r ffynnonau poethion, yn ddiammeu, ydyw y *Geysers*, y credid am yspaid eu bod yn briodol yn unig i Iceland, ond y gwyddys yn awr eu bod i'w cael yn New Zealand ac yn rhanbarthau Colorado yn Ngogledd America. Y mae Geyser fawr Iceland yn cynnwys pibell neu *tube*, sydd yn 74 troedfedd o ddyfnder a 10 o dryfesur, uwchlaw pa un y mae pantlyn, sydd ymron yn grwn, a rhwng 50 a 60 troedfedd o dryfesur. Y mae y tu mewn i'r *tube*, yn gystal â'r pantlyn, yn orchuddiedig gan gymrwd neu *cement* caled, llyfn, callestraidd (*silicious*), ac y mae y crug ei hun, sydd yn gwneyd mur allanol y pantlyn, wedi ei wneyd o ddefnyddiau callestraidd a gyflewyd gan ddyfroedd y ffynnon. Y mae y pantlyn a'r *tube* wedi eu llanw â dwfr sydd yn brydferth o glir ac o arymheredd uchel. Yn awr a phryd arall y mae trystiadau uchel a firwydradau cryfion i'w clywed dan y ddaear, yn cael eu dilyn gan fawr gynhyrriad y dwfr yn y pantlyn. Mae y cynhyrriad yn cynnyddu, ac yn y man y mae pistylliad o ddwfr yn cael ei daflu i fyny gyda ffirwydrad swnfawr i uchder o 100

neu 200 o droedfeddi. Wedi chwarae am ychydig fynydau fel ffynnon, y mae y pantlyn yn dyfod yn wag o ddwfr, ac y mae yr *eruption* yn cael ei ddwyn i ben gyda rhuthriad cymylau o ager i fyny. Mae y pantlyn wedi hyny yn llanw yn raddol oddiwaered, ac wedi i ychydig amser fyned heibio y mae yr un peth yn cymeryd lle drachefn. Y mae cynhesrwydd y dwfr, yn gystal a'r ager a ddygir allan, yn dangos yn eglur fod ardymheredd uchel islaw yr arwyneb.

3. Heblaw y profion uchod, y mae sylwadaeth mewn mwngloddiau a thylliadau dyfnion am ffynnonau yn dangos fod yr ardymheredd yn cynnyddu gyda'r dyfnder. Y mae yr arwyneb yn ddarostyngedig i gyfnewidiad ardymheredd sydd yn ymddibynu ar amrywiadau y tymorau; ond nid yw y cyfnewidiadau hyn i'w teimlo mewn dyfnder o fwy na 100 troedfedd. Islaw yr haen yma o ardymheredd annewidiol, y mae cynnydd fel yr ydym yn myned i lawr. Nid ydyw mesur y cynnydd ymhob man yr un, ond fe ymddengys fod cyfartaledd gweddol yn godiad o 1° F. am bob 50 neu 60 troedfedd o ddisgyniad.

Mae yn amlwg, a thybied cynnydd, dyweder o 1° F. am bob 50 troedfedd, i barhâu yn gyson, y cyrhaeddir ardymheredd o 3300° F. mewn dyfnder o 28 milldir, yr hyn sydd ddigon i doddi haiarn, a chadw craig gyffredin mewn ystad doddedig ar arwyneb y ddaear.

A oes genym le i feddwl, ynte, nad oes gan y grawen galed ond trwch bychan, heb fod yn fwy na 28 neu 29 milldir, tra y mae y corff mawr tumewol mewn ystâd hylifol? Y mae amryw ystyriaethau yn dyfod i fewn yn y fan yma. Yn y lle cyntaf, yr ydym wedi cymeryd yn ganiatâol nad yw mesur y cynnydd yn amrywio, ond y mae yn eithaf posibl fod y mesur yn lleihâu gyda chynnydd y dyfnder. Y mae Syr William Thomson, ar dir damcaniaethol, wedi dwyn ymlaen debygolrwydd cryf y golygiad yna, ac y mae wedi ei arwain gan ymchwiliadau neillduol i gasglu fod mesur y cynnydd fel y canlyn:—

1° F. am bob 51 troed.	rhwng 100 troed.	a 100,000 troed.	-
1° F. " 141	" 100,000	" 400,000	"
1° F. " 2,550	" 400,000	" 800,000	"

Islaw 100 milldir y mae efe yn tybied y gallai fod y sylwedd ar bwynt toddi.

Fe wnaed rhai sylwadaethau hynod o ddyddorol yn dwyn perthynas â'r pwynt neillduol yma mewn tylliad o 4,000 o droedfeddi o ddyfnder yn Speremberg, gerllaw Berlin, yn 1875. Y mae yr hanes yn cael ei roddi gan Proffeswr Mohr o Bonn, ac fe ymddengys fod yno leihâd cyson yn *mesur* neu *ratio* y cynnydd yn ystod y disgyniad.

Fe ddengys y daflen ganlynol y ffygyrau yn fanwl. Rhoddir yr ardymheredd yn ol graddeg Reaumer. (Y mae 0° R. yn cyfateb i 32° F., a 80° R. i 212° F.; felly mae 2° R. ychydig yn llai na 1° F.)

Am ddyfnder o	Ardymheredd.	Cynnydd mewn 100 troed.
700 troed.	15·654° R.	—
900	17·849° R.	1·097
1100	19·943° R.	1·047
1800	21·939° R.	0·997
&c., &c.		

Y canlyniad yn gyffredinol ydyw fod y *mesur* yn lleiháu  $\frac{1}{20}$  R. am bob 100 troedfedd.

Oddiwrth y pethau hyn fe gasglai Profeswr Mohr y byddai y cynnydd mewn dyfnder o 5,170 troedfedd yn ddim; ac yn y pwynt hwnw gan hyny fe gyrhaeddir ardymheredd sefydlog.

Mae y pethau hyn a gafwyd fel ffrwyth ymchwiliad o bwys mawr, ac y mae lleihâd cyffelyb mewn gwres wedi ei gael mewn un neu ddau o achosion cyffelyb; eto, nes y bydd nifer mawr o achosion wedi eu hastudio, a chorff helaeth o ffeithiau cwbl gredadwy wedi eu casglu, yn profi tu hwnt i bob ammheuaeth gywirdeb ffigyrau Profeswr Mohr, ni fydd yn ddoeth na diogel sylfaenu arnynt unrhyw ddamcaniaeth. Y mae Profeswr Mohr ei hun yn ystyried fod y sylwadaethau hyn yn cyfiawnhâu y casgliad, "Fod achos y gwres cynnyddol o fewn y ddaear yn gorwedd yn haenau uchaf crawen y ddaear." Dywed ymhellach "fod yn rhaid i ddamcaniaeth mynyddoedd tanlyd ei chyfaddasu ei hun at y *results* neu y canlyniadau uchod, ac nad ydyw hylifedd lafa yn rhan o'r gwynias, *incandescence*, sydd yn y ddaear; ond yn ganlyniad lleol o wres sydd yn cymeryd lle trwy suddiad sydd bob amser yn cael ei gynnyrchu gan y môr a'i weithrediad ar y creigiau celyd. Mae y gorwresogiad lleol yma ar y nerth llosgfalaidd yn cyfranu yn helaeth at wres tumewnol y ddaear."

Y mae yn aros, fodd bynag, eto elfen bwysig arall yn y cwestiwn i'w hystyried. Fe geir fod pwynt toddi mewn corff caled yn dibynu, nid yn unig ar yr ardymheredd, ond hefyd ar y dirwasgiad dan ba un y gosodir corff ar y pryd. Mae y rhan fwyaf o sylweddau yn chwyddo wrth doddi, ac y mae unrhyw gynnydd ar y dirwasgiad sydd yn rhwystro y fath chwyddiad yn codi yn uwch y pwynt toddi. Gan hyny ymha ddyfnder bynag y cyrhaeddir yr ardymheredd gan ba un y mae craig yn ymdoddi o dan ddirwasgiad cyffredin arwyneb y ddaear, fe fydd y dirwasgiad yn y pwynt hwnw, pa un bynag ai yn y dyfnder o 500 milldir neu 100 milldir neu 28 milldir, yn fawr iawn, ac mewn canlyniad fe gyfyd y pwynt toddi. Nid ydyw yn canlyn gan hyny fod ardymheredd uchel o fewn y ddaear o angenrheidrwydd yn golygu hylifedd y canolbwynt. Nes y byddwn mewn meddiant o wybodaeth gyflawn gyda golwg ar berthynas rifyddol fanwl ardymheredd, dirwasgiad, a dwysder (*density*) y naill i'r llall o fewn y ddaear, rhaid i'r *problem* aros heb ei hesbonio.

Yn bresennol y mae genym dri eglurhâd posibl.

i. Gallai fod y ddaear yn gynnwysedig o grawen galed oddiallan a chanol hylifol oddifewn.

ii. Neu gallai fod yn gynnwysedig o grawen galed oddiallan a chanol caled oddifewn, yn cael eu gwahanu gan haen o fater sydd yn anmherfaith hylifol.

iii. Neu gallai fod yn galed trwyddi.

Fe allai ymddangos ar yr olwg gyntaf fod y ffaith o dywalltiad allan lafa toddedig o agorfa mewn llosgfynydd yn gorfodi crediniaeth yn hylifedd y rhan dumewnol o'r ddaear. Os oes rheswm cryf, fodd bynag, i dybied y rhaid fod crawen y ddaear yn meddu cryn drwch, fe allai fod genym i edrych am darddiad lafa llosgfalaidd yn rhywle arall heblaw yr hylif tumewnol. Lawer o flynyddoedd yn ol, fe ddarfu i'r

mesuronydd enwog Mr. Hopkins o Cambridge, gyhoeddi ffrwyth ei ymchwiliadau i'r cwestiwn hwn. Y mae yn ymddangos fod ad-dyniad yr haul a'r lleuad ar y rhanau argrwm, *prothuberant*, yn nghyhydedd y ddaear, yn peri math o gyffro yn ysgogiad y ddaear a adnabyddir fel *precession*, rhagfynediad, a *nutation*, neu grynysgogiad; ac y mae yn ymddangos ymhellach y bydd yr ysgogiad a gynnyrchir felly yn dibynu ar natur y belen. Fe fyddai effaith gynhyrfiol y cyrrf nefol ar ganol toddedig wedi ei gau o fewn i grawen galed yn lled wahanol i'r hyn a fyddai ar sylwedd a fyddai yn galed trwyddo. Fe gyfrifodd Mr. Hopkins beth a fyddai yr ysgogiad yma o *precession*, a chymeryd yn ganiatäol fod y ddaear yn gynnwysedig o grawen galed yn amgylchynu canol hylifol, ac fe gafodd, mewn trefn i gyfateb i'r ysgogiad a geir yn weithredol gan seryddwyr, y rhaid i grawen y ddaear feddu trwch neillduol, yr hwn nad allai fod yn llai na phedwaredd neu bummed ran ei *radius*, neu y pellder o'i harwyneb i'w chanolbwynt, hyny yw, 800 neu 1000 o filldroedd, tra nad oedd y cyfrifiadau yn wrthwynebol i galedrwydd cyfangwbl y ddaear. Yn yr achos yma y mae yn amlwg mai prin y gall fod y lafa llosgfalaidd a'r pethau a fwrir allan yn tarddu o dumewnol mewn ystad o hylif; rhaid eu bod yn codi o ryw ran i'r grawen sydd yn llawer nês i'r arwyneb nag 800 milldir. Y mae y golygiadau yma a ddiffynir gan Mr. Hopkins, fodd bynnag, wedi cael ymosod yn egniol arnynt gan y seryddwr Ffrengig enwog M. Delauney. Dadleua efe, a thybied fod y tu mewn yn hylifol, y rhaid fod y mater toddedig, o angenrheidrwydd, mor glydiog fel yr ymddygai dan ad-dyniad yr haul a'r lleuad, fel y gwnelai corff caled neu *rigid*. Fel hyn y saif y mater; y mae mesuronwyr o'r enwogrwydd uchaf yn gwahaniaethu, ac am y presennol fe'n gadewir mewn amheuaeth pa un a ydyw ystyriaethau mesuronol a seryddol o blaid ynte yn erbyn hylifedd tumewnol y ddaear.

A symio i fyny y prawf ynte, a chlorianu y rhesymau, yr ydym yn cael o blaid yr hylifedd tumewnol y dadleuon a ganlyn:—

1. Y mae cynnydd yn yr ardymheredd wrth ddisgyn i'r ddaear sydd mewn dyfnder o rywle rhwng 30 a 100 milldir, ardymheredd digon uchel i doddi creigiau.

2. Fod craig doddedig—lafa—yn weithredol yn cael ei dywallt allan o agoriadau llosgfalaidd.

3. Y mae ymchwiliad daearegol yn dangos fod ymgodiadau a gostyngiadau mawrion wedi cymeryd lle yn nghrawen y ddaear mewn amseroedd a aethant heibio, a'u bod yn cymeryd lle yn awr; ac y mae yn anhawdd gwelod pa fodd y gallai y fath symudiadau gymeryd lle oddieithr fod y grawen galed wedi ei harosod ar ryw sylwedd hylifol ymroddol.

Yn erbyn yr hylifedd y mae genym—

1. Y tebygolrwydd y buasai y dirwasgiad y tu mewn i'r ddaear yn rhwystro i'r defnyddiau wedi eu poethi yn gymaint, gymeryd sefyllfa hylifol, trwy rwystro yr ymchwylidiad, yr *expansion* angenrheidiol.

2. Y rhesymau sydd yn codi oddiar ystyriaethau mesuronol a seryddol; ond gan fod gwahaniaeth barn ar y mater yma, nid ydyw y rhesymau yn cario pwyysau mawr.

Ymddengys gan hyny y rhaid i ni ystyried y ddadl gryfaf yn yr

amser presennol fel, ar y cyfan, o blaid cawen galed gyda haen hylifol o fewn dyfnder rhwng 30 a 100 milldir. Nid yw y ddadl uchod, fodd bynag, yn golygu hylifedd hyd y canolbwynt, ac fe fydd yn angenrheidiol ystyried y mater yna ychydig yn fwy cyflawn. Y mae yr ystyriaeth o ddwysder, *density*, y ddaear, a'i berthynas a dwysder y creigiau mwyaf cyffredin ar ei hwyneb, yn dwyn cysylltiad pwysig â'r cwestiwn. Y mae rhai ymchwiliadau seiliedig ar yr egwyddor fod attyniad cyrff y naill ar y llall mewn cyfartaledd i'w swm, wedi galluogi anianyddwyr i benderfynu pwysau y ddaear. Fe geir ei bod yn bum' gwaith a hanner pwysau pelen o ddwfr yn union o'r un maintioli. Fe elwir y ffgyrau sydd yn dangos pwysau corff mewn cymhariaeth i bwysau yr un swm o ddwfr pur yn *specific gravity*, neu briodbwys. *Specific gravity* y ddaear gan hyn ydyw  $5\frac{1}{2}$ . *Specific gravity* y creigiau a ffurfiant ei harwyneb, fodd bynag, ydyw  $2\frac{1}{2}$ , yr hyn sydd lai na hanner eiddo yr holl belen. Y mae yn canlyn gan hyn y rhaid fod y rhanau o'r ddaear tua'r canolbwynt yn meddu *specific gravity* tra uchel, i beri fod y cyfartaledd am y cyfan yn  $5\frac{1}{2}$ , tra nad ydyw yr arwyneb ond  $2\frac{1}{2}$ . Yn awr, a thybied y gellid dirwasgu y defnyddiau sydd yn gwneyd y ddaear ymron i raddau amhenodol, y mae yn hawdd meddwl y gallai dirwasgiad anferth oddifeu fod ei hun yn ddigon i gyfrif am y gwahaniaeth hwnw mewn *specific gravity*—y gallai y graig oedd ar yr arwyneb yn meddu *specific gravity* o  $2\frac{1}{2}$ , o dan y dirwasgiad oddifeu gael ei dirwasgu i  $\frac{1}{2}$  neu  $\frac{1}{3}$  o'i swm, ac felly ei *specific gravity* fod wedi cynnyddu yn gyfatebol. Y mae ymchwiliadau anianyddol yn dangos, fodd bynag, na ellid dirwasgu unrhyw sylwedd i raddau amhenodol; "fod yr hyn a ddynodir fel mwyafswm dynesol eu priodbwys (*approximative maximum specific gravity*) yn cael ei gyrhaedd yn fuan, tu hwnt i ba un y mae effeithiau gwasgiad yn dyfod gymaint llai lai yn ol y nerth a gymhwysir, fel o'r diwedd y mae crynhoad pellach, cynnyrchedig gan ddirwasgiad mwy fyth, yn bobpeth ond anghanfyddadwy." Os tybiwn gan hyn fod y ddaear wedi ei gwneyd i fyny o haenau o amgylch yr un canolbwynt, *concentric*, y rhai a gynyddant mewn dwysder fel y dynesant at y canolbwynt, ac nad oes gan y defnyddiau sydd yn cyfansoddi arwyneb y grawen, fel y gwyyddom, ond *specific gravity* o  $2\frac{1}{2}$ , yna yn ol cyfrifiad a roddir gan Mr. David Forbes, fe fyddai dwysder y canolbwynt yn 10. Y mae efe yn nodi allan ymhellach, os tybiwn fod haen mater toddedig yn dechreu ymhen 50 milldir, ac fod ei *specific gravity* yn 3 neu 4, ni allem gael trwy gyfrifiad nad allai yr haen yma gyrhaedd dyfnder mwy na 400 milldir. Islaw 450 milldir fe fyddai y *specific gravity* mor uchel, ac fe fyddai iddo ymhellach fyned rhagddo gan gynyddu nes cyrhaedd y canolbwynt, fel mai yr eglurhâd mwyaf tebygol am gyfansoddiad y canolbwynt ydyw ei fod yn gynnwysedig o fetelau a chyfansawdd metelaidd (*metallic compounds*). Pa un a yw y canol ei hun, y *central nucleus*, yn galed neu hylifol, sydd gwestiwn agored; ond gan gadw mewn cof nad ellir dirwasgu cyrff metelaidd ond i raddau bach, fe ymddengys yn debygol y byddai i ardymeredd uchel y tu fewn i'r ddaear fwy na gwrthweithio effaith y dirwasgiad mawr, ac felly gadw y canol ei hun yn dodeddig.

Pe byddai y cwestiwn o weithrediad llosgfalaidd yn arbenig dan ystyriaeth, fe fyddai yn angenrheidiol gwneyd mwy na chyfeiriad wrth fyned heibio yn unig at y ddamcaniaeth o *vulcanicity*, a osodwyd ger



bron gan Mr. Robert Mallet, mewn papyr a ddarllenwyd ger bron y *Royal Society*. Y mae ei ddamcaniaeth ef yn seiliedig ar yr egwyddor bwysig o drawsnewidiad nerth. Fod cynhwysiad nerth celfyddydol yn cynnyrchu gwres sydd er ys llawer o amser wedi ei wneyd yn eglur i bawb ynglŷn â haiarn, yr hwn a godir i ardymheredd uchel wrth ei guro; ond nid hyd y blynyddoedd diweddaf y daeth anianyddwyr yn alluog i esbonio y ffaith hono fel un engraifft o ddeddf fawr Ceidwadaeth Nerth, neu "*Conservation of Energy*," ac i ddangos fod y nerth celfyddydol a gymhwysir at yr haiarn wrth ei daro yn cael ei drawsnewid i wres,—ffurf arall ar nerth. Y mae yn awr wedi ei brofi y bydd i'r un swm o nerth bob amser gynnnyrchu yr un swm o wres. Mewn gair, fod nerth, fel mater, yn beth nad ellir ei ddinystrio. Fe ddarfu i Mr. Mallet, gan gymhwyso yr egwyddor hon, wneyd amcan-gyfrif pa swm o wres a gynnnyrchir pan mae talpiau o greigiau yn cael eu chwilfriwio gan nerth celfyddydol; ac fe ddarfu i'w arbrawfiadau ef ei arwain i'r casgliad fod y gwres a gynnnyrchir wrth chwilfriwio yn ddigon i doddi y graig. Y mae genym brawf yn nghyfansoddiad crawen y ddaear fod crychu a chwilfriwio ar ranau o'r grawen greigaidd wedi bod yn myned ymlaen mewn amseroedd aethant heibio, a diammeu eu bod yn myned ymlaen eto. Os yw y tu fewn i'r ddaear oedd boeth yn araf oeri, ac mewn canlyniad yn crebachu, fel y mae genym reswm i gredu ei bod, rhaid fod y grawen galed allanol, wrth ymgyfaddasu at faintioli llai y canol crybychedig, fod yn grychedig, fel croen afal wedi sychu. Mae y crychu a'r crybychu yma ar y creigiau yn rhwym o derfynu mewn toriad a chwilfriwiad ar ranau neillduol. Y mae Mr. Mallet yn dal fod y chwilfriwiad yma yn cynnyrchu digon o wres i doddi rhanau o'r creigiau, ac fe fydd i ddyfodiad dwfr i mewn oddiar yr arwyneb trwy agoriadau yn y creigiau chwilfriwiedig, toddedig, gynnnyrchu symiau mawrion o ager, yr hwn a â i fyny yr agoriadau i'r wyneb, gan gario gyda hwynt y defnydd toddedig o'r rhanbarth fydd wedi ei chwilfriwio. Y mae y cwestiwn yn dra anhawdd, ac y mae y ddaedl yn cymeryd i fewn ystyriaethau anianyddol a mesuronol pell, fel nes y bydd amser wedi profi yr amcandyb, yr ydym yn ei derbyn gyda barn sydd eto heb ei dwyn i derfyniad, fel amcandyb brofawl, ac nid fel ffaith wedi ei sefydlu. Mae ei dyddordeb neillduol ynglŷn â llinell y drafodaeth a ddilynwyd yn yr erthygl hon yn gorwedd yn hyn: Pe byddai i ymchwiliadau pellach gadarnhâu yn fwy y rhesymau am galedrwydd cyfangorff y ddaear, fe'n cyfeirir gan amcandyb Mr. Mallet at ffynnonell o ba un y gellid cael y defnyddiau toddedig a fwrir allan gan ruthrdarddiadau llosgfalaidd, neu *volcanic eruptions*.

Fod y ddaear ar y dechreu mewn ystad doddedig, ac iddi gael crawen allanol galed wrth oeri, nis gallwn ammeu, ac ystyried pwysau y prawf o blaid y fath olygiad. Ei bod cyn dechreu cyd-ddwysu i belen doddedig yn rhan o grynsyth nifwlog, o ba un yr oedd yr haul a'r planedau eraill yn rhan, fel y credai La Place, sydd yn cael ei godi i'r graddau uchaf o debygolrwydd gan ffirwyth darganfyddiadau seryddol diweddar. Y mae dyfeisiad y *Spectroscope* a'i gymhwysiad at seryddiaeth wedi agor maes newydd o ymchwiliad, ac wedi rhoddi i ni rai o ddarganfyddiadau mwyaf dyddorol a rhyfeddol amseroedd diweddar. Trwy offerynoliaeth y *spectroscope*, y mae cyfansoddiad yr

haul wedi ei benderfynu. Allan o'r 64 elfenau fferyllol sydd yn nghrawen y ddaear, y mae tua 25 eisoes wedi eu cael allan yn yr haul. Yr ydym yn dysgwyl gyda dyddordeb am firwyth yr ymchwiliadau hyny sydd yn cael eu cario ymlaen gan Mr. Lockyer a sylwedyddion eraill. Mae y cipdremiadau hyn i ddyfodol ein gwybodaeth yn awgrymu fod y bydysawd ar raddeg ardderchocach—anamgyffredadwy ardderchocach—nag yr ydym wedi arfer meddwl.

R. D. ROBERTS.

---

## YSBRYDOLIAETH YR YSGRYTHYRAU.

DARLITH A DRADDODWYD YN NGHAPEL TWRGWYN, UPPER BANGOR, HYDREF 19, 1880, GAN Y PARCH. DANIEL ROWLANDS, M.A.

Y MAE yn wybyddus, fy nghyfeillion, i'r rhan fwyaf o honoch, fod mewn cysylltiad â'r gynulleidfa hon, yn gystal â chynulleidfaeod eraill yn y dref, gyfarfod yn cael ei gynnal bob wythnos i ddarllen y Gair ac i geisio cyfarwyddo ein gilydd yn mhethau mawrion yr Efengyl. Mae yn dda genyf ddeall fod y rhai sydd yn dilyn y cyfarfodydd hyn yn lled gyson, ac yn paratoi ychydig ar eu cyfer, yn eu cael, nid yn unig yn dra addysgiadol, ond hefyd yn hynod o ddifyrus. Fe fyddai yn dda genym weled ychwaneg, ac yn enwedig o'n cyfeillion ieuainc, yn ymaffyd yn y fantais a gynnygir iddynt trwy y cyfarfodydd yma.

Ynglŷn â rhai o'r ymdriniaethau ar faterion pwysig a gafwyd yn ein cyfarfod darllen, fe deimlodd rhai o'n cyfeillion ddymuniad am gael yn awr ac yn y man drafodaeth fwy cyflawn a ffurfiol ar ambell un o honynt mewn ffordd o ddarlith gyhoeddus. Y gauaf o flaen y diweddaf fe amcanwyd at hyny mewn darlith ar Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau, yr hon wedi hyny a gyhoeddwyd, gyda chryn lawer o fater yn ychwanegol, fel erthygl yn y TRAETHODYDD am Ebrill, 1879. Awgrymwyd y pryd hyny y gallasai fod yn fuddiol dychwelyd at y mater drachefn, ac addawyd darlith arall arno. Yn amryfus, fe adawyd i lawer mwy o amser nag a fwriedid i lithro cyn cyflawni yr addewid hono; ond fe ddymunwyd am i hyny gael ei wneyd ar ddechreu y cyfarfodydd hyn am y tymmor presennol, a dyna'r paham y daethom ynghyd ar yr achlysur hwn.

Fe allai y dylem gymeryd ychydig fynyda i geisio cael gafael ar ben y llinyn lle y gadawsom ef yn y ddarlith flaenorol. Ni gaem y pryd hyny fod y Bibl, o ran ei natur a'i hanes a'r gallu rhyfedd ydoedd wedi ddangos yn ei ddylanwad ar y byd, yn sefyll yn gwbl ar ei ben ei hun,

ac nad oedd un llyfr arall yn haeddu ei gyffelybu iddo am fynyd. Yn wyneb hyny yr oedd yn naturiol i ni ymfyn o ba le y daethai, a beth ydoedd. A chan ei fod yn dyfod atom mewn dull mor syml a theg, caem nad ellid gwneyd yn well na gofyn y cwestiwn iddo ef ei hunan. Erbyn gwneyd hyny, ceid ei fod yn y modd mwyaf diamwys yn hōni dwyfol darddiad, ei fod yn ddadguddiad o'r nef, yn Dduw-ysbrydoledig. Caem fod yr Hen Destament drwyddo yn profesu bod yn air Duw, ac fod y genedl yr ymddiriedwyd iddi am dano bob amser yn ei ystyried felly, ac yn ei wylled gyda'r gofal mwyaf eiddigus: fod Crist a'i apostolion hefyd, yn y cyfeiriadau lliosog a wnant at yr Hen Destament yn y Testament Newydd, yr un ffunud yn cydnabod ei ddwyfol darddiad, ac yn dal fod ei awdurdod yn derfynol: ac fod y Testament Newydd yn hōni yr un peth, ac mewn graddau llawnach o lawer, am dano ei hunan,—fod Crist yn dyfod atom fel Mab Duw, yn mynegu i ni yn eglur am y Tad, yn llefaru ei eiriau ac yn gwneuthur ei weithredoedd; ei fod hefyd yn addaw ei Ysbryd i'w apostolion, y rhai a nerthid felly i wneuthur yn ei deyrnas weithredoedd mwy hyd yn nod na'r eiddo Ef ei hunan; a'u bod hwythau yn ymwybodol eu bod wedi derbyn yr Efengyl fel dadguddiad oddiwrth Dduw, ac yn ei "dysgu, nid gyda'r geiriau a ddysgir gan ddoethineb ddynol, ond a ddysgir gan yr Ysbryd Glân;" fod yr un ymwybodolrwydd ynddynt hefyd gyda golwg ar eu gwaith yn ysgrifenu, a'u bod yn ystyried eu hysgrifeniadau eu hunain, ynghyd ag ysgrifeniadau eu gilydd, fel yn meddu awdurdod ag oedd yn ddiammheol Ddwyfol. Y mae yr Ysgrythyr yn hōni ei bod oll, a phob rhan o honi, wedi ei rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw. Ond a ydyw tystiolaeth yr Ysgrythyr ei hun yn myned ymhell i brofi ei bod yr hyn y mae mor hyderus yn profesu ei bod? Wel, yn wyneb hyny fe gaed, 1. Fod yr Ysgrythyr yn dra phell o ymddibynu ar ei thystiolaethau ei hun am brofion ei Dwyfoldeb. 2. Fel pwnc o ffaith *fod* yr Ysgrythyr yn gwneyd y cyfryw hōniadau. 3. Fod sobrwydd a rhesymoldeb y Llyfr ar bob materion eraill yn myned ymhell i brofi pwys ei dystiolaeth ar hyn. 4. Ei fod yn gwbl resymol fod y Bibl yn gwneyd y fath hōniadau, gan ei fod yn dyfod at ddyn gyda chenadwri sydd mor annhraethol bwysig, a chan ei fod yn gallu dwyn gydag ef warantau ei awdurdod mewn dull sydd mor gwbl ddiammheol.

Wedi cael tystiolaeth y Bibl ei hunan felly ar bwnc ei darddiad, symudasom ymlaen i sylwi fod dau gwestiwn ymhellach ynglŷn âg Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrâu ag y byddai yn ddyddorol i ni sefyll uwch eu pen: y naill yn cael ei ystyried yn benaf rhwng credinwyr a'u gilydd, a'r llall yn fwyaf arbenig rhwng credinwyr ac anghredinwyr: y cyntaf yn ymholi i Natur Ysbrydoliaeth, ac yn ceisio ystyried pa fath oedd y dylanwad ar feddyliau y dynion sanctaidd, a pha fodd y gweithredai,—a'r ail yn ymfyn i Brofion Ysbrydoliaeth, ac yn ceisio cael boddlonrwydd mewn perthynas i'r ffaith. Y mater cyntaf yn unig y cawsom ymdrin âg ef yn y ddarlith o'r blaen. Cawsom nad oedd yr ysgrifenydd sanctaidd eu hunain wedi ceisio rhoddi dim eglurhâd ar natur neu *ddull* gweithrediad y gallu dwyfol oedd arnynt; y peth mawr y dalient hwy arno oedd y ffaith eu bod yn traethu meddwl Duw, ac am hyny y dylai dynion wrando arnynt. Yr un modd ni feddyliai y

Tadau Eglwysig am osod ger bron unrhyw ddamcaniaeth ar hyn; mae yn wir ein bod yma a thraw yn eu hysgrifeniadau yn cael ambell air ag oedd yn dangos rhyw gymaint o duedd i nesaŷu at gwestiwn y Pa fodd; ond mae y geiriau hyny bob amser yn cael eu llefaru mewn dull rheithyddol neu farddonol, heb ymaflyd o gwbl yn athroniaeth y cwestiwn; yr oedd y ffaith o'u bod yn ysbrydoledig, ganddynt hwythau, yn ddigon, heb foddwl am geisio ei hamgyffred. Yn adeg y Diwygiad Protestanaidd, fodd bynag, pan oedd y Pabyddion yn edliw i'r Diwygwyr nad oedd ganddynt, ar ol cefnu ar y Pab, yr hwn oedd yn cynrychioli awdurdod yr Eglwys, bellach yr un pen, ac felly neb i benderfynu eu hymrafaelion a dadgan beth oedd wirionedd, yr ateb a roddent oedd, fod y Bibl ganddynt, a thrwy hwnw, a phresenoldeb yr Ysbryd, eu bod yn gallu ymgynghori ar bob peth â genau yr Arglwydd. Gan ddynton mawr cyfnod cyntaf y Diwygiad,—Calvin, Luther, Melancthon, a Zuinglius,—yr oedd hyny yn llawn ddigon; ond fe aeth y rhai llai oedd yn dilyn, yn eu hawydd i wneyd sicrwydd yn ddwbl sicrach, i esbonio, ac i ddyweyd fod y Bibl oll yn air Duw, ac yn gymaint felly fel nad oedd yr elfen ddynol oedd ynddo yn haeddu ei chymeryd i'r cyfrif. Nid oedd y dynion oedd ysgrifenyddion, *amanuenses*, yn ysgrifenu a ddywedid wrthynt gan yr Ysbryd Glân. Yn wir, dywedai rhai nad oeddent ond ysgrifbinau. Yr oedd yn naturiol i'r rhai a sylwent yn fwy manwl ar yr elfen ddynol yn nghyfansoddiad yr Ysgrythyrau ymdeimlo âg anhawser golygiad o'r fath yma; ac mewn trefn i ddangos ei wrthuni, nodent bethau na ellid lai na'u hystyried yn amryfuseddau, neu wallau, os nad yn anghysonderau yn yr Ysgrythyry. Ond nid oedd hyny yn peri nemawr anhawser i'r gwŷr da y cyfeiriwn atynt; penderfynent nad oedd pethau a ystyridd yn wallau yn ysgolion y Groegiaid i'w golygu felly yn yr Eglwys; ac yr oedd rhai yn ddigon gwrol i briodoli y gwallau hefyd i'r Ysbryd Glân. Nid rhyfedd fod llawer, wedi colli golwg ar yr elfen ddwyfol yn y Gair, yn ei briodoli i ddynion yn unig, ac fod Rhesymoliaeth wedi cyfodi a gwneyd dirfawr anrhaith. O'r ochr arall, yr oedd y rhai a gredent mewn Ysbrydoliaeth yn gweled fod yn angenrheidiol meddwl am ryw-beth a esboniai y pethau diammheuol ddynol oeddent i'w gweled yn yr Ysgrythyrau. Fe wingwyd llawer am amser maith i geisio esbonio cydberthynas yr elfenau dwyfol a dynol ynddynt. Ymdrechid nodi finiaa y naill a'r llall, a dywedyd, yma y mae y naill yn terfynu, ac yma y mae y llall yn dechreu. Tybid trwy hyny fod yr anhawserau oll yn cael eu chwalu, ac fod y dirgelwch bellach yn cael ei ddeall. Ond cyn hir fe ddaethpwyd i deimlo yn fwyfwy fod golygiadau o'r fath yn rhy gywrain i fod yn gywir; nad oedd y Bibl ei hun yn rhoddi un math o wyneb iddynt; a'u bod, wedi'r cwbl, yn anfesurrol bell o gyfarfod yr anhawserau y dychymygid ar un adeg eu bod yn eu llawn esbonio. A chwasmom mai y casgliad y mae meddylgarwch addfetaf y dyddiau hyn wedi dyfod iddo ydyw, nad allwn wneyd yn well na derbyn yn eu cyflawnder yr holl hōniadau a wneir gan yr Ysgrythyrau eu hunain o barth i'w dwyfoldeb, a derbyn yr un modd yr oll a olygir mor amlwg ynddynt o berthynas i'w tarddiad dynol. Y maent oll yn ddwyfol ac oll yn ddynol; yn oll-ddwyfol, ac yn oll-ddynol. Cawsom nad ydyw y fath beth a deuolrwydd mewn undod yn ddyoithrbeth yn llywodraeth

Duw. Yr ydym yn ei gael yn barhaus yn ein hymwneyd â'n gilydd; y mae i'w weled yn amlwg yn holl oruchwyliaethau Duw; dyma y peth amlycaf yn ymgawdoliad y Mab; ac y mae ym cael ei arddangos yn barhaus yn nhrefn yr Efyngyl i'n haehub. Yr ydym i "weithio allan ein hiachawdwriaeth ein hunain trwy ofn a dylaryn," *oblegid* mai "Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynom ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef." "Ni ddylai fod yn anhawdd, gan hynny, i ni gredu dwyfol darddiad yr Ysgrythyrau, a hynny yn y modd mwyaf cyflawn a dibetrus; ac ar yr un pryd gredu fod yr elfen ddynol ynddynt mor rydd ac yn gweithredu mor egniol a phe na buasant ond dynol yn unig.

Yr ydym bellach, ynta, yn dyfod at y cwestiwn mawr arall a grybwyllwyd, sef Beth yw y boddlonrwydd a allwn gael mewn perthynas i'r *ffuith*: neu Brofion Ysbrydoliaeth.

Pan ofynai yr archoffeiriaid a'r henuriaid i'r Iesu, "Trwy ba awdurdod yr wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn? a phwy a roddes i ti yr awdurdod hon?" "Minnau," meddai yntau, "a ofynaf i chwithau un gair. . . . Bedydd Ioan, o ba le yr oedd, ai o'r nef, ai o ddynion?" Dyma y cwestiwn mawr am y Bibl: Ai o'r nef, ai o ddynion. A ydyw yn llyfr dwyfol, ai ynta dynol ydyw yn unig? Y mae y cwestiwn hwn wedi bod ger bron y byd trwy yr oesoedd, ac ni fu ar unrhyw adeg yn hawlio sylw mwy dyfal nag yn ein dyddiau ni. Yn wir, y mae yn amheus a fu brwydr y cwestiwn mawr erioed mor gref ac mor beryglus ag ydyw yn bresennol. Ac y mae yn bwysig iawn i ninnau oll ein bod yn meddu golygiadau clir mewn perthynas iddo, golygiadau ag y gallwn yn ddibetrus drefnu ein bywyd yn eu hol, ac ar eu pwys anturio i'r dyfodol mawr yr ydym â'n hwynebau arno. Mae llawer o faterion ag y gallwn fforddio bod yn ddiogel yn eu cylch, a'u credu neu beidio. Ond nid felly y mater yma! A chyda mater o'r fath annhraethol bwys, y mae cydsyniad marw mor beryglus ag ydyw gwadiad o hono. Fe allai fod yn dra buddiol i ni, gan hynny,—yn foddion i sefydlu ein meddwl, yn gystal ag i ddeffro ein hystyriaethau a chadarnhau ein ffydd,—i geisio ymofyn am ychydig mewn perthynas i'r mater mawr yma.

Nid ydyw yn newydd i neb o honoch fod llawer yn gwadu Ysbrydoliaeth y Bibl. Y maent yn dyweyd nad all fod o Dduw. Y rheswm a roddant am hynny ydyw, fod anhawsderau ynghŷn â meddwl felly am dano nad ydyw yn bosibl myned drostynt. Dywedir nad yw yn bosibl fod dadguddiad wedi dyfod oddiwrth Dduw, o herwydd nad yw yn ddichonadwy i'r meidrol amgyffred yr anfeidrol. A thrachefn, nad ydyw yn bosibl fod dadguddiad wedi ei roddi y tu allan i ddyn. Ac, a thybied y gallai fod dadguddiad felly yn bosibl, fe ddywedir ymhellach nad all fod y Bibl y cyfryw ddadguddiad, oblegid ei fod yn anghyson â'r amlygiadau diammheuol a roddes Duw o hono ei hun yn ei weithredoedd, a'i fod hefyd yn anghyson â'r amlygiadau diammheuol a roddes Efe o hono ei hun yn ein natur ni ein hunain. Y mae y boneddigion hyn yn gosod y ddeddf i lawr ar y materion yma mewn ffordd a olyga nad oes un appél i fod oddiwrthi. "Y mae efe wedi dyweyd," meddai dysgyblion Pythagoras, ac nid oedd neb mwyach i yngan gair. Y mae y dysgawdwyr hyn yn siarad gyda

dirfawr ysgorn am *dogmas* a *dogmatism*, fel pe buasai yn ysgelerder mawr i ddynion meddylgar dynu yr hyn a olygant yn gasgliadau teg oddiwrth y corff o wirionedd sydd o'u blaen, ac yn enwedig os daliant eu gafael yn yr athrawiaethau hyny gyda dim byd tebyg i hyder yn eu cywirdeb. Ac eto, dyma hwy eu hunain yn nyddu eu mympwyon allan o'u dychymyg eu hun, yn eu gosod ger bron fel *dogmas* i'r byd eu credu, ac yn nerth honiadusrwydd na wybu dynion erioed am ddim mwy *dogmatic*, yn cyhoeddi y mympwyon hyny fel efengyl i feibion dynion, gan bentyru pob dirmyg a sarhâd ar bwy bynag a betruso eu derbyn, heb son am feddwl am eu gwrthod. Sut bynag, ein pwnc mawr ni ydyw cael gafael ar y gwirionedd. Pe byddai gan ein hathronwyr dysgedig ryw gymhorth i'w roddi i ni yn yr amcan pwysig yma, ni a ddylem fod yn ddiolchgar iddynt, er eu dirmyg i gyd; ac ni a fyddem; ond os nad oes ganddynt ryw warant i'w hanffaeledigrwydd amgen na'r ffaith noeth eu bod hwy yn dygwydd gweled yn dda hōni hyny,—wel, ni a wyddom beth i'w wneyd o hyny.

Yn wyneb y pethau a grybwyllwyd, y mae genym rai ystyriaethau ag y teimlwn eu bod yn dra phwysig i'w gosod o'ch blaen.

1. Nid ydyw fod anhawsderau ynglŷn â'r golygiad am ddwyfol darddiad y Bibl yn rheswm dros wrthod y cyfryw olygiad, os teimlwn ei fod yn cael ei ategu yn ein meddwl gan brofion digonol. Onid ydym o bob cyfeiriad yn cael ein cylchynu gan anhawsderau? Yr ydym ddydd a nos yn byw yn nghanol dirgeledigaethau nad ydyw yn bosibl eu hamgyffred. Y mae yn gymaint dirgelwch yn awr ag ydoedd yn nyddiau Job, Pa fodd y mae ein dillad yn gynhes am danom? Y mae yn anmhosibl deall y fferylliaeth ddirgelaidd yn ein natur sydd yn peri fod yr ymborth a fwytawn yn troi yn faeth ac yn gynnalïaeth i ni —yn rhan, yn wir, o honom ni ein hunain. Y mae athroniaeth cwsg mor anamgyffredadwy i ni ag ydoedd i'r dyn cyntaf a gysgodd erioed. Y mae y cwestiwn, Pa fodd yr ydym yn derbyn argraffiadau o'r byd oddiallan trwy ein synwyrâu corfforol, yn gymaint dirgelwch i'r athronydd galluocaf a mwyaf dysgedig yn Ewrop ag ydyw i'r gwerinwr anllythyrenog nad ydyw, o bosibl, ond prin wedi cymeryd hamdden i ymsynio â'i anhawsder. Ac a adewir i'r ffaith fod anhawsderau ynglŷn â'r pethau hyn darfu am darawiad ein hymddiried ynddynt, neu ein llesteirio i weithredu yn eu hol? O, na wneir. Yr ydym yn ymwisgo bob dydd ac yn cael ein cynhesu; yr ydym yn ymborthi ac yn cael ein cynnal a'n cryfhâu; yr ydym yn gosod ein hunain mewn agwedd i gysgu, ac y mae cwsg melus, balmaidd, yn ymgau am danom, ac yr ydym yn deffro gyda'r fath hoewder ac adnewyddiad a phe na fuasai lludded erioed wedi bod yn agos atom; yr ydym yn edrych ac yn gweled, yn llefaru ac yn tori geiriau, yn gwrandaw ac yn clywed, ac mewn ffyrdd eraill trwy ein synwyrâu yn pontio yn rhwydd y gagendor sydd rhyngom, ac yn cymdeithasu yn hyfryd â'n gilydd. Ac eto nid yw yn ormod dyweyd nad ydym yn amgyffred dim o'r anhawsder sydd yn y pethau hyn. Mae yn wir fod gwyddonwyr yn gallu myned ychydig *ymhellach* na'r werin mewn olrhain gweithredïadau ein synwyrâu; ond mae enaid yr anhawsder—trwy ba drawsffurfiad rhyfedd y mae ein synwyrïaethau yn cael eu troi yn ddrychfeddyliau a theimladau yn myd yr enaid —yr un mor anamgyffredadwy i holl ddynolryw. Ond nid ydyw yr a-

hawsder sydd yn y pethau hyn oll yn rhwystr i neb eu derbyn fel ffeithiau mawrion cysylltiedig â'n bodolaeth, ac i weithredu yn ddibetrus yn eu hol. Y mae ein bodolaeth, yn wir, yn ffaith mor aruthrol fel y mae ei dirgelwch yn ymgodi uchder y nefoedd y tu hwnt i'r holl ddirgeledigaethau eraill sydd yn ein hamgylchynu; ac er y gweddai fod meddwl am beth mor ryfedd ac ofnadwy yn deffro ynom ystyriaethau dwysion, eto ni chlywsom am neb yn ddigon fol, am nad ydoedd yn gallu taflu ei linyr mesur dros ddyrswbwn ei fodolaeth, i feddwl am ei wadu. Ac a ydym, tra yn derbyn mor ddibetrus y fath liaws o bethau y mae y fath anhawsderau mawrion yn glŷn â hwynt, i wrthod yr un mater yma o ddwyfol darddiad y Bibl, yn unig am nad ydym yn ei ddeall?

2. Nid ydym ni yn gallu teimlo fod rhyw lawer o bwysau yn yr anhawsderau ag yr ydys mor hyderus yn eu gwrthddadleu fel rhesymau yn erbyn dwyfoldeb neu ysbrydoliaeth y Bibl. A ydym i deimlo, gyda Mr. Herbert Spencer, nad all fod dadguddiad oddiwrth Dduw i ddyr yn bosibl am na ddichon y meidrol amgyffred yr anfeidrol? Yr anfeidrol! A all dyn amgyffred ei hunan? A all efe amgyffred gwybedyn? A all efe amgyffred brycheuyn? Ond y mae yn gallu ymwneyd â myrddiwn o bethau heb eu hamgyffred. Y tu yma i Dduw a ni ein hunain, nid hawdd i ni feddwl am ddim sydd yn gymaint dirgelwch i ni ag ydyw ein cyd-ddynion; ac eto yr ydym yn gallu adnabod ein gilydd, a chymdeithasu y naill â'r llall, er heb feddwl am geisio amgyffred ein gilydd. Ac yr ydym yn gallu gwneyd hyny yn fynych pan mae dirfawr bellder rhyngom. Gallwn yn hawdd feddwl am dad, o alluoedd mawrion, cyrhaeddiadau helaeth, meddyliau mawrion ac ardderchog, teimladau dyfnion, ac yn pwysu arno feichiau trymion o ofalon ag y buasai llawer hyd yn nod o wŷr cryfion yn cael eu llethu danynt. Mae ganddo faban, yr hwn y mae yn ei garu yn fawr. Ac y mae yr un bychan yn ymserchu yn gynhes ynddo yntau. Gyda'r fath gariad a boddlonrwydd tawel y gorphwysa yn ei freichiau, y chwardda yn ei lygaid, y dyry iddo ei gusan, ac y chwery âg ef. Yn sicr ni fyddai ond segur i neb ofyn, A ydyw y baban yna yn adnabod ei dad? Mae pellder mawr rhyngddo a bod yn abl i'w amgyffred; ond mae ei adnabyddiaeth o hono, ie yn fore iawn yn ei hanes, yn ddiammheuol. Ac y mae o natur gynnyddol. Fel y mae yn myned rhagddo mewn dyddiau, a'i alluoedd yn addfedu, y mae yn dyfod o ddydd i ddydd i'w adnabod yn well; ac o'r diwedd, a siarad yn gymhariaethol, y mae yn abl i'w amgyffred. Ac felly y mae yr apostol Paul yn 1 Cor. xiii. yn edrych ar ei adnabyddiaeth ef ei hunan o Dduw. Fe fuasai yn fachgen, a'r pryd hyny "fel bachgen," meddai, "y llefarwn, fel bachgen y deallwn, fel bachgen y meddylawn; ond pan aethum yn ŵr, mi a rois heibio bethau bachgenaidd." Yr ydoedd o'r lle y safai y pryd hyny yn gallu edrych yn ol at gyfnod yn ei hanes pan ydoedd ei bobpeth yn dra elfenol ac anmherffaith mewn cymhariaeth i'r hyn oeddynt wedi iddo "ddyfod yn ŵr." Ac fel y mae wedi gwneyd dirfawr gynnydd yn yr amser a aethai heibio, felly hefyd y mae yn edrych ymlaen at gynnydd cyffelyb, ond llawer mwy, yn y dyfodol. Y mae y "gweled trwy ddrych, mewn dammeg," i ddyfod rywbryd yn "weled wyneb yn wyneb;" y mae yr "adwaen o ran" i ddyfod yn adnabod "megys ei hadwaenir;" y mae y saint yn y fuchedd

dragywyddol yn cael "gweled wyneb" yr Un bendigedig y maent yn ymddiried ynddo, ei "weled Ef megys ag y mae," ac yn ol eu mesur—i'r graddau ag y mae yn bosibl i'r meidrol amgyffred yr anfeidrol—y maent yn dyfod i'w adnabod Ef fel y mae Efe yn eu hadnabod hwynt. Ond y mae son am iddynt allu gwneyd hyny yma, mewn ystad mor amherffaith ar eu haddysgiaeth, ac fel cymhwysder i dderbyn unrhyw ddadguddiad oddiwrtho, fel pe buasai ei adnabod o gwbl yn anmhosibl heb ei lawn amgyffred, yn ymddangos, a dyweyd y lleiaf, yn rhyfeddol o anathronyddol.

Dywedir hefyd fod yn anmhosibl fod dadguddiad wedi ei roddi oddi-allan i ddyn. Fe gydnabyddir fod Duw wedi gosod o'i fewn oleuni rheswm a chydwybod, ac fod y goleuni hwnw, yn sicr, yn dadguddio iddo bethau mawrion a phwysig. Ond haerir fod tybied dadguddiad oddiallan iddo yn annheilwng o ddoethineb. A phaham, attolwg? Yr ydym yn gallu amlygu ein meddyliau i'n gilydd, ac felly wneyd dadguddiadau y naill i'r llall; a ydym i feddwl fod yr Hwn a'n gwnaeth wedi estyn i ddyn, yn y medr sydd ganddo i amlygu ei feddwl, allu ag y mae Efe ei hunan yn amddifad o hono? "Oni chlyw yr hwn a blannodd y glust? oni wél yr hwn a luniodd y llygad? oni w'yr yr hwn sydd yn dysgu gwybodaeth i ddyn?" Ai yr hwn a'n gwnaeth, ac a roddes i ni ac i gynifer o greaduriaid eraill o'i eiddo allu i ddadguddio ein meddyliau—ai Efe ei hunan yn unig sydd yn ddiffygiol o'r gallu hwnw? Os dywedir nad ydyw hyny yn rhan o'i drefn arferol yn awr, ac am hyny nad oes genym le i feddwl iddo o gwbl gymeryd lle, gallwn ofyn, Ai am hyny nid oes genym le i feddwl iddo o gwbl gymeryd lle? Fe rydd y Bibl ei hunan ar ddeall i ni fod trefn wreiddiol y berthynas rhwng Duw a dyn yn golygu cymundeb parhâus, ac mai dyfodiad y peth diddeddf gan bechod a dorodd ar y drefn hono, ac a roddes derfyn ar y cymundeb trwy wrthryfel ar ran dyn. Y peth annaturiol, ynte, ydyw, nid fod Duw yn achlysurol yn rhoddi dadguddiad i ddyn, ond ei fod yn peidio gwneyd hyny yn feunyddiol. Ac yn sicr nid ydyw ei fod, yn sefyllfa bresennol ei berthynas â dyn, yn peidio rhoddi dadguddiadau parhâus, ddim yn profi nad allai Efe roddi dadguddiad o gwbl. Beth os gweithred o raslonrwydd pur ynddo Ef, heb fod genym mewn un modd unrhyw hawl i ddysgwyl am dani, oedd rhoddi i ddyn, wedi iddo bechu yn ei erbyn, unrhyw amlygiad o hono ei hunan amgen nag mewn digofaint a dinystr? A beth os ydyw y dadguddiad a roddes Efe o hono ei hun yn y Bibl yn dangos cymaint o'i feddwl a'i fwiadau grasol, a'i drefn i adfer dyn o'r trueni y mae wedi syrthio iddo, fel ag i'w wneyd fel corff o wirionedd yn ddigon iddo? A beth, ymhellach, os ydyw Efe, i'r rhai sydd yn ymostwng i "wneuthur ei ewyllys Ef," a thrwy y corff o wirionedd sydd yn y Bibl, yn dadguddio cymaint o hono ei hunan ac yn amlygu cymaint o'i "gyfrinach" fel y gall fod "eu cymdeithas yn wir gyda'r Tad, a chyda'i Fab ef Iesu Grist," a hyn oll i'r fath raddau fel ag y maent yn teimlo na fyddai eisieu ond ychydig yn ychwaneg o'r un peth, gyda llwyr symudiad ymaith y gweddillion llygredd sydd yn glynu wrthynt, i wneyd eu gwynfyd mor berffaith ag y mae yn bosibl i'w calon ddy-muno? Fodd bynnag, mae yn amlwg fod dyn yn myned ymhell tu hwnt i'w fesur pan yn anturio dyweyd nad allai Duw fod wedi



rhoddi dadguddiad iddo y tu allan i'r hyn a all fod yn blanedig o'i fewn ef ei hunan.

Fe ddywedir ymhellach, pe buasai dadguddiad o'r fath yn bosibl, nad all fod y Bibl y cyfryw ddadguddiad, ac fe ddygir fel rhesymau am hyny, 1. Ei fod yn anghyson â'r dadguddiad diammheul y mae Daw wedi roddi o hono ei hunan yn ei weithredoedd; 2. Ei fod yn anghyson â'r dadguddiad diammheul y mae Efe wedi roddi o hono ei hun yn ein natur ni ein hunain. Mae y materion hyn yn rhy eang i fyned iddynt ar yr achlysur presennol, a phe teimlid fod angen am drafodaeth arnynt fe ddylid cael darlith arall i'r amcan hwnw. Ond nid oes ond ychydig o achos i ni bryderu gyda golwg ar y pethau hyn. Mae ystori yr anghysondeb rhwng Natur a'r Bibl wedi ei chyfodi laweroedd o weithiau, a phob tro fe honid fod yn annichonadwy ei esbonio; a phob tro y mae y rhuthrwynt wedi myned heibio, a gwyddoniaeth a'r Bibl, erbyn eu hastudio yn ddyfnach, yn profi yn eithaf cyson â'u gilydd. A'r un modd am y pethau mawrion yn ein natur ni ein hunain, goleuni rheswm ac argyhoeddiadau cydwybod. Y mae tystiolaeth y rhai hyn wedi ei galw ymlaen filoedd o weithiau cyn yma yn erbyn y Bibl; ac er fod dynion ambell dro, gan ymollwng gyda theimlad y fynydd, yn haeru fod y goleuni sydd ynddynt yn ei gondemnio, eto ar adegau tawelach, pan mae eu meddwl yn fwy clir a'u myfyrdodau yn fwy dynion, y maent yn dychwelyd drachefn at ffydd yr Efengyl, a chyda golwg ar y Parson mawr a gyhoedda yn Geidwad yn addef, fel y canwriad wrth y groes, "Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn." Sonia Auberlen am gyfaill o efridydd yn Tübingen, yn mlwyddyn olaf ei efrydiaeth, yn dyweyd wrtho un diwrnod, yn nghanol ymddyddan gwyddonol, "Beth! a anturiwch chwi, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, i amddiffyn gwyrthiau?" Y mae hwnw er ys blynyddoedd yn credu yn y gwyrthiau ei hunan. Nid ydyw yn wir ond peth cyffredin yn hanes Cristionogaeth fod dynion yn troi i "bregethu y ffydd yr hon gynt a anrheithiasent." Fe geir fod dadganiadau y Gair yn y pen draw mor gwbl resymol, a'i foesoldeb mor bur a derchafedig, a'r holl grefydd Cristionogol, o'i chofleidio, yn dwyn gyda hi mewn dull mor ddiammheul warantau ei dwyfoldeb, fel y teimla dynion nid yn anfynych, ar ol ymddyrysu gydag ammheuon a phrofedigaethau blinion, mai eu rhesymol wasanaeth ydyw ei derbyn; ac wedi gwneyd hyny eu bod yn cael boddlonrwydd ddarfod iddynt wneyd yn iawn, trwy fwynhâu tangnefedd nad all y byd ei roddi, tangnefedd sydd uwchlaw pob deall.

3. Ond y mae cwestiwn arall ag y teimlwn ni ei fod yn dra phwysig, ac at yr hwn yn arbenig yr oeddwn y tro hwn yn meddwl galw eich sylw: Pe yr addefid yr oll y dadleuir drosto yn y pethau a grybwyllwyd, ai nid oes anhawsderau ynglŷn â'r dybiaeth nad yw y Bibl ond o darddiad dynol, sydd wedi'r cwbl yn llawer trymach na dim anhawsderau eraill y gellir meddwl am danynt? Os nad ydyw o'r nef, rhaid mai o ddynion y mae. Y mae llawer yn haeru yn gryf nad ydyw yn bosibl ei fod ond o ddynion. Os felly, y mae genym hawl i ofyn am eglurhad ar ychydig o anhawsderau sydd yn codi yn naturiol oddiar y cyfryw dybiaeth. Nodwn bedwar o'r rhai hyny.

I. Os llyfr dynol ydyw y Bibl, pa fodd, tra y mae wedi ei ysgrifenu

gan gynifer o ddyinion, dan gynifer o wahanol amgylchiadau, ac mewn cynifer o wahanol oesoedd, y mae, er y cwbl, ac yn yr ystyr uchaf, yn un ?

Y mae, bid sicr, yn ein dwylaw ni yn un gyfrol, ac yr ydym yn ei alw y Bibl, neu y Llyfr. Ond mae yn amlwg ei fod yn cael ei wneyd i fyny o liaws o lyfrau. Y mae y rhan o hono a alwn yr Hen Desatment yn cynnwys 39 o'r llyfrau neu yr ysgrifeniadau hyn, a'r Testament Newydd 27. Oll, y mae eu nifer yn 66. Y mae y rhai hyn wedi eu cyfansoddi gan liaws o wahanol ysgrifenywyr. Ac nid oedd y rhai hyny gyda'u gilydd yn cytuno ar amcan a chynllun cyffredin i'w hysgrifeniadau, neu dan arolygiaeth yr un meddwl meistrolgar oedd ei hunan yn ffurfio cynllun y gwaith ac yn penodi i bob un ei ran arbenig ef o hono, gan roddi cyfarwyddiadau pa fodd yr ydoedd i'w wneyd. Yn lle hyny, yr oedd y dynion hyn ymhob ystyr mewn pellder mawr oddiwrth eu gilydd. Yr oedd amrywiaeth mawr yn eu hamgylchiadau. Yr oedd rhai yn dywysogion ac yn frenhinoedd, eraill yn fugeiliaid ac amaethwyr, eraill yn bysgodwyr, gwneuthurwyr pebyll, &c.; yr oedd rhai yn ddyinion o ddiwylliad helaeth, nid yn unig yn hyddysg yn eu traddodiadau neillduol eu hunain, ond yn llenyddiaeth y cenedloedd cylchynol a ystyrid helaethaf eu cyrhaeddiadau; eraill yn rhai ag yr oedd eu cydwladwyr yn eu hadnabod fel rhai "anlythyrenog ac annysgedig;" yr oedd rhai mewn sefyllfaoedd fel offeiriad, prophwydi, neu ysgrifenyddion, na fuasai mor ddyeithr gan y bobl feddwl am dderbyn trwyddynt air oddiwrth yr Arglwydd; tra nad oedd yn y lleill ddim a fuasai yn ffafriol i'r fath beth, ac yr oedd yn rhaid iddynt orchfygu eu cydwladwyr trwy y profion a ddygent o ddwyfoldeb eu cenadwri. Fe ysgrifenydd y llyfrau hyn hefyd mewn llawer o wahanol fanau; rhai yn yr anialwch, eraill mewn gwahanol ardaloedd yn Nghanaan, eraill mewn gwahanol wledydd yn Asia ac yn Ewrop. A mwy na'r cwbl, yr oeddynt mor bell o fod yn cael eu hysgrifenu ar yr un amser, fel yr ydym yn gweled ddarvoud iddynt gael eu cyfansoddi ar wahanol adegau mewn yspaid ag oedd yn ymestyn dros un cant ar bymtheg o flynyddoedd. Yn awr, beth a fuasai yn naturiol i ni ddysgwyl mewn llyfr o'r fath, wedi ei ysgrifenu gan gynifer o ddyinion, mewn amgylchiadol mor wahanol, ac yn y fath bellder o ran lle ac o ran amser oddiwrth eu gilydd,—a thybied, fel yr honir, nad ydoedd ond llyfr dynol yn unig? Fe fuasai yn dra naturiol i ni ddysgwyl ei gael yn llawn o'r cymysgedd mwyaf anobeithiol; mewn gair, yn dryblith annosbarthus na fuasai yn bosibl mewn unrhyw ystyr i ni allu edrych arno fel un.

Ond yn lle hyny, y mae y llyfr yn gwisgo cymeriad o unoliaeth tra hynod. Y mae felly yn ei wedd fwyaf allanol, gyda golwg ar y *ffethiau* y cyfeiria atynt. Mae y rhai hyny oll yn sefyll o'n blaen yn berffaith glir, a'r holl ysgrifenywyr wrth gyfeirio atynt yn gwneyd hyny mewn ffordd sydd yn gadael eu cymeriad hanesyddol yn gwbl ddi-ammheuol. Fe sonir wrthym am chwedloniaeth, a thyfiant *myths*; yr ydym wedi cael digon o brofiad ar y pethau hyny, ac nid ydym yn dysgwyl cael yn y cyfeiriadau a wneir atynt nemawr o'r cysondeb a'r symledd â pha rai y mae dynion yn delio â ffethiau; yn hytrach, fe edrychir arnynt fel yn hofran yn niwl byd y dychymygiôn, ac fe

deimla pob un sydd yn ymwneyd â hwynt, fod ganddo hawl i gymeryd ymron yr olwg a fyno arnynt. Ond nid felly am yr helyntion y gelnir ein sylw atynt yn y Bibl. Mae ystori y greadigaeth, y cwmp, y diluw, galwad Abraham; y caethiwed Aiphtaidd a'r waredigaeth o hono, rhoddiad y ddeddf ar Sinai, goresgyniad Canaan, gwahanol helyntion Israel a Judah hyd y caethiwed i Babilon, ac wedi hyny y dysgwylad mawr am Frenin a Gwardedwr, yr hwn yr hona y Testament Newydd ei fod wedi ei gyflawni yn Nghrist,—mae y pethau hyn oll yn sefyll ger bron yn barhâus yn y fath arbenigrwydd clir fel y mae yn amlwg fod yr ysgrifenyddwr oll yn ymwneyd â ffeithiau sicr, ac nid yn nyddu eu dychmygion eu hunain. Yn nwyllaw pob un o honynt, pa mor wahanol bynag eu dull o feddwl, neu yr amcan mewn golwg wrth gyfeirio atynt, yr ydym yn cael y ffeithiau mawrion bob amser yn eu cymeriad priodol eu hunain, ac yr ydym yn eu hadnabod yn yr holl lyfrau fel yr ydym yn adnabod y golygfeydd naturiol â pha rai yr ydym o'n mebyd wedi cynefino. Ar unwaith yr ydym yn teimlo fod yn rhaid i ni benderfynu fod yr holl ysgrifenyddwr hyn yn ymwneyd âg elfen o wirionedd hanesyddol sydd yn gyffredin iddynt oll, ac felly, yn rhoddi i'r holl lyfr, o leiaf, can belled ag y mae hyny yn myned, y cymeriad o unoliaeth.

Ond yr ydym yn cael yn yr amgylchiadau a gofnodir yn y llyfr unoliaeth o natur uwch; yr ydym yn gweled y rhaid fod amcan neillduol mewn golwg, a chynllun arbenig yn cael ei gymeryd er gweithio yr amcan hwnw allan. Wedi i ddyn syrthio o'r sefyllfa uchel y dangosir ei fod ynddi yn Mharadwys, fe geir fod, bwriad grasol i'w adferu yn dyfod i'r golwg. Yr oedd gwasanaeth Duw, yn ngoleuni gobaiith y waredigaeth, ar y dechreu yn cael ei gario ymlaen gan bersonau unigol a'u teuluoedd. Ymhen enyd, ac mewn adeg o ddwfn wrthgiliad, fe alwyd un dyn, Abraham, mewn modd tra neillduol, ac fe ymrwymodd Duw mewn cyfammod i fod yn Dduw iddo ef ac i'w had, i roddi gwlad Canaan i'w hiliogaeth, ac yn ei had ef i fendithio holl genedloedd y ddaear. Yr ydym yn cael fod hiliogaeth Abraham yn foreu, trwy y "pair haiarn" o gystudd cyffredin, yn cael eu dwyn i ymdeimlo â'u hanfodiad cenedlaethol; trwy y waredigaeth ryfedd o'r Aipht, yn ol addewid Duw, yr oedd hyny yn cael ei osod dan gysegrdigaeth dynnach—yr oeddynt wedi dyfod yn wrthddrychau dwyfol amddiffyn mewn dull ag oedd yn peri syndod i'r holl fyd; ac wrth Sinai, y mae yr hwn a aethai i gyfammod âg Abraham ar eu rhan, yn myned i gyfammod pwysig â hwy eu hunain, yn rhoddi ei ddeddf iddynt, yn ymrwymo i fod iddynt yn Dduw, ac yn gosod i lawr yn eu plith drefn o wasanaeth crefyddol a fyddai yn fanteisiol i'w cadw dan lywodraeth ei ofn, ac i'w haddysgu yn well yn egwyddorion mawrion ei deyrnas. Yn ei ymwneyd â hwynt yn barhâus y mae yn amlwg eu bod hwy, yn wahanol i bob cenedl arall, wedi eu neillduo ganddo i fod yn bobl iddo ei hun, ac fel y cyfryw ei fod yn eu gosod dan gwrn neillduol o ddysgyblaeth, ac yn amlygu yn fwy fwy ei feddyliau iddynt. Y mae yn eu cosbi am eu hanffyddlondeb, mae yn wir, ac yn peri iddynt yn fynych brofi "mai drwg a chwerw ydyw gwrthod o honynt yr Arglywydd eu Duw;" ond ar yr un pryd, y mae drychfeddwl mawr teyrnas Dduw, yr hon oedd i fod yn deyrnas cyfiawnder, ac yn y pen

draw i gymeryd y byd i'w mynwes, yn cael ei ddwyn i fwyfwy o eglurder yn eu plith; ac yn arbenig y mae eu dysgwyliadau yn cael eu codi yn angerddol at ymddangosiad UN oedd i eistedd ar orsedd-faine Dafydd, i deyrnasu arnynt mewn gogoniant byth, ac i ddwyn yr holl genedloedd at ei draed. Prin y prophwydir am unrhyw ddaioni, er o natur dra gwahanol, nad ydyw pell-welediad—*perspective*—prophwydoliaeth yn canfod y daioni mawr hwn, ac o ganol pethau llai yn ei gael ei hunan megys yn ddiarwybod yn pregethu gogoniant teyrnas y Messiah. O'r diwedd, yn ol y prophwydoliaethau, ac yn goron ar ddysgwyliadwy oesoedd lawer, yr ydym yn cael CRIST yn ymddangos. Y mae llawer o'i genedl yn methu ei adnabod, ac am hyny yn ei wrthod; ond y mae y cymeriadau goreu a fêdd yn ei groesawu fel "Mab Duw, a Brenin Israel." "At ei eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef. Ond cynifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw." Y mae Efe, er yn dra gwahanol i ddysgwyliadau, hyd yn nod ei ddygyblion goreu, yn cwblhau y gwaith mawr a roddwyd iddo i'w wneuthur er ein hiachawdwriaeth, ac wedi codi oddiwrth y meirw, yn esgyn i'r nef, ac yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Cyn gwneyd hyny, fe roddodd gommisiwn i'w apostolion i fyned i'r holl fyd, a phregethu yr efengyl i bob creadur, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw pob peth a'r orchymynasai Efe iddynt, gan ymrwymo bod ei hunan gyda hwynt bob amser hyd ddiwedd y byd. Ychydig wedi ei esgyniad, yn ol yr addewid fawr a wnelsai Efe iddynt, y danfonai y Dyddanydd atynt, yr ydym ar ddydd y Pentecost yn cael yr amgylchiad hynod hwnw yn cymeryd lle, a hwythau, felly, wedi eu "gwisgo â nerth o'r uchelder," yn myned allan i'r byd gyda gallu na welwyd erioed ei gyffelyb, ac yn ennill y bobl wrth y miloedd a'r degau o filoedd i greu yn Nghrist. Yn fuan iawn fe ddywylhwelwyd y canolfur rhwng Iuddewon a Chenedloedd. Gorchwyl mawr oedd cymmodi meddyliau hyd yn nod yr apostolion â hyny. Yr oeddynt hwy yn deall fod y Cenedloedd i gael eu galw, ond mae yn debyg eu bod yn ystyried eu bod yn y lle cyntaf i gael eu proselytio at Iuddewiaeth, ac yna i dderbyn y Messiah; ond fe ddangosodd Duw fod pob gwahaniaeth felly, bellach, wedi ei ddileu; ac fod cyflawn roesaw i'r Cenedloedd hefyd, fel i had Abraham, at fwrdd y wledd a osodai yr Efengyl o'u blaen. Ac yn awr, y mae addewid y bywyd, a fu am dymmor maith, ac i ddybenion nad yw yn anhawdd i ni weled eu doethineb, yn cael ei chyfyngu i genedl, bellach wedi ei llawn gwblhau, ac yn cael ei chynnyg yn rhad i holl ddynolryw. A gorchwyl mawr dysgyblion yr Iesu ydyw ddwyn y newydd da yma i gyrhaedd holl deulu dyn, fel y cyfranogo pawb o'r fendith sydd ynddo. Yn awr, pa beth bynag a feddylion am hyn oll, y mae yn rhywbeth tra hynod, a dyweyd y lleiaf, fod llyfr sydd wedi ei ysgrifenu, fel y nodwyd, dan y fath amrywiaeth difesur o ran ei amgylchiadau, eto, i gyd efo'i gilydd, yn dangos y fath unoliaeth o ran amcan a chynllun.

Y mae bywyd mewnol y llyfr, o ran ei *athraemiaeth*, neu y *gwirioneddau* y mae yn ddyngu, yn dangos unoliaeth cyffelyb. Ni fu llyfr erioed mor gydryw. Pan mae dynion yn meddwl, pa un bynag ai dan lywodraeth eu teimladau ac yn barddoni, ai dan lywodraeth eu rheswm ac yn

athronyddu, nid oes ond pur ychydig o sicrwydd y denant i'r un casgliadau. "Ymhob pen mae opiniwn." Ac yn yr ystad y mae yn amlwg eu bod ynnddi o ran eu natur foesol, "wedi tywyllu eu deall, wedi ymddyethro oddiwrth fuchedd Duw, trwy yr anwybodaeth sydd ynnddynt, trwy ddallineb eu calon," nid oes ond ychydig obaith iddynt gael gafael ar unrhyw syniadau teilwng; a phe caent ambell drem arnynt, ni fyddai wiw dysgwyl iddynt allu cadw eu golwg arnynt gyda nemawr sefydlogrwydd, neu fod yn abl i'w dysgu i eraill. Ond mae ysgrifenywyr y Bibl yn gallu sefydlu eu meddwl ar ystyriaethau sydd yn anghymharol ogoneddus, yn gallu gwneyd hyny gyda chymaint cysondeb fel y maent yn gallu eu dysgu, a'u dysgu bob amser; ac y maent *oll* yn gallu gwneyd hyny. Ac am yr holl wirioneddau mawrion y maent yn ddysgu, ni fyddai ond ofer meddwl am gael un math o anghysondeb rhyngddynt. Y mae pechod gan bawb o honynt yn wrthryfel yn erbyn Duw, ac yn dwyn ar ddynt anferth drueni. Y maent oll yn cyd-dystiolaethu fod dyn, fel creadur syrthiedig, dan farn Duw, ac nad oes obaith am dano ond mewn maddeuant. Am Dduw, y maent oll yn cyd-dystiolaethu i'w dragywyddoldeb, a'i allu, a'i fawredd, a'i ogoniant; a'i sancteiddrwydd, a'i anfeidrol gariad. Y maent oll hefyd yn cydolygu mai trwy aberth yn unig y gall pechadur nesáu at yr hwn y pechodd i'w erbyn, ac fod yr "un aberth" a offrymodd Crist "unwaith," yn "perffeithio yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio." Mae enaid aflan yn cael ei sancteiddio trwy y gair a thrwy y gwaed. Ac nid golygiad rhyw un neu ddau o honynt ydyw hyn; ond mae yn amlwg fod pob un o honynt sydd yn cyffwrdd â'r peth, dan angenrheidrwydd i ddysgu yr un gwirionedd mewn perthynas iddo. Âr un modd am yr holl athrawiaethau pwysig eraill. Y mae yr holl lyfr yn dysgu mewn perthynas iddynt yn gwbl yr un peth. A phan ystyriwn fod yr hyn a ddysg yr ysgrifenywyr hyn gymaint uwchlaw syniadau dynion yn gyffredin, a'u bod oll yn ysgrifenu gyda'r fath urddas a gwreiddiolder fel y mae yn anmhosibl meddwl am danynt yn copio neu yn dynwared eu gilydd, y mae, yn sicr, yn ddyrbysbwnc nad allwn ni feddwl am un cyfrif dynol i'w roddi am dano pa fodd y mae y fath ddwfn unoliaeth yn eu hathrawiaethau.

Ac y mae yn *ysbryd* y llyfr unoliaeth sydd yn ddyfnach fyth. Y mae unoliaeth ac unoliaeth yn y byd yma. Mae yr addoldŷ yma yn un, ond y mae felly trwy fod wedi dwyn ynghyd iddo a chydgyssylltu ynddo lawer iawn o wahanol ddefnyddiau, y rhai trwy undeb celfyddydol sydd yn gwneyd un adeilad. Edrychwch ar y blodeuyn neu y ddeilen neu y pren, a chwi a welwch unoliaeth sydd o rywogaeth llawer uwch. Yno fe geir gwahanol ddefnyddiau wedi eu dwyn ynghyd o'r pridd, o'r gwlybanaeth, o'r awyr, o'r gwres, o'r goleuni, a'u gwneyd yn un, nid trwy saerniaeth celfyddyd, eithr trwy nerth bywyd, yr hwn sydd yn ymestyn at yr oll sydd o'i amgylch ac yn ennill nerth ac yn dyfod i'w berffeithrwydd trwy ymborthi arnynt. Mae y bywyd anifeilaidd yn dangos unoliaeth o natur uwch fyth; y mae hwnw yn *organism* llawer perffeithiach, ac y mae ei nerth dirgelaid, tra yn casglu ei ddefnyddiau oddiwrth bethau sydd gymaint islaw iddo, yn ymgodi i uchder mewn teimladrwydd, ac yni, a gweithrediadau eneidol, sydd yn dra rhyfedd.

Mewn dyn yr ydym yn cael yr holl bethau hyn; ac yn ychwanegol yr ydym yn cael bywyd arall, sydd o rywogaeth anafsurol uwch, yn yr ysbryd sydd ynddo. Y mae hwnw yn gallu ymestyn at bethau yn myd mawr gwirionedd a dyledswydd a chymundeb â Duw, nad all yr holl *organisms* eraill eu hamgyffred o gwbl. Dyma unoliaeth mawr a dwfn ein natur ni, sydd yn ein gwneyd yn gyfuniad o bridd y ddaear ar y naill law, a natur Duw ar y llaw arall. Y mae y ffaith ryfedd ac ofnadwy fod dyn wedi ei wneyd ar ddelw ei Greawdwr yn ei osod ar unwaith yn frenin ar yr holl greaduriaid eraill sydd o'i amgylch. A thra yr ydym yn foddolawn ar astudio ynddynt hwy gyflead a chyfuniad y defnyddiau sydd yn eu gwneyd i fyny, ynghyd a gwahanol agweddion y bywyd sydd gan lawer o honynt, ni a deimlem fod aros ar bethau o'r fath, wrth edrych ar ddyn, yn gwbl annheilwng, oblegid nad ydyw y rhai hyny ond ei bethau isaf ef, ac fod yn ysbryd dyn ogoniant sydd yn anafsurol fwy. A gallwn ddyweyd yn debyg am y Bibl. Mae ei unoliaeth mewn ystyr hanesyddol yn rhywbeth sydd, dybygem, yn hollol anesboniadwy ar y dybiaeth nad oedd dim i'w sicrhau ond y ddamwain fod cynifer o ddynion ar wahanol amserau wedi ysgrifenu nifer o fân lyfrau, y rhai wedi hyny a ddodwyd wrth eu gilydd i wneyd un llyfr. Y mae yr unoliaeth amcan a chynllun a ddengys yn rhywbeth sydd yn llawer uwch. Mae y cysondeb perffaith sydd rhwng ei holl ysgrifenwyr o ran yr athrawiaethau a ddysgant, os yw hyny yn bosibl, yn rhywbeth rhyfeddach eto. Y mae yn dangos eu bod, nid yn unig dan oruwchreolaeth a sicrhâi gydweithrediad i un amcan cyffredin, ond fod eu meddyliau yn cael eu harwain ar liaws o faterion mawrion i'r un golygiadau, a'r rhai hyny yn gyfryw ag nad oedd un rheswm dynol a allasai eu tueddu i'w coledd. Ond yn *ysbryd* y llyfr yr ydym yn cael gafael ar egwyddor o unoliaeth sydd yn ddyfnach fyth, yr hwn tra ei hunan, ac ar bob tir dynol, yn hollol anesboniadwy, sydd yn tafu goleuni neillduol ar yr holl bethau eraill. Yma, yn ddyfnach na phob neillduolion yn ei gyfansoddiad, yr ydym yn cael y bywyd dirgelaidd sydd yn rheswm ei holl fodolaeth. Y mae ei burdeb yn awel o ddwyfol iechyd sydd yn cerdded trwy ddinas y pla ac yn ei hiachâu; ac y mae y cariad mawr, tragwyddol, ag y mae curiadau ei galon i'w teimlo trwy y llyfr i gyd, yn llafurio yn yr holl helyntion a gofnodir ynddo er dwyn oddi-amgylch yr amcan grasol y mae wedi hen osod ei fryd arno, sef adfer dyn o'i bechod a'i drueni i fywyd a gogoniant. Y mae yr ysbryd yma yn hydreiddio yr holl lyfr, ac yn ei wneyd yn un mewn ystyr tra goruchel. Y mae gallu mawr gan ddrychfeddwl cryf i osod ei ddelw a'i argraff ar bobpeth a gyfyd o'i amgylch. Y mae gallu llawer mwy i wneyd hyny gan deimlad dwfn, sydd yn cymeryd meddiant o holl natur dynion. Ond yn y Bibl yr ydym yn cael fod calon anfeidrol yn gosod ei bryd ar amcan ag y mae wedi bod yn ei goledd er tragwyddoldeb, ac mewn dwyfol ddoethineb yn ffurfio y drychfeddwl mawr, ac yn trefnu pa fodd i'w gario allan i weithrediad. Ac y mae holl ysbryd y llyfr yn gyson â'r honiad mawr yma y mae yn ei wneyd am dano ei hun. Ond tra yr haerir fod yr oll ag ydyw yn esboniadwy ar y dybiaeth o'i darddiad dynol yn unig, y mae genym hawl i ofyn, Pa gyfrif a ellir ei roddi am yr unoliaeth pur a goruchel yma sydd mor amlwg yn ei nodweddu?

II. Drachefn, ar y dybiaeth nad oedd iddo ond tarddiad dynol, gallem ofyn, Pa fodd y mae llyfr a gyfansoddwyd gan genedl fechan, gul, a rhagfarnllyd, yn ei brofi ei hunan, yn anad yr un llyfr arall y clybu y byd erioed son am dano, *yn llyfr i ddynolryw?*

Nid ydyw y byd wedi gwneyd cyfrif mawr o'r Iuddewon. Ni ystyrir eu bod o gwbl i'w cymharu â'r hen genedloedd enwog sydd wedi bod yn astudio y cwestiynau mawrion, ac y mae olion eu diwylliad a'u doethineb, hyd yn nod mewn gweddillion, yn cael eu cyfrif ymysg ein trysorau gwerthfawrocaf. Yr oedd doethion Caldea o foreuddydd amser yn astudio trefn y rhôd, ac yn gosod i lawr sylfeini gwyddoniaeth. Yr oedd yr hen Aiphtiaid yn ddynion cryfion a meddylgar; y mae eu hen adeiladau wedi bod i'r oesoedd yn rhyfeddod, ac yn y blynyddoedd diweddaf y mae dynion gyda diwydrwydd mawr wedi bod yn sillebu eu gweddillion llenyddol. Felly am yr Assyriaid a'r Persiaid. Fe ystyrir fod Groeg mewn doethineb wedi dyfod i mewn i etifeddiaeth y cenedloedd, a diogelu i'r byd ymron yr oll oedd yn werthfawr gan y rhai a aethai o'r blaen, gan ychwanegu atynt, mewn celfyddyd a llenyddiaeth, bethau sydd yn aros eto yn gynlluniau i'r oesoedd. Am Rufain, fe fu hi dros dymmor maith yn eistedd yn arglwyddes y teyrnasoedd, a'r byd adnabyddus yn talu gwarogaeth iddi; ac nid ystyrir ei gweddillion hithau yn ail ond i eiddo Groeg yn unig. Ond pwy a glybu am orchestion yr Iuddewon, a'r cyfraniadau a wnaethant hwy i drysorfa doethineb y byd? Ac nid yn unig yr ydym yn eu cael hwy yn ddiffygiol mewn hawliau ar gymeradwyaeth dynion, ond y maent hefyd wedi bod yn neillduol lwyddiannus i gynhyrfu eu hanghymeradwyaeth ac i ennyn eu casineb. Gan yr hen Aiphtiaid yr oeddynt yn "ffieidd-dra." Edrychai y cenedloedd eraill arnynt gyda dirmyg mawr, gan ddiystyru eu gallu a ffieiddio eu honiadau. Yr oedd y ddefod o enwaediad oedd yn eu plith, a'u gwyliadwriaeth eiddigus rhag ymgymysgu â'r cenedloedd mewn dim, yn ennyn rhagfarn mawr yn eu herbyn, ac yn achlysuero drwgdybiau, y rhai nid yn anfynych a ddygasant arnynt flinderau mawrion. Cwyna un o'r beirdd Rhufeinig na ddangosai Iuddew y ffordd ond i un o'r un grefydd ag efe ei hun; ac am rywbeth a ofynai hygoledd mawr, dywedai un arall, "Creded yr Iuddew Apella ef,"—gan awgrymu fod hwnw a'i gydgenedl yn ddigon ffol i gredu unrhyw beth. Mae yn amlwg nad oedd mewn cenedl na cheid fod ganddi ddim i'w gyfranau at doethineb y byd, ac yr oedd cymaint ynddi tuag at gynhyrfu ei ragfarn a'i gasineb, ond ychydig iawn o gymhwysder i ddysgu dynolryw; ac na ellid ond ei ystyried yn gwbl anobeithiol iddi byth allu gwneyd hyny. Ond er hyn oll, y mae y llyfr hwn, y Bibl, a ysgrifenyddwyd gan ychydig o Iuddewon, wedi dyfod yn llyfr i'r byd. Y mae yn ddigon rhyfedd ei fod heddyw ar gael, wedi yr holl gasineb a ennynwyd yn ei erbyn, a'r holl ymdrechion a wnaed i'w ddinystrio. Ond y mae yn rhyfeddach fyth ei weled yn y sefyllfa y mae ynddi. Y mae yn cael ei ledaenu wrth y miliynau, ac y mae wedi ei gyfieithu i gynifer o ieithoedd fel y mae o fewn cyrhaedd mwy na hanner poblogaeth y ddaear. Ac fe wneir ymdrechion digyffelyb i ddysgu ei wirioneddau i'r holl genedloedd. Y mae yn cael ei dderbyn hefyd yn y gwledydd lle y mae wedi myned gan bob dosbarth yn ddiwahaniaeth. Mae gweddillion llenyddol wedi dyfod i lawr i'n dyddiau ni o eiddo cenedloedd eraill;

ond nid oes ond cylch bychan iawn yn gwybod dim am danynt, neu yn teimlo ynddynt unrhyw ddyddordeb. Pwy, oddieithr yohydig henafiaethwyr, sydd yn malio llawer am falurion yr hen ymherodraethau? Nid ydyw y rhai yn Ewrop sydd wedi astudio nemawr ar lenyddiaeth Arabia, Persia, China, ac India, ond ychydig iawn. "A hyd yn nod am lenyddiaeth ardderchog Groeg a Rhufain, nid oes yn y gwledydd uchaf eu diwylliad ond ambell i ysgolhaig yn abl i'w deall, ac y mae nifer y rhai sydd yn eu mawrhâu yn ddwfn, hyd yn nod ymhlith rhai sydd wedi cael tipyn o addysg, yn anamlach fyth. Ond am y Bibl, y mae dynolryw yn ddiwahaniaeth yn ei fawrhâu. Fel gyda Christ, y mae y "bobl gyffredin yn ei wrando ef yn ewyllysgar." Nid oes mewn unrhyw wlad yr un llyfr yn cael cymaint o barch gan y werin, neu yn cael ei astudio ganddi gyda chymaint o ddyfalwch. Ac y mae y "penaethiaid" hefyd yn ei dderbyn yr un mor groesawus. Chwedl Napoleon Bonaparte, "Y mae y dealltwriaethau mwyaf er dyfodiad Cristionogaeth wedi meddu ffydd, ffydd fywiol, ffydd ymarferol, yn nirgeledigaethau ac athrawiaethau yr Efengyl; nid yn unig Bossuet a Fenelon, y rhai oedd-ynt bregethwyr, ond Descartes a Newton, Leibnitz a Pascal, Corneille a Racine, Charlemagne a Louis XIV." Ni fyddai ond gorchwyl tra hawdd ychwanegu yn helaeth at yr enwogion hyn y cyfeiria Napoleon atynt, a hyny o blith y meddylwyr cryfaf y gall yr oesoedd ymfrostio ynddynt. Ac nid ydym i feddwl am fynydd mai trwy lynu yn ddall wrth draddodiadau eu henafiaid yr oeddent hwy yn credu felly ynddo; ond fe brofodd lliaws o honynt anhawsderau mawrion ynglŷn â'r pethau a ddysgasid iddynt; eto, wedi yr ymchwiliad mwyaf trwyadl a allent wneyd, fe'u harweiniwyd i'r casgliad mai y peth mwyaf rhesymol o ddim y gallent feddwl am dano oedd credu yn ddibetrus ei dystiolaethau, a derbyn, bob un, "deyrnas Ddau fel dyn bach." A thrwy ddeall felly, fel y credent, hwy a ddeuent, mewn addfedrwydd uwch, i greu fel y deallent, ac mewn canlyniad, o ddydd i ddydd, i ddeall yn well ac i gael eu gwneyd yn fwy cydffurf â'r cynllun uchel yr oedd y llyfr yn osod o'u blaen. Y mae y Bibl yn dangos adnabyddiaeth o'r natur ddynol na cheir ei chyffelyb yn unlle arall. "Dywedasoch wrthyf," ebe Chinëad deállus unwaith wrth Genadwr, "fod eich llyfr yn hen iawn; ond mae y bennod yna (Rhuf. i.) wedi ei hysgrifenu genych chwi ar ol dyfod yma a deall y cwbl am y Chinëaid." Clywais am un gŵr ieuanc annuwiol, oedd yn glaf mewn yspytty, ymhell oddiwrth ei gyfeillion, wrth glywed darllen dammeg y mab afradlon, yn codi i fyny yn ei wely ac yn gwaeddi, "Dyna fi! dyna fi!" Ac nid ydyw peth felly ond cyffelyb i'r hyn sydd o hyd yn cymeryd lle. Y mae dynion wrth ddarllen y llyfr yma yn teimlo ei fod ef yn eu darllen hwy, ac yn gwneyd dirgelion eu calonau yn hysbys,—yr hyn na phrofir gydag unrhyw lyfr arall. A chan ei fod, tra yn dadlenu eu holl ddrwg a'u holl drueni, yn dangos iddynt ymhellach obaith iachawdwriaeth, nid ydyw yn rhyfedd eu bod yn dyfod i deimlo y fath ymlyniad wrtho. Ac yma yr ydym yn cael arbenigrwydd yn ngwaith dynion yn darllen y Bibl nad ydys yn cael dim cyffelyb iddo ynglŷn âg un llyfr arall,—sef y *dyddordeb personol* dwfn a deimlant ynddo. Gallwn ddarllen llyfrau eraill yn unig er mwyn eu llenyddiaeth; maent yn ddyddorol, bid sicr; mae yn dda genym gael pob mantais i *furfio*



syniad mwy eilir am helynt ein cyd-ddynion yn yr hen amseroedd ac mewn gwledydd pell,—yr ydym yn neillduol yn teimlo dyddordeb mewn cael allan pa fodd y darfu i'r rhai enwocaf o honynt gyrhaedd eu mawredd a gosod eu marc mor ddwfn ar y byd,—mae y ffeithiau a gofnoda yr hen ysgrifenywyr, ac yn arbenig eu meddyliau, eu meddyliau goreu, ynghyd a chreadigaethau gogoneddus eu crebwyll a'u darfelydd, yn werthfawr iawn genym,—ac yr ydym yn teimlo dyddordeb cynnyddol, yn enwedig yn y dyddiau hyn, yn yr oll y mae gwyddoniaeth yn gael allan mewn perthynas i gyfansoddiad y greadigaeth. Ond wedi'r cwbl, nid ydyw dynion yn teimlo fod nemawr yn y pethau yna sydd yn myned yn ddwfn i'w natur. *Pethau eraill* ydynt, y tu allan iddynt hwy; ac er teimlo mesur, ac fe allai fesur helaeth o ddyddordeb ynddynt, eto nid ydynt yn eu hystyried yn bethau sydd yn perthyn yn arbenig iddynt hwy eu hunain. Ond wrth ddarllen y Bibl y mae dyn yn cael ei ddwyn i deimlo ei fod yn cael ei farnu ganddo a'i argyhoeddi. Y mae yn dadguddio perygl iddo ynglŷn â'i dynged ef ei hun, ac yn rhoddi golwg iddo ar lygredd o fewn ei galon ei hun nes y mae yn dychrynu, ac yn gofyn, yntau hefyd, Pa beth a wna? Ac yn y dadguddiad pellach a wneir am drefn yr adferiad, y mae efe yn cael ei ddwyn i deimlo fod ei fywyd byth yn dibynu ar ei waith yn credu yn yr hwn sydd abl i'w achub. Ac wedi hyny y mae yn cael, gyda phob cam ymlaen a ddyry yn y bywyd newydd, fod y llyfr hwn yn llawn o oleuni a nerth a chynnaliaeth iddo; ac y mae yn dyfod i deimlo ymlyniad wrtho fel a deimlai y Salmudd gynt pan ddywedai, "Mor gu genyf dy gyfraith di! hi yw fy myfyrdod beunydd. Mor felus yw dy eiriau i'm genau! melusach na mêl i'm safn. Gwell i mi gyfraith dy enau na miloedd o aur ac arian."

Fe ddywedir, wedi'r cwbl, nad oes i'r llyfr hwn ond tarddiad dynol. Ond ar y dybiaeth yna y mae genym yn sicr hawl i ofyn, Pa fodd y mae llyfr a ysgrifenydd gan ychydig ddynion oedd yn ddiarhebol am eu culni, ac a gynhyrfent yn eu herbryn ar bob llaw gymaint o ragfarn a chasineb, wedi dyfod er hyny i gyd yn llyfr sydd, o ran èangder a dyfnder a nerth ei ddylanwad, a hyny yn anfesurlyd y tu hwnt i bob llyfr arall a aller gymharu âg ef, yn llyfr i ddynolryw?

III. Gallwn ofyn yn mhellach, Pa fodd y mae llyfr sydd, a thybied mai llyfr dynol yn unig ydyw, o darddiad mor isel, wedi dyfod o *natur mor dderchafedig*?

Ni chyfyd y dwfr yn uwch na'i darddiad. Fe ddaw can uchod â hyny, ond nid all godi yn uwch. Y mae ein tai yn Upper Bangor yma yn lled uchel iddo redeg iddynt, ond y mae yn gwneyd hyny yn rhwydd am fod ei darddiad yn y Gaseg, gerllaw Bethesda, gryn lawer yn uwch. A'r hyn sydd yn wir felly am ddwfr, sydd yr un modd yn wir am ddynion hefyd. Y maent yn gallu gwneyd llawer o orchestion mawrion, ond nid ydyw yn ymddangos eu bod o gwbl yn gallu gwneyd dim y tu hwnt i'r ymadferth naturiol a osodwyd ynddynt, neu eu bod gyda dim yn ymgodi uwchlaw eu lefel. Mae yn wir fod cyrhaeddiadau rhai yn myned lawer iawn yn uwch nag eiddo eraill. Mae rhai o dywysogion y ddynoliaeth yn gallu esgyn yn rhwydd i uchelderau nad ydyw eu cyd-ddynion yn gyffredin yn gallu ffurfio nemawr syniad am

danynt. Ond nid ydyw yn ormod i ni, wedi profiad chwe' mil o flynyddoedd ar allu dyn, benderfynu y gallwn bellach ffurfio rhyw syniad am yr hyn sydd ddichonadwy iddo. O fewn y terfynau hyny, y mae lle i amrywiaeth difesur yn ngalluoedd dynion; ond y tu hwnt iddynt, nid ydym yn petruso dyweyd fod yn anmhosibl i unrhyw ddyw fyned. Yn awr y cwestiwn a ddymunem ofyn yma ydyw, A ydyw y Bibl y cyfryw lyfr ag y gallasem ddysgwyl i ddyinion, yn rhinwedd eu galluoedd naturiol eu hunain, ei gynnyrchu? Mae yn ymddangos i mi yn bur amlwg nad ydyw. Pe felly, ni fuasai yn anhawdd cyfeirio at ryw nifer, o leiaf, o rai tebyg iddo. Ond yr ydym yn cael y llyfr hwn ymysg holl lyfrau y byd yn aros, nid yn unig yn ddigyffelyb, ond mewn pellder anfesurolog uwchlaw y cyfan. Ac nid ydyw yn werth cyfeirio at y diffyg o ddim tebyg i ddiwylliad a chwaeth lenyddol ymysg y bobl a'i hysgrifenodd,—er fod y cwestiwn "Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth ac yntau heb ddysgu," i ni fel i'r bobl a'i gofynent gynt, yn galw am esboniad; ond yr ydym yn foddolawn i gymeryd dynion ar eu goreu, a hyd yn nod *felly* i ofyn, pa fodd y gallasent fod wedi gwneyd y fath lyfr. Mae y ffurfafen gymaint uwchlaw y cawr ag ydyw uwchlaw y baban. Felly hefyd yr ydym yn cael fod y Bibl yn ymgodi gymaint uwchlaw ymadferthoedd y dynion mwyaf a welodd y byd erioed ag uwchlaw y gwerinwr anllythyrenog.

Fe allai ymddangos i rai yn fychan i grybwyll yn y fath gysylltiad am *arddull* y llyfr. Ond hyd yn nod ar y tir yma y mae rhyw fawredd rhyfedd yn perthyn iddo. Nid am fod yr un o'r ysgrifenywyr sanctaidd erioed wedi cymeryd trafferth i astudio arddull. Yn ysgolion y rheithiorwyr, y *rhetoricians*, fe wneid arddull yn bobpeth, a thrwy hyny fe wneid dynion yn beiriannau; a chyn y ceid ymwarded oddiwrth ddylanwad niweidiol y dynion hyny, fe fyddai raid i rywrai gyfodi â rhywbeth yn eu henaid i'w ddyweyd wrth y byd, a'i ddyweyd yn eu ffordd eu hunain, fel pe na fuasai beirniaid mewn bod. Dyma nerth yr ysgrifenywyr goreu ymhob oes. A hyn yn neillduol ydyw cuddiad cryfder ysgrifenywyr y Bibl. Yr oedd ganddynt hwy, yn anad neb, gymaint i'w ddyweyd, a hyny o'r fath bwysigrwydd, fel y teimlent mai eu gofal mawr oedd ei drosglwyddo i'w cydwladwyr fel yr ydoedd wedi ei osod yn eu meddwl hwy eu hunain. Fe fuasai ymostwng dan y fath amgylchiadau i astudio *style* yn ymddangos iddynt yn gellwair hynod o segur. Oblegid y symledd perffaith yma yn eu dull o ysgrifenu, y mae yn hynod nad oes lyfr mewn bod sydd yn dyoddef can lleied wrth ei gyfieithu ag ydyw y Bibl. Mae yn wir fod arddull ei ysgrifenywyr weithiau yn farddonol a thra godidog; ond y mae felly am mai yr unig beth naturiol iddynt ar y pryd fyddai barddoni, neu am fod y pethau mor ogoneddus fel na ellid yr un ffordd arall roddi syniad addas am danynt. "Traetha fy nghalon [y mae fy nghalon yn berwi allan] beth da; dywedyd yr ydwyf y pethau a wnaethum i'r brenin; fy nhafod sydd bin ysgrifenu buan." Mae mawredd y pethau oedd ganddynt i ysgrifenu am danynt, ynghyd a'u teimlad o gyfrifoldeb dan bwys yr ymddiried o'u trosglwyddo trwy ysgrifenu i feddyliau pobl eraill,—heb son am eu dylanwad sancteiddiol ar eu hysbryd, a'r gallu Dwyfol oedd arnynt, a eilw y llyfr ei hunan yn Dduw-ysbrydoliaeth,—yn cydweithio i osod ar eu dull o ysgrifenu argraff o urddas digyffelyb.

Nid rhyfedd i Longinus, y beirniad Groegaidd, ddyweyd mai y peth mwyaf ardderhog y gwyddai efe am dano yn holl lenyddiaeth y byd oedd yr hanes a roddir gan Moses am greadigaeth goleuni: "A Duw a ddywedodd, Bydded goleuni, a goleuni a fu." Tra yr ydym yn cael ysgrifenwyr eraill, mewn rhyw ffordd neu gilydd, o hyd yn eu hysgrifenu eu hunain, ac yn dangos pobpeth yn ngoleuni eu syniadau personol, y mae ysgrifenwyr y Bibl fel pe byddent â'u holl egni yn cuddio eu hunain er mwyn i'w pethau gael llewyrchu yn y mawredd a berthynai iddynt. Am hyny y maent yn adrodd y pethau rhyfeddaf y clybu y byd erioed son am danynt heb unrhyw ymdrech i alw sylw atynt, heb feddwl am osod *horribile* neu *mirabile dictu*—arswydus neu ryfeddol dyweyd!—yn eu hadroddiadau o gwbl, ac yn wir heb ychwanegu cymaint â rhyfeddnod. Yr oedd y pethau eu hunain mor ryfeddol fel mai adroddiad noeth o honynt oedd y cymhorth goreu a allasent hwy roddi tuag at gael syniad priodol yn eu cylch; neu yr oedd eu hymdeimlad o'r Dwyfol fawredd oedd yn llewyrchu trwyddynt y fath fel, yn ngoleuni hwnw, nad allent ond "tewi ger bron yr Arglwydd," a gadael i'w weithredoedd ei glodfori. Er eich cynnorthwyo i ymdeimlo yn well â'r urddas yma yn yr ysgrifeniadau sanctaidd, nid allwn wneyd yn well na'ch cymhell i gymharu chwedlau a breuddwydion y Talmud âg ysgrifeniadau y prophwydi, a thrachefn, cymharu yr Efengylau Apocryphaidd âg ysgrifeniadau y Pedwar Efengylwr. Mae yn wir y ceir yn y pethau hyny ambell i ddarn aur ac ambell i em prydferth; ond fe'u ceir yn nghanol tomenydd o gymysgedd gwael a hollol ddiwerth. Yn yr Ysgrithyrau, o'r ochr arall, fe geir urddas a mawredd sydd nid yn unig yn eu codi uwchlaw beirniadaeth, ond yn eu gwneuthur uwchlaw eu cymharu âg unrhyw ysgrifeniadau eraill.

A pha beth a ddywedwn am y gallu i *ragfynegu* y *dyfodol* sydd mor amlwg yn y Bibl? Y mae yn amlwg nad oes gan ddyn ddim gallu y ffordd yna. Mae yn wir y teimla fod ymron bobpeth ei fywyd yn y dyfodol, ac fod ganddo y fath awyddfryd angerddol am wybod yr hyn a fydd, fel yn fynych y mae cnafiaid wedi gwneyd marchnad dda ar ei hygoelodd wrth gymeryd arnynt ddyweyd ei desni. Ac y mae yn wir hefyd fod dynion craffus a meddylgar, weithiau, yn dangos gallu hynod i weled "hadau y dyfodol" yn y presennol, ac felly i ffurfio amcandyb dda am a fydd oddiwrth yr hyn sydd. Er y cwbl, y mae tywyllwch mawr i ni ar y dyfodol. "Ni wyddost beth a ddygwydd mewn diwrnod." Ond er hyn oll, ni a gawn yn y Bibl liaws mawr o brophwydoliaethau clir am bethau a fyddent, y rhai hefyd a wiriwyd yn y modd mwyaf diammheuol. Y mae cymeryd y rhai a'u traethent yn eu codi yn anfesurod uwchlaw y brudwyr a farchnatânt mor lwyddiannus ar awyddfryd dynion am wybod yr hyn a fydd; ac y mae eu rhagfynegiadau yn ymestyn i'r fath bellder o ran amser, ac yn cymeryd i fewn amgylchiadau mor gwbl wahanol i ddim ag ydoedd yn flaenorol wedi cymeryd lle, neu y gallesid gweled eu "hadau" yn y pethau oedd o'u hamgylch ar y pryd, fel nad ydyw yn ddichonadwy eu hesbonio ond trwy eu cydnabod fel yr hyn y profasant eu bod. Y mae y llyfr ei hun yn hōni fod y gallu yma, fel y gallu i wneyd gwyrtthiau, mor amlwg o Dduw, fel y mae yn brawf boddhaol o Ddwyfoldeb y genadwri mewn cysylltiad â pha un y caiff ei arddangos. "Dygant hwynt

allan, a mynegant i ni y pethau a ddygyddant; mynegwch y pethau gynt beth ydynt, fel yr ystyriom, ac y gwypom eu diwedd hwynt; neu traethwch i ni y pethau a ddaw. Mynegwch i ni y pethau a ddaw ar ol hyn, fel y gwypom mai duwiau ydych chiwi. . . Pwy a fynegodd o'r dechreuad, fel y gwybyddom? ac ymlaen llaw, fel y dywedom; Cyfiawn yw? . . . Caagler yr holl genedloedd ynghyd, a chynnwyl y bobloedd; pwy yn eu mysg a fynega hyn, ac a draetha i ni y pethau o'r blaen? dygant eu tystion fel y cyfiawnhâer hwynt; neu wrandawant a dywedant, Gwir yw. . . Mynegwch, a neswch hwynt; cydymgynghorant hefyd; pwy a draethodd hyn er cynt? pwy a'i mynegodd er y pryd hwnw? onid myfi yr Arglwydd? ac nid oes Duw arall ond myfi." Mae y rhagfynegiadau hyn, gan mwyaf, yn hollol glir a diammwys; y maent yn cael eu traethu hefyd, nid mewn un modd fel dyfaliadau, pa mor graffus bynag, ond fel dadguddiedigaethau oddiwrth yr Arglwydd; ac y mae genym bob boddlonrwydd eu bod wedi eu traethu yr amser yr hōnant eu bod, ac wedi eu cadw yn ofalus gan bobl ag yr oedd ganddynt, nid yn anfynych, bob rheswm, pe meiddiasent, i'w symud o'r ffordd, ac nid wedi eu cyfansoddi ar ol i'r amgylchiadau gymeryd lle, a'u gosod yn y *ffurf* o brophwydoliaethau; ac yr ydym yn cael y fath gyd-darwriad amlwg rhwng yr amgylchiadau, pan gymerent lle, a'r rhagfynegiadau am danynt, fel y mae dynion ymhob oes wedi gorfod cydnabod y berthynas amlwg rhyngddynt a'u gilydd. Nid allwn yn awr aros i gyfeirio at engreifftiau; y mae y llyfr yn llawn o honynt. Ond gallwn ofyn, Ai dynol ydyw y rhagfynegiadau hynod hyn oll, pan y gwelwn yn amlwg nad oes gan ddyn un ymadferth o gwbl ar ragfynegu y dyfodol, ac fod lliaws o'r rhagfynegiadau hyn y fath fel na ddaethai i galon dyn byth i gymaint a synied am danynt?

Drachefn, y mae *moesoldeb* y Bibl y fath ag sydd yn ei brofi yn amlwg uwchddynol. Y mae y gynneddf foesol sydd mewn dynion, yr hon sydd yn "dangos gweithred [gweithrediad] y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau," yn eu cyfeirio yn lled amlwg at y gwahaniaeth tragwyddol sydd rhwng da a drwg, ac yn eu gwneyd, yn wir, "yn ddiesgus." Ond mor bell ydynt o fod wedi gwneyd defnydd priodol o'u manteision, fel, o'r ochr arall, mai "ofer fuant yn eu rhesymau, a'u calon anneallus hwy a dywyllwyd. Pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid." Os mynwn weled beth yw ymadferth yr hil ddynol ar ymgori at foesoldeb uchel, ni raid i ni ond edrych, ac ni a'i cawn, yn ol desgrifiad y bennod gyntaf o'r Rhufeiniaid, ymhob oes ac ymhob man yn trybaeddu ymhob budreddi, ac mor bell o allu ymwellâu, fel y mae yn myned yn waeth waeth. Ac er y sonir weithiau am "ddiwylliad" fel gallu pureiddiol—sydd yn drech hyd yn nod na'r Efengyl!—eto yr ydym yn cael ymhlith yr hen genedloedd coethaf fod eu diwylliad yn rhywbeth oedd yn gwbl ar wahân i foesoldeb, ac fod eu dynion mwyaf diwylliedig yn ddynion arian eu moesau. Gyda Horace, boddlonent ar weled yr hyn oedd dda a'i gymeradwyo, ond dilynent yr hyn oedd ddrwg. Nid oeddent yn teimlo unrhyw gywilydd fod eu buchedd gymaint islaw i'r hyn a olygent hwy eu hunain oedd weddus a phriodol. Yr ydys weithiau yn cyfarfod â gwybell gymeriad ag ydoedd mewn ambell i rinwedd yn eithriadol dda;

enid y mae y clod a roddir i'r rhai hyny mor eithafol fel ag i ddangos yn anwlw mor ddwfn oedd y llygredigaeth cedd yn meddianna cymdeithas o'u hamgylch. Ac er nad oedd syniadau moesol yr hen athrawon ond rhyw ddamcaniaethau athronyddol ag y teimlent hwy eu hunain nad oeddent o gwbl yn rhwymedig arnynt, eto pan gymharwn hwy, ie yn eu perffeithrwydd uchaf, & moesoldeb yr Efengyl, yr ydym yn gweled mor ryfeddol o dlodion y rhaid eu bod. Yr oedd y rhinweddau arwraidd, y pethau a fuasant yn rhoddi i ddyn allu mawr i ddyoddef ac ymosod, bid sicr, mewn parch mawr; felly hefyd y rhinweddau cymdeithasol o gyfiawnder, ffyddlondeb, a hunan-lywodraeth. Ond y mae yn gwbl amlwg erbyn hyn, yn y goleuni sydd wedi llewyrchu arnom o'r Bibl, fod dyn yn alluog o arwriaeth sydd yn anfesurolog uwch na'r gallu anianyddol i ddyoddef ac ymosod, neu fod Paul yn fil mwy o arwr nag Achilles. Ac am y rhinweddau cymdeithasol a fawrheid, gymaint is oedd eu lefel na'r hyn a argymhellu y Bibl! Yma y mae ein cyfiawnder, a'r holl rinweddau eraill, i fod yn seiliedig ar sancteiddrwydd. Yr ydym i'w hymarfer, nid yn unig am fod natur wrth ymbalfalu yn tybied ei bod yn cael rhyw syniad yn eu cylch, ond am fod Duw yn eu gorchymyn. Heblaw hyny, nid ydyw y cynllun a osodwyd o'n blaen i ymestyn am ei gyrrhaeddyd wrth ymarfer y rhinweddau hyn, yn ddim llai na'i sancteiddrwydd anfeidrol Ef ei hun. "Byddwch chwi gan hyny yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Y mae hyn yn dyrchafu y rhinweddau a fawrheid gan yr hen athronwyr nes y maent fel yn myned dan fath o ogoneddiad; ond yn ychwanegol at hyny y mae yn meithrin ynom ddoesbarth o rinweddau sydd yn dra ardderchog a hawddgar, nad allent hwy synio yn eu cylch: megys cariad, cydymdeimlad, amynedd, hunanymwadiad, purdeb, gostyngeddrrwydd, gobaith. Fe ddadleuai Stuart Mill fod yr Efengyl yn myned heibio yn ddisylyw i'r rhinweddau arwraidd, ac yn rhoi mawredd ar bethau oedd yn gwneyd dyn yn fychan, os nad yn ddirmygus. Ni fu erioed fwy camgymeriad. Y mae dyn yn fwy yn ei le yn y llwch wrth draed Duw nag y mae yn bosibl iddo fod yn unle arall; ac yno y mae ei gymeriad yn ennill gloewder a nerth a mawredd sydd yn ei godi uwchlaw iddo ei hun, ac yn ei wneuthur yn gyfaill Duw. Y mae yn cael ei ddyysgu mewn moesoldeb mor dderchafedig fel y mae i "garu yr Arglwydd ei Dduw &i holl galon, ac &i holl enaid, ac &i holl nerth, ac &i holl feddwl; a'i gymydog fel ef ei hun." Ac nid yn unig y mae yr Efengyl yn dangos y pethau hyn fel cynlluniau perffaith, fel *ideals* ysblenydd i'w gosod o'u blaen, ond y mae hefyd yn rhoddi nerth i ddynion ymestyn atynt a'u hymarfer! Y mae yn cael dynion yn fynych mewn sefyllfa mor isel ag yr oedd yn bosibl iddynt fod; ond dyna ddiwedd gwynfydedig y chwedl,—“Eithr chwi a olchwyd; eithr chwi a sancteiddiwyd; eithr chwi a gyfiawnhawyd, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbyrd ein Duw ni.”

Am *athrawiaethau* mawrion y llyfr, nid allwn ond prin grybwyll; ond y maent yn gwahaniaethu fwy na lled y nefoedd oddiwrth “arfer dyn” pan yn damcaniaethu am faterion o'r fath. Y fath ogoniant sydd yn ei ddysgeidiaeth am Dduw! Y mae gan y crefyddau paganidd gyflawnder o dduwiau; ond mae gan grefydd y Bibl—yr hyn sydd yn anfeidrol fwy—DDUW. Ac am eu duwiau hwynt, beth ydynt ond dynion ar raddeg fwy; ac yn y duwiau a wnaeth dyn ar ei lun a'i ddelw

ei hun, y mae wedi gofalu am osod ynddynt ei holl ddyrgau, yn gystal a'i holl ragoriaethau ei hunan. Y mae lliaws o'r duwiau paganaid yn anghenfilod mewn drygioni. Nid ystyrir yn anghydweddol a'u duwdod—bondigrybwyll!—i fod yn euog o'r aflendid, y twyll, y bradwriaeth, a'r creulondeb mwyaf. Ac fel y maent hwy eu hunain wedi eu cynnyrchu gan ddychymyg dyn, felly y maent yn eu tro yn cynnyrchu arno yntau yr effeithiau mwyaf andwyol. Pe meiddiai y gydwybod dlawd yngan gair am burdeb a daioni, fe foddid ei llais ar unwaith; nid ydyw y dyn ond yn gwneyd yr un fath â'r anfarwolion! Pa gymhariaeth all fod rhwng y breuddwydion hyn â'r Un Mawr—tragywyddol, hollalluog, hollbresennol, hollwybodol, cyfiawn, sanctaidd, a da, Duw cariad, sydd uwchlaw pawb yn fendigedig yn oes oesoedd—ag y mae y Bibl yn son am dano! Gallwn ddyweyd yr un peth am ei athrawiaeth am bechod. Y tu allan i ddysgeidiaeth y Bibl, nid ymddengys fod y syniad am bechod wedi cael lle o gwbl yn meddwl y byd. Syniai am fai, ac am drosedd; y mân amryfuseddau y syrthiai dynion iddynt, a'u gwaith yn myned ar draws y cyfreithiau; ond am bechod, yr anghyfraith mawr, y mathriad ar ddeddf lân y nefoedd, y gwrthryfel yn erbyn y Goruchaf Dduw, pechod sydd yn ei natur yn dragywyddol farwolaeth,—nid oedd gan ddynion un syniad o gwbl. Ac eto y mae ein calon yn dyweyd mai gwir bob gair a ddywed y Bibl am y drwg ofnadwy hwn. Y mae ei athrawiaeth am Grist yn sefyll yn y fath fawredd digyffelyb fel nad oes o fewn cylch holl feddwl y byd ddim a ddeil ei gymharu â hi. Dyma Fab y dyn, y ddynoliaeth yn ei chynllun mawr gwreiddiol, delw y Duw anweledig, a chyntafanedig pob creadur, yr Alpha a'r Omega, y cyntaf a'r diweddaf, y dechreu a'r diwedd. Wele y dyn! Ac y mae Efe yn ddyn mor ogoneddus am ei fod yn fwy na dyn, yn Fab Duw, yn uniganedig Fab y Tad. Y mae dynion yn cyndyn-ddadlau am y gwyrtthiau a briodolir iddo; ac eto y mae y profion am y gwyrtthiau—ac yn arbenig y fwyaf o honynt oll, ei adgyfodiad Ef ei hun o'r bedd,—y pethau cryfaf o fewn holl gylch tystiolaeth ddynol. Os na chredwn hwynt, pa beth a gredwn o gwbl? Ac er yr holl ysfa sydd gan ddynion i'w bychanu, y maent, wedi'r cyfan, yn aros yn brofion diammheuol o Ddwyfol allu. Ond os “canu cloch y greadigaeth,” chwedl Foster, yr oedd Efe trwy ei wyrthiau, y mae y “bregeth oedd i ganlyn,” o angenrheidrwydd, yn llawer mwy. Nid ydyw ond peth bychan i ddywedyd “na lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn;” ac nid rhyfedd fod yr oesoedd yn “synu wrth ei ddysgeidiaeth ef.” Ond os oedd ei athrawiaeth yn rhyfeddach na'i weithredoedd, y mae ei *fywyd* yn fyrdd rhyfeddach na'i athrawiaeth. Dyma un sydd wedi byw yr holl foesoldeb bur a derchafedig a bregethai, ac un a feiddiai sefyll i fywy yn nghanol torf wallgof oedd yn berwi gan elyniaeth ato, a gofyn, “Pwy o honoch chwi a'm hargyhoedda i o bechod?” Dyma un nad oedd gan hyd yn nod ei fradychwr, ac ar yr adeg y buasai yn gymaint boddhâd iddo allu meddwl rhywbeth yn ei gylch a fuasai yn ei ddarostwng, ddim amgen i'w ddyweyd am dano na, “Pechais, gan fradychu gwaed gwirion.” A pha mor ryfeddol bynag yr ymddengys ei weithredoedd, a'i athrawiaeth, a'i fywyd, yr ydym yn gorfod dyfod i'r casgliad y rhaid ei fod *Ef ei hunan* yn anfeidrol ryfeddach na'r cyfan. Paham yr ydoedd y dyn hwn yn gallu *salgu* ar ucholderau nad oedd dynion mwyaf a phuraf yr oesoedd

oll wedi gallu ond edrych arnynt o bell, gan anobeithio wrth feddwl mor anghyrhaeddadwy oeddynt? Nid ydwyf yn synu fod meddwl y dynion mwyaf—hyd yn nod pan mae eu calon yn parhâu i ymgynyddyn yn ei erbyn—yn gorfod cydnabod, pan yn edrych ar y Person rhyfedd yma, mai ynydrwydd ydyw ceisio synied am dano fel dyn ymhlith dynion, ac y rhaid addef mai “Mab Duw oedd y dyn hwn.”\* Ac eto fe freuddwydir y gallai fod ychydig bysgodwyr gwerinaidd o Galilea wedi creu y drychfeddwl am y fath Berson a hwn! Fel y dywedai Theodore Parker, oedd yn Undodwr, “Fe gymerasai Iesu i ffugio Iesu.” Ac ni fyddai ond yr un peth priodoli i'r ychydig ddysgybllion tlodion greadigaeth y sér, & phriodoli iddynt greadigaeth y drychfeddwl am gymeriad a Pherson yr Arglwydd Iesu Grist. Ac y mae yr un peth i'w ddyweyd—heb son am liaws o bethau eraill—am athrawiaeth y Bibl mewn perthynas i fyd ar ol hwn. Y mae y syniad am sefyllfa ddyfodol yn cael ei ddal gan lawer o grefyddau eraill; ond mor gwbl wahanol ydyw ganddynt hwy i'r hyn ydyw yn y Bibl. Gan ymaffyd yn y syniad am sefyllfa ddyfodol,—syniad ag y mae ei ffyniant cyffredin ymhlith dynolryw yn un o'r dyrysbynciau sydd yn aros i roddi cyfrif am dano,—y mae dynion wedi gollwng rhaff i'w dychymyg ac wedi meddwl am y sefyllfa hono ymron yn unig fel y peth a fyddai fwyaf cydweddol â'u chwaeth a'u ffansi yn y fuchedd hon. Y canlyniad ydyw, nid yn unig fod eu nefoedd yn gwbl faterol, ond mai ei gwynfyd i raddau helaeth iawn ydyw boddhad eu chwantau anifeilaidd, ac nad all yn y pen draw fod yn amgen na chartrefle trueni. Y mae nefoedd y Bibl o'r ochr arall yn dra gwahanol. Nid oes ynddi ddim o'r pethau geirwon, isel, y dychymygid am danynt gan chwaeth lygredig y paganiaid. Y mae hefyd lawer o ddoethineb, mae yn ddiaw, wedi ei ddangos yn y mesur o eglurder a roddwyd ar y sefyllfa ddyfodol. Y mae llawer o bethau yn y dadguddiad a gawsom yn aros eto yn guddiedig. Er fod llawer o'r desgrifiadau a gawn wedi eu gwisgo mewn iaith farddonol, a'u cymeryd oddiwrth y pethau mwyaf dymunol y gallwn feddwl am danynt yn y bywyd hwn, eto pan awn i ymfyn i ystyr y cymhariaethau prydfferth, ac i geisio dyfalu “beth a fyddwn,” y mae y tywyllwch yn y fan yn ymgau arnom, ac nid oes genym ond ymfoddloni ar ystyried “nad amlygwyd eto.” Ond mae y pethau sydd wedi eu dadguddio o natur mor dderchafedig, ac y mae eu heffaith arnom mor fendithiol, fel y mae meddwl am danynt yn foddion i'n sancteiddio, ac yn gynnorthwy gwerthfawr tuag at gyrhaedd y perffeithrwydd y dysgir ei fod mor anheggorol fel cymhwysder i “gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.” A chyda'r pethau mawrion hyny, yn y goleuni sydd yn llewyrchu arnynt o dragywyddoldeb, a'r “llawenydd annhraethadwy a gogoneddus” a fwynheir mewn cymundeb â hwynt, y mae eneidiau crediniol yn teimlo na fydd eisieu dim o natur uwch, ond yn unig raddau helaethach o'r un mwynhad, tuag at wneyd nefoedd ddedwydd iddynt dros byth. Y mae yn hynod hefyd, pan y mae Cristionogion yn myned i ystâd wrthgiledig ac yn ymollwng i ddychymygu eu dychymygion am bethau mawrion y dyfodol, eu bod yn

\* Yn y diwedd ychwanegwn restr o Dystiolaethau oddiwrth nifer o'r dynion enwocaf o'r dosbarth y cyfeirir ato uchod, mewn perthynas i Iesu Grist.

gwneyd felly ymron yn gwbl ar yr un llinellau â dychymygiion y paganiaid. Y mae hyn yn myned ymhell i brofi mai y ffordd yna y mae yn naturiol i ddyd, o leiaf yn ei ystâd ddirywiedig bresennol, ddamcaniaethu am y fuchedd dragywyddol; ac am hyny y rhaid cael rhyw gyfrif arall am yr olwg anfesurool uwch a roddir yn yr Efyngyl am wynfyd yn y byd a ddaw.

A chyda golwg ar yr holl bethau hyn y mae genym ddau sylw ag y byddai yn addas eu gwneyd sydd yn dangos ymhellach y dirfawr afresymoldeb o feddwl nad oes i'r pethau mawrion hyn oll ond tarddiad dynol yn unig. 1. Nid ydyw yr ysgrifenwyr sanctaidd yn hōni dim iddynt eu hunain mewn perthynas iddynt. Ymhob cylch arall y mae dynion yn dra eiddigus am glod eu darganfyddiadau, ac y mae yn werthfawr ganddynt gael eu cydnabod fel cymwynaswyr yr hiliogaeth. Ond nid ydyw ysgrifenwyr y Bibl yn gwneyd un math o honiadau; yn wir, y maent yn cymeryd gofal neillduol i ddangos nad ydynt hwy yn ddim, a'u bod yn ddyledus am eu pethau da oll i Dduw, yr hwn sydd yn llefaru trwyddynt. Yn wir y maent mor bell o feddu y rhinweddau y mae y llyfr yn arganmawl fel y maent gyda'r gonestrwydd mwyaf agored, ac er eu cywilydd, yn cydnabod am danynt eu hunain, ac am y cymeriadau y maent falchaf o honynt, ac am eu holl genedl, mor bell oeddent o fod yr hyn a ddylasant fod; ac oddiwrth hyny y mae yn hawdd i ni weled mor anobeithiol fuasai iddynt hwy, mwy na phobl eraill, roddi bôd o honynt eu hunain i'r fath bethau ardderchog. Pan droënt yn anffyddlaw i Dduw, gan fyned yn eu ffordd eu hunain, hwy a fyddent yn barhâus yn dilyn arferion y cenhedloedd o'u hamgylch, ac yn myned ymhob ystyr mor ddirywiedig â hwythau. Nid ydym o gwbl yn cael yr un o honynt, mewn sefyllfa felly, yn rhoddi bôd i unrhyw syniad oedd yn deilwng o urddas a gogoniant y pethau sydd yn llanw y Bibl. 2. Nid oes dim o'r rhagoriaethau sydd mor amlwg yn nodweddu yr ysgrifeniadau canonaidd i'w gwled yn llenyddiaeth yr Iuddewon na'r Cristionogion y tu allan i gylch yr ysgrifeniadau hyn. Y mae llawer o ysgrifeniadau felly wedi dyfod i lawr i'n dyddiau ni; a phe yn ngrym eu hymadferth dynol yn unig yr ysgrifenasai y dynion sanctaidd yr Ysgrhythrau, fe allesid yn rhesymol ddysgwyl y buasai rhyw nifer, os nad llawer, o'u cydwladwyr a'u brodyr wedi ysgrifenu rhyw bethau na fuasant lawer iawn islaw eu hysgrifeniadau hwy. Ond yn lle hyny, y mae gagendor anfesurel rhyngddynt. Er nad oedd ysgrifenwyr y Bibl, am ddim a wyddom ni, yn rhagori cymaint o ran cymhwysderau llenyddol na moesol ar lawer o'u cydwladwyr, &c., sydd wedi gadael ar eu hol ysgrifeniadau, eto y mae gwahaniaeth digyffelyb rhwng eu cynnyrchion. Dywedai rhywun wrth Robert Hall fod rhai o'r adolygwyr yn cymharu Pollock, awdwr y *Course of Time*, i Milton; i'r hyn yr atebai yntau, "I have no patience with such absurdity. Pollock is no more to be compared with Milton than the manners of a clown are with those of a prince." Mae y gwahaniaeth yn llawer mwy rhwng y ddau ddosbarth o ysgrifeniadau y cyfeiriwn atynt. Ac nid ydyw i'w gymharu â'r gwahaniaeth rhwng amseroedd clasurol yn hanes cenhedloedd ac amseroedd cyffredin; ond y mae o natur sydd yn annhraethol uwch, ac yn awgrymu, fel yr unig reswm a all ei esbonio, y gwahaniaeth mawr rhwng y nefoedd a'r ddaear, y gwahaniaeth anfeidrol rhwng dyn a Duw.



IV. Y mae genym un cwestiwn ymhellach y carem ei ofyn: Pa fodd, ar y dybiaeth mai llyfr dynol yn unig ydyw y Bibl, y mae llyfr sydd yn myned yn nannedd holl ragfarnau y byd, er y cwbl yn *gorchfygu y byd*.

Yr ydym bellach mewn mantais i wybod cryn lawer am y dull ymhâ un yr ennillir gallu ar ddynolryw. Y mae hyny yn cael ei wneyd fel rheol trwy eu cyfarfod fel y maent, astudio eu rhagfarnau, gwenieithio iddynt, ac ymhob ffordd ei wneyd yn amcan i'w boddhâu. Mewn cyfeiriad at y rhai sydd yn gwneyd felly, rhydd Plato yn ei "Wlad-wriaeth" y geiriau a ganlyn yn ngenau Socrates:—"Mi allwn eu cymharu i ddyn a astudiaï dymherau a dymuniadau bwystfil cryf a nerthol a borthid ganddo; fe ddysgai pa fodd i ddynesu ato a'i drin, hefyd ar ba amserau ac am ba achosion y mae yn beryglus neu y gwrthwyneb, a pheth yw ystyr y gwahanol fathau o swm a wna, a thrwy ba fathau o swm, pan wneir hwynt gan arall, y tawelir neu y cynddeiriogir ef; a chwi ellwch dybied ymhellach, pan fydd iddo, trwy fyw yn barhâu gydag ef, ddyfod yn berffaith yn hyn oll, y geilw ei wybodaeth yn ddoethineb, ac y gwna gyfundrefn neu gelfyddyd, yr hon yr â rhagddo i'w haddysgu, nid am fod ganddo unrhyw wir syniad beth y mae yn addysgu, ond noda y naill beth yn anrhydeddus, a'r llall yn waradwyddus, neu dda neu ddrwg, neu gyfiawn neu anghyfiawn, oll yn ol chwaeth a thymherau y bwystfil mawr, wedi iddo ddeall ystyr ei rochain bloesg. Da y geilw yr hyn a'i boddhâ, a drwg yr hyn y mae yn gashâu; ac ni all roddi un cyfrif arall am danynt oddieithr mai yr angenrhaidiol ydyw y cyfiawn a'r ardderchog, heb erioed weled ei hun, ac heb allu i esbonio i eraill natur y naill na'r llall, neu y dirfawr wahaniaeth rhyngddynt. Ai ni fyddai efe yn addysgydd gwyh?"

Ac nid ydyw yn anhawdd adnabod "tymherau a dymuniadau y bwystfil," ac felly wybod pa fodd i'w foddhâu ac ennill gallu arno. Mae yn amlwg fod gan ddyn chwantau cryfion, chwantau ag y mae eu rhaib am gael eu boddhâu yn anniwall. Yr un modd y mae ganddo ragfarnau tra ystyfnig, ac nid hawdd ganddo oddef y neb a anturio fyned ar eu traws. A thra yn amlwg yn greadur lled isel, y mae yn dra thueddol i synied am dano ei hun lawer yn "amgen nag y dylid synied," ac i ddychymygu ei fod, mewn gwybodaeth, rhinwedd, ac urddas, yn fôd hynod o ardderchog. Fe allai nad ydyw hyny mor ryfedd ychwaith, canys y mae efe wedi gweled dyddiau gwell; ac ynglŷn â'i ddychymygion gwylltaf fe ellid meddwl fod wedi eu cymyagu rai hen adgofion ardderchog am urddas y dyddiau gynt. Fel cragen Walter Savage Landor,—

And it remembers its august abode,  
And murmurs as the ocean murmurs there,—

felly y mae yntau yn breuddwydio am fawredd a gogoniant sydd yn dra gwahanol i ddim a berthyna i'w gyfiwr yn awr. Ond er hyn oll, y mae y Bibl, ar y tir y mae ynddo, mor bell o feddwl am ei foddhâu yn y pethau hyn fel y mae yn yr oll a wna yn ei ddigio a'i ddwfn gythruddo. Condemnia ei chwantau fel pethau ag y rhaid eu croeshoelio yn lle eu porthi. Dryllia yn ddiarbed yr holl ddelwau y mae ei ragfarnau, gyda'r fath ddyhewyd, wedi osod i fyny i'w haddoli. Er ei holl falch-

der o'i wybodaeth, y mae y Bibl yn dangos nad ydyw y cyfan ond camgymeriad ofnadwy. "Pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffylliaid." Am y rhinweddau y mae dynion mor hoff o gael y clod o'u meddu, y mae y llyfr hwn yn eu cyhuddo o fod yn hollol amddifad o honynt. "Nid oes neb cyfiawn, nac oes un; nid oes neb yn deall, nid oes neb yn ceisio Duw. Gwyrasant oll, aethant i gyd yn anfuddiol; nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un." Ac er holl ddychymygiion dynion am fawredd ac urddas, fe wneir allan yma nad ydynt wedi'r cwbl ond pechaduriaid euog a thruenus, wedi eu collfarnu i fythol ddinystyr, ac yn dwyn yn eu mynwesau eu hunain ddefnyddiau uffern anniffoddadwy. Ac yn wyneb hyn oll, cyhoedda nad oes ond un gobaith am waredigaeth i ddyn o'i holl drueni i gyd, a hyny trwy gredu mewn Un a wrthodwyd gan ei genedl ei hun, ac a groeshoeliwyd rhwng dau leidr fel drwgweithredwr.

A ydyw yn rhyfedd fod llyfr fel yma yn peri cythrudd ac yn cynhyrfu yn ei erbyn deimladau gwaethaf y ddynoliaeth? Ac nid oes un llyfr wedi gwneyd hyny erioed mewn dull a ddaliai ei gymharu am amrantiad â'r Bibl. Y mae dynion wedi bod yn ei ddirmygu a'i gashâu â'u holl galon, wedi gwneyd eu goreu lawer gwaith i'w yru allan o'r byd, ac i ddiwreiddio pob parch iddo, ie, a phob meddwl yn ei gyloch o galon dynolryw. A oes rhyw obaith i lyfr fel yma ennill gallu ar y byd?

Ac eto dyma yr un sydd wedi gwneyd hyny, a'i wneyd mewn dull anafesurol uwch na dim arall y clybu y byd am dano erioed. Wedi yr holl ysturm o ddirmyg a digofaint, y mae rhyw "lef ddystaw fain" o'r Bibl yn cyrhaedd dynion, ac mewn mynyd o fyfyrdd tawel yn eu llanw â rhyw oleuni o fyd arall, sydd yn dangos iddynt bethau anhraethadwy. Y mae rhywbeth ynddo wedi'r cyfan. Oes, ac y mae ei dystiolaethau mawrion yn cael eu hadsain yn nyfnder eu natur hwy eu hunain. Mae ei daranau, sydd yn cyhoeddi "tralldod ac ing ar bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg," yn deffro o fewn y dyn daranau eraill, mwy brawychus fyth, sydd yn cadarnhâu y bygythion y mae y lleill yn gyhoeddi. A phan yn ei bryder mawr ac yn ing ei anobaith, y clywa o'r Gair ŵr fel yr apostol Paul yn dyweyd, "Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid," y mae llewyrch dwyfol yn tywynu ar ei ysbryd yntau hefyd; creda fod yr un Gwaredwr mawr yn abl i'w achub yntau, a bwria ei holl ofal arno Ef. Ac y mae yn cael tangnefedd. "Efe a wna yr ysturm yn dawel, a'i thonau a otegant." Y mae y pechadur gwrthnysig, balch, wedi ei orchfygu byth, a bellach fel plentyn wrth draed yr Iesu, y mae yn gorphwys yn ei gariad ac yn byw i'w wasanaethu. Cana yntau—

Nid oes ond f' Arglwydd mawr ei ddawn,

A leinw f' enaid bach yn llawn;

Ni allwn gynnwys mwy pe cawn;

Mae Ef yn ddigon mawr:

A digon, digon, digon yw

Ei hyfryd bresennoldeb gwiw;

Yn angen ceidw hyn fi'n fyw;

A boddllawn wyf yn awr.

Ac y mae concwest y Bibl ar bobloedd yn gwbl o'r un natur a'i or-

uchafiaeth ar bersonau. Y mae heddyw wledydd helaeth lle y bu ar un adeg y gwrthwynebiad cryfaf i'r pethau sydd gan y llyfr hwn i'w dyweyd, ond y mae ei awurdod heddyw yn oruchaf arnynt. Ac nid oes ond eisieu barnu y dyfodol wrth a aeth heibio, heb son am brophwydoliaethau hyderus a sicr y llyfr ei hunan, i gasglu fod amser yn dyfod pan fydd yr holl fyd yn ei goffeidio, a'r Person mawr y mae yn gyhoeddi yn Geidwad yn teyrnasu ar holl ddynolryw.

Ac yn wyneb hyn oll, a ydym i gredu mai llyfr dynol yn unig ydyw? Yn sicr fe fyddai hyny yn wyrth anfeidrol ryfeddach na'r tarddiad Dwyfol y mae y llyfr yn hōni iddo ei hunan!

Na, LLYFR DUW ydyw y Bibl; llyfr Duw ydyw! Gadewch i ni ei dderbyn felly, "nid fel gair dyn, eithr, fel y mae yn wir, yn air Duw." Mae ei fygythion yn sicr o fod yn bethau i'w hofni; DUW sydd yn eu llefaru. Mae yr iachawdwriaeth a gyhoedda yn rhwym o fod yn un ag y tâl i'r pechadur penaf hyderu ynddi; y mae wrth wneyd hyny yn ymafyd yn nerth DUW, ac felly yn cael ei ddwyn i'w heddwech, ac yn gorphwys yn dragywyddol yn ei gariad.

### TYSTIOLAETHAU.

YCHWANEGWN fel Attodiad at y Ddarlith uchod, yn ol ein haddewid yn y Nodiad ar tu dal. 105, y Tystiolaethau a ganlyn, y rhai a wnaed gan ddynion ag y dangosai eu bywyd a'u golygiadau nad oedd berygl i ormod o barch a chariad at y Bibl eu camarwain i feddwl yn rhy uchel am dano, er fod eu meddwl, pan yn edrych yn bwyllog arno, yn eu harwain yn anocheladwy i'r fath gasgliadau yn ei gylch. Gallesid yn hawdd ychwanegu llawer atynt. Y maent yn dangos fod anghredaeth, wedi'r cwbl, yn rhywbeth sydd yn rhyfeddol o afresymol.

SPINOZA, y Pantheist: Crist oedd deml Duw, oblegid ynddo ef y mae Duw yn fwyaf cyflawn wedi ei ddadguddio ei hun.

THOMAS CHUBB, y Deist Seisonig (1679—1748): Yn Nghrist y mae genym esiampl o ysbryd tawel a heddychol; o wyleidd-dra gweddus a sobrwydd; cyflawn, gonest, uniawn, a diffuant; ac, uwchlaw y cwbl, o dymher ac ymddygiad graslawn a charedig. Un na wnaeth gam na niwed i neb; yr hwn nad oedd twyll yn ei enau; yr hwn a äi oddiamgylch gan wneuthur daioni, nid yn unig trwy ei weinidogaeth, ond mewn iachau pob math o afiechyd ymhlith y bobl. Yr oedd ei fywyd yn ddarlun prydferth o'r natur ddynol yn ei phurdeb a'i symledd cynhenid, a dangosai ar unwaith y fath greaduriaid ardderchog a fyddai dynion pan dan ddylanwad a nerth yr Efengyl a bregethai efe iddynt.

DIDEROT, athronydd Ffrengig (1713—1784). Dywed Antistes Hess o Zurich, am un o'r cwmmiau prydawnol hyny o eiddo Baron d'Holbach, lle yr ymgynnullai anfyddwyr enwocaf y ganrif, fod yr ymddyddan wedi troi yn rhydd, ac yn y modd mwyaf difyrus, ynghylch yr afresymoldeb, yr ymfydrwydd, a'r pob math o anghysonderau a dybid yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Ond Diderot, yr hwn a gymerasai ran nid bechan yn yr ymddyddan, a'i dygodd yn sydyn i derfyniad, gyda y sylw canlynol:—

“Mae yn rhyfedd, foneddigion, mae yn rhyfedd; ni adwaen i neb, nac yn Ffrainc nac yn unman arall, a allai ysgrifenu a siarad gyda mwy o gelfyddyd a thalent. Er yr holl ddrwg a ddywedasom, ac yn ddihammeu gyda rheswm da, am y diawl yma o lyfr, yr wyf yn eich herio oll—bawb sydd yma—i barotoi ystori mor syml, ac ar yr un pryd mor arddunol a thyner, â'r ystori am ddyoddefaint a marwolaeth Iesu Grist; a gynnyrchu yr un effaith, a wna argraff mor gref ac mor gyffredinol, ac y bydd ei dylanwad yr un ar ol cynifer o ganrifoedd.”

Yr araeth annysgwyladwy hon, ebe yr hanesydd, a synodd yr holl wrandawyr, ac a ddilynydd gan ddystawrwydd.

ROUSSEAU, athronydd Ffrengig (1712—1778): Yr wyf yn addef i chwi, fod mawredd yr Ysgrythyrau yn fy nharo âg edmygedd, fel y mae purdeb yr Efengyl yn effeithio ar fy nghanol. Darllenwch weithiau ein hathronwyr, gyda'u holl rwyg o ymadroddiad; mor isel, mor ddirmygedig ydynt, o'u cymharu â'r Ysgrythyrau! A ydyw yn bosibl fod llyfr, sydd ar unwaith mor syml ac mor arddunol, yn unig yn waith dyn? A ydyw yn bosibl nad ydyw y Person sanctaidd y cynnywysa ei hanes, ei hunan yn ddim ond dyn? A ydym yn cael ei fod yn cymeryd tôn penboethyn neu sylfaenydd uchelgeisiol sect? Y fath feluser, y fath burdeb yn ei ymddygiad! Y fath brydfertwhch tyner yn ei addysgiadau! Y fath arddunedd yn ei eiriau! Y fath ddofn ddoethineb yn ei bregethau! Y fath bresennoldeb meddwl, y fath gddfer, y fath briodoldeb yn ei atebion! Mor fawr ei lywodraeth ar ei deimladau! Ple mae y dyn, ple yr athronydd, a allai fyw yn y fath fodd, a marw yn y fath fodd, heb wendid, a heb rodres? Pan y mae Plato yn disgrifio ei ōr cyfiawn dychymygod, wedi ei lwytho â holl gosbedigaethau euogrwydd, eto yn teilyngu gwobrwyon uchaf rhinwedd, y mae yn disgrifio yn fanwl gymeriad Iesu Grist: mae y tebygolrwydd mor darawiadol fel y darfu i'r holl Dadau Eglwysig ei ganfod. Y fath ragfarn, y fath ddallineb a raid ei fod, i gymharu mab Sophroniscus i fab Mair! Y fath anfeidrol anghyfarfaledd sydd rhyngddynt! Yr oedd Socrates, gan farw heb boen na gwaradwydd, yn hawdd yn cadw ei gymeriad hyd y diwedd; a phe na buasai y farwolaeth esmwyth yma wedi coroni ei fywyd, galleisid ammen a oedd Socrates, gyda'i holl ddoethineb, yn rhywbeth mwy na *sophist* yn unig. Fe ddywedir iddo ddyfeisio damcaniaeth moeseg. Yr oedd eraill, fodd bynag, o'r blaen wedi ei gosod mewn ymarferiad: nid oedd ganddo ef, gan hyn, ond dyweyd yr hyn oeddynt hwy wedi wneyd, a gosod eu hesiamplau hwy mewn rheolau. Yr oedd Aristides wedi bod yn gyfiawn cyn i Socrates ddeffinio cyfiawnder. Yr oedd Leonidas wedi rhoi ei fywyd dros ei wlad cyn i Socrates ddadgan fod gwladgarwch yn ddyledswydd. Yr oedd y Spartiaid yn bobl sobr cyn i Socrates argymhell sobrwydd. Cyn iddo hyd yn nod ddeffinio rhinwedd, yr oedd yn Ngroeg liaws o ddynion rhinweddol. Ond ymhle y gallai yr Iesu ddyysgu, ymhlith ei gydoeswyr, y moesoldeb pur ac arddunol o ba un y mae efe yn unig wedi rhoddi i ni y rheol a'r esiampl? Fe wnaed yn hysbys y ddoethineb uchaf yn nghanol y penboethni mwyaf dallbleidiol, ac fe ddarfu i symledd y rhinweddau mwyaf arwraidd wneyd anrhydedd i'r bobl waelaf ar y ddaear. Fe ymddengys marwolaeth Socrates, yn athronyddu yn dawel ymysg ei gyfeillion, y mwyaf dewisol a allai un ddymunio: y mae eiddo yr Iesu, yn trengu mewn ing, yn cael ei gamdrin, ei sarhâu, a'i gyhaddo gan genedl gyfan, y mwyaf dychrynydd a allai un ofni. Fe ddarfu i Socrates, yn wir, wrth dderbyn y cwpan gwenwyn fendithio y dienyddwr wylofus a'i hestynai iddo; ond fe ddarfu i'r Iesu yn nghanol ardeithiau o'r fath twyaf annyoddefol, weddio dros ei boenydwyr didrugaredd.

Iâ, os oedd bywyd a marwolaeth Socrates yn eiddo doethawr, y mae bywyd a marwolaeth Iesu yn eiddo Duw.

A dybiwn ni nad yw yr hanes efengylaidd yn ddim ond ffug? Yn wir, fy nghyfaill, nid yw yn dwyn dim o nodau ffug. I'r gwrthwyneb, nid ydyw

hanes Socrates, na feiddia neb ei hammeu, wedi ei chadarnhau yn gymaint & hanes Iesu Grist. Nid ydyw y fath dybiaeth, yn wir, ond yn symud yr anawsder heb ei droi ymaith: y mae yn fwy anaingyffredadwy fod nifer o bersonau yn cytuno i yagrifenu y fath hanes, na bod un wedi bod yn wrth-ddrych iddi. Yr oedd awduroon Iuddewig yn analluog o'r ymadroddiad ac yn ddyeithr i'r moesoldeb sydd yn yr Efengyl. Y mae nodau ei gwirionedd mor darawiadol ac anefelychadwy, fel y buasai y dyfeisydd yn gymeriad mwy rhyfeddol na'r arwr.

NAPOLEON BONAPARTE, with General Bertrand, yn St. Helena:—

Yr wyf yn adwaen dynion; ac yr wyf yn dyweyd i chwi nad dyn ydyw Iesu Grist. Y mae meddyliau arwynebol yn gweled tebygolrwydd rhwng Crist a sylfaenwyr ymherodraethau, a duwiau crefyddau eraill. Nid yw y tebygolrwydd hwnw yn bod. Y mae rhwng Cristionogaeth a phob crefyddau eraill y pellter o anfeidroldeb.

Ni dderbyniwyd Paganiaeth erioed fel gwirionedd gan ddoethion Groeg; gan Socrates, Pythagoras, Plato, Anaxagoras, na Pericles. Ar y llaw arall, y mae y dealltwriaethau mwyaf, er dyfodiad Cristionogaeth, wedi meddu ffydd, ffydd fywiol, ffydd ymarferol, yn nirgeledigaethau ac athrawiaethau yr Efengyl; nid yn unig Bossuet a Fenelon, y rhai oeddynt bregethwyr; ond Descartes a Newton, Leibnitz a Pascal, Corneille a Racine, Charlemagne a Louis XIV. . .

Y fath feistr, a'r fath air, a all beri y fath chwyldroad! Gyda'r fath awdurdod y mae Efe yn dysgu dynion i weddio! Y mae yn arosod ei grêd; ac nid oes neb, hyd yma, wedi bod yn alluog i'w wrthddywedyd: yn gyntaf, am fod yr Efengyl yn cynnwys y moesoldeb puraf; a hefyd am nad yw yr athrawiaeth a gynnwysa o dywyllwch ond dadganiad o wirionedd yr hyn a fodola lle na all un llygad weled, nac un rheswm dreiddio. Pwy yw yr ynyfytyn a ddywed "Nage" wrth y teithydd anturiaethus a edrydd ryfeddodau y banau rhewllyd y mae efe yn unig wedi meddu y gwroldeb o ymweled â hwynt? Crist ydyw y teithydd anturiaethus hwnw. Fe all un, yn ddiammeu, aros yn anghrediniol; ond ni all neb fentro dyweyd, "Nid ydyw felly."

Yr ydych yn siarad am Cesar, am Alexander; am eu buddugoliaethau, ac am y brwdfrydedd a gynneuent yn nghalonau eu milwyr; ond a ellwch chwi feddwl am ddyn marw yn ennill buddugoliaethau, gyda byddin ffyddlawn, a llwyr ymroddedig i'w goffadwriaeth? Mae fy myddinoedd i wedi fy anghofio hyd yn nod yn fyw, fel y darfu i'r fyddin Garthaginaidd anghofio Hannibal. Y fath ydyw ein gallu! Y mae un frwydr wedi ei cholli yn ein llethu, ac y mae adfyd yn chwala ein cyfeillion.

A ellwch chwi feddwl am Cesar fel ymherawdwr tragywyddol y senedd Rufeinig, ac, o ddyfnder ei feddgell, yn llywodraethu yr ymherodraeth, gan wylid dros helyntion Rhufain? Dyma ydyw hanes goresgyniad a choncwest y byd gan Gristionogaeth; dyma ydyw gallu Duw y Cristionogion; a dyma ydyw gwrth barhâus concwest y ffydd, a llywodraeth ei Eglwys. Mae cenedloedd yn myned heibio; y mae gorseddfeiniciau yn malurio; ond mae yr Eglwys yn aros. Beth, gan hyny, ydyw y gallu a ddiffynodd yr Eglwys hon, fel hyu yn cael ymosod arni gan donau cynddeiriog digofaint a gelyniaeth oesoedd? Pwy bia'r fraich yr hon, dros ddeunaw cant o flynyddoedd, a ddiffynodd yr Eglwys rhag cynifer o ystomydd y rhai a fygythient ei llyno?

Fe ddarfu i Alexander, Cesar, Charlemagne, a minnau sefydlu ymherodraethau. Ond ar beth y gosodasom greadigaethau ein hathrylith? Ar nerth. Y mae Iesu Grist yn unig wedi sylfaenu ei ymherodraeth ar gariad; a'r fynydd yma fe fyddai i filiynau o ddynion farw drosto.

Ymhellach, mewn cyhoeddi dirgeledigaethau y mae Crist mewn cydgord & Natur, yr hon sydd yn meddu dwfn ddirgelwch. O ble y daethum? i ble yr ydwyf yn myned? pwy ydwyf? Y mae bywyd dynol yn ddirgelwch yn ei darddiad, ei ffurfiad, a'i ddiwedd. Mewn dyn ac allan o ddyn, mewn Natur, y mae pobpeth yn ddirgelwch. Ac a allai un ddymuno i grefydd fod heb

ddirgelwch? Y mae creadigaeth a thynged y byd yn aphwys anmhlymiad-  
wy, fel hefyd y mae creadigaeth a thynged pob un. Nid yw Cristionogaeth  
o leiaf yn oegoi y cwstyfnau mawrion hyn; y mae yn eu cyfarfod yn hyf:  
y mae ei hathrawiaethau yn esboniad arnynt i bob un a gredo.

Y mae yr Efengyl yn meddu rhinwedd cuddiedig, effeithiolrwydd dirgelaidd,  
cynhesrwydd sydd yn treiddio i'r galon ac yn esmwytháu arni. Mae dyn yn  
cael, wrth fyfyrio arni, yr hyn a brofa wrth edrych ar y nefoedd. Nid llyfr  
ydyw yr Efengyl: y mae yn beth byw, gyda gweithrediad, gyda gallu, sydd yn  
goresgyn pobpeth sydd yn gwrthsefyll ei ledaeniad. Wele! y mae ar y bwrdd  
yma: y llyfr hwn, sydd uwchlaw pob un arall [yma. yr ymherawdwr yn  
barchedig a osodai ei law arno], nid wyf byth yn peidio ei ddarllen, a phob  
dydd gyda yr un hyfrydwch.

Ni cheir yn unlle y fath gyfres o ddrychfeddyliau prydf berth, y fath reolau  
moesol rhagorol, y rhai aânt heibio o'n blaen fel cadregan byddin nefol, ac  
a gynnyrchant yn ein henaid yr un teimladau ag a brofa dyn wrth edrych ar  
anfeidrol eangder y ffurfafen, sydd yn llachar ar noswaith o haf gan holl  
ddysgleirdeb y ser. Nid yn unig y mae ein meddwl yn cael ei lyncu; y mae  
yn cael ei lywodraethu: ac ni all yr enaid byth fyned ar gyfeiliorn gyda y  
llyfr hwn fel ei arweinydd. Unwaith wedi meistrolï ein hysbryd, y mae yr  
Efengyl ffyddlawn yn ein caru. Y mae hyd yn nod Duw yn gyfaill i ni, yn  
Dad, ac yn wirioneddol yn Dduw. Nid oes gan y fam fwy o ofal am y baban  
y mae yn faethu.

Y fath brawf o Ddwyfoldeb Crist! Gydag ymherodraeth mor hollol, nid  
oes ganddo ond un dyben yn unig,—derchafiad ysbrydol dynion, purdeb y  
gydwobod, undeb â'r hyn sydd wir, sancteiddiad yr enaid.

Llefara Crist, ac ar unwaith y mae cenedlaethau yn dyfod yn eiddo iddo  
trwy rwymanu agosach, tynach na rhai gwaed,—gyda'r undeb mwyaf cysegred-  
ig, mwyaf annatodol. Cynneua filam cariad sydd yn gorchfygu pob cariad  
arall. Ni ddarfu i sylfaenwyr pob crefyddau eraill erioed feddwl am y cariad  
dirgeledig yma, sydd yn hanfod Cristionogaeth. Ymhob ymdrech i ddwyn  
hyn oddiamgylch, sef i gael ei garu, y mae dyn yn teimlo yn ddwfn mor ddi-  
ymadferth ydyw. Fel mai gwyrrth fwyaf Crist yn ddiarnneu ydyw teyrnasiad  
cariad.

Mi lenwais i luoedd â'r fath ysbrydiaeth fel y buasant yn marw drosof. Na  
sto Duw i mi wneyd yn gymhariaeth rhwng brawdfrydd y milwr a chariad  
Cristionogol, y rhai ydynt mor annhebyg i'w gilydd ag ydyw eu hachos.

Ond, wedi'r cyfan, yr oedd fy mhresennoldeb i yn angenrheidiol: mellten-  
iad fy llygad, fy llais, gair oddiwrthyf, yna fe fyddai y tân cysegredig yn cael  
ei ennyn yn eu calonau. Yr wyf yn wir yn meddu cyfrinach y gallu cyfar-  
eddol hwn sydd yn codi yr enaid; ond nis gallwn o gwbl ei roddi i neb. Ni  
ddarfu i neb o'm cadfridogion erioed ei ddysgu oddiwrthyf. Ac nid oes genyf  
fodd i fytholi fy enw â chariad tuag ataf yn nghalonau dynion, nac i effeithio  
y pethau hyn heb foddion anianyddol.

Yn awr pan ydwyf yn St. Helena, yn awr pan ydwyf yn unig, wedi fy  
nghadwyne wrth y graig hon, pwy sydd yn ymladd ac yn ennill ymherodr-  
aethau drosof? Pwy ydyw gwŷr llys fy adfyd? Pwy a feddwl am danaf? Pwy  
wna ymdrech drosof yn Ewrop? Ple mae fy nghyfeillion? Iâ: dau neu dri,  
y rhai y mae eich ffyddlondeb yn anfarwoli, yr ydych chiwi yn cyfranogi o, ac  
yn cysuro, fy alltudiaeth. . .

Y fath ydyw tynged dynion! Felly yr ydoedd gyda Cesar ac Alexander.  
Yr ydwyf finnau hefyd wedi fy anghofio; ac y mae enw concwerwr ac ym-  
herawdwr yn destun ysgrif mewn coleg! Y mae ein gorcheinion yn dasgau a  
roddi gan athrawon i ysgolheigion, y rhai a eisteddant mewn barn arnom,  
gan ddyfarnu ini anghlod neu ganmoliaeth. A sylwch beth sydd yn fuan i  
ddyfod o honof: wedi fy lladd gan y llywodraeth Seisonig, byddaf farw cyn  
fy amser; a rhaid i fy nghorff marw, hefyd, ddychwelyd i'r pridd, i ddyfod  
yn ymborth i bryfed. Wele dynged, ac y mae gerllaw, yr hwn a alwai y byd

Napoleon Fawr! Y fath agendor rhwng fy nwfyn drueni i a thragywyddol deyrnasiad Crist, a bregethir, a gerir, a addolir, ac sydd yn ymestyn dros yr holl ddaear! Ai marw yw hyn? ai nid byw ydyw yn hytrach? Marwolaeth Crist—y mae yn farwolaeth Duw!

Dr. CHANNING, yr Undodwr Americanaidd (1780—1842):—

Fe ddarfu i'r Iesu yma fyw ymhlith dynion: gyda yr ymwybodolrwydd o fawrhydi annhraethadwy, fe unodd ostyngeddolrwydd, addfwynder, dynoldeb, a chydymdeimlad, na cheir eu bath mewn hanesiaeth ddynol. Yr wyf yn gofyn i chwi edrych ar yr undeb rhyfeddol hwn. Fel yr oedd uchafiaeth yr Iesu uwchlaw pawb o'i amgylch, felly yr oedd yr agosrwydd, y cariad brawdol, & pha rai y rhwymai ei hun wrthynt. Yr wyf fi yn dal fod hwn yn gymeriad cwbl uwchlaw syniad dynol. Y mae dychymygu ei fod yn gynnyrch twyll neu benboethni yn dangos gwallgofrwydd rhyfedd. Yr wyf fi yn edrych arno gyda pharchedigaeth nad yw ond ail i'r dwfn ofn & pha un yr ydwyf yn edrych i fyny at Dduw. Nid yw yn dwyn un nôd o ddyfeisiaid dynol. Yr ydoedd yn wirioneddol. Fe berthynai i, ac fe ddangosodd, anwyl Fab Duw. . . .

Yma yr wyf yn aros; ac yn wir, ni wn beth a ellid ychwanegu i fwyhau y rhyfeddod, y parchedigaeth, y cariad sydd yn ddyledus i'r Iesu. Pan feddylwyf am dano, nid yn unig yn feddiannol ar yr ymwybodolrwydd o fawrhydi digyfelyb a diderfyn, ond fel yn cydnabod natur gyffelyb mewn bodau dynol, ac yn byw a marw i'w codi i gyfranogiad o'i ddwyfol ogoniant; a phan welaf ef, gyda'r golygiadau yma, yn ei gysylltu ei hun â dynion trwy y rhwymau tyneraf, yn eu cofeidio âg ysbryd dynoliaeth, nad allai dim sarhâd, niwed, neu boen, am fynydd droi draw neu orchfygu,—fe'm llenwir â rhyfeddod yn gystal â pharchedigaeth a chariad. Yr ydwyf yn teimlo nad ydyw y cymeriad yma o ddyfeisiaid dynol; na chymerwyd ef i fyny trwy dwyll, na tharawyd ef allan gan benboethni; canys y mae yn anfeidrol uwchlaw eu cyrhaedd. Pan ydwyf yn ychwanegu y cymeriad yma o eiddo yr Iesu at broffion eraill crefydd, y mae yn rhoddi, i'r hyn o'r blaen a ymddangosai mor gryf, ychwanegiad newydd a dirfawr o gadernid: yr wyf yn teimlo fel pe nas gallwn fod yn cael fy nhwyllo. Rhaid fod yr Elenygylau yn wir: fe'u tynwyd o wreiddiol byw; y maent yn seiliedig ar sylwedd. Nid flug yw cymeriad yr Iesu: yr ydoedd efe yr hyn a broffesai ei fod, ac a dystiai ei ddilynwyr. Ac nid dyma'r cwbl. Nid yn unig yr ydoedd yr Iesu, ond y mae eto yn Fab Duw, ac yn Iachawdwr y byd. Y mae yn bôd yn awr: y mae wedi myned i'r nefoedd hono yr edrychai ymlaen bob amser ati ar y ddaear. Yno y mae yn byw ac yn teyrnasu. Gyda ffydd glir a thawel, yr ydwyf yn ei weled yn y sefyllfa hono o ogoniant; ac yr ydwyf yn hyderus ddysgwyl, cyn pen nemawr, ei weled wyneb yn wyneb. Nid oes genym, yn wir, yr un cyfaill absennol y byddwn mor sicr o'i gyfarfod. Gadewch i ni, gan hynny, fy nghyfeillion, trwy ddilyn ei rinweddau ac ufuddhau i'w air, ymbarotai i'w gyfarfod yn y trigfanasu pur hynny lle y cylchyna ei hun â rhai da a phur ein hiliogaeth, ac y cyfrana iddynt dros byth ei ysbryd, ei allu, a'i lawenydd ei hunan.

THEODORE PARKER, Undodwr Americanaidd arall (1810—1860):—

Yr athronwyr, y beirdd, y Rabbiniad,—cyfyd Efe uwchlaw iddynt oll. Eto nid oedd Nazareth yn Athen, lle yr anadlai athroniaeth yn yr awyr o'i hamgylch: nid oedd iddi na *Porch* na *Lyceum*; dim hyd yn nod ysgol y prophwydi. Mae Duw yn nghalon y gŵr isuanc hwn. . . .

Y galon gryfaf hono a giurodd erioed, wedi ei chynhyrfu gan Ysbryd Duw, fel y gweithiai yn ei fynwes! Y fath eiriau o gerydd, o gysur, o gynghor, o rybudd, o addewid, o obaith a dywalltai allan? geiriau a gynhyrfent yr enaid fel y mae gwllith yr haf yn galw i fyny y glaswellt llesg a gwywedig. Y fath ddwfn addysgiaeth yn ei ddiarhebion a'i bregethau! Y fath ddoethineb yn ei ddywediadau cartrefol, mor gyfoethog o fywyd Iuddewig! Y fath ddwfn ddwyfoldeb enaid yn ei weddiau, ei weithrediad, ei gydymdeimlad, ei ymos-tyngiad! . . .

Profweh ef fel y profwn athrawon eraill. Y msent hwy yn traethu eu gair; yn cael ychydig sydd yn dysgwyl am y dyddanwch, y rhai a dderbyniant y genadwri newydd, a ddilynant y dull newydd, ac yn fuan a fiant y tu hwnt i'w hathraw, er o feddyliu llai galluog nag efa. Felly y mae gynfa phob sylfaenydd ysgol o athroniaeth, pob sect mewn crefydd. Er yn ddyndia isel, yr ydym ni yn gweled yr hyn na welodd Socrates a Luther erioed. Ond y mae deunaw canrif wedi myned heibio er pan gododd llanw dynoliaeth mor uchel yn yr Iesu: pa ddyn, pa sect, pa eglwys, sydd wedi meistroli ei feddwl, amgyffred ei ddull, ac felly ei gymhwyso yn gyflawn at fywyd? Gadawer i'r byd ateb yn ei gri o ing. Y mae dynion wedi rhanu ei ddrillad yn eu plith, wedi bwrw coelbren am ei bais ddiwniad; ond yr ysbryd hwnw a lafuriodd mor wrol mewn byd o bechod a marwolaeth, a fu farw, a ddyoddefodd, ac a orchfygodd y byd,—a ydyw hwnw wedi ei gael, ei feddiannu, ei ddeall? Ie, a ydyw yn cael ymofyn am dano a'i argymhell gan un o'r eglwysy?

FRANCES POWER COBBE, boneddiges Seisonig, yn cydymdeimlo â golygiadau Parker:—

Un peth, fodd bynag, a allwn ddal gyda chryn sicrwydd, a hyny yw, fod yr holl athrawiaethau uchaf, y rheolau moesol puraf, y dadguddiedigaethau ysbrydol mwyaf dwfn, a gofnodir yn yr Efyngylau, yn eiddo Crist ei hunan. Rhaid fod ysgogydd y mudiad Cristionogol yn enaid mwyaf ei amseroedd, fel yr ydoedd i amser oll. Os na lefarodd Efe y geiriau hyny o ddoethineb, pwy a allasai eu hysgrifenu iddo? "Fe ofynasai Iesu i fflugio Iesu" (Theodore Parker). . .

Yr unig olygiad a ymddengys yn gyfaddas i'n syniad am gymeriad Crist ydyw yr un a'i hystyria fel adgenhedlydd mawr dynoliaeth. Yr oedd ei ddyfodiad, i fywyd dynoliaeth, yr hyn ydyw adenedigaeth i fywyd y person unigol. Nid penderfyniad ydyw hwn a dynyr yn betrusgar o fywgraffiadau ammheus, ond casgliad eang amlwg o hanesiaeth gyffredinol ein hiliogaeth. Gallwn ddaedlu am yr holl fanylion; ond mae y ffrwyth ardderchog uwchlaw beirniadaeth. Mae y byd wedi cyfnewid, ac y mae y cyfnewidiad hwnw yn hanesyddol i'w olrhain i Grist. Rhaid fod yr anrhydedd, ynte, a hawlia Crist oddiarnom, yn ol ein golygiad am werth y fath adenedigaeth. Nid diwygiwr moesol yn unig ydyw efe, yn dysgu moeseg bur; nid yn unig diwygiwr crefyddol, yn clirio ymraith hen gyfeiliornadau duwinyddol, ac yn dysgu drychfeddyliu uwch am Dduw. Yr ydoedd y pethau hyn; ond fe allasai, am ddim a allwn ni ddyweyd, fod y naill a'r llall mor gyflawn, ac eto fethu bod yr hyn y mae efe mewn gwirionedd wedi bod i'n hiliogaeth. Gallasai fod wedi dysgu i'r byd well moeseg a gwell duwinyddiaeth, ac eto fethu gosod ynddi y bywyd newydd hwnw sydd byth er hyny wedi llifo trwy ei rhedweliau a threiddio i'w gwythi lleiaf. Mae yr hyn a wnaeth Crist mewn gwirionedd tu hwnt i deyrnas y dealltwriaeth a'i dduwinyddiaethau; ie, tu hwnt i deyrnas cydwybod, a'i chydabyddiaeth o dyledswydd. Y mae ei waith ef wedi bod yn nheyrnas y galon. Y mae efe wedi trawsffurfio y ddeddf i'r efyngyl. Y mae wedi cyfnewid caethiwed yr alltud i ryddid plant Duw. Y mae wedi gogoneddu rhinwedd i sancteiddrwydd, crefydd i dduwioldeb, a dyledswydd i gariad. . .

Pan ddaeth cyflawnder yr amser, ac yr ydoedd credöan mabandod y byd wedi gwiago allan, ac yr ydoedd y cwestiwn anesmwyth ar bob gwefus, "Pwy a ddengys i ni ddaioni," pan oedd holl galon dynoliaeth yn glaf ar ei phechod, ac wedi blino ar ei drygioni,—yna fe roddes Duw i un dyn, er mwyn dynolryw yn gyffredinol, y dasg fendigaid hono a ddyry i lawer er mwyn ychydig. Crist, brawd hynaf y teulu dynol, ydoedd cynnorthwy ac (yn yr ystyr athronyddol uchaf) Gwaredwr dynoliaeth.

JOHN STUART MILL, yr athronydd Seisonig (1806—1873):—

Uwchlaw y cwbl, mae y rhan fwyaf gwerthfawr o'r effaith ar gymeriad y



mae Cristionogaeth wedi gynnrychu, sef dal i fyny Berson Dwyfol yn safon rhagoriaeth ac yn gynllun i'w efelychu, at wasanaeth hyd yn nod anghrediniwr hollol, ac ni ellir byth ei gollu i ddynoliaeth. Oblegid Crist, yn hytrach na Duw, y mae Cristionogaeth wedi ddal allan i gredinwyr fel cynllun perffeithrwydd i ddynoliaeth. Y Duw ymgnawdoledig, yn fwy na Duw yr Iuddewon neu natur, yr hwn wedi ei ddyrchafu mewn drychfeddwl sydd wedi cymeryd gafael mor fawr ac mor llesol yn meddwl y dyddiau hyn. A pha beth bynag arall a gymerir ymaith oddiwrthym gan feirniadaeth resymolaidd, y mae Crist eto wedi ei adael; yn sefyll ar ei ben ei hun, nid yn fwy annhebyg i'w holl ragflasnwyr na'i holl ganlynwyr, hyd yn nod y rhai a gafodd y fantais uniongyrehol o'i addysgiaeth bersonol. Nid yw o un dyben dyweyd nad ydyw Crist fel y mae yn cael ei arddangos yn yr Efengylau yn hanesyddol, ac na wyddom pa faint o'r hyn sydd ragonol a gafodd ei ychwanegu gan draddodiad ei ganlynwyr. Y mae traddodiad canlynwyr yn ddigon i roddi i fewn unrhyw nifer o ryfeddodau, a gallai fod wedi rhoddi i fewn yr holl wyrthiau yr ystyrir ei fod ef wedi eu cyflawni. Ond pwy ymysg ei ddysgyblion neu ymysg eu proselytiaid oedd yn alluog i ddyfeisio y dywediadau a briodolir i'r Iesu, neu ddychymygu y bywyd a'r cymeriad a ddadguddir yn yr Etengylau? Yn sicr nid pysgodwyr Galilea; ac mor sicr nid St. Paul, cymeriad a theithi yr hwn oeddynt o fath hollol wahanol; llawer llai yr ysgrifenydd Cristionogol cyntaf, ymha rai nid oes dim yn fwy amlwg nag fod y da ag oedd ynddynt oll wedi ei dderbyn, fel y proffesent bob amser ei fod wedi ei dderbyn, o ffynnonell uwch.

ERNEST RENAN, yr athronydd Ffrengig, awdwr y *Vie de Jesus*, &c. :—

Nid all yr Iesu berthynu yn unig i'r rhai a'u galwant eu hunain ei ddysgyblion. Y mae efe yn anrhydedd cyffredin pawb sydd yn meddu calon ddynol. Y mae ei ogoniant ef yn gynnwysedig nid mewn cael ei alltudio o hanesiaeth: yr ydym yn rhoddi iddo ef wasanaeth mwy gwirioneddol trwy ddangos fod hanesiaeth oll yn anamgyffredadwy hebbdo. . . .

Y pryd amgylchiad yn hanes y byd ydyw y chwyldroad trwy ba un y darfu i'r rhanau ardderchocaf o ddynoliaeth fyned ymaith oddiwrth yr hen grefyddau, cynnwysedig dan yr enw penagored Paganiaeth, at grefydd seiliedig ar yr undod dwyfol, y Drindod, ac ymgnawdoliaid Mab Duw. Fe ofynnodd y truedigaeth yma yn agos i fil o flynyddoedd i'w ddwyn oddiamgylch. Fe gymerth y grefydd newydd o leiaf dri chant o flynyddoedd yn ei ffurfiad yn unig. Ond dechreuad y chwyldroad a pha un y mae a fynom oedd amgylchiad a gymerodd le yn nheyrnasiad Augustus a Tiberius. Y pryd hyny yr oedd yn byw berson uwchraddol, yr hwn, trwy ei weithrediad hyf, a thrwy y cariad a gynnrychodd, a greodd ddyben, ac a osododd i lawr gychwynfan tynged ddyfodol dynoliaeth. . . .

Fe ddarfu i'r ymysgfa yma o weledigaethau a breuddwydion [Iuddewig Fessiaidd], y newidiad yma o obeithion a siomedigaethau, yr ymestyniadau yma oeddent o hyd yn cael eu sathru i lawr gan ffeithiau adgas, o'r diwedd gael ei deonglydd yn y dyn anghymharol i ba un y mae cydwbybod pawb wedi dyfarnu y teitl o Fab Duw, ac yn gyfiawn; gan ei fod ef wedi peri i grefydd gymeryd cam ymlaen, yn anghymharol fwy nag un arall yn y gorphenol, ac, mae yn debygol, na'r un sydd eto i ddyfod. . . .

Yr oedd geiriau yr Iesu yn llewyrch mewn nos dywell: y mae wedi cymeryd deunaw cant o flynyddoedd i lygaid dynoliaeth (beth a ddywedaf i'r ran fechan iawn o ddynoliaeth) i ddyagu ei oddef. Ond fe ddaw y llewyrch yn gyfiawn ddydd; ac wedi myned trwy holl gylchoedd cyfeiliornad, fe ddychwal dynoliaeth at y geiriau hyn fel at ddadganiad anfarwol ei ffydd a'i gobeithion.

## GEMAU O "IN MEMORIAM" TENNYSON.

ER mwyn rhai o'n darllenwyr uniaith, fe allai y dylem roddi gair o eglurhâd ar y llyfr a elwir *In Memoriam*, yr hwn sydd enw Lladin, yn arwyddo *Er Coffaduriaeth*. Yr awdwr ydyw y Bardd brenhinol (*Poet-laureate*)—TENNYSON, yr hwn yw un o brif-feirdd, os nad prif-fardd, yr oes neu y ganrif bresennol. Galargan nodedig yw y llyfr am ARTHUR HENRY HALLAM, mab hynaf HENRY HALLAM, yr hanesydd athronyddol a'r beirniad enwog. Yr oedd y gŵr ieuanc hwn yn un tra hynod o ran ei alluoedd meddyliol cryfion a dysglaer, ei gyrhaeddiadau eang mewn dysgeidiaeth, ac uwchlaw y cwbl, ei gymeriad crefyddol, yr hwn nas gwelwyd ond yn anfynych iawn ei gyffelyb mewn un mor ieuanc. Yr oedd ei feddwl er yn blentyn yn hynod o glir, ei allu i gyrhaedd gwybodaeth yn anghyffredin, tra yr oedd ei dymher o'r fath fwyaf caruaid; a chyda'r cwbl, yr oedd ei ymlyniad yn ddiysgog wrth yr hyn a ynziai ef oedd yn iawn ac yn weddus. Derbyniodd ei addysg yn benaf yn Eton a Chaergrawnt; ac wedi graddio yn y brifysgol, ymbarotoai at y swydd o far-gyfreithiwr. Gwanaidd oedd ei iechyd yn gyffredin: a phan ar daith gyda'i dad yn yr Almaen, wedi cyffyrddiad ysgafn o glefyd, bu farw yn ddisymwth, er galar a siomedigaeth dirfawr i'w deulu a chylch eang o gyfeillion, y rhai a ddysgwylient bethau mawr oddiwrtho. Ganwyd ef ar y laf o Chwefror, 1811, yn Wimpole Street, Llundain, yr hon a elwir yn yr *In Memoriam* (Odl VII.)—

The long unlovely street.

Rhif y tŷ oedd 67; ac mewn cyfeiriad at hyn dywedai yn chwareus wrth ei gyfeillion: "You know you will always find us at sixes and sevens." Bu farw yn Vienna, ar y 15fed o Fedi, 1833,—felly cyn bod yn dair ar hugain oed:

My blood an even tenor kept,  
Till on mine ear this message falls,  
That in Vienna's fatal walls  
God's finger touch'd him, and he slept.

*In Memoriam*: LXXXV.

Dygydd ei weddillion i Loegr, a chladdwyd hwynt ar y 3ydd o Ionawr, 1834, yn nghanghell Eglwys Clevedon, yn Ngwlad yr Haf (yr hon a berthynai i'w daid o ochr ei fam, Syr Abraham Elton)—lle neillduedig, ar fryn unig uwchlaw y *Bristol Channel*. Cyhoeddwyd ei ysgrifeniadau, ynghyd a Chofiant byr, gan ei enwog dad—yr hwn sydd yn goffadwriaeth hynod o gariad a galar tad—o dan y teitl: *The Remains, in Verse and Prose, of Arthur Henry Hallam*, 1834: privately printed." Dyfynir

y Cofiant yn llawn gan Dr. John Brown, mewn erthygl a ymddangosodd gyntaf yn y *North British Review*, ac a gyhoeddwyd wedi hyny ganddo yn ei lyfr *Horæ Subsecivæ*.

Cyfaill mynwesol Tennyson oedd Hallam. Yr oeddynt yn gydfrydwyr am bedair blynedd (*In Memoriam*: XXII.) Yr oedd eu heneidiau wedi ymglymu am eu gilydd fel yr eiddo Dafydd a Jonathan. Galargan y bardd am ei gyfaill—

That friend of mine who lives in God (cxxxI).—

yw y llyfr rhyfeddol hwn, yn yr hwn, fel y dywed Dr. Brown, "y gorwedd yn gysegredig gymaint o'r serch, y farddoniaeth, yr athroniaeth, a'r dduwioldeb ddyfnaf." Dywedir y bu yr awdwr am bymtheng mlynedd yn ei gyfansoddi a'i berffeithio. Edrycha rhai beirniaid arno fel prif waith y prif fardd sydd yn awr yn fyw. A dywed Dr. Brown "nas gŵyr efe am ddim yn yr oll o lenyddiaeth i'w gymharu â'r *In Memoriam*, ar ol yr amser y cyfansoddodd Dafydd ei alarnad am Jonathan."\*

Heb ychwaneg o ragymadrodd, ac heb ddyweyd dim am yr anhawserau neillduol a berthyn i gyfieithu y gwaith hwn, y rhai ydynt yn wybyddus i bawb sydd wedi astudio y llyfr ac yn gyfarwydd â barddoniaeth,—gwnawn y goreu a allom mewn cyflwyno detholion o hono mewn diwyg Gymreig.

#### ODL V.

*Geiriau yn annigonol, ac eto yn wasanaethgar, fel mynegiad o alar.*

I sometimes hold it half a sin  
To put in words the grief I feel;  
For words, like Nature, half reveal  
And half conceal the Soul within.

But, for the unquiet heart and brain,  
A use in measured language lies;  
The sad mechanic exercise,  
Like dull narcotics, numbing pain.

In words, like weeds, I'll wrap me o'er,  
Like coarsest clothes against the cold;  
But that large grief which these enfold  
Is given in outline and no more.

Fel hanner pechod weithiau bydd  
Im' roi mewn geiriau 'm galar maith;  
Fel Natur, darn-amlyga iaith  
A darn-ddirgela 'r Enaid cudd.

Ond lles i'r pen a'r galon friw,  
Mewn mesuredig iaith y sydd;  
Yr ymarferiad ffurfiol prudd  
Fel diod gwag, poen-leddfoll yw.

Rhof eiriau 'n orchudd, fel gwieg ddu,  
Fel garwaf ddillad rhag hin oer;  
Ond amlinelliaid 'n unig ro'r  
O'r galar mawr o'u mewn y sy'.

#### VI.

*Cysurwyr Gofidus.*

One writes, that "Other friends remain,"  
That "Loss is common to the race"—  
And common is the commonplace,  
And vacant chaff well meant for grain.

That loss is common would not make  
My own less bitter, rather more:  
Too common! Never morning wore  
To evening, but some heart did break.

D'wed un: "Cyfeillion eraill gawn,"  
A "Cholli yw rhan holl ddynol ryw"—  
Cyffredin-iaith cyffredin yw,  
Gwag tis o fwiad da am rawn.

Fod colli 'n fynych ffawd ni wnai  
F' un I 'n llai chwerv, 'n hytrach mwy:  
Rhy fynych! Nid aeth diwrnod drwy,  
Nad rhywun calon-doriad gai.

\* *Horæ Subsecivæ*: p. 299.

*Dychymyga ferch ieuanc, a'i darpar-ŵr yn cael ei ladd ar fin y briodas.*

O what to her shall be the end ?  
And what to me remains of good ?  
To her, perpetual maidenhood,  
And unto me no second friend.

O beth i hon yn ddiwedd sydd ?  
A pheth i mi arhódd o dda ?  
I hon, gwryfydod a barhâ,  
I mi all gyfaill mwy ni bydd.

## XXIV.

*Dedwyddoch goreu y ddaear yn amherffaith: brychau ar yr Haul.*

And was the day of my delight  
As pure and perfect as I say ?  
The very source and fount of Day  
Is dash'd with wandering isles of night.

Ac a oedd dydd hyfryta' f oes  
Mor bur a pherffaith oll a hyn ?  
Brith yw ffynonell Dydd ei hun  
Gan ryw ynysocedd pell o nos.

\* \* \*

## XXVII.

*Cael er colli yn well na bod heb gael.*

I envy not in any moods  
The captive void of noble rage,  
The linnet born within the cage,  
That never knew the summer woods :

Ond cenfigenu byth ni wnaif  
Wrth gaeth f'ai 'n wag o uchel nwyd,  
Neu 'r llinos aned yn y clwyd,  
Na welsai 'rioed goedwigoedd haf :

I envy not the beast that takes  
His license in the field of time,  
Unfetter'd by the sense of crime,  
To whom a conscience never wakes ;

Nac wrth y bwystfil gan ymdroi,  
Ei ryddid yn maes amser gâi,  
Nas gall, i'w attal, synio bai,  
Heb byth gydwybod yn deffroi ;

Nor, what may count itself as blest,  
The heart that never plighted troth  
But stagnates in the weeds of sloth ;  
Nor any want-begotten rest.

Neu, un all dybio mai gwell fydd,  
Y galon sydd heb rwymyn serch  
Ond geula yn chwÿn diogi erch ;  
Na dim llonyddwch *diffyg* rÿdd.

I hold it true, whate'er befall ;  
I feel it, when I sorrow most ;  
'Tis better to have loved and lost  
Than never to have loved at all.

'Rwy 'n dal, beth bynag ddelo doed ;  
'Rwy 'n teimlo, pan yn fwyaf prudd ;  
Bod wedi caru a cholli sydd  
Yn well na bod heb garu erioed.

## LIV.

*Rhagluniaeth yn tymu da o bob drwg.*

Oh yet we trust that somehow good  
Will be the final goal of ill,  
To pangs of nature, sins of will,  
Defects of doubt, and taints of blood ;

O ! credwn eto yn ddi-wâd  
Mai da o ddrwg ryw fodd a gwyd,  
I ingoedd natur, beiau nwyd,  
Diffygion anghrêd, llwgr gwaed ;

That nothing walks with aimless feet ;  
That not one life shall be destroy'd,  
Or cast as rubbish to the void,  
When God hath made the pile complete.

Na throedia dim heb nod is nen ;  
Na chaiff un bywyd dori ei hynt,  
Na'i dafu 'n sbwrial gyda'r gwynt,  
Pan fydd adeilad Duw ar ben.

That not a worm is cloven in vain ;  
That not a moth with vain desire  
Is shrivel'd in a fruitless fire,  
Or but subserves another's gain.

Na holltir pryfyn yn ddfifudd ;  
Na chaiff un gwŷf âg ofer fryd  
Mewn diwerth dân ei ysu 'nghyd,  
Neu mai lles arall 'n unig fydd.

Behold, we know not any thing  
I can but trust that good shall fall  
At last—far off—at last, to all,  
And every winter change to spring.

So runs my dream: but what am I?  
An infant crying in the night:  
An infant crying for the light:  
And with no language but a cry.

O wele, ni nis gwyddom ddim,  
'D oes geny' ond credu mai da ddaw  
I'r oll—o'r diwedd—ymhell draw,  
Y try pob gaua' 'n wanwyn im'.

Fy mreuddwyd ro'is: ond beth wyf fi?  
Rhyw faban grïa mewn nos wyf:  
Rhyw faban grïa am oleu wyf:  
Heb un iaith genyf fi ond cri.

## LV.

*Natur i'w darllen yn ngoleu fydd.*

The wish that of the living whole  
No life may fail beyond the grave,  
Derives it not from what we have  
The likest God within the soul?

Are God and Nature then at strife,  
That Nature lends such evil dreams?  
So careful of the type she seems,  
So careless of the single life;

That I, considering everywhere,  
Her secret meaning in her deeds,  
And finding that of fifty seeds  
She often brings but one to bear.

I falter where I firmly trod,  
And falling with my weight of cares  
Upon the great world's altar-stairs  
That slope thro' darkness up to God,

I stretch lame hands of faith and grope,  
And gather dust and chaff, and call  
To what I feel is Lord of all,  
And faintly trust the larger hope.

Dymuno, o'r cyfanswm byw,  
Na phaid un bywyd hwnt i'r bedd,  
B'le tardd—ond o'r hyn enaid fedd  
Debycaf oll o'i fewn i Dduw?

Yw Duw a Natur 'n anghytân,  
Pan rydd hi 'r fath freuddwydion drwg?  
Fath ofal am y dosbarth ddwg,  
Mor ddiotal eto am fywyd un;

Pan gaf, wrth chwilio yma a thraw,  
Trwy ei holl waith, ei hystyr cŵdd,  
Tra'r hadan weithiau 'n bum' deg fydd,  
Mai dim ond un i ffrwyth a ddaw.

Fy nhroediad gynt oedd gryf, gwan yw,  
Fan syrthio â'm pryderus bŵn  
Ar allor-risiau 'r byd mawr hwn  
A ddring trwy d'wyllwch fry at Dduw,

Rhoi dwylaw cloff o ffydd yr wy'  
I deimlo—llwch ac ŷs a gaf,  
Ond galw ar Arglwydd pawb a waaf,  
A chredu 'n wan y gobaith mwy.

## LX.

*Y bardd ar y ddacar yn caru ei gyfaill yn y Nef, yn debyg i ferch dlawd wedi rhoddi ei serch ar foneddwr.*

He past; a soul of nobler tone:  
My spirit loved and loves him yet,  
Like some poor girl whose heart is set  
On one whose rank exceeds her own.

He mixing with his proper sphere,  
She finds the baseness of her lot,  
Half jealous of she knows not what,  
And envying all that meet him there.

The little village looks forlorn;  
She sighs amid her narrow days,  
Moving about the household ways,  
In that dark house where she was born.

The foolish neighbours come and go,  
And tease her till the day draws by:  
At night she weeps, "How vain am I!  
How should he love a thing so low!"

Ef aeth; oedd enaid o uwch bri:  
Fe'i carodd f'ysbryd—oâr o hyd,  
Fel geneth dlawd a roisai 'i bryd  
Ar un o ddosbarth uwch na hi.

Efe 'n troi 'n ei briodol le,  
Hi wêl mor isel yw ei rhan,  
Yn ddarn-eiddigus nas gwy'r pa'm,  
Gwynfyda bawb 'fai gydag e'.

Y dreflan fach mae 'n wel'd heb fri;  
Trwy 'i dyddian cul och'neidio wna,  
Trwy waith y teulu 'n ddystaw â,  
'N y tywyll dŷ lle ganed hi.

Ei edliw trwy y dydd mae 'n gael,  
Gan ffol gym'dogion mewn gwag nwyf:  
Y nos hi wyla: "Mor ffol wyf!  
Sut gall ef garu peth mor wael!"

## LXI.

*Cymhwysiad o'r uchod.*

If, in thy second state sublime,  
Thy ransom'd reason change replies  
With all the circle of the wise,  
The perfect flower of human time ;

And if thou cast thine eyes below,  
How dimly character'd and slight,  
How dwarf'd a growth of cold and night,  
How blanch'd with darkness must I grow !

Yet turn thee to the doubtful shore,  
Where thy first form was made a man ;  
I loved thee, Spirit, and love, nor can  
The soul of Shakespeare love thee more.

Oa, yn dy ail arddunol lun,  
Dy reswm fry ymbyacio wna  
A holl gylch mawr y doeth a'r da,  
Blodenad perffaith oesoedd dyn ;

Ac os rhoi trem i lawr wnei di,  
Mor lwydaidd, eiddil—ffurf a moes,  
Mor fvechan—tyfiant oerni a nos,  
Mor lwyd gan d'wyllwch gweli fi !

Ond tro i'r tir aneglur pell,  
Lle 'th gyntaf ffurf a wnaed yn ddyd,  
Dy garu wnes, ac wnaif hyd hyn,  
'D all enaid Shakespeare 'th garu yn well.

## LXIV.

*Efe a'i gyfaill yn debyg i ddau fachgen o ddechreuad isel—un wedi ryrhaedd sefyllfa uchel, a'r llall yn parhau wrth ei ddiwrnod gwaith yn ei hen fro.*

Dost thou look back on what hath been  
As some divinely gifted man,  
Whose life in low estate began  
And on a simple village green ;

Who breaks his birth's invidious bar,  
And grasps the skirts of happy chance,  
And breasts the blows of circumstance,  
And grapples with his evil star ;

Who makes by force his merit known  
And lives to clutch the golden keys,  
To mould a mighty state's decrees,  
And shape the whisper of the throne ;

And moving up from high to higher,  
Becomes on Fortune's crowning slope  
The pillar of a people's hope,  
The centre of a world's desire ;

Yet feels, as in a pensive dream,  
When all his active powers are still,  
A distant dearness in the hill,  
A secret sweetness in the stream,

The limit of his narrower fate,  
While yet beside its vocal springs  
He play'd at counsellors and kings,  
With one that was his earliest mate ;

Who ploughs with pain his native lea  
And reaps the labour of his hands,  
Or in the furrow musing stands ;  
' Does my old friend remember me ?'

A fyddi 'u edrych weithiau 'u ol,  
Fel dyn o ddoniau dwyfol ryw,  
Mewn isel radd ddechreuodd fyw  
Ac ar ryw wledig dreffan ddôl ;

Dyr eiddig far ei haniad lawd,  
A gipia odreu cyfle da,  
Wynebu ergydion tynged wna,  
Ymdrecha â'i aflwyddiannus ffawd ;

Fyn dynu ei werth i olen dydd,  
'R allweddau aur i'w afael ga',  
A llunio deddfau teyrnas wna,  
A ffurf i si yr orsedd rŷdd ;

O uchel ddring i uwch o hyd,  
Ei droed ar uchaf Llwyddiant rŷdd,  
Yn golofn gobaith cenedl bydd,  
Canolbwynt i ddymuniad byd ;

Ond deimla, fel mewn breuddwyd prudd,  
Pan o'i holl waith ei feddwl dŷn,  
Ryw bell anwydeh yn y bryn,  
Swyn dirgel yn yr afon sydd,

Oedd derfyn ei gul foren hynt,  
Pan wrth ei glânau lawer awr  
Bu 'n chwareu brenin a gwŷr mawr,  
Ag un oedd iddo 'n gyntaf frynd ;

'R hwn yno 'n blin aredig sy'  
A meda o'i lafur hyd yn hyn,  
Nen saif 'n y cwys mewn myfyr syn ;  
'A gofia fy hen gyfaill fi ?'

## LXXXIV.

*Dychymyga pa fath a fuasai gyrfa ei gyfaill, pe caasai fyro.*

- When I contemplate all alone  
The life that had been thine below,  
And fix my thoughts on all the glow  
To which thy crescent would have grown; I'r hwn tyfasai 'th foreu lun;
- I see thee sitting crown'd with good,  
A central warmth diffusing bliss  
In glance and smile, and clasp and kiss,  
On all the branches of thy blood;
- Thy blood, my friend, and partly mine;  
For now the day was drawing on,  
When thou should'st link thy life with one  
Of mine own house, and boys of thine
- Had babbled "Uncle" on my knee;  
But that remorseless iron hour  
Made cypress of her orange flower,  
Despair of hope, and earth of thee.
- I seem to meet their least desire,  
To clasp their cheeks, and call them mine,  
I see their unborn faces shine  
Beside the never-lighted fire.
- I see myself an honoured guest,  
Thy partner in the flowery walk  
Of letters, genial table-talk,  
Of deep dispute, and graceful jest;
- While now thy prosperous labour fills  
The lips of men with honest praise,  
And sun by sun thy happy days  
Descend below the golden hills.
- With promise of a morn as fair;  
And all the train of bounteous hours  
Conduct by paths of growing powers,  
To reverence and the silver hair;
- Till slowly worn her earthly robe,  
Her lavish mission richly wrought,  
Leaving great legacies of thought,  
The spirit should fail from off the globe.
- What time mine own might also flee,  
As link'd with thine in love and fate,  
And, hovering o'er the dolorous strait  
To the other shore, involved in thee.
- Arrive at last the blessed goal,  
And He that died in Holy Land  
Would reach us out the shining hand,  
And take us as a single soul.
- Tra 'n syn ddych'mygu wrth fy hun  
Pa fath a fuasai 'th fywyd di,  
A syllu ar y dysglaer fri  
I'r hwn tyfasai 'th foreu lun;
- Ar sedd d'un goron doniau fil,  
Canolbwynt gwres yn gwasgar rhad  
Mewn trem a gwên, a chusan fad,  
Dy weled 'r wy'—'n cofeiddio 'th hil;
- Dy hil, mewn rhan, faent eiddof fi;  
Can's 'n awr y dydd oedd yn nesâu,  
It' uno 'th fywyd i barhâu  
Ag un o'm tŷ, a'th fechgyn di
- Waeddasant "Ewyrth" \* arnaf fi;  
Ond yr awr haiarn greulawn ddaeth,  
O'i phriodas-flodau ywen wnaeth, [di.  
Yn Nos gwnaeth Ddydd, yn bridd gwnaeth
- Dych'mygaf gwrdd â'u ceisiau mân,  
Gan dd'weyd "Fynhlant" mewn serchus  
Gwel'd dianedig ruddiau 'r wyf [nwyf,  
O gylich di-gynneuedig dân.
- Ymwelydd wyf â'th anedd glyd  
Mewn parch : â thi cyd-rodio gawn  
Flodeuog lwybrau dyg a dawn,  
Mewn dadl, ymgom, siriol fryd;
- Tra'th lwyddfawr lafur 'n awr a gair  
Yn ngenan pawb yn deilwng glod,  
A'r dyddiau dedwydd rod 'n ol rhod  
Ddiagnant is y brynian aur.
- Ac addaw boreu mor deg wnant;  
A'r orian tirion wrth amllhân  
Hyd ffyrdd galluoedd yn cryrhâu,  
I barch a'r gwallt arianaidd ânt;
- Nes araf dreulio 'i wisg o gnawd,  
A gado 'i waith mewn gwyich gwblhâl,  
A meddwl yn oludog 'stad,  
Yr ysbryd âi o'r bydol rawd.
- 'R un pryd, ysgatfydd, f' ysbryd I,  
Fel un â thi mewn ffawd a serch,  
Gan hofran uwch y culfor erch  
Ehedai droedd, ynot ti.
- O'r diwedd cael y porthladd eun,  
A'r Hwn fu farw 'n Nghanaan draw  
Ro'i allan in' y ddysglaer law,  
I'n dwyn—ddau enaid—megys un.

\* Yr oedd Hallam ar fin myned f'w briodi â chwaer y bardd.

What reed was that on which I leant !  
 Ah, backward fancy, wherefore wake  
 The old bitterness again, and break  
 The low beginnings of content.

Pa gorsen oedd rhoi's arni 'm pwys !  
 Ah ! ôl-ddychymyg, pa'm deffroi  
 Yr hen loes chwerau, gan ddatroi  
 Gwan egin ymdaweliad dwys.

## LXXXV.

*Ei dderbynïad yn y Nefoedd.*

The great Intelligences fair  
 That range above our mortal state,  
 In circle round the blessed gate,  
 Received and gave him welcome there ;

Y bodau mawr cerubaidd cu  
 Sy'n troi goruwch ein marwol stâd,  
 Yn gylch am ddedwydd borth y wlad,  
 Roent le a chroesaw iddo fry ;

And led him thro' the blissful climes,  
 And showed him in the fountain fresh  
 All knowledge that the sons of flesh  
 Shall gather in the cycled times.

Aent âg ef trwy 'r mwyn hinon clir,  
 Gan ddangos yn y ffynnon fyw  
 Yr oll o ddysg all dynol ryw  
 Ei gasglu trwy yr oesoedd hir.

## XCIV.

*Nid yw ysbrydoedd y meirio yn dal cymunedeb ond âg enaid mewn tawelwch.*

How pure at heart and sound in head,  
 With what divine affections bold  
 Should be the man whose thought would  
 hold  
 An hour's communion with the dead.

Fath galon bur a meddwl iach,  
 Y fath serchiadau dwyfol gryf  
 Raid fod i'r dyn âg enaid hyf  
 Gymuna â'r meirw enyd fach.

In vain shalt thou, or any, call  
 The spirits from their golden day,  
 Except, like them, thou too canst say  
 My spirit is at peace with all.

Y gallu i alw, neb ni fedd,  
 R ysbrydion lawr o'u heuraidd ddydd,  
 Heb fedru d'weyd, fel hwy, yn rhydd,  
 Fy ysbryd sydd â phawb mewn hedd.

They haunt the silence of the breast,  
 Imaginations calm and fair,  
 The memory like a cloudless air,  
 The conscience as a sea at rest.

Ymwelant â dwys hedd y fron,  
 A dychymygion tawel, braf,  
 Cof fel digwmwl awyr haf,  
 Cydwybod megys môr heb don.

But when the heart is full of din,  
 And doubt beside the portal waits,  
 They can but listen at the gates,  
 And hear the household jar within.

Ond pan drwy 'r galon terfysg sy',  
 Ammheuaeth yno 'n ddrysawr mwy',  
 Clustfeinio wrth y pyrth wnânt hwy,  
 A gwrando 'r twrf o fewn y tŷ.

GRIFFITH PARRY.



## NODIADAU LLENYDDOL.

*Endymion.* By the Author of "Lothair." Three Vols. London: Longmans.

Y MAE Arglwydd Beaconsfield yn ffodus yn y gallu sydd ganddo i lywodraethu ei hunan, ac i ymostwng i'r anocheladwy. Pan ydoedd mewn ystyr wleidyddol wedi cyfarfod y fath drychineb yn 1868, yn lle ymollwng a gadael i'w ofid fwyta ei galon, fe drodd at ddifyrwrch ei ieuentyd o ysgrifenu nofel, a chyn pen nemawr fe ddaeth "Lothair" allan. A'r un modd eleni, wedi i'r etholiadau droi yn ei erbyn gyda'r fath ddirfawr rym, ac iddo yntau mewn canlyniad gael ei dafu i lawr o binael ei ogoniant, a phan oedd llawer yn dychymygu ei fod wedi ymneillduo i dawelwch Hughenden i ddyoddef a marw, fe ymroddodd drachefn, fel pe na buasai dim wedi dygwedd, i ysgrifenu nofel arall; a'r dydd o'r blaen, er syndod i fyd nad oedd yn meddwl am ddim o'r fath beth, dyma "Endymion" yn ymsaethu i'r golwg, a llygaid degau o fil-oedd yn cael eu serenau gan ogoniant y weledigaeth. Y mae yn bleser calon i'w Arglwyddiaeth ar hyd ei oes a chyda phobpeth beri i bobl synu; ac mae yn ddiammau pan, ymhob ystyr arall, yr oedd ei allu ar feddwl y cyhoedd wedi ei wneyd mor ddiddym, fod yn ddirfawr foddhâd iddo weled y rhŵth & pha un y mae y deyrnas y dyddiau hyn yn awyddu am gael darllen ei chwedl. Ac y mae y derbyniad a roddir i'r gwaith yn rhyfeddol. Dywedir fod Meistri Longman wedi rhoddi iddo am dano £10,000; y mae yn cael ei ledaenu mewn niferi sydd ymron yn anhygoel, ac ystyried fod ei bris yn gini a hanner; ac y mae yn cael ei gyfieithu i brif ieithoedd y Cyfandir, yn y rhai y caiff, y mae yn sicr, dderbyniad helaeth yr un modd. Y mae athrylith yr Awdwr yn ddiammheuol, ac fe fuasai pobl dan unrhyw amgylchiadau yn croesawu gwaith newydd o dan ei law; ond mae amgylchiadau cyhoeddiad y gwaith hwn—sydd yn nofel, wedi ei hysgrifenu gan un oedd mor ddiweddar yn Brifweinidog Prydain Fawr, a hynny mewn amser pan fuasai dynion yn meddwl y buasai ei orthrechriad digyfelyb yn gwneyd yn anhawdd iddo feddwl am ysgrifenu unrhyw beth—yn ychwanegu yn fawr at y dyddordeb a deimlir yn y llyfr. Y mae hyn, mae yn debyg, yn well na phe buasai ei Arglwyddiaeth yn tori ei galon; ond prin, dybygem, y mae yn ychwanegu at ei urddas. Yr oedd rhywbeth yn fawreddog yn ngwaith yr hen Rufeiniwr, ar ol gwneyd gwasanaeth am yr hwn y buasai ei gydwladwyr o wirfodd calon yn gosod pob mawredd arno, yn gwrthod y cyfan ac yn dychwelyd adref yn syml at ei aradr a'i dyddyn. Ond y mae Arglwydd Beaconsfield, wedi ei drechu yn anobeithiol, yn myned adref ac yn ysgrifenu nofel! Y mae hyn, yn ychwanegol at liaws o bethau eraill o gyffelyb natur, yn ei wneuthur yn dra ammheus a oes gan y gŵr urddasol hwn unrhyw argyhoeddiadau, neu a ydyw yn ngallu rhywbeth ymalyd yn ddwfn yn ei natur. Y mae yn actiwr rhagorol; ond prin, ar wahân oddiwirth amcanion ei uchelgais, y mae yn werth ganddo ofalu beth a ddaw o'r helyntion y mae weithiau yn ateb ei bwrpas i broffesu y fath zel gyda golwg arnynt.

Ac y mae hyn yn cael ei brofi yn fwy fyth gan y gwaith ei hunan. Ni fyddai ond ofer i neb feddwl am gael ynddo un amcan difrifol, na'r un ymgais i ddyngu unrhyw wirionedd ag y gellid meddwl y buasai ei awdwr yn teimlo ei fod o ryw bwys ei argraffu ar feddwl ei gydwladwyr. Gwelsom fod un gŵr

meddylgar yn ystyried fod nofelau Beaconsfield yn hynod am eu hanfoesoldeb. Nid, wrth reswm, fod unrhyw fudreddi yn cael ei ysgrifenu ynddynt; fe fuasai hyny yn anghydweddol â'u parchusrwydd; ond eu bod mor gwbl amddifad o unrhyw amcan uchel, ac mor ddiallu i wneyd unrhyw argraff dda ar feddyliau eu darllenwyr. Felly "Endymion." Ystori ffaïwn ac uchelgais ydyw yn gwbl. Mae yn wir fod ynnddi fymryn o gariad, ond nid ydyw yn llanw ond ychydig o le, ac y mae yn gwbl is-wasanaethgar i'r pethau eraill. Dywedai ei Arglwyddiaeth dro yn ol, fod y byd yn cael ei lywodraethu gan frenhin-oedd a gwladweinwyr, gan roddi ar ddeall fod pawb eraill, gyda gorchwyl mor yrplenydd a hwnw, yn rhy ddistadl i'w cymeryd i'r cyfrif. Wel, pobl fawr yr un modd sydd yma i gyd. Mae y werin mor ddisylw a phe na fuasai yn bod. A phan y mae dyn o'r fath athrylith, a dyn sydd wedi treulio cymaint o'i ddyddiau yn y llysoedd a'r *drawing rooms*, a mwynhâu y gymdeithas uchaf, yn ysgrifenu am y fath bethau, a hyny heb un amcan ond difyrwch, mae y llyfr wrth reswm yn rhwym o fod yn ddisyfr. Y mae ei ddeasgrifiadau, fel y galleid dysgwyl, yn dda iawn; dengys adnabyddiaeth helaeth o'r natur ddynol; ac yn arbenig, rhydd syniad clir i'w ddarllenwyr am y bywyd y mae y cychoedd uchaf yn ei dybied yn addas iddynt ei fyw, yr hwn, o leiaf fel y mae yn cael ei ddangos yma, sydd dlawd ei wala! Y mae amryw o'r cymeriadau yn dwyn llawer o ddelw personau ag y mae eu henwau yn hanesyddol; ond y mae pethau wedi eu cymysgu yn y fath fodd fel, er fod yr ysgrifenydd yn fynych yn rhoddi deasgrifiadau byw o honynt, y mae digon o bethau eraill yn cael eu dwya i mewn i ddangos fod yn rhaid gwahaniaethu y ffug oddiwrth y ffaith. Y mae effaith y gymysgfa ryfedd yma ar y meddwl yn fynych yn ddigou dyrys; ond mae yn debyg fod hyny hefyd yn y cynllun, a'i fod yn rhan o wob y swynwr i fwynhâu y benbleth y mae yn gosod ei ddarllenwyr ynnddi. Prin y mae "Endymion" yn dangos bywyd ac asbri nofelau boreu oes yr awdwr, ond y mae yn un o ryfeddodau llenyddiaeth fod boneddwr pymtheg a thringain oed yn eistedd i lawr i ysgrifenu y fath waith, a'i fod yn llanw tua mil o dudalenau â chymaint o athrylith a dyddordeb fel ag i'w wneyd yn dra anhawdd i bwy bynag a ddechreuo eu darllen i ollwng y cyfrolau o'i law nes myned trwyddynt.

Mae yr ystori wedi ei gosod yn yr ugain mlynedd a ddilynodd farwol-aeth Canning yn 1827. Yr oedd Endymion, gyda'i chwaer-efell Myra, yn blant i William Pitt Ferrars, yr hwn a ddaliai swydd uchel yn Ngweinyddiaeth y Duc Wellington. Yr oedd eu mam yn foneddiges ddisyglar, a gwyddai yn dda pa fodd i ddal "derbrynadau" yn ei thai ysplenydd yn Llundain ac yn y wlad. Yr oedd adgonion cyntaf y plant yn gysylltiedig â rhwysg cymdeithas uchel, ac yn magu ynddynt deimladau neillduol o'u pwysigrwydd yn y byd. Yr olwg gyntaf a gawn arnynt ydyw pan y maent yn wyth mlwydd oed, a'r pryd hyny yn sicr, er yn hardd a thrwsiadu iawn, y maent ymhell o fod yn hawddgar. "A pha bryd yr ewch i'r ysgol?" gof, nai Arglwydd anrhydeddus un diwrnod i Endymion. "Mi af i Eton mewn dwy flynedd," ebai yntau, heb y mymryn lleiaf o deimlad, a heb dynu ei sylw oddiar y grawnwin ydoedd yn brofi, na hyd yn nod edrych ar ei ymofynydd; "ac yna mi af i Christchurch, ac yna mi af i'r Senedd." Ac ebai cyfaiill agos i'r teulu wrth ei chwaer, "Myra, yr wyf yn gobeithio nad ydych wedi aughofio eich ymrwymiad i mi a wnaethoch yn Wimbledon ddwy flynedd yn ol?" "Pa ymrwymiad?" gofynai yn drabâs. "I fy mhriodi." "Ni feddyliwn i am briodi neb heb fod yn Nhŷ yr Arglwyddi," atebai, gan saethu ato drem o ddirmyg. Pan oedd y plant tua thair ar ddeg, fe ddymchwelwyd Gweinyddiaeth Wellington, ac fe adawyd Pitt Ferrars a'i gymdeithion "allan yn yr oerni." Yr oedd yr adwyth hwnw iddo ef mewn ystyr fydol yn ddinystyr. Yr oedd clywed hyny i'w briod falch yn archoll ofnadwy, ac yr oedd yn dra chynhyrfus; ond mewn amser y mae ei natur dda yn cael y llaw uchaf, ac wrth weled pryder ei gŵr ar gyfrif ei theimladau hi, taflodd ei breichiau am ei wddf, gan ddywedyd, "Oh! William, os carwn ein gilydd, beth yw y

gwahaniaeth am ddim?" Ni ddangosir pa fodd y trefnwyd gyda'r amgylch- iadau, ond fe ymddengys fod digon wedi ei adael iddynt fyw yn eithaf cysurus, yn unig eu bod yn gorfod rhoddi "cymdeithas" i fyny, a myned i fyw i hen balas yn y wlad. Rhaid galw Endymion adref o Eton, a gollwng ymaith yr athrawon costus oeddynt wedi eu dewis i addysgu Myra. Mae y tad bellach yn gofalu am efrydiau y bachgen, a'r fam yn addysgu yr eneth. Ymhen rhyw dair blynedd y mae gwawr gobaith yn tori eto ar y Toryaid, a gelwir y tad i Lundain; ond gan nad oedd dim o werth yn cael ei gynnyg iddo, ymfoddlona ar le i Endymion fel ysgrifenydd yn Somerset House. Y mae ei waith ef yn dechreu ei fyd yn y sefyllfa hono yn achlysur o lawer o ysgrifenu doniol am y gymdeithas amrywiog y troai ynddi. Llettyai gyda Mr. a Mrs. Rodney, y rhai yn nyddiau llwyddiant ei dŷ, oeddynt at alwad ei rieni ac yn dra chyfeillgar gyda hwynt. Yno fe gyferfydd bob math o bobl, a chaiff gyfleusdra rhagorol i adnabod y byd. Un a lanwai le mawr yn y gymdeithas oedd Mr. Waldershare, gŵr ieuanc o athrylith oedd yn meddu syniadau cryfion, ac yn Dory mawr.

Weithian ni fyddai dim ond ymddyddan, hyny yw, fe fyddai Waldershare yn llefaru, gan ymhelaethu ar ryw destun rhyfeddol, yn llawn o hanesynau, a gwrth-ddywediadau dysglaer, ac ymadroddiad hapus. Gwrandawai pawb gyda dyddordeb, hyd yn nod y rhai nad oeddent yn ei ddeall. Yr oedd llawer o'i siarad yn cael ei gyfeirio mewn gwirionedd at Beaumaris, meddwl yr hwn ydoedd yn ffurfio, yn gystal â'r eiddo Imogene. Yr oedd Beaumaris yn Whig o deulu, ond nid ydoedd yn bersonol wedi cymeryd ei ochr, ac uchelgais Waldershare ydoedd ei drawsffurfio, nid yn unig yn Dory, ond yn un o'r hen graig, yn wir Jacobite. "Onid yw y blaid Doryaidd," fe ddywedai Waldershare, "yn olyniad o ysbrydion gwronaidd, 'prydfferth a chyflym,' bob amser yn arwain, ac yn mlaenaf yn eu hoer?—Hobbes a Bolingbroke, Hume ac Adam Smith, Wyndham a Cobham, Pitt a Grenville, Canning a Huskisson?—Ai nid egwyddorion Toryaeth ydyw yr hawliau poblogaidd hyny y darfu i ŵyr fel Shippen a Hynde Cotton eu lluchio i wyneb estron-frenin a'i bendefigaeth ddifanol? . . . Onid yw traddodiadau y blaid Doryaidd y bonedd ardderchocaf yn y byd? Onid ei haddurniadau hi ydyw y merthyrdraeth ogoneddus, sydd yn agor gydag enw Falkland, ac yn cau gydag enw Canning?" "Yr wyf yn credu ei fod oll yn wir," sibrydai Arglwydd Beaumaris wrth Sylvia, yr hon na chlywasi, yn wir, erioed am yr un o'r boneddigion hyny o'r blaen, ond a edrychai yn swynol hynod ac yn cydweled. "Y mae yn ddyd rhyfeddol, Mr. Waldershare," ebe Mr. Vigo wrth Rodney, "ond yr wyf yn ofni nad yw yn ymarferol."

A gŵr pwysig hefyd ydoedd Mr. Vigo, y teiliwr ffasiynol:—

"Mi a wybum am lawer etifeddes yn cael ei cholli am fod ei charwr wedi ei wisgo yn sal," ebe Mr. Vigo. "Rhaid i chwi wisgo yn ol eich oed, eich gorchwylion, eich amcan mewn bywyd; rhaid i chwi wisgo hefyd, mewn rhai achosion, yn ol eich cwmni. Mewn ieuencyd y mae ychydig ffansi yn hytrach yn cael ei ddysgwyl, ond os bywyd politicaidd ydyw eich nod, dylid ei ochelyd, o leiaf ar ol un ar hugain. Yr wyf fi yn gwisgo dau frawd yn awr, dynion o gryn sefyllfa; nid yw y naill ond dyn pleser yn unig, fe fydd y llall mae'n debyg yn weinidog y goron. Y maent mor debyg a dwy bysen, ond pe byddai i mi wisgo y *dandy* a'r gweinidog yr un fath, fe ddangosai chwaeth ddrwg—fe fyddai yn wrthun. Nid oes neb yn rhoddi i mi y drafferth a wna Arglwydd Eglantine; nid ydyw wedi gwneyd ei feddwl i fyny pa un ai bardd mawr ai prifweinidog a fydd. Byddaf yn dywedyd wrtho, 'Rhaid i chwi ddewis, fy arglwydd.' 'Ni allaf fi eich anfon allan yn edrych fel Arglwydd Byron, os ydych am fod yn Canning neu Pitt.' Yr wyf fi wedi gwisgo llawer iawn o'n gwladweinwyr a'n hareithwyr, ac yr ydwyf bob amser wedi eu gwisgo yn ol eu harddull a natur eu dyledswyddau. Yr hyn a ddylai pob un ei ochel ydyw y coeg foneddigaidd—y '*shabby genteel*.' Nid oes neb byth yn dyfod drosto. Mi a'ch cadwaf rhag hyny. Gwell i chwi fod mewn cadachau."

Un o gymdeithion Endymion yn y swyddfa ydyw Mr. St. Barbe, a ddes-grifir fel nofelydd medrus, ond o duedd gostogaid a siomedig. Mae yn amlwg mai Mr. Thackeray a osodid i eistedd am St. Barbe, ac y mae yr awdwr

wedi bod yn ddiog o lyfrgi i ddial y tipyn grawd, a wnaethai Thackeray ar rodres rhai o'i nofelau, trwy geisio ei wneuthur yn wrthddrych dirmyg ei ddarllenwyr wedi i gynifer o flynyddoedd fyned heibio, ac wedi i'w feirniad enwog fyned yn rhy bell i deimlo awch ei saeth.

"Yr wyf yn casáu y grefft," ebai St. Barbe, gydag amlygiad o ddygasedd pur; "mi a garwn eu dynoethi oll cyn fy marw. Mae yn debyg mai gwaith eich chwaer yn priodi arglwydd a'ch dygodd chwi ymlaen fel yma. Mi a allaswn briodi iarlles fy hun, ond wedyn, yn siwr, nid oedd ond un Bwylaid, ac yn isel arni. Ni fu genyf fi erioed, chwaer; ni chafais i un lwc mewn bywyd o gwbl. Gwyn fyf na fwaswn yn ferch. Merched yn unig ydyw'r bobl sydd yn dyfod ymlaen. Y mae dyn yn gweithio ei holl fywyd, a meddylia ei fod wedi gwneyd rhywbeth rhyfeddol os, gydag un goes yn y bedd a heb ddim gwallt ar ei ben, y llwydda i gael coronig: ac y mae merch yn dawnsio mewn ball gyda rhyw impyn neu glydd, neu yn eistedd yn nesaaf at ryw hen gono ar giniaw, ac yn cymeryd arni ei bod yn ei dybied yn ddeniadol, ac y mae yn ei gwneyd yn arglwyddes yn y fan. O! y mae yn fyd adgas; rhaid iddo derfynu mewn chwyldroad. Yn awr dywedwch wrth eich meist, Mr. Sidney Wilton, os oes arno eisieu cadarnhâu sefydliadau y wlad hon, y dylai y llywodraeth sefydlu urdd o deilyngdod, ac fe ddylai y wasg gael ei chynnyrchioli ynddi. Nid wyf yn siarad yn unig drosof fy hun; yr wyf yn siarad dros fy mrodyr. Nac oes, syr, nid oes arnaf gywilydd arddel fy urdd."

Ond pan mae pethau yn dyfod ymlaen yn gysurus gydag Endymion, y mae y tywyllwch yn ymgau am ei gartref yn Hurstley. Mae iechyd ei fam yn pallu, a chyn hir y mae wedi gwywo ac yn y bedd. Y mae prudd-der a digalondid yn ymorphwys ar ei dad, ac y mae cyn pen nemawr yn rhoddi terfyn ar ei einioes. Mae Mr. Penruddock, gŵr eglwysig, yn dwyn delw Cardinal Manning, a'i deulu, yn dra thirion o honynt yr holl amser; ond y mae eu profedigaeth yn dra chwerw, yn enwedig gan eu bod wedi eu gadael heb geiniog yn y byd. Y maent yn awr yn ddeunaw oed, ac yn hynod o hardd. Da genym weled fod Myra hefyd wedi dysgu cryn lawer mewn adfyd, a'i bod yn hynod o dynyr o'i mam yn ei chystudd, ac yn dra charedig i'w thad. Cynnygiwyd am ei llaw gan Nigel, mab Mr. Penruddock, yr hwn oedd ŵr ieuanc hynod o ddymunol, a theimlai ei thad yn awyddus iddi ei briodi; ond gwrthododd yn benderfynol. Ymhen rhyw fis wedi marwolaeth ei thad gwelodd hysbysiad yn y *Times* am ryw Arianwr a'i wraig oedd eisieu cymdeithyddes i'w hunig ferch, yr hon oedd foneddiges o gryn ddiwylliad ac o gyfoeth mawr. Anfonodd gais am y lle, ac o blith cannoedd oedd yn ymgeisio fe'i dewiswyd. Fe lwyddodd yn hyny tu hwnt i'w holl ddysgwyliadau; derbyniwyd hi i fynwes y teulu, cafodd yno gymdeithas wrth ei bodd, a mwy fyth, cafodd gyfleusdra i helpu ei hanwyl frawd, yr hwn a dderbynid yn serchog i'r gymdeithas. Yn fuan ennillodd Myra serch Arglwydd Roehampton, oedd yn Ysgrifenydd Tramor, yr hwn a gyfarfu yn nhŷ Mr. Neuchatel, yr Arianwr; yr oedd efe yn llawer hŷn na hi, ond yn y sefyllfa uchaf, ac felly wrth fodd ei chalon. Trodd y briodas allan yn dra hapus, ac o hyny ymlaen y mae llwyddiant Endymion yn fawr a chyflym. Wrth reswm y mae ei chwaer, Arglwyddes Roehampton, yn gwneyd ei goreu iddo. Y mae boneddiges arall hefyd, Arglwyddes Montfort, brenhines gymdeithasol Whigiaeth, yn teimlo dyddordeb dwfn ynddo, ac yn gwneyd a all i'w wasanaethu. Ac yn ychwanegol, mae Arglwyddes Beaumaris, Imogene, merch ei hen lettywraig Mrs. Rodney, yn ei noddi; ac y mae Miss Neuchatel, y cafodd ei chwaer ei hun ar ysgol llwyddiant trwy ddyfod yn gyfeilles iddi, yn coledd hoffder cuddiedig tuag ato. Pan ydoedd unwaith yn petruso ymgeisio am aelodaeth seneddol o ddiffyg moddion, fe gafodd lythyr ar ei fwrdd, mewn llaw anadnabyddus, yn cynnwys *cheque* am £20,000, yr hwn y dealodd wedi hyny ei ddyfod oddiwrthi hi. Yn nghanol yr holl ffafr yma y mae yn llwyddo yn rhyfeddol! Cyn hir y mae Arglwydd Roehampton yn marw, ac y mae ei weddw, Myra, yn priodi y Tywysog Florestan—yn cyfateb i fesur helaeth i Napoleon III., fel yr oedd Roehampton i Arglwydd Palmerston. Trwy hyny y mae yn cyrhaedd uchder eithaf ei huchelgais,

ac yn dyfod yn Frenhines. Y mae Arglwydd Montfort hefyd mor gymwynasgar â marw, ac y mae ei weddw gariadlawn yn priodl Endymion,—yn debyg fel y gwnaeth gweddw barchus a chyfoethog arall â bywgraffydd Endymion. Y mae hyn wrth reswm yn ei wneyd ef yn ŵr mawr iawn. Y mae yn cael gyrfia Seneddol o lwyddiant ac anrhydedd neillduol, ac y mae yr hanes yn ei adael ar y gorchwyl o furio Gweinyddiaeth, gan gydnabod wrth ei chwaer ei fod wedi cyrhaedd ei nod—wedi ei lawn foddioni!

Dyma engrafft o'r syniadau a ffluent mewn cymdeithas cyn y Diwygiad Seneddol:—

"A pha fodd y gall y wlad gael ei llywodraethu heb yr Eglwys?" gwaeddi Zenobia. "Os meddylia y wlad unwaith fod yr Eglwys mewn perygl, fe fydd y cwbl drosodd yn fuan. Fe ddylid dyweyd wrth y Brenin beth sydd yn myned ymlaen." "Nid oes dim yn myned ymlaen," ebai y llysgenadrw; "ond y mae ar baw ofn rywbeth." "Fe ddylai cyfeillion y Brenin wasgu arno i beidio byth a cholli golwg ar dir-feddiannaeth," ebai yr un mawr. "Pa fodd y gall unrhyw lywodraeth fyned ymlaen heb gefnogaeth yr Eglwys a'r tir!" gwaeddi Zenobia. "Mae yn hollol annaturiol." "Dyna yw y dirgelwch," ebai y llysgenadrw. "Dyma lywodraeth, heb ei chefnogi gan ddim o'r dylanwadau a olygid hyd yma yn anheggorol, ac eto y mae yn bodoli." "Mae y newyddiaduron yn ei chefnogi," ebai yr un mawr, "a'r Ymneilldwyer, y rhai sydd yn ceisio dwyn eu hunain i sylw, a'r rhai y dywedir fod ganddynt beth dylanwad yn y siroedd gogleddol, ac y mae y Whigiaid, sydd mewn twll, yn foddllawn i ymafyd yn llaw y weinyddiaeth i'w helpu allan o hono; ac wedyn y mae bob amser nifer o bobl a gefnogant unrhyw lywodraeth—ac felly, mae y peth yn gweithio." "Y mae ganddynt enw newydd ar y teimlad cynysgryw yma," ebai y llysgenadrw. "Maent yn ei alw y farn gyhoeddus." "Mor dra afresymol!" ebai Zenobia; "dim ond llysenw." "Fel pe gallasai fod unrhyw farn oddieithr eiddo y Penadrur a'r ddau Dŷ o Parliament." "Y maent yn ceisio dwyn i fewn yma Ryddfrydiaeth y Cyfandir," ebai yr un mawr. "Yn awr, ni a wyddom beth a feddylia Rhyddfrydiaeth ar y Cyfandir. Golyga ddinstriad eiddo a chrefydd. Ni wnai y syniadau hyn y'r wlad hon; ac yr ydwyf fi yn fynych mewn penbleth i geisio rhagweld pa fodd y ceisiant gymhysgo golygiadau Rhyddfrydol yma." "Mi feddylia i bob amser," ebai Zenobia, "fod Arglwydd Liverpool wedi myned lawer yn rhy bell, er na ddywedais hyn erioed yn ei amser ef; canys yr yf fi bob amser yn sefyll dros fy nghyfeillion."

Nid oes ddadl nad Mr. Bright ydyw Job Thornton. Dyma y disgrifiad a geir o hono:—

Gwrandawai Endymion gyda dyddordeb, yn fuan gyda hyfrydwch, yn fuan gyda teimlad o ddryswch cynhyrfus ac nid anfodhaol, ar yr areithiwr; canys yr ydoedd yn areithiwr, er y pryd hyn heb ei gydnabod, ac yn adnabyddus yn unig yn ei gymydogiaeth. Dyn llwyd a theneu ydoedd, gydag ael wych a llygad a fflachiai yn achlysurol gan dân meddwl creadigol. Nid oedd ei lais yn sicr fel yr eiddo Holla-balloo. Yr ydoedd braidd yn deneu, ond yn hynod o glir. Nid oedd dim yn gliriach oddieithr ei feddwl. Ni chlybu Endymion erioed achos yn cael ei osod ger bron gyda'r fath gelfyddyd dryloew; ffeithiau yn cael eu trefnu gyda'r fath symledd byw, a chasgliadau mor naturiol a hunanysgogol ac anwrthwynebol, fel yr ymddangosent megys wedi eu benthyca gan y gwrandawyr, er nad oedd neb o'r gwrandawyr hyn wedi eu cyrhaeddyd o'r blaen. Yr oedd y cyfarfod wedi ei lonyddu, wedi ei lyncu mewn hyfrydwch meddyliol, canys ni roddent i'r siaradwr frwdfrydedd eu cydymdeimlad. Ni chyfranogid yn hwnw, fe allai, gan hanner y rhai a wrandawent arno. Pan oedd ei achos yn deg o'u blaen, aeth y siaradwr i ddellio â'i wrthwynebyr—rhai yn y wasg, rhai yn y Senedd—gyda llawer o allu mewn gwtwareg, ond yr oedd y gallu yma yn amlwg yn cael ei gadw danodd yn hytrach na'i adael i gymeryd ei rwyg. Yr hyn y teimlai Endymion oddiw'rtho fel prif ragoriaeth y siaradwr hynod hwn ydoedd ei ddarbwyllusrwydd, ac ymddangosai fel yn rhy gall i drangwyddo hyd yn nod gwrthwynebydd yn afreidiol. Yr oedd ei iaith, er yn naturiol ac oemwyth, yn ddetholedig a choeth. Yr ydoedd yn amlwg yn ddyn oedd wedi darllen, ac nid ychydig; ac nid oedd nawe o anfoesgarwch, a phrin lediaith, yn ei barabliad.

*The Ode of Life.* By the Author of the "Epic of Hades." Third Edition.  
London : C. Kegan Paul & Co.

CRYBWYLLASOM am y gwaith hwn yn y Rhifyn diweddaf o'r TRAEATHODYDD, gan ychwanegu nad oeddem y pryd hyny wedi ei weled. Wedi hyny cawsom yr hyfrydwch o dderbyn y copi sydd ger ein bron, gyda *presentation copy* tra ysplenydd o'r *Epic of Hades*, gyda y post, "With Mr. Lewis Morris's kind regards." Diolch yn fawr iddo. Darlennasom yr *Ode* gyda phleser dwfn a phur, a gallwn ddyweyd am dani fel y dywedai Mr. John Bright am yr *Epic of Hades*, "Gem arall at gyfoeth ein barddoniaeth." Mae yn amlwg fod Mr. Morris yn ymwardhod gyda llawer o eiddigedd rhag syrthio i gyffredinedd, neu *commonplace* mewn dim. Crybwyllasom yn ein herthygl fel y mae wedi astudio newydd-deb hollol yn yr *enwau* a ddyry i'w weithiau. Y mae yr un peth i'w weled yn yr enw newydd a thra awgrymiadol a roddes i'r gwaith hwn. Ac y mae yr un modd yn ymestyn at newydd-deb yn *ffurf* ei gyfansoddiadau. Yr oedd "Canau Dau Fyd" yn delynegion, neu *lyrics*, o dlysi a swyn neillduol, heblaw fod llawer o honynt o ddwfn feddylgarwch. Yna, yn yr *Epic of Hades*, caed Arwrgerdd, ond heb un arwr yn perthyn iddi, oddieithr i ni ystyried yr enaid dynol, fel y mae yn nghws ei brofiad rhyfedd mewn bywyd yn ymddadbygu ac yn cyrhaedd doethineb a rhinwedd, fel ei harwr. Yn ol ffurfiau yr ysgolion nid ydyw yn arwrgerdd o gwbl; ond yn yr ystyr a grybwyllwyd, ac i ddarllenwyr a gymeront hamdden i gymdeithasu yn bwyllog a chariadlawn â hi, y mae yn arwrgerdd dra arddunol. Yna caed *Gwen*, yn ddrama, ond yn ddrama mewn ymson, *in monologue*. Mae y peth yn swnio fel gwrthddyweddiad, oblegid fe olygir fod drama, megys o angenrheidrwydd, yn golygu gweithrediad, a phersonau yn cymeryd rhan mewn ymddyddanion wrth ddangos fel y mae y gweithrediad hwnw yn cael ei gario ymlaen. Ond fe anturioedd yr awdwr yma geisio dangos hyn oll trwy ymson un ar y pryd yn ymddangos ger ein bron; ac y mae wedi llwyddo yn berffaith. Nid llawer o engreiffitiau sydd genym o'r *Ode* yn yr iaith Saesoneg; ac eithrio yr eiddo Milton ar Enedigaeith Crist, ac eiddo Wordsworth ar Anfarwoldeb, nid ydyw y rhai sydd genym ychwaith ond lled gyffredin. Ac y mae yr *Odes* oll yn fyron; ni feddyliodd neb am gymeryd yr *Ode* at gyfansoddiad a amcanai gymeryd i fyny fater eang, a ofynai drafoetaeth faith. Ond y mae Mr. Morris yma hefyd wedi mentro gwneyd peth newydd; cymerodd yr *Ode* i ganu Awdl Bywyd, gan gymeryd ar ei fater mawr olwg eang a chyfoethog. Ond rhag gwneyd trais amlwg â'i fesur nac â'i destun, y mae, mewn ffordd ddigon taclus, wedi dosranu ei fater yn adranau priodol, gan roddi *Ode* i bob un o honynt, tra y mae yr oll ynghyd yn gwneyd cyfanwaith sydd yn meddu "dechreu a chanol a diwedd," ys dywedai Aristotle, ac yn gwneyd Awdl—neu Draethodl os mynir, gan y teimlai rhai o'n darllenwyr, fe allai, fod Awdl heb fod yn y Pedwar Mesur ar Hugin yn anhosbi—ar Fywyd, sydd eisoes wedi ennill ffafir tra uchel, ac yn debyg o fyw yn hir.

Ond gan fyned heibio i'r ffurf, y mae yn hyfryd genym longyfarch ein cydwladwr teilwng ar yr ysbryd rhagorol a ddangosir yn y gwaith hwn. Y mae barddoniaeth pob cyfnod yn dra chwannog o fod yn adsain o'r athroniaeth sydd yn ffynu yn y cyfnod hwnw. Y mae y gogwyddiad materol cryf sydd i athroniaeth y dyddiau hyn yn Lloegr, wrth reswm, yn anffafriol i farddoniaeth uchel, ac oblegid hyny fe geir yr awen nid yn anfynych yn ymlusgo yn llwch y ddaear, ac yn ceisio ymffoddloni ar fywoliaeth hlynod o dlawd. Y mae Mr. Morris, fodd bynag, yn meiddio dirmygu fel gwag dwyll y philosophi sydd yn ceisio yspellio dyn o'i ogoniant a'i obeithion, a chan ddal ei afael yn yr argyhoeddiadau sydd wedi bod i ddoethion yr oesoedd fel angorion eu hymddried, y mae yn canu Bywyd yn ei holl gyfriniaeth ryfedd fel y mae yn codi o anadl Duw, yn rhedeg ei yrfa mewn cymundeb parhâus â nerthoedd mawrion y byd arall, ac yn gorphwys yn y diwedd mewn anfarwoldeb. Beth bynag

fydd tynged y gwaith hwn, dywed yn y rhagymadrodd ei fod yn gwybod yn dda na ellir dysgwyl dim mwy addfed oddiwrtho ef, ac nad all obeithio gweled heb ei ddefnyddio destun sydd mor ffrwythlawn o farddoniaeth. Mae yn debyg iawn y gwel efe lawer o bethau eraill hefyd yn "unappropriated" ag y gall ganu arnynt yn rhagorol. Ond yr ydym yn teimlo fod y gwaith hwn ymhob ystyr yn dangos addfedrwydd tra mawr. Gwelwn fod rhai o'r beirniaid yn ei osod yn ail i'r *Epic of Hades*. Mae llawer o bethau yn mheirianwaith yr *Epic*, fe allai, yn fwy ffafriol i farddoniaeth o'r fath ag a fuasai ar unwaith yn taro y meddwl; ond mae yn ammheus genym na theimla darllenywyr meddylgar gryfach swyn yn addfedrwydd y gwaith hwn, ac y byddant hwy yn debyg o'i ddarllen yn amlach, a theimlo yn ddyfnach oddiwrtho. Y mae Mr. Morris yn un o'r beirdd mwyaf ysbrydol a fedd y deyrnas; a theimlwn yn falch a diolchgar fod un o'n brodyr ni ein hunain wedi cael y fraint o fod yn allu mor fawr er peri iachâd i'r meddwl Prydeinig oddiwrth y dylanwadau gwenwynllyd sydd wedi bod yn effeithio mor andwyol arno. Ac nid oes dim a ddaeth o dan ei law ag y dysgwyliwn yn yr ystyr yma gymaint o ddaioni oddiwrtho â'r gwaith hwn.

*The Human Race, and other Sermons, preached at Cheltenham, Oxford, and Brighton*, by the late Rev. FREDERICK W. ROBERTSON, M.A., Incumbent of Trinity Chapel, Brighton. London: C. Kegan Paul & Co.

BYDD yn dda gan lawer o'n darllenywyr sydd wedi derbyn graddau helaeth o nerth ac adnewyddiad oddiwrth y cyfrolau blaenorol a gyhoeddwyd o bregethau y gŵr hynod hwn, ddeall fod cyfrol newydd wedi dyfod allan, yn gwneyd y bummed gyfres, ac yn cynnwys saith o'i bregethau boreuaf, y rhai a bregethwyd cyn iddo ymsefydlu yn Brighton. Ond y maent oll yn addfed ac yn gryfion, ac yn dangos llawer o'r tanbeidrwydd ysbrydol sydd wedi gwneyd enw Mr. Robertson mor fendigedig gan gyfeillion y Gwardwr ymhob man. Pregethodd ei bregeth gyntaf mewn eglwys yn Winchester, pan yn bedair ar hugain oed, ar y geiriau, "O, deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno," &c. Dywedai boneddwr a'i gwrandawai fod y bregeth yn adsain wresog o wahoddiad y prophwyd; ac nad ydoedd yn cael ei *darllen* yn unig, ond ei *phregethu*, gyda hyawdledd, ymdeimlad o allu, a hunanfeddiant, na welsai efe erioed mewn amgylchiad o'r fath. Bu am yspaid yn wael ei iechyd ac yn analluog i wneyd nemawr. Wedi hyny bu yn gurad am bedair blynedd yn Cheltenham; yna daeth i eglwys yn Rhydychain, St. Ebbe; ond wedi bod yno am ddaun fis cafodd wahoddiad i Trinity Chapel, Brighton. Teimlai yn annharod i fyned; ond wedi cael gwahoddiad drachefn gadawodd y peth at farn Dr. Wilberforce, yr hwn a'i hannogodd i fyned. Treuliodd yno chwe' blynedd nodedig am eu ffrwythlonder a'u defnyddioldeb, ac yna hunodd. Newydd ymsefydlu yno ysgrifennai at gyfaill y geiriau hynod hyn: "Y mae fy mywyd, os gallaf farnu wrth ballod manylder meddyliol a nerth, a gwanhâd giau, wedi cyrhaedd ymbellach na hanner y ffordd, ac y mae y gweddill i lawr y rhiw. Y mae y tŷ hanner-fordd o'r tu ol, ac os Cheltenham arall yw Brighton, nis gall fod cartref ymhell. Yr wyf yn diffygio. Ac y mae gogwydd fy rhydd feddyliau yn awr yn ychwanegu y myfyrdod am orphwysdra. Gorphwysdra yn Nuw a Chariad. Dwf'n orphwysdra yn y wlad dawel hono lle y mae dirgelwch y bywyd rhyfedd hwn wedi ei egiuro, ac y mae y galon fwyaf claf o'r diwedd yn rhoddi ei baich i lawr." Da i'r byd fod Un mwy yn meddwl am dano feddyliau gwell, ac fod y fath dymmor o fendith yn ol iddo wedi hyny.

Mae y pregethau hyn wedi eu hargraffu o'r nodiadau a barotoid ganddo ef ei hun, ac am hyny yn ddiffygiol o'r cyflawnder a'r gorphenrwydd a geir yn y pregethau eraill, er ar yr un pryd i bobl sydd wedi astudio y rheiny, fe allai, yn fwy dyddorol, gan eu bod yn dangos yn well ei ddull ef ei hunan o feddwl a

pharotol. Ni cheir ynddynt ddim ystrydebol a chyffredin; ond y mae pob pregeth yn ymdrech fyw i dynu allan o galon ei destun pa wirionedd bynag a allai fod ynddo, a chymhwyso hwnw yn y modd mwyaf gonest ac ymarferol, a hyny gyda rhyw drydaniaeth rhyfedd o nerth ysbrydol, at ysbrydoedd ei wrandawyr.

Buasai yn dda genym anrhegu ein darllenwyr â llawer o'r gemau gwerth-fawr sydd yn y gyfrol hon, ond nid oes genym le. Cymerer a ganlyn am Weled Duw:—

Beth a olygid wrth *weled Duw*? Ni welch Dduw byth fel ffurf a lliw. Duw ydyw ysbryd prydfert hwch mewn natur y tymmor yma o'r flwyddyn, yr ysbryd sydd yn gwneyd i bob peth gynneu a thori allan gan fywyd; yr ysbryd sydd yn arwain y cymylau sydd yn nofio a'r ser sydd yn gwreichioni o bell. Byth ni ellwch weled hwnw â'ch llygaid.

Gwled peth yw amgyffred ei natur. Fel y mae, ac nid yn dwyllodrus; yn ei wir natur, ac nid wedi ei gamffurfio.

Nid ydyw llong mewn niwl, a physgodyn yn y môr, i'w gwled fel y maent.

Symudwch ymaith bob rhwystrau gan bechod a hunanoldeb; cymerwch ymaith y cen oddiar eich llygad, yna chwi a welch Dduw pan mae ei gymeriad yn llewyrchu fel yn wirioneddol y mae. Er esiampl, y mae y byd yma yn ymddangos yn ddrwg; daioni—doethineb—ymddangosant oll o'u lle. Mae y llong yn wrthun, ddrychiol-aethol, trwy y niwl. Teimlo ei fod oll yn dda—gwled doethineb a daioni—dyna ydyw gwled Duw. Neu, drachefn, y mae Duw yn ymddangos yn elyn i chwi—oll yn ddigofaint. Mae hon yn olygfa gamffurfiol; fel ffôn blygedig. Edrychwch arno fel cariad yn Nghrist, yna chwi welch Dduw. Fe welodd Ioan Grist fel yr ydoedd; ni wnaeth y Gadareniad.

Yn awr sylwch ar y cysylltiad sydd rhwng bob dyn debyg i Dduw a gwled Duw. Sylwch ar ymresymiad yr apostol: Ni all un dyn weled Duw fel yn wirioneddol y mae, oddieithr iddo fod yn debyg iddo mewn cymeriad.

Felly mewn bywyd daerol, i ddeall cymeriad cyhoeddus, megys Prifweiniog, er engraffit, a'i fesurau, rhaid i chwi fod o'i ochr, o leiaf, a dal ei olygiadau. A ofynech chwi i un o'i wrthwynebwyr politicaidd am ei gymeriad? Dywedwch am ei araeth hyawdl, y cwbl er mwyn effaith; ei fesurau doeth, oh, cariad at enw; ei wladgarwch caredig, ffug i gyd.

Felly gwled mewn bywyd chyffredin. Ni all dyn drwg werthfawrogi, neu hyd yn nod hefyd dyn da. Y dyn ysbrydol nis bernir gan neb. Mae y byd yn drwgdybio amcan chwith; ni chred mewn anhunanarwch. Edrychwch ar eu gwatwrwên; gwrandewch ar eu hensyniadau; sylwch ar eu hammheugarwch dirmygus parth daioni dynol.

Ac felly gyda Duw. I weled Duw rhaid i chwi yn gyntaf fod yn debyg iddo. Chwi a'i gwelwch, a'i teimlwch, a gredwch yn ei fodolaeth, yn ol fel y byddwch yn debyg iddo mewn daioni. Mae genych y dystiolaeth ynoch eich hunain. Ni a fyddwn gyffelyb iddo, oblegid ni a gawn ei weled Ef megys ag y mae.

A gwyn fyd na fai y syniadau gogoneddus a ganlyn o'r bregeth ar *National Education* yn ffynu yn fwy chyffredin yn ein plith:—

Fe'i cafodd merch Pharaoh ef yn y Nilus, a mynodd ei addysgu yn nysgeidiaeth yr Aipht ar ei thraul ei hun. Can belled a hyny y mae hyn yn cyfateb i addysgiaeth plant mewn ysgolion gan ddyethriaid. Nid ydyw addysg gan rieni bob amser yn bosibl, o herwydd anallu, anwybodaeth, tlodi, a llafur. Yr oedd rhieni Moses yn cael eu llethu gan gyfreithiau yr Aipht. Gan hyny rhaid i addysgiaeth fod mewn rhan yn waith dyethriaid.

Sylwch, fe benododd Duw dywysoges i addysgu Moses, fel pe i anrhydeddu addysgydd.

Y mae camgymeriadau mawrion ar y pwynt yma. Dywed pobl y gwna unrhyw ddyn y tro. Ond y mae *spring* eich *watch* wedi tori—a ydych yn ei rhoddi i'r gôf! Mae ei holwynion wedi drysu—a ydych yn ei hymddiried i saer troliau! Na, y mae yn rhy lednais. A all meddwl chyffredin gyfarwyddo y peth llefnais, nwyffrawl, dirgelaidd yna, enaid plentyn! Rhaid i ni ddeall y natur ddynol, darllen calonau. Mae arnom eisieu dynion o'r fath oren.



Gynnildob truenus mewn rhieni! Y tlodion yn gwarafun un geiniog yr wythnos. Fe werthodd Esau ei enediggaeth-fraint am saig o fwyd—yr ydych chwï yn mantoli meddwl ac enaid eich plentyn yn erbyn pres! y cyfoethogion yn gwario ar foes-ddillyndra ac yn gwarafun talu i'r athraw. Och! nid ydym yn gwneyd cyfrif teillwng o'r athraw. . .

Ystyriwch ddylanwad athrawon. 3,500 o flynyddoedd yn ol fe gymerodd tywysoges Aiptaidd blentyn i w'r tlawd, ac addysgodd ef. Nid ydym canlyniad yr addysgu hwnw drosodd eto. Y mae mil o filoedd o Iuddewon yn mawrygu y cyfreithiau a wnaeth y plentyn hwnw. Mae y genedl a ffurfiodd ac a ryddhâodd yn byw o hyd. Cymharwch ddylanwad merch Pharaoh âg eiddo Pharaoh ei hun. Fe llywodraethai efe ymherodraeth. Fe allai Pyramidiau godi ar ei archiad. Y mae ei esgryn mewn rhyw Byramid. Nid oes dim arall yn aros! Y mae llywodraethu mewn un galon, y mae ffurfio ac arwain meddwl plentyn, yn fwy na'r llywodraeth ardderchocaf. Yr wyf yn ei ddyweyd yn bwyllog, y mae yr athraw yn fwy na'r brenin. Mae y brenin yn llywodraethu oddiallan, yr athraw oddifewn. Y dylanwad sydd yn ddwfn ydyw mewn cymhariaeth i'r dylanwad sydd iddo gylich eang mewn gogoniant, ysblander, a thrwst. Pa un fwyaf, addysgu plentyn ynte llywodraethu gwlad? Profer ef trwy y prawf o fendithio eich cydgreaduraid. Dyma ddyw wedi ei osod yn uchel, a'i wisgo mewn ychydig awdurdod fer, gyda bysedd yn pwyntio: Dyna fe!—dyma *Grist â phlant o'i amgylch*—“Efe a'u cymerodd hwynt yn ei freichiau, a osododd ei ddwy-law arnynt, ac a'u bendithiodd hwynt.”

*Cofiant y Gŵr Hynod: sef y ddiweddar Barchedig Ishmael Jones, Rhos. Gan DAVID EVANS, Pentre Ystrad, Morganwg. Bala: H. Evans.*

Yn ddiweddar y dygwyddodd i'r llyfr hwn ddyfod i'n llaw, er yr ymddengys ei fod wedi ei gyhoeddi yn 1877. Darllenasom ef gyda llawer o foddhâd. Er mwyn rhai o'n darllenwyr, galleu ddyweyd mai gweinidog cymeradwy gyda'r Annibynwyr oedd Ishmael Jones, a fu farw yn Rhosllanerchrugog yn 1876, yn yr oedran addfed o 82. Fel llawer o wŷr da a brofasant o gymaint bendith i'n gwlad, nid oedd ei ddechreuad ond isel, ac ni fu ei fanteision ond tlodion iawn. Ond trwy dduwioldeb pur a dwfn, a thrwy ymdrech galed i feistrolï anhawederau, trwy astudiaeth barhâs o ysgrifeniadau y duwinyddion Puritanaid, ac yn neillduol trwy gymundeb ei feddwl gwreiddiol ei hunan â'r gwirioneddau mawrion, fe ddaeth yn bregethwr tra rhagorol. Yr ydoedd yn hynod yn ei ffordd. Fel y canai Hiraethog yn ei *Farwnad*—

Lluniai natur fold o bwrpas  
I roi ffurf i'n gwron ni;  
Conglan dyrys, a chromfachau,  
Dyeithr iawn oedd ynddi hi:  
Allan pan ddaeth ef o honi,  
Natur roes y fold o'i llaw;  
Felly ar ei ol ond hyny,  
Ishmael arall byth ni ddaw!

Prin yr oedd yn meddu cymhwysder i drin dynion; er fod ynddo, fel y dywed y *Farwnad*, gymaint o'r "athronydd dyfnddoeth," yr ydoedd ynddo hefyd gryn lawer o'r "plentyn pum' mlwydd oed." Yr oedd hyny yn peri fod ei brofedigaethau yn amlach nag y buasai raid. Ond er na chawsom yr hyfrydwch o'i wrandaw yn pregethu, mae yn hawdd genym ddeall oddiw'rth a ddarllenasom yn y llyfr hwn, ac yn enwedig y lloffion tra gwerthfawr a roddir o'i sylwadau, fod ei weinidogaeth yn fynych yn gyfoethog o bethau goreu pregethu. Un engraifft:—

"*Mae Duw yn hoffi madder.* Dywedir fod yn 'hoff ganddo drugaredd.' Mae gan yr Eagog Reynolds ddammeg, sef ymddyddan rhwng Duw ac Elias. 'Wel,' meddai Elias, 'dyna'r farn wedi ei chyhoeddi ar Ahab, a thithau yn arbed. Beth ddywed y bobl am danaf! Mi feddyliant nad wyf finnau ddim gwell na'r gau-

brophwydi; a beth feddyliant am dy gymeriad dithau fel Duw cyfiawn!' I'r hyn y mae yr Arglwydd yn ateb, "Does genyf mo'r help—y mae yn well genyf iddynt feddwl pobpeth am danaf, na meddwl fy mod i yn Dduw *an-faddeugar*.' Ydi, bobol, 'Dduw *parod* i faddau.' Mi 'roeddwn i yn 'nabod hen wr a hen wraig yn Sir Ffint, er's blynydde'n ol, 'rwan. Yr oedd anifeiliaid eu cymydogion yn tori i'w hyd a'u gwair, ac yn gwneyd colled i'r hen bobl. Gwylltiai Dafydd, yr hen wr, o'r diwedd, ac y mae'n d'od i'r ty at yr hen wraig. 'Mari,' medda fo, 'mi wna iddyn' nhw dalu'r *damage*.' 'Paid a son am dalu, Dafydd,' ebe Mari, 'mi dâl Duw iddynt.' 'Na wnaiff, wir,' medda Dafydd, 'mae o'n rhy barod i faddau lawer.'" Gwennai y bobl, yna dywedai Mr. Jones, mewn llais soniarus, a'i natur wedi ymddattod, "Gellwch chi i wenu, ond Dafydd oedd yn ei 'nabod o, bobol—' Eto ti ydwyf Dduw parod i faddau.' M' fyddde'n haws gen' i, ffrindie, ofyn i Dduw am faddauant o feian fel mynyddau, na gofyn i'r gore' o ddyinion am fenthyg chwe' cheiniog, 'rwan; b-by-ddai, bobol, coeliwch, 'rwan."

*Athravaeth Gristnogol.* Originally printed at Milan, A.D. 1568. Reproduced in fac-simile from the unique copy in the possession of H.L.H. Prince Louis-Lucien Bonaparte, for the Honourable Society of Cymmrodorion. A.D. 1880.

MAE yn dra dyddorol cael yr hen lyfr hwn trwy y waag o'r newydd. Ymddengys mai y copi o hono yn meddiant y Tywysog Napoleon ydyw yr unig un ag y gwyddid am dano oedd mewn bod cyn dwyn allan yr argraffiad hwn. Yr oedd yn garedig i'r Tywysog ganistâu ei argraffu, ac yn fwy fyth iddo gymeryd cymaint o drafferth i sicrhau cywirdeb yn y *fac-simile* a wneid o hono. Y mae fod ysgoleigion tramor fel yma yn teimlo cymaint o ddyddordeb yn ein hen weddillion llenyddol yn gerydd i lawer o'r Cymry, y rhai nad ydynt yn maliaw blewyn yn eu cylch. Y mae yn dda hefyd fod y Cymmrodorion yn dwyn allan weithiau o'r fath yma. Ar yr un pryd, ni allwn ni yn ein byw gymmodi â'r dull costus a gymerant i wneyd hyny. Pa angen oedd cyhoeddi y gwaith hwn mewn *fac-simile*, fel pe buasai pobpeth yn ymddibynnu ar fod pob llythyren o'r un ffurf â'r llythyrenau yn yr argraffiad gwreiddiol, a'r cwbl yn cael eu gosod wrth eu gilydd yn union yn yr un dull? Y mae peth anferth o'r hen ysgrifeniadau nad ydynt eto mewn argraff, ac yn lle eu cyhoeddi mewn ffurf radlawn a'u dygo i gyrhaedd efrydwyr, fe werir arian mawr i ddwyn allan argraffiadau costus o ychydig o honynt, er boddâu ffansel cyfoethogion, llawer o ba rai na fydd yn wiu ganddynt byth gymeryd y drafferth o'u darllen. Byddai yn ddyddorol cael syniad mewn un tudalen, dyweder, am yr hen argraffiadau; ond ein hangen yw cael yr hen gyfansoddiadau trwy y waag; ac fe wnelai y Cymmrodorion wasanaeth tra gwerthfawr pe yr elent ymlaen mewn dull mwy diseremoni er dwyn hyny oddiamgylch. Ymddengys fod y llyfr hwn wedi ei gyfansoddi gan Morys Clynoc, rector cymtref y Coleg Seisonig yn Rhufain; a phan welwyd ef gan Griffith Roberts, awdwr y Grammadeg, fe deimlodd y fath awydd am ei gael at wasanaeth ei gydwladwyr, oeddent ar y pryd mor amddifaid o foddion gwybodaeth, fel y cyhoeddodd ef. Catecism byr ydyw y llyfr ar brif faterion y ffydd Gristnogol, wedi ei gyfansoddi wrth reswm oddiar safle Babaidd, ac fel y cyfryw yn cynnwys llawer o ffoledd; ond ar yr un pryd, fel y golygai "Gruffyd fab Rhobert," yn cynnwys llawer o wybodaeth werthfawr, yr hon, ni a hyderwn, a fu o fawr wasanaeth i'n cydwladwyr mewn adeg o ddirfawr dywyllwch.

# Y TRAETHODYDD.

---

---

## LLE A GWAITH BARDDONIAETH MEWN ADDYSGIAETH.

*Anerchiad a draddodwyd gan Mr. Lewis Morris, M.A., Cymraeod Mygedol o Goleg yr Iesu, Rhydychain, Awdur yr Epic of Hades, &c., wrth ranu y Gwobrwyon yn y Liverpool Institute, 1880.*

PAN ofynwyd i mi gyntaf draddodi anerchiad i chwi y prydawn hwn, mi deimlais yn naturiol gryn anhawser wrth feddwl am y dasg a osodid o'm blaen, canys yr ydwyf fel Dirprwywr yn cymeryd rhan mewn ymchwiliad i Addysg Uwchraddol ymysg eich cymydogion yn Nghymru, wedi clywed cryn lawer am y *Liverpool Institute* yn ddiweddar, ac y mae yr hyn a glywais, rhaid i mi addef, wedi cynnyddu yn hytrach na lleihâu y parch â pha un yr edrychwn bob amser ar y Sefydliad mawr a defnyddiol hwn. Yr oeddwn yn teimlo hefyd fod yr alwad barhâus a llwyr oedd ar fy amser yn ngwasanaeth y Ddirprwyaeth yn barotoad drwg i'm galluogi i wynebu cynnulliad diwylliedig, a digon tebyg beirniadol i raddau. Ar y llaw arall, wrth edrych ar enwau anrhydeddus y rhai—lawer o honynt yn fy rhagflaenu yn y Brifysgol—a fuant yn llywyddu yma ar achlysuron cyffelyb mewn blynyddoedd a aethant heibio, mi deimlais y byddai yn dda i minnau fy rhestru fy hun ymhlith cwmni mor ragorol; a chyda golwg ar y llafur y rhaid i mi yn fuan ail ddechreu arno, y byddai yn dda i mi gael gwell adnabyddiaeth o amcan a gweithrediad ymarferol y Sefydliad hwn. Dyna'r paham yr ydych yn fy ngweled yma heno, er nad heb gryn lawer o amheuaeth pa un a oes genyf mewn gwirionedd ddim i'w ddywedyd wrthych.

Yr ail anhawser ydoedd gyda golwg ar destun; ac yma fe'm gwynebid gan rybudd difrifol—o ba ffynonell nid wyf yn cofio, ond yr wyf yn perffaith gytuno âg ef—fod “araith,” a chan hyny yn llawer mwy, anerchiad, “bob amser yn ddirmygus oddieithr pan y mae yn angenrheidiol.” “Yn awr,” meddwn, “os na wn ar ba destun i anerech fy ngwrandawyr, ni all fod yn angenrheidiol i mi eu hanerech o gwbl.” Ar yr adeg yna o anhawser a digalondid, fe ddarfu i gyfaill gwerthfawr, un o'ch cyfarwyddwyr mwyaf gweithgar, awgrymu ar i mi fyned ymlaen a chyflenwi yr anerchiad tra rhagorol a draddodwyd i chwi gan fy

nghyfaill enwog Mr. Goschen yn 1877, a dyweyd yr hyn sydd genyf i'w ddyweyd ar Le a Gwaith Barddoniaeth mewn Addysgiaeth.

Yr wyf yn meddwl ei fod yn dra thebygol, pe gadawsid fi i mi fy hun, y buaswn yn myned ymaith mewn cyfeiriad hollol wahanol, ac yn dewis rhyw destun o nodwedd llawer mwy cyffredin ac ymarferol. Nid pengamrwydd yn unig sydd yn peri i bobl dori allan i bob math o gyfeiriadau annysgwyhiadwy, ac weithiau i gamgyfrif am eu galluoedd a'u tueddiadau. Os gwir yw fod Liston, yr hwn a barai i bawb chwerthin cyn iddo agor ei enau ar y chwareufwrdd, yn meddwl mai ei ogydd naturiol oedd prudd-chwareu, *tragedy*, felly hefyd yr ydoedd am y digrif-chwareuydd hynod, Robson, yr hwn ydoedd, fel yr wyf fi yn credu, nid yn unig yn ddiuro mewn chwareuon ysmala, ond yn fawr hefyd mewn prudd-chwareuon. Yr ydoedd wedi cael allan, mewn gair, mor agos i ffynnonell chwerthin ydyw ffynnonell dagrau. Ac felly ni ddylem synu fod Mr. Goschen, yr hwn sydd yn fawr fel cyllidydd, yr hwn sydd yn deall damcaniaeth newidiaethau tramor a phob math o bethau ðyrys heblaw hyny, a'r hwn mae yn dra thebyg a fydd rywbryd yn Ganghellydd y Trysorlys, yn dangos teimlad neillduol o'r angenrheidrwydd am ddiwylliad priodol y dychymyg, fel y gwna yn ei anerchiad a draddododd yma dair blynedd yn ol. Yr un modd, fe allai y gallasech gael fod amryw faterion cysylltiedig â chyfraith neu wleidyddiaeth, a'u cymeryd yn benaf yn eu perthynas âg addysgiaeth, ar ba rai y gallaswn i gael rhywbeth i'w ddywedyd wrthych. Ond yr wyf yn teimlo fy mod yn adnabyddus i chwi, os o gwbl—yr hyn sydd braidd yn ammheus genyf—fel ysgrifenydd llyfrau o farddoniaeth; a chan hyny, yn gymaint ag fod y tair blynedd fer a aethant heibio er anerchiad Mr. Goschen yn ffurfio cyfnod diderfyn bron i lawer o'r bobl ieuainc sydd yma heno, mi a ddywedaf yr hyn a gaf i'w ddywedyd ar y testun a gynnygiwyd i mi.

Yn awr, yr wyf yn meddwl y dylwn ddechreu trwy ddywedyd ar unwaith nad ydwyf mewn un ystyr o'r gair yn ddyn mympwyon neu *crotchets*. Nid oes genyf fympwyon, fel mae gwaetha'r modd. Nid wyf hyd yn nod yn anhôff o'r rhai sydd yn eu meddu. I'r gwrthwyneb, y mae genyf lawer iawn o barch iddynt a hoffder o honynt, er eu bod yn gwneyd eu hunain dipyn yn afresymol ambell dro. Ond y mae yn gofyn llawer o gydgrynhôad, llawer o frwdfrydedd, a llawer o wybodaeth—ansoddau mawrion nas gallaf fi hōni yr un o honynt—i fod yn ddyn mympwyon. Yr wyf yn gobeithio, yn wir yr wyf ymron yn amneu, ddarfod i chwi gael anerchiadau yma gan ddynion y gellid yn deg eu desgrifio trwy y fath enw anrhydeddus. Ond nid wyf fi yn un o'r dosbarth, ac am hyny ni wnaf ond dechreu trwy ddywedyd ar unwaith nad ydwyf yn meddwl mai barddoniaeth ydyw yr un peth angenrheidiol mewn addysgiaeth. I'r gwrthwyneb, yr wyf fi yn meddwl fod llawer mathau eraill o ddiwylliad meddyliol sydd yn llawn mor angenrheidiol, a llawer hyd yn nod yn fwy felly. Ond y mae i farddoniaeth ei le er hyny, ac y mae yn lle pwysig iawn.

Yn awr, gan fod arnom yn Liverpool eisieu bod yn bur gywir a threfnus, fe fydd yn dda, fe allai, i amcanu at ryw frâs-ddarnodiad, neu, o leiaf, ddesgrifiad o'r hyn mewn gwirionedd ydyw barddoniaeth. Fe allai y bydd yn dda dechreu gyda dangos beth nad ydyw. Nid oes

arnon, wrth reswm, i'n hamcanion presennol, eisieu dda mwy na brás ddarnodiad, gan y cymasrai ornod o'oh hamser heno i wneyd mwy na hyny. Ond gallwn ddyweyd yn hyderus nad barddoniaeth mewn un modd ydyw pob ysgrifenu mewn mydr,—ie, nad ydyw ond rhan amhraethol fechan o'r mydr a ysgrifenu mewn unrhyw iaith ar unrhyw amser. Ond pa fodd y darnodwn ef ar yr ochr arall? Er nad ydyw pob mydr o angenrheidrwydd yn farddoniaeth, a ddywedwn ni fod pob barddoniaeth o angenrheidrwydd yn fydr? Na wnawn yn sicr; oblegid, heb fyned ymhellach na'n dydd ein hunain, y mae llawer o *Stones of Venice*, neu *Modern Painters*, gan Mr. Ruskin, a thua'r oll o'r *History of the French Revolution* gan Mr. Carlyle, yn farddoniaeth digymysg a phenigamp, er nad oes yr un ran o'r gweithiau hyny yn ffurfiol mewn mydr. Nid oes farddoniaeth ardderchocach yn y byd na Llyfr Job, er, yn y cyfieithiad cyffredin o hono, o leiaf, y mae yn cymeryd ffurf rhyddiaith; neu Wladwriaeth Plato, yr hwn hefyd sydd yn rhyddiaith. Ac nid yn unig mae genym weithiau rhyddieithol fel y rhai hyn yn tebygu i ganiadau, ond ni gawn yn ysgrifeniadau Americaniad enwog, er anghyfartal, yn ein hamser ni, Walt Whitman, ganiadau ydynt yn wirioneddol ac yn hanfodol yn ganiadau, ac yn ganiadau tra gwyech hefyd, ac wedi eu hysgrifenu felly, er a siarad yn fanwl, yn dynesu yn bur agos i diriogaeth rhyddiaith. Yr wyf fi yn meddwl fy hun, er yr ychydig wrthweithiad diweddar yn y cyfeiriad gwrthwynebol yn ngwnouthuriad cylchganau a thriodau, a phob math o filoreg gywrain o'r natur yna, fod yn debyg y bydd dynesiad cyson ac agosach fyth rhwng cyfryngau gwahanol rhyddiaith a barddoniaeth, ond y bydd y gwahaniaeth yn arw bob amser, er hyny, ac y rhaid iddo fod yn annileadwy tra y bydd meddwl yn parhâu. Fe fydd yn rhywbeth wedi ei ennill os gall un ddyweyd yr hyn sydd ganddo i'w ddyweyd mewn mydr am *heart*, heb gael ei orfodi i feddwl ei fod yn odli â "*dart*" ac "*apart*," ac felly ymlaen, fel y gwna mewn *valentines* a phethau eraill—ymarferiadau annheilwng o fôd dynol rhesymol.

Eto, mi dybygaf y gallwn ddyweyd y bydd ymron yr oll o farddoniaeth bob amser, yn ymarferol, mewn rhyw fath o fesur mydryddol, yr hwn, pa mor lac bynag y gall fod, a fydd yn dra gwahanol i ryddiaith. Y mae tuedd ymhob teimlad i ddyfod yn fydrol, *rhythmic*, ac i'w amlygu ei hun mewn yspeidiau a disgygniadau cerddorol rheolaidd, y rhai ydynt yn boddloni dymuniadau deffroëdig yr enaid, yn cyfateb i'w gyflwm ymchwareuadau, ac yn cynnorthwyo tuag at eu lleddfau drachefn i orphwysdra. Os dilynwch draddodiad siaradwr galluog, chwi gewch, pan y mae llanw areithyddiaeth yn esgyn uchaf, mai tuedd llais a llaw ydyw dyfod yn fydrol,—tuedd sydd mor gref fel y mae i'w chadw i lawr, fel pe byddai, trwy nerth. Felly, gan belled ag y mae ffurf yn myned, rhaid i farddoniaeth fod gan mwyaf yn fydryddol.

Gan hyny, nid oes arnom eisieu, i'n brás ddarnodiad o farddoniaeth, ond ei wahaniaethu o ran mater ac amcan oddiwrth ryddiaith. Fe'm tuedd i i ddyweyd fod pob ysgrifenu a fyddo yn tueddu at deimlad uchel, neu at fyfyrdod fo yn arwain i'r fath deimlad, gan gymeryd fel testun ddynolryw, neu y byd materol, neu y ddau, mewn perthynas â Duw, a chan ddefnyddio, gan mwyaf, y cyfrwng o ffurf fydryddol, yn farddoniaeth, mor bell ag y cyrhaedda ei fater a'i ddyben. Wrth reswm,

nid barddoniaeth yw pobpeth sydd yn trin am faterion priodol gyda dybenion priodol. Y mae llawer iawn yn eisieu heblaw hyn, ac yn arbennig yr eglurder neillduol o ddarwelediad ysbrydol sydd yn gwahaniaethu y gwir fardd oddiwrth y dynwaredydd. Ond yr wyf yn ofni y byddai swm anferth o lenyddiaeth sydd wedi ei dderbyn ac sydd o hyd yn cael ei dderbyn fel barddoniaeth, yn cael ei gau allan gan brawf mor gymedrol â'r hwn yr ydwyf fi yn gynnwng, er i'r ysgrifenywyr fod yn ein dyddiau ni, neu ddarfod iddynt mewn amser a aeth heibio, fod yn feddiannol ar fedrusrwydd a chywreinrwydd diammheuol. Pa ddyben yn y byd ydoedd i Sais ieuanc o'r ganrif ddiweddar gymeryd arno mai rhigymydd Rhufeinig ieuanc a "dyn o gylch y dref" ydoedd o amser Augustus, a phoenyddio'r byd âg ailadroddiaidau diddiweddd, yn yr odlau llyfnaf oedd yn bosibl, am ei nwyd ddifaol at Sacharissa neu Cloe? Pa fudd yw i Sais ieuanc o'r flwyddyn 1880 gymeryd arno, yn fynych gyda medr llenyddol nid bychan, ei fod yn Roegwr ieuanc o'r cyfnod Paganaid boreu, ac edrych, a dyweyd y lleiaf, gyda goddefiad ar foesau, neu ddiffyg moesau, y rhai y mae wedi wneyd yn gynlluniau? Nid yw y ffolineb olaf ond yn unig yn fyw goddefol na'r cyntaf am fod y Roeg yn iaith lawer iawn rhagorach a mwy barddonol na'r Lladin, a'i bod yn meddu perthynas lawer nês âg ysbryd yr eiddom ni. Ond y mae yr holl ymdrechion hyn—ac y mae yn rhaid iddynt fod—yn gelfyddydol, yn gyffredin, heb dueddu tuag at un math o deimlad uchel, ac felly yn gwbl ddiamecan a diddym.

Wrth reswm, ni ddysgwylwch i mi ddyweyd gair yn erbyn cymeryd i fyny, i'n hamcanion ysbrydol ein hunain, yr etifeddiaeth ardderchog a adawyd i ni yn yr hen chwedlau Groegaidd. Mae fy ngwrthwynebiad i yn myned yn erbyn ymgais i adgynnyrchu, trwy bob math o fân gainpau—yn ymestyn hyd yn nod at gymhendod mewn geirweddiad a chystrawen allan o'r grammadeg Groeg—y math o awyrgylch meddyliol Groegaidd sydd yn anffodus, a'r awyrgylch foesol Roegaidd sydd yn ffodus, wedi myned yn rhy bell i'w galw yn ol. Fel pe buasai Groegwr yn ymddarostwng i ddynwared llafardulliau henafol, Aiphtaid neu Hebreig, neu i ysgrifenu mewn unrhyw iaith heblaw yr un a ddefnyddid gan ysgrifenywyr a siaradwyr goreu Groeg yn ei ddydd ef!

Wel, yn awr, wedi cyrhaedd can belled a hyn, fy syniad ar y dechreu ydoedd na fussem ond megys wedi clirio y ffordd i drafodaeth faith a dyhysbyddol; ond, wela, y mae yr anhawsder oeddwn i yn ragddysgwyl pan yn meddwl y mater yma allan wedi diflanu i'r awyr deneu, ac fel mae yn ddiammeu y bydd yn dda genych glywed, ni fydd trafodaeth o nemawr feithder yn bosibl. Oblegid os ydyw ein disgrifiad o farddoniaeth, fel yr hyn sydd yn delio yn deilwng â thestunau mawrion a theilwng, a chyda golwg ar deimladau uchel—a dyma i fesur mawr yr hyn a ddywedasom am dano—i'r graddau lleiaf yn ddesgrifiad digonol, yna mi dybygaf y bydd yn ddianghenrhaid profi y rhaid i gangen o lenyddiaeth a fedr gynnrychu y fath firwyth, yn ol natur pethau, gael lle priodol mewn unrhyw gyfundrefn o addysgiaeth a fyddo yn deilwng o'r enw. Ac felly nid y cwestiwn mewn gwirionedd a fydd, pa un a oes i farddoniaeth le mewn addysgiaeth, ond beth yw y lle neillduol a roddem iddo ymysg y gwahanol ranau mewn cwrs rhesymol o efrydiaeth?

Yn awr, os dechreuwn gyda'r dechreu cyntaf, ni a gawn, os cymerwn

ein hadgofion yn ol mor bell ag y gallant gyrhaeddyd, fod yr addysg foesol foreuaf trwy farddoniaeth ddefosiynol, yn yr emynau syml a ddysgem pan yn blant. Yr wyf yn hoffi meddwl am y plant bychain sydd er ys llawer dydd wedi marw o henaint, ac am y plant bychain eraill sydd gyda ni heddyw, a fuont yn bloesgadrodd emynau bychain Dr. Watts ac ysgrifenwyr eraill,

How doth the little busy bee,

a'r gweddill o honynt, wrth liniau eu mamau, neu ydynt yn eu bloesgadrodd felly heno. Yr wyf yn hoffi meddwl am yr eneidiau ieuainc ydynt yn cael eu codi i gywair uwch o deimlad na chyffredin trwy geinciau syml fel yr emynau adnabyddus,

Abide with me, fast falls the eventide,

neu

Nearer to Thee,

a glywir mor fynych yn awr mewn addoliad cyhoeddus, ac a ymddangosant yn grefydd ynddynt eu hunsin. Nis gallai dim cynghorion mewn rhyddiaith, dim gallu rheithyddol neu gywreinrwydd, feddu hanner y siawns o argraffu gwirioneddau moesol cartrefol ar y meddyliau bychain anaddfed hyny ag sydd gan y ffurf symlaf o bennill. Y mae yn gymaint mwy arosol a chydymlynol na rhyddiaith, yn gymaint mwy cryno, fel y mae pennill moesol neu ddefosiynol, heblaw y teimlad a gynnyrcha, y ffurf oreu i argraffu ar y cof wersi moesol a chrefyddol. Nid am nad ydyw rhyddiaith yn beth rhagorol, ond am nad ydyw, a siarad felly, yn glynu. Am hyny yr ydwyf yn meddwl mai greddf iachus sydd yn arwain athrawon i roddi llawer o'r hyn sydd ganddynt i'w ddywedyd wrth eu gwrandaewyr ieuainc trwy gyfrwng pennillion.

Wedi i ni fyned tu hwnt i'r oedran hyfryd yma, ac yr ydym yn barod i fyned i'r ysgol o ddfrif, beth yw y rhan a ddylai barddoniaeth chwareu yn addysgiaeth bechgyn a genethod? Wel, dyma yn benodol yw yr amser pan y mae ysbryd anturio gryfaf, ac y mae y galluoedd dychymygol leiaf dan lywodraeth. Ni ellwch mewn un modd, diolch i'r Nefoedd, sathru allan gynneddff ddychymygol plentyn, er y gallech yn dra hawdd ei gor-gynhyrfu. Ddydd a nos y mae yr anwybyddus yn ymagor o flaen yr ysbrydoedd ieuainc awyddus hyn, ac y mae gwyrthiau o hyd yn cael eu cyflawni o flaen eu llygaid. Er da neu er drwg, hwy fynant y rhyfeddol, y dyeithr, y prawf o wroniaeth, y rhai a ymddangosant i ni mor gyffredin; y rhyfeddodau lledrith, nad oes ganddynt i ni unrhyw hudoliaeth; a phrin y gallaf fi feddwl am ddim mwy cynhyrfiol neu foddlonol yn yr oedran yma na chaniadau fel yr eiddo Scott, y rhai yr ydym ni mewn oedran addfetach weithiau yn cael ein cynghori yn ddfrifol gan bobl frwdfrydig i'w darllen, ond o ba rai yr ydym i raddau helaeth yn cymeryd yr un olwg â Scott ei hun. Ni allaf fi feddwl am ddim mwy cymhwys i bobl ieuainc iawn na'r caniadau gwronaidd ac anturiaethus hyny, yn gymysgedig, fe allai, â darnau detholedig o Cowper neu o Byron, y fath ag a'u hawgrymant eu hunain i bawb ar unwaith; neu hyd yn nod, a gwell fyth, awen dyner a chartrefol Longfellow, neu y fath ddetholiad rhagorol â'r *Golden Treasury*. Ac yr wyf fi yn meddwl

fy hun y byddai i'r amseriadau angenrheidiol, a'r grammadeg a'r daear-yddiaeth angenrheidiol, a'r rhifyddiaeth feddyliol fwy nag angenrheidiol, a'r hanesyddiaeth, sydd yn dueddol i fod dipyn yn feichus pan y mae i'w chofio trwy orthrech, ennill yn fawr trwy y fath gymysgiad o efrydiau mwy dychymyngol, ac y byddai i ambell wers o farddoniaeth yn achlysurol anfon dysgwyr bychain yn ol gydag awch ychwanegol at efrydiau mwy manwl, hyd yn nod pe na wasanaethai i argraffu ar eu meddwl wersi moesol, ac i gynnyrchu, fel y dywedais, "deimlad uchel."

Pan mae y meddwl wedi ei ddadblygu yn fwy, a'r bobl ieuainc yn dechreu dysgu ieithoedd eraill heblaw yr eiddynt eu hunain, prin ar yr olwg gyntaf yr ymddengys unrhyw angen darparu ar fod barddoniaeth yn rhan o addysgiaeth. Oblegid, fel y mae a fyno âg agweddion mwy cuddiedig meddwl a natur, mae yn amlwg y rhaid fod ei geiryddiaeth yn helaethach, ac am hyny yn fwy anhawdd, ac fod geiriau ydynt yn ddigon at wasanaeth cyffredin rhyddiaith i'w cyflenwi gan yr hyn a adnabyddir fel trwydded farddonol. Dyna y paham y mae pobl ieuainc yn dechreu gyda rhyddiaith ac yn myned ymlaen at farddoniaeth, nid yn unig mewn Lladin a Groeg, ond yn yr ieithoedd diweddar yn ogystal; oblegid fel y mae Sophocles yn llawer iawn anhaws na Xenophon, neu *Eclogues* Virgil nag Eutropius, neu unrhyw ysgrifenydd rhyddieithol hawdd arall, felly y mae yr *Inferno* neu *Faust* yn llawer iawn anhaws na'r *Promessi Sposi* neu y gwerslyfr Germanaeg, pa un bynag sydd yn awr mewn arferiad. Yn wir, fe ddychrynai dyn i feddwl pa beth a fyddai raid fod tynged plentyn tlawd o Ffrainc neu Germany a gai ei hun wyneb yn wyneb â rhai ffurfiau rhyfedd o Saesoneg sydd yn awr mewn ffiafr gyda mwy nag un o feirdd y dyddiau hyn. Ar yr un pryd, rhaid addef na fyddai i'r rhai a allent feistroli y briodiaith neillduol yna gael anhawder mawr mewn canlyn unrhyw ysgrifenydd Seisonig arall o gwbl.

Ond, tra y mae mesur gweddol o amser yn cael ei roddi at wasanaeth barddoniaeth gyda phobl ieuainc sydd wedi myned dros dymmor plentyndod, mae arnaf eisieu galw sylw at y ffaith mai nid fel barddoniaeth, ond fel yn cymeryd i fewn feistrolaeth ar anhawsderau ieithyddol mwy pwysig nag a geir mewn rhyddiaith, y mae yn cael ei ddiwyllio. Yr oedd bechgyn a gwŷr ieuainc, na feddyliasai eu hathrawon am eu gosod ar waith i gyfansoddi barddoniaeth Saesoneg o'r ffurf fwyaf syml, yn cael eu gorfodi, ac yr wyf yn ofni eu bod weithiau eto yn cael eu gorfodi, at y gorchwyl celfyddydol yn unig o ddelio âg anhawsderau iaith anghynnefin, yn cael eu maglu gan bob math o ddeddfau arbenig gyda golwg ar hŷd y sillau, a'u gorfodi i droi allan hyn a hyn o linellau gynifer o weithiau yn yr wythnos. Pa ryfedd fod y ffirwyth yn y rhan fwyaf o lawer o achosion yn druenus i'r eithaf, yn wastraff pur ar amser i athraw a dysgybl, heb fod mewn un gradd yn cael gwneyd i fyny am dano gan y llwyddiant calonogol a ennillir gan yr ychydig, yr ychydig iawn, o fechgyn a feddent ar unwaith y gallu o ddysgu ieithoedd ynghyd a'r rhwyddineb hwnw mewn cyfansoddi linellau barddonol. Mae yn llawen genyf, o'm rhan i, fod y drafferth ychwanegol gydag addysgiaeth wyddonol fuddiol, a'r efrydiau diweddar hyny sydd yn awr yn hawlio sylw, wedi arwain i ddiorseddiad cyfansoddi linellau Lladin a Groeg o'r uchafiaeth a roddid iddo gynt. Yr hyn sydd eisieu mewn



gwirionedd, i gael y daioni addysgawl mwyaf o'r beirdd Lladinaidd a Groegaidd—ac mae yr un peth, wrth reswm, yn wir am bob barddoniaeth—ydyw eu bod yn cael eu hastudio, nid yn unig fel ymarferiadau mewn iaith sydd rywfaint anhaws na rhyddiaith, ond fel gweithiau celfyddyd, yn meddu amcan ac arwyddocâd moesol mawr ac arbenig.

Wrth reswm, rhaid i ni fod yn barod i gau allan o farddoniaeth, a'i hystyried fel moddion addysgiaeth, lawer sydd yn meddu teilyngdod neillduol o'r eiddo ei hun, ond dim un math o arwyddocâd moesol o gwbl. Fe'm tuedd i osod yn y dosbarth yma y doraeth fawr o farddoniaeth Lladin sydd wedi dyfod i lawr atom ni; llawer iawn o Horace a Virgil, Ovid, Propertius, a llu o rai eraill. Os oes arnom eisieu barddoniaeth Lladin dderchafedig, fe fydd yn ofynol i ni, mae yn debyg, fyned at Juvenal a Persius, at Lucretius a Catullus, llawer o waith pa rai sydd, am resymau eraill, yn anghymhwys. Yn gyffelyb; heb fyned i gwestiynau dreiniog o deilyngdod, ni all fod un ammhueaeth nad ydyw dyfarniad y genedlaeth hon gan gryfed yn erbyn enwau fel yr eiddo Dryden a Pope, a'u hysgol, ag y mae yn bosibl iddo fod. Beth bynag ydyw diffygion yr oes hon, nid ydyw yn ei llenyddiaeth, o leiaf, yn oes gelfyddydol; ac er fod yn bosibl fod yr adfywiad yn amser y Frenhines Anne mewn dodrefn celfyddyd wedi cyrhaedd barddoniaeth y cyfnod hwnw, nid oes, yn ffodus, unrhyw arwyddion o symudiad felly yn bresennol. Ond hyd yn nod wedi i ni wneyd y deoliadau hyn, a gosod o'r naill du yr holl gymhendodau am Sacharissa a Cloe a'u perthynasau gau-Roegaidd anghymeradwy o'r amser presennol, y fath anferth drysordŷ a gardd—*κήπιον και εγκαλλόπισμα*—sydd i'w cael yn nghyfangorff barddoniaeth y byd! A'r fath allu addysgawl mawr a nerthol! Yr wyf yn meddwl na ddylai bechgyn neu ferched ieuainc ddyfod i derfyn yr addysgiaeth a dderbyniant oddiwrth eraill heb fod yn gynnefin âg o leiaf fater y gorchestweithiau barddonol mawrion mewn amseroedd hen a diweddar. Meddyliwch am fynydd beth y mae hyn yn gynnwys. Byddant yn gynnefin â syniadau goreu a mwyaf derchafedig y meddyliau goreu a mwyaf derchafedig ymhob oes, wedi eu rhoddi allan, nid yn sicr heb un golwg am ddylanwadu ar eraill, ond yn wynias, a dywedyd felly, ac wedi eu tynu gan ymwybodolrwydd gorchfygol am frawdoliaeth gyffredin dyn a thadolaeth gyffredinol Duw. Canys i hyn y mae pob barddoniaeth sydd yn deilwng o'r enw yn tueddu; a chyda y teimlad hwn wedi ei osod ar dân o'i fewn y mae y bardd wedi llefaru, er y gallai fod ei ddaidganiadau mewn amseroedd boreuach yn gloffion, ac er y gallai fod yn guddiedig oddiwrtho yn fynych o ba ysbryd yr ydoedd. Y mae holl ddyfnderau mwyaf cuddiedig yr enaid dynol—ei ymestyniadau uchel am ddaioni, ei lithriadau ofnadwy i ddrwg; ystormydd a rhuthrwyntoedd nwyd euog, ffrydiau tawel cariad pur; y teimlad o uchder uwchlaw i ni nad allwn, ei gyrhaedd byth ar y ddaear, o eigion islaw i ni yn agor ei safn yn barod i'n derbyn, o'r hwn y rhaid i ni weddio am gael ein gwaredu; ac uwchlaw y cwbl, y teimlad fod pobpeth sydd yn cael ei wneyd, neu ei feddwl, neu ei deimlo, neu ei gyrhaedd, neu ei ddyoddef, yn rhan o'r Cynllun mawr annhraethol, yn cael ei gyfeirio na wyddom at ba ddyben, gan Ewyllys Hollalluog, ond bob amser ac o angenrheidrwydd er dwyn oddiamgylch Ddaioni: y mae hyn oll yn cael ei ddaidguddio i ni

gan farddoniaeth, mewn dull a fyddai yn anmhosibl un ffordd arall, neu trwy unrhyw foddion heblaw yr eiddo barddoniaeth. Chwerthiniad diniweidrwydd hapus plentyndod, prydfferthwch toddedig a swyn dealltwriaeth cynnyddol, awyddfryd bechgyndod, symledd genethdod, ymestyniadau uchel a themtasiynau cryfion ieuencyd, gwynder pur morwyndod, tadolaeth cryf a mamolaeth raslawn, pallod a methiant oedran; dyma destunau miloedd o ganiadau, fel y maent yn rhan o ganiad fawr gyfriniol bywyd dyn. Ac nid ydyw gweledigaeth y bardd yn terfynu gyda'r bedd. Nid wyf mewn un modd yn cytuno â'r farn a ddadganwyd yn ddiweddar, mai barddoniaeth fydd crefydd y dyfodol. Ond fod gwir farddoniaeth yn ystyr oreu y gair yn grefyddol, ni all fod un amheuaeth. Os ydyw yn wir—ac y mae y llinell yn engrafft dda o'r hyn a fum yn ddywedyd,

An nudevout astronomer is mad,

y mae yn llawer mwy gwir am y bardd. Ond wedyn, yn anfodus, y mae wedi bod yn hir yn erthygl yn nghredo y byd fod y beirdd oll i raddau mwy neu lai yn wallgof, ac fod gwallgofrwydd o'r fath yma neu gyffelyb—ac ni raid myned ymhell iawn i gael gafael arnynt—yn hytrach yn glod iddynt nag fel arall; ie, ei fod y prawf goreu yn bosibl o burdeb cenadaeth yr ysgrifenydd.

Yn awr, yr wyf fi yn meddwl na all fod ond ychydig amheuaeth na ddylai dylanwad o'r fath a ddesgrifiais gael ei gau allan neu ei adael o'r neilldu mewn addysgiaeth. Yr wyf yn gwybod yn dda y rhaid fod gosail addysgiaeth, a thasg fawr addysgiaeth, yn ddsygyblaeth feddyliol o fath ddirifol a llym, yn golygu o angenrheidrwydd fwy o boen a llafur nag y mae yn bosibl ei roddi i efrydiaeth barddoniaeth. Anhawsderau cystraweniaeth iaith anghynnefin, cwestiynau dyfnion ac ymresymiaidau clir mesuroniaeth, nerth ffurfiau rhesymegol, y casgliadau gwyddonol, pa rai, dan y pen o wyddoniaeth naturiol, sydd yn agor gwlad gyfan o ryfeddodau o'r eiddynt eu hunain,—y rhai hyn bob amser a ffurfiant, ac a ddylent bob amser ffurfio prif ddefnydd addysgiaeth. Ni ddymunwn iddi fod yn amgen am fynydd. Mi allwn ddy-muno, yn wir, na bo addysgiaeth uwchraddol yn cael ei hystyried yn gyflawn heb ryw gymaint o wybodaeth o'r egwyddorion ar ba rai y dylid sylfaenu deddfwriaeth, a rhyw syniad cyffredinol am gyfansoddiad y deddfau dan ba rai yr ydym yn byw. Yr wyf yn ei ystyried yn hollol hanfodol, mewn gwlad fasnachol fel hon, fod chwaeth yn cael ei dadblygu yn y rhan olaf o dymmor ysgol at yr egwyddorion hyny o drefnidedd gwladol, yr esgeulusdod o ba rai a olyga golled genedlaethol, ac fe allai ddinystro. Yr wyf yn croesawu gyda hyfrydwch bob ymgais mewn gwlad law-weithfäol fel yr eiddom ni i gyfranu rhywbeth o natur addysgiaeth gelfyddydol, *technical*. Ac yr ydwyf yn edrych yn ol gyda rhywbeth tebyg i ddychryn ar y gwastraff anferth ac anesboniadwy ar allu sydd, i fyny hyd y pryd hwn, wedi bod mewn dysgu bechgynd oeddent i ddechreu bywyd tuag un ar bymtheg oed elfenau ieithoedd meirwon y prysurent wedi hyny i'w hanghofio. Chwi welwch, gan hyny, nad ydwyf, mewn un ystyr o'r gair, yn berson anymarferol. Ond yr ydwyf yn meddwl fod canlyniadau ymarferol mawrion iawn i'w hennill trwy ddadblygiad priodol y gynneddf ddychymybol. Cymerwch, er

engraifft, wneuthuriad Camlas Suez; chwi wyddoch gynifer o benau doethion mewn peirianaeth a ysgydwid uwch ben yr amcan yna yn Lloegr, ac fel yr oedd Arglwydd Palmerston yn gwneyd pw-pw o hono yn gwbl oll. Ond yr wyf yn ammeu yn fawr na fuasai unrhyw ddyd yn meddu dychymyg, nid breuddwydiwr yn unig, ond unrhyw ddyd ymarferol, yn unig gyda'i ddychymyg wedi ei fywiogi a'i gryfhâu i raddau, yn meddwl y buasai yn rhaid i gynllun ag yr oedd y lles a ddeuai oddiwrtho mor amlwg, lwyddo yn y pen draw, fel y mae wedi gwneyd. Yr wyf yn synied hefyd y byddai unrhyw ddyd o'r fath, a gofiai lwyddiant blaenorol y rhanbarth eang a ffrwythlawn a adnabyddir fel Asia Leiaf, ac a dynai ddarlun o'r canlyniadau i fasnach a llwyddiant y dyddiau hyn a gyfodai o lywodraeth dda arno, a'r felldith o drueni dynol a gorthrwm dan ba rai y mae y rhan yma o'r byd wedi bod yn hir yn llafurio, yn arweinydd politicaidd mwy diogel na phobl a ystyrir yn fwy llym o ymarferol. Y mae y peth mwyaf cyffredin mewn bod i glywed pobl bwyllog—yn fynych, yn wir, yn yr achos yma, rai yn meddu rhanddaliadau mewn *gas*—yn hollol anghrediniol am lwyddiant terfynol y fath ddarganfyddiadau â goleuo trwy drydan-iaeth, yr hyn a ymddengys yn ol y papyrâu am ddoe mewn ffordd deg o gael ei ddwyn oddiamgylch; ac, wrth reswm, yn llawer mwy felly am y posibilrwydd i ddyd, gyda phob cynnorthwy a all gwyddoniaeth roddi, wneyd yr hyn a wna pob creadur adeiniog—aderyn neu bryfyn—yn naturiol, sef mordwyo yr awyr. Pe byddai i dueddiad mwy dychymyngol wneyd i ffordd â'r anhawsder a brofa llawer o'r meddyliau mwyaf craff i gymeryd i mewn argraffiadau newyddion, fe fyddai yn ennill mawr yr hiliogaeth.

Am feirniadaeth briodol ac elfeniad barddoniaeth, mae yn bosibl nad oes gan addysgiaeth ysgol, nac yma nac yn unlle arall, ond ychydig gyfleusdra. Ond, fodd bynag, fe ellid yn ystod tymmor ysgol ffurfio chwaeth at werthfawrogiad beirniadol o'r hyn sydd brydferth mewn barddoniaeth, mewn amseroedd hen neu ddiweddar, pa un bynag ai gartref ai oddicartref. Yr wyf yn meddwl y dylai pob bachgen a geneth ieuanc o leiaf ddarllen trwy y fath orchest-weithiau â Hamlet, Othello, neu Macbeth, a meddiannu rhyw syniad ymha bethau y mae eu rhagoriaeth mawr yn gynnwysedig. Yr wyf yn meddwl y gellid yn deg ddysgwyl iddynt wybod ychydig chwaneg am Milton na'r enw, er fod *Coll Gwynfa* ychydig yn bwysfawr, ac ar wahan i arferion diweddar o feddwl. Yr wyf yn sicr y byddai darllen rhai o weithiau yr athrylith farddonol Seisonig fwyaf ar ol yr enwau mawrion hyny, *Palace of Art*, *The Two Voices*, ac *In Memoriam* gwerthfawr Mr. Tennyson, ddangos iddynt fod meddyliwr yn ein plith yr hwn, yn yr iaith fwyaf cyfaddas oedd yn ddichonadwy, sydd yn fynych wedi rhagflaenu, lawer o flynyddoedd, rediad meddwl, damcaniaeth, a darganfyddiad diweddar yn y deyrnas hon, ac wedi cynnyg yr unig eglurhâd posibl, lle yr oedd yr un yn bosibl, ar ein hanhawsderau a'n hammheuon. Ac os dysgant Italaeg, yr wyf yn meddwl y gallent ennill rhyw gydnabyddiaeth â'r ganiad yn yr hon y cyrhaeddodd yr iaith hono ei phen gorllanw, *Inferno* Dante, fel y gwnaeth y Germanaeg gyda'r *Faust* ardderchog. Ac y mae yn bosibl y gallai rhai o'r cyfieithiadau rhagorol o'r *Iliad* a'r *Odyssey* a gyhoeddwyd yn

ddiweddar roddi i feddyliau ieuainc o leiaf syniad cyffredinol am y trysorau llenyddiaeth sydd yn agored i, ac yn wobwr gwybodaeth o'r iaith Roeg.

Fe allai, yn wir, mai yn benaf fel parotoad at yr amser pan y rhaid i hunan-addysgiaeth ddechreu, ac fel planiad egwyddorion chwaeth sydd i'w dadblygu mewn blynyddoedd dyfodol, y rhai heb hyny na ddelenit byth uwchlaw y wyneb o gwbl, y dylid dwyn barddoniaeth i mewn i fywyd ysgol. Yr hyn a ddywedodd Talleyrand wrth y dyn ieuanc nad oedd yn malio am *whist*, "Ddyn ieuanc, yr ydych yn eich parotoi eich hun at henaint truenus," a ellid ei ddyweyd gyda llawer mwy o gyfiawnder wrth ddyn ieuanc a ddywedai nad ydyw yn malio am farddoniaeth. Os ydyw yn gofalu am bethau mawrion eraill—am fesuronïaeth, er engraifft, am drefnidedd, am wleidyddiaeth, am wyddoniaeth naturiol—pobpeth yn dda: cymered ei adloniant o'r ffynnonellau hyn os dewisa. Ond nid oes dim yn fwy cyffredin na chlywed rhyw bobl sydd heb ddim chwaeth at y pethau hyn yn dyweyd na allant o gwbl ofalu am farddoniaeth. Byddent yn bur ddig pe byddai i neb ammeu a ydynt yn feddiannol ar gariad at uniondeb, at ymestyniadau uchel, at brydferthwch mewn ffurf neu mewn meddwl. Ond ni chywilyddiant gydnabod diffyg chwaeth at farddoniaeth, yr hyn a ddylai gynnwys yr holl bethau hyn, ac sydd yn fynych yn gwneyd hyny. Y mae llawer o esgus drostynt, yn arbenig yn bresennol, pan wneir ceisiadau er galfan-eiddio i fywyd fwy nag un ysgrifenydd geiriog, diegwyddor, gwasgarog, gwag, ymdrechion ysbrydoledig pa un a ellid yn dda grynhoi i un gyfrol fechan iawn allan o'r lliaws sydd yn awr yn cael eu llanw â methiant uchelgeisiol. Pa un bynag a ydyw ysgrifenydd byth a hefyd yn addoli y lleuad neu y wybren, neu lili, fel yr hurty'n ieuanc truan yn *Punch*, neu, fe fu agos i mi ddyweyd, briallu neu flodeuyn ymenyn, y mae gan belled a hyny yn anghymhwys i gymeryd i fyny amser dyn rhesymol.

Ond yn ffodus nid ydyw pob beirdd o'r math yma; ac nid ydyw yr ardd farddol heb gynnrychu dim blodau eraill. Ynô; mewn amserau o ddigalondid ac iselder, mewn amseroedd o flinder a gorweithiad, ymhell wedi i'n hamser hau fyned heibio—trwy gydol ein heinioes, yn wir—y mae haelder dwylaw sydd wedi bod yn oer am oesoedd, a rhai eraill sydd yn gweithio i ni yn barhâus, i'e hyd hen ddyddiau, wedi planu i ni bleserfa ddiderfyn o flodau a firwythau, y rhai sydd yn anfarwol eu lliw a'u pereidd-dra. Y mae ymneillduo i gysgod tymherus y bleserfa yma, pan yn flinedig gan lwch a therfysg bywyd, a dyfod allan gyda nerth newydd i fyned ymlaen ar ein siwrnai, yn sicr yn fraint nid bechan. Yn unig rhaid i ni gymeryd gyda ni yr allwedd sydd i agor y porth, onidê ni allwn byth gael allan o lwch a thwrff y brif-ffordd i'r trigfanau tawel hyny o orphwysdra a llonyddwch.

Gan gario allan y syniad yma heddyw, yn nghanol prysurdeb awgrymiadol eich dociau mawrion a'ch afon, yn cael eu llanw, fel yr wyf yn gobeithio y parhânt yn hir i fod, â llongau yn dyfod ac yn myned rhwng y ddinas fawr hon a'r holl fyd, a chan fwynhâu, trwy garedigrwydd eich cadeirydd rhagorol Mr. Holt, y fraint o fyned trwy un o'i longau oedd ar gychwyn ar y fordaith hir i China, fe'm tarewid gan ddrychfêddwl' oed brydferth a ddysgaswn lawer o amser yn ol, gwaith

bardd-feddyliwr tyner sydd wedi marw, Mr. Arthur Clough: Yr oëdd yntau hefyd wedi ei daro gan ochr farddonol amlwg bywyd morwrol a'i beryglon, a meddylia fel hyn am long yn nghanol y môr:—

Where lies the land to which the ship would go?  
Far, far ahead, is all her seamen know;  
And where the land she travels from? Away,  
Far, far behind, is all that they can say.

On sunny noons, upon the deck's smooth face,  
Linked arm in arm, how pleasant here to pace,  
Or o'er the stern reclining, watch below  
The foaming wake far widening as we go.

On stormy nights, when wild nor'westers rave,  
How proud a thing to fight with wind and wave,  
The dripping sailor on the reeling mast  
Exults to bear, and scorns to wish it past.

Where lies the land to which the ship would go  
Far, far ahead, is all her sailors know;  
And where the land she travels from? Away,  
Far, far behind, is all that they can say!

---

Ple mae y wlad i'r hon yr elai 'r llong?  
Draw, draw ymlaen, yw 'r oll ei morwyr ŵyr;  
A phle y wlad y daw o honi? Draw,  
Draw, draw yn ol, yw 'r oll a allant ddweyd.

Ar hinon deg, ar hyd y gwastad fwrdd,  
Mor hyfryd rhodio yma fraich yn mraich,  
Neu wyro o'r tu ol, a gwel'd islaw  
Y llwybr ewynawg leda fel yr awn.

Ar stormus nos, pan ruthra 'r awel wyllt,  
Mor wych o beth yw ymladd gwynt a thon;  
Y llongwr gwlyb wrth hwyllbren ansad lŷn,  
Yn falch a'i deil, a sgorniai am ei hofn.

Ple mae y wlad i'r hon yr elai 'r llong?  
Draw, draw ymhell, yw 'r oll ei morwyr ŵyr;  
A phle y wlad y daw o honi? Draw,  
Draw, draw yn ol, yw 'r oll a allant ddweyd.

Ac yna mi ddarluniais i mi fy hun ryw un ieuanc—rhyw fachgen neu eneth ar eu twf.—yn adrodd y llinellau hyn yn ngolwg eich afon fawr a'i rhesi hirion o longau. Yn gyntaf oll hwy a lanwant y galon ieuanc â rhyw gyffro amhenodol o deimlad, wrth feddwl am y peryglon sydd yn aros y llongau mawrion a'u dwylaw, a'r ansicrwydd sydd ynglŷn â'u tynged. Ac yna ar unwaith, fel meltten, gyda iâs ymron fel dadguddiad dirgelwch cuddiedig, mae yr holl olygfa faterol brysur yn diflanu,—y llongau mawrion, yr afon lawn, prysurdeb a ffwddan masnach,—ac ni fydd dim yn aros ond yr enaid yn mhresenoldeb dirgeledigaethau y bydysawd; a meddwl y bardd a'i dadguddia ei hunan: a'r llong sydd yn myned allan i'r môr ydyw enaid dyn; a'r afon ydyw afon bywyd; a'r môr—y dyfnder mawr i ba un y llifa—yw y tragywyddoldeb y deuw'n o hono, ac yr awn iddo; a'r fordaith ydyw ein bywyd rhyfeddol a dirgeledig ar y ddaear.

Yn awr, yr ydwyf fi yn meddwl fod llinellau fel y rhai hyn o wir hanfod barddoniaeth yn ei berthynas âg addysgiaeth, oblegid y maent yn son am ddygwyddiadau dyddiol, mor gynnefin fel ag i fod ymron yn gyffredin, gyda'r ysbryd hwnw o gydberthynas â ffeithiau bywyd dynol, a'r ymholi parchedig hwnw i'r dyfodol cudd, sydd y tu hwnt i bobpeth yn abl i gynhyrfu dyfnderau teimlad gwych. Ac nid yw yn ymddangos i mi y byddai dyn sydd yn gwybod y llinellau hyn, a thybied bob amser ei fod yn meddu adnabyddiaeth briodol—fel wrth reswm y dylai—o fanylion ei fusnes ei hunan, yn ddim gwaelach masnachwr, neu longiadwr, neu forwr, neu ddyn o fusnes, am ei fod yn eu gwybod; i.e. yn hytrach y byddai iddo gael ei gysuro ganddynt a'i galonogi yn ei waith.

Ac yna, gan gario allan o hyd y syniad o gysylltu ein bywyd dyddiol â barddoniaeth, ni allwn lai na meddwl am y llinellau hyny mewn cysylltiad â'r cynnulliad heno, a'r wynebau ieuainc a'r bywydau ieuainc sydd o'n hamgylch yma.

Ple mae y wlad i'r hon yr elai 'r llong—

y llong fechan sydd yn awr yn cychwyn allan o borthladd diogel mebyd a chartref? Beth yw ei thynged? A gyrhaedda ei phorthladd olaf yn ddiogel, ynte a gaiff ei lluchio i ddinystyr ar greigiau cuddiedig, neu ei llorio yn anobeithiol ar draethau seguryd, neu ei suddo er bobpeth gan nerth tônau taranol yn nyfnderau amhlymiadwy y môr? Y caiff ei dyddiau o dawelwch ac ystorm, ei nosweithiau o ofn a phryder, ei boreuau clir, pan mae y nefoedd oddi uchod a nefoedd adlewyrchedig oddi isod, ei hamserau o niwl tew, pan nad oes dim yn glir, dim yn sicr, oddieithr cysgod perygl a marwolaeth yn ymyl, sydd mor sicr ag y gall dim fod y tu yma i'r bedd. Ond i ba le y mae yn myned, ac o ba le y mae yn wreiddiol wedi dyfod? Ei bod yn dyfod o'r anwybyddus ac yn myned i'r anwybyddus, "Draw, draw ymhell," ydyw yr oll a allwn ddyweyd. Ond fod pob bywyd yn wir yn fordaith, yn cychwyn o bwynt penodol, yn myned dros gwrs penodol, ac yn amcanu at ddiwedd penodol—nid yn antur ddamweiniol yn unig, chwareubeth y gwyntoedd a'r tônau—sydd wedi ei sefydlu mor glir ag y gall unrhyw ddamcaniaeth fod byth. Ac mi allaf ddychymygu y gallai ddyfod i'r tadau a'r mamau sydd yma heno beth pryder, yn gymysgedig â'u gobaith a'u balchder cyfreithlawn, pan feddyliant am beryglon y fordaith fawr hono.

Draw, draw ymhell, yw 'r oll a allant ddweyd!

Yr oll sydd ganddynt i'w wneuthur ydyw ystorio y meddwl ieuanc â meddyliau ac ymestyniadau pur, a gosod ei gwrs yn nghyfeiriad amcan uchel, a gadael y gweddill i Gyfranydd a Rheolwr Mawr mater yn ogystal a meddwl.

## Y DEG LLWYTH.

- Our Israelitish Origin.* Lectures on Ancient Israel, and the Israelitish Origin of the Modern Nations of Europe. By J. WILSON. London. 1845.
- Proofs for the Welsh* that the British are the Lost Tribes of Israel. By LAZARUS. Bangor. 1880.
- Are we Israelites?* The Testimony of History, Philology, and Ethnology on the Subject. By Rev. B. W. SAVILE, M.A. London. 1879.
- The Nestorians; or The Lost Tribes:* containing Evidence of their Identity, an Account of their Manners, Customs, and Ceremonies, &c. By ASAHEL GRANT, M.D. London. 1841.
- Review of Dr. Grant's Theory of the Lost Tribes.* By EDWARD ROBINSON, D.D. (In the American Biblical Repository, 1841, 1842.)

UN o ganlyniadau chwerwaf rhyfel a buddugoliaeth yn yr hen oesoedd ydoedd cludiad llwythau a chenedloedd i alltudiaeth, a gwerthiad miloedd i gaethiwed; gan y byddai hyn yn eu cymeryd ymaith o olygfeydd maboed, oddiwrth feddrodau eu henafiaid, a themlau eu duwiau, ac yn eu trosglwyddo dan lywodraeth meistriaid newyddion anystyriol a chreulawn, heb son am y caledi a'r dinystr a gymerai le wrth eu symud.

Yr oedd symud trigolion tref neu wlad i alltudiaeth, yn esmwythach cosb na'u dedfrydiad i gaethwasiaeth. Byddai gorthrymwyr yn symud trigolion y naill dref neu wlad i'r llall, naill ai er mwyn llenwi yn gyflym ddinasoedd newyddion â phreswylwyr, neu er gwneyd gwrthryfel pellach o'u tu hwynt yn anmhosibl. Er cyrhaedd yr amcanion hyn, byddid yn sicr o arwain i alltudiaeth y crefftwyr a'r llaw-weithwyr o bob math, ynghyd a theuluoedd a phersonau cyfrifol, a'r milwyr. Gwel *Kitto's Cyclopaedia*, o dan y gair "CAPTIVITIES."

A chaethgludiad a thynged y "Deg Llwyth" y mae a fynom yn yr erthygl hon, ac at eu hanes hwy, gan hyny, a'r gwahanol dybiau yn eu cych, y cyfeiriwn sylw y darlennydd.

### I. CRYNODEB O HANES CAETHGLUDIAD Y DEG LLWYTH.

Darfu i'r Brenin Solomon yn ei henaint roddi ffordd i'w wragedd eilunaddolgar, a myned ar ol duwiau dyeithr; gan i Solomon adael Duw, fe ddiogodd Duw wrtho yntau, ac a ddywedodd wrtho, "O herwydd bod hyn ynot ti, ac na chedwaist fy nghyfammod a'm deddfau a orchymynais i ti; gan rwygo y rhwygaf y frenhiniaeth oddiwrthyt ti, ac a'i rhoddaf hi i'th was di. Eto yn dy ddyddiau di ni wnaif hyn, er mwyn Dafydd dy dad: o law dy fab y rhwygaf hi. Ond ni rwygaf yr holl frenhiniaeth; un llwyth a roddaf i'th fab di, er mwyn Dafydd fy ngwas, ac er mwyn Jerusalem, yr hon a etholais" (1 Bren. xi. 11—13). Yr achos o ffurfiad y Deg Llwyth fel teyrnas annibynol oedd eilunaddoliaeth Solomon, er mai yr achlysur oedd ysbryd uchelgeisiol a gwlad-

lywiaeth orthrymus Rehoboam (1 Bren. xii. 13—20); ac eilunaddoliaeth y Deg Llwyth eu hunain drachefn a fu yr achos o ddinystyr eu teyrnas (2 Bren. xvii. 6, 7).

Nid ar unwaith y caethgludwyd y Deg Llwyth i wlad ddyeithr. Ymddengys fod dau gaethgludiad wedi cymeryd lle, a bod tuag ugain mlynedd rhwng y cyntaf a'r diweddaf.

Cymerodd y cyntaf le tua'r flwyddyn 740 cyn Crist. Cawn yr hanes yn llyfrau y Brenhinoedd a'r Chronicl: "Yn nyddiau Pecah, brenin Israel, y daeth Tiglath-Pileser, brenin Assyria, ac a ennillodd Ijon, ac Abel-bethmaachah, a Janoah, Cedes hefyd, a Hazor, a Gilead, a Galilee, a holl wlad Naphtali, ac a'u caethgludodd hwynt i Assyria" (2 Bren. xv. 29). "A Duw Israel a annogodd ysbryd Pul, brenin Assyria, ac ysbryd Tilgath-Pilneser, brenin Assyria, ac a'u caethgludodd hwynt (sef y Reubeniaid, a'r Gadiaid, a hanner llwyth Manasseh), ac a'u dŷg hwynt i Halah, a Habor, a Hara, ac i afon Gozan, hyd y dydd hwn" (1 Chron. v. 26). Diau mai at yr un amgylchiad y cyfeiria yr ysgrifenywyr sanctaidd yn y ddau le uchod. Barna awdwr yr erthygl ar "Gaethgludiadau," yn *Ngeirlyfr* Dr. Kitto, mai amcan brenin Assyria y tro hwn (gan na chwasa'i un tramgwydd neillduol oddiar law Israel) ydoedd caethgludo dynion er poblogi dinas fawr Ninefeh. Fe welir mai trigolion y parthau hyny o'r wlad ag oedd agosaf i Assyria a ddyoddefodd y ddyrnod gyntaf hon, ac mae'n debygol mai y dosbarth pwysicaf o'r trigolion a gymerai y gormeswr ymaith.

Cymerodd yr ail gaethgludiad le tua'r flwyddyn 720 cyn Crist. Gwnaethai Salmaneser, brenin Assyria, Hosea, brenin Israel, yn drethedig, ac o dan rwymau i dalu teyrnged flynyddol i frenin Assyria; ond blinodd Hosea o dan yr iau hon, a cheisiodd ei bwrw ymaith. Ymgynghreiriodd â So, brenin yr Aipht, er cael cymhorth i wrthsefyll brenin Assyria, a hyny (yn ol Dr. Jahn) yn ngwynebw rhybudd a gwrthdystiad y prophwyd Esaiah (Esa. xxx. 1—7). Cyffrodd hyn lid Salmaneser, brenin Assyria, fel y daeth i fyny yn erbyn Israel, ac a warchaeodd ar Samaria. Wedi dyoddef tair blynedd o warchae, fe syrthiodd Samaria, prifddinas y Deg Llwyth, i ddwyllaw brenin Assyria; daliwyd Hosea, a bwriwyd ef i garchar,\* a chludwyd y trigolion i gaethiwed. "Yn y nawfed flwyddyn i Hosea yr ennillodd brenin Assyria Samaria, ac y caethgludodd efe Israel i Assyria, ac a'u cyflëodd hwynt yn Halah, ac yn Habor wrth afon Gozan, ac yn ninasoedd y Mediaid" (2 Bren. xvii. 6). I lenwi lle y rhai a gaethgludasid fel hyn i Assyria, dygodd brenin Assyria bobl o Babilon, ac o Cuthah, ac o Afa, o Hamath hefyd, ac o Sepharfaim, ac a'u cyflëodd hwynt yn ninasoedd Samaria, yn lle meibion Israel. "A hwy a feddiannasant Samaria, ac a drigasant yn ei dinasoedd hi" (2 Bren. xvii. 24). Olynyddion y rhai hyn oedd Samariaid dyddiau Iesu Grist, a cheir rhai o honnynt yn Nabulus neu Samaria yn y dyddiau diweddaf hyn. Gwel Dr. Edward Robinson's *Biblical Researches in Palestine*, vol. iii. p. 97.

Nodwn ychydig o ystyriaethau ynglŷn â'r hanes ysgrhythyrol am yr

\* Nid ydym i ddeall fod Hosea wedi cael ei ddal a'i garcharu cyn cwmpw Samaria, ond ar ol hyny; a bod yr ysgrifenydd sanctaidd trwy fath o ragflaeniad (*by anticipation*) yn adrodd tynged a diwedd y brenin cyn adrodd hanes cwmpw y ddinas a chaethgludiad y trigolion. Gwel Keil ar 2 Bren. xvii. 1—6.



Israellaid a'u preswyliaid yn Nghanaan ag a allant fod o gymhorth i ni yn yr ymchwiliad presennol.

1. *Fod y lleoedd i ba rai y caethgludasid y Deg Llwyth yn Aseyria* (2 Bren. xvii. 6, 23; xviii. 11; 1 Chron. v. 26).

2. *Nad oedd Israel byth mwy i gael eu hadferu yn deyrnas annibynol* (Hos. i. 4, 5, 6).

3. *Os oedd adferiad gwladol i'r Deg Llwyth, ynglŷn âg adferiad Judah y mae hyny yn cael ei addaw* (Hos. i. 11; Ezec. xxxvii. 21, 22).

4. *Fod gwaith Israel yn enmill Canaan, a chadw meddiant o honi, yn ammodol—yn ymddibynu ar eu hufudd-dod* (Exod. xix. 5; Num. xiv. 34; Deut. iv. 26, 27; Jos. xxiii. 12—15; Esa. i. 19, 20).

5. *Fod amcan mawr lleoliad Israel yn Nghanaan wedi cael ei ateb cyn eu gwasgariad. Y prif amcan, mor bell ag y gallwn ddeall, ydoedd—cadw y wybodaeth am y gwir Dduw yn y byd—diogelu cyflawniad yr adnewid am yr Had addawedig—a pharotoi y byd erbyn ymddangosiad y Messiah a dygiad i mewn oruchwyliaeth ysbrydol yr efengyl* (Gen. xii. 1—3; xviii. 18; xxii. 17, 18; xlix. 10; Heb. ix. 10).

6. *Yr unig adferiad a ddysgwyliai yr Apostolion am dano i had Abraham yn ol y cnawd, oedd adferiad ysbrydol trwy weinidogaeth yr efengyl; a chondemniant y rhai a ddysgent yn wahanol fel rhai yn "synied pethau daearol," hollol anghydweddol â natur Cristionogaeth* (Act. xv. 13—17; Rhuf. x. a xi.; 2 Cor. iii. 13—16; Heb. viii. 8—13; Phil. iii. 19, 20).

## II. DAMCANIAETHAU DIWEDDAR YNGHYLCH BODOLAETH BRESEN-NOL Y DEG LLWYTH.

Nis gwyddom rifedi y tybiau a'r dychymygion o barthed y "Pwy ydyw" a "Pha le y triga y Deg Llwyth?" Myn rhai mai *Indiaid Gogledd America* ydynt; eraill mai y bobl a elwir *Beni-Israel* (Meibion Israel) yn Bombay ydynt; eraill mai yr Iuddewon a elwir y *Karaites* yn y Crimea ydynt; eraill mai *preswylwyr Affghanistan* ydynt; Dr. Grant a gredai yn ddiysgog mai y *Nestoriaid* ydynt; tra y llesmeiria awdwyr y tri llyfryn cyntaf a nodir uwch ben yr ysgrif hon, mewn llawenydd uwch ben y darganfyddiad tybiedig, mai *preswylwyr yr Ynysoedd Prydeinig* ydynt! 'Does bosibl na ddeuwn o hyd iddynt ymhlith cynifer!

### 1. *Indiaid Gogledd America.*

Rai blynyddau yn ol, fe fabwysiadwyd y dyb mai gweddillion y Deg Llwyth oedd yr Indiaid hyn. Dywed Dr. Grant, wrth sylwi ar y dyb hon, nad oedd y prawf o hyny ond un hollol amgylchiadol, wedi ei sylfaenu yn benaf ar arferion, y rhai ydynt *gyntefig* yn hytrach nag Iuddewig, cyffelyb i'r rhai a geir ymhlith yr Arabiaid a phob cenedl Ddwyr-einiol arall. Pan oedd yr Iuddew dychweledig, Dr. Joseph Wolff, yn America yn 1837, gwesgid arno gan gyfeillion brwdfrydig i ddyfod gyda hwynt at yr Indiaid i'w hargyhoeddi eu bod yn hanedig o Israel. Ystyriai Dr. Wolff y byddai hyny yn gosod yr ymresymiad y ffordd chwith. Yr oedd efe yn dysgwyl y buasai yr Indiaid yn ei argyhoeddi ef eu bod hwy yn Iuddewon, yn lle iddo ef geisio eu perswadio hwy mai Iuddewon oeddynt. Modd bynag, aeth at y llwythau Mohican-aidd yn agos i New York, a chymerodd yr ymddyddan canlynol le rhyngddynt:—

*Dr. Wolff.* Olynyddion pwy ydych ohwi!

*Yr Indiaid.* Yr ydym ni o Israel.

*Dr. W.* Pwy a ddywedodd wrthyoh! [gan ddysegwyl dyagu llawer o draddodiad henafol].

*Yr Ind.* Mr. a Mrs. Simons o Scotland.

*Dr. W.* Beth a ddywedodd eich henafiaid yn ei gylch!

*Yr Ind.* Dywedai ein holl henafiaid wrthym ein bod wedi ein geni o dan y ddaear; a phan oedd menyw yn ein mysg yn edrych allan o'r ddaear, ymafiwyd ynnddi gan ysbryd; yr ysbryd hwnw a'n harweiniodd ni i arwyneb y ddaear; ac yno yr ydym wedi byw yn heddychol nes i'r dyn gwyn ddyfod a'n darostwng ni.

Ni chanfyddodd Dr. Wolff ddim yn eu plith a dueddai am eiliad i beri i neb gredu eu bod yn Iuddewon; dim traddodiad, tebygolrwydd iaith, defodau, neu gyffelyb; a thybïai efe ei fod yn debycach o lawer eu bod o darddiad Tartaraidd. (*Dr. Wolff's Narrative of a Mission to Bokhara, in 1843—1845*: pp. 46, 47. London, 1846.)

### 2. *Preswylwyr Affghanistan.*

Mae sylw Dr. Wolff ar y dyb hon hefyd yn debyg i'r un flaenorol:—“Fy ammheuon ynghylch bod yr Affghanistaniaid o darddiad Iuddewig yw y rhai canlynol: nid oes ganddynt wynebpryd Iuddewig; nid yw eu traddodiad eu bod o ddisgyniad Iuddewig yn *gyffredinol*; ac, yn olaf, nid yw eu hiaith yn tebygoli i'r Hebraeg. Or (goleuni) yw yr unig air Hebreig a welais i yn iaith Affghanistan. Mae cystrawiad y *Pushtoo Grammar* yn berffaith wahanol i gystrawiad yr Hebraeg. (*Dr. Grant's Nestorians or Lost Tribes*, pp. 113, 114.)

### 3. *Y Beni-Israel yn Bombay.*

Myn rhai mai cynnrychiolwyr presennol y Deg Llwyth yw y rhai hyn, ond ymddengys nad oes ganddynt hwy eu hunain syniad o'r fath. Rhifant oll yn nghymydogaeith Bombay tua 9250. Mae llawer o honynt yn gwasanaethu fel milwyr yn y fyddin frodorol. Daethant o Arabia i Hindostan, meddant hwy, yn fuan ar ol dinystrio y Deml gyntaf, mewn saith o longau. Darllenant Bumlyfr Moses yn yr Hebraeg, er na ddeallant yr iaith. Addolant y gwir Dduw, ac ar yr un pryd cadwant eilunod a delwau yn eu tai. (*Dr. Wolff's Narrative*, pp. 25, 26.)

### 4. *Y Karaites yn y Crimea.*

Diau mai Iuddewon yw y rhai hyn, ond nid oes unrhyw brawf eu bod yn ddisgynyddion o'r Deg Llwyth, er y dywedir eu bod yn hōni y gallant olrhain eu hachau i fyny hyd atynt ar adeg eu caethgludfiad. Yn ystod ei Deithiau yn Rwsia yn 1821, 1822, ymwelodd y diweddar Ddoctor Ebenezer Henderson â'r Crimea, yn benaf er ymgynabyddu yn llwyr â hanes a daliadau yr Iuddewon Karaitaidd. Bu yn ymdroi yn eu mysg, ac yn cymdeithasu â'u hathrawon; ond ni chlywodd efe air o son eu bod yn disgyn o'r Deg Llwyth. Cyfeiria Dr. Henderson at awdwr o'r enw Peysonel, yr hwn a nodâ fod traddodiad yn eu mysg eu bod wedi dyfod o Tartary i Ewrop gyda'r Tartariaid, yn eu rhuthgrych i'r rhan hon o'r byd; ond nis deallodd Dr. Henderson fod y fath draddodiad yn ffyn yn yr oes bresennol. Yr unig draddodiad yn eu plith, eb efe, yw fod eu henafiaid wedi dyfod o Damascus tua 560 mlynedd yn ol, ac ymsefydlu yn y Crimea. Dywedant hwy mai yn Grand Cairo yr adeiladwyd y Synagog gyntaf iddynt ar ol dinystr Jerusalem, yr hyn a awgryma mai hiliogaeth y rhai a wasgarwyd ar adeg dinystr Jerusalem ydynt, yn hytrach nag eiddo y Deg Llwyth. Barnai Dr. Henderson

mai math o barhâd o sect y Saduceaid ydyw y sect Iuddewig hon ag sydd yn myned o dan yr enw Karaites. (Gwel Dr. Henderson's *Biblical Researches and Travels in Russia, &c.* Chap. xiv.)

5. *Preswylwyr yr Ynysoedd Prydeinig.*

Mae rhai yn teimlo dyddordeb rhyfeddol yn y ddamcaniaeth ryfedd hon, ac yn meddu ffydd gadarn ynddi. Mae y tri llyfryn cyntaf ar y rhestr uwch ben yr ysgrif hon yn cerdded bron yr un llwybr, ac yn defnyddio yr un rhesymau; felly adolygu un o honynt fydd yr un peth yn sylweddol ag adolygu y tri. Cyfyngwn ein sylwadau, gan hyny, i lyfryn y Parch. B. W. Savile, M.A. Gwnawn hyn yn fwy neillduol, yn gyntaf, am fod Lazarus yn nodi ysgrifau Philo-Israel fel ei adnoddau, o ba rai y tynodd allan ei resymau; ac, yn ail, am fod Philo-Israel, yn ei Ragarweiniad i lyfryn Mr. Savile, yn disgrifio llyfryn Mr. Savile "a more advanced and better book upon the subject" na'r hyn a ysgrifenasai Philo-Israel ei hun ar y pwnc.

Oni buasai y Bennod I. ar "Ymadroddion Celyd," buasem yn cael ein temtio yn y fan yma i ddefnyddio rhai ymadroddion lled rymus am y llyfryn dan sylw; ond yr ydym yn cael ein tynghedu i ymattal hyd nes yr awn trwyddo.

Wel, awn rhagom ynte. Damcaniaeth yr awdwr hwn ydyw mai *Preswylwyr presennol yr Ynysoedd Prydeinig yw y Deg Llwyth*. I ategu y syniad hwn, nodi yr awdwr lu o resymau; megys y Cronicl Saxonaid—Prophwydoliaeth Ezeziel am uniad Judah ac Ephraim—yr ysgrifen Beth Khumri ar lechau adfeilion Ninefeh—Tystiolaeth yr Apocrypha—Beddagraffiadau yn y Crimea—Ieithyddiaeth—Uchafiaeth Prydain ymhlith y teyrnasoedd—Lliosogrwydd Hiliogaeth—Crwydriadau ymysg y Cenedloedd—a llu eraill o Brofion Israddol. Pe byddai lliosogrwydd gosodiadau yn profi gwirionedd damcaniaeth, dylai y ddamcaniaeth dan sylw fod yn wirionedd digymysg.

Gwnawn ymchwiliad i rym y gosodiadau hyn bob yn un fel yr awn rhagom.

(1.) *Tystiolaeth y Cronicl Saxonaid.*

Cyfansoddwyd y Cronicl hwn tua mil o flynyddau yn ol, yn nheyrnasiad Alfred Fawr. Olrheinir achau Alfred Fawr i fyny, "link by link, though many generations are omitted," i'r patriarch Sem, mab Noah, gan brofi trwy hyny fod y Saxonaid yn genedl Semitaidd! Da yr addefir fod llawer o genedlaethau ar goll, ac felly nid yw y Cronicl yn werth y papyr ar yr hwn yr ysgrifenydd ef. Olrhain achau Sais, fil o flynyddau yn ol, i fyny hyd at y diluw, a hyny yn cael ei gredu a'i ddysgu gan un o athrawon crefyddol yr oes fel sail i darddiad Israelaidd y Prydeinwyr! Ar ol rheswm fel hwn, ni ddylem ryfeddu at un math o wrthuni yn ol llaw.

(2.) *Prophwydoliaeth Ezeziel am uniad Judah ac Ephraim.*

Cyfeirir at brophwydoliaeth Ezeziel (Ezec. xxxvii. 19—22), am uniad y deuddeg llwyth ar adeg y dychweliad o gaethiwed Babilon, fel prawf o ddamcaniaeth yr awdwr (tu dal. 13), er nas gallwn ddirnad yn iawn pa fodd y dealla yr awdwr fod yma un math o ategiad i'w ddychymyg. Cyflawnwyd y brophwydoliaeth mewn rhan yn uniad y llwythau ar adeg yr adferiad o Babilon, a chyflawnir hi yn llwyr trwy undeb yr holl gredinwyr o dan deyrnasiad y Messiah.

(3.) *Y geiriad Tŷ Omri.*

Swm y prawf hwn yw yr hyn a ganlyn : Omri a adeiladodd Samaria; ar y meini darganfyddedig yn adfeilion Ninefeh saif yr enw Beth Omri (*Khumri* yn ol y llyfryn) am y Deg Llwyth caethgludedig; bu y Cimmerii yn preswyllo unwaith mewn talaeth o'r enw Khubusna, neu Fynyddau Kurdistan; ei fod yn debygol fod y Cimmeriaid hyn wedi cael eu llyncu i fyny gan y Beth Khumri, a bod y Deg Llwyth wedi rhoddi eu henw eu hunain, Khymri, ar y rhan hono o'r Celtiaid a elwir y Cymry. Dyna blethwaith o ddychymygion, onidê!

(a) Nid oes awdurdod dros ddarllen Beth Omri neu Beth Khumri. Nid oes un grammadeg na geiriadur yn seinio yr *Ayin* (y) yn K. Mae y sain yna yn cael ei osod allan gan y *Caph* (c) neu y *Qoph* (p). Yn nhu dal. 62 seinia yr awdwr ei hun hi *E*, *Ai*, neu *Aing*.

(b) Nid oes rhith o sail dros ddywedyd fod Tŷ Omri wedi dyfod i olygu Tŷ y Cymry.

(c) Mai tyb hollol o eiddo yr awdwr ydyw fod y Cimmeriaid wedi ymgymysgu â'r Deg Llwyth, ac ymgolli ynddynt, a derbyn yr enw Cymry oddiwrthynt.

(d) Mae yn debycach o lawer mai parhâd o'r enw Cimmeriaid yw yr enw presennol Cymry; ac nid yw hŏni fod cysylltiad rhwng Cymry Prydain a Chimerrii yr henafiaid yn cynnwys fod y cysylltiad lleiaf rhyngddynt a'r Deg Llwyth.

Mae yr awdwr wedi trawsnewid enw Omri yn Khumri, er adeiladu castell ar ei ddychymyg gwyllt ei hun!

(4.) *Tystiolaeth yr Apocrypha.*

"Y rhai hyn yw y Deg Llwyth y rhai a gaethgludwyd o'u gwlad eu hunain yn amser Hosea y brenin, y rhai a orchfygasai Salmaneser, brenin Assyria; ac efe a'u dyg hwynt dros yr afon Gozan [ychwanegiad awdwr y llyfryn ydyw Gozan] fel y daethant i wlad arall. Ond ymgynghorasant â'u gilydd, y buasant yn gadael cynulleidfa y paganiaid, a myned i wlad bell, yn yr hon na thrigasai dyn erioed, fel y gallent gadw yno y deddfau y rhai na chadwasent yn eu gwlad eu hunain. Ac aethant dros yr Euphrates yn lleoedd culion yr afon. Oblegid dangosodd y Goruchaf arwyddion iddynt, gan attal y llif, nes iddynt fyned drosodd. A theithiasant ymlaen bellder mawr, taith blwyddyn a hanner, hyd nes y daethant i le a elwir ARSARETH" (2 Esdras xiii. 40—48).

Yn awr, y mae lle o'r enw Arsareth, ebe'r ysgrifenydd hyn, yn Roumania, i ba le yr aeth y Deg Llwyth ar eu hymdaith i Brydain, a thybia awdwr y llyfryn ei fod wedi dwyn barn i fuddugoliaeth! Dr. Grant, modd bynag, a dybia fod Arsareth yr un peth âg Ararat. (*The Nestorians*, p. 218.) Ond nid yw y llyfr Apocryphaidd hwn ond ffug. Nid yw i'w gael yn y Groeg na'r Hebraeg, ond y Lladin. Proffes fod wedi cael ei ysgrifenu gan Ezra yr offeiriad, tra y cynnwysa ymadroddion ag sydd yn debyg iawn i ddyfyniadau o'r Testament Newydd. Mae yn debygol ei fod wedi cael ei ysgrifenu yn y ganrif gyntaf; a'r unig beth a brawf yw fod dychymyg ar waith tua diwedd y ganrif gyntaf ynghylch y Deg Llwyth, tra yr oedd *ffethiau* yr hanes wedi cael eu hanghofio.

(5.) *Beddargraffiadau ac Ysgrifeniadau yn y Crimea.*

Ychydig o flynyddau yn ol, dangosodd Rabbi yn y Crimea ysgrif i'r Parch. Mr. Stern, cenadwr Seisonig yno, yr hon oedd fel y canlyn:—

“Myfi wyf Jehudi, fab Moses, fab *Jehudi y Galluog*, gŵr o Lwyth Naphtali, yr hwn a gludwyd i gaethiwed gyda Llwyth Simeon, a Llwythau eraill Israel, gan y Tywysog Salmaneser, o Samaria, yn nheyrnasiad Hosea, brenin Israel. Cludwyd hwy i Halah, i Habor, yr hon yw *Cabul*, i Gozah, ac i Chersonesus, yr hon yw y *Crimea*. Adeiladwyd Cherson gyntaf gan dad Cyrus, dinystriwyd hi eilwaith ac adeiladwyd hi drachefn, a galwyd hi *Crim*.” (Tu dal. 27, 28.)

Mae dau beth yn nodweddu y dystiolaeth hon:—(1) Anwybodaeth yr ysgrifenydd o ddaearyddiaeth y Dwyrain, canys gwna yr afon Habor, Chabor, neu Chebar, yr un peth â Chabul, prifddinas Afghanistan. (2) Ei gwrthdarwiad â'r Bibl, canys dywed hwnw yn bendant mai i Assyria y cludasid y Deg Llwyth.

Dywed un o'r ysgrifeniadau dan sylw fod y Deg Llwyth wedi eu gwasgaru *trwy yr holl Ddwyrain, mor bell â China*. (Tu dal. 27.)

Nid yw y rhai hyn, o ganlyniad, o fawr werth i goleddwyr yr athrawiaeth Anglo-Iuddewaid.

(6.) *Teithyddiaeth.*

Nodir dau brawf o natur ieithyddol er ategu y ddamcaniaeth dan sylw, sef fod Taliesin yn cyfansoddi yn Hebraeg, a thebygolrwydd yr Hebraeg i'r Gymraeg. “My lore has been declared in Hebrew, in the Hebrew tongue have I sung.” Dyna, meddir, yw ystyr dwy linell yn ngwaith Taliesin, yn y chweched ganrif. Ysgrifennai y bardd Milton rai darnau barddonol a chenadwriaethau y Llywodraeth yn y Lladin; cyfansoddodd yr Esgob Lowth ei Ddarlithiau ar Farddoniaeth Hebreig yn y Lladin; a byddai yr un mor gyson haeru mai Rhufeinwyr oedd y ddau hyn, am eu bod yn cyfansoddi yn y Lladin, âg mai Hebrëwr oedd Taliesin am ei fod ef yn cyfansoddi yn yr Hebraeg. Yr oll a brofai y cyfansoddiad Hebraeg, os cyfansoddiad Hebraeg hefyd (?), ydoedd nerth talent naturiol y bardd, a'i gariad at Air yr Arglwydd, gan ei fod yn ei ddeall a'i fyfyrio yn yr iaith wreiddiol.

Mae beirniadaeth yr awdwr ar y Gymraeg yn rhy dywyll, a'i ym-driniaeth â'r Hebraeg a'i thebygolrwydd i'r Gymraeg yn rhy aneglur, i ni allu ei ddilyn; a'i engreiffitiau yn ymddangos i ni yn unrhyw beth heblaw profion. Gwel tu dal. 32. Y cyfieithiad o Psalm xxiv. 10, yn iaith y Cymry, eb efe, fyddai:—“Pwy yw Efe yr hwn sydd yn Feddiannydd ar bob doniau? Myfi yr hwn wyf I-A-VW-VO—Iehofah Arglwydd y Lluoedd, Efe yw y Meddiannydd pob doniau.” Nid cyfieithiad o honi fel y mae yn y Bibl Hebraeg, bid sicr!

(7.) *Uchafiaeth Prydain ymysg cenedloedd y byd.*

“Yna yr Arglwydd dy Dduw a'th esyd yn uwch na holl genedloedd y ddaear” (Deut. xxviii. 1). “Gwae y rhai esmwyth arnynt yn Sion . . . y rhai a enwir yn benaf o'r cenedloedd y rhai y daeth tŷ Israel atynt” (Amos vi. 1). “Cenwch orfoledd i Jacob, a chrechwenwch ymhlith rhai penaf y cenedloedd” (Jer. xxxi. 7). Cymhwysir y geiriau hyn at fuddugoliaethau Lloegr ar dir a môr, a dylanwad Lloegr ymhlith teyrnasoedd y ddaear (tu dal. 34—36); esboniad hollol ddychymgol. Dichon y gwna y tro i'r Anglo-Israel, ond ni foddlon y Cambro-British. Gellid profi unrhyw beth a phob peth, os yw y dull yna o esbonio yr Ysgrhythrau yn iawn. Fe gofia y darlennydd mai at Israel y cyfeiria y gair, ac nid at y Saeson; a mwy rhesymol fil o weithiau

yw deall y geiriau "penaf o'r cenedloedd" am y genedl Iuddewig, "yr hon a elwir felly," ebe Dr. Henderson, ar Amos vi. 1, "am ei bod y *benaf*, neu y fwyaf urddasol o holl genedloedd y ddaear; gan ei bod wedi cael ei gwneuthur yn bobl briodol i Dduw, ac yn meddu cyfreithiau a rhagorfreintiau anadnabyddus i un genedl arall. Da y gellid ei disgrifio fel yn sefyll ar ben y rhestr."

(8.) *Lliosogrwydd Hiliogaeth.*

Addawsai Duw wneyd had Abraham *mor lliosog a lluch y ddaear*, a gwneyd y genedl Israelaidd *yn fil mwy nag ydoedd*, a gwneyd had Ephraim *yn lliaws o genedloedd* (Gen. xiii. 16; Deut. i. 11; Gen. xlviii. 19). Nis gellir gweled cyflawniad yr addewidion a'r prophwydoliaethau hyn yn unman, yn ol yr awdwr, ond yn lliosogrwydd ac amrywiaeth deiliaid Prydain Fawr. (Tu dal. 39—41.)

Mae yr awdwr yn gorestyn pwynt er cadarnhau ei ddamcaniaeth.

(a) Ge syd boblogaeth China yn 250,000,000; buasai yn agosach i'w le pe dywedasai 350,000,000.

(b) Ge syd boblogaeth y Llywodraeth Brydeinig yn 300,000,000; ond nid Anglo-Saxons yw yr Hindwaid, felly nid yw y ffigyrau i'r pwrpas.

(c) Ni olygid fod had Ephraim i ddyfod yn lliaws o genedloedd. Y darlenniad llythyrenol yw, "Ei had a ddaw yn gyflawnder y cenedloedd," neu "yn gyflenwad y llwythau." Golyga y gair cenedloedd (עַמִּים—*gaim*) yma lwythau Israel, a chyfeirir at flaenoriaeth a dylanwad Ephraim ymblith y llwythau, fel pen y Deg Llwyth. Gwel Keil ar y lle.

Fe gofia y darlennydd o hyd mai Israel sydd gan yr ysgrifenydd sanctaidd mewn golwg, ac mai Lloegr sydd gan awdwr y llyfryn o flaen ei lygaid.

(9.) *Crwydriadau ymysg y Cenedloedd.*

Yr oedd Israel i fod yn crwydro ymysg y Cenedloedd; yr oedd y Saeson yn crwydro cyn sefydlu yn Lloegr; o ganlyniad, Israeliaid yw yr oedd y Saeson. (Tu dal. 42—45.) Bu cenedloedd eraill hefyd yn crwydro wrth ymwasgaru ar hyd wyneb y ddaear, cyn ymsefydlu o fewn "terfynau eu preswylfod" (Act. xvii. 26); o ganlyniad, Israeliaid yw pob cenedl arall!

(10.) *Amrywiol Brofion eraill.*

(a) Jacob yn dad "cenedl a chynulleidfa cenedloedd" (Gen. xxxv. 11). Gwel y sylw blaenorol ynghylch Ephraim—(8. c.)

(b) Israel i "gornio y bobl hyd eithaf y ddaear" (Deut. xxxiii. 17), yn arwyddo Lloegr yn estyn ei changenau a gwthio ei buddugoliaethau i eithafoedd y byd. Desgrifio buddugoliaethau Israel, modd bynag, y mae Moses, yn benaf yn nyddiau Josua, ar lwythau Canaan hyd eithaf neu derfynau y *wlad*, yr hyn a olyga y gair עַרְשֵׁת—*erets*, yn ogystal a'r *ddaear* yn yr ystyr eangaf.

(c) "Saith amser." "I will punish you SEVEN TIMES more for your sins"—"saith mwy am eich pechodau" (Lef. xxvi. 18, 21, 24, 28). Mae y "SEVEN TIMES" hyn, ebe'r awdwr, yn golygu cyfnod o 2520 o flynyddau, yr hyn oedd hyd y cyfnod o gaethgludiad y Deg Llwyth, C.C. 720 hyd A.D. 1801, pryd y dechreuodd mawredd, buddugoliaethau a llwyddiant Lloegr fyned rhagddynt fel llanw anorchfygol, ac y daeth Ephraim grwydrol yn "benaf ymysg y cenedloedd." (Tu dal. 49.)

Gresyn nad oes rhith o sail i adeilad mor dlws. "Saith mwy" ydyw

y cyfieithiad Cymraeg. שֶׁבַע—*sheba'* yn unig a geir yn yr adnodau, yr hwn a gyfieithir “*sevenfold*” gan Keil. Dywed Gesenius mai rhagferf ydyw, a'i fod yn cael ei ddefnyddio am *amser neu rifedi amhenodol*. Defnyddir y gair yn yr adnodau canlynol: “*Seithwaith* yn y dydd yr ydwyf yn dy glodfori” (Psa. cxix. 164). “Canys *seithwaith* y syrth y cyfiawn, ac efe a gyfyd drachefn” (Diar. xxiv. 16). Rhaid rhoddi y 2520 mlynedd i mewn yn gyntaf, cyn y gellir eu cael allan o'r gair.

(d) “Anifeiliaid buain.” “A hwy a ddygant eich holl frodyr . . . ar *anifeiliaid buain* i'm mynydd sanctaidd Jerusalem” (Esa. lxvi. 20). (Tu dal. 50, 60.) Wrth ddefnyddio y geiriad “*anifeiliaid buain*,” yr oedd *Esaiah*, ebe'r awdwr, yn llefaru o dan ysbryd prophwydoliaeth, ac yn cyfeirio at y “*MARCH HAIARN—y ceffyl tân, neu y train*, gyda dyfeisio a gweithio pa un y mae yr Anglo-Saxon wedi dyfod mor euwog! Ac ar awdurdod Cardinal Mezzofanti, dywed yr awdwr fod y gair Hebraeg כרכורי — *circârôth*, yr hwn a gyfieithir “*anifeiliaid buain*,” yn golygu “*peiriannau yn troi o amgylch gyda chyflymdra y fellten*.” Dyna'r *train* ar y *line*! Ystyr y gair, modd bynag, yn ol yr esbonwyr Iuddewig, ydyw *camelod, dromedariaid*; â'r hyn y cytuna Gesenius, Delitzsch, Henderson, Barnes, Noyes, Alexander, a Lowth.

(e) Tystion Duw. “Fy nhystion i ydych chwi, medd yr Arglwydd” (Esa. xliii. 10), wrth *Israel*, yr hyn a gymhwysa yr awdwr hwn at y genedl Brydeinig, am ei bod yn Brotestaniaid, ac am fod y grefydd Brotestanaidd yn grefydd sefydledig y wlad! (Tu dal. 52, 58, 59.) Mae addewidion Duw i'w eglwys yn cael eu cymhwyso gan yr awdwr yn ddibetrus at y genedl Seisonig, fel pe na fuasai safon sancteiddrwydd y Bibl ddim uwch na moesoldeb presennol y werin Seisonig!

(f) Y Dderwen Brydeinig. Fel y mae yr awdwr hwn yn nesu at y *climax*, mae ei brofion o hyd yn dyfod yn fwy arbenig. Yr oedd *Israel* yn eilunaddoli o dan y dderwen; yr oedd y Derwyddon yn addoli o dan y dderwen; o ganlyniad yr oedd y Derwyddon Prydeinig yn disgyn o'r Deg Llwyth (Ezec. vi. 11, 13; Hos. iv. 12—17). (Tu dal. 57, 58.) Yr oedd mamau *Israel* yn rhoddi llaeth i'w plant; yr oedd mamau Prydain gyntefig yn rhoddi y fron i'w hiliogaeth; o ganlyniad, yr oedd mamau Prydain yn disgyn o famau *Israel*! Prawf yw hwn sydd yn profi dim, am ei fod yn profi gormod. Ymddengys fod llawer o genedloedd, hen a diweddar, yn myned trwy eu defosiynau o dan gysgod cangenau tewfrig y goedwig, yn ogystal â'r *Israeliaid* a'r Cymry.

(g) Y Llew, a'r Unicorn, a'r Ysgarlad. Ystyria yr awdwr fod y cyfieiriadau at *Judah* ac *Israel* yn y Bibl, fel LLEW ac UNICORN, yn cyfeirio at arwyddluniau yr awdurdodau Prydeinig (Gen. xlix. 9; Deut. xxxiii. 17), a bod y fath eiriau â Nahum ii. 3, “Ei wŷr o ryfel a wisgwyd âg *ysgarlad*,” yn cyfeirio at *wisg goch* y fyddin Seisonig. (Tu dal. 46, 50, 60.) Wel, nid oes genym ond dyweyd mai dychymyg gwyllt yw y cyfan, ac nad oes un sail i greu yn y fath esboniad. Dywed Gesenius nad oes awdurdod dros gyfieithu *re'em*, ראם (Deut. xxxiii. 17), yn *unicorn*, ac mai y *buffalo* neu yr *ych gwyllt* a olygir.

(h) Y gair ENGLAND yn y Bibl.

Dyma y *climax*! Beth mwy sydd eisieu? “Sonir am *Ephraim*,” ebe'r awdwr, “fel *anner* wedi ei dysgu ac yn dda ganddi ddyrnu” (Hos. x. 11). “Gellir seinio y gair Hebraeg am “*anner*” (ענר), *Aingl-ah*, neu

*Engl-ah*; ac yn ei ffurf fliosog, megys yn Amos vi. 1—4, lle y cyffelybir tŷ Israel i'r "lloi o ganol y cut," gellid ei seinio, megys ag yn Mal. iv. 2, *Aingli* neu *Angli*, yr enw adnabyddus ar y genedl, yr hon ar ddiwedd ei chrwydriadau a aeth drosodd o Saxony i'r Ynysoedd Prydeinig.\* (Tu dal. 62.) Ystyr y gair *England* yn ol yr orael yma, gan hyny, yw ANNER, ac ystyr y gair *Englishmen* yw LLOI! Wel, nid awn i ddaedau âg ef ar y pen hwn, gan fod yn bosibl ei fod yn gywir am rai o honynt.

Mae gan yr awdwr rai pwyntiau eraill er ategu ei ddamcaniaeth, megys fod Israel a Judah i ddychwelyd o'r GOGLEDD i Ganaan, h.y., yn ol ei dyb ef, o'r *Gogledd-Orllewin*, sef o Brydain (Jer. iii. 18; xxxi. 7, 8). (Tu dal. 36—60.) Ond yn ieithwedd Jeremiah, saif y *gogledd a thir y gogledd* am y GOGLEDD-DDWYRAIN, sef Assyria a Babilon, o'r lle y daeth y dinystr ar y genedl (Jer. i. 15; iii. 18; vi. 22; x. 22; xxxi. 8; l. 3). Gwel Eiriadur Hebraeg Gesenius, ac Esboniad Dr. Henderson ar Jeremiah.

Nyni a derfynwn ein sylwadau ar yr adran hon o'n hysgrif trwy ddyfynu y nodiadau canlynol ar y pwnc o lyfryn Mr. John Wilkinson, *Englishmen not Israelites*, cyhoeddedig gan Shaw & Co., Llundain:—

1. Mae pobl Israel i breswyllo eu hunain, ac i beidio cael eu cyfrif gyda'r cenedloedd. Mae hyn yn wir am yr Iuddewon, ond nid am yr Anglo-Saxons. (Num. xxxiii. 9.)

2. Mae Israel i barhâu am ddyddian lawer heb frenin, na thywysog, ac heb wybodaeth gywir am Dduw. Nid yw yr Anglo-Saxons yn yr amgylchiadau hyn. (Hos. iii. 45.)

3. Mae y Deuddeg Llwyth, allan o Palestina, i fod yn ychydig mewn rhif, o dan felldith fel cenedl, ac yn aml a lliosog yn unig ar ol eu hadferiad, ac nid cyn hyny. Ond mae yr Anglo-Saxons, er allan o Palestina, yn mwynhâu bendith fel cenedl, ac yn llawer mewn nifer. (Deut. iv. 26, 27.)

4. Y gosb am fod yn ddiennwadedig oedd toriad ymaith. Mae yr Anglo-Saxons yn ddiennwadedig. (Gen. xvii. 10—14.)

5. Mae yr Anglo-Saxons yn saint neu yn bechaduriaid: os saint, yna (er yn Israeliaid) y maent wedi eu gwahanu oddiwrth y genedl, a'u hûno â'r eglwys; os pechaduriaid, yna y maent o dan felldith y ddeddf.

Dychwelodd nifer digonol o Babilon, o herwydd ystyriaethau gwladol a chrefyddol, i beri fod y caethion dychweledig yn gynrychiolaeth deg o'r holl genedl; fel, pe na fuasai gan y genedl arall yn y byd hawl i ystyried eu hunain o darddiad Israelaidd, y gellir ystyried y bobl a elwir yn Iuddewon yn meddu hawl deg i fod yn gynrychiolwyr denddeg llwyth Israel, ac i stifeddu yr hyn a fwriedid iddynt.

Rhaid i ni adael damcaniaeth Dr. Grant, ynghyd a sylwadau terfynol o'r eiddom ein hunain ar y pwnc, hyd rifyn dyfodol.

*Llangollen.*

HUGH JONES.

\* Gellid cynnyrchu beirniadaeth o'r natur yma wrth y dunnell; er engraifft:—*Hebroad*, Gen. xiv. 13, Heb. **IBRI**, lliosog **ABARIM**, yr un peth âg Aber, *un o arigolion Aber*.

*Caernarfon*, Heb. **ןר**, **CEREN**, mewn cysrawiad **CARN**, *pen mynydd, bryn* (Esa. v. 1), yn cyfeirio at fynyddau uchel Arfon.

*Cardmarthen*, Heb. **רמ**, **CEREM**, mewn cysrawiad **CARM**, *gwinllan* (Esa. v. 1), yn cyfeirio at ddyffirnoedd ffrwythlaw yn Sir Gaerfyrddin.

*Dinbych*, Heb. **דן**, **DIN**, *barn*, yn cyfeirio at dderchafiad Aelodau Seneddol Sir Ddinbych i'r gadair farnol.

*Môn*, Heb. **מ**, **MIN**, *oddiwrth, ar wahan*, gan gyfeirio at Fôn fel ynys, ar wahan oddiwrth Siroedd eraill y Dywysogaeth.

Ystyried beirniadaeth fel hyn, a hyny yn gyfiawn, yn eithafon ynyfdrwydd; ac eto y mae yn llawn mor gadarn a chywir ar hyn a geir yn y llyfryn dan sylw.



## WILLIAM EWART GLADSTONE.

### II.

GWRTHODDODD Mr. Gladstone, o herwydd ei dueddiadau Rhyddfrydol, swydd yn Ngweinyddiaeth Iarll Derby; ond cyn iddi fod nemawr fisoedd mewn bodolaeth, efe fu yn offerynol i'w dyfetha. Ffurfiwyd hi yn Chwefror, 1852, wedi i Lywodraeth Arglwydd Russell gael ei gorchfygu ar Fesur y Milisia; ac yn gynnar yn Rhagfyr dymchwelwyd hi. Mr. Disraeli ydoedd Canghellydd y Weinyddiaeth newydd, ac yn Rhagfyr y dygodd ei Gyllideb i sylw y Tŷ. Ei phrif nodweddion ydoedd lleihâd yn y trethoedd ar frag, tê, a siwgr; ac mewn trefn i wneyd i fyny am y golled hon, cynnygid gwneyd cyfnewidiad yn nhreth yr incwm, ac ychwanegu y dreth ar dai cyfanneddol. Galwodd Macaulay ef "yn gynllun i yspeilio y trefydd, ac i osod arian yn llogellau y bragwyr." Beth bynag, meddyliai y Canghellydd gryn lawer o honi, a chyfiwynodd hi ger bron y Tŷ mewn araeth hyawdl a miniog, yn bum' awr a chwarter o hyd. "Eisteddai Gladstone," meddai llygad-dyst o'r olygfa, "a'i ben yn plygu ymlaen tuag at y Canghellydd ar ei gyfer, yn gwrando yn astud ar bob gair; ac yn awr ac eilwaith yn cymeryd nodiadau o brif linellau y Gyllideb." Ar ddiwedd yr araeth gohiriwyd y ddadl hyd noson ddyfodol. Ar y noson hono cododd Mr. Gladstone i fyny, ac mewn un o'i areithiau mwyaf hyawdl, tra yr eisteddai Disraeli gyferbyn âg ef mor ddigyffro â'r sphinx, tynodd ei Gyllideb yn ddarnau a dymchwelodd y Llywodraeth. Nid anghofiodd ei wrthwynebydd enwog y codwm gafodd y noswaith hono; canys y mae y ddau o hynyn allan wedi bod yn wrthwynebwyr cadarn i'w gilydd ar faes gwleidyddiaeth.

Gwahoddwyd Iarll Aberdeen i ffurfio y Weinyddiaeth nesaf. Nid oedd ond un Canghellydd y Trysorlys yn bosibl, ac nis gallesid meddwl am neb cymhwysach na Mr. Gladstone. Ar wahoddiad yr Iarll, gan hyn, cymerodd yntau ei le yn y Weinyddiaeth fel Canghellydd. Mewn canlyniad i hyn, ail etholwyd ef dros Rydychain; nid heb wrthwynebiad, canys gwyliesid ei dueddiadau Rhyddfrydol gan y Brifysgol, ac nid oeddynt yn gymeradwy gan lawer o'r etholwyr. Oblegid hyn aeth y Toryaid ynghyd a'r gorchwyl o ddwyn allan ymgeisydd gwrthwynebol. Teimlasant lawer o anhawsder i gael ymgeisydd, canys yr oedd pawb bron yn ofni dyfod allan mewn gwrthwynebiad i ddyn o safle a dylanwad Mr. Gladstone. O'r diwedd cafwyd ymgeisydd gwrthwynebol yn mherson un Mr. Dudley Percival, ac ar ol ymdrech boeth dychwelwyd Mr. Gladstone gyda mwyafrif o 124.

Y mae yn awr yn Canghellydd y Trysorlys, y dyn iawn yn y lle

iawn; y mae mewn swydd i ddefnyddio ei alluoedd a'i wybodaeth fel cyllidydd, i wneyd Prydain yn gyfoethog ac yn ddedwydd. Cyn dwyn ei Gyllideb ger bron y Tŷ, gosododd o'i flaen ei gynllun i leihâu y Ddyled Genedlaethol. Ac y mae yn ddigon, er mwyn dangos llwyddiant y cynllun hwn, i ddyweyd ei fod wedi lleihâu y ddyled pan dorodd rhyfel y Crimea allan, dros £11,000,000. Ar y 18fed o Ebrill, 1853, fe gyflwynodd ei Gyllideb ger bron y Tŷ a thraddododd y gyntaf o'i areithiau hyawdl fel Canghellydd, y rhai sydd wedi bod yn ddylanwad mor fawr yn Nhŷ y Cyffredin, ac yn hanes y wlad. Yr oedd y Tŷ wedi ei lenwi ymhob congl, ac am bum' awr yr oedd yn crogi wrth ei wefus, heb fod neb yn dangos yr arwydd lleiaf o flinder wrth wrando; canys yr oedd y fath ffrwd o hyawdledd yn lifo o'i enau nes yr oedd ffygrau dilun yn troi yn ddarluniau, ac ystadegau sychion yn cael eu gwisgo mewn barddoniaeth. Yr oedd ei gynllun mor eang a chynnwysfawr, ei feistrolaeth ar fanylion mor fawr, fel yn ystod y pum' awr y bu ar ei draed nad oedd yr anhrefn lleiaf yn nghynllun ei araeth, na'r anmharodrwydd lleiaf yn ei iaith; yr oedd pob gair yn barod at ei wasanaeth, ac yn syrthio i'w le gyda'r rhwyddineb mwyaf,—fel na fu yr oediad lleiaf o ddiffyg gair o'r dechreu i'r diwedd. Pan eisteddodd i lawr, fe dorodd y Tŷ allan mewn cymeradwyaeth byddarol; a theimlai pawb fod y wlad o'r diwedd wedi cael Canghellydd teilwng i'w enwi gyda Pitt yr ieuengaf, a Syr Robert Peel. "The impression produced upon the minds of the crowded and brilliant assembly by Mr. Gladstone's evident mastery and grasp of the subject was, that England had at length found a skilful financier, upon whom the mantle of Peel had descended. The cheering when the right hon. gentleman sat down was of the most enthusiastic and prolonged character, and his friends and colleagues hastened to tender him their warm congratulations upon the distinguished success he had achieved in his first Budget. When the louder plaudits had subsided, a hum of approbation still went round the House, and extended even to the fair occupants of the ladies' gallery."

Fe fydd gwneyd cyfeiriad byr at y Gyllideb hon, wrth fyned heibio, yn gymhorth i'r darlennydd i ddeall gwladweiniaeth Mr. Gladstone, ac yn engraifft deg o'r gwasanaeth mawr y mae wedi ei wneyd i'r wlad fel Cyllidydd. Yr oedd ganddo relyw o £805,000. Hawdd fuasai iddo symud o fewn yr un terfynau â Changhellwyr eraill, a chynnyg lleihâu treth neu ddwy mewn cyfeiriadau poblogaidd. Yn lle hyny fe fu yn wrol i dori dros ben yr hen derfynau, a chynnygiodd godi y rhelyw hwn i £2,149,000, trwy ychwanegu treth yr incwm, trwy roddi cymhwysiad eangach i'r dreth ar gymunroddion, a thrwy ychwanegu y dreth ar wirodydd poethion. Galluogwyd ef trwy hyn i leihâu y trethoedd hyny a bwysai fwyaf ar fywyd y bobl, gan ei ddangos ei hun felly yn ddyn y bobl, ac yn gyfaill y dosbarth gweithiol. Dilëwyd y dreth ar sebon; cafwyd lleihâd yn y dreth ar yswiriaeth; ac ymysg y cymwynasau eraill i'r cyfoethogion, lleihäwyd y dreth ar gerbydau a cheffylau; a lleihäodd rai, a dilëodd eraill o drethoedd ar yn agos i 300 o nwyddau oedd mewn defnydd beunyddiol fel ymborth y bobl. Yr oedd yn amlwg ar wyneb y Gyllideb, mai ei hamecan oedd gwasgar y trethoedd gyda llaw deg a chyfartal ar wahanol ddosbarthiadau yn y wlad; ac yn enwedig lleihâu, ac os oedd modd dileu y trethi ar ymborth y bobl.

Profai yn ddigon amlwg fod Canghaiydd y Trysorlys wedi dwyn, nid yn unig ei alluoedd dibafal, ond ei galon fawr hefyd at y gwaith oedd ganddo mewn llaw; yr oedd gwreiddiolder y cynllun, ei feistrolaeth lwyf ar ystadegau, a'i ddefnydd hyawdl o holl adnoddau iaith, yn profi ei fod wedi dwyn ei alluoedd at y gwaith; ac yr oedd haelfrydedd a daioni y cynllun yn profi fod ei galon yn curo yn gynhes at feibion llafur, y rhai oedd yn dwyn beichiau trymaf bywyd.

Pan oedd y wlad yn llawenhâu yn y rhagolwg ar lwyddiant mewn canlyniad i waith Mr. Gladstone fel Canghaiydd, fe dorodd rhyfel y Crimea allan. Mae hanes y rhyfel gwaedlyd hwn yn hysbys i lawer o'n darllenwyr, fel nad oes galwad i ni fanlyu arno, ond yn unig i'r graddau ag y mae yn dal perthynas â bywyd cyhoeddus Mr. Gladstone. Ang-hydweliad rhwng Rwsia a Thwrci ydoedd achos cyntaf yr ymrafael. Yr oedd y Galluoedd Mawrion ar y Cyfandir oll yn un ar y cyntaf mewn gwrthwynebu hawliau Rwsia; a phe buasai yr undeb a'r cydweithrediad hwn wedi parhâu, y mae yn bur debyg na fuasai y rhyfel wedi tori allan. Ond fe enciliodd Awstria a Phrwssia; ac mewn canlyniad gadawyd Ffrainc a Phrydain mewn undeb â'u gilydd i sefyll i fyny dros gyfiawnder a thegwch yn Ewrop. Yr oedd Llywodraeth Prydain yn wrthwynebol i ryfel; ac nid oedd ymdrechion goreu Iarll Aberdeen a Mr. Gladstone yn ol o geisio cadw heddwch. Yr oedd presennoldeb y fath ddynion yn y Cyfrin-gynghor yn sicrwydd yn erbyn unrhyw gam byrbwyll yn nghyfeiriad rhyfel. Yr oedd y teimlad yn erbyn Rwsia yn gryf yn y wlad; ac o herwydd hyny yr oedd yn angenrheidiol i'r rhai oedd wrth y llyw i fod yn fyw i'w cyfrifoldeb, ac yn ddoeth yn eu cynlluniau. Yr oedd Mr. Gladstone yn enwog ymysg aelodau eraill y Weinyddiaeth am burdeb ei amcanion, ac am ei gariad at heddwch. Cawn y farn gyffredin am dano y pryd hwn yn y geiriau canlynol o eiddo Kinglake, hanesydd y Rhyfel:—

O s ydoedd yn enwog am ei hyawdledd dysglar, am ei dduwioldeb diammheuol, ac am ei fywyd difrychenlyd, yr oedd yn hynod ymhell ac yn agos am dnerwch cydwybod tu hwnt i'r cyffredin. Tybiai ei fod yn ddyledsdydd arno unwaith i ymneillduno oddiwrth y Llywodraeth, a rhwygo rhwymau tyneraf cyfeillgarwch a fyddlondeb, o herwydd gwahaniaethr dibwys ar y mater o siwgr gwyn neu siwgr brith. Credid am dano pe cyflawnai hyd yn nod bechod bach, neu pe dychymygai gymaint a meddwl drygionus, y gwysiai ei hun yn ddiatreg o flaen y llys difrifol oedd yn ei fynwes; ac y byddai, gan ei fod o ddeall manwl a chraffus, ac yn ymhyfrydu mewn gorfan-yllder gydag achosion cydwybod, yn bur debyg o wneyd prawf llym ar ei enaid, ac ystyried ei hunan yn drosoddwr mawr am ferai rhyfychain i fod yn weledig i lygaid y werin. Trigai ei gyfeillion mewn ofn o'i rinweddau, fel rhai a'u tueddai i fod yn fympwyol ac ansicr; a'r gwladweinwyr ymarferol, yn gweled nad oedd i ddibyn arno gyda golwg ar amcanion plaid, a bod ei fryd ar ddim ond amcanion uchel, a edrychent arno fel dyn peryglus—arferent ei alw y tu cefn fido yn ddyd da—yn ddyd da yn ystyr waethaf y gair.

“Dyng peryglus:” felly y meddyliai y dosbarth hyny o wladweinwyr a lywodraethir gan gyfeusderau ac nid gan egwyddorion. Yr oedd asgwrn cefn cryf o foesoldeb a chyfiawnder yn perthyn i'w wladweini-iaeth ef, fel na allesid ei phlygu yn ol a blaen fel y byddai ysbyrd plaid yn galw; ac oblegid hyn ystyrid ef yn un peryglus fel gwladweinydd—yn ddyd da—hyny yw, yn ddyd drwg i ryngu bodd plaid. Yr oedd presennoldeb y fath ddyd yn y Cyfrin-gynghor, ar adeg derfysgelyd fe

yr un sydd dan ein sylw, pan oedd teimlad y wlad yn rhedeg yn gryf mewn un cyfeiriad, o werth anmhrisiadwy; ac yr oedd ei areithiau cyhoeddus y pryd hwn yn llawn o ddoethineb a phwyll, a'u tuedd uniongyrchol i dywallt dyfroedd oerion ar deimlad poeth y wlad, ac i firwyno y nwydau hyn sydd yn hyrddio teyrnasocedd ymlaen i dywallt gwaed. Pa eiriau allasai fod yn fwy amserol i wlad oedd yn ferw gan deimlad rhyfelgar na'r rhai canlynol, a lefarwyd ganddo yn Manchester, Hydref 12, 1853:—"No doubt negotiation is repugnant to the national impatience at the sight of injustice and oppression; it is beset with delay, intrigue, and chicane; but these are not so horrible as war, if negotiation can be made to result in saving this country from a calamity which deprives the nation of subsistence, and arrests the operations of industry. To attain that result if possible—still to attain it, if still possible, which is even yet their hope—her Majesty's Ministers have persevered in exercising that self-command and that self-restraint, which impatience may mistake for indifference, feebleness, or cowardice, but which are truly the crowning greatness of a great people, and which do not evince the want of readiness to vindicate, when the time comes, the honour of this country." Yn ngoleuni y geiriau pwylllog a difrifol hyn gallwn ddeall yn dda beth a feddylir wrth ddyweyd fod Llywodraeth Iarll Aberdeen wedi *driftio* i'r rhyfel hwn. Y mae yn amlwg eu bod wedi gwneyd pob peth dichonadwy, yn unol âg anrhydedd y wlad, i gadw allan o hono; ystyrient ryfel yn elyn penaf teyrnasocedd. Ond yr oedd sefyllfa Ewrop a theimlad y wlad yn rhedeg mor gryf i gyfeiriad rhyfel, fel ag y cludwyd y Llywodraeth gan amgylchiadau, yn erbyn eu hewyllys, yn ol chwedl Carlyle, fel ysgerbwd asyn ar gefn llifeiriant—"like some carcass of a drowned ass, constitutionally put at the top of affairs."

Wedi cyhoeddiad rhyfel yn Mawrth, 1854, ar Mr. Gladstone, fel Canghellydd y Trysorlys, y disgynai y gwaith o ddarparu ar gyfer y draul. Gwnaeth hyn gyda'i wroldeb a'i annibyniaeth arferol. Ei gynllun ydoedd gwneyd y cyllid am y flwyddyn i ddwyn traul y rhyfel am y flwyddyn, cyd na byddent yn gofyn mwy na £10,000,000 uwchlaw y treuliadau arferol. Yr oedd Mr. Disraeli yn wrthwynebol i hyn, a chynnygiai fenthyca y swm, a thrwy hyn ychwanegu at y ddyled genedlaethol. "The former course," meddai y Tywysog Cydweddod wrth ei gyfaill Baron Stockmar, gyda chyfeiriad at gynllun Mr. Gladstone, "is manly, statesmanlike, and honest; the latter is convenient, cowardly, and perhaps popular." Mae y cynllun hwn yn engraffit dda o'r gonestrwydd sydd yn nodwedd mor amlwg yn ei wladweiniaeth; ac fe fyddai yn llawer i firwyno y teimlad rhyfelgar sydd mewn cenedloedd pe dilynai gwladweinwyr eraill ei esiampl yn hyn. Y mae yn beth anghyfiawn tafu ar ysgwyddau yr oesoedd dyfodol draul ein balchder a'n ffolineb, heb ymgais i'w gyfarfod ein hunain. Anonestrwydd ydyw i'n gwladweinwyr wystlo *credit* y dyfodol er mwyn porthi tuedd ryfelgar y bobl, heb eu bod yn gwneuthur un ymgais eu hunain i ddwyn y draul. Os ydyw y bobl yn gwaeddi am ryfel, y mae yn deg iddynt roesawu y casglwr trethi i'w tai. Os ydyw y genedl yn ddigon ynfyd i wrando can y *Jingo*s—y dadblygiad diweddar o'r anzafal politicaidd—dylid galw arni i dalu yr hatling

eithaf am y gân. Pe byddai hon yn rheol yn Downing Street, ni fyddai cymaint o chwilota am "derfynau gwyddonol" ag sydd wedi bod yn ddiweddar. Dyma ydoedd drychfeddwl Mr. Gladstone, ac wrth amcanu ei roddi mewn gweithrediad fe gafodd y wlad yn hynod barod i wneyd ei rhan; canys mor gryf ydoedd y teimlad o blaid y rhyfel fel y dygodd y beichiau ychwanegol hyn yn galonog.

Fe syrthiodd Gweinyddiaeth Iarll Aberdeen yn gynnar yn 1855. Dangoswyd annhrefn ac anmharodrwydd gan y Llywodraeth yn ei darpariadau milwrol; ac, mewn canlyniad, dyoddefodd y fyddin yn y Crimea lawer o galedi. Yr oedd yr holl wlad, o'r Goron i lawr i'r bwthyn, mewn teimlad dwys o herwydd hyn; ac mewn pythefnos derbyniwyd yn swyddfa y *Times* y swm o £15,000 at y *Patriotic Fund*, cronfa a gychwynwyd er mwyn lliniaru y gwasgfeuon hyn. Mewn llai na thri mis yr oedd y gronfa yn cyrhaedd ymhell dros hanner miliwn o bunnau; ac erbyn yr amser y cauwyd hi, yr oedd yn fwy na miliwn a chwarter. Mae hyn yn brawf o'r teimlad cryf oedd yn y wlad dros y fyddin; ac nid ydyw yn rhyfedd, yn ngwyneb y farn fod y Weinyddiaeth trwy ei hasflerwch i raddau yn gyfrifol am danynt, ei bod wedi ei dymchwelyd. Ymddiswyddodd Arglwydd Russell pan roddodd Mr. Roebuck rybudd y byddai iddo gynnyg "Fod Pwyllgor yn cael ei ddewis i edrych i mewn i sefyllfa y fyddin ac ymddygiad y Llywodraeth." Wrth ddadgan ei resymau am hyny o flaen y Tŷ, fe dalodd y pendefig urddasol warogaeth uchel i amryw o'i gydswyddogion, ac yn enwedig i Mr. Gladstone. Yn ystod y ddadl, wrth gydnabod sylwadau parchus yr Iarll am dano ei hun, fe weinyddodd Mr. Gladstone gerydd llym a miniog iddo am ei waith yn ymddiswyddo mor ddisymwth. Wedi dangos nad oedd wedi bod yn ddigon gofalus i wneyd ei gydswyddogion yn hysbys mewn pryd o'i fwriad, a gwneyd rhai sylwadau ar y rhesymau a ddygodd ymlaen dros ymddiswyddo, aeth ymlaen yn y geiriau tarawiadol hyn:—"He felt it was not for them either to attempt to make terms with the House by reorganisation, or to shrink from a judgment of the House upon their past acts. If they had shrunk, what sort of epitaph would have been written on their remains? He himself would have written it thus: Here lies the dishonoured ashes of a Ministry which found England at peace and left it in war, which was content to enjoy the emoluments of office and to wield the sceptre of power so long as no man had the courage to question their existence. They saw the storm gathering over the country; they heard the agonising accounts which were almost daily received of the state of sick and wounded in the East. These things did not move them. But so soon as the hon. member for Sheffield raised his hand to point the thunderbolt, they became conscience-stricken with a sense of guilt, and, hoping to escape punishment, they ran away from duty." Yr oedd y geiriau hyn, er eu bod yn disgyn yn geryddol ar Arglwydd Russell, ac yn nghanol cymeradwyaeth y Tŷ, yn profi nad oedd y siaradwr ei hun yn ofni yr ymchwiliad llwyr; ond ei fod yn teimlo yn gryf fel un wedi gwneyd ei ddyledswydd, ac nad oedd mewn un modd yn ofni dedfryd y Tŷ. Ond er amddiffyniad hyawdl Mr. Gladstone, yn y bleidlais a ganlynodd y ddadl yr oedd mwyafrif mawr yn erbyn y Llywodraeth.

Gwnaeth Iarll Derby ymgais i ffurfio Gweinyddiaeth, ond fe fethodd; ac wrth egluro i'r Frenhines yr anhawsderau oedd ar ei ffordd, dywedodd mai y penaf ydoedd gwrthwynebiad y Peeliaid i gymeryd swyddi, ac i roddi mwy na chefnogaeth annibynol iddo. Y Peeliaid hyn oeddynt Arglwydd Palmerston, Mr. Sidney Herbert, Syr James Graham, a Mr. Gladstone. Yr oedd y Peeliaid, fel y sylwa Mr. Gladstone ei hun, yn anghyfleusdra mawr mewn gwleidyddiaeth, ac yn anhawsder mawr ar ffordd y rhai a elwid i ffurfio Llywodraeth yn y dyddiau hyny. "The Peelites were like roving icebergs, on which men could not land in safety, but with which ships might come into perilous collision. Their weight was too much not to count, but it counted first this way and then that. It was not alleged against them that their conduct was dishonourable, but their political action was attended with much public inconvenience; and even those who think they were enlightened statesmen may feel that the existence of these sensibly large segments of a representative chamber, in a state of detachment from all the organisation of party, acts upon the parliamentary vessel as a cargo of corn in bulk acts, in foul weather, on the trim of a ship at sea."

Llwyddodd Arglwydd Palmerston o'r diwedd i ffurfio Gweinyddiaeth, yn yr hon yr ymddangosodd Mr. Gladstone drachefn yn ei swydd fel Canghellydd. Ymhen tair wythnos dechreuodd hon ymddattod a myned yn ddarnau oddiwrth ei gilydd. Yr achlysur drachefn ydoedd cynnygiad Mr. Roebuck. Yr oedd y Peeliaid yn wrthwynebol iddo fel peth anghyfansoddiadol, ac fel peth yn ymyraeth o angenrheidrwydd âg awdurdod a rhyddid y Llywodraeth. Fe roddodd y Prifweinidog ffordd, gan ei fod yn deall fod pob gwrthwynebiad yn aneffeithiol; ond fe safodd Mr. Sidney Herbert, Syr James Graham, a Mr. Gladstone, at eu penderfyniad, a rhoddasant eu swyddi i fyny.

Wedi cefnu ar y Weinyddiaeth, yr ydym yn cael Mr. Gladstone fel gwyliwr ar y mur yn codi ei lais o blaid heddwch, can gynted ag y deallodd fod y rhyfel wedi cyrhaedd ei amcan. Syrthiodd o herwydd hyn i anmhoblogrwydd am ychydig yn y Llys, yn gystal ag yn ngolwg y wlad. Ac y mae yma ymddangosiad o anghysondeb a gwamalrwydd —fod yr hwn oedd wedi bod yn bleidiol i gyhoeddiad rhyfel pan yn aetod o'r Weinyddiaeth, yn awr yn codi ei lais yn ei erbyn. Ond y mae genym ei eiriau ef ei hun i egluro hyn: "The Peelites had been parties in the Cabinet not only to the war, but to the extension, after the outbreak had taken place, of the conditions required from Russia. But when it appeared that these demands were to be still further extended, or were to be interpreted with unexpected rigour, and that the practical object of the Ministerial policy appeared to be a great military success in prosecuting the siege of Sebastopol to a triumphant issue, they declined to accompany the Ministry in their course."

Myn rhai wedel anghysondeb yn y rhan a gymerodd yn rhyfel y Crimea, a'r rhan y mae wedi ei gymeryd yn y Cwestiwn Dwyreiniol yn ein dyddiau ni. Nis gwyddom pa anghysondeb all fod mewn gwrthwynebu anghyfiawnder Rwssia y pryd hwnw a gormes Twrci y pryd hwn. Pa anghysondeb all fod mewn gwrthwynebu Gallu pan y mae ar dir anghyfiawnder, a bod yn bleidiol i'r un Gallu

pan ar dir cyfiawnder a rhyddid? Nid ymddengys iddo fod yn ystod rhyfel y Crimea yn ngafael y gwallgofrwydd politicaidd hwnw, *Russophobia*: siaradai y pryd hwnw fel un yn meddu ffydd gref yn nyfodol ei wlad, ac fel un yn credu nad oedd eiddigedd o wledydd eraill yn un rhan o fawredd Prydain; gwelai y pryd hwnw fod Twrci yn eiddil, a bod ansicrwydd mawr am ei dyfodol yn Ewrop. Pa wahaniaeth bynag all fod yn ei ymddygiadau yn y ddau gyfnod, y mae yn ymddangos i ni fod y gwahaniaeth sydd yn yr amgylchiadau yn cyfrif am hyny. "Looking back upon this episode of the Crimean War," fel y dywed ei fywgraffydd, "it may not be difficult to perceive that that which is apparently ambiguous in Mr. Gladstone's conduct, is capable of an explanation honourable to himself as a man and as a statesman, and is the result of that high devotion to duty which has stamped his character as uniformly upright and conscientious in the eyes of the world."

Nid ydoedd Mr. Gladstone pan allan o swydd yn llai diwyd i gyflawni ei ddyledswyddau fel seneddwr. Clywid ei lais hyawdl bob amser ar faterion pwysig yn pleidio y Llywodraeth pan ar dir cyfiawnder a rhyddid; yn rhybuddio yn wyneb mesurau ammheus; ac yn gwrthwynebu â'i holl ddylanwad beth bynag feddyliai oedd yn anheilwng o'i wlad ac yn niweidiol i heddwch y byd. Ni ddefnyddiai ei allu un amser i dafu anhawsderau ar ffordd y Llywodraeth; nid oedd neb yn fwy parod i weini arnynt pan ddeallai eu bod ar yr iawn; yr oedd ei ymddygiad yn deilwng o seneddwr yn cael ei lywodraethu gan yr amcanion uchaf a'r gwladgarwch puraf. Ac y mae y ffaith ei fod wedi ei benodi gan Lywodraeth Iarll Derby yn Arglwydd Uchel Ddirprwywr at Ynysoedd Ionia—*Lord High Commissioner Extraordinary to the Ionian Islands*—i gymeryd i ystyriaeth deimlad y trigolion gyda golwg ar ymwahanu oddiwrth Brydain Fawr ac ymuno â theyrnas Groeg, yn brawf o'r ymddiried mawr a roddid ynddo gan y ddwyblaid yn y wladwriaeth.

Tua'r adeg yma yr ysgrifonodd ei waith enwog ar Homer. Gwyddys yn gyffredin ei fod yn hoff iawn o'r hen fardd Groegaidd, ac mai mewn astudiaeth fanwl o'i ganeuon y mae wedi cael prif adloniant ei fywyd llafurus. "Every day," meddai, "must begin for me with my old friend Homer, the friend of my youth, the friend of my middle age, and of my old age, from whom I never hope to be parted so long as I have any faculties or any breath in my body." Gyda Homer gan hyny y treuliodd ei oriau hamddenol pan yn eistedd ar feinciau yr wrthblaid. Pan nad oedd yn y Tŷ yr oedd yn sicr o fod yn ei fyfyrgeall; a chanlyniad y diwydrwydd gyda pha un yr ymglydnabyddai â'i "gyfaill Homer" yr amser hwn ydoedd cyhoeddiad y gwaith *Studies on Homer*, mewn tair cyfrol wythplyg, yn 1858. Dywed un beirniad enwog fod y cyfrolau hyn yn firwyth digon teilwng o fywyd wedi ei dreulio mewn neillduath dysgedig. Llefara Mr. Freeman am danynt yn y geiriau canlynol: "Fel gwaith un o'n hareithwyr a'n gwladweinwyr blaenaf, y maent drwyddynt oll yn rhyfeddol. Nid nad ydyw cymeriad deublyg Mr. Gladstone fel ysgolaig a gwladweinydd wedi gwneyd dim yn amgen na chryfhâu y naill y llall. Y mae ei brofiad maith o'r byd wedi ei ddsygu i werthfawrogi gwybodaeth ryfeddol Homer o'r natur

ddynol; y mae gwedd ymarferol ei ganeuon, y gwersi dyfnion a ddysgant mewn moesoldeb a gwladweiniaeth, yn dyfod yn bethau llawer mwy sylweddol a byw i'r dyn ymarferol nag y gallant fod un amser i'r efrydydd mendwyol. Ac fe allai fod ei gynnefindra â ffynonell yr ysbrydoliaeth buraf a mwyaf dyrchafedig wedi bod i raddau yn effeithiol i addurno areithyddiaeth Mr. Gladstone â mwy nag un o'i nodweddion mwyaf aruchel. Yr hyn a darawa un yn fwy na dim arall drwy y cyfrolau hyn o'i eiddo ydyw y difrifoldeb dwys, yr amcan moesol uchel, sydd yn anadlu ymhob tu dalen. Nid ydyw wedi cymeryd Homer i fyny fel tegan, nac yn wir fel mwyniant llenyddol yn unig. Iddo ef y mae yn amlwg fod efrydiaeth o Dywysog y Beirdd yn gyfrwng trwy yr hwn y gellir ei wneyd ef ei hun a dynion eraill yn ddoethach ac yn well." Yn sicr y mae yr olwg fwyaf brysiog a gymerir ar y gwaith yn dangos ei fod yn ddyddorol ac yn dda i lawer heblaw y rhai a feddant allu i werthfawrogi Homer. Y mae y grediniaeth sefydlog mewn Llywodraethwr Dywyl, yr hwn oedd trwy lenyddiaeth Groeg yn darparu y byd i dderbyn "Dymuniant yr holl genedloedd;" y parch dwfn i Air Duw; y gydnabyddiaeth lwyraf o ddwyfoldeb Cristionogaeth ac o ddyled y byd iddi, a welir yn y tu dalenau hyn, mor werthfawr â'r wybodaeth eang a geir ynddynt am Homer. Dyma lle y cawn yr ysgoleigddod dyfnaf yn talu gwarogaeth i'r Ysgrythyrau, ac yn cysegru Homer ar yr un pryd, trwy roddi ei le priodol iddo fel yn is-wasanaethgar i'w hamcan uchel. Mae yma lawer o gyfoeth i'r efrydydd a'r ysgolaig; ond y mae yma lawn cymaint, os nad mwy, i ysbrydoli y byd â chariad dyfnach at y Bibl. Pe na fuasai genym ddim ond y cyfrolau hyn fel dangosiad o hono, y maent ar unwaith yn ei restru yn uchel ymysg dynion mwyaf dysgedig a duwiol y ganrif bresennol. Nis gallwn ymattal rhag rhoddi dyfyniad neu ddau er mantais i'r darlennydd i farnu drosto ei hun; a rhag i ni wneyd cam â'r geiriau wrth gyfieithu, ni a'u rhoddw'n hwynt yn ngeiriau Mr. Gladstone ei hun. Fel hyn y llefara wrth gymharu yr Ysgrythyrau â Homer:—

The Holy Scriptures are like a thin stream, beginning from the very fountain-head of our race, and gradually, but continuously, finding their way through an extended solitude into times otherwise known, and into the general current of the fortunes of mankind. The Homeric poems are like a broad lake outstretched in the distance, which provides us with a mirror of one particular age and people, alike full and marvellous, but which is entirely dissociated by a period of many generations from any other records, except such as are of the most partial and fragmentary kind. In respect of the influence which they have respectively exercised upon mankind, it might appear almost profane to compare them. In this point of view, the Scriptures stand so far apart from every other production, on account of their great offices in relation to the coming of the Redeemer and to the spiritual training of mankind, that there can be nothing either like or second to them.

Beth a all fod yn fwy rhagorol na'r geiriau canlynol ar Lyfr y Salmau?

In the book of Psalms, for well nigh three thousand years, the piety of saints has found its most refined and choicest food; to such a degree indeed, that the rank and quality of the religious frame may in general be tested, at least negatively, by the height of its reliâ for them. There is the whole music of the human heart, when touched by the hand of the Maker, in all its tones that whisper or that swell, for every hope and fear, for every joy and pang, for every form of strength and languor,



of disquietude and rest. There are developed all the innermost relations of the human soul to God, built upon the platform of a covenant of love and sonship that had its foundations in the Messiah, while in this particular and privileged Book it was permitted to anticipate his coming.

Mae hyn yn ddigon i ddangos beth yw y dyn fel y dangosir ef ger ein bron yn y tu dalenau hyn. "The author," medd Mr. Smith, "has brought to his investigations of the Homeric text an almost unexampled patience, an intrepid judgment, and a keen analytical faculty; but, above all, there glows throughout his pages that spirit which is the outcome of the Christian religion—a religion higher and deeper than that of the great Greek poet, a religion which has transfigured all the relations of this mortal life, and which forms a great and indissoluble link uniting humanity with God."

Yn 1859 cafwyd tro pur annysgwyladwy yn yr olwyn politicaidd, a galwyd Mr. Gladstone drachefn i swydd. Yr oedd y wlad yn ferw brigwyn gyda phwnc *Reform*; ac yn hollol analluog i wrthsefyll y teimlad hwn, fe ddygodd Llywodraeth Iarll Derby Fesur Diwygiadol i mewn i'r Senedd. Penodwyd Chwef. 28ain gan Mr. Disraeli, Canghell-ydd y Trysorlys, i ddwyn y Mesur o flaen y Tŷ. Er nad oedd yn bob peth a allasai ddymuno, eto ar yr egwyddor fod hanner torth yn well na dim, a'i fod yn gam yn yr iawn gyfeiriad, rhoddodd Mr. Gladstone ei gefnogaeth i'r mesur. Pe buasai yn gwylid ei fantais ei hun, gyda golwg ar gael ei hun yn ol i swydd gynted ag oedd yn bosibl, fe fusai wedi ymddwyn yn wahanol. Pe gallasid dywedyd am dano, fel y dywedodd Mr. Bright rywbryd wedi hyn am Iarll Derby a'i yswain Mr. Disraeli, "Wherever you see them travelling, if you study with the minutest investigation their political Bradshaw, you will find that every line converges to one point, which is Downing Street"—pe gallasid cymhwyso y geiriau hyn ato, gallasai gymeryd mantais ar y teimlad cryf oedd yn y Tŷ yn erbyn y mesur i'w gondemnio gydag Arglwydd Russell. Ond yr oedd yn rhy gydwybodol ac anrhydeddus i wneyd hynny; ac nid oedd mewn cymaint o frys i gyrhaedd Downing Street fel ag i wyro drwch blewyn oddiwrth ei argyheoddiad. Fodd bynag, yn y bleidlais a ganlynodd, yr oedd y Llywodraeth yn y lleiafrif; ac yn ol cyngor y Prifweinidog, dadgorfforodd ei Mawrhydi y Senedd. Ar ol yr etholiad cyfarfyddodd y Senedd newydd gyda mwyafrif yn erbyn y Llywodraeth, ac mewn canlyniad trowyd yr Iarll a'i gyfeillion allan o Downing Street. Daeth Arglwydd Palmerston i mewn, a Mr. Gladstone yn Ganghellydd y Trysorlys am yr ail waith.

Dyma y blynyddoedd, 1859—65, pan y gellir dywedyd iddo gyrhaedd anterth ei ogoniant fel cyllidydd blaenaf ei oes. Y mae hanes ei areithiau fel Canghellydd yn y blynyddoedd hyn yn ymddangos yn fwy fel act mewn drama ongeddus nag fel pennod yn mywyd gwladweinydd diwyd oedd yn ymwneyd â thelerau anhyblyg bywyd gwladol. Yr oedd ei Gyllidebau fel cymylau llawn o wlaw yn dyfihau gwlad sych-edig, ac yn adfywio ei hadnoddau ymhob cyfeiriad, nes yr oedd gwyrddlesni yn sirioli ei hwyneb. Yn 1860 ffurfiwyd y Cytundeb Masnachol rhwng y wlad hon a Ffrainc, yn benaf trwy ferynoliaeth Mr. Cobden, yn cael ei gynnorthwyo gan Mr. Gladstone, yr hyn a wnaeth gymaint i ychwanegu at gyfoeth masnachol Prydain; diddymwyd y dreth ar

bapwr, yr hyn a fu yn effeithiol i ddwyn llyfrau rhad i'r bobl; sefydlwyd y *Post Office Saving Banks*: mewn gair, nid oedd un tymmer seneddol yn myned heibio heb fod rhyw fesurau daionus yn cael eu dwyn i'r Tŷ ganddo, a'u hebrwng allan gan ei hyawdledd i gymeryd eu lle ymhlith deddfau Prydain. Nid am nad oedd yn cyfarfod â gwrthwynebiad cyndyn weithiau. Gwrthwynebwyd diddymiad y dreth ar bapwr yn benderfynol gan y Toryaid, a thafwyd y mesur allan gan yr Arglwyddi, o dan arweiniad Iarll Derby. Dygodd hyn Mr. Gladstone wyneb yn wyneb âg anhawsder cyfansoddiadol, o flaen yr hwn y buasai dyn o wroldeb llai yn encilio. Yr oedd y ddau Dŷ mewn gwrthwynebiad i'w gilydd; ac, fel y meddylid y pryd hwnw, ac yr ymddengys i ninnau yn awr, yr oedd yr Arglwyddi wedi gwneyd ymosodiad ar un o ragorfreintiau arbenig Tŷ y Cyffredin. Yr oedd llygaid y wlad ar y Canghellydd; a'r hyn a ofynid gan bawb oedd, Beth a wna Gladstone? Pan ddaeth yr adeg briodol, dangosodd ei fod yn gyfartal i'r achlysur. Dygodd y Prifweinidog ger bron y Tŷ, ar y 5ed o Orphenaf, gyfres o benderfyniadau yn dadgan hawl y Tŷ i ddiddymu ei hunan unrhyw dreth a fernid yn briodol ganddo; ond wrth siarad arnynt, yr oedd yn amlwg i bawb nad oedd yn teimlo yn gryf iawn ar y mater, a chynghorai y Tŷ i foddioni ar roddi, trwy y penderfyniadau hyny, ddadgan iad clir o'i hawliau. Ond pan gododd Mr. Gladstone ar ei draed, fe roddodd udgorn ei hyawdledd ar unwaith sain hynod; condemniai ymddygiad yr Arglwyddi mewn iaith gref, gan ei alw "the most gigantic and dangerous invasion of the rights of the Commons which has occurred in modern times;" a chyda'r geiriau fe dorodd y Tŷ allan mewn cymeradwyaeth uchel. A phan ddywedodd ei fod yn hawlio iddo ei hun ryddid i fabwysiadu unrhyw lwybr i amddiffyn iawnderau y Senedd a fuasai yn meddu y tebygolrwydd lleiaf i lwyddo, yr oedd y gymeradwyaeth yn fwy byddarol. Ac fe wnaeth hyny. Y flwyddyn ddyfodol lluniodd ei Gyllideb yn y fath fodd fel ag y diddymwyd y dreth er gwaethaf yr Arglwyddi.

Dyddorol ydyw darllen hanes y nosweithiau pan ddygai y Gyllideb i sylw y Tŷ. Yr oedd yr eisteddiad yn hynod yn hanes y tymmor. Fel y sylwai un: "Gladstone's enunciation of his Budget excites as much interest as the bringing out of a new opera, or as the publication of a new Waverley Novel did forty years ago, when, as we remember well, impatient booksellers in country towns used to wait at the hotel for the arrival of the coach which was to bring down the sheets." Yr oedd y cyhoedd yn gystal a'r Tŷ ei hun yn llawn dyddordeb. Dylifai y dyeithriaid oedd wedi bod yn llwyddiannus i gael tocynau, i lawr i'r Tŷ am hanner awr wedi wyth yn y boreu, er mwyn sicrhau lle; am naw yr oedd y Tŷ yn llawn ymhob twll a chongl oedd at wasanaeth dyeithriaid. Wedi dwyn lluniaeth a llyfrau gyda hwynt, eisteddent yn amyneddgar trwy y dydd, gan ddarllen yr amser ymaith a gwylid yr awrlais yn symud yn araf ymlaen. Am hanner awr wedi pedwar y mae yr aelodau i gyd yn eu lleoedd, yr orielau yn llawn; ac y mae tyrfafawr yn y cyntedd a thocynau ganddynt, ond yn deall fod cael mynediad i'r Tŷ yn anobeithiol; nis gallai neb ond un o'r Arglwyddi neu Lysgenadwr gael mynediad, a hyny trwy awdurdod eithaf yr heddeid-waid. Ar yr amser penodedig, mae Canghellydd y Trysorlys ar ei

draed, ac am oriau dadlenai gynnwys ei Gyllideb yn y fath fodd fel nad oedd neb yn symud; mae yr awr ginio yn myned heibio—awr y brofedigaeth i lawer siaradwr yn y Tŷ, heb fod neb yn cofio am dani; yr oedd y dyrfa wedi ei gwefreiddio gan mor swynol oedd yr hyawdledd. "The House," fel y dywed Mr. Smith, "vibrated to his touch, like an instrument of music to a touch of genius;" ac fel y sylwai gohebydd yn y *Daily News* ar y pryd, "The audacious shrewdness of Lancashire married to the polished grace of Oxford is a felicitous union of the strength and culture of Liberal and Conservative England, and no party in the House, whatever may be its likings or antipathies, can sit under the spell of Mr. Gladstone's rounded and shining eloquence without a conviction that the man who can talk 'shop' like a tenth muse, is, after all, a true representative man of the market of the world."

Yr oedd Mr. Gladstone, yn y Senedd a'i gwelodd yn codi i anterth ei ogoniant fel cyllidydd, yn dyfod allan yn gryf o blaid mesurau Rhyddfrydol. Siaradodd o blaid Mesur Claddu Syr Morton Peto yn 1863, gan ddangos yr afresymoldeb, wedi i'r gyfraith ganiatáu rhyddid crefyddol i'r bobl, ei bod yn gwrthod rhyddid iddynt gael eu claddu yn y mynwentydd ond fel aelodau o'r Eglwys Sefydledig. Yn 1864 traddododd araeth rymus o blaid estyniad yr etholfraint yn y bwrdeisdrefni, yn ystod y ddadl a gymerodd le yn y Tŷ ar Fesur Mr. Baines. Gwnaeth yr araeth hon argraff ddofn ar y Senedd ac ar y wlad. Yr oedd yn hawdd i bawb a dalodd ryw gymaint o sylw i'w fywyd cyhoeddus ddeall fod y dosbarth gweithiol yn agos iawn at ei galon, a'i fod bob blwyddyn yn ystod ei fywyd swyddogol wedi deddfu yn ddaionus ar eu cyfer; ac yn yr araeth hon ni chelodd ei farn am danynt. Myntumiai nad oedd un rhinwedd yn y dosbarth canol o gymdeithas yn eu codi hwynt gymaint yn uwch na'r dosbarth gweithiol, fel ag i'w gwneyd yn deilwng o'r etholfraint ar wahan oddiwrth y graddau oedd islaw iddynt; ac mai dyledswydd y Wladwriaeth ydoedd estyn yr etholfraint i'r dosbarth gweithiol fel ei hawl deilwng, heb aros hyd nes y deuant, mewn adeg o gynhyrriad gwleidyddol, i'w hawlio. Yn 1865 traddododd araeth bwysig arall, yn yr hon y dadganodd ei farn gyda golwg ar sefyllfa yr Eglwys yn yr Iwerddon. Yr oedd cyn hyn, mewn llythyr a ysgrifennodd at Syr Roundell Palmer, wedi rhoddi ar ddeall i'r cyhoedd y cyfnewidiad oedd yn cymeryd lle yn ei feddwl ar y mater hwn; a phan alwodd Mr. Dillwyn sylw Tŷ y Cyffredin at y cynnygiad, "Fod sefyllfa bresennol yr Eglwys yn yr Iwerddon yn anfodddhaol, ac yn galw am sylw buan oddiwrth Lywodraeth ei Mawrhydi," dangosodd Mr. Gladstone ei fod yn ymdeimlo â'r sefyllfa, ond fod anaddfedrwydd yn ei feddwl ei hun i gymeryd y cwestiwn i fyny, yn gystal a bod y wlad yn anmharod. Ac mewn llythyr a ysgrifennodd ychydig o fisoedd yn ddiweddarach at Dr. Hannah, o Goleg y Drindod, Glenalmond, rhoddodd ei resymau dros wrthod, ar y pryd, gymeryd y pwnc i ystyriaeth, gyda golwg ar benderfynu ar ddadgysylltiad yr Eglwys. A ganlyn ydyw y rhesymau hyn yn ei ciriau ei hun:—  
 "First, because the question is remote, and apparently out of all bearing on the practical politics of the day. I think it would be for me worse than superfluous to determine upon any scheme, or basis of a scheme, with respect to it. Secondly, because it is difficult; even if I

anticipated any likelihood of being called upon to deal with it, I should think it right to take no decision beforehand on the mode of dealing with the difficulties. But the first reason is that which chiefly weighs." Tna diwedd y llythyr hwn, efe a ddywed mai o'r braidd y dysgwyliai y byddai galwad am iddo ef gymeryd rhan yn y fath fesur. Pan gofiwn fod y llythyr hwn wedi ei ysgrifenu yn 1865, a bod Mr. Gladstone wedi dwyn i mewn ei fesur i ddadgysylltu yr Eglwys yn yr Iwerddon yn gynnar yn 1869, fe fydd gan y darllenydd fantais i ffurfio barn am fawredd a chyflymdra y cyfnewidiad gymerodd le ar y cwestiwn hwn yn ei feddwl ef yn gystal ag yn nheimplad y wlad. Mor bell ydyw y dynion doethaf a goreu yn aml o ragweled y gwaith sydd wedi ei dori allan iddynt! Fe ddaeth yr hyn oedd allan o gylch gwleidyddiaeth ymarferol yn 1865, yn ol barn Mr. Gladstone ei hun, yn ddeddf yn 1869 trwy alluoedd yr un gŵr a theimplad addfed mwyafrif y wlad. Y mae hyn yn dweyd llawer am ei allu i dafu ei hunan yn llwyr i gwestiynau mawrion, a'i ystwythder i symud ymlaen gyda theimplad y wlad at gyfnewidiadau pwysig. Yn yr eangder a'r ystwythder hwn nid yw yn ail i neb yn y byd. Dyma y nodweddion sydd wedi rhoddi cymeriad i'w fywyd fel gwladweinydd.

Yn etholiad cyffredinol 1865 fe gollodd ei sedd dros Rydychain. Yr oedd erbyn hyn wedi myned yn ormod o Ryddfrydwr i'r Brifysgol; ac y mae yn ddiawmeu fod ei ddadganiad gyda golwg ar yr Eglwys Sefydledig yn yr Iwerddon wedi dyeithrio llawer o'i etholwyr. Yn yr etholiad, gan hyny, gwrthodwyd ef gyda mwyafrif o 180, ac etholwyd ei wrthwynebydd, Mr. Gathorne Hardy. Nis gall Rhydychain edrych yn ol ar yr etholiad hwn gyda dim ond teimplad o ofid, os nad o gywil-ydd. Fel y sylwai y *Times* ar y pryd, gellid meddwl fod cynnrychiolaeth ddysgedig fel y Brifysgol yn rhydd i raddau mawr oddiwrt haggfarnau plaid, ac yn alluog i ffurfio barn uwch am wladweiniaeth na masnachwyr ac amaethwyr; ond dangoswyd yn wahanol gan yr etholiad hwn. Gwrthodasant ymgeisydd oedd yn feddiannol ar y rhinweddau uchaf, moesol a deallol, i fod yn gynnrychiolydd corfforiaeth ddysgedig, yn gyfangwbl oddiar ysbryd plaid. Yr oedd Mr. Gladstone yn caru ei Brifysgol yn fawr, ac wedi ei chynnrychioli yn deilwng am ddeunaw mlynedd; ac y mae yn ddiawmeu fod ei wrthodiad y pryd hwn, nid o herwydd unrhyw ddiffyg yn y modd y cyflawnodd ei ddyledswyddau fel aelod seneddol, ond o herwydd ei gydwybodolrwydd, yn beth nas gallasai lai na theimlo yn fawr oddiwrt h. Ond y mae yn ddiawmheul fod ei wrthodiad gan y Brifysgol wedi bod yn lles personol iddo ef, yn gystal ag yn fantais i'r wlad. Nid oedd dim yn awyrgylch y gynnrychiolaeth i feithrin yr egwyddorion Rhyddfrydol hyny oedd oedd wedi ymddad blygu yn ei fywyd ef, ond yn hytrach bob peth i'w llesteirio; ac yr oedd ei dyfiant ardderchog fel Rhyddfrydwr yn fwy dyledus i'w feddwl eang a'i ewyllys gref nag i unrhyw ddylanwad o du y Brifysgol a gynnrychiolai. Yr oedd ei wrthodiad, gan hyny, yn ollyngdod iddo o gaethiwed; a theimlai yn gyffelyb i ddyn yn gadael awyrgylch drymaidd ac afiach tref boblog am awyr iach a chref y mynyddoedd. "Henceforth," dywedai y *Times*, "Mr. Gladstone will belong to the country, but no longer to the University." A phriodol iawn y dywedodd Mr. Gladstone, wrth gyfarch etholwyr South Lancashire,

"At last, my friends, I am come among you unmuzzled. By no act of mine, I am free to come among you. And having been thus free, I need hardly tell you that it is with joy, with thankfulness and enthusiasm, that I now at this eleventh hour, a candidate without an address, make my appeal to the heart and mind of South Lancashire, and ask you to pronounce upon that appeal. As I have said, I am aware of no cause for the votes which have given a majority against me in the University of Oxford, except the fact that the strongest conviction that the human mind can receive, that an overpowering sense of the public interests, that the practical teachings of experience, to which from my youth Oxford herself taught me to lay open my mind—all these had shown me the folly, and, I will say, the madness of refusing to join in the generous sympathies of my countrymen, by adopting what I must call an obstructive policy." Gwrandawyd yr appêl grymus a theimladol hwn gan fwyafrif yr etholwyr, a dychwelasant ef yn un o'r tri chynnychiolydd dros ei Sir enedigol.

Trodd yr etholiad cyffredinol yn ffatriol i'r Rhyddfrydwyr, a dychwelwyd hwynt drachefn i awdurdod. Yn Hydref y flwyddyn hon bu farw y Prifweinidog, Arglwydd Palmerston, a thrwy hynny fe gollodd y Rhyddfrydwyr eu harweinydd yn Nhŷ y Cyffredin. Yr oedd efe yn arweinydd galluog—yn meddu awdurdod a dylanwad mawr ar ei blaid ei hun, ac yn barchus yn ngolwg yr Wrthblaid. Ad-drefnwyd y Llywodraeth: daeth Iarll Russell yn Brifweinidog, a Mr. Gladstone yn arweinydd yn Nhŷ y Cyffredin. Nid rhyw lawer o ddaioni a brophwydid am dano fel arweinydd gan y gweledyddion politicaidd. Ystyrid ef yn rhy ddfrifol, yn rhy fyw ei deimlad, ac yn rhy gydwybodol i fod yn arweinydd llwyddiannus. Fe ymddengys fod moesoldeb Tŷ y Cyffredin y fath fel nad ydyw difrifoldeb mawr a chydwybodolrwydd yn gymhwysderau hanfodol i arwain plaid o'i fewn; yn wir, ystyrir hwynt gan lawer yn anfanteisiol. Y dyn goreu i gadw ei blaid ei hun ynghyd, ac i wasgar yr Wrthblaid, i lunio pob penderfyniad yn y fath fodd fel y byddo yn cyffwrdd mewn ffordd anmhenodol â chydwybodau ei holl ganlynwyr, ac yn dal eu pleidleisiau fel y mae aderyn yn cael ei ddal yn magl yr adarwr, ac yn barod bob amser i wrthwynebu ei wrthwynebwr, nid am fod hynny yn iawn, ond am ei fod yn boddloni ysbryd y plaid—dyma y cymhwysderau, yn ol rhai dynion, sydd yn angenrheidiol i arwain Tŷ y Cyffredin. Os felly, nid ydyw yn dyweyd yn dda am foesoldeb y Tŷ: y mae ymhell o'r hyn ddylai fod fel ffynnonell cyfraith a chyfiawnder i'r wlad. Nid ydyw yn rhyfedd, gan hynny, os nad ydyw Mr. Gladstone wedi profi ei hunan yr arweinydd mwyaf llwyddiannus yn ol y syniad cyffredin am arweinydd da. Y mae hyn yn codi, nid o'i ddiffygion, ond o gyflawnder ei adnoddau a'i rinweddau. Y mae yn sefyll gymaint uwchlaw lefel gyffredin ei blaid o ran eangder ei feddwl, bywiogrwydd ei deimladau, a gonestrwydd diwyrmi i'w gydwybod, fel nad ydyw yn rhyfedd os nad ydyw bob amser wedi bod yn llwyddiannus i gylymu y plaid ynghyd â'i ddylanwad, gan ei bod yn gyfansoddedig o ddyinion yn gwahaniaethu mor fawr o ran eu tymherau, eu galluoedd, a'u gwybodaeth wleidyddol, ac yn eu plith, o bosibl, ambell un sydd yn bur amddifad o'r pethau hyn. Ond os bernir llwyddiant arweinydd wrth y gwaith y galluogodd ei blaid i'w gyflawni, ac nid

wrth y ffaith fod y blaid yn cael ei chadw yn gyfan trwy ei fod yn peidio cyflawni dim, yna nid oes neb wedi bod yn fwy llwyddiannus fel arweinydd na Mr. Gladstone, canys fe wnaeth y blaid Ryddfrydol o dan ei arweiniad waith mawr mewn amser byr. Fe fydd y Senedd a arweiniwyd ganddo yn enwog yn hanes y wlad am wneyd mwy o ddeddfau gwir fawr a phwysig nag un arall mewn amseroedd diweddar.

Yn 1866, blwyddyn brawf Mr. Gladstone fel arweinydd y Tŷ, y dadleuwyd y *Reform Bill*. Nid oedd neb cymhwysach i egluro y mesur hwn i'r Tŷ nag efe. Yr oedd ei gydymdeimlad â'r dosbarth gweithiol, a'i gred ddiysgog ynddynt fel haenen isaf a phwysicaf y wladwriaeth, yn ei arwain i gymeryd golwg eang ar y mater, ac i ddadleu yn frwdfrydig dros fesur oedd i estyn yr etholfraint i ddosbarth lluosog oedd cyn hyny yn amddifad o honi. Nid ydyw wedi cymeryd trafferth erioed i gelu ei grediniaeth gadarn yn y greddfau dynol sydd wrth wraidd bywyd y bobl, a'u bod yn gyffredin yn fwy ffyddlawn i'r greddfau hyn na'r dosbarthiadau uchaf o gymdeithas. Mae yn wir fod gan y dosbarthiadau uchaf fanteision tymmorol mawrion; ond nid oes un fantais yn y byd hwn heb ryw anfantais gyferbyniol; ac y mae y dosbarthiadau hyn yn hynod o agored i gael eu harwain gan y rhagfarnau sydd yn crynhoi o amgylch eu sefyllfa, yn hytrach na chan lais rheswm; mae eu manteision cymdeithasol yn eu rhwystro hwynt yn aml i deimlo curiadau y ddynoliaeth yn symudiadau mawrion y byd. Ond y mae y werin-bobl yn cael eu harwain gan eu teimladau a'u greddfau; ac fel rheol, y mae mwy o natur a dynoliaeth yn nheimlad y werin nag sydd yn rhagfarnau y moethus a'r dysgedig. Yn yr ystyr hwn y mae llawer o athroniaeth yn y ddiareb, "Llais y bobl, llais Duw." Ac nid ydyw Mr. Gladstone wedi bod'â chywilydd arno i broffesu y gredo hon; fe gyfarfyddir â'r athrawiaeth yn cael ei gosod allan mewn geiriau eglur, a'i phrofi gan ffeithiau mewn hanesyddiaeth yn ei ysgrifeniadau. Dyma y rheswm, o bosibl, nad ydyw mor boblogaidd yn ngolwg y bendefigaeth a'r llys â'i wrthwynebydd enwog Arglwydd Beaconsfield; ond dyma yr hyn sydd yn ei wneyd yn ddyn y bobl yn fwy gwirioneddol nag un gwladweinydd arall sydd yn fyw, oddieithr John Bright. O herwydd yr ystyriaethau hyn, nid oedd neb cymhwysach yn y Senedd i ymaflyd mewn *Reform Bill*, gyda golwg ar wneyd yr un peth tuag at y dosbarth gweithiol yn y bwrdeisdrefi ag a wnaethai *Reform Bill* 1832 tuag at y dosbarth canol o gymdeithas.

Ar y 12fed o Fawrth cyflwynodd Fesur Diwygiad y Llywodraeth ger bron y Tŷ mewn araeth rymus a hyawdl. Yr oedd y mater wedi bod o dan sylw y ddwyblaid yn y Wladwriaeth er pan basiwyd *Reform Bill* 1832; ac oblegid hyn galleid dysgwyl cwrdeithrediad unol y ddwy blaid i wneyd y mesur presennol yn ddeddf; canys yr oedd yn ffaith erbyn hyn fod deddf 1832 wedi effeithio yn iachus ar y Cyfansoddiad. Ond na, nid oedd yr Wrthblaid yn myned i aberthu ei hun mewn modd mor anrhydeddus i'r Llywodraeth; yr oedd yn rhaid cadw i fyny Shibboleth y blaid, a phenderfynasant yn unfrydol wrthwynebu. Nid oedd y Rhyddfrydwyr yn un mewn rhoddi cefnogaeth i'r mesur; gwrthwynebid ef yn gadarn ac yn benderfynol gan rai o honynt. Arweinydd y gwrthwynebwyr Rhyddfrydol hyn ydoedd Robert Lowe, yn awr Arglwydd Sherbrooke; a gwnaeth enw iddo ei hun yn y ddadl

hon. Trwy ei wrthwynebiad ystyfnig i'r mesur y daeth gyntaf i sylw amlwg fel seneddwr; ac y mae yr areithiau draddododd yn ei erbyn yn aros hyd y dydd hwn yn engreiffitiau perffaith bron o areithiau seneddol hyawdl a miniog. Y mae yn ddiammheuol fod ei hyawdledd wedi gwanhâu llawer ar y Llywodraeth.

Yr oedd y gwrthwynebiad i'r mesur yn benderfynol, a'r Llywodraeth yr un mor benderfynol i sefyll neu syrthio gydag ef. Pan ddeallwyd fod y mesur mewn perygl, cododd teimlad yn uchel yn y trefydd mawrion. Ac mewn cyfarfod cyhoeddus yn Liverpool, lle yr oedd miloedd wedi ymgasglu ynghyd, a phrif aelodau y Weinyddiaeth yn bresennol, traddododd Mr. Gladstone araeth, ac fe gododd y dyrfa fawr yn ddisymwth ar eu traed gyda brwdfrydedd a chymeradwyaeth pan y dadganai fwriad y Llywodraeth gyda golwg ar y mesur yn y geiriau canlynol:—

Having produced this measure, founded in a spirit of moderation, we hope to support it with decision. It is not in our power to secure the passing of the measure; that rests more with you, and more with those whom you represent, and of whom you are a sample, than with us. Still, we have a great responsibility, and are conscious of it; and we do not intend to flinch from it. You have a right to expect from us that we should tell you what we mean, and that the trumpet which it is our business to blow should give forth no uncertain sound. Its sound has not been, and I trust, will not be uncertain. We have passed the Rubicon—we have broken the bridge, and burned the boats behind us. We have advisedly cut off the means of retreat, and having done this, we hope that, as far as time is yet permitted, we have done our duty to the Crown and to the nation.

Yn swm y geiriau hyn, nid rhyfedd fod y Tŷ, pan ddaeth y mesur ymlaen am yr ail ddarlleniad, ar y 12fed o Ebrill, yn llawn o bryder a dyddordeb. Y mae yr achlysur yn fythgofiadwy yn hanes y Tŷ am frwdfrydedd y pleidiau a hyawdledd yr areithwyr ar bob tu. Yr oedd Mr. Lowe drachefn yn ei ogoniant fel dadleuwr, ac yr oedd ei hyawdledd yn symud yn erbyn y mesur fel rhuthr corwynt yn erbyn ysgythradd y creigiau. Ar ddiwedd y ddadl, yr hon a barhaodd am wyth noswaith, cododd Mr. Gladstone am un o'r gloch y bore, mewn atebiad i'r ymosodiadau yn erbyn y mesur; ac mewn llifeiriant o hyawdledd, yr hwn, yn ol tystiolaeth ei elynion, na chlywsant erioed ei debyg, efe a ddadleuodd drosto. Mewn appél grymus at y Tŷ i dderbyn y mesur, efe a derfynodd yn y geiriau canlynol:—

You cannot fight against the future. Time is on our side. The great social forces which move onwards in their might and majesty, and which the tumult of our debates does not for a moment impede or disturb—those great social forces are against you: they are marshalled on our side; and the banner which we now carry in this fight, though perhaps at some moment it may droop over our sinking heads, yet it soon again will float in the eye of Heaven, and it will be borne by the firm hands of the united people of the three Kingdoms, perhaps not to an easy, but to a certain and to a not far distant victory.

Rhanwyd y Tŷ yn nghanol brwdfrydedd mawr. Yr oedd yn llawn trydan, fel taran-gwmwl aruthrol, ac yn awr yr oedd y wrechionen yn cael ei hestyn ato. Cyfodai dyeithriaid o'u seddau, ymwithai y dyrfa wrth y bar i fyny hyd hanner y Tŷ, ymestynai y tywysogion brenhinol ymlaen yn eu lleoedd, ac yr oedd y cwbl mewn anhrefn. Cerddodd y cyfrifwyr i fyny y Tŷ, a gwnaethant warogaeth i'r gadair; yna yn uchel

ac yn eglur mynegodd y Llefarydd nifer y pleidleisiau fel y canlyn: dros y mesur 318, yn erbyn 313; mwyafrif dros y Llywodraeth 5. Ac yna canlynodd golygfa na welir mo'i bath yn gyffredin yn y Senedd. "Torodd gwaedd wyllt, gynhyrfus, gynddeiriog, allan dros y Tŷ o'r llawr i'r oriel. Safodd dwsinau o Doryaid cynddeiriog i fyny yn eu seddau, chwyfient eu hetiau i fyny yn wallgof, a gwaeddent *hurrah* â'u holl egni. Curodd y dyeithriaid yn yr orielau eu dwylaw. Gwrthwynebwyr y mesur ar feinciau y Weinyddiaeth, wedi eu dwyn ymaith gan wallgofrwydd y foment, a chwyfient eu hetiau mewn cydymdeimlad â'r Wrthblaid, ac yr oedd eu cymeradwyaeth mor uchel â hwythau. Yn nghanol y cythrwfi i gyd safai Mr. Lowe i fyny, yn fyw gan gynhyrriad, ei wynebpryd yn pelydru gan lawenydd o herwydd y fuddugoliaeth, a'i wallt gwŷn arianaidd yn dysgleirio yn y goleuni. Tynodd ei het a chwyfiodd hi o gwmpas penau y dynion a aethant i'r cyntedd yn ei erbyn. 'Pwy feddyliodd fod cymaint yn Bob Lowe?' dywedai y naill aelod wrth y llall. 'Mae bron wedi tori i fyny y blaid Ryddfrydol,' dywedai un arall." Yn y geiriau hyn a'r cyffelyb y disgrifir yr olygfa gan un oedd yn bresennol yn y Tŷ. Er fod mwyafrif o bump dros y Llywodraeth, ystyrid y bleidlais bron yn orchfygiad arnynt; eto i gyd penderfynodd Mr. Gladstone fyned ymlaen â'r mesur. Ond nid oedd y perygl drosodd, a phan oedd y mesur yn pasio trwy Bwyllgor o'r Tŷ, gorchfygwyd y Llywodraeth ar un o'i brif adranau. Ymddiswyddodd y Weinyddiaeth mewn canlyniad, ac er derbyn appél oddiwrth ei Mawrhydi i ail ystyried y mater, glynasant wrth eu penderfyniad. Daeth Iarll Derby a Disraeli i Downing Street yn eu lle.

Cywir y dywedodd Mr. Gladstone fod amser o'u tu gyda chwestiwn Diwygiad; canys pan ddeallwyd fod y Llywodraeth wedi ymddiswyddo, fe gyffrôdd ysbryd y wlad fel cefnfor tymhestlog. Cynnaliwyd cyfarfod yn Trafalgar Square yn Llundain, lle yr oedd 10,000 yn bresennol, ac un arall yn Brookfields, gerllaw Birmingham, lle y bernid fod 250,000 wedi dyfod ynghyd. Yr oedd teimlad cryf yn rhedeg yn erbyn gwrthwynebwyr y mesur, ac yr oedd enw Robert Lowe yn cael ei gablu a'i sarnu yn a bobl. Cadwodd Mr. Gladstone feddiant hollol arno ei hun yn wyneb yr amlygiad yma o deimlad y bobl, ac yr oedd ei ymddygiad yn urddasol ac yn anrhydeddus. Mor gryf oedd y teimlad yn y wlad fel y gorfu i'r Llywodraeth Doryaidd ymgymeryd â dwyn *Reform Bill* i mewn i'r Tŷ. Mae y Toryaid, o herwydd prinder y gweithredoedd da sydd ganddynt i ymfrostio ynddynt, wedi gwneyd llawer o'r ffaith hon. Ond nid oes diim mwy o glod iddynt am hyn nag sydd i'r march am fyned â'r llwyth i ben y bryn, pan y mae nerth y fflangell yn disgyn ar ei gefn. Pe buasai y wlad yn llongydd hi a gawsai lonydd gan Derby a Disraeli; ond gan fod ysbryd *Reform* yn ei meddiannu, trech gwlad nag arglwydd; gorfodwyd Llywodraeth Doryaidd i symud ymlaen, a chymeryd, fel y galwodd Iarll Derby y mesur yn Nhŷ yr Arglwyddi, "*A leap in the dark.*" Ac yn wir, er mai Llywodraeth Doryaidd oedd y pryd hyny mewn awdurdod, yr oedd Tŷ y Cyffredin yn Rhyddfrydol, yr hyn a alluogodd y Llywodraeth i basio mesur a wthiwyd i'r Tŷ gan deimlad y wlad, ac nid gan ewyllys da y Weinyddiaeth. Ystyriai rhai o ddynion enwocaf y blaid Doryaidd fod y mesur yn dwyn mwy o ddelw Mr. Gladstone a'r blaid Ryddfrydol nag



o ddelw y Llywodraeth ; ac oblegid hyny, wrth gwrs, condemnient ef fel yn annheilwng o'r blaidd Doryaidd.

Yn Chwefror 1868, trwy ymneillduad Iarll Derby, daeth Mr. Disraeli yn Brifweinidog. Llonyfarchwyd ef gan y wasg ar ei ddyrchafiad, ac ysgrifenyd ambell erthygl ddoniol, yn yr hon y rhoddid disgrifiad byw a tharawiadol o'r ddau wr, Disraeli a Gladstone :—

That the writer of frivolous stories about Vivian Grey and Coningsby should grasp the sceptre before the writer of beautiful and serious things about *Ecce Homo*—the man who is epigrammatic, flashy, arrogant, before the man who never perpetrated an epigram in his life, is always fervid, and would as soon die as admit that he had a shade more brain than his footman—the Radical corrupted into a Tory before the Tory purified and elevated into a Radical,—is not this enough to make an honest man rend his mantle, and shave his head, and sit down among the ashes inconsolable? Let us play the too under-rated part of Bildad the Shuhite for a space, while our chiefs have unwelcome leisure to scrape themselves with potsherds, and to meditate upon the evil way of the world.

Felly y disgrifiad y *Pall Mall Gazette* y ddau ; ac er fod yr iaith yn gellweirus, eto i gyd o dan y gwawdiaeth sydd yn y geiriau hyn gallwn weled darlun pur gywir o'r ddau fel y deallid hwynt y pryd hwnw : y naill yn gellweirddyn ysagafn a doniol, yn meddu dychymyg bywiog a pharodrwydd mawr mewn iaith, a'i efrydiaeth ddyfnaf yn gorwedd yn nghanol golygfeydd dychymygol y nofelydd ; y llall yn ddfrifol, o amcanion uchel, yn llawn cydymdeimlad â'r bobl, a'i oriau hamddenol yn cael eu treulio mewn myfyrdodau dwys ar y gwirioneddau mwyaf aruchel sydd yn perthyn i fywyd dyn.

Yn Mawrth 16, 1868, y rhoddodd Mr. Gladstone y sain sicr cyntaf gyntaf gyda golwg ar ddadgysylltiad yr Eglwys yn yr Iwerddon. Rhoddwyd rhybudd gan un y byddai iddo gynnys, "Fod y Tŷ yn ymffurfio yn bwyllgor i gymeryd sefyllfa yr Iwerddon i ystyriaeth uniongyrchol." Yn ei araeth ar y cynnygiad, wedi dadgan ei farn am sefyllfa yr Iwerddon, yr angenrheidrwydd o sefydlu cydraddoldeb crefyddol yn y wlad, gan nad pa mor anhawdd ydoedd, a dangos yr oferedd o annog Iwerddon i fod yn deyrngar ac yn unol heb fod y Llywodraeth yn gwneyd rhywbeth sylweddol i ddwyn y sefyllfa hono oddiamgylch, terfynodd Mr. Gladstone yn y geiriau hyn :—

If we are prudent men, I hope we shall endeavour as far as in us lies to make some provision for a contingent, a doubtful, and probably a dangerous future. If we be chivalrous men, I trust we shall endeavour to wipe away all the stains which the civilised world has for ages seen, or seemed to see, on the shield of England in her treatment of Ireland. If we be compassionate men, I hope we shall now, once for all, listen to the tale of woe which comes from her, and the reality of which, if not its justice, is testified by the continuous migration of her people,—that we shall endeavour to

Baze out the written troubles from her brain,  
Pluck from her memory the rooted sorrow.

But above all, if we be just men, we shall go forward in the name of truth and right ; bearing this in mind—that, when the case is proved, and the hour is come, justice delayed is justice denied.

Fe wnaeth yr araeth hon argraff ddofn ar y wlad ; ac yn uniongyrchol fe ddaeth Dadgysylltiad y cwestiwn mawr yn y credo politicaidd. Gyda bod y wlad yn fyw i'r pwnc, fe ddaeth Mr. Gladstone â'r mater drachefn

o flaen y Tŷ; a chynnygiodd ei Benderfyniadau yn dadgan yr angenrheidrwydd am ddadgysylltiad yr Eglwys Sefydledig yn yr Iwerddon. Gan nad pa mor fawr ydoedd y cwestiwn, unwaith y gwnaeth efe ei feddwl i fyny gyda golwg arno, a deall fod y wlad yn addfed i gymeryd y cwestiwn i ystyriaeth, nis gallasai oedi na bod yn hannerog; gyrid ef ymlaen gyda holl egni a brwdfrydedd ei feddwl, fel afon liferiol gan nerth dysgyrchiant. Mewn cwestiynau mawrion sydd yn dal perthynas agos â bywyd cymdeithasol dynion, unwaith y ffurfia ei farn am angenrheidrwydd unrhyw ddiwygiad, y mae holl adnoddau ei feddwl yn ei yru ymlaen at y terfyniad a farna yn briodol. Nid rhamant ydyw gwladweiniaeth ganddo ef, ond peth sydd yn meddu bywyd ymarferol; ac y mae tuedd ymhob erthygl o'i greddo politicaidd i wisgo giau a chnawd mewn ffaith hanesyddol: y mae ei wladweiniaeth y fath o ran ei natur, ac yn cydweddu i'r fath raddau â chyfansoddiad cymdeithasol y ddynoliaeth, fel y mae ynnddi duedd gynhenid i gorffori ei hunan mewn ffaith. Dyma y rheswm fod Mr. Gladstone, fel pob gwladweinydd gwir fawr, nid yn unig yn meddu craffder i ddeall ei adeg i symud ymlaen, ond y mae ynnddo allu i greu iddo ei hun gyfleusdra i symud. Y mae egwyddorion ei wladweiniaeth yn egwyddorion sylfaenol yn mywyd cymdeithas; y maent yn gydweiddol â chyfansoddiad moesol dyn; ac o ganlyniad, pan y gwna ei feddwl i fyny gyda golwg ar yr angenrheidrwydd am unrhyw symudiad, y mae teimlad y ddynoliaeth yn gyffredin yn rhedeg yn yr un cyfeiriad. O herwydd hyn y mae ei eiriau difrifol ar bob symudiad pwysig yn y wladwriaeth yn myned yn syth i galon cymdeithas, ac yn cyffroi i weithgarwch y galluoedd mawrion hyny sydd yn gorwedd mor aml yn segur mewn teimladau cysglyd. Nid oes neb yn deall y *social forces* hyn yn well nag ef, ac yn sicr ni fu yr un gwladweinydd erioed yn talu gwarogaeth ddyfnach iddynt. Dichon gan hyny fod parodrwydd y wlad yn cymeryd i fyny y pwnc o ddadgysylltiad yn ddyledus, i raddau mawr iawn, i ddylanwad a hyawdledd Mr. Gladstone yn yr araeth y cyfeiriasom ati yn flaenorol: fe gyffrodd ei eiriau y deyrnas i deimlad o'r angenrheidrwydd am gyfnewidiad buan. Wedi dechreu symud gan hyny, ymlaen yr aeth yn ddioed: wedi gosod y fwyall unwaith ar wreiddyn y pren hwn, ni orphwysodd yn hir nes ei chodi i fyny drachefn gyda'r un nerth a difrifoldeb ag y gwelwyd ef lawer gwaith mewn ystyr arall yn nghoedwigoedd Penarlag. Cafwyd dadl frwd ar ei Benderfyniadau; ond o'r diwedd fe darawodd yr awr, fe gafwyd y dyn, ac yr oedd mwyafriof o 61 drostynt. Mewn canlyniad i hyn enllibiwyd ef yn fawr gan ei wrthwynebwyr. Dywedwyd ei fod wedi gwneyd cytundeb pan yn Rhufain â'r Pab i ddinystrio yr Eglwys Brotestanaidd yn yr Iwerddon, a'i fod ef ei hun yn Babydd; ei fod yn wrthwynebol i roddi unrhyw gymhorth arianol i offeiriad y tair teyrnas o arian y wlad; ei fod pan yn Balmoral yn swyddogol gyda'r Frenhines wedi gwrthod myned gyda'i Mawrhydi i Eglwys Crathie; a'i fod wedi derbyn diolchgarwch oddiwrth y Tad Sanctaidd am y cwrs a gymerodd gyda golwg ar yr Eglwys yn yr Iwerddon. Dyma ran o'r dreth a dalodd am fod yn arweinydd i'r wlad mewn symudiad mor bwysig.

Ar yr 11eg o Dachwedd, 1868, dadgorfforwyd y Senedd. Yr oedd

cwestiwn mawr ger bron y wlad, ac yr oedd y Rhyddfrydwyr yn un gyda golwg arno; ac yn yr etholiad cawsant fwyafrif o 115 ar eu gwrthwynebwyr. Trwy gyfuniad pob gallu oedd yn meddiant y Toryaid—ac nid y lleiaf oedd y camgyhuddiadau gwaradwyddus a ledaenid am dano ef—gorchfygwyd Mr. Gladstone yn South Lancashire. Ond yr oedd etholwyr Greenwich, er mwyn bod yn ddiogel yn erbyn pob ansicrwydd, wedi ei enwi fel ymgeisydd, a dychwelwyd ef ac Alderman Solomons gyda mwyafrif mawr.

Gyda dedfryd y wlad mor amlwg o blaid y Rhyddfrydwyr, nid anturiodd Llywodraeth Mr. Disraeli gyfarfod â'r Senedd; toddodd ymaith fel caseg eira o flaen yr haul, fel y gwnaeth y flwyddyn ddiweddfaf. Ar y 4ydd o Ragfyr derbyniodd Mr. Gladstone orchymyn y Frenhines i ffurfio Llywodraeth. Erbyn y 9fed yr oedd y gorchwyl wedi ei wneyd; ac yn erbyn dysgwyliaid llawer, ymddangosodd enw Mr. Bright fel Llywydd Bwrdd Masnach. Wrth gyfarch ei etholwyr yn fuan wedi ei ddewis, dywedodd "ei fod yn gobeithio fod yr amser yn ffodus wedi dyfod pan y gallai dyn gonest lenwi swydd bwysig o dan y Goron." Beth feddylir am wladweiniaeth lle yr oedd yn bosibl llefaru geiriau fel hyn! Y mae yn rhaid fod gonestrwydd, neu beth bynag y gred ynddo, yn bur anghyffredin mewn cylchoedd swyddogol. A ydyw yn beth anhawdd, heb son dim am anmhosibl, i wladweinydd fod yn onest? A ydyw gwladweiniaeth yn sefyll y tu allan i derfynau moesoldeb, fel ag i'w wneyd yn angenrheidiol i'r gwladweinydd fod yn anonest er mwyn cyflawni ei swydd? Y mae edrych ar fywyd ambell un o honynt yn peri i ni ofyn y cwestiynau hyn: ond yr atebiad goreu iddynt ydyw hanes y ddau wladweinydd sydd â'u henwau erbyn hyn yn eiriau teuluaid yn y wlad—Bright a Gladstone.

Yr oedd y mwyafrif gyda pha un y dychwelwyd y Rhyddfrydwyr—mwyafrif na fu ei fath oddiar 1832—yn gosod Mr. Gladstone mewn safle fanteisiol i ddwyn i mewn i'r Senedd y mesurau mawrion oedd mewn bwriad ganddo fel Prifweinidog ac Arweinydd y blaid. Yr oedd rhai o'r mesurau hyn y fath fel na allasai yr un Prifweinidog anturio eu dwyn i mewn heb fod ganddo fwyafrif sylweddol, yn yr hwn yr oedd llais y wlad yn cael mynegiad diammheuol; ac yr oedd yr argyhoeddiad fod y wlad yn ddiammheuol o'i blaid yn galonid mawr i Mr. Gladstone i ddwyn y mesurau hyn ger bron y Tŷ. Blaenffrwyth nerth y Llywodraeth newydd ydoedd y mesur er dadgysylltu yr Eglwys Sefydledig yn yr Iwerddon. Yr oedd pleidlais y Senedd flaenorol wedi dadgan yr angenrheidrwydd am hyn. Credai nifer lliosog o'r Wrthblaid, er hyny, ei fod y nesaf peth i anmhosibl; ac yr oedd offeiriad yr Eglwys Wladol yn un â hwynt yn eu gobeithion, os nad yn eu barn. Credai llawer hefyd y byddai yr ymgymeriad yn beryglus i ddiogelwch y Wladwriaeth, ac yn bechod mawr yn erbyn y Nefoedd. Dygid penderfyniadau cryfion ymlaen mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac mewn llysoedd eglwysig i gondemnio yr anturiaeth fel pechod mawr yn erbyn yr Hollalluog—fel mesur wedi ei ffurfio mewn ysbryd o wrthwynebiad penderfynol i'r Eglwys Gristionogol—fel pechod mawr cenedlaethol—fel mesur annuwiol, drygionus a mældigedig. Gelwid y Llywodraeth yn fradwyr, yn ladron, ac yspeilwyr politicaidd: siaredid am Mr. Gladstone fel bradwr yn erbyn ei benadur, ei wlad a'i Dduw, ac y dylid

ei alltudio am byth o bob swydd ac awdurdod yn y wladwriaeth o herwydd iddo feiddio gosod ei law ar yr arch. Dyma'r modd yr edrychid ar y mesur ac ar y Prifweinidog oedd i'w ddwyn i mewn. Nid oedd dim o'r pethau hyn yn tycio gyda Mr. Gladstone; symudai ymlaen yn urddasol ac yn dywysogaidd yn erbyn y corwynt yma o wawd; credai yn gadarn yn y gwaith oedd ganddo mewn llaw, a gwyddai fod y wlad y tu cefn iddo. Yr oedd y gorchwyl mor anhawdd, ac yn galw am gymaint o lafur i'w gwmpasu yn ei wahanol gysylltiadau, fel nad ydyw yn debyg fod neb ond efe gyda holl nerth y blaid Ryddfrydol a allasai ei gyflawni. "The undertaking," medd Mr. Smith, "was, perhaps, the greatest and most difficult to which any statesman of modern times had committed himself." Yr oedd yr Eglwys Sefydledig yn yr Iwerddon yn dyfiant canrifoedd, a'i gwreiddiau wedi ymblethu trwy gymdeithas; ac yr oedd ei dadgysylltu oddiwrth y Wladwriaeth heb ar yr un pryd ei diwreiddio o'r tir fel Sefydliad Crefyddol, a'i dadwaddoli ac ar yr un pryd bodloni pob hawl gyfiawn, a thalu gwarogaeth i'r teimlad haelionus sydd wedi arwain dynion ymhob oes i gysegru cyfran o'u dâ, at wasanaeth crefydd—yr oedd hyn yn gofyn eangder meddyliol a all amgyffred cynllun yn ei gwmpas a'i eangder, a chraffder eryraidd i gymeryd i mewn yr holl fanylion a berthynai iddo; yr oedd yn gofyn mawredd moesol i ymdeimlo â holl agweddau bywyd cenedl, ac yn onwedig eu bywyd crefyddol; ac yr oedd yn gofyn pwyll a dehurwydd i ddwyn oddiamgylch gyfnewidiad mor fawr, yr hwn oedd yn myned i lawr hyd yn nod at wreiddiau cymdeithas, gan beri y graddau lleiaf o aflonyddwch ar ei hwyneb yn mywyd y bobl. Wrth ystyried yr holl bethau hyn, pa ryfedd fod rhai yn meddwl fod y peth yn anmhosibl?

Ar y laf o Fawrth, 1869, cyflwynodd Mr. Gladstone y mesur i sylw y Tŷ, yr hwn oedd wedi ei orlenwi ymhob congl. Ymhen tair awr yr oedd wedi ei osod ger bron yn ei holl eangder a'i fanylion, mewn iaith mor hyawdl a chyda'r fath rwyddineb a phe buasai wedi codi i adrodd un o chwedlau ei hen gyfaill Homer. Nid oedd yn yr araeth, yn ol tystiolaeth arweinydd yr Wrthblaid, Mr. Disraeli, yr un gair afreidiol. Derbyniwyd y mesur gydag edmygedd a chymeradwyaeth; a chyd-nabyddai y rhai a edrychent ymlaen gyda llawer o ammhauaeth ato, fod yr eglurhâd roddwyd arno gan y Prifweinidog yn llwyddiant digyffelyb. Yn y *Daily Telegraph* y dydd canlynol ymddangosodd y sylwadau canlynol ar yr araeth:—

Ni phetruswn ddywedyd na ddarfu i Mr. Gladstone erioed o'r blaen, ymysg yr holl orchestion a hynodant ei yrfa faith o anrhydedd a llwyddiant, ddangos amgylchedd mwy grymus o'i bwnc, mwy o eglurder goleu yn yr eglurhâd, uwch difrifoldeb neu hyawdled mwy pur ac effeithiol, nag yn yr araeth nodedig a draddododd neith-iwr. Fe fuasai llai na'r feistrolaeth lwyrâf o'r cynllun cynnwysfawr, o'r egwyddor eangaf ynddo i lawr at y manylion lleiaf, yn darestwng yr arddangosiad arbenig hwnw o allu meddyliol o'r safle uchel o fod yn araeth hyned mewn hanesyddiaeth i fod yn ddedleniad oerllyd a beichus o adranau a chyfrifon. Ond gyda'r dehurwydd, parffraith hwnw a wnaeth yn y dyddiau blaenorol Gyllidaeth yn un o'r celfau cain, ac a ddysgodd i ni ramant y cyllid, gwnaeth Mr. Gladstone ei ystadegau yn addarniadol, a gwenodd yn ddeheuig y llinynau mwyaf anystwyth o gyfrifon a ffygyraa i mewn i we ei araeth. Braidd heb sylwi ar ei nodiadau, aeth ymlaen gyda chymaraethyddol, heb betruso gymaint ag uwgwaith o'r dechreu i'r diwedd; heb adael dim allan,

heb lusgo dros ddim, heb dywyllu dim; ond yn arllwys allan o'i alluocdd aruthrol o feddwl, cof, ac ymadrodd, eglurhad mor glir fel nad oedd un o'r sylwadau aml a wnaeth yn dywyll pan ddybenodd i neb o'i wrandawyr.

Hawliodd Mr. Disraeli, fel arweinydd yr Wrthblaid, dair wythnos i ystyried y mesur. Nid ymddengys ei fod wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ei efrydiaeth o hono, canys pan ddaeth ymlaen am yr ail ddarlleniad, ni ddaeth i fyny yn yr araeth a draddododd âg ef ei hun ar achlysuron o gyffelyb bwys. Desgrifiai y *Times* hi fel "flimsiness relieved with spangles—the definition of a columbine skirt." Yr oedd araeth y Prifweinidog wedi ei ddifodi; yr oedd drychfeddwl y mesur mor uchel, a'r araeth mor alluog a grymus, mor lawn o fater sylweddol, a hyawdledd difrifol, fel nad allasai ei ddychymyg bywiog gael lle i ymosod arni. Fe ddywedodd lawer o bethau pert, a thafiai ei ddychymyg toreithiog fel dewin uwchddaeareol ei ffurfiau amryliw ar lawr y Tŷ; ond yn ystod y ddwy awr y siaradodd ni lwyddodd i ddattod edefyn o'r mesur. Safai ar ol yr ymosodiad yn ei gyfanrwydd fel o'r blaen. Yn y diwedd, ar ol areithiau hyawdl o'i blaid ac yn ei erbyn, pasiwyd ef gyda mwyafrif o 118. Ymhen tri mis darllenwyd ef y drydedd waith. Aeth y mesur trwy Dŷ yr Arglwyddi, nid heb gyffroi cryn lawer ar rai o honynt. Cymharai Iarll Winchelsea y Prifweinidog i Jack Cade a Cromwell, a thystiai ei fod ef yn barod i'r dienyddle yn hytrach na rhoddi i fyny. Beth bynag, heb i un o'r Arglwyddi golli ei ben, daeth y mesur, y 26ain o Orphenaf, yn ddeddf. Yr oedd yn ddiagramu y mesur pwysicaf a ddaeth i sylw y Senedd ar ol *Reform Bill* 1832. Yr oedd yn naturiol, gan hyny, fod teimladau cryfion wedi eu cynnyrchu ganddo yn y ddau Dŷ Seneddol; ond gwnaed ef yn ddeddf, yn wyneb Gwrthblaid unol a phenderfynol, yn hollol trwy ewyllys gref ac egni digyffelyb Mr. Gladstone. A pheth bynag yw ei ddiffygion, y mae yn sicr o sefyll fel yr orchest Seneddol fwyaf mewn amseroedd diweddar.

Y flwyddyn ddyfodol, 1870, y dygwyd i mewn i'r Tŷ yr *Irish Land Act*. Yr oedd y mesur hwn yn deilliaw o'r un ysbyrd, yr un awydd i symud anghyfiawnder a cham ac i wneyd Iwerddon yn ddeddwydd a heddychol, heb ddarostwng y naill ddosbarth ar draul dyrchafu y llall, â'r mesur blaenorol; yr oedd y ddau yn rhanau hanfodol o'r un gwladweiniaeth Rhyddfrydol, ac y mae argraff meddwl a chalon Mr. Gladstone ar y ddau. Ymysg y deddfau pwysig eraill a ddygwyd i fod gan Weinyddiaeth Mr. Gladstone, y rhai a roddant gymeriad iddi mewn hanesyddiaeth fel un o'r rhai pwysicaf mewn amseroedd diweddar, y mae yr *Elementary Education Act*, *Ballot Act*, *Army Regulation Act*, oll yn ddeddfau pwysig, yn gyflawn o fendithion gwleidyddol i'r bobl. Ond cymaint ydoedd yr egni gyda pha un y symudai y Prifweinidog ymlaen gyda'i fesurau mawrion, fel y colodd y blaid Ryddfrydol wroldeb i'w ddilyn. Dechreuodd y Weinyddiaeth mewn canlyniad golli nerth a phoblogrwydd, a daeth Mr. Gladstone ei hunan i mewn am ran go helaeth o gamdriniaeth.

Er ei fod yn ddiwyd ac egniol gyda gwladweiniaeth gartrefol, dygodd y wlad trwy anhawsderau mawrion mewn gwladweiniaeth dramor. Cadwyd y wlad allan o ddyrswch y rhyfel gwaedlyd oedd yn myned ymlaen y pryd hwnw rhwng Ffrainc a Phwrsia. Terfynwyd yn hed-

ychol, trwy gyflafareddiad Geneva, yr annealltwriaeth a fodolai rhwng y wlad hon ac America. Nid y lleiaf o actau Gweinyddiaeth Mr. Gladstone ydoedd hon; yn wir, credwn y gellir edrych arni fel yn dechreu cyfnod newydd yn hanes Ewrop. Dangoswyd trwyddi y posibilrwydd o derfynu anghydfod rhwng teyrnasoedd heb apelio at y cleddyf, ac y mae yn esiampl i genedloedd y dyfodol i roddi terfyn heddychol ar bob ymryson. Yr ydym yn sicr yr edrychir ar Gyflafareddiad Geneva mewn oesoedd i ddyfod fel perl dysglauer yn nghoron Mr. Gladstone; ac y mae y weithred eisoes yn dechreu dwyn firwyth mewn teimlad mwy brawdol a charedig rhwng y ddwy wlad. Y mae yn fwy o anrhydedd i hanes Prydain heddyw na phe buasai wedi tynu ei chledd ac ychwanegu Waterloo arall at frwydrau gwaedlyd y byd.

Iwerddon ydoedd achlysur codiad a chwymp Gweinyddiaeth Mr. Gladstone. Gorchfygwyd y Llywodraeth yn 1873 ar yr *Irish University Bill*, ac yr oedd hyn, fel y dywedai Mr. Gladstone ar ol hyny, yn beth annysgwyladwy iawn iddo. Aeth y Rhyddfrydwyr yn rhanedig ar y mater, a thafwyd y mesur allan gyda mwyafrif o dri. Mewn canlyniad i hyn ymddiswyddodd Mr. Gladstone; ond gan i Mr. Disraeli wrthod ffurfio Gweinyddiaeth, ar gais ei Mawrhydi ymafodd drachefn yn ei swydd. Ond yn rhanedig y parhaodd y blaidd Ryddfrydol, ac mewn canlyniad yr oedd y Llywodraeth yn analluog i symud ymlaen gyda'r egni a ddymunai y Prifweinidog; ac yn hytrach na pharhau yn ben ar Lywodraeth oedd yn eiddil ac yn analluog o herwydd digalonddid ei chanlynwyr, dadgorfforodd y Senedd. Mae yn ddiammheulod fod hyn yn well na gadael Senedd oedd wedi gweithio ei nerth allan mewn deddfau gwir fawrion i lusgo ei bywyd yn eiddil ac yn fethedig, ac yn y diwedd heneiddio a diflanu yn ol deddf y Cyfansoddiad.

Ond nid adnewyddodd y wlad yn 1874 brydles y Rhyddfrydwyr. Ni dderbyniodd Mr. Gladstone fawr o gydnabyddiaeth ar law etholwyr y deyrnas y tro hwn am yr ychwanegiad pwysig a wnaethai at ddeddfau Prydain. Heb fyned yn fanwl i mewn i achosion cwymp y Llywodraeth Ryddfrydol yn 1874, digon yw dyweyd fod yr etholiad wedi troi yn ei herbyn, nid o herwydd unrhyw ystyriaeth o'i diffygion, ond yn hytrach oddiar anystyriaeth cyffredinol yn y wlad, ac yn enwedig difaterwch a rhaniadau ymhlith y Rhyddfrydwyr. Nid oedd un cwestiwn mawr mewn gwladweiniaeth ger bron y wlad, yr hwn a ddygai adref at feddwl a chalon y bobl y gwahaniaeth mawr sydd yn ysbryd ac amcanion y ddwy blaidd yn y wladwriaeth, ac a wnai y naill blaidd yn gystal a'r llall yn un gyda golwg ar y modd i'w ystyried a'i benderfynu, fel yr oedd y Cwestiwn Dwyreiniol a gwladweiniaeth dramor y Llywodraeth yn yr etholiad diweddfaf. O herwydd hyn yr oedd difaterwch gwleidyddol yn meddiannu corff mawr etholwyr y deyrnas; yr oedd y wlad mewn ystyr wleidyddol mewn *unstable equilibrium*, ac fe ddychwelwyd y Toryaid trwy ymdrechion egniol y tafarnwyr a'r offeiriad. Yr oedd dadgysylltiad yr Eglwys Wyddelig wedi digio y naill, a'r *Licensing Act* y lleill; ac fe gyrhaeddodd Mr. Disraeli i Downing Street trwy ddyllanwad Cwrw a Chrefydd—*Beer and the Bible*.

Nid ydyw yn beth annhebygol fod Mr. Gladstone wedi teimlo i raddau wrth weled anystyriaeth ac anniolchgarwch y wlad; ac er ein bod ymhell o gredu, fel y tybid ar y pryd, mai hyny yn unig a'i tueddodd.

i ymneillduo oddiwrth fywyd cyhoeddus fel Arweinydd y blaid Ryddfrydol, eto i gyd, mae yn bosibl fod a fyno hyny, ac yn enwedig sefyllfa ranedig y Rhyddfrydwyr â'r cam hwnw. Pa ryfedd os darfu iddo yn yr olwg ar sefyllfa y blaid, ac anystyriaeth wleidyddol y bobl o'r gwaith mawr a wnaethai ei Weinyddiaeth, deimlo awydd myned o'r neilldu a gorphwys encyd? Ond y rheswm mawr am hyny, fe ddichon, ydoedd nad oedd sefyllfa y blaid Ryddfrydol a theimlad y wlad ar y pryd yn galw am ei bresennoldeb parhâus yn Nhŷ y Cyffredin; a'r argyhoeddiad y gallasai, ar ol dros ddeugain mlynedd o lafur caled dros y wlad, ymneillduo heb wneuthur cam â hi, ac y gallasai fod yn fwy defnyddiol yn ei fyfyrgeall nag yn y Tŷ. Beth bynag oedd y rhesymau a'i harweiniodd i gymeryd y cam hwn, derbyniwyd yr hysbysiad gyda gofid gan y Rhyddfrydwyr, a chan y wlad yn gyffredinol.

Ond er nad oedd mwyach yn arweinydd yn y Tŷ, eto rhoddai ei bresennoldeb ynddo ar achlysuron pwysig; a chyda'i hyawdledd a'i ddiffrifoldeb arferol dadleuai yn erbyn rhai o fesurau pwysicaf y Weinyddiaeth Doryaidd. Ond trwy y wasg yn benaf y teimlid ei ddylanwad y pryd hwn. Danfonodd allan o'i neillduaeth, gyda chyflymdra digyffelyb, draethodau ac erthyglau a phamphledau, y rhai a ddarllenid gydag awyddfryd gan y deyrnas a chan Ewrop yn gyffredinol. Yn nodedig ymysg y rhai hyn yr oedd y traethawd ar y *Vatican Decrees*, o'r hwn y gwerthwyd 120,000 mewn ychydig o wythnosau, a chyfieithwyd ef i brif ieithoedd y Cyfandir. Ni achosodd dim yn yr oes bresennol y fath gyffro yn y gwerysll Pabaidd; yr oedd hyd yn nod y Tad Sanctaidd yn Rhufain yn crynu yn ei gadair, a daeth byddin o'r ysgrifenydd mwyaf dysgedig a galluog yn nghymundeb Eglwys Rhufain allan mewn atebiad iddo. Mae hyn ynddo ei hun yn dangos pa mor ddwfn y cyffroasid y byd crefyddol. Ond yn fuan daeth amgylchiadau mwy cynhyrfus i alw Mr. Gladstone allan o'i neillduaeth i gymeryd ei le drachefn fel tywysog ac arweinydd ymhlith dynion. Yr oedd y Cwestiwn Dwyreiniol yn dechreu tynu sylw, ac yn bygwth taflu Ewrop drachefn i ddyrswch. Torodd gwrthryfel allan yn Herzegovina, Gorphenaf 1, 1875. Er pob ymgais o eiddo Galluoedd mawrion y Cyfandir, cynnyddu wnaeth y gwrthryfel; ac ymhen y flwyddyn yr oedd Bulgaria yn diuno, ac yn dechreu ymysgwyd o'i gormes a'i gwae. Ond trwy gyflafan na chyflawnwyd ei chreulonach erioed, diffoddodd Twrci y gwrthryfel yn Bulgaria, gan ddyfetha mewn modd gwaedlyd dros 12,000 o bobl ddiniwed, yn wŷr, gwragedd, a phlant. Pan yr oedd yr holl alanasdra hyn yn cymeryd lle, eisteddai Llywodraeth Prydain yn llonydd, gan ddyweyd fod pob peth yn myned ymlaen yn dda, a'i bod yn gobeithio fod yr hyn a wnaed ganddynt yn gwrthod y *Berlin Memorandum* yn debyg o'r ddi terfyniad heddychol i'r sefyllfa. O fewn pythefnos i hysbysiad y Prifweinidog, cyffrowyd y wlad i'w gwaelodion gan ddesgrifiad y *Daily News* o'r galanasdra yn Bulgaria. Teimlodd Mr. Gladstone, yn wyneb difaterwch y Llywodraeth, ei fod yn llawn bryd i Brydain Fawr ddyrchafu ei llef yn erbyn creulondeirau Twrci. Ysgrifennodd ei bampled ar y *Bulgarian Horrors*, ac fe aeth fel trwst taranau llais Duw, trwy y wlad. Dilynodd hwnw â g araeth rymus i'w etholwyr ar Blackheath. Ac yna fe ganlynodd golygfa na anghofiw'n mo honi am dro—golygfa fydd yn hynod mewn hanes-

yddiaeth, ac yn deilwng o awen y bardd a phwyntil yr arlunydd i'w desgrifio—gwlad yn deffro fel cadarn wedi gwin, a'i bywyd yn ymdoni gan deimladau nerthol mewn cyfarfodydd cyhoeddus ymhob tref a phentref, ac yn gwaeddi yn uchel am ddialedd nefoedd a daear ar ben y Twrc. Yn y cynhwrf nerthol yma o blaid dynoliaeth yn ei gwae, Mr. Gladstone oedd llais y wlad; efe ddeonglodd ei theimlad, efe ddadleuodd ei hawliau cysegredig.

Nid oes angen i ni olrhain holl gamrau y Llywodraeth gyda'r Cwestiwn Dwyreiniol. Y mae yn ddigon hysbys i'n darllenwyr pa fodd y defnyddiodd awdurdod a gallu y deyrnas. Ni chododd na llais na llaw o blaid cenedloedd gorthrymedig oedd yn gorwedd yn eu gwae; yr oedd ei holl ddylanwad o blaid caethiwed a gormes. Yr unig gysur sydd i ni yn y rhan a gyflawnodd yn yr amgylchiadau hyn ydyw ei bod wedi dangos mewn modd eglur i'r oes bresennol—i'r dynion ieuainc fydd yn dal yn eu pleidleisiau am flynyddoedd i ddyfod awdurdod Prydain—beth ydyw tuedd ac ysbryd Toryaeth. Fe ddylai yr arddangosiad fod yn ddigon o Doryaeth i'r deyrnas am flynyddoedd maith. O'r ochr arall, y mae yr amgylchiadau hyn wedi dangos Mr. Gladstone i ni yn ei nerth a'i fawredd; yn ei frwdfrydedd mewn cwestiwn oedd yn ddigon mawr i danio ei ysbryd; yn ei ymlyniad penderfynol wrth yr un cwrw teilwng, a'i allu anghymharol i ddefnyddio holl adnoddau meddwl, teimlad, ac iaith, i gyrhaedd ei amcan. Mae rhai o'i areithiau ar y Cwestiwn Dwyreiniol yn deilwng o'u rhestru ymhlith gorchestion penaf areithyddiaeth. Fe fuasai yn dda genym roddi dyfyniadau o honynt; ond yr ydym eisoes wedi trethu gormod ar amynedd ein darllenwyr. Darllenwyd rhai, ond odid, os nad yr oll o'r areithiau hyn gan lawer o'n darllenwyr pan draddodwyd hwynt, ac y maent yn cofio yn dda eu cywair a'u tŷn. Am wir hyawdledd, am ddirifoldeb amcan, am ddyfnder teimlad, am nerth a bywiogrwydd iaith, nis gwyddom am eu rhagorach; nid ydynt yn ail yn y pethau hyn i areithiau Demosthenes, tad areithwyr y byd. Y mae yn syndod genym pa fodd y gallasai dynion wrando arnynt, ac ar yr un pryd gefnogi y Llywodraeth oedd wedi syrthio o dan eu condemniad. Ond cywir y dywedodd y *Spectator* gyda golwg ar hyn: "Reason, prudence, and patriotism, have hardly ever in our time been voted down with so little show of argument, or even plausible suggestion."

Yr oedd gwrthwynebiad Mr. Gladstone i wladweiniaeth Arglwydd Beaconsfield gyda'r Cwestiwn Dwyreiniol yn benderfynol ac yn frwdfrydig, yn agos a bod yn nwyd ganddo; ac o dan ddylanwad y brwdfrydedd hwn yr ymgymerodd â'r hynt fythgofiadwy i Scotland yn ngauaf 1879 i ymosod ar un o amddiffynfeydd Toryaeth yn Midlothian. Ac mewn difrif, yr oedd ei weled pan yn 70 oed, mewn gauaf eithriadol o galed, yn symud o dref yn Scotland, yn dwyn ymlaen erlyniad yn erbyn Llywodraeth a ystyriai yn annheilwng o'i wlad, yn engraifft o'r gwladgarwch a'r gwrhydri mwyaf. Ac y mae yn ddiammeu fod ei esiampl wedi bod yn effeithiol i godi ysbryd y Rhyddfrydwyr trwy y deyrnas; ac i'w hyawdledd a'i ddylanwad ef yn benaf y mae cwmp Llywodraeth Arglwydd Beaconsfield yn ddyledus.

Dydd yr etholiad cyffredinol ddaeth. Trwy hyawdledd Mr. Gladstone yr oedd y mater mewn dadl yn eglur o flaen etholwyr yr holl



deyrnas ; a diwrnod cyntaf yr etholiad cafwyd prawf diammheuol mai Mr. Gladstone, yn awr fel cynt, ydoedd dyn y bobl. Edifarhâodd y wlad am ei bai yn 1874, a dychwelwyd y Rhyddfrydwyr i awdurdod gyda'r mwyafrif mwyaf er 1832. Ar ol yr etholiad aeth y Weinyddiaeth i Windsor i ganu yn iach i'w Mawrhydi ; ac wedi disgyn o'r gerbydres i'r esgynlawr, cyfarchwyd hwynt gan ddinesydd oedd yn deall y sefyllfa yn dda yn y geiriau, "It is time for you to quit ; you have almost ruined the country." Ymhen ychydig ddyddiau dilynwyd hwynt gan Mr. Gladstone, a dychwelodd o'r castell yn Brifweinidog,

Mae y bennod olaf o'i fywyd heb ei hysgrifenu eto. Yr ydym yn ddiolchgar am yr hyn sydd yn ysgrifenedig ; y mae ein syniad am fywyd lawer yn uwch wedi ei ddarllen ; a phan ddaw yr adeg i ychwanegu y bennod olaf, yr ydym yn sicr y bydd ymhob modd yn deilwng o'n dysgwyliadau. Y mae yn awr ar binacl uchaf awdurdod ac anrhydedd, lle y teimla Prydain a'r byd ei ddylanwad ; ac y mae yr hyn sydd wedi bod o dan ein sylw yn brawf y bydd y dylanwad hwn o blaid cyfiawnder a heddwch. Ac fe edrychir i'fyny ato gan oesoedd dyfodol fel un o'r esiamplau goreu o wladweinydd gonest a difrifol, yr hwn yn gymaint, os nad yn fwy na neb yn y ganrif bresennol, a ddyrchafodd wladweiniaeth i diriogaeth moesoldeb a chydwybod, ac a gysegrodd ei hunan yn y modd mwyaf trwyadl i wneyd ei wlad yn fawr ac yn ddedwydd. Nawdd Duw a'i dangnef arno.

*Dowlais.*

JOHN HUGHES.

---

## CHWAREU AR Y TYWOD.

Ar esmwyth lawr o dywod mân,  
 Ar fin y traeth yn chwarau,  
 Y plant yn llawn uchelgais sydd  
 Yn gweithio eu cynlluniau ;  
 Y naill mor brysur ac mor gall  
 A fynai fod yn well na'r llall,  
 A phawb ar egni mor ddi-ball.

Mae un yn ysgrifenu 'n llawn  
 Ei enw ar y tywod,  
 A thybiai nad oedd enwau 'r byd  
 Na hanes neb mor hynod ;  
 Ac felly ef ymddiried wnaeth  
 Ei enw i orwedd ar y traeth,  
 Er gwell bob cam, ac nid er gwaeth.

Mae'r eneth fach yn trefnu'r tŷ,  
 A chael y pethau'n barod,  
 Yn gosod rhyw gadeiriau bach  
 Oddeutu bwrdd o dywod;  
 Ac yno'n gwneyd pob peth yn iawn,  
 O ffwdan ac o fôst yn llawn,  
 Ar eithaf gallu—eithaf dawn.

Y llall, arlunydd fyddai ef,  
 Yn llawn athrylith hynod;  
 A rhoes i orwedd wrth ei droed  
 Y mynydd ar y tywod;  
 A thrinai ef heb drais na cham,  
 Fel trinid maban gan ei fam,  
 A'i galon roddai fynych lam.

Ac felly ymlaen, ymlaen o hyd  
 Mae chwareu'r plant yn symud;  
 Yn myn'd fel olwyn ar ei chant,  
 Heb orphwys hanner mynyd;  
 Fel tŵr o forgrug mor ddi-ball,  
 Yn cyflym wau y naill trwy'r llall,  
 Heb dybied am un drwg na gwall.

Un fel ag Amser—mor ddi-gwsg,  
 Mae'r Llanw yntau'n codi,  
 Gan lithro'mlaen yn nês, yn nês,  
 A dichell yn ei gorddi;  
 Er d'od yn araf, d'od y mae,  
 A phob rhyw dôn â'i llon'd o wae,  
 Mewn gwewyr am gael ei rhyddhâu.

A phan mae'r ymdrech bron ar gael  
 Gan Lwyddiant ei goroni,  
 Mae'r Llanw'n d'od, fel Teyrn di-ras,  
 Ac arnynt yn ymborthi;  
 Mae'r plant oedd gynneu'n llawn o hedd  
 Yn gadaw'r cyfan mewn un bedd,  
 Heb obaith eilwaith wel'd eu gwedd.

Un fel a'r plant ar fin y traeth,  
 Yn chwareu gyda'r tywod,  
 Ryw fodd, mae bywyd ar y llawr,  
 Yn dechreu ac yn darfod;  
 Rhyw dôn sy'n d'od o'r eigion mawr,  
 Gobeithion oes—heb eiliw gwawr,  
 Ddifanant oll mewn mynyd awr.

Ar ol yr holl gynllunio i gyd,  
 Y trefnu a'r adeiladu;  
 Ar ol pob gofal a phob dawn,  
 I ennill a meddiannu;

Mae 'r byd a ddaw, heb oed na hŷn,  
Yn llyncu 'r cyfan iddo 'i hun,  
Heb adael dim ond Duw a dyn.

Ond fel mae bywyd uwch yn bod,  
I'r plentyn ddringo iddo,  
A gado gwely 'r tywod mân,  
I eraill chwareu ynddo,  
A rhoi ei droed uwchlaw i'r dôn,  
Heb ofal am holl ymgyrch hon,  
A huno, os mŷn, neu ganu 'n llon ;

Mae bywyd, oes ! a Bywyd yw,  
Lle gall yr Enaid esgyn,  
A gwenu ar holl ddrygau 'r byd,  
A thawel orphwys wed'yn :  
Lle nis gall marw, siom, na chlwy',  
Brad, na chenfigen dreiddio trwy,  
Nac anfon dafn o ofid mwy.

GLAN COLLEN.

---

## Y PROPHWYDI BYRION.

*Y Prophwydi Byron*, mewn Adgyfieithiad, gyda Sylwadau ar y Testun, ynghyd ag amryw Ddarlleniadau o'r tri hen Gyfieithiad, y LXX., y Syriaeg, a'r Vulgate. Gan JOHN DAVIES, Ietwen, yn Sir Benfro, gynt Glandwr yn Nyfed.

Y MAE y teitl uchod yn ddesgrifiad cywir o natur, cynnwysiad, ac amcan y gwaith sydd ger ein bron, ac yr ydym yn dymuno o'n calon longyfarch yr awdwr talentog ar ei anturiaeth bwysig o gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg y llyfr gorchestol hwn, sydd yn cynnwys ffrwyth ei lafur caled, a'i astudiaeth ddyfal a difrifol, am ran fawr o'i oes. Anaml iawn y ceir cyfleusdra i alw sylw y Cymry at lyfr yn eu hiaith eu hunain ag sydd yn tebygu i'r gwaith hwn o ran ei gynnwys a'i gymeriad. Y mae hyn yn codi, i raddau mawr, oddiar ddiffyg gallu i osod y gwerth a'r pwys dyladwy ar yr efrydiau hyny sydd yn wir angenrheidiol er bod yn alluog i gyfansoddi gwaith cyffelyb i'r llyfr dan sylw. Wedi i addysg y genedi fyned yn fwy trwyadl a chyffredinol, fe ddysgwylir i nifer efrydwy'r iaith wreiddiol yr Hen Destament ddyfod yn lluosocach, ac y bydd galwad ddwysach gan y cyhoedd am gynnwys eu

hastudiaeth. Y mae y gwaith hwn yn cynnwys ffrwyth llafur ac yn chwiliad annibynol yr awdwr, ac eto o duedd mor ymarferol fel y gall y Cymro uniaith ei ddarllen gyda phleser, a chael llawer o fudd, adeiladaeth a gwybodaeth wrth ymgydnabyddu âg ef. Weithiau cyfarfyddwn â llyfrau sydd yn cael eu gwneyd i fyny yn benaf, os nid yn gyfangwbl, o gasgliad o feddyliau awduron enwog perthynol i genedloedd eraill, heb yr un prawf o addfedrwydd ac annibyniaeth barn, neu o fod y casglydd wedi bod yn chwilio i mewn i'r mater yn ei wahanol gysylltiadau; ac y mae yn ddiammheuol fod llyfrau o'r fath yma yn aml yn dra defnyddiol a dyddorol, a hyd yn nod yn angenrheidiol i ryw ddosbarth o ddarllenwyr. Y mae llyfr o'r natur yma, fel rheol, yn fwy na'i awdwr. Y mae hefyd yn gwerthu yn dda yn y farchnad, yn enwedig os bydd wedi ei ysgrifennu ar bwnc ag y mae y lliaws yn cymeryd dyddordeb ynddo.

Nis gallwn lai na meddwl fod ymddangosiad y gwaith uchod yn dra amserol, gan fod cymaint o son a dyheu am gyfieithiad newydd o'r Ysgrhythrau, a'r argyhoeddiad yn myned yn ddyfnach yn barhaus o'r gwir angen sydd am hyny. Y mae yn naturiol i ryw ddynion perthynol i wahanol wledydd ymfrostio yn rhagoriaeth y cyfieithiad i'r iaith a ddeallant hwy oreu ar unrhyw gyfieithiad i unrhyw iaith arall; felly y gwna aml i Gymro, ac aml i Sais, ac aml i Almaenwr gyda golwg ar gyfieithiad Luther o'r Bibl. Y mae i bob un o'r cyfieithiadau hyn eu rhagoriaethau, ac y mae iddynt eu diffygion. Ofer i neb feddwl fod y naill neu y llall yn berffaith. Y mae y Saeson a'r Americanaid wedi cydnabod yr angenrheidrwydd am gyfieithiad newydd o'r Ysgrhythyr i'r iaith Saesoneg, a hyny drwy apwyntio cwmpeini o ddysgawdwyr "da eu gair" i gyflawni y gwaith drwy gydymgyngoriad pwyllog a dyfal; ac ni fydd raid aros yn hir cyn y bydd y gorchwyl anhawdd a phwysig a ymddiriedwyd iddynt wedi ei orphen yn llwyddiannus. Y mae yn ddiammheuol y ceir eu bod wedi cymeryd mantais ar gynnydd, gwelliantau a chanlyniadau (*results*) Beirniadaeth Ysgrhythrol yn ystod y tair canrif ddiweddaf. Heb hyn nis gallwn ddysgwyl ond ychydig welliant ar yr hên. Nid oes ond ychydig o ddynion sydd yn alluog i farnu, ac wedi cael cyfleusdra i hyny, yn ammheu nad oes cyfnod newydd wedi ei ddwyn i mewn i'r gangen hon o wybodaeth yn ystod yr amser a enwyd. Y mae yn wir fod rhai eto, fel y mae gwaetha'r modd, ag y gallesid dysgwyl yn amgen oddiwrthyn, yn cyfieithu ac yn esbonio yr Ysgrhythrau, gan adael islaw eu sylw feirniadaeth y canrifoedd diweddaf, a chyfyngu eu hunain i weithiau ac ysgrifeniadau tadau yr Eglwys yn yr oesoedd boreuaf; y rhai fel rheol, fel y mae yn hysbys, oeddent ymhell o fod yn gryfion yn y gangen hon o wybodaeth. Ac y mae sefyllfa bresennol Beirniadaeth Ysgrhythrol wedi dyoddef yn fawr oddiwrth y ffaith fod llawer o'r hen dadau wedi esgeuluso manteision gwerthfawr i astudio y rhan hon o ddysegeidiaeth gyda'r yni a'r brwdfrydedd hwnw ag y mae yn deilyngu. Y mae llawer o hen lawysgrifau yr oedd yn hawdd iddynt hwy ddyfod o hyd iddynt, erbyn hyn wedi hen fyned ar goll. Tuag at roddi cyfieithiad cywir y mae yn angenrheidiol fod y cyfieithydd yn alluog i gywiro mewn amryw fanau y testun gwreiddiol a ddefnyddir yn gyffredin, *the Masoretic Text*. Nid yw testun yr Hen Destament mor rydd oddiwrth

wallau a llygriadau ag eiddo y Testament Newydd. Y mae hyn yn naturiol pan ystyriom, yn un peth, nad oes neb yn y blynyddoedd diweddaf o gyffelyb feddwl, medr, gallu a llafur â Tischendorf wedi bod yn gweithio gyda thestun gwreiddiol yr Hen Destament, fel y mae efe wedi gwneuthur gyda golwg ar eiddo y Newydd. Yma nid oes gan y cyfieithydd, fel rheol, ond y gwaith syml o gyfieithu, heb fod o dan yr angenrheidrwydd yn aml o gywiro y testun. Heb destun cywir y mae yn annichonadwy i'r cyfieithiad fod yn gywir.

Er fod testun gwreiddiol yr Hen Destament ar y cyfan yn dda, eto y mae llygriadau wedi ymwithio i lawer adnod neu ddarn o adnod; ac mewn llawer o engreiffiau nid gwaith hawdd ydyw eu cael allan. Fe ddefnyddir gwahanol foddion, dulliau, neu egwyddorion, gan wahanol ddysgedigion, i wella y testun gwreiddiol. A rhai, megys Capellus, Kennicott, Lowth, a Houbigant, i eithafion i'w cywiro, trwy gymhorth hen gyfieithiadau, y LXX. ac eraill. Y mae Eichorn a Gesenius yn myned ymlaen ar hyd ffordd ddiogelach, gan ddal cywirdeb cyffredinol y *Masoretic Text*; ac yn hyn cadarnhawyd eu bod wedi iawn farnu gan y casgliad o hen ysgrifau a wnaed gan Kennicott a De Rossi. Sylwa un o'r dysgedigon y dyldid edrych ar y testun gwreiddiol, y *Masoretic*, a chyfieithiad y LXX., fel dau ysgrifyfr; ac er fod y cyntaf yn ddiweddarach, eto corffora well traddodiad gyda golwg ar y gwreiddiol. Heblaw hyny y mae cyfieithiad rhydd y Groeg, a'r gwallau a'r llygriadau a lithrasant i'r testun mewn oesoedd dilynol, yn gwneyd y gwaith o adferu y darlenniad gwreiddiol yn anhawdd iawn, heb gymhorth o rywle heblaw y LXX. Pan y mae y testun Masoretiaidd yn gwahaniaethu oddiwrth y LXX., dylai fod genym resymau tufewol cryfion cyn penderfynu dilyn yr olaf o flaen y blaenaf; a hyd yn nod pan y mae y Peschito—y cyfieithiad Syriaeg—yn cytuno â'r LXX., rhesymau tufewol yn unig a ddylent benderfynu pa un ai y Masora ai y ddau gyfieithiad sydd yn cynnwys y darlenniad cywir. Nis gallwn ar un cyfrif gymeradwyo y rheol hono y dadleuir drosti gan un gŵr dysgedig, o ddewis darlenniad y LXX. pan yn gwahaniaethu oddiwrth y Masora, ac hefyd oddiwrth y cyfieithiad Syriaeg. Pan y cytuno y testun gwreiddiol ag un o'r cyfieithiadau hyn, ac yn enwedig â'r LXX., y mae yn bur debyg o fod yn gywir.

Y mae Thenius wedi gwneyd cyfnewidiadau aml a phwysig yn nhestun gwreiddiol llyfrau Samuel a'r Brenhinoedd drwy gymhorth y LXX., yn ei esboniad ar y rhan hon o'r Ysgrhythyr, ac y mae amryw eraill wedi dilyn ei esiampl, mwy neu lai. Er nas gallwn gymeradwyo y dull hwn o fyned ymlaen gyda beirniadaeth ysgrhythyrol, eto y mae yn rhaid cyfaddef fod llawer i'w ddysgu oddiwrth eu gweithiau, y rhai ar y cyfan ydynt o werth mawr. Y mae eraill wrth geisio gwella y testun gwreiddiol, gyda defnyddio cymhorth y LXX., yn dyfalu mewn engreiffiau lawer. Y mae dyfaliad yn elfen beryglus wrth ymwneyd â'r gwaith hwn. Ni ddylai neb ei defnyddio o gwbl oddieithr y medrus a'r rhagorol ei farn, a hyny wedi iddo fethu gyda phob moddion eraill.

Y mae Mr. Davies yn gwneyd defnydd helaeth o'r LXX. yn ei gyfieithiad; a phan y gwahaniaetha ei ddarlenniad oddiwrth y testun gwreiddiol, gosoda ef mewn cyfieithiad ar ymyl y ddalen, ac yn achlysurol dewisa ei ddarlenniad o flaen eiddo y Masora. Y mae yn

amlwg fod ganddo feddwl uchel am y cyfieithiad hwn. Y diweddar Broffeswr Hitzig o Heidelberg, er dangos y pwysigrwydd a osodai ar y LXX., a arferai ddyweyd wrth yr efrydwyr duwinyddol o dan ei ofal, "Os nad oes genych gopi o'r LXX., gwerthwch yr oll sydd genych a phrynwch gopi o'r cyfieithiad hwnw."

Y mae y cyfieithiad Syriaeg hefyd o annhraethol werth i gyfieithydd a deonglydd yr Hen Destament. Y mae mor hen a'r eilfed ganrif o oed Crist. Pa un ai Iuddew ai Cristion a wnaeth y cyfieithiad hwn, sydd gwestiwn ag sydd eto heb ei benderfynu. Yn ol rhai traddodiadau ymhlith y Syriaid, medd Gregory Bar Hebraeus, y mae y cyfieithiad mor hen ag oes Solomon a Hiram.

Y mae y cyfieithiad yn cael ei osod gan Mr. Davies mewn llinellau cyfochrog (*parallel lines*). Fe fabwysiedir y dull hwn gan lawer o ddsygedigion wrth gyfieithu llyfrau barddonol yr Hen Destament. Ystyrir y llyfrau prophwydol yn sefyll yn rhywle yn y canol rhwng barddoniaeth a rhyddiaith; a chan eu bod yn cyfranogi mwy o'r blaenaf nag o'r olaf, yr ydym yn mawr gymeradwyo gwaith yr awdwr yn cymeryd y drefn hon i osod allan y prophwydoliaethau fel yr oreu a'r fwyaf cymhwys. Felly hefyd y gwna Lowth a Gesenius yn eu hesboniadau ar brophwydoliaethau Esaiah. Yn naturiol, nid yw hyn yn cael ei wneuthur yn y rhanau rhyddieithol o lyfrau y prophwydi.

Wedi sylwi cymaint ar ffurf yr adgyfieithiad, ac ar y ffynnonellau y tarddodd o honynt, y mae yn bryd i ni bellach ddyweyd gair neu ddaun am yr offerynau oedd gan y gweithiwr i gyflawni ei waith. Fe gyfeirir yn awr ac yn y man yn y nodiadau ar eiriiau dyrys at Eiriadur Parkhurst, yr hwn, yn ei argraffiad diweddaf gyda gwelliantau, sydd yn werth ymgynghori âg ef hyd y dydd hwn. Gwnaeth wasanaeth mawr yn ei ddydd, ond tra rhagora Geirlyfrau Gesenius, y *Lexicon*—yr hwn a ddygir allan o bryd i bryd gan olynwyr teilwng i'r awdwr gwreiddiol, er ei gadw ochr yn ochr â llenyddiaeth yr oes bresennol—a'r *Thesaurus*, yr hwn sydd yn gwir gyfateb i'w enw, ac yn *drysor* yn ystyr helaethaf y gair. Y mae Geiriadur Fuerst, wedi ei gyfieithu gan Davidson, yn un tra gwerthfawr. Ond wedi'r cwbl, y mae yn bosibl i ddyn fod yn feddiannol ar offerynau heb fedru eu trin yn briodol, a phrofi ei hun yn feistr ar ei gelfyddyd; ac, o'r ochr arall, y mae celfyddydwr campus yn gallu gwneyd gwaith destlus âg offerynau heb fod o'r fath oreu. Y mae o'r pwys mwyaf i ddyn a fyddo yn ymwneyd â chyfieithu a deongli yr Ysgrhythrau Sanctaidd fod yn feddiannol ar farn dda, gyda dysgeidiaeth eang a dofn; felly fe all fforddio myned ymlaen yn annibynol i raddau, a mentro cywiro, mewn rhai engreiffitiau, Eiriaduron o safle ac awdurdod, rhanau o ba rai a gyfansoddir weithiau o dan ddylanwad naillochrog ar ran eu hawduron. Y mae Tregelles, er engraifft, yn ei gyfieithiad o Eirlyfr Gesenius, yn ymdrechu sefyll yn erbyn Rhesymoliaeth yr awdwr, yr hyn sydd sydd yn dangos ei hun yn rhy amlwg ac yn rhy fynych yn y gwaith gwreiddiol.

Y mae o werth yn bresennol i ymgynghori â rhai o'r hen Eiriaduron, oblegid er fod y rhai a ddefnyddir yn gyffredin yn yr oes hon gan ddsygedigion yn tra rhagori, ar y cyfan, ar yr hên, eto nid ymhob peth, ac nid ar bob gair. Y mae ambell i hen Eirlyfrydd yn cael ei esgeuluso yn ormodol. Y mae tuedd naturiol mewn rhai dynion i osod allan ragor-

iaethau y Geiriadur goreu yn lliosocach nag ydynt mewn gwirionedd, ac edrych arno fel yn anffaeledig yn ei holl gynnwys, tra na chaniateir i'w gyneifiaid yr hyn sydd yn ddyledus iddynt. Y mae y naill awdwr yn dibynu i ryw raddau ar y llall, a'r olynedd enwog yn aml yn gwneyd ei ragflaenoriaid yn fath o geryg esgyn i'w alluogi i ddringo grisiau uwch gwybodaeth.

Buasai yn fanteisiol tuag at wneuthur cyfieithiad newydd fod yr awdwr wedi ymgynabyddu â'r cyfieithiadau newyddion a wnaed, yn enwedig yn yr Almaen, yn ystod y ganrif hon. Fe ystyrir cyfieithiad Luther yn un o'r rhai goreu ag sydd wedi dyfod i gael ei arferyd yn gyffredin gan genedl o bobl; ond y mae De Wette yn tra rhagori ar amrywiol ystyriaethau; ac y mae cyfieithiad Bunsen, yr hwn oedd yn cael ei gynnorthwyo yn ei waith gan ddysgedigion eraill, yn dda ar amryw olygiadau. Nid yw trigo mewn unigedd yn y wlad yn fanteisiol i gael gafael ar lawer o lyfrau gwerthfawr a gwir angenrheidiol i ymgynabyddu â hwynt wrth wneuthur ymchwiliadau manwl mewn unrhyw gangen o wybodaeth. Sylwa Dr. Wagner, yn ei ragymadrodd i'r ail argraffiad o'i lyfr ar *Aulularia*, un o weithiau Plautus, ei fod wedi cael ei alw i gyfrif gan fwy nag un o'i gydwladwyr dysgedig am ei waith yn ei argraffiad cyntaf yn esgeuluso gwneyd cyfeiriadau at lyfrau yn yr Almaen ag oeddent yn cyffwrdd â'r un materion ag yr ymdrinid â hwy yn ei lyfr. Y mae y Doethawr yn ymesgusodi drwy daflu y bai ar yr amgylchiadau yn hytrach na'i gymeryd arno ei hun. Dywed mai yn Cottonopolis (Manchester) yr oedd yn byw pan yn parotol yr argraffiad cyntaf i'r wasg, ac o ganlyniad nad oedd mor hawdd iddo ddyfod o hyd yno i lyfrau gwir angenrheidiol i'w efrydiaeth ag wedi iddo ddychwelyd i'w wlad ei hun. Ond nid ydym yn gweled y buasai y gwaith dan sylw yn manteisio nemawr oddiwrth ddyfyniadau helaeth o weithiau dysgedigion hen a diweddar, er cadarnhâu golygiadau yr awdwr ar bynciau dyrys yr ymdrinir â hwy yn y llyfr, yn enwedig gan mai yr amcan mewn golwg yn nghyfansoddiad y gwaith oedd lleshâd dosbarth helaeth ymysg y Cymry sydd yn ddarllenwyr meddylgar, ond heb fod yn ddysgedig yn yr ieithoedd gwreiddiol, ac eto yn cymeryd dyddordeb neillduol mewn gwybodaeth Ffiblaidd. Y mae y gwaith ar yr un pryd o wir werth i fyfyrwyr duwinyddol ein colegau ac i'w hathrawon.

Y mae dysgedigion Germany yn darparu eu hesboniadau Ysgrythyrol ar gyfer cyhoedd dysgedig o Broffeswyr duwinyddol ac efrydwyr duwinyddiaeth, y rhai wrth y cannoedd sydd yn wasgaredig ar hyd y wlad yn y gwahanol Brifysgolion. Y mae yno hefyd nifer mawr o glerigwyr talentog, wedi cael y manteision goreu ar gyfer ymchwiliadau duwinyddol dysgedig, ac yn cymeryd dyddordeb arbenig ynddynt, ac felly y mae pob llyfr o werth o'r natur yma yno yn cael croesaw mawr a chylchrediad helaeth. Ond y mae'r Esboniadau ar lyfrau yr Ysgrythyr a gyhoeddir yn y wlad hon, gydag ychydig eithriadau, wedi eu cyfaddasu yn benaf ar gyfer eisieu cyhoedd addysgedig—*educated public*—yn hytrach nag ar gyfer cyhoedd dysgedig—*learned*. Y mae llyfrau gwir ddysgedig yn y wlad hon, fel rheol, yn ol amgylchiadau presennol pethau, o angenrheidrwydd yn gyfyng o ran eu cylchrediad.

Y mae y gwaith dan sylw yn cynnwys arweiniad byr, cryno, i'r gwahanol lyfrau a adgyfieithir, yn yr hwn y sylwir ar yr amser, yn ol pob

tebyg, yr oedd y prophwyd yn byw, ynghyd a'r amcan oedd ganddo wrth ysgrifenu ei brophwydoliaeth. Carasem gael Arweiniad Cyffredinol gan yr awdwr i holl lyfrau y Prophwydi Byrion ar ol gorphen ei esboniad; ond y mae yn debyg nad oedd gofod i hyn yn y llyfr hwn, gan fod y gwaith i gael ei orphen mewn pedwar rhifyn a hanner—y mae yr holl waith wedi ei gyhoeddi ond y rhifyn olaf—a'r pris i fod yn bedwar a chwech. Brithir y nodiadau yn aml â dyfyniadau priodol a phwrpasol o weithiau yr awduron clasurol. Ymddengys fod Homer a Herodotus, Horace a Virgil, wedi gwneyd argraff ddofn a pharhâus ar feddwl yr awdwr. Cyfieithir y dyfyniadau bob amser ganddo, gan amlaf ar ffurf farddonol, ac weithiau mewn rhyddiaith. Y mae ymgydnabyddu yn dda â gweithiau yr awduron clasurol, a dal eu geiriau, eu brawddegau, a'u syniadau yn y cof, â thuedd ynddo i gadw y meddwl yn ystwyth ac ieuengaidd. Nid oes neb yn meddu ar y profiad hwn, heb gael addysg dda ynddynt yn moreu yr oes, â chwaeth neillduol yn rhedeg yn y cyfeiriad hwn ar hyd blynyddoedd ei oes.

A defnyddio enw gwladwriaethol, a arferir yn aml y dyddiau hyn, fel disgrifiad byr o safle dduwinyddol yr awdwr, nis gallwn wneyd yn well na'i alw yn *Liberal-Conservative*. Er nad ydym yn mawr edmygu y cyfryw gymeriad mewn gwleidyddiaeth yn y dyddiau presennol, eto mewn duwinyddiaeth credwn fod y fath safle y goreu, y diogelaf, a'r mwyaf dymunol. Y mae dau o awduron enwog eraill wedi ysgrifenu ar y Prophwydi Byrion yn lled ddiweddar, sef Dr. Pusey a Dr. Rowland Williams. Nis gallwn lai nag edrych ar y blaenaf fel *rank Tory* mewn duwinyddiaeth, a'r ail fel *Radical* trwyadl. Y mae y gwahanol safleoedd hyn i'w cymeryd mewn gwleidyddiaeth a duwinyddiaeth, i fesur mawr, yn ol y gwahanol sefyllfaoedd y byddo dynion ynddynt mewn oes a gwlad. Os bydd pethau wedi myned yn llygredig iawn, bydd *radical reform* yn wir angenrheidiol; ond os byddant yn cael eu cadw yn bur, ac yn myned ymlaen yn rheolaidd ac yn rhesymol o gyflym, goreu po fwyaf y glynir wrth yr egwyddor Geidwadol yr adeg hono. Yr oedd Luther yn *Radical* mawr, a llawer o'i olynwyr, o'r ochr arall, yn Geidwadwyr enwog.

Yr ydym yn ystyried y rhaniadau newyddion o'r pennodau a wneir yn y gwaith hwn, yn welliant mawr. Y mae y rhaniadau yn y Bibl Cymraeg a Saesoneg weithiau yn peri anfantais fawr i ganfod y cysylltiadau sydd rhwng llawer o adnodau â'u gilydd. Ceir adnod neu adnodau weithiau yn diweddu un bennod, lle y dylasant ddechreu pennod arall. Barna Dr. Davidson y dylid rhoddi heibio y rhaniadau i bennodau ac adnodau yn gyfangwbl, drwy ddogarthu yr Ysgrifthyrr i wahanol benrhanau, neu *paragraphs*, yn ol y materion yr ymdrinir â hwynt. Yn y gwaith hwn gosodir y llinell olaf yn mhennod Hos. vi. i ddechreu y bennod nesaf. Y mae y darlleniad felly yn dyfod yn esmwyth a dealladwy. Yn lle cael ei gosod i ddechreu pennod Hos. xii., yn ol ein Biblau ni, gosodir yr adnod flaenaf i ddiweddu pennod xiii. Gosodir Joel ii. 28, hyd ddiwedd y bennod, i ffurfio pennod ar ei phen ei hun, fel y mae yn y Bibl Hebraeg; tra yr ymddengys yn y Biblau Saesoneg a Chymraeg fel rhan o bennod ii., yn ol y rhaniad a fabwysiedir yn y cyfieithiad Groeg. Y mae prophwydoliaeth Joel felly yn cael ei dogarthu i bedair pennod yn lle tair. Y mae esbonwyr eraill, Germanaidd



a Seisonig, yn gwneyd llawer mwy o gyfnewidiadau yn rhaniad y pennodau a'r adnodau nag a wneir yn y gwaith dan sylw.

Wedi cymeryd golwg gyffredinol ar gymeriad y gwaith, y mae yn bryd i ni bellach roddi rhai engreiffiau o esboniadaeth a darlleniad yr awdwr o rai adnodau, a gwneyd ychydig sylwadau arnynt. Un o'r anhawsderau ynglŷn â chyfieithu ac egluro prophwydoliaeth Hosea ydyw byrder y geiriad mewn llawer brawddeg. Y mae y cyfieithiad Saesoneg a Chymraeg wedi eu gwneyd yn uniongyrchol, mewn amrywiol adnodau, o ddarlleniad neu gyfieithiad y *Vulgate*. Cymerer er engraifft y 9fed adnod o Hosea xiii. :—"O Israel, tydi a'th ddinystriaist dy hun; ond ynof fi y mae dy gymhorth." Yn y gwaith dan sylw, cyfieithir : "Yn dy ddinystyr, Israel, diau mai ynof fi y mae dy gymhorth." "I ddinystyr yr wyt yn taflu dy hun, Israel, drwy dy fod yn fy erbyn i, dy gymhorth." Yr olaf ydyw cyfieithiad Keil, wedi ei gymeryd air yn air o Hitzig. Dy ddinystyr, Israel, ydyw dy fod yn fy erbyn i, dy gymhorth. Y mae y cyfieithiad hwn yn bur lythyrenol o'r Hebraeg, ac yn rhoddi ystyr gymhwys i'r geiriau. Yr wyt ti yn chwilio am gymhorth yn yr Aipt ac Assyria, a thrwy hyny yn fy ngadael i. Dyna dy ddinystyr, hyny sydd yn dy ddyfetha. Yn lle cymeryd yr arddodiad *be* yn yr ystyr *yn*, cymerwn ef mewn ystyr arall, *yn erbyn*. Gwel ymhellach Gen. xvi. 12; 2 Sam. xxiv. 17; Job vii. 8; lle y defnyddir y gair yn yr ystyr yn *erbyn*, *gelymol*. Yr ydym yn ddyledus i Hitzig am awgrymu y cyfieithiad uchod, yr hwn a gyhoeddodd yr argraffiad cyntaf o'i Esboniad ar y Prophwydi Byrion yn y flwyddyn 1838. Ni phetrusa ei Fywgraffydd alw y dyn dysgedig hwn, wedi cymeryd o dan ystyriaeth y cwbl gyda'u gilydd, yr Esboniwr goreu a galluocaf ar yr Hen Destament. Y mae Keil yn aml yn yspeilio yr Aiptwr, y Rhesymolwr hwn; ac ar yr un pryd yn gwahaniaethu oddiwrtho mewn pethau bychain, dibwys; ac felly y gwna yn ei ddeongliad ar yr adnod hon. Y mae gan y Rhesymolwyr llawer o drysorau gwerth eu defnyddio gan yr uniongred; ond ymddyger yn anrhydeddus tuag atynt drwy gyd-nabod ein rhwymedigaeth pan yn ddyledus iddynt am unrhyw oleuni newydd ar air neu frawddeg o fewn cylch eang llenyddiaeth yr Hen Destament. Ac y mae yn hysbys eu bod wedi llafurio gyda llwyddiant mawr, ac wedi ennill iddynt eu hunain safle uchel yn y cylch hwn o ddysgeidiaeth. Pwy sydd wedi gwneyd cymaint dros lenyddiaeth Hebraeg yn ei gwahanol ranau â Gesenius ac Ewald, Hupfeld a Hitzig?

Yn y frawddeg anhawdd yn mhennod iv. adn. 18, cyfieithir, "Ei llywodraethwyr a hoffasant moeswch gywilydd." Y cyfieithiad cyffredin : "Hoff yw, Moeswch, *trwy* gywilydd gan ei llywodraethwyr hi." Gwell genym gyda Hitzig a Keil gymeryd y ferf a gyfieithir gan Mr. Davies, "Moeswch," yn dalfyriad o'r ferf a gyfieithir "hoffasant,"—diwedd y naill yn cael ei dyblu yn y llall, er mwyn grymusu yr ystyr; ac felly cyfieithwn : "Ei tharianau a hoffasant, hoffasant gywilydd," hyny yw, hoffasant gywilydd yn fawr. Tywysogion a elwir yn flugyrol tarianau, am eu bod yn geidwaid ac amddiffynwyr y llywodraeth. Felly hefyd y deallir y gair yn Psalm xlvi. 9 : "Canys tarianau y ddaear ydynt eiddo Duw." "Ei thywysogion a garasant yn fawr gywilydd," sydd yn rhoddi ystyr tra phriodol i'r frawddeg.

Yn mhennod v. 11, cyfieithir, "Am iddo fyau myned ar ei gwagedd,"

“Ar ol y gorchymyn” yn ol yr hen ddarlleniad, yr hwn sydd gywir yn ein tyb ni. Cyfeiriad sydd yma at orchymyn Jeroboam i osod i fyny wasanaeth y lloi, a'r gorchymyn hwn a gadwodd teyrnas Israel yn rhy ffyddlawn o ddechreuad ei hanes hyd ei ddiwedd. Hwn oedd pechod mawr y genedl, gwreiddyn yr holl bechodau eraill, yr hwn a ddygodd oddiamgylch chwyldroad a dinystr y deyrnas. Yr oedd cyfeiriad felly at y gorchymyn ar unwaith yn ddealladwy i'r rhai yr oedd y prophwyd yn ysgrifenu atynt. Arferir y gair a ddefnyddir am orchymyn yma yn yr ystyr o orchymyn dynol, mewn cyferbyniad i air neu orchymyn Duw, yn Esa. xxviii. 10, 13. Yr hen ddarlleniad a dderbynir gan fwyafrif y cyfieithwyr a'r Esbonwyr diweddaraf, er fod y LXX. a'r Syriaeg yn cyfieithu yn ol darlleniad arall.

Eto, pen. vi. 3, cyfieithir: “Fel diweddar wlaw, cynnar wlaw daear.” Y mae llawer i'w ddywedyd o blaid y cyfieithiad hwn. Cymhara y prophwyd y fendith yn y lle cyntaf i wlaw, ac yna enwa ddau ddsbarth o wlaw, diweddar, cynnar, yr un modd ag y gwneir yn Jeremiah v. 11, ond gyda'r gwahaniaeth fod y gair am wlaw diweddar yn dyfod yn gyntaf yn y frawddeg, a'r geiryn arferol a neu ar i gysylltu y ddau sylweddair yn absennol yma yn gyfangwbl. Nid oes yr un rheswm, dybygem, i'w roddi am hyny. Nid sylweddair ydyw יְרֵחַ—*Ioreh* yn yr adnod hon, ond berf yn dynodi dyfrhâu, gwlychu, “yn dyfrhâu y ddaear.” Y mae llawer o'r beirniaid diweddaraf nad ydynt yn cymeryd sylw o gwbl o'r cyfieithiad arall.

Adnod y 7fed yn yr un bennod a gyfieithir yn dra phriodol: “A hwynt fel Adda a dorasant gyfammod. Yno y gwnaethant yn anffyddlawn â mi.” “A'r rhai hyn fel dynion,” ydyw y darlleniad yn y cyfieithiad cyhoeddus; hyny yw, yn ol dull dynion yn gyffredin. Ond y cyferbyniad sydd yma, nid rhwng yr offeiriaid neu y prophwydi, neu y tywysogion, a'r werin neu ddynion yn gyffredin, ond rhwng Ephraim a Judah ac Adda, yr hwn a droseddodd orchymyn Duw. Nid ydym yn gweled fod yr adnodau y cyfeirir atynt gan Hitzig yn profi fod y gair a gyfieithir yma, “yno,” weithiau yn cael ei ddefnyddio am amser yn hytrach na lle; “yna,” ac nid yno.

Drachefn yn pen. xiv. 3, cyfieithir y frawddeg ddyrys hono fel y canlyn: “A thalwn fustechi ein cutiau,” yn lle “lloi ein gwefusau” yn y cyfieithiad cyhoeddus. Tuag at gael y meddylldrych yna allan o'r frawddeg, y mae yr awdwr yn gorfod trosglwyddo llythyren olaf un gair, a'i gosod i ddechreu y gair nesaf. Y mae ganddo hawl i wneyd hyn gystal âg eraill, fel y dywed. Y mae Hitzig yn gwrthod y darlleniad hwn o herwydd ei fod yn rhoddi ystyr anfoddfaol ac ansicr, ac â ymlaen ymhellach i ddyfalu mai y gwir ddarlleniad yma yw יְרֵחַ—*pidion*, pridwerth. “Ni a dalwn bridwerth ein gwefusau.” Nid yr hyn a addawyd a'r gwefusau a feddylir, ond mor bell ag y mae y gwefusau wedi rhoddi baich o ddyled arnynt ac felly beryglu eu bywyd, yn sefyll mewn angen am gael eu rhyddhâu, eu prynu. Eu gwefusau, a thrwyddynt hwy eu hunain, wedi eu dal ac i gael eu gwaredu eilwaith. “Am bechod eu genau, ac ymadrodd eu gwefusau, dalier hwynt yn eu balchder” (Psal. lix. 13). Pechodau y geiriau yn adn. 3, a phechodau y gweithredoedd yn cael cyfeirio atynt yn adn. 4. Pa fodd yr oedd yr iawn hwn i gael ei roddi gan y rhai oedd wedi pechu â'u gwefusau, sydd

yn cael ei adael heb ei hysbysu gan y dysgawdwr. Paham y newidir y testun? a phaham na chyfieithir y geiriau fel y maent yn y testun gwreiddiol, gan eu bod yn rhoddi ystyr briodol: "ni a dalwn fel lloi ein gwefusau." Yn lle offrymu anifeiliaid am ein pechodau, ni a offrymwn gyfaddefiad o'n pechodau, moliant am waredigaeth oddiwrtho, a gweddi am lwyr ryddhâd oddiwrth ei ganlyniadau. Psalmiau, gweddiâu, ac erfyniau, gyda dybenion diffuant, sydd yn fwy cymeradwy gyda Duw, nag aberthau drudfawr gyda chalon wrthryfelgar. Y mae ufuddhâu yn well nag aberth.

Y frawddeg olaf yn adn. 23 o Joel ii., a gyfieithir fel y canlyn: "Canys rhoddodd i chwi y cynnar wlaw wrth raid, ac efe a wlawia i chwi gafod o gynnar a diweddar wlaw fel cynt." "Canys rhydd i chwi athrawon a dysgawdwyr i gyfiawnder," ydyw y cyfieithiad a gymeradwyir gan lawer o esbonwyr, hen a diweddar. Y mae y gair yn cael ei ddefnyddio yn yr Hebraeg am wlawio a dysgu; a gair arall o'r un gwreiddyn yn cael ei arfer am wlaw ac am athraw; ac felly y mae beirniaid yn methu cytuno gyda golwg ar yr ystyr y mae y gair i gael ei gymeryd yn yr adnod hon. Rhoddir crynodeb o'r gwahanol farnau gan Dr. Pocock yn ei sylwadau ar yr adnod. Gwell genym na chyfieithu "fel cynt," y cyfieithiad "yn gyntaf," gan gyfeirio at adn. 28, "A bydd ar ol hyny;" bendithion tymmorol yn cael eu haddaw yn gyntaf, ar ol hyny bendithion ysbrydol. "Canys rhydd i chwi yr hâd wlaw er bendith," ydyw cyfieithiad Schmoller. Y mae yn dal nad ydyw y gair a gyfieithir "cyfiawnder" yn y Bibl bob amser i'w gymeryd yn yr ystyr gyfyng a roddir iddo, ond ei fod hefyd yn cynnwys weithiau yr ystyr ychwanegol, "iachawdwriaeth," "bendith." Y mae y ddau ddrychfeddwl yn cydgyfarfod yn y gair "cyfiawnhâd;" cyfiawnder Duw yn cael ei osod allan fel yn cyfiawnhâu. Yn gyffelyb y dywed Ewald: "Gwlaw er cyfiawnhâd," fel arwydd o dderbyniad i heddwch a ffafr Duw.

Amos v. 8: "Gwneuthiawr Ceimah a Cesil." Yr ydym yn ystyried yn fwy boddhaol na hwn y cyfieithiad arferol: Gwneuthurwr, neu "Yr hwn a wnaeth y saith seren ac Orion." Y mae gan Delitzsch sylwadau helaeth arnynt yn ei Esboniad ar Job xxxviii. 31.

Amos viii. 3 cyfieithir

Lliaws o gelaneddau,  
Ymhob lle a deifl ddystawrwydd.

Y mae mwy nag un o'r beirniaid diweddaraf yn cyfieithu naill ai, "Ymhob lle y bwrir allan yn ddystaw," neu "Ymhob lle y bwrir allan; ust!" Y mae yr olaf yn rhagori, yn gymaint ag nad oes profion digon eglur fod y gair yn cael ei ddefnyddio fel gorair o gwbl. Gwel Keil ar yr adnod.

Boddhaol iawn ydyw cyfieithiad y rhan olaf o adn. 8, "A hi a ddygir ymaith ac a ostwng megys afon yr Aipht." Mabwysiedir y darlleniad ar ymyl y ddalen, yr hwn, yn yr engraifft hon, sydd yn debyg o fod yn gywir.

Obadiah adn. 7,

Hyd y terfyn y'th yrodd yr holl wŷr,  
Yr oedd cyfammod i ti â hwynt;  
Twyllasant di, buont drech na thi:  
Gwŷr dy heddwch, dy fara, a osodasant fagl danat;  
Nid oes deall ynddo.

"Twyllasant di, gorchfygasant di, dy gyfeillion da, pobl dy fara."—*Bunsen*. "Dy fara a osodant yn fagl danat;" hyny yw, dy fara yr wyt yn sefyll mewn angen o hono, a'r hwn yr wyt yn geisio ganddynt, fydd achos dy ddynistr. Yr ydym yn ystyried y deongliad hwn y mwyaf boddhaol ar y cyfan.

Nid ydym yn ystyried y cyfieithiad o'r llinell gyntaf yn adn. 20 yn hapus: "A'r llu hwn o gaethion meibion Israel gan Ganaaneaid hyd Tsarephath." Y mae y cyfieithiad cyhoeddus ac eiddo *Bunsen* yn eglurach: "A'r caethion allan o'r llu hwn o feibion Israel a feddiannant wlad y Canaaneaid hyd Serepta."

Michah i. 11: "Ni ddaeth preswylferch Saanan allan yn ngalar Bethesel; efe a dderbyn genych ei sefyllfan," yw y cyfieithiad cyhoeddus. Cyfieithiad Mr. Davies ydyw,

Nid aeth preswyles Saanan allan,  
Galar Bethasel,  
A gymer oddiwrthych ei gynnorthwy.

Buasem yn dewis y gair sefyllfan o flaen y gair cynnorthwy, gan ein bod drwy hyny yn cael cyferbyniad rhwng myned allan a sefyll, fel y sylwa *Bunsen*.

Pen. ii. 1 cyfieithir, "Am ei fod ar eu llaw hwynt." "Am ei fod ar eu dwylaw," yw y cyfieithiad cyhoeddus. "Am fod eu llaw yn ddigon cryf," yw cyfieithiad *Bunsen*. "Oblegid eu llaw yw eu Duw," yw eiddo *Keil*. Y mae yn well genym yr olaf: eu nerth sydd iddynt fel Duw. Ni chydabyddant allu uwch na'u braich eu hunain. Tybiant fod yn eu gallu i wneyd yr hyn a fynont."

Adn. 4, "Pa fodd y dyg ef oddiarnaf? gan droi ymaith, efe a ranodd ein meusydd."—*Cyfieithiad Cyhoeddus*. "O am iddo ymadael â mi i ddychwelyd; ein meusydd a rana," ydyw y cyfieithiad yn y gwaith dan sylw. Gwell, yn ein tyb ni, ydyw cyfieithu gyda mwy nag un o'r beirniaid diweddaraf: "Pa fodd y dyg ef oddiarnaf? Efe a rana ein meusydd i'r gwrthnysig." Cyfeiriad sydd at y gorchfygwr, brenin Assyria, yr hwn fel Cenedlddyn a ystyrir yn annuwiol o'r groth. *Cy-mharer Jer. xxxi. 22; xl. 4.*

Pen. v. 2:

A thydi, Bethlehem Ephratha,  
Bychan yw bod ymhlith miloedd Judah:  
O honot ti y daw allan i mi  
Un i fod yn llywydd yn Israel;  
A'i fynediad allan sydd er cynt, er dyddiau oesol.

Y mae "y geiriau, felly, yn dynodi yr amlygiadau a wnaeth Crist o hono ei hun yn oesoedd boreu y byd, yn yr hen amser a'r dyddiau gynt, pryd y daeth allan ac y dangosodd ei hun ger bron dynion yn ei weithredoedd o drugaredd a diogelwch i'w bobl, a gwrthwynebiad a darostyngiad i'w elynion. Barn y tadau oedd nad neb ond Mab Duw a ymddangosodd i'r patriarchiaid. Os cymerir y geiriau yn yr ystyr hwn, profant rag-hanfodiad Crist cyn genedigaeth y dyn Crist Iesu." Sylwa ymhellach: "Os y bwriad iddo ddyfod i'r byd a olygir yn y *mynediad* neu y *mynediadur allan*, yna gallwn gyfieithu er *dyddiau tragywyddoldeb*. Os amlygiadau o hono ei hun, yna dylem gadw at y darlleniad, *dyddiau hen neu ddyddiau oesol*." Gwel tu dal. 101.

Pen. vi. 6: "A lloi blwyddiaid," yn lle "a dyniewaid" y cyfieithiad cyhoeddus. Nid yw yr olaf yn air a ddefnyddir yn gyffredinol, tra y mae y blaenaf yn egluro ei hun ac yn ddealladwy i bawb.

Nis gallwn wrth derfynu ein dyfyniadau wneyd dim yn well na rhoddi rhai engeffitiau o gyfieithiadau yr awdwr. Cymerer a ganlyn o Gân Habacuc:—

Habacuc iii. 1. Cân Habacuc y Prophwyd.

Ar wedd Galarnad.

- 2 Arglwydd, clywais son am danat,  
Ofnais, Arglwydd;  
Dy waith,  
Yn nghanol blynyddoedd cadw ef yn fyw;  
Yn nghanol blynyddoedd y peri wybod:  
Mewn llid y cofi drugaredd.
- 3 Duw a ddenai o Teman;  
A Santaidd o fynydd Paran. Selah.  
Ei ogoniant a dodd wybrenau,  
A'i fawl a lanwodd y ddaear.
- 4 A byddai dysglaerdeib fel goleuni;  
Pelydr iddo a ddeuent oddiwrtho;  
Ac yno yr oedd cuddfa ei gryfdwr.
- 5 O'i flaen y cerddai haint,  
Ac elai pla allan wrth ei draed.
- 6 Safodd a mesurodd wlad,  
Edrychodd a dychrynodd genedloedd;  
A drylliwyd mynyddoedd tragywyddol;  
A chrynodd bryniau oesol:  
Llwybrau oesol sydd iddo.
- 7 Dan gystudd y gwelais bebyll Cusan:  
Crynodd lleni gwlad Midian.
- 8 Ai wrth yr afonydd y sorodd yr Arglwydd?  
Ai wrth yr afonydd y bu dy ddig!  
Ai wrth y môr y bu dy wŷ?  
Gan y marchogit ar dy feirch;  
Dy gerbydau iachawdwriaeth.
- 9 Gan noethi y noethit dy fwa,  
Gan lefaru llwon i lwythau, Selah:  
Yn afonydd yr holltit wlad.
- 10 Mynyddoedd a'th welsant,  
Crynent;  
Cefnllif dyfroedd a seth ymaith:  
Dyfnider a roddes ei lef,  
Cododd ei donau yn uchel.
- 11 Haul, lloer, a safodd yn eu preswylfa:  
Mewn goleuni y cerddai dy saethau,  
Dy waewfion wrth lewyrch mellit.
- 12 Mewn llid y tramwyit wlad:  
Mewn digder y dyrnit genedloedd.
- 13 Aethoet allan er iachawdwriaeth dy bobl,  
Er iachawdwriaeth dy eneiniog:  
Toraist benog allan o dy anwiriad;  
Gan ddynoethi sylfaen hyd wddf, Selah.
- 14 Trywenaist â'i ffyn ef ben ei dywysogion;  
Ymgynnddeiriogent i'm gwasgaru,  
Ymlawenasant fel wrth ddifa tlawd mewn ymguddfa
- 15 Rhodiaist dy feirch trwy y môr:  
Pentwr o ddyfroedd mawrion.
- 16 Clywais, a chyfrôdd fy mol,  
Wrth y sŵn crynodd fy ngwefusau;  
Denai pydredd i'm hesgyrn,

- A chrywnn tanaf:  
 O herwydd fe 'm dygir i ddydd trallod,  
 I fyned i fyny at bobl y rhai a'n llehaat.
- 17 Canys figysbren ni flodeua,  
 Ac ni bydd cynnyrch ar y gwinwydd;  
 Palla gwaith olewydden,  
 A maesydd ni roddant fwyd;  
 Torwyd dafad o gorlan,  
 Ac ni bydd eidion wrth bresebau.
- 18 Ond myfi a lawenychaf yn yr Arglwydd;  
 Gorfoleddaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.
- 19 Yr Arglwydd Iôr yw fy nerth,  
 Ac efe a esyd fy nhraed fel traed ewigod,  
 Ac efe a wna i mi rodio ar fy uchel diroedd.  
 I'r prif gantawr ar fy offer tânau.

Y mae y cyfieithiadau o'r beirdd clasurol yn hynod o hapus, cywir, a thlws, yr hyn sydd yn dangos fod yr awdwr yn meddu barn a chwaeth dda, yn gystal a dysgeidiaeth addfed. Cymerer yr engreiffitiau canlynol:—

Hosea xii. 8: Yn farchnatâwr,  
 Yn ei law y mae clorianau twyllodrus,  
 Da ganddo orthrymu.

Yn lle marchnatâwr, galleid darllen Cansanead. Am y cyfryw y dywed Homer:—

*Δη τότε Φοιμῆς ἦλθεν ἀνὴρ ἀπαταλία εἰδώς  
 Τρωκτῆς, ὅς τε πολλὰ κακ' ἀνθρώποισιω εἴργει.*

Yna y daeth Pheniciad, gŵr medrus mewn twyll,  
 Ystrywgar, a'r hwn a wnaeth ddrygau lawer i ddynion.

Jonah iii. 7: Y dyn a'r anifail, yr eidion a'r ddafad, na phrofant ddim, na phorant, ac na yfant ddwfr.

Dywed Virgil yn Eclog. v. 24, fod peth tebyg i hyn wedi ei wnaethur fel arwydd o alar ar ol Cesar:

*Non ulli pastos illis egere diebus  
 Frigida, Daphni, boves ad flumina: nulla neque amnem  
 Libavit quadrupes, nec graminis attingit herbam.*

'R ychen at y ffyrdia oerion,  
 Daphnia, ni cheid neb i'w danfon  
 Yn y dyddiau triston hyny:  
 Ni chai 'r pedwar-carnol ddrachtio  
 'R afon loew f'ai yn llifo,  
 Melus laswellt ni chai fiasu.

Jonah iii. 8: A gwisger y dyn a'r anifail â sachliciniau.

Sonia Virgil yn Aen. xi. 89 am beth o'r un natur:

*Bellatur equus positus insignibus, Aethon,  
 It lacrymans*

Aethon, y march rhyfelus dewr,  
 Ddiosgid o'i addurnion cain,  
 A than wylofain cerdd.

Jonah iii. 4: Deugain niwrnod eto, a Ninefeh a ddinystrir.

Destl yw gair y prydydd pan y dywedodd

*Fleres si scires unum tua tempora mensem  
 Rides eum non ait forsitan una dies.*

Wylit pe gwyddit mai un mis dy amser f'ai,  
Chwerddi pan nad yw f' allai ond un dydd.

Micah vii. 18: Am fod yn hoff ganddo drugaredd.

Dywed un,

Et quoties saevus cogitur esse dolet.

Blin yw bob tro y gorfydd arno fod yn draws.

Micah vii. 19: A thi a deffi eu holl bechodan i ddyfnderoedd y môr.

Dywed y Groegiaid a'r Rhufeiniaid am y pethau am ba rai na bo dim gofal; ddarfod eu tafu i'r môr. Dywed Horace yn un o'i ganeuon:

Tristitiam et metus  
Tradam protervis in mare Creticum  
Portare ventis.

Tristwch ac ofnan dafaf  
I'r gwyntoedd geirwon  
I'w dwyn i fôr Creta.

Rhodddwn eto yr engreiffitiau a ganlyn o'r gwahanol ddarlleniadau:—

Zech. ix. 12:

Trowch i ymddiffynfa,<sup>4</sup>

Y careharorion gobeithiol:<sup>5</sup>

Iâ, heddyw yr wyf yn mynegu<sup>6</sup> y talaf yn  
ddeuddyblyg i ti.

<sup>4</sup> Chwi a aroschwch mewn ymddiffynfeydd.  
—LXX.

<sup>5</sup> Y gynnullaiddfa.—LXX., Syr.

<sup>6</sup> Heddyw sydd yn mynegu y—  
Am un dydd dy ymdaith y.—LXX.  
Yn lle un dydd, dau yr wyf yn ei dalu  
i chwi.—Syr.

Zech. xii. 10:

Fel galar am yr uniganedig,<sup>1</sup>

A bydd chwerw<sup>2</sup> wylu am dano,

Fel chwerw wylu<sup>3</sup> am y cyntafanedig.

<sup>1</sup> Un anwyl.—LXX.

<sup>2</sup> A bydd chwerwedd fel chwerwedd am.  
A hwy a ddryllir fel y rhai a ddryllir  
am.—Syr.

<sup>3</sup> Fel ydys yn arfer galaru ar farwolaeth.  
—Vulg.

Zech. xiii. 1:

Yn y dydd hwnw

Y bydd ffynnon<sup>6</sup> wedi ei hagog;

I dŷ Dafydd ac i breswylwyr Jerusalem:

At bechod ac aflendid.<sup>7</sup>

<sup>6</sup> Pob lle.—LXX.

<sup>7</sup> at ymsymudiad ac ymwahaniad.—LXX.  
At olchiad pechadur ar fisolog.—Vulg.  
At daenelliad a phurad.—Syr.

Micah vi. 7:

Llef yr Arglwydd a eilw ar ddinas;

A doethineb<sup>8</sup> yw ofni dy enw:

Gwrandawch gerydd<sup>7</sup> a phwy a'i hordein-  
iodd.<sup>8</sup>

<sup>6</sup> Yn cyhoeddi addysg i'r rhai a ofnant  
ei.—Syr.

Ac efe a achub y rhai a ofnant.—LXX.  
Ac iachawdwriaeth fydd i'r rhai a ofn-  
ant.—Vulg.

<sup>7</sup> Gwrandaw, lwyth.—LXX., Vulg., Syr.

<sup>8</sup> Pwy a dystia.

Yr hyn sydd wedi peri i ni synu llawer ydyw fod gŵr o'r fath ddysg a gallu wedi cael ei oddef i drigo mewn unigedd am ei oes, heb gyfleus-derau neillduol i osod eraill ar y ffordd i ddringo tylau serth dysgeidiaeth. Ond ymattaliwn, gan na pherthyn i ni i chwilio i mewn i ddirgelion o'r fath yma. Y mae yn amlwg fod yr awdwr wedi bod yn ddiwyd iawn yn ystod oes hirfaith; a gobeithio y cawn lawer iawn eto o firwyth ei lafur. Ni a hyderwn y rhoddir i'r gwaith hwn y gefnog-aeth a deilynga, ac y bydd hyny yn symbyliad i'r awdwr i roddi i'r

cyhoedd trwy yr argraffwasg gynnyrchion eraill o eiddo ei feddwl toreithiog. Dylai y gwaith hwn fod yn meddiant pob pregethwr astudgar yn y Dywysogaeth, a phob athraw deallus yn yr Ysgol Sul o bob enwad; ac fel llyfr i gyfeirio ato, yn perthyn i bob cynulleidfa sydd yn awyddus i chwilio yr Ysgrythyr Lân. Y mae yn ddiau yn gaffaeliad gwerthfawr ac yn ychwanegiad pwysig at lenyddiaeth Gymraeg. Ni a ddylem ei gefnogi mewn pob dull a modd, a theimlo yn falch a diolchgar fod y fath waith, yn cynnwys ymchwiliad meddwl mor annibynol a dysgedig, wedi ymddangos yn yr hen iaith yn yr oes hon. Gan na fwriadwyd y llyfr i gael ei gyfyngu i ddysgedigion, ond ei fod hefyd wedi ei gyfaddasu i gyfarfod âg anghen y cyhoedd darllengar, dysgwylir iddo gylchrediad helaeth. Y gwahanol ddarlleniadau o'r Syriaeg, Groeg, a'r Lladin, ar ymyl y ddalen, ydynt yn dra dyddorol a buddiol i'r darlennydd uniaith. Dywedir llawer y dyddiau hyn am y dymunoldeb i chwilio yn fanylach i hanes a llafur yr hen Gymry, ac y mae yn ddiau fod llawer o drysorau gwerthfawr heb eu darganfod hyd yn hyn; ond mwy dyddorol, adeiladol, a phwysig ydyw ymchwiliadau teilwng i lenyddiaeth sydd yn hawlio astudiaeth ddyfal ar gyfrif ei henafiaeth yn unig, ac heblaw hyny yn gynnyrch ysbrydoliaeth Ddwyfol. Na fydded i'r anturiaeth bresennol fethu o ddifffyg cefnogaeth a gwerthfawrogiad priodol. Y mae y gwaith o ran gwedd a diwyg, papyr ac argraffiad, y fath na fyddai gan yr un cyhoeddwr o'r briuddinas yr un achos i gywilyddio ei arddel.

JOHN HARRIS JONES.

---

## EMYN CLEANTHES.

**ATHRONYDD** a bardd oedd Cleanthes. Ganwyd ef yn Troia tua'r flwyddyn c.c. 300. Bu yn ddyagybl i Crates, un o athronwyr enwocaf ei ddydd, a thrachefn i Zeno, sylfaenydd yr ysgol Stoicaidd. Y mae yn ymddangos nad oedd mewn safle uchel o ran ei amgylchiadau bydol. Dywedir y byddai yn arferol o weithio drwy y nos i dynu dwfr o'r gerddi er cael modd i gynnal ei hun yn yr ysgol. Ond gan ei fod yn treulio y dydd i lasurio am wybodaeth, a hyny heb unrhyw foddion cynnaliaeth gweledig, gwyswyd ef o flaen y Cynghor yn **Arcopagus** i roddi cyfrif am ei ddull o fyw. Effeithiodd yr adroddiad syml a thoddedig o'i ymdrechion clodwiw i gasglu gwybodaeth gymaint ar ei farnwr fel y penderfynwyd neillduo swm o arian at ei dreulion. Ennillodd safle mor uchel mewn dyg fel yr etholwyd ef yn olynydd i Zeno, ei athraw.

Ond â Cleanthes fel bardd y mae a fynom yn bresennol. Mae y rhan fwyaf o'i gyfansoddiadau wedi myned i ddifancoll; ond y mae un o leiaf yn aros, sef ei Emyn odidog i'r Creadwr. Ar wahan i ragoriaethau cynhenid y cyfansoddiad, y mae peth arall sydd yn gosod arbenigrwydd arno, sef y ffaith fod yr Apostol Paul wedi dyfynu o hono yn ei araeth orcheistol ger bron yr Athen-



iaid (Act. xvii. 28). Cawsom afael ar yr Emyrn hon yn ddiweddar, a gwnaethom gais i'w gosod mewn gwisg Gŵmreig. Nid ydym yn bŵni ein bod wedi gwneyd dim tebyg i gyflawnder â hi, ond—gwnaethom ein goren. Heb ddim ymddiheurad pellach, yr ydym yn ei chyflwyno i'r darlennydd.

EMYN I'R CREAWDWR.

Oruchaf Benaeth ! Ollalluog Fôd !  
 Dan amryw enwau rhoddir i Ti glod ;  
 Llywiawdwr Anian ! dwyfol hawl yr hwn  
 A gydnabyddir drwy yr hollfyd crwn.  
 Fawreddus Iau ! dwfn ymostyngar gri,  
 A dyrchafedig fawl a weddai i Ti.  
 Gan ddyuol hil haeddiannol wyt o glod,  
 O honot Ti y cawsom bawb ein bôd ;  
 Ti greadist bobpeth sydd yn meddu ffun,  
 Defnyddiau ynt o honot Ti dy Hun.

I'th foli Di, fy awen fo ar dân,  
 Ac am dy ryfedd allu seiniaf gân.  
 Y rhodau fyrdd, y crwydrawl dânau fry,  
 A chwim olwynant gylch ein daear ni  
 Drwy 'r gwaigle gwyrdd, o bob maintioli a llun,  
 I'th gadarn air a ufuddhânt bob un.  
 Teyrnasa braw drwy 'r greadigaeth gref  
 Pan fyddo 'r daran yn dyrchafu ei llef ;  
 Y cydfyd gryn, mae bydoedd yn llesgân,  
 Pan glywant sŵn dy lais, gadarnaf Iau !

Tydi ! ddiderfyn, fythbresennol Iôr,  
 Drwy 'r ddaear faith, ac ar y gwyrddwawr fôr,  
 Neu 'r nwyfre hân—cartrefle duwiau lu—  
 Ni ellir dim heb dy gynnorthwy Di.  
 Dyn biau drwg ; ar frigau tŷnog li'  
 Ei nwydau fe 'i chwyrddeffir ar bob tu :  
 Ond Ti oruwchreoli annhrefn drwg,  
 A malais dy elynion, lles a ddwg.  
 Gwnei drefn o dryblith, a bendithion gwiw  
 Gymysgi yn nghwpan gofid dynolryw.  
 Teyrnasu trwy Wirionedd wnei o hyd,  
 Ond gwrthod dy awdurdod mae y byd.  
 Lleferydd dwyfol Rheswm—merch y nef—  
 Ddirmyga dyn, a diystyra 'i llef ;  
 Yr hon osodwyd yn arweinydd gwir  
 I dywys dynion at y da a'r pur.  
 Gadawant sanctaidd lwybrau Rhin a Moes,  
 Gan fyn'd fel dail o flaen pob awel groes ;  
 Ymrestra rhai yn filwyr yn y gân  
 Er enuill enw a chlod ar faes y gwa'd ;  
 Nôd rhai yw casglu cyf. eth drwy eu hoes,  
 Ar draul ymsarnu deddfau gwir a moes ;  
 Ymroa eraill ar eu cyflwm rawd  
 I ddiogi mwyth a phorthi blysiâu 'r enawd.

O Ddwyfol Dad ! rheolydd pobpeth sy,  
 Yr Hwn orseddi uwch y bydoedd fry !  
 Yr Hwn estyni ddoniau o bob rhyw,—  
 Rhag anwybodaeth cadw ddynolryw !  
 Drwy gymyl Trais, Doethineb deg ei phryd  
 A ddelo i be'ydru ar y byd.  
 Y dduwies wemp ! dan wenau pur yr hon  
 Teyrnasa lawnder dros y ddaear gron.

Yn ngoleu hon y gall marwolion llawr  
 Roi rhyddfynegiad i'th ddaioni mawr ;  
 Mewn anrhydeddus gerdd, diolchus gân,  
 Clodforwn dy weithredoedd fawr a mân.  
 Rhagorfraint dynion yw mawrhâu 'n ddi-goll  
 Drefn Natur, a Rheolydd Anian oll :  
 Chwi dduwiau ! unwch gyda dyn yn llon,  
 Goddeithia 'r pwnc serchiadau dwyfol fron !

*Caernarfon.*

R. D. ROWLANDS.

## DALENAU DUON YN HANES RWSSIA.

### II.

#### DARLUNIAU LLENYDDOL\*.

WRTH ymwneyd â hanes chwyldroadaeth yn Rwssia, y mae yn ofynol bob amser i gadw mewn cof amgylchiadau neillduol y wlad hono gyda golwg ar ryddid—neu yn hytrach absenoldeb rhyddid—y Wasg. Y mae holl argraffdai yr ymherodraeth yn agored i'r ymchwiliadaeth mwyaf manwl gan swyddogion y llywodraeth ; y mae yn annichonadwy o'r bron ledaenu na chyhoeddi unrhyw lyfr na phamphled heb ganiatâd y *sensor*, neu yr ymchwilydd swyddogol ; ac y mae yn anmhosibl *cael* ei ganiatâd i ddwyn allan unrhyw waith a fyddo yn euog o geisio goleuo y bobl mewn egwyddorion rhyddfrydol. Y mae hyd yn nod y wasg newyddiadurool o dan yr arolygiaeth mwyaf llym, a mynych iawn y gwelir fod y naill neu y llall o'r newyddiaduron mwyaf dylanwadol yn Rwssia yn gorwedd o dan felldith y *censure*. Y mae yr arolygiaeth hon yn ymestyn at newyddiaduron gwledydd eraill, ac nis gellir anfon y cyfryw i'r tiriogaethau Rwssiaidd heb iddynt fyned yn gyntaf trwy ddwyllaw y swyddogion a nodwyd. Yr ydym yn cofio i ni weled yn ystod y rhyfel diweddar rhwng Rwssia a Thwrci, fod newyddiadur o'r wlad hon wedi bod o dan eu llaw. Dygwyddai fod ynddo ysgrif led finiog ar ymddygiadau prif swyddogion milwrol y fyddin Rwssiaidd. Nis gellid goddef lledaeniad y fath beth yn y wlad ; am hyny croes-argraffwyd yr erthygl gondemnedig â llinellau duon, dyfion, nes ei gwneyd yn hollol annarllenadwy, ac anfonwyd y papyr yn y cyflwr hwnw i'r hwn yr ydoedd wedi cael ei gyfeirio ato.

O dan yr amgylchiadau hyn ofer yw i'r ymchwilydd ymfyn goleuni ar gwestiynau gwleidyddol a chymdeithasol yn Rwssia trwy y cyfryngau

\* Yr ydym yn ddyledus am lawer o ddefnyddiau y darluniau hyn i ysgrifau Mr. W. R. S. Ralston ar Lenyddiaeth Rwssiaidd.

arferol, sef newyddiaduron, pamphledau, cylchgronau, a chyfrolau hanesyddol. Gellir, ysywaeth, gadw ffeithiau i lawr a'u cuddio o'r golwg; ond y mae yn anhosibl cadwyno dychymyg, ac anhawdd ydyw ei gadw yn gudd. Am hyny, nid yn nghyfrolau yr hanesydd a'r cofnodydd, ond yn nhu dalenau y bardd a'r nofelydd, y deuir o hyd i'r darluniau cywiraf a mwyaf bywiog o sefyllfa gymdeithasol a gwleidyddol yr ymherodraeth fawr sydd o dan ein sylw. Yr ydym eisoes wedi taflu golwg, can belled ag y cawsom hyny yn bosibl, dros ffeithiau hanesyddol "dalenau duon hanes Rwsia;" yn awr bwriadwn roddi trem frysiog dros y darluniau llenyddol sydd yn cael eu harddangos yn *ngallery* nofelau Henri Gréville, Leo Tolstoy, Ivan Tourguéneff, ac ysgrifenyddyr poblogaidd eraill. Yn y gweithiau hyn ceir ffrwyth sylwadaeth, a gydnabyddir gan y beirniaid mwyaf craffus fel un o brif ffynonellau ein gwybodaeth o arferion a moesau y genedl ryfedd sydd yn anad un genedl arall yn ddwfn ddirgelwch i ni. Yr ydym fel pe yn cael ein cymeryd ar ymdaith i wlad ddyeithr—y mae y golygydd yn anghynnefn, y bobloedd yn wahanol i bobloedd gwledydd ein hadnabyddiaeth, a'u harglwyddi yn gwahaniaethu oddiwrth bawb o'u cydradd ag y clywsom ni am danynt. Dygir o'n blaen ddefion ac arferion hanner barbariaid sydd wedi myned yn rhan o fywyd y trigolion; tefir ni yn ol i foreu eu hanes pan oeddynt yn ddeiliaid gwasaidd i linell Rurik, ac yn ol cyn hyny at yr adeg y dechreuodd y Slavoniaid cyntaf ymsefydlu yn y wlad, ac y rhenid y tir rhyngddynt yn ol y drefn batriarchaidd; ymlaen drachefn at yr adeg pan y buont yn gorwedd o dan iau orthrymus y Mongol, hyd yr amser eu ceir yn rhyfela â'r Pwyliaid a'r Lithuaniaid, nes o'r diwedd y gwelir hwynt yn ymddadbygu yn ymherodraeth unbenaethol o dan linach y Romanoffs; ac oddiyno i lawr hyd at y dyddiau hyn, pan y mae bywyd yr oes nesaf atom a'n hoes ni ein hunain yn cael eu sylweddoli o flaen ein llygaidd. Yn y *gallery* hon gellir gweled y pendefig Rwsiaidd yn ei fawr amrywiaeth—o'r tywysog ffroenuchel, gyda thiriogaethau anfesurod, a thyrfa o isel gaethweision, awdurdod yr hwn sydd yn ymylu ar eiddo yr ymherawdwr, hyd at y tîrfeddiannydd lleiaf, sydd yn perchen, fe allai, ddim ond chwech neu ddwain o *serfs*; a'r *peasant* yn ei wahanol fathau yntau, o'r hen wasanaethwr sydd yn teimlo ei hun yn rhan o urddas ac anrhydedd ei feistr, hyd at y Nihiliad drwgdybus, sydd yn byw i fyny âg arwyddair y diweddar M. Blanqui, "*Ni Dieu ni maître*"—sydd, mewn gair, heb ofni Duw na pharchu dyn.

Un o'r moddion cyntaf a ddefnyddiwyd gan y Nihiliaid tuag at achosi afonyddwch yn y wlad ydoedd argraffu a lledaenu yn ddirgel—aid amgrywiol bamphledau yn dysgu athrawiaethau chwyldroawl. Er gwneuthur hyn mewn modd effeithiol, ymgymerodd rhai o'r chwyldroadwyr—y rhai, fel y sylwyd yn yr ysgrif flaenorol, oeddynt gan mwyaf yn perthyn i deuloedd urddasol a phendefigaidd—âg ymgymysgu â'r dosbarth gweithiol yn eu hannedd-dai a'u gweithdai. Wedi dyfod i adnabyddiaeth o nifer o honynt, dygant ymlaen eu daliadau neillduol ac ymresymant hwy allan mewn modd tra hudol (*plausible*), nes felly yn raddol lefeinio syniadau y gweithwyr, a'u parotoi i dderbyn a darllen y pamphledau dan sylw. Yn nechreu y flwyddyn 1875 daeth nifer o'r pamphledau hyn i ddwyllaw y Llywodraeth. Y pwysicaf o

honynt, fe allai, ydoedd yr un a adwaenid fel *Chwedl y Pedwar Brawd*, o'r hon y rhoddwn yma grynodedb byr.

Yr oedd pedwar brawd yn byw mewn coedwig anferth, yn anymwybyddus fod dynion eraill yn byw yn y byd oddiallan. Un diwrnod, wrth ymlid arth i ben mynydd, cawsant olwg ar wlad nas adwaenent yn cael ei thrigiannu gan ddynion nas adnabant. Penderfynasant fyned i weled y byd newydd ac i astudio ffyrdd dynion gwâr. Y maent yn cychwyn, yn cyfarfod â fforddion y rhai sydd yn eu cynghori i ddychwelyd, gan nad oes yn Rwssia, sef y wlad sydd o'u blaen, ond gruddfan a gwae i'r tlawd a'r anghenus. Nid ydynt yn troi yn ol, ond y maent yn ymwahanu, er cael allan yn gynt pa fan y trigiannai cysur. Y mae Stepan yn myned i'r deheu. Yno un diwrnod y mae yn gweled cyflafareddwr swyddogol yn ceisio gorfodi pentrefwyr i dderbyn tir diwerth oedd yn ei feddiant ef. Gan eu bod yn gwrthod, y mae yn gorchymyn i'w filwyr ymosod arnynt. Yn y cythrwfl y mae un o'r milwyr yn lladd ei dad, ac yna mewn digofaint yn troi ac yn lladd y swyddog a achosodd yr ymosodiad. Y mae Stepan ar hyn yn anerch y dorf, gan ddyweyd y dylai y milwyr gyduno â'r werin a chodi mewn gwrthryfel, yn lle parhau i roddi ufudd-dod i ac ymddiried yn ddall yn yr Ymherawdwr. "Y mae yn gywilyddus o beth," meddai Stepan, "fod miliynau o bobl yn gwneyd dim ond talu ufudd-dod a rhoddi eu hymddiried i ddyn arall." Ond ni fynai y bobl na goleuni na rhyddid, a thraddodasant Stepan i ofal y Llywodraeth, yr hon a'i hanfonodd i Siberia. Aeth Ivan i'r gogledd, lle y mae yn synu gweled y *serfs* yn gweithio yn galed trwy boethder haf ac oerni gauaf, tra y mae y trefdiannydd yn sefyll yn ymyl yn edrych arnynt, ond heb weithio! Am geisio diwygio yr anghyfiawnder hwn y mae Ivan yn cael ei fflangellu, ac felly yn dyfod i ddeall mai ystyr cyfreithiau ydoedd y gallai y cyfoethog ormesu y tlawd, a bod yn rhaid i'r tlawd dderbyn y trais yn ddisôn. Ar ol hyn y mae yn ymweled â llawer o drefydd a phentrefydd, ac yn cael allan mai chwerwder oedd rhan y tlawd lle bynag yr elai. Mewn un lle y mae achos neillduol o ormes yn peri i'r *peasants* wrthryfela. Cymerwyd Ivan i fyny fel eu harweinydd, a chafodd yntau ei anfon i Siberia. Aeth y trydydd brawd i'r dwyrain. Gweithiai yn galed o ddechreu blwyddyn i'w diwedd, ond nid ymgyf-oethogai, gan fod pob meist'r yn ormeswr. Y mae un diwrnod yn syrthio i ddadl âg offeiriad, ac yn gwrthwynebu trethiad y tlodion. Y canlyniad fu iddo yntau drachefn gael ei anfon i Siberia. Ymgymerodd y pedwerydd brawd â gwasanaeth mewn mynachdŷ, ond y mae yn cael y mynachod yn byw trwy dwyll a hoced; ac am ddadguddio eu cyfrinach annuwiol, y mae yntau yn gorfod dilyn ei frodyr. Yn yr alltudiaeth y mae y pedwar brawd yn cydgyfarfod, yn cymharu eu gwahanol brofiadau, ac yn dyfod i'r penderfyniad nad oes cysur i'r gweithiwr na hapusrwydd i'r tlawd o fewn i Rwssia; ond barnent, gan nas gellid dyoddef y fath sefyllfa lawer yn hŵy, fod yn rhaid i'r bobl godi mewn gwrthryfel, ac ennill eu rhyddid a'u hapusrwydd eu hunain. Llwyddodd y pedwar brawd i ddianc; ac y maent yn awr, yn ol y chwedl, yn tramwy trwy'r wlad i ddwyn y gwrthryfel diwygiadol hwn oddiamgylch. "Nid oes neb yn eu hadnabod, na llygaid yn eu gweled, ond gall pawb glywed eu llais. Wrth swm eu lleferydd y mae y llafurwr

gorthrymedig yn ymwroli, y mae ei waed yn gwresogi, a theimla yn barod i ymladd dros ei dir a'i ryddid. Pan lwyr oleuir y werin, yna bydd eu goruchafiaeth fel y môr yn nerthol i ysgubo ymaith eu holl elynion."

Ystori arall o gyffelyb natur yw *Chwedd y Copeck* (dernyn bathel o werth bychan). Yn ol hon, yr oedd Rwsia yn lle hapus i fyw ynddi tra nad oedd o'i mewn ond llafurwyr (*peasants*). Yr oedd y rhai hyn y pryd hyny mor ddedwydd fel nad oedd lle i bechod yn eu plith! Digiodd y diafol wrth hyn, ac ar ol ymprydio a cholli ei gwsg am saith mlynedd, fe ddyfeisiodd offeiriadon. Nid oedd hyn yn cael yr effaith ddyladwy; ond ar ol myned trwy oruchwyliaeth yr ymprydio, &c., ddwywaith yn rhagor, gallodd ddyfeisio masnachwyr a thirfeddiannwyr, a rhwng y tri yr oedd y diafol ar ben ei ddigon. Derbyniodd y llafurwyr druain y rhai hyn, ar y dechreu, yn eithaf croesawus; ond yn fuan trôdd y tri yn feistriaid ac yn ormeswyr. Un diwrnod gofynodd llafurwr i'w fam, y Ddaear, pa le y deuai o hyd i *copeck*. Cloddia, oedd yr ateb; ac ar ol cloddio yn lled ddwfn, daeth o hyd i'r darn pres. Rhoddodd ef i'r offeiriad am friwsionyn o fara, ond rhoddodd yr offeiriad ef i'w wasanaethydd fel pris mochyn. Mynodd y gwasanaethydd fochyn a chrwybr mêl am y *copeck* gan y masnachwr, a daeth yn ol i'r llafurwr fel pris mochyn, crwybr mêl, a chroen blaidd; ond gan iddo fethu cael yr olaf, ac iddo ddwyn croen arth yn ei le, cadwodd y marsiandwr ran o'i wisg gyda hyny. Aeth y *copeck* yn awr i dalu rhan o'r ardreth. Nid oedd modd ei gael i aros gyda'r *peasant*; ond ar ol llawer helynt y mae yn dyfod yn ol ato eilwaith, ac y mae yn penderfynu ei gadw, yr hyn y mae yn alluog i'w wneyd er gwaethaf *police* a milwyr. Tra yn cysgu un noswaith, y mae y *copeck* yn ei arwain at ddoethawr, yr hwn sydd yn gorchymyn i aderyn ei gario i wlad bell. Yno y mae y gweithiwr a'r llafurwr yn hapus, am nad oes o'i mewn nac offeiriad, na masnachwyr, na thirfeddiannwyr. (Pa le y gallai y wlad ddedwydd hon fod ni'n hysbysir.) Effeithiodd hapusrwydd y syniad breuddwydiol hwn gymaint arno fel ag i'w anfon allan i bregethu ei hegwyddor trwy yr holl wlad!

Y mae yr esiamplau uchod yn ddigonol i ddangos y gwersi y ceisid eu cyffeu gan ledaenwyr y chwedlau chwyldroadol. Yn 1875, trwy fradychiad a moddion eraill, dygwyd lliaws o'r rhai oedd yn brysur wrth y gwaith o ddosbarthu y pethau hyn i afael y Llywodraeth. Yn eu plith yr oedd dau bendefig, Tchekoidze a Djabadari, y Dywysoges Tsitsianof, dwy bendefiges, Sophie Bardine a Lydia Figuer, Olga a Vera, merched i swyddog o'r enw Liubatovich, a Betya Kaninsky, merch i fasnachydd, wedi derbyn ei haddysg yn Switserland. Pa fodd yr arweinid rhai o'r dosbarthiadau hyn i gydweithio â Nihiliaid penboeth sydd un o'r pethau mwyaf dirgel a berthyn i'r mater; ond y mae eu gwaith nid yn unig yn adnabyddus yn y darluniau llenyddol o hono, ond fel ffaith bwysig yn hanes diweddar yr Ymherodraeth.

Daeth y Count Leo Tolstoy gyntaf i adnabyddiaeth fel ysgrifenydd trwy nifer o *sketches* a anfonodd o Sebastopol i un o'r cylchgronau Rwsiaidd, ac yn ganlynol i hyny trwy gyhoeddiad dwy o'i nofelau, sef *Plentyndra ac Ieuentyd* a'r *Cossacks*, a'u cyfieithiad i'r Saesoneg—yr olaf o gyfieithiad Mr. Eugene Schuyler (awdwr *Turkestan* a *Hanes Pedr Fawr*), enw

yr hwn a hir gofir mewn cysylltiad â'r Erchyllderau Tyrcaidd yn Bulgaria. Ei ddau waith pwysicaf ydynt *Rhyfel a Heddwch* ac *Anna Karenina*. Yn y cyntaf ceir cyfres o ddarluniau manwl o Rwssia yn nechreu y ganrif bresennol; yn yr ail rhoddir dangosiad bywiog o arferion y bendefigaeth Rwssiaidd yn yr oes hon, ac o ffaoledau gwraig Rwssiaidd wedi syrthio i'r temtasiynau sydd yn nodweddu ei gwlad. Y mae y naill a'r llall o'r chwedlau hyn yn nodedig o faith, ac nis gallwn yn y fan hon ond dewis *sketch* neu ddwy fel arddangosiad o gymeriadau gan un o'r ysgrifenywyr mwyaf poblogaidd a fedd Rwssia. Y mae Pierre Bezukhof, arwr *Rhyfel a Heddwch*, yn esiampl o ddiffygion y dosbarth pendefigol fel eu nodwyd genym yn yr ysgrif flaenorol (TRAETHODYDD diweddaf, tu dalen 28). Y mae o dymher gweddol fwyn, yn feddal o galon, yn wan o ymenydd, ac yn hollol amddifad o syniad cywir am foesoldeb. Y mae hyn yn peri iddo fod yn anwadal yn ei ffyrdd, ac yn ei dueddu ar brydiau i chwareu â'r gwirionedd. Yn nechreu y chwedl yr ydym yn ei gael yn tori ei addewid trwy fyned i wledd lle yr oedd wedi addaw peidio myned. Yn y wledd hon desgrifir un Dolokhof yn gwneyd cyngwystl gyda Sais oedd yn bresennol i ydyf potelaid o *rum* tra yn eistedd ar gorbel ffenestr oedd yn edrych i ddyfnder mawr islaw. Y mae y wystl ofnadwy hon yn cael ei chario allan, a chydag anhawsder y rhwystrir Pierre rhag gwneuthur cynnyg cyffelyb. Modd bynag, ymfoddona o'r diwedd i fyned allan gyda'i gyfeillion, y rhai a ddiwyrent eu hunain trwy gylmu arth a heddeidwad ynghyd, a'u tafu i'r afon! Ei ffolineb nesaf oedd cymeryd gwraig heb ddim i'w chymeradwyo ond ei phrydferthwch. Daeth unwaith i'r casgliad mai gwell oedd iddo beidio priodi, ond daliodd y prydfferthwch a thad y prydfferthwch ef yn dŷn; ac y mae yn ymfodloni i'w dynged, gan ddyweyd, "Rhaid oedd i hyn fod; nid oedd yn bosibl iddo fod fel arall; felly waeth heb na gofyn pa un ai drwg ai da yw." Dyma *Kismet* mwy eithafol nag eiddo'r Twrc ei hun! Y mae y canlyniad anocheladwy o anhafusrwydd a thrueni yn dilyn; y mae yn ymladd gornest âg un o ddiwriwyr ei wraig anffyddlawn; ac yna, ar ol arddangosiad ofnadwy o ffyrnigrwydd, rhodda iddi lythyr o ymadawiad. Pan yn myned i St. Petersburg, y mae Pierre yn dyfod i gydnyddiaeth âg un o'r *Freemasons*, yr hwn sydd yn cymeradwyo iddo ffyrdd rhinwedd a chrefydd fel rhai i ennill dedwyddwch. Ar ei waith yn cyrhaedd i'r ddinas y mae yn ymuno â'r Seiri Rhyddion, ac yn dychwelyd i'w ystâd gyda'r bwriad o'i rheoli yn ol athrawiaethau y Gymdeithas. Y mae yn frwdfrydig yn penderfynu byw er lles ei gyd-ddynion, gan ddechreu gartref! Y mae am ryddhâu y *serfs*; hyd nes y gallo yn gyfleus wneuthur hyny y mae am wella eu sefyllfa; am ddileu cosb gorfforol ac ysgafnhâu llafur gorfodol, ac am adeiladu ysgolion a chlafdai, &c. Ond er ei ddymuniadau da, y mae yn cael fod ystyriaethau arianol yn sefyll ar ffordd y rhan fwyaf o'r gwelliantau; gwaeth na hyny, y mae yr hen arferion gloddestawl yn dyfod yn ol ac yn mayned yn drech nag ef. Y mae Pierre yn gorfod teimlo nad ydyw rhinwedd a daioni yn bethau mor ddymunol yn ei olwg ag y dylent fod; a'r unig gysur sydd ganddo ydyw ei fod yn gwario ei arian ac yn caru ei gymydogion!

Dau gymeriad arall hollol nodweddiadol yw Andrew Bolkonsky a'i

dad. Y mae y darluniad a roddir gan Tolstoy o honynt yn cyfateb yn gymhwys i'r hyn a gofnodwyd genym ynglŷn â theulu y Jakovlaiffa. Y mae yr hen ŵr yn galed, yn draháus, yn awdurdodol, ac yn llawn o'r hunan-bwysigrwydd a berthynai i Boyar. Y mae y mab yn meddu yr un syniad uchel am ei safle gymdeithasol, er yn anghofus o'i chyfrifoldeb—yn edrych i lawr ar ei isafiaid, ac eto yn ymostwng i'w sathru yn is; yn gwario ei fywyd mewn oferedd anfoesol, a phan yn cael allan nad oes mwyniant parhaol mewn plaser cnawdol, yn syrthio i gyflwr o anfoddogrwydd, ac yn cael ei lenwi gan ddyheu-adau dyeithr y rhai y mae ei gymeriad anwadal yn hollol analluog i'w cario i weithrediad. Y mae iddo chwaer o'r enw Marya, a cheir syniad o iselder teuluaidd y rhyw fenywaidd yn Rwssia yn y darluniad a roddir o'r ofn a'r dychryn sydd yn nodweddu perthynas y ferch hon â'i thad. Er fod yr hen ŵr yn ei dwyn i fyny fel y tybia y gwedda i ferch gŵr o'i urddas ef gael ei dwyn i fyny, nid oes rhyngddynt y cydymdeimlad lleiaf. Y canlyniad yw fod Marya yn syrthio yn ol ar, ac yn gwneyd pethau tu allan i gylch y teulu yn ganolbwynt ei bywyd. Y mae ei hachos hi yn un gweddol ffodus, gan nad yw yn rhoddi ei bryd ar ddim gwaeth na phererindodau crefyddol a phethau o gyffelyb natur; ond mewn llawer o amgylchiadau, ofnwn mai sefyllfa deuluaidd menywod Rwssia sydd wrth wraidd eu hymdafsiad diweddar i freichiau erchyll Nihiliaeth.

Yn nheulu y Rostoffs, y rhai sydd yn chwareu rhan bwysig yn yr un nofel, deuir ar draws cymeriadau gwahanol. Y mae y penteulu a'i wraig yn esiamplau o'r dosbarth goreu o'r pendefigion. Y mae ef yn siriol a chroesawus, tra y mae hi yn serchog a charedig. Yn Nicholas, eu mab, ceir esiampl o swyddog milwraidd rhydd oddiwrth y llygriad sydd yn llenwi bron bob rhan o'r fyddin a'r swyddogaeth Rwssiaidd.\* Nid ydyw fel Bolkonsky wedi ymdrybaeddu yn llaid plaser cnawdol a mwyniant bydol, ac nid ydyw ychwaith wedi dechreu anobeithio am werth bywyd a myned i ofyn, "Is life worth living?" Rhoddir i ni ddesgrifiadau bywiog o'i fywyd milwraidd, a dangosir i ni mai cyffelyb ydoedd bywyd y milwr cyffredin yn Rwssia pan yn rhyfela yn erbyn Napoleon ag ydyw yn awr. "Heb lettŷ teilwng i lettŷa ei, heb fwyd, heb ddillad ond carbiau, yr oedd ei sefyllfa yn un druenus." Y mae Nicholas yn ymweled ág ysbyttŷ lle y gorwedda i y milwyr clwyfedig blith draphlith ar y llawr, heb ond ychydig wellt i'w cuddio a'u cadw rhag yr oerfel. Y mae un o honynt ar drengu o eisieu dyferyn o ddwfr, y mae un arall bron myned yn wallgof trwy syllu ar y corff marw sydd yn gorwedd er's dyddiau yn ei ymyl; y mae yr awyr yn afiach, nid oes y gofal lleiaf yn cael ei dalu i'w clwyfau; ac y mae yr olygfa yn wir dorcalonus. Pwy a ddarllenodd ddesgrifiadau Mr. Forbes ynglŷn â'r rhyfel diweddar na chydnebydd y cyfatebiaeth sydd rhyngddynt â'r desgrifiadau hyn o eiddo Count Tolstoy? Chwaer i Nicholas ydyw Natasha, dyweddi Andrew Bolkonsky. Cyn ei briodi, modd bynag, y mae Natasha yn trefnu dianc gydag Anatole Kuragine, yr hwn gyda llaw (wele eto bwynt

\* I tremble to think how high corruption reaches in the Russian army; I shudder to reflect how low it descends. It permeates and vitiates the whole military system. —(Tystiolaeth Mr. Forbes.)

nodweddïadol o foesoldeb Rwssiadd), oedd eisoes yn briod. Yn ffodus, cedwir hi rhag y cwmp, ond syrthia i afiechyd o herwydd y siomedigaeth, ac ar ol gwella, ymrodda fel Marya i ddefodau ac ymarferiadau crefyddol.

Nid ein pwrpas ni yma ydyw dilyn y chwedl o gam i gam, onidë gellid dyweyd am y dull y dygir Pierre Bezukhof i gyfarfyddiad â'r Rostoffs, a'r modd y cymhlethir amgylchiadau y gwahanol bersonau a nodwyd fel ag i wneyd i fyny chwedl o ddwfn ddyddordeb. Wrth fyned ymlaen yr ydym yn cael darlun bywiog o'r amgylchiadau a gymerodd le pan ddaeth Napoleon a'i luoedd i fygwrth Moscow (gwel gyfeiriad yn y Ffeithiau Hanesyddol, tu dal. 23). Dangosir cyfarfyddiad pendefigion, y masnachwyr, a'r Cynnrychiolwyr Taleithiol, i ystyried moddion er achubiaeth y famwlad. Y mae y pendefigion yn addaw dynion, y masnachwyr yn cyfranu o'u cyfoeth, a'r holl wlad yn ymarfogi i gyfarfod y goresgynydd. Yna daw desgrifiad o frwydr Borodino, yn yr hon y cymer Pierre, Andrew, ac Anatole ran. Y mae y ddau olaf yn cael eu clwyfo, yn dyfod eilwaith i gyfarfyddiad â Natasha, yn ymheddychu ac yn marw. Cymerir Pierre yn garcharor gan y Ffrancod, ac yn yr ymdaith gyda hwy trwy y wlad anrheithiedig, y mae yn cael hamdden i fyfyrïo ar ei sefyllfa. Dyga y trueni dybryd sydd o'i gwmpas ef i feddiant o syniad cywirach na dim fu ganddo, yn nghanol pleser a mwyniant bydol, o'r hyn ddylai fod yn amcan bywyd dyn, a'r hyn ddylai fod yn nod o'i flaen. Trwy ymosodiad cyfeillion iddo ar ei wylwyr, derbynia Pierre ei ryddid, ac yn Moscow y mae yn dyfod o hyd i Natasha. Cyn diwedd y gyfrol ceir desgrifiad rhagorol o gymeriad a sefyllfa y *serfs*, y rhai ar ol marwolaeth yr hen Bolkonsky sydd yn codi mewn gwrthryfel yn erbyn ei ferch Marya, a thrwy foddion twyllodrus yn bwriadu ei hanfon ar ffo yn ddigymhorth. Yn ffodus iddi hi y mae Nicholas Rostoff yn cyrhaedd y fan mewn pryd ac yn gostegu y cynhwrf. Ar ol hyn nid rhyfedd i Marya a Nicholas gael eu gwneyd yn un, a therfyna y chwedl gyda desgrifiad prydferth o'u bywyd priodasol hwy, ac o fywyd priodasol Pierre a Natasha.

Awn ymlaen, yn awr, i ystyried rhai o fyr chwedlau "Henri Gréville," yr enw gwrywaidd a ddefnyddir (fel y defnyddiai y diweddar Mrs. Cross y ffugenw "George Eliot") gan Madame Durand, ganedig Fleury, merch Proffeswr Ffrancaeg yn Mhrifathrofa St. Petersburg, ac awdwr gwaith pwysig ar "Rabelais a'i Weithiau." Nid oes ond ychydig flynyddau er pan lwyddodd Henri Gréville i ennill sylw y byd, ond y mae ei nofelau heddyw ymhlith y rhai mwyaf poblogaidd a gyhoeddur yn Paris. Rhoddwn frasolwg ar un neu ddwy sydd a fynont â'r mater dan ein sylw. Dyma chwedl fechan allan o'r *Nouvelles Russes* a adgoffa i efrydwyr barddoniaeth Mr. Robert Browning, un o'i ganeuon mwyaf tarawiadol:—Y mae Stepan Makariev, fel bachgen ufudd, yn cymeryd gwraig o ddewisiad ei dad. Nid yw y dewisiad yn un hapus; hoffder y wraig yw gwageddu a chwedleu, a gadawa gysur a gofal ei gŵr i arall. Pan ar ei wely anghu, y mae yr hen ŵr, yn ymwybodol o fethiant ei ddewisiad, yn cynghori Stepan i arfer ei awdurdod tuag at ei wraig. Y mae Stepan y tro hwn yn anufuddhâu, ond wedi derbyn y cynghor yr ail waith gan hen



gyfeilles barchus, y mae yn cymeryd arno i gystwyo y wraig benffol yn lled effeithiol. Syniad hollol Rwssiaidd ydyw fod y weithred hon yn ennill i Stepan edmygedd a pharch ei gyfeillion, tra y llonygerchir y wraig ar y ffaith fod cariad ei gŵr yn ail ennyn tuag ati! Ond un anobeithiol ddrwg yw gwraig Stepan, ac ymhen amser y mae yn gadael ei gŵr ac yn dianc o'i chartref gyda rhyw faeliwr, i ddychwelyd wedi i'w chydymaith farw. Y mae Stepan am ei gwrthod, ond ni fŷn hi ymadael, ac nid oes ganddo ef na phenaeth y *Commune* hawl i'w throi ymaith. O dan yr amgylchiadau hyn, hawdd deall anhafusrwydd y teulu. Y mae Stepan, fel llawer o'i debyg, yn ceisio boddi ei dreialon mewn *vodka* (gwirodydd Rwssiaidd), ac un diwrnod wedi ymgynddeiriogi tŷr y cysylltiad rhyngddo a'i wraig a'r fwyall! Ymgasglu penaeth ac aelodau y *Commune* i ystyried y mater, a deuant i'r penderfyniad mai gwraig ddrwg ddiwerth ydoedd yr ymadawedig, ac nas gallent hwy gondermio ymddygiad Stepan! O hyn allan y mae Stepan yn cael llonyddwch personol a pharch ei gyd-ddynion, er fod adgof o'i weithred ofnadwy i'w weled tra bu byw yn mhrudd-der ei wynebpryd.

Yn *Y Melinydd*, ceir chwedl bruddaidd arall. Yn hon ceir hen benedig o'r enw Merikhoff, wedi colli ei holl gyfoeth, yn troi yn felinydd ac yn feddwyn. Y mae cymydoges urddasol yn cymeryd dyddordeb ynddo, a thrwy ddylwanwad ei chymdeithas yn peri iddo roddi i fyny wirodydd poethion. El adref o'i phalasdŷ un noswaith, ac er nad oes ganddo y dewrder a barodd i *Northern Cobbler* Mr. Tennyson ymladd â'i elyn wyneb yn wyneb, y mae yn ddigon gwrol i dywallt cynnwys y botel wirod ar y llawr, ac addunedu peidio yfed mwyach. Ysyrwaeth, ymhen amser daeth temtasiwn ar ei ffordd, a thra mewn cwsg meddw y mae y foneddiges yn ymweled âg ef. Nid yw hi, modd bynag, yn cael allan ei gyflwr; ond pan y daeth ef i'w synwrau ac yr hysbyswyd ef o'r ymweliad, cymer yn ganiataol ei bod hi wedi deall fel yr oedd pethau yn bod, a rhodda derfyn ar ei einioes yn yr afon gyfagos.

Yn *L'expiation de Saveli* (Iawn Saveli), ceir darluniad o ddyoddefiadau y *serfs* o dan dirfeddiannydd trahâus, creulawn, ac annuwiol. Un o'r ellyllon hyny ydyw Bagrianof, sydd weithiau yn rhoddi esiampl fyw o gynllwynion dieffig Lucifer. Nid yn unig dirdynai ei lafurwyr hyd y *copeck* olaf o'u heiddo, ond dianrhydeddai eu merched ac anfonai eu meibion i alludiaeth. O'r diwedd cyfodasant mewn gwrthryfel yn ei erbyn, ond hud-ddenodd hwy â geiriau teg, y rhai a anghofiodd mor fuan ag y gallodd. Gyda chymhorth milwyr, fflangelodd rai o'r gwrthryfelwyr, ac alltudiodd eraill. Ennynodd *peasant* ieuanc o'r enw Saveli ei ddigllonedd, ac mewn awr anffodus aeth ei ddyweddi i eiriol drosto. Daeth Fédotia druan allan o'i dŷ wedi gwallgofi, a chuddiodd ei chywilydd yn nyfroedd dyfnion yr afon. Penderfynodd Saveli ddial ei cham, blaenora nifer o'i gydlafurwyr, llofruddia Bagrianof, a rhoddant ei dŷ ar dân, ond achuba Saveli ei wraig a'i blentyn. Nid oes pang o euogrwydd yn blino y llofrudd o herwydd ei weithred; y mae yn llwyddo yn ei amgylchiadau, a'r byd yn myned yn gysurus gydag ef hyd nes y syrth ei fab mewn cariad â merch yr hwn a lofruddiwyd, ac y gorfodir Saveli i ddyweyd y rhwystr sydd ar

ffordd eu huniad. Y mae ei bechod o'i flaen yn awr, a gweddia am faddeuant; ond nid oes heddwch yn ei fynwes hyd nes y daw yr amddifaid i wneyd arwydd y groes uwch ei ben ac i gyhoeddi ei bardwn. Yna mewn heddwch bu farw. Cafwyd darluniau cyffelyb o allu y meistriaid ar eu *serfs*, yn Llundain rai blynyddau yn ol mewn dwy chwareugerdd, un o gyfaddasiad y diweddar Mr. Tom Taylor a gyfenwid *The Serf*, a'r llall o gyfansoddiad tramor a elwid *The Danischeffs*. Fod yr erchyllderau a ddesgrifir yn y rhai hyn, a manau eraill, yn bethau sydd yn dygwydd yn Rwssia, a brofir i foddlonrwydd gan ymchwiliadau haneswyr diweddar. Nid awn i ymhelaethu ar nofelau eraill o eiddo yr un awdwr, er eu bod yn llawn o nodweddion amrywiol y Rwssiaid yn deuluol a chymdeithasol. Y mae tŷn fœsol y gweithiau hyn, fel y sylwa Mr. Ralston, yn gyfryw ag y gellir eu cymeradwyo i bob math o ddarllenwyr. Nid yn unig hyny, ond gellir dibynu arnynt fel darluniau cywir o'r modd yr ymddengys Rwssia yn ei gwahanol agweddau i sylwedydd craff a beirniadol; ac nid oes, fe allai, neb wedi bod yn fwy llwyddiannus i ddadguddio i ni fywyd cartrefol y Rwssiaid na "Henri Gréville."

Cyn troi i ystyried rhai o nofelau M. Ivan Tourguéneff, pen-ddarlunydd cymdeithas a gwleidyddiaeth Rwssiaidd yn ei holl ffurfiau, y mae gair neu ddau yn ddyledus i chwedl, cyfieithiad o'r hon a gyhoeddwyd yn y Brifddinas y flwyddyn ddiweddar. Y teitl ydyw *A Female Nihilist*, a'r awdwr ydyw M. Ernest Lavigne. Rhydd hon esboniad i ni ar gysylltiad y rhyw fenywaidd â Nihiliaeth. Mewn ymddyddan rhwng Sergius a Pavlovna, dau o'r prif gymeriadau, dangosir fel y mae y "lestr gwanaf" (1) bob amser yn fwy parod i ruthro i eithafion. "Y mae arnaf gywilydd," meddai Sergius, "ein bod ni [sef y Nihiliaid], tra yn parotoi i ddinystrio ac i dynu pobpeth i lawr, heb ddim i'w osod i fyny yn eu lle. . . . Fy marn i ydyw fod ymgyrhaedd at ddymchweliad pobpeth yn wallgofrwydd hollol. Pe llwyddem, byddem ar unwaith wyneb yn wyneb â'r anialwch; rhaid deall pa beth a adeiladwn ar yr adfeilion a ddygwn oddiamgylch." "Cawn ystyried hyny pan ddaw hamdden," meddai Pavlovna; "yn bresennol gadewch i mi eich cyngori. Yr ydych wedi troi o'r iawn lwybr, yr ydych yn dechreu tyneru,—nid ydych mwyach yn chwyldroadwr. Wrth weithredu yn ol eich awgrymiad collwch bob dylanwad, a chymerir pob ymddiried oddi-arnoch,"—ac felly mewn gwirionedd y bu. Ymhellach ymlaen yn y gwaith, ceir esiampl o'r syniad rhyfedd a goleddir gan y Nihiliaid am briodas. Y mae y gymdeithas mewn angen adnoddau, ac un o gyfeill-esau Pavlovna i ddyfod ar ei phriodas i lawer o gyfoeth. Heb un amcan pellach na chynnorthwyo ei phlaid, ac heb un ystyriaeth o'r canlyniadau, y mae Pavlovna yn cynllwyn i gael y cyfoeth hwn i'r drysorfa gyffredinol trwy briodi ei berchenog â Vladimir, un o aelodau y gymdeithas. Pa hapusrwydd ellid ddysgwyl gyda'r fath uniad? Yn y diwedd y mae nid yn unig yn peri annedwyddwch a thrueni teuluaid, ond ymraniad yn ngwersyll y Nihiliaid. Y mae yn ffaith fod gwaeth na hyn yn cymeryd lle yn aml yn Rwssia ynglŷn â'r cwlwm priodasol. Ymddengys fod merched y blaid dan sylw wedi myned i edrych ar y cwlwm cysegredig fel peth anamserol, ac i'w ddefnyddio yn unig fel moddion i ennill rhyddid oddiwrth rywau cartref, ac er ychwanegiad

cyllid y chwyldroadwyr. Yr ydym yn cael i Katerina Tumanof briodi un Gamkrelidze yn Moscow yn 1875, trosglwyddo ei chynnysgaeth briodasol iddo er budd y gymdeithas, ymadael oddiwrtho wrth ddrws yr Eglwys, a myned i gwr pellenig o'r wlad i weithio ei rhan mewn proselytio. Yr un diwrnod priododd un o dystion y briodas hon ddyn a ddygwyddai fod yn bresennol, gyda'r amcan professedig o gael y gynnysgaeth a ddeuai yn ddyledus iddi ar ei phriodas. Hawdd dychymygu fod mewn pobl o'r fath hyn gyfaddasrwydd neillduol i wneyd drwg.

Y mae M. Ivan Tourguéneff, nid yn unig y mwyaf poblogaidd o'r nofelwyr Rwssiaidd, ond yn un o ysgrifenywyr mwyaf galluog y dydd. Lledaenir ei weithiau wrth y miloedd, yn enwedig yn Ffrainc ac America; aeth dynion galluog fel Mr. Ashton Dilke ac eraill i'r drafferth o'i gyfieithu i'r Saesoneg; y mae gwleidyddwyr ac ysgrifenywyr gwleidyddol yn hoff o'i ddyfynu ac o apelio ato, ac yn ddiweddar gwelodd awdurdodau Athrofa Geidwadol Rhydychain yn dda ei urddo â'r teitl uchaf sydd yn ei meddiant. Ymhellach na hyn, y mae cywirdeb ei ddesgrifiadau—gwirionedd ei ffug, fel y gellid dyweyd—yn cael ei gydnabod gan y Rwssiaid eu hunain, ac edrychir ar ei nofelau gan ddarllenwyr yn gyffredinol fel un o brif ffynonellau eu gwybodaeth am y bobl ryfedd a phwysig, sydd fe allai, fel y sylwyd yn barod, o holl bobloedd pwysig y byd y mwyaf anadnabyddus i ni. Ynddynt ceir nid yn unig Dywysogion a Thywysogesau unbenaelol, y fath nad oes mewn un wlad arall dan haul,—awdurdod y rhai ar eu wasanaethwyr, &c., sydd mor *absolute* âg eiddo'r Ymherawdwr ei hun—yn llawn o'r balchder, y trahausder, y creulonder a'r gallu sydd yn cydfyned â'r cyfryw awdurdod, ond hefyd y mân fonedd sydd, er yn y meddiant o allu aruthrol ar eu *serfs*, bron mor anwybodus â'r *serfs* eu hunain. O gwmpas y rhai hyn, yn eu cartrefi—canolbwynt rhyw bentref bychan ar eu hetifeddiaeth—ac ymhlith dibynwyr y "gŵr mawr 'hwn, y mae M. Tourguéneff yn hoffi ymdroi. Ymhlith plant y rhai hyn, yn enwedig, y deunw o hyd i ffafrywyr a lledaenywyr Nihiliaeth; bechgyn wedi aros yn ddigon hir yn Athrofeydd St. Petersburg a Moscow i gael agor eu llygaid ar eu sefyllfa, heb dderbyn y peth hwnw o'u mewn a'u tuedda i uchelgais am fywyd uwch, ond wedi eu llenwi gan ysbryd aflonydd sydd yn eu gyru i bob cyfeiriad heb na llyw na chwmpawd; a genethod sydd, yn niffyg rhwymau teuluaid ac yn absennoldeb "amcan" i'w bywyd, yn ymgymeryd â'r syniadau mwyaf anesboniadwy, ac yn ymdrechu seilio arnynt fath o "genadaeth" gysegredig. Y mae nofelau Tourguéneff yn dyfnhau y teimlad o brudd-der bron anobeithiol sydd yn ein llanw wrth edrych dros hanes chwyldroadaeth yn Rwssia. Yma gwelwn yn eglur effeithiau cyfundrefn sydd yn seiliedig ar ormes a thrais. Y mae ei swyddogion, tra ar y naill law yn wasaidd tuag at eu huchafiaid, yn greulawn tuag at eu hisafiaid—y mae y dosbarth sydd yn dyoddef wedi eu sathru i'r llwch dan oesoedd o ormes yn annheimladwy hyd yn nod o'u hiselder—tra y mae y dosbarth a fyn eu codi, ac sydd yn barod i lawer o hunan-aberth er gwneyd hyny, yn byw dan effeithiau syniadau sydd mor anmhosibl eu cyrhaedd ag ydynt o ffol yn eu damcaniaeth.

Yn awr cymerwn frasolwg ar rai o ddarluniau byw y ddynoliaeth Rwssiaidd sydd i'w cael yn ngweithiau M. Tourguéneff. Y gwaith a'i

dygodd ef gyntaf i sylw ydoedd *Adgofion Heliwr*, cyfres o fyr chwedlau, yn y rhai y ceir darluniau bywiog o fywyd gwledig yn arddangos gwahanol gymeriadau ymhlith y *peasants*,—y gwladwr sydd â'i linellau wedi syrthio mewn lleoedd hyfryd, o dan feistr caredig a chalon agored, yr hwn nis derbyniai ei ryddid pe cynnygid ef iddo; y pentrefwr sydd yn byw bywyd gweddol ar oddefiant ei feistr; y *serf* sydd mor ddwfn yn nyled ei feistr fel y gellir dyweyd ei fod yn feddiant iddo gorff ac enaid; y gwasanaethwr, o'r naill ochr sydd mewn sefyllfa digon uchel i ormesu ar ei gyd-wasanaethwr, hyd at y llall sydd lawer islaw yr anifail y mae yn ei borthi; yr arolygwr sydd ar un llaw yn gwasgu y geiniog olaf o feddiant y tenant tlawd, ac ar y llaw arall yn twyllo ei feistr; o'r hen ŵr sydd yn ymddyrsu yn nghanol llanw mawr syniadau newyddion, hyd at yr ieuaine sydd yn ymrwyfo yn merw syniadau a ddygwyd i fod ganddynt hwy eu hunain. Y mae nofelau cyn hyn wedi effeithio daioni moesol a gwladol: os gwir ddywedir, cafodd y chwedlau dan sylw ran mewn dylanwadu y Tsar i ryddhâu y *serfs*. Effaith gogoneddus, os felly y bu.

Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at yr awdurdod a hawlid gan feistriaid ar eu gwasanaethwyr, hyd yn nod yn y pethau a berthynent i'w rhyddid a'u hapusrwydd penaf. Ceir disgrifiad o draha a gormes un o'r cyfryw arglwyddesau yn *Pouvine a Babourine*, un o'r chwedlau yn y gyfres a deitlir *Mémoires d'un Seigneur Russe*; a chofiw'n nad yw yr amgylchiad ond yr hyn a ddygwyddodd ac a allasai ddygwydd ar unrhyw adeg o dan yr hen drefn. Yr oedd yr arglwyddes a nodwyd yn hoffi manylrwydd a threfnusrwydd. Yr oedd ganddi ardd brydferth yr hon a gedwid i fyn gan nifer o hen wasanaethwyr, ac eraill a ddygwyddai fod dan ei gwg. Un diwrnod pan yn myned trwy yr ardd, gwelai ŵr ieuanc yn ddiffygiol yn yr hyn y tybiai hi oedd yr egni angenrheidiol i gyflawni y gwaith. Sylwai fod ei drem yn uchel, ei olwg heb y gostyngaidrwydd a ddymunai, ac nad oedd ei gap yn cael ei ddiosg gyda'r parodrwydd dyladwy. Nid ydoedd ond bachgenyn, ond yr oedd tralloed eisoes wedi eistedd yn drwm arno. "Pwy yw hwnacw?" gofynai yr hen wraig i'r arolygwr oedd yn ei dilyn yn wasaidd ar flaenau ei draed, "sydd yn edrych fel blaidd arnaf—hwnacw nad yw yn gweithio?" "Hwnacw, O ie—hwnacw yw Ermil mab Paul Afanassief," oedd yr ateb. Yr oedd y Paul hwn wedi bod yn arolygwr y tŷ, ond syrthiodd i warth, ac anfonwyd ef i gadw anifeiliaid, yna yn is drachefn, nes o'r diwedd y bu farw o'r parlys, gan adael ei deulu yn y tlodi a'r angen mwyaf. "Ah," meddai yr hen wraig, "hawdd gwybod o'r fath gyff y daeth hwn; ni chaiff neb edrych arnaf fi yn y fath fodd, rhaid defnyddio mesurau effeithiol tuag ato ar unwaith," ac ymaith â hi i drefnu ei mesurau. Ymhen teirawr dygwyd Ermil o'i blaen; yr oedd i gael ei anfon i Siberia! Daeth ei feistres i edrych arno drwy y ffenestr, gosododd ei gwydrau ar ei llygaid, edrychodd yn haerllug drwyddynt am beth amser, yna dychwelodd i'w heisteddle. Safai Ermil yn bennoeth, droednoeth, ei wyneb wedi ei stampio â dideimladrwydd. Y mae Babourine, cleric ar yr ystâd, yn eiriol drosto ac yn cael ei ddiswyddo ar unwaith. "Paham yr erys Ermil?" meddai ei feistres; "yr wyf wedi ei weled;" a chan ysgwyd ei chadach fel pe yn ysgubo gwybedyn o'i ffordd, y mae yn ei anfon ymaith. Ynglŷn â'r hanes, fe geir ŵyr i'r

hen foneddiges, ac yn syndod hwn at yr hyn a gymerai le, yn gystal ag yn ymddygiadau y cymeriadau eraill, fe ddangosir mewn ychydig linellau y deffroad oedd yn dechreu, cyn dyfod y rhyddhad. Y mae y braslun hwn yn rhoddi i ni syniad clir o'r elfenau sydd yn cyfansoddi chwyldroadaeth ddiweddar yn Rwssia. Yr arglwyddes ffroenfalch, i'r hon y mae edrychiad o anfoddogrwydd yn ddigon i beri iddi alltudio cydgreddur i drueni am ei oes; y bachgenyn tlawd a digymhorth, heb le i appelio na gobaith ymwared, yn derbyn ei ddedfryd heb yngan gair; y clerics tynergalon, un raddfa uwchlaw iddo, wedi derbyn ychydig o addysg, a chyda hyny syniadau chwyldroawl, yn anturio ei le ac yn ei gollu trwy eiriol drosto; yr arolygwr gwasaid na feiddiai gymaint a sefyll ar ei wadnau yn ngwydd ei feistres; a'r bachgen sydd yn sylwi ar y cyfan, ac ynddo ei hun yn synu fod yn bosibl i'r fath bethau fod. Yma y cawn elfenau yr anfoddogrwydd, y drwgdeimlad, y cyffro, a'r chwyldroad a gyrhaeddodd yn ddiweddar eithafnod a barodd ddychryn trwy holl Ewrop. Yn null taeg Ermil o ddyoddef ei benyd ceir esiampl o sefyllfa mwyafrif y dosbarthiadau isaf yn Rwssia y dyddiau hyn; yn y modd hanner-goleuedig a hollol aneffeithiol y mae Babourine yn symud ar ei ran, ceir esiampl o'r modd yr ymdrechir ac y derbynir ymdrechion rhai ddymunai fod yn eiriolwyr ac yn ddiwygwr; yn syndod ymfyngar y bachgen ceir golwg ar y modd y daeth ieuencyd canolraddol Rwssia i ymdeimlo â'r drygau y dymunant trwy lwyr ddinystr pawb a phobpeth sathru allan o fodolaeth.

Yn *Y Tadau a'r Meibion*, y mae M. Tourguénéff yn cymeryd safle llawer uwch fel ysgrifenydd. Yn y chwedl hon ceir golwg ar y gwahaniaeth neillduol, y cyfeiriwyd ato yn ein hysgrif flaenorol, sydd yn bodoli rhwng y genedlaeth ieuanc a'r hon a'u magodd. Dygir ni i adnabyddiaeth, yn nechreu yr ystori, o Nicholas Kirsanoff, boneddwr o deimladau tyner, yn meddu etifeddiaeth o ddau gant o lafurwyr, i'r rhai y gosodai, yn ol y drefn newydd, fferm o bedair mil o aceri. Y mae ar y pryd yn dysgwyl ei fab o St. Petersburg, lle y bu yn dilyn ei efrydiaeth, a llenwir ei fynwes gan bryder ac awydd i gydymffurfio â syniadau a dyfod i'r un ysbryd a chyfoedion y mab y mae yn ei garu. Cyrhaedda Arcade ei gartref cyn hir, a dwg gydag ef ei gyfaill Bazarof, materolwr anghrediniol neu anffyddiwr gwyddonol, gorchwyl cyntaf yr hwn yw myned i gasglu llyffaint i'w *vivisection*, neu eu difynu yn fyw. Yn gyferbyniol i Bazarof, ar yr hwn y gellir edrych fel *type* y genedlaeth newydd, y mae Paul Kirsanof fel *type* o foneddwr o'r hen drefn unbenaethol, filwrol, a phendefigol. Desgrifir y cyntaf fel yn ddi- ofal yn ei wisgiad, yn anhywaith yn ei arferion, yn anmharchus o bawb, yn gnawdol ei syniadau, ac eto yn meddu ar ddylanwad attyniadol sydd yn ei wneyd yn gymeriad y rhaid sylwi arno. Y mae y llall wedi ei wisgo yn null diweddaraf y Saeson (fel y mae yn rhyfedd dyweyd, y Saeson o bawb sydd yn curo fel teilwriaid), yn nodedig o foesgar yn ei ymddygiad, ac yn meddu ar syniadau cyfatebol i'r nodweddion hyn. Syrth Bazarof ar unwaith i dôn feirniadol, ac yn nghwrs ymddyddan âg Arcade, yr hwn sydd yn edrych arno fel ei addysgwr a'i athraw, yr ydym yn fuan yn deall mai ffyliaid rhamantus ydyw pobl yr hen drefn yn ei olwg ef. Y mae ei ddull dadleugar, a'r modd didderbyn-wyneb y gesyd ei olygiadau allan, bron a gyru Paul yn wallgof. "Nid wyf

yn eich deall," meddai; "nis gallaf ddirnad pa fodd y mae'n bosibl tafu ymaith bob rheol ac egwyddor." "Yr wyf eisoes wedi dyweyd," meddai Arcade, "nad ydym ni yn cydnabod unrhyw awdurdod." "Yr ydym yn gweithredu gyda golwg ar yr hyn sydd ddefnyddiol," ychwanega Bazarof, "ac yn bresennol ymddengys yn ddefnyddiol i ni *wadu*." "Pobpeth?" "Ië, yn hollol felly!" "Sut? nid yn unig celfyddyd, barddoniaeth, ond mwy —" "Pobpeth," atebai Bazarof yn dawel. "Maddeuwch i mi," meddai Kirsanof; "yr ydych yn gwadu—hyny yw, fe fynech ddinystrio pobpeth; ond y mae yn angenrheidiol ail sefydlu —" "Nid oes dim a fynom ni â hyny. Yn gyntaf rhaid clirio pobpeth oddiar y ffordd." "Y mae cyflwr y bobl yn gofyn am hyny," ychwanega Arcade. "Rhaid i ni gyflawni ein dyledswydd; nid oes genym hawl i roddi ein hunain i fyny i foddlonrwydd hunanol." "Na, na," llefai Paul yn wresog, "ni chredaf eich bod wedi ffurfio barn gywir am y werin, na'ch bod yn rhoddi mynegiant i'w dymuniad. Y mae gan y Rwssiad barch sanctaidd i draddodiad; y mae yn batriarchaidd ei syniadau; nis gall fyw heb ffydd." "Nid wyf am ddyweyd gair i'r gwrthwyneb," meddai Bazarof; "yr wyf hyd yn nod yn barod i gydnabod eich bod yn iawn." "Ond os wyf fi yn iawn —?" "Nid yw hyny yn profi dim." "Dim o gwbl," meddai Arcade. "Sut nad yw yn profi?" meddai Paul mewn syndod; "yr ydych chwi gan hyny yn ymwahanu oddiwrth y bobl." "Wel, beth am hyny? Y mae y bobl yn credu pan fydd yn taranu mai trwst cerbyd Elias ydyw, a raid i mi dderbyn eu golygiad ar y pwynt? . . . Bu fy nhaid yn dal yr aradr," parhâi Bazarof, "gofynwch i'r *peasant* pa un ai chwi ai myfi a adnebydd ef fel ei gydwladwr; nid ydych chwi yn gallu cymaint a siarad âg ef?" "Ac yr ydych chwithau, er yn alluog i siarad âg ef, yn edrych arno gyda dirmyg." "A phaham na wnawn os yw yn haeddu hyny? . . . Nid ydym ni byth yn pregethu, nid ydyw hyny yn un o'n harferion. Yr ydym yn dechreu ein gwaith trwy alw sylw at y swyddogaeth lygredig, at yr angen am ffyrdd, at absenoldeb masnach, at y dull o weinyddu cyfiawnder; ond nid ydym wedi boddloni ar *siarad* am ein clwyfau yn unig. Yr ydym bellach wedi dyfod i ddeall nad oes daioni mewn son am ffolbethau, megys celfyddyd er mwyn celfyddyd, y gallu creadigol—gallu, gyda llaw, nad yw yn ymwybodol hyd yn nod o'i fodolaeth ei hun, yr angen am gynnrychiolaeth a dadl-euaeth, a miloedd o ddigrif-bethau o'r fath, tra yr ydym mewn angen am fara beunyddiol, tra yr ydym dan draed yr ofergoeliaeth mwyaf dybryd, tra y mae ein cwmniau yn troi yn fethdalwyr o eisieu dynion gonest, a thra y mae hyd yn nod rhyddhâd y *serfs*, oddiwrth yr hyn y dysgwylid cymaint, yn aneffeithiol i gynnyrchu unrhyw ddaioni am fod y llaf-urwr yn barod i ddinystrio ei hun er mwyn cael gwirodydd gwenwynig y *cabarets*!" "Wel," meddai Paul, "yr ydych wedi darganfod hyn oll, ac eto yr ydych heb benderfynu ar unrhyw ymgais ddirifrol i'w wella." "Nid ydym wedi penderfynu ar ddim," meddai Bazarof yn fyr, gan weled ei fod eisoes wedi dyweyd gormod. "Ac yr ydych yn cyfyngu eich hunain i *abuse*?" "Yr ydym yn ei ddefnyddio pan fo yn angenrheidiol." "A dyma yr hyn a elwir yn Nihiliaeth?" "Ië, dyna'r hyn a elwir Nihiliaeth," ateba Bazarof, mewn tôn anhawdd ei dyoddef. Cynhyrfir Paul i edliw iddynt eto hunan-ddigonolrwydd, a siarada fel hyn: "Dywedir

wrthf fi nad ydyw ein harlunwyr ni pan yn Rhufain byth yn myned i'r Vatican; y maent yn ystyried Raphael islaw eu sylw am fod pobl eraill yn gwneyd awdurdod o hono. Nid ydynt hwy eu hunain ond personoliad gwendid a methiant; ond mae'n debyg eich bod chwi," meddai, gan droi at Bazarof, "yn eu cymeradwyo hwy a'u hymddygiad." "Am danaf fi yn bersonol," meddai Bazarof, "ni roddwn geiniog am Raphael, ac nid wyf yn tybio eu bod hwythau o fwy gwerth nag ef!" Yna  l ymlaen i herio Paul i enwi unrhyw sefydliad gwerth ei gadw i fyny; a phan yr enwir "Y teulu," ateba fel hyn: "Cynghorwn chwi i beidio ymholi yn rhy fanwl ynghylch y cwestiwn yna; nid yw yr ymchwiliad yn debyg o droi allan yn foddlonol. Ystyriwch am ddiwrnod neu ddau ein hathrawiaethau ni; yn y cyfamer treulia Arcade a minnau ein hamser i—" "I droi y cyfan i wawd," medd Paul. "Na, i ddadgyrru llyffaint!" meddai Bazarof. "A dyma ein dilyn-wyr," meddai Paul wrth Kirsanof pan aeth y lleill allan. "I , dyma hwy," ateba Nicholas gydag ochenaid. "Y maent yn dwyn ar gof i mi ddywediad digofus o'm heiddo wrth fy mam un tro, 'Nis gellwch chwi fy neall; yr ydym yn perthyn i ddwy genedlaeth wahanol.' Ein tro ni ydyw yn awr—y mae ein plant yn wahanol i ni—chwerw yw y cwpan, ond rhaid ei yfed!"

Newidia yr olygfa yn awr i gartref Bazarof, ac y mae y gagendor rhwng yr hen genedlaeth a'r genedlaeth newydd yn dyfod eto yn fwy amlwg. Hen feddyg milwrol yn byw ar yst d fechan berthynol i'w wraig ydyw y tad. Un o'r hen wragedd syml diddysg hyny sydd gyda'u hanwybodaeth yn meddu calon o'r fwyaf tyner ydyw y fam. Y mae gofal pryderus yr hen gwpl am y mab, sydd yn dychwelyd atynt ar ol absenoldeb o dair blynedd, yn hynod o doddedig; tra y mae caledwch y mab yn arddangosiad o un o'r pethau mwyaf poenus yngl n  r cysylltiad teuluaid fel y mae yn awr yn sefyll yn Rwssia. Metha Bazarof ddal tynerwch ei rieni, ac ymhen tri diwrnod dywed wrth Arcade Kirsanof, yr hwn sydd ar ymweliad  g ef, "Rhaid i mi fyned oddiyma; yr wyf mewn cadwynau; y mae fy nhad yn aflonyddu arnaf yn barh us, ac y mae fy mam bron c n waethed. Yr wyf yn ei chlywed yn ocheneidio yn ei hystafell, ond pan  f ati nid oes genyf air i'w ddyweyd wrthi." Y mae y newydd am ei ymadawiad bron llethu yr hen wr, a'r ymdeimlad o'r pellder rhyngddynt yn dwys u ar ei feddwl. Foreu yr ymadawiad deil i fyny cyhyd ag y medr; chwyfia ei gadach yn fywiog i ffarwelio   hwynt; ond pan ddiffana y cerbyd sydd yn eu dwyn ymaith yn y pellder, syrth ar ei eisteddle a chrymia ei ben. "Y mae wedi ein gadael," meddai   llais crynedig, "wedi ein gadael. Blinodd arnom, ac yn awr yr wyf yn unig wrthf fy hun." Ond nes  Arina Vlassieva ato, a chan bwyso ei phen arianaidd ar ei ben gw n ef, dywed, "Beth arall oedd i'w ddysgwyl, Vassili? Y mae mab fel aderyn: os dewisa ddyfod fe ddaw, os dewisa fyned fe aiff; ond am danom ni ein dau, ochr yn ochr ni a aroswn yr alwad. Ni fydd cyfnewidiad ynof fi, a gwn na chyfnewidi dithau tuag at dy hen wraig." Cofleidiodd Vassili Ivanovitch ei wraig yn dynerach nag hyd yn nod yn nyddiau eu hieuenctyd; yr ydoedd wedi ei gysuro yn ei drallod. Ceir yma, fel y gwelir, ddarlun toddedig o fachgen, sydd gyda'i addysg athrofaol wedi llyncu syniadau newyddion a gwyrdroawl,

yn cael ei hen gartref yn rhy gyfyng, ac o'r herwydd yn colli y parch dyladwy at ei rieni, yn tori eu calonau trwy eu gadael, ac yn wynebu byd sydd yn ei galedu yn waeth, ac o'r diwedd yn ei wneyd yn ddychrynn iddo ei hun ac i'w gyd-ddynion fel un o ledaenwyr penboeth athrawiaeth dinystr a diddymiant.

Mewn dwy chwedl arall, sef *Fumée* a *Les Eaux Printanières*, y mae M. Tourguéneff yn darlunio gwendid y natur Slavonaidd, yn dangos mor agored ydyw i dderbyn argraff oddiallan, ac mor barod ydyw i gyfeiliorni ar ol unrhyw beth o dan ddylanwad person neu bersonau o gymeriad penderfynol. Yr ydym eisoes wedi cyffwrdd â'r diffyg hwn yn yr ysgrif flaenorol; y mae M. Tourguéneff yma yn ei ddangos allan mewn lliwiau llawer cryfach. Yn ol ei farn ef, dyma un o wen-didau cynhenid ei gydwladwyr. Mewn bywyd personol y mae yn arwain i ddinystr moesol y fath ag a ddesgrifir ganddo yn y ddwy chwedl dan sylw; mewn bywyd cyhoeddus y mae yn arwain y genedl i dwyllo ei hun, ac yn ei gosod mewn ystâd o ddifodiant parhaol. Fel hyn y desgrifir (yn *Fumée*) ddylanwad un Goubaref, yr hwn sydd wedi ennill sefyllfa uchel fel arweinydd plaid wleidyddol: "Nid oes ganddo dalentau na chymeriad, ond y mae ganddo ewyllys, y peth sydd yn eisieu ymhlith y Slavoniaid. Penderfynodd M. Goubaref y mynai fod yn ben ar blaid, a chyrrhaeddodd ei amcan. Beth fynech chwi gael? Gwaredodd y Llywodraeth ni oddiwrth wasiaeth (*serfage*),—pob clod iddi am hyny; ond nis gallai ddadwreiddio y gwaseidd-dra sydd wedi gafael mor ddwfn yn ein natur. Mewn pobpeth ac ymhob man mae yn rhaid i ni gael meistr. Yn gyffredin rhaid i'r meistr hwn fod yn *berson*, ond weithiau gwna *tueddiad* y tro; y peth pwysig ydyw fod yn rhaid iddo fod yn feistr. Yr ydym eto yn *serfs* gwirioneddol; y mae ein balchder a'n gostyngeddwrwydd yr un mor wasaidd. Mor gynted ag y daw meistr newydd, i lawr â'r hen! Yr ydym yn ymfalchio mewn gwrthwynebu; ond yn lle rhoddi hêr fel dynion rhydd ac ymladd â'r cleddyf, yr ydym yn ymladd draed a dwylaw fel *lackeys*, ac â'r rhai hyn ond yn unig mor bell ag y caniatâ y meistr! Pobl ddi-ewynau ydym; nid yw yn anhawdd ein harwain. Fel hyn y dringodd M. Goubaref i ben yr ysgol. Byddai yn taro bob amser ar yr un man, ac o'r diwedd gwnaeth dwll! Pan y gwelwn ddyn â chanddo syniad uchel am dano ei hun, ffydd gref yn ei allu ei hun, un y gorchymyn—dyna'r peth hanfodol angenrheidiol. Rhaid fod y cyfryw ddyn ar yr iawn, a rhaid i ninnau wrando arno. Fel hyn y sylfaenir ein cymdeithas; y cyntaf a gymer wialen yn ei law, hwnw yw yr arweinydd."

Onid gwaith diweddaraf M. Tourguéneff yw y chwedl a elwir *Nov*, yr hon a gyfieithwyd i'r Saesoneg gan (os nad ydym yn camgymeryd) Mr. Ashton Dilke. Yn y nofel hon dadblyga yr awdwr ymhellach ansylweddolrwydd yr egwyddorion chwyldroawl sydd, fel y dangoswyd genym yn barod, yn berwi trwy Rwsia. Y mae y darluniad a roddir o ieuentyd y wlad yn cael eu gyru gan syniadau cyfeiliornus i gam-weithrediad er dwyn oddiamgylch rhyw gyfnewidiad, boed er gwll neu er gwaeth, yn un hynod o bruddglwyfus. Mewn un cymeriad ceir eglurhâd ar y dymher sydd yn arwain i Nihiliaeth chwyldroadol, ac ar yr un pryd esboniad ar y diffygion sydd, yr ydym bron a chredu, yn



anwahanol gysylltiedig â'r blaidd. Cyhoeddwyd y chwedl i ddechreu yn ngholofnau cylchgrawn Rwssiaidd, y *Vyestnik Evropy*, un o'r cylchgronau goreu a gyhoeddir; cyfieithwyd hi i'r Ellmynaeg o dan y teitl *Neuland*, i'r Ffrancaeg o dan y teitl *Terres Vierges*, ac i'r Saesoneg o dan y teitl *Virgin Soil*. Y mae wedi gwneuthur ei hawdwr yn allu mewn llenyddiaeth, ac yn un o'r ysgrifenyddwyr mwyaf poblogaidd yn Ewrop. Y mae yn ddiwyf i'w darllen am fod y cymeriadau a'r golygfeydd a ddygir o flaen y meddwl wedi eu cyfleu gyda gallu a chywreinder meistr yn y gelfyddyd, ac y mae yn werth ei hastudio am fod y disgrifiadau geir ynddi o fywyd cymdeithasol Rwssia yn un a rydd oleuni ar bynciau dyrys ynglŷn â hanes y wlad hono. Fe allai mai ynddi hi y ceir, nid yn unig un o'r darluniau cywiraf o chwyldroadiaeth ddiweddar, ond darlun a rydd i ni ar yr un pryd y syniad cliraf am wir werth y symudiad. Arwr y gwaith—os priodol galw yn arwr un sydd trwy wendid ewyllys a gweithred yn colli ein cydymdeimlad, ydyw Nedjanoff, efrydydd ieuanc, yr hwn a ddygir o'n blaen mewn llety tloidaidd yn ninas St. Petersburg. Yno yn ei aros y mae dau berson, Ostrodumof a Mashurina wrth eu henwau, y rhai ydynt chwyldroadwyr yn gweithredu o dan benaeth a adnabyddir dan yr enw Vassili Nikolovitch, prif hawliau yr hwn i'w hufudd-dod ydyw "ei fod yn ddyd o gymeriad penderfynol—ni chilia o flaen gelym, ac os angenrheidiol llofruddia ddyd yn ddibetrus; am hynny y mae pobl yn ei ofni," ac am hynny y maent hwythau yn ufuddhâu iddo. Yma eto, fe welir, rhoddir pwys ar y ffaith nad oes gan y Slav ewyllys o'i eiddo ei hun; fod yn rhaid iddo am reolwr o ewyllys gadarn ddiildio; a'i fod yn ddilynydd ffyddlawn i'r fath un. Y mae y dyn a'r ddynes dan sylw yn crwydro o fan i fan, ar archiad Vassili, i gario allan ei gynlluniau ac i gyflawni ei orchymynion. Nid yw Nedjanoff gymaint o dan ei ddylanwad, ond y mae ei wendid, ei ansicrwydd o hono ei hun, ei feddwl barddonol, a'i chwaeth bendefigol, &c., yn ei wneyd yn agored i syrthio i fod yn *tool* yn llaw y fath un. Derbynna y swydd o athraw i fab swyddog gwladol, a daw i gyfarfyddiad â chwaer i'w ysgolor o'r enw Marianna, yr hon yn ei chariad annoeth at y bobl, ei pharodrydd i dderbyn yr athrawiaethau newyddion, ac i fentro y cyfan yn eu gwasanaeth, sydd yn gysgod o gannoedd o ferched Rwssia o Vera Sassulitch i lawr. Y mae un peth neillduol i sylwi arno yn ysbryd aflonydd Nedjanoff a Marianna. Awydda y naill fel y llall am rywbeth i'w wneyd, ond nid yw yr un o'r ddau yn meddu syniad o'r hyn a ddymunant ddwyn oddiamgylch. Y maent i gynhyrfu y bobl, i'w deffroi at eu dyledswydd o wrthryfela, ac i ymladd am eu hiawnderau, ond pa rai yw yr iawnderau nid oes neb yn gwybod! Desgrifir Markhelof, un o'r chwyldroadwyr, gyda llygaid yn fflachio, a chan gnoi ei gernflew, yn siarad mewn llais cynhyrfus am yr anghyfiawnder a gyflawnid, ac am yr angenrheidrwydd o weithrediad uniongyrchol. "Y mae pobpeth yn barod," meddai, "ac ni wna ond llyfrgi sefyll yn ol yn awr; rhaid defnyddio ychydig o *force*, &c.;" ond ar yr un pryd rhaid oedd cadw y *force* yn ei sianel briodol, hynny yw, rhaid peidio ymyryd â llafurwyr ei frawd yn nghyfraith—y rhai gyda llaw oeddynt agosaf ato! Y mae Marianna, gyda'r diystyrwch o'r ystâd briodasol sydd eisoes wedi cael sylw, yn dianc o'i chartref gyda Nedjanoff, a

cheisiant ymdafu i waith y "Gymdeithas." Ymwisgant yn nillad y werin, a rhydd Marianna ei holl ysbryd yn yr awydd i wneyd rhywbeth; ond nid yw yr awydd yn esgor ar gymaint a dechreuad, a'r diwedd ydyw iddi briodi Solomon, chwyldroadwr athronyddol, ac ymfoddloni ar ei gorchwylion teuluaid. Am Nedjanoff, y mae ef yn cael allan mai gwagedd a ffolineb yw y cyfan. Un diwrnod, dechreua anereh nifer o lafurwyr mewn gwesty, ond yn lle gwrando arno, y mae y rhai hyn yn ei lenwi â gwirodydd poethion nes ei wneuthur yn feddw ddideimlad. Cariwyd ef adref, ac yn yr ymwybyddiaeth ei fod wedi darostwng ei hun islaw ei ddyrchafu, y mae yn myned allan i'r maes ac yn saethu ei hun. Ceisia Markhelof ennyn gwrthryfel mewn ffordd arall, ond cyfyd y llafurwyr yn ei erbyn, ac anfonir ef i Siberia. Y mae yr oll o gymeriadau *Virgin Soil*, mewn gair, yn dechreu mewn tywyllwch, yn gweithio mewn tywyllwch, ac yn diweddu lle y dechreuasant; yr unig un a erys yw Mashúrina, yr hon fel offeryn yn llaw un o feddwl uwch na hi ei hun, sydd yn parhâu mewn ffordd ymarferol i hau hadau anesmwythyd a chwyldroad. Rhydd y cyfan ddarlun byw i ni o'r ymgynhyrriad aflonydd a diorphwys sydd yn treiddio trwy gymdeithas yn Rwssia, yr hwn a adnabyddir fel Nihiliaeth.

Hyderwn ein bod yn y brasddarluniau brysiog ac amherffaith hyn, allan o weithiau prif nofelwyr y dydd, wedi rhoddi rhyw gymaint o eglurhâd ac esboniad ar Ffeithiau Hanesyddol "dalenu duon hanes Rwssia."

E. VINCENT EVANS.

*Llundain.*

---

## Y DDIRNADAETH AM DDUW.

### II.

MAE y ddau olygiad mwyaf eithafol ar darddiad y drychfeddwl am Dduw yn cael eu gwrthbrofi gan ffeithiau allanol yn hanes dynolryw, a chan ymwybyddiaeth y meddwl ei hun. Nis gall athroniaeth y synwrau roddi cyfrif am ei darddiad. Nid yw yr esboniad a ddyry ar un rhan o'n gwybodaeth yn foddhaol, a llawer llai ar ein gwybodaeth am Dduw. Gellir dyweyd yr un peth, fe allai, am y syniad mwyaf cyfriniol a ddysgir gan athronwyr y drychfeddyliau. Er fod rhai o'r enwau uchaf o'i blaid, mae yn amlwg nad yw yn cael ei gadarnhâu gan ymwybyddiaeth y lliaws, mwy na chan hanes y grediniaeth

am Dduw ymysg cenedloedd y byd. Gwrthddadl ddigonol yn erbyn esboniad synwryddiaeth ar darddiad y drychfeddwl ydyw, fod elfenau cyntaf pob gwybodaeth, neu y canfyddiadau a'r barnau mwyaf syml, yn tybied bodolaeth rhyw alluoedd cadarnhaol yn y meddwl; rhyw egwyddorion bywiol a gweithgar; y rhai, o ran y bôd o honynt, sydd yn annibynol ar sylwadaeth a phrofiad, ac y byddai synwryiaeth a chanfyddiad, heb son am ddirnadaethau uchaf y meddwl, yn anghyrhaeddadwy hebddynt. Braidd nad ellir dyweyd fod holl brif athronwyr yr oesoedd yn unfryd-unfarn ar hanfod yr athrawiaeth hon. Dichon yr enwid Locke fel eithriad; ond y mae yn amlwg fod ei wrthwynebiad ef i athroniaeth y drychfeddyliau yn codi i raddau helaeth oddiar gamddealltwriaeth o honi; beth bynag am rai ysgrifenywyr o flaen ei ddyddiau, nid oes un athronydd yn bresennol o unrhyw bwys yn credu mewn drychfeddyliau cynhenid yn y wedd y gwrthddadleuai Locke yn eu herbyn. Pa fodd bynag, gyda'r eithriad amheus yma, mae meddyliau galluocaf pob oes yn credu yn gryf yn modolaeth rhyw egwyddorion gwreiddiol yn y meddwl. Nid oes gymaint ag un o ieithoedd y byd gwareiddiedig nad oes ynddi ddosbarth o eiriau yn cyfeirio atynt; mae y sylweddeiriau mewn undeb âg ansoddeiriau, cyfystyr yn y Gymraeg â naturiol, cynhenid, a'u cyffelyb; a chyfarfyddwn â lliosogrwydd o honynt ymysg y Groegwyr a'r Lladinwyr. Mae y dosbarth goreu o athronwyr y synwryau yn cydnabod nerth a dyfnder rhai tueddiadau o eiddo y meddwl. Mae y parch a delir ganddynt i fleithiau yn eu gorfodi i wneuthur y cyfryw addefiad, er iddo fod yn anghydweddol â'u cyfundraeth. Dywedant fod yn ein natur duedd-iadau neu egwyddorion nas gellir eu dileu; gan eu bod yn annileadwy y mae yn rhaid mai nid caffaeliad diweddar ydynt; pe na byddent ond argraffiadau ysgeifn ar wyneb ein natur, gallesid yn hawdd roddi cyfrif am danynt ar dir synwryiaeth personol a phresennol; ond gan eu bod yn ddwfn-reddfol ynom, mae yn rhaid eu holrhain ymhellach nag argraffiadau a phrofiad y dyn ei hun at ddylanwad arferion ei henafiaid ar ei natur. Ni ddywedant, mae yn wir, eu bod yn gynhenid ac o angenrheidrwydd yn nghyfansoddiad ein meddyliau: dewisant ddysgu yn hytrach eu bod, trwy drosglwyddiad o'r naill i'r llall, ac ennill ychwaneg o nerth trwy y trosglwyddiad hwnw, wedi dyfod o'r diwedd yn naturiol. Mae yn wir nad yw hyn ond damcaniaeth, a damcaniaeth heb ddim yn ei chadarnhau yn hanes y meddwl dynol; eto gallwn edrych arni fel gwarogaeth anewyllysgar oddiwrth y galluocaf o athronwyr y synwryau, Mr. Herbert Spencer, i athroniaeth y drychfeddyliau. Mae yn cydnabod fod nerth a naturioldeb yn perthyn i'r tueddiadau a elwir yn ddrychfeddyliau cynhenid neu egwyddorion gwreiddiol, ac nad yw athroniaeth y synwryau, yn y ffurfiau oedd arni yn flaenorol i'r oes bresennol, yn rhoddi esboniad boddhaol ar eu naturioldeb, eu dyfnder, a'r syniad o angenrheidrwydd sydd yn gysylltiol â hwynt.

Gan nad allwn roddi cyfrif am y wybodaeth leiaf addfed—am deimladau a chanfyddiadau y plentyn—ar wahân i ryw egwyddorion gwreiddiol yn y meddwl, llawer llai y gallwn eu hebgor yn olrheiniad y wybodaeth am Dduw i'w ffynnonell. Mae y syniad am Dduw yn un o brif syniadau y meddwl. Mae a wnelo yr *holl* feddwl âg ef. Nid cynnyrch un gallu neu un teimlad ydyw. Fel y mae Duw ei hun yn

llanw pob lle, felly hefyd y mae, mewn mwy nag un ystyr, yn llanw meddwl dyn; ac y mae pob gallu, pob teimlad, pob egwyddor yn y meddwl, yn arwain i'r grediniaeth am dano. Mae yn syniad mor naturiol, fel mai gyda'r anhawsder mwyaf y gellir ymryddhâu yn llwyr oddiwrtho. Pan dybia y dyn annuw ei fod wedi ei ddiwreiddio o'i fynwes, ac y caiff mwyach lonyddwch ganddo, yn y man y mae yn ymrithio drachefn ger ei fron fel cynt; mae ei hen elyn yn ei oddiweddyd eilwaith, fel yr oedd Elias yn dyfod o'i ymguddfa i gyfarfod Ahab. Nid gorchwyl hawdd ydyw i ddynd o'lyng ei hun i lawr i ddyfnderau atheistiaeth. Gan fod dyn yn greadur llygredig, nid heb ymdrech gyson am faith flynyddoedd, a hyny yn nghynorthwy yr Ysbryd Glân, y cyrhaedda ddigon o dduwiolffrydedd i'w alluogi i osod yr Arglwydd bob amser ger ei fron; a ehan ei fod, er yn awr yn llygredig, wedi ei greu ar lun a delw Duw, nid ychwaith heb ymdrech galed y gall ymddiosg oddiwrth bob teimlad sydd yn ei adgofio o'r bôd o Dduw. Credwn fod rhai dynion yn atheistiaid gonest a chydwybodol; ond cawn am y cyfryw rai eu bod wedi eu dwyn i fyny o'u mebyd mewn awyrgylech lawn o ddiidduwiaeth, —fod eu rhieni a'u dysgawdwyd wedi arfer pob moddion i gadw Duw allan o'u meddyliau,—fod eu holl efrydiau a'u cysylltiadau hwy eu hunain ar ol hyny yn wasanaethgar i ddyfnhâu eu hargraffiadau bor-euaf; ac eto hyd ddiwedd eu dyddiau, nid oedd eu meddyliau yn hollol rydd oddiwrth betrusder; yr oedd gradd o wylder yn eu hateistiaeth; nid oedd eu hanghrediniaeth yn cymeryd y ffurf o wadiad beiddgar; yr oedd y dyhead am Dduw yn aros, ac yn absenoldeb y grediniaeth am dano, yr oeddylt yn ceisio boddloni y dyhead & rhyw eilun neu gysgod o brydferthwch moesol o'r hyn y mae y sylwedd yn trigo yn Nuw.

Bod y syniad am Dduw yn wreiddiol neu gynhenid ydyw y rheswm am ei ddyfnder—yr esboniad ar y gafaeliad sydd ganddo ar y meddwl; a dyfnder y syniad ydyw y rheswm am ei gyffredinolrwydd. Pan y mae yr afon yn dyfnhâu ar ol y gwlawogydd, y mae yn lifo dros ei cheulantau ac yn gorhuddio mwy o dir. Mae yn rhaid fod rhyw ddyfnder yn perthyn i bob crediniaeth gyffredinol; a phan y byddo crediniaeth gyffredinol yn parhâu o oes i oes, mae yn rhaid fod rheswm am ei dyfnder yn nghyfansoddiad ein natur. Addefwn fod rhai yn gwadu cyffredinolrwydd dieithriad y drychfeddwl am Dduw; ond pe gallent lwyddo i brofi fod yma a thraw lwyth o anwariad heb feddu yn syniad am ryw Fôd Goruchaf, nid ydym yn gweled yr effeithiai hyny ar y ddadl fod meddwl dyn yn naturiol yn ei arwain at Dduw. Dichon y byddai nerth yn yr wrthddadl yn erbyn un golygiad neillduol ar nodwedd y drychfeddwl cynhenid; a byddai yn hawdd rhoddi cyfrif am yr eithriadau. Nid yw y ffaith fod ymhob gwlad nifer o hurtiaid yn analluog i sylweddoli egwyddorion gwreiddiol crediniaeth, yn meddu dim grym fel dadl yn erbyn yr egwyddorion hyny; neu y ffaith fod rhai meddyliau heb ddigon o ddysgyblaeth i ddeall termau y gwirebau sylfaenol yn brawf nad oes cymhwysder naturiol ynddynt i'w deall, oblegid, er heb allu deall y geiriau, y maent bob amser yn gweithredu oddiar yr egwyddorion eu hunain. A'r tŷ modd am y personau a'r llwythau ag yr haerir eu bod yn eithriadau i'r grediniaeth gyffredinol am Dduw. Mae ymchwiliad diweddarach yn myned

ymhell i brofi nad oedd y tystiolaethau blaenorol yn gywir.\* Nid mewn awr y gellir deall yr oll o gymeriad person unigol; ac nid mewn mis, nac ychwaith mewn blwyddyn, y deuir i wybod am holl nodweddion cenedl; ac nid oes dim yn hanes cenedl sydd yn fwy anhawdd ei gael allan na'i thuueddiadau crefyddol. Mynych y mae y Ffrancwr yn mesur ac yn pwysu y Sais, neu y Sais y Ffrancwr, ond y mae ei farnau y rhan amlaf yn dra anghywir, ac weithiau mor anghywir nes bod yn ddigrifol. Ond y mae yn llawer haws iddynt hwy ddeall eu gilydd, nag i'r Ewropead ddeall yr anwariad, yr hwn y mae ei ddull o feddwl, a'i iaith, heblaw ei holl arferion a'i draddodiadau, yn ffurfio agendor lydan rhyngddo âg ef, ac yn peri iddo ei osgoi a chelu ei gyfrinach oddiwrtho. Nis gall y teithiwr fyned yn ddigon agos at y bobl i ffurfio barn gywir am danynt. Weithiau y mae yn sylwedydd rhy anghraff, a mynych y mae y sylwedydd manylgraff heb fod yn athronydd; gall gynnwll feithiau heb allu myned i mewn i'w hystyr. A gwlwyd mewn ambell un fwy o awydd am wneuthur ei hun a'i ddarganfyddiadau yn hynod, nag am dreiddio at galon y gwirionedd, ac felly, er mwyn taraw y byd crediniol â dychryn, yn haeru yn hyf iddo gyfarfod â llwyth o bobl anwar heb un syniad am Dduw, ac heb amlygu y radd leiaf o ysbryd crefyddol. Mae teithwyr eraill, wrth wadu cyffredinolrwydd y grediniaeth hon, heb feddwl dim mwy na bod syniad rhai pobl yn isel a thloddaidd, yr hyn fyddai i ryw raddau yn wirionedd am syniad llaweroedd yn ngwledydd Cred. Mae rhai ysgrifenwyr, ac yn eu plith Dr. Caird,† yn llafurio i fychanu nerth y ddaid hon. Addefwn ninnau nad yw yn un o'r dadleuon cryfaf; ac nid pawb sydd yn cadw mewn cof fod y prawf o'r Bôd o Dduw yn gorwedd ar amryw ddadl-euon; yn hytrach fod yr oll a ellir wybod am dano, yr holl amlygiadau a roddes o hono ei hun, yn wasgaredig yn a thrwy yr oll a ddygwyd ganddo i fodolaeth, ac felly fod y prawf yn ei holl nerth i'w deimlo gan y meddwl a all gydgrynhoi y cyfan. Mae yn wir nad yw *consensus gentium*, cydsyniad y cenedloedd, yn un o'r prawfion penaf o'r Bôd o Dduw, ac eto y mae yn haeddu mwy o warogaeth nag y mae rhai yn dalu iddo; mae yn ennill nerth ychwanegol yn rhinwedd ei gysylltiad â phrawfion eraill, ac hebddo collent hwythau lawer o'u nerth. Gellir edrych ar gydsyniad dynolryw fel ffaith yn cadarnhâu egwyddorion, a'r cyfryw yw yr egwyddorion fel y buasent yn paratoi ein meddyliau i'r ffaith. Ac y mae y ffaith yn un mor hynod, fel mai yr unig esboniad boddhaol arni ydyw, fod mewn dyn ryw duddiad neu deimlad dwfnreddfol sydd yn gwneuthur y syniad am Dduw yn naturiol iddo. Dichon mai y brif wrthddadl i'r grediniaeth gyffredinol hon ydyw yr amrywiaeth sydd yn ei chynnwys. Caniataer, ebe y gwrthddadleuwr, ei bod yn grediniaeth gyffredinol, eto, pa werth sydd ynddi, os ydyw

\* Barna rhai, am nad oes gan rai cenedloedd demlau a defodau addoliad, nad oes ganddynt, o ganlyniad, un syniad am Dduw: ond y mae y dyb hon wedi ei phrofi yn ddisail mewn cysylltiad âg amryw o'r llwythau iselaf, er engraifft, Indiaid Canada, trigollion ynyssoedd y Môr Taweloc, &c. Mae y ffaith ganlynol yn sicr o fod yn ddyddorol i'r Cymro. Mae Dr. Hooker yn cadarnhâu am lwyth Indiaidd, y Khasias (pobl bryniau Cassia), nad oes ganddynt yr un grefydd. "I'r gwrthwyneb," ebe Dr. Flint (*Anti-theistic Theories*, tu dal. 277), "y mae y Milwriad Yule yn sicrhâu fod ganddynt un; eto y mae yn addef mai tori wyau ier ydyw y brif ran o'u hymarferiadau crefyddol." Gallai Cenedlau y Methodistiaid ar y Bryniau oleuo meddwl y Milwriad Yule yn gystal a Dr. Hooker, trwy ddangos iddynt fod y Cassiaid yn arfer aberthu i ddyhuddo llid eu duwiau.

† Introduction to the *Philosophy of Religion*.

mewn engreiffiau afrifed mor ddiffygiol fel y mae yr elfenau a ystyria y cristion fel hanfodion Duwdod yn cael eu gadael allan o honi? Pa le y mae purdeb, sancteiddrwydd, cariad, yn y syniad cyffredinol am Dduw? Ond gellir ateb yr wrthdadaid trwy ofyn yn ol, Paham y mae y syniad am y Bôd o Dduw yn aros ymysg dynion ar ol iddynt gollu yr adnabyddiaeth o hono? Os nad oes yn ein natur ryw ddrychfeddwl gwreiddiol yn cysylltu ein hysbrydoedd â Duw, pa fodd na buasai y syniad am ei fodolaeth yn diflanu ar yr un pryd â'r wybodaeth am dano? Ie, pa fodd y mae yn parhau yn ei holl rym ugeiniau o genedlaethau ar ol llygriad trylwyr y wybodaeth? Ni a welwn nad yw amddifadrwydd o'r wir wybodaeth am Dduw yn peri dim lleihad ar nerth y syniad o'i fodolaeth. Mae y drychfeddwl yn aros, nid yn unig ar ol colli Duw ei hun, ond hefyd ar ol colli pob syniad cywir am ei gymeriad moesol; oblegid nid oes dim uwch yn syniad aml bagan na bod rhyw fôd anweledig yn bod, yr hwn y mae tynged dyn yn ymddibynu ar ei ewyllys. Yn awr, y mae y fath sefyllfa a hon yn profi dau beth; yn gyntaf, fod rhyw ddylanwad wedi dyfod i mewn i'r natur ddynol, yr hwn sydd yn dallu yr enaid yn ei berthynas â Duw; ac eto, yn ail, fod y meddwl ar gyfrif rhywbeth yn ei gyfansoddiad, yn glynu gyda'r gafaeliad mwyaf penderfynol—fel y gragen wrth y graig—wrth y syniad am y Bôd o Dduw. Gan hyny, yn hytrach na bod yn ddadl yn erbyn, gellir ystyried llygriad y wybodaeth am Dduw ymysg dynion yn ddadl o blaid y golygiad fod greddfau ein natur yn cyfeirio at yr Anfeidrol. Pe buasai ein gwybodaeth am natur a chymeriad Duw yn bur a dilwgr, buasai lle i ddadleu fod y drychfeddwl am dano i'w briodoli i ansawdd dduwiol y galon; ond gan fod y galon mor ddi-Dduw, mor anghydnewn âg ef, mor anghofus o hono, nes effeithio i gymylu a gwyrddroi syniadau y meddwl am ei gymeriad, ond y syniad am ei fôd, er hyny, yn aros yn ei holl nerth, mae yn rhaid priodoli y syniad hwnw, nid i ansawdd sanctaidd y galon, ond i egwyddorion greddfol y natur.

Mae presenoldeb yr egwyddorion hyn yn y natur ddynol yn cael ei gydnabod ymhob oes, ac atynt hwy yr olrheindir tarddiad neu ddechreuad y wybodaeth am Dduw. Mae paganiaid yr un mor barod a Christionogion i wneuthur yr addefiad hwn, ac y mae rhai o'r termau a ddefnyddiant i ddynodi yr awyddfryd cynhenid am y Diderfyn mor hapus a phrydferth fel nad yw yr ysgrifenywyr Cristionogol wedi gallu rhagori arnynt. Mae meddwl dyn yn naturiol yn esgyn at y Dwyfol; mae yn cael ei attynnu at i fyny; mae yn ei gyfansoddiad ryw ragflaeniad neu flaenbrofiad o'r Duwdod. Y mae i hyn le mawr yn athroniaeth Plato, yr hon a welir mewn rhyw ffurf yn effeithio ar syniadau duwinyddol yr eglwys trwy yr oesoedd, yn enwedigol ar olygiadau y meddylwyr dyfnaf a mwyaf cyfriniol. Athroniaeth Plato wedi ei gweithio allan i rysedd ac eithafiaeth oedd dysgeidiaeth Plotinus; ac er mai un o'i brif ddybenion oedd adnewyddu Paganiaeth yn ngwynneb cynnydd Cristionogaeth, yr oedd ei ddull o feddwl, a rhai o'i syniadau, yn ennill rhyw gymaint o gydymdeimlad dyn mor Gfstonogol ag Awstin. Canfyddir dylanwad Plato ar Schelling yn mhrif elfen ei gyfundraeth—*Intellectual Intuition*; ac y mae yn amlwg fod olion y ddau ar ysgrifeniadau Coleridge yn y lle mawr a rydd i reswm mewn cyferbyniad i'r deall, er

fod Coleridge ymhell o fod yn ysgar yr *intuitions* oddiwrth weithred-  
iadau y deall, neu eu gwneuthur yn annibynol arnynt, fel y gwna rhai;  
ac yn unol â'r cymesuredd yma yn ei olygiadau, nid yw yn dystyru y  
prawfion cyffredin o'r bôd o Dduw, er y gwada y posibilrwydd o ym-  
resymu i fyny ato, ac y gesyd bwys y dystiolaeth i orwedd ar y  
cyngreddfau. Mae gweithiau Carlyle hefyd yn cael eu treiddio gan  
naws ac ysbryd yr un athrawiaeth.\*

Yr oedd y syniad hwn yn cael arbenigrwydd yn addysg y Tadau  
Eglwysig enwocaf ar Fôd a Natur Duw. Un achos o hyny oedd ys-  
brydolrwydd eu meddyliau, ac yr oedd yr ysbrydolrwydd hwnw yn  
cael ei feithrin trwy eu cydnabyddiaeth âg athroniaeth Plato ac ysgrif-  
eniadau Philo yr Iuddew. Yr oedd yr ysgol Alexandriaidd o dduwin-  
nyddion yn cael ei nodweddu gan hyn yn gymaint a dim—y pwys a  
roddai ar gydweddiad Cristionogaeth âg egwyddorion sylfaenol rheswm.  
Sylwa Neander fod ysgrifeniadau y Tadau yn llawn o ymdriniaethau ar  
fôd a natur Duw; eto fod yr ysgrifenywyr yn amrywio yn eu trefn neu  
eu dull, yn ol graddau eu hamaethiad blaenorol: rhai o honynt wedi  
eu parotoi trwy efrydiaeth o Plato, ac eraill yn gymharol amddfaf o  
ddiwylliant yn gystal ag o allu athronyddol. Ond er y gwahaniaeth oedd  
rhyngddynt, yr oeddynt yn gyffredinol yn gosod y prif bwys ar ymwy-  
byddiaeth cynhenid y meddwl ddynol. Y prif brawf o'r bôd o Dduw  
oedd dystiolaeth y meddwl ei hun. Ymysg y Tadau Groegaidd a'r Tadau  
Lladinaidd cawn eiriau o'r un ystyr a "dwfnblanedig," "cynreddfol, cyn-  
henid;" ac at yr egwyddorion a ddynodir felly ganddynt y maent yn  
fwyaf mynych yn apelio. Darnodiad Justin Martyr o ffydd yn Nuw  
ydyw "darbwylliad wedi ei blanu yn y natur ddynol o rywbeth nas  
gellir ei draethu." Yr oedd Clement o Alexandria yn gwadu y posibil-  
rwydd o brofi y bôd o Dduw, am fod prawf, yn ystyr fanylaf y gair, yn  
gorphwys ar osodiadau gwybyddus o'r blaen: mae y bôd o Dduw, yn  
ei olwg ef, mor sicr fel nad oes angen ei brofi, ac fel pob gwirionedd  
sylfaenol, yn gorwedd mor ddwfn yn y meddwl fel nad oes un gwir-  
ionedd yn gorwedd odditono. "Mae y drychfeddwl am y Bôd Gor-  
uchaf yn rhagflaenu pob un arall, yr hwn yr ymfefir ynddo yn unig gan  
fydd, gan ras, gan waith Duw yn dadguddio ei hun." Gellir tadogi dos-  
barth o syniadau y ganrif hon ar y dywediad hwn o eiddo Clement; ond  
y mae Neander yn barnu fod yma gamsyniad; fod Clement yn cymysgu  
dau syniad oedd yn perthyn i ddau ddosbarth gwahanol—y syniad  
rhesymegol am y Diammodol, yr hwn, yn ol golygiad rhai o'r hen  
athronwyr, a gallasai ychwanegu dosbarth o'r rhai diweddar, nas gellir  
ei gyrhaedd trwy ymchwiliad gyddonol—a'r syniad am y Duw byw,

\* Cymerer yr engraffit ganlynol:—"To the vulgar eye of Logic, what is man? An omnivorous Biped that wears clothes. To the eye of Pure Reason what is he? A soul, a Spirit, and divine Apparition. Round his mysterious Me, there lies, under all those woolrags, a Garment of Flesh (or of Senses), contextured in the Loom of Heaven; whereby he is revealed to his like, and dwells with them in *Unison* and *Division*; and sees and fashions for himself a Universe, with azure Starry Spaces, and long Thousands of Years. Deep-hidden is he under that strange Garment; amid Sounds and Colours and Forms, as it were, swathed in, and inextricably overshadowed: yet it is skywoven and worthy of a God. Stands he not thereby in the centre of Immensities, in the conflux of Eternities? He feels: power has been given him to know, to Believe; nay, does not the Spirit of Love, free in its celestial primeval brightness, even here, though but for moments, look through? Well said Saint Chrysostom, with his lips of Gold, 'The true Shecinah in Man:' where else is the God's Presence manifested not to our eyes only, but to our hearts, as in our fellow-man?"—*Sartor Resartus*, Chap. x. Pure Reason,

yr hwn a berthyn i'r ymwybyddiaeth crefyddol. Mae Clement, pa fodd bynag, yn dadleu yn gryf dros fodolaeth diammheuol ymwybyddiaeth o Dduw yn y meddwl. Dywed fod ymhob dyn fath o ffrydiad oddiwrth Dduw, yn rhinwedd pa un y maent, yn erbyn eu hewyllys, yn cydnabod yr Un Duw tragwyddol. A'r un modd Origen hefyd, yr hwn a ystyria bresenoldeb y drychfeddwl fel prawf o gydrywiaeth, o leiaf o agoswydd a pherthynas, natur dyn a natur Duw. Yr oedd Tertullian yn elyn i athroniaeth, yn yr hon yr oedd amryw o'r hen Dadau yn ymhyfrydu; ond yr oedd yntau, yn rhinwedd ei ysbryd crefyddol dwfn a thanbaid, yn hoff o'r syniad fod natur dyn yn cael ei threiddio gan bresenoldeb Duw. Mae rhai o'i frawddegau ef ar y mater hwn wedi cael eu dyfynu trwy yr oesoedd can fynyched ag eiddo neb o'r Tadau: "Anima naturaliter sibi conscia Dei: De testimonio animae naturaliter Christianae." Nid ellir gwadu bôd a natur Duw, nac ychwaith eu dirnad. Nid oedd ganddo ddigon o amynedd i lunio prawf o fodolaeth Un Duw yn erbyn yr aml-dduwiad; nid oedd ganddo fawr o olwg ar brawf o'r fath; nid oedd yn teimlo fod ar yr eglwys angen am dano; yr oedd y gwirionedd yn rhy eglur, ac nid oedd yn bosibl ei brofi trwy resymeg. Mae ymysg dynion fath o *sensus publicus* o'r gwirionedd hwn—cynnysgaeth wreiddiol yr enaid (ymadrodd hapus dros ben)—yr hwn, er cael ei gaethiwo gan drachwantau, ei lyffetheirio gan addysgiad cyfeiliornus, ac er gwasanaethu duwiau gau, eto, pan yn cael ei ddihuno o'i gwsg, sydd yn codi ei lef i fyny at Dduw. "Nis gellir cuddio Duw; mae yn wastad yn dadguddio ei hun. Mae yr oll o honom yn yr oll yn tystiolaethu am dauo Ef. Y Duw ag y mae yn rhaid yn gyntaf ddwyn prawfion o'i fôd, nis gall hwnw fod y gwir Dduw." Yn yr un dull y dysga Theophilus o Antioch: mae mewn dyn rywbeth gwreiddiol yn awyddu am Dduw, ac yn ei ddysgu am ei fôd a'i gymeriad. Ond y mae eglurder yr argraff o'r Dwyfol ar y meddwl yn ymddibynu ar burdeb moesol y meddwl ei hun. Mae yr aml-dduwiad yn gofyn i Theophilus, "Dangos i mi dy Dduw." Ateba Theophilus, "Dangos di i mi dy ddyn." Pan geir dyn fyddo yn deilwng o'r enw, nid yw hwnw yn gofyn am brawf o Dduw, am fod natur grëedig bur yn meddu tystiolaeth gadarn am yr Anfeidrol. "Dywed i mi yn gyntaf pa un a yw llygaid dy enaid yn gweled, a chlustiau dy galon yn clywed. Oblegid fel y mae llygaid y corff yn canfod gwrthdrysau daearol—goleuni a thywyllwch, gwyn a du, harddwch a hagrwh—felly y mae clustiau y galon a llygaid yr enaid yn gallu canfod pethau dwyfol. Mae Duw i'w weled gan y sawl a allant ei weled, pan y maent yn agoryd llygaid eu heneidiau. Mae gan bob dyn lygaid, ond y mae llygaid rhai yn ddeillion fel nas gallant weled goleuni yr haul. Ond nid yw yr haul yn peidio bod am eu bod hwy yn ddeillion; eu dallineb ydyw yr achos nad ydynt yn gweled. Dyma yw dy gyflwr di, O ddyn! Mae llygaid dy enaid wedi eu tywyllu gan bechod, hyd yn nod gan dy weithredoedd pechadurus. Yn debyg i ddrych gloew, mae yn rhaid i ddyn wrth enaid pur. Os bydd rhwd ar y drych, nis gall dyn weled adlewyrchiad o'i wyneb ynddo; a'r un modd os bydd pechod mewn dyn, nis gall weled Duw." \*

\* Hagenbach's *History of Doctrines*. Shedd's *History of Christian Doctrine*. Neander's *History of Christian Dogmas*.



Oddiwrth y crynodeb uchod, yr hwn y galleid ychwanegu ato trwy ddilyn yr athrawiaeth i lawr at Dadau diweddarach, ac at Bernard ac Anselm, ni a welwn fod y syniad am wreiddiolder a dyfnder y drychfeddwl am Dduw, ac am y lle mawr sydd iddo yn ffurfiad y ddirnadaeth am Dduw, yn cael ei dderbyn yn gyffredinol yn yr eglwys, a bod y prif ddysgawdwy'r yn gosod pwys mawr arno. Gellir sylwi ymhellach eu bod, ar y cyfan, yn ymgadw oddiwrth syniadau gwylltion, eithafol, wrth ymdrin âg ef. Ond nis gellir dyweyd hyny am bob ymdriniaeth arno. Mae rhai yn ysgar y drychfeddwl oddiwrth bob peth arall yn y natur; yn ei wneuthur yn "wreichionen danllyd" yr hon a all losgi a chynneu yn rhinwedd ei bywyd cynhenid ei hun, ac heb dderbyn tanwydd oddi-allan trwy gyfathrach y meddwl â'r dadguddiad o Dduw yn ei weithredoedd. Yr oedd y Tadau yn gymharol rydd oddiwrth y rhyseidd meddyliol ag y mae athroniaeth y drychfeddyliau wedi bod yn achlysur i arwain rhai iddo. Ac i gael engreiffitiau o'r rhyseidd hwn, mae yn rhaid myned at Plotinus yn y dyddiau gynt, Schelling a'i ddysgybllion yn y ganrif hon, a dosbarth o'r cyfrinwyr eglwysig yn y canol-oesoedd.

Mae yr athrawiaeth y cyfeiriwn ati yn dysgu fod dyn yn dyfod i gyffyrddiad âg egwyddorion gwreiddiol ei natur, ac yn cyrhaedd yr adnabyddiaeth o Dduw, trwy ganfyddiad digyfrwng. Mae y canfyddiad hwn yn annibynol ar berthynas yr egwyddorion hyn a'r ymddangosiadau y mae y meddwl yn dyfod i gyffyrddiad â hwynt trwy y synwyrâu corfforol. Edrychir ar y gallu sydd yn eu canfod fel cynneddf neu synwyr neillduol, swydd pa un ydyw dwyn y meddwl i wyddfod y Tragywyddol, megys mai swydd cynneddfau is ydyw bod yn gyfryngau cymundeb rhwng y meddwl â'r gweledig a'r terfynol. Mae y gallu hwn yn syllu yn uniongyrchol ar "y pethau ni welir, y rhai dynt dragywyddol;" a goreu po leiaf y byddo a wnelo â gwrthddrychau y synwyrâu: mewn unigrwydd o'r neilldu, uwchlaw twrf y byd, a hudolion y synwyrâu, y mae y gynneddf hon yn ei helpen: dystawrwydd ydyw ei hawyrgylch: nid annhebyg ydyw i ysbrydoliaeth yr hen brophwydi: mae yn fwyaf effro pan fyddo y galluoedd eraill yn cysgu: po bellaf fyddo y meddwl oddiwrth ddylanwadau y gweledig, mwyaf llwyr fydd ei gymundeb â'r ysbrydol, a dyfnaf fydd ei ganfyddiad i mewn iddo. Yn awr, cyn myned ymlaen i wneuthur dim sylwadau ar y golygiad hwn, dylem gydnabod, fel yr awgrymwyd eisoes, fod y meddylwyr galluocaf yn hanes y byd yn ei ddysgu i raddau mwy neu lai, yn enwedig y meddylwyr mwyaf ysbrydol, pa un bynag ai yn yr eglwys neu y tu allan iddi. Mae pawb sydd yn gyfarwydd â hanes athroniaeth yn gallu adgofio lliaws o'r enwau uchaf yn Groeg, ar Gyfandir Ewrop, ac yn Mhrydain, oeddynt yn dysgu yr athrawiaeth hon. Perthyn i'r ysgol hon yr oedd duwinyddion Platonaidd Lloegr yn yr ail ganrif ar bymtheg, More, Cudworth, Smith, &c. A'r un modd prif athronwyr neu Cyfandir yn nechreu y ganrif hon: a phan y byddo athronydd neu dduwinydd hefyd yn fardd, mae bron yn sicr nad all lai na chydymdeimlo â'r dull hwn o feddwl, a chydolygu âg ysbryd a thuuedd yr athroniaeth, pa un bynag a all dderbyn ei holl syniadau ai peidio. Mewn awdwyr athronyddol tebyg i Schelling, neu rai o'r hen gyfrinwyr mwyaf tanbaid ac eithafol, y cyfarfyddwn â'r ffurfiau hyny arni nas gallwn roddi derbyniad iddynt. Nid nad oes llawer o

wirionedd yn gorwedd dan syniadau eithafol yr hen gyfrinwyr; ac yr oedd y syniadau hyny, fel yr oeddynt, yn wrthdystiad iachus yn erbyn ffurfioldeb oer, diffrwyth, a daearol, yn y dulliau cyffredin o feddwl. Eto, pan ymofynwn am wirionedd pur—gwirionedd i bob oes—nid ydym yn ei gael yn ysgrifeniadau y cyfrinwyr. Dichon fod eu heithafiaeth hwy yn troi yn wasanaeth ar y pryd; ond nid oedd llesoldeb eu hysgrifeniadau ar adeg neillduol yn brawf eu bod yn bur ddigymysg: er fod ynddynt swyn dirgelwch a graddau helaeth o'r crefyddolder dyfnaf, eto y mae ynddynt hadau niweidiol, yn gymaint a bod rhai o'r egwyddorion yn cael eu cario yn rhy bell, ac eraill yn cael eu hysgar oddiwrth wirioneddau ag y mae perthynas hanfodol rhyngddynt â hwynt. Rhagoriaeth cyfriniaeth ydyw ei hadnabyddiaeth ddofn o'r ysbrydol. Ei diffyg ydyw diffyg cyfarwydd a chymesuredd; mae yn ddisylw o rai o'r pethau pwysicaf, ac fel canlyniad naturiol, mae yn gosod pwys gormodol ar bethau eraill. Dichon mai y galluocaf o'r holl gyfrinwyr oedd Eckart, ac y mae yn hawdd canfod cyffelybrwydd mawr mewn llawer o'i syniadau i'r eiddo Plotinus neu Schelling. Dywed yr olaf yn debyg i hyn:—"Mae y meddwl, trwy ganfyddiad (*intuition*), yn myned yn un â'i wrthddrych; mae yn myned yn un â Duw. Dyrchefir ef allan o hono ei hun, ac y mae mewn rhyw ystyr ar y pryd yn meddwl meddyliau dwyfol—yn edrych ar bethau oddiar y safle uchaf y gall meddwl ei chyrrhaedd—yn edrych ar feddwl ac ar fater o ganolbwynt eu hunrhywiaeth." "Mewn rhyw ystyr," dymunem i'r darlennydd sylwi, y dywedir fod dyn yn "meddwl meddyliau dwyfol;" gellid gofyn, ymha ystyr? Achwyniad rhai yn erbyn yr athroniaeth gyfriniol ydyw fod llen o ddirgelwch ar wyneb ei syniadau. Addefir fod y wynebpryd yn brydferth, ond y mae y gorchudd yn ei guddio; a dichon pe tynid ymaith y gorchudd na fyddai y prydfwrthwch yn gymaint. Pa fodd bynag, yr athroniaeth a lefara fwyaf am ganfyddiad eglur o ddrychfeddyliau yw y leiaf eglur yn ei dehongliad o honynt; yr ydym yn golygu athroniaeth y drychfeddyliau yn unig yn y ffurf eithafol a roddir arni gan Plotinus a Schelling. Mae athroniaeth grefyddol Eckart yn gyffelyb. Dyma rai o'i ddywediadau: Dyledswydd benaf dyn ydyw sylweddoli yn wastadol ei undod (nid ei undeb) â Duw. Pan gyrhaedda hyny trwy anghofio ei hun, y mae yn ymwybodol o'r dwyfol yn ei enaid; mae Duw wedi sylweddoli ei hun ynddo; ac y mae y cyfryw wybodaeth yr un â gwybodaeth Duw o hono ei hun; y rheswm am hyny yw, mai un yw pob ysbryd. (Pa fodd yr un?) Mae gwahaniaethu y dwyfol mewn dyn oddiwrth y Duwdod yr un peth a cheisio dryllio undod yr Un Ysbryd cyffredinol, yr hwn nis gellir ei ranu; yr un peth a sefyll ar dir isel dirnadaeth feidrol yn myd yr ymddangosiadau diflanedig. Ond y mae gwir blentyn Duw yn tori trwy y fath wahaniaethau at yr Undod ei hun.\* Mae yn anhawdd deall yr ymadroddion hyn heb eu deall fel yn dysgu Pantheistiaeth, yr un modd a geiriau cyffelyb yn Schelling a Hegel. Os dywedir nad oedd Eckart yn bantheistaidd, mae yn rhaid caniatáu fod ei eiriadaeth yn dra anhapus, os nad oedd ei ddirnadaeth hefyd yn gymysglyd. Yr un pryd, nid yw ei ymdriniaeth ef ar y canfyddiad digyfrwng o'r dwyfol yn agored i.

\* Vaughan's *Hours with the Mystics*, Vol. I. 364.

gynifer o wrthddadleuon â rhai o ymadroddion cyfrinwyr eraill llai galluog.

Dichon na ddylid amcanu at fanylder wrth feirniadu cyfriniaeth, mwy nag y dylid cymhwysu at farddoniaeth yr un rheolau ag at ryddiaith. Cyfundraeth teimlad yw cyfriniaeth, a geiriau i'w teimlo yw geiriau ei dysgawdwyr. Ond os ydyw i'w beirniadu o gwbl, mae yn amlwg ei bod, yn ei ffurf fwyaf eithafol, yn agored i wrthddadleuon o bwys. Yn un peth, nid yw tystiolaeth ein hymwybyddiaeth yn ei gwirio. Mae yn wir y boddlonai y cyfrinwyr eu hunain ar yr wrthddadl hon. Y maent yn ei gwahodd. Nid ydynt yn gwneyd y cyfrif lleiaf o honi. Y maent yn diystyru yr ymwybyddiaeth cyffredin. Dywedant nad yw y canfyddiad digyfrwng yn etifeddiaeth pawb; nad cynnysgaeth dyn fel y cyfryw ydyw, ond rhagorfraint yn nghyrrhaedd rhyw ychydig o ddyinion. O ganlyniad, nid yw o'r pwys lleiaf os yw y canfyddiad hwn yn absennol o ymwybyddiaeth hwn a'r llall a'r trydydd; ac nid yw y dyn o feddwl anghoeth a chnawdol yn fwy addas i farnu ar y fath bwnc nag yw y dall i farnu ar liwiau, neu y byddar ar seiniau. Bydded felly, ynte: yr ydym ni yn dal fod rhyw ymsyniad â'r diderfyn, i raddau mwy neu lai, ymhob dyn, ac y gellir appello ar y mater o fodolaeth Duw at ymwybyddiaeth y lliaws; a dyma ddysgediaeth yr eglwys o ddyddiau Tertullian, gyda'i *sensus publicus*, hyd ddyddiau Calvin, yr hwn, yn nechreu ei sylwadau am Dduw, yn ei *Institutes*, sydd yn gwneyd cyfrif mawr o dystiolaeth wreiddiol y meddwl ymhob dyn. Heblaw hyny, camsyniad diammheuol ydyw fod y drychfeddyliau gwreiddiol yn cael eu canfod, allan o bob perthynas â gwrthdrysychau tu allan i'r meddwl. Yn y cyffyrddiad â'r byd oddiallan y maent yn cael eu deffroi a'u dadblygu; trwy y neillduol yr ymgyfyd y meddwl at ymwybyddiaeth o'r cyffredinol. Mae y ffurf hon ar athroniaeth y drychfeddyliau yn ysgar egwyddorion y rheswm oddiwrth farnau y deall a chanfyddiadau y synwyr, ac felly yn ysgar y pethau a gysylltodd Duw yn natur dyn; a chanlyniad y cyfryw ysgariad ydyw llanw gardd y cynghreddfau â chwyn: mae efrau yn tyfu ymysg y gwenith, a'r efrau mor debyg i'r gwenith fel y maent yn cael eu cymeryd yn eu lle; mewn geiriau eraill, yn niffy beirniadaeth y deall cymerir fel cynghreddfau rai tueddiadau nad ydynt ond cynnyrch hir brofiad. Yn hytrach na bod ymddattodiad neu ymneillduad oddiwrth ymddangosiadau y byd gweledig yn angenrheidiol er dadblygiad cyflawn y cynghreddfau, mae ffurf gywir athroniaeth y drychfeddyliau yn dysgu mai mewn cymundeb â'r ymddangosiadau hyny y mae y cynghreddfau yn cael eu dwyn i'n hymwybyddiaeth ar y cyntaf, heb son am raddau uchaf eu dadblygiad. Mae pwysau yn adenydd yr aderyn, ond yn hytrach na'i rwystro i ehedeg, nis gallai ehedeg hebddynt; a'r un modd, fel y sylwa Kant, y mae canfyddiadau uchaf y meddwl—egwyddorion dyfnaf y rheswm—yn dyfod i'n hymwybyddiaeth trwy weithrediad y synwyr a'r deall. Trwy yr allanol y deffroir y tufewnol; a byddai mor resymol meddwl y gallai yr aderyn ehedeg yn well heb ei adenydd, am fod pwysau ynddynt ac am y teimla yr awyr yn eu hattal, ag ydyw i'r athronydd cyfriniol dybied fod ymddattodiad oddiwrth fyd y synwyr a'r deall yn angenrheidiol i'r canfyddiad uchaf o Dduw. Yn y lle nessaf, mae y syniad hwn yn groes i ddysgediaeth y Bibl. Y mae gan Lyfr

Duw ei athroniaeth; ac yr ydym yn hyderu nad ydym yn ei sarhâu wrth ddyweyd ei fod, o'r dechreu i'r diwedd, yn ymgadw yr un mor bell oddiwrth synwryddiaeth ag oddiwrth ffurf eithafol athroniaeth y drychfeddyliau. Tra y mae yn apelio at egwyddorion gwreiddiol dyn, fel creadur ar lun Duw, y mae hefyd yn rhoddi arbenigrydd ar yr amlygiadau allanol o Dduw yn ei weithredoedd. "Mae anweledig bethau y Creawdwr i'w gweled yn amlwg, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed." Mae y gair *gweled yn amlwg* yn arwyddo fod gallu yn meddwl dyn i weled Duw; ac y mae y geiriau *wrth eu hystyried* yn cyfeirio at weithrediad y gallu hwnw, ac yn dangos pa fodd y mae yn dyfod i weled yr anweledig bethau yn amlwg; y mae yn eu gweled nid trwy gipdrem esgeulus, ond wrth edrych yn ofalus a myfyriol arnynt yn y pethau a wnaed; ac yn mhresenoldeb y pethau hyn y mae ei olygiad am Dduw yn dyfod yn glir, ac nid pan y mae yn troi ei gefn ac yn cau ei lygaid arnynt. Fel y mae athroniaeth gyfriniol Schelling yn ysgar y meddwl oddiwrth y byd oddiallan, felly hefyd y mae duwinyddiaeth gyfriniol Eckart yn gwneuthur y meddwl yn annibynol ar y Bibl. "Gwreichion-en yr enaid" sydd i oleuo y Cristion yn hytrach na dadguddiad y Gair. Drachefn, mae yr athroniaeth hon yn rhanu y meddwl; yn ysgar yr *intuitions* oddiwrth y galluoedd. Torir ar undod y meddwl er mwyn cwblhâu undod y dyn â Duw. Ac y mae yn amlwg fod ynddi dueddiad pantheistaidd. Gwna y meddwl yn un â'r gwrthddrych, a meddwl a mater yn un â Duw. Undod ydyw ei gair mawr, yn hytrach nag undeb. Nôd perffeithrwydd ydyw ymgolli yn yr un ysbryd cyffredinol. Ac fel y nodwyd o'r blaen, y mae absenoldeb y cyfryw ganfyddiad o ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o blant dynion yn ddadl derfynol ar y mater. Nis gall mai y canfyddiad digyfrwng ydyw gwreiddyn y ddirnadaeth am Dduw, a'r unig reswm boddhaol o'i fodolaeth; oblegid pe felly, byddai braidd holl ddynolryw yn amddifad o'r dystiolaeth, er eu bod yn ddiwahaniaeth yn hilogaeth Duw. Pe caniateid bodolaeth y canfyddiad digyfrwng, mae yn amlwg nad allai roddi un cyfrif am y syniad a'r dyhead cyffredinol am y prydfferthwch a'r perffeithrwydd sydd i'w cael yn yr Anfeidrol yn unig. Mae yn rhaid olrhain y grediniaeth am Dduw, yn ei helpen ddechreuol, at ryw egwyddorion cynhenid yn y natur ddynol fel cyfan, ac nid at ryw ganfyddiadau uchel yn nghyrhaedd yr ychydig. Yn hytrach na bod y prawf o'r dwyfol i'w olygu fel nôd o flaen y meddyliau mwyaf ysbrydol, y mae yn gorwedd yn ddwfn yn nghyfansoddiad pob meddwl—yn gynnysgaeth dynoliaeth fel y cyfryw—yn cael ei dybied yn holl weithrediadau ysbryd dyn, a'r tu cefn i bob awyddfryd ac ymgais uchel. Mewn gair, mae y grediniaeth am Dduw yn gorwedd ar seiliau lletach a chadarnach na'r rhai a ddarperir iddi yn athroniaeth Schelling a chyfriniaeth Eckart.

Nid oes un ffaith fwy diammheuol na bod mewn dyn fath o syniad am y Diderfyn; ac y mae yn syniad mor ddwfn-reddfol fel nas gellir ei ddiwreiddio, ac mor naturiol fel y mae yn bresennol yn meddwl y plentyn. Nid drychfeddwl nacaol ydyw, fel y ceisia Hamilton ddangos am dano, ond un cadarnhaol. Mae yn anhawdd deall pa fodd y gellir meddu gwybodaeth am ddrychfeddyliau cydberthynasol heb feddu gwybodaeth gadarnhaol am ddau derm y berthynas. Dywed Hamilton ei hun nad yw meddwl yn nacaol ond cyfystyr â pheidio meddwl o gwbl.

Dywedwn ninnau fod syniadau nacaol yn tybied y meddiant o ryw syniad cadarnhaol. Os gallwn ddynodi gwrthddrych trwy ddyweyd y peth nad yw, onid yw hyny yn arwyddo fod genym ryw syniad cadarnhaol am dano? Mae yn rhaid i ni wybod rhywbeth yn ei gylch, cyn y gallwn amlhâu y ddau air *Nid Yw* mewn cysylltiad âg ef. Nid yw y ffaith ein bod yn defnyddio geiriau nacaol, wrth son am yr *Anfeidrol*, y *Diderfyn*, yr *Anweledig*, yn un prawf mai nacaol yw ein holl syniad am dano. Nid yw ffurf nacaol y geiriau ond un o ddygwyddiadau iaith.\* Ac y mae yr un drychfeddl yn cael ei osod allan yn gadarnhâol mewn geiriau tebyg i Perffaith, Tragwyddol, Hunanfodol, &c. Er fod *dall* yn air cadarnhaol, nacaol yw y syniad, hyny yw, syniad am absennoldeb neu amddifadrwydd o allu; ac y mae *anfaruol* yn rhoddi syniad cadarnhaol, er mai nacaol ydyw ffurf y gair. Drachefn, dylid gwahaniaethu rhwng yr amhenodol (*the indefinite*) a'r diderfyn. Haera rhai nad yw y diderfyn, neu yr anfeidrol, ond enw arall ar yr amhenodol, neu yr hyn nad allwn weled ei derfynau. Ond y mae yn amlwg mai nodwedd y syniad ei hun ydyw amhenodolrwydd, ac nid nodwedd ei wrthddrych. Gellir dangos y gwahaniaeth mewn brawddeg fel hyn,—Y mae gan y meddwl syniad amhenodol am y diderfyn. Yn awr, nodwedd y syniad yw y gair amhenodol, tra mai nodwedd gwrthddrych y syniad yw y gair diderfyn.

Yr ydym gan hyny yn barnu fod y syniad am y diderfyn neu yr anfeidrol yn syniad cadarnhaol o ran ei natur, yn syniad cynhenid neu naturiol o ran ei wreiddyn, ac yn syniad cyffredinol o ran ei gylch. Nid caffaeliad yr ychydig ydyw, ond cynnysgaeth holl ddynolryw, ac fel y cyfryw yn arwydd o'u bonedd fel hiliogaeth Duw. Dichon y dywedai ambell ddyn na fu erioed yn ymwybodol o bresennoldeb y drychfeddl; a byddai lliw o wirionedd yn yr haerid, ond dim mwy na hyny. Nid yw pob dyn yn gyfarwydd â holl gynnwys ei ymwybyddiaeth. Nid yw yn deall yr oll a wyr. Nid yw yn medru esbonio ei holl deimladau, yn enwedigol y teimladau hyny sydd yn cyfranogi i ryw fesur o naws yr ysbrydol. "Diau fod Duw yn y lle hwn, ac nis gwyddwn i." Yr oedd y bachgen Samuel yn clywed y llais, ond nid efe, ond Eli, oedd yn deall mai yr Arglwydd oedd yn galw arno. Yr ystyriol a'r myfyrgar sydd yn cyrhaedd llawn ymwybyddiaeth o'r syniad. Y cyngor dwyfol i ddynion ydyw, "Ymddyddenwch â'ch calon ar eich gwely, a thewch." Pan fyddom mewn neillduaeth yn ymwithio i neillduaeth ein hysbrydoedd ein hunain, yr ydym yn dyfod yn ymwybodol o'r berthynas sydd rhyngom â'r diderfyn. Nid ydym, wrth ysgrifenu fel hyn, yn meddwl yr un peth a'r cyfrinwyr, pan soniant am ganfyddiad digyfrwng o'r dwyfol. Son yr ydym ni am gyffyrddiad â'r syniad am y diderfyn yn ein hysbrydoedd ein hunain, ac am yr angenrheidrwydd o feddylgarwch ac ystyriaeth mewn trefn i sylweddoli y syniad. Gall llaweroedd fod yn anymwybodol o hono trwy ddiffyg myfyrdod, a thrwy gael eu byddaru gan ddadwrdd y nwydau a'r trachwantau; oblegid y mae bloeddiadau y rhai hyn mor groch nes boddi y sibrwd tu hwnt i'r llen. Ac eto nid yw anymwybyddiaeth y dynion mwyaf daearolfryd yn anymwybyddiaeth llwyr. Beth yw yr

\* *Lectures on Language*; Max Müller. Second Series, 576.

anesmwythyd a brofant ar rai achlysuron—y syched aniwall am rywbeth na wyddant pa beth—yr ymroddiad ychwanegol i'r byd neu i bleser—yr amddifadrwydd hollol o bob teimlad tebyg i dangnefedd—beth yw hyn oll ond prawf fod ymhob dyn, hyd yn nod yr iselaf o ddynion, ryw syniad am y diderfyn, a'r syniad hwnw yn ymddangos yn y ffurf o angen, a'r angen yn amlygu oi hun mewn yspeidiau o anesmwythyd! Mae dynion o'r fath yn debyg i rai a glywir yn achwyn nad ydynt yn teimlo yn hollol iach a chysurus, er nas gallant ddyweyd pa beth sydd yn eu blino. Ac y mae y cyfryw sefyllfa yn gystal prawf o'r syniad cynhenid am y diderfyn ag ydyw yr awyddfryd mwy penodol yn meddwl y dyn ysbrydol a dwfnfyfyrgar.

Ar ryw gyfrif y mae y drychfeddwl hwn yn egwan ynom, ac fel ysbryd yn diflanu o'n gafael, pan y dechreuwn ymaffyd ynddo. Ac nis gall lai na bod felly : yr anfeidrol ydyw ei wrthddrych, yn yr hwn y mae y meddwl yn ymgolli ; ac nid yw y syniad ei hun o'r natur, nac yn gynnyrch yr un gallu o eiddo y meddwl, a'r syniadau a feddwn am bethau y synwyrâu. Ac eto, er ei fod mewn un ystyr yn syniad egwan, y mae ar gyfrif arall yn un o syniadau grymusaf y meddwl. Mae yn ymwithio i bob cysylltiad. Mae yn ein dilyn i bob man. Mae yn gorwedd o'r tu ol i'n holl feddyliau. Mae yn ymdaenu fel mantell dros holl naturiaeth. Nis gallwn ymddatod oddiwroth wrth feddwl am amser, am le, am achos ac effaith, am ymddangosiadau y byd gweledig. Yn mrig yr hwyr ar hirddydd haf, ni a welwn ddau yn rhodio yn araf ar y traeth. Tad a phlentyn yw y ddau ; ac y mae tawelwch y prydawn, swm y tônau, a'u hunigrwydd hwythau, wedi eu dwyn i agwedd fyfyrion. Mae y tad yn craffu rhagddo i'r pellter, yn craffu eilwaith, ac yn estyn ei olygon i bwynt mor bell nes y mae yn prafuso pa un a yw yn canfod rhywbeth ai peidio : ond tu hwnt i'r pwynt pellaf y mae yn credu fod yna wagle ; pe cryfheid ei olygon i'r fath raddau nes tafu y pwynt ganwaith pellach, byddai yr un syniad am yr annherfynol yn aros. Nis gall ddychymygu am derfyn i'r eangder, a pha derfyn bynag a osodir gan y synwyrâu neu y deall, nis gall beidio meddwl am ryw wagle tu hwnt i'r terfyn hwnw. Nis gallwn ddychymygu am derfyn i'r gwagle, oblegid nis gallwn feddwl am wrthddrych ond mewn lle. Pe cymerem hamdden i greu mewn dychymyg filiwn o fydoedd yn y gwagle—ie, miliwn o gyfundrefnau o fydoedd—byddem dan orfod i feddwl am bob byd a phob cyfundrefn mewn lle : gallwn yn hawdd ddychymygu terfyn i'r bydoedd, ond nis gallwn osod terfyn i'r gwagle. Os gallwn feddwl am derfyn i'r gwagle, yr unig ffordd ydyw trwy feddwl am ryw wrthddrych yn ei derfynu ; ond y mae yn rhaid i ni drachefn feddwl am y gwrthddrych hwnw mewn lle, a gwagle tu hwnt iddo. Mae yr un peth yn bod yn ein syniad am amser, ac am achos ac effaith ; ac oddiar yr un syniad y mae genym ryw ddrychfeddwl am ddaioni a phrydferthwch nad yw yn cael ei sylweddoli gan ddim o fewn y gweledig. Pe dywedai athronydd y synwyrâu fod syniad y tad ar y traeth am y diderfyn—yr hwn a ddeffroir i weithrediad ynddo wrth edrych ar y môr mawr, llydan—yn cyfodi oddiar ei wybodaeth flaenorol o eangder y greadigaeth, gallem ateb fod yr un syniad yn meddwl y plentyn ; a phwy a wŷr nad yw yn gryfach yn meddwl y plentyn, yr hwn y mae ei ddychymyg heb ei bylu a'i galon heb ei daearoli i'r un graddau â phechaduriaid yn gyffredin ?

Gadawer i ni yn awr edrych ar y syniad am y diderfyn yn ei berthynas âg achos ac effaith. Nid yw y ddadl oddiwrth achos ac effaith yn ymddibynu yn gwbl ar y golygiad athronyddol ar egwyddor achosiant. Pe derbynid syniad Hamilton, neu hyd yn nod yr eiddo Hume a Mill, y rhai ydynt, yn ein tyb ni, yn anghywir, er nad i'r un graddau, nid ydym yn gweled y diddymid grym y ddadl dros y bôd o Dduw. Mae ei grym yn codi oddiar yr elfenau hyny mewn achosiant ag y cytuna dynion yn gyffredin arnynt, ac nid ar y pethau mwy dwfn sydd mewn dadl ymysg athronwyr. Er fod Hume, a hyd yn nod Hamilton, ymhell islaw y gwirionedd yn eu golygiadan ar egwyddor achosiant, eto yr oeddynt hwy eu hunain, fel y cyffredin o ddynolryw, yn credu am ba beth bynag a ddechreuodd fôd, fod yn rhaid i rywbeth arall fod o'i flaen fel sail neu reswm ei fodolaeth. Addefa Hume fod dynion yn gyffredinol yn teimlo fod yn rhaid i'r hyn a elwir yn achos flaenori yr hyn a elwir yn effaith. Gwahaniaetha oddiwrth athronwyr mwy dwfn-dreiddiol mewn dau beth: o barth ffynnonell y syniad o angenrheidrwydd, ac o barth natur y cysylltiad rhwng yr achos a'r effaith. Fel y dywedasom, nid yw golygiad isel Hume ar achosiant yn dinystrio y ddadl; hyd yn nod pe byddai yn wir, arosai y ffaith fod dynolryw yn gyffredinol yn olrhain pob dygwyddiad at rywbeth o'r tu ol iddo fel rheswm digonol am dano; ac os dygwyddiad yw y bydysawd, ac nid bodolaeth angenrheidiol, ymfynna y meddwl am reswm neu sail iddi yr un mor naturiol ag yr edrycha am achos i'r hyn a ddygwydda o'i flaen ar y pryd. Mae athronydd y synwyrâu yn cydnabod grym achosiant yn ei efrydiaeth o natur ac o hanesyddiaeth. Mae un peth mewn natur yn rheswm am beth arall: un dygwyddiad yn hanes y byd yn sail i ddygwyddiad arall. Nid ellir edrych ar anian fel un cyfan, nac ar hanesyddiaeth yn amgen nag fel olyniad o ddygwyddiadau heb gysylltiad â'u gilydd, oni b'ai am y grediniaeth mewn achos ac effaith. Ar bob tir, y mae y ddadl oddiwrth achosiant, pan yn cael ei chymhwyso at y Bôd o Dduw, yn meddu yr un grym â phan yn cael ei chymhwyso at bethau cyffredin. Yr un pryd, mae yn rhaid addef fod ei nerth yn llawer mwy pan gymerir i mewn y ddwy brif elfen a adewir allan gan athronwyr y synwyrâu. Y ddwy elfen hyny ydyw: fod yr angenrheidrwydd sydd yn perthyn i'r syniad am achos ac effaith, nid yn gynnyrch profiad, ond yn ddrychfeddwl cynhenid; a bod yr achos yn cynnwys gallu, heb yr hwn ni fyddai yn rheswm am yr hyn a elwir yn effaith; ac o'r meddwl ei hun y mae y syniad hwn, yr un modd a'r llall, yn gwreiddio. Y prif ddiffyg yn neonglied Hamilton o achosiaeth ydyw nad yw yn rhoddi digon o le i'r drychfeddwl o allu. Nid yw yr effaith, yn ol ei athrawiaeth ef, ond ffurf newydd ar beth oedd yn bod o'r blaen. Caniatâer hyny; ond gellid gofyn beth oedd yr achos i beri y newidiad ar y ffurf? Mae rhywbeth mwy yn ein syniad am achos na pharhâd yr un bodolaeth mewn ffurf newydd. Yr achos yw y gallu a barodd newidiad yn y ffurf.\* Mae y meddwl, o hono ei hun, yn

\* "Take the example of a stone broken in two by the stroke of a hammer. We perceive the two pieces of stone—we think them as having previously existed in one whole; but, we have yet to think that a certain power has separated them, before we have realized our notion of causality. Thus, and thus only, can we think a cause. Without realizing in the mind the necessary belief that there has been an operation of power, we fail to identify our notion of causality."—*The Philosophy of the Infinite*, by H. Calderwood, page 144.

myned oddiwrth un dygwyddiad at rywbeth blaenorol i roddi cyfrif am dano, a'r un mor naturiol yn cysylltu gallu â'r rhywbeth hwnw. Mae yr esgyniad yma o eiddo y meddwl oddiwrth y dygwyddiad at ryw allu blaenorol yn weithrediad naturiol yn mhawb. Ymofyna y plentyn am y tegan, pwy a'i gwnaeth, fel y mae yr athronydd yn ymofyn am darddiad natur. Wedi dyfod i wyddfod yr achos agosaf o unrhyw ddygwyddiad, mae y meddwl yn gorphwys; ond am fynydyn yn unig; oblegid yn y fan y mae yn myned ymhellach yn ol i ymofyn am achos i'r achos hwnw, yn gymaint ag nad yw yn cynnwys esboniad ar ei fodolaeth ei hun, er ei fod yn rheswm digonol am yr effaith. Ac yn ol yn barhâus yr ymdeithia y meddwl, yn ngrym angenrhaid gwreiddiol yn ei gyfansoddiad, oddiwrth yr achos agos at achos pellach, ac oddiwrth hwnw at yr achos o hono yntau; ac felly yn ddiattal, ochr yn ochr â chadwyn hirfaith ail achosion, hyd nes y gorphwysa mewn rhyw achos heb achos iddo—yr Achos angenrheidiol a hunanddibynol, yr Hwn sydd yn esboniad am dano ei hun, yn gystal ag am yr holl ail achosion, y rhai, yn eu perthynas âg ef, nid ydynt oll ond effeithiau. Yr ydym, o angenrheidrwydd, yn cysylltu achos digonol â phob effaith; nis gallwn ddychymygu y posibilrwydd i unrhyw fôd neu ddygwyddiad ddyfod i fodolaeth o hono ei hun; ac eto, oddiar angenrheidrwydd cyffelyb, yr ydym yn ymwrthod â'r dybiaeth fod cadwyn y dygwyddiadau yn ymestyn i'r annherfynol. Mae y grediniaeth mewn Achos Cyntaf mor naturiol ac angenrheidiol â'r grediniaeth mewn achos o gwbl. Nis gallwn feddwl am gwrs o weithrediadau ar wahan i ryw allu dechreuol fel ffynnonell y cyfan. Fel yr ymofynwn am achos agos ac uniongyrchol i bob gwrthdrys a phob dygwyddiad, felly hefyd yr ydym yn ymofyn am achos i swm bodolaeth feidrol tu allan iddi ei hun. Nid allwn edrych ar ddygwyddiadau fel modrwyau anghysylltiol; mae ein meddyliau yn eu hûno â'u gilydd fel achosion ac effeithiau, ac wedi hyny yn cylymu y gadwyn gyfan wrth ryw Allu hunanymddibynol, ar yr hwn y mae pob peth arall yn ymddibynu.

Eto mae yn rhaid i ni addef nad allwn esgyn at y Duwdod ar hyd yr ysgol hon. Os ydyw un pen o honi yn ein hymyl ar y ddaear, nid allwn weled y pen arall yn cyrhaeddyd hyd at yr Anfeidrol. Pe b'ai yr amrywiol amlygiadau o Dduw mewn natur, ac yn nghyfansoddiad ein meddyliau ein hunain, yn ffurfio prawf nas gallai neb ei wrthsefyll—prawf y bu rhai o amddiffynwyr y gwirionedd mewn ymdrech i'w ffurfio—mae yn amlwg y byddai y grediniaeth yn Nuw yn angenrhaid ar bob meddwl fyddai yn alluog i ddeall y cyfryw brawf: ni fyddai angen ffydd o gwbl yn y mater, heblaw y ffydd athronyddol sydd yn derbyn egwyddorion gwreiddiol crediniaeth, yr hon nid oes y radd leiaf o rinwedd yn perthyn iddi, am nas gallwn beidio eu derbyn. Er y byddai prawf o'r natur yma mewn un ystyr yn gryfach nag un dystiolaeth arall, yn gymaint ag y gwnelai anghrediniaeth braidd yn anmhosibl, os nad felly yn hollol, eto mewn ystyron eraill byddai yn llai effeithiol: ni fyddai a wnelai y grediniaeth ond â rhan o'r dyn. Ni fyddai y grediniaeth yn Nuw, yr hwn sydd yn berffaith ymhob prydferthwch moesol fel ymhob gallu naturiol, ond cyffelyb i'r grediniaeth yn nghasgliadau mesuroniaeth. Ni fyddai perthynas rhyngddi â'r galon a'r gydwylbod—dim ond â'r deall yn unig. I un gynneddf yn y



meddwl y byddai Duw yn dwyn tystiolaeth o hono ei hun. Ond nid y math hwn o brawf ydyw yr un y dadleuir yn bresennol drosto. Mae yn wir nad yw y ceisiadau galluog i "ymresymu" y Bôd o Dduw, o Anselm hyd Clarke, yn ddifudd. Y maent yn llawn o nerth wrth edrych arnynt fel arwyddion o ddyhead dwfn y meddwl am Dduw, ac nid ydynt mor weiniaid ag y tybia rhai fel dadleuon, wrth edrych arnynt mewn cysylltiad âg awyddfryd dwfn y meddwl dynol am y perffaith a'r diderfyn. Mae Kant ac eraill wedi profi nad all bodolaeth y Bôd mwyaf ganlyn, ar dir rhesymeg, oddiwrth y drychfeddwl am y cyfryw Fôd. Eto gellid gofyn o ba le y cawsom y cyfryw ddrychfeddwl? Byddai yn drychineb o'r mwyaf, yr hyn a wnelai natur dyn yn dwyll, pe byddai ei drychfeddwl uchaf, yr hwn a esyd arni ei holl urddas, heb un sylwedd yn cyfateb iddo. Er nad allwn ymresymu bodolaeth y Perffaith oddiwrth ein drychfeddwl am dano, eto yr ydym yn teimlo fod yn anmhosibl iddo beidio bod; a gall presennoldeb y drychfeddwl hwn gynnorthwyo argyhoeddiad yn y meddwl, er nad yw yn cadarnhâu y casgliad rhesymegol a dynir oddiwrtho. Ac yn gyffelyb am rai o'r prawfion eraill. Nid ydynt yn brawfion yn ystyr gyffredin y gair. Mae yn wir fod cymhwysog egwyddor achosiaeth yn ein harwain yn ddfifeth at yr Achos Cyntaf; ond nid yw y prawf yn cynnwys fod yr achos hwn yn Fôd Anfeidrol. Nid yw y bydysawd, er ei eangder anamgyffredadwy, yn ddiderfyn. Nis gall unrhyw effaith—unrhyw beth y bu dechreuad i'w fodolaeth—fod yn anfeidrol; ac o ganlyniad, nis gellir ymresymu anfeidroldeb yr achos oddiwrth effaith terfynol. Yr unig gasgliad rhesymegol oddiwrth eangder y greadigaeth, a'r nerthoedd anhraethadwy sydd yn gweithio ynndi, ydyw, fod yn rhaid fod gallu ei Gwneuthurwr a'i Rheolwr mor fawr fel nas gallwn gael amgyffred am dano. Eto, nid yw ei fod yn anamgyffredadwy o fawr yr un peth a dyweyd ei fod yn anfeidrol. Mae y terfynol yn fynych yn anamgyffredadwy, ac oblegid hyny yr ydym mor fynych yn methu gwahaniaethu yr anamgyffredadwy a'r anmhenodol oddiwrth yr anfeidrol. Peth yn dwyn perthynas â'r meddwl ydyw yr anamgyffredadwy. Ond y mae yr anfeidrol ynndo ei hun yn anfeidrol, ac yn bod felly ar wahan i weithrediad pob meddwl arno. Ond er nas gall y meddwl ddringo ar hyd grisiau rhesymeg at yr Anfeidrol, y mae yn ei gael, mewn dull arall, wrth ystyried ei anweledig bethau Ef yn y pethau a wnaed. Mae yn llamu ato trwy rym ei syniad cynhenid am y diderfyn. Nid all neb wadu fod dyn yn feddiannol ar y cyfryw syniad. Mae yn deffro yn ei ymwybyddiaeth pan yn meddwl am amser a lle. Ond ynfydrwydd fyddai tybied nad yw i'w gael ond mewn cysylltiad âg amser a lle; oblegid y mae y drychfeddwl am y diderfyn yn cynnwys y diderfyn mewn prydferthwech a daioni, yr hyn nis gall fod ond mewn person; ac nid yw y gwagle diderfyn neu amser diddechreu a diddiwedd ond ffurfiau tlotaf y syniad, ac arwyddion o'r un a'r unrhyw syniad yn ei arwedd uchaf a mwyaf cyfoethog yn ei berthynas â'r Duw byw. Felly, yn y ddirnadaeth am Dduw, mae y drychfeddwl cynhenid am yr Anfeidrol yn ymuno â'r syniad am yr achos cyntaf; nid, yn wir, fod y ddau ddrychfeddwl yn cael eu hasio wrth eu gilydd—eu cysylltu yn beirnianyddol, ond fod y meddwl yn naturiol yn golygu yr anfeidrol a'r Achos cyntaf yr un. Ac y mae yn synied fel hyn o angenrheidrwydd.

Nid ymresymu at yr anfeidrol y mae; mae y drychfeddwl ganddo eisoes, ac y mae yn edrych ar yr un Bôd fel yr Achos cyntaf a'r Anfeidrol ar unwaith, ac nid yn casglu y naill oddiwrth y llall. Er mai meidrol yw y greadigaeth, nis gall feddwl am ei Gwneuthurwr fel bôd meidrol. Mae yr anfeidrol yn gorwedd odditan y meidrol, fel y rheswm am ei fodolaeth. Nis gellir meddwl am allu terfynol yn gwreiddio ynddo ei hun, ac yn pwysu arno ei hun: mae y syniad o ymddibyniad yn perthyn yn hanfodol i'r syniad o feidroldeb. Nis gellir meddwl ychwaith am achos pob peth ond fel Bôd o allu diderfyn, hunanddibynol, angenrheidiol a thragywyddol. Ac y mae y grediniaeth hon am anfeidroldeb y Creawdwr yn cael ei hawgrymu, nid yn unig gan y greadigaeth yn y cyfan o honi, ond hefyd gan bob gwrth-ddrych o'i mewn. Mae maint ac eangder yr oll yn ein dysgu am fawredd gallu y Creawdwr; ond y mae terfynoldeb yr oll a therfynoldeb y rhanau yn awgrymu y Diderfyn. Er nad allwn esgyn ar hyd grisiau ymresymiad oddiwrth effeithiau meidrol at Achos Anfeidrol, eto y mae y drychfeddwl am Achos cyntaf yn cynnwys y drychfeddylliau o fodolaeth angenrheidiol a hunanddibynol.

I derfynu y sylwadau hyn, yr ydym yn barnu fod y ddirnadaeth am Dduw yn lledu ei gwreiddiau trwy ein holl natur. Mae yn syniad—yn grediniaeth—yn deimlad—ac yn awyddfryd. Camsyniad o'r mwyaf fyddai meddwl ei bod yn un o'r pethau hyn ar wahân oddiwrth y lleill. Yn hytrach nag edrych ar y dadleuon oddiwrth derfynoldeb ac oddiwrth drefn y byd allanol, ac oddiwrth natur foesol dyn, fel prawfion o'r Bôd o Dduw, mwy addas ydyw golygu y pethau hyn fel amlygiadau o Dduw mewn natur ac yn y meddwl, ac fel y gwahanol ffyrdd ymha rai y mae dynion yn dyfod i synied am Dduw. Haera rhai mai mater o ffydd ydyw y bôd o Dduw. Ond wrth haeru felly y maent yn ysgar ffydd oddiwrth reswm, ac yn anghofio fod ffydd ei hunan yn cynnwys gwybodaeth. Wrth osod holl bwys y dystiolaeth am Dduw i orwedd ar ganfyddiadau cynhenid y meddwl, yr ydys yn euog o ddibrisio y dadguddiad allanol o Dduw yn ei weithredoedd. Wrth ddyweyd mai yr unig brawf y mae yn werth son am dano ydyw tystiolaeth y natur foesol, gwneir ysgariad ar y meddwl; yn ol hyn, y mae Duw yn amlygu ei hun yn y gydwybod, ond nid yn y deall: mae y deall yn atheistaidd, a'r natur foesol yn cydymdeimlo â Duw. Wrth osod pwys y dystiolaeth ar y dadguddiad allanol yn ngweithredoedd Duw, cymerir rhy ychydig o sylw o egwyddorion gwreiddiol y meddwl, heb y rhai y buasai dadguddiad natur yn ddifudd. Gan hyny, yn hytrach nag olrhain y grediniaeth at ryw un syniad neu i un gynneddf—yn hytrach na darostwng y mewmol er mwyn dyrchafu yr allanol, neu ddarostwng y tystiolaethau oddiallan er mwyn rhoddi mwy o le i reddfau y meddwl—llawer cywirach ydyw edrych arni fel yn cyfodi o'r holl natur,—o'r meddwl, y galon, a'r gydwybod—fel y mae ei hegwyddorion cynhenid yn cael eu deffro a'u cryfhâu trwy gymundeb â'r amlygiadau o Dduw yn ei weithredoedd.

JOHN HUGHES.

## Y GWANWYN.

UST, O clywch ryw angel glân,  
Angel Duw 'n rhoi nefol gân,  
Mae yn 'canu, O mor dlws,  
Fod y Gwanwyn wrth y drws ;  
Clywch ardderchog gôr di ail,  
Yn orielau 'r dysglaer haul ;  
Dringo mae yn wron rhydd,—  
Dringa 'n uwch, dringa 'n uwch, yn uwch bob dydd.  
Clywch o'r eirian gerbyd tân  
Yr angylion yn rhoi cân,  
Gyda lleisiau nefol tlws,  
Fod y Gwanwyn wrth y drws.

Ffrydiau arian lifant draw,  
Tros y mynydd ban gerllaw ;  
Gwena 'r meusydd, gwena 'r coed,  
Dan eu mentyll hardda 'r oed ;  
Cilia oerni, cilia nos,—  
Gwenyn süant ar y rhôs ;  
Canu 'n fwyn wna 'r adar bach,—  
Canu 'n fwyn, canu 'n fwyn i'r Gwanwyn iach.  
Bywyd anian sydd gerllaw,  
Llifa yma, ffrydia draw,—  
Gwena trwy friallu fyrdd  
Tra yn gwisgo 'r byd â gwyrdd.

Cawod o rosynau 'r ne',  
Fritha awyr ferth y de ;  
Plant chwareuant ar y ddôl,—  
Gwanwyn sydd yn d'od yn ol.  
Bloedd llawenydd bywyd sydd  
Yn ein cymoedd nos a dydd ;  
Hafaidd hin y Gwanwyn ddaeth,—  
Hafaidd hin, hafaidd hin y Gwanwyn ddaeth.  
Ust, murmuron engyl sydd  
Wrth arliwio 'r blodau blydd ;  
Clywch nefolaidd gydgan clod,—  
Mae y Gwanwyn wedi d'od.

JOHN PARRY.

## BETH A WNEIR I'R GWYDDELOD?

*Systems of Land Tenure in various Countries.* A series of Essays, published under the sanction of the Cobden Club. Macmillan & Co.

*Tenure of Land in Ireland,* by the Right Hon. M. LONGFIELD, late Judge of the Landed Estates Court in Ireland.

*The Parliamentary History of the Land Question in Ireland from 1829 to 1869; and the Origin and Results of the Ulster Custom.* By R. BARRY O'BRIEN, of the Middle Temple, Barrister at Law. London: Law, Marston, Searle & Rivington.

*Irish Distress and its Remedies.* The Land Question. A Visit to Donegal and Connaught in the Spring of 1880. By JAMES H. TUKE. London: Ridgway.

GWYR pawb sydd yn arfer darllen fod rhyw helynt mawr y dyddiau hyn yn yr Iwerddon—fod y Gwyddelod yn anesmwyth ac anfoddog, ac hefyd, mai felly y maent wedi arfer bod er ys llawer o ganrifoedd. Ond er fod pawb o honom yn gwybod hyn, nid oes ond ychydig yn ein mysg wedi cymeryd y drafferth o edrych i mewn i'r mater, a chwilio a oes rhyw achos i hyn oll. Teimlad y rhan fwyaf o'r Cymry ydyw fod y Gwyddelod yn bobl gas, ddiog, ddiymddiried, ddiddaioni, ac mai yr unig ffordd i wneyd â hwy ydyw yn ol cynllun hen frawd o wleidyddwr goleuedig a breswyliai unwaith yn Sir Feirionydd—"Anfon Syr Watkin yno unwaith bob saith mlynedd, i'w chwynu hwynt." Ni wyddai y gwleidyddwr dan sylw, yn ddiâu, fod y Gwyddelod yn "chwynu" eu hunain yn rheolaidd. Yn 1845 yr oedd eu nifer yn yr Iwerddon yn wyth miliwn, ond nid oes yno erbyn heddyw ond pum' miliwn. Y maent wedi dyfod drosodd i Loegr a Chymru wrth y cannoedd a'r miloedd, ac wedi ymfudo i America wrth y miliynau; ac er hynny y mae y rhai sydd wedi eu gadael gartref mor bell o fod yn dawel a chysurus ag y buont erioed. Rhaid gan hyny fod rhyw ddrwg yn rhywle. Rhaid fod y Gwyddel yn greadur nas gellir ei lywodraethu, neu rhaid nad oes neb wedi ceisio ei lywodraethu fel y dylid, neu ynte rhaid ei fod hyd yma wedi ei gamlywodraethu, ac mewn canlyniad nad ydyw y dolef a'r swm, y cynhwrf mawr a'r cyffro yr ydym yn ei glywed o'r Iwerddon ond adsain y gwanaf yn gwaeddi am fod y trechaf yn ei dreisio. Gallai ymfodyn ychydig ynghylch y pethau hyn fod yn fuddiol, fe allai, yn enwedig o dan yr amgylchiadau yr ydym ynddynt fel gwlad a theyrnas y dyddiau hyn; pan y mae cwestiwn yr Iwerddon, unwaith eto, wedi dyfod yn brif gwestiwn, a phan yn ol pob tebyg y mae tynged Gweinyddiaeth, a hono yn uu ddoeth, fedrus a chref, yn dibynu ar y modd y bydd iddi geisio, ac yn enwedig ar y graddau y bydd iddi lwyddo, i reddi atebiad boddhaol iddo.

Yn gyntaf oll, dylid cofio nad oes prin hanner yr Iwerddon yn agered i'r cyhuddiad o fod yn aflonyddu, neu yn dangos arwyddion o annheyngarwch. Ceir holl dalaeth Ulster, oddieithr Swydd Donegal, yn gwbl heddychol, ac wedi bod felly i raddau mawr er ys tri chant o flynyddoedd. Felly hefyd ranau o Leinster a Munster. Cynnwysa y dosbarthiadau hyn Siroedd Derry, Antrim, Tyrone, Down, Armagh, Monaghan, Louth, Meath, West Meath, Kildare, Queen's County, Wicklow, Carlow, Kilkenny, Wexford, a rhan o Cork. Canfyddir, gan hyn, fod y cynhwrf a'r anghydwelediad yn gyfyngedig i bedair ar ddeg neu bymtheg o Siroedd yn Munster a Connaught, ynghyd a Swydd Donegal yn Ulster. Am y gweddill o'r ynys, sef y darn ffrwythlonaf a chyfoethocaf, y mae y bobl yn preswyllo mewn llynyddwch er o leiaf ddyddiau y Frenhines Elizabeth; ac yn ngwyneb yr amgylchiadau mwy adfydus y mae eu brodyr ynddynt ar hyn o bryd, y maent wedi dangos pob parodrwydd i sefyll dros ufudd-dod a iawn-drefn. Yn awr y cwestiwn yw, beth yw yr achos o'r gwahaniaeth rhwng cyflwr y ddau ranbarth? A'r unig ateb a roddir erbyn hyn ydyw ei fod i'w briodoli i'r gwahaniaeth rhwng eu deddfau tirol, ac i'r gwahaniaeth dirfawr sydd fel effaith hyn rhwng cysylltiad y tenantiaid a'r tîrfeddiannwyr. Gan hyn y mae o bwys i ni ddeall rhywbeth am neillduolion cyfraith tir yn yr Iwerddon.

Yr argraff ar feddwl y rhan fwyaf yn Nghymru ydyw fod Cyfraith Tir yr un peth yn yr Iwerddon ag ydyw yn y wlad hon, ac felly nad oes gan y tenantiaid yno un esgus dros wrthryfela yn erbyn y tirarglwyddi mwy na phe baem ninnau yn gwneyd hyn. Ni fu erioed gamgymeriad mwy na hwn, ac y mae yn gamgymeriad sydd yn arwain i lawer o anhawsderau mawrion, ac yn wir yn arwain i'r holl anhawsderau sydd yn perthyn i'r mater. Nid ydym yn golygu y gallwn egluro pob peth ynghylch Deddfau Tirol yr Iwerddon, mwy na'n bod yn barod i ganiatáu y gall neb arall wneuthur hyn, gan eu bod yn dra chymysglyd ac amrywiol. Gellid hefyd gyda phriodoldeb alw llawer o honynt yn *arferion* yn hytrach na deddfau, gan eu bod wedi tyfu ac ymfurfio yn raddol yn ystod treigladd llawer oes, ac o bryd i bryd wedi derbyn cymeradwyaeth yr awdurdodau a'r llysoedd barn, nes o'r diwedd ddyfod i gael edrych arnynt fel cyfreithiau sefydlog. Hyd yr ydym yn alluog i ddeall, i bob pwrpas ymarferol, y mae y cwbl yn dyfod i hyn: Fod gan y tenant gymaint o hawl i'r tir ag sydd gan y meistr. Y mae gan y meistr hawl i'r rhent, a'r tenant hawl i'r cynnyrch. Gellir galw un yn berchenog a'r llall yn feddiannydd. Os ydyw henafiaid un er cyn cof wedi bod yn perchen y fferm, y mae henafiaid y llall er cyn cof wedi bod yn byw ynddi. Sonied y meistr am gysegredigrwydd eiddo, gall y tenant gyda yr un faint o reswm son am gysegredigrwydd meddiant. Y gwaethaf ydyw fod y meistr wedi bod yn ddigon gofalus i gael gan y Senedd *ysgrifenu* ai gyfreithiau ef, ac yn barhâus wedi dangos tuedd gref i anghofio pob cyfraith ond sydd ysgrifenedig. Yn y dyddiau hyn gellir yn fynych glywed aelodau anrhydeddus, gyda chrafferd a hyawdledd, heb son dim am hyfdra gwrol yn tarddu oddiar anwybodaeth, yn gofyn yn y Senedd, gan gochi yn eu hwynebau a churo y bwrdd—yn gofyn, meddwn, gyda difrifwch ac egni diammheuol, pa un ai gyfreithiau ysgrifenedig y wlad

sydd i gael ufudd-dod, ynte y rhai anysgrifenedig. Yr hyn sydd eisieu ei ddsygu i'r cyfryw Seneddwyr chwilfrydig ydyw, mai eu gwaith penodol hwy ydyw ateb y cwestiwn hwn, ac mai nid y ffordd oreu i'w ateb ydyw trwy ei ail ofyn drosodd drachefn. Os dywedant mai y cyfreithiau ysgrifenedig yn unig sydd yn hawlio ufudd-dod, o'r goreu; dyna y mater wedi ei benderfynu, a'r Gwyddel wedi ei adael i ddewis rhwng ymostyngiad a gwrthryfel—rhwng bod yn foddllawn ar yr hyn sydd i'w gael ac ymdrechu mynu yr hyn y mae yn ei geisio. O'r ochr arall, os cydnabyddir awdurdod y cyfreithiau anysgrifenedig, a'r unig gyfreithiau sydd yn adnabyddus i'r rhan fwyaf o'r werin, canfyddir fod y ddadl yn agor ar lawer iawn o anhawsderau. Er mwyn dangos hyn, ni raid ond dywedyd nad oes gan feistr tir yn yr Iwerddon hawl i droi dyn o'i dyddyn os na fydd ar ol gyda y rhent; a hyd yn nod ar ol ei droi allan am yr unig reswm hwnw, bydd gan y tenant hawl i adfeddiant os medr dalu ei ddyled cyn pen chwe' mis. Gwelir fod dyn a fyddo yn methu talu ei rent yn yr Iwerddon mewn cyflwr cyffelyb i ddyn a fyddo yn methu talu llog *mortgage* yn y wlad hon. Tra y pery ef i dalu y llog, nis gellir aflonyddu arno; os metha dalu, gellir gafael yn y tir a phob peth a fyddo arno. Ofer i'r tenant ddadleu fod y lle yn werth ychwaneg, neu ei fod wedi gwario ar welliantau arno, ac y dylai gael swm o arian am ymadael, neu y gallai werthu y lle am bris da yn ddarostyngedig i ammodau arferol tîrfeddianniad,—nid oes ganddo gyfraith i'w amddiffyn, ac nid oes ganddo ddim i'w wneuthur ond coffeidio ei ddinystyr a bod yn ddystaw, neu ynte godi cynhwrf a bygwth saethu ei feistr tir, neu ynte saethu pwy bynag a gymero y tir ar ol iddo ef ei golli. Y mae yr holl gyfreithiau tirol, o oes i oes, wedi eu llunio yn benaf yn ffafir y tîrfeddiannwyr; a hawdd credu, gan hyny, fod eu gafael ar y tenant yn myned yn dynach yn barhâs, ac yntau yn myned yn wanach wanach o herwydd hyny. Ac yn lle ceisio gwella y gyfraith, ni wnaed dim hyd yma ond gwasgu y dyoddefydd yn erbyn y mur, a galw y milwyr allan, ac arfogi y cwnstabiliaid â chleddyfau ac â phistolau, gan orchymyn i'r Gwyddel dalu ei rent a chadw yr heddwch. Beth a feddyliai amaethwyr Cymru o'r hyn a ganlyn, a ysgrifenydd gan y Barnwr Longfield?—

Bwriwch fod camgyfrif rhwng tîrfeddiannydd a thenant. Dywed y blaenaf fod blwyddyn o rent yn ddyledus iddo, a thaera y diweddaf nad oes dim yn ddyledus. A ydynt hwy yn ymddangos yn llys cyfiawnder ar dir cydradd er penderfynu hyn? Yn hytrach na hyny cymer y meistr y gyfraith i'w law ei hun; heb ymddangos yn y llys o gwbl, ac heb gymaint a phrofi y ddyled, entyn ei swyddwyr i gymeryd gafael ar feddiannau y tenant. Nid yw y tîrfeddiannydd yn rhwym i apelio at unrhyw swyddog gwladol, nac i roddi dim sicrwydd neu ddiogelwch am golled y tenant os bydd ei ofynion yn ddisail. Ond y mae yn wabanol gyda y tenant. Er gweled ei eiddo yn cael eu cymeryd ymaith mewn modd mor law-nchel, nis gall eu cael yn ol heb fyned trwy gynghaws traferthus, ac nis gall gychwyn cynghaws heb roddi meichiau am y swm a ofynir; ac er mwyn ei ddigalonni i ymladd yn erbyn hawliau y meistr, pasiwyd gweithred Seneddol i'w orfodi i dalu dwbl y costau os cyll y gyfraith.

Cenfydd y darlennydd oddiwrth yr uchod fod yr afael gryfaf o lawer yn llaw y meistr tir. Yn wir, gellir dyweyd fod pob hawliau o'r braidd a elwir yn *gyfreithiol* yn ffafir y meistr, tra nad oes gan y tenant ond *arfer gwlad* i syrthio yn ol arno. Pa un o'r ddau a *ddylai* fod gryfaf,

nid ydym yn gweled angen am benderfynu. Ond cyn myned ymlaen i sylwi ar y drygau mawrion sydd wedi tarddu o'r gyfundrefn hon, ac fel y mae yn ei heffeithiau yn arwain y tenant o ddrwg i waeth yn barhâus, buddiol fyddai dywedyd ychydig eiriau gyda golwg ar y rhan arall o'r wlad, sydd ar hyn o bryd, ac wedi bod bob amser, yn mwynhâu llwyddiant a thawelwch, sef yn benaf talaeth Ulster, a rhan fawr o'r tir sydd yn gorwedd oddiyno tua'r dehau. Y mae y mater wedi ei ddwyn i benderfyniad yn y rhan hon o'r wlad er ys tair canrif, tra y mae yn aros heb ei benderfynu yn y rhan arall hyd heddyw. Yr hyn sydd yn hynod ydyw na welai gwladweinwyr y doethineb o estyn Cyfraith Dirol i Ogledd Iwerddon sydd wedi gweithio mor foddhaol er ys cymaint o amser yn y Dehau. Gwnaeth Mr. Gladstone gais cymedrol iawn at hyny yr haf diweddf mewn ffordd o gyfarfod y gwaethaf ar y pryd; ond gyda yr amcan o ddwyn mesur cyflawnach i mewn yn y dyfodol. Cariwyd ef yn llwyddiannus trwy Dŷ y Cyffredin, ond tagwyd ef yn Nhŷ yr Arglwyddi. Casglodd yr Arglwyddi Tymmorol ac Ysbrydol eu gilydd ynghyd o bob cyfeiriad, yn llu mawr iawn, yn hen ac yn ieuanc, yn glaf ac yn iach. Gwelwyd rhai, wedi cyrhaedd hen ddyddiau a phenllwydni, yn gwneyd eu hymddangosiad, nad oeddent erioed o'r blaen wedi bod yn pleidleisio yn y Senedd. Anaml y gwelwyd golygfa debyg i hono; y cloffion a'r deillion a'r anafusion yn ymwithio ar draws eu gilydd, gyda eu gwyr-ddrychau a'u ffyn baglau, i bleidleisio dros "hawliau cysegredig eiddo," yn erbyn Gweinyddiaeth Radicalaidd nad oedd ganddi barch i ddim, na dawn i wneyd dim ond cefnogi cynhyrfwyr anhywaith, a gosod gwahanol ddosbarthiadau cymdeithas i ymdderu ac i ymladd â'u gilydd. Mawr dda iddynt o'r hyn a wnaethant! Gobeithiwn eu gweled cyn pen llawer o fisoedd yn bwyta eu geiriau, ac yn gorfod llyncu mesur mwy anghydnaws fyth â'u harchwaeth.

Bu farw y Frenhines Elizabeth gan adael "Cwestiwn y Tir" yn yr Iwerddon yn yr annhrefn mwyaf. Nid oedd hi yn gofalu dim am y Gwyddelod, nac yn eu hystyried yn dda i ddim ond i wasanaethu fel cymynwyr coed a gwehynwyr dwfr i'w harglwyddi Sacsonaidd. Wrth gyfeirio at ei theyrnasiad hi dywed Syr John Davis, Cyfreithiwr Cyffredinol Iago L.: "Ni wnaed ond un rhydd-ddeiliad (*freeholder*) mewn rhan eang o'r wlad, a hwnw oedd yr Arglwydd tirol ei hunan; nid oedd pawb eraill ond denantiaid wrth ewyllys, y rhai gan ansicrwydd eu meddiannau, a esgeuluent adeiladu a phlanu, neu wella y tir. Ac felly, er fod yr arglwyddi yn dyfod yn denantiaid i'r brenin, nid oedd y wlad wedi ei diwygio o gwbl trwy hyny, ond arosai yn ei chyflwr blaenorol o farbariaeth a chamdrefn." Yn y flwyddyn 1603 anfonwyd Syr John Davis i'r wlad gan Iago L., ac yn 1604 anfonwyd Syr Arthur Chichester i ymuno âg ef. Fel dau ddyn call, troisant eu sylw at y rhan o'r wlad a dybient yn y cyflwr gwaethaf, sef Ulster, lle yr oedd pawb y pryd hwnw yn denantiaid wrth ewyllys, ac addawent gymeryd sylw o ranau eraill o'r wlad mor fuan ag y gallent; oblegid teimlent mai yr hyn oedd yn angenrheidiol yn unig er mwyn heddychu y bobl oedd rhoddi rhyw fath o sicrwydd iddynt am eu tai a'u tiroedd. Y mae llythyr ar gael oddiwrth Syr John Davis at Cecil, wedi ei ddyddio Ebrill 19, 1604, yn yr hwn y dywed:—"Yn sicr y cyfryw denantiaid wrth ewyllys ddaru

alltogi Iarll Warwick yn nheyrnasiad Harri VI, a'r arglwyddi galluog yn nyddiau Rhyfel y Barwniaid, i godi y fath nifer o wŷr; tra yn y dyddiau hyn, pe meddyliai rhai o arglwyddi mawrion Lloegr gymeryd arfau, gallent hwyrach gael eu gwasanaethyddion ac ychydig foneddigion penboeth a therfysglyd i'w canlyn. Ond am eu tenantiaid, os bydd ganddynt brydles ar eu tiroedd am flynyddoedd, ac yn gwybod y gallant roddi cyfraith ar eu meistriaid am eu difeddiannu heb achos, nid yw yn debygol y byddai iddynt anturio colli eu defaid a'u hŷd, ac andwyo eu hunain er boddio y tîrfeddiannydd goreu yn Lloegr." Amlwg oddiwrth y llythyr uchod fod Syr John Davis a Syr Arthur Chichester yn gweled yr anhawsdra, ac yn barod i edrych yn deg yn ei wyneb. Fel hyn yr ysgrifennai Syr Arthur i'r Cyfringynghor: "Y mae llawer o'r brodorion yn teimlo fod ganddynt hawl rhydd-ddaliadol i'r tir a feddiennir ganddynt, ac er y dichon nad yw hyn yn unol â'r gyfraith, eto y mae yn galed ac yn anhawdd eu symud hwynt. Dymunaf gan hyn fod i ystyriaeth gael ei roddi i achos y rhai goreu, a'r rhai penaf yn eu mysg hwynt."

Ar yr adeg dan sylw, yr oedd amgylchiadau y wlad, o herwydd dygwyddiadau a rhesymau nad oes angenrheidrwydd ymdroi gyda hwy yn brennol, wedi dyfod yn gyfryw ag i orfodi y Llywodraeth i wneuthur rhaniad cyffredinol ar y rhan fwyaf o'r tir; ac fel y galleid dysgwyl, yr oedd digon o gardotwyr galluog wrth law yn barod i osod eu crafangau ar yr ysglyfaeth. Ysgrifennodd Arglwydd Audley at y brenin i ofyn am *gan' mil* o erwau; a dywedai y fath gynlluniau godidog oedd ganddo yn ei ben tuag at drin y tir, heddychu y bobl, ac adsefydlu trefn yn y wlad. Ond ymdengys nad oedd gan Syr Arthur Chichester ond ychydig ffydd yn Arglwydd Audley na'i gynlluniau, nac ychwaith yn y dosbarth neillduol o dirfeddiannwyr y perthynai Arglwydd Audley iddynt. "Y mae Arglwydd Audley," meddai, "yn foneddwr henafel, parod i gymeryd llawer o waith mewn llaw; ond y mae ei ddull o fyw yn Munster, a'r draul fechan y mae wedi ei roddi ar ei dŷ ei hun, yn addaw yn ddrwg am adeiladu cestyll cryfion, a sefydliad manteisiol pethau yn nhalaeth Ulster." Pa fodd bynag, cafodd Arglwydd Audley *dair mil* o erwau yn lle *can' mil*, a hyn yn groes iawn i ewyllys Chichester. Rhanwyd o gwbl y pryd hwnw yn Ulster *bun' cant* ac un ar ddeg o filoedd o erwau, ac allan o'r swm uchod yr oedd Saeson ac Ysgotiaid wedi cael *dar gant* a *naw* o filoedd o erwau. Teimlai Arglwydd Chichester fod y brenin a mawrion y tir yn rhy gryfion iddo, a'u bod yn rheibio y wlad allan o'i ddwyllaw, ond er hyn y parhâi i ddadleu dros y tenantiaid; ac o'r diwedd llwyddodd i gael rhoddi i mewn ymhob prydles a ganiateid i'r arglwyddi, ar diroedd yn Ulster, ddarpariaeth yn eu gorfodi "i roddi rhanau neillduol o dir i'r tenantiaid am rent neillduol;" a dyma oedd dechreuad yr hyn a elwir erbyn heddyw "Costwm Ulster," a'r hyn sydd er 1870 wedi ei gadarnhau trwy gyfraith. Yn nghwrs amser, a than ddylanwad amrywiol a gwahanol amgylchiadau, tyfodd Costwm Ulster yn gyfanwaith lled berffaith; ac er ys tri chant o flynyddoedd y mae wedi profi yr unig drefniad effeithiol a boddhaol a gafwyd erioed yn yr Iwerddon ar gyfylltiad y tenant a'r meistir tir. Dyfynwn ymhellach yr hyn a ganlyn am dau o lyfr y Barnwr Longfield:—



Yn y lle cyntaf, pan neillduir tir at ddybenion amaethyddol, nid ydyw y rhent a ofynir yn gydymgeisiol (*competition rent*); nid y rhent uchaf ydyw y gallai teuant da a diogel fod yn harod i'w dalu. Os dygwyrdd cynnydd paruâus neu arosol yu ngweith y tir, naill ai oddiwrth wellhâd cyffredinol y wlad, neu godiad yn mhais cynnyrchion amaethyddol, gall y tîrfeddiannydd godi yn y rhent os bydd yn dewis, yr un fath ag unrhyw dirfeddiannydd arall y byddo ei denautiaid yn dal eu tir wrta y flwyddyn; ond er hyny, dysgwylir i'r dewisiad hwn gael ei leoli gan yr un teimlad caredig ag a ddangoswyd gan y tîrfeddiannydd wrth osod ei dir ar y cyntaf.

Yn ail, dysgwylir tra y pery y tenant i dalu ei rent na bydd i'r meist'r wneuthur defnydd o'i hawl gyfreithlawn i'w droi allan o'i dyddyn.

Yn drydydd, os gwel y tenant yn angenrheidiol neu yn fanteisiol iddo adael y fferm, gyda chaniatâd ei feistr gall werthu ei hawl ynddi. Nid yw y caniatâd hwn i'w wrthod heb resymau boddhaol; ond o'r ochr arall, nid yw y tenant at ei ryddid i werthu i unrhyw un yn annibynol ar ei gymeriad a'i foddion i drin y tir.

Yn bedwerydd, rhaid i bob ôddyledion gael eu talu i'r meist'r tir cyn gwneyd y trosglwyddiad. Mewn etifeddiaeth fawr, yn cael ei llywodraethu yn dda, dygir y gwaith hwn [o newid tenantiaid] oddiamgylch yn y modd a ganlyn:—Y mae John McGarry yn dal fferm am £30 yn y flwyddyn o rent, ac yn ewyllysio gwerthu ei fferm er mwyn ymfudo, neu osod ei hun i fyny mewn siop, neu dalu ei ddyledion, neu ryw amcan arall. Y mae Charles O'Neil yn cytuno i roddi £500 iddo am dani. Geilw y dda'u yn swyddfa y goruchwyliwr, ac yn gyntaf oll telir pob ôddyledion—hwyrach allan o'r £500. Gwneir cofnodiad yn y llyfran, a rhoddir enw Charles O'Neil i lawr fel tenant yn lle John McGarry, a dyna y gwaith ar ben heb ddim costau cyfreithiol na pherygl teitl drwg. Y mae yn wir, mor bell ag y mae a fyno'r peth â'r tîrfeddiannydd, fod diogelwch y trosglwyddiad yn dibynu ar ei anrhydedd ef, ac ar ddylanwad y farn gyhoeddus; ond mor bell ag y mae a fyno â phawb arall trwy'r byd, y mae'r teitl yn berffaith.

Cyfeiriais at yr arferiad o wneuthur cofnodiad yn llyfr y goruchwyliwr. Gwneir hyn yn unig ar etifeddiaethau mawrion; ond pan y mae yr etifeddiaeth yn fechan, a'i hachosion yn cael eu dwyn ymlaen yn llai trefnus, dygir oddiamgylch yr un peth heb gofnodiad o gwbl yn y llyfran, megys trwy ymddyddan â'r tîrfeddiannydd neu ei oruchwyliwr ar y ffordd, neu mewn ffair neu farchnad, neu unrhyw le y dygwyrdd iddynt gyfarfod eu gilydd.

Y mae rhai manteision yn perthyn i hawl y tenant yn Ulster yn annibynol ar y rhyddfarnach mewn tir a grêir ynddo. O dan y gyfundrefn hon y mae yn amhosibl i'r tenantiaid fod yn dlodion iawn. Pa fodd bynag, gellir dywydd fod y canlyniad hwn yn cael ei gyrhaedd, nid trwy roddi eiddo i'r tenant, ond trwy attal dyn heb ddim eiddo rhag dyfod yn denant. Nis gellwch ddyfod yn ffermwr os na bydd genych ddigon o arian i drin y tir, a hefyd i brynu am bris uchel hawl y tenant sydd eisoes mewn meddiant.

I oruchwyliwr ar etifeddiaeth y mae y gyfundrefn hon yn un dra dymunol. Y mae y rhent yn gymedrol ac yn cael ei dalu yn brydlawn, ac nid yw y goruchwyliwr yn cael ei orfodi i ymgymeryd â'r llafur poenus a pheryglus ydd ynglyn â chasglu y rhent mewn rhanau eraill o'r wlad. Nid oes neb yn cael ei droi o'i dir trwy weithrediau cyfreithiol; ond os nad ydyw y tenant yn llwyddo; ac os ydyw mewn anhawsdra i dalu ei rent, rhybuddir ef gan y goruchwyliwr, neu gan ei gallineb ei hun, y dylai werthu ei hawl, a chilio o'i fferm gyda swm da yn ei law i ymfudo, neu ymgymeryd â rhyw alwedigaeth arall, cyn cwbl ddyfetha ei hunan trwy aros mewn fferm y mae yn analluog i'w thrin er ei fantais. Dilynr ef gan denant mwy cyfoethog neu fwy medrus, ac y mae y tîrfeddiannydd a'r wlad yn gyffredinol yn ennill trwy y cyfnewidiad.

Dichon fod y dyfyniad uchod yn ddigon i roddi drychfeddwl i'n darllenwyr am "Gostwm Ulster," er nad yw yn cyfeirio ond at ychydig mewn cymhariaeth o'r neillduolion rhyfedd sydd yn perthyn iddo. Gwelir hefyd fod ynddo lawer o ddiffygion pwysig. Gesyd y tenant yn llawer rhy ddibynol ar ewyllys y tîrfeddiannydd, a chanfyddir fod hawliau y naill a'r llall yn gymysglyd ac aneglur. Er hyny dyma y peth goreu a gafodd yr un ran o'r Iwerddon hyd yn hyn, ac y mae ar y cyfan wedi gweithio yn dda, ac wedi bod yn foddion i gadw holl wlad

Ulster mewn tawelwch am oesoedd, tra nad oes ddeng mlynedd wedi myned hawbio, yn ystod y tri chan' mlynedd diweddaf, heb fod cyffroadau mawrion yn cymeryd lle mewn parthau eraill o'r ynys. Er nad yw yn darparu mewn cynifer o eiriau ar gyfer amddiffyn y tenant rhag hyn a'r llall, eto byddai mor anhawdd i'r meistr wneyd cam â'i denant yn y rhan hon o'r Iwerddon ag a fyddai iddo wneyd cam âg ef yn Lloegr neu Gymru, a byddai mor debyg o gael ei saethu am hyny a phe gwnelai gam â thenant yn nghorsydd Donegal a Connaught. Gall tenant yn Ulster siarad am werthu ei fferm, er ei fod yn talu rhent am dani, gyda chymaint o briodoldeb ag y gall y meistr tir son am ei gwerthu. Y mae hawl y tenant ynddi, o'r natur ag ydyw, ac i'r graddau y mae yn myned, mor sylweddol a gwir ag ydyw hawl y meistr. Rhaid cydnabod fod gwahaniaeth mawr rhwng hyn a sefyllfa pethau yn y wlad hon; ond beth y mae hyny yn ei brofi? A ydyw yn profi mai y Sais ac nid y Gwyddel sydd yn ei le? Nid oes gyfreithiau tirol yn y byd mor ynyd ac mor afresymol ag sydd yn Lloegr. Pe buasai miliynau preswylwyr y deyrnas hon yn gorfod byw ar y mymryn tir sydd ynddi, gallwn fod yn sicr y buasai tir-arglwyddiaeth, fel y cyfryw, wedi darfod am dano er ys llawer dydd. Gall dyn yn y wlad hon fforddio rhoddi £2 yr erw am dir, tra y bydd ganddo gant neu ddau o erwau at gynnal ei deulu; ond nis gallasai fforddio rhoddi £10 am bum' erw tra na byddai ganddo ond yr hyn a dyfai arnynt at gynnal ei deulu, yn cynnwys yn fynych ei blant, ei wyrion, a'i orwyrion, a heb ddiwrnod o waith iddynt oll ond a allant gael ar hyny o dir. Dyma fel y dywedodd Mr. John Stuart Mill yn y Senedd yn mis Mai 1866, gyda golwg ar hawl y Gwyddelod i'w meddiannau tirol: "Y syniadau Gwyddelig gyda golwg ar drefniant cymdeithasol ac amaethyddol ydyw syniadau cyffredinol y teulu dynol. Y syniadau Seisonig, a'r amgylchiadau cydfynedol â hwy, sydd yn neillduol (*peculiar*). Y mae yr Iwerddon ar y mater hwn yn rhedeg yn mhrif frydle bodolaeth ddynol, a theimlad a barn ddynol."

Yr hyn oedd Ulster yn 1603 ydyw Muster a Connaught a rhanau o Leinster yn 1881. Y mae yno gwestiwn pwysig ag y methwyd ei benderfynu yn ystod tri chan' mlynedd o amser, ac yn wir gwestiwn na cheisiwyd ei benderfynu gyda dim synwyr nac ystyriaeth gan yr un o'r pleidiau,—sef eiddo pwy ydyw y tir: pa un ai eiddo y tenant ai eiddo y meistr, ai ynte eiddo y ddau ynghyd? Trwy yr holl amser hwn nid yw y Llywodraeth wedi gwneyd dim gwerth son am dano yn yr achos, oddieithr sefyll wrth gefn y tir-arglwyddi. Am y tenant, gadewir ef i suddo yn ddyfnach bob blwyddyn i dlodi, ac i suro yn fwy bob blwyddyn mewn anfoddogrwydd. Os bydd yn myned i farw o newyn anfonir elusen iddo; ond os bydd cnofeydd newyn yn ei yru yn afreolus, anfonir milwyr i'w saethu ef. Mor bell yn ol a'r fwyddyn 1849, dywedai Mr. Bright mai yr echel ar yr hon yr oedd llywodraethiad yr Iwerddon wedi bod yn troi oedd *nerth ac elusen*; ac nid oes dadl nad ydyw hyn yn llawer rhy wir. Dyma hanes yr Iwerddon er ffurfiad yr hyn a elwir yr "Undeb" yn y fwyddyn 1800, pan ddiddymwyd y Senedd frodorol: pa faint mwy ynte yn flaenorol i hyny? Yn 1829 dywedai Syr Robert Peel nad oedd yr Iwerddon ddim wedi bod yn cael ei llywodraethu gan gyfreithiau rheolaidd a chyffredin y Cytan-

soddiad Prydeinig am un flwyddyn gyfan er cwblhâd yr Undeb. Yn 1800 penderfynwyd ar yr hyn a elwir *Suspension of the Habeas Corpus Act*—symudiad yn difuddio y wlad o amddiffyniad y gyfraith, ac yn ei throï drosodd i ddoethineb a thynnerwch y gallu milwraidd. Yr un modd o 1802 hyd 1805, o 1807 hyd 1810, wedi hyny yn y flwyddyn 1814, ac o 1822 hyd 1824. Y mae pwyllgorau wedi bod yn eistedd ar achos yr Iwerddon bron bob blwyddyn er yr Undeb, a mesurau gorffodol wedi eu pasio yn fynych er rhoddi cynhwrf i lawr; ond nid oes mewn gwirionedd ddim wedi ei wneyd tuag at symud yr achos o'r cwbl. Os yr un, y mae cyflwr y bobl yno yn waeth heddyw nag y bu erioed, a drygau wedi eu meithrin a'u goddef y cymer amser hir iawn i'w gwrthweithio ac i'w cael o'r ffordd. Yn y cyfamser y mae y drwgdeimlad, y drwgewyllys, a'r anymddiried rhwng tîrfeddiannwyr a thenantiaid yn cynnyddu. Y mae y gyfundrefn ynddi ei hun yn annheg, cefnogaeth y Llywodraeth iddi yn gwneyd ysbryd y dyoddefwyr o dani yn chwewach, a drygau eraill yn tarddu o honi ydynt yn llawer gwaeth o ran eu natur a mwy niweidiol o ran eu heffeithiau na'r gyfundrefn ei hunan. Er dangos hyn gallwn enwi rhai pethau.

1. *Y tîrfeddiannwyr yn preswyllo allan o'r wlad.* Y mae hwn yn gwyn cyffredinol, ac wedi bod felly er ys dau can' mlynedd a mwy. Tua'r flwyddyn 1730 ysgrifennai Prior fel y canlyn:—

Nid oes un anhawdra i ni nodi allan brif ffynonell ein holl anfodion, a phrif achos ein holl ddyoddefaint; gwelir ef yn amlwg oddiwrth restr y tîrfeddiannwyr absennol, ac oddiwrth amcan-gyfrif o'r swm o arian y gellir yn rhesymol dybied eu bod yn ei gymeryd allan o'r wlad yn ffynyddol, fel nad oes yr un wlad arall yn llafurio o dan ddfrod mor wastraffus o'i thrysor yn bresennol â'r Iwerddon, yr hon sydd yn anfon i ffordd chwe' chan' mil o bunnau bob blwyddyn i'w boneddigion, heb unrhyw ad-daliad yn cael ei roddi am danynt. Y mae hyn yn gymaint baich arnom fel yr wyf yn credu nad oes mewn hanesyddiaeth engraifft o un wlad yn talu teyrnged mor drom i wlad arall. Gofidus ydyw sylwi, tra yr ydym yn awr o dan anfateision mewn masnach, ac yn ymladd yn erbyn tlodi ac angen, fod y mympwy o breswyllo ar led yn cynnyddu ymysg ein dynion o waed a safle; ac y mae hyn yn wirionedd hyd yn nod am ein boneddigesau, y rhai ydynt haws i'w cael yn Llundain, Paris, neu Rufain, na chartref.

Gormod mewn rheswm i'r boneddigion hyn ddysgwyl y bydd i ni yn amyneddgar oddef colli ein masnach, a cholli ein harian, a myned o dan drethoedd ychwanegol, er boddio gwagedd dynion sydd fel hyn wedi gadael eu gwlad, ac yn byw ar led mewn afradlonedd ar ei dinystr. Nid oes un ffordd wedi ei gadael i'n gwared ond naill ai eu gorfodi i aros gartref, neu ynte iddynt dalu am fyw oddicartref. Buasai yn dda genyf allu dhyweyd fod y boneddigion hyn, trwy fyw oddicartref, mewn rhyw fodd yn cyfranu rhywbeth er mantais i'r Iwerddon, ond y mae arnaf ofn mai ychydig haeddiant o'r math hwn a allant ei ddadleu; oblegid, ac eithrio ychydig bersonau, y rhai ar bob amgylchiad a fuont ewyllysagar, diwyd, ac abl i'n gwasanaethu, a'r rhai y bydd i ni byth gyda y diolchgarwch mwyaf eu cydnabod, nis gwn am neb o'n hab-sennolion, y rhai ar addegau pwsyig, a phan fyddai lles yr Iwerddon yn y glorian, a fdedd-ent ysbryd neu duedd, dylanwad neu bwysau, nac hyd yn nod wybodaeth ddigonol am achosion eu gwlad eu hunain i allu bod o wasanaeth iddi. Y maent fel rheol yn ddyeithriaid i amgylchiadau yr Iwerddon. neu yn amddifad o allu a chymhwysderau i'w gwasanaethu. Os bydd i ni ymofyn i'r cymbellion sydd yn arwain i'r ymddygiad hwn, sydd mor niweidiol i'w budd eu hunain ag i eiddo eu gwlad, ceir hwynt mewn dull moethus o fyw, awydd efelychu pendefigion a gwyr mawr gwledydd eraill yn eu gwastraff, ynghyd hefyd a helaethrwydd eu meddiannau. Dyma y prif gymhellion iddynt wario eu hetifeddiaethau ar led, y rhai nid ydynt yn methu ond anfynych i'w llwytho â dyledion mawrion, ac yn fynych gwerthant hwynt i foddhau eu gwagedd presennol, neu ynte i dalu am eu hynfydrwydd yn yr amser a oeth haibio.

Rhaid addef fod y darlun uchod yn un difrifol iawn; ond erbyn heddyw y mae yn syrthio yn fyr o roddi syniad cywir am sefyllfa pethau. Hysbysir yn awr fod mwy na hanner tîrfeddiannwyr yr Iwerddon yn absennol o'r wlad, a heb un gofal am dani ond yn unig mor bell ag y gall dalu eu rhenti hwy, y rhai yn fynych sydd yn afresymol o uchel, heb nac arwyddion na gobaith y bydd iddynt yn fuan gael eu gostwng. Nis gellir cael dynion cymhwys i eistedd ar y faine ynadol mewn rhanau eang o'r wlad, nac i gymeryd unrhyw ddyddordeb mewn symudiadau cyhoeddus er lles a dyrchafiad y preswylwyr. Os bydd dyn yn werth ychydig filoedd o bunnau yn y flwyddyn, preswylia yn Llundain neu Paris; os bydd yn werth ond ychydig gannoedd, preswylia yn Dublin; fel nad oes yn aros ar y tir ond poblach druain, dldion, anwybodus, ar eu llawn hwd, er gweithio yn galed a byw yn galed, i gadw enaid a chorff rywfodd wrth eu gilydd. Y mae y gyfraith yn sefyll yn wrol dros hawliau cyfoeth yn y wlad annedwydd hon, tra y gwelir fod y dyledswyddau sydd o angenrheidrwydd yn canlyn y meddiant o gyfoeth yn cael eu hollol esgeuluso. Cyn diweddu gyda'r mater hwn, nis gallwn wneyd yn well na rhoddi yr hyn a ganlyn eto o waith y craff a'r synwryol Farnwr Longfield :—

Gellid, hwyrach, ganiatáu na byddai i'r Iwerddon ddyoddef llawer oddiwrt absennoldeb tîrfeddiannydd, yr hwn pe yn bresennol, na wnaethai ddim a'i dderbiniadau ond prynu gwin Ffrengig. Ond fel rheol, nid yw tîrfeddiannydd yn gwario hanner ei arian ar nwyddau tramor. Y mae y rhan fwyaf o'i gyfoeth yn cael ei ddefnyddio i dalu am wasanaeth, ac i brynu nwyddau a gynnyrchir yn y gymydogaeith. Gwna wahaniaeth mawr i'r amaethwr pa un a ydyw ei farchnad yn agos wrth law, ynte fod yn rhaid iddo anfon ei nwyddau bellter ffordd i ymofyn prynwr; a bydd y gwahaniaeth hwn yn fwy fyth pan y mae y nwyddau yn drymion mewn cymharieith i'w gwerth, a phan y mae y ffyrdd, a phob moddion eraill o gymundeb, yn ddrwg.

Gellid hwyrach ddyweyd, "Cynnyrched nwyddau, ynta, a fyddant yn hawdd eu cludo, gan y rhaid ei fod yn gwybod fod ei farchnad ymhell." Ond mewn cymundeb amaethyddol tlawd ac anwybodus, nid oes gan y cynnyrchydd le i ddewis. Y mae yn gallu cynnyrchu pethau neillduol a dim arall, ac ni byddai ond gwatwareg ynfyd ddyweyd wrth wladwr tlawd sydd yn methu cael marchnad gyfleus i'w ymenyn a'i wyan, ei fêl a'i ddâ pluog, y dylai ddyagu ei blant i wneyd awrlreisiau, neu oriduron, neu *frushes*, neu fenyg, neu frethyn, neu bapyr. Y mae efe yn ennill ei fara o ddydd i ddydd gyda yr unig alwedigaeth a ddeallir ganddo, pa mor amherffaith bynag. Nid yw erioed wedi gweled neb yn gwneyd dim arall, ac nid oes ganddo fodd i fyned i mewn i unrhyw gangen arall o ddiwydrwydd. . . .

Gadewch i ni yn awr dybied fod rhai o'r tîrfeddiannwyr absennol yn dychwelyd i'w hardaloedd, ac ystyried yr effeithiau a ddilynent hyn. Dygid i arferiad fathau newydd o offerynu amaethyddol. Y mae trol gyffredin y wlad, gyda ei holwynion pren heb edyn, y rhai a droant gyda yr echel, yn graddol fyned o'r golwg. Ni charia hon ond dau gant o bwysau; ond dygir i'w lle drol gydag edyn a chamogan i'w holwynion, yn cario o ddeg cant i dunnell o bwysau. Dygir y gweliant hwn i mewn gan y boneddwr trigiannol, yr hwn sydd yn gydnabyddus eisoes â'r offeryn rhagorach. Geysd seiri i'w gweithio, a gelwir am eu gwasanaeth hwy a'u prentisiaid drachefn gan yr amaethwyr, y rhai yn fuan a ganfyddant y fantais o'r gweliant wedi unwaith ei weled mewn ymarferiad, tra ar yr un pryd y bydd y moddion i'w gario allan wedi dyfod i'w cyrhaedd. Gellir dyweyd yr un peth gyda golwg ar erydr ac offerynu amaethyddol eraill. Y mae yr amaethwr yn gyffredin yn annharod i newid ei arferion mewn ufudd-dod i unrhyw ddamcaniaeth neu ymresymiaid. Ni bydd iddo ymgymeryd â gweliant nes ei weled yn weithredol mewn ymarferiad. Yr un modd y mae y boneddwr yn foddion i ddwyn i mewn fathau newydd o anifeiliaid, gwel dilyniad o gnydan, a'r amaethiad rhagorach y mae ef ei hun wedi weled mewn rhanau eraill o'r wlad. Y mae efe yn gyfrwng byw o gymundeb rhwng rhanau mwyaf anwybodus y wlad a'r rhanau mwyaf gwarediedig. Y mae yn talu sylw i'r

fydd, ac yn mynu eu cadw mewn cyflwr effeithiol o adgyweiriad. Y mae efe a'i ddoesbarth yn cynnal, trwy eu cyfarwyddyd a'u tanygrifiadau, ysgolion, claf dai, ac amrywiol sefydliadau o ddefnyddioldeb ac elusen. Cynnorthwyant mewn cadw yr heddwch, a gweinyddiad cyfiawnder lleol. Y mae yr ohebiaeth gynnyddol a achosir gan nifer o breswylwyr cyfoethog, yn arwain i gyfleusdau gwell ar ran y llythyrdai. Bydd eu cwsmeriaeth yn fantais i'r siopwyr yn yr ardal; galluoga hwy i gadw gwell detholiad o nwyddau, ac i'w gwerthu am brisiau is, ac eto gyda mwy o elw iddynt eu hunain. Rhaid i'r boneddigion trigiannol gael tai a swyddfeydd a gerddi, y rhai a ddenant yn rhan o gyfoeth y wlad, ac a wnant yn angenrheidiol seiri meini a seiri coed, a chelfyddydwyr eraill, i'w gwneuthur ac i'w cadw mewn adgyweiriad.

Y mae arnom ofn blino y darlennydd â meithder; ond gallasem roddi desgrifiad o ardal yn yr Iwerddon sydd yn feddiant i foneddwr a breswylia yn Lloegr, a'r hwn sydd yn derbyn o honi *ugain mil* o bunau bob blwyddyn, heb erioed, hyd y gwyr neb, wario cymaint â cheiniog arni. Nid oes ynddi na phalas na gardd, na ffordd na llythyrdy, na dim ond cabanon candryll lle y llecha y preswylwyr yn y tlodi dyfnaf, a than yr anfantasion mwyaf i ymgodi o'i afael. Nid rhyfedd fod gwlad fel hon yn gynhyrfus; ac nis gellir dysgwyl yn amgen hyd, ymysg pethau eraill, y dyfeisir rhyw foddion i gadw cyfoeth y wlad o fewn y wlad, ac i ddenu y cyfoethogion i breswyllo ar eu hetifeddiathau.

2. *Yr arferiad o ganiatáu i'r tenantiaid redeg i ddyled am y rhent.* Anghredadwy i ni ydyw y graddau i'r hwn y mae yr arferiad yma yn ffyn yn y wlad. Heblaw ei fod hefyd yn *arferiad* cyffredin gan y bobl, rhoddir iddo nawdd ac amddiffyniad y gyfraith wladol. Mewn rhai parthau o Orllewin Iwerddon, nis gellir cael ond ychydig denantiaid nad ydynt mewn cyflwr o fethdaliad anobeithiol, ac yn gwbl ymwybodol, er pob medr a diwydrwydd o'r eiddynt, nas gallant byth ddysgwyl dyfod allan o ddyled. Anhawdd meddwl am ddim yn tueddu i ddirywio tenant yn fwy na hyn. Gwyr nas gall, er ymdrechu, ddyfod yn rhydd; a theimla nas gall musgrellni neu afradlonedd wneyd ei gyflwr ond ychydig iawn yn waeth. Dyma sefyllfa tenant sydd â'i dir yn rhy ddrud. Ychwanegir at ei ddyled i'r meistir tir bob blwyddyn. Os bydd y tymmor yn llwyddiannus, mantais y meistir fydd hyny, oblegid bydd gobaith iddo am rywfaint o'r ôlddyledion; os bydd y tymmor yn ddrwg, caiff y tenant yr holl anfantais, ac ychwanegir at ei rwymedigaethau. Hawdd credu na fydd un tenant yn y cyflwr hwn yn awyddus i dalu ond can lleied ag a fedr—osgôa bob cyfleusdra i dalu, hyd y bydd hyny yn bosibl. Pan y tâl ran o'i rent, teimla ei fod gymaint a hyny yn dlotach. Y mae ei eiddo yn llai o'r swm a dalwyd ganddo, ac er hyny nid yw fawr nês na chynt i fod yn ddyn rhydd ac annibynol. Gwyddys am etifeddiathau ar y rhai na wnaed erioed gyfrif rhwng y tîrfeddiannwyr a'r tenantiaid, ac na wyddant yn y byd ar ba dir y maent yn sefyll. Edrychir ar y tenant, nid fel dyledwr, ond fel dyn yn talu teyrnged yn ol ei allu; a'r fath afael sydd gan y bobl yn y tir, a'r fath argyhoeddiad dwfn sydd yn eu meddyliau ei fod yn eiddo iddynt hwy mor wironeddol ag i'r meistriaid, fel y ceir hwy ar ddiwrnod rhent yn dadleu dros i'r meistir dderbyn ganddynt y swm lleiaf a fyddo modd. Os gwrthoda y meistir y swm hwnw, hwyrach mai myned adref a wnant i gyd heb dalu dim. Os derbynia y swm, a rhoddi y gweddill yn eu herbyn ar y llyfrau, nid

yw o un pwys ganddynt hwy; oblegid gwyddant nas gallant byth ei dalu, a gŵyr yntau mai y peth goreu iddo ydyw gwneuthur yn sicr o'r hyn a fyddont yn ei gynnyg. Rhyfedd ychwanegu fod yr arferiad hwn yn arwain i godiad yn y rhenti, nid gan y meistriaid, ond gan y tenantiaid eu hunain. Nid oes yn yr Iwerddon ddim bron ond tir i bobl fyw arno, ac y mae yn rhaid cael tir er cynnyg rhent y gwyddant nas gallant byth ei dalu. Nid oes gan ffermwr medrus, arianog, sydd yn bwriadu trin ei dir i fantais, a thalu am dano, un gobraith i ymgystadlu am fferm â dyn sydd yn barod i addaw unrhyw rent, gyda'r bwriad o ddadleu â'i feistr bob hanner blwyddyn ei fod yn analluog i dalu. Gwelir oddiwrth hyn fod cyfraith y tir yn yr Iwerddon mewn cyflwr hynod iawn; ac nid rhyfedd fod anghydwleidiad parhâus rhwng meistr a thenant. Dywed y gyfraith, mor bell ag y mae yn siarod o gwbl, un peth wrth y boneddigion; dywed traddodiadau yr oesoedd a ffeithiau hanesiaeth, ac anghenion pob dydd yn ei ddydd, beth arall wrth y werin. Os deddfau gwneuthur y Sais estronol sydd o hyd i gael y llaw uchaf, anfoner yno eto fyddin i "chwynu'r" bobl; ond os rhoddir rhywfaint o barch i hawliau oesol, naturiol, ac anwneuthuredig y genedl Wyddelig, rhodder iddi ryw Fesur Tirol eang, cyfiawn, a adfera dawelwch, ac a'i galluoga o hyn allan i ennill ac i fwyta ei thamaid gyda rhywfaint o gysur.

3. *Yr arferiad o ranu ac is-osod y tir.* Yr achos o hyn eto ydyw tloedi y wlad. Pan y bydd pryddles faith lled fanteisiol gan denant ar ei fferm, gwna ymdrech i'w his-osod, gan ennill rywbeth drwyddi heb lafurio na gwario dim arni. Os bydd y bryddles am amser byr a heb fod ar y telerau goreu, ceisia y tenant ranu ei fferm a'i gosod i amryw bersonau. Clywodd ein darllenwyr hwyrach son am y "Canolwyr"—*Middle Men*, dosbarth o bobl oeddynt unwaith yn lliosog iawn yn yr Iwerddon, ac yn dilyn yr alwedigaeth neillduol o gymeryd tir gan y boneddigion i'w ailosod i'r bobl. Ystyriai y boneddigion ei bod yn anmhosibl, neu o leiaf yn anhyfryd, iddynt hwy gasglu y rhenti oddiar y dosbarth tlotaf o denantiaid, a chan hyny gosodent y tir i ddynion eraill cyfrifol, y rhai a fyddent yn sicr o dalu; ac ail osodent hwythau ef am brisiau llawer uwch. Mewn canlyniad i hyn, gellid myned trwy ddarnau eang o'r wlad heb fod ynddynt neb yn dal ei dir yn uniongyrchol oddiwrth y tîrfeddiannydd. Trwy hyn darostyngwyd y bobl i gyflwr o drueni mawr. Nis gellid dysgwyl i ddynion a gymerent ffermydd er mwyn eu hailosod fod mor haelfrydig a goddefgar â boneddigion yn perchen etifeddiaethau mawrion. Ni obeithiai neb weled Canolwr yn ymddwyn fel gŵr boneddig; ei unig amcan ef oedd gwneyd cymaint o arian ag a allai. Creodd hyn hefyd ychwaneg o deimlad drwg rhwng y Gwyddel a phob math o ddyn a fyddo yn dysgwyl rhent ganddo am dir. Tarddai hyn yn ddiaid o'i syniadau neillduol ef ei hun am ei hawliau fel tenant. Nid anfynych y gellid clywed amaethwr yn cwyno fod ganddo ef ddau dirfeddiannydd yn codi rhent oddiarno. Wedi talu, dyweder, yn ol punt yr erw i'r perchenog, byddai y Canolwr yn ei ofyn drachefn o bunt arall yr erw; yr hyn a ystyrid ganddo fel talu *dau* rent am yr un tir. Arweiniai is-osod y tir yn naturiol iawn i'w ranu. Dysgwylia y Canolwr am y rhent uchaf; ond ni ellid cael hyny ond gan y bobl dlotaf, y rhai a

dalent yn uchel am ddarnau bychain. Byddai y Canolwr yn bwyta y tenantiaid bychain hyn i fyny yn llwyr, ac yn eu cadw i weithio yn galed am y nesaf peth i ddim. Gweithient er cael bwyd oddiar yr ychydig dir a ddalient, a gweithient drachefn i *doddi* ychydig ar y rhent i'r Canolwr, yr hwn, fel rheol, a breswyliai mewn fferm ei hunan yn eu hymyl hwyt. Telid y rhent yn fynych fel y canlyn: "Dau swllt a grôt mewn arian, deugain niwrnod o waith, ceffyl a throl am saith niwrnod, porchell, dwy wydd, pum' cwpl o gywion, chwe' dwsin o wyau, a dau lwyth o fawn." Ar y mater hwn—yr arferiad o ranu ffermydd, fel hyn yr ychwanega Longfield:—

Achos mwy ffrwythlawn fyth o raniad y tir ydyw yr arferiad a ffynai ymysg yr amaethwyr o ranu eu ffermydd rhwng eu plant. Yn y modd hwn gallai fferm yn perthyn i ddydd ag amryw blant ganddo gael ei rhanu i bump neu chwech o fân ffermydd, a gallai y rhai hyn eto mewn cenedlaethau dyfodol gael eu rhanu yn fanach fyth. Nis gallai y perchenog attal hyn, oblegid ni wneid ef mewn modd ffurfiol o gwbl. Yr oedd y plant a enid ar y tir yn aros arno, a thrwy gyd-ddealltwriaeth rhoddid i bob un ryw ran neillduol, yn lle bod y cwbl rhyngddynt oll. Weithiau arosent am yspaid yn yr un tŷ; ac yna pan ddewisent, llafur ychydig ddyddiau a'u galluogai i godi caban arall, yr hwn a allai gael ei gamgymeryd gan y tîrffeddiannydd, os byth y dygwyddai iddo ei weled, am breswylfod llafurwr, neu gwt mochyn, neu drigle rhyw gangen o'r teulu. Fel hyn yr oedd amgylchiadau y wlad yn gwneyd y rhaniaid hwn yn fater o hwylusodod; ond yr oedd ei thlodi a'i hanwybodaeth yn ei wneuthur yn fater o angenrheidrwydd a chyfiawnder. Nid oedd y ffermwr yn perchen din ond ei fferm, ac o herwydd hyn nis gallai ddarpar ar gyfer ei blentyn mewn un modd ond trwy roddi darn o honi iddo. Nid ymddangosai ei fod ef na'i blant yn deall fod unrhyw ddull o fyw yn agored iddynt ond trwy drin y fferm neillduol ar yr hon yr oeddnynt hyd yma wedi arfer byw. Mewn llawer amgylchiad nis gallent siarad ond Gwyddelae, yr hyn a osodai ymfudiaeth allan o'r cwestiwn iddynt.

Ysgrifenydd yr uchod yn 1870, a barnai yr awdwr fod arwyddion o wellhâd yn y pethau y cyfeiria atynt, y pryd hwnw yn dechreu dyfod i'r golwg; ond fel hyn y dywedai John Bright yn Birmingham, nos Fawrth, Tachwedd 16, 1880, gyda chyfeiriad at yr un mater mewn gwedd arall arno:—

Y mae perchenogion yr Iwerddon yn ychydig mewn nifer i wlad mor fawr. O'r nifer sydd yn dal meddiannau etifeddol, rhan o ba rai y gallant eu gosod—yr wyf yn golygu etifeddiaethau o bedwar ngain neu gant o erwau, neu dros hyn—yr wyf yn meddwl nad oes mwy na 1200 neu 1400 yn y wlad. Meddiennir un ran o dair o'r Iwerddon gan 292 o bersonau; meddiennir ei hanner gan 744 o bersonau—yr wyf yn tybied, tua'r un nifer ag sydd yn yr oriel yn mhen draw y neuadd hon—ac y mae dwy ran o dair o'r holl ynys yn meddiant 1942 o bersonau—hwyrach ychydig yn fwy na hanner y bobl sydd yn bresennol yn awr yn yr adeilad hon. Wel, ond ar yr ochr arall y mae yno *bun' can' mil* o denantiaid. Y mae hona yn ffaith fawr—pum' can' mil o deuluoedd, yn rhifo o leiaf o ddwy filiwn a hanner i dair miliwn o bersonau, yn dibynu yn hollol ar y tir, yn ymgystadlu â'u gilydd am feddiant o ffermydd, heb ganddynt o'u blaen yr amrywiol alwedigaethau sydd yn Lloegr, heb ganddynt ddim o'u blaen ond y ffordd allan o'r wlad, i ddianc rhag yr anhawsderau y maent yn cael eu hunain yddynt. Y mae y pum' can' mil tenantiaid hyn, fel y maent yn tystio, yn byw mewn ansicrwydd parhâus. Gall y rhent gael ei godi hanner coron yr erw eleni, a hanner coron arall y fiwyddyn nesaf. Os bydd y fferm yn cael ei rhoddi ar ol dydd y tad neu ar ol y weddw i'r mab, neu oddiwrth ffermwr i'w frawd, dyns amgylchiad yn yr hwn y mae yn bur hawdd cynnyg rhywfaint o godiad yn y rhent. Gall na bydd yr ychwanegiad yn gyfryw fel ag i ddychrynu yr amaethwr nes peri iddo beidio anturio i'r fferm. Bob yn ychydig y mae y rhent yn codi, ac anfodlonrwydd y tenant yn dyfod yn fwy fwy. Y mae yn dechreu dyfod i weled y diwedd i'r hwn y mae yn cael ei wthio. Nis dichon iddo fyw ar ei fferm, a gall

ganfod ei hunan yn ddirgaref yn ei wlad. Fel hyn y mae wedi tyfu yn yr Iwerddon, ac wrth gwrs yn benaf yn y rhanau tlotaf, ddrwgdeimlad ac anfoddolurwydd sydd yn hynod a chyffredinol—defnydd o'r hwn y ffurfir gwrthryfel cymdeithasol a gwleidyddol. Rhaid i ni beidio anghofio fod y bobl sydd yn dal y tir yn yr Iwerddon yn dal cartrefi a bywydan y trigolion. Os darllenwch y llythyrau a gyhoeddwyd yn y newyddiaduron y misoedd diweddar, neu rai o'r traethodau a'r llyfrau a ysgrifenydd ar y mater, neu fwyd yn ol at yr adroddiadau a ganfyddir yn y Llyfrau Gleision cyhoeddedig gan Dŷ y Cyffredin, chwi a ddenweh i'r penderfyniad hwn, oblegid nis gallir ei osgoi. Y mae amser wedi bod, o fewn cof i mi, pan yr oedd tringain o bob cant o breswylwyr yr Iwerddon yn derbyn cymhorth elusenol mewn rhyw ffurf neu gilydd, a chyflwr cyffredin a rheolaidd y rhan fwyaf yn ngorllewinbarth y wlad, lle y mae y tir gwaelaf, a lle y mae yr hinsawdd fwyaf ansicr, ydyw cyflwr o ddiol diraddiol a diobaith. Yn y cyflwr hwn ar bethau, fel y gellwch ddychymgu, y mae yno yr ymgystadlu mwyaf ffyrnig a gwastadol am dir, ac felly y mae yn ngallu y trefeddiannwyr a'u goruchwylwyr, mor bell ag y mae anghenion y bobl yn myned, gynnig a chael codiad yn y rhenti. Yn awr, nid wyf fi yn credu fod y rhenti dros yr holl wlad yn rhy uchel, pe gellid ffarmio y tir gyda sicrwydd diogel, gan denantiaid wedi eu haddysgu, ac yn meddu digon o arian. Ond un o effeithiau y gyfundrefn hon o ansicrwydd ydyw hyn,—na bydd i'r tenantiaid drin eu tir hyd yn nod yn ol y wybodaeth sydd ganddynt, neu yn ol y moddion sydd o fewn eu cyrhaedd, yn gymaint a bod gwellhâd yn eu hamaethiad yn cael ei ddilyn yn rhy fynych gan godiad yn y rhent. Cyfarfyddais y dydd o'r blaen âg un o amaethwyr eangaf a mwyaf deallgar y wlad hon, yr hwn oedd wedi bod drosodd yn yr Iwerddon, ac wedi teithio trwy rai o'r Siroedd mwyaf terfysgylt ac anesmwyth. Meddai wrthyf: "Y mae y tir yn mwydo, a'r amaethiad arno yn aflu, ac nid yw y ffermydd yn cynnyrchu hanner yr hyn ellid gael oddiarnynt; a chyda golwg ar ansicrwydd, prin y meiddiai dyn roddi *coat* newydd led dda am dano rhag ofn y ceid hyny allan, ac yr ystyrir ef fel arwydd y gallai dalu ychydig ychwaneg o rent."

Ymhlith eraill, ymwelodd Mr. Tuke â'r wlad yn ngwanwyn 1880, ac ni allwn wneyd yn well er rhoddi golwg i'n darllenwyr ar sefyllfa pethau yno na dyfynu yr hyn a ganlyn o'i adroddiad, gan sicrhau nad ydychu hyn yn mynegu hanner y trueni a'r cyni sydd yn cael ei ddyoddef yno ymhob cyfeiriad:—

Gwneid i fyny Bwyllgor Elusenol Killybegs o holl weinidigion orefydd yn y dref —y person, yr offeriad, a'r gweinidog Presbyteriaid, a hefyd y masnachwyr. Ymddangosent yn gwbl o ddirif. Allan o chwe' chant o deuluoedd yn y plwyf, yr oedd ganddynt bedwar cant a hanner ar eu llyfrau; dyweder *ddwy fil* o bersonau allan o 8,100, yn derbyn elusen, yn ol traul wythnosol o bedwar ugain punt.

Adroddai Mr. Brooks wrthym am un etifeddiaeth, derbyniantau yr hon sydd tuag wyth mil o bunnau yn y flwyddyn, ar yr hon nid yw cyfartaleid y rhenti yn cyrhaedd mwy na £5 yn y flwyddyn. Y mae gwerth hawl y tenant ar y ffermydd bychain hyn yn ddirfawr; ac yr oedd yn hynod clywed mor lwyr yr oedd Mr. Brooks yn cydnabod yr hawl hon wrth wrando arno yn siarad am y tenantiaid yn *guerthu* eu ffermydd, yn union yr un fath ag y buasem ninnau yn dywedyd yn Lloegr. Dywedai wrthyf fod y tenantiaid yn "gwerthu eu ffermydd" ar amserau tawel am o £30 i £100, yn ol swm y rhent. Yn ddiweddarach ar y diwrnod dywedai dyn a dalai £5 12s. 6c. o rent wrthyf ei fod wedi rhoddi £125 am yr ugain erw a ddaliai.

Ffaith arall hynod gyda golwg ar y ffermwyr bychain hyn ar yr ochr orllewinol i'r wlad ydyw eu bod yn teimlo cysylltiad agos âg Unol Daleithiau America. Dywedid wrthyf nad oedd odid deulu yn yr holl wlad nad oedd rhai selodau o hono yn America, ac mai oddiyno yr oedd yr arian yn dyfod i "brynu" y ffermydd. Dywedai y dyn oedd wedi rhoddi £125 am ei fferm wrthyf ei fod wedi ennill yr arian yn America, mewn saith mlynedd o amser, ac nas gallai yn awr gael hanner y swm hwn am y lle. "Ond," meddai gyda theimlad arllwg, "dyma fy mlwyddyn olaf yma; waeth heb, waeth i ddyd orwedd i lawr a marw—yr ydym wedi ein curo yn lân—y mae pob peth yn myned yn ein herbyn—nid oes yma ddim ffyrdd, chwi welwch, i fyned i'r tir—dyma yr ychydig fawn yn y gors (tua llwyth trol), cymer ddau ddiwrnod i mi i'w gario ar fy nghefn. Mi a gymeraf fy ngwraig a'm teulu i ffordd i America



etc." Pan ofynais iddo paham y daethai oddiyno ac y prynasai y fferm, atebodd gyda chwerwder, "*Mae natur yn rhwygo dyn wrth ei wlad ei hun; ond fedraf fi addim sefyll hyn ddim yn hwy.*"

John Kearney,—y mae ganddo "borfa dwy fuwch," am yr hyn y mae yn talu £3 16s. 8c., a threth sirol yn ol 2s. 9c. y bunt. Y mae treth y tlodion yn 2s. 6c. y bunt; ond nid yw ef yn talu hono am fod ei rent o dan £4. Gallasai unwaith werthu ei le am dringain punt, ond nid yw yn awr yn werth pump. Nid oedd ganddo anifeiliaid o un math, heblaw cŵrwech neu saith o ieir—y rhai a roddent ychydig ywan yn werth 6c. y dwain—a chath, creadur sydd bob amser i'w weled yn yr Iwerddon, fel y bobl, yn snythu yn y tân. Yr oedd ganddo ddwy ferch—genethod prydfferth wedi tyfu i fyny, heb ganddynt ddim byd i'w wneyd.

Patrick Burns, yn dal "porfa pedair buwch," yn talu £6 o rent, a 9s. 6c. o dreth sirol. Nid oes ganddo "na buwch na llo, nac oen na hespin, na dim oedd yn ymlwybro'r ddaear." Y mae ei rent wedi rhedeg er ys tair blynedd. Ymfudodd mab iddo i America, ac anfonodd drosodd i'w dad y deg swllt ar hugain cyntaf a ennillodd yno, gan gadw naw swllt iddo ei hun. Wedi hyny anfonodd dair punt; ond ni ohlywyd oddiwrtho er mis Tachwedd.

Teulu arall, chwech neu wyth mewn nifer, hynod dlawd, a ddywedent wrthyf nad oedd ganddynt "na buwch na llo, nac oen na hespin, na dim oedd yn ymlwybro'r ddaear." "Dim ond y gath," ebe ffinau. "Ie, y gath," ebynt hwythau gan chwerrthin; "rhaid i ni gadw hono."

Y mae rhanbarth Glencolumbkille yn mesur tua deng milldir ysgwar, ac yn cael ei breswyllo gan ffermwyr bychain, rhenti y rhai sydd yn amrywio o 15s. i £3. Gwneir y tai i fyny fel rheol o bedwar mur garw o geryg, heb gymrwd, gyda tho gwellt, ac yn mesur tua 12 troedfedd wrth 15 neu 18 troedfedd; a dyma yn gyffredin gartref pump neu ddeg neu ddeuddeg o bersonau. Cyfansoddir llawr y tŷ gan y graig noeth ar yr hon y mae wedi ei adeiladu, a chanfyddir y mwg o'r tân mawn ar yr aelwyd, ar ol llenwi y tŷ, yn gwneyd ei ffordd allan trwy y drws, neu ynte trwy dwll yn y to a wasanaetha yn lle simdde. Yn gyffredin ceir yn yr adeilad un ffenestr fechan; ond fel yr ydych yn plygu i fyned i mewn trwy y drws isel, nis gellwch gan y mwg weled y preswylwyr sydd yn ymwsgu o gwmpas y tân. Fel yr ydych yn dyfod yn gydua-byddus â'r tywyllwch, canfyddwch hwyrach, yn ychwanegol at y teulu, fuwch yn gorwedd yn y gongl, ac hwyrach wehydd mewn congl arall, ar yr hwn y gwneir y brethyn brodorol; ac wrth graffu yn fanylach, deuwch i weled y tŵr truenus a gyfansoddant y gwely, ar yr hwn y dichon fod iar yn eistedd. Neu hwyrach y canfyddwch hen wrach—nain y teulu—yn wan a budr, yr hon nis gellwch prin ei gwahaniaethu oddiwrth y casgliad o fratiau y mae yn gorwedd arnynt. Mewn rhai tai canfyddir y merched yn brysyr oddiamgylch y ffenestr fechan yn brodio cadachau llogell, neu yn gweithio addurniadau i ddillad babanod, erbyn marchnad Belfast, trwy yr hyn yr ennilliant y swm rhyfeddol o *geiniog yn y dydd*. Meddylwch am y fath waith, am y fath gyflog, a than y fath amgylchfa—mwg, baw, tywyllwch, gwartheg, ieir, dynion, merched, a phlant o'u cwmpas hwynt mewn adeilad 12 wrth 15 neu 18 troedfedd—a phwy fedr ddyweyd nad yw y merched Gwyddelig yn barod i weithio pe caent waith? Yn y parth hwn, allan o wrth gant o deuluoedd, y mae chwe' chant yn derbyn elusen wythnosol.

Tystiai Dr. Thompson wrthym mor barod oedd y dynion y weithio. "Cewch faint a fynoch o honnynt," meddai, "am chwe' cheiniog y dydd." Pan y daethant i ymofyn eu cyflogau, sylwasom mor ddiolchgar yr oeddnynt yn eu derbyn. Cyfrifai Dr. Thompson y buasai pedwar ugain o bob cant o'i gwmpas ef yn dyoddef eisieu bywyd oni b'ai am gynnorthwy y Pwylgor Elusenol. Y mae treth y tlodion yma yn 2s. 6c. yn y bunt, a'r dreth sirol yn 3s. 9c. neu 4s. y bunt.

Er mwyn bod mor fyr a chryno ag y gallwn, rhoddwn eto ychydig frasddarluniau, y rhai a ddangosant i'n darllenwyr i ba fath gyflwr truenus y mae y nifer lluosocaf o'r Gwyddelod wedi eu darostwng, ynghyd â'r angenrheidrwydd am ryw fesurau er symud yr anfantaision a'r tlodi dirfawr y maent yn llafurio dano. Cymaint yn wir, ac mor gyffredinol, ydyw y tlodi fel mai yr unig arian y mae cannoedd o deuluoedd yn ei weled ddydd mewn blwyddyn ydyw yr arian a ennillir ganddynt yn lloegr a Scotland wrth weithio cynhauaf. O rai parthau

o'r wlad, anafona pob teulu ddau neu dri o'i aelodau ar gyfartaledd drosodd i'r cynhauf—fel rheol, "yr hen ŵr" ac un neu ddau o feibion, ac nid anfynh, ar ol dychwelyd, y clywir "yr hen ŵr" yn ymfrostitio ei fod ef yn llawn cystal dyn â'r un a fagwyd ganddo. Ennilliant yn gyffredin o bum' punt i wyth punt bob un. Cadwant hwy yn ofalus, a dygant hwy adref weithiau heb wario cymaint a dimai o honynt. Dyma yr arian sydd ganddynt i dalu y rhent a'r trethi, ac i brynu ychydig fân bethau angenrheidiol. Dysgwylant allu codi eu tamaid o'r fferm—clwt o fawndir gwael yn mesur ychydig erwau, ac weithiau gwneir y fferm i fyny o lain o dir felly yn ymestyn am tua chwarter milldir o hŷd, ond heb fod ond lled y caban o led, ac yn achlysurol rhaid rhoddi y caban i lawr arno yn wysg ei dalcen, rhag iddo ormesu ar dir y cymydogion. Ond bellach at y brasddarluniau :—

1. Tŷ tywyrch, yn agos i'r ffordd, am yr hwn ni chredai fy nghyfeillion mai preswyl dynol ydoedd. Nid oedd na chadair na bwrdd yn y lle—dim ond un ystŷl. Gorchuddid y gwely gan gwrlid teneu, carpiog. Cysgai y plant ar y llawr yn y dillad teneuon a wisgid ganddynt y dydd, gydag ychydig wellt neu wair o danynt. Nid oedd gan y teulu "*ddim yn y byd mawr*" ar eu helw, ac oni b'ai y "blawd," sef yr elusen wythnosol, buasant wedi newynu. Yr oedd y gŵr, er fod y tywydd yn erwin iawn, allan yn y fawnog, yn ceisio paratoi ychydig o dir erbyn y tymmor dyfodol. Nid oedd ganddo anifail wedi ei adael—na buwch na dafad, dim ond tair neu bedair o ieir.

2. Gweddw a phump o blant mewn tŷ ceryg, ond heb unrhyw ddodrefn ynddo hebblaw gwely a chryd. Nid oedd yno hyd yn nod ieir. Teimlai pe buasai ganddi ieir y gallasai werthu yr wyau i brynu halen, ac ychydig bethau angenrheidiol eraill, gyda y dogn wythnosol o flawd.

3. Caban tywyrch, deg troedfedd wrth ddeuddeg, ac un ferch ieuanc olygus oddi-mewn iddo heb ganddi prin ddigon o le i ymuniawnu. O'i chwmpas yr oedd mawnog wyllt a diffaeth, ar yr hon yr oedd ei brawd, gan obeithio yn erbyn gobaith, yn palu llanerch fechan erbyn y gwanwyn. Nid oedd ganddynt arian, na dim o gwbl i ddibynu arno ond y "blawd."

4. Tŷ bychan o geryg, yn yr hwn y preswyliai teulu lliosog—taid a nain, mab a merch wedi priodi, ac amryw blant. Yn ychwanegol at y teulu, yr oedd nifer o ieir a buwch. Yr oedd ganddynt ychydig datws yn aros, tua maint cnau Ffrengig, a dyna'r cwbl a feddent. Oni b'ai y "blawd," buasant wedi trengu gan newyn.

5. Caban bychan yn nghanol mawnog, â'i lawr lathen yn is na gwyneb y tir, heb na drws na simdde arno, tua chwe' throedfedd ysgwar, yn yr hwn yr oedd hen ŵr a hen wraig yn byw, heb ddim at eu cynnalïaeth na dim i'w ddysgwyl ond elusen.

6. Teulu yn ymwasgu o gwmpas tân bychan, a phob un o honynt yn dyoddef i raddau mwy neu lai oddiwrth afiechyd yn y croen, canlyniad ymborth gwael. Ym-ddangoseunt yn deneuon, llwydion, a thruenus. "Ofer rhoddi cyfferïau i chi," ebai y meddyg wrthynt; "bwyd maethlawn sydd arnoch eisieu. Beth a wneir?" "Wel," meddai y gŵr, "yr wyf wedi gwerthu y bustach i dalu y rhent, ac wedi gwerthu y tipyn ŷd oedd genym at fara, ac y mae y wraig wedi gorfod gwerthu yr wydd i gael rhyw fân bethau, ac nid oes genyf yn awr ond y fuch bach a'r llo, a'r ferlen i drin y tir. Debyg gen' i," ychwanegai mewn llais wylodus, "y rhaid i mi eu gwerthu hwythau a myned i'r clotty."

Diau fod yr uchod yn ddigon i gyfleu rhyw draws-amcan am y cyflwr y mae trigolion yr Iwerddon ynddo. Mewn parthau helaeth o'r wlad dyoddefir y cwbl yn dawel, yn neillduol felly yn Swydd Donegal, ac ni wneir ond anfynh gais at godi cynhwrf, na hyd yn nod feio neb; ond derbynïa y bobl yr elusen a estynir iddynt gyda theimladau angerddol o ddiolchgarwch, a chan amlygu eu gobeithion y daw amser gwell ar ol hyn. Mewn rhanau eraill o'r wlad y mae pethau yn wahanol iawn. Dywedir fod dros fil o heddeidwaid arfog yn Swydd

Mayo yn unig, a mynych y gwelir dau neu dri o honynt yn canlyn boneddwr neu ei oruchwyliwr o'r naill fan i'r lall er eu diogelu rhag y bobl.

Erbyn hyn y mae Undeb grymus a chyfoethog wedi ei ffurfio i gynnorthwyo a chefnogi y tenantiaid yn eu gwrthwynebiad i ofynion y tîrfeddiannwyr. Gwrthodir talu y rhenti; os cymera un dyn fferm wedi i ddyn arall gael ei droi o honi, ymwrthodir âg ef gan ei holl gydnabod. Ni siaradant âg ef mewn na ffair na marchnad, mewn na llan na thref. Ni chaiff neb i weithio iddo, nac i brynu ganddo, nac i ymgyfathrach âg ef na'i deulu mewn un modd, ac weithiau gosodir ef mewn perygl ac ofn am ei fywyd. Rhaid cyfaddef hefyd y cyflawnir yn achlysurol lofruddiaethau erchyll, er nad yw hyn ychwaith yn dygwydd mor fynych ag yn Lloegr, ond fod yr achos o honynt yn wahanol, a mwy o swm yn cael ei wneyd yn eu cylch; ac yn benaf oll, hwyrach, o herwydd nad yw yr awdurdodau byth yn medru cael allan pwy sydd yn euog. Er fod y bobl bron marw gan angen, heb geiniog i ymgroesi, eto cynnygier *pum' cant* o bunnau am hysbysrwydd yn erbyn llofrudd neu derfysgwr, ac ni chymmer undyn arno glywed; ni bydd na llef na neb yn ateb. Y maent yn ddystaw fel y bedd, ac yn benderfynol fel angeu. Sicr nad ydynt yn gwneuthur fel y dylent; ond y mae yn dra sicr eu bod yn ymddwyn yn well na'u credo, hyn ydyw, eu bod yn ymddwyn goreu y gallant yn ol y goleuni sydd ganddynt, a than yr amgylchiadau y maent ynddynt. Ac, yn wir, y syndod ydyw na buasai pethau yn llawer gwaeth yno nag ydynt, wrth ystyried yr ysbryd uchel sydd wedi ei gynnyrchu yn y werin, a'r modd ynfyd, gormesol, trahausfalch, yr ymddygir atynt gan y cyfoethogion. Y mae llawer o dirfeddiannwyr Cymru yn rhai digon gwirion a gwael; ond y maent uwchlaw cymhariaeth â thirfeddiannwyr yr Iwerddon. Dywedir am y diweddar Arglwydd Leitrim, ei fod ryw ddiwrnod yn marchogaeth ar hyd y ffordd, pryd y canfyddodd fod un o'i denantiaid wedi adeiladu tŷ bychan destlus o geryg. Wrth ei weled, aeth y pendefig i nwyd gyndeiriog, gofynodd i'r ffermwr pwy oedd wedi rhoddi cenad iddo i adeiladu y tŷ hwnw, ac anfonodd ei weision i dynu ymaith y tŷ, ac i fwrw i lawr y simdde, a bu gorfod i'r teulu symud i'r hen gaban tywyrch yn yr hwn yr arferent breswyllo yn flaenorol. Ar yr ail dydd o Ebrill, 1878, cafwyd Arglwydd Leitrim a'i gerbydwr ar y ffordd wedi eu saethu. Gwneid swm mawr ar y pryd ynghylch y peth gan y newyddiaduron, ac yn sicr yr oedd yn ddygwyddiad gofidus a difrifol iawn; ond gwelir hefyd mai nid o herwydd ei rinweddau na'i ddoethineb y collodd y boneddwr truan ei fywyd.

"Beth a wneir i'r Gwyddelod?"—dyna gwestiwn y rhaid ei ateb yn fuan, a'i ateb yn effeithiol. Amlwg yw nad oes dim a dawela yr Iwerddon ond Cyfraith Dirol, yn cyfateb i deimlad y bobl ac i neillduolion y wlad. Gwnaed llawer cais i gael allan syniadau Mr. Parnell gyda golwg ar y cynllun goreu i adferu iawn-drefn ac i wastadhâu yr ymrafael; ond ymddengys ei fod ef yn lled anmharod i gynnyg unrhwy gynllun, a hwyrach fod hyn yn ddoethach iddo. Nid ei waith ef ydyw dyfeisio cynllun; a phe dyfeisid un ganddo, gwyr na wnelai y gwrthwynebwyr ond treulio amser i'w feirniadu a'i gondemnio. Y mae y tenantiaid wedi cynnyg llawer cynllun, ond nid yw y tîrfeddiannwyr

wedi cynnyg dim. Chwi wŷr da, yr ydych yn gweled i ba fath gyflwr y mae'r Iwerddon wedi dyfod, ac yr ydych wedi gwrthod gyda dirmyg bob cais at osgoi na gwella pethau; cynnygiwch rywbeth eich hunain bellach, neu byddwch fyw heb eich rhenti. Yr ydych trwy y blynyddoedd yn apelio at yr awdurdodau ac yn gwaeddi bradwriaeth; ond pan gynnygir rhyw delerau i chwi, nid oes genych ddim i'w wneyd ond beirniadu a difrio arweinwyr y bobl fel Communistiaid peryglus. Beth fyddai i chwithau gynnyg, a rhoddi cyfleusdra i ninnau feirniadu? Beir Mr. Parnell ynghyd a'r holl blaid Wyddelig yn fawr am y dull y maent yn cario eu gweithrediadau ymlaen yn y Senedd, trwy wneyd pob ymdrech ac arfer pob dyfais i attal gwaith y Tŷ ac anhwylyso y gwasanaeth cyhoeddus. Yn gyffredin, pan y bydd dyn wedi ymafyd mewn gorchwyl pwysig ac yn ei gyflawni yn ol ei ddull a'i farn ei hun, bydd yn hawdd cael nifer mawr o edrychwyr a beirniaid yn gwybod yn llawer gwell nag ef pa fodd y dylai ei gyflawni. Ein barn ni ydyw fod y Gwyddelod wedi chwareu eu cardiau yn rhagorol; ac er y gellir dyweyd eu bod wedi eu curo, eto mewn gwirionedd mai hwy sydd wedi gorchfygu. Gwyddent o'r dechreu pa mor lleied oedd ganddynt i'w ddysgwyl, ac mor ychydig yr oeddynt erioed wedi ei gael. Yn 1868 aeth Gweinyddiaeth Ryddfrydig i mewn, yn benaf ar gefn cwestiynau Gwyddelig. Y pryd hwnw gellid clywed gwleidyddwyr cydwybodol ac areithwyr tanbaid hyawdl, ar ben yr ystolion a'r cadeiriau, mewn troliau a gwageni, yn llefain yn groch am gyfiawnder i'r Gwyddel—"Cyfiawnder i'r Gwyddel pe syrthiai y nefoedd." Y mae y nefoedd heb syrthio eto, a'r Gwyddel heb gael cyfiawnder. Gyda Mesur yr Eglwys Wyddelig dechreuodd y Weinyddiaeth golli ei phoblogrwydd; gyda Mesur y Tir torodd asgwrn ei chefn; a threngodd wrth gynnyg mesur tila ar y Prifysgolion yn yr Iwerddon. Nid yw y Toryaid yn cydnabod fod ond ychydig angen diwygiadau yn yr Iwerddon, ac y mae yn beryglus i'r Rhyddfrydwyr gyffwrdd â'r mater, fel y rhaid fod Mr. Parnell a'i gyfeillion yn gwybod rhyw amcan pa beth yr oeddynt yn ei wneuthur; ac yn ddiddadl y mae un pwynt pwysig wedi ei gyrhaedd ganddynt—y maent wedi llwyddo i argyhoeddi pob plaid wleidyddol ei bod yn amser gwneyd rhywbeth.

Nid oes wybod eto beth fydd cynnwys Mesur y Llywodraeth, ond dywedir fod Mr. Gladstone yn gweithio yn galed arno; a dichon cyn y bydd y llinellau hyn yn nwyllaw ein darllenwyr y bydd ei ddarpariadau wedi eu gwneuthur yn hysbys. Bernir yn gyffredin mai math o helaethiad a fydd y mesur newydd ar gynllun Mr. Bright, dros yr hwn y mae efe wedi bod yn dadleu bellach er ys yn agos i hanner canrif, ac egwyddor yr hwn a gorfforwyd i raddau yn Neddf 1870, sef cynnorthwyo y tenantiaid i brynu eu ffermydd gan y tîrfeddianwyr, trwy roddi benthyg iddynt, am log isel, ddwy ran o dair o arian y pryniad. Nid yw y gyfraith hon hyd yma wedi gweithio yn dda, ac yn y rhan fwyaf o achosion cydnabyddir ei bod wedi profi yn gwbl aneffeithiol. Yr achos o hyn ydyw y moddion anmhwirpasol a drefnwyd i'w chario allan. Ymddiriedwyd hi i ofal Llŷs yr Etifeddiaethau Sirol, gwaith yr hwn ydyw gwerthu etifeddiaethau, a rhoddi teitlau diogel iddynt, yn hytrach na chreu dosbarth newydd o dir-

feddiannwyr bychain. Amcanai Mr. Bright yn ddiau i'r etifeddiathau a ddeuent i'r farchnad gael eu gwerthu yn fân ddarnau, a hyd yn nod bob yn fferm; ond croes i hyny y mae wedi dygwydd. Gwerthir hwy yn eu cyfanrwydd, neu wrth y cannoedd o erwau. O dan yr amgylchiadau hyn, yr unig beth y gall y tenantiaid ei wneyd ydyw ymgynghreirio â'u gilydd, a cheisio codi swm o arian a'u galluoga i brynu yr holl etifeddiaeth, ac wedi hyny ei rhanu llyngddynt; ond gwelir nad hawdd i ffermwr cyffredin weithio yn llywddiannus gynllun mor ddrys a hwn. Dylid ffurfio llys o bwrpas i ofalu am Gwestiwn y Tir yn yr Iwerddon, ac i gario allan ddarpariaethau y gyfraith ar egwyddorion teg a thelerau manteisiol i'r ddwy blaid.

Cenedl bendew, hunanol, ydyw y genedl Seisonig. Caniatâer fod ganddi ddawn i "orchfygu" gwledydd; yn sicr nid oes ganddi un amgyffred am y modd goreu i'w llywodraethu. Yr oedd y Rhufeiniaid yn orchfygwyr; ond heblaw hyny, yr oeddynt hwy yn llywodraethwyr digyffelyb. Caniatâent i bob gwlad ei chyfreithiau a'i chrefydd ei hun. Parchent arferion y bobl, a ffurfient gyfeillgarwch dwfn â hwynt. Dygent i mewn welliantau; gwnaent ffyrdd, a phontydd, ac adeiladau cyhoeddus. Ond mor wahanol ydyw y Sais. Nis gall efe wneyd dim ond lledu ei lygaid mewn syndod, a lledu ei safn mewn chwerthiniad ynfyd am ben pob dyn a fyddo wedi ei ddwyn i fyny yn wahanol iddo ei hun. Mor anwybodus ydyw y Saeson am Gymru, er mor agos ydyw atynt, ac er cymaint o gynniwair sydd rhwng y ddwy wlad. Ceir llawer o honynt yn rhyfeddu ein bod yn siarad Cymraeg, ac yn ystyried ein cyfarfodydd llenyddol a'n cyfarfodydd pregethu yn bethau digrifol anghyffredin. Y maent yn wirionach fyth am yr Iwerddon; a rhaid "addysgu" llawer arnynt cyn y bydd yn ddiogel i unrhyw Weinyddiaeth afael yn ngwraidd y drwg, a ffurfio mesur a benderfyna y cwestiwn am byth. Dyma genym yn awr Weinyddiaeth gref yn myned i afael yn y cwestiwn pwysig hwn; ond cawn weled yn fuan fel y bydd yn cael ei baeddu a'i phoenyddio, ac fel y bydd ei Mesur yn cael ei lurgynio a'i dorfynglu, a hwyrach yn y diwedd na bydd ganddi ddim gwell i'w wneyd na phasio mesur fydd yn syrthio yn fyr o gyfarfod amgylchiadau y Gwyddelod, ac yn fyr o gyfarfod teimlad a chydwybod y Weinyddiaeth ei hun am yr hyn sydd gyfiawn.

JOHN EVANS.

*Croesoswallt.*

## NODIADAU LLENYDDOL.

*Reminiscences.* By THOMAS CARLYLE. Edited by JAMES ANTHONY FROUDE, M.A., formerly Fellow of Exeter College, Oxford. Two Vols. London: Longmans & Co.

YCHYDIG wythnosau yn ol y bu farw y gŵr mawr ac enwog, Mr. Carlyle, ac eisoes wele ddwy o gyfrolau trwchus wedi eu hargraffu o'i Adgofion, heblaw fod llawer o bethau eraill yn ei gylch yn y waag, a Mr. Froude yn paratoi Cofiant iddo. Ac y mae hyn oll yn eithaf naturiol a gweddus, canys nid oes neb o fewn y ganrif hon wedi gadael dyfnach argraff ar feddwl y byd nag a wnaeth efe trwy ei ysgrifeniadau gwerthfawr a lliosog. Y mae llawer o'n darllenwyr yn hen gydnabyddus âg ef, ac eraill o honynt nad ydynt wedi cael cyfleusdra i astudio ei lyfrau wedi cael mantais, trwy yr erthyglau rhagorol a gyhoeddwyd yn y TRAEHODYDD am 1876, o ysgrifell ein cydlafurwr galluog a theilwng y Parch. W. R. Jones, i ffurfio syniad yn ei gylch a wna yn dra dymunol ganddynt gael ychydig ychwaneg o'i hanes. Fe ddaeth efe allan yn arbenig fel delw-ddryllydd; ac yn ei gyrch egniol yn erbyn pob math o ffug, fe barai nid yn anfynych radd o bryder i lawer o wŷr da, mor ddifrifol ag ef ei hun, o herwydd cymeriad negyddol ei addysgiaeth. Eto y mae yn gysur meddwl, fel y mae ei hanes yn dylod yn fwy amlwg, fod ei ysbryd, er ei brofedigaethau, yn gorphwys gyda llawer o dawelwch crediniol ar y gwir-eddau hyny y rhai, er mor gynnul ei broffes yn eu cylch, eto y ceir y fath ddwfn barchedigaeth ymhob cyfeiriad o'i eiddo atynt.

Dywed Mr. Froude yn ei ragymadrodd i'r cyfrolau hyn, ddarvoud i Mr. Carlyle, yn 1871, roddi yn ei law gasgliad o ysgrifeniadau, gan ddymuno arno gymeryd eu gofal, a'u cyhoeddi, os barnai yn addas, wedi iddo ef fyned ymaith. Cynnwysent lythyrau o eiddo ei wraig, gyda "rudiments" o ragymadrodd o'i eiddo ei hun, yn cynnwys adgofion ychwanegol. Ar y pryd tybiai nad oedd eisieu cyhoeddi ychwaneg yn ei gylch ef ei hun nag a gynnwysai y llythyrau hyny, gan fod y "rhan hanfodol o'i tywyd yn ei weithiau, y rhai y gallai y neb a ddewisai eu darllen. Y rhan breifat o hono oedd fater â pha un nid oedd a fynai y byd. Ceid digon, wedi ei ddyweyd gan un a'i hadwaenai yn well na neb arall, i foddloni cymaint o gywreinerwydd ag a allai fod." Ei amcan oedd cael coffadwriaeth am wraig o gynneddfau rhagorol, yr hon, pe dewisasai, a allasai wneyd enw iddi ei hun, ond er ei fwyn ef ydoedd yn wirfoddol wedi aberthu uchelgais a chyfoeth. Wedi hyny, fodd bynag, wrth weled y byddai amryw geisiadau yn debyg o gael eu gwneyd i ysgrifenu hanes ei fywyd, y rhai a fyddent yn sicr o fod yn fwy neu lai anghywir, fe ymddiriedodd i Mr. Froude—ac fe fuasai yn anhawdd iddo wneyd i neb oedd gymhwysach—ei holl ysgrifeniadau, i wneyd â hwy fel y barnai efe yn fwyaf doeth. Wedi edrych drostynt, fe farnodd yntau mai doethach oedd cyhoeddi yr holl Adgofion hyn fel y maent, gan gymeryd hamdden eto i ysgrifenu Bywgraffiad Mr. Carlyle. Er mwyn cyfleusdra i'r cyhoedd, crybwylla yn fyr brif ffeithiau ei hanes. Saer maen oedd ei dad; ac fe gafodd ei eni yn Ecclefechan, yn Scotland, Rhagfyr 4, 1795, a'i addysgu yn ysgol Ecclefechan; yn 1806 anfonwyd ef i Ysgol Ramadegol Annan, ac yn 1809 i Brifysgol Edinburgh; yn 1814 penodwyd ef yn athraw rhifyddol cynnorthwyol yn Annan, ac yn 1816 yn ysgolfeistr yn Kirkcaldy; yn 1812 rhoddes ei le i fyny, a chynnallai ei hun trwy gymeryd ysgolorion yn Edinburgh; yn 1822 daeth yn athraw yn rheulu Mr. Charles Buller, pan oedd mab y gŵr hwnw, o'r un enw, a ddaeth wedi hyny mor enwog yn y Senedd, yn ysgolor iddo, ac yno ysgrifennodd "Fywyd Schiller," ac y cyfieithodd *Wilhelm Meister*; yn 1826 priododd; bu tyw ar ol hyny am ddeunaw mis yn Cowley Bank, gerllaw Edinburgh, ac yna

aeth i Craigenputtoch, farm ar rosdir yn Swydd Dumfries, oedd yn eiddo i fam ei wraig, lle yr arosodd saith mlynedd, gan ysgrifenu yno *Sartor Resartus*, ac ymron yr oll o'r *Miscellanies*; yn 1834 gadawodd Scotland, ac ymsefydlodd yn Llundain, 5 Cheyne Row, Chelsea, lle yr arosodd heb symud mwy hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le y dydd o'r blaen pan ydoedd yn bum' mlwydd a phedwar ugain oed.

Mae y papyr cyntaf yn y cyfrolau hyn yn dwyn y penawd, "James Carlyle, of Ecclefechan, Mason." Ymddengys iddo ei ysgrifenu yn 1832, yn fuan wedi marw ei dad. Dengys fod y tad a'r mab ymhob ystyr yn dra theilwng o'u gilydd. "Yr amser nes y byddai y claddedigaeth drosodd," ysgrifennai, "mi benderfynais ar unwaith dreulio gyda fy ngwraig yn unig, a phawb eraill a gauwyd allan. . . . Am yr ymadawedig, dylem ddyweyd ei fod ef wedi ei gymeryd adref 'fel y cyfyd ysgafn o' ŷd yn ei amser.' Yr ydoedd wedi 'gorphen y gwaith a roddwyd iddo i'w wneuthur,' ac wedi a'i orphen (yn llawer iawn mwy na'r rhan fwyaf) fel y gweddai i ddyd. Yr ydoedd hyd y diwedd y dyn mwyaf dymunol oedd genyf fi i siarad âg ef yn Scotland." Beth a ddywedai y rhai sydd yn arfer condemnio Carlyle fel dyn-gasawr costogaid wrth y geiriau tyner canlynol:—"Hyd yn nôd ar bob ymadawiad y blynyddoedd diweddfaf yma, mi sylwais ei fod yn gwasgu fy llaw yn fwy tyner, fel pe buasai yn teimlo fod un arall o'n hychydig gyfaryddiadau yma ar ben. Yn drugarog hefyd fe'i harbedwyd i mi nes fy mod yn fwy galluoc i ddal ei goll; nes trwy liaws o ymdrechion yr ydwyf finnau hefyd, fel y gwnelai yntau, yn teimlo fy nhraed ar y graig dragywyddol, ac yn gallu gweled, trwy amser a'i farwolaeth, mewn rhyw radd i dragywyddoldeb a'i fywyd. Felly yr ydwyf wedi adrodd, nid â llygaid sychion, mi obeithiaf, a'r un modd nid â chalon heb ei thynnu, y geiriau hynny sydd mor hen a thragywyddol wir, 'Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd; y maent yn gorphwys oddi-wrth eu llarur, a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt.'" Dywed am dano: "Ni ymwelwyd âg ef erioed gan ammhenaeth. Yr oedd yr hen ddamcaniaeth am y bydysawd yn ddigonol iddo ef; ac fe weithiodd yn dda ynddo, ac ymhob ystyr yn llwyddiannus a doeth—fel y gall ychydig wneyd. . . . Y wireb fawr yma mewn athroniaeth a gasglasai trwy addysgiaeth natur yn unig—fod dyn wedi ei greu i weithio, nid i ddamcaniaethu, neu deimlo, neu freuddwydio. Mewn canlyniad fe osododd ei holl galon yn y cyfeiriad hwnw. . . . Mi allaf alw fy nhad yn ddyd gwrol. Wyneb dyn nid ofnai; Duw a ofnai bob amser. . . . Ar y cyfan, ai ni ddyllwn lawenyachu ddarfod rhyngu bodd i Dduw roddi i mi y fath dad; fy mod o'm blynyddoedd cyntaf wedi cael esiampl dyn gwirioneddol o wneuthuriad Duw ei hunan bob amser o fy mlaen? Bydded i mi ddysgu ganddo ef. Bydded i mi ysgrifenu fy llyfrau fel yr adeiladaid efe ei dai, a rhodio mor ddiargyhoedd trwy hyn o gysgod fyd, os myn Duw, i ymuno âg ef yn y diwedd. Amen! . . . Mae genyf falchder cysegredig yn fy ngwerinwr-dad, ac ni fynwn ei newid, ie, yn awr, am un brenin adnabyddus i mi."

Gwna y gymhariaeth a ganlyn rhwng ei dad a Burns:—

Po fwyaf a feddyliaf am dano, mwyaf raid i mi edmygu mor hollol yr oedd natur wedi ei addysgu; mor hollol ymroddedig ydoedd i'w waith, i daag ei fywyd, a bodd-lawn i'r oll fyned heibio yn ddisylw nad oedd iddo berthynas â hyn. Y mas yn ffaiath neillduol, er engraffit, er yn ŵr mor agored a chlir, na ddarfu iddo erioed, yr wyf yn credu, ddarllen tri tu dalen o farddoniaeth Burns. Hyd yn nod pan ddeuai pawb o'i amgylch yn swnfawr a brwdfrydig, myfi yn fwyaf felly, ni ddarfu iddo dybed yn werth ei drafferth adnewyddu ei ymchwiliad o hono, neu unwaith droi ei wyneb tuag ato. Y farddoniaeth a hoffai efe (ni alwai ef yn farddoniaeth) oedd gwirionedd, a doethineb sylweddolrwydd. Ni allasai Burns, yn wir, wneyd dim iddo ef. Yr oedd can uchod mawredd yn crogi dros ei fyd ef â throis yr eiddo Burns,—mawredd byth-bresennol yr Anfeidrol ei hun. Ac ni alwyd arno ef, fel Burns, i wrthryfela yn erbyn y byd, ond i lafurio yn amyneddgar gyda'i daag ynddo, gan gyfuno y posibil a'r angenrheidiol i ddywyn allan y sylweddol, yn yr hwn hefyd y gorweddi cyllun perffaith. Ni allasai Burns mewn un modd ei nerthu yn y cwrw yma; ac am hywyd nid ydoedd iddo ef ond peth rhyfedd yn unig. Ie, yr oedd cymaint o siarad wedi

bod ynghylch Burns, ac yr oedd tynged a'i haeddiant yntau wedi andwyo ei enw yth y fath fodd fel yr oedd y da yn hytrach yn ei osgoi. Eto nid gyda gwrthdeimlad yr edrychaf fy nhad ar Burns; ar y gwaethaf, gyda difrawder ac eageulusdra. Mi a'i clywais yn dyweyd iddo unwaith ei welod, "yn sefyll yn efafl Rob Scott" (yn Ecclefechan), yn ddiammen yn arolygu rhyw waith. Cylwodd rhywun yn dyweyd, "Dyna y bardd Burns." Aeth allan i edrych, a gwelai ddyw mewn botasan, fel amaethwr parchus, yn cerdded i lawr y pentref yr ochr draw i'r ysgubor. Dyma yr holl berthynas a fu rhwng y ddau ddyw yma; yr oeddynt yn bur agos yn gyfoed. Mi adwaenwn Robert Burns, ac mi adwaenwn fy nhad. Eto pe byddai i chwi ofyn i mi pe un a feddai fwyaf o allu natariol, mi allwn, fe allai, yn natariol ymbwylllo cys ateb. Yr oedd Burns wedi cael addysg anafsurol eangach, fy nhad un lawer mwy iachus. Heblaw hyny, yr oedd y naill yn ddyw o fynegiad cerddgar; y llall, yn gwbl yn ddyw gwaith, gyda llafar yn iswasanaethgar i hyny. Ni ddaeth erioed, o bawb dynion a welais, yr un yn bersonol yn fy ffordd i ymha un yr oedd y cynnyas-aeddiad gan natur a'r cemmaes gan fortune mor gwbl allan o bob cyfartealded. Mi ddywedais hyn yn fynych, ac mewn rhan yr wyf yn ei wybod. Fel dyn damcaniaeth—pe buasai diwylliad weli ei ddad blygu—rhaid y buasai yn myned yn wyllt ac o'i gof fel Burns; ond yr oedd efe yn ddyw ymarweddiad, y mae gwaith yn cadw ysbecth yn iawn. . . . O lawer ei ddiwylliad pwysigaf a gauglassai—a hyny, hefyd, trwy ei ymdrechion ei hun—o'r rhan oreu o'r gymydogiaeth, y dynion crefyddol; at ba rai fel y rhai rhagoraf, yr oedd ei natur ei hun yn raddol yn ei ddyw ac yn ei atynnw. Yr oedd yn grefyddol gyda chydysniad ei holl alluoedd. Heb grefydd ni fnasai yn ddim.

Er ei fod mor ryfeddol o gryf, eto yr oedd ynddo yntau, fel yn ei fab, wythien ddofn iawn o dynerwch. Dywed ei fab, pan oedd gweddillion clefyd ar ei fam yn 1817, ac yn bygwth dinystrio ei rheswm, i'w dad "dori i genllif hollod o drallod, llefain yn resynol, a thafu ei hun ar y llawr, a gorwedd gan gwynofain. . . . Yr ydoedd fel pe buasai graig o wenithfaen wedi toddi, ac yu dadmer yn ddwfr."

Mae yr Adgofion a geir yma am gydoeswyr enwog Carlyle, a'u cymdeithas a'r ef, yn hynod o ddyddorol; ond yn arbenig felly y serchogrwydd dwfn-garuaid a ddengys bob amser tuag at ei wraig. Fe ellid meddwl na fu priodas erioed yn fwy gwirioneddol ddedwydd. Mewn adgof ymhen blynyddoedd lawer am eu *gig-drives* yn Craigenputtock, ysgrifennai: "Oh y gwibiadau hyny yn y gig, yn min nos hyfryd, deiliog, neu yn hwyr y nos ambell dro, nyddi (ddau) ein hunain yn y byd, 'Lorry' dda yn ein tynu (braidd yn yegafn i'r gwaith, ond bob amser yn ufudd ac ewyllysgar), fel y maent yn oedi arnaf yn awr yn oleu o'r nos guchiog ddu! Ie! beth a roddwn am un, y waethaf o honynt oll y foment hon! Unwaith yr oeddwn wedi myned i Dumfries, ar ddiwrnod tyner, niwliog o Ragfyr (am ddarlun oedd ar fy anwylyd ei eisien, nid o honi ei hun!); ceid fod pont wedi tori fel yr elem i lawr, y ffrwd yn beryglus y nos; yr oedd genym i geisio myned ffordd 'Gladen Water,' gan fod y cyfan yn niwl a chaddug ar ein dychweliad; y ffordd yn anadnabyddus, oddieithr yn gyffredinol, a'r daith heb fod yn debyg i un arall mewn cof. Y Cairn yn rhuo yn grug ar yr aswy (ochr fy anwylyd), 'Lorry' heb ond un ganwyll lamp (canyr yr oedd raid rhoddi y llall allan, rhag i'r ddwy ddarfod), bob amser yn troi i fod yn union yn ngoleu hono; myfi yn wir bryderus, fy anwylyd mor lawn o ymddiried ynof, yn wirioneddol ddedwydd, ac yn teimlo dyddordeb cyfoethog yn yr holl helynt; yn yr amgylchiadau tlodion a pheryglus hyn mor gyfoethog ydyw calon franhinol ardderchog." Pan glywodd am farwaleath ei dad, "Oh mor dda a thyner ydoedd hi, a chysurol trwy bob dull a modd, yn y dyddiau dda hyny! Yr wyf yn cefio ein bod yn cerdded hyd Holborn ymlaen i'r ddinas gyda'r dymher archolledig yr oeddwn ynddi; hi yn fy amblygu fel y rhwymynau tyneraf; yn y Ddinas rhywle, dau fachgen yn ymladd, mewn cylch o ddyhirod yn glaswenu o'u cwmpas; rhuthro yn ddi-gllawn trwodd, tynu yr ymladdwyr oddiwrth eu gilydd, gyda rhyw gerydd llym ("yn y byd yma sydd lawn o angen"), hi yn fy mraich, a phawb yn ddyystaw yn ufuddhau. Nid oedd dim yn eisien yn ei chydymdeimlad, neu yn ei ddull, fel hyd yn nod gyda phobl ddi-dwyll yn fynych y mae. Mor tlodion oeddym, ac eto



mor gyfoethog!" Drachefn dywedai am dani: "Fy un ardderchog! Yr wyf yn dyweyd yn bwylllog fod ei rhan yn y frwydr galed—ac oddieithr fy hun nid oes neb w'r mor galed—yn ddysgleiriach ac yn fwy gwrol na'r eiddof fy hun. Diolch, anwylyd, am eich geiriau a'ch gweithredoedd gloywon, y rhai oeddent o hyd yn fy llygaid, ac nid yn eiddo un marwol arall." Am y "French Revolution:"—"Yr wyf yn cofio yn dda ysgrifenu y paragraph olaf i fyfny y llofft yn y *drawing-room*, oedd y pryd hyny fy ystafell ysgrifenu, wrth ei hochr hi yno, ac yn y prydawn llwyd (haf dybygaf), yn fuan ar ol tē (fe allai); yna, gyda'i bendith anwyl hi arnaf, yn myned allan am dro." "Ambell waith," dywed ymhellach, "y mae ei delw hi, wedi myned yn ei cherbyd buddngoliaeth (yn y farwolaeth brydferth hono), ac fel yn amneiddio arnaf gyda gwên, 'Yr wyf ōn wedi myned, un anwyl; gweithia ychydig yn hwy, os wyt eto yn gofalu, os amgen dilyn. Nid oes dim isel na thruenus yma. Calon, hyd y diwedd!'"

*Ballads and Other Poems.* By ALFRED TENNYSON. London: C. Kegan Paul & Co.

Y MAE Mr. Tennyson, chwedl Mr. Lewis Morris yn ei Anerchiad ysplenydd yn y *Liverpool Institute* yr ydym yn cael yr hyfrydwch o'i gyhoeddi yn Gymraeg yn y Rhifyn hwn o'r TRAEHODYDD, yn parhâu i weithio er ein mwyn, iē hyd hen ddyddiau, ac felly yn ychwanegu at y cyfoeth o fwynhâd pur y mae wedi ddarpar mor helaeth ar ein cyfer yn ei gyfansoddiadau. Yr oedd amryw o'r darnau a geir yn y gyfrol hon wedi eu cyhoeddi o'r blaen yn y *Nineteenth Century*, &c., ond y mae yn gyfleus eu cael fel yma gyda'u gilydd yn llyfr. Fel pobpeth a ddaeth o'i law ef, y mae y gyfrol hon wedi cael derbyn- iad croesawus iawn. Y mae rhai o'r beirniaid wedi bod yn ddyfal yn ceisio cael allan yn y darnau hyn arwyddion adfeiliad yn meddwl y Bardd enwog. Ond da genym weled nad ydyw yn ymddangos fod nemawr sail i hyny, oddieithr a allai fod yn nychymyg y beirniaid eu hunain. Y mae adeg darllen- iad ei gyfansoddiadau ef am y tro cyntaf yn gyffredin yn gyfnod newydd yn hanes meddyliau dynion, ac nid hawdd ydyw iddynt ar ol hyny, gyd i'g unrhyw gyfansoddiadau newyddion hyd yn nod o'i eiddo ef, gael cydgyfarfyddiad o amgylchiadau a fydd mor fantesiol i berffaith fwynhâd. Ond y mae dynion doeth a phwylllog, er hyny, yn gorfod rhyfeddu at yr ieuengrwydd a'r amryw- iaeth sydd yn barhaus ac mor amlwg yn nodweddu ei ymdrechion. Y mae y Baledi a'r Pryddestau hyn yn hynod am eu sylmëdd a'u tlyni, ac fel bardd- oniaeth Tennyson yn gyffredin o'r duedd ymarferol oren. Ni fyddai ond ofer i ni gyfeirio yma at y darnau bob yn un. Y mae un, fodd bynag, ag y teimlai llawer o'n darllenwyr ddyddordeb neillduol ynddo—*The Northern Cobbler*. Fel y *Northern Farmer*, &c., o'r blaen, mae y gân yma wedi ei chyfansoddi yn ngerwin-iaith Gogledd Lloegr, ac am hyny, i lawer sydd yn darllen Saesoneg, yn lled anealladwy. Tybed y gellid dysgu y *Cobbler* hynod hwn i ddyweyd ei ystori ddyddorol yn Gymraeg? Gadewch i ni dreio.

Y COBLER GOGLEDDOL.

I.

Wel mae genyt wmbreth i'w ddweyd, ond aros dd'od Sally i'r tŷ.  
Mae 'n dda dros ben gen' i'th wel'd yn edrych mor iach ac mor gry'.  
Wedi 'th fwrw ar anial fro lle mae 'r haul yn syth o'r llawr!  
Rhyfedd sy i'w wel'd ac i'w wneyd wrth dramwy y moroedd mawr.  
"Rhywbeth i yfed—mor boeth!" Nid oes gen' i ond gwin Adda:  
Wrth feddwl am wres y cyhydedd, beth yw gwres y llethr bach yma!

II.

"Beth sy 'n y botel sy 'n sefyll fan yma?" Mi ddweda iti, Gin.  
Ond os oes arnat eisieu grog, rhaid it fyn'd am dano i'r Inn.  
Na—ond mae 'u dda gen' i, er cymaint dy syched di am  
Dano, ni chei di ddim gin o hon, ac mi ddweda i ti pam.

## III.

Mi a'th chwaer a briodwyd—tua diwedd Mehefin mae 'n gwyl—  
Ddeng mlynedd yn ol, a chytunem yn gystal â ffidil mewn hwyl :  
Mi allwn i daclu hen 'sgidiau â'r goreu o honyng oill,  
Mor bell ag o ddraenen Thursby hyd Harmsby a'r Plas yn ddi goll.  
Oeddyr brysur fel gwenyu mewn blodau, ac mor hapus ag allem ddymuned,  
Ac yna fe anwyd y baban, ac yna mi drois i i yfed.

## IV.

Ac, machgen i, ni wna't ei wadu, er yn awr i mi 'n hanner ow,  
Gallem ganu cân dda yn y Plow, gallem ganu cân dda yn y Plow ;  
Er unwaith ar noswaith rewlyd mi lithrais, gan frifo fy nglun,  
Ac weithiau i'r llaid bendramwnwgl â mi yn wrthun fy llun :  
Ac unwaith ymleddais â Theiliwr—nad oedd, machgen i, 'n hanner dyn—  
Can's sgrechai a chripiat fel cath, a Sally o'i ffordd ei hun  
A droes yn wrach i'm tafodi a'm trin, "Yn gwirioni dy fenydd,  
Yn llyncu a sicio a smocio, a diogi o gwmpas y lonydd,  
Mor feddw-fochynaidd na roi 'th law ar dy het i'r Scweier glân ;"  
Ac mi 'drychais ar gil ar fy nhrwyn, a gwelwn o 'n myn'd ar dân ;  
Ond gau mod i o hyd mewn diod ac o hyd mor feddw â brenin,  
Aeth gwaith y cwsmeriaid i ffwrdd fel barcud pan doru y llinyn.

## V.

A Sally i gadw 'r blaidd draw a olchai i bobl y plwy ;  
Ha po fwy 'm cyffroai, hi 'm gyrai i yfed yn fwy,  
Achos cefais, pan droisai ei chefn, lle 'r oedd ei hen hosan yn nghudd,  
A gweriais, do, 'r arian ennillai am ddiody nos a'r dydd.

## VI.

Un noswaith mi ddeuthum adre fel tarw mewn ffair o'i go,  
A hi 'n tynu ei gwallt mewn dychryn gan lefain dros y fro,  
Ac mi syrthiais ar draws y cryd a thyngais y torwn bob pric  
O'i dodrefn oedd yn y tŷ, ac mi roddais i Sally gic ;  
Maluriais y byrddau a'r stolion, a hi a'r baban yn gwaeddi,  
Achos 'wyddwn i mwy am a wnelwn na'r anifail mewn maes sydd yn pori.

## VII.

A phan ddeffro'is yn y bore mi welais fod Sally dan anaf  
O achos y cic roiswn iddi, a chwilydd ofnadwy oedd arnaf ;  
A Sally 'n ddigalon, afêr, mewn hen own oedd o glytiou yn frith,  
A gwyneb y bach heb ei olchi, a'r holl dŷ i gyd o chwitt.

## VIII.

Ac yna mi gofiais ein Sally yr eneth hawddgara 'n y wlad,  
Yn syth fel polyn a glân fel blodeuyn o'i phen i'w thraed :  
A chofiais y cusan cyntaf rois iddi wrth ddraenen Thursby ;  
Ehedydd ar fore Sul oedd yno ei oreu yn canu,  
Ni allwn ei wel'd, ond fe 'i clywem yn uwch ac yn uwch yn y wybren,  
Ac yna fe droes i'r haul, a dysgleiriaid fel tân-wreichionen.  
"A weli di mono," gofyna, "r wyf fi yn ei wel'd ?" a mi  
Ni welwn ond gwên yr haul yn dawnsio yn ei llygad clws hi ;  
Ac mi ddwedais, "Rhaid i mi gael cusan," a Sally a ddwedai, "Na raid,"  
Ond mi rois iddi gusan, ac yna un arall, a Sally ddwed "Paid !"

## IX.

Ac wedi i ni ddyfod i'r Capel mewn cyffro 'r oedd hi ar y fainc,  
Ond wedyn canasom yr hymnau ynghyd fel adar ar gainc ;  
A Muggins bregethai am Uffern, a chariad Duw at ddyr ;  
Ac wrth 'madael â'n gilydd rhoes Sally im' gusan o honi ei hun.

## X.

Dyma oedd syrthio o gusan i gic, fel Satan yn syrthio  
O'r Nefoedd i Uffern dân—er nad oes dim yfed yno ;

Y fi yn cicio ein Sally, gadwai draw y blaidd bob pryd,  
A'r cwbl o achos y ddiod, can's ei charu a wnawn o hyd.

XI.

Felly fel catffwl mawr ymollyngais i grio ar y gwely—  
“Ni wna i felly byth eto;” a Sally gan edrych i fyny  
A ddwedai, “Mi wranta na wnei; fel y gweddill yn ddi fêth  
Ei i swyro o gwmpas y tap nes gwneuthur drachefn yr un peth.  
Dyna dy elyn, ddyn, mae wedi 'th feistrolï mor lân,  
Fel o'i wel'd a'i aroglï yr ei ar ei ol, ie i Uffern dân.

XII.

“Na,” ebe fi, “nid âf i swyro o gwmpas y tap.”  
“Nid ei?” ebe hi, a minnau ynof f' hun a feddyliwn “hap.”  
“Na wna!” ac ymaith â mi fel saeth ac i lawr i'r Inn,  
A dygais a weli 'r fan yna, y botel fawr ddu yna o gin.

XIII.

“Oh, gwaeth na'r cwbl,” medd Sally, a dechreu llefain wnaeth hi,  
Ond rhoddais hi yn ei dwylaw, ac ebe fi, “Sally,” ebe fi,  
“Gosod o yna yn enw yr Arglwydd a nerth ei Râs,  
Gosod o yna, mi edrycha yn ngwyneb fy ngelyn cas,  
Gosod o yna yu y ffenest, a gad i mi weld ei lun,  
Ni ymddengys yn ddim ond dwr, ac nid yw ond y Diawl ei hun.”

XIV.

Ac yr oeddwn yn bur ddigalon, dim gwaith oddiw'rhyf ni ddaw,  
Yn groes a checrus a gwan, a gyrais y myniawyd i'm llaw,  
Ond hi oedd yn llawer o gysur, ac eistedd a wnai ar fy nglin,  
Ac anwesai a daliai fi i fyny nes dod o'r ymdrechfa flin.

XV.

A Sally a ddwedai 'r hanes, a'r bobl a rythent pryd hyn,  
Fel pe buasai 'n rhywbeth i reibio yn lle yn chwart o gin;  
Rhai ddwedent nad oedd ond dwr—mai cogio y wraig yr oeddwn,  
Am ymgadw oddiw'rth y gin, ie i achub fy mywyd nad allwn;  
A'r gôf a noethai gan ddangos i'm dewdwr ei fraich fawr gref,  
“Teimla hon, ni elli di dyfu fath hon ar ddwr!” ebe ef.  
Ac yu min nos ddydd Sul i'm gweled fe alwai y Meddyg,  
“Rhaid i ti beidio,” medd ef, “rhaid ei droi ymaith bob yn ychydig.”  
“Methodist wyt,” ebe 'r Person, ond gan bwyntio at y botel gin,  
A rhoi ei het i lawr fe ddywedai, “ond rwy 'n dy barchu am hyn;”  
A'r Sckeier ei hun i fy ngwel'd o'r Plas a gerddai i lawr,  
A ddwedai, gan daro ei law yn fy llaw, “rwy 'n dy barchu yn fawr;”  
A gwaith ddeuai i mewn drachefn fel y gwynt o agos a phell,  
Gan ddwyn i'm esgidiau i'w taclu o hanner y wlad neu well.

XVI.

Ac yna y saif ac yna caiff sefyll tra byddaf fi byw,  
'Rwy i wedi dod eto i'w garu, ond cariad gwahanol yw,  
Yn falch o hono, fy machgen, a chadwaf o 'n loyw a glân,  
Gan ei garu, a'i rwbio, a'i lanhâu, a'i roi yn ei ol fel o'r blaen.

XVII.

Ai ni wnelsai peint y tro yn gystal â chwart? Digon siwr:  
Ond hoffwn un mawr i'w ymladd, a'i ymladd a wnes fel gŵr.  
Gwych a phêr raid ei fod erbyn hyn, pe maliwn ei brofi,  
Ond rhaid peidio, fy machgen, ni wna, achos teimlwn dan warth yn soddi.

XVIII.

Ac unwaith ebe fi wrth fy meistres, “Fy ngeneth pan i farw 'r âf i,  
Dryllia y botel yn deilchion, mae y Diawl o'i mewn,” ebe fi.  
Ond wedyn newidiais fy meddwl, os Sally fydd mewn unigedd,  
Mynaf gladdu y botel gyda mi a chym'raf hi o flaen yr Orsedd.

## XIX.

Tyr'd yma—y wraig barchus acw sy 'n cerdded ar hyd yr heol,  
Adwaenost ti moni—mor glws, mor heini, mor ddel, ac mor siriol ;  
Edrvch y dillad sy am dani, maent bron yn newydd i gyd,  
A Tommy, fel afal olcheaid mewn gwllith, mor loyw ei bryd.

## XX.

Dyna'n Sally a'n Tommy ni, a bellach ni awn i giniawa,  
Tatwa, cig moch, a phwddin laeth tor, ynghyd a gwin Adda ;  
Ond os oes arnat eisieu grog rhaid it' fyn'd i'r Inn i'w ymofyn,  
Achos 'thwallta i ddropyn o'i waed, ie i un sydd i Sally yn perthyn.

Philosophical Classics for English Readers. Edited by William Knight, LL.D., Professor of Moral Philosophy, University of St. Andrews.—*Descartes*. By J. P. MAHAFFY, M.A., Knight of the Order of St. Saviour; Fellow of Trinity College and Professor of Ancient History in the University of Dublin; Author of "The Critical Philosophy for English Readers," etc. W. Blackwood & Sons.

Y MAE y Meistri Blackwood er ys tro bellach wedi bod yn cyhoeddi *Ancient Classics for English Readers*, yn gyfrolau prydferth hanner coron yr un, ac yn rhoddi i'r darlennydd Seisonig grynodedb o hanes yr hen ysgrifenyddwr ynghyd a syniad clir ac mor gyflawn ag oedd yn bosibl mewn cylch mor fyr am eu hysgrifeniadau, oll gan ysgolheigion addedd; ac mae yn dda genym ddeall eu bod eisoes wedi cael lledaeniad mawr. Ni allai dim, y tu yma i astudio y gweithiau mawrion eu hunain, roddi gwell drychfeddwl am werth y gwasanaeth a wnaed i'r byd gan yr hen Glasuron. Y mae llwyddiant yr anturiaeth yma wedi peri iddynt gyhoeddi mewn dull cyffelyb *Foreign Classics for English Readers*, o ba rai y mae tua dwain o gyfrolau wedi dyfod allan, ac ar y fath enwogion â Dante, Voltaire, Petrarch, Pascal, Goethe, Moliere, &c. Y mae y rhai hyn hefyd yn hynod o ddeniadol a gwerthfawr. Ac yn awr y maent wedi dechreu ar drydedd cyfres, *Philosophical Classics for English Readers*, er rhoddi arweiniad i hanes a llafur yr Athronwyr mawrion sydd yn yr oesoedd diweddar yma wedi gosod dynolryw dan y fath ddyled i'w meddylgarwch a'u doethineb. Y mae y rhai hyn yn dri a chwech yr un, ond y maent yn llawn werth yr arian ac ychwaneg, a diammeu y bydd yn dda gan lawer iawn gael eu cymhorth wrth fyned i mewn i efrydiaeth athroniaeth. Y gyfrol yma ar Descartes, wedi ei hysgrifenu gan Profeswr Mahaffy o Dublin, awdwr llyfr enwog diweddar, "A History of Greek Literature," ydyw y gyntaf o'r Gyfres Athronyddol, ac y mae i'w dilyn gan rai ar Butler, Berkeley, Fichte, Hume, Hamilton, Bacon, &c. Priodol y cychwyna gyda Descartes, canys nid oes neb yn meddu crystal teitl i'w ystyried yn dad athroniaeth ddiweddar. Yn yr ystyr yma y mae yn ddiaw fod llawer o glod, yn enwedig yn y wlad hon, wedi ei roddi i Bacon, oedd mewn gwirionedd yn ddyledus iddo ef. Yr oedd y rhan gyntaf o'r ail ganrif ar bymtheg yn ddyddiau o ddefiroed neillduol mewn athroniaeth, yn dilyn y cyfiro crefyddol mawr a roddasid ychydig cyn hyny i feddyliau dynion trwy y Diwygiad Protestanaidd. Ac ar y fath amser nid ydyw yn rhyfedd fod amryw o'r meddyliau mwyaf, o benau o wrynddod oedd uchel y safent arnynt, yn cael trem ymron yn gyfamserol ar wawr y goleuni newydd oedd yn cyfodi ar y byd. Nid oedd neb yn meddwl yn fwy hyderus na Descartes, yn edrych gyda mwy o ddirmyg ar ymbalfaliadau y byd yn ei ymofyniad am wirionedd yn flaenorol iddo, neu yn fwy sier o wreiddiolder y darganfyddiadau yr oedd efe yn eu gwneuthur. Mae yn ddiau ei fod yn camgymeryd yn rhai o'i honiadau, ond ar yr un pryd yr oedd ei waith o anmhriadiwy werth. Nid ymddengys fod dim cymundeb rhyngddo â Galileo, eto fe ddaeth i ddeall mor glir ag yntau am ysgogiad y ddaear; caamlia Harvey, eto ni chydnebydd ei fod yn ddyledus iddo ond am un pwynt; myn fod Pascal wedi cael allan bwysau yr awyr mewn canfyddiad i

awgrymiadau a gawsai gandlo ef; cydnabyddir fod ei *Method*, &c., wedi bod yn fwy ffrwythlawn mewn darganfyddiadau gwyddonol nag *Instauratio Magna* Bacon; ac fel tad yr athroniaeth sydd yn cychwyn oddiwrth natur a chyngreddfa y meddwl dynol ei hunan, ac nid oddiwrth gaffaeliadau moelion synwryddiaeth, y mae yn deilwng o fod byth mewn coffadwriaeth barchus. Mae yn sier iddo syrthio i gamgymeriadau, ond fe lwyddodd i roddi ysgogiad i feddwl y byd ag sydd wedi profi o anfesurool werth. Mae y llyfr hwn arno yn ddarllenadwy a rhagorol.

*A History of Christian Doctrines.* By the late Dr. K. R. HAGENBACH, Professor of Theology at Basel. Translated from the fifth and last German Edition, with Additions from other Sources. With an Introduction by E. H. PLUMPTRE, D.D., Professor of Divinity in King's College, London; Examining Chaplain to the Archbishop of Canterbury. Vol. II.

*A System of Christian Doctrine.* By Dr. J. A. DORNER, Oberconsistorialrath and Professor of Theology, Berlin. Translated by Rev. ALFRED CAVE, B.A., and Rev. J. S. BANKS. Vol. I.—Foreign Theological Library.

MAE y cyfrolau hyn yn gwneyd y drydedd a'r bedwaredd o gyfrolau Clark am 1880, yn gystal ag o'r Gyfres Newydd brydferth a ddechreuwyd y flwyddyn hono. Galwasom sylw yn ddiweddar at y gyfrol gyntaf o Hagenbach. Y mae un gyfrol, y drydedd, i'w dysgwyl eto. Y mae yr argraffiad yma yn tra rhagori ar y llall a gyhoeddwyd yn gynnar yn y gyfres. Ac y mae y gwaith y fath ag y bydd efrydwy'r yn hynod falch o hono. Yn ein hymdrech i ffurio syniad i ni ein hunain, ac yn enwedig i addysgu eraill gyda golwg ar athrawiaethau pwysig y Gair, y mae yn sicr yn fantais arbenig i ni gael cyfleusdra i ymgodi uwchlaw culni ein hysgolion neillduol, a chael golwg ar yr hyn a feddyliai mawrion yr oesoedd, bob un o'i safle neillduol ei hun, mewn perthynas iddynt. Y mae hefyd yn ddyddorol gwaled mor fyrhoedlog ydyw mympwyon mewn efrydian o'r natur yma, ac fod "gor-oesiad y cymhwysaf" mor amlwg yn hanes damcaniaethau duwinyddol ag ydyw mewn tiriogaethau eraill. Po helaethaf y cyfranogom o fywyd y gwirionedd cryfaf yn y byd fydd ein hawl i'w fytholrwydd.

Y mae yn gaffaeliad dymunol i gael gwaith mawr Dorner, Cyfundrefn o Athrawiaeth Cristionogol, allan yn y gyfres hon. Y mae efe yn hen adnabyddus fel awdwr gwaith tra phwysig ar Berson Crist, ac un arall o gyffelyb nodwedd, Hanes Duwinyddiaeth Brotestanaidd. Ond fe gydnabyddir mai y gwaith mawr hwn, o ba un y mae tua deuddeg cant o du dalenau eisoes wedi eu cyhoeddi yn y German, ac o ba un nad oes eto ond y gyfrol gyntaf wedi dyfod allan yn Saesoneg, ydyw ei orchestwaith; ac y mae yn addfed ffrwyth oes faith o lafur caled a meddylgarwch dwfn. Nid gwaith cyffredin oedd ei gyfieithu. Fel amryw o'r Germaniaid y mae Dorner fel pe byddai wedi ei ystyried islaw iddo i ymgais am osod ei feddyliau ger bron yn y modd mwyaf clir, heb son am wastraffu amrantiad i'w gwneuthur i'r radd leiaf yn ddiadodol. Ond mae yn ffodus iddo ei fod yn cael ei gyfieithu i'r Saesoneg gan Mr. Cave, gŵr ag y mae yn dda genym weled ei waith gorchestol, *The Scriptural Doctrines of Sacrifice*, y galwasom sylw ato dro yn ol, yn cael ei gydnabod hyd yn nod yn Germany heb fod yn ail i waith Keil ei hun ar y testun hwnw, tra mewn gorphenrwydd llenyddol y mae yn rhagori arno yn fawr. Ond hyd yn nod yn llaw Mr. Cave, er wedi ei ddiogs o lawer o'r clogrynwch tywyll sydd yn ei wneyd yn ei ffurf wreiddiol yn ddychryn i liaws o efrydwy'r, y mae y gwaith hwn ymhell o fod yn hawdd i'w ddarllen. Ar yr un pryd, i bwy bynag a gymero ychydig boen gydag ef y mae yn sicr o dalu yn rhagorol. Y mae wedi ei ymaguenu oddiar safle sydd mewn meddiant clir o ffrwyth meddylgarwch y gorphenol ar y cwestiynau pwysig, ac ar yr un pryd yn genadwri mewn perthynas iddynt, o'r awdardded uchaf, i feddylgarwch ddiwed y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

*A Popular Commentary on the New Testament.* By English and American Scholars of Various Evangelical Denominations. With Illustrations and Maps. Edited by PHILIP SCHAFF, D.D., LL.D., Baldwin Professor of Sacred Literature in the Union Theological Seminary, New York. In four Volumes. Vol. II. The Gospel of St. John and the Acts of the Apostles. Edinburgh: T. & T. Clark.

GALWASOM sylw dro yn ol at y gyfrol gyntaf o'r Esboniad Poblogaidd rhagor-ol hwn ar y Testament Newydd. Mae yr ail gyfrol sydd o'n blaen yn llawn gyfiawnhâu y dysgwyliaid uchel a goleddem y pryd hynny mewn perthynas i'r gwaith, ac yn peri i ni gydolygu â Dr. Alexander o Edinburg—gŵr ag y mae ei glod fel ysgolhaig Biblaidd yn yr holl eglwysi—yr hwn a ddywedai wedi gweled y gyfrol gyntaf, "Ei fod yn teimlo yn dawel, os cwblheid y cyfan yn yr un dull, y byddai yr Esboniad mewn modd neillduol yn yr iaith Saesoneg. Yn wir, fel Esboniad at wasanaeth poblogaidd," ychwanegai, "ni wn i am ddim sydd gyfartal iddo mewn uurhyw iaith." Nid oes yma ddim o'r dyfyniadau anghyfiaith a'r cyfeiriadau dysgedig sydd yn fynych yn peri cymaint o flinder i ddarllenwyr sydd yn awyddus am help i ddeall yr Ysgrhythrau, ond heb fwynhâu nemawr o fanteision addysgawl. Ond ar yr un pryd y mae y gwaith yn cynnwys *ffroyth* y ddysgeidiaeth addfetaf. Ar un modd, nid ydyw y darlennydd yn cael ei feichio â'r cwrs o ymchwiliad yr oedd raid i'r ysgrifenywyr fyned drwyddo wrth ddyfod i'r golygiadau a gyrhaeddasant: yn hytrach boddlonant ar osod o'i flaen yn syml a chllir yr hyn a olygant *fel esboniad* yr ymadroddion a ddeuant dan sylw, gan nodi yn gryno reysymau mor sylweddol dros hynny fel mai anaml, dybygem, y teimla y darlennydd fod eisieu dim yn ychwaneg. Mae yr Esboniad ar Efengyl Ioan wedi ei ysgrifenu gan Dr. Milligan o Brifysgol Aberdeen, a Dr. Moulton o Cambridge. Yn niwedd eu Harweiniad yr ydym yn darllen: "With derfynu, gallai y caniateir i ni ddyweyd fod y naill a'r llall o awdwyr yr Esboniad hwn yn dal eu hunain yn gyrifol am y cwbl. Nid oes un ran o hono yn waith y naill na'r llall ar ei ben ei hun; ac y maent wedi gweithio ynghyd gydag unfrydedd sydd, trwy yr holl amser y maent wedi bod gyda'r gwaith, wedi bod i'r naill a'r llall yn ffynnonell o ddiolchgarwch a llawenydd cyson. Ond y maent yn dymuno eu hanghofio eu hunain, ac y maent yn gofyn i'w darllenwyr eu hanghofio, yn yr un amcan cyffredin o gael allan wir ystyr Efengyl y darfu i'r hyawdl Herder lawer o amser yn ol ei desgrifio fel 'calon Iesu.'" Y mae yr Esboniad ar yr Actau wedi ei ysgrifenu gan y Deon Howson o Gaer, a Canon Spence o St. Pancras, Llundain: dau ŵr oedd yn dra addas i ymgymeryd â'r fath waith. Y mae y mapiau a'r darluniau, &c., sydd i'w cael mor helaeth trwy y gyfrol, o'r fath oreu, a'r argraffwaith a'r rhwymiad yn ddymunol dros ben. Y mae y gyfrol yn cynnwys tua 600 o du dalenau *super royal* 8vo, eto nid yw ei phris ond deunaw swllt.

The Cambridge Bible for Schools. General Editor:—J. J. PEROWNE, D.D., Dean of Peterborough. *The Book of Joshua.* By the Rev. C. F. MACLEAN, D.D. With two Maps.

*The First Book of Samuel.* By the Rev. A. F. KIRK-PATRICK, M.A.

*The Book of Jeremiah.* By the Rev. A. W. STREANE, M.A.

*The Book of Jonah.* By Archdeacon PEROWNE.

*The Gospel according to St. Matthew.* By the Rev. A. S. CARR, M.A. With Two Maps.

*The Gospel according to St. Mark.* By the Rev. G. F. MACLEAN, D.D. With Two Maps.

*The Gospel according to St. Luke.* By the Rev. F. W. FARRAR, D.D. With Four Maps.

*The Gospel according to St. John.* By the Rev. A. PLUMMER, M.A. With Four Maps.

- The Acts of the Apostles.* Part I. By the Rev. Professor LUMLY, D.D.  
*The Epistle to the Romans.* By the Rev. H. C. G. MOULE, M.A.  
*The First Epistle to the Corinthians.* By the Rev. J. J. LIAS, M.A. With a Plan and Map.  
*The Second Epistle to the Corinthians.* By the Rev. J. J. LIAS, M.A. With a Plan and Map.  
*The General Epistle of St. James.* By the Rev. E. H. PLUMPTRE, D.D.  
*The Epistles of St. Peter and St. Jude.* By the Rev. E. H. PLUMPTRE, D.D.—  
 Cambridge University Press.

DA y gwnaeth awdurdodau Prifysgol Caergrawnt wrth drefnu i ddwyn allan y cyfrolau destlus a gwerthfawr hyn fel Esboniadau ar wahanol lyfrau y Bibl. Y mae pob llyfr yn cael ei gyhoeddi ar wahân, ac y mae pris y cyfrolau, yr hwn, a chymeryd pobpeth i ystyriaeth, sydd yn dra rhesymol, yn amrywio o ddeunaw i bedwar a chwech. Y mae argraffiadau hylaw o'r gwahanol weithiau clasurol, gyda nodiadau gwerthfawr, yn cael eu darparu yn helaeth ar gyfer yr ysgolion gramadegol a'r colegau, ac y maent yn profi o ddirfawr wasanaeth. Ond pan gymerid rhanau arbenig o'r Bibl i'w hastudio yn yr ysgolion, neu pan osodid hwy yn faes llafur gogyfer âg arholiadau, fe deimlid mawr anghyfleusdra yn gymaint ag nad ellid cael dim cymhorth i'w deall ond mewn gweithiau a fyddent i'r ysgolorion yn anghyrhaeddadwy. Y mae cyfres y *Cambridge Bible for Schools* wedi ei bwriadu i symud yr anghyfleusdra hwnw, ac y mae yn ei wneyd yn y modd mwyaf effeithiol. Fe fu y *Syndica* yn ffodus i sicrhâu gwasanaeth Dr. Perowne fel prif Olygydd, ac y mae y gwŷr sydd dan ei arholgiaeth ef yn ysgrifenu y gwahanol gyfrolau oll yn feistriaid ar eu gwaith. Mae cynllun y cyfan yn unfurf, ac yn gosod ger bron, a hyn y yn dull mwyaf clir a hylaw, lawer o'r wybodaeth angenrheidiol i efrydiaeth ddeallus o'r llyfrau sanctaidd. Mae y mapiau o'r fath oreu, ac ni adewir o'r neilldu ond ychydig o'r pethau gwerthfawr, o fewn cylch eang llenyddiaeth hen a diweddar, a daflent oleuni ar yr ymadroddion a ddeuant dan sylw. Ychwanegir hefyd fynegai cyflawn a manwl yn niwedd pob cyfrol. Ond er fod y cyfrolau hyn wedi eu paratoi yn y lle cyntaf ar gyfer yr ysgolion gramadegol, &c., camgymeriad mawr a fyddai meddwl nad ydynt yn gymhwys i gylich helaethach o wasanaeth. Y maent yn dra chyfaddas i athrawon yr Ysgolion Sabbathol ac i ddarllenwyr yr Ysgrhythrau nad ydyw yn gyfleus iddynt gymeryd mantais ar weithiau mwy cyflawn, dysgedig, a chostus; ac nid ydym yn synu wrth ddeall fod llawer o weinidogion, &c., yn hoffi eu darllen, gan mor hwylyus a chryno a sylweddol y maent bob amser yn eu cael.

*Cofiant y Parch. John Prichard, D.D., Llangollen, mewn cysylltiad â rhai Agweddau o Hanes Bedyddwyr Cymru yn gyffredinol, a Bedyddwyr y Gogledd yn neillduol.* Gan y Parch. OWEN DAVIES, Caernarfon.

DARLLENASOM y llyfr rhagorol hwn gyda llawer o hyfrydwch. Y mae Mr. Davies wrth ei gyfansoddi, nid yn unig wedi gosod y Bedyddwyr dan rwymedigaeth iddo, ond hefyd wedi gwneyd yr hyn a ddylid gydnabod yn wasanaeth gwerthfawr gan y Cymry yn gyffredinol. Mae arnom ofn fod llawer o honom yn gwybod mwy am ddynion da perthynol i genedloedd eraill, nag am wŷr teilwng o'n cenedl ein hunain sydd yn dygwydd bod y tu allan i'r cylch neu yr enwad y dygwyddwn fod yn troi ynddo. Ac eto y mae yr Arglwydd tirion wedi rhoddi dynion mawr a da i wneyd gwasanaeth pwysig i'n cenedl fechan ymysg y gwahanol enwadau; ac mae yn ddiammeu y byddai yn llawer o nerth i ni ein bod yn llawer mwy cyffredinol yn eu mawrhâu, ac yn eu cyfoethogi ein hunain â'r fendith sydd ynddynt. Mae yn gysur meddwl fod y rhagfarnau a'n cadwent gymaint ar wahân erbyn hyn wedi diflanu i raddau mawr. Y mae llawer sydd yn awr yn fyw yn cofio am amser pan na fyddai

ond peth cyffredin i ddyinion da ddal eu cydwladwyr, na fyddent yn "dilyn gyda hwy," yn gyfrifol, nid yn unig am eu golygiadau eu hunain, ond hefyd am ba beth bynag a welent hwy yn dda ychwanegu fel casgliadau oddiwrth eu golygiadau; a phan fyddai bron yn ormod gan y naill ddynd da gydnabod fod un arall, llawn cystal ag yntau, ond heb allu seinio ei shibboleth neillduol ef, ar dir ag y gellid gobeithio am ei iachawdwriaeth. Y mae hyn, trwy drugaredd, wedi hen fyned heibio. Gobeithio yr un pryd na chollwn ddirifwch ein tadau tra yn ymryddhâu oddiwrth eu culni, ac y dysgir ni yn fwy fwy, tra yn dal ein gafael yn gryf yn mhobpeth a ystyriwn yn wirionedd, i iawn farnu am bethau hanfodol, ac i garu ein gilydd yn yr Arglwydd. Anhawdd meddwl am ddim a dueddai yn fwy i feithrin eangrwydd ysbryd iachus a sanctaidd ymysg ein cenedl na darllen y llyfr hwn. Yr ydym yn cymeryd yn ganiatöol y bydd Bedyddwyr yn gyffredinol yn brysiö i'w bwrcau a'i ddarllen; ond yr ydym hefyd yn ei argymhell yn galonog i'n cyfeillion o bob adran o'r eglwys Gristionogol trwy Gymru oll, ac ymhob man arall lle y mae ein cenedl wedi ymwagaru. Y mae yr olwg a rydd ar lafur y Bedyddwyr yn Ngwynedd yn yatod oes faith Dr. Prichard yn bennod dra dyddorol yn ein hanesiaeth eglwysig. Fe'n dwg i gydnabyddiaeth â lliaws o gymeriadau y rhai a brydferthwyd yn rhyfedd gan ddwyfol ras, ac y teimlwn yn falch eu bod o'n cenedl. Am Dr. Prichard ei hunan fe'n boddheir â'r hysbysrwydd mwyaf cyflawn; a phrin y mae dim yn eisieu i roddi i'r darlennydd syniad hollol glir yn ei gylch. Yr oedd efe yn sicr yn un o rai mwyaf rhagorol y ddaear. Bydd yn syn gan lawer glywed am ŵr a ymroddodd gyda'r fath ddwrn gysegr-edigaeth i wasanaethu ei gydwladwyr yn yr efengyl, "nad oedd ei gyflog ar ei sefydliad yn Llangollen ond £24 y flwyddyn, ac na chafodd yn ei oes ragor na thua £80 y flwyddyn oddiwrth y weinidogaeth. Cafodd lawer o drafferth lawer gwaith gyda y *Great* ac amgylchiadau y wasg yn Llangollen, ond ni chafodd erioed ddim am ei boen; arno ef yr oedd cyfrifoldeb arianol yr *Athraw*, a'r rhan fwyaf o bob cyfrifoldeb arall gyda golwg arno, hyd o fewn rhai blynyddoedd cyn ei farwolaeth, ond ni dderbyniodd erioed ragor na £4 y flwyddyn oddiwrtho." Bu gorfod iddo ymwneyd â masnach mewn *yard* goed er mwyn ei fywoliaeth, ond y pryd hyny hefyd yr ydoedd fe allai y mwyaf cysegredig i'r efengyl yn Nghymru; a dywedai wrth Mr. Davies iddo wneyd adduned i'r Arglwydd y gadawai yr *yard* goed mor fuan ag y buasai ganddo fodd i dalu ei ffordd hebddi, yr hyn hefyd a wnaeth. Ac er mor ychydig a dderbyniai am lafur mor iawn, yr ydoedd y mwyaf haelionus o bosibl yn yr holl enwad. Am ei symledd, ei unplygrwydd, ei uniondeb uchel, ei ddwrn gydwybodolrwydd, ei hunanymwadiad, ei anghof o bobpeth ond mawredd ei rwymedigaeth i Dduw a'i ymdeimlad o fawredd y fraint o gael ei wasanaethu, fe geir trwy y Cofiant y profion llawnaf a mwyaf boddhaol. Yr ydoedd efe hefyd o feddwl cryf ac annibynol, ac yn ddiffine mewn llafur; ond ei fawredd yn sicr oedd ei ddaioni; ac nid ydym yn synu at y parch serchog â pha un y mae cynifer o ŵyr galluog a gafodd y fraint o dyfu wrth ei draed, ac sydd heddyw ymysg gweinidogion goreu Cymru, yn ymhyfrydu, fel y gwnant yn y llyfr hwn, mewn mawrhâu ei goffadwriaeth. Buasai yn dda genym allu galw sylw at lawer o deithi prydfferth yn ei gymeriad ac o helyntion dyddorol iawn yn ei hanes; ond rhaid i ni ymfoddloni ar alw sylw fel yma at y llyfr gwerth-fawr hwn, gan ddadgan ein dymuniad calonog ar iddo gael derbyniad croeswargan gan ein cenedl, a bod yn foddion i lanw lliaws o'n cydwladwyr â'r ysbryd rhagorol oedd yn Dr. Prichard. Y mae yn gyfrol hardd o dros 400 o dudal-enau, ac i'w chael am bedwar swllt.

*Damcaniaeth Dabblgyiad.* Gan y Parch. T. J. HUMPHREYS, Awdwr "Rhagoriaeth Moesoldeb y Bibl." Gyda Rhagdraeth gan y Parch. T. C. EDWARDS, M.A., University College, Aberystwyth.

BARNWYD y traethawd hwn yn creu o amryw draethodau ar y tesun a ysgrifenywyd erbyn Eisteddfod a gynnaliwyd yn Mhenygroes, y Pasg, 1879, ac y mae



yn dda genym ei weled wedi ei gyhoeddi. "Am ddim a wŷr" ein cyfaill parchus, awdwr y Rhagdraeth, "y traethawd hwn yw y cyntaf a gyhoeddwyd yn Gymraeg ar ddamcaniaeth wyddonol fwyaf pwysig yr oes." Fe ymddengys fod awdwr y llyfr ychydig yn oleuach ar y mater, a boddlona ar ddyweyd, "Ymddengys mai y traethawd hwn yw y cyfroddiad cyntaf ar 'Ddamcaniaeth Dadblygiad' a ymddangosodl yn y ffurf o lyfr yn yr iaith Gymraeg." Cr. bwylla efe am Vulcan mewn cysylltiad â hyn, ac yn sicr fe gofia llawer o'n darllenwyr am erthygl dra rhagorol ar "Ddarwiniaeth" o eiddo ein diweddar gydwladwr teilwng y Parch. John Peter (Ioan Pedr), a ymddangosodd yn y TRAETHODYDD am 1872. Fe ryld y traethawd hwn ar "Ddamcaniaeth Dadblygiad" olwg glir a chywir ar "y ddysg newydd hon," ac fe wnelai ein cydwladwyr yn ddoeth ei fŷn a'i astudio. Fe honir i'r tybiaethau gwylltion yma awdurdod damcaniaethau sylweddol, os na chymerir yn ganiataol gan lawer eu bod wedi eu hen brofi, ac felly fod yn bryd dechreu y chwalfa ar bob syniadau eraill sydd wedi ffyn yn y byd ag y golygir fod "Dadblygiad" o angenrheidrwydd yn ddinystr iddynt. Ond ar dir gwyddoniaeth ei hunan fe welir yn amlwg eu bod heb eu profi, doed a ddél, ac nad ellir ar y goreu, chwedl Mr. Charles Edwards, eu hystyried yn amgen na "working hypotheses," tybiaethau i weithio gyda hwynt, gyda y rhagolwg, fe allai, o gael oddiwrthynt, ryw bryd, ryw beth a allai fod yn ychwanegiad at wybodaeth y byd. Y mae peth anferth i'w wneyd eto, os llwyddir i'w wneuthur o gwbl, cyn bod achos i ni bryderu am y pethau mawrion ag y golygir y gallai fod unrhyw berygl iddynt oddiwrth ddamcaniaeth Dadblygiad. Argymhellwn y llyfr hwn yn galonog i sylw ein darllenwyr, a hyderwn y bydd iddo gael ei astudio yn dda, yn enwedig gan ein pobl ieuainc ymofyngar.

*Cofiant Ebenezer Morris, o Flaenyvern.* O'r Gwyddoniadur Cymreig. Dinbych: Thomas Gee.

NID ydym yn gwybod am unrhyw lyfr ag y teimlem gymaint o foddhâd wrth ei weled yn cael derbynid cyffredinol gan ein cydwladwyr â'r Cofiant hwn am Ebenezer Morris. Fe ddarllenid yr erthygl gan lawer gyda dŵn foddhâd yn y *Gwyddoniadur*, ond y mae yn dra dymunol ei bod wedi ei chyhoeddi fel yma yn llyfr ar wahân; ac yn sicr fe fyddai y Cymry yn ddirfawr ar eu hennill pe lledaenid miloedd o hono yn eu plith. Nid oes gan unrhyw genedl werthfawrocach trysor na hoffadwriaeth ei dynion mawr, yn enwedig pan y ceir hwynt, fel gwrthddrych y Cofiant hwn, mor enwog am eu saneteiddrwydd a'u hunanaberthiad âg am eu gallu a'u dylanwad ar eu cydwladwyr. Yr ydym yn teimlo yn eiddig wrth waith yr awdwr—y Parch. Roger Edwards, yr ydym yn tybied—yn awgrymu fwy nag unwaith ei fod mewn meddiant o ychwaneg o ddefnyddiau nag y mae yn gorffori yn y gwaith hwn. Fe fyddai i'r cyfryw ddefnyddiau fyned ar goll yn drueni; ac os na achubir y cyfle yn fuan i'w sicrhau, ar goll yn anadferadwy y maent yn rhwym o fyned. Hyderwn yn fawr y cymer ein cyfaill teilwng ofal na fyddom yn cael ein hamddifadu o ddim o'r pethau da a allont fod yn aros heb eu cyhoeddi am y fath gymeriad ardderchog. Ceir llawer o bethau dyddorol yn ei glych yn yr erthygl ar "Owen Enos a'i Amserau" a ymddangosodd yn y TRAETHODYDD am 1879.

*Cymorthwyr i'r Cymunwr Ieuanc.* Gan y Parch. THOMAS LEVL. Treffynnon: P. M. Evans & Son.

Y MAE hwn yn llyfryn hynod o werthfawr, a dylai fod yn llaw ein cymunwyr ieuainc yn gyffredinol. Nid ydyw, wrth reswm, i fyned â lle y Bedwaredd ar ddeg o'r *Hyfforddwr*, nac mewn un modd i wneyd yn lle astudiaeth ddyfal a pharchedig o'r rhanau o'r Gair sydd yn cyfeirio at y Swper; ond fe roddai ei ddarllen fias newydd ar bennod yr *Hyfforddwr*, ac fe ddefroai

feddyliau ein cyfeillion ieuainc i weled gogoniant athrawiaeth y Bibl am y Cymun bendigaidd. Y mae yn neillduol gyfaddas, yn ychwanegol at y pethau yr ymbarotoant ynddynt ar gyfer y dosbarthiadau a gynnelir gyda hwynt, i'w hastudio ganddynt ar eu pen eu hunain. Dyry iddynt olwg hynod o glir ar amcan ac ystyr yr ordinhad sanctaidd; ac yn ychwanegol ymeif yn dirion yn eu llaw, gan eu harwain i borfeydd gwelltog mewn myfyrdod crefyddol; ac wrth wneyd hyny fe'u helpa hefyd i ymorphwys ar yr Aberth mawr ac i addoli.

*Nanus ach Rhobert: neu Helyntion Cymdeithasol, Moesol, a Chrefyddol y dyddiau gynt.* Gan ELLIS O'R NANT. Dolyddelen: Ellis Pierce.

LLYFRYN nad allai lai na thalu yn dda am ei ddarllen. Buasai yn ddymunol fod ei gymeriad llenyddol ychydig yn uwch. Ond y mae iddo ragoriaethau hyd yn nod yn yr ystyr yma, ac nid y lleiaf o honynt ydyw y defnydd rhydd a naturiol a wneir ynddo o lawer o eiriau gwerinol da ag y tybiai mursendod awdurol eu bod yn annheilwng i'w gosod mewn llyfr, ond ydynt er hyny yn gyfoethog o ystyr, ac y mae arogl y mynyddoedd yn gorphwys yn hyfryd arnynt. Am y darluniau a ddyry o fywyd yr hen deulu da y dyddiau gynt, ac yn enwedig eiddo yr un a grybwyllir braidd yn rhy fynych fel "ein harwres," y maent yn werthfawr a dyddorol iawn. Y mae yr ysbryd rhagorol oedd yn Nanws, yr hwn "sydd ger bron Duw yn werthfawr," yn anhegogol i ninnau. Yr ydym yn cyfrannu cryn lawer at waith yr Arglwydd, a'r naill ffordd a'r llall yn ymgymeryd â chryn lawer o lafur; yr hyn sydd yn eisieu ydyw llawer mwy o'n heneidiau ni ein hunain iddo.

*Ieuan Gwyllt: ei Fywyd, ei Lafur, ei Athrylith, ei Nodweddion, a'i Ddylanwad ar Gymru.* Gan y Parch. J. EIDDON JONES, Llanrug.

PAN ar fynyed i'r wasg, cawsom yr hyfrydwch o ddarllen mewn lleni y llyfr hwn, a da genym gael achub y cyfle presennol i grybwyll am dano ac i'w argymhell yn galonog iawn i sylw ein darllenwyr. Yr oedd Ieuan Gwyllt yn un o'r dynion puraf a hawddgaraf a gyfododd erioed yn ein gwlad, ac fe lanwodd ei einioes—y teimlem oll ei bod lawer yn rhy fer!—â llafur a'i gwnaeth yn fendith anmhrisiadwy i'w genedlaeth, ac a fydd yn firwythlawm o ddaioni i genedlaethau dyfodol. Damwain ffodus ydoedd i Eisteddfod Llanberis yn 1879 gynnyg gwobr o £20 am y traethawd goren arno, a mwy ffodus fyth ydoedd i Mr. Eiddon Jones gael ei dueddu i ymgymeryd âg yagrifenu y cyfryw draethawd, ac yn enwedig iddo wneyd hyny lawer yn fwy fel mater o "lafurus gariad" nag o ymgais am wobr yr Eisteddfod. Y mae wedi cymeryd llawer o boen i olrhain ei hanes, ac wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus i wneyd hyny nag y buasem ni yn dysgwyl iddo fod; ac yn sicr y mae yr hanes yn hynod o ddifyrus i'w ddarllen, ac yn dra addysgiadol. Y mae yr olwg a geir ar ei anferth lafur hefyd, yn gystal â'r elfenaid o'i nodweddion a'i athrylith, a'r syniad a roddir am ei wasanaeth mawr i'w genedl, yn foddhaol a gwerthfawr iawn. Byddai yn dda genym ddeall fod y gwaith hwn yn fuan yn nwyllaw miloedd lawer o'r Cymry, canys fe fyddai hyny yn debyg o fod yn dra bendithiol iddynt.

# Y TRAETHODYDD.

DR. CANDLISH.

*Memorials of Robert Smith Candlish, D.D., Minister of St. George's Free Church, and Principal of the New College, Edinburgh. By W. WILSON, D.D., Minister (emeritus) of St. Paul's Free Church, Dundee; with concluding chapter by ROBERT RAINY, D.D., Principal & Professor of Church History, New College, Edinburgh. Edinburgh: Adam & Charles Black.*

I.

DAETH y gyfrol brydferth y mae ei henw uwch ben ein hysgrif i'n llaw ychydig wythnosau yn ol, a mawr ydoedd yr hyfrydwch a gawsom wrth ei darllen. Teimlem fwy o ddyddordeb ynddi am ein bod wedi cael cyfleusdra i adnabod ei gwrthddrych, ac i wrando arno yn pregethu lawer gwaith. Yr oedd Dr. Candlish yn ddyn oedd yn teimlo dyddordeb mawr mewn pobl ieuainc, ac yn awyddus am wneyd a allai i rwyddhâu eu ffordd yn eu hymdrech i barotoi eu hunain gogyfer â defnyddioldeb dyfodol, a chofw'n yn hir ei ofyniad caredig pan aethom ato i gyflwyno iddo docyn ein haelodaeth eglwysig. Dyma fel y gofynodd, "What can I do for you?" Cyn i ni ofyn yr un gymwynas ganddo ond cael bod yn aelod o'i eglwys, yr oedd efe yn gofyn i ni, Beth a allai wneyd i ni? Mae yr argraff a gynnyrcha gofyniad caredig fel hwn ar galon y dyeithr bron yn annileadwy. Fel y dywedasom, cawsom y pleser o wrando arno yn pregethu lawer gwaith, ac yr oeddym yn ei edmygu mewn gwirionedd. Yr oedd yn well genym ei wrando na'r un pregethwr arall y cawsom y cyfleusdra i'w glywed yn mhrifddinas y Gogledd. Byddai ei bregethau yn wastad yn wledd feddyliol, ac yn fynych yn llwyddiannus i gyrhaedd y galon. Diammeu genym fod cryn nifer o ddarllenwyr y TRAETHODYDD wedi cael cyfleusdra i'w weled a'i glywed yn ei gapel ei hun yn Edinburgh, a mwy wedi cael y cyfleusdra hwnw pan ydoedd yn myned i mewn ac allan yn ein plith ni yn Nghymru. Bu yn aros yn Beaumaris a lleoedd eraill, ac yr ydym yn gwybod ddarfod iddo fod yn pregethu yn Mhont Menai, Bangor, a manau eraill. Bu rai gweithiau yn ein Cymdeithasfaeoedd fel cynnyrchiolwr anfonedig oddiwrth Eglwys Rydd Scotland, ac y mae y rhai gafodd y fraint o'i glywed yr adegau hyny yn ei gofio yn dda. Felly wrth ddwyn Dr.

Candlish ger bron, yr ydym yn dwyn un oedd i raddau yn adnabyddus i lawer o'n darllenwyr.

Mae y Cofiant sydd ger ein bron wedi ei gasglu at ei gilydd gan Dr. Wilson, Dundee, yr hwn fu yn gyfaill ffyddlawn a mynwesol i Dr. Candlish am flynyddau lawer. Yr oedd yn anhawdd cael neb gwell i wneyd y gwaith. Yn ychwanegol at ffeithiau bywyd y gwrthddrych, nyni a gawn yma lawer o'i areithiau ar wahanol amgylchiadau, y rhai sydd yn ychwanegu yn fawr at werth y Cofiant. Buasem yn dymuno cael mwy o gyfeiriadau at Dr. Candlish fel awdwr. Mae yn wir fod Dr. Rainy yn ei draethawd arno fel Duwinydd yn cyfeirio at rai o'i weithiau; ond yr ydym yn teimlo yn siomedig fod can lleied o'i weithiau yn cael sylw ganddo. Prin y mae yn enwi yr un oddieithr ei *Lectures on the Fatherhood of God*; *Examination of Maurice's Theological Essays*; *Discourses on 1 John*: a chyn myned â'r darlennydd i gymdeithas gwrthddrych ein hysgrif yn ei hanes, rhoddwn yma gyfres o'i brif weithiau:—

- 1 Scripture Characters.
- 2 The Book of Genesis. 2 Vols.
- 3 The Gospel of Forgiveness.
- 4 Life in a Risen Saviour.
- 5 The Christian's Sacrifice and Service of Praise.
- 6 Reason and Revelation.
- 7 The Atonement; its Efficacy and Extent.
- 8 The Sonship and Brotherhood of Believers.
- 9 Epistle to the Ephesians.
- 10 The First Epistle of John.
- 11 The Fatherhood of God.
- 12 Examination of Maurice's Theological Essays.
- 13 Memorial Volume of Sermons.

Mae yr holl gyfrolau hyn yn rhai gwerthfawr a galluog iawn; a thynodd rhai o honynt sylw neillduol ar eu hymddangosiad cyntaf ger bron y cyhoedd, yn enwedig y gyfrol ar Dadolaeth Duw, a'r un sydd yn cynnwys beirniadaeth ar Draethodau Duwinyddol Maurice. Byddai meddiannu y cyfrolau uchod yn ychwanegiad pwysig at adran dduwinyddol unrhyw lyfrgell.

Ganwyd R. S. Candlish ar y 23ain o Fawrth, 1806. Enw ei dad ydoedd James Candlish, ac enw morwynig ei fam ydoedd Jane Smith. Yr oedd y ddau yn bersonau o allu meddyliol amlwg a diwylliad mawr. Bu ei dad farw pan nad oedd Robert Smith ond pum' wythnos oed. Gadawyd ei fam mewn amgylchiadau isel a gwasgedig, ac yr oedd ganddi dri o blant eraill heblaw Robert Smith i ofalu am danynt; ond yr oedd hi yn un o'r rhai goreu i fod mewn amgylchiadau felly, oblegid yr oedd yn meddu y gallu a'r penderfyniad i wneyd y goreu o'r gwaethaf. Symudodd o Edinburgh i Glasgow gyda'r amcan o gadw ysgol i ferched ieuanc, a thrwy ei hymdrechion yn y cyfeiriad yma, ennillodd fywoliaeth iddi ei hunan a'i phlant.

Ni anfonwyd Robert Smith i unrhyw ysgol hyd nes yr anfonwyd ef i'r Brifysgol. Derbyniodd ei holl addysg ragbarotoawl gartref yn ysgol ei fam; a gwnaeth gynnydd canmoladwy yn yr ysgol hon, oblegid yr ydym yn ei gael yn myned i mewn i Brifysgol Glasgow Hydref 10, 1818, pan nad oedd ond deuddeng mlwydd a hanner oed. Gan ei fod mor ieuanc ar ei fynediad i'r Brifysgol, arosodd yno am bum' mlynedd,

ac yn ngwanwyn 1823 ennillodd y gradd o M.A. Ennillodd amryw wobrwyon yn ystod ei arosiad yn y Brifysgol, ac yr oedd amryw o'r rhai hyny yn brif-wobrwyon. Wedi myned yn llwyddiannus trwy Ddosbarthiadau y Celfyddydau, aeth gyda llwyddiant cyffelyb trwy y Dosbarthiadau Duwinyddol yn y Neuadd Dduwinyddol.

Bu Candlish am oddeutu wyth mlynedd yn paratoi ei hunan ar gyfer gwaith mawr y weinidogaeth, sef o'r flwyddyn 1818 hyd 1826. Dyma hanes gweinidogion yr efengyl yn Scotland hyd y dydd hwn. Maent yn treulio pedair blynedd yn nosbarthiadau y *Faculty of Arts*, ac yna dair neu bedair blynedd yn y *Divinity Hall*. Pa bryd y daw y Cymry i weithredu yn gyffelyb? Yr ydym yn cwbl gredu y byddai hyny yn welliant mawr. Gwyn fyd nad allai holl enwadau Ymneillduol Cymru gytuno â'u gilydd i anfon eu holl fyfyrwyr i'r Brifysgol am dair neu bedair blynedd i astudio yr ieithoedd, gwyddoniaeth, ac athroniaeth, ac wedi hyny ganiatáu tymmor cyffelyb yn y gwahanol golegau Ymneillduol i astudio duwinyddiaeth, hanesiaeth eglwysig, beirniadaeth ysgrythyrol, &c.

Ond cyn gadael y cyfnod yr oedd Candlish dan addysg athrofaol, dylem ddyweyd ei fod yn gyfnod pwysig iawn yn hanes Scotland mewn ystyr crefyddol ac eglwysig. Dechreuodd tri gallu mawr weithredu yr adeg yma, trwy ba rai y dygwyd oddiamgylch gyfnewidiadau pwysig, y rhai a roddasant ffurf i sefyllfa pethau fel y maent i'w canfod yn Scotland y dyddiau hyn; ac y mae yn ddiammeu i'r galluoedd hyn gynnwrechu argraffiadau arosol ar feddwl Candlish.

Y gallu cyntaf a nodwn ydoedd Bywgraffiad Knox a Melville gan Dr. M'Crie. Cyhoeddwyd hanes bywyd y cyntaf yn 1811, a'r diweddfaf yn 1819. Cafodd y Bywgraffiadau hyn gylchrediad eang, yn enwedig ymysg y dosbarth hwnw o ddynion sydd yn ffurfio cymeriad yr oes y maent yn byw ynddi. Nid oedd dylanwad y galluoedd yma yn drystfawr, ond yr oedd yn hynod effeithiol, am ei fod yn dwyn meddyliau arweinwyr y genedl at olygiadau ac egwyddorion y Diwygiad Protestanaidd, ac yn wrthdystiad effeithiol yn erbyn y *Moderatism* ag oedd wedi bod am gyfnod morfaith yn atalfa ar ffordd dadblygiad bywyd crefyddol yn Scotland. Dygwyd i sylw gwestiynau, y rhai yn fuan wedi hyn a fu yn foddion i gynhyrfu yr holl wlad, a'r rhai a arweiniasant i ddadgysylltiad yr Eglwys Rydd oddiwirth y wladwriaeth. Arweiniodd Dr. M'Crie feddyliau nifer mawr o drigolion ei wlad i gredu yn ddiysgog yr athrawiaeth fod eglwys Crist i lywodraethu ei hachosion ei hunan, a hefyd mai ei dyledswydd oedd gweithio allan yn ffyddlawn yr hyn oedd hi yn ddeall oedd ewyllys ei Phen, yn hollol annibynol ar benderfyniadau a gweithrediadau yr awdurdodau gwladol. Onid oes arwyddion y dyddiau hyn fod Lloegr mewn cyfngw tebyg gyda golwg ar gysylltiad yr Eglwys a'r Wladwriaeth ag yr oedd Scotland ynddo ryw hanner cant neu driugain mlynedd yn ol? Onid oes plaid gref yn Eglwys Loegr y dyddiau hyn, yn credu yn gadarn y dylai fod gan yr Eglwys awdurdod i benderfynu ei hachosion ei hunan, heb ymyriad unrhyw awdurdod gwladol? Ac onid ydyw penderfyniadau a gweithrediadau yr awdurdodau gwladol yn ystod y misoedd diweddfaf wedi ychwanegu at nifer y blaid hon yn yr Eglwys, a dyfnhau argyhoedd- iadau y rhai oedd eisoes yn perthyn iddi?

Gallu mawr arall oedd ar waith yn y cyfnod yma ydoedd Dr. Andrew Thomson, lle yr hwn a lanwyd yn fuan wedi hyny gan wrthddrych ein hysgrif. Trwy offerynloliaeth y *Christian Instructor*, yr ydoedd i raddau mawr yn gweithio yn yr un cyfeiriad a Dr. M'Crie, tra yr oedd ar yr un pryd yn gwneyd ei oreu i hyrwyddo pob symudiad efengylaidd. Pan alwyd ef yn 1814 yn weinidog Eglwys St. George, Edinburgh, teimlodd y ddinas fawr ei ddylanwad yn bur fuan fel pregethwr ac fel siaradwr cyhoeddus. Pan ddechreuodd ef ar ei weinidogaeth, yr oedd cymdeithas yn Edinburgh yn oer at grefydd efengylaidd ac ysbrydol, ac yr oedd tuedd amlwg yn ffynu at anffyddiaeth. Yr oedd hyn i'w weled yn amlwg yn nghynnyrchion y wasg yn ystod y cyfnod hwn; ond bendithiodd y Brenin mawr ymdrechion Dr. Andrew Thomson fel ag i newid cyfeiriad y llifeiriant i raddau mawr. Dygwyd oddiamgylch, trwyddo ef yn benaf fel offeryn, gyfnewidiad hapus yn nghymeriad cymdeithas yn Edinburgh, a daeth y rhai oedd yn perthyn i'r *upper ten thousand* yn y ddinas hono i barchu crefydd efengylaidd ac ysbrydol, yn lle ei dirmygu a'i gwawdio. Ond nid yn Edinburgh yn unig y teimlwyd dylanwad y gŵr da hwn. Gwnaeth dadl yr Apocrypha ef yn adnabyddus trwy holl Scotland, oblegid aeth o amgylch y wlad i ddadl eu gyda hyawdled a llwyddiant mawr dros gael y Bibl yn bur a dilwgr; ac y mae Scotland yn ddyledus hyd heddyw i'r gŵr enwog a galluog hwn am y syniadau uchel sydd yn bodoli ymysg ei thrigolion am ysbrydoliaeth y Bibl a'i awdurdod Ddwyfol fel unig reol ffydd ac ymarweddiad. Hwyrach mai dyma y gwasanaeth mwyaf parhâus a wnaeth Dr. Andrew Thomson i'r eglwys ac i'r wlad. Mae dygwyddiadau y blynyddoedd diweddaf hyn yn amlygiad fod teimlad cryf ac eiddigedd mawr yn bod yn y wlad gyda golwg ar ysbrydoliaeth a dilysrwydd yr oraclau Dwyfol.

Y trydydd gallu oedd ar waith yn ystod tymmor athrofaol Candlish ydoedd Dr. Chalmers, yr hwn a ddechreuodd ei weinidogaeth yn Glasgow yn 1815, ac a barhaodd yno hyd 1823. Cydnabyddid ef ar unwaith fel pregethwr mwyaf ei oes, ac yr oedd yn tynu cynulleidfaoedd mawrion i'w wrando, llawer o ba rai a achubwyd, ac a ddaethant yn arweinwyr pob gwaith dyngarol a chrefyddol yn y wlad. Ond er mor werthfawr ac effeithiol ydoedd pregethau Dr. Chalmers, ac er mor alluog ac adeiladol ydoedd ac ydyw ei ysgrifeniadau cyhoeddiedig, eto prin y gallwn edrych ar y rhai i'w fel y gwasanaeth mwyaf gwerthfawr o'i eiddo er dwyn oddiamgylch ddaioni ysbrydol a moesol ei gydwladywyr. Fe'n tueddir i roddi y flaenoriaeth i'r cyfeiriad efengylaidd a roddodd i weithgarwch yr Eglwys. Mae Dr. Chalmers yn fyw eto yn y gwaith o ledaenu breintiau yr Eglwys (*Church Extension*), ac yn y cynlluniau a ddyfeisiodd i'w ddwyn oddiamgylch. Ei amcan ef ydoedd, nid codi lle o addoliad a gadael ei ddrws yn agored i gynifer fyned iddo ag a allent gael eu denu i hyny trwy weinidogaeth y pulpud, ond darparu cynllun i ddwyn yr efengyl i dai y bobl, o fewn terfynau neillduol, a'u "cymhell hwy i ddyfod i mewn." Dyma ydoedd gwaith neillduol bywyd yr areithydd mawr a'r dyngarwr enwog hwn.

Dyma y tri gallu mawr oedd ar waith ar yr un adeg yn y dyddiau hyny; ac nid oes dim yn fwy sicr nag iddynt roddi ffurf, i raddau mawr, i hanes dyfodol yr Eglwys a'r wlad. Cymerodd Dr. Chalmers y

blaen yn y symudiad efengylaidd mawr oedd yn nodweddu y cyfnod hwn. Creodd Dr. Thomson ddyddordeb newydd yn y Bibl fel unig arweinydd awdurdodedig yr Eglwys a phersonau unigol gyda golwg ar yr hyn oeddynt i'w gredu ac i'w wneyd. Dygwyd oddiamgylch gyfnod newydd mewn amgylchiadau eglwysig trwy gyhoeddiadau Dr. M'Crrie. O dan ddylanwadau o'r natur yma y treuliodd Candlish ei flynyddoedd yn y Brifysgol; ac mae ei hanes yn mlynnyddoedd dyfodol ei fywyd yn brawf fod y dylanwadau hyn wedi cynnyrchu argraffiadau dyfnion a dwys ar ei feddwl.

Yn niwedd y flwyddyn 1826, aeth gwrthddrych ein hysgrif i Eton, i fod yn athraw i Syr Hugh Hume Campbell o Marchmont. Nid arosodd yno yn hir, oblegid cawn ef yn cael ei drwyddedu i bregethu gan Henaduriaeth Glasgow, Awst 6, 1828; ac yn y flwyddyn ganlynol dewiswyd ef fel cynnorthwywr i Dr. Gavin Gibb yn Eglwys St. Andrew's, Glasgow. Yr oedd Dr. Gibb yn Broffeswr Hebraeg yn y Brifysgol, yn gystal a bod yn gofalu am Eglwys St. Andrew's. Perthyn i blaid y Cymedrolwyr yr oedd Dr. Gibb, ac o'r braidd y gellid dysgwyl i'w gynnulleidfa werthfawrogi pregethau fel yr eiddo Candlish. Torwyd ei gysylltiad a'r gynnulleidfa hon trwy farwolaeth Dr. Gibb yn Mehefin 1833. Yn fuan wedi hyn dewiswyd ef yn gynnorthwywr i Mr. Gregor, gweinidog Bonhill, yn yr hwn le y bu yn gwasanaethu yn ffyddlawm am ddwy flynedd a thri mis. Yr oedd yn alluog ac yn ymroddgar yr adeg yma, ond nid ydoedd eto wedi ennill iddo ei hun y cymeriad o bregethwr poblogaidd, a phur ddiolwg ydoedd hi arno am gael galwad i gymeryd gofal cyflawn unrhyw eglwys. Yr oedd mor anobeithiol y derbyniai alwad yn ei wlad ei hun fel y penderfynodd fyned allan i un o'r trefedigaethau, a chynnygiodd ei hunan i fyned i Canada. Nid ar unwaith y mae gwir fawredd yn dangos ei hun; ac nid ar unwaith y daeth mawredd Candlish fel pregethwr i'r golwg. Yr oedd rhywbeth yn ei olwg a'i ddull yn y pulpud ag oedd yn annerbyniol, os nad yn wrthdarawiadol; a'r canlyniad oedd fod pregethwyr ieuainc israddol iawn o ran gallu iddo ef yn cael eu dewis o'i flaen. Ond fe ddangosodd Rhagluniaeth yn bur fuan bellach fod ganddi le wedi ei ddarparu iddo yntau, ac fe ddangosodd yntau trwy ei lanw mor dda ei fod wedi ei ddarparu gan Ragluniaeth i'r lle.

Yn Ionawr, 1834, dewiswyd ef yn gynnorthwywr i Mr. Martin, Eglwys St. George, Edinburgh. Newydd ddyfod yno yr oedd Mr. Martin fel olynydd i Dr. Andrew Thomson; ond ar ol ychydig o lafur yn ei gylch newydd gwaethygodd ei iechyd, a bu raid iddo fyned i hinsawdd gynhes Italy i dreulio y gauaf. Bu Mr. Martin farw tua diwedd mis Mai, a dewiswyd Candlish yn olynydd iddo. Ordeiniwyd ef yn weinidog rheolaidd Eglwys St. George, Edinburgh, yn Awst 1834. Dyma ni yn ei gael yn awr yn weinidog rheolaidd ar un o'r eglwysi lliosocaf a phwysicaf yn Scotland, ac nid oedd ond wyth ar hugain mlwydd oed. Yr oedd yr eglwys hon wedi cael mantais er dechreu y flwyddyn i wrando ar ei weinidogaeth, ac i ymgydnabyddu a galluoedd ei feddwl ac elfenau ei gymeriad, ac mewn canlyniad i'r adnabyddiaeth yna o hono y sicrhwyd ef ganddynt fel eu gweinidog; a phe buasent hwy heb afael mor dyn ynddo, y mae yn ddiammedu y buasai rhyw eglwys arall yn eu hamddifadu o hono. Bu Eglwys Regent Square,

Llundain, yn ceisio, ond yn aflwyddiannus; ond cawsant hwy weinidog da, galluog, a llwyddiannus, yn mherson James Hamilton, yr hwn oedd yn gyfaill mynwesol i Candlish. Daeth Candlish yn adnabyddus yn fuan, nid yn unig i gynulleidfa St. George, ond hefyd trwy ddinas Edinburgh. Gwahoddid ef i bregethu ac areithio i gylchoedd uchaf a phwysicaf y ddinas.

Ionawr 6, 1835, ymbriododd Candlish, yn Renfrew, gyda Janet, merch Walter Brock, yr hon sydd eto yn fyw. Cafodd ynddi "ymgeledd gymhwys," canys bu o werth amhrisiadwy iddo. Nid oedd neb yn mwynhâu cwmni ei briod a'i blant yn fwy nag ef. Gallai ymdafu i chwareuon a digrifwech diniwed y plant fel pe buasai yn blentyn ei hun. Nid oedd yn mwynhâu ei hunan gartref ar draul esgeuluso ei lafur cyhoeddus, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Byddai y digrifwech plentynaidd y byddai mor hoff o gymeryd rhan ynddo yn y cylch teuluaidd yn help iddo ymdafu ac ymdreulio yn fwy llwyr yn ei waith cyhoeddus. Gwir yr hen ddiareb, "All work and no play makes Jack a dull boy."

Dechreuodd Candlish ei weinidogaeth mewn cyfnod ag yr oedd helaethiad yr achos crefyddol (*Church Extension*) wedi cael sylw neillduol gan lysoedd yr Eglwys, a hyny trwy offerynoliaeth Dr. Chalmers. Yr oedd gweinidogion *Chapels of Ease*, fel eu gelwid, wedi cael rhyddid ac awdurdod gan Gymanfa Gyffredinol 1834, ag oedd yn eu gosod mewn sefyllfa dra gwahanol i'r hon yr oeddynt wedi bod ynddi hyd hyny. Ni edrychid ar weinidogion y capeli hyn, er eu bod wedi eu hordeinio, ond fel pregethwyr. Nid oedd ganddynt gyfarfodydd swyddogion (*Kirk-sessions*) yn perthyn i'w heglwysi er cadw i fyny ddysgyblaeth a llywodraeth eglwysig, ac ni chaniateid iddynt fod yn aelodau o unrhyw Lys Eglwysig. Caniateid iddynt addysgu, ond gwrthodid iddynt reoli a llywodraethu; ond yn Nghymanfa 1834, caniatâwyd iddynt gyflawni holl ranau y swydd weinidogaethol, a phenodwyd rhanau neillduol o'r wlad ac o'r trefydd i fod yn gysylltiedig â'u heglwysi fel eu plwyfydd. Bu hyn yn ddechreuad symudiad pwysig er lledaeniad yr Eglwys, yr hwn a ddygwyd ymlaen gydag yni a llwyddiant mawr. Yr oedd y llwyddiant mor fawr fel y sefydlwyd oddeutu dau gant o eglwysi newyddion mewn ychydig flynyddoedd.

Yr oedd Candlish yn cydymdeimlo yn hollol â'r symudiad hwn, a gwnaeth ei oreu i weithio allan ei egwyddorion a'i amcanion o fewn terfynau ei blwyf ei hun. Prynodd adeilad oedd yn perthyn i'r Undodiaid yn Young Street, a sicrhodd wasanaeth Alexander Moody—yr hwn wedi hyny a adnabyddid wrth yr enw Dr. Moody Stuart—i lafurio fel cenadwr yn y lle. Yr oedd Mr. Candlish wedi clywed Mr. A. Moody yn pregethu, ac yr oedd yn tybied am dano gyda golwg ar Young Street ei fod y dyn iawn yn yr iawn le; ac felly y trodd pethau allan. Daeth Mr. Moody i Edinburgh yn Ionawr 1835, a dechreuodd o ddifrif ar ei ddyledswyddau yn Young Street; a bu y fath fendith ar ei lafur fel yr oedd yno yn fuan adeilad brydferth ac eang wedi ei hadeiladu, eglwys addawol wedi ei sefydlu, ac yntau wedi ei ordeinio yn weinidog rheolaidd iddi. Yr oedd yn yr eglwys newydd hon le i fil eistedd, a chymerwyd oddeutu saith gant o'r lleoedd hyn gan y plwyfolion ar unwaith, a choronwyd yr holl ymdrech â llwyddiant



mawr. Dyma ddechreuad hanes Eglwys St. Luke, yr hon er ys blynyddoedd lawer bellach sydd yn meddu safle barchus iawn ymysg eglwysi Edinburgh, ac sydd yn adnabyddus iawn i lawer Cymro a Chymraes fu yn aros ar wahanol adegau yn y ddinas hono. Cyn gadael yr Eglwys hon, dylem nodi un ffaith neu ddwy arall yn ei chylch. Rhoddwyd yr arian i'w hadeiladu gan Mrs. Buchanan, gweddw gweinidog enwog y Canongate, yr hon oedd yn arfer addoli yn y lle. Ymddengys fod cyfeillion Stockbridge wedi meddwl cael Mr. Moody Stuart i lafurio yn eu plith hwy, a hysbysodd yntau y foneddiges hon ei fod yn tueddu i fyned, am y byddai yno eglwys reolaidd, ac nid gorsaf genadol fel oedd yn Young Street. "Paham," meddai y foneddiges wrtho, "nad allwn ninnau gael eglwys reolaidd yn Young Street, fel y maent yn fwriadu gael yn Stockbridge?" "Mae hyny allan o'r cwestiwn," meddai yntau. "Mae anhawsderau dirfawr ar y ffordd, ac nid y lleiaf o'r rhai hyny ydyw y byddai eisieu £2000 i wneyd yr adeilad yn gymhwys i fod yn gartrefle eglwys reolaidd." "Galwch gyda mi yfory ynghylch y mater yma," meddai y foneddiges. Cydsyniodd yntau i wneyd; galwodd gyda hi y diwrnod nesaf; ac wedi cael addewid ganddo na ddywedai wrth neb, estynnodd iddo y swm angenrheidiol; ac fel hyn y llwyddwyd i gael eglwys reolaidd yn y lle. Gwyn fyd na fendithid cyfoethogion Cymru, yn foneddigion a boneddigesau, âg ysbryd tebyg i eiddo Mrs. Buchanan; yna byddai dyled ein capelau yn rhywbeth a ddfilanai fel eira yn llygad haul. Ffaith ddyddorol arall am yr Eglwys hon ydyw, mai ynddi y darllenwyd, y cytunwyd ar, ac yr arwyddwyd *Protest* 1843, cyn myned i gynnalddau y Gymanfa Gyffredinol y flwyddyn hono; ac y mae yn debyg nad oes angen adgofio darlennwyr y TRAEHODYDD mai dyma yr adeg y cafodd Eglwys Rydd Scotland ei bôd, ac mai y *Protest* hwnw ydoedd achlysur os nid achos ei bodolaeth.

Yn ychwanegol at estyn i'w blwyfolion freintiau yr efengyl, yr oedd Candlish yn awyddus iawn am estyn iddynt fanteision addysg. Yr oedd ei ragflaenydd, Dr. Andrew Thomson, wedi sefydlu ysgol yn Queensferry Street, yr hon oedd un o'r ysgolion mwyaf lliosog a llwyddiannus yn Edinburgh; ond nid oedd Candlish yn ol i'w ragflaenydd enwog yn ei ymdrechion o blaid addysg, oblegid yn y flwyddyn 1836 yr ydym yn ei gael yn hysbysu swyddogion ei Eglwys ei fod wedi gwneyd trefniadau i agor ysgol i'r genethod yn William Street, ac fod ganddo ddarpariaeth ar gyfer yr holl dreuliadau.

Yn awr yr ydym yn cael Mr. Candlish yn ddydd ieuanc deg ar hugain oed, ac yn llawn yni a gweithgarwch, yn paratoi ar gyfer un o'r cynulleidfaoedd mwyaf lliosog, cyfoethog, a galluog yn Edinburgh, ac yn gofalu am un o'r plwyfydd lliosocaf a phwysicaf; a'r fath ydoedd pwysau y gwaith arno fel yr oedd efe ei hunan yn ofni yn fawr nad allai ei ddal; yn wir bu ar fedr derbyn galwad i gymeryd gofal eglwys lai ei nifer a phlwyf llai ei bwysigrwydd. Perswadiwyd ef i aros yn ei le gan ei gyfeillion mwyaf mynwesol, yn enwedig Dr. Cunningham a Dr. R. Buchanan, trwy ddangos iddo mai hyny oedd oreu er daioni yr achos mawr. Mae yn ddiarneu ei fod wedi ei helpu yn fawr i ddyfod i'r penderfyniad i aros yn ei le trwy fod swyddogion ei Eglwys yn addaw chwilio am ŵr ieuanc i lafurio fel cenadwr yn y plwyf, ac felly i ysgafn-hâu y baich ag oedd ef yn deimlo yn rhy drwm iddo ef. Y cenadwr

cyntaf a benodwyd ydoedd Mr. A. A. Bonar, brawd Dr. Horatius Bonar, Edinburgh, yr hwn oedd yn derbyn y gradd o D.D. gan Brifysgol Edinburgh yn y flwyddyn 1874, yr hwn ddewiswyd yn gymedrolwr Cymanfa Gyffredinol yr Eglwys Rydd yn 1878, a'r hwn sydd yn adnabyddus yn Glasgow fel gweinidog galluog a llwyddiannus, a thrwy y deyrnas fel awdwr cynnyrchol a phoblogaidd.

Yr oedd Candlish nid yn unig yn dyfeisio cynlluniau er hyrwyddo ymlaen yr achos mawr yn ei blwyf ei hun, ac yn ffyddlawn yn ngweithiad allan y cynlluniau hyny, ond yr oedd mor gynnar a'r flwyddyn 1835 yn dechreu cymeryd rhan yn achosion cyffredinol yr Eglwys. Dewiswyd ef y flwyddyn hono yn aelod o Gyfeisteddfod Addysg y Gymanfa Gyffredinol, ac ymdafodd i waith y Cyfeisteddfod hwnw i'r fath raddau a chyda'r fath fedrusrwydd fel ag i ddyfod yn un o arweinwyr achos addysg yn y wlad. Nid oedd ychwaith yn cyfyngu ei ymdrechion i lesoli ei gydwladyr o fewn terfynau ei Eglwys ei hun, oblegid yn y flwyddyn 1836 yr ydym yn ei gael yn un o'r prif offerynau yn nygiad allan gyhoeddiad o'r enw *Scottish Christian Herald*, a pharhaodd i fod yn un o'i brif ysgrifenydd am flynyddoedd. Amcan arbenig y cyhoeddiad hwn ydoedd lleadaenu gwybodaeth grefyddol mewn ffurf boblogaidd ymysg lliaws y bobl.

Yn y blynyddoedd nesaf yr ydym yn canfod gwrthddrych ein hysgrif yn dyfod allan fel dadleuydd medrus ac arweinydd doeth yn mhrif lys-oedd yr Eglwys yr oedd yn aelod o honi ac yn weinidog iddi. Yr oedd yn aelod o'r Gymanfa Gyffredinol yn y flwyddyn 1839, pan oedd Tŷ yr Arglwyddi newydd benderfynu yr achos a adnabyddid wrth yr enw *The first Auchterarder Case*. Yr oedd Iarll Kinnoul, noddwr plwyf Auchterarder, wedi llwyddo i gael penderfyniad y gyfraith wladol o'i blaid yn ei ymdrech i osod un Mr. Young yn weinidog plwyf Auchterarder yn groes i ddymuniad y plwyfolion; ac un o'r prif gwestiynau ger bron Cymanfa Gyffredinol 1839 ydoedd, Beth oedd dyledswydd yr Eglwys yn ngwyneb hyn, pa un ai gadael i'r noddwyr anfon pwy bynag ddymunent yn weinidogion i'r plwyfydd, beth bynag allasai fod teimlad y plwyfolion gyda golwg arnynt, ai ynte glynu wrth hen egwyddor y Diwygiad a deddf yr Eglwys, sef nad ydoedd yr un gweinidog i gael ei wthio ar unrhyw gynulleidfa yn groes i'w hewylllys. Yr oedd plaid gref yn yr Eglwys, yn cael ei harwain gan Dr. Cook, yn ffafr ymostwng i benderfyniad y Llysoedd Gwladol. Ond yr oedd plaid gryfach, yn cael ei harwain gan Dr. Chalmers, yn erbyn hyny, ac yn dadleu fod gan yr Eglwys awdurdod annibynol ar y Wladwriaeth mewn achosion o'r fath. Ond yn y Gymanfa yn 1839 fe wnaeth plaid arall ei hymddangosiad, arweinydd pa un ydoedd Dr. Muir, gweinidog Eglwys St. Stephen, Edinburgh. Amcan y blaid ddiweddar hon oedd arwain yr Eglwys i gerdded llwybr canol rhwng y ddau oedd yn cael eu dwyn ger ei bron gan y ddwy blaid wrthwynebol, a rhyw fath o gyfaddawd (*compromise*) oedd y cynnygiad. Ac i wrthwynebu y cynnygiad cymysglyd yma y cododd Candlish i wneyd araeth am y waith gyntaf yn y Gymanfa Gyffredinol. Fel hyn y dywed Dr. Robert Buchanan gyda golwg ar yr amgylchiad: "It was that hollow middle motion that opened the mouth of Dr. Candlish; and the masterly speech in which he tore the mask from it, and scattered to the winds the arguments

of its supporters, placed him at once in the first rank of our public men in the great controversy of our Church." "The reputation of Dr. Candlish as a preacher was already well known. His extraordinary talents in debate, and his rare capacity for business, not hitherto having had any adequate occasion to call them forth, were as yet undiscovered by the public, probably undiscovered by himself. They seemed, however, to have needed no process of training to bring them to maturity. The very first effort found him abreast of the most practised and powerful orators, and as much at home in the management of affairs as those who had made this the study of their life. There was a glorious battle to fight, and a great work to do on the arena of the Church of Scotland; and in him, as well as in others evidently raised up for the emergency, the Lord had his fitting instruments prepared."\*

Wedi ei araeth gyntaf yn y Gymanfa Gyffredinol, cymerodd Candlish ei le yn union fel un o brif arweinwyr yr Eglwys; ac yr oedd safle felly mewn cyfnod yn hanes yr Eglwys ag yr oedd ei hamgylchiadau mor ddyrys, yn un o lafur a phryder mawr. Yr oedd sefyllfa y Gymanfa Gyffredinol yn gyfryw yr adeg yma fel yr oedd ganddi i ymwneyd â dwy blaid—pobl Scotland ar un llaw, a'r Llywodraeth ar y llaw arall. Yr oedd yn credu fod y Gweithredoedd Seneddol yn unol â pha rai y sefydlwyd yr Eglwys, yn ei chyfiawnhâu yn y safle oedd yn gymeryd, ac fod penderfyniad y llysoedd gwladol gyda golwg ar achos Auchterarder yn drosedd o ddeddfau ei chyfansoddiad, ac yn ymyriad anghyfreithlawn â'i rhyddid; ac yr oedd yn rhaid gwneyd appél at Lywodraeth y wlad i'w hamddiffyn rhag y fath ymosodiadau, a thrwy rhyw gyfraith newydd i'w galluogi i amddiffyn ei phobl rhag bod dan orfodaeth i dderbyn gweinidogion annerbiniol. Yr oedd yr appél hwn at y Llywodraeth yn angenrheidiol mewn trefn i gadw ei sefyllfa fel Eglwys Sefydledig. Ar yr un pryd, yr oedd wedi dadgan yn glir a phenderfynol, beth bynag a wnai y llysoedd gwladol a'r Llywodraeth, fod yn rhaid iddi, yn wyneb pob perygl, amddiffyn ei hawl i weithio allan ewyllys Crist fel yr oedd wedi ei dadguddio yn ei Air, ac nad allai, yn unol â'i rhwymedigaethau iddo Ef, gydsynio i anfon gweinidogion i blwyfydd yn groes i ddymuniad y plwyfolion. Ac yn ychwanegol at yr ymwneyd yma â'r awdurdodau gwladol, yr oedd eisieu mabwysiadu rhyw fesurau er addysgu aelodau yr Eglwys gyda golwg ar y cwestiwn mewn dadl. Cyhuddid yr Eglwys o fod wedi troseddu deddf y wlad, ac yr oedd yn iawn iddi ddangos i'w haelodau ei bod yn gweithredu o fewn terfynau deddfau ei chyfansoddiad; ac heblaw hynny, nad oedd yr un cwrs arall yn agored iddi, a pharhâu yn ffyddlawn i Grist fel ei Phen. Galwyd Candlish i wneyd y gwaith pwysig yn y ddau gyfeiriad yma. Yr oedd yn brysur, ddechreu haf 1839, yn trefnu rhyw lwybr i addysgu y bobl gyda golwg ar y pwnc mewn dadl, ac yn Gorphenaf yr un flwyddyn, yr ydym yn ei gael yn un o'r cynnyrcholwyr gyda'r aelodau Seneddol yn Llundain.

Cyn i'r flwyddyn 1839 fyned heibio, yr ydym yn cael gwrthddrych ein hysgrif mewn helynt flin gyda Henaduriaeth Strathbogie, oblegid

\* *Ten Years' Conflict*, Vol. I. pp. 460—1.

yr hyn a adnabyddir fel y *Marnoch Case*. Yr oedd Mr. Edwards, gŵr ieuanc a gynnygid fel gweinidog i Eglwys Marnoch, yn cael ei wrthod gan yr holl gynulleidfa. Ond y mae yn ymddangos fod saith o weinidogion Henaduriaeth Strathbogie, i ba un y perthynai Marnoch, wedi penderfynu ei wthio ar yr Eglwys yn wyneb pob gwrthwynebiad, o ba le bynag y deuai, pa un bynag ai o'r Eglwys ei hun ai ynte o'r Gymanfa Gyffredinol. Canlyniad hyn ydoedd fod yn rhaid galw dirprwyaeth neillduol o aelodau y Gymanfa i ystyried beth oedd i'w wneyd. Dyma fel y dywed Mr. Bell o Edinburgh gyda golwg ar y rhan a gymerodd Candlish yn y Gynadledd hon: "Yr oedd gweinidog enwog o'r enw Dr. Gordon wedi ei benodi i gynnyg fod y saith gweinidog o Henaduriaeth Strathbogie i gael eu diswyddo am dymmor; ond fel yr oedd yr adeg i wneyd hyn yn agosáu, yr oedd yn teimlo yn rhy wan i wneyd hyn, a syrthiodd y gorchwyl yn annysgwyliadwy ar Candlish. Yr ydwyf yn cofio yn dda y teimlad cyffredinol oedd yn meddiannu pawb, pan gododd gweinidog ieuanc St. George ar ei draed, ei fod wedi ei neillduo a'i gymhwysu at waith mawr a phwysig. Byddaf eto, ar brydiau, yn gweled llygaid Cunningham, Begg, Guthrie, ac eraill o'r genedlaeth hono, wedi eu sefydlu arno gydag arwyddion amlwg o syndod, edmygedd, a llawenydd, fel yr oedd yn myned ymlaen gyda'i araeth feistrolgar."

Pasiwyd cynnygiad Candlish trwy fwyafrif o 121 yn erbyn 14. Ond er gwaethaf y penderfyniad hwn, mynodd gweinidogion Henaduriaeth Strathbogie osod Mr. Edwards yn weinidog ar Eglwys Marnoch. Yn gymaint ag fod y gweinidogion hyn wedi eu hattal i wasanaethu eu cynulleidfaeoedd, yr oedd yn rhaid gofalu am rywrai eraill i wneyd, a chafodd Candlish ei ran, os nad mwy na'i ran, o'r gwaith hwn. Bu ar daith trwy Perth, Huntly, Elgin, Aberdeen, Strathbogie, &c., yn hysbysu y cynulleidfaeoedd am ddiswyddiad eu gweinidogion, ac yn eu gwasanaethu yn yr efengyl. Ond ni chaniateid iddo bregethu yn yr Eglwysi, a bu raid iddo ef a'i gydlafurwyr, yn ystod y daith hon, wasanaethu yn yr awyr agored. Yn fuan wedi hyn cafodd y gweinidogion oedd wedi eu hattal rhag gwasanaethu yn Henaduriaeth Strathbogie awdurdod gan y *Court of Session* i wahardd pob gweinidog perthynol i'r Eglwys Sefydledig i bregethu yn eu plwyfydd heb eu caniatâd personol hwy. Ond nid oedd gweinidogion mwyaf ffyddlawn a duwiolfrydig yr Eglwys am ymostwng i hyn, am ei fod yn attalfa uniongyrchol ar y gwaith ysbrydol o bregethu Crist i'r bobl; ac er gwaethaf pob gwaharddiad o eiddo y *Court of Session*, mynent bregethu i'r bobl yn y plwyfydd hyn. Ymysg eraill bu Candlish yn gwneyd hyn yn Huntly yn 1841, nid yn yr awyr agored y tro hwn, ond mewn adeilad newydd oedd wedi ei chodi yn y lle trwy roddion gwirfoddol.

Bu y weithred yma o'i eiddo yn foddion i'w rwystro i eistedd fel proffeswr yn Nghadair Beirniadaeth Fiblaidd yn Mhrifysgol Edinburgh. Yr oedd Llywodraeth Arglwydd Melbourne wedi penderfynu sefydlu cadair o'r fâth yn y Brifysgol, ac yr oedd Candlish wedi ei enwi fel person cymhwys i'w llanw. Ond mewn canlyniad i'w waith yn pregethu yn Huntly yn groes i benderfyniad y *Court of Session*, ymosodwyd arno mewn modd brwnt gan Arglwydd Aberdeen yn Nhŷ yr Arglwyddi. Cyhuddodd ef o fod wedi troseddu y gyfraith mewn modd

amlwg. "Pe byddai i'r llys," meddai, "ymddwyn tuag at y boneddw'r parchedig hwn, y Proffeswr hwn mewn Beirniadaeth Fibleidd, yn yr un dull ag unrhyw berson arall, anfonid ef ar unwaith i garchar, lle y cai hamdden i gyfansoddi ei gyfres gyntaf o ddarlithiau." Mewn canlyniad i'r ymosodiad hwn, diddymodd Arglwydd Normandy, yr Ysgrifenydd Cartrefol, y penodiad. Yn ei lythyr cyhoeddedig at Arglwydd Normandy ar y mater hwn, amddiffynodd Mr. Candlish ei hun yn wyneb y cyhuddiad o fod wedi tori y gyfraith, a dangosodd mewn modd effeithiol yr argyhoeddiadau dyfnion, a'r egwyddorion dyrchafedig oedd yn gynnwysedig yn yr ymrysonfa rhwng yr Eglwys a'r llysoedd gwladol.

Yn y Gymanfa ddilynol gwnaeth appél ddifrifol ac effeithiol, ond nid llwyddiannus, at y Cymedrolwyr (*Moderate party*) i gytuno i basio Mesur Duc Argyll, yr hwn a fuasai yn foddion i roddi terfyn ar yr ymrysonfa. Ofer fu yr ymgais yma, a phob ymgais arall, i ddyfod i gyd-ddealltwriaeth; a gwaeth waeth yr aeth pethau hyd nes y pasiodd Tŷ yr Arglwyddi benderfyniad nad oedd gan yr Eglwys ddim hawl i annibyniaeth ysbrydol. Pan basiwyd y fath benderfyniad, a phan wrthododd y Weinyddiaeth ar y pryd estyn unrhyw ymwared, penderlynodd 474 o weinidogion yr Eglwys, un o ba rai ydoedd Dr. Candlish, i ymwahanu oddiwrthi, ac i roddi eu bywiolaethau ynnddi i fyny, Mai 1843. Yr amgylchiad pwysig hwn oedd dechreuad Eglwys Rydd Scotland.

JOHN PRYCE DAVIES.

---

## ARIAN.

UN o brif amcanion y gwahanol agweddau ar ddiwydrwydd cysylltiedig â llafur ac â masnach oesau diweddar a chenedloedd gwareiddiedig ydyw ennill arian. Dygwyddiad, yn hytrach na dim arall, ydoedd mabwysiadu arian fel cyfrwng masnachol. Adgofir ni gan drafnidwyr gwladol nad oes gwerth mewn arian ynndynt eu hunain; dibyna eu gwerth ar eu defnyddioldeb uniongyrchol ac anuniongyrchol. Am eu defnyddioldeb nid oes dadl; y maent yn hanfodol angenrheidiol i ddyn yn sefyllfa bresennol cymdeithas, yn ei gymeriad deublyg—fel creadur natur, ac fel bôd moesol. Dibyna dyn fel creadur ar arian fel cyfrwng pwrnasiad cynnalïaeth ac amrywiol gysuron bywyd; dibyna fel bôd moesol ar eu gwasanaeth fel cyfrwng dadblygiad ymarferol ei ufudd-dod i egwyddorion sydd yn ei gysylltu â'i gyd-ddynion ac â Duw. Ysywaeth, nid bob amser y cedwir o flaen y meddwl amcanion uchel ac

anrhydeddus pan yn llafurio am gyfoeth. Nid er mwyn eu gwario, fel rheol, y gwneir y fath ymdrechion gan ddyinion i enmill arian. Ychydig mewn cymhariaeth sydd yn meddwl am y modd doethaf a rhagoraf i'w defnyddio ar ol eu cael; y duedd naturiol yw eu cadw. Megys y mae pab bychan yn trigo yn mynwes y rhan liosocaf o ddyinion, felly hefyd y mae yn y rhan fwyaf o ddyinion ariangarwech os nad *cybydd* bychan yn gwneyd ei breswylfod. Yn ffodus, y mae i'r rheol hon, fel pob rheol arall, eithriadau anrhydeddus. Amrywia dynion lawer yn eu dull o fwynhâu yr arian a gasglwyd ganddynt. Rhydd gwastraffu cyfoeth yn hollol afradlawn hyfrydwch digyfelyb i rai; caiff eraill wrth gadw gwyliadwriaeth fanwl ar bob hatling rhag treiglo oddiwrthynt, ryw fath o fwynhâd hunanol, dwfn, dwys,—natur yr hwn sydd y tu allan i gylech dirnadaeth a phrofiad pawb a'r nad ydynt yn hanu o'r dosbarth hwnw.

Ond yr amcan sydd genym mewn golwg yn awr ydyw ceisio egluro y gwahanol ffyrdd sydd yn agored i'r darbodus o'n cydwiadwyr er diogelu eu harian, a chael y cynnyrch goreu oddiwrthynt. Gobeith-iwn drwy hyn fod o ychydig gynnorthwy i'r rhai a deilyngant gael eu gwasanaethu. Pa le bynag y gwelir cynnildeb a dyfalbarhâd i ddilyn llwybrau gonestrwydd ac anrhydedd, credwn fod y dyn a wna ei ran er gwrteithio a dadblygu y rhagoriaethau hyny wrth y gwaith o wasanaethu ei genedlaeth, ac nad ä ei lafur yn ddisylw mewn byd lle y cysylltir gwobr â gweithred mor ddbiwys ag estyn cwpanaid o ddwfr oer i ddysgybl yn enw dysgybl. Fel rheol, tuedd gref i fwynhâu y presenol, ac esgeuluso darparu ar gyfer y dyfodol, sydd yn nodweddu y mwyafrif o ddyinion; eto credwn ein bod ni y Cymry yn fwy darbodus na'n brodyr y Saeson, er ymhell yn ol i'r genedl Ffrengig mewn cynnildeb, a thrwy hyny mewn cyfoeth. A chymeryd golwg gyffredinol ar bethau, rhaid addef fod llawer iawn o ddiolalwch a gwastraff yn bodoli ymysg ein cenedl; ac y mae yn sicr y dylid rhoddi llawer mwy o ystyriaeth i'r ddyledswydd o ddarparu yn helaeth ar gyfer holl amgylchiadau bywyd. Gall cadw mewn cof ansicrwydd einioes fod yn symbyliad rhagorol i ymestyn at fwy o ddiwydrwydd a darbodaeth, fel pa bryd bynag yr ymedy penteulu, fod sefyllfa ei briod a'i blant yn gysurlawn o ran eu perthynas â phethau y bywyd hwn. Nid peth dyeithr yn Nghymru yw fod llawer o deuluoedd yn gwastraffu *fortune* yn hollol ddjarwybod iddynt eu hunain ar oferedd ag y gallent yn hawdd ei hebgor, ie, yn wir, ar bethau sydd yn niweidiol iddynt. Pe yr ystyriai dyn sydd yn gwario, dyweder tair ceiniog a ffyrlling yn y dydd am owns o fyglys tair ceiniog, a chost y bibell a'r *matches* dyweder yn ffyrlling, y buasai y swm bychan hwn, pe y cynnilid ef a'i ddodi mewn unrhyw fuddiant a gynnrychai bum' punt y cant yn y flwyddyn o log, ymhen ugain mlynedd wedi cyrhaedd y swm anrhydeddus o £165 6s. 7c., ac ymhen hanner cant o flynyddoedd yn £1046 14s. 10c., credwn yn sicr yr ymgymerei o ddirif ar gorchwyl o'u cynnilo. Dymunem hefyd, wrth fyned hebio, argymhell ar bob penteulu nad yw wedi dechreu darparu ar gyfer ei deulu, mai ei ddyledswydd ydyw gwneyd hyny trwy gyfrwng un o gwmnïau bywyd-yswiriad (*life insurance*), sydd o fewn ein cyrhaedd ac na raid petruso mynyd am eu diogelwch. Er fod nifer y rhai darbodus o'n cydgenedl ymhell

yn y lleiafrif o'u cyferbynu â'r rhai gwastraffus, coeliwn, pe gellid dyfod o hyd i'r oll o'honynt, y ceid fod eu rhifedi yn llawer mwy nag y tybir yn gyffredin. Y mae rhyw duedd neillduol yn y Cymro i gelu ei gyfoeth, ac nid anfynych y synir ni pan ddeallwn am lawer un, syml a dinod yr olwg arno, er hyny yn berchen cannoedd o bunnau. Yn ol y graddau y bydd i addysg foesol a deallol y wlad gynnyddu, hyderwn y bydd i'r duedd ddarbodus hon ennill tir yn ein mysg. Ond ffaith gyffredin ac addefedig yw, fod y rhan fwyaf o ddynion yn fwy galluog i gasglu arian nag i'w trefnu mewn modd deheuig ar ol eu meddu, gan eu gosod mewn lleoedd priodol i ddwyn elw da. Nid ydyw y cyffredin yn gwybod am ddulliau i ddiogelu eu harian, oddieithr eu soddi mewn Ariandai Cynnilo, Ariandai Cyffredin, Clybiau Adeiladu, rhoddi yn fenthyg ar baprau stamp, Gwystl-weithredoedd, neu *mortgages*, ar dir, tai, &c. Pe yr awgrymid yn gynnil wrthynt am unrhyw ddull arall o ddodi arian allan, ceid edrychiad pur ammheus, os nad dadganiad grymus o anghymeradwyaeth; a'r diwedd fyddai rhoddi annogaeth onest i ymgroesi rhag y fath feddylfryd rhyfygus. Nid ydyw hyn i ryfeddu ato, pan ystyriom fod can lleied o ysgrifenu ar y gangen yma o wybodaeth yn yr iaith Gymraeg.

Y mae y gwahanol lleoedd i roddi arian ynddynt mor lliosog ac amrywiol fel nas gellir ymdrin âg ond ychydig o'honynt yn fanwl. Y mae llawer un, ar ol blynyddau maith o lafur caled, wedi gallu cynnilo ychydig gannoedd o bunnau, yn clywed am ryw anturiaeth newydd addawol anghyffredin, ac yn rhoddi ei holl eiddo ynddi, heb gymeryd i ystyriaeth ddyladwy natur y buddiant. Y mae y ffaith fod cynifer o gwmniau pwr wedi eu ffurfio, yn unig er mwyn hunan-elw, yn galw am bob gochelgarwch a barn cyn cymeryd cyfranau mewn unrhyw gwmmi, ond yn benaf rhai newyddion. Y mae dirwasgiad masnachol y blynyddau diweddaf wedi profi yn angeuol i ugeiniau o'r cwmnïau hyn; yn wir yr oedd yn amhosibl i unrhyw sefydliad allu sefyll *panics* yr amser a aeth heibio, oddieithr eu bod wedi eu sylfaenu ar egwyddorion hollol bur a chadarn. Yr oedd yr amgylchiadau y fath fel ag y gwesgid dynion i'r pryder mwyaf wrth gael, ddydd ar ol dydd am fisoedd lawer, hysbysrwydd yn y newyddiaduron am fethiantau. Bu y gorbryder hwnw yn foddion helaeth i ladd yr ymddiried sydd mor angenrheidiol i fywiogrwydd masnachol. Y mae *ammhewaeth* yn llawn o elfenau marwolaeth i lawer bywyd heblaw yr un trafniadol, a *chrediniaeth* ydyw adgyfodiad a bywyd amseroedd da yr un modd ag egwyddorion da. Dengys hyn fod ein masnach yn dibynu am ei chynnydd, i raddau helaeth, ar ymddiried a ffydd yn y dyfodol. Bu gwladweiniaeth ansicr Arglwydd Beaconsfield, yn gartrefol a thramor, yn foddion i gynnyddu yn fawr yr anymddiried oedd yn bodoli yr amser y cyfeiriwyd ato. Erbyn hyn yr ydym yn credu fod pethau wedi newid, a'n bod ar ddechreu eto ar gyfnod o gynnydd a llwyddiant masnachol. Ceir profion o hyn yn yr ychwanegiadau a geir yn y cyfrifon morawl, trafniadiaeth y rheilffyrdd, archebion am haiarn, codiad neillduol yn mhrisiau *tin*, copr, plwm, a nwyddau eraill. Y mae hefyd yn dra arwyddocaol fod y fath ddirtfawr ychwanegiad, ragor ydoedd flwyddyn yn ol, yn y ceisiadau i'r Senedd am awdurdod i anturiaethau newyddion mewn rheilffyrdd a gweithiau cyhoeddus eraill. Y mae y

ffaith fod perchenogion gweithfeydd, mewn achosion o anghydwelediad â'r gweithwyr, yn gallu dyfod i gytundeb â'u gilydd, yn hytrach na chau allan neu sefyll allan, yn arwydd dda, ac yn gynnorthwy mawr tuag at hyrwyddiant y bywyd masnachol sydd wedi gwawrio arnom. Ar ddechreu y flwyddyn hon, achosodd Deddf Cyfrifoldeb Meistriaid gryn gynhrwf ac anghydwelediad rhwng meistriaid a gweithwyr mewn rhai parthau o'r deyrnas. Bu y teimlad gwrthwynebol a ddangoswyd gan rai meistriaid i'r ddeddf yn foddion i symbylu y gweithwyr i ddal eu gafael ynddi, pan nad ydoedd eu hamgylchiadau yn galw am iddynt wneyd hyny. Y mae yn ddiammeu y bydd i'r ddeddf brofi yn fanteisiol i'r dosbarth gweithiol yn gyffredinol, fel amddiffyniad i'w bywydau, er i'r gweithwyr ddyfod i gytundeb â'u meistriaid i'w rhyddhau oddiwrth ei gofynion cyfreithiol. Pe byddai i'r pleidiau edrych yn deg, gyda doethineb a phwyll, ar fuddiannau eu gilydd, dygid i derfyniad boddhaol i'r ddwy blaid bob achos mewn dadl. Gellir priodoli bron bob methiant mewn dyfod i gyd-ddealltwriaeth, i ymddygiadau annoeth ac ymyrgar personau oddiallan—amddiffynwyr y meistriaid weithiau, a chyfeillion y gweithwyr brydiau eraill—y rhai, naill ai yn fwrriadol neu gan awydd i gyrhaedd amcanion annheilwng, sydd yn gyfrifol am doriad i lawr bob ymgais i ymheddychu. Ni fydd i anghydwelediaidau o'r natur yma fod o un lles i'n gwlad; ond rhaid iddynt fod yn fanteisiol i gryfhau breichiau cynnyrchwyr Cyfandirol ac Americanaidd, a pheri niwed parhaol i ninnau. Hyderwn gan hyny y bydd i'r gweithwyr fod yn rhesymol yn eu gofyniadau, ac na fydd y meistriaid, o'r ochr arall, yn brin yn y cyflawniad o'u dyledswyddau hwythau tuag at eu gweithwyr.

Dylid yn wastad gadw dau beth mewn golwg wrth edrych allan am le i suddo arian ynddo: yn flaenaf a phenaf, myner lle diogel; wedi hyny llog da. Ond yr anhawdsder ydyw cael y ddau yn yr un lle; y rheol yw, fod lleoedd hollol ddiogel yn rhoddi llogau bychain, a phan y tarewir ar loeodd yn rhoddi llogau uchel, gydag eithriadau, y mae diogelwch y cyfryw yn ammheus. Doeth hefyd o dan rai amgylchiadau fyddai gofalu fod yr eiddo a brynir, y cyfryw ag y gellir ei werthu yn rhwydd; gallai hyn fod yn bwysig iawn ar rai prydiau. Dewiser hefyd eiddo a ddeil yn ei bris; ac nid hyny yn unig, ond y cyfryw ag y bydd pob golwg iddo gynnyddu yn ei werth. Cawn fanylu ar hyn eto. I'n bryd ni, doeth ydyw dewis *amrywiol* fuddiannau i ddodi arian ynddynt; gocheler rhoddi yr holl wyau yn yr un fased, rhag, pe dygwyddai damwain iddi, i'r oll fyned yn chwilfriw. Rhaner yr wyau mewn gwahanol fasedau, ac odid fawr na ddiogelir y rhan liosocaf o honynt. Felly y meddyliai Shakspeare pan ddywedodd:—

My ventures are not in one bottom trusted,  
Nor to one place.

Amcanwn yn awr gymeryd cipdrem ar y gwahanol fuddiannau adnabyddus a chyffredin sydd yn agored i suddo arian ynddynt, egluro y diogelwch a gynnygir ganddynt, ynghyd a chynnyrchion y cyfryw mewn llogau.

1. ARIANDAI CYNNILO. Y mae yr Ariandai Cynnilo yn nodedig am eu diogelwch, yn neillduol felly y rhai cysylltiedig â'r Llythyrdai.



Y mae perthynas yr olaf â'r Llywodraeth yn ddigon o wystl am eu cadernid. Swm y llog a rydd Ariandai y Llythyrdŷ ydyw chwe' cheiniog y bunt; er fod y llog yn fychan, rhaid addef fod y manteision a gynygir ganddynt yn hynod o gyfleus i weithwyr i ddodi mân symiau wythnosol neu fisol ynddynt. Trefniant gwir werthfawr yw eiddo y Gwir Anrhydeddus Henry Fawcett, A.S., y Postfeistr Cyffredinol, ynglŷn â'r *Post Office Savings Bank*, er symblu plant a'r dosbarth gweithiol i gynnildeb a darbodaeth. Gellir cael, yn rhad, mewn unrhyw lythyrdŷ, *form* o bapyr, ar ba un y gosodir deuddeg *stamp* llythyr. Darparwyd y dull hwn, am ei fod yn gyfleus i'r plant i gadw eu ceiniogau; wedi ei llanw, derbynir hi yn ol yn y Llythyrdŷ fel *Savings Bank deposit* o swllt. Derbynir hefyd yn Ariandŷ y Llythyrdŷ unrhyw swm uwchlaw swllt, heb fod dros £30 mewn blwyddyn, gan unrhyw berson, a chaniateir llog yn ol chwe' cheiniog y bunt ar bob swm uwchlaw punt. Gellir yn awr hefyd, trwy yr Ariandŷ Cynnilo, suddo unrhyw swm o £10 i £100 yn *stocks* y Llywodraeth, yn ol fel y byddo eu pris yn y farchnad ar y pryd. Am y manylion ynglŷn â'r trefniadau hyn, ymfyner, mewn unrhyw lythyrdŷ, am y pamphletyn a gyhoeddwyd gan Mr. Fawcett, *The Post Office and Aids to Thrift*, yr hwn a geir am ddim. Y mae argraffiad Cymraeg i'w gael yn awr o hono.

2. ARIANDAI CYFFREDIN. Y mae Ariandai cyffredin ein gwlad, ar hyn o bryd, yr ydym yn credu, yn gyfryw ag sydd yn teilyngu pob ymddiried. Dosrenir y sefydliadau hyn yn gyffredin i dri dosbarth, sef rhai Preifat (*Private Banks*), Cyfyngedig (*Limited*), ac Anghyfyngedig (*Unlimited*). Cawn sylwi ymlaen ar wahanol nodweddion cyfranau Ariandai (*Bank Shares*) fel cyfryngau i suddo arian ynddynt. Yr hyn sydd genym yn awr ydyw ystyried eu diogelwch fel buddianau i ddodi arian ynddynt ar log sefydlog (*deposits*.) Y mae yr oll o'r Ariandai yn rhoddi llog cyffelyb yn y wlad ar yr arian a fenthyciant; sef oddeutu  $2\frac{1}{2}$  i 3 y cant. Amrywia y llog, fel rheol, yn y trefi mawrion yn ol fel y bydd sefyllfa marchnad yr arian (*bank rate*) ar y pryd. Y mae Ariandai Preifat Cymru—er nad ydym yn gwybod manylion eu gweithrediadau, am eu bod yn breifat—yn cael eu dwyn ymlaen ar egwyddorion diogel, ac yn teilyngu ymddiried. Y mae eu perchenogion yn feddiannol ar gyfoeth mawr; ymgyfoethogant yn gyflym ar eu masnach, ac y mae y ffaith hon, yn un y gellir pwyso arni ar ddydd y *panic* fel ar ddydd tawel llawn ymddiriedaeth. Y mae yr Ariandai Cyfyngedig ac Anghyfyngedig yn rhoddi cyhoeddusrwydd i gyfansymiau yr arian a fenthycir ganddynt, yr un modd a'r defnydd a wneir o honynt. Ni raid dyweyd fod yr arferiad ddoeth hon yn llawn mantais i'r meddylgar; caiff drwy hyny gyfleusdra i farnu seiliau eu diogelwch. Pe gofynid i ni yn y fan hon, beth yw y gwahaniaeth rhwng Ariandŷ Cyfyngedig ac Anghyfyngedig, ceisiem ei ateb fel hyn: Nid ydyw cyfranddalwyr, neu berchenogion Ariandŷ Cyfyngedig, yn gyfrifol ond yn unig am swm gwreiddiol y cyfranau a ddaliant, tra y mae cyfrifoldeb cyfranddalwyr Ariandai Anghyfyngedig yn annherfynol. Achosodd methiantau Ariandai Glasgow a Deheudir Cymru, y rhai oeddynt anghyfyngedig, gyffro a chwyldroad anghyffredin yn y wlad; a hyny a fu yn foddion i basio *Act yr Ariandai* yn fuan ar ol hyny. Gall Ariandai Anghyfyngedig yn awr

gofrestru eu hunain yn Gyfyngedig, ac y mae braidd holl brif Ariandai ein teyrnas wedi gwneyd hyny. Diammeu y bydd hyn yn welliant, ac yn ddiogelwch, nid yn unig i'r cyfranddalwyr neu y perchenogion eu hunain, ond hefyd i'r personau hyny sydd yn ymddiried eu harian ynddynt ar log, yn gymaint a bod y swm sydd yn aros yn ddyledus ar y cyfranau mor fawr, a thrwy hyny yn sicrhau perffaith ddiogelwch, ac yn fantais ychwanegol i'r *depositors*. Y mae yn sicr y bydd y personau a ddaliant gyfranau rhaglawn yn gryfach o ran eu hamgylchiadau, am fod y syniad o ddal cyfranau mewn sefydliad anghyfyngedig wedi bod yn foddion i gadw y dosbarth goreu draw rhag ymuno â hwynt.

3. CLYBIAU ADEILADU. Y mae dau ddosbarth gwahanol o'r Clybiau hyn—y rhai terfynol a'r rhai annherfynol. (1.) Y mae y cyntaf yn benthycia arian ar log sefydlog, er cyflenwi anghenion aelodau fyddo yn prynu, neu yn benthycia arian ar eiddo. Ad-delir y benthycion yn ol yn fisol, yn ol *scale* reolaidd, mewn cynifer o flynyddoedd. Tâl yr aelodau nad ydynt yn prynu swm penodol yn fisol, er sicrhau rhan benodedig o arian ymhen nifer o flynyddau, yn ol trefniant y tabl sydd yn rheoleiddio eu taliadau. Os dygwydd i'r gymdeithas gyfarfod â cholledion, mae yr oll o'r aelodau yn rhwym o barhau i dalu eu cyfranau misol nes byddo yr arian benthycy a'r cyfranau fyddo heb eu prynu wedi eu cwbl dalu. Gallai hyn achosi i'r gymdeithas fod fisoedd, os nad blynyddau, yn hwy yn dyfod i fyny nag y bwriadwyd ar y cyntaf; ar yr un pryd, os bydd yr arian a fenthyciwyd wedi eu rhoddi allan yn ddoeth a gofalus ar wystl-weithredoedd, ac os bydd y gymdeithas yn cael ei dwyn ymlaen gyda gofal dyladwy, ac os bydd tabl y taliadau misol yn deg, ystyriwn fod yr arian a fenthycir yn hollol ddiogel. Gwyddys, fodd bynag, fod amryw gymdeithasau o'r natur yma wedi achosi colledion mawrion i lawer o bersonau oedd yn dal cysylltiad â hwy. Achoswyd hyn gan ddiogelwch anesgusodol, os nad gan anonestrwydd eu swyddogion. (2.) Y mae y dosbarth arall, sef y Cymdeithasau Adeiladu Parhaol, yn gwahaniaethu oddiwrth y cyntaf trwy nad oes a wnelo y rhai fyddo yn benthycia arian ar log yn y cymdeithasau hyny ddim â'r ennillion nac â'r colledion. Y maent yn ad-dalu y llog a'r hawl trwy daliadau misol, yn ol darbodion tabl o 10, 15, 20 neu 25 mlynedd; ac ar derfyn y tymmor hwnw daw gweithredoedd eu tai, &c., yn ol iddynt. Y cyfranddalwyr, yn y clybiau hyn, ydynt y personau sydd yn derbyn yr elw neu yn dwyn y golled. Y mae, fel rheol, ddau fath o gyfranau yn y sefydliadau hyn, sef y rhan-gyfranau cyntaf (*preference shares*), a rhangyfranau soddedig (*invested shares*). Y mae y cyfranau cyntaf, fel rheol, yn dwyn llog sefydlog o 4 i 4½ y cant, ac yn rhwym o gael eu talu cyn i'r ail ddosbarth dderbyn llog o gwbl. Y mae y dosbarth olaf o'r cyfranau felly yn dyfod i mewn am yr ennill neu y golled. Os dygir y gymdeithas ymlaen yn ofalus ac ar egwyddorion teg, derbynia perchenogion y cyfranau hyn ar gyfrantaedd £5 neu £6 y cant o log ar eu harian. Ystyriwn fod cyfranau yn y cymdeithasau hyn, o'u harolygu yn briodol, yn ddiogel i'w prynu. Y dosbarth cyntaf o'r cymdeithasau a ystyrir y mwyaf manteisiol i fenthycia arian o honynt, ond penderfynu glynu wrthynt hyd y diwedd; ond os tybir y bydd tebygolrwydd y gellir talu y gwystl cyn y diwedd, neu os cyfyd angenrhaid i newid y gymdeithas, y dosbarth olaf, neu y

rhai parhäol, ystyrir oreu. Wrth gwrs yr ydym yn cymeryd yn ganiat-äol fod rheolau ac arolygiaeth y naill a'r llall mor foddhäol a'u gilydd.

4. NOTES OF HAND. Y mae benthyca arian ar baprau *stamps* mor gyffredin fel nad oes angen ymhelaethu arno. Y mae hwn yn ddull hynod syml a hwylus : dibyna y diogelwch a'r llog yn hollol ar deilyng-  
dod y person neu y personau fyddont wedi eu harwyddo. Swm y llog a geir drwy y dull hwn ydyw o bedair i bum' punt y cant.

5. MORTGAGES. Y mae arian wedi eu benthyca ar wystl-weithred-  
oedd, yn neillduol ar eiddo rhydd-ddaliadol, wedi eu gosod allan yn ofalus, yn berffaith ddiogel, ac, ar gyfartaledd, yn dwyn £4 y cant o log. Y mae prynu tai neu diroedd, ond gweithredu gyda barn dda, yn ddull doeth a chymeradwy i suddo arian. Dylai tai gynnyrchu mwy o log na thir, er cyfarfod äg amrywiol adgyweiriadau, &c. Nid yn aml y gellir prynu tir i dalu mwy na £2½ y cant o log. Awn yn awr at y

STOCK EXCHANGE.

Y mae yr arferiad o fasnachu ar y *Stock Exchange* mewn soddion a chyfranau (*stocks and shares*) wedi dechreu er y flwyddyn 1664. Y pryd hwnw y gosodwyd i lawr gan Siarl yr Ail sylfaen ein Dyled Wladol, a'r adeg hono y cyfarfu nifer o bersonau, am y waith gyntaf, i fasnachu yn y buddiant hwn ar y Gyfnewidfa Frenhinol, y *Royal Exchange*, yn y brifddinas. Er y pryd hyny y mae cyfnewidiadau mawrion wedi cymeryd lle yn y gangen hon, fel holl gangenau eraill masnach. Y mae y *London Stock Exchange* wedi ei eangu yn ddirfawr erbyn heddyw o'i gymharu ä'r hyn ydoedd gynt. Brithir y wlad erbyn hyn ä *Stock Exchanges*, y rhai ydynt adeiladau heirdd ac eang, a masnach enfawr yn cael ei dwyn ymlaen ynddynt. Ceir hwy yn Manchester, Liverpool, Edinburgh, Glasgow, Dublin, Belfast, a lleoedd eraill. Yn yr adeiladau hyn y prynir ac y gwerthir *Government Bonds*, sef ysgrifwymau a roddir gan wahanol Lywodraethau y byd am yr arian a fenthycir ganddynt at eu gwahanol angenrheidiau. Math arall o fuddiannau gwerthfawr a geir ar yr *Exchanges* ydyw *Railway Shares*—Cyfranau mewn Rheilffyrdd mewn gwahanol wledydd; *Bank Shares*—Cyfranau mewn gwahanol Ariandai; *Insurances, Telegraphs, Tramways, Gas and Water Works*, a chyfranau Cwmnïau o bob natur trwy yr holl fyd. Dygir ymlaen bob trafndiaeth ar y *Stock Exchange* trwy gyfrwng person a elwir yn *Broker*, i'r hwn y telir o 1s. 3c. i 5s. y cant ar *Stocks*; 6c. am gyfranau o dan £5; 9c. o £5 i £10; 1s. 3c. o £10 i £25; 2s. 6c. o £25 i £50; a 5s. o £50 i fyny, am y cyfranau a brynir neu a werthir ganddo. Gwneir y taliadau bob pythefnos, y rhai ydynt, fel rheol, yn disgyn ar ganol a diwedd y mis. Y mae täl trosglwyddiad gwahanol eiddo fel y canlyn :—

STAMPS ER TROSGLWYDDIAD GWYSTL-WEITHREDOEDD A DYLEDEBAU (MORTGAGE AND DEBENTURE BONDS).

	£	s.	d.	£	£	£	s.	d.
I fyny i	£100	0	0	6	500	i	600	0 3 0
£100	i	200	0	1	0	600	“	700 0 3 6
200	“	300	0	1	6	700	“	800 0 4 0
300	“	400	0	2	0	800	“	900 0 4 6
400	“	500	0	2	6	900	“	1000 0 5 0

Ac felly ymlaen, 6c. am bob £100. Y *Stamps* ar *Debenture Stock* ydynt 2s. 6c. ar bob £100.

## STAMPS ER TROGLWYDDIAD SODDION A CHYFRANAU (STOCKS AND SHARES).

	£	s.	d.	£	£	£	s.	d.
1 fyny hyd £5 .....	0	0	6	150	i	175		0 17 6
£5 i £10.....	0	1	0	175	"	200		1 0 0
10 " 15.....	0	1	6	200	"	225		1 2 6
15 " 20.....	0	2	0	225	"	250		1 5 0
20 " 25.....	0	2	6	250	"	275		1 7 6
25 " 50.....	0	5	0	275	"	300		1 10 0
50 " 75.....	0	7	6	300	"	350		1 15 0
75 " 100.....	0	10	0	350	"	400		2 0 0
100 " 150.....	0	12	6	400	"	450		2 5 0
125 " 150.....	0	15	0	450	"	500		2 10 0

Ac o werth £500 ac uchod, 5s. am bob £50, neu unrhyw ran o £50.

Neillduol o fanteisiol ydyw yr amrywiol fuddiannau y gellir eu prynu ar yr *Exchange*, i bob gradd a sefyllfa o ddynion, i ddodi eu harian ynddynt. Gwasanaetha y rhesymau canlynol i ddangos hyn. (1) Ceir yma ddigon o amrywiaeth. (2) O'r amrywiaeth hwnw, gellir dewis buddiant sydd yn cynnyrchu llog bychan neu fawr, a thrwy hyn gyfarfod â chwaeth y prynwr (*investor*) gochelgar, ynghyd ag eiddo yr un anturiaethus. (3) Ceir mantais yma i ddiogelu unrhyw swm, bychan neu fawr. (4) Gellir unrhyw adeg werthu y buddiant. (5) Ei drosglwyddo gyda y rhwyddineb mwyaf, ac ar delerau hynod o resymol, fel y dangoswyd uchod. Gwir fod yn angenrheidiol wrth lawer o ofal a barn i brynu y buddiannau hyn. Yn nifyg hyny, gellir prynu eiddo yn cynnyrchu llog mawr ar y pryd, ond un a gyll yn ei werth y naill ffwyddyn ar ol y llall, fel pan y gwerthir ef y ceir allan mai pryniant siomedig ydoedd, ac mai llog twylhodrus oeddys yn ei gael ar yr eiddo. Ond y mae amryw o fuddiannau yn cynnyrchu llog da, a phob goibaith y bydd iddynt gynnyddu hefyd yn eu gwerth. Y mae hefyd gyfranau mewn amryw Gwmnïau, y rhai nad ydynt yn awr yn cynnyrchu dim llog, ond yn meddu rhagolygon addawol. Ar hyn o bryd, gellir eu prynu yn hynod o isel, ac yn ol pob tebyg, y maent yn sier o gynnyddu yn eu gwerth, a hyny yn fuan. Hawdd ydyw colli ennillion oes ar y *Stock Exchange* mewn un dydd, trwy or-awydd am elw mawr; cyfyd y perygl hwn o ddiffyg barn yn newisiad buddiannau, neu ar gyfrif tymmor anamserol i'w prynu. Y mae prisiau y gwahanol fuddiannau y cyfeiriwyd atynt yn hynod o gyfnewidiol; dylanwadir arnynt gan amgylchiadau hollol anghysylltiol â'r buddiannau eu hunain. Y maent mor deimladol â'r *barometer*; cyfnewidiant lawer gwaith yn y dydd. Par unrhyw gynhwrf gwleidyddol i bob peth fyned i lawr ar unwaith; damweiniâu ar ffyrdd haiarn a wna i'r cyfranau syrthio yn llawer is na'r wir golled a fo wedi dyfod i ran y Cwmnïau eu hunain; murmur fod *firms* masnachol yn debyg o droi yn fethdalwyr ac yn masnachu â rhyw Arian dyf neillduol, sydd yn ddigon i yru cyfranau yr Ariandf hwnw i lawr ar unwaith, er fod gan yr Arianywyr bob diogelwch am yr eiddo dyledus iddynt. Gwelir drwy hyn fod yn rhaid wrth wylriaduriaeth a barn lled addedd, nid yn unig yn y dewisiad o fuddiannau i'w prynu, ond hefyd er deall yr *amser* priodol i'w prynu. Y mae rhai buddiannau, y rhai mwyaf diogel er engrafft, yn cynnyrchu oddeutu £3½ i £4 y cant o log. Nid ydyw y rhai hyn yn agored i'r cyfnewidiadau y cyfeiriwyd atynt ond i fesur bychan iawn. Y buddiannau y dylanwadir

fwyaf arnynt gan yr amgylchiadau y cyfeiriwyd atynt ydynt, fel rheol, y rhai a gynnrychant y llog uchaf, ac o ganlyniad dylid arfer y gwyliad-wriaeth mwyaf wrth ymwneyd â hwy. Wedi ponderfynu ar y buddiannau y bwriedir eu prynu, dylid gwylied am amser isel ar y farchnad i'w sierhâu. Fel rheol, taedd hwyrffrydig i brynu sydd yn meddianau y lliaws pan fydd y farchnad yn flat; ond dyma yr adeg y mae anturiaethwr doeth yn prynu bob amser; gwyliha hefyd am adeg fywiog i werthu ei stock, pan y bydd y buddiant yn cyrhaedd pris mwy na'i wir werth. Gweddus yn y fam hon, fe allai, fyddai rhoddi ein darllenwyr ar eu gwyliadwriaeth rhag y bodau hyny a elwir yn deirw ac eirth (*bulls and bears*) y marchnadoedd. Cyfarfyddir â'r dynion hyn ar y Gyfnewidfa ymhob tref, a'u gwaith ydyw llunio diehellion i godi a gostwng prisiau gwahanol fuddiannau. Dosbarth hollol ddiymddiried ydynt, a gwel ydyw cilio oddiar eu ffordd; y maent yn fedrus i wisgo eu gweithredoedd â diwyg dwyllodrus.

Byddai yn fuddiol rhoddi eglurhâd byr a chryno ar y prif fuddiannau y masnechir ynddynt ar y *Stock Exchange*; y llog a gynnrychir ganddynt; a'n barn am eu teilyngdod, eu diogelwch, a'u rhagolygou.

1. GOVERNMENT STOCKS. (1.) *British and Indian Government Securities.* Buddiannau y Llywodraeth Brydeinig ac Indiaidd yw y rhai a ystyrir ddiogelaf o'r holl stocks, ac o ganlyniad y rhai a gynnrychant leiaf o log; oddeutu tair neu dair a hanner y cant a geir oddiwrthynt. Y mae y buddiannau hyn yn neillduol o gyfleus a dymunol i Ymddiriedolwyr i suddo arian ynddynt; gwna Ariandol a Chwmnïau etail fasnach ynddynt, yn benaf ar gyfrif eu cwbl ddiogelwch, ynghyd a'r rhwyddineb gyda pha un y gellir eu troi yn arian. Cydnabyddir mai hwy ydyw y buddiannau mwyaf sefydlog eu gwerth trwy yr holl fyd. Gwir y byddant yn amrywio ychydig pan y cymer cyffro gwleidyddol le, os bydd yn debygol y bydd i'r wlad hon-gymeryd than yddo. Benthycir yr arian a gynnrychiolir gan y *consols* a gwahanol stocks y Llywodraeth at dreulïau gwleidyddol, amddiffyniad y deiliaid, a gwar-eiddiad gwahanol diriogaethau pellenig. Yn India, defnyddir hwy i wneyd ffyrdd haiarn a dadblygu cynnyrchion y wlad fawr hono. Ad-delir cyfran o'r ddyled yn flynyddol; a sicrheir y llogau trwy dollau ar y gwahanol nwyddau a dreulir yn y wlad, ac hefyd trwy drethoedd. Ffurfiwn dabl o'r buddiannau mwyaf cyffredin y gwneir masnach ynddynt o'r dosbarth hwn; rhoddir eu gwerth presennol yn y farchnad, a'r llog a geir ar y pryniant:—

Enw.	Eu gwerth presennol.						Llog y cant ar y gwerth presennol.			
	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.	
3 per cent. Consols.....	o	100	12	8	100	15	0	3	0	8
3 " reduced .....	o	99	7	6	99	10	0	3	0	6
India Enfac'd Paper 1893, 4½ per cent.	o	91	5	0	91	15	0	4	17	6
" Stock 4 per cent. do. 1888.....	o	105	5	0	105	10	0	3	15	9
Bank of England Stock.....	o	281	0	0	283	0	0	3	6	8
Metropolitan Board of Works, 3½ per cent. Stock.....	o	106	15	0	107	5	0	3	5	0

(2.) *Colonial Government Securities.* Y mae y buddiannau hyn, er eu bod yn eiddo Prydeinig, yn cynnyrchu mwy o log na'r rhai drwyddaf: telir oddeutu £5 y cant ganddynt. Yr achos o hyn ydyw fod llog

mewn trefedigaethau ieuainc yn wastad yn uwch nag mewn hen wledydd. Y mae cyfalaf—*capital*—hefyd yn brin, ac mewn canlyniad rhaid wrth gymhorth oddiallan iddynt eu hunain er cael moddion i eangu a dadblygu adnoddau y wlad. Teimla y dosbarth a suddant eu harian yn meddiannau y trefedigaethau, yn gymaint a bod eu heiddo yn myned y tu hwnt i'w harolygiaeth uniongyrchol, y dylid cael mwy o log am danynt. Ond er eu bod yn bell, y mae eu perthynas anuniongyrchol â'r Llywodraeth Brydeinig yn sicrwydd am eu diogelwch. Sicrheir eu llog gan doll ar eu cynnyrchion, &c. Y maent yn eiddo diogel i'w prynu. Y maent hefyd bob amser yn werthadwy, ac nid ydynt yn amrywio ond ychydig yn eu pris. Rhoddir y rhai mwyaf marchnadol o honynt yn y tabl canlynol :—

Enw.	Eu gwerth presennol.						Llog y cant ar y gwerth presennol.		
	£	s.	d.	£	s.	s.	£	s.	d.
Colonial Government Securities :—									
Canada 1879—1881 .....	o 100	0	0	i 102	0	0	5	17	7
“ 1885 .....	o 104	10	0	i 105	10	0	4	14	9
“ 1904—1905 .....	o 102	10	0	i 103	10	0	3	17	3
Cape of Good Hope .....	o 102	0	0	i 103	0	0	4	6	11
Natal .....	o 100	0	0	i 102	0	0	4	8	2
1888—1894 New South Wales .....	o 106	0	0	i 110	0	0	4	10	10
1903—1905 do. ....	o 102	0	0	i 103	0	0	3	17	8
New Zealand Consolidated .....	o 102	10	0	i 103	10	0	4	17	6
Ditto 1879—1904 .....	o 99	0	0	i 100	0	0	4	10	0
Queensland 1891—1896 .....	o 116	0	0	i 118	0	0	5	1	8
Ditto 1918—1915 .....	o 97	10	0	i 98	10	0	4	1	2
South Australian 1901—1918 .....	o 121	0	0	i 127	0	0	4	14	5
Ditto 1894—1916 .....	o 100	0	0	i 101	0	0	3	19	2
Victoria 1883—1885 .....	o 107	0	0	i 110	0	0	5	9	1
Ditto 1894 .....	o 109	0	0	i 111	0	0	4	10	1
Ditto 1899—1901 .....	o 101	0	0	i 102	0	0	3	18	6

2. FOREIGN STOCKS. Buddiannau yw y rhai hyn sydd yn cynnyrch-ioli dyledion gwahanol deyrnasoedd a thaleithiau y byd. Wrth ymwneyd â hwy, dylid arfer y gwyliadwriaeth a'r gofal manylaf. Y mae miloedd lawer o drigolion y wlad hon wedi cael eu dwyn i dlodi ac angen yn niffyg gochelgarwch. Darfu i Twrci, Groeg, Mexico, Ysopaen, Venezuela, Honduras, St. Domingo, ac eraill, fenthyca chwe' chant o filiynau o bunnau o arian y cyhoedd; bu llu mawr o'n cydwladwyr, ymysg eraill, yn ddigon ehud i ymddiried eu heiddo i'r gwledydd uchod. Triugain miliwn o'r cyfanswm sydd wedi eu had-dalu; felly gwelir fod yn aros £540,000,000 o arian heb eu talu, a gobaith gwan sydd y telir nemawr os dim o honynt byth. Nid ydyw y *bonds* a gynnrychiolant y dyledion hyn yn werth y papyr y maent wedi eu hargraffu arno. Appwyntiwyd Pwyllgor gan ein Llywodraeth i wneyd ymchwiliad i'r achos yma, a chafwyd allan fod y twyll a'r anonestrwydd mwyaf wedi ei arfer gan y personau a fuont yn offerynu i fenthyca yr arian i'r Llywodraethau a nodasom. Ymddengys fod cyfran helaeth iawn o'r arian wedi myned i logellau y goruchwylwyr a fu yn gyfryngau i echwyna yr arian. Ac edrych yn ddiuedd ar yr amcanion oedd i gael eu gwasanaethu gan yr echwynion, prin y galleisid yn rhesymol ddysgwyl iddynt fod yn gynnyrchiol, gan eu bod i gael eu defnyddio yn benaf i dalu dyledion rhyfeloedd oeddynt wedi myned heibio neu ar gymeryd lle. Dywed

Mr. Dudley Baxter fod swm yr arian a fenthyciwyd gan wahanol Lywodraethau tramor yn 2,715 o filiynau o bunnau. Gellir ychwanegu at y swm hwn £1,285,000,000 o arian a fenthyciwyd gan ddinasoedd a threfi y gwledydd hyny at achosion lleol. Ond doddi y ffigyrau at eu gilydd, gwelir fod holl ddyledion benthgedig gwledydd tramor yn cyrhaedd y swm anferth o £4,000,000,000. O'r diwedd, wedi methu gyda y cyhoedd, gorfodir y Llywodraethau dyledog yma i fenthycia gan Ariandai; ond o hyn allan rhaid wrth wystlon mwy sylweddol na phapyr cyn y llwyddant i gael dim. Echwynwyd yr arian ar sail dywodlyd cynnyrchion naturiol, tollau ar nwyddau, a phob peth arall a ystyrir yn ddeniadol i dwyllo yr anwyladwrus. Eithr na thybier mai dyma y cymeriad a berthyn i bob gwlad dramor. Y mae Llywodraethau a'u bonds yn uwch eu credyd yn marchnad yr arian. Echwynir arian gan wahanol wledydd ar wahanol delerau; rhai yn arosol, eraill i'w hadalu ymhen amser penodol; ac y mae eraill yn talu cyfran o'r ddyled yn flynyddol, neu ar adegau neillduol, trwy gyfrwng *drawings*, ac felly yn cyfranogi o natur *lotteries*. Y mae rhai gwledydd, fodd bynag, wedi benthycia arian ar gyfer treuliadau rhyfeloedd ag y tybir fod eu hamcan yn hollol gyfreithlawn. Er fod rhyfeloedd i'w harswydo a'u condemnio fel y cyfryw, eto rhaid addef fod amgylchiadau yn dygwydd weithiau ag y teimlir gan rai nas gellir eu hebgor, pan y mae pynciau mewn dadl ag y mae cysur a rhyddid y deiliaid yn cael eu peryglu. O dan amgylchiadau o'r fath, nid ydyw *capitalists* yn pryderu rhoddi benthgy arian i'r gwledydd hyny, pan y mae eu trigolion yn adnabyddus fel rhai diwyd a gonest. Er engraifft, gellir nodi America a Ffrainc. Synir y byd gan y rhwyddineb â pha un y mae y gwledydd hyn yn talu dyledion anferth eu rhyfeloedd. Ar gyfrif eu credyd uchel, ystyrir eu *bonds* ar hyn o bryd yn y farchnad bron yn gyfartal i'r rhai Prydeinig. Parhâ y *Russian Bonds* hefyd i sefyll yn hynod o ffafriol yn y farchnad, ac ystyrir y ddyled aruthrol sydd ar y wlad hono. Pa mor hir y gall ddwyn y baich anferth hwn, nis gwyddom; ond ystyriwn, fodd bynag, fod prisiau y buddiant yma yn uwch nag y dylai fod, oddieithr i orseddiad Alexander III. greu mwy o ymddiried a sefydlogrwydd yn y wlad. Palla gofod i ni fanylu ar *bonds* gwledydd eraill, ond rhoddwn dabl o'r rhai y gwneir marchnad yn gyffredin ynddynt:—

Enw.	Gwerth gwreiddiol y cyfranau.			Eu gwerth presennol.						Llog y cant ar y gwerth presennol.				
	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.		
Argentine .....	72	10	0	o	97	10	0	i	98	10	0	6	1	9
Brazilian .....	96	10	0	o	98	10	0	i	99	10	0	5	2	6
Buenos Ayres .....	88	0	0	o	92	0	0	i	94	0	0	6	7	6
Chilian .....	84	0	0	o	104	0	0	i	106	0	0	6	12	6
Egyptian Unified Debt..	.....			o	76	5	0	i	76	10	0	5	5	0
“ Gov. 5 per cent. Pref.	.....			o	95	7	6	i	95	12	6	5	5	0
Hungarian .....	80	0	0	o	93	15	0	i	94	5	0	5	5	0
Italian State Domains ...	77	10	0	.....				.....				.....		
Portuguese .....	32	10	0	o	51	10	0	i	52	0	0	5	16	6
Russian .....	93	0	0	o	92	0	0	i	92	5	0	5	7	6
Spanish 3 per cents .....	.....			o	21	5	0	i	21	10	0	4	13	0
“ Quicksilver Mortgage	80	0	0	o	102	0	0	i	104	0	0	4	16	1
French Rentes .....	82	10	0	o	118	10	0	i	119	0	0	4	4	0
Italian 1861 .....	70	10	0	o	89	2	6	i	89	7	6	4	15	9
United States Funded ...	103	10	0	o	116	10	0	i	117	0	0	3	17	8

3. **RHEILFFYRDD.** (1.) *Railway Debentures and Preference Stocks.* Ystyrir y buddiannau hys ymhlith y rhai mwyaf boddhaol i'w perchenog ei bob eiddo y gellir ei brynu gan bersonau a foddlonant ar o £3 lŵs. i £4 y cant o log. Y maent yn hollol ddiogel, yn cael eu gwarantu gan y gwahanol Gwmnïau, ac y mae iddynt flaenoriaeth ar yr ennillion. Nid ydynt braidd un amser yn cyfnewid yn eu gwerth, a hawdd iawn ydyw eu troi yn arian unrhyw adeg. O'r ddau fath hyn, hawlebau neu *debentures* sydd yn meddu y flaenoriaeth. Rhoddwn engraifft o'r modd y diogelir hwynt. Cymerwn ffordd haiarn y *Lancashire and Yorkshire* fel esiampl. Y mae *capital* y ffordd hon yn bedair ar ddeg ar hugain a hanner o filiynau o bunnau; o'r swm hwn y mae wyth miliwn yn *debentures*—hynny yw, hawliant eu llog o bedair punt y cant cyn y telir dim ar y gweddill o'r cyfalaf. Yn nesaf daw y rhanddaliadau blaenaf, *preference stock*, o un filiwn ar ddeg a hanner (£11,500,000) i hawlio eu llog hwythau o 3½ i 4 y cant, cyn i gyfalaf cyffredin y Cwmni, yr hwn sydd oddeutu pymtheng miliwn (£15,000,000) dderbyn dim. Ar ol talu llogau y *debentures* a'r *preference stock*, y mae yr *ordinary stock* wedi derbyn ar gyfartaledd oddeutu pum' punt y cant o log. Gwelir felly sicrydd y *debentures* a'r *preference stocks*, y rhai ydynt yn gyffelyb i wstlweithredoedd ar dai neu diroedd, llog pa rai sydd yn cael ei dalu cyn y caiff y perchenog ddimai oddiwrth yr eiddo. Rhoddir tabl o'r rhai a ystyrir yn hollol ddiogel i'w prynu, ynghyd a'u llogau:—

Enw.	Eu gwerth p ceonol.				Llog y cant ar y gwerth presennol.						
	£	s	d.	£	s	d.	£	s	d.		
<b>DEBENTURES.</b>											
Great Eastern A.....	o	130	0	0	i	132	0	0	3	15	9
Great Northern .....	o	114	0	0	i	115	0	0	3	10	0
Great Western .....	o	114	10	0	i	115	10	0	3	10	0
Lancashire & Yorkshire .....	o	114	0	0	i	115	0	0	3	10	0
London, Brighton, &c .....	o	113	0	0	i	115	0	0	3	10	0
London, Chatham & Dover Arbitration	o	119	0	0	i	121	0	0	3	15	0
London & North Western.....	o	115	0	0	i	116	0	0	3	10	0
London & South Western "A.".....	o	114	0	0	i	115	0	0	3	10	0
Manchester, Sheffield, & Lincolnshire..	o	122	0	0	i	124	0	0	3	14	6
Metropolitan District .....	o	159	0	0	i	161	0	0	3	14	6
Midland .....	o	114	0	0	i	115	0	0	3	10	0
South Eastern .....	o	133	0	0	i	135	0	0	3	15	0
<b>PREFERENCES.</b>											
Great Eastern Consolidated 4 per cent.	o	105	0	0	i	107	0	0	3	14	9
Great Northern.....	o	132	0	0	i	134	0	0	3	15	0
Great Western Rent Charge perpet. guaranteed .....	o	132	0	0	i	134	0	0	3	15	9
Great Western Consolidated guaranteed	o	133	0	0	i	135	0	0	3	14	7
Lancashire & Yorkshire .....	o	154	0	0	i	157	0	0	3	16	5

(2.) *Railway Ordinary Stock.* Y mae y dosbarth hwn eto o fuddiannau yn meddu safte ffatriol yn y farchnad. Tybiwn fod y prisiau presennol yn uwch na'u gwir werth, a diammeu mai un rheswm am hynny ydyw, fod yr adfywiad masnachol sydd wedi gwawrio arnom wedi bod yn foddion i greu gobaith am ychwanegiadau helaeth yn nghludiad personau a nwyddau, yr hyn a ddwg log ychwanegol ar y cyfranau yn y blynyddau dyfodol. Nis gallwn gynghori prynu y buddiannau hyn



am y prisiau presennol, os gwncir hyn ar y dybiaeth y bydd iddynt ychwanegu llawer yn eu gwerth; fodd bynag, y maent yn *investment* sydd ymhlith y rhai mwyaf cymeradwy yn y farchnad. Rhoddwn restr o'r rhai pwysicaf o honnynt:—

Enw.	Eu gwerth presennol.						Llo, y cant ar y gwerth presennol.		
	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.
Caledonian .....	o 105	0	0	i 105	10	0	3	2	6
Great Eastern .....	o 70	10	0	i 70	15	0	2	5	0
Great Northern .....	o 121	0	0	i 122	0	0	4	0	0
Great Western .....	o 124	15	0	i 125	5	0	4	2	6
Lancashire & Yorkshire .....	o 132	10	0	i 133	10	0	4	0	0
London, Brighton, & South Coast .....	o 138	0	0	i 140	0	0	4	12	6
“ Chatham & Dover .....	o 32	10	0	i 32	15	0	.....		
“ & North Western .....	o 161	10	0	i 162	0	0	4	10	0
“ & South Western .....	o 135	10	0	i 136	10	0	4	7	6
Manchester, Sheffield & Lincoln .....	o 88	0	0	i 88	5	0	3	7	0
Metropolitan .....	o 119	10	0	i 120	0	0	4	2	5
“ District .....	o 74	5	0	i 74	15	0	1	10	0
Midland .....	o 135	15	0	i 136	5	0	4	15	0
North British .....	o 77	15	0	i 78	5	0	1	17	6
North Eastern Consols .....	o 159	10	0	i 160	0	0	5	2	6
North Staffordshire .....	o 81	10	0	i 82	10	0	3	15	7
South Eastern .....	o 134	0	0	i 136	0	0	4	10	0

4. JOINT STOCK BANKS. Y mae cyfranau mewn Ariandai wedi dyfod erbyn hyn yn *securities* dymunol i soddi arian ynddynt. Gwir ddarfod i fethiant Ariandai Glasgow a Deheudir Cymru roddi dyrnod trwm i'r sefydliadau hyn, yr hyn a fu yn achos i gannoedd o'u cyfranddalwyr ymhob rhan o'r wlad werthu eu cyfranau, yn benaf cyfranau yr Ariandai anghyfyngedig. Erbyn hyn y mae y cyfranau wedi cyrhædd eu prisiau arferol, ac yn uwch mewn rhai amgylchiadau. Y mae y fasnach a wneir gan *Joint Stock Banks* y brifddinas yn unig yn arthrol o fawr. Nid yw eu hennillion clir yn nemawr llai na miliwn a lanner o bunnau yn flynyddol. Gwneir yr ennillion i fyny oddiwrth *commissions* bychain ar nifer mawr o negeseuon; megys am weithredu fe cyfryngau rhwng yr arian-soddwyr (*depositors*), y cyfalafwyr (*capitalists*), a'r benthyciwr (*borrower*). Rhan arall o'u gwaith ydyw cymeryd gŵal arian eu cwsmeriaid. Y mae enaillion clir y Bank of England yn £1,200,000 yn flynyddol. Am y rhelyw o Ariandai y brifddinas—rŵoeddus, preifat, a *discount-houses*—nis gall eu hennillion blynyddol fed yn llai na £3,300,000; yn gwneyd felly oddeutu chwe' mil-iwn o bunnau (£6,000,000) o ennillion blynyddol i Ariandai yn cwyn cysylltiad â Llundain yn unig. Y mae soddion mewn cyfranau Ariandai wedi bod mor ennillfawr i'w perchenogion ag unrhyw iuddiannau y gwyddom am danynt, o herwydd y llogau da a gynnyrchant. Y mae llawer o'r rhai hyn yn talu o £15 i £20 y cant ar eu prisiau gwreiddiol. Darfu i brif Ariandai Llundain, oddieithr y London Joint Stock a'r Union of London, gofrestru eu hunain yn Ariandai cyfyngedig; a chredwn y buasai cyfranau y Joint Stock a'r Union yn uwch heddyw pe buasent hwythau wedi gwneyd hyny. Fel y cyfeiriwyd eisoes, y mae yn ddiammedu y bu cofrestru o dan y ddeddf yn foddion i lesoli a diogelu safle y cyfranddalwyr; heblaw

bod yn achos i greu mwy o ymddiried yn y sefydliadau. Parodd hyn hefyd i'w cyfranau ennill ffiafr ychwanegol yn y farchnad, a thrwy hyn y daethant yn fwy gwerthadwy. Cadarnheir ein syniad gan gyfrifon ac adroddiadau yr Ariandai eu hunain am yr hanner blwyddyn oedd yn terfynu gyda'r flwyddyn diweddfaf. Gallwn grybwyll, wrth fyned heibio, fod y *North and South Wales Bank*, a'r *National Provincial Bank of England*, fel rhai tra adnabyddus yn Nghymru, wedi cofrestru eu hunain yn gyfyngedig, ac y mae eu diogelwch yn parhau yn ddisigl. Y mae cannoedd o Gymry wedi ymgyfoethogi yn fawr trwy brynu cyfranau yn yr Ariandai hyn pan oeddynt yn hynod o isel, ac wedi derbyn llog neillduol o uchel ar yr arian a suddasant ynddynt; a pharhânt i dderbyn llog da, fel y gwelir yn y tabl isod, hyd yn nod ar eu gwerth presennol yn y farchnad. Y mae Cronfeydd Adgyfnerthol (*Reserve Funds*) ein Hariandai blaenaf, y rhai yn gyffredin ydynt oddeutu hanner y cyfalaf, wedi eu doddi heibio o ennillion y sefydliadau, yn ychwanegiad mawr at eu sefydlogrwydd a'u diogelwch. Y mae *profit* Ariandai yn dibynu yn fawr ar stad y farchnad arian ar y pryd. Pan y mae y *bank rate* yn isel, fel y bu yn ddiweddar, gorfodir arianwyr yn aml i roddi eu harian allan am lai o log nag y maent yn ei dalu am danynt. Y mae y gorgyflawnder oedd wedi cael eu hystorio yn Llundain yr amser a aeth heibio, erbyn hyn wedi prinhâu yn fawr, ac wedi eu defnyddio, un ai yn soddion mewn Cwmnïau newyddion, neu at alwadau a gynnrychwyd gan eangiad masnach y deyrnas. Y mae gwerth arian yn awr wedi dyfod i bwynt mor ffafriol fel y gellir yn naturiol ddysgwyl y bydd i Ariandai yn gyffredinol fanteisio yn fawr ar y gweliant yn y *bank rate*, ac y bydd eu hennillion o ganlyniad yn well na'r blynyddoedd diweddfaf. Ystyriwn gyfranau mewn Ariandai yn fanteisio ac yn ddiogel i'w prynu, yn neillduol y rhai hyn y nodir yn ein tabl gyda \*. Rhydd y rhestr ganlynol olwg ar y rhai uchaf eu ffair yn marn gwŷr cymhwys i farnu: ychwanegir hefyd brisiau y cyfranau a'u cynnyrchion:—

Enw.	Gwerth Gwreiddiol y Cyfranau.			Eu gwerth presennol.						Llog y cant ar y gwerth presennol			Cronfa wrth gea ( <i>Reserve Fund</i> ).			
	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.	
Alliance Bank Limited.....	10	0	0	0	12	2	6	12	7	6	4	17	11	195000	0	0
*City " " .....	10	0	0	0	18	0	0	19	0	0	5	5	3	290000	0	0
Consolidated " " .....	4	0	0	0	7	6	7	12	6	5	6	9		169818	0	0
Imperial " " .....	15	0	0	0	18	0	0	19	0	0	5	8	4	110000	0	0
*London and County Bank, Ld.	20	0	0	0	71	10	0	72	10	0	5	0	0	812500	0	0
London Joint Stock, Unlimited	15	0	0	0	44	10	0	45	0	0	5	7	10	567324	0	0
*London & Westminster Lim.	20	0	0	0	69	10	0	70	10	0	5	1	6	1,045000	0	0
*National Provincial, Limited	10	10	0	0	39	10	0	40	10	0	5	2	3	1,880000	0	0
Union of London, Unlimited ...	15	10	0	0	40	10	0	41	10	0	5	12	0	600000	0	0
Bank of Liverpool, " .....	12	10	0	0	26	17	6	27	12	6	12	10	0	300973	0	0
*Liverpool Commercial, Limited	10	0	0	0	18	12	6	18	15	0	10	0	0	200000	0	0
Liverpool Union Bank, Unltd.	20	0	0	0	37	10	0	37	15	0	5	8	10	260000	0	0
Manchester & Liverpool Dis- trict Bank, Limited .....	10	0	0	0	36	5	0	36	15	0	5	6	8	710480	0	0
National Bank of Liverpool, Limited .....	10	0	0	0	12	2	6	12	7	6	5	10	7	950000	0	0
*North & South Wales Bank, Limited .....	10	0	0	0	32	17	6	33	5	0	5	6	10	250000	0	0
North Western Bank, Limited	7	10	0	0	10	10	0	10	15	0	4	17	8	120000	0	0
Parr's Banking Company, "	20	0	0	0	59	10	0	6	0	0	5	17	8	269650	0	0

5. YSWIRIANT, *Insurances*. (1.) *Bywyd*, neu *Life Department*. Amcan y sefydliadau hyn ydyw rhoddi mantais i'r cyhoedd wneyd darpariaeth ar gyfer henaint a marwolaeth, trwy dalu swm bychan yn flynyddol, neu trwy dalu swm penodol o arian er sicrhâu blwydd-dâl neillduol am eu hoes. Er engraifft, gall person 21 mlwydd oed, trwy dalu £3 yn y flwyddyn, sicrhâu iddo ei hun, pan yn 50, y swm o £100; neu pe dygwyddai iddo farw cyn cyrhaedd yr oedran hwnw, gallai ei deulu eu hawlio ar ei ol. Os mynir, gall person o'r un oedran, trwy dalu £1 15s. 10c. yn y flwyddyn, sicrhâu i'w gyfeillion ar ei farwolaeth £100. Gellir hefyd yswirio bywyd dau berson yn gyfunol am swm o arian, i'w talu i'r naill ar farwolaeth y llall. Hefyd gall mab 60 mlwydd oed, trwy drosglwyddo y swm o £100 i gyllid y Gymdeithas, sicrhâu iddo ei hun am ei oes y swm o £9 6s. 5c. yn flynyddol. Bydd y £100 soddedig, ar ei farwolaeth yn eiddo i'r Gymdeithas. (2.) *Tân*, neu *Fire Department*. Amcan y gangen hon o yswiriant ydyw diogelu gwerth eiddo a fyddo yn agored i gael ei ddinystrio gan dân, trwy dalu swm blynyddol. Gwahaniaetha y taliad yn ol natur y meddiannau a yswirir. Y mae amryw o'r cymdeithasau hyn wedi bod, ar y cyfan, yn fwy cynnyrchiol i'w meddiannwyr nag un dosbarth o fuddiannau, ac y mae eu cyfranau ar hyn o bryd yn hynod o dderbiniol yn y farchnad. Y maent, o herwydd y *reserve funds* anferth a osodwyd o'r neilldu ganddynt, yn hawlio ac yn mwynhâu yr ymddiried lwyraf, nid yn unig yn y wlad hon, eithr mewn gwledydd tramor hefyd. Er engraifft, y mae gan y *Royal Insurance* (Liverpool) £1,521,434 o *reserve fund*, cyfalaf taledig o £289,545, a *life fund* o £2,449,616, yn gwneyd y cyfanswm arhwydeddus o £4,260,595 oddiwrth gyfalaf taledig mor fychan. Y mae gan y *Liverpool*, *London and Globe* hefyd *reserve fund* o £1,412,634, gyda chyfalaf taledig o £245,640, a *life fund* £4,154,721, a chymeryd i mewn gronfa "blwydd-dâl parhaol" y *Globe*, yr hon sydd £6 y cant: y cyfan ynghyd yn gwneyd y cyfanswm ardderchog o £5,812,995. Dengys y ffeithiau uchod y sefyllfaoedd parchus y mae y cymdeithasau hyn wedi eu cyrhaedd, ac mewn canlyniad yr hawl a feddant ar ymddiried y cyhoedd, a'r sicrwydd goreu y bydd iddynt arhwydeddu eu holl ofnyon. Y mae gwerth cyfranau rhai o'honynt ar hyn o bryd, o'u cymharu â'u gwerth gwreiddiol, bron yn anghredadwy. Y mae yr oll a enwn yn y daflen isod, yn ein barn ni, yn hollol ddiogel; ac er fod y llog a gynnyrchant yn ymddangos yn fychan, eto argymhellwn hwy fel buddiannau manteisiol i'w prynu, am ein bod o'r farn fod eu *reserve funds* bellach wedi cyrhaedd y fath safte fel nad oes angenrhaid ychwanegu atynt i'r graddau y gwnaed yn y gorphenol. Gellir dysgwyl felly y bydd i'w cyfarwyddwyr dybied yn ddoeth ranu mwy o'r ennillion rhwng y cyfranddalwyr yn y dyfodol. Gellid crybwyll ymhellach, er dangos diogelwch y buddiannau sydd yn y daflen ganlynol, y cynnyrcha yr arian y maent wedi eu cynnilo, ar gyfartaledd, pe nad ennillai y Cwmnïau geiniog mewn blwyddyn oddiwrth eu masnach, ddigon i alluogi eu cyfranddalwyr i dalu dros £3 y cant mewn llogau ar werth presennol y cyfranau. (3.) *Marine Insurances*. Amcan y gangen hon o yswiriaeth ydyw darparu ar gyfer colledion morawl. Y maent yn gyfryngau ffafriol i suddo arian ynddynt, ac wedi arfer dwyn elw da i'w perchenogion. Gweler y daflen ganlynol:—

E.L.W.	Gwerth swyddiol y Cyfranau.			Eu gwerth presennol.			Llog y cant ar y gwerth presennol.			Cwmni wrth gefn (Reserve Fund).							
	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.					
Commercial Union Insurance.	5	0	0	o	25	10	0	i	23	10	0	3	17	6	888,088	0	0
Lancashire Insurance Co. ....	2	0	0	o	8	15	0	i	8	17	6	4	10	7	466,073	0	0
*London & Lancashire Fire do.	2	10	0	o	6	5	0	i	6	7	6	3	19	2	202,000	0	0
*Liverpool, London & Globe Insurance Co. ....	2	0	0	o	23	7	6	i	23	10	0	3	12	6	1,350,000	0	0
*Royal Insurance Ditto .....	3	0	0	o	34	0	0	i	34	5	0	3	10	8	1,400,000	0	0
North British & Mercantile ..	11	5	0	o	68	5	0	i	70	5	0	3	7	2,105,000	0	0	
Northern .....	10	0	0	o	54	10	0	i	53	10	0	4	1	1	637,977	0	0
*Queen Insurance Co. ....	1	0	0	o	4	6	3	i	4	7	6	4	2	1	360,000	0	0
Lancashire & Yorkshire Accident Insurance Co. ....	1	10	0	o	3	6	4	i	3	8	9	2	3	8	Cwmni newydd		
British & Foreign Marine Insurance Co. Limited. ....	4	0	0	o	21	5	0	i	21	10	0	4	14	8	251,348	0	0
International " " .....	2	0	0	o	2	6	3	i	2	7	6	...			Cwmni newydd		
Maritime Insurance Co. Lim.	2	0	0	o	7	17	6	i	8	0	0	6	8	0	10,000	0	0
*Sea .....	2	0	0	o	4	18	9	i	5	1	3	2	18	9	50,000	0	0
Standard Marine " " ..	4	0	0	o	7	2	6	i	7	5	0	5	9	5	65,000	0	0
*Thames & Mersey " " ..	2	0	0	o	12	17	6	i	13	0	0	4	15	6	350,000	0	0
*Union Marine " " ..	3	10	0	o	6	8	9	i	6	7	6	2	16	0	70,000	0	0

\* Argymhellwn y rhai hyn i sylw neillduol.

6. TELEGRAPH, neu y PELLEBYR. Y mae y pellebyr wedi dyfod yn un o angenrheidiau masnach y dyddiau presennol, ar gyfrif ei allu i ddwyn gwahanol ranau y byd i'r fath agosrwydd at eu gilydd. Y mae y *Cables* erbyn hyn yn tryfritho y moroedd, ac yn trosglwyddo negeseuau i bob porthladd pwysig trwy yr holl byd. Nid oes dim llai na phump *Cable* wedi eu gosod rhwng y wlad hon ac America Ogleddol. Suddwyd dros ugain miliwn o bunnau eisoes mewn *Telegraph Shares*, ac y mae pob golwg y bydd i'r swm gynyddu. Darfu i ddarganfyddiad y pellebyr fod yn foddion i roddi sefydlogrwydd mawr yn mhrisiau nwyddau tramor, yn gymaint ag y gwyddys yn y wlad hon yn ddyddiol am ragolygon masnach ymhob cwr o'r ddaear i'r un graddau a phe byddem yn bresennol yn y manau hyny ein hunain. Flynyddau yn ol, drwy lythyrau yr arferid dwyn masnach ymlaen gyda gwahanol ranau o'r byd. Y pryd hwnw cymerai oddeutu mis neu chwech wythnos o amser i lythyr fyned o'r wlad hon i New York; erbyn hyn y mae chwyldroad hollol wedi cymeryd lle yn natur cyfryngau trosglwyddiad newyddion rhwng gwledydd. Er engraifft, gall A yn New York werthu *Cotton* i B yn Liverpool, yr hwn a'i gwerth i C yn Blackburn; gwertha D ef yn frethyn yn Manchester; dygir yr holl drafodaeth hon ymlaen ar draul E yn Calcutta, yr hwn eto a'i gwertha i F sydd yn masnachu yn nghanol y wlad bellenig hono. Yr hyn sydd yn rhyfedd ydyw y gellir dwyn ymlaen yr holl drafodaeth hon mewn amser mor fyr ag wyth awr a deugain, neu lai. Cyn darganfyddiad y trosglwyddydd gwyddonol hwn, cymerasai o leiaf chwe' mis o amser i wneyd gwaith yr eir drwyddo yn awr mewn wyth awr a deugain. Ond er yr holl freintiau a ddygodd y pellebyr i'r cyhoedd, nid ydyw y Cwmnïau Pellebrol, ar y cyfan, wedi bod yn neillduol o lwyddiannus. Credwn, fodd bynag, fod amserau gwell yn eu haros, gan fod y dull hwn o gario masnach ymlaen yn dyfod yn fwy cyffredinol yn barhaus. Mesur helaeth o adfywiad masnachol ydyw yr unig beth angenrheidiol er

gwneyd eu cyfranau hwythau yn fwy gwerthfawr i'w perchenogion; nis gall y byd masnachol eu hebgor bellach. Dodir rhestr o'r rhai y gwneir mwyaf o fasnach ynddynt:—

Enw.	Gwerth gwreiddiol y Cyfranau.		Eu gwerth presennol.				Llog y cant ar y gwerth presennol.		
	£	s. d.	£	s.	s.	£	s. d.	£	s. d.
Anglo-American Telegraph Co. ....	100	0 0	o	57	10 0	i	58	0 0	5 7 5
“ “ (Deferred).....	100	0 0	o	30	0 0	i	30	10 0	1 10 9
Brazilian Submarine.....	10	0 0	o	10	2 6	i	10	7 6	5 18 6
Cuba.....	10	0 0	e	9	0 0	i	9	10 0	6 13 4
Direct United States.....	20	0 0	o	11	2 6	i	11	7 6	8 15 8
Eastern.....	10	0 0	o	9	17 6	i	10	2 6	5 2 6
Eastern Extension Australia and China.....	10	0 0	o	10	15 0	i	11	0 0	5 6 0
German Union Telegraph & Trust Globe Telegraph & Trust Co. ....	10	0 0	o	9	15 0	i	10	5 0	5 14 8
Great Northern.....	10	0 0	o	6	12 6	i	6	17 6	6 15 10
Indo-European.....	10	0 0	o	12	12 6	i	12	17 6	5 0 0
Indo-European.....	25	0 0	o	28	10 0	i	29	10 0	5 5 0
Renter's Telegraph.....	5	0 0	o	10	15 0	i	11	5 0	5 6 8
Submarine.....	100	0 0	o	270	0 0	i	290	0 0	6 15 0
“ Cables' Trust.....	100	0 0	o	99	0 0	i	102	0 0	5 17 7
Telegraph Construct and. Main- tenance.....	12	0 0	o	36	0 0	i	36	10 0	6 11 6
Telegraph Construct Bonus Certi- ficate.....	5	0 0	o	3	10 0	i	3	15 0	7 0 0
West India & Panams.....	10	0 0	o	2	0 0	i	2	5 0	.....
Western & Brazilian.....	20	0 0	o	8	12 6	i	8	15 0	.....
West Coast of America Limited....	10	0 0	o	4	15 0	i	5	0 0	.....

7. TRAMWAYS.—Cynnydda y math yma o fuddiannau yn ffafwr y cyhoedd fel buddsoddiion. Ond credwn fod prisiau y cyfranau ar y cyfan braidd yn uchel. Ar yr un pryd, yr ydym o'r farn, pan y darganfyddir rhyw allu celfyddydol i weithio y cerbydau i foddlonrwydd Bwrdd Masnach—yr hyn yn ddiau a geir cyn hir, naill ai mewn ager neu awywr—nad oes ddadl na fydd iddynt gynnyddu yn ddirfawr yn eu gwerth. Tybiwn y gallid gwneyd peth folach na phrynu ychydig o gyfranau y Cwmnïau a nodwn yn y tabl canlynol:—

Enw.	Gwerth gwreiddiol y Cyfranau.		Eu gwerth presennol.				Llog y cant ar y gwerth presennol.		
	£	s. d.	£	s.	s.	£	s. d.	£	s. d.
Aberdeen Tramways.....	10	0 0	o	10	0 0	i	10	5 0	4 12 8
Anglo-Argentine.....	5	0 0	o	3	15 0	i	4	0 0	5 0 0
Barcelona.....	10	0 0	e	11	0 0	i	11	10 0	5 0 0
Belfast.....	10	0 0	o	6	10 0	i	7	0 0	4 10 0
Birkenhead (Ordinary Shares).....	10	0 0	o	5	10 0	i	6	0 0	.....
“ (6 per cent. Pref. Shares).....	10	0 0	o	10	5 0	i	10	15 0	5 4 4
Bordeaux Tramways & Omnibus	10	0 0	o	10	0 0	i	10	10 0	4 13 0
Bristol.....	9	0 0	o	12	0 0	i	12	10 0	4 15 6
Calais.....	5	0 0	o	5	0 0	i	5	10 0	5 1 9
Chester.....	10	0 0	o	5	10 0	i	6	0 0	5 0 0
Dublin United.....	10	0 0	o	Cwmni Newydd.				.....	.....
Edinburgh.....	10	0 0	o	12	15 0	i	13	5 0	4 5 2
Glasgow Tramways & Omnibus....	9	0 0	o	13	5 0	i	13	15 0	5 2 7

Enw.	Gwerth gwreiddiol y Cyfranu.			Eu gwerth presennol.						Llog y cant ar y gwerth presennol.				
	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.	£	s.	d.		
Hull.....	10	0	0	o	9	0	0	i	9	10	0	3	0	0
Imperial.....	10	0	0	o	2	15	0	i	3	5	0	.....		
Leeds.....	10	0	0	o	10	15	6	i	11	5	0	5	0	0
Liverpool United Tramways and Omnibus.....	10	0	0	o	10	5	0	i	10	15	0	3	11	0
London.....	10	0	0	o	12	10	0	i	13	0	0	1	0	0
London Street.....	10	0	0	o	11	15	0	i	12	5	0	4	2	0
North Metropolitan.....	10	0	0	o	15	10	0	i	16	0	0	4	12	8
Provincial.....	10	0	0	o	11	0	0	i	11	10	0	4	11	8
Sheffield.....	10	0	0	o	7	0	0	i	8	0	0	3	4	7
Sunderland.....	10	0	0	o	5	0	0	i	6	0	0	Dim.		
Swansea.....	10	0	0	o	4	10	0	i	5	10	0	....		
Tramways Company of France (Rouen).....	10	0	0	o	6	5	0	i	6	15	0	5	5	10
Tramways Company of Germany.....	10	0	0	o	9	10	0	i	10	0	0	5	17	0
Tramways Union.....	5	0	0	o	6	2	6	i	6	12	6	4	5	8
Wolverhampton.....	10	0	0	o	8	10	0	i	9	0	0	5	11	1
Tramway & General Work.....	5	0	0	o	5	10	0	i	6	0	0	8	6	8
London General Omnibus.....	100	0	0	o	206	0	0	i	211	0	0	5	18	11

8. BUDDIANNAU AMRYWIOL, neu *Miscellaneous Shares*. Y mae cyfranu amryw Gwmniau eraill y masnachir ynddynt ar y *Stock Exchange* nad ydym wedi cyfeirio atynt, ac nas gallwn wneyd, am na chaniatâ gofod, gan mor amrywiol ydynt. Ond yn eu plith gallwn nodi y rhai mwyaf pwysig, megys *Gas, Steam, Mines, Steam and Sailing Ships, Foreign and Colonial Railways, Collieries, &c., &c.*, ymhlith pa rai y mae llawer o Gwmniau a ystyriwn yn deilwng o sylw y *capitalist*.

Hawdd y gallesid cyfeirio at amryw o fuddiannau eraill o natur breifat, y rhai nad ydynt yn cyrhaedd y *Stock Exchange*; ond nis gallwn aros gyda hwynt, am ein bod eisoes wedi myned yn faith. Ond teimlwn, yn gymaint a bod cynifer o Gymry yn suddo eu harian mewn llongau, nad anmhriodol fyddai i ni wneyd sylw wrth derfynu ar Fuddiannau Morawl. Y mae yr eiddo hwn wedi bod, yn nghorff y pump neu y chwe' blynedd diweddf, ar y cyfan, yn hynod ddigyn-nyrch. Y mae llong-logau, *freights*, wedi bod mor isel mewn rhai amgylchiadau, fel y trodd mordeithiau llawer o longau yn gollod. Gellir priodoli hyn i wendid cyffredinol masnach, ynghyd a gorgyflenwad o longau masnachol, y rhai a adeiladwyd yn nghorff y blynyddau diweddf. Fodd bynag, y mae trafnidiaeth forawl wedi derbyn ei rhan o adfywiad cyffredinol masnach y dyddiau presennol, ac y mae llong-logau o ganlyniad wedi cyrhaedd safle ag y gellir yn rhesymol ddysgwyl i'r mordeithiau ddwyn elw boddhaol. Y mae llongau coed yn y blynyddau hyn wedi syrthio yn isel yn eu gwerth, o'u cymharu â'r hyn oeddynt chwe' blynedd yn ol; y maent yn fuddiannau ag y mae eu perchenogion, mewn canlyniad, wedi derbyn colled fawr ynddynt. Achoswyd hyn i raddau, os nad yn hollol, gan radlonrwydd prisiau llongau haiarn, llawer o ba rai a adeiladwyd yn rhatach nag y gellid adeiladu rhai coed; ac yn gymaint a bod llongau haiarn yn fwy parhaol a rhadlawn i'w cadw mewn ystad briodol i waith, gwelir rhagoriaeth y llongau haiarn ar y rhai coed, a'r achos o'r gollod

neu y dirywiad erbyn hyn yn ngwerth yr olaf. Y mae adeiladu llongau haiarn gyda hwyliau wedi colli tir yn ffafr masnachwyr; ager sydd yn ennill prif gymeradwyaeth y dyddiau gwyddonol hyn.

Y mae yr agerlongau a adeiledir ar hyn o bryd yn neillduol o liosog, ac, yn ein barn ni, prawf y cyflenwad yn ormod i'r angen yn y dyfodol; ac os felly, fe dry pethau yn siomedig i'r perchenogion. Y mae y llog a gynnyrcha buddiannau morawl mor gyfnewidiol fel y teimlir anhawdser i nodi unrhyw swm penodol ag y gallir yn rhesymol ddysgwyl iddynt gynnyrchu. Cyfyd hyn o'r ffaith fod pob mordaith yn dibynu ar y *freights* a delir ar y pryd, yn gystal a bod treuliadau ac amgylchiadau nas gallir eu rhagweled bob amser yn llyncu y llog i fyny. Ond er hyn oll, y mae masnach llongau yn dwyn elw da i'w pherchenogion. Ni raid dywedyd fod yn anhebgorol iddynt fod o dan arolygiaeth gynnil a gofalus cyn y gallant wneyd hyny.

Hyderwn y bydd i'r sylwadau blaenorol fod o ychydig wasanaeth i'n cydwladwyr, ac nad anghofir yr awgrymiadau a daflwyd allan, ond y gweithredir yn eu hol, trwy ddewis gwahanol fuddiannau mewn gwahanol Gwmniau, ac felly ddsoranu yr anturiaeth. Pryner pan fyddo y farchnad yn isel; a chofier ar yr un pryd mai y buddiannau hyny sydd yn cynnyg y llog isaf ydynt, fel rheol, y rhai mwyaf diogel.

D. P. WILLIAMS.

*Llanberis.*

---

## CHARLOTTE BRONTË A'I CHWIORYDD.

ER cymaint o ychwanegu sydd wedi, ac yn bod, ar lyfrau o bob math yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oes un dosbarth o honynt wedi ac yn parhâu i ychwanegu mor gyflym â'r FFUGCHWEDL. Ond rhoddi ychydig o ystyriaeth i'r ffaith, ni ryfeddir fod y mwyafrif o lawer o'r cynnyrchion hyn i'w priodoli i ddychymyg bywiog y rhyw fenywaidd. Dywed un ysgrifenydd lithrig fod dychymyg yn cydfyned â bywyd merch o'i mabandod i'w bedd. Gweithreda ffugiant ynglŷn â'i *doll*, a chwedleua hanes cywrain iddi yn ol mesur ei gallu dychymybol. Pan ddechreua ei meddwl ymagor, dychymyga fywyd iddi ei hun—ac yn aml lliwia ef yn ol y nofelau hyny y mae yn fwyaf cynnefin â hwynt; a phan ymsefydla mewn bywyd priodasol, caria ymlaen ei dychymygiaeth i'r dyfodol ynglŷn â'i phlant. Fel rheol, y mae ganddi fwy o amser ar ei llaw nag sydd yn disgyn i ran gwrywiaid y ddaear, ac nid anfynych gellir ychwanegu at hyn ysfa i draethu ei dychymyg ar bapyr;

y canlyniad naturiol yw ei bod yn rhoddi ffordd i'w theimladau yn y ffurf o nofel. Y mae llyfrgelloedd cylchredol Mudie a'r Grosvenor Gallery yn cyfrif awduresau o'r fath hyn wrth yr ugeiniau bob blwyddyn. Yn ffodus, fe allai, nid oes ond nifer cymharol fychan o honynt yn myned tu allan i'r cylch sydd yn derbyn ei faeth llenyddol trwy gyfrwng y *Circulating Library*. Yn nghanol torf sydd bron yn ddirif, ceir tri enw yn sefyll allan o blith y lliaws. Yr enwau hyny ydynt Jane Austen, Charlotte Brontë, a George Eliot (Marian Evans). Yn eu gwahanol ffyrdd y mae y tair Awdures hyn wedi cyflawni gwaith a bery tra bydd llenyddiaeth Seisonig mewn bod. Y mae amgylchiadau ymddangosiad y tair ger bron y byd yn dra anghyffredin. Nid oedd Jane Austen ond merch i glerigwr gwledig, ac fel y cyfryw yn meddu ond ychydig o brofiad o'r byd mawr tu allan i'w chylch cyfyng. Bu farw o'r darfed-edigaeth mewn oedran cymharol ieuanc; ond mewn rhywbeth fel chwa' blynedd o amser ysgrifennodd *Sense and Sensibility*, *Pride and Prejudice*, *Emma*, *Mansfield Park*, a *Persuasion*,—nofelau sydd, meddai un beirniad craffus, "O herwydd y cyffyrddiad cywrair sydd yn gwneuthur cymeriadau ac amgylchiadau cyffredin yn ddyddorol trwy wirionedd trylwyr teimlad a disgrifiad," i gael eu cyfrif fel y chwedlau perffeithiaf sydd yn ymwneyd â chymdeithas Seisonig yn yr holl iaith. "Yn benaf ymhlith y rhai hyny sydd wedi dadguddio y natur ddynol trwy gymhorth *dialogue*," medd Macaulay, "sai Shakespeare! ond ymhlith yr ysgrifenywyr agosaf ato nid ydym yn petruso gosod Jane Austen. Y mae wedi rhoddi i ni liaws o gymeriadau, oll ar un wedd yn rhai hollol gyffredin, y cyfryw ag ydym yn gyfarfod bob dydd o'n bywyd. Eto, y maent yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd mewn modd mor berffaith â phe byddent y mwyaf anghyffredin o holl ddynolryw. . . . A gwneir hyn trwy gyffyrddiadau mor gelfydd fel nas gellir eu helpenu na'u disgrifio, cyffyrddiadau nas gwyddom eu bodolaeth ond trwy yr effaith gyffredinol y maent yn gynnrychu."

Y mae marwolaeth ddiweddar "George Eliot" wedi galw sylw at amgylchiadau ymddangosiad y *Scenes of Clerical Life* a chyhoeddiad *Adam Bede*. Gan y bwriadwn mewn rhifyn dyfodol ysgrifenu yn helaethach ar ei bywyd a'i gwaith, digon ar hyn o bryd ydyw dyweyd fod Marian Evans yn fwy na theilwng o gyfansoddi un yn nhriawd nofelwyr benywaidd mwyaf nodedig y ganrif bresennol.

Y mae yr un arbenigrwydd i'w ganfod ynglŷn â chynnyrchion Charlotte Brontë a'i chwiorydd. Pan yn y flwyddyn 1847 y gwnaeth *Jane Eyre* ei ymddangosiad, yr oedd Charlotte Brontë yn hollol anadnabyddus o'r tu allan i'r cylch bychan yr ydoedd yn troi ynddo. Mawr fu y dyfalu pwy allasai fod yn ymguddio o dan enw "Currer Bell," a rhyfeddol y damcaniaethau a lanwai y byd a'r wasg o barthed i'r dirgelwch. Nid llai rhyfeddol, gellir bod yn sicr, oedd y darganfyddiad a wnaeth-pwyd ymhen amser, fod y fath gymysgedd o athrylith, o allu, ac o ddiffyg profiad wedi cael ei fodolaeth yn ymennydd Charlotte Brontë, merch (fel Jane Austen o'i blaen) i glerigwr gwledig, a dreuliodd y rhau oreu o'i fywyd mewn pentref dinod yn Swydd York.

Ymhén ychydig fisoedd ar ol i wrthddrych ei llafur gael ei gosod yn y bedd, cafwyd gan Mrs. Gaskell yn ei *Life of Charlotte Brontë* un o'r bywgraffiadau goreu a ysgrifenyd orioed yn yr iaith Saesoneg; ond



gan ei bod yn ysgrifenu dan yr anfantais o orfod rhoddi manylion—a llawer o'r rhai hyn yn dra chwervon—ynghylch personau oedd ar y pryd yn fyw, ac o ymdrin â chwestiynau oedd yn sicr o achosi blinder a phoen i gyfeillion a chydnabod ei gwrthddrych, syrthiodd y gwaith yn fyr o'r cyflawnder a gawsid pe buasai Mrs. Gaskell yn rhydd i weithredu yn ol ei thueddiadau llenyddol ei hunan. Er y diffyg hwn, y mae ei llyfr yn aros hyd heddyw fel prif ffynnonell ein gwybodaeth ynghylch awdures *Jane Eyre* a *Villette*. Ychydig flynyddoedd yn ol ysgrifennodd Mr. T. Wemyss Reid—yr hwn ddaethai i feddiant o nifer o lythyrau cyfrinachol Charlotte Brontë at un o'i chyfeillesau mwyaf mynwesol—Fyrgofiant (*monograph*) sydd yn cywiro ac yn taffu goleuni pellach a mwy neillduol ar ranau o'r hanes a adawsid, i raddau, yn dywyll gan Mrs. Gaskell. Yn ddiweddarach drachefn ymddangosodd Nodiad, ar yr un testun, wedi ei ysgrifenu yn y *choicest Swinburnese* gan y beirniad dihafal ac archfardd yr hyn ellir alw “yr oes newydd”—Algernon Charles Swinburne. Nid pawb sydd yn gallu derbyn, nac ya wir yn dymuno derbyn y bwyd cryf a arlwyir ar gyfer ei ddarllenwyr gan awdwr *Poems and Ballads a Songs before Sunrise*, ond y mae y farn gywir ac addfed a amlygir yn ei draethodau llenyddol ar Shakespeare, George Chapman, William Blake, &c., yn rhoddi iddo hawl i siarad ar fater mor gydnaws a nofelau Charlotte Brontë. Ychwaneger at yr enwau hyn enw Dr. Peter Bayne, gan yr hwn y ceir traethawd rhagorol ar Athrylith a Gweithiau gwrthddrych ein hysgrif; a chan gadw mewn cof y ffaith fod y nofelau eu hunain o fewn cyrhaedd y darlennydd cyffredin, fe welir nad ydym yn ol o ddefnyddiau i ffurfio rhyw gymaint o farn yn eu cylch.

Y mae neillduolion y Brontës i'w holrhain mewn mesur mawr i'w rhieni. Hanai Patrick Brontë, y tad, o deulu Gwyddelig o'r enw Prunty, a brëslyllai yn ystod y ganrif ddiweddar yn Swydd Down, gogledd Iwerddon. Ganwyd ef, mewn teulu o ddeg o blant, ar ddydd-gŵyl St. Patrick, 1777. Ymddengys iddo yn foreu arddangos meddwl cryf ac annibynol. Pan yn un ar bymtheg oed yr ydym yn ei gael yn ymgymeryd â gwaith ysgolfeistr, wrth yr hyn y bu am bump neu chwe' blynedd. Ar ol hyn bu yn athraw yn nheulu clerigwr Gwyddelig; ond pan yn 25 oed aeth i Goleg St. John, Caergrawnt; cymerodd yno y gradd o B.A.; derbyniodd guradiaeth yn Eglwys Loegr, ac ar ol aros ychydig yn Essex, aeth i Swydd York; mabwysiadodd Loegr fel ei gartref dewisedig, a thorodd ei holl gysylltiadau Gwyddelig, gan osod haibio ei enw tadol Prunty, a galw ei hun yn Brontë. Pan yn gurad Hartshead, pentref bychan rhwng Huddersfield a Halifax, ymbriododd â Maria Branwell, trydedd ferch un Thomas Branwell o Penzance, Cornwall. Yr oedd Mrs. Brontë ymhob peth, o'r bron, yn wahanol i'w gŵr. Tra yr ydoedd ef yn llawn nerth, yni, a phenderfynolrwydd meddwl—yn gryf o gorff ac yn ystyfnig o ysbryd—yn gyfaddas i gyfarfod ac i ddal holl hyslyntion geirwon bywyd a barhaodd am dros bedwar ugain mlynedd, yr ydoedd hi yn perthyn i'r dosbarth Cernyw-aidd o'r Celt, yn lluniaidd ond gwanaidd ei chorff, yn addfwyn a thyner ei hysbryd, yn meddu talentau tu hwnt i'r cyffredin, yn llawn coethder moes a meddwl, a'r ôl yn cael eu tymheru gan dduwiolfrydedd diffuant.

O Hartshead y mae Mr. Brontë yn cael ei ddyrchafu i fywioliaeth Thornton, yn mhlwyf Bradford. Yr oedd iddo eisoes ddau blentyn, sef Maria ac Elizabeth; yn Ebrill 1816 ganwyd Charlotte, a chyn ei ymadawiad o Thornton, ganwyd y gweddill o'i blant, Patrick Branwell, Emily Jane, ac Anne. Nid oedd yr henaf o'r rhai hyn ond ychydig gyda chwe' blwydd oed pan symudodd y teulu yn Chwefror 1820 i Haworth, y pentref â pha un y mae eu henwau yn anfarwol gysylltiedig. Yn nghanol y golygfeydd gwyllt a rhamantus sydd i'w cael yn y rhan hon o Swydd Efrog, ymhlith pobl oedd y pryd hwnw yn nodedig yn eu harferion a'u nodweddion, ac mewn unigedd teuluaidd na fu yn aml ei gyffelyb, y magwyd ac yr addysgwyd Charlotte Brontë a'i chwiorydd. Nid rhyfedd fod y cysylltiadau hyn wedi gwneyd argraff annileadwy ar fywyd yr oll o honynt, a bod eu dylanwad i'w ganfod yn treiddio trwy y cyfan o'u llafur llenyddol.

Y mae disgrifiad Mrs. Gaskell o Haworth a'i amgylchoedd yn un tra bywiog. Saif y pentref ar fryn uchel, o'r tu ol i'r hwn yr ymestyn llinell droellog o rosydd (*moors*) a bryniau eraill uwch drachefn. Ar ben heol serth saif yr eglwys, ac o'r tu ol i hon drachefn ymestyn y fynwent. Dywedir fod rhanau o'r eglwys yn dra henafol, a dengys llyfrau yr archesgobaeth yn York fod yma gapel mor bell yn ol a 1317. Flwyddyn neu ddwy yn ol, modd bynag, cyrhaeddodd y *restoration mania* y lle, ac y mae erbyn hyn wedi ei gyfnewid allan o bob adnabyddiaeth. Gyferbyn â'r eglwys saif y persondy, adeilad ddiaddurn ond cadarn, cymhwys i ddal rhuthriadau y tymhestloedd sydd yn aml yn ysgubo dros y rhosydd. Yn y ganrif ddiweddar daeth Eglwys a phlwyf Haworth i gryn sylw trwy y diwygiad crefyddol a gymerodd le o dan weinidogaeth y Parch. William Grimshaw, yr hwn, mae'n ymddangos, a fu yn foddion i wneuthur gwaith yno cyffelyb i'r hyn a wnaethpwyd yn Nghymru gan Daniel Rowlands a Howel Harries. Trwy ei weinidogaeth ef purwyd y lle o liaws o'i hen arferion annuwiol, megys chwareuon Sabbothol, gwyliau y cynhebrwng, ymladd ceiliogod a rhedeg ceffylau, &c. Er hyny, parhaodd llawer arferiad a ystyrid yn groes i syniadau trigolion mwy goleuedig a gwareiddiedig y dinasoedd mawrion. Y mae amryw o'r nodweddion a grybwyllir gan Mrs. Gaskell yn dwyn i'n cof bethau cyffelyb a geid yn Nghymru flynyddoedd yn ol,—megys yr arferiad o farchogaeth i briodas ar feirch, ac o enwi cyfeillion a chydabod wrth enwau lleol a llysenwol, yn hytrach na'u henwau tadol a bedyddiol. Pan y dywedir wrthym i ddodrefn Mr. Brontë gael eu cludo i Haworth mewn saith o gerti anghelfydd, adgofnir ni yn fywiog am adeg pan y trodd holl amaethwyr pentref gwledig yn Swydd Meirion eu meirch a'u mēni allan i hebrwng ymaith hen weinidog parchus y plwyf.

Yn Medi 1821 bu farw Mrs. Brontë, a syrthiodd gofal y chwe' phlentyn amddifaid ar dad oedd, ar lawer ystyr, yn anghymhwys i feithrin a dadblygu blodau mor dyner. Yr oedd y Parch. Patrick Brontë, yn ol Mr. Wemyss Reid, yn gymysgedd rhyfedd o dda a drwg. Yr oedd ganddo, ar y cyfan, deimladau caredig at y rhan fwyaf o bobl, ond ymhyfrydai yn yr unionder sydd yn ymylu ar doster. Pan gyrrhaeddodd ei ferch enwogrwydd (a hyny gyda llaw heb iddo ef gymaint a deall ei bod yn ymgyrhaedd am dano), ymfalchiai yn ei

galluodd ac eiddigedai dros ei chymeriad llenyddol; ond trwy ystod ei fywyd maith ni fu ond un person y gallai yn hollol ac ar bob adeg gydymdeimlo âg ef, sef, efe ei hun. Yn ei gartref yn unig y gellid ei adnabod yn drwyadl, ac y mae yr hanes a geir am dano yno yn ei arddangos mewn goleuni digon pruddaidd. Yn ei wylltineb trahâus dywedir iddo un diwrnod rwygo yn ddarnau wisg brydf berth a roddwyd yn anrheg i Mrs. Brontë heb ei gydsyniad ef. Hyd yn nod tra yr oedd ei wraig yn fyw, carai unigedd yn gymaint fel y byddai yn yr arferiad o gymeryd ei luniaeth wrtho ei hun. Cariai lawddrylliau bob amser yn ei boced, ac mewn math o orwylltedd byddai wrthi beunydd yn eu saethu at ryw nod neu gilydd. Gyda thad o'r natur yma syrthiodd y plant yn ol i raddau mawr arnynt eu hunain, a chan na oddefid iddynt gymysgu â plant y gymydogaeath, byddent naill ai yn dringo y llethrau o'r tu ol i'w cartref i ymgydnabyddu â rhyfeddodau natur, neu ynte yn cau eu hunain yn eu hystafell i wrando ar Maria yn darllen y newyddiadur ac i ddadleu yn boeth yn eu dull plentynnaidd ynghylch rhagoriaethau a diffygion Wellington a Napoleon, Hannibal a Cesar. Dywedir eu bod, pan yn blant, yn cymeryd y dyddordeb mwyaf mewn westiynau gwleidyddol, a bod Maria Brontë (er iddi farw pan yn 11 oed) yn alluog i gymeryd rhan bwysig yn nadleuon gwleidyddol y persondy.

Ymhen peth amser ar ol marwolaeth Mrs. Brontë, daeth un o'i chworydd i Haworth i gymeryd gofal tŷ ei brawd yn nghyfraith; ond rhwng tueddiadau naturiol oedd yn wrthwynebol i'r gogleddwyr, ac iechyd oedd yn pallu o dan erwinder gauafau y gogledd, ni ychwanegodd ei phresenoldeb nemawr at hapusrwydd y plant. Yn wir yr ydoedd mor ddiffygiol mewn cydymdeimlad â hwy ag ydoedd y tad ei hun, a chyfeilles agosaf y plant ydoedd hen forwyn ddiroddres a charedig o'r enw Tabby, a ddaeth i fyw atynt yn 1825. Ar y dechreu derbynai y plant eu haddysg gan eu tad; ond aeth y pwysau yn rhy drwm i'r Parch. Patrick Brontë fedru eu dal, ac yn 1824 danfonwyd Maria ac Elizabeth i ysgol Cowan Bridge, lle eu dilynwyd yn ddiweddarach gan Charlotte ac Emily. Sefydlwyd yr ysgol hon gan y Parch. W. Carus Wilson, gyda'r amcan o ddarparu addysg rad i ferched clerigwyr, y rhai, gydag incwm cyfyngedig, a deimlent anhawser i roddi i'w plant addysg gydnaws â'u safle yn y byd. Diammeu fod y syniad yn un da, ac i Mr. Wilson, fel trysorydd y sefydliad, wneyd ei oreu i'w gario allan yn y modd y tybiai ef ydoedd ddoethaf; ond y mae darllenwyr *Jane Eyre* yn gwybod barn Charlotte Brontë am yr ysgol elusenol lle y derbyniodd hi a'i chworydd eu haddysg elfenol, ac i'r hon y rhoddodd o dan yr enw *Lowood*, gyhoeddusrwydd mor annymunol. Yno y collodd ei chwaer henaf Maria, hanes torcalonus yr hon sydd yn cael ei adrodd mor deimladwy o dan enw *Helen Burns* yn yr un chwedl, ei hiechyd, ac oddiyno drachefn yr aeth Elizabeth Brontë adref i farw. Pan yr ychwanegir at hyn fod Charlotte ac Emily wedi dyoddef llawer dan reolau caethion y sefydliad mewn perthynas i luniaeth yr ysgoleigion, &c., a bod y ddwy flynedd gyntaf o'u harosiad yno, ar lawer cyfrif, yn llawn o anhapusrwydd, nid yw yn rhyfedd fod adgofion chwerw yn aros yn eu blynyddau addfetach. Ar ol marwolaeth eu dwy chwaer cymeryd y plant eraill adref, a cheir gan Mrs. Gaskell adroddiad byw o'r modd y bu y

pedwar plentyn yn tyfu ac yn ymddadablygu yn Haworth, yn benaf o dan ofal Charlotte, yr hon oedd ar y pryd oddeutu deg oed. Yr oedd-ynt oll yn meddu tueddiadau llenyddol mwy neu lai, ac o 1825 i 1831, er nad oeddynt oll ond plant, ysgrifenasant wmbreth o chwedleuon, caneuon, a chwareuon, oedd yn arddangos gallu meddyliol pell tu hwnt i'r cyffredin. Dengys bywiogrwydd a gwreiddioldeb y darnau a ddy-fynir gan Mrs. Gaskell o'r cyfansoddiadau byrion hyn, fod ganddynt yn naturiol y galluoedd anghyffredin a ddadguddiwyd i'r byd ychydig flynyddoedd ar ol hyny yn *Jane Eyre* a *Wuthering Heights*. Yn 1831, anfonwyd Charlotte i ysgol y Misses Wooler yn Roe Head. Yno treuliodd amser dedwydd, a gwnaeth gyfeillion mynwesol o'i hathrawes ac amryw o'i chydysgolheigion. Un o'i phrif nodweddion yno ydoedd ei hawydd i buro ei chwaeth trwy feithrin gwybodaeth am arluniaeth, cerddoriaeth, cerfiadaeth, barddoniaeth, &c. Nid oedd nifer yr ysgol-heigion lawn ddwsin, a chan fod Miss Wooler o natur serchog a chariad-us, teimlai y rhai hyn yn dra chartrefol gyda hi. Dysgai hwynt modd bynag yn fanwl i feddwl, i elfenu, ac i ffurfio barn gywir ynghylch pethau o'u cwmpas. Yn Roe Head y ffurfiodd Charlotte Brontë gyfeillgarwch dyfnaf ei bywyd, ac yn yr ohebiaeth â; "Ellen," y gyf-eilles dan sylw, y gwelir teimladau prydferthaf ei chalon. O 1832 i 1835, arosodd Charlotte yn Haworth, ond yn y flwyddyn olaf a nod-wyd dychwelodd i ysgol Roe Head fel athrawes (*governess*). Ymgy-merodd â'r hunanymwadiad hwn, mae'n debyg, er galluogi ei brawd, Patrick Branwell Brontë, i fyned i'r Royal Academy yn Llundain, i berffeithio ei hun mewn arluniaeth. Meddai Branwell Brontë radd uchel o wir athrylith, ond yr oedd yn ei gymeriad hiaws o ddiffygion moesol yn gofyn am y wyladwriaeth fwyaf manwl. Yr oedd ei dad, fel yr ydys eisoes wedi sylwi, yn rhy hoff o unigedd i dalu sylw priodol i'w blant; tyfodd Branwell i fyny, gan hyny, yn agored i lawer o demtasiynau. Yr oedd ganddo ddoniau i ddenu, a galluoedd neillduol i foddio, ond gwell iddo druan fuasai bod hebddynt. Croesawid ef yn wresog i wleddoedd y "Black Bull" yn Haworth, lle yr oedd ei ffraeth-ineb a'i dalentau yn sicrhâu derbyniad cynhes iddo gan yr ychydig ymwelwyr â'r lle. Flynyddau yn ol adwaenai yr ysgrifenydd presennol un o'r ymwelwyr hyn, a mynych y bu yn gwrando ar Mr. G. yn dar-lunio teulu persondy Haworth, lle yr oedd hynodion (*eccentricities*) y penteulu, talentau y merched, ac athrylith y mab, yn eu gwneyd yn deulu nodedig i bob ymwelydd.

Aeth Emily gyda Charlotte i ysgol Roe Head, ond y fath oedd ei hiraeth am gartref ac am ryddid y *moors* fel y syrthiodd i glefyd ac yr anfonwyd hi adref ymhen ychydig amser. Treuliodd Charlotte yspaid hapus ar y cyfan fel athrawes, ond poenid hi gan wendid corff-oral cynhenid, yr hyn a effeithiai er trymhâu ei hysbrydoedd, nes yr ymroddai i fath o iselder crefyddol, cyffelyb i'r hyn a bwysai ar y bardd tyner ond pruddglwyfus Cowper. Rhydd y dyfyniad canlynol o un o'i llythyrau olwg i ni a ei theimladau: "Fy anwyl E—, Nid ymgadwaf yn hwy rhag ateb eich cwestiynau. Yr wyf yn dymuno bod yn well nag ydwyf. Y mae genyf bigiadau cydwybod ac ymweliadau edifeiriol, a golwg ar bethau annhraethadwy a sanctaidd, i'r rhai yr arferwn fod yn ddyeithr; gall y cyfan farw, a minnau fod yn nghanol

tywyllwch dudew; ond yr wyf yn erfyn ar Waredwr trugarog, os hyn yw gwawriad ei Efengyl, ar iddi ddysgleirio i'r perffajth ddydd. Peidiwch a'm camgymeryd! na feddyliwch fy mod yn dda—y cwbl yw fy mod yn dymuno bod yn dda. Yr wyf yn casâu fy hen goegni ac ysgafnder. O, nid wyf ddim gwell nag y bhm! Yr wyf yn yr ystâd annedwydd hono o ansicrwydd trymaidd y foment hon fel y boedlanwn i fod yn hen, i fod yn fyr o ddyddiau mwyniant ac ieuencyd, ac i fod yn agoshâu at ymylon y bedd, pe gallwn trwy hyny sicrhâu cymmod â Duw a phrynedigaeth trwy haeddiant ei Fab. Ni fum erioed yn ddi- ofal am y pethau hyn, ond yr wyf yn tueddu i gymeryd golwg gymylog a phellhâol arnynt; ac yn awr, os yw yn bosibl, y mae y cymylau yn crynhoi yn dduach, a phwysau iselder mwy trymaidd nag erioed ar fy ysbrydoedd. Darfu i chwi fy nyddanu, fy anwylyd; am foment tyb-iais y gallwn eich galw fy chwaer yn yr ysbryd; ond aeth y cynhyrriad heibio, ac yr wyf yn awr mor druenus ac anobeithiol ag o'r blaen. Ond y nos hon gweddiad fel y dymunwch arnaf wneyd. Boed i'r Holl- alluog wrando yn dosturiol arnaf! Ac yr wyf yn gostyngedig ddysgwyl y gwna, canys chwi a gryfhewch fy neisfyfiadau difwynol i â'ch dymun- iadau pur eich hunan." Mewn llythyr arall dywed: "Y mae ywafy- rai nodweddiion sydd yn fy ngwneyd yn dra anhapus, rhai teimladau nas gellwch chwi gygyfranogi ynddynt—nas gall ond ychydig— ychydig iawn, eu deall o gwbl. Nid wyf yn ymfalchïo yn y neillduol- ion hyn. Yr wyf yn ymdrechu eu cuddio a'u darostwng gymaint ag mae yn bosibl; ond torant allan weithiau, a bydd y rhai a'u gwêl yn fy nirmysgu, a minnau yn casâu fy hun am ddyddiau ar ol hyny." . . . Yn y cysylltiad hwn y mae Mr. Wemyss Reid yn cymeryd eithriad i'r darlun a dynir o Charlotte Brontë gan Mrs. Gaskell. Tra yn caniatâu ei bod yn agored i argraffiadau dyfnion, profa trwy ddyfynu o amryw lythyrâu yn ei feddiant nad oedd ei bywyd yn un *morbid*—ei bod yn ymroddi nid yn unig i'r adnabyddiaeth hwnw o lenyddiaeth sydd yn cysuro y galon ac yn goleuo y deall, ond i ystyried a thrafod cwest- iynau politicaidd a chenedlaethol mewn ysbryd oedd ymhell oddiwrth fod yn afiach. Nid oes un ammheuaeth nad oedd dystawrwydd (*reserve*) naturiol y Brontës, eu serch at eu gilydd, eu hanwybodaeth o'r byd, a'u gwrthwynebiad i ddeyethriaid, yn cyduno i wneyd eu bywyd fel *governesses* (yr oedd Emily erbyn hyn wedi myned yn athrawes i ysgol yn Halifax) yn dra anghydnaws iddynt. Ar yr un pryd, y mae llawer o gydymdeimlad wedi cael ei wastraffu arnynt ar y pen hwn. I Char- lotte, o leiaf, nid ydym yn cael fod y treialon ynglŷn â'r fath wasanaeth wedi gorbwyso y manteision a dderbyniodd trwyddo. Oddigerth ar lwybr dyledswydd, anhawdd fe allai ydoedd i gig a gwaed roddi i fyny annibyniaeth a chymdeithas deuluaid Haworth i ddrachtio o "gwpan bywyd fel y mae wedi ei gymysgu i'r dosbarth hwnw a elwir yn athrawesau." Ond yr oedd y teimlad o ddyledswydd yn anghyff- redin o gryf yn y tair chwaer, a gweithredodd Charlotte ac Anne yn ol y teimlad hwnw, er yr anghysur a'r anhapusrwydd oedd yn cydfyned âg ef. Am Emily, addefir ei bod o dymher neillduol, ei bod wedi etifeddu llawer o hynodrwydd ei thad, a bod ei hoffder o neilldaeth ac unigrwydd wedi myned yn fath o nwyd. Yr oedd hyn yn ei hanghy- mhwyso i wasanaethu fel athrawes; ac ar ol ymgais neu ddwy, aflwydd-

iannus, rhoddodd i fyny y gorchwyl o geisio plygu i'r iau, a dychwelodd i Haworth i gymeryd gofal y tŷ am y gweddill o'i bywyd byr.

Symudodd Miss Wooler ei hysgol o Roe Head i Dewsbury Moor. Y mae y symudiad hwn yn bwysig fel dolen yn nghadwen bywyd Charlotte Brontë, pe na b'ai ond o herwydd y ffaith fod safle isel ysgol Dewsbury Moor wedi profi yn dra anfanteisiol i'w hiechyd. Yma drachefn yr ydym yn cael iddi fyned trwy lawer o dreialon ynglŷn â'i chrefydd—treialon na wyddai beirniaid creulawn *Jane Eyre* ddim am danynt. "Yr wyf yn cael," meddai wrth ei chyfeilles, "ryw deimlad rhyfedd yn fy llenwi—teimlad pruddaidd; ond nid anobeithiol. Yr wyf yn parhâu i geisio gwneyd yr hyn sydd iawn; yn attal teimladau drwg ac yn darostwng meddyliau ofer, ond eto bob moment yr wyf yn cael fy hun yn myned ar gyfeiliorn. Y mae ynof duedd barhâus i ddirmygu pobl sydd lawer gwell na myfi. Yr wyf yn arswydo rhag bod yn un o *set* neillduol, ac yn ofni i'r profesiad lleiaf fy narostwng i'r Phariseaeth mwyaf cul, a'm claddu yn rhengoedd yr hunangyfiawn. . . . Nis gellwch ddirnad mor galed a gwrthryfelgar yw fy nheimladau. Pan af i fyfyrio ar y pethau hyn, y mae fy meddyliau yn myned yn gableddus a fy syniadau yn anffyddol."

Oddeutu yr cael hon yr ydym yn cael mwy nag un aelod o'r teulu yn coleddu gobeithion oddiwrth ychydig o ymdrechion llenyddol yn y ffurf farddonol. Yr oeddynt, fel y sylwyd, er yn blant wedi arfer gwau ac ysgrifenu chwedlau cywrain; a barnai rhai o honynt yn awr eu bod wedi llwyddo i farddoni rhywbeth o werth. Yr oeddynt yn ddigon doeth i ddeall nad oedd hunanfeirniadaeth yn ddigonol; am hyn, yn niwedd 1836, yr ydym yn cael Charlotte, fel yr henaf, yn ymgynghori â Southey, a Branwell yn gwneyd yr un peth â Wordsworth. Anfonodd y ddau fardd yn ol atynt mewn ysbryd caredig, ond nid ymddengys iddynt roddi llawer o gefnogiad i'w hymdrechion barddonol. Y mae Charlotte druan o dan y siomedigaeth yn ymroddi gyda mwy o fyddlondeb i'w dyledswyddau, ond fel y gallaisid dysgwyl, nid yw y siomiant yn tueddu i fywiogi ei hysbrydoedd. Ymddengys ei bod hi fel llawer ar ei hol yn cymeryd ei dychryn gan yr hyn a ymddangosai i'w gweledigaeth aneglur fel ofnadwyon athrawiaethol Uchel-Galfiniaeth. Yn un o'i llythyrau ceir yr ymadroddien canlynol (ar ol cyfeirio at hapusrwydd bywyd ynglŷn â'i chyfeilles): "Y mae dagrau yn llenwi fy llygad wrth gyferbynu dedwyddwch ystâd ddysglauer gan obeithion y dyfodol â'r ystâd bruddaidd yr wyf fi ynddi yn awr, yn ansier fy mod erioed wedi teimlo gwir ddedwyddwch, yn crwydro mewn meddwl a gweithred, yn dyheu am sancteiddrwydd na ddaw byth i fy rhan, yn argyhoeddedig fod athrawiaethau culion Calfiniaeth yn wir, yn cael fy nhywyllu, mewn gair, gan gysgodion marwolaeth ysbrydol. Os yw perffeithrwydd Cristionogol yn angenrheidiol er iachawdwriaeth, ni chedwir fi byth; y mae fy nghalon yn llawn meddyliau drwg; a phan fyddaf yn penderfynu ar weithred, byddaf bron anghofio edrych at fy Mhrynwr am arweiniad. Nis gwn pa fodd i weddio; nis gallaf blygu fy mywyd i'r amcan mawr o wneyd daioni; yr wyf yn barhâus yn ceisio fy mhleser fy hun, ac yn myned ar ol fy nuniadau fy hun. Yr wyf yn anghofio Duw, ac onid anghofia Duw myfi? Ac eto yr ydwyf yn adnabod mawredd y Je-

hofah, yn cydnabod perffeithrwydd ei Air, ac yn caru purdeb ffydd Crist; y mae fy syniadau yn iawn, ond y mae fy ymarferiad yn hollol gyfeiliornus."

Pan oedd Charlotte adref oddeutu Nadolig 1837, cymerodd dygwyddiad le oedd yn gosod ei theimlad o ddyledswydd mewn goleuni cryf iawn. Dysgwyliai ei chyfeilles fwyaf mynwesol i dreulio y gwyliau gyda hi, pan yn anfodus y dygwyddodd damwain i Tabby, hen forwyn ffyddlawn y teulu. Barnai Miss Branwell (modryb y plant) mai gwell fyddai anfon Tabby at ei thylwyth ei hun, o leiaf nes y byddai iddi wella. Cymerodd Mr. Brontë ei berswadio mai hyny fyddai oreu, ond barnai y plant yn wahanol. Tabby, meddent, oedd wedi eu magu a'u meithrin hwy yn nyddiau eu hieuenctyd, hwy gan hyny ddylai ofalu am Tabby yn ei hen ddyddiau. Y plant, o dan arweiniad Charlotte, a gariodd y dydd, er i hyny golli iddynt yr hyfrydwch mawr a ddysgwylient oddiwrth gymdeithas Miss E., ac i'r amgylchiad osod baich ychwanegol ar adnoddau oedd eisoes yn brin. Yr oedd gan Charlotte faich arall ar ei meddwl yn y gwendid corfforol a deimlid gan ei chwæer Anne, yr hwn oedd yn bygwth ei chymeryd ymaith yn mlodau ei dyddiau. Yr oedd Branwell drachefn yn faich ar y teulu; ac nid oedd dim i Charlotte wneyd ond cynnorthwyo ei thad can belled ag y gallai trwy ddychwelyd at ei gwaith o addysgu. Ymhen ychydig amser, modd bynag, bu raid iddi fyned yn ol i Haworth, wedi tori i lawr dan y *strain*. Gwellhaodd yn raddol; ac yn yr adeg hon yr ydym yn cael iddi wrthod cynnygiad priodasol a fuasai yn ei gwaredu oddiwrth lafurwaith bywyd athrawes. Gwrthododd y cynnygiad am resymau sydd yn cynnwys atebiad boddhaol i'r beirniaid hyny a ddywedent nas gallasai ysgrifenydd *Jane Eyre* fod yn parchu y rhwymau cymdeithasol. "Yr wyf yn gofyn i mi fy hun," meddai, "ddau gwestiwn: A wyf yn caru T—— gymaint ag y dylai gwraig garu ei gŵr? A ydwyf fi y person mwyaf cyfaddas i'w wneyd yn hapus? Ysywaeth, y mae fy nghydwylbod yn ateb *Nac ydwyf* i'r ddau gwestiwn. Yr wyf yn teimlo, er fy mod yn parchu T——, er fod genyf deimlad caredig tuag ato, nad oes genyf yr ymlyniad dwfn hwnw wrtho a barai i mi farw drosto; ac os byth y priodaf, dyna raid fod y golwg ymha un yr edrychaf ar fy ngŵr." Y mae merch ieuanc a allai wrthod cynnygiad mor ragorol oddiar wir deimlad o ddyledswydd yn haeddu ein parch mwyaf diffuant.

Yn 1839 yr oedd amgylchiadau y teulu y fath fel y gorfodwyd Anne a Charlotte i droi allan i'r byd drachefn. Yr oedd profiad y ddwy yn gyffelyb fel o'r blaen; ond ni oddef gofod i ni ymhelaethu arno ymhellach. Yn 1841 cynnygiodd Miss Wooler drosglwyddo ei hysgol i Charlotte Brontë; ond ar ol llawer o ymgynghori, penderfynodd y chwiorydd fod yn angenrheidiol iddynt gael ychwaneg o ddysgeidiaeth. Diweddodd y drafodaeth ar y pwnc yn anfoniad Charlotte ac Emily i ysgol yn Brussels, ac yn yr amgylchiad hwn, o holl amgylchiadau bywyd Charlotte Brontë, y mae Mr. Wemyss Reid yn dyfod o hyd, fel y dywed, i'r "turning point in her life which changed its currents, and gave to it a new purpose and a meaning." Amcan dechreuol y ddwy chwæer, fel y sylwyd, ydoedd cymhwyso eu hunain trwy feistrolu yr ieithoedd Ffrengig ac Ellmynaid i gadw ysgol, ac felly ryddhâu eu hunain

oddiwrth y gwrthwynebiad a deimlai y ddwy i wasanaethu dycethriaid. Nid oedd Charlotte ond chwech ar hugain oed pan yn gadael ei char-tref am Brussels. Bu yno ddau dymmor; ac nid oes amhheuaeth yn awr, gallwn dybio, nad ei harosiad yno a roddes y tro hwnw yn ei bywyd a briodolid ar y dechreu i gwmp a marwolaeth ei hunig frawd, er mae yn ddiau i'r amgylchiadau pruddaidd ynglŷn â hyny effeithio yn ddwys arni. Fel y mae yn aml yn dygwydd, meddylid mai yn un mab y teulu y gorphwysai yr holl dalent. Cuddid ei wendidau, ac ni addefid ei bechod hyd yn nod yn y cylch bychan teuluaid, nes y dysgwyd hwynt gan brofiad trist eu bod wedi camgymeryd nwydau aflyw-odraethus am gryfder cymeriad. Y mae Mrs. Gaskell yn y bywgraffiad yn rhoddi darluniad cyflawn o'r rhan hon o fywyd Charlotte. Am rai misoedd bu hi ac Emily yn gweithio yn galed i berffeithio eu hunain modd y dymument, yn hapus yn eu gwaith, ac yn mwynhâu newydd-deb golygfeydd prifddinas y Belgiaid. Ennillasant serch M. a Madame Héger, a pharch eu cydysgolheigion, ac elai pobpeth ymlaen mewn modd gobeithiol nes y galwyd hwy yn ol ar frys i Loegr gan farwolaeth eu modryb, yr hon oedd wedi gofalu am Mr. Brontë er pan gollodd ei wraig. Ar ol treulio peth amser yn Haworth, dychwelodd Charlotte i Brussels fel is-athrawes yn ysgol Mons. Héger. Mynai rhai o'i chydnabod ei bod yn myned yno i briodi; ond ychydig wyddai y cyfryw am y penderfyniad hunanymwadol oedd wrth wraidd holl weithredoedd Charlotte Brontë. "Nid yw yn drosedd priodi," meddai yn un o'i llythyrau, "nac yn bechod i ddymuno bod yn briod; ond y mae yn ffolineb yr wyf yn ymwrthod âg ef gyda dirmyg i ferched sydd yn amddifaid o gyfoeth a phrydferthwch i wneuthur priodas yn brif amcan eu dymuniadau a'u gobeithion, i fethu argyhoeddi eu hunain nad ydynt yn ddeniadol, ac mai gwell ydyw iddynt droi eu meddwl at rywbeth heblaw yr ymrwymiad priodasol."

Teimlai unigrwydd ei sefyllfa yn Brussels yn erwin, a cheir fod ei llythyrau yn llawn cwyntfan o'r herwydd. Dywedir iddi unwaith, pan bron yn cael ei llethu gan y cyfryw deimlad, grwydro trwy heolydd y dref, ac o'r diwedd fyned i geisio heddwch a chydymdeimlad trwy gyffesu i offeiriad Pabaidd a ddygwyddodd fod yn nghyffesgell un o'r eglwysi. Gellir deall mor gyfyng oedd arni pan y gwnaeth hyn, yn ngoleuni y dyfyniad canlynol: "Y mae pobl yn son am y perygl y mae Protestaniaid yn agored iddo pan yn myned i breswyllo mewn gwledydd Pabaidd. Fy nghyngor i i bob Protestant sydd yn cael ei demtio i wneyd peth mor ffol a throi yn Babydd, yw iddo fyned drosodd i'r Cyfandir am dro, i fynyechu y *mass* am dymmor, i sylwi yn fanwl ar eu *mummeries*, ac i nodi ymddangosiad hunanol ac ariangar yr holl offeiriad, ac yna os parhá i ystyried Pabyddiaeth yn rhywbeth heblaw *humbug* eiddid a phlentynaid—boed iddo droi yn Babydd ar unwaith!" Parodd Protestaniaeth zelog Charlotte Brontë lawer o ofid i Madame Héger, ac yr oedd a fyno hyny ryw gymaint â'i hymad-awiad o Brussels yn 1843, er mai yr achos gweithredol ydoedd fod Mr. Brontë ar y pryd mewn perygl o golli ei olygon. Ar ol iddi ddychwelyd ac ymsefydlu yn Haworth, bu y chwirydd am amser yn bwriadu cario allan y cynllun o agor ysgol yn y persondŷ; ond bu yr yngais yn hollol aflywdiannus. Trwy ystod y flwyddyn 1844, yr



oedd Branwell yn achosi llawer o boen a thralod i'r teulu. Cafodd le fel athraw yn nheulu boneddwr, lle yr oedd ei chwaer Anne yn gwasanaethu; ond trwy ei gamymddygiadau colodd ei le, ac ymroddodd i fywyd oedd yn ymylu ar wallgofrwydd. Weithiau byddai yn nghanol arteithiau cydwybod o'r fath fwyaf dygn, bryd arall boddai ei ofid mewn llawenydd a chyfeddach annuwiol. O fod yn feddwyn aeth i arfer opiwim, yr hyn a ddrylliodd ei gyfansoddiad, ac a'i gwnaeth yn fflangell i'w dad a'i chwiriorydd. Dyoddefasant y tralod gyda gwrolder a gryfheid gan gasineb at ei bechodau, a dygasedd tuag at y rhai a'u harweiniodd i ddinystyr. Bu fyw fel hyn hyd Hydref 1848, a dywedir iddo fynu marw ar ei sefyll! Y mae llythyrâu Charlotte ar yr amgylchiad yn deilwng o honi ei hun. "Y mae Branwell," meddai, "yn llaw Duw yn awr. Yr Hollalluog yw hefyd yr Holldrugarog. Argyhoeddiad dwfn ei fod yn gorphwysio yn awr—yn gorphwysio yn dda ar ol ei fywyd byr gwyrgam, anwadal a dyoddefus—sydd yn llenwi fy nghalon ar hyn o bryd. Parodd yr ymwahaniad olaf, a'r olwg ar ei gorff gwelw, fwy o boen i mi nag a dybiais oedd yn ddichonadwy. Hyd nes y daw yr awr olaf, nis gwyddom pa faint a allwn faddeu a thosturio a galaru ar ol perthynas agos. Nid yw ei ffaeleddau yn cael eu cyfrif bellach—nid ydym yn cofio dim ond ei drueni."

Ond i ddychwelyd at y chwiriorydd. Yn 1845-6 daethant i'r penderfyniad i gyhoeddi nifer o ddarnau barddonol; a chan eu bod yn wrthwynebol i gyhoeddusrwydd, dewisasant yr enwau Currer, Ellis, ac Acton Bell fel enwau oedd yn cuddio eu personolaeth heb droseddau yn ormodol ar eu tynerwech cydwybod. Cyhoeddwyd y gyfrol fechan yn 1846 gan Mri. Aylott a Jones; ond ni fu yr ymgais yn llwyddiannus; ac fel barddoniaeth, rhaid addef nad ydyw y darnau yn llawer o ychwanegiad at ein llenyddiaeth, er fod rhai o ganeuon Emily yn meddu ar brydferthwech sydd yn swyno y darllenydd a all ei werthfawrogi, a dyfnder teimlad ac ysbryd sydd yn sicr o ennill sylw y darllenydd craffus. Fel hunandarluniad o deimladau a chymeriadau y chwiriorydd, y maent yn dra gwerthfawr. Dangosir natur dyner, ddiffuant, a chrefyddol Anne yn y llinellau sydd yn dwyn ei henw. Y mae math o deimlad pruddglwyfus yn rhedeg trwy yr oll o honynt, yn codi, mae lle i ofni, oddiar y cyfryw syniadau culion ag y cyfeiriwyd atynt. Er engraffft, gellir nodi y ddau bennill canlynol, y rhai a rydd olwg i ni ar y cyfeiliornad y syrthiodd iddo o barthed i opiniynau Calфинаidd:

. . . Wherefore should your hearts more grateful prove  
Because for ALL the Saviour did not die!  
Is yours the God of justice and of love?  
And are your bosoms warm with charity?

And when you, looking on your fellow-men,  
Behold them doomed to endless misery,  
How can you talk of joy and rapture then t—  
May God withhold such cruel joy from me!

Y mae llinellau o'r fath hyn yn arddangos teimlad, ond amlwg ydyw fod y teimlad yn un caethiwus ac afiach. Nid yw Charlotte Brontë ychwaith, er ei bod yn barddoni gyda hwylusdod, yn dangos llawer o

athrylith yn ei chaneuon. Y mae yn colli mewn dychymyg, ac yn syrthio yn fyr o'r nwyd wir farddonol. Barnai Charlotte fod prif deilyngdod y llyfr yn gorphwys yn nghaneuon Ellis Bell, neu Emily Brontë, ac yn hyn cytuna y prif feirniaid â hi. Y maent yn rhagori mewn drychfeddyliau, yn eangach o ran mynegiant, ac yn ddyfnach mewn teimlad. Yn y caneuon hyn ceir agoriad i lawer sydd yn ddirgel yn nghymeriad awdures *Wuthering Heights*. Yn *Yr Athronydd* rhydd gipolwg i ni ar yr ammheuon oedd yn llenwi ei henaid, ac i raddau helaeth yn cael eu cloi yno. Dau ddoethawr neu ddau deimlad wedi eu personoli sydd yn siarad: y mae y naill yn grediniol, y llall yn ammheuol. Y mae y cyntaf, trwy gymhariaeth odidog, yn cyffesu ei ffydd yn Nuw, ac yn ymfoddloni yn ngoleuni ei Ysbryd; y mae yr ail, yr athronydd a'r ammheuwyr, yn ateb fod ei ymchwil ef am y cyfryw Ysbryd wedi bod yn hollol ofer:—

And even for that Spirit, seer,  
 I've watched and sought my lifetime long;  
 Sought him in heaven, hell, earth, and air,  
 An endless search and always wrong.  
 Had I but seen His glorious eye  
 Once light the clouds that 'wilder me,  
 I ne'er had raised this coward cry  
 To cease to think and cease to be;  
 I ne'er had called oblivion blest,  
 Nor, stretching eager hands to death,  
 Implored to change for senseless rest  
 This sentient soul, this living breath.

Gyda'r syniad hwn y mae y dernyn yn terfynu, ac y mae lle i ofni fod Emily Brontë yn y llinellau a ddyfynwyd yn mynegu ei phrofiad garw ei hun—y mae adsain ei geiriau yn dyfod o'r galon. Y mae y dyhead cryf am Dduw a'r hiraeth am ei weled yn ein hadgofio o waith Cowper, ac fel yr eiddo yntau, gellir dyweyd fod y fath farddoniaeth yn dra gwahanol i anffyddiaeth goleuedig (?), hunanol, a chnawdol y dyddiau presennol. Un o nodweddion neillduol Emily Brontë ydoedd ei chariad angerddol at Natur, fel yr oedd i'w chanfod ar y rhosydd oddeutu ei chartref. "My sister Emily loved the moors," meddai Charlotte; ac yn wir y mae cariad uwchlaw cariad gwraig yn cael ei arddangos tuag atynt yn holl ddalenau ei gwaith. Beth ond y cariad mwyaf angerddol at Natur a allasai roddi bôd i'r drychfeddwl rhyfedd a geir yn un o'i gweithiau, lle y desgrifir ing geneth ieuanc yr hon mewn breuddwyd a dybiodd ei bod yn y Nefoedd, ac a wylodd mor dost o herwydd colli ei mam, y Ddaear, fel y bwriodd yr angelion hi allan mewn digter, a hithau yn cael ei hun yn nghanol mwsogl tyner a grug prydferth y moor, yno i ddeffro gan y sobs o lawenydd a lanwai ei chalon. Cyn y gellir deall angerddolrwydd y fath gariad, rhaid i ddyn gael ei lenwi â'r teimlad a feddiannai Emily Brontë—y teimlad a'i harweiniai i adael ei chydabod, ie hyd yn nod ei chwïorydd hoff, i fwynhâu cymdeithas y moors yn unig yn nghwmni *Keeper* (y ci a anfarwolwyd yn ddiweddarach na hyn o dan yr enw *Tartar* yn *Shirley* Charlotte Brontë). Rhaid cael bardd i fyned i fewn i'r fath deimlad—Swinburne er engraff, yr hwn yn ei *Note on Charlotte Brontë* a dystiolaetha fel hyn: "One must

have something by natural inheritance of her instinct, and something by earliest association of her love for the special points of earth—the same lights, and sounds, and colours, and odours, and sights, and shapes of the same fierce free landscape of tenantless and fruitless and fenceless moor.” Ac meddai ymbhellach, wrth gyferbynu Emily a Charlotte Brontë, er dangos ei hathrylith gynhenid yn y cyfeiriad hwn : “The pure note of absolutely right expression for things inexpressible in full by prose at its highest point of adequacy,—the formal inspiration of sound which at once reveals itself, and which can fully reveal itself by metrical embodiment alone, in the symphonies and antiphonies of regular word-music and definite instinctive modulation of corresponsive tones—this is what Emily had for her birthright as certainly as Charlotte had it not;” hyny yw, fel y cymerwn ni ef, yr oedd gan Emily allu naturiol a chynhenid i deimlo ac i fynegu natur uwchlaw hyd yn nod ei chwaer dalentog ac athrylithgar Charlotte.

Fel y sylwyd, ni bu y cyhoeddiad barddonol o nemawr fantais i'r chwiorydd. Yr oedd y caneuon wedi eu hysgrifenu nid i ddenu prynwyr, ond i fynegu teimladau—teimladau a dybid ar y pryd y cymerai y cyfansoddi le a fyddent byth yn nghudd oddiwrth y byd. I ychwanegu at eu gofid ar y pen hwn, bygythiwyd eu tad (yn haf 1846) â dall-ineb. Yn ffodus symudwyd y *cataract*, ac adferwyd ei olwg. Nid pawb sydd yn deall y swyn sydd mewn gweled firwyth meddwl mewn argraff. Y mae ynddo ryw hudoliaeth sydd yn sicr o arwain i ragor o ymgais yn yr un cyfeiriad. Felly fu gyda'r Brontës. Er nad oedd eu gwaith wedi llwyddo fel y dymument, ac er eu bod ar y pryd yn llawn o helbulon gartref, aeth y tair chwaer ymlaen i gyfansoddi drachefn, a'r tro hwn mewn rhyddiaith. Ar ol penderfynu gyda'u gilydd y cynllun, tynu allan y stori, ac enwi y cymeriadau, dechreuodd y tair ysgrifenu nofelau. Ymhen amser y mae *The Professor* gan Currer Bell, *Wuthering Heights* gan Ellis Bell, ac *Agnes Grey* gan Acton Bell, yn cael eu gorphen a'u hanfon allan i wneyd eu ffordd yn myd anadnabyddus Llundain. Pwy a all ddirnad pryder y tair awdures ieuanc tra y bu eu cynnyrchion am fisoedd yn myned o law i law, i gael eu gwrthod y naill dro ar ol y llall? O'r diwedd y mae *Wuthering Heights* ac *Agnes Grey* yn cael eu derbyn, ond ysywaeth ar delerau oedd yn ddinystriol i foddion eu hawduron. Gwrthodwyd *The Professor*, ac ni chyhoeddwyd y chwedl, os nad ydym yn camgofio, hyd ar ol marwolaeth ei hawdures. Ar un olwg y mae yn rhyfedd meddwl fod derbynwyr *Jane Eyre* wedi troi heibio *The Professor*. Yr oedd Charlotte Brontë, hyd yn nod pan ysgrifennodd yr olaf, wedi syrthio ymaith oddiwrth *ideals* ei dyddiau boreuol, ac yn y gwrthweithiad wedi myned i ddarlunio gwirioneddau bywyd gyda manylder oedd yn hynod o groes i deimladau dysgyblion “sweetness and light.” Yn *The Professor* y mae y cymeriadau wedi eu tynu yn llinellau dyfnion adnabyddiaeth ac argyhoeddiad, ac i'r darllenydd ysgafn y maent i raddau yn wrthwynebus. Ond yn yr un chwedl ceir ambell i ddarlun na chafwyd ei ragorach mewn unrhyw waith arall o eiddo ei hawdwr, ac un cymeriad sydd yn rhagori ar y cyfan a greodd yn mhrydferthwch morwyndod. Seilir y chwedl, mae'n ddiâu, ar brofiad Charlotte yn Brussels, ac mae'n amlwg fod Madame Beck ac eraill o'r cymeriadau yn ddarluniau cywir o wahanol

bersonau a adnabu yno, tra y mae Hunsden yn ddarlun cyntaf o'r Yorke a ymddangosodd yn ddilynol i hyny mewn gwedd fwy perffeithiedig yn *Shirley*. Nid yw y golygfeydd sydd yn 'desgrifio y *pension* (yr ysgol) yn Brussels mor gelfydd a'r rhai a ymddangosodd yn *Villette*, ond y maent yn llawer mwy *fresh*. Dengys Mrs. Gaskell fod M. Héger, prifathraw y *pension*, wedi ennill parch ac edmygedd Charlotte i raddau mawr, a chadarnheir hyny yn ei nofelau. Ceir ynddynt hefyd iddi fwynhâu ar y cyfan ei harosiad yn Brussels. "Belgium!" meddai, "name unromantic and unpoetic, yet name that whenever uttered has in my ear a sound, in my heart an echo, such as no other assemblage of syllables however sweet or classic can produce. . . . It stirs my world of the past like a summons to resurrection." Er hyn i gyd, nis gallai yr adgoñon mwyaf pleserus beri iddi anghofio rhai o agweddau ei bywyd yno; er engraifft, ni chafodd erioed ymwared o'r casineb at y Babyddiaeth a ffynai ymhlith ei chydysgolheigion; a hyny nid oddiar unrhyw gulni crefyddol, ond oddiar deimlad dwys o'r rhagrith a'r twyll sydd yn rhy aml yn cydfyned â chrediniaeth gref yn egwyddorion crefydd y Pab.

Fel y sylwyd, gwrthodwyd *The Professor* gan y cyhoeddwr yn gyffredinol. "The book found acceptance nowhere, nor any acknowledgement of merit," addefa ei awdwr yn y nodyn bywgraffyddol a ymddangosodd gyda *Wuthering Heights*; ond fel ei hunig obaith gwna un ymgais yn ychwaneg. Anfonwyd y MSS. i Mri. Smith, Elder & Co., ac er iddynt wrthod ei gyhoeddi o herwydd rhesymau penodol, anfonasant lythyr caredig at yr awdures yn egluro ei deilyngdod a'i annheil-yngdod, ac yn ei feirniadu mor deg a rhesymol, fel ag y darfu hyd yn nod y gwrthodiad galonogi mwy ar ei ysgrifenydd nag y buasai llawer math o dderbyniad yn ei wneyd. Er fod Charlotte Brontë yn y nodyn y cyfeiriwyd ato yn dyweyd fod "something like the chill of despair" wedi dechreu meddiannu ei chalon yn herwydd aml wrthodiad ei gwaith, ac er bod ei bywyd yn cael ei gymylu gan ofalon uwchlaw y cyffredin, nid yw yn cymeryd ei darostwng, ond yn hytrach dechreua ar unwaith ysgrifenu nofel arall. Ac yn ystod y deuddeg mis, tra yr oedd ei brawd yn dihoeni yn yr anobaith a ddygodd arno ei hun, ei thad yn agored i'r blinder ofnadwy o golli ei olwg, ei chwaer yn ddi-bynol ac yn wan ei hiechyd, a hithau ei hun, druan, yn cael ei phwyso i lawr gan drymder gofalon a siomedigaethau, ysgrifennodd chwedl a anfarwolodd ei henw. Yn Awst 1847 y mae yn anfon MSS. *Jane Eyre* i Mri. Smith, Elder & Co., y rhai wrth wrthod *The Professor* oeddent wedi awgrymu y gallasai lwyddo yn nghylch eangach tair cyfrol. Derbyniwyd *Jane Eyre*, cyhoeddwyd hi yn Hydref, a chyn diwedd y flwyddyn yr oedd yr holl wlad yn llawn o glodydd y nofel a'i hawdwr. Bu y *Reviews* dipyn yn hwyrfrydig i dderbyn ysgrifenydd newydd, ond ar y cyfan derbyniodd yr awdures ganmoliaeth, oddigerth mewn eithriad neu ddau. Modd bynag, trech barn gwlad na barn *reviewers*, ac aeth y nofel yn ei blaen. Nid oedd neb oddieithr y chwïorydd yn gwybod am awduriaeth y gwaith. Ni hysbyswyd hyd yn nod Mr. Brontë nes yr oedd y llwyddiant yn sicr. Fel y gellid dysgwyl, yr oedd yr holl wlad yn ferw eisieu gwybod pwy ydoedd Currer Bell; ond bu raid i'r byd aros am gryn amser cyn cael y wybodaeth a ddy-

mabai. Yn y cyfamser cymerodd ysgrifenydd yn y *Quarterly Review* arno i ymosod ar yr awdwr mewn geiriau sydd wedi gwneyd ei enw yn ysgymunbeth i bob dyn a dynes sydd yn parchu bywyd pur ac athrylith dysglær y ferch o Haworth. Y mae amddiffyniad Mrs. Gaskell ar y pen hwn yn dra rhagorol. "Pwy yw ef," meddai, "a all ddyweyd am ddynes anadnabyddus, 'Rhaid ei bod yn un sydd am reswm digonol wedi fforffedu cymdeithas ei chydryw?' A ydyw ef wedi arwain bywyd caled, unig, ac ymdrechgar, yn gweled ond ychydig ogleddwyr syml ac agored, yn anfedrus yn y goegddydg sydd yn cynnorthwyo y byd moethus i basio heibio bob crybwylliad am ddrygioni? A ydyw ef wedi ymdrechu trwy flynyddoedd meithion o wylofain i esgusodi cwmp unig frawd, a thrwy gymdeithas ddyddiol â thruan afradlawn a cholledig wedi cael ei orfodi i ryw gymaint o gydnabyddiaeth â'r pechod y mae ei enaid yn ei gasâu? A ydyw ef trwy dreialon sydd yn amldramwy mewn *march* ofnadwy trwy ei deulu, ac yn ysgubo ei aelwyd o fywyd a chariad, wedi ymgais yn galed am nerth i ddyweyd, 'Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg?' Os trwy y dyfroedd dyfnion hyn y gallodd yr adolygwr sarhâus basio yn bur a rhydd oddiwrth bob ystaen, gydag ysbyrd na lefodd erioed yn ei ingoedd 'lama sabachthani,' hyd yn nod os felly, boed iddo eto weddio gyda'r publican yn hytrach na chydya'r Pharisead." Mewn cyfeiriad at ysgrifenydd arall a dybiodd fod yn nghyflwyniad ail argraffiad *Jane Eyre* i W. M. Thackeray awgrymiad mai ef ydoedd yr arwr, y mae Mr. Swinburne yn gosod ei fflangell yn drom ar gefn y ddau feirniaid yn yr ymadroddion canlynol: "The incredible absurdity and the ineffable impertinence of one solution proposed at the time, which sought in the dedication of the book for a hint at the original of the hero, were worthy of the flat-headed and fork-tongued generation which could produce a notorious comment on *Jane Eyre*, to the effect that its author must be a woman who long since had deservedly forfeited the society of her own sex. It is of infinitely small moment that we know only by its offence the obscene animal now nailed up for this offence by the ear, though not by name—its particular name being as undiscoverable as its generic designation is unmistakable—to the undecaying gibbet of immemorial contempt."

Ni oddef gofod i ni roddi ond y braslun mwyaf brysiog o'r nofel; y mae ychydig sylwadau arni, modd bynag, yn anhebgorol mewn unrhyw ysgrif ar fywyd a gwaith Charlotte Brontë. Dygir Jane Eyre o'n blaen yn moreu ei dyddiau fel geneth fechan amddifad, yn dibynu yn hollol ar garedigrwydd ei modryb Mrs. Reed, ac yn agored i holl sarhâd ei mab John. Dangosir hi yn astudio Berwick's *History of British Birds*, yn cael ei hafonyddu gan y *tyrant* bychan John Reed, ac am weithreid o hunan-amddiffyniad yn cael ei chloi i fyny gan ei modryb greulawn yn y "*red room*;" ond gyda holl gydwybodolrwydd ei chrëydd, dywed Jane druan yn nghanol ing ofnadwy am ei modryb, "You knew not what you did; while rending my heartstrings you thought you were only uprooting my bad propensities." Yr oedd cymeriad Jane yn un neillduol; yr oedd yn dyner, yn feddylgar, ac yn dra hoff o ryw fath o lyfrau. Teimlai ddyddordeb yn *Nheithiau Gulliver*, a gwerthfawrogi ef uwchlaw pob *faery tale* am ei bod wedi

dyfod i'r penderfyniad, ar ol ymchwiliad manwl ond aflwyddiannus, "among foxglove leaves and bells, under mushrooms, and beneath the ground-ivy mantling old wall-nooks," fod y tylwyth teg wedi myned allan o Loegr i ryw wlad anwaraidd lle yr oedd y coed yn fwy gwyllt ac anial, a'r boblogaeth yn deneuach; tra yr oedd Lilliput a Brobdignag o'r ochr arall yn ol ei chredo plentynaidd yn rhanau sylweddol o arwynebedd y ddaear. Nid oedd y cymhwysderau a nodwyd yn debyg o'i gwneyd yn dderbyniol i John Reed, prif bleserau yr hwn ydoedd bwyta yn ormodol a chamdrin Jane Eyre. "Nid oedd genyf ddim," meddai Jane, "mewn cydgorrd â Mrs. Reed a'i phlant, na'i gwasanaethwyr dewisol." Dengys Charlotte Bronte fod yn naturiol i bobl o'u bath hwy fod yn arw a chreulawn, a dysga wers bwysig i'r rhai sydd yn magu plant trwy ddangos mor hawdd ydyw creu annealltwriaeth, ac mor anhawdd ydyw ei esbonio ymaith. Effaith y cweryl rhwng Jane Eyre a John Reed ydyw ei hanfon hi o Gateshead Hall i Ysgol Lowood, yn narluniad yr hon y mae Charlotte Brontë wedi tynu yn helaeth ar ei phrofiad ei hun yn Ysgol Cowan Bridge. Gellir tybio fod bywyd Jane Eyre yn Ysgol Lowood yn ddarlun lled gywir o fywyd Charlotte yr adeg a nodwyd. Rhydd y desgriafiad o'r modd y teimlai Jane dan driniaeth greulawn Helen Burns oddiar law yr athrawes Scatcherd, syniad perffaith i ni o'r modd yr ymddygai Charlotte Brontë dan bob ymddangosiad o anghyfiawnder tuag at ei chwïorydd. Y mae y desgriafiad o afiechyd a marwolaeth Helen Burns yn nodedig o doddadwy, ac yn llawn o'r teimlad allesid ddysgwyl gan un a gollodd chwaer anwyl o dan gyffelyb amgylchiadau. Cyfyd Jane Eyre yn nyfnder nos, croesa orielau tywyll yr ysgol, a chyrrhaedda erchwyn gwely Helen Burns, yr hon er ar fin ymadael o'r byd sydd yn galw i fyny yr hyn sy'n aros o'i nerth i groesawu ei chyfeilles. "I ba le yr ydych yn myned, Helen?" gofyna Jane; "a ydych yn gwybod?" "Yr wyf yn credu—y mae genyf fydd—yr wyf yn myned at Dduw!" yw yr ateb gwanaidd ond penderfynol. "Pa le y mae Duw? Beth ydyw Duw?" "O, fy Nghreawdwr i a chwithau, yr hwn nis dinystria yr hyn a greodd. Yr wyf yn dibynu yn hollol ar ei allu, ac yn ymddiried yn gwbl yn ei ddaioni. Yr wyf yn cyfrif yr oriau nes y daw yr awr pryd y caf fyned ato ac y dadguddir Ef i mi." "Yr ydych yn sicr felly, Helen, fod y fath le a'r nefoedd yn bod, ac y gall ein hysbrydoedd fyned yno pan y byddwn feirw?" "Yr wyf yn sicr fod sefyllfa ddyfodol—yr wyf yn credu fod Duw yn dda—gallaf roddi i fyny iddo fy rhan anfarwol heb un ammheuaeth! Y mae Duw yn dad ac yn gyfaill i mi; yr wyf yn ei garu, ac yn credu ei fod ef yn fy ngharu i." Yn y cyfryw ymddyddan y mae y ddwy eneth yn parhâu nes syrthio i huno yn mreichiau eu gilydd. Yn y boreu ceir breichiau Jane Eyre o amgylch gwddf Helen Burns, a'i phen yn gorphwys ar ei mynws; ond y mae ysbryd Helen wedi dianc at yr Hwn a'i rhoes. Ceir amryw ddarluniau eraill yn y nofel sydd yn ymwneyd â'r adeg hon o fywyd gwrthddrych ein hysgrif. O dan enw Mr. Brocklehurst y mae Charlotte Brontë wedi tynu mewn lliwiau cryfion, mae'n ddiammeu, y clerigwr a sefydlodd ysgol Cowan Bridge, yr hwn trwy ei ddiffyg cydymdeimlad â'r plant a anfonwyd i'w ofal a fu yn achos llawer o annedwyddwch iddynt. Yn ei darluniad prydfferth o nod-

weddion yr athrawes dirion a fyddlawn, Miss Temple, y mae yr awdures yn talu teyrnged i un a gydnabyddir gan yr rhai a'i hadnabu fel yn ei wir haeddu, tra yn y modd y delir i fyny gymeriad Miss Scatcherd i gondemniad cyffredinol, dadblygir teimladau chwaer tuag at un a fu yn foddion i brysuro marwolaeth Helen Burns, neu mewn geiriau eraill, Maria Brontë.

O Lowood y mae Jane Eyre yn myned i Thornfield Hall fel athrawes i ward Mr. Edward Fairfax Rochester. Desgrifir yr Hall yn fewnol ac allanol gyda manylrwydd athrylithlawn. Y mae y darluniad o'r olygfa a wél yr arwres o nen yr adeilad yn hynod nodweddiadol. "I surveyed the grounds," meddai, "laid out like a map: the bright and velvet lawn closely girdling the grey base of the mansion; the field, wide as a park, dotted with its ancient timber; the wood dun and sere, divided by a path visibly overgrown, greener with moss than the trees were with foliage; the church at the gates, the road, the tranquil hills, all reposing in the autumn day's sun; the horizon bounded by a propitious sky, azure, marbled with pearly white. No feature in the scene was extraordinary, but all was pleasing." Yn yr ymweliad hwn deurn ar unwaith i gydnabyddiaeth â Grace Poole ac â dirgelwch Thornfield Hall. Nid oes dim yn ymddangosiad Grace Poole, dynes cydrhwng 30 a 40, "a set square-made figure, redhanded, and with a plain face," i ennyn cywreinrwydd, ac eto gyda gallu nodedig y mae yr awdures yn gwneyd i ddyddordeb y dirgelwch droi yn anwrthwynebol o gwmpas hon. Dygir cyfarfyddiad cyntaf Jane Eyre â pherchenog Thornfield Hall oddiamgylch mewn modd yr un mor gywrain. Y mae Jane yn myned i Hay, pentref bychan dwy filldir o Thornfield, ac yn mrig yr hwyr yn cyfarfod Mr. Rochester, ond heb ei adnabod fel y cyfryw. Desgrifir gwahanol deimladau yr athrawes mewn dull gwir feistrolgar, a dangosir yma pa mor agos yr oedd calon Charlotte Brontë mewn cydgord â natur. Beth all fod yn fwy prydf berth na'r desgrifiad canlynol? "A lane noted for wild roses in summer, for nuts and blackberries in autumn, and even now possessing a few coral treasures in hips and haws, but whose best winter delight lay in its utter solitude and leafless repose. If a breath of air stirred, it made no sound here; for there was not a holly, not an evergreen to rustle, and the stripped hawthorn and hazel bushes were as still as the white, worn stones which causewayed the middle of the path. Far and wide, on each side, there were only fields where no cattle now browsed; and the little brown birds which stirred occasionally in the hedge, looked like single russet leaves that had forgotten to drop." Tra y mae ein harwres yn myfyrio uwch ben prydf berthion natur yr ydym yn cael ein cyflwyno i Mr. Rochester mewn dygwyddiad sydd yn *gredit* i ddychymyg yr awdures. Y mae cymaint o ddadleu wedi bod ynghylch Rochester ag odid un cymeriad tu fewn i holl ddalenau ffughanesiaeth. Er fod Mr. Swinburne yn dyweyd wrthym yn ei ddull awdurdodaidd ei hun fod darlun Edward Rochester yn aros ac yn debyg o aros fel un "of the only two male figures of wholly truthful workmanship and vitally heroic mould ever carved and coloured by a woman's hand," y mae yn rhaid i'r darllynydd diragfarn addef, fod ei gymeriad, pa mor wirioneddol bynag ydyw i'r natur ddynol, eto yn un tra anmherffaith fel cymeriad Arwr. Hyn yn ddiaur ydoedd teimlad

Charlotte Brontë, er ei bod wrth y boen o ddangos nad oedd ei amherffeithrwydd yn hollol anesgusodol. Dengys ei fod wedi dyoddef llawer, er na ddywed wrthym ar unwaith o ba natur oedd ei ddyoddefiadau. Wrth ddarllen ymlaen yr ydym yn dyfod i ddeall fod a fyno y rhai hyn rywbeth â phresenoldeb Grace Poole, a'r dirgelwch cysylltiol â'i harosiad yn Thornfield Hall. Dadblygir y dirgelwch mewn modd cywrain a tharawiadol, a mwy nag unwaith llenwir ni â braw gan ddesgrifiadau naturiol, ac eto dychrynadwy, o ddygwyddiadau hanner-dirgelaidd sydd yn brawychu Jane Eyre ac eraill o breswylwyr cartref Edward Rochester. Adgofir ni yn y desgrifiadau hyn fwy nag unwaith o chwedlau galluog-arswydlawn ond tra annaturiol Edgar Allen Poe. Nid cyn y gweithir y drefn hon i'w diwedd yr ydym yn cael allan mai gwraig wallgof Rochester oedd wrth wraidd yr holl ddirgelwch, ei fod ef pan yn ieuanc wedi cael ei hudo i briodi aelod o deulu gwallgof, a bod y wraig cyn colli ei synwrau wedi ymroddi i feddwod a gwarth. Nid ydyw Jane Eyre yn cael hyd i'r dirgelwch nes ydyw wrth yr allor ar fyned i'w phriodi âg Edward Rochester. Nis gallwn ni yn awr fyned i mewn i'r ddadl ar ei ymddygiad ef yn y mater hwn. Y mae Charlotte Brontë gyda phleidiaeth awdures at ei chreadigaeth yn ei amddiffyn oddiar safte foisol, ac yn dyweyd rhai pethau cryfion yn erbyn y beirniaid oedd yn ammeu tuedd foisol gwersi y nofel. "Conventionality," meddai, "is not morality. Selfrighteousness is not religion. To attack the first is not to assail the last. To pluck the mask from the face of the Pharisee is not to lift an impious hand to the crown of thorns. These things and deeds are diametrically opposed—they are as distinct as is vice from virtue. Men too often confound them; they should not be confounded: appearance should not be mistaken for truth; narrow human doctrines that only tend to elate and magnify a few, should not be substituted for the world-redeeming creed of Christ." Er deall y sefyllfa yn briodol, rhaid rhoddi ystyriaeth i'r amddiffyniad a gynnygir gan Rochester drosto ei hun. Y mae yn siarad â Jane Eyre. "Meddyl-wich," meddai, "am fachgen gwyllt wedi cael ei ffordd ei hun o'i febyd—y mae mewn gwlad bell yn gwneuthur cyfeiliornad, nid trosedd. Y mae effeithiau y cyfeiliornad yn myned yn annyoddefol; cymer fesurau i gael rhyddhâd, mesurau anarferol ond nid anghyfreithlawn. Parhâ ei drueni am fod gobaith wedi ei adael fel pe ar mylon bywyd, tywylla ei haul ar ei ganolddydd, ac ofna y bydd i'r tywyllwch barhâu hyd fachlud. Llenwir ei enaid âg adgofion isel a chwerw, crwydra yma ac acw, gan ymofyn gorphwysdra mewn alltudiaeth, dedwyddwch mewn plaser—y plaser cnawdol sydd yn dylu y meddwl ac yn lladd y teimlad. A chalon flinderog ac ysbryd gwywedig dychwela o'i alltudiaeth wirfoddol, a chyferfydd âg un sydd yn meddu y nodweddion dysglæa a daionus y mae wedi bod yn chwilio am danynt am ugain mlynedd ac yn methu eu cael, nodweddion pur, iachus, heb arnynt frycheuyn nac ystaen. Y mae cymdeithasiad â'r cyfryw nodweddion yn ei adfywio a'i adgyfnerthu, teimla ddyddiau ei ieuencyd yn dyfod yn ol, meddiennir ef gan ddymuniadau uwch, gan deimladau mwy pur,—teimla awydd i ail ddechreu ei fywyd ac i dreulio gweddill ei ddyddiau mewn modd mwy teilwng o greadur anfarwol. I gyrrhaedd y fath amcan, ai anghyfiawr ydyw iddo lamu dros un o rwystrau arferiad—a mere conventional im-



pediment—rhwystr nad yw ei gydwybod yn ei gydnabod, na'i farn yn ei gymeradwyo?" Yn y geiriau amwys hyn y mae Rochester yn gosod allan ei amddiffyniad ac yn rhoddi ar ddeall i Jane Eyre fod yn ei gallu i'w ddyrchafu ef o'r sefyllfa druenus y mae ynddi. Nid yw modd bynag yn ddigon gwrol i'w hysbysu mai y rhwystr ar ei ffordd ydyw ei wraig wallgof, ac nas gellir ei godi o'i drueni ond trwy iddynt fyned ar draws syniad moesol cymdeithas. Hunanoldeb, fel y gwelir, sydd wrth wraidd ei ddadl; y mae yr hunanoldeb hwnw yn ei arwain i gelu gwirionedd, yr hyn sydd yn gyfystyr a bod yn dwyllwr, i geisio dianc rhag ei anffodion trwy gyflawni cam yn hytrach na'u cyfarfod fel dyn gonest mewn ffordd deg, ac yn tywyllu y nodweddion aruchel â'r rhai y mae yr awdures wedi ei gynnysgaeddu. Pan yr êl ymlaen i ddadleu fod y fath ymddygiad, er yn wrthwynebol i syniadau dynion am yr hyn sydd gyfiawn a theg, yn haeddu cymeradwyaeth Bôd sydd uwch, ac yr awgryma fod y cynllun yn un o ordeiniadau Rhagluniaeth er ei ddiwygiad personol, nis gallwn lai na chredu ei fod yn rhagrithiwr. Y ffaith fod Charlotte Brontë wedi gwneuthur y fath gymeriad yn arwr, ac yn arwr sydd â thuedd ynddo i ddenu yr arwynebol, ydoedd yr hyn a filriodd fwyaf yn erbyn ei llwyddiant, ac a'i gwnaeth yn agored i saethau gwenwynig y *Quarterly Review*. Ond dylid cofio nad ydyw ein hawdures yn gadael i'r cyfryw ddadleuaeth lwyddo gyda Jane Eyre. Y mae y briodas i ba un y denwyd hi yn ei hanwybodaeth gan gariad, yn cael ei rhwystro mewn pryd, a hithau yn sefyll yn ffyddlawn i egwyddorion moesoldeb yn ngwyneb pob temtasiwn. Mewn *passage* tra nodweddiadol o alluoedd darluniadol a barddonol yr awdures, disgrifir teimladau yr arwres ar ol y siomedigaeth. "A Christmas frost had come at midsummer; a white December storm had whirled over June, ice glazed the ripe apples, drifts crushed the blowing roses; on hayfield and cornfield lay a frozen shroud; lanes which last night blushed full of flowers, to-day were pathless with untrodden snow; and the woods, which twelve hours since waved leafy and fragrant as groves between the tropics, now spread waste, wild, and white as pine-forests in wintry Norway." Y mae y cyferbyniad rhwng hapusrwydd a mwyniant cariad, a'r ymdeimlad pruddaidd o goll ymddiried, sydd i'w gael yn y geiriau hyn, yn wir feistrolgar. Gwna Rochester yn appeliad taer am faddeuant ac am gydsyniad i'w gais, ond y mae yr atebiad, er tostod y demtasiwn, yn un penderfynol, ac yn cyfleu gwers odidog i'r hwn a ddichon gael ei demtio. "Pwy yn y byd," meddai ef, "sydd yn gofalu am danoch chwi, neu pwy a friwir gan ddim a wnewch?" "Yr wyf fi yn gofalu am danaf fy hun," oedd yr atebiad di-ildio: "pa mor unig, pa mor amddifad, pa mor ddigymhorth bynag ydwyf, mwyaf oll y dymunwn gadw fy hunan-barch. Cadwaf y gyfraith a roddwyd gan Dduw, ac a gydnabyddir gan ddynion. Daliaf at yr egwyddorion a dderbyniais pan yn fy iawn bwyll ac nid pan yn wallgof,—fel yr wyf yn awr. Ni ordeiniwyd deddfau ac egwyddorion ar gyfer amserau pan na bo temtasiwn: y maent yn briodol i adegau fel y presennol pan y mae corff ac enaid yn codi mewn gwrthryfel yn erbyn eu toster; y maent yn gaeth, ond cânt fod yn gyfan. Os er mwyn fy nghyfleusdra personol y gallwn eu tori, pa fath fyddai eu gwerth? Y mae gwerth iddynt,—felly yr wyf fi wedi arfer credu; ac os methaf gredu hyn y awr, rhaid

fy mod yn wallgof, yn hollol wallgof. Opiniynau rhagflaenol a phen-derfyniadau blaenorol yw'r cwbl sydd genyf i sefyll wrthynt yn awr—ac wrthynt hwy yr wyf yn bwriadu sefyll." Hi safodd, ac ennillodd y fuddugoliaeth! Er gwaethaf hunanoldeb Rochester nid yw yn cario pethau i'w heithaf, ac y mae amser yn d'od pryd y gallodd Jane Eyre roddi iddo ei serch mewn modd anrhydeddus. Yn ei gwrthodiad o'r rhith-foesoldeb a gynnygid iddi yn nabl Rochester, rhydd Jane Eyre wers werthfawr i ni ar bwysigrwydd hunanymwadiad, ac ar y dymunoldeb o ddewis hyd yn nod ffordd arw dyledswydd yn hytrach na llwybrau mwsoglyd pleser a mwyniant bydol. Fel cyfanwaith llenyddol yn cyfuno darluniad meistrolgar o nodweddion cymeriadau, a desgrifiad cywir o ddygwyddiadau chwedleuol yn codi yn naturiol oddiar y nodweddion hyn, y mae *Jane Eyre*,—y nofel—yn deilwng o'i chymharu â gwaith goreu prif nofelwyr y byd.

Ychydig fisoedd ar ol ymddangosiad *Jane Eyre* cyhoeddwyd *Wuthering Heights* ac *Agnes Grey*, y rhai oedd yn y wasg yn flaenorol iddi, ond a oedwyd, yn ol Charlotte Brontë, trwy ddiolfalwch y cyhoeddwr. Y mae y gallu neillduol a arddangosir gan Emily Brontë yn narluniad cymeriadau drygionus yn *Wuthering Heights* wedi peri i lawer deimlo gwrthwynebiad at y gwaith, ac wedi achosi pryder hyd yn nod i'r cyfeillion hyn a allent werthfawrogi talent pan y defnyddid ef mewn cysylltiad â chymeriadau mor wrthnysig. Y mae y gwaith yn meddu dyddordeb neillduol o herwydd y goleuni a rydd ar gymeriad Emily Brontë. Yn ddiweddar cyhoeddodd Mr. F. Grundy gyfres o *Adgofion*, yn un o'r rhai yr awgryma fod a fyno Branwell Brontë rywbeth â dyfeisiad *plot Wuthering Heights*; ond dengys Dr. Bayne yn un o'i ysgrifau llenyddol ar y pwnc fod y cyfryw dybiaeth yn un hollol gyfeiliornus—na bu amser o gwbl pryd y gallasai Branwell Brontë gyfansoddi gwaith mor ragorol, a bod holl dystiolaeth y gwaith ynddo ei hun yn profi mai athrylith gyffrous Emily Brontë a roddodd fôd i'r darluniau ofnadwy sydd yn dwyn arnynt argraff un meddwl mawr. Y mae yn anmhosibl deall yn gyflawn ymha le y cafodd Emily Brontë y profiad neu y wybodaeth angenrheidiol i ddesgrifio mor fedrus arferion a thueddiadau trigolion y West Riding. Amlyga ei chwaer Charlotte yn y Rhagymadrodd i'r ail argraffiad, a ddaeth allan yn 1850, nad oedd gan Emily wybodaeth mwy ymarferol o'r bobl o'i chwmpas nag sydd gan fynaches o'r bobl tu allan i ddorau y mynachdŷ. Èto "yr oedd yn eu hadnabod, yn gwybod eu ffyrdd, eu hiaith a'u hanes teuluaid; gallai glywed am danynt gyda dyddordeb a siarad am danynt gyda manyldeb, ond wrthynt anaml yr ynganai gymaint a gair. Felly cy-maint ag a gasglodd ei meddwl ydoedd y nodweddion tywyll a phruddaid a argraffwyd yn ddfwfn arno." Rywfodd nid ydyw yr esboniad cynnwysedig yn y geiriau hyn yn rhoddi digon o oleuni i ni gyfiawnhau creadigaeth mor arswydolawn a'r eiddo *Heathcliff* gan eneth nad oedd ar y pryd ond ychydig gyda chwech ar hugain oed. Yr unig esboniad sydd yn ymgynnyg i'n meddwl ydyw fod Emily Brontë wedi ei thrwytho â'r traddodiadau tywyll sydd i'w cael yn hanes ei chydwlwyr gogleddol; ei bod gyda hyn, er ei thueddfryd dystaw ac anghyfeillachol, yn meddu ar allu neillduol i sylwi a barnu; a'i bod ar ryw adegau neu gilydd, fe allai yn anadnabyddus i'w chwaer, wedi cael

cipolwg ar y rhan fwyaf o'r cymeriadau a bortreadir ganddi. Y mae'n ddiaid genym iddi weled yn rhai o'r pentrefi ar ochrau y *moors* ryw weithiwr o'r hwn y cymerodd ddarlun Joseph; gallai iddi ddyfod ar draws geneth dlawd yn rhyw fan a roddodd fôd i'r darluniad o ffyddlondeb diwyro a geir yn Nelly Dean. Sier yw nad oedd yn anhawdd dyfod o hyd i forwyn i sefyll yn lle Zillah, a gŵr ieuanc i gyfateb mewn tynerwch i Edgar Linton; ond pa le y cafodd hyd i ddefnyddiau y darlun ofnadwy Heathcliff, yr hwn yn ngeiriau Charlotte Brontë sydd yn dilyn ei "arrow-straight course to perdition" o'r adeg y cymerir ef i mewn trwy garedigrwydd Mr. Earnshaw hyd y pryd y gwelir ef â llygaid gwawd-agored yn gorff marw gan Nelly Dean, nid ydym yn profesu gwybod. Myn Dr. Bayne mai ymdeimlad dwfn o alluogrwydd drygioni yn gwrthweithio daioni sydd wrth wraid gweithiad allan y chwedl, a bod yr ymdeimlad hwnw yn gwreiddio yn niregelwch bywyd yr awdures, o'r hwn y ceir awgrymiad yn y mynegiad a rydd o'i hymchwil ofer am Dduw yn y greadigaeth. Er nad ydyw y llyfr yn troseddu terfynau tebygolrwydd, y mae yn amlwg, dybiem ni, fod yr ysgrifenydd yn dal trwy y cyfan nad oes un ymdeimlad yn ei mynnes fod uwchreolaeth Dwyfol yn cael ei weithredu yn y byd presennol tuag at alluoedd drygioni.

Yn nechreu y gyfrol cawn Mr. Earnshaw yn dychwelyd i'w gartref, "Wuthering Heights," o Liverpool, wedi pigo i fyny yno blentyn bychan oedd ar newynu yn yr ystrydoedd. Y mae dyfodiad y plentyn yn fuan yn dechreu gwneyd rhwygiadau yn y teulu; yn gyntaf rhwng Mr. Earnshaw a'i fab Hindley, yr hwn sydd yn casâu y *gipsy* bychan â chas calon. Rhwng Heathcliff, sef y plentyn mabwysiedig, a Catherine Earnshaw, merch yr hen ŵr, y mae math o serch plentynaidd yn ymddadablygu, a'r eneth hon ydyw yr unig un sydd yn meddu y dylanwad lleiaf ar ei nwydau aflywodraethus. Trwy ddygwyddiad a ddesgrifir yn darawiadol gan yr awdures, y mae y plant yn diwrnod yn d'od i gydnybyddiaeth â theulu y Lintons dan amgylchiadau amheus, effaith yr hyn yw creu teimladau digofus a dialgar yn y bachgen tuag at y teulu dan sylw, ac yn enwedig tuag at Isabella y ferch, yr hon a glywodd yn awgrymu i'w thad y priodoldeb o'i gloi ef i fyny yn y seler! Unig nodwedd ddeniadol y bachgen ar hyn o bryd oedd ei hoffder mawr o Catherine: dinystriwyd yr effaith dda hon pan drosglwyddodd yr eneth ei serch i Edgar Linton, a rhwng y siomedigaeth hon a chreulondeb Hindley, yr hwn a ddilynodd ei dad, y mae yn dianc o Wuthering Heights, i ddychwelyd ymheu blynyddau wedi tyfu i oedran a maintioli gŵr, ac wedi ymgyfoethogi,—pa fodd a pha le nid oedd neb yn gwybod! Ar ol dygwyddiadau nas gallwn ar hyn o bryd aros i'w holrhain, y mae Heathcliff yn priodi Isabella, yr hon y mae yn ei gasâu â chasineb angerddol—casineb o'r fath fwyaf dieffig, yr hwn a arddangosir gan Emily Brontë mewn llinellau mor dduon ag i greu arswyd yn y darlennydd. Cyn ei ddychweliad yr oedd Catherine Earnshaw wedi priodi Edgar Linton, ond yr oedd yr hen serch heb farw. Ar ol marwolaeth Catherine rhoddodd Heathcliff y ffirwyn ar wâr ei nwydau dieffig, ac aeth ymlaen i ddinystrio ac i gael ei ddinystrio, heb arddangos ond y rithyn lleiaf o deimlad dynol yn ei berthynas â Hareton Earnshaw, a rhyw gymaint o barch i ffyddlondeb Nelly Dean. Y mae yn marw

mewn math o wallgofrwydd ar el i'w ddylanwad drygionus ddinystrio cymaint ag a ddaeth o fewn ei gylch. Ymhlith mân gymeriadau y llyfr gellir nodi Joseph yn neillduol, yr hwn sydd yn llawn o ddoethineb ymarferol ac o grefydd gul unochrog. Teimlad pruddglwyfus sydd yn ein meddiannu ar ol darllen *Wuthering Heights*; teimlad o ofid fod athrylith mor ragorol yn cael ei gymylu gymaint gan anobaith, nes gwelod pethau goreu y byd hwn fel pe trwy yspienddrych tywyll—yn mwyhâu y drygioni sydd yn y byd, ac yn lleihâu neu yn methu gwelod o gwbl gymaint o ddaioni sydd ynddo. Nis gellir dyweyd fod Emily Brontë yn coleddu syniadau anffyddol, ond fel y sylwyd yn barod, y mae lle i ofni nad ydoedd wedi d'od i sicrwydd gwirionedd am Dduw fel yr Hollwybodol a'r Hollddoeth. Gorlethid ei meddwl gan allu drygioni ac aneffeithiolrwydd daioni, ac yn ei chyfyngder diammen ei bod yn dyheu am y Presenoldeb yr addefai gyda galar nad oedd yn weledig iddi. Mae yn amlwg oddiwrth sylwadau o'i heiddo nad oedd yn cydymdeimlo â syniadau anffyddol y dydd, a phwy ddichon ddyweyd na ddygodd ei dyhead cryf am d'od o hyd i'r Gwirionedd orphwysdra cyn y diwedd i'w henaid trallodedig?

Ychydig o lwyddiant a syrthiodd i ran *Agnes Grey*, ac nid llawer mwy a ddygwyddodd i'r *Tenant of Wildfell Hall* (yr hon a gyhoeddwyd yn 1848), ymha un y darlunio Anne Brontë gwmp a dinystr dyn ieuanc, yn codi i ddechreu oddiar ei arferion anghymedrol. Dywed Charlotte yn y nodyn bywgraffyddol yr ydys eisoes wedi cyfeirio ato, fod myfyrdod ar sefyllfa druenus ei brawd wedi effeithio gymaint ar ei chwaer nes iddi ddyfod i deimlo ei bod yn ddyledswydd arni ddarlunio ei gwmp (wrth gwrs o dan gymeriad ffugiol) er addysg i eraill. Un o effeithiau cyhoeddiad y llyfr ydoedd dyfodiad Charlotte ac Anne Brontë i Lundain i wrthbrofi y syniad mai cynnyrchion yr un meddwl ydoedd gweithiau Currer, Ellis, ac Acton Bell. Y mae desgrifiad yr ymweliad gan Mrs. Gaskell yn hynod ddyddorol. Nid oedd diffyg cefnogaeth yn alluog i beri i Emily ac Anne Brontë roddi eu gwaith o'r neilldu. Yr ydym yn cael ar ddeall fod y naill a'r llall yn paratoi ar gyfer llafur helaethach, pan y daeth cyfnewidiad mawr, ac y torwyd y llafurwyr i lawr yn mhoethder y dydd. Ar ol marwolaeth Branwell, yr hyn a gymerodd le yn Medi 1848, cymerwyd Emily yn glaf; ond gyda phenderfynolrwydd meddwl oedd yn achosi poen angerddol i'w pherthynasau anwylaf, ni fynai addef ei gwendid, a pharhaodd i weithio o ran ei meddwl trwy waeledd dirfawr hyd awr ei hymddattodiad. Fel Branwell, mynodd godi o'r gwely ddiwrnod ei marwolaeth, ac aeth o gwmpas y tŷ fel arfer nes i frenin y dychryniadau fyned yn drech na hi. Ar yr 20fed o Ragfyr rhoddwyd ei "gweddillion marwol fel y gadäwyd hwy gan y darfodedigaeth" i orphwys dan balmart eglwys Haworth. Cyn dydd ei chladdedigaeith cymerwyd Anne yn glaf; bu yn dihoeni am rai misoedd. Yn y tywydd garw cynnaliwyd hi gan yr egwyddorion crefyddol y bu yn ymborthi arnynt yn ystod ei bywyd byr, ac yn y rhai yr ymddiriedai gyda diysgogrwydd neillduol. "Yr oeddwn yn dyst o'u heffeithiolrwydd yn ei hawr olaf a'i threial mwyaf," meddai ei chwaer; "a gallaf ddwyn tystiolaeth i'r modd gorfoleddus y dygwyd hi trwyddynt." Mae'n debyg mai yn y cyfwng hwn yr ysgrifennodd Anne Brontë y llinellau canlynol:—

If thou shouldst bring me back to life,  
More humbled I should be ;  
More wise—more strengthened for the strife,  
More apt to lean on Thee.

Should death be standing at the gate,  
Thus should I keep my vow ;  
But, Lord, whatever be my fate,  
Oh let me serve Thee now !

Ar y 24ain o Fai, 1849, cludwyd hi i Scarborough, yn y gobaith y byddai i'r cyfnewidiad ddwyn adnewyddiad nerth; ond cyn diwedd y mis yr oedd ei hysbryd wedi ehedeg ymaith, a'i chorff wedi ei gladdu

Where the south sun warms the now dear sod,  
Where the ocean billows lave and strike the steep and turf-covered rock.

Yr oedd Charlotte druan wedi ei gadael ei hunan; ac nid rhyfedd fod tristwch yn llenwi ei chalon pan yn dychwelyd i bersondŷ Haworth i gysuro goreu gallai benwynedd yr hen ŵr ei thad, gydag Adgof a Hir-aeth fel ei hunig gymdeithion. Nid i fod yn ddi-waith er hyny, oblegiad yn ei hunigedd ymroddodd i gyfansoddi *Shirley*, fe allai y nofel fwyaf dysglar ac iachus o'i holl weithiau. Yn nghanol hyn o orchwyl nid yw yn anghofio anfon negeseuau cysurlawn at ei chydabod, nac yn peidio gofalu am y rhai oedd eto yn aros i ddiwynu arni, sef ei thad a'r hen forwyn ffyddlawn Tabby.

Fel y sylwyd, nid yw y siomedigaethau trymion sydd yn dyfod i'w rhan yn abl i gadw i lawr ei hysbryd llenyddol. Gyda bod *Jane Eyre* wedi ei gyhoeddi, yr oedd wedi dechreu nofel arall. Dengys ei gohebiaeth ei bod wedi talu y sylw manylaf i'r beirniadaethau a ymddangosodd ar y chwedl gyntaf, gyda'r amcan o gael cynnorthwy a hyfforddiant i gyfansoddi yr ail. Er na chyrrhaeddodd *Shirley* boblogrwydd *Jane Eyre*, y mae'n amwg fod Miss Brontë wedi cymeryd trafferth neillduol gyda gweithiad allan ei chynllun. Nid ydym yn cael yn yr un o'i nofelau ddarluniau mwy prydferth na chymeriadau mwy hawddgar nag a geir yn *Shirley*. Yn *Shirley* Keeldar, prif arwres y llyfr, y mae wedi tynu darlun seiliedig ar adnabyddiaeth drwyadl o natur Emily, yr hon, meddai, oedd yn "genuinely good and truly great;" ac yma desgrifia y bywyd a ddymunasai sylweddoli i'w chwaaer anwyl ac ymadawedig. Yn ngwahanol aelodau teulu y Yrkes ceir darluniau byw o rai o brif gyfeillion Charlotte, cymeriadau y rhai, y mae lle i dybio, a roddasant iddi ddefnyddiau cymeriadau ei phrif greadigaethau ffugiol. Yn Mr. Helstone ceir disgrifiad cywir, ond wedi ei dymheru gan barch plentyn i'w dad, o wahanol agweddau cymeriad Mr. Brontë. Am y curadiaid sydd yn tori ffigiwr mor wrthun yn y chwedl, addefid gwirionedd y darlun ganddynt hwy eu hunain; er, bid siwr, nad oedd-ynt yn deall faint yr addefiad! Nid ydym yn cofio un esiampl ragorach o'r modd y gellir roddi taw ar yr "offeiriodyn" nag sydd i'w gael yn *Shirley*, pan y mae y curad Donne yn anghofio ei safle ac yn cymeryd arno ei hun i osod gorchymyn ar *Shirley* Keeldar gyda golwg ar swm ei chyfraniad at achos neillduol. Byddai yn fendith o'r mwyaaf pe ceid rhagor o'i bath! Yn *Shirley* Keeldar a Caroline Helstone y

mae Charlotte Brontë yn arddangos dau gymeriad benywaidd o'r fath a garai—esiampiau heirdd o ferched glandeg yr Yorkshire a brisiai uwchlaw pob rhan “of this bonny island of England.” Ar ol gwneyd y ddwy yn gyfeillesau mawr, y mae yr awdures yn cymeryd mantais ar eu hymddyddanion i draethu ei barn bersonol ar lawer o gwestiynau cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas i'r rhyw fenywaidd. Yr oedd Charlotte Brontë ymhell o fod yn un o'r merched hyny sydd yn hawlio cydraddoldeb â dyn. Barn ein hawdures ydoedd mai gogoniant pob gwraig ydoedd dibyniad ar ac ufudd-dod i un a fo'n uwch, sef ei gŵr. Iddi hi yr oedd dyn o gymeriad uchel ac o deimladau gwir foneddigaidd yn frenin y greadigaeth. Par i Shirley ddyweyd, “I tell you when they *are* good, they are the lords of creation—they are the sons of God. Moulded in their Maker's image, the minutest spark of his Spirit lifts them almost above mortality. Indisputably a great good handsome man is the first of created things.” “The higher above me, so much the better—it degrades to stoop, it is glorious to look up,” meddai mewn man arall. Ond y mae safon dynoliaeth Charlottë Brontë yn dra uchel. Par i Shirley Keeldar wrthod cynnygiad priodasol Robert Moore gyda'r dirmyg mwyaf am ei fod, yn cymysgu ei serchiadau â'r cwestiwn o hunanelw. Dangosodd yr awdures fwy nag unwaith yn ei bywyd ei hun ei bod yn parchu cysegredigrwydd cariad. Mwy nag unwaith agorwyd drws iddi ddianc o'r caledi oedd yn ei gorfodi i drwm-dreulio ei bywyd fel athrawes deuluol; ond hyd nes y daeth cariad i agor ei chalon gwrthododd bob cyfleusdra. Yn mherson Robert Moore rhydd ei fflangell ar gefn y syniad mai cwestiwn masnachol ydyw priodas; ac un o'r darnau goreu yn y nofel yw hwnw lle y disgrifir Robert Moore yn gorfod dyweyd hanes ei wrthodiad gan Shirley wrth ei gyfaill Yorke. Yn hoffder Shirley o natur dangosir prif-nwyd calon Emily Brontë. Y mae y nofel yn llawn o gyfeiriadau at brydferthwch dyffryn a mynydd, coedwig a dól. Ceir gweled yma “the deep valley robed in May raiment; varied meads, some pearled with daisies, and some golden with kingcups;” olion hen goedwig odidog, “in a region whose lowlands were once all sylvan chase, as its highlands were breast-deep heather;” lliwiau ar ddaear a nen, pan y mae “silvery blues, soft purples, evanescent greens, and rose-shades, all melting into fleeces of white cloud pure as azury snow” yn denu'r llygaid fel â chipolwg o hirbell o sylfeini'r nefoedd; y goedwig ysplenydd, lle ceir “rude oak, delicate birch, glossy beech, clustered in contrast; and ash trees stately as Saul, standing isolated, and superannuated wood-giants clad in bright shrouds of ivy;” ac afiaeth y gwynt, “when the moon reigns glorious, glad of the gale; as glad as if she gave herself to its fierce free caress with love.” “Nothing can beat that; no one can match it; it is the first and last absolute and sufficient and triumphant word ever to be said on the subject,” meddai Mr. Swinburne mewn ffrwd o glodforedd llesmeiriol. Y mae Mr. Swinburne er hyny yn dal y clorian beirniadol yn wastad trwy ddyweyd fod *Shirley* fel chwedl yn esiampl nodedig o fethiant “in the central and crucial point of masculine character;” ond fel yr ydym eisoes wedi sylwi, nid o gwmpas y Moores na'r Yorkes y mae y dyddordeb yn troi, ond o gwmpas Shirley Keeldar a Caroline Helstone—dwy o'r creadig-

aethau rhagoraf yn holl fyd ffugchwedleuaeth. Sylwa Dr. Bayne nad yw Miss Brontë yn dwyn ei gwersi moesol ymlaen yn ormodol; ond cyflëa y cyfanwaith y wers bwysig o ddyoddef ac ufuddhâu yn ddi-rwgnach i'r Anocheladwy, yr hwn a arddangosir nid yn angenrheidi- rwydd Tynged, fel yn ngweithiau ei chwaer, ond fel gweithrediad Tad Hollalluog llawn daioni a thrugaredd.

Pan roddwyd *Shirley* i'r byd, gyda'i ddarluniau bywiog o fywyd fel yr oedd yn Ngogledd Lloegr yn nechreu y ganrif bresennol, a'i *sketches* meistrolgar o gymeriadau byw, cafodd ar unwaith dderbyniad croesaw- gar. Hyd yn hyn nid oedd y byd wedi adnabod "Currer Bell" yn niwyg gwladaidd merch y clerigwr, ond daeth yn anmhosibl i gadw i fynd y dirgelwch yn hwy. Gwahoddwyd hi i Lundain, lle y daeth i gydnabyddiaeth bersonol â llawer o'i chydweithwyr llenyddol, y rhai a adnabyddai er ys blynyddau trwy eu gweithiau. Ymhlith y rhai hyn yr oedd W. M. Thackeray, G. H. Lewes, a Miss Harriet Martineau. Thackeray, fel yr ydys wedi sylwi, oedd ei heilun llenyddol; ac yn groes i'r arferiad cyffredin, ni cholodd yr eilun ei ogoniant pan ddaeth i gyffyrddiad agos âg ef. "Thackeray," meddai, "is a Titan of mind. His presence and powers impress one deeply in an intellectual sense." Am Miss Martineau dywed, "Without being able to share all her opin- ions, philosophical, political, or religious—without adopting her theories—I yet find a worth and greatness in herself, and a consistency, benevolence, perseverance in her practice such as wins the sincerest esteem and affection." Ond er ei hoffder o'r person, ni allodd erioed gymeradwyo syniadau anffyddol Miss Martineau. "Os hyn" (sef y syniadau dan sylw) meddai, "ydyw Gwirionedd, da ydyw iddo am- gylchu ei hun â dirgelwch a chuddio ei hun fel â llen. Os hyn yw Gwirionedd, gall pwy bynag a'i gwel felldithio'r dydd ei ganed."

Pan ddychwelodd yn ol i dawelwch Haworth, cafodd fod "holl Aire- dale, Wharfedale, Calderdale a Ribblesdale" wedi dyfod i weled a gwerthfawrogi yr athrylith a fagwyd rhwng muriau yr hen bersondŷ, a chysurwyd ei chalon yn fawr wrth weled mor falch oedd ei chyfeillion a'i chydabod agosaf o herwydd ei llwyddiant. Dengys ei llythyrau yn y cyfng hwn ei bod yn dyoddef llawer oddiwrth y clwyfau roddodd marwolaeth iddi, a'i bod yn ddarostyngedig i bruddglwyf a effeithiai yn niweidiol ar ei hiechyd; ond trwy benderfyniad ysbryd a boddlonrwydd i drefn Rhagluniaeth, y mae yn adfeddiannu ei hun, yn talu sylw i amgylchiadau o'i chwmpas, ac yn cymeryd dyddordeb yn ffyniant ei chyfeillion. Yn haf 1850 y mae drachefn yn talu ymweliad â Llundain, ac oddiyno yn myned i Edinburgh—tref, mae'n ymddangos, a wnaeth argraff ddyfnach arni na'r brifddinas a'i holl wychder. "Who," meddai, "that has once seen Edinburgh with its couchant crag-lion but must see it again in dreams waking or sleeping? . . . Your great London as compared to Dun-Edin, 'mine own romantic town,' is as prose compared to poetry, or as a great rumbling, rambling epic compared to a lyric—brief, bright, clear and vital as a flash of lightning." Nid ydym bob amser yn cydweled â barn Miss Brontë. Dengys ei nodiadau ar Balzac, Tennyson, Jane Austen, ac eraill, aml i fan gwan yn ei chasgliadau, ac nis gallwn dderbyn ei barn am Lun- dain. I ni, Llundain yw prifddinas y byd mewn mwy nag un ystyr,

ymfrostied Ysgotwyr yn eu Dun-Edin modd y mynont! Yn niwedd 1850 cymerodd mewn llaw y gorchwyl o olygu argraffiad newydd o weithiau ei chwaer. Cyfoethogodd yr argraffiad â *sketch* deimladol o fywyd ei dwy chwaer, Emily ac Anne; ac mewn ffordd o ragymadrodd ysgrifennodd fath o amddiffyniad galluog i waith Emily Brontë yn cynnyrchu ac yn cyhoeddi *Wuthering Heights*.

Yna aeth ymlaen gyda'r gwaith o gyfansoddi *Villette*, yr hyn a gariwyd allan yn araf ac yn nghanol llawer o afiechyd. Yn haf 1851 talodd ymweliad arall â'r Brifddinas, pryd y cafodd y fraint o glywed Thackeray yn traddodi un o'i ddarlithiau ar yr *English Humourists*. Ni raid dyweyd iddi fwynhau hyn yn fwy na dim arall a welodd neu a glywodd tra yn Llundain. Yr oedd ei phresenoldeb yn y ddarlith bron o gymaint dyddordeb i'r gwyddfodolion a'r ddarlith ei hun; pan yr adnabyddwyd hi gan yr "hufen cymdeithas" oedd yn llenwi Willis' Rooms, nid oedd llawer yn ei hymddangosiad i'w gwneyd yn un o'r *lions*: yr oedd o gorff eiddil dinod, ei gwisg yn hynod gartrefol a syml, ei dull yn ffurfiol, a'i hiaith yn daleithiol, yn llawer rhy syml i gynnyrchu arwr-addoliaeth yn yr edrychwyr; ond ymhlith y rhai a ddaeth ati yr oedd Arglwydd Carlisle a Mr. Monckton Milnes (yn awr Arglwydd Houghton), ynghyd a'r darlithydd, yr hwn a ofynnodd iddi ei barn am y ddarlith (yr hyn meddai yn un o'i llythyrau oedd yn ychydig o wendid ar y gŵr mawr). Ymhlith pethau eraill a gafodd ei sylw yn ystod yr ymweliad hwn, gellir enwi myned i'r Palas Grisial yn nghwmni Syr David Brewster—gweled Rachel yn un o'i phrif chwareuon—a chlywed D'Aubigne, Melville, a Maurice yn pregethu. Ar ei dychweliad y mae yn myned ymlaen gyda *Villette*, ond yr oedd yn gorffod ysgrifenu yn nghanol gwendid a phoen a fuasai yn llethu penderfyniad llai grymus. Mor chwerw ydoedd ei phrofiad yn aml fel y bu y gwaith—ei *best-beloved* fel y galwai ef—mewn perygl o gael ei roddi o'r neilldu am byth. Ond o ddalen i ddalen perffeithiwyd ef, er fod pob brawddeg o'r bron yn dwyn arnynt argraff poen corff a phryder meddwl. Yn Tachwedd 1851, anfonwyd y gwaith, fel *Jane Eyre* a *Shirley* o'i flaen, i'r cyhoeddwyd yn Cornhill, ac yn fuan iawn rhoddwyd ef i'r byd. Yn y bywgraffiad a manau eraill yr ydym yn cael nad oedd *Villette* yn rhoddi boddlonrwydd yn y cylchoedd agosaf at Charlotte Brontë, ond y fath ydoedd ei ffydd yn nghydwybodolrwydd ei gwaith, fel na fynai ei gyfnewid. Profodd derbyniad y cyhoedd o hono nad ydoedd yr awdures wedi camgymeryd. Er nad oedd yn boblogaidd yn ystyr gyffredin y gair, yr oedd ynddo ddarlun o'r galon ddynol a gynnyrchai barch ac edmygedd dwfn y rhai a ddeallent ei linellau. Y mae holl gwmpas y chwedl yn cael ei gynnwys o fewn i furiau *pension* Madame Beck—neu mewn geiriau eraill, yr ysgol ymha un y treuliodd Charlotte ei hamser yn Brussels. Yn Paul Emanuel, un o athrawon y *pension*, desgrifia, mae'n lled debyg, M. Héger ei hen athraw, yr hwn a fu yn un o brif ddylanwadau ei bywyd. Yr oedd yr uniad neillduol o gryfder a thynerwch, mawrfrydigrwydd a gwendid tymher, &c., a'i nodweddai ef, yr un mor nodweddiadol o holl arwyr Charlotte Brontë. Yn Lucy Snowe y mae yr awdures gyda llaw ddiysgog wedi tynu darlun cywir o honi ei hun—darlun na fwriadwyd i ddennu nac i foddio y darlennydd cyffredin, mwy nag yr oedd y gwreiddiol yn gosod ei hun allan i wneuthur y cyfryw, ond eto darlun



byw yn ei harddangos yn treulio allan ei bywyd pruddaidd, gyda'i golwg byth yn sefydlog ar ei dyledswydd. Yn Paulina, y plentyn "henaidd" (fel y dywedir), sydd yn gwneyd ei hymddangosiad yn nechreu y llyfr, ceir un o'r darluniau plentynnaidd sydd yn dygwydd ond yn anfynych yn ngweithiau Charlotte Brontë, y rhai y gellir dyweyd wrth basio sydd lawer islaw creadigaethau "George Eliot" yn yr un cyfeiriad.

Yn agos i ddiwedd *Shirley* ceir cyfeiriad at "foneddwr a christion gwirioneddol" a ddaeth i lanw lle Malone, y curad rhagrithiol. O dan y cyfeiriad hwn darlunir y Parch. Arthur Nicholls, un o guradiaid Mr. Brontë yn Haworth. Tra yr oedd Charlotte Brontë yn dychymygu iddi ei hun y diwedd pruddaidd a roddodd i Lucy Snowe yn *Villette*, y mae y serch oedd i gysuro diwedd ei hoes fer yn cynnyddu o'i chwmpas. Rhydd Mrs. Gaskell ddesgrifiad manwl o'r *love story* ryfedd a ddechreuodd mewn ystorm, a wenodd i haulwen, ac a ddiffoddwyd mor fuan yn nos marwolaeth. Ymddengys fod Mr. Brontë yn yr ymddiriedaeth deuluaidd a roddai ar ei ferch, a'r balchder hunanol a deimlai yn ei llwyddiant, yn eiddigeddu rhag i neb arall feddu dim lle yn ei chalon. Gwrthoda ei ganiatâd i ymrwymiad priodasol gymeryd lle, ac y mae Charlotte druan â'i chalon yn gwaedu o dosturi tuag at y gŵr oedd yn dyoddef o'i herwydd, yn aberthu ei chysur ei hun ar allor ei dyledswydd i'w thad. Yn ychwanegol at hyn y mae ymraniad yn cymeryd lle rhyngddi â Miss Martineau, yr hyn sydd yn achosi poen arteithiol i'w natur deimladol, ac i dywyllu y cyfan y mae ei hiechyd yn gwaethygu. Amlwg yw iddi ddyoddef llawer oddiwrth yr achosion hyn yn ystod gauaf 1853. O dipyn i beth daeth Mr. Brontë i deimlo fod ei galedwch ef yn effeithio er niwed ar y ferch a garai, ac o'r diwedd y mae ei natur gyndyn yn toddi gan y serch a deimlai tuag ati. Rhoddodd ei gydsyniad i'r ymrwymiad, daeth i ddeall Mr. Nicholls, ac i deimlo dyddordeb yn ei uniad â Charlotte. Effaith y cyfnewidiad ydoedd calonogi ei ferch, a dengys ei llythyrau ei bod yn edrych ymlaen yn obeithiol am hapusrwydd yn ei bywyd priodasol. Cymerodd y briodas le Mehefin 29ain, 1854, yn Eglwys fechan Haworth, mewn modd syml, yn ngwydd dwy o'i chyfeillesau yn unig. Fel engraifft o dymher gyfnewidiol Mr. Brontë, gellir nodi iddo bron ar y foment olaf wrthod rhoddi ei ferch ymaith, a disgynodd y rhan hono o'r gwasanaeth ar Miss Wooler, ei hen athrawes. Ar ol ymweliad â theulu Mr. Nicholls yn yr Iwerddon, y maent yn dychwelyd i bersondŷ Haworth, ac yn yr adnabyddiaeth sydd genym o Charlotte Brontë yn y llythyrau perthynol i'r adeg hon, yr ydym yn gwelod fod profiad garw ei bywyd boreuol wedi tyneru ei hyabryd, a'i bod ar ol mordaith ystormus wedi cyrhaedd o'r diwedd i hafan lle y gellid dysgwyl iddi aros am y gweddill o'i hoes mewn dedwyddwch tawel a digyffro. Ond yr oedd cyfnewidiad arall, a'r olaf, heb fod ymhell. Am rai wythnosau rhoddodd heibio ei holl lafur llenyddol, ac ymroddodd i fywyd teuluaidd. Yr oedd y *spell*, modd bynag, yn rhy gryf arni, a dechreuodd ysgrifenu *Emma*. Fel cynifer o awduron eraill, ymhlith y rhai y gellir enwi Thackeray, Bulwer Lytton, Dickens, ac yn ddiweddar Iarll Beaconsfield, gadawodd ei gwaith heb ei orphen. Dangosai yr hyn a ysgrifonodd nad oedd ei hathrylith yn dechreu gwambáu: yn ngeiriau Mr. Swinburne, "nowhere is its peculiar gift of

subtle and pathetic veracity more notable than in the brief last pages written between the too closely neighbouring dates of her marriage and her death; a precious fragment to which the few and fine words of introduction prefixed by the illustrious writer who had been the peculiar god of her inmost idolatry, have always seemed to me worthy of special remembrance among the truest and the noblest, the manliest and the kindest lines that ever came from the pen of Mr. Thackeray." Yn Ionawr, 1855, aeth yn sâl, a pharhaodd i wanychu, fel erbyn diwedd Mawrth yr oedd ei thŷ o glai wedi myned yn rhy wan i gadw ei henaid rhag ehedeg at yr Hwn a'i creodd. Ar yr 31ain o Fawrth torwyd yr olaf o ganghenau teulu y Brontës, gan adael yr hen gyff i wynebu tristwch ac amddifadrwydd bywyd yn nghwmni y gŵr unig a diblant. Hebrwyngwyd ei gweddillion i'w hir gartref gan ychydig o'i pherthynasau a'i chydnabod: nid oedd yma gasgliad o fawrion llenyddiaeth a chymdeithas, dim ond menyw dwylledig yn galaru o herwydd colli un a fu yn dyner wrthi yn ei thrueni a'i chwymp, a geneth ddall a arweiniwyd lawer milldir o ffordd i fod yn bresennol i dalu y gymwynas olaf i un a fu yn garedig wrthi!

Yn araf iawn y daeth y byd i adnabod a gwerthfawrogi cymeriad Charlotte Brontë. Rhaid addef fod yn y cymeriad linellau sydd yn rhedeg yn groes i'n teimladau, ac yn myned ar draws ein syniadau mwyaf hoff, ond dylid cofio fod Rhagluniaeth wedi arwain Charlotte Brontë trwy bair profedigaethau a themtasiynau mwy na chyffredin, a bod ei bywyd byr yn llawn o ddylanwadau oddiallan iddi oedd yn tueddu mwy neu lai er ei niwed. Deuir o hyd i allwedd ei chymeriad yn ei hymroddiad llwyr i'r hyn a gredai oedd ei dyledswydd. Arweiniodd yr ymroddiad hwn hi i lawer llwybr cul a phorth cyfyng; ond trwy hunanberthiad dwfn a pharhâus, galluogwyd hi i fyw yn deilwng o'r athrylith ogoneddus a'r hon ei breintwyd. Collodd gyfeillion hoff a pherthynasau anwyl, o gwmpas y rhai yr oedd ei serchiadau cynhes wedi ymglymu, heb gollu ymddiried yn y Cyfaill a lŷn yn nês na brawd; gallowd roddi heibio ei hoff waith llenyddol i foddio mympwyon tad ac i ofalu am gysuron gŵr; a bu fyw bywyd er mwyn eraill, er i hyny gostio iddi lawer pang. Rhaid addef hefyd fod ei nofelau yn ddifffgiol yn y coethder llenyddol a berthyn i feistriaid y gelfyddyd, a bod ei materion yn rhy aml yn cyfranogi o rywbeth annymunol, ond y mae cywirdeb ei darluniadau a gonestrwydd ei chymeriadau yn mwy na gwneyd i fyny y diffyg. Nis gallai angen arian ei themtio i ysgrifenu yn groes i'w natur, ac ni roddodd erioed i'r byd y nofelau gwagsaw hyny sydd i'w cael mor fynych y dyddiau hyn. Nis gall gwaith mor gywir, mor syml, mor drwyadl ac mor onest, lai na chyrrhaedd ei ffordd er gwaethaf pob garwedd gair ac ymadrodd. Bu amser, cyn i "Currer Bell" wneyd ei ymddangosiad yn niwyg Charlotte Brontë, pryd yr ammheuai rhai beirniaid cul a maleisus foesoldeb gweithiau gwrthddrych ein hysgrif, ond mewn oes oleuach nid oes neb yn meiddio cadw i fyny y cyhuddiad. Mewn gwirionedd, nid yw y garwedd iaith a meddwl a roddai dramgwydd i fân feirniaid yr oes o'r blaen yn ddim amgen na symlrwydd a phurdeb yn siarad allan o galon bur yn helaeth heb ofni camliwiad na chamddealltwriaeth, ac ymhen oesau i dd'od byddys yn gwerthfawrogi *Jane Eyre*, *Shirley*, a *Villette*, fel rhai o brif addurniadau

llynyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ei bywyd, fel yr ydym wedi ceisio dangos, yn gystal ag yn ei nofelau, y mae Charlotte Brontë yn dysgu i ni wersi pwysig mewn hunanymwadiad, hir-ddyoddef, a gwrolder moesol. Gyda hyn o ymgais, yn ngeiriau un o honynt, "to wipe the dust off their gravestones, and to leave their names free from soil," yr ydym yn cyflwyno Charlotte Brontë a'i chwirydd i sylw y darllenydd.

E. VINCENT EVANS.

---

## Y DDWY DDELW.

"Gwnawn ddyn ar ein delw ni."

"Yr hwn a adnewyddir . . . ar ddelw yr Hwn a'i creodd ef."

YN ol edrychais trwy fwrllwch tew yr oesau,  
 Draw, draw yn ol i'r creadigol forau,—  
 Y borau teg pan wridai 'r wawrddydd hawddgar  
 Am y tro cynta' erioed yn awyr daear;  
 Ieuencyd, swyn, a ddawnsient mewn boddineb  
 Ar ruddiau 'r byd—yr oll dan urdd dwyfoldeb.  
 A mi yn tremio i'r tymmor dedwydd hwnw,  
 Ar lanerch gain, canfyddais brydferth Ddelw;  
 Ha, dyna dlysnï! ni flinai llygad angel  
 Yn craffu arno; ar hyd y lasfron dawl  
 Seraphiaid fil ymdröent i edmygu  
 Y ddelw fyg oedd newydd ei dadlenu.  
 Nid rhyfedd hyn; pe chwilid daear drwyddi  
 Ni welid dim mor bur, mor nefol yn ei thlysnï!  
 Ai angel-gerfiwr yn ngrym ei dalent loew  
 A bia 'r clod o lunio 'r firain ddelw?  
 Na, nid oedd angel yn y fro wynfäol  
 O grebwyll digon cryf—o feddwl digon treiddiol  
 I roddi bôd a ffurf i'r fath orchestwaith—  
 Mae 'r ddelw hon yn ffrwyth athrylith berffaith!  
 Ei hawdwr a'i cherflunydd hi yw Duw,  
 A choron-waith ei greadigaeth yw.  
 Doethineb Duw ei hunan a'i cynlluniodd,  
 A llaw ei gadarn allu a'i gorphenodd.  
 Pan gwblhawyd hi, y llygad Dwyfol  
 A sÿllai arni gyda threm foddhaol;

A'r cyfaod hynod hwn 'r oedd mor dryloew  
Fel gallai 'r Duwdod ynddi wel'd ei ddelw !

Newidiai 'r olygfa ; ac O ! gyfnewidiad—  
Nos-brudd-der a ddaeth i orchuddio y cread ;  
Ple 'r aeth Paradwys ? ple mae 'r heirdd ororau ?  
A phle mae 'r ddelw gain a welais gynau ?  
Ai hon yw hi, orwedda 'n faluriedig,  
Yn salw 'i llun, heb ddim o'i hurdd gyntefig ?  
Pa ellyll brwnt o wlad y bythol d'wyllwch  
Fu 'n mathru 'r ddelw, gan ddfiwyno 'i thegwch ?  
Mae 'r nef yn drist, a wyla yr angelion  
Wrth fyn'd a d'od oddeutu yr adfeilion !

Ymlaen edrychais—ymlaen i'r boreu rhyfedd  
Pan saif olwynion amser, pan ddél y byd i'w ddiwedd ;  
Yn ngwydd y cread maith y boreu hwnw  
Bydd Ior yn dadorchuddio 'r newydd Ddelw.  
A phan fo 'r Ddwyfol law yn tynu 'r llèn oddiarni,  
Daw llef o'r orsedd wên, " Wyf berffaith foddllawn ynddi !"  
A'r nef ei hun lesmeiria mewn gwynfydedd  
Pan genfydd hon ; adseinia llais gorfoledd  
Trwy 'r Wynfa oll pan roir y ddelw burlan  
I aros mwy ger gorsedd Duw ei hunan.  
Ai hon a welwyd gynt yn Eden ardd  
Yn benaf urdd y byd—yn Ddwyfol hardd ?  
Ai hon ddymchwelwyd gan ergydion pechod  
I laid y byd, nes colli argraff Duwdod ?  
Iê, hon yw hi ! ond wedi ei hadnewyddu :  
Ni fynai Duw ei gado i fythol lygru.  
Y Dwyfol Fab o'r dyfnder a'i cyfododd,  
A llaw y Sanctaidd Ysbryd a'i cabolodd,  
I ffurf ddi-graith a pherffaith yn ei phurdeb,  
I harddu oriel Nef am dragwyddoldeb !

R. D. ROWLANDS (*Anthropos*)

## SYR WILLIAM JONES, PRIF FARNWR BENGAL.

Y MAE enw y cyfreithiwr dysgedig a'r barnwr enwog uchod yn hysbys i lawer o ddarllenwyr y TRAETHODYDD, er fe allai fod y rhan fwyaf o honynt yn lled anghyfarwydd â'i hanes; ond gan ei fod yn hanu o'n cenedl, meddyliais na byddai ychydig olrheiniad o'i drâs, a hanes ei fywyd llafurus yn annerbyniol gan ein cydgenedl. Yr oedd efe yn hanu o un o'n hen deuluoedd pendefigaidd, fel y dangosir yn y llythyr canlynol, o eiddo Lewis Morris, Ysw. (*Llewelyn Ddu o Fôn*), at dad y Barnwr dysgedig, William Jones, Ysw., F.R.S.

AT WILLIAM JONES, YSW.

IONAWR 1, 1748.

SYR,—Yr ydoedd yn ddefod ymysg yr Hen Frythoniaid (yr hon a gedwir i fyny eto yn Môn) i'r rhai mwyaf cyfarwydd mewn achyddiaeth teuluoedd, anfen i'w cyfeillion o'r un cyff neu dylwyth, ar ddydd Calan Ionawr, *galenig*, neu anrheg o'n hachdraith; yr hyn a ameenid, dybygaf, i gadw i fyny gyfeillgarwch rhwng canenydd, yr hyn a gedwid yn hynod gan y bobl hyn, ac a gedwir eto ymysg y rhai gwaelaf o honynt, hyd y chweched a'r seithfed radd.

Y mae rhai ysgrifenyddwyr yn sylwi fod y Gâlïaidd hefyd yn nodedig am y serchog-rwydd a'r sylw yma at eu pobl eu hunain, er na byddont ond carenydd pell. Mae yn wir nad yw y pethau hyn ond dibwys; ond, o ran hyny, dibwys yw pobpeth yn y byd hwn.


Yr ydwyf yn edrych ar gyff dynion yn gyffelyb i'r modd y golygaf blanhigion. Y mae yn sicr fod rhyw gymaint o barch yn ddyledus oddiwrth blanhigion ieuainc, a gynnyrchir trwy had, nen impiad o hen bren da, i'w cyff cyntefig, pe y gallai prenau weithredu a meddwl; ac o'm rhan fy hun, y mae y meddwl am y bobl ddewrion hyny a ymdrechasant gyhyd dros eu rhyddid, â chenedl lawer cryfach, yn fy meddiau â'r cyfryw feddyldrych am danynt fel y byddaf bron addoli eu cofad-wriaeth. Gan hyny, er mwyn cadw i fyny yr hen ddefod gaumoladwy hono, yr ydwyf yn anton i chwi gyfryw *galenig* ag a grybwyllir uchod, yr hon yr ydwyf yn dymuno ar i chwi ei derbyn.

Y mae genyf le i wybod ei fod yn seiliedig ar awdurdod dda, yn gymaint a bod fy nhad a'm mam yn geraint i'ch mam chwi, ac yn deilliau o'r un cyff ag a grybwyllir yn yr achdraith canlynol, yr hyn yw y rheswm am fy mod i mor byddyg yn achau eich mam; ac o herwydd yr un rheswm, hyd oni wnelwyf ymchwiliad pellach, yr ydwyf yn hollol ddyeithr i deulu eich tad.

Yn gymaint ag nad oeddech chwi ond ienanc pan adawsoch y wlad, nis gellir tybied y gallasech wybod llawer am y pethau hyn. Ond myfi a gefais ormod o amser yno; buasai yn ddymunol genyf pe buasai yn llai, gan y gallawn ei gymhysgo i well defnydd nag y gwnaethum. Os dyry hyn ryw foddhâd i chwi, bydd yn llawen genyf; os amgen, bwriwch ef yn tân; a chredwch fy mod, yn gywir a diffuant, &c.,

LEWIS MORRIS.

Yn ol yr achdraith grybwylliedig, yr oedd y boneddwr a gyferchir yn y llythyr blaenorol yn hanu o Hwfa ab Cynddelw.



yr hwn oedd yn delynor enwog. Efe a briododd Catherine, wyres Wm. ab Howell ab Iorwerth, hen batriarch Tregaian, o'r hon y bu iddo, heblaw amryw blant eraill, ferch o'r enw Elisabeth, yr hon a briododd un o'r enw John George, neu yn ol llafar Môn, Siôn Siors; ac ymsefydlasant yn y Fferam, plwyf Llanfihangel Tre'r Beirdd, Môn, lle y ganwyd iddynt amryw blant, o ba rai y mae enwau tri ar gof a chadw, sef 1. *William*, a ddaeth i enwogrwydd mawr yn ei oes, ac a adwaenir mewn hanesyddiaeth dan yr enw William Jones, Ysw., Cymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol. 2. *Henry*, a briododd Mary, ferch Owen Cadwaladr. 3. *Ellen*, a briodwyd âg Owain Rowland. Dywedir fod Siôn Siors, er nad oedd ond amaethwr bychan, wedi rhoddi i'w fab William yr addysg oreu a allasai ei sefyllfa ganiatáu; a chan ei fod yntau yn fachgen o alluoedd naturiol cryfion, a chanddo chwaeth anghyffredin at wyddoniaeth, efe a wnaeth i fyny ddiffygion ei fanteision addysgwyl i fesur canmoladwy trwy ymdrechion dyfal; ac felly yn gynnwys ar ei oes gosododd seiliau ei lwyddiant a'i enwogrwydd dyfodol. Y mae yn gofus genyf i mi glywed yr henafiaethwr trylen Siôn William Prisiard o Blas y Brain yn dywedyd, tua thriugain mlynedd yn ol, fod Siôn Siors wedi

marw pan oedd ei blant yn ieuainc, ac i'w weddw symud i dyddyn llai, o'r enw "Y Clymwr," yn mhlwyf Llanbabo, lle y tynai y bachgen William sylw yr offeiriad a'r cymydogion trwy ei fedrusrwydd fel rhifyddwr; ac o'r diwedd y canlyniad a fu, ei gyflwyno i sylw meistr tir y wraig weddw, yr hwn a ofalodd am roddi meithriniaid cyfaddas i'w alluoedd, a thrwy ei ddylanwad cafodd le iddo, tra eto yn ieuanc, ar fwrdd un o gadlongau y deyrnas, lle y dechreuodd efe ei yrfa fel athraw gwŷr ieuainc, mewn rhifyddiaeth a meintoniaeth; ac yn y sefyllfa hono efe a ennillodd sylw a ffafwr yr Arglwydd Anson, yr hwn a fu yn noddwr caredig iddo. Pan oedd efe yn ddwy flwydd ar hugain oed efe a gyhoeddodd draethawd ar y Gelfyddyd o Forwriaeth, yr hwn a dderbyniwyd gyda chymeradwyaeth mawr. Yr oedd efe yn bresennol yn yr ymosodiad ar Vigo yn 1702; ac wedi cymeryd y ddinas hono, ymunodd â'i gymdeithion i chwilio am yspail, ac yn awchus efe a ddetholodd faelfa llyfrwerthwr i chwilio am yspail ynddi, gan mai yr unig yspail a chwennychai efe ydoedd trysorau llenyddol; ond pan ganfu nad oedd ynddi unrhyw lyfr o wir werth, efe a ymfoddlonodd ar gymeryd gwellai yn unig oddiyno, yr hwn a ddangosai i'w gyfeillion yn fynych mewn blynyddoedd diweddarach fel prawf o'i lwyddiant milwraidd, ac adroddai yr hanesyn o'r modd ei cafodd. Efe a ddychwelodd gyda'r llynges i Loegr, ac yn ddioed efe a ymsefydlodd yn Llundain fel athraw meintoniaeth (*mathematics*); a phan yn chwe' mlwydd ar hugain oed, efe a gyhoeddodd ei *Synopsis Palmariorum Matheseos*, yr hyn oedd yn brawf penderfynol o'i hyddysgrwydd pan yn dra ieuanc yn ei hoff wyddor.

Yr oedd cymeriad anghyhoedd Mr. Jones yn uchel iawn, a'i ymddygiadau at bawb yn llednais ac ennillgar; a'r rhagoriaethau hyn a weinyddent nid yn unig i äangu cylch ei gyfeillion, y rhai a ennillasid yn barod trwy ei enwogrwydd gwyddonol; ond hefyd i sicrhâu eu hoffder o hono. Ymysg eraill a'i hanrhydeddent â'u cyfeillgarwch, gellir enwi Arglwydd Hardwicke, yr hwn pan yn Brif Farnwr, a fynai ei gael ef i'w ganlyn fel ei gydymaith pan ar ei gylchdaith i gynnal y brawdlys-oedd; a phan wnaed y pendefig enwog hwnw yn Arglwydd Geidwad y Sêl Fawr wedi hyny, efe a anrhydeddai ei gyfaill ieuanc trwy ei benodi yn Ysgrifenydd yr Heddwch. Ac ymysg enwogion eraill mewn gwyddoniaeth a llenyddiaeth a'i hanrhydeddent â'u cyfeillgarwch mynwesol, gellir nodi yr Arglwydd Parker, Llywydd y Gymdeithas Frenhinol, Syr Isaac Newton, Halley, Mead, a Samuel Johnson. Wedi ymneillduad Arglwydd Macclesfield i Gastell Sherborne, arosai William Jones gyda'i arglwyddiaeth fel aelod o'i deulu, gan ei addysgu yn y gwyddonau. Ond tra yr oedd yn y sefyllfa yma, collodd y rhan fwyaf o'i eiddo, ffrwyth ei ddiwydrwydd a'i gynnildeb dros flynyddoedd, trwy fethdaliad arianydd; ond lleihäwyd llymder y brofedigaeth hon trwy gyfeillgarwch Arglwydd Macclesfield, yr hwn a gafodd segur-swydd o gryn werth iddo; a'r un pendefig, yr hwn oedd ar y pryd yn un o brif swyddogion y Trysorlys, a gynnygiodd swydd fwy ennillgar iddo, ond efe a wrthododd ei derbyn, am y buasai hyny yn ei rwymo i fwy o wasanaeth swyddogol nag a ddymunai, ac yn cyfyngu ar ei amser i ddilyn ei hoff ymchwiliadau gwyddonol.

Tra yr oedd efe yn yr ymneillduaeth yma yn Nghastell Sherborne,

efe a ddaeth i gydnabyddiaeth â Miss Mary Nix, merch ieuengaf Mr. George Nix, dodrefnydd o Lundain, yr hwn, er nad oedd o drâs uchel, ydoedd wedi ymddyrfhafu i enwogrwydd yn ei alwedigaeth; ac ar gyfrif ei amrywiol ragoriaethau a dderbynid at fyrddau mawrion y tir, ac yn enwedig a gyfranogai o gyfeillgarwch Arglwydd Macclesfield. Pa fodd bynag, y canlyniad o ymgydnabyddiaeth Mr. Jones â Miss Nix a fu iddo ei phriodi; ac o'r briodas hon bu iddo dri o blant, yr olaf o ba rai, y diweddar Syr William Jones, a anwyd ar noswyl Fihangel, yn y flwyddyn 1746. Y plentyn cyntaf, George, a fu farw yn ei fabandod; a'r ail, merch, o'r enw Mary, yr hon a anwyd yn 1736, a briodwyd â masnachwr cyfoethog o'r enw Mr. Rainsford. Bu y foneddiges hon farw yn y flwyddyn 1802, mewn canlyniad i ddamwain a gyfarfu trwy i'w dillad gymeryd tân.

Ni fu Mr. Jones fyw namyn tair blynedd wedi genedigaeth ei fab ieuengaf, William. Ymosodwyd arno gan anhwylddeb, yr hwn y deallodd ei gyfaill hoff, Dr. Mead, ei fod yn anfeddyginiaethol; a therfynodd yn ei farwolaeth yn mis Gorphenaf, 1749.

Mewn canlyniad i farwolaeth ei dad, disgynodd y gofal am addysgiad y bachgen William ar ei fam, ar lawer o ystyriaethau, oedd yn feddiannol ar gymhwysderau rhagorol i'r gorchwyl, yn ol y disgrifiad manwl a ganlyn gan ei phriod dysgedig: "Yr ydoedd yn wraig rinweddol, heb frycheuyn—yn haelfrydig heb afradlonedd—yn gynnîl, ond heb fod yn grintachlyd—yn siriol, ond nid yn wamal—yn ddwys, ond nid yn sarug—yn fanol a chelfydd, ond heb fod yn hunandrybiol—yn fywiog, ond heb fod yn nwydwyllt—yn ochelgar yn newisiad ei chyfeillion, ond yn gywir yn ei chyfeillgarwch—yn barchus o'i rhieni, ac yn ffyddlawn a serchog i'w gŵr, ac ufudd iddo." Yr oedd hi yn fenyw o ddeall cryf yn naturiol, yr hwn a gryfhâwyd ac a goethwyd yn fawr trwy gymdeithas ac addysg ei phriod. Dan ei hyfforddiad ef, hi a ddaeth yn dra hydysg mewn *algebra*; ac er ei chyfaddasu ei hun i fod yn athrawes i fab ei chwaer, yr hwn a wrhiedid i'r alwedigaeth forawl, hi a ymberffeithiodd mewn *trigonometry* ac egwyddorion mordwyaeth.

Wedi marwolaeth Mr. Jones, cymhellid ei weddw yn daer gan Arglwyddes Macclesfield, i ymgartrefu yn Nghastell Sherborne; ond gan ei bod wedi penderfynu ar gynllun i addysgu ei mab, ac yn ymwybodol y buasai ei harosiad yn Sherborne yn anfanteisiol iddi i'w ddwyn i weithrediad, hi a wrthododd wahoddiad caredig yr arglwyddes, yr hon ni phallodd ag amlygu y caredigrwydd mwyaf diffuant tuag ati ar hyd ei hoes.

Yn y cynllun a gymerodd Mrs. Jones i addysgu ei mab, ymwrthodai â llymder dysgyblaeth, ac ymroddai i arwain ei feddwl i ymdrechu am wybodaeth trwy gyffroi ei chwilyfrydedd, a'i gyfeirio at wrthddrychau buddiol; ac i'w daerni parhâus am eglurhâd ar faterion y cyfeirid ei sylw atynt yn achlysurol mewn ymddyddan, ei hatebiad yn wastadol a fyddai, "*Darllenwch, a chewch wybod*;" ac i'r cynghor yma y cydnabyddai efe ei ddyled am ei gyrhaeddiadau dyfodol, tra fu efe byw. Trwy y dull doeth hwn cynnyrchid yn y bachgen awyddfryd mor gryf am ddysgu ag oedd yn ei fam am gyfranu addysg iddo; a'r cyfryw ydoedd ei thalent hi fel athrawes, a'i hyddysgrwydd yntau fel dysgybl, fel y gallai ddarllen unrhyw lyfr Saesoneg yn eglur a rhwydd, pan yn



bedair mlwydd oed. Ar yr un pryd, yr ydoedd hi yn dra gofalus am feithrin ei gof, trwy beri iddo ddysgu ac adrodd rhai o'r areithiau pobl-ogaidd yn Shakspeare, &c. Yn y flwyddyn hon o'i einioes efe a gafodd ddiangfa ragluniaethol rhag dwy ddamwain, un o ba rai a fu yn agos iawn i fod yn andwyol i'w olygon, a'r llall o fod yn angeuol iddo. Fel yr oedd wedi cael ei adael wrtho ei hun mewn ystafell, efe a aeth i geisio crafu huddylg o simnai, a chwypodd i'r tân, a ffamiaï ei ddillad o'i amgylch yn y fan. Ei ysgrechfeydd a ddyg y llawforwynion yn fuan i'w gynnorthwyo, a thrwy ymdrechion egniol llwyddwyd i ddiffodd y tân; ond nid cyn bod ei wyneb, ei wddf, a'i freichiau wedi llosgi yn drwm. Yn lled fuan wedi hyny, fel yr oedd y morwynion yn dodi ei ddillad am dano, ac yntau yn ystrancio yn chwaraës, cydiodd bâch o'i ddillad yn ei lygad dehu; ond trwy ofal a medrusrwydd cyfaill y teulu, sef Dr. Mead, iachâwyd yr archoll, ond gadawyd gwendid parhâus yn y llygad hwnw. Y damweiniau hyn a roisant attalfa dros amser ar ei duedd i ddarllen; ond wedi ei adferiad efe a ymroddodd at ei hoff waith yn adnewyddol, gan ddefnyddio unrhyw lyfrau a ddeuent o fewn ei gyrhaedd. Un boreu, pan oedd efe yn ei bummed flwydd oed, fel yr oedd yn troi dalenau y Bibl yn ystafell ei fam, tynwyd ei sylw yn rymus gan y darluniad arddunol o'r angel yn y ddeged bennod o lyfr y Dadguddiad; ac ni ddilêwyd yr argraff a wnaed ar ei feddwl drwy ei oes. Pan ydoedd wedi cyrhaedd cyflawn addfedrwydd barn, efe a gyfrifai y rhan hono yn gyfartal mewn arddunedd i unrhyw ran o'r Ysgrhythrau Sanctaidd, ac yn tra rhagori ar ddim a gynnyrchwyd trwy gyfansoddiad dynol yn unig erioed; a byddai yn hoff o ailadrodd y teimladau a'i meddiannai pan ei darllenodd gyntaf. Yn ei chweched flwydd dechreuodd ymgynabod âg elfenau Gramadeg Lladin, a thrysorodd ranau o hono yn ei gof; ond gan na feddai elfenau diflas iaith newydd ddim ynddynt i swyno ei sylw plentynnaidd, ni wnaeth nemawr gynnydd yn ei wybodaeth o'r iaith hono ar y pryd. Ac ni chymhellid ef i barhâus yn yr efrydiaeth yma y pryd hyny gan ei fam, am nas mynai ddyrysus ei feddwl trwy geisio ganddo ddysgu elfenau iaith farw cyn deall egwyddorion ei iaith enedigol yn drylwyr.

Yn Ngwyl Mihangel 1753, ar deryn y seithfed flwydd o'i oedran, efe a gyflêwyd yn Ysgol Harrow, lle yr oedd yr enwog Dr. Thackeray yn brif athraw ar y pryd. Drwy ystod y ddwy flynedd gyntaf o'i arosiad yn Harrow, yr oedd efe yn nodedig am ei ymroddiad a'i ddiwydrwydd, yn hytrach nag am ragoriaeth ei dalentau nac eangder ei gyrhaeddiadau; a rhenid ei sylw bron yn gyfartal rhwng ei lyfrau a gardd fechan oedd ganddo, yn yr hon y treuliai lawer o'i oriau seibianol, i'w diwyllo a'i haddurno. Ond yr oedd-ei alluoedd o angenrheidrwydd yn ennill nerth trwy yr ymarferiad; ac yn ystod dyspeidiau ei ysgol, byddai ei fam hoff yn ymdrechu yn ddiball i berffeithio ei adnabyddiaeth o'i iaith ei hun, a chyfarwyddai ef hefyd yn y gelfyddyd o arluniaeth, yn yr hon yr oedd hi ei hunan yn rhagori.

Yn ei nawfed flwydd cyfarfu â'r anffawd o dori asgwrn pen ei glun mewn rhyw ymgiprys gyda'i gydysgolorion, a chadwodd hyn ef o'r ysgol am ddeuddeng mis. Ond wedi cael o hono ymwared o'r boen, ni oddefid i dymmor ei attaliad o'r ysgol gael ei dreulio mewn seguryd; yr oedd ei fam gydag ef yn wastadol, ac yn ei ddifyru yn feunyddiol

trwy y darllenriad o'r cyfryw lyfrau Saesoneg ag a gyfrifai hi yn gyfaddas i'w chwaeth a'i alluoedd. Ymysg gweithiau eraill, gweinyddai Prydd-estau mebinol Pope, a chyfieithiad Dryden o'r Æneid, ddfyfrwch diball iddo, a buant yn foddion i ddeffroi ei dalantau barddonol, y rhai a arddangosid yn nghyfansoddiad pennillion mewn efelychiad o'i hoff awdwyr; ond rhoddid llwyr attalfa yn y cyfwng yma ar ei gynnydd mewn addysg glasurol.

Yn ei ddeuddegfed flwydd efe a symudwyd i'r ysgol uchaf; ac y mae yr hanesyn canlynol yn engraifft nodedig o gryfder ei gof y pryd hwn: Cynnygiai ei gydysgolion ymddifyru trwy gynnrychioli chwareuad, ac ar ei annogaeth ef hwy a ddewisasant y deryn a elwir "Y Dymhestl." Gan nad oedd yn hawdd cael copiau o'r chwareugan, efe a'i hysgrifenodd yn gywir iddynt o'i gof; a hwy a'i chwareusant gyda llawer a foddhâd iddynt eu hunain a difyrwch i'r gwyddfodolion.

Fel yr esgynai yn yr ysgol, cynnyddai ei ymroddiad a'i ddiwydrwydd. Dechreuai yn awr efrydu yr iaith Roeg; ac amlygid ei ddiwydrwydd a'i athrylith mewn amryw gyfansoddiadau nas gofynid gan ddsygyblaeth yr ysgol; cyfieithodd amryw o epistolau Ovid i gynganedd Seisonig, a holl fugeil-gerddi Virgil: ac heblaw hyny, cyfansoddodd dderbyn chwareu-gerddol ar chwedl Meleager, yr hon a alwai yn bruddwawd; ac fe'i chwareuwyd yn ystod y Gwyliau gan rai o'i gyd-ysgolion.

Ei brif gyfeillion yn yr ysgol y pryd hwn oeddynt Dr. William Bennett, wedi hyny Esgob Cloyne, a'r enwog Dr. Parr. Mewn llythyr a ysgrifennai Esgob Cloyne at Ddeon Llanelwy yn mis Tachwedd, 1795, efe a grybwyllai am Syr William Jones gyda pharch a serchogrwydd mawr, fel y canlyn:—"Yr oeddwn yn ei adnabod er pan ydoedd tuag wyth neu naw mlwydd oed; ac yr oedd yn *fachgen anghyffredin* bob amser; galluoedd mawrion, neillduolrwydd mawr yn nheithi ei feddwl, hoffder mawr o efrydu a chyfansoddi barddoniaeth a chwareuganau o amrywiol fath; a gradd o gywirdeb a gwrolder dynol, o'r hyn yr ydwyf yn cofio amryw engreiffitiau a'i hynodai, hyd yn nod y pryd hyny. Yr oeddwn yn ei garu, ac yn ei edmygu; ac er fy mod flwydd neu ddwy yn hŷn nag ef, byddwn yn cael addysg ganddo yn wastadol o'm mebyd. Mewn gair, nis gallaf ddywedyd am y gŵr hynaws a rhyfedd hwn, namyn ei fod yn meddu mwy o rinweddau, a llai o ffaelectedau, nag a welais hyd yma mewn un dyn arall; ac er rhagored oedd ei ben, fod ei galon yn rhagorach. Ni pheidiais a'i edmygu o'r pryd y gwelais ef gyntaf; ac ni phalla fy mharch i'w ragoriaethau, na'm gofid am ei golli, hyd oni therfyno fy einioes."

Enciliai Dr. Thackeray o fod yn Brifathraw yr ysgol yn Harrow, pan oedd ei ysgolor hwn wedi cyrhaedd y bymthegfed flwydd o'i oedran; ac er nad arferai y gŵr da, a'r athraw enwog hwnw, byth ganmawl cyfansoddiadau goreu ei ysgolorion, am ei fod yn barnu y tueddai hyny i'w gwneyd yn hunandybus, neu yn ddilafur, eto ei dystiolaeth am Jones ydoedd, "Ei fod yn fachgen o feddwl mor fywiog, fel pe ei gadawid yn noeth a diborth ar wastadedd Salisbury, y buasai efe er hyny yn cael y ffordd i enwogrwydd a chyfoeth."

Olynwyd Dr. Thackeray fel Prifathraw Harrow gan Dr. Sumner, yr hwn a ganfyddodd ragoriaethau ei ysgolor hwn yn fuan; ac yn ystod y ddwy flynedd y bu Jones dan addysg yr athraw enwog hwn, efe a'u

treuliodd yn y modd mwyaf diwyd yn darllen ac yn efelychu yr hen awdwyr goreu; ac ni chyfyngodd ei efrydiau at gyfansoddiadau Groeg a Rhufain yn unig, eithr efe a ddysgodd y wyddor Arabaidd, ac a efrydodd gymaint ar yr iaith Hebraeg, fel ag i'w alluogi i ddarllen rhai o'r Salmâu yn yr iaith wreiddiol. Mor ddiderfyn ydoedd ei awydd am wybodaeth, fel y treuliai yn fynych nosweithiau cyfain i efrydu; ac yr oedd ei gynnydd fel canlyniad yr ymdrechion anghyffredinol hyn yn gyfryw fel y daeth yn fuan i'r ffafr uchaf gan ei athraw, yr hwn a ddywedai yn fynych fod Jones yn fwy hyddysg yn mhriod-ddull yr iaith Roeg nag ydoedd ef ei hun.

Wedi cyrhaeddyd o hono yr eilfed flwydd ar bymtheg, o'i oedran, penderfynwyd ei symud i un o'r prifysgolion; ac wedi ymgynghori âg amryw, efe a ddewisodd Rydychain. Wedi preswyllo dros rai misoedd yn y brifysgol, ar yr 31ain o Hydref, 1764, efe a etholwyd yn unfrydol yn un o bedwar o Ysgolorion, ar waddoliad Syr Simon Bennett, i hael-fryledd yr hwn y cydnabyddai ei ddyled ar hyd ei oes; ond er mor awyddus ydoedd am gael cymrodoriaeth (*fellowship*), nis gallai ddysgwyl y gêd hono yn fuan, gan fod tri eraill hŷn nag ef i'w flaenori.

Y pryd hwn dechreuodd ei hoffder neillduol o Lenyddiaeth Ddwyr-einiol ymddangos yn ei waith yn efrydu yr Arabaeg, i'r hyn ei cymhellid yn gryf trwy siampl ac annogaeth cydefrydydd galluog a theilwng, yr hwn a gyrhaeddasai fesur o gydnabyddiaeth â'r iaith enwog hono, ac a gynnygiai fenthyg y llyfrau goreu iddo, o'r rhai y meddai gyflawnder; ac er dysgu cynaniaeth yr Arabaeg efe a gynnorthwyd gan frodor o Aleppo, yr hwn a allai siarad ac ysgrifenu yr Arabaeg werinaidd yn rhwydd; ond nis gwnelai unrhyw ymholiad i ddysgeidiaeth. Daethai Mr. Jones i gyfaryddiad â'r Syriad hwn yn ddamweiniol yn Llundain, a llwyddodd i gael ganddo ddyfod gydag ef i Rydychain, dan addewid i'w gynnal yno; a bu raid iddo gyflawni yr addewid hon ar ei draul ei hun yn hollol am amryw fisoedd, er mai prin y goddefai ei amgylchiadau iddo wneuthur hyny; gan iddo gael ei siomi yn ei ddysgwyliadau y buasai rhai o'i gydefrydwyr yn dueddol i ddefnyddio y cyfle i gael gwasanaeth y Syriad, ac yn cyfranogi âg ef yn nhrraul ei gynnal.

Ei athrawon colegawl, yn gweled lwyred y cysegrai ei holl oriau i ddiwyllio ei feddwl, a'i hesgusodent rhag bod yn wyddfodol yn eu darlithiau, gan roddi yn rheswm am hyny y gallai efe ddefnyddio ei amser yn fwy manteisiol; ac ni chawsant eu siomi yn eu dysgwyliadau, canys efe a ddarllenodd yn y modd mwyaf dyfal yr holl feirdd a'r hanesyddwyr Groegaidd o fri, a holl gyfansoddiadau Plato a Lucian, ynghyd a lliaws o'r esbonwyr goreu arnynt; ac efe a ddarllenai eu cyfansoddiadau yn wastadol â'r ysgrifell yn ei law, gan ysgrifenu nodiadau a chyfansoddi darnau, mewn efelychiad o'i hoff awduron. Neillduai ryw gyfran o bob boreu i Mirza, y Syriad crybwylledig, yr hwn a roddai ar waith i gyfieithu chwedlau Arabaidd Galland i'r Arabaeg, ac ysgrifennai y cyfieithiad ei hunan o'i enau ef. Wedi hyny efe a ddiwygiodd wallau grammadegol y cyfieithiad trwy gynnorthwy Erpenius a Golius. Tra yn efrydu yr iaith henafol hon, efe a ddarganfu fod cysylltiad agos rhwng y Bersiaeg ddiweddar â'r Arabaeg, a phenderfynodd feistrolï yr iaith hono hefyd, yn yr hyn trwy ei lafur diball y llwyddodd yn fuan. Treuliai ei ddyspeidiau (*vacations*) yn Llundain, gan ddarllen yr awduron

goreu yn yr Eidalæg, yr Hispaenæg, a'r Portugæg; ac yn y cyfan ddi-lyn y cynllun o addysg a argymhellid gan Milton; ac felly, yn ol ei ddywediad ei hunan, â dim ond eiddo gwerinwr, roddi iddo ei hun addysg tywysog. Ac os cymharir cyrhaeddiadau llenyddol Mr. Jones y pryd hwn â nifer blynyddoedd ei oedran, prin y ceir yn holl gylch buchofyddiaeth engraifft o ddefnyddiad mwy llwyddiannus o amser a thalentau nag a amlygid ynddo ef; a theilynga sylw, nad oedd ef yn llai dyledus am ei gyrhaeddiadau i'w ddiwydrwydd anghyffredin a threfniad ei lafur, nag ydoedd i'w alluoedd rhagorol.

Gan ei fod yn ymwybodol fod y draul gysylltiedig â'i addysgiaeth, er ei holl gynnilddeb, yn tolli yn lled drwm ar gyllid prin ei fam, efe a deimlai yn dra awyddus am gael cymrodoriaeth, fel y gallai ei rhydd-hâu hi oddiwrth y cyfryw faich; a phe buasai rhyw olwg ar gael hyny yn fuan, ni fuasai unrhyw demtasiwn yn ei lithio i adael y brifysgol; ond pan oedd efe yn dechreu anobeithio cael cymrodoriaeth, efe a gafodd gynnygiad i fod yn athraw personol i Arglwydd Althorpe (wedi hyny Iarll Spencer). Efe a arganmolaisid i deulu y pendefig uchod gan Dr. Shipley, yr hwn nad oedd yn meddu adnabyddiaeth bersonol o hono y pryd hyny; ond a'i hedmygai yn fawr ar gyfrif ei gyfansodd-iadau dysgedig tra yn Harrow. Derbyniwyd y cynnygiad gan Mr. Jones yn llawen; ac yn ei bedwaredd flwydd ar bymtheg efe a aeth i fyny i Lundain, a chafodd foddhâd mawr yn hyfoesedd ei ddsygybl, yr hwn nid oedd namyn saith mlwydd oed y pryd hyny. Wedi dychwelyd i Rydychain, lle yr arosodd dros rai misoedd, efe a aeth i Wimbledon Park, yn haf y flwyddyn 1765, i gymeryd gofal addysg-iaeth y pendefig ieuanc.

Yr oedd y cyfnewidiad hwn yn ei sefyllfa yn fanteisiol iddo mewn amryw ystyriaethau, gan y dygid ef trwy hyn i sylw y dosbarth uchaf mewn cymdeithas, ac y caffai drigfa yn un o'r lleoedd mwyaf hyfryd yn y deyrnas. Meddai wrthddrychau newyddion i dynu ei sylw hefyd, a gwaith dyddorol, yn nghyflawniad yr hwn y mwynhâi lawer o foddhâd. Yn y cyfamser dilynai ei lafur llenyddol yn ddiwyd, gan gyfansoddi amryw bryddestau Seisonig, a darllen y rhan fwyaf o'r Hen Destament yn Hebraeg, yn enwedig Llyfr Job, a'r Prophwydi, y rhai a efrydai gyda dyfalwch mawr.

Yn ystod yr haf canlynol, trwy gydgyfarfyddiad annysgwyladwy amgylchiadau, dyroddwyd cymrodoriaeth iddo, yr hon yn ei gyfrif ef a'i gwnelai yn hollol annibynol; ac efe a aeth i Rydychain dros yspaid byr, fel y gallai fyned trwy ffurfiau rheolaidd etholiad a derbyniad. Yn y canlyniad efe a etholwyd yn gymrawd ar berthogiad Syr Simon Bennett, ar y 7fed o Awst, 1766.

Ar ei ddychweliad i Wimbledon, efe a anrhydeddwyd â chynnygiad oddiwrth Ddug Grafton, y Prifweinidog ar y pryd, i gael ei benodi i'r swydd o Gyfeithwr yr Ieithoedd Dwyreiniol; ond er na buasai ei dderbyniad o'r cyfryw swydd yn ymyraeth dim â'i orchwylion na'i ymrwym-iadau eraill, efe a'i gwrthododd yn foesgar, ond yn ddibetrus, ac a ddymunai yn daer ar fod y swydd yn cael ei rhoddi i'w gyfaill Syriaidd Mirza, i'r hwn yr ysgrifenasai y cymeriad uchaf. Ond ni chymerwyd sylw o'r cais hunanymwadol hwnw; a'i siomedigaeth a barodd iddo ymofid o herwydd ei anadnabyddiaeth o'r byd, am na buasai wedi

derbyn y swydd gynnygiedig, a chyflwyno yr elw oddiwrthi i'w gyfaill.

Yn ystod ei arosiad yn Wimbledon yr haf hwn, efe a ffurfiodd gyd-nabyddiaeth âg Anna Maria, merch henaf Dr. Shipley, y pryd hyny Deon Caerwynt, wedi hyny Esgob Llanelwy, yr hon ymhen rhai blynyddoedd a briododd efe. Yn yr Hydref canlynol symudai teulu Arglwydd Spencer i Lundain, ac yno efe a wnaeth yn fawr o'i gyfleus-derau i ymberffeithio mewn ymarferion boneddigaidd; eithr yn benaf oll efe a werthfawrogi y llyfrfa werthfawr oedd yn Althorpe, lle y cyfarfu â'r tryscrau meddyliol gwerthfawrocaf yn ei olwg ef, ac efe a wnaeth ddefnydd dyfal o'i chynnwys. Dyma y pryd, pan yn un mlwydd ar hugain oed, y dechreuodd efe ei Esboniadau ar Farddoniaeth Asiaidd, gan efelychu Darlithiau Dr. Lowth yn Rhydychain, ar Farddoniaeth Gysegredig yr Hebreaid.

Tua diwedd y flwyddyn 1767 efe a ddygwyddodd ddarllen traethawd bychan o waith Fortescue, yn yr hwn y canmolai gyfreithiau Lloegr; ac er ei fod ar y cyntaf wedi ei dueddu i'w ddarllen o herwydd sylm-rwydd arddull Lladin y gwaith, yn hytrach na'r testun, efe a deimlodd yn fuan gymaint o ddyddordeb yn y llyfr, fel yr ymroddodd i'w efrdydu gyda chryn fanylrydd, ac arweiniodd hyn ef yn naturiol i gymharu cyfreithiau Lloegr â'r eiddo gwledydd eraill; a chyda hyfrydwch mawr y canfyddai eu bod yn tra rhagori ar gyfreithiau pob gwlad arall, hen neu ddiweddar. Addefai nad oedd efe wedi cael unrhyw ddychymyg am y cyfryw ffaith o'r blaen. Ac yn awr efe a feddai fwy o gymhwys-der i farnu yn gywir am ragoriaethau a diffygion gwerinlywodraethau Groeg a Rhufain, at y rhai y teimlai duedd gref, fel yr oedd yn naturiol i edmygydd brwdfrydig o areithwyr a beirdd y cenedloedd hyny; ond erbyn iddo ymroddi i gymharu eu deddfwriaeth â'r eiddo Prydain, meddiennid ei feddwl â'r parch mwyaf i sefydliadau ei wlad ei hun, er nad oedd yn ddisywl o'r gwyrni mewn ymarferiad a welid yn aml oddiwrth berffeithrwydd damcaniadol y ffurfiywodraeth, yn enwedig yn yr ymrysonfeydd etholiadol.

Yn ngwanwyn y flwyddyn 1768 efe a symudodd o Althorpe i Wimbledon, lle y derbyniodd genadwri oddiwrth Mr. Sutton, yr hwn oedd ar y pryd yn is-ystrifenydd i'r Dug o Grafton, yn dymuno arno wneyd cyfieithiad llythyrenol i'r Ffrancaeg o ysgrifyfr Dwyreiniol yn cynnwys buchedd Nadir Shah, yr hwn a ddygasai brenin Denmarc drosodd, er cael ei gyfieithu yn Lloegr. Ond ymwrthodai Mr. Jones â'r gorchwyl am amryw resymau, ac enwai foneddwr (Major Dow) galluog i ymgymeryd â'r gwaith; ond pan roddid y cais o flaen y boneddwr hwnw, ymesgusodai yntau ar gyfrif ei ymrwymadau, ac yna adnewyddwyd y cais ar Mr. Jones, gan awgrymu y byddai i'w waith yn cydsynio droi allan yn dra manteisiol iddo ar ddechreuad ei yrfa gyhoeddus; ac uwchlaw y cyflwyniad, ychwanegid y byddai yn anghlod i'r deyrnas hon os gorfyddid brenin Denmarc i gymeryd yr ysgrifyfr i Ffrainc i gael ei gyfieithu. Y cymhelliadau uchod, yn enwedig yr olaf, a barodd iddo ymgymeryd â'r gorchwyl pwysig, yr hwn a orphenwyd ganddo mewn tua blwyddyn o amser; ond ni chyhoeddwyd y cyfieithiad hyd y flwyddyn 1770. Rhoddes y gorchwyl yma foddhâd mawr i frenin Denmarc; a dyg lawer o anrhydedd ar y cyfieithydd, yr hwn a gyf-

lawnodd y fath orchestwaith pan nad oedd namyn tair blwydd ar hugain oed.

Tua'r amser yma efe a ddaeth i gydnabyddiaeth â boneddwr o'r enw Reviczki, yr hwn wedi hyny a fu yn llysgenadr i Loegr, ag ydoedd yntau wedi ei lwyrr feddiannu gan hoffder at lenyddiaeth Ddwyreiniol; ac yn y canlyniad bu gohebiaeth serchog rhyngddynt dros amryw flynyddoedd, trwy yr hyn yr annogent ac y cynnorthwyent y naill y llall yn eu hoff efrydiau.

Yn y flwyddyn 1770 penderfynodd Mr. Jones gychwyn ar yrfa newydd o fywyd; canys pa foddhâd bynag a allai fod yn ei fwynhâu o'i gysylltiad â'r teulu pendefigaidd yn yr hwn yr ymgymerasai â'r swydd o athraw, a pha ad daledigaeth bynag a allai obeithio dderbyn oddiar eu llaw yn y diwedd, nid oedd y sefyllfa yn gyfryw ag a atebai yn gyflawn i'w deuladau nac i'w ragolygon. Heblaw yr ysbryd anni-bynol a'i nodweddai o'i flynyddoedd boreuaf, efe a feddiennid hefyd â dymuniad canmoladwy i gyrhaedd enwogrwydd a chyfoeth trwy ei ymdrechion ei hunan; ac uwchlaw y cwbl, efe a ddylanwadid yn rymus gan awyddfryd am allu bod yn wasanaethgar i'w wlad; ond yn y cymeriad o athraw anghyhoedd, ni allasai gael namyn arwel fechan i'w ddysgwyliaidau, a maes cyfyng i'w ymdrechion, tra y gwelai y buasai yr alwedigaeth gyfreithiol yn ei roddi mewn sefyllfa fanteisiol i gael diwallu ei holl ddymuniadau; a meddai y rhesymau cryfaf i ddysgwyl bod yn dra llwyddiannus, ar gyfrif ei wybodaeth eang, ei ymarferion efrydawd, a'i ddiwydrwydd diball; ac fe'i cadarnheid yn ei benderfyniad hwn trwy gymhelliadau taerion ei gyfeillion. Felly yn haf y flwyddyn grybwylledig (1770) efe a dderbyniwyd i'r "Deml," fel efrydydd y gyfraith. Ond nid oedd yn hawdd iddo gyfyngu ei efrydiaeth i faes y gyfraith ar unwaith, nac ymryddhâu yn ebrwydd o reffynau ei orhoffedd o ddysgeidiaeth a llenyddiaeth Ddwyreiniol, fel y gwelir yn amlwg oddiwrth ei liaws llythyrâu yn yr adeg hon at amryw gyfeillion dysgedig; er hyn yr oedd efe yn dra phryderus am ochel rhoddi lle i neb dybied ei fod yn treulio dim o'i amser a ddylasai ei ddefnyddio i efrydu y gyfraith, er coledd yr awen, ac efrydu barddoniaeth Ddwyreiniol.

Ar y 30ain o Ebrill, 1772, efe a etholwyd yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol, a derbyniwyd ef ar y 14eg o Fai y flwyddyn hono; ond nid yw yn ymddangos iddo anfon unrhyw bapyr i'w gyhoeddi yn y Gweithrediadau Athronyddol

O fewn yr un flwyddyn efe a gyhoeddodd gyfrol fechan o bryddestau, yn gynnwysedig gan mwyaf o gyfeithiadau o'r ieithoedd Asiaidd; ac arddawd, yn cynnwys dau draethawd mewn rhyddiaith. Ac yn nechreu y flwyddyn 1774 efe a gyhoeddodd ei Arnodiaidau ar Farddoniaeth Asiaidd, gwaith a dderbyniwyd gydag edmygedd a chlodforedd gan ysgolorion Dwyreiniol Ewrop yn gyffredinol, yn gystal a chan ddysgedigion ei wlad ei hun. Fe allai mai dyma y cyhoeddiad cyntaf ar lenyddiaeth Ddwyreiniol a deilyngai ganmoliaeth gyfartal ar gyfrif ei ddysgeidiaeth ddofn a'i goethder. Dechreuasid y gwaith hwn gan Mr. Jones yn y flwyddyn 1766, ac fe'i gorphenwyd yn y flwyddyn 1769, pan oedd efe yn y drydedd flwydd ar hugain o'i oedran; ond gyda'r cyfelyb bryder ag a ddangosai ar achlysuron eraill am ddwyn ei gyfansoddiadau o flaen y cyhoedd yn y perffeithrwydd mwyaf oedd yn

ddichonadwy, efe a gyflwynasai yr ysgrif i sylw a beirniadaeth ei gyfeillion dysgedig drachefn a thrachefn; ac yr oedd eu cymeradwyaeth o'r gwaith yn ddibrin a chyffredinol. Ar derfyn yr Arodiadau y mae ganddo gyfarchiad hyawdl i'r awen, yn yr hwn y dadganai ei benderfyniad i gefnu ar lenyddiaeth gaboledig, ac ymroddi yn gwbl oll i efrydu y gyfraith. Efe a alwyd i'r bwr yn Ionawr 1774; ac fel yr ysgrifennai at gyfaill mynwesol ar yr achlysur, darganfu mai gwyddoniaeth eiddigus oedd y gyfraith, ac nas goddefai gydfaelieraeth â'r awenolion Dwyreiniol. Ymddengys iddo lynu yn ddiwyrni wrth y penderfyniad uchod dros rai blynyddoedd, er ymliwiadau cyfeillgar a chymhelladau taerion ei ohebwyd dysgedig, â'r rhai y cynnalai ohebiaeth helaeth y dyddiau hyn.

Er fod Mr. Jones wedi ei alw i'r bwr yn y flwyddyn 1774, nid ymddengys ei fod wedi dechreu ymarfer fel dadleuydd cyfreithiol hyd y flwyddyn ganlynol, pan ein hysbysir ei fod yn dilyn cychleidaith y Gwanwyn, a brawdlysoedd Rhydychain; ond yn y cyfamser efe a ymroddai gyda'r diwydrwydd mwyaf i efrydu y gyfraith yn ei hamryfal ganghenau. Erbyn y flwyddyn 1777, fel yr ymddengys oddiwrth un o'i lythyrau at ei gyfaill H. A. Schultens, yr oedd ei orchwylion cyfreithiol yn cymeryd ei holl amser i fyny yn llwyr. Erbyn y flwyddyn 1780 yr oedd gorchwylion ei alwedigaeth wedi cynnyddu yn ddirfawr, fel yr oedd y gobeithion claeaf yn ymagor o'i flaen am ddyfodol tra llwyddiannus; ond yn gymaint a'i fod wedi cael sail gref i ddysgwyl, drwy ffafr Arglwydd North, cael ei benodi i eisteddle ar fainc ynadol Fort William yn Bengal, nid oedd efe mor awyddus am chwanegeu gorchwylion ei alwedigaeth gyfreithiol yn Mhrydain, am y buasai raid iddo roddi y cwbl i fyny os llwyddai i gael y cyfryw benodiad i'r India. Tra yr oedd ei feddwl yn y cyflwr anhenderfynol yma, troai ei sylw yn fwy nag arferol at helyntion gwleidyddol yr amserau, eto nid ymrestrai yn gyhoeddus dan luman unrhyw blaid; ond gan edrych ar ffurfwodraeth a rhyddid ei wlad fel gwrthddrychau ei edmygedd mwyaf, efe a feithrinai ymgydnabyddiaeth helaeth â dynion o bob plaid, ac o'r sefyllfeydd uchaf a'r talentau gloewaf, heb aberthu barn nac egwyddor.

Yr oedd y rhyfel rhwng y fam-wlad a'r trefedigaethau yn Ngogledd America yn tynu sylw pob dosbarth yn Mhrydain y blynyddoedd hyn, ac yn destun dadleuon mawrion rhwng dynion blaenaf y deyrnas yn Senedd Lloegr; ac o'r dechreuad yr oedd Mr. Jones wedi ffurfio barn anffafriol i gyfiawnder hawliau y fam-wlad yn y cweryl; a pharhâd yr ymrysonfa a'i cryfhâi yn ei farn, ac a barai iddo, gyda theimladau gwir wladgarwr, ymofido a galarn. Y teimladau hyn a'i cynhyrfodd i gyfansoddi Pryddest Ladinaidd odidog i Ryddid, dan y ffugenw "*Julii Melesigoni ad Libertatem*," yr hon a gyhoeddwyd yn mis Mawrth, 1780. Yn y cyfamser, hysbysai Syr Roger Newdigate ei fwriad i roddi i fyny ei sedd fel cynnrychiolydd Prifysgol Rhydychain yn Nhŷ y Cyffredin; a chymhellid Mr. Jones gan amryw o'i gyfeillion i ddyfod ymlaen fel ymgeisydd, â'r hyn y cydsyniodd ar y cyntaf; ond fel yr oedd adeg yr etholiad yn nesáu, efe a anfonodd at amryw o'i gyfeillion i'w hysbysu ei fod ef, oddiar ragolwg o'r annhebygrwydd y buasai eu hymdrechion yn llwyddiannus i sicrhau ei etholiad, yn dymuno tynu yn ol, yn hytrach na goddef iddynt fyned i draul a thrafferth fawr ar ei ran ef.

Tua'r adeg hon efe a gyfarfu â phrofedigaeth lem yn marwolaeth ei fam, yr hon a feddai yr hawliau cryfaf ar ddiolchgarwch a serchawgrwydd ei mab; a gellir dywedyd yn ddibetrus, na fu neb erioed gyflawnodd ddyledswyddau mab i'w fam yn fwy siriol a serchog na Mr. Jones. I'w hyfforddiad galluog hi yr oedd efe yn ddyledus am elfenau cyntaf llenyddiaeth; hi a'i cyfarwyddai yn ofalus yn ei efrydiau boreuol, ac a ffurfiai ei ymarferion a'i chwaeth; a thrwy y cynnildeb mwyaf gofalus, fe'i galluogwyd i gefnogi ei gynnydd mewn dysgeidiaeth, trwy y cynnorthwyon arianol gofynol i'r perwyl hyny; ond o'r pryd yr ennillodd efe gymrodoriaeth, efe a wrthododd dderbyn unrhyw gynnorthwy o'r fath ganddi; ac fel y cynnyddai ei ennillion oddiwrth ei alwedigaeth, yr oedd ei eiddo ef yn wastad at alwad ei fam. Yn ystod ei arosiad yn Rhydychain, cysegrai ei oriau hamddenol i'w chymdeithas; ac yr oedd ei barch iddi yn gynnyrch egwyddor a serchawgrwydd; a'r fath oedd ei ymddiried yn ei barn, fel yr ymgynghorai â hi ar bob achlysur a berthynai i'w lesion mwyaf pwysig; ac yr oedd y boddhâd a fwynhâi yn yr enwogrwydd a ennillai ei alluoedd dihafal iddo, yn cael ei ychwanegu yn ddifawr trwy yr ymwybyddiaeth o'r hyfrydwch a barai hyny i'w fam.

Wedi cyfwng o tua chwe' blynedd, nynta a gawn Mr. Jones yn adnewyddu ei gyfathrach â'r Awenau Arabaidd; canys efe a neillduai oriau seibianol gauaf 1780-1 i orphen ei gyfeithiad o saith o hen brydestau enwocaf Arabia.

Yn nechreu y seithfed ganrif cafodd yr Arabæg ei pherffeithio i radd uchel iawn, trwy fath o athrofa farddonol—nid annhebyg i Eisteddfod y Cymry—yr hon a ymgynnullai ar amserau gosodedig, mewn lle a elwid Ocadh, lle y dygai pob bardd ei gyfansoddiad goreu allan, ac y byddai yn sicr o gael y ganmoliaeth a deilyngai: y pryddestau godidocaf o'r rhai hyn a adysgrifwyd mewn llythyrenau aur, ar bapyr Aiphtaidd, ac a grogwyd i fyny yn Nheml Mecca; am ba achos eu gelwid "Mozahabat," neu yr *euraidd*; a "Moallacat," neu crogedig. Pryddestau o'r fath yma a elwid yn Fugeilgerddi; o ba rai y mae saith ar gael yn ein llyfrgelloedd, ac fe'u cyfrifir y rhagoraf a ysgrifenyddwyd cyn amser Mohammed. Yr oedd llenyddiaeth, gwleidyddiaeth, a'r gyfraith, oll yn tynu sylw Mr. Jones i fesur helaeth; ond prif wrthddrych ei obeithion a'i uchelgais oedd y sedd wag ar y faine ynadol yn India, at yr hyn yr edrychai ymlaen gyda mwyfwy o bryder.

Yn mis Mawrth, 1783, yn ystod gweinyddiaeth Arglwydd Shelburne, efe a benodwyd yn farnwr Uchel Lys Cyfiawnder yn Fort William, Bengal, ar ba achlysur y gwnaed ef yn Farchog; ac yn y mis Ebrill canlynol, efe a briododd Anna Maria Shipley, merch henaf Esgob Llan-elwy; ac o fewn corff yr un mis, efe a hwyliodd am India, yn y gad-long Crocodile, yn 37 mlwydd oed, a'i holl alluoedd yn eu llawn yni, gan edrych ymlaen yn awchus, am yr hyfrydwch a'r manteision a gyfodent iddo o'i sefyllfa yn yr India, heb ddechymygu unwaith y buasai hinsawdd y wlad yn andwyl i'w gyfansoddiad. Wedi mordaith gysurus o agos i bum' mis, efe a laniodd yn Calcutta, cyn diwedd mis Medi, 1783; ond yr oedd ei enwogrwydd wedi ei ragflaenu yno, a'r dysgwyliad am dano yn fawr; ac efe a gafodd yr hyfrydwch o ddeall fod ei benodiad i'r swydd bwysig yn India wedi rhoddi boddhâd cyff-



redinol. Yr oedd efrydwy'r yr ieithoedd Dwyreiniol yn awyddus i groesawu i'w mysg y fath ysgolor addfed, yr hwn yr oedd ei lafur a'i athrylith wedi bod o wasanaeth mawr iddynt yn barod; tra y llawenychai y cyffredin am eu bod yn meddu un yn brifynad ydoedd mor enwog am ei onestrwydd profedig a'i annibyniaeth meddwl ag ydoedd efe am ei alluoedd.

Yn mis Rhagfyr efe a ddechreuodd ar weinyddiad ei swydd fel Barnwr; a'i siars gyntaf i'r uchelreithwyr ar agoriad y brawdlys a roddodd foddlonrwydd mawr. Yr oedd ei gyfarchiad yn hyawdl, yn gynnwysfawr, ac yn gyfaddas—ei eglurhâd o'i syniadau a'i egwyddorion yn wrol ac ennillgar, gan dueddu i gynnyrchu ymddiried ynddo fel un wedi dyfod i'w mysg i weini cyfiawnder yn ddiuedd i bob dosbarth.

Yn nghyfyngau ei seibiant oddiwrth orchwylion ei swydd, efe a gyfeiriai ei sylw at faterion gwyddonawl, a chanfu yn fuan bod y maes ymchwiliad yn India mor eang a goludog, fel nas gallai un dyn, pe y mwyaf ymroddgar a galluog, wneyd nemawr o hono; a pha lwyddiant bynag a allasai ddilyn ei lafur diball ef ei hunan, nas gellid ei chwilio yn effeithiol ond yn unig trwy gael llawer yn ymroddgar i gyd-lafurio. Am hyny efe a ymroddodd i sefydlu cymdeithas yn Calcutta, ar gynllun cymdeithasau oeddynt wedi eu sefydlu yn mhrif ddinasoedd Ewrop, fel y moddion tebycaf i symbylu a rhwyddhâu ymchwiliadau y cywraïn, ac i sicrhâu cadwraeth y traethodau bychain lliosog a fuasent heb hyny yn myned ar goll, gan gydgrynhoi yr holl wybodaeth fuddiol a ellid gael yn Asia. Penderfynwyd dilyn cynllun y Gymdeithas Frenhinol yn Llundain, mor agos ag y gellid; ac yn y cyfarfod cyntaf penderfynwyd anfon cyfarchiad at Lywiawdwr Cyffredinol yr India, sef Warren Hastings, Ysw., yr hwn a fuasai yn gefnogwr calonog i wybodaeth fuddiol yn Bengal, i ofyn iddo fod yn llywydd y gymdeithas; ond y boneddwr hwnw a wrthodai dderbyn y cyfryw swydd ar gyfrif dyledswyddau pwysig a lliosog ei seyllfa, a chyfeiriai at Syr William Jones fel y cymhwysaf o bawb i fod yn llywydd y gymdeithas y buasai ef yn brif foddion ei sefydliad. Mewn canlyniad i hyn darfu i'r holl aelodau yn unfrydol ddeisyfu ar Syr William i ymgymeryd â llywyddiaeth y gymdeithas; ac wedi ei sefydlu yn rheolaidd, efe a gyfleodd o flaen yr aelodau mewn araeth hyawdl y cyfeiriadau y buasai yn ddymunol iddynt droi eu hymchwiliadau iddynt; ac a derfynodd trwy addaw gwneyd yn hysbys iddynt ffrwyth ei efrydiaeth a'i ymchwiliadau ei hunan, yr hon addewid a gyflawnodd yn helaeth.

Er ei gymhwyso i gwblhau yr addewid uchod mewn modd teilwng o'i enwogrwydd blaenorol, yn gystal ag oddiar gymhelliadau uwch, efe a benderfynodd ddechreu efryd y Sanscrit yn ddioed. Awgrymasid i'w feddwl o'r blaen y buasai hyddysgrwydd yn yr hen iaith hono o'r gwasanaeth mwyaf i'w alluogi i weinyddu barn yn India, gyda hyder a boddhâd iddo ei hunan; ac efe a ganfu yn fuan nad oedd fawr o ymddibyniad i'w roddi ar farn y cyfreithwyr brodorol, na'u hesboniad ar y gyfraith Hindwaidd, oddieithr ei fod yn abl i chwilio ei hunan i'r awdurdodau o ba rai y proffesent eu bod yn gwneyd eu dyfyniadau, ac felly gael allan eu cyfeiliornadau a'u camddarluniadau. Ac ar y llaw arall, efe a wyddai y byddai pob cais i olrhain crefydd neu lenyddiaeth

India trwy unrhyw gyfrwng heblaw cydnabyddiaeth â'r Sanscrit, yn rhwym o fod yn anmherffaith ac anfodddhäol. Fel cyfreithiwr, efe a wyddai pa mor werthfawr a phwysig ydoedd ysgrifeniadau a chofnod-iadau gwreiddiol; ac fel gwyddonwr ac ysgolor, efe a ddirmygai y meddwl am ddifyru y byd dysgedig â hysbysiaeth ail llaw ar destunau a gyffröent eu chwilfrydedd, tra yr oedd dyfodfa at y ffynonellau yn gyrhaeddadwy iddo. Ac heblaw hyn oll, efe a wyddai fod dysgedigion Ewrop yn dysgwyl llawer oddiwrth ei alluoedd a'i ddysg rhagorol ef; a theimlai yr awydd cryfaf i gyfarfod â'u dysgwyliadau hyd yr eithaf.

Dan ddylanwad y snyiadau hyn, efe a benderfynodd ymweled â Benares yn ystod haf y flwyddyn 1784; ac ymddengys iddo fod yn glaf iawn amryw weithiau ar y daith hono; er hyny efe a gafodd fantais i ymgydnabod âg amryw Hindwaid dysgedig, ac i erlyn ei hoff ymchwil-iadau i'w golygiadau a'u defodau crefyddol. Bu yn aros dros rai wyth-nosau yn glaf, yn nhŷ ei gyfaill dysgedig Mr. Chapman, yn Bhagilpoor, a thrachefn yn Patna; ac er ei fod yn llesg iawn pan gyrhaeddodd y lle hwn, nid attaliodd hyny ef i fyned ar hyd y tir i Guyah, man genedig-aeth Boudh, awdwr cyfundrefn o athroniaeth atheistaidd, a mwy enwog fel cyrchle blynyddol pererinion Hindwaidd o bob parth o'r India. Oddiyno efe a aeth i ddinas Benares, lle y cafodd gyfleusdra i weled athrawon y grefydd Hindwaidd, yn y Brifysgol henaf ac enwocaf yn India. Wedi arosiad byr yn y ddinas hon, efe a ddechwelodd ar hyd yr afon Ganges i Bhagilpoor; ac ar ei daith o'r lle hwn i Calcutta, efe a ymwelodd â Gour, a fuasai unwaith yn drigle penaduriaid Bengal.

Yn ystod y daith uchod, er ei fod yn dyoddef llawer gan afiechyd, efe a gyfansoddodd draethawd ar Dduwiau Groeg, yr Eidal, a'r India, yr hwn a gyflwynodd efe i'r Gymdeithas a sefydlasai yn Calcutta. Amcan y traethawd hwn oedd dangos y cyffelybrwydd neillduol ydoedd rhwng defodau addoliad poblogaidd yr hen Roegiaid a'r Eidaliaid, â'r eiddo yr Hindwaid; a rhwng eu crefydd ryfedd hwy â'r eiddo yr Aipht, China, Persia, Phrygia, Phenicia, a Syria, a hyd yn nod âg eiddo cenedloedd eraill, mwy pellenig,—cyffelybrwydd rhy gyffredinol i fod yn ddamweiniol. Oddiwrth hyn efe a sylwai, os gellid profi y cyffelybrwydd yma yn foddhaol, y profai hyny fod undeb a pherthynas gyffredinol rhwng prif drigolion y cynfyd, pan ddechreusant wro oddiwrth addoliad rhesymol yr unig wir Dduw.

Cafodd y daith yma yr effaith ddymunol o lwyrr adferu ei iechyd, fel ei galluogid, ar ei ddychweliad, i ail ddechreu ar weinyddiad ei swydd yn Uchel Lys Barn, ac adnewyddu cyfarfodydd y Gymdeithas, y rhai a roddasid i fyny yn ystod ei absenoldeb ef.

Yn y blynyddoedd 1785 a 1786, nynt a'i cawn yn defnyddio pob cyfleusdra yn ei arfod i feistrolï y Sanscrit; ac er cynifer o orchwyl-ion pwysig eraill a hawlient ei amser a'i sylw, ymddengys ei fod wedi llwyddo i ddatod cloion yr hen iaith gysegredig i fesur helaeth, erbyn diwedd y flwyddyn olaf a nodwyd.

Yr oedd Syr William yn awyddus er ys talm am ymweled â Chati-gan, ffin ddwyreiniol y tiriogaethau Prydeinaidd yn Bengal, er mwyn cyrhaedd adnabyddiaeth o gyflwr y wlad ac o foesau a nodweddu y brodorion, trwy sylwadaeth bersonol a lleol; a chan ei fod yn llwyr argyhoeddedig o'r angen am y cyfryw gyfnewidiad, er adferiad ei

iechyd, yr hwn oedd wedi ei anmharu trwy ei ymroddiad diorphwys yn ngweinyddiad ei swydd fel barnwr; y rhan olaf o'r flwyddyn 1785 efe a ymgymherodd â'r daith ddechreu y flwyddyn ganlynol, gan fyned i Chatigan, ar hyd y môr, yn mis Chwefror; ac yn ystod yr ychydig fisoedd yr arosai yn y rhan hon o'r India, ni phallai ei lafur i berffeithio ei adnabyddiaeth o lenyddiaeth a llysieuaeth Persia ac India; ac yn enwedig efe a efrydai y deddflyfrau Sanscritaidd henaf, er mwyn ei alluogi i wneyd crynodeb cyflawn o gyfreithiau yr Hindwaidd a'r Mahomedaniaid yn yr iaith Saesoneg. Yn gynnar yn yr haf efe a ddychwelodd i Calcutta, i eistedd yn y Brawdlys; ac ar ei ddychweliad, effeithiai gwres angerddol yr hinsawdd mor fawr ar Syr William a'i foneddiges, fel y bu raid iddynt aros dros rai dyddiau yn Comarcaly, i ddysgwyl am ryw gyfleusdra i orphen y daith mewn ffordd wahanol i'r hon a fwriadent ei chymeryd pan yn cychwyn.

Yn mis Medi, 1787, cyrhaeddodd Llywydd Cyffredinol yr India, sef Arglwydd Cornwallis, i Fort William; ac yn ei ddilyn yr oedd Mr. Shore, wedi hyny Arglwydd Teignmouth, yr hwn a gawsai gyfleusdra i ymgynabod â Syr William Jones cyn iddo adael Prydain, ac a deimlai yn falch o'r cyfleusdra hwn i adnewyddu ei gyfeillach personol âg un y meddai y fath barch diffuant i'w nodweddiad dysglær a'i ddysgeidiaeth ddigyffelyb. Y pendefig hwnw, wedi ei ymsefydliad yn India, gan ei fod o gyffelyb chwaeth i Syr William, a gadwai i fyny ohebiaeth gyson âg ef; ac wedi ei farwolaeth, efe a ysgrifennodd gofiant dyddorol am dano, yn cynnwys detholion helaeth o'i lythyrau at ei gyfeillion dysgedig lliosog. Gyda golwg ar y rhan olaf yma o oes y Prif Farnwr, dywed ei Fywgraffydd:—"Efe a gysegrai y rhan fwyaf o bob blwyddyn i'r dyledswyddau cysylltiedig â'i swydd fel Prif Farnwr; a'r holl amser a allai ei hebgor oddiwrth y gorchwylion pwysig hyn, a ddefnyddiai yn ddiwyd i feithrin gwyddoniaeth a llenyddiaeth. Efe a attelid weithiau gan yspeidiau o afiechyd, y canlyniad o orlafur; a phrydiau eraill gan anhwylderau mynych a llymion ei foneddiges, yr hon yr effeithiai hinsawdd yr India yn dra niweidiol ar ei chyfansoddiad tyner."

Amcan mawr Syr William, yn ei holl lafur difin, ydoedd gwneyd ei dalentau a'i gyrhaeddiadau yn wasanaethgar i'w wlad, a chyda golwg ar hyn y cyfeiriai ei brif efrydiau. Fel Prif Farnwr, efe a argyhoeddid yn fynych ei fod o'r pwys mwyaf i weinyddwyr cyflawnder a barn yn India fod yn gyfarwydd â hen gyfreithiau y brodorion; ond gan fod y cyfreithiau hyn yn ysgrifenedig mewn ieithoedd anadnabyddus i Ewropeaid yn gyffredin, gwelai fod y Barnwyr Seasonig dan anfantais fawr i benderfynu dadleuon a gyfodent rhwng pleidiau Hindwaidd a Mahomedanaidd, yn ol eu hamryfal gyfreithiau; a'u bod yn ddarostyngedig yn fynych i gael eu camarwain gan gyfreithwyr cyfrwys a thwyllodrus. Am hyny, yn mis Mawrth 1788, efe a anfonodd lythyr maith a gwir alluog at y Llywydd Cyffredinol (Arglwydd Cornwallis), i alw sylw ei arglwyddiaeth at hyny, ac i gyflwyno cynllun o lwybr i gael crynhoed cyflawn a chywir o'r cyfreithiau Hindwaidd a Mahomedanaidd, a chyfieithiad cywir ac eglur o'honynt i'r iaith Saesoneg. Ac er cefnogaeth i'r cais hwn, cynnygiai ymgymeryd â'r gorchwyl pwysig o arolygu a chyfarwyddo y dysgedigion Hindwaidd a Mahomedanaidd a roddid ar y gwaith o wneyd y rheithlyfrau; a hyd y goddefai ei

iechyd, gyfieithu bob boreu, cyn ymgymeryd âg unrhyw orchwylion eraill, gymaint ag a fyddent hwy wedi ei gasglu y dydd o'r blaen. Yn atebiad yr Ardalydd Cornwallis i Syr William Jones, dadganai ei arglwyddiaeth ei gymeradwyaeth drwyadl o'r cynllun; ac ychwanegai ei fod yn ei ystyried yn ffodus dros ben fod gŵr a feddai y fath gymhwysderau i'r gorchwyl yn barod, oddiar egwyddorion mor haelfrydig, i ymgymeryd â llafur mor galed ac o duedd mor fuddiol. Bod y gwaith hwn, yr ymgymerai Syr William â'i gwblhau, yn llafurfawr, a welir yn y disgrifiad canlynol a roddai efe i'r Ardalydd o'r hyn yr ydoedd yn ofynol i'w wneuthur:—"Y *Dhermasastra*, neu reithlyfr cysegredig yr Hindwaid, sydd yn gynnwysedig o *ddeunaw* o lyfrau, y cyntaf o ba rai a fuasai yn cael ei gyfrif mewn unrhyw wlad neu oes yn orchestwaith; ac y mae esboniadau rhagorol ac o awdurdod uchel ar y ddau lyfr cyntaf; ond y mae yr un ar bymtheg eraill mor eglur a dealladwy fel nad oes angen am eglurhad arnynt. Y mae gweithiau *Menu*, *Yagyavalcia*, a'r rhan fwyaf o'r lleill, mewn mesur diodl; ond gwaith *Gautam* sydd mewn rhyddiaith gynghaneddol. Heblaw y rhai hyn, y mae gan yr Hindwaid amryw draethodau cyfreithiol safonol, a'u hamryfal esboniadau, ac yn eu mysg un traethawd godidog ar etifeddiathau, gan *Jemutavahan*, at yr hwn yr arferu ein Brahminiaid dysgedig (*pundits*) gyfeirio yn fynych; er yr ymddengys fod gwaith *Raghunandan* yn fwy cymeradwy yn y dalaeth hon ar y testun hwn. Heblaw ychydig reolau cyffredinol yn y Koran, a nifer o wirebau traddodiadol, oddiworth eu Prophwyd a'i gymdeithion, trwy ddysgawdwyr eu cyfraith, ynghyd ag opiniynau eu cyfreithwyr enwog wedi eu cadw gan eu dysgyblion, medda y Mahomedaniaid ddau o draethodau bychain dieilfydd, y naill gan *Surajuddin*, a'r llall gan *Alkuduri*; y cyntaf ar etifeddiad yn unig, a'r llall ar gyfammodau, ynghyd ag esboniadau ar bob un, ac esboniadau ar y rhai hynny hefyd; heb enwi traethodau eraill o awdurdod addefedig, a chasgliadau mawrion o ddedfrydau mewn achosion neu gyng-hawsau neillduol," &c., &c. Wedi cael cymeradwyaeth y Llywydd Cyffredinol i'r amcan pwysig, dechreuodd Syr William Jones ar y gwaith yn ddioed, ac wedi dethol gyda'r gofal mwyaf, o fysg yr Hindwaid a'r Mahomedaniaid dysgedigaf, nifer digonol o wŷr cymhwys i'r gwaith, efe a dynodd allan gynllun o'r rheithlyfr, a chyfarwyddyd o barth ei drefniad, ac a nododd yr ysgrifau yr ydoedd i'w gasglu o honynt.

Erbyn diwedd y flwyddyn 1793 yr oedd ei briod wedi gwanychu cymaint trwy ddylanwad hinsawdd afiachus yr India, fel y bu raid iddi hwylio am Ewrop yn mis Rhagfyr y flwyddyn hono; a buasai Syr William wedi myned gyda hi, oni buasai ei fod yn dra awyddus am gwblhau y gwaith mawr a ddechreuasai ar gyfreithiau y brodorion.

Yn nechreud y flwyddyn 1794 efe a gyhoeddodd waith, ar yr hwn y buasai yn llafurio yn galed dros amser maith; sef cyfieithiad o "Or-dinhadau *Menu*," y rhai a gynnwysent y gyfundraeth Indiaidd o ddyledswyddau crefyddol a gwladol. Efe a ymgymerasai â'r gwaith hwn oddiar yr un egwyddorion ag a'i cymhellasai i ymgymeryd â'r gwaith o barotol y rheithlyfr,—er cynnorthwyo i ddwyn ymlaen amcanion clodwiw y Llywodraeth gartrefol, i ddiogelu gweinyddiad cyfiawnder i frodorion India, hyd y gellid, yn ol eu cyfreithiau eu hunain. Y mae yr Hindwaid yn cyfrif *Menu* yn gyntaf o fodau crëedig; ac nid yn unig

y deddfwr hynaf, ond y sancteiddiaf hefyd; ac y mae ei gyfundraeth mor gynnwysfawr a manol, fel y gellir ei golygu yn rhaglith briodol i'r rheithlyfr helaethach o gyfreithiau Hindwaidd.

Nid yw "Ordinhadau Menu" yn gyfaddas i fod yn ddarllenadwy i'r lliaws, ond y maent yn arddangos moesoldeb pobl hynod mewn oes dra phell yn ol, ac yn dadlenu yr egwyddorion o gyfundraethau moesol a chrefyddol wrth y rhai y glynai yr Hindwaid yn ddieithriad, er eu darostyngiad hirfaith i arglwyddiaeth dramor.

Ni bu Syr William fyw namyn ychydig fisoedd wedi i'w foneddiges hwylio am Frydain; a defnyddiai y misoedd hyny mewn llafur dybryd i orphen y rheithlyfr Hindwaidd a Mahomedanaidd, gan ei fod yn awyddus am ddychwelyd i Frydain ar ol Lady Jones. Ond ar brydnawn yr 20fed o Ebrill, neu oddeutu hyny, fel yr oedd efe yn cymeryd ei rodfa hwyrol, cyfarfu â rhyw gyfeillion, gyda'r rhai yr arosodd yn anwyliadwrus i ymddyddan yn hwy nag y dylasai, mewn llanerch afiachus; ac wedi galw, ar ei ffordd adref, i ymweled â'i gyfaill mynwesol Arglwydd Teignmouth, cwynai fod rhyw grynfaf ddyeithriol wedi ymaflyd ynddo; a chan farnu mai rhyw ragarwydd o'r cryd ydoedd, prysurodd i'w dŷ ei hun i gymeryd rhyw feddyglyn i'w dafu ymaith; ond ymhen deuddydd neu dri bu raid cyrchu ei feddyg i'w weled, yr hwn yn fuan a ddeallodd mai ennyniad yr afu oedd wedi ymaflyd ynddo; ac er pob ymdrechion, ffynodd yr anhwyldeb mor gyflym, fel y terfynodd yn angeuol iddo ar y 27ain o Ebrill, 1794. Cymerodd ei angladd le drannoeth, gyda'r rhwysg dyledus i'w sefyllfa urddasol, a dilynid ei gorff i'r gladdfa gan dyrfa liosog o'r Prydeiniaid mwyaf anrhydeddus yn Calcutta. Fel prawf o'i barch diffuant i'r Ysgrhythrau, gellir crybwyll y dystiolaeth ganlynol a gafwyd yn ei lawysgrif ef ei hunan ar ddalen o'i Fibl:—

Yr ydwyf wedi darllen yr Ysgrhythrau Sanetaidd hyn yn ofalus a rheolaidd, ac yr ydwyf o'r farn fod y gyfrol hon, yn annibynol ar ei Dwyfol darddiad, yn cynnwys arddunedd mwy, moeseg burach, hanesiaeth bwysicach, a hyawdledd coethach, nag a ellir ei gasglu o bob rhyw lyfrau eraill mewn unrhyw iaith.

Dadganwyd yr un farn ganddo, gydag ychydig o wahaniaeth geiriol, mewn darlith a draddododd o flaen y gymdeithas ddysgedig ar yr hon yr oedd yn Llywydd, yn mis Chwefror 1791:—

Nid ydyw ymholion Dūwinyddol yn unrhyw ran o'm testun presennol; ond nis gallaf ymatal rhag ychwanegu, fod y casgliad o draethodau a elwir genym ar gyfrif eu hardderchogrwydd, yr *Ysgrhythrau*, yn annibynol ar eu Dwyfol darddiad, yn cynnwys mwy o wir arddunedd, mwy o brydferthwch rhagorol, moeseg burach, hanesiaeth pwysicach, barddoniaeth a hyawdledd godidocach, nag a ellid ei gasglu o fewn yr un cylch o bob llyfrau eraill a gyfansoddwyd mewn unrhyw oes, nac unrhyw ieithoedd. Y ddwy ran o'r rhai y mae yr Ysgrhythrau yn gynnwysedig, ydynt yn gyddiedig gan gadwen o gyfansoddiadau, y rhai nid ydynt yn dwyn unrhyw debygolrwydd mewn ffurf neu arddull i ddim a ellir ei gynnrychu o ystorfeydd Groeg, India, Persia, ac hyd yn nod Arabia; y rhai ni ammheuir eu henafiaeth gan neb; ac y mae y cymhwysiad anorod o honnynt at amgylchiadau a gymerasant le ymhell wedi eu cyhoeddiad yn sail gref i grediniaeth eu bod yn gyfansoddiadau dilyn, ac o ganlyniad eu bod yn ysbrydoledig, &c.

Y mae un awdwr yn symio ei gymeriad fel y canlyn:—"Fel Barnwr yr ydoedd yn ddiffin a diduedd; yr ydoedd ei wybodaeth gyfreithiol

yn orddwfn, ac yr ydoedd yn amddiffynwr goleuedig a rhyddfrydig o benaduriaeth gyfansoddiadol. Fel bardd, fel traethodwr, ac fel cyfieithwr, nid llawer a ragorent arno, tra yr ydoedd yn ddihafal fel ieithydd. A goddefer i ni ychwanegu, fod ei nodweddiad yn ddilychwin yn ei fuchedd anghyhoedd.”

Wrth adolygu gyrfa gŵr a gyrhaeddodd radd mor uchel o enwogrwydd am wybodaeth a dysgeidiaeth, ni fyddai yn anmhrïodol i ni alw sylw neillduol at y moddion trwy yr hyn ei galluogwyd ef i gyrhaedd y fath safle anrhydeddus. Credwn fod galluoedd ei feddwl yn naturiol gryffion, a chryfheid hwy trwy eu cadw mewn ymarferiad gwastadol. Yr oedd ei gof, trwy ymarferiad cyson, wedi dyfod yn alluog i gadw pa beth bynag a roddid ynddo. Ymddengys ei fod, pan yn fachgen, wedi dechreu ar ei efrydiaeth dan ddylanwad y grediniaeth fod pob peth a gyrhaeddasiad gan eraill yn gyrhaeddadwy iddo yntau; a dywedir nad esgeulusai unrhyw gyfleusdra a ymagorai o'i flaen i gryfhau ei alluoedd a pherffeithio ei ddysgeidiaeth.

Yr oedd ei awydd am wybodaeth gyffredinol yn angerddol, a'i ddyfalbarhâd yn ei lafur i'w chyrhaedd yn gyfryw ag a orchfygai bob rhwystrau. Tra yn India dechreuai gyda'r wawr ar ei efrydiau, a dygai hwynt ymlaen ar hyd y dydd yn yr yspeidiau rhwng gorchwylion ei swydd fel barnwr; ac adfyfyrdod a gadarnhâi ac a grynhoai yn ei feddwl yr hyn a gasglasai diwydrwydd ac ymchwiliad yn barod. Egwyddor sefydlog arall hefyd gydag ef ydoedd, na roddai i fyny yn wirfoddol unrhyw orchwyl yr ymgymasai âg ef yn bwylllog, ac na chymerai ei attal gan unrhyw dramgwyddiadau y gellid myned drostynt, rhag ei ddwyn i derfyniad llwyddiannus. Dosbarthasai ei amser yn rheolaidd hefyd i wahanol orchwylion, ac ymgadwai at y cyfryw ddosbarthiad yn fanwl, hyd y byddai yn bosibl, yn ei holl efrydiau; a bu hyn o fantais fawr iddo i fyned trwy y fath lafur dirfawr mor reolaidd a diffino, er cyfoethogi ei feddwl ei hun, ac er gwasanaethu ei gyd-ddynion.

OWEN JONES.

## Y FASNACH FEDDWOL.

### I.

Y MAE i ni, yn gystal ag i fwyafrif mawr ein cydwladwyr, os nad yn wir i holl genedl y Cymry, yn achos o lawenydd pur a diolchgarwch dwfn fod ein cyfaill parchus, Mr. JOHN ROBERTS, wedi bod mor lwyddiannus ar adeg ail ddarlenniad ei fesur yn Nhŷ y Cyffredin er Cau y Tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru,—wedi ei gario trwy 163 o bleidleisiau yn erbyn 17, sef gyda mwyafrif o 146. Fe fydd y 4ydd o Fai,

1881, yn ddiwrnod i'w gofio genym, i'w gofio ac i fod yn falch o hono. Fe gododd Cymru fechan ei phen y diwrnod hwnw yn Nghyngor y Wladwriaeth yn uwch nag ar un adeg arall yn ei holl hanes. Am oes-oedd, prin y teimlid yno oddiwrth ei bodolaeth. Yr oedd ei meibion a'r estroniaid a'i camgynnyrcholent yn y Senedd mor gwbl ddifater yn ei chylch fel nad oedd wiw ganddynt yngan gair a dueddai mewn un modd i amddiffyn ei hiawnderau, a phrin y gallent ddychymygu fod gan y genedl unrhyw gŵynion ag oedd yn teylngu eu sylw hwy am fynyd. Ond er ys rhai blynyddoedd, bellach, y maent wedi gorfod deall, ie yn y cylchoedd uchaf, fod Cymru yn bod, ac fod ei phoblogaeth ddiwyd, ddarbodus, rinweddol, er heb dderbyn unrhyw fantais er ei diwyllio oddiar law y Llywodraeth, wedi deffro i ymdeimlo â'u hawliau cyfiawn, ac o'r diwedd yn benderfynol o fynu eu sicrhâu. Mae yn ddiammeu fod cynnygiad yr Ynad Watkin Williams i ddadsefydlu yr Eglwys yn Nghymru, er ar y pryd yn taro y deyrnas gyda mawr synedigaeth, wedi gwneyd llawer er dwyn ymlaen addysgiaeth ein cyd-ddeiliaid gyda golwg ar amgylchiadau neillduol y genedl Gymreig. Ac o hyny hyd yn awr, y mae y gallu a'r annibyniaeth a'r urddas, sydd mor amlwg wedi nodweddu yr Aelodau y mae Pobl Cymru—ac nid dyrnaid o'i Huchelwyr yn unig—wedi ddanfon i'r Senedd, wedi dangos yn bur amlwg ein bod yn bobl o argyhoeddiadau dyfnion, ac wedi dysgu y deyrnas oll yn wir i edrych arnom gyda pharch ag y buasai yn ddeythr iddo erioed o'r blaen. Ond dyma y *Mesur Cymreig* cyntaf a ddygwyd ger bron gyda dim grym; ac mae yn hyfryd genym feddwl fod y nerth â pha un y dygwyd hwn ymlaen wedi bod yn ddigon i sicrhâu ei fuddugoliaeth. Y mae hefyd yn glod i'r Cymry mai ar fesur o'r fath yma y darfu iddynt am y waith gyntaf grynhoi eu hymadferthoedd. Ni fuasai raid myned i lawer o drafferth i gael cwynion eraill o Gymru a fuasent yn llawn mor deilwng o'u dadleu â lliaws o bethau a ddygir ger bron yn barhâus o ranau eraill o'r deyrnas, y rhai a gymerant lawer iawn o amser i'w trafod, ac y trethir hyd yr eithaf ymadferth ein gwladweinwyr doethaf i'w dwyn i ryw fath o derfyniad. Ond y cŵyn a ddygodd Cymru ymlaen oedd melldith yr hudoliaeth a osodid ar ei ffordd gan dafarnau agored ar ddydd yr Arglwydd, a'r hyn a ofynai ydoedd ar i'r tai hyny gael eu cau am yr oll o'r dydd sanctaidd.

Ac nid ydyw yn ormod i ni ystyried fod y mater yma bellach wedi ei ddiogelu. Fe fu Mr. Roberts yn hynod o ffodus yn ei ddewisiad o achos i'w ddadleu ar ein rhan, ac y mae yn glod i'w graffder yn gystal ag i'w deimlad da ddarfod iddo ei weled a'i gymeryd i fyny. Nid oes dim pobl ar y ddaear i ba rai y gallai cario ymlaen y fasnach mewn diodydd meddwol ar y Sabboth ymddangos yn fwy afresymol neu yn fwy anwedus. Ac yr oeddym laweroedd o weithiau wedi arwyddnodi deisebau o blaid eu cau. Ond yr oedd llais Cymru, pa mor gryf bynag, yn ymyl gwendid cymhariaethol y llais o Loegr, yn rhy eiddil i fod yn glywadwy. Ond o'r diwedd, wedi gweled Scotland a'r Iwerddon wedi cael mesur o'r fath, fe ddaethpwyd i deimlo yn fwy fwy fod yr adeg wedi dyfod i geisio am beth cyffelyb i Gymru. A phan ddygodd Mr. Roberts ei fesur ger bron, fe ddangosodd y genedl, a hyny mewn modd na ellid ei gamddeall, ei bod yn ei gydnabod fel un oedd yn ymladd ei

chweryl. Mae yn debyg na chafodd yr un Seneddwr erioed y fath gefnogaeth o'r wlad ag a gafodd Mr. Roberts yn yr achos hwn. Yr oedd y deisebau a gyflwynasid i'r Senedd cyn ail ddarlleniad y mesur y llynedd wedi eu harwyddnodi gan dros chwarter miliwn—267,000—o bobl Cymru, sef mwy na'r drydedd ran o rai mewn oed sydd yn yr holl Dywysogaeth, "a chyfartaledd mwy," chwedl yntau, "o unrhyw ranbarth o bwys nag ydoedd ar unrhyw adeg wedi deisebu y Tŷ o blaid unrhyw fesur." Ac fe wyddys yn dda na fuasai ond hawdd, gydag ychydig drafferth, gael llawer iawn yn ychwaneg o enwau i'r deisebau. Am y canfas o dŷ i dŷ a wnaed yn 1879-80, er ei wneyd yn gwbl trwy lafur gwirfoddol, ac y buasai yn hawdd, pe gallesid hebgor yr amser, ei gael yn llawer iawn cyflawnach, eto fe gafwyd trwyddo farn ysgrifenedig pedair rhan o bump o holl dŷ-ddalwyr Gogledd Cymru; ac o 78,435 oedd wedi dadgan eu barn, yr oedd 75,510 o blaid y mesur, tra nad oedd ond 989 yn ei erbyn, a 1936 heb fod y naill ochr na'r llall. Hyny yw, yr oedd 76 am bob 1 yn ffafir y mesur. Yr oeddid yn cael fod y cyfartaledd yn y trefydd yn amrywio o 666 am 1 yn Llanrwst i 691 am 119 yn Wrexham, lle ag sydd i'r fath raddau yn ngallu y darllawyr. Fe geid am yr *un* gwrthwynebydd yn Llanrwst mai tafarnwr ydoedd; ond o'r 14 tafarnwyr yn y dref hono yr oedd 12 o blaid y mesur, un yn anmhleidiol, a'r llall, yr *un* allan o 667, yn ei erbyn. Am y tafarnwyr, fe geid, allan o 1173 oeddent wedi rhoddi eu llais, fod 792 o blaid cau ar y Sabbath, 152 yn erbyn, a 229 yn anmhleidiol. Yn nosbarth Pwllheli yr oedd 96 o dafarnwyr o blaid y mesur, a dim ond un yn ei erbyn. Danfonwyd deiseb o blaid y mesur wedi ei harwyddnodi gan 23 o dafarnwyr yn Nghaernarfon, ac mewn lliaws o fanau eraill yr oedd tafarnwyr parchus, ymron yn ddieithriad, o'i blaid. Gydag achos oedd yn cael y fath gefnogaeth o'r wlad, ac achos ag yr oedd 29 allan o'r 30 Aelodau Seneddol Cymreig yn barod i bleidleisio drosto, nid rhyfedd iddo basio ei ail ddarlleniad y llynedd yn ddiwrthwynebiad. Ond wedi pasio yr ail ddarlleniad felly, yr oedd yn ddy-eithr iddo fethu y llynedd a chael ei wneyd yn gyfraith. Fe ymddengys ddarfod i'r Aelodau Cymreig y pryd hyny fod braidd yn rhy gall i fod yn ddoeth. Gwnaethant ymdrech i grynhoi y ddadl gymaint ag oedd yn bosibl er ceisio pasio y mesur cyn i liaws yr Aelodau ddyfod i'r Tŷ, ac felly gael yr ail ddarlleniad yn ddiwrthwynebiad, neu gyda mor lleied o wrthwynebiad ag oedd bosibl. A llwyddasant yn eu hamcan, canys pan oedd y ddadl ar ben nid oedd, fel y clywsom, ond dau wrthwynebydd iddo yn yr holl Dŷ, ac felly nid oedd wiw meddwl am ranu. Wedi hyny deuai yr Aelodau yn hamddenol i mewn, gan ddysgwyl eu cael eu hunain yn mhoethder y frwydr; ond er eu siomedigaeth gwelent fod y cwbl drosodd. Ar ol hyny, fodd bynag, rhoddwyd rhybudd o wrthwynebiad i'r mesur, ac mewn canlyniad ni ellid ei basio trwy bwyllgor ar ol hanner awr wedi hanner nos. Fe gadawsid i'r ddadl gymeryd ei chwrs, ac i bawb gael eu hysbyddu eu hunain pan oedd hamdden i hyny, y tebygolrwydd ydyw y gallesid pasio y mesur trwy bwyllgor mewn ychydig fynyddau. Ond pan oedd yn amlwg y rhaid cael noswaith, ac fe allai ychwaneg, i ddadleu y mater, a phan oedd yr amser i bobpeth mor brin, fe ddaeth pasio y mesur yma, fel llawer o fesurau eraill y llynedd, yn anobeithiol.



Sut bynag, yr oedd y ddadl o'i blaid fel y safai y llynedd yn aros yn ei holl rym erbyn y flwyddyn hon hefyd. Ac yr ydoedd ar amryw ystyr-iaethau wedi ennill llawer o nerth. Yr oedd y siomedigaeth a deimlid yn Nghymru am na fuasai y mesur wedi ei wneyd yn ddeddf, yn ddofn a chyffredinol. Yr ydoedd hefyd yn ffaith dra arwyddocaol nad oedd gwrthwynebiad iddo wedi codi o unrhyw gwr. Yr oedd Arglwydd Emlyn, dan arweiniad anffodus, wedi rhyfygu rhoddi rhybudd o wrthwynebiad y llynedd, ond yn rhagluniaethol yr ydoedd wedi ei gymeryd yn sâl erbyn y diwrnod hwnw! Ond er dewrder rhyfygus ei Arglwyddiaeth, ac wedi cael yr holl hamdden i ystyried, ac er y cydweithrediad calonog y gallesid cyfrif arno ar ran y *Victuallers' Associations*—y rhai y buasai yn dda iawn ganddynt roddi i'w brodyr yn Nghymru bob cymhorth i wrthwynebu mesur yr edrychant arno gyda'r fath ddychryn fel dechreuad y diwedd!—eto ni chlywsom fod cymaint ag un ymgais wedi ei wneyd i godi, cyn adeg bwysig yr ail ddarlleniad, un math o wrthwynebiad iddo. Ac mae yn ddiammeu fod y ddadl erbyn eleni wedi ei chryfhâu yn fawr gan y deisebau yn mhlaid y mesur—dros ddau gant a hanner mewn rhifedi—a anfonwyd gan Gyrrff Cyhoeddus, megys Byrddau Gwarcheidwaid, Cynghorau Trefol, Byrddau Lleol, Byrddau Ysgol, a Chyfarfodydd Misol a Chwarterol y gwahanol gyfundebau crefyddol trwy Gymru oll.

Ac fe osodwyd yr achos yma ger bron yn hynod o deg yn y ddadl yn Nhŷ y Cyffredin. Bu Mr. Roberts ei hun yn dra llwyddiannus yn ei araeth. Nid oedd eisieu dadleu y priodoldeb o gau y tafarnau ar y Sabbath; yr oedd y Tŷ eisoes wedi penderfynu fod yn ddymunol gwneyd hyn y hyd y byddai yn ddichonadwy. Yr oedd cryfder a chyffredinolrwydd y dymuniad am hyn o Gymru wedi ei ddangos mewn ffordd hollol ddiammheuol, ac yn cael ei osod ganddo yntau yn glir a tharawiadol o flaen y Tŷ. Mewn atebiad i'r edliwiad y "gwyddid pa fodd yr oedd deisebau yn cael eu gwneyd ac ystadegau yn cael eu coginio," yr oedd ganddo yr atebiad cryf i'w roddi nad oedd dim lle yn yr achos hwn i'r cyfryw edliwiad, gan fod y cyfan wedi ei wneyd yn Nghymru ar ychydig iawn o draul, heb unrhyw beiriannwaith, ac yn gwbl trwy lafur gwirfoddol. Ac yr ydoedd yn ymfrost cyfiawn ganddo fod pob un o'r 28 Aelodau Rhyddfrydig oedd yn cynnrychioli Cymru o blaid ei Fesur, ynghyd ag o leiaf hanner yr Aelodau oedd yn cynnrychioli Ceidwadaeth y Dywysogaeth! Ac os oeddidd wedi caniatâu mesur cyffelyb i'r Iwerddon am fod tair rhan o bedair o'r Aelodau Gwyddelig o'i blaid, pa faint mwy y dylid pasio ei fesur ef pan oedd, nid tri am un o'r Aelodau Cymreig o'i blaid, ond naw ar hugain am un. Yr oedd ei appél at y Llywodraeth yn gref ac yn urddaol. Gyda golwg ar yr achos am Loegr a ddygid o'u blaen cyn hir, dadleuai y byddai y prawf a wneid yn Nghymru o wasanaeth mawr er penderfynu pa fodd y byddai oreu gwneyd â'r gweddill o'r deyrnas. Nid oedd ei fesur ef ond "bychan" mewn cymhariaeth i'r cwestiynau mawrion oeddent wedi ac yn parhâu i gymeryd i fyny gymaint o sylw y Tŷ; ond yr ydoedd yn bur agos at galon pobl Cymru, a rhaid eu hesgusodi am feddwl ei fod iddynt hwy yn fwy pwysig nag y meddyliai rhai oeddent yn ddeythr i'w gwlad. Rhoddai pasio y mesur foddlonrwydd mawr a chyffredinol i bobl Cymru. Sicrhâi ddiwrnod gorphwys ag yr oedd

mawr angen am dano i'r tafarnwyr a'r rhai oeddent yn eu gwasanaeth. Gwasanaethai er peri heddwch a threfn ar y Sabboth, yr hwn yr oedd yn hapus ganddo wybod a berthid ar fryniau a dyffrynoedd Cymru; ac am hyny dymunai gynnyg fod y mesur y pryd hyny yn cael ei ddarllen yr ail waith.

Yr oedd yn dda genym weled Mr. Rathbone mewn dull mor deilwng yn ennill ei yspardynau fel Aelod Cymreig wrth gefnogi Mr. Roberts. Yr oedd yr araeth ffol a wnaethai Mr. Warton yn erbyn y mesur yn rhoddi cyfleusdra rhagorol iddo ef gadarnhâu y ddadl o'i blaid. Rheswm bodolaeth Cymru, bid siwr, oedd prydferthwech ei golygfeydd, a'r atyniad oedd ynddi i ddeyethriaid; ac mor ddirifol i Gymru fyddai gwylltio y *tourists* ymaith am fod y tafarnau wedi eu cau ar y Sabboth! Dymunai Mr. Warton wneyd yn hysbys i'r bydysawd ei fod ef yn gwrthwynebu gwahaniaethu buddiannau Lloegr a Chymru, a daliai y dylai y Cymry fod yn fwy ymwybodol o urddas eu cysylltiad â Lloegr! Fe atebodd yr Aelod anrhydeddus dros Sir Gaernarfon ef yn ol ei ffolineb, a phrofodd fod ei holl araeth wedi ei seilio ar gamgymeriadau, neu nad ydoedd y cwbl ganddo ond ysmaldod. Nid pwnc o ysmaldod, fodd bynag, ydoedd hyn i bobl Cymru, ond pwnc ag y teimlent yn dra dirifol yn ei gylch. Wedi cyfeirio at y canfas, a ddangosai fod 99½ y cant o dŷ-ddalwyr ei etholiadaeth ef yn Sir Gaernarfon o blaid y mesur, a'r lliaws deisebau oddiwrth y bobl a dderbyniasid y llynedd, ychwanegai ei fod yn amlwg oddiwrth nifer y deisebau a gyflwynasai efe ei hunan oddiwrth Fyrddau Gwarcheidwaid, Byrddau Ysgol, Cynghorau Trefol, a phob ffurf o lywodraeth drefol neu leol, fod y personau a ddewisasid gan eu cydwladwyr fel arweinwyr y gwahanol ardaloedd, mor unfrydol ar y mater yma â chorff mawr y rhai a gynnrychioliodd ganddynt. Yr oedd cau ar y Sabboth yn Scotland a'r Iwerddon wedi ei ddilyn a'r effeithiau mwyaf bendithiol. Un wrthddadl a dybid yn gref yn erbyn pasio deddf o'r fath oedd y perygl na cherid mo honi allan. Ond nid oedd yr anhawsder hwnw wedi ei brofi yn Scotland na'r Iwerddon, ac fe ddeallai y rhai a wyddent rywbeth am Gymru, meddai Mr. Rathbone, y byddai yr anhawsder yn anfesurold lai yno nag yn Scotland na'r Iwerddon. Nid oedd un ran o lywodraeth ei Mawrhydi, neu, fe anturiai efe ddyweyd, o unrhyw wlad, ymha un yr oedd crefydd yn meddu y fath ddylanwad parhâus a nerthol ar arferion y bobl ag yn Nghymru; ac am hyny yr oedd ganddynt sicrwydd mwy yno y byddai holl deimlad y boblogaeth yn gryf o blaid y gyfraith, tra ar wahân i'r awdurdod grefyddol y teimlai y Cymry ei fod yn perthyn i'r gyfraith hon, yr oeddent y rhai ffyddlonaf i'r cyfreithiau ymysg holl ddeiliaid y Frenhines. Yr oeddid wedi cael profion digonol fod cau ar y Sabboth yn Scotland a'r Iwerddon wedi bod yn gwbl lwyddiannus a bodhaol i'r boblogaeth; ac yr oeddid wedi dangos ymhellach, am bob dadl a ddygasid o blaid hyny pan gynnygid am dano i Scotland a'r Iwerddon, y gellid ei dirgymhell gyda llawer mwy o rym o blaid estyn y fath fesur i Gymru.

Wedi y fath resymau cryfion o blaid y mesur, nid ydoedd ond fel lladd y lladdedigion i barhâu y ddadl ymlaen. A phrin yr oedd neb yn gallu dadleu yn ei erbyn; ni feddyliodd neb am gynnyg ei wrthod; ac ymddangosai pob un a feiddiai yngan gair yn anffatriol iddo fel yn

teimlo fod yn weddus iddo wneyd esgusawd am ei ryfyg. Buasai yn dda gan lawer un allu ei ladd. Ond onid oedd y Cymry dewrion yno o'i blaid, yn arfog hyd yr ên, gwirionedd a chyfiawnder yn eu tarianu, a nerth a thanbeidrwydd yn pelydru yn ogoneddus yn eu gwedd; pwy allai anturio i'r ymgyrch yn eu herbryn? Yr oedd y gwrthwynebiad yn fwy o gellwair na dim arall. Fe anturiodd Mr. Daly, aelod Gwyddelig, edliw i'r Cymry eu bod yn anghyson â hwy eu hunain yn gwrthwynebu Llywodraeth Gartrefol i'r Iwerddon. Ond rhoddodd Mr. Morgan Lloyd daw ar y cyfaill hwnw trwy ddangos fod y Senedd eisoes wedi cydsynio â chais yr Iwerddon i wneyd y cyfnewidiad hwnw yn y gyfraith a ofynid y pryd hyny gan bobl Cymru, a'r hwn a gefnogid gan yr holl Aelodau Cymreig. Ceisiai Mr. Onslow ddangos fod mesur o'r fath yn afreidiol i Gymru, gan nad oedd yno ond ychydig os dim meddwod ar y Sabbothau, ac am hyny ni allai efe ystyried y mesur ond fel culni gyda golwg ar y Sabboth. Ond galwai Mr. Osborne Morgan sylw at y ffaith nad oedd un o wrthwynebwyr y mesur o Gymru; a dylem fod yn ddiolchgar iddo am ddyweyd ei fod yn meddwl y dylai fod yn ddealedig wrth ymwneyd â Chymru, eu bod yn ymwneyd â chenedl oedd yn fwy ar wahân oddiwrth Loegr na Scotland ac na'r Iwerddon; ac am hyny yr oedd ei hawl i ddeddfwriaeth wahaniaethol yn neillduol gryf. Yr oedd teimlad cyhoeddus Cymru ar y mater yma yn llawer mwy addfed nag ydoedd yn Lloegr. Yr oedd holl awyrgylch gymdeithasol, foesol a chrefyddol y wlad yn gwbl wahanol i'r eiddo Lloegr. Yr oedd troseddau yno ymron mor brin ag ydoedd Ceidwadaeth! Ac yr oedd yr alwad am gau y tafarnau ar y Sabboth wedi dyfod oddiwrth fwyafrif pob dosbarth o'r boblogaeth. Yr oedd y tafarnwyr a'i pleidient wedi cael prawf ar drwydded chwe' diwrnod, ond ychydig oedd wedi dal, ac fe fyddai agor un dafern mewn ardal yn eu gorfodi i agor y cwbl; ac am hyny yr oedd y fath deimlad cryf o blaid y mesur wedi ei ddangos gan y tafarnwyr. Siaradai Mr. C. H. James, yr Aelod dros Ferthyr Tydfil, yr un modd yn gryf o blaid y mesur, gan nodi na welsai efe erioed y fath unfrydedd yn cael ei ddangos gan bawb yn ddiwahaniaeth o blaid dim ag a ddangosaid yn yr achos hwn; fod Cymru eisoes yn enwog am ei rhinweddau, ac am ei bod yn awyddus i gyrhaedd tir uwch yn yr ystyr yma y gofynai i'r Tŷ basio y mesur hwn. Wedi hyny fe anturiodd Mr. O'Sullivan, yr Aelod dros Limerick—hotel-keeper, yr ydym yn deall!—wrthwynebu y mesur, nid am ei fod yn Gymreig, ond am ei fod yn ddeddfwriaeth i ddosbarth, *class legislation*, o'r fath waethaf; ni chai y cyfoethogion, os pasid ef, ddim anhawsder i gael yr hyn fyddai arnynt eisieu, ond nid oedd gan y dosbarth gweithiol unlle i fyned am eu *refreshments* ond i'r dafern. Ond yn ffodus yr oedd Aelod Gwyddelig arall wrth law, Mr. Blake, a'i ysbryd yn cael ei gynhyrfu ynddo i ateb ei gydwladwr. Dygai efe y dystiolaeth fwyaf boddhaol i ganlyniadau da cau tafarnau yr Iwerddon ar y Sabboth. Nid oedd efe yn synu fod yr Aelod dros Cork yn gwrthwynebu y mesur. Yr oedd ei etholiadaeth yn enwog am wneyd ac am yfed chwisi, a bron na chymhwysai atynt atebiad a gawsai gan *boliceman* am Ynys Innisthraul, fod y bobl yno yn treulio un hanner o'u hamser i wneyd chwisi a'r hanner arall i'w yfed! Yr oedd y mesur Cymreig yn rhagori ar yr un Gwyddelig, gan nad oedd yn eithrio yr un dref oddiwrth ei weithrediad,

nac yn gwneyd dim eithriad ar gyfer y *bona fide travellers*. Yr oedd ganddo ef ddwy dafarin ar ei ystâd a wnaeth fasnach lewyrchus, *roaring trade*, gyda y tŷlau hyny. Ond gobeithiai yn fuan allu eu troi yn *coffee palaces*. Dygodd Mr. Kinneer, Aelod Gwyddelig arall, dystiolaeth uchel yr un modd i'r ddeddf yn Iwerddon, a dywedodd ei bod wedi lleihâu y cymeryd i fyny am feddwod ar y Sabboth ddeg a thriugain y cant.

Erbyn hyny yr oedd Mr. Gladstone ar ei draed, ac fe wnaeth araeth nad allai lai na dyfnhau yn fawr y parch a goleddid tuag ato gan y Cymry. Sylwai nad oedd ond ychydig wedi dyweyd dim yn erbyn y mesur, ac nad oedd yr un o'r rhai hyny yn cynnrychioli Cymru; a chai hefyd nad oedd dim un oedd wedi siarad yn ei erbyn wedi gwneyd unrhyw gynnygiad am ei wrthod. Yr oedd y ddau beth yna yn ddiagramheuol yn llawer o galondid i'r rhai a ddygasent y mesur ymlaen. Anturiai efe ddyweyd nad oedd dim un Aelod Cymreig a feiddiasai ei wrthwynebu. Nid oedd efe yn Aelod Cymreig, ond gan ei fod yn trigo ar gyffiniau Cymru, yr ydoedd y wlad o ddyddordeb neillduol iddo. Ni roddai efe nemawr bwys ar ei olygiadau ei hun ar gau y tafarnau ar y Sabboth, ac ni thybiai y dylid penderfynu cwestiwn o'r fath yn ol dymuniadau personol unrhyw ddyn. Yr oedd hwn yn fater ar ba un yr oedd barn y wlad ei hunan wedi ei chael trwy brofiad digonol, ac am hyny dylai gael sylw dyfal ac ystyriaeth ewyllysgar y Tŷ. Yn achos Scotland, ni feiddiasai neb wrthwynebu yn y Tŷ y cais a ofynid; ac yn achos Iwerddon, pan ofynid am yr un ystyriaeth i'r mesur er cau y tafarnau ar y Sabboth, yr oeddent wedi cytuno, os oedd teimlad y wlad yn gwbl o blaid y cynnygiad, y dylid ei ganiatáu. Ond yn yr achos yma yr oedd gwahaniaeth. Yr oedd rhyw nifer o gynnrychiolwyr Gwyddelig a ddalient yn gryf ac yn benderfynol nad oedd teimlad cyflawn pobl Iwerddon wedi ei ddadgan, a'i fod i gryn raddau yn wrthwynebol i'r mesur. Yn ddiagrammeu, mewn canlyniad i'w hymdrechion, gyda chynnorthwy dylanwad a fenthyciasid o' Lloegr, yr oedd gwrthwynebiad tra ystyfnig wedi ei ddangos i'r mesur hwnw; ond ar y cyfan yr oedd y Senedd wedi cydsynio i'w basio ar gais cyffredinol pobl Iwerddon, ac nid oddiar unrhyw olygiadau damcaniaethol neu yn perthyn i ddosbarth. Yr oeddylt newydd glywed gan Mr. Kinneer, ac mewn amryw ffyrdd eraill, fod effeithiau y mesur hwnw yn Iwerddon yn dra boddhaol. Wedi eu calonogi gan yr hyn a gymerasai le yn yr achos hwnw, yr oedd pobl Cymru wedi dwyn eu mesur ymlaen. Nid oedd wedi bod yn arfer y Senedd i edrych ar farn neu fuddiannau Cymreig ar wahân. Edrychid ar Gymru fel mewn cysylltiad agosach â Lloegr na Scotland neu Iwerddon; ond gallai y teimlad hwnw fyned yn rhy bell, ac, yn ei farn ef, yr oedd gan bobl Cymru achos mawr i gwyno. Mewn un peth yr oedd Cymru wedi cael triniaeth farbaraid yn y modd yr oedd yr oedd nawddogaeth yr Eglwys Gymreig wedi ei weinyddu, pan wnelsid i syniadau ac opiniynau Seasonig farchogaeth holl hawliau pobl y Dywysogaeth. Ni allai esgobion Cymru siarad yn Gymraeg hyd yn nod eiriau gwasanaeth y confirmasiwn oedd ganddynt i'w weinyddu, ac nid oedd hyny oad engraifft o'r modd yr oedd syniadau Seasonig wedi cael eu gwthio ar y bobl. Nid oedd efe yn myned i ddadleu cenedlaetholdeb eithafol am Gymru, na Scotland, nac Iwerddon; ond lle yr oedd barn Gymreig wahaniaethol, fel

yn yr achos hwn, heb unrhyw anghyfleusdra neu berygl i'r Ymherodraeth, ni wyddai efe am un rheswm paham na ddangosid ystyriaeth barchus o honi, ac na fyddai i ddymuniad y Cymry, pan yn gwbl gyffredinol, gael ei ganiatáu yn garedig gan y Senedd. Nid oedd hwn yn gwestiwn o Lywodraeth Gartrefol, neu ysgariad oddiwrth yr Ymherodraeth, ond yn unig yn gwestiwn o iawn drefn; ac yr oedd y Senedd eisoes wedi gweled yn addas wahaniaethu felly rhwng Scotland a Lloegr, a rhwng Lloegr ac Iwerddon, a hyd yn nod yn Lloegr rhwng y trefydd mawrion a'r rhanau gwledig. Yr oedd yn y Tŷ blaidd egniol a gynnygiai fod y fasnach mewn diodydd meddwol yn llaw y plwyf, ac yr oedd y rhai nad slent gan belled a'r Aelod anrhydeddus dros Carlisle yn addef y dylid gwneyd hyny i raddau helaeth. Yr oedd ei gyfaill anrhydeddus, Llywydd y Bwrdd Masnach, wedi ei ddilyn gan lawer o aelodau anrhydeddus pan gynnygiai fod gwerthiad diodydd meddwol yn cael ei osod yn nwyllaw awdurdodau trefol; ond nid ydyw hyn ond engraifft gyffredinol yn unig o'r hyn a ddylid wneyd o fewn terfynau penodol, a lle y mae barn leol yn eglur a phenderfynol. Fe addefir yn rhwydd fod gan Gymru draddodiadau a chysylltiadau crefyddol o'i heiddo ei hun. Diammeu fod crefydd Cymru a theimlad crefyddol y bobl wedi cael llawer i'w wneyd mewn ffurfio y farn a ddygodd ymlaen gwestiwn o'r fath yma. Gan hyny meddyliai y byddai i'r Tŷ wneyd yn dda trwy roddi sylw caredig i ddymuniadau pobl Cymru yn yr achos hwn. Yn Nghymru yr oedd y cwestiwn o gau ar y Sabboth wedi cyrhaedd y fath addfedrwydd fel ag i beidio gadael dim amheu- aeth am y farn a goleddid yn ei gylch. Dyna ddymuniad difrifol pobl Cymru, ac ar ran eu gwlad a'i phoblogaeth gofynent i'r Senedd basio y mesur. Yr oedd y Cymry, fel, dybiai efe, nad amheuai neb, yn bobl dra sobr; ac am eu bod felly, gallai rhai ddyweyd nad oedd arnynt eisieu y fath fesur. Ond ai nid ydoedd yn eu taraw fod y fath beth a themtasiwn, ac os oedd y bobl yn dymuno gosod y demtasiwn hono o'r neilldu, ai ni fyddai yn greulawn gommedd iddynt eu dymuniad? Gobeithiai efe yr elai y mesur i ail ddarlleniad heb ranu y Tŷ, oblegid os gelwid am raniad credai y cerid ef gyda dirfawr fwyafrif. Ac wedi ei ddarllen yr ail waith, gobeithiai na ddangosid tuedd gan y rhai a'i gwrthwynebai i sefyll ar ei ffordd, ond y byddai iddynt yn anrhydeddus a charedig adael iddo fyned rhagddo a chymeryd ei le cyfreithlawn ymysg mesurau y tymmor.

Wedi y fath araeth, ac oddiwrth y fath un, yr oedd ei wrthwynebu yn anobeithiol. Er hyny fe geisiodd dau neu dri ddyweyd rhywbeth yn anfafirol; ond yr oedd tystiolaethau ychwanegol Mr. Hussey Vivian a Syr E. J. Reed o Gymru, yn ychwanegol at yr holl areithiau eraill, yn derfynol. Yr oedd y Prifweinidog yn ddoeth a charedig wedi cynghori fod y mesur yn cael ei ddarllen yr ail waith heb raniad; ond yn ffodus fe fynodd rhai o'i wrthwynebwyr barhâu i waeddi "No," ac felly caed rhaniad a sicrhaodd ei ail ddarlleniad trwy y mwyafrif ardderchog a grybwyllasom—163 yn erbyn 17—a chyfrif y *tellers*, 165 yn erbyn 19,—neu o fewn ychydig i ddeg am un! Yr oedd yn falch genym glywed fod Arglwydd Richard Grosvenor, *Patronage Secretary* y Trysorlys, o hono ei hun, wedi anfon "chwip" gref, *trebly underlined*, i alw yr Aelodau ynghyd i'r ymgynghra hon. Pob parch iddo.

Yr ydym yn deall fod Cymdeithas gref o eiddo y Tafarnwyr yn ymdrechu y dyddiau hyn i gael gan bobl Caerdydd, Abertawe, a Merthyr Tydfil—a Rhyl, bondigrybwyll!—arwyddnodi deisebau yn galw am eithrio y trefydd hyny oddiwrth weithrediad y mesur, gan nad yw ei basio yn ddeddf bellach ond cwestiwn o amser. Bid sicr, ni fydd yn anhawdd cael llawer o eneidiau sychedig, dan ddylanwad uniongyrchol y tafarnwyr, i arwyddnodi y fath ddeisebau; ond nid oes ond ychydig berygl, dybygem, i *hyny* gael ei gamgymeryd am ddymuniaid cyffredinol y boblogaeth. Hyderwn na raid aros yn hir am gyfle i ystyried y mesur mewn pwyllgor, ac i'w ddarllen y drydedd waith, a'i wneyd yn gyfraith; ac y pesir ef hefyd yn ei gyfarwydd, ac am Gymru oll.

## II.

Y mae Mr. WILLIAM HOYLE eleni eto wedi gwneyd â'r genedl Brydeinig y gymwynas o ddangos iddi yr arian anferth y mae yn wario ar ddiodydd meddwol. Ychydig cyn cyhoeddiad y rhifyn diweddfaf o'r TRAETHODYDD, wedi cael yr *Excise Returns* yn gyflawn am 1880, fe wnaeth efe i fyny ein traul yn y ffordd yma am y flwyddyn hono, ac fe'i cyhoeddodd mewn llythyr yn y *Times*. Gan fod y dreth ar frag wedi ei symud am y tri mis diweddfaf o 1880 a'i gosod ar y cwrw, yr oedd raid gwneyd y cyfrif am y naw mis cyntaf oddiwrth y brag a'r siwgr a ddefnyddiasid i ddarllaw, ac am y gweddill o'r flwyddyn oddiwrth y barilau o gwrw ar ba rai y talesid toll. Yr oedd y brag am y naw mis yn terfynu Medi 30, 1880, yn 31,787,518 o bwyseli, a'r siwgr yn 1,019,466 o ganpwysau, yr hyn oedd gyfartal i 4,349,721 o bwyseli o frag. A chymeryd y ddau ynghyd, fe geir y pwyseli yn 36,137,239. Ac os cymerwn safon yr *Excise*, sef fod dau bwysel o frag yn darllaw baril o gwrw, fe geir fod 650,470,302 o alwyni o gwrw wedi ei ddarllaw yn y naw mis. Am y tri mis diweddfaf o'r flwyddyn, mae y *returns* yn dangos fod y cwrw yn 7,072,741 o farilau, neu yn 254,618,676 o alwyni; yn gwneyd y cyfan am y flwyddyn yn 905,088,978 o alwyni. Ceid y cyfrifon am y gwirodydd a gwin fel arferol. Fel yma y gesyd y cyfrif ger bron, gan ychwanegu er mwyn cymhariaeth gyfrif 1879:—

	<i>Galwyni.</i>		1880.	1879.
Cwrw a fywyd .....	905,088,978	yn ol 1s. 6c.	£67,881,673 ...	£73,557,609
Gwirodydd Prydeinig eto..	28,457,486	“ 20s.	28,457,486 ...	27,936,650
Gwirodydd Tramor eto .....	8,477,512	“ 24s.	10,173,014 ...	11,449,021
Gwin.....	15,852,335	“ 18s.	14,287,102 ...	13,450,583
Gwincodd Prydeinig, &c...	15,000,000	“ 2s.	1,500,000 ...	1,750,000
			£122,279,275	£128,143,863

Mae hyn, trwy drugaredd, yn dangos lleihâd er 1879 o £5,864,588, neu 4'6 y cant. Ugain mlynedd yn ol, yn 1860, nid oedd y draul ar ddiodydd meddwol ond £86,897,683. Cynnyddodd y naill flwyddyn ar ol y llall, gyda dau neu dri o eithriadau dibwys, nes yn 1876 yr ydoedd wedi cyrhaedd y cyfanswm anferth o £147,288,760. Yn 1877 syrthiodd i £142,009,231. Yn 1878 cododd ychydig, i £142,188,900. Yn 1879, fel y gwelir, y swm oedd £128,143,863, sef llai o £14,045,047 na'r flwyddyn flaenorol. Ac yn 1880 yr ydoedd yn llai drachefn o £5,864,588.

Fe ddarfu i Mr. Shaw, un o'r Aelodau dros Swydd Cork, yn niwedd y ddadl ar ail ddarlleniad mesur Mr. John Roberts, beri cryn gyffro mewn rhyw gylochoedd trwy ddyweyd yn y Tŷ fod y tafarnwyr, er pan oeddid wedi pasio mesur cyffelyb yn Iwerddon, wedi gwerthu mwy o ddiod nag erioed o'r blaen. Yr oedd llawer yn gwybod gormod i fod mewn unrhyw berygl o gael eu camarwain gan ddadganiad ysgapwrth o'r fath yma; ond er mwyn rhai mwy anwybodus, ac yn enwedig i gau genau rhai sydd gyda'r fath ddyhewyd yn "ceisio achlysur" i wanhâu y ddadl o blaid amddiffyn sobrwydd y bobl, fe ddarfu i Mr. Hugh Mason, yr Aelod Seneddol dros Ashton-under-Lyne, edrych i fewn i gyfrifon y Llywodraeth, a dyma a gafodd:—Nifer y galwyni o wirodydd a yfwyd yn Iwerddon am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31, 1878, oedd 6,115,332; am y flwyddyn yn terfynu Mawrth 31, 1880, nifer y galwyni oedd 5,075,368; yr hyn sydd yn dangos lleihâd o 1,039,964 o alwyni. Neu mewn geiriau eraill, y swm am bob un yn 1877 oedd 1.145 galwyn, ond yn 1879 y swm oedd 0.946, yr hyn sydd yn dangos lleihâd o'r chweched ran. Rhag i neb ddychymygu fod y gwahaniaeth yn cael mwy na'i wneyd i fyny yn y cwrw a yfir yn Iwerddon, y mae Mr. Mason yn cael mai nifer y pwyseli o frag a ddefnyddid yn 1878 oedd 3,081,409; ond yn 1880, 2,854,802, yn dangos lleihâd o 226,607 o bwyseli; ac mai nifer y canpwysau o siwgr at ddarllaw yn 1878 oedd 51,100; ond yn 1880, 37,241, yn dangos lleihâd o 13,859 cwt. Yn ol cyfrif Mr. Hoyle, yr oedd y lleihâd yn nbraul cwrw yr Iwerddon yn 1879 ragor 1878 (£4,850,424—£4,040,695) yn 16.7; a thrachefn yn 1880 ragor 1879 (£4,040,695—£3,992,373) yn 1.2. A'r un modd yr oedd y lleihâd yn yr arian a dalwyd am wirodydd yn Iwerddon yn 1879 ragor 1878 (£6,101,905—£5,335,000) yn 12.5; a thrachefn yn 1880 ragor 1879 (£5,335,000—£5,182,430) yn 2.8. Mae yn amlwg iawn fod yfed yr Iwerddon, er haerriad ffol Mr. Shaw i'r gwrthwyneb, gryn lawer yn llai na chyn cau ei thafarnau ar y Sabboth, ac y mae yr un mor amlwg fod y cau ar y Sabboth i fesur tra helaeth yn esbonio y lleihâd hwnw. Y mae hyny yn cael ei brofi yn dra boddhaol, fel y sylwai Mr. Rathbone a Mr. Blake yn y ddadl ar ail ddarlleniad mesur Mr. Roberts, gan y ffaith fod y lleihâd yma yn y gwario ar ddiod feddwol yn Iwerddon, yn fwyaf amlwg yn y manau oeddynt wedi dyoddef leiaf gan y cyfyngder diweddar yn y wlad hono.

Ond er yr holl leihâd yn Iwerddon ac mewn rhanau eraill o'r deyrnas, y mae y swm a wariwyd ar ddiodydd meddwol y flwyddyn ddiweddaraf yn anferth o fawr. I ddangos hyny, ac mewn cyfeiriad at gwestiwn y tir sydd y dyddiau hyn yn tynu y fath sylw, y mae Mr. Hoyle yn cael mai cyfartaledd ardreth tir amaethyddol yn Mhrydain Fawr, yn ol Mr. Caird, ydyw 30s. yr erw. Yn Iwerddon, yn ol cyfrifon o eiddo y Llywodraeth, ymddengys mai 15s. yr erw ydyw.

Yn Mhrydain Fawr fe geir fod 32,101,909 o erwau a ddy- chweir fel tir diwylliedig, yr hwn yn ol 30s. yr erw a	
ddyry ... ..	£48,152,863
Yn Iwerddon, 15,357,856 o erwau, yr hyn yn ol 15s. a ddyry	11,618,392
	<hr/>
	£59,671,255

A chymharu hyn â'n traul ar ddiodydd meddwol, hyd yn nod gyda'r

gostyngiadau a gymerodd le yn y tair neu y pedair blynedd diweddar yn ein harian diod, y mae eto yn fwy na dwbl holl ardreth tir amaethyddol y Deyrnas Gyfunol!

Yn Iwerddon, sydd ymron oll yn amaethyddol, a lle y mae y fath gyfyngder, y mae ardreth y tir yn dyfod i £11,518,392. Ond yn ystod y deng mlynedd yn terfynu 1879, yr oedd pobl Iwerddon yn gwario ar gyfartaledd £13,823,102 bob blwyddyn ar ddiodydd meddwol, neu £2,307,210 mwy na holl ardreth y wlad! Ac y mae Mr. Hoyle yn oymeryd gofali i ddangos nad ydyw y ffigyrau uchod yn eymeryd i'r cyfrif y collodion anuniongyrchol sydd yn dyfod oddiwrth ymyfed, yr hyn a ychwanegai amryw filiynau at y swm, ac a wnelai draul diodydd meddwol i'r Iwerddon, er ei thlodi, mae yn debygol yn ddwbl ardrethion ei holl dir amaethyddol. Terfyna ei lythyr gyda y sylw, nad ydyw yn gofyn meddwl uwchraddol i weled, os byddai gostwng y rhent yn profi mor hynod o lesol, mai mwy fyth fyddai y lles a ddeuai o symud ymaith faich y ddiod, yr hwn sydd fwy na dwbl rhent holl dir y wlad; a dengys hefyd mor groes i reswm ydyw fod Tŷ y Cyffredin yn rhoddi cymaint o amser i'r cwestiwn llai, a *dim* i'r hwn sydd yn gymaint yn fwy!

Gwelsom un papyr, mewn cyfeiriad at ffigyrau Mr. Hoyle, yn sylwi fod 91½ o filiynau o eiliadau mewn blwyddyn, ac felly fod ein traul ar ddiodydd meddwol am 1880 yn gyfartal i bedair punt am bob eiliad o'r dydd a'r nos am yr holl flwyddyn. Mae hyn yn dalu anferth, pe na byddai ddim ond hyny; ond erbyn meddwl am y cynydau arswydus o dlodi, a throseddau, a phob trueni y mae y gwario hwn—sydd gymaint gwaeth nag ofer!—yn gynnyrchu, fe ddylai lanw ein calon & dychryn a dwfn bryder, a pheri i bob un o honom ymofyn ai nid yw yn bosibl iddo wneyd *rhywbeth* tuag at symud ymaith ddrwg mor fawr.

Fe fyddai yn ddyddorol yn ddiammeu gan lawer o'n darllenwyr weled beth a farnai y fath awdurdod â'r *Times*—nad oes nemawr berygl i neb ei gyhuddo o ddim byd tebyg i benboethni gyda golwg ar yr Achos Dirwestol, neu yn wir unrhyw ddaioni neilldubl arall—ei ysgrifenu ar y mater; ni a ddodwn ger bron gan hyny yn Gymraeg erthygl arweiniol a ymddangosodd ynddo ychydig ddyddiau wedi cyhoeddiad llythyr Mr. Hoyle:—

Nid ydyw dysgyblaeth dduwiol wedi ei hanghoso mor llwyr yn y wlad hon nad ydyw y genedl Brydeinig unwaith yn y flwyddyn, yn nhyddor y Grawys, yn cael ei gosod dan benyd cyhoeddus am yr hynotaf o'i lliaws pechodau. Y seremoni iachusol hon ydyw gwneyd i fyny a chyhoeddi traul diod y genedl. Mae yr un am 1880 allan, ac fe'i ceir mewn llythyr oddiwrth ein hen ohebydd Mr. William Hoyle, yr hwn a argymhellwn i sylw ein darllenwyr. Yr oll a wariwyd dan bob pen ar ddiodydd gref gan yr holl boblogaeth ydyw £122,279,272, yr hyn sydd lai o £3,864,598, neu 4·6 y cant nag ydoedd y flwyddyn flaenorol, 1879. Fe fyddai yn hyfryd credu fod y gwahaniaeth yma oll, neu gan mwyaf, yn ddiwydus i wellhâd mewn aserion a llywodraeth ychwanegol ar chwant. Fe fyddai hyny yn rhywbeth i'w ddyweyd am ein hysgolion elfenol cyhoeddus, am doriad allan zeli grefyddol ar amryw achlysuron diweddar, ac yn neillduol am waith teilwng y Gyndeithas Ddirwestol. Ond mae y tafod neu y pin a fynai nodi y llwyddiant yma yn cael ei atal gan amheuseth gofidus nad yw y gwahaniaeth yn ein gwario ar ddiodydd ond yn unig yn arddangos y gwahaniaeth mewn llwyddiant, gwaith, a chyflogau. A myned yn ol 20 mlynedd, yn 1860 ein traul ar ddiodydd oedd £86,897,683. Wedi un mlynedd ar bymtheg, sef yn y flwyddyn 1876, pan oedd y llwyddiant cyffredinol y fath ag i sefydlu codiad yn y cyflogau, yn amrywio o 10 i 30 y cant, fe gyrhaeddodd ein traul ar ddiodydd y swm



anferth o £147,288,760, yn dangos ar gyfartaledd fod pawb yn yfed mwy na chymaint arall yr hyn a'u boddlonai yn 1860. Ni ddarfu i'r pwynt a gyrhaeddwyd fel yma yn sydyn gadw ei hun i fyny. Fe ddangosodd y flwyddyn nesaf ddisgyniad o dros bum' miliwn, y flwyddyn ganlynol arosiad byr yn y disgyniad, a'r flwyddyn 1878 ddisgyniad sydyn arall. Ond ni raid i ni ond adgofio ystori ein hamaethyddiaeth, ein llaw-weithfeydd a'n masnach, a'n hanhawsderau Gwyddelig am y pedair blynedd diweddaf, i wrybod yr rhy dda wir esboniad y ffygyrau hyn. Y mae pob dosbarth wedi bod yn dlawd—tenantiaid, llafurwyr, tîrfeiddianwyr, masnachwyr, meistriaid, gweithwyr, ac, nid y lleiaf, y rhai a dybir eu bod yn derbyn incwm galwedigaethol neu annibynol. Y mae pawb wedi gorfod prinhan rhywfaint yn eu cynhyrfai neu eu diod hoff. Y mae wedi bod yn ymattaliad doeth, os nad gorfodol. Gallai un yn gyf-iawn ddychrynu wrth feddwl am yr adlam posibl pe bai llwyddiant yn dychwelyd. Gwelsom bobl yn gwylio wyneb newynog, celanaidd, y gwallgof gan syched am ddiod, yn cael ei attal gan gadara lw, neu gadarnach tlodi rhag hoddhau ei syched angerddol a chynnyddol. Buont yn ei wyllo i'r pwynt pan ddywedent nad ydoedd ond cwestiwn o gyflensdra, pan fyddai y syrthiant ymaith yn waeth nag erioed, mae'n debygol yn anadferadwy. Tybiwch ymweliad o lwyddiant digyfelyb. Pa mor uchel y sefai y cyfanswm yn mlwyddyn olaf y ganrif? Os oes unrhyw debygolrwydd y naill ffordd neu y llall, dyna ydyw, y bydd y flwyddyn 1900 yn gymaint uwchlaw 1880 ag ydyw hono uwchlaw 1860, ac y bydd ein traul ar ddiod yn £246,000,000.

Y mae Mr. Hoyle yn cymharu cyfran Wyddelig y draul yma â'r rhent sydd yn gwyn gan Iwerddon, ac y cred y byd ei bod yn weddol orthrymws. Fe gyfrifa efe ardreth tir amaethyddol yno yn £11,518,392; ond gan fod Iwerddon, yn y cyfartaledd am ddeng mlynedd yn terfynu 1879, wedi gwario £13,823,102 yn y flwyddyn ar ddiodydd meddwl, y mae yn canlyn ei bod wedi gwario £2,304,710 yn fwy ar ddiod nag mewn ardreth. Ni ddywed ddim am dybaco; ond yr oedd yr *Irish Poor Inquiry Commissioners* am 1835 yn cael fod hyd yn nod y cardotwyr eu hunain yn jatyried eu bod mewn cyflwr drwg os na fyddai ganddynt 7c. yr wythnos i'w gwario am dybaco, ac na allent ddangos tlodi hollol yn well na thrwy ddyweyd eu bod yn gorfod gwneud ar gywrach wedi ei swgio mewn dwir tybaco. Nid yw ond ofer dyweyd yr aiff ceiniog y dydd ymhell mewn bara. Yr ateb yw y rhaid i bobl gael "rhywbeth;" ac wrth "rywbeth" bob amser y golygir diod gref, neu o leiaf dybaco, gau nad yw bara yn sefyll am ddim yn y ddadl hon. Gellid gwneyd llawer o gynhariaethau eraill yr un mor adeiladol, neu yr un mor ofidus, sydd yn gyffredin i'r ddwy ynys, canys nid ydyw Iwerddon yn gwario mwy na'i rhan ar ddiod; yn wir y mae yn gwario cryn lawer llai na'i rhan, ac mewn cymhariaeth i'r Saeson a'r Scotland, fe elid galw y Gwyddelod yn bobl hynod gymedrol. Am holl boblogaeth yr ynysoedd hyn y mae cyfartaledd y gwario ar ddiod yn fwy na £3 y pen am bob dyn, dynes, a phlentyn, ac yn fwy na £15 am bob teulu. Y mae yn llawer iawn mwy na'r cyllid cyhoeddus; yn llawer iawn mwy na'r gwario mwyaf gwastraffus a gawsom er ys ugain mlynedd. Y mae yn fwy na deng waith yr hyn a delir mewn cynnorthwy i'r tlodion, yr hyn y mae trefnidwyr yn wylled gyda llygaid mor eiddigus. Am gyllid Eglwys Loegr, a eilw llawer yn anferth, a'r hwn yn sicr sydd yn sawr mewn cymhariaeth i eiddo Eglwysi a Chyfundebau crefyddol eraill, pe dygid ef dan y morthwyl yfory—eglwys-diroedd, degymau, persondai, eglwysydd, derbyniadau esgobol ac eglwys-gorawll, poppeth i lawr at ddodrefn yr eglwys a'r ystor blwyfol o wisgoedd—prin y cyrhaeddai y swm cymedrol, ac yn wir cymhariaethol iael a war-iwyd ar ddiod y llynedd. Ymddengys ngain miliwn yn swm mawr i'w dalu am ryfel Affghanistan; ond pe gallai y genedl Brydeinig fod o'r un feddwl ac ymattal oddiwrth ddiod feddwl am ddau fis, fe fyddai yn ddisgyniad y wneyd i fyny am y swm hyl hwnw. Ymattaliad am fis a dalai am ryfel Abyssinia, er mor aruthrol yr ymddangosai y draul. Mae gan y Senedd lawer o amcanion goleuedig a charnaidd, ond ni all eu cario allan o eisien arian; neu fe allai y mae yn yspellu Pedr i dalu i Paul. Ni all waddoli dwsin neu ddau o broffeswriaethau yn y Prifysgolion heb gymeryd meddiant o a dinstrio cynnifer o gymrodoriaethau ag a wnelai i fyny y cyllid angenrheidiol. Carai y Senedd ddarparu parciau—hyny yw, awyr iach—i'r brif-ddinas, ond rhaid dadlau tlodi. Gymaint wnelai un y cant o'n traul diod—hyny yw, hanner yfed wythnos—yn y cyfeiriad hwn! Ond y mae cymhariaethau sydd yn dyfod yn fwy adref atom. Y mae y gweithiwr yn gwaraful ychydig geiniogau ar addysgiaeth ei blant, a gwaria yn fyny ch gynifer o syltau ar ddiod. Ni rydd o'r neillid gymaint a swllt yr wythnos i ddarparu ar gyfer afiechyd tebygol a henaint sicr; ond fe waria, fe allai, d'lang waith y swm yna mewn cwrw a gwirodydd. Ond

nid efe yw y pechadur mwyaf; pell oddiwrth hyny. Y mae ei well, lleyg, ysbrydol, profleswriaethol, neu fasnachol, yn gyffredin yn llawer gwaeth nag ef. Mae y boneddwr yn y pulpudd sydd yn gwneyd ei draethiadau wythnosol yn erbyn meddwod ac afradlonedd, a'r hwn a ddwg gyhuaddiad newydd yn erbyn yr arddwr tlawd bob tro y gwêl ef wedi cael ychydig yn ormod neu yn y dafarn, yn fynych yn gwario deg cymaint, er mewn gwirionedd nad oes arno gymaint o'i angen. Peth tra chyffredin ydyw i filiau gwin a chwrw redeg i £50 allan o wario o £500. Gymaint ellid wneyd gyda £50 y flwyddyn; ac mor fynych y daw clerigwr neu ei deulu i'w eisiau yn fawr! Fe wna yr holl wahaniaeth rhwng ysgol bentrefol dda neu sâl. Fe gynnalid chwech neu wyth o amddifaid yn ol y drefn gynnil yn y wlad. Adgyweiria, cynhesa, a goloesu ymron unrhyw eglwys bentrefol. Tal am ystafell mewn pentref, yn cael ei chynhesu, ei goloesu, a gofalu am dani. Ceidw ddau fachgen, neu ddwy eneth addawol mewn ysgolion canolraddol da. Fe bryn lyfrgell ragorol mewn ychydig flynyddoedd, ac felly boblogi yr anghyfnedd-dra llenyddol sydd yn nodwedd waethaf llawer o bersondai. Yn ddiweddar oll, mor fynych yr arbedu cynnilo y fath swm y gwaradwydd gresynus o danysgrifiad cyhoeddus i ddarpar, nid gwin mwy na rhyw rywecdd arall, ond bara a dillad gweddus i deulu clerigwr wedi eu tafu ar y byd oddiallan. . . .

Am y prif gwestiwn, y draul gonedaethol ar ddiod, a fyfiant ymyfed eithafol neu wastraffus, afreidiol, os nad gwaeth, rhaid i bob Prydeiniwr deimlo yn ofidus a phryderus yn ei gylch. Y mae ymyfed yn ein gorchfygu, yn ein dyrystu, yn ein cywilyddio, ac yn ein gwatwar ymhob pwynt. Y mae yn rhy drech yr un funud i'r athraw, y masnachwr, y gwladgarwr, a'r deddfwneuthurwr. Y mae pob sefydliad arall yn ymdreiglo mewn anhawsderau auobeithiol; mae y dafarn yn dal ei chwrs yn fuddugoliaethus. Fe ddywedir wrth weinyddwyr elusenau cyhoeddus a phreifat fod elusenau a rhoddion yn myned gyda threthi, a dogneau, a phensiwn, at far oll-lyncawl y dafarn. Ond mae y gwaethaf yn aros. Nid oes blwyddyn yn myned heibio mewn na thref na phentref heb rhyw drychineb annysgwiliadwy a gwrthun, canlyniad ymyfed gwastadol, yn fynych yn fychan a diniwed yn ei darddiad. Mae rhyw grea'tur truan, wedi bod am amser maith, ac yn deilwng, yn uchel yn mharch, fe allai yn mharchedigaeth, y gymydogogaeth, yn gwneyd llongddrylliad sydyn o'i gymeriad. Dan ddylanwad cydgasgledig alcohol, yn cael ei wneyd yn waeth, fe allai, gan weithredyddion eraill, mwy nerthol a mwy bradwrus fyth, mae y dyn gonest yn troi yn gnâf, y dyn parchus yn colli egwyddor a hunanbarch, y dyn doeth yn dyfod yn eithafol ffol, mae y dyn mesol yn anghofio ei hunan ac yn ymsuddo i ddyrgioni. Yna y mae yn troi allan, yr hyn mae yn hosibl y mae rhai wedi ddrwgdybio, fod y ddiod wrth wraidd y peth, ac fod rhyw wraig druan, neu gyfaill arall, wedi bod yn hir yn gwneyd y goren a ellid wneyd i attal, neu i adfer, neu o leiaf i gelu, nes y deuai y gwirionedd allan. Wrth reswm, ar y fath achlysuron ni ellir gommedd i gydymgeiswyr yn ngyrfa bywyd eu buddugoliaeth ddirmygus. Fe fyddai yn llawer mwy i'r prwpas i gymneyd rhybudd, a gwneyd rhywbeth tuag at attal yr anferth ddrwg sydd, y naill ffordd neu y llall, yn ein dyrystu ni oll, ac a allai, canys ni allwn fod yn siwr, lethu a dinystrio unrhyw un o honom.

Mae yn dda genym feddwl fod Mr. Gladstone yn cydnabod fod y "fasnach yma mewn ystâd mor anfoddfaol ag y gall fod," a'i fod yn ei ystyried yn ofal arbenig i'w Weinyddiaeth i estyn rhyw ymwardd i'r bobl rhag masnach nad all flodeuo ond yn eu hafwydd a'u trueni. Y mae wedi dechreu yn rhagorol yn ei gefnogaeth ardderchog i gynnygiad Mr. Roberts; ac ni wnaeth yn hyn ond cario allan egwyddor ag y mae bellach llawer gwaith wedi galw sylw ati fel yr un y mae yn rhaid i ddiwygiad gael ei ddwyn oddiamgylch yn ei hol, sef rhoddi gallu, mewn rhyw ffordd neu gilydd, i'r bobl eu hunain, trwy ddewisriad lleol, neu "local option," chwedl yntau, i lywodraethu, neu os dewisant, i ddifodi yn eu hardaloedd y fasnach mewn diodydd meddwol. Hyderwn yn fawr yr â rhagddo yn fwyfwy cryf yn y cyfeiriad hwn. Y mae yn wir yn arwydd ragorol nad ydyw y tafarnwyr, yn ol fel y deallwn wrth eu hareithiau yn nghyfarfodydd y *Licensed Victuallers' Associations*, yn coledd ond ychydig obaith y dyddiau hyn am y dyfodol, a'u bod yn dra

phell o allu credu fod ysbryd y Llywodraeth sydd yn awr mewn awdurdod yn prophwydo iddynt ddaioni. Ar yr un pryd, dylem oll wneyd ein rhan i sicrhâu y diwygiadau gyda golwg ar y fasnach yma ag yr ydym, mewn ystyr wleidyddol, mewn cymaint angen am danynt. Ond yn arbenig, ac yn ol annogaeth gref a difrifol y *Times*—yr hwn y mae yn gymaint cysur ei weled yntau hefyd, gyda golwg ar yr achos pwysig yma, “ymysg y prophwydi”—dylem oll ymhob ffordd arall a fyddo o fewn ein cyrhaedd wneyd a allom tuag at attal y drwg anferth hwn!

## III.

“Gosod lleidr i ddal lleidr.” Nid annhebyg na fydd hyny yn debyg o brofi yn radd o amddiffyniad i bobl onest. Dyma ddau lyfryn a allai brofi yn dra addysgiadol i'r cyhoedd hygoelus sydd yn ddigon ehad i goledd y fath deimladau parchus am ddiodydd meddwol: *Wine Revelations*, By CHARLES TOVEY (London: Whitaker & Co.), a *Loftus's New Mixing and Reducing Book for the Use of Publicans and Spirit Dealers* (London: W. R. Loftus). Dywed Mr. Tovey, yr hwn sydd yn *Fellow of the Royal Historical Society*, ei fod wedi dechreu gyda masnach y Gwin yn 1834, ac nad oedd ganddo wrth ysgrifenu y gwaith hwn ond un amcan mewn golwg, sef “rhoddi, oddiar ei brofiad maith a helaeth ef ei hun, olwg ar ymarferiadau nad ellir eu condemnio yn ormodol.” Ac ychwanega, “Mi obeithiaf y bydd i'r hyn a ddangosais yn y tudalenau hyn dueddu i beri i'r rhan barchus o'r fasnach weithredu a cheisio gwrthweithio neu roddi attalfa ar driciau melldigedig sydd yn awr mor gyffredin.” Purion peth hefyd fyddai fod eraill y tu allan i'r “fasnach” yn cymeryd gwerns, ac yn gadael yr hyn a eilw Mr. Tovey yn “sothach niweidiol”—“*pernicious trash*”—i'r rhai sydd yn ei gymysgu. Dywed wrthym, allan o un *pipe* o win y Cape, fod rhyw hanner dwsin neu ychwaneg o amrywiaethau yn cael eu gwneyd: Port, Sherry, Madeira, Bucellas, Sauterne, Hock, Amontillado, &c. A dywed “nad ydyw fod y gwinoedd hyn yn cael eu rhoddi allan gydag elfeniaid oddiwrth y fferyllwyr enwocaf yn tystiolaethu i'w purdeb a'u hiachusrwydd, o ddim pwys, oblegid, wrth reswm, nad oes a fyno yr adroddiad ond â'r engreiffitiau neillduol a roddid i'w profi;” ac ychwanega: “Ni lwyddasom erioed i gyfarfod âg un gwin-fasnachydd, yn gwybod am ei fusnes, na fuasai yn arswydo rhag y meddwl am yfed peint o hono.” Yn y dyddiau goleu hyn, prin y mae ffrwyth y winwydden yn angenrheidiol o gwbl i wneyd gwin! Gyda gwirod wedi ei wneyd o bytatws a siwgr, fe rhagrir gwin a ystyrir yn rhagorol, o ba un y dywedir fod un tŷ yn anfon allan 3000 o farilau bob blwyddyn. I weled nad ydym yn ysgrifenu ein dychymygion ein hunain, cymerer a ganlyn o *Mr. Ridley's Wine Trade Circular* fel cyfarwyddyd i wneyd *Elbe Sherry*: “Take forty proof gallons of fine potatoe spirit, fifty-six gallons of pure Elbe Water, four gallons of syrup, and to be liberal allow ten gallons of luscious wine or grape.” O'r 108 galwyn a gynnrychir felly y mae 10, ac i chwi fod yn hael, yn “*liberal*,” yn dyfod o'r grawnwin! Y mae rhai yn meddwl yn fawr am chwisi, ond dengys y gŵr hwn mai gwan yw eu sail. “Vast quantities of spirit are sold which contain no whisky at all, but is simply a medicinal tincture composed of rectified spirit

and of various flavoured substances known only to themselves." Am beth anferth o *sherry*, dywed y gwin-fasnachydd parchus, Mr. Tovey, ei "fod yn deilliaw o ffynnonellau annibynol ar y winwydden, ac nad ydyw yn fwy o win nag ydyw o chwisi." Ac am y gwirod y creda llawer ynddo fel yn meddu pob rhinwedd, *brandy*, dywed yr un awdurdod uchel ei fod, ar ymweliad â Cognac, wedi gweled *punchoons* o wir-odydd Berlin yn yr heolydd, yn aros eu cymeryd i'r ystorfeydd, i'w danfon i'r byd, bid siwr, fel "Brandy Cognac." Ac nid yn unig hyny, ond dywed fod cannoedd o *punchoons* o wirod o wneuthuriad Prydeinig yn cael eu hanfon i Cognac i'w dyohwelyd fel "French Brandy." Nid ydyw ond peth i'w ddysgwyl fod yr anmhrofiadol yn cael eu twyllo, a dywed ef fod rhai profedig yn fynych yn analluog i wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau yn y pethau hyn; ac ychwanega, yr hyn nad ydoedd mewn un modd yn newyddbeth i gyfeillion sobrwydd, "fod alcohol, pa un bynag ai wedi ei wneyd o haidd, maize, ceirch, beetroot, pytatws, neu siwgr, pa un bynag ai sudd y grawnwin ai sudd melus-ffrwythau, neu ddefnydd siwgraidd, bob amser yr un, a'r un â'r hyn sydd yn dyfod trwy ymweithiad y grawnsudd." Ac ni fydd yn llawer o gysur i'r bobl barchus sydd yn siriol yn rhoddi 8 neu 9 swllt y galwyn am y *brandy* goreu, i ddeall nad oes ganddynt un math o sicrwydd nad y gwirod Germanaidd ydyw a ellid brynu am un geiniog ar bymtheg y galwyn. Ac os felly gyda'r diodydd parchus ffasiynol, pa faint mwy gyda'r rhai a ddarperir i dori—neu yn hytrach i gynneu yn fwy fwy—syched y werin a'r tlodion? Y mae Mr. Loftus, yn yr ail lyfr a grybwyllasom, yn garedig yn rhoddi cyfarwyddiadau i'r "fasnach" pa fodd i ddarparu ar eu cyfer hwynt. Wrth reswm y mae eisieu gofal mawr. "Rhaid peidio gadael dim i ddamwain neu ddyfaliad, rhag saethu tu hwnt i'r nodd trwy ormod dyfrio, a pheri i'r cwsmer ddiogio, neu golli ennill teg a ellid sicrhâu trwy law rhy gynnil." Da genym weled mai yr elfen a gydnabyddir fwyaf defnyddiol gyda golwg ar *gin* ydyw dwfr. (Goreu po fwyaf o ddwfr yn y *gin*, bid sicr; a gwell fyth, yn ddiammeu, fyddai cymeryd yr elfen risialaidd yn bur!) Os bydd eisieu blas, "richness and piquancy," ar y *gin*, argymhella Mr. Loftus arleg, balsam Canada, neu durpentin Strasbourg, yn gystal a *caustic potash and sliced horse-radish*. Pe dygwyddid rhoddi gormod o ddwfr, y feddyginiaeth yw rhoddi *cassia balls and chilies* wedi eu trwytho mewn gwirod ynddo, "to bring up the pungency." Dywed Mr. Loftus fod *spirit of wine*, neu alcohol, wedi ei ddyfrio, a'i liwio âg ychydig siwgr llosg, wedi cael ei werthu am *frandy*, heb unrhyw ddrwgdybiaeth yn meddwl y rhai a'i hyfent am gymeriad y ddiod. Yr un modd gellid dyfrio *rum* a chwisi; ac fe ddangosir y bydd ennill mawr wrth werthu *rum* gyda 44 galwyn o ddwfr am 56 galwyn o *rum*, "gan fod *rum* yn dal dwfr yn well braidd nag un gwirod arall." Y mae yr *adulterations* yn y cyfan, yn ol fel y dysgir ni gan yr awdurdodau parchus hyn, yn anobeithiol; ar yr un pryd, y mae yr elfen *fwyaf peryglus*, yr alcohol, yn gyffredin i'r rhai puraf fel y lleill. Y fath drugaredd y gallwn oll wneyd yn anfesurol well heb gyffwrdd â'r un o honynt!

## ODDICARTREF.

Y MAE i bob mordaith ei dechreuad. Cysurus ydyw gallu bod yn sicr ar bwnc fel hyn, heb fyned i athronyddu arno; onidè costiai i ni fyned i'r niwl ar unwaith, am na fedrwn lawer ar y gwaith. Gan nad pa beth a ammheuir mewn perthynas i ddechreuad byd a dechreuad pethau eraill, yr ydym yn sicr fod i'n mordaith ni ei dechreuad, canys bu hyny yn mis Chwefror 1877. Yr oeddym yn rhyw led barotoi ar ei chyfer er tua "dy'gwyl Domos" y flwyddyn cynt, ac yn edrych pa beth a allem wneyd oddeutu y glanau cyn myned ar wyneb yr eigion mawr. Yn hyn y mae Arglwyddi y Morlys yn gall yn eu canedlaeth, a gofelir yn well am longau ei Mawrhydi nag yr ydys yn gofalu am ein llongau marsiandiol. Tra y mae yr olaf, os gellir credu hanner yr hyn a ddywed Mr. Plimsoll—"cyfaill y morwr"—yn cael eu hanfon allan i'r môr pa un bynag a fyddant yn gymhwys neu beidio, y mae llongau ei Mawrhydi, gan amlaf, yn cael rhedeg ar wibdeithiau byrion i edrych a fyddant yn debyg o ddal mordaith fawr. Ac felly y bu yn ein hamgylchiad ninnau: am tua chwech wythnos o amser rhoddwyd prawf ar bob rhaff, ac archwiliwyd y peiriannau i wybod eu bod yn ddifai; ac o'r diwedd, ddechre y mis a nodwyd, ymaith â ni tua'r wlad a ddymunem.

Dechre drwg a gawsom, oblegid yr oedd awelon y mis yn gwirio yr hen air,

Chwefror chwyth  
Gwyd y neidr oddiar ei nyth.

Ac yr oedd awelon y glanau y pryd hwn yn ddigon i godi ein llestr ninnau yn glir oddiar wyneb y don a'i chwythu i rywle. Er y cwbl cyrhaeddasom Plymouth yn ddiogel, lle yr oedd yn rhaid i ni alw am nwydd sydd wedi dyfod yn angenrhaid erbyn hyn ymhob un o longau ei Mawrhydi, sef glô; ac wedi aros yno am 36 o oriau, canasom ffarwel i holl borthladdoedd Lloegr am dymmor, gan gyfeirio ein hwynebau tua Gibraltar fel y lle cyntaf y meddyllem am lano.

Cyn myned yno, hwyrach y byddai yn well i ni gymeryd pwyll i adrodd tipyn am y llong a'i neges. Er ein bod wedi dyweyd ar y cychwyn ein bod mewn llong sydd yn perthyn i lynges ei Mawrhydi—ac y mae hyny yn rhywbeth sydd yn gwneyd pob un sydd yn "y gwasanaeth" yn falch o hono—eto "fel y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant," yr ydym yn sicr na syna yr ieuengaf o'n darllenywyr pan y traethwn y gwirionedd nad yw pob llong unrhyw long. Gan nad beth a freuddwydir gan rai am gyfartaledd—ymysg aelodau cymdeithas, o leiaf—y mae yn dygwydd fod y mawr a'r bach i'w cyfar-

fod yn ein byd ni. Cyfarfyddir â'r cawr a'r corach, y ci mawr a'r corgi; ac yn aml, cyferbyniad â'r bychan sydd yn creu gogoniant y mawr. Ond heb athronyddu, amcanu yr oeddym i beidio camarwain neb i dybio, wrth ein clywed yn son ein bod ar un o longau ei Mawrhydi, ein bod ar ryw long *fawr* anghyffredin. Y mae yr anghyfartaledd o fawr a bychan i'w gyfarfod ymhlith llestri y llynges; ac heb ymdroi dim i brofi hyn, ni a wnawn yr hysbysiad ar unwaith mai ar un o'r rhai lleiaf, mewn cymhariaeth, yr oeddym ni pan yn hwylio i'r fordaith a nodasom. Tri o gyflegrau—i ochel y bastardd "gynau" yn y TRAETH-ODYDD—a berthynai i'n llong. Nid myned i ryfel yr oeddym, na chynnorthwyo mewn rhyfel chwaith, ond yr oedd ein hymdaith gyda gwaith mwy heddychol. Yn y lleoedd y bwriadem ymweled â hwy, y mae, medd rhai, olion o fasnach ag y mae Prydain, er ys peth amser bellach, wedi ei chyhoeddi yn anghyfreithlawn. Yr ydym ni y Prydeinwyr yn anghyffredin o ryddfrydig yn ein syniadau mewn perthynas i fasnach. Gellir masnachu bron mewn pobpeth, a chroesaw i bob dyn wneyd ei wala o arian gyda bron y peth a fyno. Os gall ond eu dwyn i'r farchnad, gall wneyd masnach o'r dwfr, yr awyr, y goleuni, y trydan, a swrn, ysywaeth, a doddi pris ar bethau a gyfrifir yn etifeddiaeth gyffredin i bawb. Caiff farchnata faint a fyno mewn pob nwydd, o hen hoelion i'r aur mwyaf digymysg. Caniateir i ddyn werthu ymborth, o'r cyffredin i'r moethus; dillad, o'r syml i'r gwychion; llestri pridd, coed, arian ac aur; dodrefn, o'r salw i'r drudfawr; pob math o gyfleuserau teithio ar dir a môr; pob mwyniant a phob hyfrydwch y gellir ei ddyfeisio; gwrthddrychau wyneb y ddaear a thrysorau ei chrombil; ie, yn ddiâu, y mae Prydain yn gartref masnach rydd mewn gwirionedd. Ond er mor ryddfrydig ei syniadau ar hyn o beth yw ein teyrnas, y mae un nwydd wedi ei gondemnio ganddi er ystalm fel peth anmhrynadwy ac anwerthadwy. Ofnwn, pe baem yn ei adael i'n darllenwyr i'w ddyfalu, mai methiant a fyddai gyda lliaws mawr o honynt, am na welsant y cyfryw fasnach erioed, ac na chlywir cymaint yn ei chylech y dyddiau hyn, ac yn olaf am fod llawer yn tybio nad yw y fasnach mewn bod mwyach. Ai anghredadwy ydyw fod y fasnach mewn cnawd dynol eto heb fyned o'r ffasiwn? Anghredadwy neu beidio, byw yw y gaeth-fasnach; ac yr ydym ninnau yn cael ein hanfon allan i wyllo ei symudiadau. Yr ydym, felly, yn fwy o geisbyliad nag o ryfelwyr. Hwyrach y gallein bron droi allan, a chyflawni ein neges, heb un cyfleg ar ein helw; ond gan mai arfer y Prydeinwyr yw bod yn barod i wynebu pob perygl pan y daw, dymunol hwyrach fydd fod y tri chyfleg sydd genym wrth law. Dyna ein llong, a dyna ein neges.

Wedi cychwyn fel hyn yn deg i'r môr, a gadael Ynys Prydain o'n hol, heb fwriadu dychwel iddi, oni ddaw rhywbeth rhyfeddach na chyffredin i'n cyfarfod, am dymor lled faith—wedi cychwyn yn deg, meddwn, yr ydym yn cael ychydig hamdden weithian i edrych tipyn o'n hamgylch, ac ymgydnabyddu y naill â'r llall. Er mai llong fechan yw ein llong, wrth ei chymharu â rhai o gawrlongau ei Mawrhydi, eto y mae yn lled agos i gant o bersonau ar ei bwrdd. Mae rhai o honom yn lled ieuainc, tra y mae rhai eraill, mae'n debyg, ar eu mordaith olaf mewn cysylltiad â'r llynges. Bu rhai o honom y ffordd hon o'r blaen, ac y mae y llwybr yr ydym yn ei aradu yn ddigon adnabyddus i ni;

ond am liaws, ni chawsant fantais erioed o'r blaen i droi allan i'r môr; dim ond myned allan am yspaid byr mewn llong, ar wibdeithiau hynod fyrion, ac ymgadw, fel yr henafiaid, yn ngolwg y tir. Wele, fechgyn, cewch dreio eich gwroldeb a phob rhinwedd a feddchw cyn bo hir bellach, mewn tymhestl ar yr hynod "fau" sydd yn gwneyd i bob un a'i croesodd gofio rhywbeth am dano. Clywsom chwï yn difyru eich hunain a'ch gilydd, rhai yn canu a rhai yn crochrho mewn cydgan llawn,

In the Bay of Biscay, O!

Cawn weled eich dewrder pan yn y *Bay of Biscay* ei hun. Dyma ni yn y *Bay*, ac fel y profodd llawer llong o'r blaen, felly cawn ninnau brofi heddyw, fod y môr yn brochi, yn ysgyrnygu, ac yn cynddeiriogi i'r fath raddau, nes peri ammheuaeth mewn llawer mynwes fod y diwedd wedi dyfod i'n cyfarfod. Lluchid ein llong o amgylch ogylich, a hyny geymaint nes ein gosod yn yr enbydrwydd mwyaf o gael ein hyrddio neu ein golchi drosodd; ac i gyfarfod hyn, bu raid cael bywyd-caffau ar hyd y bwrdd. Ond wedi y cyfan, nid ydyw mordaith dros y *Bay of Biscay* ond ber mewn cymhariaeth, a thu hwnt iddo, o drugaredd, yr aethom ninnau, a chyn pen naw niwrnod ar ol gadael cartref cyrhaeddasom Gibraltar.

Y mae pawb a fu yn y lle wedi teimlo yn ddyledswydd arnynt ddesgrifio Gibraltar a thraethu ei hanes; am hyny gallwn ni arbed i ni ein hunain y drafferth. Ar yr olwg gyntaf, y mae dyeithryn yn cael ei siomi am gadernid milwrol yr amddiffynfa fydenwog hon. Clywsom am ei chadernid, ond beth yn y byd sydd yn ei gyfansoddi? Y mae y graig yn serth, bron yn unionsyth, a dim i'w weled ond craig. Ond wedi syllu yn fanylach, caiff yr edrychydd achos i newid ei farn. Gwelir ei bod wedi ei thori yn orielau, er yn lled uchel, fel ag i beri fod ei chyflegrau yn guddiedig. Ceir hefyd linell o gyflegrau peryglus yn lled isel yn y graig; ond heb i un fod yn ei hymyl, aml y bydd y llinell hon yn guddiedig gan y llongau fyddant yn llechu yn ochr y gadarn-graig. O un ochr yn unig y mae mynedfa i'r amddiffynfa, sef yr orllewinol, lle y ceir rhiw neu ddisgynfa tua'r culfor. Ar y ddisgynfa hon y saif y dref. Poblogaeth gymysg sydd ynddi, o tua 25,000, o'r rhai y mae 7000 yn filwyr yn ngwasanaeth Lloegr. Cafodd y lle ei enw oddiwrth y Cadfridog Mooraid Târik, yr hwn a'i galwodd yn "Jabalu 't Târik"—mynydd Târik. Wedi newid dwylaw rhwng y Mooraid a'r Ysphaeniaid amryw droion, daeth i feddiant Lloegr yn 1704, yr hon a'i cadwodd hyd yn hyn er gwaethaf rhai ymdrechion o eiddo y Ffrancod a'r Ysphaeniaid i'w gwrthio allan o honi.

Yn agos i Gibraltar y gwelsom, am y tro cyntaf erioed, dipyn o gêl-fasnachu—*smuggling*—yn cael ei wneyd. Gyferbyn â Gibraltar y mae Algeiras ar yr arfordir Ysphaenaid; a chan fod Gibraltar yn borthladd rhydd, heb ddim toll ar nwyddau, y mae yr Ysphaenwr yn edrych tuag ato, ac yn gwneyd ymdrech i ddianc o afaelion gwylwyr arfordirol Ysphaen—y *guardas*. Mynych y gwelir y cêlfnachwr yn rhywfo â'i holl egni, gyda'r gwylwyr ar ei ol, nes croesi y llinell derfyn, pan y mae y gwylwyr yn hollol ddiallu, ac yn gorfod gwrando ar grechwen fudd-goliaethus y rhai y buont yn eu hymalid. Y mae y cêlfnachwr mor

ddiogel ar ol croesi y terfyn ag oedd y llofrudd ar ol cyrhaedd y ddinas noddfa yn Israel gynt.—Un diwrnod yn unig yn Gibraltar, ac yn iach i ti, gaerfa oesol, am y pryd hwn; os cawn fywyd ac iechyd i ddychwel i Loegr, ni byddwn mor anghymydogol a myned heibio i ti heb alw.

I'r "môr mawr" â ni. Iâ, "y môr mawr" y gelwid ac y cyfrifid am oesau ar oesau y dwfr yr ydym yn wynebu arno yn awr—Môr y Canoldir—môr anhynaws neu radlawn fel y dygwyddo. Y mae yr olwg ar Gibraltar wedi iddi dywyllu yn rhamantus. Ymddengys y goleuadau dysglær dirif fel yn tarddu o fynedfa rhyw ogof odidog neu ffwrn wynias yn nghrombil y graig, tra y mae anferthwech du y graig ei hun yn ymestyn i'r wybr. Yn yr haf hefyd, bydd wyneb y môr rai prydiau â mânranau goleuni yn chwreueu arno, nes peri ei fod fel wedi ei orchuddio â *phosphorus*. Bydd y dôn leiaf yn cynnyddu angerdd y goleu; ac i chwaneu ato yn fwy fyth, gwelir lluoedd o'r *dolphins* yn hyrddio trwy y dwfr mewn goleuni o'u gwneuthuriau eu hunain. Nid yn fuan chwaith yr anghofiwn yr olwg ar y lân Affricanaidd o Gulfor Gibraltar. Prydferth odiaeth yw amddiffynfa Centa ar adeg machlud haul—yn goch a phorphoraidd, ac yn edrych fel pe am gydymgais am enyd â'r gaerfa ddigyffelyb ar y lân Ewropeaidd. Ond rhaid gadsael y cyfan, ac wrth gychwyn i Fôr y Canoldir yr ydym yn troi pen blaen ein llong tua Malta, a chan hyny yr ydym yn cael mantais i weled rhanau o lanau Affric;—Algiers, gyda'r palasau o'i hamgylch; Penrhyn Faroe, a phentir y Saith Penrhyn—sydd i'w gweld yn sitrachog, bylehog, ac afreolaidd; Penrhyn Bon, dim ond prin ddangos ei hun; ac yn nesaf Ynys Pantellaria, yr hon sydd yn ddios yn grugfryn anferth o ddyrchiaid tanchwydfa sydd erbyn hyn wedi llongyddu. Mae yr ynys hon tua 36 milldir o amgylchedd, ac ymddengys tua 3000 o droedfeddi o uchder. Hawdd ydyw olrhain y safnau rhwth a arllwysent unwaith y ffrydiau tanllyd, a'r afonydd o lafa yn gymysg â chruglwythi o graig sydd wedi eu hyrddio bendramwnwgl i lawr ochr y mynydd yn ystod rhai o'i ystranciau mwyaf gorwyllt. Ar ben uchaf y mynydd gwelir cwmwl yn hofran, yr hwn y gellid yn hawdd ei gamgymeryd am fwg yn dyrchafu yn ddibaid oddiar dânau wedi hanner diffoddi. Perthyna yr ynys i Sicily, a defnyddir hi i anfon iddi ddynion sydd yn rhy anghyffredin o ran eu harferion i allu bod yn gydffurf â chyfreithiau y wlad; ac fel sefydliad cosbawl, prin y gallwn feddwl am unhe mwy gerwin ac amymunol. Bron na thybiem fod yr alltudiaeth adna-byddus i Patmos gynt yn wynfyd yn ei ymyl.

Bu y "môr mawr" yn dda ei dymher wrth i ni fyned ar hyd-ddo y tro hwn, a chwasmog gyrhaedd Malta ymhen rhywbeth fel tair wythnos ar ol gadael cartref. Malta, neu Melita Llyfr yr Actau, sydd ynys tua 17 milldir o hŷd a 9 o led. Perthyna iddi y porthladdoedd goreu yn y byd, yn gymaint a bod y dwfr o ddyfnder ussuffurf, fel y gall y llongau mwyaf fod ochr yn ochr â'u gilydd hyd yn nod yn ymyl y lân. O ganlyniad y mae yma arfâd, a lle helaeth i adeiladu llongau, ac y mae yn brif gyrchle canolog y llynges yn Môr y Canoldir. Mae y manteision hyn yn gymhelliad i'r trigolion i amaethu y tir yn dda, a thyfir yna gotwm, yd a chloron. Megir hefyd yma tua phum' nail ar hugam o anifeiliaid. Mae darpariadau helaeth wedi eu gwneyd yn yr ynys hon ar gyfer unrhyw ymosodiad, trwy drysori mewn cuddfeydd tanuddaarel



ddigon o ymborth ar gyfer gwarchae am saith mlynedd llawn; a chan fed yr agorfeydd i'r porthladdoedd wedi eu hamgæru yn gryf, byddai yn orchest fawr i unrhyw elyn lwyddo i'w chymeryd. Y mae y dwfr yma mor loew, fel y gellir gweled i lawr am o 30 i 40 troedfedd. Bechgyn Malta ydynt yn gwybod hyn yn dda, ac ymdyrrant o amgylch llong can gynted ag y daw i mewn, gan gynnwys ymsuddo ar ol cein-iogau a deffir i'r dwfr. Cymaint yw eu medr yn hyn fel y goddiweddant unrhyw beth a fwrir i'r dwfr ymhell cyn iddo gyrhaedd y gwaelod. Merched Malta ydynt yn hyfedr mewn brwydwaith sidan, ac mewn gweu menyg sidan; ac y mae y dynion yn enwog am eu cywreirwydd mewn pob gwaith aur, arian, a meini gwerthfawr, a llosgog ydynt yr addurniadau benywaidd a weithir ganddynt, ac a anfonir i bob parth o'r byd. Preswylir yr ynys gan tua 160,000, ac y mae dan lywodraeth Lloegr, gyda phenllywiawdwr dani, yr hwn hefyd sydd yn ben cadfridog. Iaith Malta sydd gymysgedd o'r Arabaeg a'r Italaeg, ond yr Arabaeg sydd helaethaf ynddi. Y mae hinsawdd yr ynys yn gyffredin yn ddymunol ac iachus, er yn boeth iawn yn yr haf, ac er gwaethaf y ffaith fod y *sirocco* o'r de-ddwyrain yn ymosod arni tua mis Medi. Oer iawn y cawsom ni y tywydd am y deuddeng niwrnod yr arosasom yma.

Un peth lled annymunol yn Malta ydyw rhyw ddsygleirdeb sydd ar yr adeiladau a'r creigiau. Y mae yn felynwyr llachar, digon i boeni y llygad cryfaf, ac y mae y creigiau mor noethlwm, heb na glaswelltyn na phlanhigyn yn tyfu o'u hamgylch, fel ag i beri fod edrych arnynt yn boenus mewn gwirionedd. Gwelsom yma eglwys gadeiriol St. John, yr hon nas dylai neb fyned i Malta heb ei gweled. Y mae yn hardd yn wir, ac yn rhwym o aros ar gof yr edrychydd am byth ar ol unwaith gael golwg arni. Enwir hi ar ol nawddsant marchogion enwog Malta, ac adeiladwyd hi yn 1580. Tra y mae oddiallan yn edrych yn bentwr anferth, y mae ynddi glychau tra soniarus, ac y mae yr addurniadau tumewnol yn odidog brydferth. Y llawr sydd o fynor, ac wedi ei wneyd i fyny o feddfeini y marchogion, ac y mae arluniau o honynt mewn mynor gwyn. Un fath bobl yw holl feirwon y lle hwn, oddigerth un, a'r person a gafodd yr anrhydedd o'i gladdu yma heblaw y marchogion oedd yr hwn y addurnodd yr eglwys mor dra harddwych. Adeilad eang arall gwerth ei gweled yw palas *Grand Master* y marchogion. Dywedir fod y llyfrgell yn y palas hwn yn cynnwys ar un adeg ddeng mil a thriugain o gyfrolau. Y prif bethau ynddo yn awr yw arfwisgoedd ac arfau y canol-oesoedd; tra y gwneir defnydd ymarferol o hono fel arfddŷ, yr hwn a gynnwysa ddigon i arfogi deng mil o wŷr traed mewn ychydig fynyddau. Yn ddiweddaf, golygfa eithaf dyddorol i ni oedd cael golwg ar St. Paul's Bay, a thybiem ein bod yn canfod y "gilfach â glân iddi," i'r hon y gwthiwyd y llong, y glynodd ei phen blaen, ac yr ymddattododd y pen ol gan nerth y tonau. Os nad dyma olygfa ddiweddaf Euroclydon y fordaith fythgofiadwy hono, y cwbl a allwn ddyweyd yw fod y fan yn cynnwys pob peth angenrheidiol i'r hanes fel ei hadroddir gan Luc.

Gwynt teg a hin hyfryd a'n dŷg mewn llai nag wythnos i Port Said, tref yn mhen Camlas Suez, a phrin y rhaid i ni hysbysu y darlennydd eia bod wedi cyrhaedd o'r diwedd i hen wlad casthiwed plant Israel. Ond gallwna fod yn sicr na fu gan un o'r lliaws Pharaohiaid na phlant

Israel ychwaith na rhan na chyfran yn adeiladiad Port Said. Nid oes dim henafol yn y lle hwn o gwbl, ond y mae yn amlwg fod y dref o'r un oed a'r gamlas, neu ieuengach na hyny; ac y mae yr un mor sicr na bydd y lle yn aros, ie, er yn ngwlad yr Aipht, ymhen tair mil o flynyddoedd eto, i gadw yn fyw enwau yr adeiladwyr. Bythynod coed a geir yma, a'r rhai hyny wedi eu trefnu yn heolydd digon taclus, tebyg i sefydliad Americanaidd newydd; ac y mae yma, os nad ydym yn camgymeryd, un tebygolrwydd pellach,—sef fod pob trydydd bwthyn yn dafarndŷ a phob pummed yn lle i hapchwareu. Mae ein darllennwyr yn barod i gredu mai nid lle uchel ei foesoldeb yw Port Said. Y mae y lle a'i drigolion yn cyfateb yn berffaith i'w gilydd. Ysgarthion y Levant—Groegiaid wedi eu han-Roegeiddio—yagymun-bethau cymdeithas Roegaidd ac Aiphtaid, yw y rhan liosocaf, gallem feddwl, o'r rhai a drigant ac a ddygant eu gorchwylion ymlaen yn Port Said. Rhaid i hapchwareuwr fod yn fedrus a chyfrwys yn wir i gydymgais â'r rhai hyn, ac ychydig yw nifer y rhai a wnaent hyny heb eu “pluo,” ys dywedir. Ymhob man y buom, yr ydym yn meddwl na welsom fodau dynol mor ddirywiedig. Y mae eu cymeriad peryglus i'w ddarllen yn eu llygaid tywyll a ffyrnig; ac ni chaiff neb wneuthur dim â hwynt heb ddeall drosto ei hun eu bod yn ddyhirod a chwiwladron.

Gwaith mawreddog yw y Gamlas, ac y mae yn anmhosibl edrych arni ac ar y diffeithdir tywodlyd o bobtu iddi heb ryfeddu at athrylith beiriannyddol M. Ferdinand de Lesseps. Yr oedd yn gofyn athrylith i gynllunio a gweithio allan y gamlas hon, yr hon sydd yn ddyddorol am ei bod yn ffurfio dolen gysylltiol rhwng yr hen fyd a'r newydd. Ar wyneb ei dyfroedd y mae yn nofio gychod nad ydynt wedi newid nac yn eu dull na threfn eu rhaffau a'u hwyliau er yr adeg yr oedd y “Pharaoh yr hwn nad adnabuasai mo Joseph” yn unben ar y wlad, tra wrth eu hochr y ceir yr agerlongau newyddaf o ran eu cynllun a'u peiriannwaith. Y mae y Gamlas hon yn byrhâu a rhwyddhâu yn fawr y fordaith i India; ac eto, hynod yw dyweyd fod y Dwyr-Indiaid wedi bod yn dra rhagfarnllyd yn ei herbyn am amser maith. Ffrwyth y rhagfarn hwn fu i'r gamlas dderbyn y llysenw arwyddol “Y Ffos,” wrth yr hwn enw yr adnabyddir hi gan amlaf gan forwyr llynges ei Mawrhydi yn gystal a morwyr y gwasanaeth marsiandiol. Bu y rhagfarn, meddir, yn rhwystr i lawer Sais ac Indiaid wneuthur defnydd o'r ffordd hon. Bid a fyno, bendith yw y “Ffos,” a cheir llawer yn barod i ddewis fforffetio rhywfaint o'r hyn a dalasant am “drwy-docyn,” a myned yn araf ar hyd y gamlas, yn hytrach na dyoddef y gwres annyoddefol mewn cerbyd ar y rheilffordd o Alexandria i Suez.

Ar hyd ei glânau tywodlyd y mae dwy linell o'r pellebyr, ac ar lynau cyfagos gwelir yr heidiau o'r *flamingo* gwynion, hwyaid gwylltion, lluoedd o'r pelican, ac yn awr ac eilwaith y creŷr a'r *ibis*; tra uwch ben y tyfroedd tawel y ceir twyllrith (*mirage*) o ffurfiau ac ymddangosiadau yn yr anial sydd ymhell ac o'r golwg. Nid ydym ni am fod yn ddigon o athronwyr i egluro y twyllrithiadau hyn, ond y maent yn ddigon o dâl am fyned mor bell a Chamlas Suez i'w gweled. Ar bob llaw y mae yr *alluvian deposits*, a'r rhai hyny wedi eu gorchuddio â haen o dywod y diffeithwech, nes bod mor llyfn yr olwg â bwrdd, ac mor noethlwm o dyfiant llysieuol a phalmentydd Llundain. Ond yr oedd yn dda genym

weled peth arwydd o wareiddiad, ie yn Port Said, trwy ganfod yma ac acw rai planhigion a blodau yn cael eu meithrin a'u hamaethu o amgylch y tai, ac yr oeddym yn meddwl eu bod yn arwyddion i ni o gyfaddasder rhyfeddol yr Aipht hon at fywyd llysieuol.

Gwenyn gweithgar Port Said yw y Mulattoes—"fellahs" y tir—y rhai a welir yn myned a dyfod, yn hanner noethion, ac yn dduon gan lwch y glo y maent newydd fod yn ei gludo i agerlong sydd yma. Rhedant ar hyd planciau, ôl a blaen, gan gario bob tro rywbeth fel deugain neu hanner canpwys o lo, gyda'r fath gyflymdra a rheoleidd-dra a phe b'ai eu symudiadau yn cael eu rheoli gan beiriannwaith; a buan y llwythant neu y dadlwythant long. Ai tybed mai nid gan luoedd tebyg i'r rhai hyn y codwyd i fyny adeiladau aruthrol yr Aipht, sydd erbyn heddyw yn gofadeilion o'i mawredd oesau ar oesau yn ol? Nid ydyw yn annhebyg.

Yn ochr y *fellahs*, yn heolydd Port Said, gwelir Bedouin yr anialwch—nid fel y gwelir hwynt mewn llyfrau darluniadol, yn hunanfeddiannol ac arwraidd, ond yn fudron, fudron—mor fudron nes y mae düwch y Mulattoes gan y glo a gludant yn ymddangos yn lendid yn ei ymyl. Nid mewn geiriau y gellir cyfleu syniad am afleidid plant Ismael. Er gwaethaf pobpeth, y mae y rhai hyn yn foneddigion gwâr wrth eu cymharu â'r giwed a nodasom yn barod; er mor aflan ydynt, y maent yn ddynion tal a chadarn yr olwg, a thybiem mai nid rhai i'w diystyru fyddent pe cyfarfyddid hwynt yn eu diffeithwch eu hunain. Cyfarfyddir yma â morwyr o bob môr, a brodorion o bob gwlad, a gwaith anorphen fyddai nodi amledd yr ieithoedd a glywir yn cael eu siarad yma.

Wedi cychwyn i lawr y Gamlas, yr oeddem yn dyfod yn awr ac yn y man at orsafau, lle y byddai yn rhaid i ni sefyll nes cael sicrwydd fod pob peth yn glir o'n blaen rhyngom a'r orsaf nesaf; canys y mae mor bwysig gwybod hyn yn y fan hon ag ydyw gwybod a yw y ffordd yn glir ar reilffordd sengl. Yr ydym yn gweled fod y dwfr yn rhedeg i gyfeiriad Môr y Canoldir, a hyny yn weddol chwyrn; ac yr ydym hefyd yn sylwi fod gwynt yr anialwch, pan o'r dehau, yn bur oer, tra y mae pelydr yr haul yn disgyn arnom yr un pryd fel pe yn wynias, nes bod lludded poenus fel yn ymdywaltt yn gawod drosom. Yr ydym yn myned ymlaen mor araf a phum' milldir yn yr awr, am y byddai i gyflymdra mwy olchi ymaith lânau y Gamlas, y rhai ydynt yn doredig eisoes mewn rhai manau. Wedi dyfod i un o'r gorsafau, beth a welwn ond llestr odidog a adnabyddir genym fel chwaerlong, canys nid yw amgen nag un o longau ei Mawrhydi, yn dychwel gyda milwyr o'r Dwyrain yr ydym ni â'n hwyneb arno. Tyrent hwy i ochr eu llong hwy, a ninnau i ochr yr eiddom ninnau, i lygadrythu ar ein gilydd a chyfnewid rhai syniadau. Bron na ddymunasem gyd-deithio tuag adref, ond yr oedd genym ni ddyledswyddau yn ein haros ymhellach ymlaen; gan hyny, rhwydd hynt i ti, long dda, i fyned allan o'r "Ffos," a gwynt teg i groesi y Bay of Biscay.

Ymlaen rhwng clogwyni o lânau â ni, ac, er yn ddwfn, gyda'r gamlas mor gul a chamlesydd Lloegr, fel y mae llywio yn beth y rhaid ei gyflawni gan law gyfarwydd, yn bymaint a bod gwahaniaeth o ddwylyth y naill ffordd neu y llall yn berygl o fod yn drychinebus. O'r diwedd yr

ydym yn cyrhaedd i eangder Llyn Timzah, ar lán orllewinol yr hwn y saif Ismailia—dinas ag yr oedd y Khedive (diweddar erbyn hyn) yn ei bwriadu i yru Alexandria i'r cysgod. Y mae y llyn hwn yn ddigon dwfn i unrhyw long ryfel yn y byd, ac y mae yn ddigon o faint i gynnwys holl lyngesoedd y byd ar ei wyneb. Rhed i mewn iddo, yn ymyl Ismailia, ddyfroedd o gamlas dwfr croew, yr hon sydd yn cysylltu yr hen Nilus â Chamlas Suez. Y mae Ismailia yn dref wych iawn, gyda heolydd llydain a llwybrau traed da, y rhai ydynt wedi eu cysgodi yn amal gan goed, ac y mae yma erddi cyhoeddus yn cael eu cadw yn dda. Yn sicr y mae ar y blaen i ddinasoedd yr Aipht, ac ar y blaen, ni a dybiem, i angenrheidiau y ganrif bresennol, oni newidir gwedd gwlad yr Aipht yn fwy na chyffredin. Y mae yn dref dawel, gyda'r eithriad o'r trwt diddiwedd a glywir gan y *donkey-boys*. Cawsom wahoddiad i farchogaeth Dr. Kenealy, Prince Bismark, Roger Tichborne, Champagne Charlie, a'r Khedive, a hwyrach ychwaneg o enwogion; a phan oeddym yn dangos ein hunain yn fyddar i bob galwad, tafodid ni yn erwin,—“What for you come Ismailia in steamer, no want ridee donkey? Bah! you Inglis man, no good; no got money, bah!”

Y mae Llyn Timzah, yn gystal a'r Llynau Ohwerwon ymhellach i'r deheu, yn meddu dyddordeb i'r rhai ydynt gyfarwydd mewn cnawd pysgod. Ceir pysgod nas gwelwyd hwynt o'r blaen yn Môr y Canoldir yn gwneyd eu ffordd yno trwy Gamlas Suez o'r Môr Coch, ac y mae y llynau hyn, fel lleoedd hanner y ffordd, yn cynnwys engreifftiau o bysgod y naill fôr yn cyfnwid nid yn unig eu trigle ond eu helpen i gyfarfod âg amgylchiadau y môr arall. Y maent yn ffurfiau newyddion ac o liwiau newyddion, a byddant cyn hir yn bwnc i gymdeithasau dysgedig Lloegr ei efrydu.

Ond rhaid i ni brysuro o'r Gamlas, trwy y Llynau Ohwerwon beision, y rhai, fel y clywsom, a gymerasant fisoedd i'w llenwi pan dorwyd y lle hwn gyntaf, ond oeddynt, filoedd o flynyddau yn ol, yn gysylltiedig â'r Môr Coch. Llanwyd hwynt gan dywod-dymhestloedd y diffeithwch; ond pe caid cyflenwad o ddwfr croew i'r glantau hyn, gwelid y lle yn blodeuo fel y rhosyn. Yr ydym yn cyfarfod wrth fyned ymlaen â glantau uchel eto, gyda thywodfaen yn dyfod i'r golwg, fel nas gwelwn ddim o'n hamgylch; yna cawn i le mwy agored, pan y daw mynyddoedd i'r golwg yn y pellter; ac mewn un man, lle y mae cangen o'r gamlas dwfr croew yn ymarllwys i'r “Ffos,” yr ydym yn cael ein lloni wrth weled ychydig dyfiant, er nad ydyw namyn “cyfle corsenau a brwyn.” Cyn gadael y Gamlas, yr ydym yn cael ein lloni gan olygfa wahanol, nid angen agerlong Seisonig, ac y mae y llongwyr o bob ochr yn mocsyfarach eu gilydd. O'r diwedd cyrhaeddasom Suez, lle y cawn ancor am ddiwrnod. Y mae Suez heddyw yn dref bwysig, er nad ydoedd yn 1859 ond lle bychan, tlodaidd, ac yn enwog yn unig fel gorphwysle pererinion Mahometanaidd ar eu ffordd o'r Aipht i Makkah neu Mecca. Cludid glo yno y pryd hwnw ar draws yr anialwch ar gefnau camelod, ac yr oedd yn werth £7 y dunnell ar ol cyrhaedd Suez. Yn awr, pan y mae yn ffurfio cwlwm rhwng y byd dwyreiniol a gorllewinol, y mae yna liaws mawr o longbyrth, a glo mewn digonedd.

Nid rhyw lawer o bethau hynod i dynu sylw a geir wrth fordwyo

trwy ddyfroedd y Môr Coch, am fod y glanau yn ymddangos yn greigiog, tywodlyd, a thra amddifad o arwyddion bywyd. Dangosir i ni y fau lle y tybir i'r Israeliaid groesi y môr pan yn cael eu herlid gan Pharaoh a'i lu; a chyn bo hir ymddengys pen Sinai, ac y mae y meddwi mwyaf digyffro ac anystyriol yn difrifoli peth wrth feddwl mai ar ben y mynydd acw, yr hwn a welir genym heddyw mor glir, y bu Jehofah, mewn mawrhydi ofnadwy, yn cyhoeddi ei gyfraith, sydd yn ymwneyd â phob calon, ac yn cyrhaedd pob cydwybod dyn. "A'r trydydd dydd, ar y boreuddydd, yr oedd taranau, a meltt, a chwml tew ar y mynydd, a llais yr udgorn ydoedd gryf iawn, fel y dychrynodd yr holl bobl oedd yn y gwerysll. . . . A mynydd Sinai oedd i gyd yn mygu, o herwydd disgyn o'r Arglwydd arno mewn fflam dân; a'i fwg a ddyrchafodd fel mwg ffwrn, a'r holl fynydd a grynodd yn ddirfawr." Ni dderfydd adsain Sinai byth.

Wrth i ni fyned ymlaen, yr ydym weithiau yn deckreu sylwi ar wyneb y ffurfafen yn newid. Mae ein hen gyfaill, yr Arth Mawr, â'i gynffon wedi myned o'r golwg i rywle, a dim ond y pedair seren sydd yn ffurfio y petryal yn y golwg; a thra y mae y ser y byddem arfer edrych arnynt fel ein harwyddion i edrych oddiwrthynt i wahanol ranau y nefoedd, heb fod yn weledig mwyach, y mae y cydser prydferth, y Groes Ddeheuol, yn dyfod i gymeryd eu lle, ac i fod yn gwmni nosawl i ni am amser maith bellach. Mewn awyr glir, ddigymylau, y mae y lleuad a'r planedau yn ymddangos yn ardderchog o wych, mor wych, yn wir, fel nas gall y Cymro gartref gymaint a dychymygu am y fath brydferthwch. Newydd-deb i ni hefyd yw gweled wybren o ddsygleirdeb digyffelyb, ac eto heb ymdeimlad o oerni.

Rhaid i ni fyned heibio Jaddah, er pwysiced ydyw; a Suakin, er i ni gael yr anffawd o aros yno er ein gwaethaf, am i'n llong lynu mewn tir meddal; a Massowah, lle y glaniwyd y lluoedd a aethant allan i ryfel Abyssinia; a phrysuro tuag Aden, heb gyfarfod â nemawr ddim i'w ryfeddu oddigerth canoedd os nad miloedd o'r hêdbysgod. Y mae y pysgodyn bychan hwn yn dipyn o gywreinerwydd, ac y mae yn rhaid i Jack gael aden neu ddwy i'w hanfon adref, a chyn eu cael y mae yn rhaid dal cryn liaws. Dyma y dreth a godasom ar y Môr Coch.

Ddechre Ebrill cyrhaeddasom Aden, ac yma bu raid i ni ail drefnu ein llong i lawr ac i fyny, am fod i ni fordaith faith o'n blaen, ac nas gwyddom pa beth fydd raid i ni ei gyfarfod. Llonydd ni i gyhwyn trwy ddyfod i gyfarfyddiad â llong ryfel o eiddo Prydain, lle yr oedd amryw o honom yn gallu adnewyddu cydnabyddiaeth â rhyw hen gyfaill neu gilydd. Bu y dwylaw mor garedig a'n gwahodd i ddau gyfarfod adloniadol ar fwrdd eu llong, un ar ddull y Christy Minstrels, a'r llall yn gyngherdd pur. Gofidiem ninnau nas gallem dalu y pwyth, ond er fod genym gryn swm o dalent ar fwrdd ein llong ein hunain, yr oedd rywfodd heb ddadblygu eto.

Y mae Aden yn dref bwysig iawn yn sefyll ar benrhyn bychan ar arfordir deheuol Arabia, ac ynddi amddiffynfeydd cedyrn iawn. Daeth i feddiant Prydain yn 1839, yr hon a gymerodd y lle oddiar benaeth a fuasai mor anffodus ag ymosod ar long dan faner Prydain, a lladrata cymaint ag a allai ef a'i bobl. Y canlyniad fu i "feistres y môroedd" aufon ei fawrhydi gyda rhyw ychydig yn ei logell bob

blwyddyn i rywle arall lle y gallai gyflawni llai o ddrwg. Y mae ei diriogaeth yn awr yn cael ei llywyddu o Bombay. Diau mai y gallu tãchwlyd faol sydd wedi bod ar waith yma yn fwy nag un gallu arall, ac y mae yma fryniau o ddechreuad llosgfalaidd yn amrywio o 1000 i 1700 o droedfeddi o uchder. Ceir cryn amrywiaeth yma yn yr hinsawdd, am fod y *monsoons*, o Mai i Hydref, yn peri fod y lle bron yn annyoddefol, ond o Hydref i Ebrill y mae yn dra dymunol. Fel lle o gadernid, saif Aden rhwng Affrica ac Asia yn debyg i'r hyn yw Gibraltar rhwng Affrica ac Ewrop; ac y mae y lle yn fwy gwerthfawr fyth, am fod glo mewn digonedd ynddo ar gyfer llongau, pa un bynag y byddont ai myned ai dychwel. Darperir yn dda ar gyfer y milwyr yn y lle, gan fod yma le iddynt fyned iddo, gyda chyflawnder o lyfrau, cyhoeddiadau, newyddiaduron, &c.; ac er iddynt led anghoïo y morwr truan, a'i adael i ymofyn ei ddirywch yn y tai ymyfed, y mae ebr yn hyn ryw Samariad trugarog wedi agor *coffee-room*, tebyg i rai Lloegr, ar gyfer ei angen yntau. Diau y bydd yn dda gan lawer morwr fyddo yn myned y ffordd hono gyfarfod â lle y caiff damaid i'w fwyta a'r cwpan anfeddwol am bris rhesymol.

Wedi aros yn Aden am tua thair wythnos, hwyliasom i'r môr, ac nid hir y buom cyn dyfod at y "llinell." Yma, fel llawer eraill, cyfarfyddwyd ni gan yr hyn a eilw morwyr y *doldrums*. Bydd llong fel yn colli pob llywodraeth arni ei hun pan yn yr ystad hon, ac yn myned wrth drugaredd y llif neu y gwynt i bob cyfeiriad. Am oriau, weithiau, byddai yn berffaith dawel, heb un anadliad o eiddo Æolus, a'r haul yn ein llosgi; ond yn annysgwyliadwy, cyfodai y fath ruthr o wynt nes lluchio y llong ar ei phenau ac ar ei hochrau; ond y gwlaw!—ow y truan fyddo ynddo, canys nis gall obeithio cadw un cerpyn am dano yn hwy na rhyw ddau fynydd neu dri. Llauer gwaith, ar ol bod yn y tymhestloedd hyn, y myfyriasom ar ddarluniad bywiog a phrydferth y Salmydd ysbrydoledig: "Y rhai a ddisgynant mewn llongau i'r môr, gan wneuthur eu gorchwyl mewn dyfroedd mawrion; hwy a welant weithreodoedd yr Arglwydd, a'i ryfeddodau yn y dyfnder. Canys efe a orchymyn, a chyfyd tymhestl-wynt, yr hwn a ddyrchafa ei ddonau ef. Hwy a esgynant i'r nefoedd, disgynant i'r dyfnder; tawdd eu henaid gan flinder. Ymdroant ac ymsymudant fel meddwyn, a'u holl ddoethineb a ballodd. Yna y gwaeddant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder, ac efe a'u dwg allan o'u gorthrymderau. Efe a wna yr ystorn yn dawel, a'i thonau a ostant. Yna y llawenhânt am eu gostegu, ac efe a'u dwg i'r porthladd a ddymument. O na foliantent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion!"

Un noson, pan mewn dwys ffyrddod fel hyn, bu y trawssurfiaid rhyfeddaf o'r difrifol i'r digrifol. Ymdaflodd y llong o'r naill ochr i'r llall mor ddisymwth fel y taflwyd dau gysgadur o'u gwelyau ar yr an adeg—un o ochr aswy y llong a'r llall o'r ochr dde. Bwriwyd hwynt ar ganol y lle yn ymyl eu gilydd; ac heb ymdrafferthu i ymofyn pa fodd y bu, neidiodd y naill i'r casgliad mai y llall oedd wedi ei ddymchwel o'i wely, ac fel Prydeinwyr, troisant ar unwaith i ddial eu cam gyda'r offerynau agosaf atynt, nid amgen dyrnau. Dyna lle y buont yn dyrnodio, ac yn peri difyrwch i eraill oeddynt yn lled effro, ac yn meddu digon o allu i ymresymu mai y gwynt dilywodraeth oddiall.

oedd ar fai. Cyn hir daeth y ddau ymladdwr hefyd i ganfod y gallai eu bod yn camgymeryd ac yn beio y naill y llall ar gam, ac nid oedd neb parotach i ysgwyd dwylaw.

Byrion iawn fydd y tymhestloedd hyn yn gyffredin, a chymerir mantais cydrhyngddynt i fyned trwy yr ymarferiaeth filwraidd a morwrol; ac yma dymunem hysbysu y darllynydd sydd yn fwy cyfarwydd â'r tir sych y gallai Jack ddyysgu gweraiddo. A fu efe erioed mewn lle y byddai tân wedi tori allan? Fel rheol ceir y naill yn hylaw mewn bod ar ffordd y llall, a byddys yn hir cyn dechreu ar ddim gwaith, tra y bydd ei fawrhydi fflamlyd yn cael adeg i gasglu nerth. Nid felly y mae ar y môr yn y llongau a berthyn i lynges ei Mawrhydi. Heb nac arwydd na rhybudd, mae y cadben yn myned ac yn cyffwrdd y "dân-gloch," ac mewn tua hanner mynyd y mae pawb yn ei le, pawb wrth ei ddyledswydd ei hun, dim bloeddio y naill wrth y llall, na dim angen gorchymyn, ond y dwfr yn ymsaethu yn bistyloedd yma ac acw yn erbyn y tân dychymygod, nes y bydd holl fwrdd y llong yn foddffa. Bydd yr un rheoleidd-dra a threfn pa un bynag a ddaw y rhybudd liw dydd neu yn nhrymder nos; a thybiem y gallai cymaint a hyn o'n harfer ar y môr fod yn wers i'n cyfeillion ar y tir. Ymarferwch mewn modd trefnus a dysgyblaethol yn erbyn ambell dân dychymygod, fel y galloch, pan ddelo tân mewn gwirionedd, ei ddwyn yntau hefyd dan ddysgyblaeth.

Wedi bod am fis cyfan ar fôr, heb gymaint a gweled tir, cyrhaeddasom Zanzibar, lle y derbyniasom ein papyrau, yn ein hawdurdodi i gymeryd a dinystrio unrhyw *dhow* gyda chaethion ynddi, neu ynte â rhywbeth i'w wneyd gyda'r gaethfasnach. Ynys ydyw Zanzibar ar arfordir de-ddwyreiniol Affrica, ac yn cael ei llywodraethu gan Sultan, enw yr hwn yw Sayyid Barghash bin Sa'eed. Y mae yn 55 milldir o hŷd a 25 milldir yn y fan letaf. Y tir sydd yn fwy toreithiog na chyffredin, ac y mae pob man bron yn orchuddiedig gan goed a phlanigfeydd sydd yn wyrddion bob amser. Amaethir reis a siwgr, ac amryw bethau eraill yma, ac y mae yr eurafalau a geir yma y rhai goreu, fe ddichon, yn y byd. Y mae poblogaeth yr ynys yn 150,000, o'r rhai y mae y brif bobl yn Arabiaid. Hwyt-hwy ydynt y tiffeddiannwyr, ac y mae ganddynt blangfeydd helaeth a lliaws mawr o gaethion. Heblaw y rhai hyn, cyfarfyddir â phobl dduon ydynt yn dygwydd bod yn rhyddion; ac yn ychwanegol, tua 6000 o frodorion o'r India, gan y rhai y dygir ymlaen yr holl fasnach dramor. Zanzibar yw y brif dref, gyda phoblogaeth ei hunan o 80,000; ac y mae yn dref farchnad i lawer o farsiantwyr, y rhai a ant i'r canoldir i gasglu ifori a phethau eraill; ac y mae yr ifori a ddaw o Zanzibar y goreu oll.

Wedi bod yma am tua phytrefnos, aethom ymlaen i le a elwir Quiloa, er mwyn gallu myned ol a blaen ychydig i edrych a welem rai o longau y gaethfasnach. Yn gyffredin y mae y rhai hyn yn llechu i fyny yr afonydd, a chan nad all llong o unrhyw faintioli fyned i fyny y rhai hyn, anfonwyd *cutter* a *gig* allan, gyda digon o ymborth, arfau, &c., am 21 o ddyddiau. Yn ystod y dyddiau hyn, aethom i fyny ddwy neu dair o afonydd, ac ar un adeg daethom ar draws llong fechan, ac aethom heb genad ar ei bwrdd. Yr oedd y cadben ar y lân y pryd y galwasom, ond yr oedd y dwylaw oedd yno mor garedig, ac mor barod i roi i ni

bob hysbysrwydd, fel nas gallem fod yn chwerv wrthynt. Dywedasant fod un llong wedi myned i le tua 60 milldir i fyny yr afon, gyda dim llai na chant a hanner o gaethion ar ei bwrdd. Yr oedd yn awr yn saith o'r gloch yn yr hwyr, ond pwy allai feddwl am orphwys tra yr oedd cystal helfa o fewn cyrhaedd? I fyny yr afon â ni, ond gall y darllenydd gydymdeimlo â ni pan gawsom ein hysbysu mai y llong a'n twyllodd oedd newydd fod gyda'r caethion hyny. Wrth gwrs, yr oedd wedi hen fyned i rywle cyn i ni allu cyrhaedd i lawr i'r un lle eilwaith. Wrth fyned i fyny afon arall, bu agos i'r cwch lleiaf gyfarfod â damwain. Nis gwyddem yn iawn a oeddym wedi taro ar graig neu dywottir neu beth; ond mawr oedd ein syndod wrth ganfod ein bod newydd gael marchogaeth ar gefn afonfarch, *hippopotamus*, yr hwn oedd wedi dyfod i ymdrochi. Yn ffodus, dychrynodd y creadur gymaint a ninnau, ac aeth ymaith. Gwelsom amryw o'r creaduriaid hyn o dro i dro, ond dywedir eu bod yn lled ddiniwed onid ymosodir arnynt. Bid a fyno, yr oedd yr olwg arnynt yn peri i ni arswydo cael dim i'w wneyd â hwynt, mwy nag â behemoth Job.

Mwy peryglus na'r afonfeirch, ac na'r llewod, hyenas, a bwystfflod eraill a glywem yn y coedwigoedd a'r dryslwyni ar y glânau, yw y dwymyn sydd yn bur dueddol o ymosod ar y dyn gwyn wrth fod yn hir ar yr afonydd hyn; ond diolch i Ragluniaeth y nefoedd, cawsom ni, trwy ddefnyddiad mynych o quinine, a gofalu am beidio bod ar ol machlud haul mewn dillad gwlybion, ein harbed. Saethasom amryw adar hirheglog a hiryddfog, ond y rhai nad oeddynt mor gigog a'u maint, eithr oeddynt yn dderbiniol, am eu bod yn ychwanegiad at ein stor o luniaeth, oedd erbyn hyn yn dechreu myned yn brin. Cawsom unwaith neu ddwy hefyd gyfleusdra i brynu rhyw gymaint o ymborth gan frodorion o'r pentrefi oddiamgylch; ond yr oeddynt yn bur wrthwynebus i ni lanió, ac yn dewis yn hytrach ddyfod â phobpeth i ni at lân yr afon.

Wedi bod ymaith o'n llong am tuag 20 niwrnod, a phan oeddym ar feddwl dychwelyd, wele ni yn canfod llong fechan gyda dau ddyn yn ei llwytho â chregyn a thywod. Dipyn yn ammheus, mynasom wybod ychwaneg yn ei chylch; ond wedi manwl chwilio, methodd y prifswyddog a gweled fod dim i'w gyfreithloni i ymyraeth ymhellach. Ond yr oedd rhai o honom heb ddarfod bod yn ammheus, yn enwedig ein cyfieithydd, Mahomet Ali. Yn lle myned i gysgu, aeth amryw o honom tua 10 o'r gloch y nos i gyfeiriad y lle yr oedd y llong, a mawr oedd ein syndod wrth weled tua deg ar hugain o ddynion yn ymdaith tuag ati, a dychmyger am ein gofid wrth ddeall fod cynifer ag ugain o honynt yn gaethion, tra yr oedd ein cychod ni ar y lân sych. Bu y dynion ystrywgar hyn mor garedig ag anfon ergyd neu ddwy ar ein holau, ond yn ffodus, yr awyr a'u cafodd. Yn fore drannoeth cawsant olwg arnom yn erlid ar eu holau; ond wedi ein blaenu gymaint, cadw ar y blaen a wnaethant, ac yn niwedd y dydd cawsom yr olwg ddiweddaf arnynt. Wedi treulio ac ymdreulio am amryw ddyddiau, weithiau mewn hindda, weithiau mewn dryghin, buom mor ffodus a chyfarfod â'n llong drachefn; ac nid cyn ei bod yn llawn bryd, canys yr oedd pob mymryn o ymborth a phob dyferyn o ddwfr wedi darfod er y dydd cynt, a dim ond newyn yn y golwg.



Tua chanol Gorphenaf, cawsom un amgylchiad lled fywiog. Wedi cymeryd dwy o longau bychain, cymerasom y dwylaw yn garcharorion; ond gan nad oeddem yn ofni nemawr, gadawem hwy yn rhyddion. Cyn bo hir neidiodd cadben un o'r ddwy long dros y bwrdd. Anfonwyd allan gychod ar unwaith, ond gan ei fod yn nofiedydd campus, bu yn abl i gadw o ffordd y cychod, weithiau ar y wyneb ac weithiau dan y dwfr, am dros awr a hanner. Cafodd unwaith a thrachefn ei bwyo yn ei ben a thros ei holl gorff gyda y rhwyfau; ac o'r diwedd, yn fwy marw bron na byw, codwyd ef i un o'r cychod, a dygwyd ef yn ol i'r llong. Tybiem yn sicr y buasai hyn yn myned yn ei erbyn yn y llys drannoeth, eithr wedi gwneyd ymchwiliad ger bron Dr. Kirk, cafodd y carcharorion eu rhyddhâu a'u llongau eu hadfer iddynt. Dyma engraifft arall, onidê, o ansicrwydd gogoneddus y gyfraith.

Er gweled rywfodd lawer o olion y gaethfasnach, yr oedd y naill a'r llall fel hyn yn lithro rhwng ein dwylaw, fel mai ffrwyth ein llafur am fisoedd oedd £5 am ryddhâu un caethwas. Wedi ei ranu cydrhngom, gwnai y swm ardderchog hwn tua 6c. bob un; a phan y daeth i law, ymhen tua deuddeng mis wedi hyn, tybiasom yn hytrach na'i ranu, yn ddoeth ei roddi yn unswm i drysorfa gweddwon ac amddifaid y morwyr.

Ond er mor anffodus fuom ni yn ein hynt hon, cawsom ddigon o brofion fod y gaethfasnach yn bod. Yn Pemba, tua 55 o filldiroedd o Zanzibar, y mae planigfeydd mawrion yn cael eu gweithio yn gyfangwbl gan gaethion; ac y mae y fasnach mor ennillfawr fel y gall masnachwyr fforddio colli eu llongau dair gwaith os gallant ond dianc y bedwaredd waith. Wedi i ni gael y cyflafareddiad rhwng cenedloedd y mae ein cydwladwr talentog Mr. Henry Richard yn ei geisio, nid ydym yn meddwl llai na raid i Brydain yru allan ei llongau fel yn awr i lyfetheirio peth ar y fasnach mewn caethion. Tra nad yw y dynion sydd ynddi yn ofni Duw, y maent yn gorfod i raddau ein hofni ni; ac arswyd Prydain yn unig sydd yn peri na byddai y fasnach mor fyw ag erioed. Ond tra y caffo Prydain lywodraethu'r don—hir fyddo hyny!—ni chaiff na Phrydeinwyr na neb o un genedl arall, o'i bodd hi, fod yn gaethion!

D. PRICE GREFFTERS.

## TESTAMENT NEWYDD SAESONEG 1881.

*The New Testament of our Lord and Saviour Jesus Christ, translated out of the Greek: being the Version set forth A.D. 1611 compared with the most ancient Authorities and revised A.D. 1881.* Printed for the Universities of Oxford and Cambridge. Cambridge: University Press.

*The New Testament in the Original Greek according to the Text followed in the Authorised Version, together with the Variations adopted in the Revised Version.* Edited for the Syndics of the Cambridge University Press by F. H. A. SCRIVENER, M.A., D.C.L., L.L.D., Prebendary of Exeter and Vicar of Hendon. Cambridge: University Press.

*Anglo-American Bible Revision.* By the Members of the American Revision Committee. London: Nisbet & Co. 1879.

*A Companion to the Revised Version of the English New Testament.* By ALEXANDER ROBERTS, D.D. London: Cassell, Petter, Galpin & Co.

*The Variorum Teacher's Edition of the Holy Bible, containing the Old and New Testaments: translated out of the Original Tongues; and with the former Translations diligently compared and revised, by His Majesty's special command* With Various Renderings and Readings from the best Authorities. Edited by Rev. T. K. CHEYNE, M.A., Fellow of Balliol College; Rev. R. L. CLARKE, M.A., Fellow of Queen's College; S. R. DRIVER, M.A., Fellow of New College; ALFRED GOODWIN, M.A., Fellow of Balliol College; and Rev. W. SANDAY, M.A., Principal of Bishop Hatfield's Hall. With which is incorporated the *Aids to the Students of the Holy Bible*. Sunday School Centenary Edition. 1881. London: Eyre and Spottiswoode.

DYMA y cyfieithiad diwygiedig ag y buwyd bellach dros dymmor maith yn dysgwyl am dano wedi ei gwblhâu ar y Testament Newydd, ac y mae yn cael ei astudio yn awchus gan gannoedd o filoedd yr ochr yma a'r ochr draw i'r Werydd, yn gystal ag mewn lliaws o ranau eraill o'r ddaear lle y darllenir yr iaith Saesoneg. Fel y galleid dysgwyl, y mae yn cael ei dderbyn gyda theimladau tra amrywiol. Y mae y bobl dda sydd yn meddu y fath ffydd yn y "Cyfieithiad Awdurdodedig" fel ymhob ystyr yn berffaith, ac yn edrych ar y syniad o ymyraeth âg ef, gyda pha barchedigaeth bynag y gwnele hyny, fel cyffwrdd yn rhyfygus âg arch Duw, yn teimlo dychryn wrth feddwl am y cyfnewidiadau sydd wedi eu gwneuthur, ac yn beichio eu hysbrydoedd â phryder wrth feddwl am y drygau sydd, yn eu barn hwy, yn rhwym o ddilyn cyhoeddiad y gywaith hwn. Mae eraill, gyda zel dros opiniynau na ddarfu i'r Adgyweirwyr farnu yn addas eu cydnabod, a chyda chryn roddes o ysgolheigod, a pheth anferth o anffaeledigrwydd, yn condemnio yr holl waith fel yn annheilwng o ddysgeidiaeth yr amseroedd, ac yn enwedig o'r golygiadau "advanced" sydd y dyddiau hyn yn gymaint ymfrost gan ysgol arbenig o ddoethion sydd yn ein plith. Digon tebyg hefyd

fod rhai yn cael eu tentio i feddwl mai yn y dyddiau hyn y "ganwyd doethineb," ac mai y cyfieithiad hwn ydyw yr unig ymdrech o werth a wnaed erioed tuag at osod meddwl Duw yn yr iaith Saesoneg. Y mae eraill, pa fôdd bynag, a diammeu genym fod eu nifer yn llïosog, yn ymroddi yn astud i efrynu y gwaith mawr hwn, gan ei gymharu, lle y maent yn alluog i wneyd hyny, â'r testunau gwreiddiol mwyaf cymeradwy, a lle nad allant ymwneyd â'r gwreiddiol, yn ymgyngori â'r awdurdodau uchaf o fewn eu cyrhaedd er mwyn cael boddlonrwydd am deilyngdod yr ymdrech hon i berffeithio y cyfieithiad Saesoneg o'r rhan bwysig yma o Air yr Arglwydd. Gwyddom fod llawer o ddarllenwyr y TRAETHODYDD yn teimlo dwfn ddyddordeb yn yr achos hwn, ac yn eu plith lawer nad ydynt fe allai wedi gweled y *Revised Version*, a rhai, o bosibl, a fyddent yn analluog i wneyd nemawr âg ef pe wedi ei weled. Fe ddiolcha ein cyfeillion hyn i ni am alw sylw at y mater yma yn y TRAETHODYDD.

Ac ar unwaith y mae yn dda genym allu sicrhâu ein darllenwyr nad oes dim yn yr holl achos hwn ag a ddylai beri i'r rhai sydd yn hoffi y Gair sanctaidd deimlo unrhyw bryder mewn perthynas iddo. Yr oedd Arglwydd Panmure, wedi hyny Iarll Dalhousie, ac fe'i cyfrifed ef yn ŵr call, yn dadgan ei farn bum mlynedd ar hugain yn ol y byddai cael cyfieithiad newydd o'r Ysgrhythrau yn peryglu ein rhyddid gwladol a chrefyddol. Nid oes yn Mhrydain bendefig mwy teilwng nag Iarll Shaftesbury, Llywydd hybarch Cymdeithas y Biblau; ac eto gwelsom dro yn ol ei fod ef yn siarad geiriau ag oedd yn bradychu gwendid anesboniadwy gyda golwg ar yr adgyweiriad presennol y dysgwylied ar y pryd ei fod ar wneyd ei ymddangosiad. Diammeu fod llawer o bobl dda eraill yn ofni yn gyffelyb. Ond ni fu erioed lai o achos. Mae yr awydd am gael Adgyweiriad ar y cyfieithiad Saesoneg wedi cyfodi bellach er ys llawer o flynyddoedd, ac wedi ei deimlo gan y dynion goreu. Ac mae yn sicr nad oedd y dynion hyny yn ail i neb yn eu gwerthfawrogiad hyd yn nod o'r Cyfieithiad Awdurdodedig. Diammeu eu bod oll yn barod i deimlo, fel yr is-bwyllgor hwnw yn Senedd y Werinlywodraeth, "Er gwaethaf rhai camgymeriadau, mai y Bibl Saesoneg oedd y cyfieithiad goreu yn y byd," ac na fuasant yn anmharod i ddyweyd, gyda Dr. Adam Clarke, "O'r holl gyfieithiadau Ewropeaidd, y cyfieithiad Saesoneg ydyw y cywiraf a'r mwyaf ffyddlawn. Mae y cyfieithwyr wedi cael gafael ar ysbryd ac enaid y gwreiddiol, ac wedi ei ddadgan bron ymhob man gyda theimlad a nerth."—Wrth reswm fe all y Cymry deimlo dros anwybodaeth eu cymydogion sydd mor barod i siarad am gyfieithiadau Ewrop a'r byd, pan y mae yn eu hymyl gyfieithiad sydd yn tra rhagori hyd yn nod ar eu cyfieithiad hwynt, ond sydd mor ddyeithr iddynt a phe buasai yn iaith un o'r sêr sefydlog!—Ond y dynion oedd fwyaf awyddus am gael Adgyweiriad ar y cyfieithiad Saesoneg oedd y rhai ag oeddent, ar gyfrif ei nerth, ei ystywithder, a'i eneiniaid, yn fwyaf teimladol o'i fawr ragoriaeth. "Yr ydym," meddai yr Adgyweirwyr hyn yn eu rhagymadrodd, "wedi bod yn astudio y cyfieithiad mawr hwn yn ofalus a manwl, linell am linell; a pho fwyaf yr ydym wedi bod uwch ei ben mwyaf yr ydym wedi dysgu edmygu ei symledd, ei urddas, ei nerth, ei eiriadau hapus, ei gywirdeb cyffredinol, ac, ni wiw i ni beidio ychwanegu, peroriaeth ei ddisgyniad-

au, a hapusrwydd ei fydraeth." Ond er hyn oll yr oedd dau beth a banai nad allai yr ysgolheigion Biblaidd a werthfawrogent fwyaf ragoriaethau cyfoethog Bibl 1611, yr hwn, fel y mae, sydd yn gynnyrch llawer o ymdrechion i'w wneyd yn well, lai na theimlo yn awyddus am fod y cyfieithiad yn cael ei berffeithio. Yn un peth fe geid, gyda chynnydd dysgeidiaeth, fod ysgolheigod y dyddiau hyn wedi cyrhaedd adnabyddiaeth llawer helaethach o'r ieithoedd gwreiddiol nag a feddai y dynion teilwng oedd yn llafurio gyda'r gwaith hwn dri chant o flynyddoedd yn ol; ac er bod yr amddiffyn Dwyfol wedi bod mor amlwg ar eu llafur hwynt pan yn cyfieithu yr Ysgrhythrau fel nad oes yr un cyfeiliornad wedi lithro i fewn, na'r un gwirionedd bywydol wedi ei adael yn anamlwg, eto fe geid fod nifer helaeth o amryfuseddau wedi dianc, y rhai, o angenrheidrwydd, ydynt yn anurddo, ac nid yn anfynych yn tywyllu yr ymadroddion ysbrydoledig. A pha wasanaeth mwy teilwng o'r ysgolheigod addfetaf na gwneyd y meddyliau mawrion sydd yn y Llyfr hwn, gan belled ag y mae hyn yn bosibl, mor eglur a gogoneddus i'r gwerinwr nad all eu deall ond mewn cyfieithiad, ag y gallant fod i'r ysgolhaig sydd wedi llawn feistroli yr ieithoedd yr ysgrifenydd hwynt ynddynt? Yr oedd Dafydd yn dyweyd wrth Arafnah, "Nid offrymaf i'r Arglwydd fy Nuw boethoffrymau rhad." Yn debyg y teimlai dysgeidiaeth oreu y blynyddoedd hyn, pan yr ymorchestir gymaint i arddangos hyd berffeithrwydd ragoriaethau y clasuron, &c., ei fod yn annheilwng iddi sefyll o'r neilldu a gadael y meddyliau Dwyfol nid yn anfynych i'w deongli eu hunain mewn dull na fuasid yn ei oddef mewn cyfieithiadau o ysgrifeniadau y Paganïaid. Ac yr oedd yr awydd am gael y cyfieithiad o'r Ysgrhythrau yn fwy manwl a gorphenedig yn ffynu yn fwy fwy ymysg darllenwyr cyffredin. Fel efrydwyr o'r "ymadroddion bywiol," ni fyddai dim yn fwy dymunol ganddynt na chael mwynhau addysgiaeth eu brodyr o alluoedd mwy a chyrhaeddiadau helaethach pan yn "agoryd iddynt yr Ysgrhythrau;" a chan na ellid gwneyd hyn i nemawr bwrpas heb yn fynych gyfeirio at amherffeithrwydd y cyfieithiad, yr oedd yn naturiol iawn iddynt hwy ddymuno am i'r cyfieithiad hwnw gael ei osod yn eu dwylaw yn y fath fodd fel y gallent eu hunain ei astudio i'r fantais oreu. Ac yn ail, yr oedd ychwanegiadau dirfawr wedi eu gwneyd er cyhoeddiad Bibl y Brenin Iago at y copïau oedd yn ein meddiant o'r Testun gwreiddiol, —llawer o honynt yn hŷn na'r rhai a ddefnyddid i wneyd y cyfieithiad hwnw o ganrifoedd, ac yn dwyn arnynt i'r rhai oedd yn gallu eu hastudio y fath argraff o ddilysrwydd ag a'u hargyhoeddai y rhaid eu bod yn llawer tebycach i'r ysgrifeniadau gwreiddiol. Pa mor hybarch bynag ynte oedd yr hen destun neu yr hen gyfieithiad, ni allai pobl ddeallus bellach deimlo fod eu hawdurdod i'w gymharu â'r darlenniadau oeddynt gymaint yn hŷn, ac yr oedd pob lle i gasglu eu bod gymaint yn agosach at, os nad yn hollol yr un â'r hyn a ddaethai o dan law yr ysgrifenydd sanctaidd. Dywedir wrthym am hen offeiriad yn nyddiau Harri VIII., yr hwn a arferai ddywedyd *Mumpsimus, Domine*, yn y gwasanaeth yn lle *Sumpsimus, Domine*, a phan oedd rhywun yn yraliwr âg ef am y camgymeriad, ei ateb ydoedd, "I am not going to change my old *mumpsimus* for your new-fangled *sumpsimus*." Nid efe, bid siwr, a fyddai mor hawdd ei droi! Ond fe fuasai braidd yn ormod

dysgwyl i eraill gymeryd i fyny â'r un amryfusedd, ac yn enwedig ei arosod ar yr oesoedd. Pob parch sydd bosibl i "*mumpsimus*," beth bynag a allai hyny fod; a phob cydymdeimlad â hen benglogau nad ydyw yn hawdd ganddynt roddi "*mumpsimus*" i fyny; ond gan mai *sumpsimus* ydyw y gair, gadewch i ni gael hwnw yn hytrach. Yr oedd yr apostol Paul yn ysgrifenu at y Corinthiaid, "Dywedyd yr wyf fel wrth rai synwrol: bernwch chwi beth yr wyf fi yn ei ddywedyd." Mae yn sicr fod ei ddysgeidiaeth ef yn cyrhaedd mater o'r fath yma hefyd, ac yn golygu ein bod gyda hyn i osod yr un synwyr ar waith ag y cywilyddiem, er holl barchuarwydd y rhagfarnau a allont fod yn sefyll ar y ffordd, fod yn ddiffygiol yn y gwroldeb angenrheidiol i'w ymarfer gyda phob achos arall.

Ond er hyn oll, ac yn wir oblegid y pethau hyn, fe fuasai yn anffawd o'r mwyafrwyd myned ynghyd â'r gwaith o adgyweirio cyfieithiad mor ragorol heb wneuthur pob ymdrech i sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneyd mor berffaith ag oedd yn ddichonadwy. Mae gwahaniaeth rhwng dysgeidiaeth a dysgeidiaeth; ac nid yn anfynych, ysywaeth, yr ydys wedi cael dysgeidiaeth gyfoethog, ond ar wahân oddiwrt h y nerth a'r addfedrwydd barn, a'r duwiolfrydedd, a'r gallu llenyddol, sydd yn anheggorol at y fath waith a hwn. Dywed Isaac Walton ystori dda am Dr. Richard Kilbye, un o Gwmni y Cyfieithiad Awdurdodedig, iddo yn ddamweiniol glywed pregethwr ieuanc yn trin y cyfieithiad, ac yn rhoddi tri rheswm paham y dylasai rhyw air fod wedi ei gyfieithu yn wahanol. Dywedodd y Doctor wrtho, pan welodd ef, ei fod ef ac eraill wedi bod yn ystyried y tri rheswm a grybwyllai efe, ac wedi cael tri ar ddeg o rai cryfach dros ei gyfieithu fel yr ydoedd! I amcan mor bwysig a hwn yr oedd eisieu cydgyfarfyddiad helaeth o gymhwysderau mawrion yn y rhai a ymgymereant â'r gwaith; a diogelwch neillduol hefyd oedd cael nifer lled dda yn meddu ar y cyfryw gymhwysderau, fel y gellid cael mantais mewn cynghor ar eu doethineb unedig. Ac fe gaed hyn oll, ac mewn modd tra boddhaol, gyda yr Adgyweiriad hwn. Dygwyd y peth ger bron yn ffurfiol y tro cyntaf yn Nghonfocasiwn Talaeth Canterbury, Chwefror 1870. Ar y 6ed o Fai, yr un flwyddyn, dygwyd y peth drachefn o flaen yr un llys gan Esgob Winchester ac Esgob Gloucester a Bristol, pan basiwyd y penderfyniadau canlynol:—

1. Fod yn ddymunol fod Adgyweiriad newydd yn cael ei wneyd o'r Cyfieithiad Awdurdodedig o'r Ysgrhythrau Sanctaidd.
2. Fod i'r Adgyweiriad gael ei barotoi yn y fath fodd fel ag i gymeryd i fewn ddarlenniadau ar ymyl y ddalen a'r cyfryw welliantau ag a geir yn angenrheidiol eu rhoddi i fewn yn nhestun y Cyfieithiad Awdurdodedig.
3. Nad ydym yn y penderfyniadau uchod yn golygu unrhyw gyfieithiad newydd o'r Bibl, neu unrhyw newidiad ar yr iaith, oddieithr pan yn marn yr ysgolheigion mwyafrwyd gallnog y mae y fath gyfnewidiad yn angenrheidiol.
4. Yn y fath gyfnewidiadau angenrheidiol, fod arddull yr iaith a ddefnyddir yn y cyfieithiad presennol yn cael ei ddilyn yn agos.
5. Fod yn ddymunol fod y Confocasiwn yn enwi nifer o'i aelodau ei hunan i ymgymeryd â gwaith yr Adgyweiriad, y rhai a fyddant at eu rhyddid i wahodd cydwaithrediad unrhyw bersonan enwog am ddyageidiaeth, i ba genedl neu gorff crefyddol bynag y perthynont.

Mewn canlyniad i hyn etholwyd pwyllgor, ac ar y 25ain o Fai, yr un

flwyddyn, cytunasant ar yr Egwyddorion a'r Rheolau canlynol i weithredu wrthynt:—

1. I ddwyn i fewn mor ychydig ag a fyddo bosibl o gyfnewidiadau i Destun y Cyfieithiad Awdurdodedig yn gyson â ffyddlondeb.

2. I gyfyngu, hyd y byddo yn bosibl, eiriad y fath gyfnewidiadan i iaith y Cyfieithiad Awdurdodedig a'r Cyfieithiadau Saesoneg boreuaf.

3. Pob un o'r ddau Gwmni i fyned ddwywaith dros y rhan fo i'w hadgyweirio, unwaith yn barotöawl, yr ail waith yn derfynol, ac ar egwyddorion o bleidleisiad a drefnir ymhellach ymlaen.

4. Mai y Testun a fabwysiedir fydd yr un o blaid yr hwn y mae y profion yn ddiammheul gryfach; a phan mae y testun a fabwysiedir felly yn gwahaniaethu oddiwrth yr hwn o ba un y gwnaed y Cyfieithiad Awdurdodedig, fod y cyfnewidiad yn cael ei ddynodi ar ymyl y ddadlen.

5. I beidio gwneyd neu gadw un cyfnewidiad yn y Testun wrth fyned drosto yr ail waith yn derfynol gan bob un o'r Cwmnïau, oddieithr fod *dwyr ran o dair* o'r rhai fo yn bresennol yn cymeradwyo y cyfryw, ond wrth fyned drosto y waith gyntaf i benderfynu yn unig trwy fwyafrif.

6. Mewn pob achos o gyfnewidiad cynnygiedig a allo fod wedi peri dadl, i addoedi y pleidleisio arno hyd y Cyfarfod nesaf, pa bryd bynag y galwer am hynny gan y drydedd ran o'r rhai fo yn bresennol yn y Cyfarfod, y cyfryw bleidlais fwradedig i'w chrybwyll yn y rhybudd am y Cyfarfod nesaf.

7. I adgyweirio materion y pennodau a'r tudalennau, paragraphau, llythyrenau Italaidd, ac attalnodau.

8. I gyfeirio, ar ran pob un o'r Cwmnïau, pan farner yn angenrheidiol, at Dduwinyddion, Ysgolheigion, a Llenorion, pa un bynag ai gartref ai oddicartref, am eu barn.

I ddwyn y gwaith yma oddiamgylch fe benodwyd dau Gwmni, y naill dan lywyddiaeth Esgob Tŷddewi, Dr. Thirlwall, ac wedi ei farw ef dan lywyddiaeth Esgob Winchester, Dr. Harold Browne, i weithio ar yr Hen Destament; a'r llall dan lywyddiaeth Esgob Gloucester a Bristol, Dr. Ellicott, i weithio ar y Testament Newydd. Yr oedd eu nifer tua 60. Gommeddodd Dr. Pusey a Dr. Newman gydweithredu. Yn y ddau Gwmni yr ydym yn cyfrif fod tua deunaw o Ymneillduwyr. Fe ofynwyd am gydweithrediad ysgolheigion Biblaidd yn America, ac fe'i caed gyda sirioldeb calonog. Penodwyd dau Gwmni yno yr un modd, y naill dan lywyddiaeth Dr. Green o Princeton, i weithio ar yr Hen Destament, a'r llall dan lywyddiaeth Dr. Woolsey o New Haven i weithio ar y Testament Newydd. Yr oedd nifer y ddau Gwmni Americanaidd yn 34. Dywed Dr. Schaff fod yr *oll* a fu yn cymeryd rhan yn y gwaith yn y ddwy wlad yn 101, ond fod amryw o honynt cyn y diwedd wedi eu symud ymaith. Dechreuodd y Cwmnïau Seisonig ar eu gwaith Mehefin 22, 1870, ddeng mlynedd a hanner yn ol. Cyfarfyddent yn y *Jerusalem Chamber* yn Monachlog Westminster am bedwar diwrnod bob mis, oddieithr misoedd Awst a Medi: a dywedir am Gwmni Seisonig y Testament Newydd, sydd yn awr wedi gorphen eu gwaith, allan o 24 mewn nifer, fod cyfartaledd y rhai a ddelent ynghyd bob tro, er fod rhai o honynt mewn pellder mawr o Lundain—pedwar o Scotland—yn 16, neu ddwy ran o dair o'r holl nifer. Nid oedd ganddynt ddim i'w ddysgwyl mewn ffordd o dâl am eu llafur, ond eu costau yn unig. Mewn trefn i sicrhâu y rheiny fe gytunwyd yn gynnar â Phrifysgolion Rhydychain a Chaergrawnt i drosglwyddo iddynt hawl y Cwmni yn y rhyf, ac fe ddiogelwyd trwy hynny hefyd gyhoeddiad y gwaith gan Gyrrf oedd wedi bod am hir amser yn cyhoeddi yr Argraffiad Awdurdodedig,

ac yn argraffu yn ddiuro. Cyfarfyddai y Cwmni Americanaidd yr un modd am amryw ddyddiau bob mis yn y *Bible House*, New York, a thelid eu treuliadau trwy gyfraniadau gwirfoddol nifer o gyfeillion haelionus yn America.

Fe ddylai fod y fath nifer llisog o'r dynion cymhwysaf at y fath waith wedi ymgymeryd âg ef ar unwaith beri boddlonrwydd na wynebwyd ar y gorchwyl mewn unrhyw ysgafnder. Ond erbyn sylwi ar y dull yr aethpwyd trwyddo, fe welir yn amlwg eu bod wedi cymeryd anferth boen gydag ef; ac os nad ydyw yn berffaith—ac y maent hwy eu hunain yn flaenllaw i gydnabod nad ydyw felly,—nad all fod y bai ar eu llafur a'u cydwybodolrwydd hwyt. Am y gyfran sydd wedi ei chyhoeddi, heb son am efrydiaeth bersonol aelodau y Cwmniau yn eu cartrefi, fe ymddengys i'r oll o honi gael ei hystyried gan y Cwmniau ynghyd ddim llai na phump o weithiau. 1. Aeth y Cwmni Seisonig dros yr oll y tro cyntaf, gan anfon rhanau o'u gwaith fel y delent i ben gydag ef drosodd i'r Cwmni Americanaidd. Fe gymerth hyn chwe' blynedd o amser. 2. Aeth y Cwmni Americanaidd dros yr oll o'u gwaith, gan nodi fel yr elent ymlaen y cyfnewidiadau a ddymunent hwy awgrymu. 3. Aeth y Cwmni Seisonig drachefn dros yr oll yr ail waith, gan gymeryd i ystyriaeth y cyfnewidiadau a awgrymid gan y Cwmni Americanaidd. Rhoddwyd tua dwy flynedd a hanner at y gorchwyl hwn. 4. Aeth y Cwmni Americanaidd drachefn dros yr oll, gan gymeryd i ystyriaeth olygiad y Cwmni Seisonig ar y cyfnewidiadau a awgrymasid ganddynt hwy. 5. Cymerodd y Cwmni Seisonig y gweddill o'r amser i fyned dros yr oll drachefn yn derfynol, ac anfonasant y Cyfieithiad i'r America wedi ei orphen, gyda rhestr o'r manau lle y dymunai y Cwmni Americanaidd nodi eu bod hwy yn dewis yn hytrach ddarlleniadau neu gyfieithiadau gwahanol, yr hon a gyhoeddir yn niwedd y gyfrol. Cydnebydd y Cwmni Seisonig "gyda diolchgarwch ofal, dyfalwch, a manylder" eu cydweithwyr yn America, a lefara yr oll yn y ddwy wlad gyda theimladau cynhes am y brawdgarwch hyfryd a ffynai yn eu plith yn ystod eu holl eisteddiadau meithion a phryderus. Os nad ydyw y gwaith yn tynu yn hynod o agos at berffeithrwydd, fe allai unrhyw ddyn deimlo na raid iddo wrth nemawr esgusawd am o leiaf ystyried y *dylai* fod felly. Fe aed trwy yr adgyweiriad "by his Majesty's Special Command" yn y Cyfieithiad Awdurdodedig, mewn dull llawer mwy rhwydd. Ymddiriedwyd y Testament Newydd yr pryd hyny i ddau Gwmni gwahanol, y naill o wyth o aelodau, yn eistedd yn Rhydychain, y llall o saith o aelodau, yn eistedd yn Westminster. Ac er eu bod hwy, ynghyd a'r pedwar Cwmni i ba rai yr ymddiriedwyd yr Hen Destament a'r Apocrypha yn gweled gwaith eu gilydd, eto nid oes le i feddwl iddynt o gwbl eistedd ynghyd; ac mae ôl y diffyg o hyny i'w weled yn amlwg yn eu gwaith. Mae yn ddiau y buasai eu hanghysondeb yn fwy amlwg byth oni buasai y trefniad fod yr holl Fibl yn y diwedd i gael ei arolygu gan w'r dethol-edig o Rydychain, Caergrawnt, a Westminster. Ni fu y Cwmniau ar waith gyda'u hadgyweiriad am ddim ond tua dwy flynedd a thri chwarter, ac fe aeth y chwech, neu y deuddeg arolygwyr—mae y nifer yn amrywio—trwy eu gwaith hwythau mewn naw mis! Mae yn ddiau iddynt hwy wneyd gwaith rhagorol, ac yr oedd y cyfieithiad oedd

ganddynt i'w adgyweirio, sef "Bibl yr Esgobion," eisoes wedi cyrhaedd, trwy lafur olyniad o ysgolheigion, ystad led uchel o deilyngdod. Ac yr oedd yn falch ganddynt hwy gydnabod hyny. "Yn wir," meddent, "ni feddyliasom ni o gwbl, o'r dechreu, fod eisieu i ni wneyd Cyfieithiad newydd, nac ychwaith o un drwg i wneyd un da; ond gwneyd un da yn well, neu o lawer o rai da, un yn arbenig dda." Yr oedd yr Adgyweirwyr presennol yr un modd, fel yr ydym wedi gwelod, yn dra phell o feddwl eu bod hwythau i wneyd Cyfieithiad newydd, ond cymerent yr un Awdurdodedig fel yr ydoedd wedi ei adael iddynt, gan ofalu yn eiddigus am gadw ei holl ragoriaethau, a phenderfyna peidio cyffwrdd âg ef mewn ffordd o newidiad heb fynu boddlonrwydd, trwy astudiaeth ddyfal ac ymgynghoriad pwylllog, eu bod trwy hyny yn gwneyd y cyfieithiad yn well.

Ac yr oedd eu manteision i wneyd hyn oll lawer yn helaethach nag eiddo gwyr da y Cyfieithiad Awdurdodedig. Yn arbenig felly, fel y crybwyllasom, yr oeddent yn cael y Testun gwreiddiol mewn ystad lawer iawn rhagorach. Mae y "Testun Derbyniedig" erbyn hyn â chryn lawer rhyngddo a bod yn cyfateb i'w enw. Ymddengys nad oedd yr *editions* o'r Testament Groeg a gyhoeddwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, o'r cyntaf o eiddo Erasmus yn 1516, hyd y pummed o eiddo Beza yn 1589, yr hwn a gydnabyddid fel y Derbyniedig, a'r hwn, gydag ychydig eithriadau, a ddilynid yn adgyweiriad 1611, yn ffrwyth ymgynghoriad âg ond ychydig o'r hen gopïau, a'r rhai hyny heb fod ond o awdurdod lled israddol, ac heb eu cymharu ond yn esgeulus gyda'u gilydd. Y canlyniad ydyw fod cryn nifer o ddarlleniadau yn y Cyfieithiad Awdurdodedig heb rith o sail iddynt mewn unrhyw hen gopï Groeg sydd mewn bod, ond wedi llithro i'r testun trwy amryfusedd neu ddiolfalwch o eiddo Erasmus, neu Stephens, neu Beza. Erbyn hyn, fodd bynag, y mae nifer mawr o hen gopïau hynod o werthfawr wedi dyfod i'r golwg, a rhai o honynt, megys y *Vaticanus* a'r *Sinaiticus*—yr olaf wedi ei gael gan Tischendorf yn 1859 yn monachlog St. Catharine ar Fynydd Sinai—yn dyfod o'r bedwaredd ganrif. Yn ychwanegol at y rhai hyn, yr ydys trwy hen gyfieithiadau, a dyfyniadau o'r Testament Newydd a geir yn ysgrifeniadau y Tadau, mewn llawer amgylchiad yn gallu olrhain y testun yn sicr mor bell yn ol â'r ail ganrif. Yn ymyl yr awdurdodau hybarch hyn, nid ydyw y copïau a ffurfient gynseiliau y Testun Derbyniedig ond megys er doe. Y mae yn ddyddorol meddwl, tra nad ellir cyfeirio at un copi o ysgrifeniadau y clasuron Groegaidd sydd yn dyfod o adeg foreuach na'r nawfed neu y ddegfed ganrif, fod genym dros gant o gopïau, mwy neu lai cyflawn, o'r Testament Newydd, wedi eu hysgrifenu ar wahanol adegau o'r bedwaredd i'r ddegfed ganrif, ac y gallwn olrhain nifer mawr o'i ymadroddion lawer ymhellach yn ol hyd yn nod na hyny. A chymeryd y llawysgrifau diweddarach, y mae yr holl nifer bellach yn rhyw 1760. Ac y mae nifer helaeth o ysgolheigion yn ystod y blynyddoedd diweddat yma wedi cymeryd trafferth ddiderfyn i gymharu darlleniadau yr holl gopïau hyn, a thrwy hyny i geisio penderfynu, mor agos ag y gellid, beth allai y testun gwreiddiol fod. Fe ellid cyfrif argraffiad Westcott a Hort o'r Testament Groeg, sydd newydd ei gyhoeddi, a'r hwn sydd yn gynnrych llafur dan o ysgolheigion galluog ac addfed am yr yspaid maith o ugain mlynedd,



fel gorcheist mewn dysgeidiaeth Fiblaidd ag y gallwn fel teyrnas fod yn falch o honi. Fe gyfrifir y galwai ffyddlondeb i'r testun gwreiddiol am gyfnewidiad mwy neu lai yn y cyfieithiad cyffredin o'r Testament Groeg mewn mwy na mil o engreiffitiau. Nid ydym yn dyweyd hyn i beri anesmwythyd i neb o'n darllenwyr. Mae yn dda genym, fel y crybwyllasom o'r blaen, fod y fath amddiffyn wedi bod ar bob ymyriad â'r testun sanctaidd fel nad oes dim gwirionedd hanfodol wedi ei gymylu; ac yn wir wrth ystyried mewn cynifer "o bethau yr ydym ni bawb yn lithro," fod copio yn hollol gywir yn beth sydd mor ddiarebol anhawdd, ac yn enwedig fod llawer o'r hen gopiwyr wedi goddef rhyddid iddynt eu hunain mewn "diwygio"—ar y cyntaf ar ymyl y ddalen, neu rhwng y llinellau, ond cymerid y pethau hyny gan gopiwyr dweddarch i'r Testun—gan fod rhyddid felly wedi ei gymeryd na fuasid yn meddwl am dano mewn oes fwy beirniadol, y rhyfeddod ydyw na fuasai y meflau yn y copïau yn llawer lluosocach. Ond wedi y cwbl, gyda Llyfr o'r fath bwysigrwydd, Llyfr ag y mae ei eiriau oll yn cael eu hystyried yn bethau, a miliynau lawer trwy ei frawddegau yn cynnal cymundeb â'r Anweledig, ac yn ymbarotoi i dragywyddol ogoniant, nid oes dim llafur a ddylai gael ei ystyried yn ormodol er ei osod yn nghyrhaedd y werin, gyda y cywirdeb eithaf sydd yn bosibl, mewn ymadroddion fyddo yn cyfateb i'r rhai a ddefnyddid gan ei Ysgrifenyddwyr.

Nid oedd gan yr Adgyweirwyr ag y mae ffrwyth eu llafur o'n blaen unrhyw gopi gwreiddiol penodol i'w ddilyn, ond dewisent wrth fyned ymlaen y darlenniadau a gydnabyddir gan ddysgeidiaeth addfetaf y dyddiau hyn fel yn debyg o fod y rhai mwyaf cywir. Fe deimla yr efrdydd yn fynych yn anfoddlawn wrth weled y cyfnewidiadau a wneir yn y cyfieithiad am nad oes unrhyw oleuni yn cael ei roddi ar y Testun a ddilynid. I gyfarfod â hyn y mae yr argraffiad prydferth o'r Testament Groeg a nodasom uwch ben ein hysgrif yn gaffaeliad hynod o werthfawr. Wrth fyned ymlaen fe wneid rhestr ofalus o'r holl gyfnewidiadau yn y Testun y cytunid arnynt gan yr Agyweirwyr, ac fe'u cyflwynwyd drosodd i awdurdodau y *Cambridge University Press*; a chawsant hwythau wasanaeth gwerthfawr Dr. Scrivener, yr hwn sydd wedi ennill enwogrwydd fel ysgolhaig Biblaidd, ac oedd ei hunan o nifer yr Adgyweirwyr, i ofalu am eu paratoi i'r argraffiad hwn o'r Testun Groeg. Y mae yntau wedi gwneyd y gwaith a ymddiriedwyd iddo, fel y galleid dysgwyl, mewn dull tra boddhaol. Defnyddir y testun cyffredin, ond argreffir yr holl eiriau y gwnaed unrhyw gyfnewidiad ynddynt mewn llythyren dduach, ac wrth bob geiriau felly ceir rhifnod, yr hwn a gyfeiria yn ngwaelod y ddalen at y cyfnewidiad a wnaed, pa un bynag ai mewn gadael allan, ai ychwanegu, ai rhoddi darlenniad arall, ai nodi darlenniad ymyl ddalenol neu rhwng y llinellau, ai hysbysu fod rhai neu lawer o hen gopiâu yn rhoddi y cyfryw ddarlenniad, &c.

Am liaws mawr iawn o'r gwahanol ddarlenniadau, nid ydynt fel y maent yn dyfod i'r golwg yn y cyfieithiad, o fwy pwysigrwydd na'r engreiffitiau a ganlyn:—Rhoddi "Iesu Crist" am "Grist Iesu;" "y dysgyblion" am "ei ddysgyblion;" "ac" am "ond" neu "yn awr," ac i'r gwrthwyneb; "Iesu a ddywedodd" am "efe a ddywedodd;" "efe

a ddywedodd" am "efe a atebodd ac a ddywedodd;" "Duw" am "Arglwydd" neu "Grist," &c. Ond hyd yn nod mewn pethau o'r fath yma, ni a garem yn fwy o lawer gael y geiriau fel y maent i fod yn hytrach nag fel y gadawyd hwy gan fympwy neu amryfusedd y copiwyd. Mwy anffodus ydyw yr *ychwanegiadau* a wnaed at y testun. Fe wnaed y rhai hyn, mae yn dra thebyg, yn ddigon diniwed, ac ar y dechreu, fel y crybwyllwyd, ar ymyl y ddalen neu rhwng y llinellau, ond wrth gopio yr oedd yn naturiol iddynt mewn amser gael eu cymeryd i'r testun. Nid oes bellach nemawr ammheuaeth nad felly yr ydys i edrych ar y geiriau canlynol:—Matt. v. 22: "Heb achos;" darllena y geiriau, "Pob un a ddigio wrth ei frawd a fydd euog o farn," nid "a ddigio heb achos." Matt. v. 44: "Bendithiwch y rhai a'ch melltithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casânt," a thrachefn "y rhai a wnel niwed i chwi;" ymddengys eu bod wedi eu cymeryd o Luc vi. 27, 28. Yr un modd Matt. vi. 13, "Canys eiddot ti yw y deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oes-oedd. Amen." Fe deimla llawer yn chwith am y geiriau hyn, a phe buasai rhyw obaith eu sicrhâu, nid afresymol fuasai dysgwyl, gydag offeiriad Llanfairfechan yn y Confocasiwn, nes i gopïau hyn na'r cwbl sydd eto wedi eu cael, ac a allont fod yn eu cynnwys, ddyfod i'r golwg. Ond, fel y dywedai Esgob Llandâf, y mae hyn yn anobeithiol. Yr ydym yn cyfarfod â mawleiriau cyffelyb yn fynych yn hen ffurf-weddïau yr Eglwys Gristionogol, wedi eu cymeryd o'r fath leoedd â 1 Chron. xxix. 11; 1 Tim. i. 17; Dad. v. 13; a hawdd deal fel y teimlai rhyw gopiwr da, oedd yn arfer ychwanegu y fath eiriau at ymron bob gweddïau eraill a ysgrifennai, y buasai Gweddï yr Arglwydd hefyd dipyn yn fwy gorphenedig o'u dodi yn ei hymyl, neu rhwng ei llinellau; ac yna, fel y gwelwom, nid oedd ond lithriad bychan iddynt ddyfod i gael eu hystyried yn rhan o honi. Gadewir allan hefyd Matt. ix. 13; "I edifeirwch;" felly hefyd Marc ii. 17: y geiriau yn y ddau le wedi eu cymeryd o Luc v. 32. Hefyd Matt. xvii. 21: "Eithr nid ä y rhywogaeth hyn allan, ond trwy weddi ac ympryd." Matt. xviii. 11: "Canys daeth Mab y dyn i gadw yr hyn a gollasid," wedi eu cymeryd o Luc xix. 10. Matt. xx. 16: "Canys llawer sydd wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis," (wedi eu cymeryd o xxii. 14). Matt. xxi. 44: "A phwy bynag a syrthio ar y maen hwn, efe a ddryllir: ac ar bwy bynag y syrthio, efe a'i mâl ef yn chwilfriw." Matt. xxiii. 14: "Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr: canys yr ydych yn llwyrfwyta tai gwagedd gweddwon, a hyn yn rhith hir weddio: am hyn y derbynwch farn fwy." Matt. xxvii. 35: "Er cyflawni y peth a ddywedwyd trwy y prophwyd, Hwy a ranasant fy nillad yn eu plith, ac ar fy ngwisg y bwriasant goelbren." Marc vi. 11: "Yn wir meddaf i chwi, y bydd esmwythach i Sodom a Gomorrah yn nydd y farn, nag i'r ddinas hono." Marc vii. 8: "Golchiadau ystenau a chwpanau: a llawer eraill o gyffelyb bethau yr ydych yn eu gwneuthur;" a thrachefn *ad.* 16: "Od oes gan neb glustiau i wrando, gwrandawed." Marc ix. 44: "Lle nid yw eu pryf hwynt yn ma'w, na'r tân yn diffodd;" a thrachefn, *ad.* 46: y geiriau wedi eu cymeryd i'r ddau le o *ad.* 48. Marc xi. 26: "Ond os chwi ni faddewch, eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd ni faddew ychwaith eich camweddau chwithau." Marc xv. 28: "A'r ysgrhythyr a gyflawnwyd, yr hon a ddywed, Ac efe a gyfrifwyd gyda'r rhai anwir."

Gadewir y geiriau uchod oll allan o'r *Revised Version*; ond rhoddir Marc xvi. 9—20 i fewn, gyda dywedyd fod y gyfran hono allan gan y ddau gopi Groeg henaf a rhai awdurdodau eraill. Ychwanegir hefyd fod rhai awdurdodau yn rhoddi terfyniad gwahanol i Efengyl Marc. Yr un modd gadewir allan y geiriau a ganlyn fel yn ddi-awdurdod:—Luc ix. 55, 56: “Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych chiwi. Canys ni ddaeth Mab y dyn i ddystrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw.” Luc xvii. 36: “Dau a fyddant yn y maes; y naill a gymerir, a'r llall a adewir.” Luc xxiii. 17: “Canys yr ydoedd yn rhaid iddo ollwng un yn rhydd iddynt ar yr ŵyl.” Ioan v. 3, 4: “Yn dysgwyl am gynhyrfiad y dwfr. Canys angel oedd ar amserau yn disgyn i'r llyn, ac yn cynhyrfu y dwfr: yna yr hwn a elai i mewn yn gyntaf ar ol cynhyrfu y dwfr, a ai yn iach o ba glefyd bynag a fyddai arno.” Mae llawer o'r hen awdurdodau yn gadael allan hanes y wraig a ddaliwyd mewn godineb, Ioan vii. 53—viii. 11, ac eraill yn ei rhoddi, ond yn amrywio yn fawr y naill oddiwrth y llall; fe'i hargreffir yma, ond rhwng cromfachau, a rhoddir yr eglurhâd uchod. Gadewir allan Act. viii. 37: “A Phylip a ddywedodd, Os wyt ti yn credu â'th holl galon, fe a ellir. Ac efe a atebodd ac a ddywedodd, Yr wyf yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw.” Ac felly Act. ix. 5, 6: “Caled yw i ti wingo yn erbyn y symbylau. Yntau gan grynu, ac â braw arno, a ddywedodd, Arglwydd, beth a fyndi di i mi ei wneuthur? A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho.” Ymddengys fod rhyw gopiwr, er mwyn gwneyd yr hanes yn y lle yma yn gyflawn, bid siwr, wedi benthyca y geiriau uchod o Act. xvi. 14, a xxii. 10. Gadewir allan Act. xv. 34: “Eithr gwelodd Silas yn dda aros yno.” Act. xxiv. 6—8: “Ac a fynasem ei farnu yn ol ein cyfraith ni. Eithr Lysias y pencapten a ddaeth, a thrwy orthrech mawr a'i dŷg ef allan o'n dwylaw ni: ac a archodd i'w gyhuddwyr ddyfod ger dy fron di.” Act xxviii. 29: “Ac wedi iddo ddywedyd hyn, ymadawodd yr Iuddewon, a chanddynt ddadl mawr yn eu plith.” Rhuf. xi. 6: “Ac os o weithredoedd, nid yw o ras mwyach: os amgen, nid yw gweithred yn weithred mwyach.” Rhuf. xvi. 24: “Gras ein Harglwydd Iesu Grist a fyddo gyda chiwi oll, Amen:” wedi eu cymeryd o *ad.* 20. Mae y geiriau am y tri thyst, l Ioan v. 7, 8, ag y mae cymaint o helynt wedi bod yn eu cylch—“yn y nef; y Tad, a'r Gair, a'r Ysbryd Glân: a'r tri hyn yn ydynt. Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear,”—wedi eu gadael allan yr un modd. Ond mae y rhan olaf o l Ioan ii. 23, a roddir yn ein Testamentau mewn llythyrenau Italaidd, fel yn unig yn adgyflenwadol, wedi ei phrofi yn gwbl ddilys, ac argreffir yr holl adnod yn yr Adgyweiriad fel y dylai fod: “Pob un a'r sydd yn gwadu y Mab, nid oes ganddo y Tad chwaith: yr hwn sydd yn cyffesu y Mab y mae y Tad ganddo hefyd.” Llithrwyd i'r amryfusedd hwn trwy gyffelybrwydd terfyniad y ddwy adran, y naill a'r llall yn *τὸν πατέρα ἔχει*. Ac fe fu yr un amryfusedd hwn yn achlysur i'r adnod fawr hon gael ei darllen yn y fath ddull anfodddhäol a cham-arweiniol,—wel, pwy all ddirnad pa gynifer o filiynau o weithiau?

Am y pethau uchod, a'u cyffelyb, sydd wedi eu gadael allan, fe wêl y darlennydd nad oes achos iddo deimlo nemawr o betrusod yn eu cylch. Fe fu amser pan yr oedd y gair fod y gwahanol ddarlleniadau a gawsid yn y copiau o'r Testament Groeg yn 150,000, yn disgyn ar feddwl y deyrnas yma fel taranfollt. Ymogoneddai y Philistiaid mewn concwest

a difrechwen, ac yr oedd lliaws o "drueiniaid ei bobl ef" mewn dirfawr bryder. Erbyn hyn mae yr helynt hwnw wedi hen ddiffodd. Fe gaed nad oedd 95 y cant o'r holl nifer yna ond camgymeriadau amlwg; ac fod cyfartaledd cyffelyb o'r gweddill heb fod o unrhyw bwys yn eu perthynas â'r ystyr, ond yn amrywiadau sillebol neu ramadegol; ac o rhyw 400 sydd yn aros fe geir nad yw y nifer ond bychan sydd yn effeithio ar y meddwl, a'u bod ymron yn ddiethriad yn ei loewi ac yn ei brydferthu. Gyda y cyfseuderau sydd genym yn bresennol i gymharu, &c., yr ydym yn gallu cael allan bellach i foddlonrwydd mawr y darlenniadau gwreiddiol; ac y mae teilyngdod cynhenid y rhai hyny, wedi eu darganfod, y fath ag sydd ar unwaith yn peri i ni eu hadnabod fel trysorau gwerthfawr, er fod mympwyon ac amryfuseddau wedi cael canrif-oedd o hamdden i'w claddu o'r golwg. Yn yr engreiffiau a nodwyd o ychwanegiadau at y testun, y mae pob un sydd yn werthfawr wedi ei lusgo o fanau eraill yn y Gair, lle y ceir hwynt yn gorwedd mor weddaidd yn eu cysylltiadau priodol eu hunain; ac am y lleill gallwn ddyweyd wrth y copiwr, fel y gwalch wrth y person yn y chwedl, "Eich eiddo chwi eich hunain!"—a rhwydd hynt iddynt bellach, gydag enwau y gwyr teilwng a'u dyfeisiodd, i lithro yn dawel i fythol anghof.

Heblaw ychwanegiadau o'r fath uchod, yr ydym yn cael amryw *gyfnewidiadau* wedi ymwithio i fewn, y rhai yn awr sydd yn cael eu troi o'r neilldu. "Hyd ein esgorodd ar fab" sydd yn Mat. i. 25, ac nid "ar ei mab cyntafanedig," o Luc ii. 7. Yn lle "Gochelwch rhag gwneuthur eich elusen yn ngwydd dynion," Mat. vi. 1, yr ydym yn cael "eich cyfiawnder yn ngwydd dynion." Yn lle "A doethineb a gyfiawnhawyd gan ei phlant ei hun," Mat. xi. 19, darllenwn "gan ei gweithredoedd." Yn adn. 23 o'r un bennod, yn lle "A thydi, Capernaum, yr hon a ddyrchafwyd hyd y nef, a dynir i lawr hyd yn uffern," darllenwn, "A thydi, Capernaum, a ddyrchefir di hyd y nef? ti a ai i lawr i Hades." Yn Mat. xix. 16, 17, yn lle "Ac wele, un a ddaeth, ac a ddywedodd wrtho, Athraw da, pa beth da a wnaef, fel y caffwyf fywyd tragywyddol? Yntau a ddywedodd wrtho, Paham y gelwi fi yn dda? nid da neb ond un," eawn "Yntau a ddywedodd wrtho, Paham y gofyni i mi am yr hyn sydd dda? Un sydd yr hwn sydd dda." Yn lle "Os gelli di gredu, pob peth a all fod i'r neb a gredo," Marc ix. 23, yr ateb ydyw, "Os gelli di! Pob peth a all fod i'r neb a gredo." Yn lle "Ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da," Luc ii. 23, cawn "Ac ar y ddaear tangnefedd ymysg dynion ymha rai y mae efe yn foddllawn." Yn lle "Na Herod chwaith: canys anfonais chwi ato ef," Luc xxiii. 15, darllenir, "Na Herod chwaith: canys anfonodd efe ef yn ol atom ni." Yn lle "But the Spirit suffered them not," Act. xvi. 7, darllenir "the Spirit of Jesus," fel yn y Gymraeg. Ymddengys fod gan y cyfieithwyr Cymraeg gopi cywirach hefyd yn Rhuf. vii. 6; canys y mae y cyweiriad a wnaed ar y testun Saesoneg, "That being dead wherein we were held," sef, "Having died to that wherein we were holden," genym ni: "Wedi ein meirw i'r peth y'n hattelid." Tynir "nid" allan fel yn ddiawdurdod o Rhuf. iv. 19, a darllenir, "Ac efe yn ddiogwan o fydd, a ystyriodd ei gorff ei hun yr awrhon wedi marweiddio, ac efe ynghylch can' mlwydd oed, a marweidd-dra bru Sarah: ie, gan edrych at addewid Duw, nid amamheuoedd efe trwy anghrediniaeth." Ystyriodd y cwbl,

ac er hyny nid ammheuoedd! Yr un modd symudir ymaith, yn Dad. xvii. 8, y geiriau "er ei fod," nad oedd ganddynt ddim hawl i fod yno, ond a dafasant ar yr adnod ddirfawr dywyllwch. Yn lle "Ac na themtiwn Grist," 1 Cor. x. 9, darllenir, "Ac na themtiwn yr Arglwydd." 2 Cor. iv. 14: "Ein cyfodi ninnau hefyd trwy Iesu," a ddarllenir "gyda Iesu." Yn lle "Canys firwyth yr Ysbryd sydd ymhob daioni," Eph. v. 9, darllenwn, "Canys firwyth y goleuni;" ac yn lle "Gan ymostwng i'ch gilydd yn ofn Duw," adn. 21 o'r un bennod, darllenir, "yn ofn Crist." Yn lle "I gydnabyddiaeth dirgelwch Duw, a'r Tad, a Christ," Col. ii. 2—testun o gryn anhawsder—darllenir, "dirgelwch Duw, sef Crist." Yn lle "Megys y maddeuoedd Crist i chwi," Col. iii. 13, darllenir, "Megys y maddeuoedd yr Arglwydd i chwi." Yn adn. 15 o'r un bennod, mae "tangnefedd Duw" yn "dangnefedd Crist." Yn lle "Duw a ymddangosodd yn y cnawd," 1 Tim. iii. 16, darllenir, "Efe yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd." Yn lle "Eithr sancteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonau," 1 Petr. iii. 15, darllenir, "Eithr sancteiddiwch yn eich calonau Grist fel Arglwydd," mewn cyfeiriad amlwg at Esa. viii. 13, "Arglwydd y lluoedd ei hun a sancteiddiwch." Yn lle "I'r unig ddoeth Dduw," Jud. 25, darllenir, "I'r unig Dduw." Yn lle "Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, medd yr Arglwydd," Dad. i. 8, darllenir, "medd yr Arglwydd Dduw;" ac yn adn. 5 o'r un bennod, rywbryd wrth gopio, fe aeth *λύσαντι* yn *λούσαντι*, a gwnaeth "yr hwn a'n gollyngodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun" i arwyddocâu "yr hwn a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau, &c." Mae yr amryfusedd yma yn awr wedi ei gywiro. Yn Dad. iii. 2, yn lle "Ni chefais dy weithredoedd yn gyflawn ger bron Duw," darllenir, "ger bron fy Nuw;" ac yn Dad. xxii. 14, yn lle "Gwyn eu byd y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion ef," darllenwn, "Gwyn eu byd y rhai sydd yn golchi eu dillad." Mae y gwahaniaeth rhwng y ddau ddarlleniad olaf yma, wedi eu cyfieithu, yn ymddangos mor fawr fel ag i beri i ddyn ei ystyried yn anesboniadwy pa fodd erioed y cymerwyd y naill am y llall; ond hawdd iawn wrth gopio oedd i *πλύνοντες τὰς στολὰς* fyned yn *ποιούντες τὰς ἐπιτολὰς*, a dyna y cyfnewidiad wedi ei wneyd. Mae y gwahaniaeth mewn llawer o'r engreiffitiau eraill yn yr ymadroddion gwreiddiol yn llai fyth, ac y mae yn myned ymheli i esbonio cyfodiad y camddarlleniadau. Fe ofyna dipyn o amser ac ystyriaeth i lawer o honom ddygymmod â rhai o'r cyfnewidiadau uchod; ond mae yn weddus i ni gofio nad pethau newyddion ydynt, yn cael eu harosod arnom gan fympwy ysgolheigddod y dyddiau hyn, eithr yr *hen bethau*, y rhai oeddynt o'r dechreuad, ond eu bod trwy gydgyfarfyddiad lliaws o ddamweiniau wedi bod o'r golwg am gannoedd lawer o flynyddoedd. Ac y mae yn gysur neillduol meddwl fod y gwirionedd trwy yr adgyweiriadau hyn mor bell o fod wedi myned dan unrhyw gwmwl fel y mae yn wir yn llewyrchu yn fwy dysglaer.

Am y *cyfieithiad*, fel y saif gan yr Adgyweirwyr, fe ymddengys i ni ei fod, ymron yn ddiethriad, yn wir ragorol. Fel llawer o orchwylyion mawrion eraill, fe allai llawer un deimlo anhawsder i ddeall beth allai fod ynddo i gyflawnhau yr anferth drafferth a gymerwyd gydag ef. Ond wedi cymharu rhanau helaeth o hono gyda thestun Dr. Scrivenor

ar y naill law, ac â'r cyfieithiadau Saesoneg a Chymraeg ar y llaw arall, yr ydym ni yn gorfod teimlo yn fwy fwy gyda'r fath ddsygeidiaeth addfed, a'r fath amynedd a ffyddlondeb diball, y darfu iddynt ymroddi i'r llafur mawr hwn. Gyda phriodoldeb mwy fyth nag y siaradai yr Adgyweirwyr eu hunain am lafur y rhai a'u rhagflaenent ar Fibr 1611, gallwn ninnau ddyweyd am eu gwaith hwy, "Po fwyaf yr ydym wedi bod uwch ei ben, mwyaf yr ydym wedi dysgu edmygu ei symledd, ei urddas, ei nerth, ei eiriadau hapus, ei gywirdeb cyffredinol;" ac nid ydym yn meddwl eu bod wedi gwneyd unrhyw gam ychwaith â "pheroriaeth disgyniadau a hapusrwydd mydrïaeth" yr hen gyfieithiad. Y maent wedi ymgadw gyda ffyddlondeb neillduol at yr amcan teilwng o geisio gosod y darlennydd Seisonig, mor bell ag y goddefai y gwahaniaeth rhwng priod-ddulliau yr ieithoedd yr oedd a fynent â hwynt, ar yr un tir â'r hwn a allai ddeall y Llyfr sanctaidd yn yr iaith yr ysgrifenydd ef. Yr ydym wedi teimlo rai troion eu bod yn myned lawn ddigon pell mewn rhai pethau bychain, ac yn gwneyd cyfnewidiadau lled ddialw am danynt, os nad ammheus; ac o'r ochr arall, eu bod mewn rhai amgylchiadau pwysig yn dangos llwfrdra ag y mae yn anhawdd ei esbonio, oddieithr ar yr ystyriaeth eu bod yn cyfarfod yn y peth goreu ag y gallai cynifer o ddynion cryfion, a'r rhai hyny yn cynnrychioli cynifer o wahanol ysgolion mewn beirniadaeth, gytuno arno. Yr ydym yn barnu fod y cyfieithiad goreu mewn rhai amgylchiadau wedi ei adael ar ymyl y ddalen, yn lle cael ei osod, fel y dylasai fod, yn nghorff y testun. Un o'r engreiffiau mwyaf anffodus a dynodd ein sylw yw y cyfieithiad o ἀπαρῆς, Phil. ii. 6; yn lle "He thought it not robbery to be equal with God," y gair a ddefnyddir ydyw "prize;" ar ymyl y ddalen "a thing to be grasped at." Buasai y geiriau ymyl-ddalenol yn llawer gwell yn y testun. Y mae dyweyd nad ystyriodd y Mab fod yn ogyfuwch â Duw yn "prize" yn dra chamarweiniol; ond yn yr ymwaghad mawr, ni thybiodd y gogoniant o fod yn ogyfuwch â Duw yn beth iddo ddal ei afael yddo, ond fe'i rhoddes i fyny o'i fodd. Yr ydym hefyd yn credu y dylasai y rhestr Americanaidd o gyfnewidiadau, a esgymunwyd y tu allan i'r gwerysll i ddiwedd y gyfrol, fod wedi cael gwell croesaw, ac y ceir, cyn bo hir, y bydd yn rhaid eu cymeryd i mewn fel yn deilyngach na'r pethau a gymerwyd yn eu lle. Ar yr un pryd, ni ddylid cyhuddo o ofnusrwydd gorrff lle y cytunai cynifer o Eglwyswyr, parchedig a gwir barchedig, i ddarllen yn Actau xx. 28, "Ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn esgobion," yn gystal ag i wneyd llawer o gyfnewidiadau cryfion eraill. Y mae yn ffaith nad all lai na bod yn foddhaol i ddarllenwyr y TRAEHODYDD nad yw y gwelliadau yn y cyfieithiad, mewn llawer o amgylchiadau, yn dwyn dim i mewn nad ydyw eisoes yn ein meddiant yn y cyfieithiad Cymraeg. Yr ydym yn deall fod rhai o'r Saeson, ac amryw o'r bodau yspenydd hyny o'n conedl ni ein hunain sydd mewn dwfn anwybodaeth am bobpeth Cymreig, yn meddwl mai rhywbeth a gardotwyd o'r Saesoneg ydyw y cyfieithiad Cymraeg o'r Ysgrythrau, ac felly y rhaid ei fod yn llawer gwaelach. Ni fu erioed fwy camgymeriad. Er maint y fantais oedd gan y cyfieithwyr Cymreig yn y graddau llawer helaethach o gydnawsedd sydd rhwng yr iaith Gymraeg a'r ieithoedd gwreiddiol, y mae yn amlwg hefyd eu bod yn ysgolheig-

ion rhagorol eu hunain, a'u bod yn feddiannol i raddau mawr ar y cymhwysderau pwysig eraill oedd yn anghenrheidiol at y fath waith; ac y maent wedi gadael i ni yn y Cyfieithiad Cymraeg drysor ag y gallwn, hyd yn nôd ar bwys ei deilyngdod llenyddol, fod byth yn falch o hono. Fe ddaw hyn yn fwy amlwg fel yr elom ymlaen.

Fe osodwyd ein pensil ar liaws mawr o fanau lle y mae y cyfieithiad yn yr Adgyweiriad hwn wedi ei wella. Rhoddwn ychydig engreiffitiau. Gwell "food" na "meat," Mat. iii. 4; "And his food was locusts and wild honey:" gwell "food" hefyd o lawer na "victuals," Mat. xiv. 15; y gair Cymraeg "bwyd" yn ddiguro. Yr un modd gwell "offspring" na "generation," Mat. iii. 7; "Ye offspring of vipers;" "hiliogaeth." Y mae "And if thy right eye causeth thee to stumble," Mat. v. 29, yn well o lawer nag "offend thee." Cyfieithir *σκανδαλίζω* yn gyffelyb yn adn. 50, Mat. xi. 6, xiii. 21, xvii. 27, xviii. 6, 8, 9, xxiv. 10, ac amryw fanau eraill. Gymaint yn well ydyw y gair Cymraeg "rhwystro," yr hwn a ddefnyddir ymhob man, ac sydd bob amser yn llanw ei le. Gwell yw "stumble" am *πταίω* yn Iago iii. 2, nag "offend;" "llithro" y Gymraeg yn well fyth. Gwelliant mawr mae yn ddiarhemu ydyw cyfieithu *ὁ πονηρός* "the evil one," ac nid "evil," megys Mat. vi. 13, "Gwared ni rhag yr un drwg;" v. 37, "O'r un drwg y mae;" xiii. 19, "Y mae yr un drwg yn dyfod;" "Ioan xvii. 15, "Cadw hwynt rhag yr un drwg;" 1 Ioan ii. 13, "A gorchfygu o honoch yr un drwg;" iii. 12, "Nid fel Cain, yr hwn oedd o'r un drwg;" v. 18, "A'r un drwg hwnw nid yw yn cyffwrdd âg ef;" ac adn. 19, "Ac y mae yr holl fyd yn gorwedd yn yr un drwg;" ac Eph. vi. 16, "Picellau tanllyd yr un drwg," ac nid "of the wicked," neu "y fall," yr hwn sydd dywyll bellach yn y Gymraeg. Gwelwn fod rhai yn ystrancio yn enbyd yn erbyn y cyfieithiad yma, ac yn siarad llawer o ddylni am waith yr Adgyweirwyr yn rhoddi eu sêl fel yma wrth y golygiad am bersonoliaeth y diafol, y dychymygent hwy ei fod wedi hen ddiiflanu; ond mae yn amlwg na wnaeth yr Adgyweirwyr yn hyn ond peth ag y galwai ysgolheiddod cyffredin am dano; a chyn y gellir esbonio ymaith bersonoliaeth Satan y rhaid esbonio ymaith holl ddysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Cwynir yn gyffelyb am fod y desgrifiadau o'r gosbedigaeth yn y byd a ddaw, "Gehennah o dân," &c., yn cael eu gadael mor agos ag y gellid yn y geiriau a ddefnyddiai y Gwaredwr, yn lle eu hesbonio ymaith i rywbeth a allesid dderbyn gan feirniadaeth flaenllaw neu "advanced" y dyddiau hyn. Ond mae yn amlwg nad cyfieithu a fuasai hyn; a phe buasai pob ysgol mewn beirniadaeth yn myned i hōni cael *Uwio* geiriau wrth eu cyfieithu i gyfateb i'w golygiadau neillduol, pa fath gyfieithiad a fuasai yn bosibl? Gadewch i ni gael y geiriau fel y maent; gallwn fod yn sicr hefyd mai o'u hamgylch yn y wedd hono y gorwedda gyda mwyaf o weddeidd-dra bob goleuni ychwanegol a all y feirniadaeth oreu dasu arnynt. Camgymeriad anesboniadwy yn y Cyfieithiad Awdurdodedig oedd defnyddio dau air gwahanol yn Mat. xxv. 46, "And these shall go away into everlasting punishment; but the righteous into life eternal," pan mai yr un gair, *αἰώνιον*, a geir yn y ddau le; yn awr "eternal" a roddir am y naill a'r llall, fel yr oedd "tragywyddol" genym ni yn Gymraeg. Am "lain o frethyn newydd," yn Mat. ix. 16, ceir "undressed cloth,"

“brethyn anmhanedig;” yn Luc v. 36, “brethyn newydd” yw y cyfieithiad priodol. Am “bottles,” Mat. ix. 17, ceir “wine-skins,” gwin-grwyn, ac ar ymyl y ddalen “erwyn yn cael eu defnyddio fel costrelau.” Geiriad trwsagl ydyw “in danger of” yn lle “guilty,” neu “euog,” fel yn Gymraeg; drwg genym weled ei fod wedi ei gadw yn Mat. v. 21, 22; ond yn Marc iii. 29, gyda y darlleniad adferedig *μαρτήματος*, ceir ef yn “guilty:” “Ond y mae efe yn euog o bechod tragwyddol.” Y mae “a cholli ei enaid ei hun,” Mat. xvi. 26, wedi ei newid i “a cholli ei fywyd ei hun.” Fe fydd hyn yn siomedig gan rai; ond dylid cofio mai yr un gair a gyfieithir “bywyd” ddwywaith yn yr adnod flaenorol, “Canys pwy bynag a ewyllysio gadw ei fywyd a’i cyll; a phwy bynag a gollo ei fywyd o’r m plegid i, a’i caiff,” ac nad allai fod un rheswm dros ei alw yn “soul” neu “enaid” yn adn. 26. Yn lle “dysgu” am *μαθεῖνω*, Mat. xiv. 52, xxviii. 19, Act. xiv. 21, ceir “gwneyd dysgyblion:” “Pob ysgrifenydd wedi ei wneyd yn ddysgybl i deyrnas nefoedd;” “Gwnewch ddysgyblion o’r holl genedloedd, gan eu dysgu hwynt;” “Ac wedi iddynt bregethu yr efengyl i’r ddinas hono, a gwneyd llawer o ddysgyblion.” Y Gymraeg yn y lle olaf yn iawn eisoes, “ac ynnill llawer o ddysgyblion.” Y mae yr amwysedd o adael *ἐξουσία* yn “power,” “gallu,” gan fynychaf yn cael ei ochelyd trwy ei gyfieithu yn “authority,” neu “awdurdod;” megys Mat. x. 1, xxviii. 18, Luc iv. 6, 32, x. 19; ond drwg genym weled fod yr hen air, a heb reswm yn y byd am hyny, mewn llawer o fanau yn cael ei gadw. Teflir goleuni dymunol ar Marc vii. 18, 19; darllena yn awr fel hyn: “Oni wyddoch am bob peth oddiallan a’l i mewn i ddyn, na all hyny ei halogi ef; oblegid nid yw yn myned i mewn i’w galon ef, ond i’r bol, ac yn myned allan i’r geudy? *Hyn a ddywedodd efe gan wneuthur yn lân bob bwydydd.*” Yn lle “arian y deyrned,” Mat. xvii. 24, darllennwn, “Y rhai oedd yn derbyn yr hanner siel a ddaethant at Petr, ac a ddywedasant, Onid yw eich athraw chwi yn talu yr hanner siel?” Gwelsom hyn yn cael ei feirniadu yn llym fel yn gwneyd y gair yn dywyllach; ond erbyn ystyried y mae yn ei wneyd yn llawer goleuach: fe gofia darllennwyr y Bibl am Exod. xxx. 13, 15, “Hyn a ddyry pob un a elo dan rif: hanner siel, yn ol siel y cysegr. . . . Ni rydd y cyfoethog fwy, ac ni rydd y tlawd lai, na hanner siel, wrth roddi offrwm i’r Arglwydd, i wneuthur cymmod dros eich eneidiau,” ac fe welant mai y dreth at wasanaeth y deml a olygid, ac nid y deyrned i Rufain. Fel eglurhâd ar y gair “ceiniog” yn Mat. xviii. 28, “Yn ei ddyled ef o gan’ ceiniog,” ceir nodiad ar ymyl y ddalen at ba un y cyfeirir wedyn bob tro y cyfarfyddir â’r gair, “Y gair yn y Groeg am ddarn gwerth tuag wyth a dimai.” Heb hyn fe adawsid y darllenydd mewn llawer o fanau mewn tywyllwch. Er engraifft, buasai yn anhawdd, yn ol y darlleniad cyffredin, deall y gair yn Dad. vi. 6, fel yn rhoddi prisiau amser newyn: “Mesur o wenith er ceiniog, a thri mesur o haidd er ceiniog.” Ond pan gofiwn fod *δηνάριον*, y cyflog cyffredin am ddiwrnod, yn prynu rhyw gythwart o wenith, y mae pethau yn ymddangos yn dra gwahanol. A phaham y glynydd wrth air sydd mor gamarweiniol am *denarion*? Gwell fuasai cymeryd y gair Groeg fel yr ydoedd; neu, fel y cynnygiai y Pwyllgor Americanaidd, rhoddi “ceiniog” yn lle “ffyrlling, am *ἀσάριον* (Mat. x. 29), yr



hwn oedd yr unfed ran ar bymtheg o *denarion*, a "swllt" am y *denarion* ymhob man oddieithr yn Luc xx. 24, "Dangoswch i mi geiniog," lle y dylesid cymeryd y gair ei hunan. Gwell o lawer yw "foster-brother" yn Act. xiii. 1, yr un fath â "brawd-maeth" y Gymraeg, na "which had been brought with Herod." Yn lle "The law is open, and there are deputies; let them implead one another," Act. xix. 38, ceir "The courts are open, and there are proconsuls: let them accuse one another." Yn lle "heresi," Act. xxiv. 14, "y ffordd y maent hwy yn ei galw yn heresi," "sect" a ddefnyddir. Yn Act. xxvi. 28, 29, ceir ystyr gwahanol: "Ac Agrippa a *ddywedodd* wrth Paul, Ag ond ychydig ddarbwylliad ti a fynit fy ngwneuthur yn Gristion. A Phaul a *ddywedodd*, Mi a ddymunwn gan Dduw, pa un bynag ai âg ychydig ai â llawer, fod nid tydi yn unig," &c. Mae arnom ofn y bydd llawer pregeth dda mewn perygl oddiwrth y cyfieithiad hwn. Fe glywodd llawer o'n darllenwyr, ond odid, am bregeth enwog Lewis Morris ar "Grefydd y son a'r hanes," oddiar Esa. xxx. 4: "Canys bu ei dywysogion yn Soan, a'i genadau a ddaethant i Hanes." Yr oedd "myn'd" mawr ar y bregeth; ac un diwrnod yr oedd awydd ar y cawr-blentyn gan Lewis Morris bysgota tipyn o ganmoliaeth iddi gan yr henafgwr call a selied, Robert Griffith, Dolgellau. Yn lled sychlyd fe awgrymodd hwnw y buasai yn burion iddo ddyysgu darllen ei destun yn gywir. Digiodd Lewis Morris yn arw; fe ddywedai efe wrth Mr. Charles! Wedi dyweyd ystori y sarhâd wrth Mr. Charles, synai yn rhyfeddol nad oedd efe yn condemnio ac am ddial ei gam. "Yh? Mr. Charles, yh?" "Wel, mae Robert Griffith yn ŵr craff; os yw efe yn dyweyd felly, fe allai mai gwell fyddai bod yn siwr." Yna caed y testun a rhediad y bregeth; ond wedi deall gan Mr. Charles mai *Soan* oedd y gair ac nid sôn, ac mai manau yn yr Aipht a olygid wrth Soan a Hanes, gofynai y pregethwr mewn dychryn, "Mr. Charles bach, beth wna i am fy mhregeth? y bregeth oreu a feddwn i!" Wrth reswm nid oedd dim i'w wneyd ond gadael iddi, neu ei phregethu ar destun arall. Mae yn gysur meddwl na fydd pall am destun i bob mater da ag y gweddai ei bregethu. Mae y "trethiad dan Cyrenius," Luc ii. 2, yn yr Adgyweiriad wedi ei wneyd yn "enrolment" neu "gofrestriad;" mae "y creadur," Rhuf. viii., yn cael ei gyfieithu "y greadigaeth;" ac y mae "charity," 1 Cor. xiii., fel yn y Gymraeg, "cariad," yn "love" trwy y bennod. Mae rhai yn cwyno yn enbyd o golli "charity" o'r bennod hon, gan ystyried mai y defnydd o'r gair yn y cysylltiad hwn a roddes fôd i'r rhinwedd dymunol a adnabyddir wrth yr enw "charity." Bydded i'r rhinwedd "charity" fyw byth; ond nid dyna air yr Apostol. Ac mae yn amlwg fod "charity" yn y fath le wedi bod yn dra charmarweiniol. Crybwyllai gohebydd yn y *Spectator* ychydig wythnosau yn ol am erthygl ar "Gristionogaeth" oedd wedi ymddangos yn yr argraffiadau cyntaf o *Chambers's Information for the People*, ac wedi ei hysgrifenu, fel y gofelid am hysbysu er adeiladaeth i'r darllenwyr, gan un o'r golygwyr, yn yr hon y dywedid, "Three things we are told by St. Paul are essential, 'Faith, hope, and charity, and the greatest of these is charity,'—or a disposition to think well of our neighbours, whatever may be their actions." Y duedd i feddwl yn dda am ein cymydogion, beth bynag a fyddo eu gweithredoedd! Beth yu ychwaneg a ellid ddymuno? Ond pa mor ddyrohafedig bynag.

y byddo ein syniad am "charity," nid yw ond ynyfyrwydd meddwl am ei osod gyda ffydd a chariad, fel yn gwneyd y tri phrif ras Cristionogol, ac yn arbenig fel y mwyaf o honynt oll. Mae yn amlwg mai "cariad" yw y gair. Y mae amryw hen eiriau eraill ag oeddent, fel "charity," yn eu hystyr gyntefig wedi myned yn annealladwy, yn yr Adgyweiriad wedi eu symud. Ebe merch ieuanc ychydig ddyddiau yn ol wrth ei thad, "Fy nhad, nid oeddwn ni yn gwybod o'r blaen fod *carriages* gan yr apostolion." "Nid oedd ganddynt, yn sicr," ebe ein cyfaill, a braidd yn guchiog, canys mae ganddo olygiadau lled gryfion am yr anmhriodoldeb i weinidogion yr efengyl ddynesu mewn un modd at "rwyg a gorwagedd y byd pechadurus hwn." "Wel oedd, fy nhad," ebe yr eneth, "achos onid wyf yn darllen yn y fan yma," gan droi i Act. xxi. 15, "And after those days we took up our carriages, and went up to Jerusalem." Yr oedd ein cyfaill yn dra phryderus eisieu gwybod ai nid oedd gan y *New Version* ryw oleuni i'w daflu ar gwestiwn mor dywyll a phryderus; ac erbyn edrych, y gair yno ydyw "baggage"! Fe allasai ei Destament Cymraeg ei ryddhau o'i benbleth yn dra rhwydd pe buasai wedi dygwydd meddwl troi iddo, canys yno nid yw yr hyn a'i brawychai mor fawr yn ddim ond "beichiau." A glywodd y darlennydd am y ddadl ddyddorol hono am ddyfeisiad cwnpawd y morwr? Mynai un gwron fod yr offeryn gwasanaethgar hwnw mewn arferiad yn nyddiau yr apostolion; ac mewn trefn i brofi ei bwnc a llethu ei wrthwynebwyd dan bwysau concwest lwyr, fe ddarllenodd iddynt yn fuddugoliaethus Act. xxviii. 13, "And from thence we fetched a compass, and came to Rhegium!" Yn Gymraeg, "Ac oddiyno, wedi myned oddiamgylch, &c.;" ac yn awr mae yr Adgyweiriad yn darllen, "And from hence we made a circuit, &c." Mae "conversation" yn Phil. iii. 20 wedi cael ei gamddeall a'i gamesbonio filoedd o weithiau; gwell y Gymraeg, "ymarweddiad;" ond gwell na'r ddau y gair a ddefnyddir yn awr, "citizenship," "dinasiaeth." Yr oedd "prevent" wedi dyfod i arwyddo y peth hollol groes i'r hyn ydoedd yn Mat. xvii. 25, "And Jesus prevented him, saying;" a da oedd ei newid i "And Jesus spake first to him," yn ol y Gymraeg, "Iesu a achubodd ei flaen ef;" neu yn 1 Thess. iv. 15, "We shall not prevent them which are asleep," a da oedd ei newid i "We shall in no wise precede them that are fallen asleep;" fel y Gymraeg eto, "rhagflaenu y rhai a hunasant." Mae "let" yn gyffredin yn ganiatáu, ond yn Rhuf. i. 13 mae iddo ystyr cwbl wahanol—"But was let hitherto," "Ond fo'm lluddiwyd i hyd yn yn hyn," a da oedd ei newid i "And was hindered hitherto;" ac felly yn 2 Thess. ii. 7, "Only he who now letteth," a da oedd ei newid i "One that restraineth," "Yr hwn sydd yn attal." Mae "lewd" bellach yn dwyn ystyr hollol wahanol i'r hyn a geir yn Act. xvii. 5, "Certain lewd fellows," a da oedd ei newid i "Certain vile fellows," neu fel y Gymraeg, "Rhyw ddyinion drwg." Adgofia y gair "vile" ni o'r defnydd anmhriodol o hono gan y cyfieithwyr yn Phil. iii. 21: "Who shall change our vile body, that it may be fashioned like unto his glorious body." Y mae galw y corff yn "vile" neu yn "wael" yn edrych fel achwyniad anfoddog. Nid dyna oedd yn meddwl yr Apostol, mae yn sicr, ond yn ol yr Adgyweiriad, "Who shall fashion anew the body of our humiliation, that it may be conformed to the body

of his glory." Nid rhyfedd i Archesgob Whateley, pan ar ei wely anghu, ofyn i gyfaill ddarllen yr adnod iddo yn y Testament Groeg.

Anffawd anghyffredin yn y Cyfieithiad Awdurdodedig oedd fod y cyfieithwyr wedi cymeryd i'w pen y mympw y dylent ddefnyddio geiriau gwahanol am y geiriau oedd o'u blaen, er mwyn amrywiaeth.

"Another thing we think good to admonish thee of, gentle reader," meddent yn eu Rhagymadrodd, "that we have not tied ourselves to an uniformity of phrasing or to an identity of words, as some, peradventure, would wish that we had done, because they observe that some learned men somewhere have been as exact as they could that way. Truly, that we might not vary from the sense of that which we had translated before, if the word signified the same thing in both places (for there be some words that be not of the same sense everywhere), we were especially careful, and made a conscience according to our duty. But that we should express the same notion in the same word—as, for example, if we translate the *Hebrew* or *Greek* *ouce* by *purpose*. never to call it *intent*; if one where *journeying*, never *travelling*; if one where *think*, never *suppose*; if one where *pain*, never *ache*; if one where *joy*, never *gladness*, &c.—thus to mince the matter we thought to savour more of curiosity than wisdom, and that rather it would breed scorn in the atheist than bring profit to the godly reader. For is the kingdom of God become words or syllables? Why should we be in bondage to them if we may be free? use one precisely when we may use another no less fit as commodiously? . . . We might also be charged (by scoffers) with some unequal dealing towards a great number of good *English* words. For as it is written of a certain great philosopher that he should say that those logs were happy that were made images to be worshipped, for their fellows, as good as they, lay for blocks behind the fire, so if we should say, as it were, unto certain words, Stand up higher, have a place in the Bible always; and to others of like quality, Get you hence, be banished for ever, we might be taxed, peradventure, with St. James's words, namely, '*To be partial in ourselves, and judges of evil thoughts.*'"

Mae y gwŷr da yn ysgrifenu yn ddoniol yn sicr, ond y mae ymron yn anhygoel eu bod yn gallu meddwl y fath ffolineb. Pob croesaw iddynt ddefnyddio y geiriau a fynent i ddangos eu meddyliau eu hunain, er fod rhyw eiriau ag y mae yn rhaid iddynt hyd yn nod felly wneyd defnydd penodol o honynt, os ydynt am drosglwyddo eu syniadau yn glir i feddyliau eu darllenwyr; ond yn enwedig os ydynt yn proffesu cyfieithu, a chyfieithu pethau ag y mae cenedlaethau i'w hastudio fel meddyliau Duw, dylasant deimlo mai nid gwaith i'w ffansi chware gydag ef ydoedd hwnw, ond gwaith a ofynai am eu hymdrech eithaf i osod y meddyliau hyny ger bron yn y geiriau mwyaf cyfaddas y gallent feddwl am danynt. Mae yn wir na oddefa rhai geiriau yn y Testament Groeg eu cyfieithu bob amser yr un fath; ond mewn amgylchiadau felly mae rheswm da am yr eithriad. Y rheol, mae yn amlwg, ydyw, fod y geiriau a ddewisodd yr ysgrifenywyr sanctaidd, a hyny dan Ddwyfol ysbrydoliaeth, i amlygu eu meddyliau, i gael eu cyfieithu bob amser â'r geiriau sydd yn cyfateb agosaf iddynt yn yr iaith i ba un yr ydys yn cyfieithu. Ond fe gymerodd gwŷr da y Cyfieithiad Awdurdodedig y buasai dal at reol felly yn annheilwng o'u rhyddid, ac yn beth a fuasai yn eu gosod yn agored i feirniadaeth lem! Y canlyniad o hyn ydyw eu bod yn fynych wedi gwneyd cybolfa o'r cyfieithiad ag sydd yn ei wneyd yn llawer tywyllach nag y buasai raid iddo fod, a gwneyd cam mawr yr un modd â'r symledd clir ac arddunol sydd mor nodweddiadol o ieithwedd yr ysgrifenywyr sanctaidd. Da genym weled fod chwaeth ragorach y Cyfieithwyr Cymreig wedi eu cadw uwchlaw y mursendod hwn. Cymerer y gair *λογίζομαι*, "cyfrif," gair sydd yn yr epistol at y

Rhufeiniaid yn neillduol yn un pwysig, ac yn un o'r prif arwyddion flordd yn nuwinyddiaeth yr Apostol. Ac eto o fewn ychydig adnodau i'w gilydd yn yr epistol at y Rhufeiniaid fe geir pedwar o eiriau Saesoneg am dano—"conclude," "count," "reckon," "impute." Gair mawr y mae yr Apostol yn ddyfynu ar y pwnc o gyfiawnhâd ydyw Gen. xv. 6, "Yntau a gredodd yn yr Arglwydd, ac efe a'i cyfrifodd iddo yn gyfiawnder." Ond yn y pedwar lle y dyfyna ef, gan ddefnyddio yn ddieithriad y gair a grybwyllasom, defnyddia y Cyfieithwyr Seisonig eiriau gwahanol. Yn Rhuf. iv. 3, darllenwn, "And it was *counted* unto him for righteousness;" yn adn. 9, "We say that faith was *reckoned* to Abraham for righteousness;" yn adn. 22, "And therefore it was *imputed* to him for righteousness;" ac yn Gal. iii. 6, "And it was *accounted* to him for righteousness." Mae yr Adgyweirwyr yn rhoddi "reckon" am y cwbl, fel y rhoddai ein cyfieithwyr Cymreig "cyfrif." Yn Rhuf. vii. 7, 8, ceir yn y cyfieithiad cyffredin, "lust," "covet," a "concupiscence," am yr un gair: yn awr gwna "covet" am y cwbl: "For I had not known coveting, except the law had said, Thou shalt not covet: but sin, finding occasion, wrought in me through the commandment all manner of coveting." "Trachwant" am y cwbl yn Gymraeg: "Canys nid adnabuaswn i drachwant, oni b'ai ddywedyd o'r ddeddf, Na thrachwanta. Eithr pechod, wedi cymeryd achlysur trwy y gorchymyn, a weithiodd ynof fi bob trachwant." Am y gair anwyl *παρακαλεω* yn ei wahanol ffurfiau yn 2 Cor. i. adn. 3, 4, cawn "comfort" bum' waith fel cyfieithiad arno; ond yn adn. 5, "consolation" ydyw, a "consolation" drachefn ddwywaith yn adn. 6, a "consolation" yn adn. 7. Yn yr Adgyweiriad "comfort" a geir am y cwbl, fel yr oedd "diddanwch" am y cwbl yn y Cyfieithiad Cymraeg. Am y gair *εὐθείως*, a gyfieithir yn Gymraeg "ebrwydd," neu "yn y fan," ac yn yr Adgyweiriad yn "straightway," cawn yn y cyfieithiad Saesoneg yr holl eiriau canlynol: "straightway," "immediately," "forthwith," "anon," "as soon as," "by and by," a "shortly." Gwna yr Apostol Ioan yn neillduol ddefnydd helaeth iawn o'r prifair a geir yn Gymraeg o hyd yn "aros," ac yn yr Adgyweiriad yn "abide;" ond yn yr hen gyfieithiad ceir "abide," "remain," "continue," "tarry," "dwell," "endure," "be present,"—y cwbl am yr un peth. Pwy feddyliai mai yr un peth ydyw "witness," "bear witness," "bear record," "testify," a "have a good report." Ac eto gwna "tystiolaethu" yn Gymraeg am y cyfan; bodd-lona yr Adgyweirwyr hefyd ar "bear witness." Yn 2 Cor. ii. 1—7, sonir llawer am "dristwch": "Na ddelwn drachefn mewn tristwch atoch, &c.;" ceir yr un gair gwreiddiol mewn gwahanol ffurfiau yn y saith adnod wyth o weithiau; fe'i cyfieithir bob tro yn Gymraeg â'r un gair "tristwch" a "thristâu," ac yn yr Adgyweiriad gyda "sorrow" a "be sorry;" ond yn y cyfieithiad Saesoneg dyma y drefn: "heaviness," "make you sorry," "which is made sorry," "have sorrow," "be grieved," "have caused grief," "grieved," "over much sorrow." Buasai yn hawdd nodi llawer o engreifftiau tebyg, yn y rhai y mae yr ystyr yn cael ei dywyllu a'r arddull yn cael ei mawr amharu. Ond mae yr Adgyweirwyr yn y cwbl, hyd y gwelsom ni, wedi adfer pethau i'w lle, ac felly wedi gwneyd y testun sanctaidd llawer yn fwy clir ac yn fwy prydferth.

Yr oedd ganddynt anhawsder arall i'w wynebu, gwrthgyferbyniol i'r

un a nodasom, sef cael *geiriau gwahanol* i ddynodi gwahaniaethau a wnelid gan yr ysgrifenydd, pan oedd y cyfieithwyr, er maint eu cariad at amrywiaeth lle nad oedd angen am hyny, wedi boddloni ar ddefnyddio yn rhwydd *yr un geiriau*, ac felly heb ddynodi y gwahaniaethau oeddent yn amlwg yn y testun oedd o'u blaen. Yr oedd hyn yn orchwyl llawer anhaws, gan nad oes haiach unrhyw iaith a all ddangos y fath gyflenwad o eiriau da ag sydd yn yr iaith Roeg, neu a all eu defnyddio gyda'r fath ystwythder a naturiolrwydd i ddangos allan yr arweddion mwyaf llednais ar feddwl a theimlad. Ac eto mae yr Adgyweirwyr gyda hyn wedi gwneyd gwaith rhagorol. Fe allai y bydd yn syn gan lawer ddeall fod y cyfieithiad Cymraeg yn yr ystyr yma hefyd yn rhagori yn fawr ar yr un Saesoneg. Ni ddimunem mewn un modd ofyn i'r darlennydd gredu hyny ar ein tystiolaeth ni; ni a osodwn o'i flaen ychydig engreiffitiau, wrth y rhai y gwél nad ydyw y pethau a ddygir ymlaen gan yr Adgyweirwyr fel diwygiadau, ond pethau ydynt eisoes genym ni yn y cyfieithiad Cymraeg. Nid oes gan y Saesoneg air yn cyfateb i *ποιμαίνω*, "bugeilio," ac am hyny y mae ei chyfieithiad wedi cymeryd un ran o'r drychfeddwl mewn un man a rhan arall mewn manau eraill. Yn Matt. ii. 6, "Yr hwn a fugeilia fy mhobl Israel," dywed y Saesoneg, "That shall rule my people Israel." Y mae llawer ychwaneg na hyny mewn "bugeilio." Yn Ioan xxi. 16, lle y dywedir "Bugeilia fy nefaid," defnyddia y Saesoneg yr un gair ag a roddir yn *adnodau* 15 a 17 am *βόσκει*, "portha:" "Feed my sheep." Mae llawer yn ychwaneg na hyny hefyd mewn "bugeilio." Drachefn yn Act. xx. 28, "I fugeilio eglwys Dduw," ac yn 1 Pedr v. 2 (lle y mae y Gymraeg am unwaith yn methu trwy gymeryd y gair porthwch—"Porthwch braidd Duw"), ac yn Dad. vii. 17, "Yr Oen, yr hwn sydd yn nghanol yr orseddfainc, a'u bugeilia hwynt," y gair a ddefnyddir yn y cwbl ydyw "feed." Mae yr Adgyweiriad, gan wneyd y goreu o'r gwaethaf, yn Matt. ii. 6, yn dyweyd, "which shall be shepherd of my people Israel;" yn Ioan xxi. yn dyweyd "tend;" ond yn Act. xx. 28, "feed" a geir; ac yn Dad. vii. 17, "The Lamb which is in the midst of the throne shall be their shepherd." Y mae llawer o anhawsder wedi ei achosi trwy fod y ferf "will" yn cael ei defnyddio yn gynnorthwyol i ddynodi y dyfodol, a hefyd i ddynodi dymuno neu ewyllysio. Pa un o'r ddau ystyr sydd iddi, er engrafft, yn Ioan vii. 17, lle y dywedir, "If any man will do his will?" Nid oes un amhweuaeth yn y testun Groeg; ac y mae y Gymraeg yr un mor glir: "Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef." Ond tywyll y Saesoneg, a da oedd i'r Adgyweirwyr chwalu y tywyllwch trwy ddyweyd, "If any man willetth to do his will." Yr un modd, "They that will be rich," 1 Tim. vi. 9; "Y rhai a ewyllysiant ymgyfoethogi;" ac yn yr Adgyweiriad, "They that desire to be rich." Nid oes gan y Saesoneg air am *δαίμων*, "cythraul," yn wrthgyferbyniol i "diafol;" ac am hyny nid ellir ond dyweyd, "possessed with devils," am yr hyn a eilw y Gymraeg yn llawer mwy cryno a phriodol yn "gythreulig;" nid allai yr Adgyweirwyr newid y gair, am hyny rhoddant bob amser ar ymyl y ddalen *dæmons* fel eglurhâd. Gwahaniaeth pwysig yn y Groeg ydyw yr un rhwng *ἀγάπαι* a *φίλει*, megys yn Ioan xxi. 15—17; "love" sydd gan y Saesoneg am y naill a'r llall, ac nid oes gan yr Adgyweirwyr ond nodi ar ymyl y

ddalen, "Love in these places represents two different Greek words." Mae yn wir mai "caru" ydyw y gair yn y cyfieithiad Cymraeg, ond fel y dangosodd y Dr. Owen Thomas yn ei erthygl ar "Eglurhadaeth Ysgrhythrol" yn y TRÆTHODYDD am 1846, yr oedd genym ni air, "hoffi," a fuasai yn cyfateb yn dda i φιλῶ, ac a fuasai, pe buasai ein cyfieithwyr wedi dygwydd meddwl am dano, yn y lle hwnw ac mewn manau eraill, o wasanaeth mawr i ddangos y gwahaniaeth. Yr un modd y *gallasent* nodi y gwahaniaeth rhwng "corlan" a "deadell," yn Ioan x. 16, "A bydd un bugail ac un ddeadell," fel y gwna yr Adgyweiriad, "And there shall become one flock, one shepherd." Ond y mae Homer dda weithian yn hepian. Yn 1 Cor. xiv. 20, "Brethren, be not children in understanding: howbeit in malice be ye children," cwynir mai "children" a ddefnyddir am y ddau air sydd gan yr Apostol, a rhoddir yn ei le, "Brethren, be not children in mind: howbeit in malice be ye babes." Y Gymraeg yn iawn: "Na fyddwch fechgyn mewn deall: eithr mewn drygioni byddwch blant." "Repent" a roddir am ddau air Groeg a gyfieitha yr Adgyweirwyr, yn 2 Cor. vii. 8, 10, y naill yn "regret" a'r llall yn "repent." "For though I made you sorry with my epistle, I do not regret it, though I did regret. . . . For godly sorrow worketh repentance unto salvation, a *repentance* which bringeth no regret." Ceidw y Gymraeg y gwahaniaeth yn dda gyda "bod yn edifar," ac "edifarhâu:" "Nid yw yn edifar genyf, er bod yn edifar genyf." Felly Judas, Matt. xxvii. 3, "bu yn edifar ganddo," er nad edifarhaodd. Galesid cadw y gwahaniaeth hefyd yn "Canys duwiol dristwch sydd yn gweithio edifeirwch, eriachawdwriaeth ni bydd bod yn edifar o honi." Sal ydyw "mighty works" yn Marc vi. 14, yn lle "nerthoedd" y Gymraeg, a "these powers" yr Adgyweiriad. Yn Dad. iv. 4, darllenwn, "And round about the throne were four and twenty seats: and upon the seats I saw four and twenty elders sitting." Yr un modd sonir am "seat" Satan, ii. 13, a "seat" y ddraig, xiii. 2, a "seat" y bwystfil, xvi. 10; mae y cyfieithwyr Cymreig wedi bod yn ddigon glew i roddi y gair "gorseddfainc" yn yr holl fanau uchod, fel y mae yn y gwreiddiol, ac fel yr adferir gan yr Adgyweirwyr. Ac yn debyg gyda llawer o gyfnewidiadau eraill.

Pe gallasem fforddio gofod, buasai yn dda genym gyfeirio at liaws o welliantau pwysig a ddygwyd i fewn gan yr Adgyweirwyr gyda golwg ar amseriadau y berfau, defnyddiad y fannod, yr arddodiaid, y llythyrenau Italaidd, a'r attalnodiad. Fel engraffit o'r diweddaf, camgymeriad poenus yn y Saesoneg a'r Gymraeg yw y cyfieithiad yn Luc xxiii. 32, "Ac arweiniwyd gydag ef hefyd ddau ddrwgweithredwyr eraill, i'w rhoi i'w marwolaeth." Galwodd Mr. Charles sylw at hyn yn y *Geiriadur*. Mae y *Revisers* wedi ei gywiro: "Ac arweiniwyd gydag ef ddau eraill, drwgweithredwyr, i'w rhoi i'w marwolaeth." Yn Rhuf. viii. 20, fe wnaed camgymeriad rhyfedd yn y Saesoneg: "For the creature was made subject to vanity, not willingly, but by reason of him who hath subjected the same in hope." "Subjected the same in hope!" Pa synwyr all fod mewn peth felly? Yn awr mae yr attalnodiad wedi ei wella, a'i wneyd fel y mae yn Gymraeg: "Nid o'i fodd, ond oblegid yr hwn a'i darostyngodd, dan obaith." &c. Da iawn oedd tynu ymaith y cromfachau yn Matt. vi. 32, Rhuf. v. 13—17 (nid oeddynt yma yn y Gymraeg), a Phil.

iii. 18, 19. Gwelliant da hefyd a geir yn Luc xxiv. 18, "Dost thou alone sojourn in Jerusalem," yn lle "Art thou only a stranger in Jerusalem:" nid "A wyt ti yn unig yn ymdeithydd," ond "Ai ti yn unig sydd yn ymdeithydd." Y mae 2 Cor. v. 21, hefyd yn engraifft o lawer gwelliant cyffelyb mewn cyflêad: "For he hath made him to be sin for us, who knew no sin." "For us, who knew no sin!" Pam oedd raid ei wneyd ef ynte "yn bechod drosom?" Mae yr Adgyweiriad wedi ei ddwyn, mor agos ag y goddefai priod-ddull yr iaith, at berffeithrwydd y cyfieithiad Cymraeg: "Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni." Buasai yn hawdd nodi lliaws o engreiffitiau yn ychwanegol lle y mae y cydnawsedd agosach rhwng y Gymraeg a'r Groeg, ac ysgolheigddod a chwaeth bur ein cyfieithwyr wedi sicrhâu i ni gyfieithiad llawer rhagorach na'r un Saesoneg, a bydded yr Adgyweirwyr yn farnwyr. Nodwn ddwy yn unig. Luc xvii. 6: "Ymddadwreiddia;" *ἐκρίζωθητι*. Rhaid cael *saith* o eiriau Saesoneg i geisio dangos yr un meddwl: "Be thou plucked up by the root." Crynhoia yr Adgyweirwyr y *saith* i *bedwar*: "Be thou rooted up." Pe buasem yn agos atynt, buasem yn dywedyd, Cymerwch galon, foneddigion, a dywedwch, "Be uprooted,"—yr hyn a fuasai yn gryfach fyth. Yr engraifft arall y bwriadem gyfeirio ati ydyw Dad. xviii. 2: "And he cried mightily with a strong voice, saying, Babylon the great is fallen, is fallen." Fe deimlai unrhyw ddyn fod yn anhawdd gwaeddi peth fel yna; ac eto yr oedd yr angel yn "llefain yn groch â llef uchel;" yr oedd ei lef, dybygid, o'r un rywogaeth â'r un a glybu awen Milton pan gyhwfanid gan Azazel faner yr Archelyn,—

A shout that tore hell's concave, and beyond  
Frighted the reign of Chaos and old Night.

Ac erbyn edrych i'r gwreiddiol fe geir fod y geiriau yn werth eu gwaeddi: "*Ἐπεσε, ἔπεσε Βαβυλὼν ἡ μεγάλη*. Ac yn Gymraeg yr un modd fe ellid eu gwaeddi i bwrpas, a chlywed ynddynt y dymchweliad ofnadwy: "Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr." Ond yn "Babylon the great is fallen, is fallen," fe feddyliai dyn yn llawer mwy am ddolef brenin y ddinas falch yn udfan ei anobaith, nag am floedd angel mawr, yn afiaeth concwest a gorfoledd, yn cyhoeddi y cwmp. Mae yr Adgyweirwyr wedi gwneyd y peth goreu a oddefai eu hiaith yn yr amgylchiad yma eto: "Fallen, fallen is Babylon the great;" er y rhaid dywedyd fod hyn hefyd gryn lawer yn wanach na'r Groeg a'r Gymraeg.

Yn wyneb y crybwyllion a wnelson yma a thraw trwy yr erthygl hon am ragoriaeth diammheul y cyfieithiad Cymraeg o'r Ysgrhythyrar, ni fyddai yn rhyfedd i'r darlennydd gasglu y buasem yn teimlo yn anodd-lawn i'r son sydd mewn rhai cylchoedd yn Nghymru y dyddiau hyn am ei osod yntau hefyd dan Adgyweiriad. Ond camgymeriad fyddai hyny. Nid ydym yn ofni y teimlad dros gael adgyweirio y cyfieithiad Cymraeg mewn un modd, ond yn llawenhâu o'i blegid, ac yn hyderu y caiff rwydd hynt i ddyfod i ddyben da. Mae yn anhawdd i unrhyw ysgolhaig Cymreig beidio teimlo yn awyddus am i'r cyfieithiad o ba un y mae cynifer o'i gydwladwyr yn gwneyd y fath ddefnydd da, gael y fantais ar bob cynnydd a wnaed mewn gwyddoniaeth Fiblaidd er yr amser y bu Dr. Morgan, Dr. Richard Parry, ac eraill, o fendigedig goffadwriaeth, yn

llafurio gydag ef. A chymeryd y Testament Newydd, mae yn amlwg fod amryw amryfuseddau wedi llithro i fewn. Hyd yn ddiweddar darllenid Act. vii. 56, "Ac efe a ddywedodd, Wele mi a welaf y nefoedd yn agored, a Mab y dyn yn eistedd ar ddeheuol Duw," er mai "sefyll" sydd yn yr adnod flaenorol, "A'r Iesu yn sefyll ar ddeheuol Duw." Nid oedd dim rheswm am y cyfnewidiad, ond ei fod yn gamgymeriad amlwg. Am yspaid fe fu awdurdodau y Fibl Gymdeithas yn petruso symud ymaith y mef hwn; yr ydym yn cofio y diweddar Barchedig Dr. Phillips yn ymgynghori â chyfeillion yn ei gylch, ac fel un yn pryderu rhag y buasai newid y gair yn rhyfyg; ond yn yr holl argraffiadau diweddar, "sefyll" a geir yn y ddwy adnod. Yr un modd nid oes reswm yn y byd paham y mae y gair "pechodau" yn Ioan i. 29, yn lle "pechod;" dylid darllen, "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechod y byd." Fe edrychir ar yr holl bechodau wedi eu crynhoi ynghyd i un crug aruthrol o bechod, "pechod y byd;" ac y mae Oen Duw yn tynu hwnw ymaith. Y mae y cyfieithwyr Cymreig hefyd, er mor lwyddiannus, ac er fod yn anhawdd meddwl nad oeddent mewn rhai amgylchiadau yn ymgynghori â thestun gwell na'r cyfieithwyr Seisonig, eto wedi gwneyd llawer o gamgymeriadau mewn cyfieithu, fel yn yr engreiffiau a nodasom, ac mewn llawer eraill a allesid nodi o gyffelyb natur. Ac heblaw hyn, ac yn llawer pwysicach, pwy ma ddymunai gael y geiriau ysbrydoledig yn y cyfieithiad Cymraeg, i gyfateb mor agos ag y byddo modd i'r testun adferedig yn yr hen *Uncials* urddasol o'r bedwaredd a'r bummed ganrif, ac nid eu cymeryd fel ar ddamwain y gadawyd hwy i ni gan amryfuseddau canrifoedd o gopiwywr? Nid oes dim yn fwy diammheuol yn y byd dysgedig nag fod lliaws mawr o'r darlleniadau hyn yn gwbl ddiawdurdod; a phaham y rhaid i Gymru, sydd mor ffyddlaw i'r Llyfr sanctaidd, ymfoddloni arno heb ei gael yn y purdeb eithaf ag y gall ysgolheigddod a barn dda ei meibion goreu ei osod yn ei dwylaw? Erbyn hyn hefyd y mae cryn nifer o'r geiriau a ddefnyddir wedi myned allan o arfer, ac am hyny yn dywyll. Clywsom bobl ddeallus yn gwneyd camgymeriadau rhyfedd wrth esbonio y geiriau canlynol yn y Testament Newydd: "cywain," Matt. vi. 26; "brawle," Eph. vi. 16; "serthedd," Eph. v. 4; "main," Dad. xvii. 4; "brawle," 2 Cor. v. 10; "breiniol," Act. xxii. 28; "cyweithas," 1 Pedr ii. 18; "talu y pwyth," 1 Tim. v. 4; "ysgatyfdd," Rhuf. v. 7; "llawruddiog," Act. xxviii. 4; "angenoctyd," 1 Thess. iii. 7, &c. Mae llawer mwy o eiriau anarferedig yn y cyfieithiad Saesoneg, mae yn wir; ond y mae y rhai sydd yn yr un Cymraeg yn sicr yn galw am ystyriaeth yr un modd. Ac mewn llawer golygiad arall, heblaw y pethau a grybwyllwyd, fe welai gwŷr cymhwys i'r gwaith liaws mawr o bethau ymha rai y gellid perffeithio y cyfieithiad, a'i wneyd yn fwy cyfaddas fel trosglwyddiad o'r genadwri Ddwylfol i feddwl y Cymry yn y dyddiau hyn.

Deallwn y rhaid aros am tua dwy flynedd eto am yr Adgyweiriad Seisonig o'r Hen Destament.

Am y llyfrau a nodasom uwch ben ein herthygl:—Mae y *Revised Version* i'w gael mewn gwahanol ddulliau yn amrywio o ran pris o 1s. i 25s. P'ris Testament Groeg Dr. Scrivener ydyw 6s. Am *Companion* Dr. Alexander Roberts, a'r *Bible Revision* dan olygiad Dr. Schaff,—dau lyfr sydd yn cynnwys llawer o wybodaeth dra dyddorol, wedi eu



hysgrifenu mewn ffordd glir a galluog, a chan wŷr oeddynt eu hunain o nifer yr Adgyweirwyr,—mae y cyntaf i'w gael am 2s. 6c., a'r ail am 2s. Am y *Variorum Bible*, y mae yn llyfr o werth arbenig. Cynnwysa liaws mawr iawn o nodiadau, yn y rhai y crynhoir peth anferth o ymchwiliad, ac y rhoddir gwahanol ddarlenniadau ac eglurhadau o eiddo yr awdurdodau uchaf mewn dysgeidiaeth Fiblaidd fel cynnorthwyon i ddeall yn well y Llyfr sanctaidd. I rai sydd yn analluog i ddeall yr ieithoedd gwreiddiol, gwna gydymaith tra gwerthfawr i'r *Revised Versions*. Heb yr *Aids to the Students of the Holy Bible*, a'r Cyfeiriadau, ei bris ydyw 7s. 6c.; gyda'r Cyfeiriadau, 8s.; yr olaf, gyda yr *Aids*, 10s. 6c. Mae yr *Aids* hyn yn llanw tua 300 o dudalenau, ac yn cynnwys casgliad cyfoethog iawn o wybodaeth fuddiol er egluro y Bibl, gyda Mynegair, Dangoseg, a hamer dwsin o Fapiau o'r fath oreu. Y mae hefyd wedi ei rwymo yn ystwyth, destlus, a pharhâus.

DANIEL ROWLANDS.

---

## NODIADAU LLENYDDOL.

*The Pulpit Commentary*, edited by the REV. CANON H. D. M. SPENCE, M.A., Vicar and Rural Dean of St. Pancras, and Examining Chaplain to the Lord Bishop of Gloucester and Bristol; and by the REV. JOSEPH S. EXELL, Editor of "The Homiletic Quarterly." With Introductions by the REV. CANON FARRAR, D.D., F.R.S.; RIGHT REV. H. COTTERILL, D.D., F.R.S.E.; VERY REV. PRINCIPAL J. TULLOCK, D.D.; REV. CANON RAWLINSON, M.A.; REV. A. PLUMMER, M.A.—*Ezra*. Exposition by REV. GEORGE RAWLINSON, M.A., Camden Professor of Ancient History in the University of Oxford, and Canon of Canterbury. Homiletics by REV. W. S. LEWIS, M.A., Vicar of St. George's, Worthing. Homilies by Various Authors: REV. J. A. MACDONALD; REV. W. CLARKSON, B.A.; REV. A. MACKENNAL, B.A.; REV. J. S. EXELL. *Nehemiah*. Exposition by REV. GEORGE RAWLINSON, M.A. Homiletics by REV. G. WOOD, B.A. Homilies by Various Authors: REV. PROF. R. A. REDFORD, LL.B., M.A.; REV. J. S. EXELL; REV. W. CLARKSON, B.A. *Ester*. Exposition by REV. GEORGE RAWLINSON, M.A. Homiletics by REV. PROF. J. R. THOMSON, M.A. Homilies by Various Authors: REV. PROF. P. C. BARKER, LL.B., M.A.; REV. PROF. D. ROWLANDS, B.A.; REV. W. DINWIDDIE, LL.B.; REV. W. CLARKSON, B.A.; REV. F. HASTINGS. Third Edition. 1880.

*Genesis*. Introductions by REV. CANON FARRAR, D.D.; RIGHT REV. H. COTTERILL, D.D.; REV. T. WHITELOW, M.A. Exposition and Homiletics, by REV. THOMAS WHITELOW, M.A. Homilies by Various Authors: VERY REV. J. F. MONTGOMERY, D.D.; REV. W. ROBERTS, M.A.; REV. PROF. R. A. REDFORD, M.A., LL.B.; REV. F. HASTINGS. Third Edition. 1881.

1 *Samuel*. Exposition by VERY REV. R. PAYNE SMITH, D.D., Dean of Canterbury. Homiletics by REV. PROF. C. CHAPMAN, M.A., Western College, Plymouth. Homilies by Various Authors: REV. D. FRASER, D.D.; REV. B. DALE, M.A. 1880.

*Judges. Exposition and Homiletics* : RIGHT REV. LORD A. C. HERVEY, D.D., Bishop of Bath and Wells. Homilies by Various Authors : REV. A. F. MUIR, M.A. ; REV. W. F. ADENEY, M.A. 1881.—London : C. Kegan Paul & Co.

Y MAE yn ddiau yn achos o ddwfn lawenydd i weled y dyhewyd cynnyddol â pha un yr ymroddir yn y deyrnas yma y dyddiau hyn i astudio yr Ysgrhythrau. Yr ydym yn ddiweddar wedi cael yr hyfrydwch o alw sylw darllenwyr y TRAEHODYDD at liaws o weithiau pwysig a thra gwerthfawr mewn esboniadaeth sydd yn dyfod allan o'r wasg Seisonig ; ac y mae yn arwydd dda eu bod oll, nid yn ymdrechion i "addurno beddau y prophwydi" trwy argraffiadau ysbelydd, costus, o Henry a Scott, fel yr oedd yr arfer dda gynt, nac ychwaith i osod o'n blaen yn unig gynnyrchion goreu dysgeidiaeth Ffblaidd Germany ; ond yn llafur gonest, egniol, a llwyddiannus ar ran Prydeiniaid y dyddiau yma i ddeall y Gair, ac i osod yn y dull goreu o flaen eu cydwladwyr ffrwyth eu hymchwiliadau. Ac mae yn dda genym yn awr gael cyflwyno i sylw ein cyfeillion y cyfrolau golygus, llawnion, a chyfoethog hyn. Galleid meddwl y buasai yn gryn anturiaeth i unrhyw gyhoeddwr feddwl am ddwyn allan gyfrolau o'r fath. Ond mae y derbyniad a roddwyd iddynt yn llawn gyflawnhâu eu gobethion goreu. Mae *Ézra*, *Nehemi'ah*, ac *Esther*, cyrol o dros bum' cant o dudalenau, "super-royal 8vo," pris 12s. 6c., yn awr yn ei phedwerydd argraffiad. Mae *Genesis* a l *Samuel*, bob un dros bum' cant a hanner o dudalenau, pris 15s., yn awr yn eu trydydd argraffiad. Pris y gyfrol ar *Judges* ydyw 10s. 6c., a diammeu y caiff hithau dderbyniad cyffelyb. Rhaid dyweyd fod eu prisiau yn hynod o isel, ac na fuasai yn bosibl iddynt dalu heb ledaeniad helaeth. Am deilyngdod y gwaith mawr hwn rhaid dyweyd ei fod yn ddiammheuol. Mae ei gynllun yn rhagorol, ac y mae yn cael ei weithio allan gan bob un o'r cyfranwyr gyda llafur fyddlawn a chydwybodol, yn gystal â chyda gallu amlwg a dysgeidiaeth helaeth. Mae yr Arweiniadau yn hynod werthfawr ; galleid nodi yn arbenig yr eiddo Dr. Farrar i'r Hen Destament yn gyffredinol ; yr eiddo Dr. Cotterill, Esgob Edinburgh, i'r Pentateuch ; a'r eiddo Dr. Payne Smith, Deon Canterbury, i l Samuel. Yr un modd yr esboniad. Edrychasom iddo mewn lliaws o fanau, a chawsom ef ymron yn ddiethriad, tra yn glir a chryno, eto yn cynnwys yr eglurhadau mwyaf gwerthfawr, ac yn hollol i'r pwynt. Fe'i ceir yn yr ystyr yma yn llawer mwy derbyniol i ddarllenwyr cyffredin nag esboniadau llafurfawr y Germaniaid, y rhai gan amlaf, ydynt mor lawn o ddisgeidiaeth a golygiadau cywraint fel y mae y testun mewn perygl o gael ei ddiffodd gan gyflawnder y goleuni a grynhir i'w egluro. Ac eto pell iawn ydyw yr esboniad a geir yn y cyfrolau hyn oddiwrth y tlodi a ddangosir gan gynifer o lyfrau sydd yn dwyn yr enw, y rhai ydynt mor hoff o ymhelaethu ar bethau sydd yn amlwg i bawb, ond yn dangos medr neillduol mewn osgoi pob anhawsderau. Mae yr esbonwyr yma yn gweld y pethau sydd yn gofyn eglurhad, ac yn gyffredin yn bur sicr o gynnwys y peth mwyaf cyfaddas a fédd llenyddiaeth Ffblaidd oren y dyddiau hyn, pa un bynag ai yn y wlad hon ai ar y Cyfandir, fel goleuni arno. Ac y mae yr *Homiletics*, a'r *Homilies by Various Authors*, yn dwyn allan mewn ffordd sydd ymhell uwchlaw cyffredinedd, yr addysgiadau mawrion y mae yr hanes sanctaidd, o'i darllen fel y genadwri Ddwyfol i bobl y dyddiau hyn, mor gyfaddas i'w gweinyddu. Y maent, fel cynnyrchion cyfluniaiidd meddyliau byw a ffrwythlawn, yn llawer mwy darllenadwy na'r crug o ddyfyniadau ac awgrymiadau Homiliaidd a geir yn nghyfrolau y *Bibel Werk* gan Lange, pa mor gynnyrchiol bynag allai aml un o'r rhai hyn ydynt yn naear dda meddyliau myfyrgar. Nid oes yn ddiau yr un esboniad sydd yn debyg o fod yn fwy gwerthfawr a buddiol na'r *Pulpit Commentary*. Da genym weled fod y parotadau goreu yn cael eu gwneyd tuag at ei ddwyn allan mor ddioedi ag y gallir ar ranau eraill o'r Hen Destament, ac ar y Testament Newydd.

# Y TRAETHODYDD.

## DARLITHIAU Y PARCH. D. C. DAVIES, M.A., AR "GRISTIONOGAETH."

**RHAGNODIAD.** Traddodwyd y darlithiau hyn gan y Parch. D. Charles Davies, M.A., ar wahanol adegau yn ystod y tri thymnor gauaf diweddaf i Gymdeithas Pobl Ieuaic Jewin Newydd, Llundain. Ynddynt y mae y darlithydd parchedig yn trin materion a gafodd sylw dynion difrifol pob oes, materion sydd yn y deg neu y pymtheng mlynedd diweddaf wedi dyfod o ddyddordeb arbenig i bob dyn meddylgar. Ymresyma y cwestiynau pwysig sydd yn ymwneyd & Chrefydd a Gwyddoniaeth, & Ffydd a Rheswm, mewn ysbryd sydd ar y naill law yn rhydd oddiwrth beb culni duwinyddol, ac ar y llaw arall oddiwrth drahausder gwyddonol. Y mae nid yn unig yn hollol gyfarwydd & r materion a drinir ganddo fel y gosodwyd hwynt i lawr ac yr ymresymwyd hwynt yn yr amser a basiodd, ond y mae yr un mor gyfarwydd & r gwahanol agweddau yn y rhai y cyflwynir hwynt i ni yn y dyddiau golemedig hyn.

Fod agwedd prif wyddonwyr y wlad hon a gwledydd eraill tuag at y cwestiynau sydd yn ymwneyd & ag anfarwoldeb, & natur enaid, & chrefydd Crist, & r Bôd o Dduw, wedi rhoddi ysgydwad i ffydd miloedd o'n cyd-ddeiliaid, sydd ffaith nas gellir ei gwadu. Nid yw Gwyddoniaeth yn credu dim ond a ellir ei brofi. Gall fod Person Dwyfol yn bod, sydd yn cymeryd sylw o amgylchiadau dynion, ond nis gall Gwyddoniaeth brofi hyn; am-hyny y mae crediniaeth yn y fath Berson yn groes i'r ysbryd gwyddonol! Gall fod y cyfryw beth ag *enaid*, sef ysbryd yn meddu ar fywyd, neu bosiblwydd bywyd, ar wahan i'r corff, ond nid oes prawf o hyny yn bod; am hyny y mae credu yn yr enaid yn wrth-wyddonol! A chan nad oes enaid, nid oes iachawdwriaeth, nac angen am iachawdwriaeth; a heb iachawdwriaeth nid yw Cristionogaeth ond crefydd wag a diwerth! Dyma'r gwersi a ddvagir gan Wyddoniaeth, gyda'r canlyniad o wneuthur Anghrediniaeth yn uchel ei ben yn ein tir. Y mae "ein harweinwyr ysbrydol" yn plygu dan bwysau anhawderna ac amhheon nas gallant eu hesbonio; y mae eu gwrandawr rhwng dwy ystôl yn syrthio i lawr i ganol tristwch a thywyllwch annesgrifiadwy. Y mae Duwinyddiaeth yn ymbalfalu am resymau i gynnal ein ffydd, a'i dysgyblion yn rhy aml yn myned i ganlyn y cenllif sydd yn bygwth ein gordol.

Yn ffodus, fodd bynag, ceir ochr arall i'r cwestiwn. Nid yw Gwyddoniaeth erioed wedi profi nad oes Duw yn bod; nid ydyw hyd yn hyn wedi gwneuthur yn berffaith amlwg nad ydyw dyn namyn fwrff uwch ar anifail; y mae wedi methu dangos mai breuddwyd yw anfarwoldeb; ac nid ydyw eto wedi llwyr argyhoeddi y byd mai celwydd yw crefydd Crist. Yr un pryd, y mae yn ofnol i ni gael rhyw safie heblaw y nacâol i sefyll arno; ac yn y darlithiau hyn nid amhewwn na dderbynia llawer sydd yn cael eu poeni gan amhheon crefyddol y cymhorth sydd yn codi oddiar gymundeb & yn sydd yn cyfuno gwybodaeth eang & ffydd gadarn. Nis gall rhai o'r fath lai na theimlo fod y darlithydd, nid yn unig yn deall eu hanhawsderau, ond i raddau helaeth yn cydymdeimlo & hwynt.

Bydd gair neu ddau yn ddigonol i esbonio cysylltiad yr ysgrifenydd presennol & r Darlithiau. Er gofid neillduol i w liaws cyfeillion, y mae sefyllfa iechyd Mr. Davies y fath ag i'w analluogi i ymgymeryd & r llafur angenrheidiol er parotol y darlithiau i'r wasg. O dan yr amgylchiadau hyn cafodd yr ysgrifenydd gamiatâd i argraffu y nodiadau cyflawn a gymerwyd ganddo ar draddodiad y darlithiau, er budd darllenwyr y TRAETHODYDD. Fel y gellid dysgwyl, y mae nodiadau dysgybl yn rhwym o fod ymhell yn oi i'r hyn fusasai gwaith perffeiethiedig yr Athraw; ond gall yr ysgrifenydd dystio iddo osod i lawr gynnywys yr holl ddariithiau, mor agos ag yr oedd hyny yn bosibl, yn ngeirian y darlithydd ei hun.—E. VINCENT EVANS.

## I.

## PERTHYNAS CRISTIONOGAETH A MOESOLDEB.

WRTH y gair Cristionogaeth yn y darlithiau hyn, nid ydys yn meddwl yn *neillduol* y gwahanol orchymynion a chyfarwyddiadau ymarferol sydd yn wasgaredig drwy yr Ysgrhythyrau. Fe addeffir gan y rhan fwyaf o ammhewyr fod y rhai hyn ar y cyfan yn fuddiol, ac o duedd i wella moesau dynion, pe dilynid hwy; a chydnybysdir yn gyffredin fod dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu yn ddyrchafedig, a bod ei fuchedd yn bur. Dywedodd y diweddar Stuart Mill, er engraifft, y byddai yn dra phriodol i ddyn amcanu at fyw yn y modd y byddai yr Arglwydd Iesu yn sicr o'i gymeradwyo. Fe addeffir ymhellach fod tuedd foesol i lawer o'r hanesion a gofnodir yn y Bibl.

Ond wrth y gair Cristionogaeth yma, y meddylir y pynciau athrawiaethol, pa rai yn ol cred Cristionogion yn gyffredin, a roddwyd trwy ddadguddiad goruwchnaturiol, ac a elwir ambell waith yn *doctrines*, ac ar brydiau eraill yn *dogmas*. Y pynciau hyn hefyd, nid fel y credir hwynt gan enwad neu ddoesbarth neillduol o Gristionogion, neu fel y geirir hwynt mewn unrhyw Gyffes Ffydd, ond fel y credir hwynt gan Gristionogion o bob enwad yn ddiwahaniaeth. Y rhai hyn ydynt y Bôd o Dduw, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd, yn eu personau a'u gwaith: yr hyn a gynnwysa waith y Tad yn cyfiawnhâu trwy ffydd, Duwdod ac Aberth lawnol y Mab, a gwaith yr Ysbryd Glân yn aileni ac yn perffeithio dynion. Yr ydym yn cymeryd y pynciau hyn fel pynciau hanfodol Cristionogaeth, ac fel pynciau ymha rai y mae Cristionogion yn gyffredin yn cytuno.

Wrth foesoldeb yma, y meddylir ymddygiad allanol—yr ymddygiad ag sydd yn cynnwys cyflawniad o'r dyledswyddau sydd rwymedig ar ddynion tuag at eu gilydd yn bersonol ac yn gymdeithasol. Y rhai hyn ydynt sobrwydd, purdeb, geirwiredd, gonestrwydd, ffyddlondeb, cymwynasgarwch; yr iawn ddefnydd o feddiannau, o amser, o alluoedd y meddwl, ac o fanteision addysg a diwylliant personol er lles y byd; y fuchedd hono sydd dan lywodraeth cydwybod wedi ei goleuo i ddoesbarthu drwg a da. Aralleiriad priodol ar Gristionogaeth a Moesoldeb, fel y defnyddir y geiriau yn awr, a fyddai—Pynciau yr Efengyl, a Bywyd rhinweddol. Dywed rhai nad oes unrhyw berthynas naturiol ac angenrheidiol rhwng y pethau hyn; mewn gair, eu bod yn diriogaethau nad ydynt gymaint ag yn cyffwrdd â'u gilydd. Am hyn yf osodir athrawiaethau yr Efengyl a dyledswyddau moesol yn wrthgyferbyniol i'w gilydd, ac ambell waith fe haerir eu bod yn wrthwynebol y naill i'r llall. Fe gyflêir y syniad hwn yn gryno mewn dywediad sydd erbyn hyn bron a myned yn ddiareb, sef, *Nid credo ond ymddygiad*. Cynnwysa y dywediad hwn awgrymiad anwiredus, sef bod y rhai sydd yn credu pynciau yr Efengyl yn dal y syniad gwrthwynebol, *Nid ymddygiad ond credo*; tra mewn gwirionedd y mae Cristionogion yn ymwrthod â'r ddau fel eu gilydd. Ni fynant y syniad "nid credo ond ymddygiad," ni fynant ychwaith y syniad arall, "nid ymddygiad ond credo;" eu harwyddair yw, *credo ac ymddygiad*, neu athrawiaeth a dyledswydd. Y mae yn

ffaith hanesyddol fod y Puritaniaid, y rhai oeddynt y cadarnaf yn eu cred mewn pynciau duwinyddol, y manylaf hefyd yn eu hymddygiadau personol. Yn wir, parodd manylrwydd eu hymddygiad moesol feirniad-aeth lemach arnynt a gwrthwynebiaeth cryfach iddynt na'r pynciau a gredid ganddynt. Rhoddir arddangosiad neillduol o'r modd yr unent athrawiaeth a dyledswydd yn ngweithiau Dr. Owen.

Cynnwysa y dywediad hefyd gamddefnydd pwysig o un gair. Tybir ynddo, mai cydsyniad marw & nifer o bynciau sydd yn gorwedd mewn erthyglau ydyw *credu*, neu gydsyniad seiliedig yn unig ar draddodiad dynol. Gellir yn eithaf priodol wrthgyferbynnu cydsyniad marw âg ymddygiad, ond camgymeriad o'r mwyaif ydyw galw y fath gydsyniad yn *gredu*; oblegid y mae o leiaf gymaint o *angharedu* ag sydd o *gredu* ynddo. Yr unig bethau a gydnabyddir yn ein Hysgrythyr ni fel *créd* ydyw argyhoeddiad y meddwl o ryw wirionedd, ac ymddiriedaeth mewn rhyw Berson. Am grediniaeth yn yr ystyr o argyhoeddiad ac ymddiriedaeth, y mae yn anmhosiibl ei wahanu oddiwrth ymddygiad allanol. Y mae yr hyn a gredir yn effeithio ar yr ymddygiad, ac y mae yr ymddygiad eilwaith yn gadael ei ôl ar y grediniaeth. Y mae gŵr "dauddyblyg ei feddwl," na fedr gredu yn gryf, yn un "anwastad yn ei holl ffyrdd."

Fel y sylwyd, nid oes modd ysgar credo ac ymddygiad; ond pe tybid y posibilrwydd o ddileu cred, effaith hyny a fyddai gwneuthur ymddygiad yn beiriannol, yn gweithio yn ol deddfau allanol ac nid yn ol egwyddor dufewnol. Y mae yn ffaith fod yn rhaid i'r dynion sydd yn ddiffygiol mewn argyhoeddiadau dyfnion am fwy o lawer o reolau allanol i'w cadw yn eu lle o ran eu hymddygiad nag sydd ar y dynion sydd yn credu yn gryf. Os gelwir arnom i gredu y dywediad, "nid credo ond ymddygiad," yr ydym yn yr un fan eilwaith, oblegid ni fyddai hyny ond disodli hen gredöau gyda chredo newydd, disodli pynciau yr efengyl â phwnc arall; a gellid gwrthwynebu y credo newydd a'r pwnc newydd gyda'r holl resymau a ddefnyddiwyd yn erbyn yr hen gredöau a'r hen bynciau. Ond ein pwynt yn awr ydyw, nid y berthynas gyffredinol sydd rhwng credu a byw, ond y berthynas neillduol sydd rhwng pynciau athrawiaethol yr efengyl fel materion a gredir âg ymddygiad moesol.

Os yw gwrthwynebwyr Cristionogaeth yn dadgan fod pellter rhwng pynciau athrawiaethol yr efengyl a dyledswyddau moesol, rhaid cydnabod fod Cristionogion wedi rhoddi lle iddynt wneuthur hyny pan yn gosod eu hunain allan fel cynnrychiolwyr Cristionogaeth. Gwnaethant hyn ambell waith trwy draethu a dadleu ar y pynciau fel y maent ynddynt eu hunain, neu yn eu perthynas â'u gilydd, neu yn eu perthynas â Duw ac â sefyllfa ddyfodol, gan adael allan o'u hystyriaeth eu perthynas â dyledswyddau presennol a chyffredin bywyd. Hwy naethant hyn ar brydiau eraill trwy argymhell dyledswyddau moesol, megys sobrwydd, purdeb, geirwiredd, &c., mewn areithiau, pregethau, a llyfrau, gan ddefnyddio cymhelliadau i'w cyflawni oddiar y daioni a ddeilliai trwy hyny i'r dyn ei hunan, i'w deulu, i'w wlad, i gymdeithas, ac i'r byd—cymhelliadau oddiar bron bobpeth ond gwirionedd yr efengyl, ie hwyrach heb yngan gair am yr Arglwydd Iesu fel cymhelliad mwy na phe buasai heb fod o gwbl. Os medr Cristionogion draethu ar y pynciau heb ddywedyd gair am y dyledswyddau ymar-

ferol, ac os gallant draethu ar y dyledswyddau gan adael allan bob cyfeiriad at bynciau yr Efengyl, nid rhyfedd fod anffyddwyr yn tynnu y casgliad nad oes unrhyw berthynas angenrheidiol rhyngddynt â'u gilydd. Y mae ffaith bwysig arall, ysywaeth, yn cadarnhâu y cyfryw gasgliad. Y mae Cristionogaeth lygredig wedi bod ac yn bod, ac fel "mai llygriad y peth goreu ydyw y peth gwaethaf," felly y peth mwyaf gwrthun ac adgas ar wyneb daear ydyw gwyrddroad, pa un ai mewn cred ai mewn ymddygiad, o bynciau Cristionogaeth i gyfiawnhâu neu i esgusodi dynion am eu pechodau. Ond dylid cofio fod y sicrwydd o'r fath lygriad wedi ei gyhoeddi o fewn y Bibl yn barod, ac wedi ei gondemnio ynddo yn fwy cryf a diamwys nag y condemnwyd ef erioed gan ysgrifenyddwyr o'r tu allan iddo. Yn ol Judas, "y mae y dynion sydd yn troi gras Duw i drythyllwch," yn rhai a ragordeiniwyd i farnedigaeth Duw; ac os tybiodd yr apostol Paul ei fod yn clywed rhywun yn gofyn, "A drigwn ni yn wastad mewn pechod fel yr amlhào gras?" fe waeddodd, "Na ato Duw!"—atebiad sydd yn adseinio trwy yr holl Ysgrhythyrau. Yr unig Gristionogaeth sydd yn wrthwynebol i foesoldeb ydyw ffug-Gristionogaeth, yr hon a gamenwir yn Gristionogaeth, a'r hon sydd o dan gondemniad diarbed yr Arglwydd Iesu a'i apostolion. Yr ydym ni yn dal, nid fel y dywed rhai, fod y Cristionogion goreu yn rhagori ar y pynciau y maent yn gredu, ond fod y pynciau yn rhagori yn anfeidrol o ran drychfeddwl eu moesoldeb ar y goreuon o'r rhai sydd yn eu derbyn yn y fuchedd hon, ac nad ydyw anfoesoldeb profesywyr crefydd yn ddim gwell nag enllib anwireddus ar y Gristionogaeth y maent yn ei phroffesu.

Onid fe ddywedir ymhellach gan rai fod pynciau yr Efengyl ynddynt eu hunain yn wrthwynebol i foesoldeb, yn wrthwynebol i olygiadau cywir ar foesoldeb, ac i deimladau ac ymddygiadau moesol. Yn awr ceisiwn ddangos, nid yn unig nad ydyw athrawiaethau yr Efengyl yn groes i foesoldeb, ac nid yn unig fod ei hamcan a'i thuedd yn gyfeiriol i wella moesau dynion, ond fod egwyddorion moesol yn hanfod yr athrawiaethau ac yn elfen fywydol yn yr holl bynciau. Os profir hyn, fe brofir ar yr un pryd fod pob sancteiddrwydd, pob ysbrydolrwydd, ie, pob profiad oddifewn a fyddo yn cyfateb i'r athrawiaethau oddiallan, yn rhwym o fod yn fyw gan egwyddorion moesol. Gan hyny, os *hanfodol*, nid yw yn iawn nac yn bosibl ar dir teg i wneuthur tybiaeth o athrawiaeth yr efengyl fel pwnc oddiallan i ddyn, neu o brofiad o honi fel argraff o fewn i ddyn, heb fod hyny o angenrheidrwydd yn cynnwys y syniad o egwyddorion moesol.

Mae yn amlwg mai bywyd holl bynciau yr Efengyl yw y gwirionedd am y Bôd o Dduw. Y mae yr holl bwnc yn troi ar y darnodiad o Dduw sydd yn gyfreithlawn i ni ei wneuthur oddiar dystiolaethau y Bibl am dano. Yr ydym yn cael sylfaen ein darnodiad yn y ddau ymadrodd, "Goleuni yw Duw," a "Duw cariad yw." Ein darnodiad ydyw fod Duw yn Fôd personol ag y mae priodoleddau moesol yn hanfodol iddo, fel mai yr un peth fyddai iddo beidio a bod â bod hebddynt; fel mai yr un peth ydyw ei fod yn gwneuthur pobpeth er ei fwyn ei hun a'i fod yn gwneuthur pobpeth er mwyn gwirionedd, cyfiawnder, a chariad; ac fel mai yr un peth ydyw son am ddrwg pechod yn ei erbyn Ef a son am ddrwg pechod ynddo ei hun. Nid ydyw hyn yn

gwneuthur y Goruchaf yn bentwr o briodoleddau, ond cynnwysa fod ei Berson fel Duw yn hanfodol i gyfiawnder; a bod cyfiawnder o'r ochr arall yn hanfodol iddo Ef fel Bôd personol. Y mae yn tybied fod y naill yn hanfodol fel y llall, yn gymaint felly fel y byddai tybiaeth o ddifodiad un yn gyfystyr a thybied difodiad y llall hefyd. Gan hynny, Efe yw ffynnonell wreiddiol pob daioni moesol a geir yn mhawb arall. Yn hynny y gwelir y gwahaniaeth mawr sydd rhwng Cristionogaeth a *Buddhism*, y grefydd Hindwaidd a sefydlwyd bum' cant o flynyddoedd cyn dyfodiad Crist, a'r hon a broffesir yn awr gan *bum' can' miliwn* o eneidiau; y grefydd uchaf, mae'n ddiammeu, a gyrrhaeddodd dyn eriod ar wahan i ddadguddiad. Nodwedd fawr y grefydd hon ydyw *moesoldeb*,— moesoldeb mewn meddwl, teimlad, gair, a gweithred. Ei duw ydyw dyn wedi ei berffeithio; ei haddoliad, parch i ddynion da; ei gweddi, ymgyriiad ger bron eu gweddillion; ei chân, gogoneddu eu rhinweddau a'u rhagoriaethau; ei dyledswyddau defodol, gonestrwydd a chariad ymarferol; a'i gobaith, perffeithiad moesol y *Buddhist*. Ond er mor ddyrchafedig hon, rhaid cydnabod rhagoriaeth anfeidrol y grefydd Gristionogol ag y mae ei Duw yn Fôd tragywyddol â moesoldeb yn ei hanfodol, ar grefydd, duw yr hon ydyw dyn, yn yr hwn nas gall moesoldeb fod yn uwch nag yn ei natur, a'r hwn y gellid ei dybio yn amddifad o hono. Y mae *Buddhism* yn gwneuthur dyn yn rhan o'r hanfodol ddwyfol, ond nid yw yn gwneuthur egwyddorion moesol yn hanfodol i'r hanfod hono, yn gymaint ag nad ydynt yn hanfodol i ddyn ei hun!

I ddychwelyd at ein darnodiad o Dduw, gwelir ein bod yn edrych ar Gristionogaeth yn ol y *deductive* ac nid yn ol yr *inductive method*. Nid gorphen yr ydym gyda'r darnodiad fel casgliad wedi ei dynu oddiwrth weithredoedd y Goruchaf, ond dechreu gydag ef fel y gwirionedd ag y dylid tynu casgliadau ymarferol oddiwrtho. Nid gwybodaeth *inductive*, fel daeareg, yw Cristionogaeth, fel y gallwn esgyn i fyny ati oddiar feithiau trwy waith ein rheswm; ond *deductive*, yn yr hon yr ydym yn cychwyn gyda gosodiad a gynnygir i ni fel gwirionedd, oddiar ba un yr ydym i ddisgyn at natur ac at ddynion. Fe ddywed Cristionogion mai trwy ddadguddiad goruwchnaturiol y rhoddwyd y gwirionedd hwn i ddyn, ond dibwys i ni yn bresennol ydyw y modd y daeth; y peth pwysig ydyw pa beth sydd yn gynnwysedig ynddo. Hwyrach mai un rheswm paham y mae gwyddonwyr galluog heb ddeall Cristionogaeth o gwbl ydyw eu bod fel gwyddonwyr wedi ymarfer â thynu casgliadau cyffredinol oddiwrth feithiau neillduol canfyddadwy i synwrau y corff, a bod y cyfryw ymarferiad yn rhwystr iddynt i osod eu hunain ar safle Cristionogaeth, yr hon sydd yn cyhoeddi gwirionedd mawr cyffredinol priodol i'w gymhwyso at amgylchiadau a phynciau neillduol. Tra mai esgyn i fyny ydyw y dull priodol gyda'r gwybodaethau eraill, y mae Cristionogaeth, fel y gwelir, yn galw ar ei hefyrdwyr i ddisgyn i lawr; ac yn ol honiad Cristionogaeth, Ysbryd yr Arglwydd Iesu yn unig a all eu gosod ar y safle o ba un y maent i ddisgyn.

Yn awr awn ymlaen i osod y darnodiad a roddasom o Dduw, yr hwn yw sail ein duwinyddiaeth yn gystal a'n Cristionogaeth, yn wrthgyferbyniol i syniadau rhai o brif wyddonwyr yr oes. Gellir dosbarthu eu syniadau ynglŷn â hyn o dan ddau ben. Dalient yn (1). Mai *Hollallu-*

*ogroydd* yw Duw o ran ei hanfod. (2). Mai *teimlad* ydyw hanfod crefydd. Edrychwn ar y syniad cyntaf, a'r modd y mae gwyddonwyr yn ei gyrhaedd. Wrth olrhain natur yn ei defnyddiau a'i chyfnawid- iadau ar dir rheswm, yr hyn a gyrhaeddir gan Mr. Herbert Spencer yw "*inscrutable cause*"—achos (yr hyn sydd yn cynnwys *gallu*) nas gellir ei olrhain na'i ddeall. Fe allai nas gellir gosod eu golygiadau allan yn well nag yn ngeiriau Sophar y Naamathiad (Job xi. 7): "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? a elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd?" Diammeu fod gwyddonwyr yn hollol yn eu lle pan y dywedant mai yr oll y maent yn ei gyrhaedd wrth olrhain i drefn Natur ydyw achos neu allu anamgyffredadwy. Ond wedi cyrhaedd hwnw nid ydynt yn cael gafael ar Dduw Cristionogaeth o gwbl; "cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef," a hyd y cymylau a'r thywyllwch yn unig y mae gwyddoniaeth yn gallu ein harwain! Yn awr, craffer ar yr hyn sydd gan y Bibl, trwy Paul, y profwr a'r eglurwr mawr, i'w ddyweyd ar y mater. Y mae dau ystyr i'r gair Duwdod fel ei defnyddir ganddo ef. Yn Rhufeiniaid i. 20 ceir "Ei dragywyddol allu Ef a'i *Dduwdod*," yn Colossiaid ii. 9 ceir "Ynddo Ef y mae holl gyflawnder y *Duwdod* yn preswyllo yn gorfforol." Nid yr ym gair a ddefnyddir am y ddau yn y Groeg; ac er nad oes ond y llythyren *iod* yn eu gwahaniaethu, y mae'r gwahaniaeth a wna'r *iod* fechan yn un dirfawr. Yn y Rhufeiniaid, yr hyn a feddylir wrth Dduwdod yw yr hyn sydd ddwyfol; yn Colossiaid, Duwdod ydyw yr hyn yw Duw. Yr oll a amlygir yn natur, ar ol i'r dynion cywreiniaf a dysgedicaf chwilio i mewn i'w dirgelion, ydyw yr hyn sydd ddwyfol—trefn, gallu, amcan, cyfaddasrwydd a doethineb, &c. Rhaid cael person i amlygu yr hyn ydyw Duw; mwy—rhaid cael person sydd yn meddu priodoleddau moesol ynddo ei hun fel y maent yn Nuw. Gan hyny y mae yn anmhosiibl i ddyn llygredig, pa mor fawr bynag, esgyn oddiar brofion o ddyfais, gallu, a chyfaddasrwydd natur at Dduw. Ond bwriwn yn awr ei fod yn ddyn sanctaidd: fe allai hwnw olrhain sancteiddrwydd ei galon ei hun yn ol i ryw Fôd mawr sanctaidd a gyfranodd y sancteiddrwydd hwnw iddo; ond ni fyddai ei weledigaeth yn uwch na Bôd Sanctaidd o ran ei natur. Y mae bod yn sanctaidd o ran hanfod gymaint yn uwch na bod yn sanctaidd o ran natur, fel yn ychwanegol at ddelw Duw o'i fewn ei hun y byddai raid hyd yn nod i ddyn sanctaidd gael dadguddiad o rywle o'r tu allan iddo er dyfod o hyd i'r syniad am dano. Y mae y cam o natur i hanfod yn rhy fawr i greadur ei gymeryd; rhaid i Dduw roddi yr amlygiad angenrheidiol o hono ei hun iddo.

-Casgla gwyddonwyr, fel y sylwyd, mai Hollalluogrwydd yw nodwedd mawr Duw yr Ysgrhythrau. Fel hyn y darlunir Ef gan Profieswr Tyndall: "Duw yw y ffurf o eiddo y meddwl i'r gallu sydd yn symud pob peth" (*God is the ideal form to the Power that moves all things*). Y mae gwyddonwyr yn tasfu gorchudd ar wir ogoniant Duw trwy osod y fath arbenigrwydd ar ei allu, tra y mae Cristionogion wedi eu dilyn trwy foddioni ar y darluniad o hono fel Bôd Hollalluog, creawdydd pob peth. Yn mhentyndra dadguddiad, dangoswyd Duw fel yr Hollalluog, gydag amlygiad gwan o'i gyflawnder a'i ddaioni; yn ieuencyd dadguddiad, dangoswyd y Jehofah, Bôd anghyfnewidiol, tragywyddol, a holl-



bresennol; yn nghyflawnder addfedrwydd dadguddiad, dangoswyd fod y cyfiawnder a'r daioni a gydnabyddid yn ei Natur yn rhan o'i Hanfod. Pan y mae Cristionogion yn gosod gormod pwys ar ei allu, y maent yn cymeryd eu harwain gan wyddonwyr yn ol at blentyndra dadguddiad, yn lle eu bod hwy, fel y dylent, yn arwain gwyddonwyr at yr egwyddorion moesol yn yr Hanfod Ddwylol a amlygwyd yn addfedrwydd dadguddiad. Ceir fod dosbarth lliosog o'r ymosodiadau ar Gristionogaeth a'i phynciau yn seiliedig ar y dybiaeth mai Hollalluogrwydd diderfyn yw hanfod y Duwdod. Yr ydym ni yn cyfarfod â'r cyfryw haeriad trwy ddadgan mai priodoleddau moesol sydd yn hanfodol iddo, a bod hyd yn nod ei allu yn ddarostyngedig iddynt, ac yn cael ei derfynu ganddynt. Ceir y diweddar Stuart Mill yn un o'i weithiau yn dyweyd pe buasai Duw yn galw arno i gredu yr hyn nid oedd wir ar unrhyw bwn, ac yn ei dafu i uffern am beidio credu y celwydd hwnw, mai i uffern yr elai. Yn y dybiaeth hon amlygodd Mill anwybodaeth hollol o'r hyn ydyw Duw, yn gystal ag o'r hyn ydyw uffern, yn ol Cristionogaeth. Tybied yr ydoedd fod Duw y Cristion yn Hollalluog, ond ei fod yn ansanctaid, yn gynaint ag y gallai feddwl am dano yn galw arno i gredu celwydd. Nid Duw y Cristion ydyw hwn, ond Duw a grëwyd gan ddychymyg Mill; a rhyngddo ef a gwaith creadigol ei ymenydd ei hun! Gellir tybio am un anfeidrol mewn gallu yn ddiffygiol mewn uniondeb, ond nid teg tybied mai Duw y Bibl ydyw hwnw. Y mae y Duw hwn yn un ag y mae cyfiawnder a phurdeb yn hanfodol iddo, fel y mae y cyfryw dybiaeth mor anhosibl ei gwneuthur ag a fyddai tybied fod Duw yn bod ac heb fod ar yr un pryd. Yn rhwysg ei ddychymyg creodd Stuart Mill nid *Duw* ond *diafol* y Bibl, gelyn Duw; ac yna aeth ymlaen i dybio mai y diafol yr ymladda Cristionogion yn ei erbyn ydyw y Duw y maent yn ei addoli! Yr ydym ar unwaith yn ymwrthod yn hollol â'r diafol, er iddo ymrithio yn angel y goleuni, i.e., er iddo ymrithio ger bron meddwl Mill fel Duw ei hun.

Yn gyffelyb y mae Stuart Mill yn euog o wneuthur camgymeriad wrth son am uffern. Cyfeiria at uffern fel poen a gynnyrchir gan allu; sonia am Dduw yn gwneuthur uffern fel y sonia am allu yn gwneuthur bydoedd. Yr unig uffern a gydnabyddir gan Gristionogaeth ydyw hono a gynnyrchir gan ddigofaint Bôd ag y mae sancteiddrwydd yn hanfodol iddo, yn erbyn drygioni a phechod o bob math, ac am hyny digofaint sydd heb feddu ar y cymysgedd lleiaf o ysbyrd dialgar, o greulondeb personol, neu o annhegwch o'i fewn. Cynnwysa hyn mai nid difaterwch i'r twyll a'r celwydd, a'r creulondeb a'r anmhurdeb sydd ymhlith dynion yw cariad Duw tuag atynt: digofaint sancteiddrwydd hanfodol sydd ynddo tuag at bob drygioni. Pan y sonia Mill am ei baroddrwydd i ddyoddef uffern, ei feddwl ydoedd, dyoddef poen gan ddiabol o dan yr enw Duw. Ni fuasai neb yn fwy anmharod nag ef i ddyoddef uffern o ddigofaint cyfiawn a sanctaid pob creadur pur, a holl ddigofaint cyfiawn ffynnonell wreiddiol pob daioni, am ei fod yn euog o'r hyn a haeddai y cyfryw ddigofaint. Dychymyg Mill a greodd yr uffern y sonia ef am dani; ac nid oedd ganddo yr hawl leiaf i dadogi ffurwyth ei ddychymyg ef ei hun ar y Goruchaf.

Y mae y darnodiad a roddasom o Dduw yn wrthwynebol yn (2) i'r golygiad mai hanfod y grefydd Gristionogol ydyw teimlad. Barnai

James Mill fod Cristionogaeth yn meithrin anfoesoldeb, am ei bod yn gosod teimladau defosiynol yn lle rhinweddau moesol, ac am fod rheswm Cristionogion yn cael ei ddarostwng i'w dymuniadau, eu serchiadau a'u hofnau. Dywed ei fab, John Stuart Mill, drachefn mai hanfod crefydd ydyw cyfeiriad cryf y serchiadau at wrthddrych anweledig, at ewyllys yr hwn y maent i gyd yn cyfeirio fel arweiniwr a chynghorwr bywyd; ac edrycha ar grefydd fel mynegiad o ddyheadau calon o'r un natur ag sydd mewn ysbryd barddonol—dyheadau am bethau rhagorach nag a geir mewn bywyd cyffredin. Yn gyffelyb y mae Profleswr Tyndall yn cydnabod fod teimladau crefyddol yn bod; a bod crefydd yn gynnwysedig yn yr ymgais o ffurfio â'r meddwl wrthddrychau allanol gyfatebol iddynt, neu yr hyn a eilw ef "the objective rendering of the emotions," yr hyn, meddai, sydd yn gwneuthur pob pwnc o athrawiaeth o fewn Cristionogaeth i ddibynu ar deimlad. Ond, nid hon ydyw ein Cristionogaeth ni. Yn ein crefydd ni, y gynnoddff sylfaenol yw, nid *teimlad*, ond *cydwylbod*, neu y gallu sydd gan ddyn i wahaniaethu rhwng da a drwg; yn ei alluogi i deimlo dyledswydd, rhwymedigaeth, cyfrifoldeb, ac euogrydd, i gondemnio pob drwg moesol, ac i gymeradwyo y da; trwy yr hon y mae dyn yn adnabod Duw fel un cyfiawn, pur, a sanctaidd. Yr hyn a ddymchwelai Gristionogaeth fyddai prawf nad oes dim gwahaniaeth rhwng da a drwg, a'r hyn a ddilëai wir grefydd Cristion a fyddai dilëad o'r gydwylbod sydd yn allu o'i fewn i weled ac i deimlo y gwahaniaeth cydrhyngddynt. Yn y fan yma yr ydym yn cyffwrdd â'r gwahaniaeth sydd rhwng moesoldeb ac ysbrydolrwydd. Nid oes a wnelo moesoldeb, yn ystyr gyffredin y gair, ond âg ymddygiad allanol yn unig; ond y mae a wnelo ysbrydolrwydd â meddwl ac â theimlad, a hyny nid yn unig tuag at egwyddor foesol, ond tuag at Dduw fel Bôd ag y mae egwyddor foesol yn hanfodol iddo. Gan hyny y mae egwyddorion moesol yn hanfod ysbrydolrwydd fel y maent yn hanfod Duw. Ofn ysbrydol ydyw gwylder yn mhresenoldeb purdeb a sancteiddrwydd tragywyddol; addoliad ysbrydol ydyw parch calon i Dduw fel ffynnonell pob daioni moesol yn y nef ac ar y llawr; cariad ysbrydol ydyw cariad at Dduw o herwydd ei hawddgarwch moesol; ac ymddiried ysbrydol ydyw ymddiried ynddo ar gyfrif geirwiredd unplyg ei gymeriad. Ofn pechu ydyw ofn mwyafr yr ysbryd Cristionogol; dymuno purdeb yw ei ddymuniad uchaf, a chariad at ddaioni ei gariad uchaf. Cydwylbod ydyw y gynnoddff fawr mewn dyn sydd yn sail i bob cynneddf arall, i'w reswm, i'w ddeall, i'w serch, ac i'w ewyllys, pan y byddo yn gweithredu yn ol egwyddorion Cristionogaeth. Y gwahaniaeth sydd rhwng ysbryd Cristionogol ac ysbryd barddonol ydyw yr un â'r hwn sydd rhwng cydwylbod a chrebwyll; pan y cyfarfyddo y ddau ysbryd yn yr un Cristion, y mae y dychymyg yn ddarostyngedig i gydwylbod.

Y mae y gwirionedd am Dduw, fel y ceisiwyd ei ddangos genym, yn treiddio trwy holl bynciau yr Efengyl, ymha rai y mae Ef yn Hollbresennol. Gan hyny y mae egwyddorion moesol yn hanfodol i bynciau yr Efengyl fel y maent yn hanfodol i Dduw, ac yn hanfodol iddynt hwy am eu bod yn hanfodol iddo Ef. Os ydyw cariad yn hanfodol i Dduw, rhaid fod personoliaeth ynddo, ymha un y mae Tad yn caru Mab, a Mab yn caru Tad. Er fod cariad yn ansawdd ysbryd pob dyn da, am Un sydd yn Dri yn unig y mae yn briodol dyweyd mai cariad yw o ran ei

hanfod, ynddo ei hun. Tra nas gallwn esgyn i fyny at athrawiaeth y Drindod oddiar ddim sydd ar y llawr, gellir disgyn ati yn hawdd oddiar hanfod y Duwdod. Yn yr Ymgnawdoliad ni a gawn Berson yr hwn y mae priodoleddau moesol yn hanfodol iddo, mewn undeb â'r natur ddynol yn yr hon y parhâ byth. Ysbryd a meddwl athrawiaeth yr Iawn ydyw fod gwahaniaeth angenrheidiol a thragywyddol rhwng drwg a da, a bod yn anmhosibl i Fôd ag y mae sancteiddrwydd yn hanfodol iddo faddeu ond ar lwybr cyfiawnder, y cyfiawnder sydd yn condemnio pechod ac yn gwobrwyo daioni. Cynnwysa yr athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy ffydd, drachefn, fod safon moesoldeb mor uchel fel nas gall dyn ennill maddeuant trwy unrhyw ufudd-dod o'i eiddo ei hun, ond y medr gyrhaedd hyny trwy ymddiried mewn Person Dwyfol a ufuddhâodd unwaith. Fe'n beir ambell waith o herwydd yr athrawiaeth hon (gan Greg, er engraffit), trwy ein cyhuddo o ddal nad ydyw iachawdwriaeth yn dibynu ar ymddygiad, ond yn hytrach ar ymddiried. Nid ydyw ein cyhuddwyr yn deall ein bod ni, tra heb ddal fod iachawdwriaeth yn dibynu ar ymddygiad, yn dal fod iachawdwriaeth oddiwrth bechod yn gynnwysedig mewn ymddygiad yn tarddu oddiar gyflwr da ac anian bur, yn treiddio trwy holl feddyliau a theimladau calon. Ailenedigaeth y Bibl yw planiad egwyddorion moesol Hanfod Duw yn nghalon dyn. Nid yw hyd yn nod y nefoedd newydd yr ym ni yn ei dysgwyl yn nefoedd o foethau, ond gwlad well yn yr hon y mae cyfiawnder yn wastad yn cartrefu. Fel hyn y mae holl bynciau yr Efengyl yn tybied y safon uchaf o foesoldeb sydd bosibl; yn gosod rhwymau moesol ar ddyn oddiwrth ba rai ni fedr byth ymryddhâu; ac yn dangos eangder diderfyn egwyddorion moesol yn y Goruchaf a thrwy ei holl lywodraeth. Y mae yn bosibl, ie yn hawdd gwahaniaethu rhwng crefyddau Paganiaid a moesoldeb, am mai eilunod llygredig yw eu duwiau. Yr un modd gellir gwahaniaethu rhwng gau grefydd neu ffug Gristionogaeth a moesoldeb, ond nid yw yn bosibl gwahanu moesoldeb a gwir grefydd, o herwydd yr unig addoliad dichonadwy i Fôd ag y mae sancteiddrwydd yn hanfodol iddo yw addoliad pur a sanctaidd. Clywir rhai pobl weithiau yn dyweyd, "Pregether i ni ddyledswyddau moesol; nid oes arnom eisieu clywed am y pynciau athrawiaethol o gwbl." Y mae yn hawdd son am ymddygiad moesol heb yngan gair am yr un o bynciau yr Efengyl; hyny yw, gellid argymhell moesoldeb ar gyfrif daioni personol a chymdeithasol, a rhoddi pwys ar ddyledswyddau moesol fel pethau i'w cyflawni yn amgylchiadau cyfnewidiol bywyd. Pe gwadem holl bynciau yr Efengyl, arosai moesoldeb fel un o bethau amser perthynol i'r byd hwn, ac yn ol barn Mill, fel peth ag y mae yn bosibl nad yw yn bod yn yr un byd arall; oblegid tybiodd ef y gallai fod bydoedd yn y rhai y mae y rhinweddau a gymeradwyir yma yn llygredigaethau a gondemnir. Pe gwadem y pynciau arosai moesoldeb; ond, ysywaeth, moesoldeb a fyddai, a'i ogoniant wedi machludo dan gymylau am byth; moesoldeb wedi ei yspeilio o'i goron; moesoldeb wedi colli ei ddysgleirdeb goruwchnaturiol; moesoldeb wedi ei wneuthur yn gyfathrach â greddf yr anifail direswm!

Ond trwy y Drindod, yr Ymgnawdoliad a'r Iawn, y mae Hanfod y Goruchaf yn coronni egwyddorion moesol â gogoniant ac anrhydedd, ac yn dyrchafu y cyflawniad priodol o'r dyledswyddau lleiaf i'r urddas

uchaf. Os o fewn terfynau amser y cyflawnir hwynt, nid i amser y perthyn eu hegwyddor, ond i dragywyddoldeb; ac os dynion sydd yn eu cyflawni, nid yn nghalon dyn y mae eu cartrefle cynhenid, ond yn nghalon y Duwdod ei hun. Nid moesoldeb ond sancteiddrwydd yw y gair a ddefnyddir yn y Bibl; a dyna yw sancteiddrwydd, moesoldeb wedi ei ogoneddu gan fawredd Anfeidrol a thragywyddol y Goruchaf, yn treiddio yn ysbryd byw trwy holl feddyliau, teimladau, ac ymddygiadau dyn. Ni chafodd dyledswyddau moesol erioed le anrhydeddusach ar y ddaear na bod yn ysgrifenedig â bys Duw ar lechau ceryg, a'u diogelu o fewn arch o goed Sittim dan gauad o aur pur, yn cael ei gysgodi gan esgyll cerubiaid o dan yr arwydd o'r presennoldeb dwyfol. Llauer mwy ni chafodd egwyddorion moesol le anrhydeddusach yn y nef neu ar y llawr, na'r lle a roddwyd iddynt yn mhynciau y grefydd Gristionogol, yn y Bôd o Dduw, yn y Personau Dwyfol, yn Dad, Mab, ac Ysbryd, &c., a'u gwneuthur yn foddion er troi y drychfeddwl tragywyddol am iachawdwriaeth yn ffaith fawr yn hanes torf ddirif o bechaduriaid.

## II.

## CRISTIONOGAETH FEL PWNC EFRYDIAETH; NEU BERTHYNAS CRISTIONOGAETH A RHESWM.

O dan y penawd hwn edrychir ar Gristionogaeth, nid fel pwnc i'w gredu yn gymaint ag fel pwnc i'w astudio neu ei efrynu. Credwn mai un rheswm mawr paham na chredir pynciau yr Efengyl gan lawer, ydyw, nad ydynt erioed wedi ymgymeryd â'r llafur angenrheidiol i'w hastudio fel y maent wedi ac yn astudio pynciau eraill. Ni fynant eu derbyn megys trwy draddodiad oddiwrth eraill, yn yr hyn yn ddiau y maent yn eu lle; ac ni fynant ychwaith eu hefrydu i fanylrwydd yn eu hegwyddorion er mwyn bod ar dir i farnu drostynt eu hunain; ond yn rhy fynych cymerant yn ganiatâol eu bod yn eu deall heb eu hastudio.

Fe goleddir rhai syniadau y dyddiau hyn sydd yn wrthwynebol i'r astudiaeth angenrheidiol o bynciau yr Efengyl ag y byddai yn ddymunol, fe allai, sylwi arnynt yn y fan hon. Un ydyw y pwys sydd yn cael ei roddi ar gymhwysder Cristionogaeth i'r dosbarth isaf o ddynion, fel moddion i'w dyrchafu o ddyfnderoedd anfoesoldeb, a'u coethi a'u gwneuthur yn aelodau gweddus mewn cymdeithas. Y casgliad a dynir ydyw, fod Cristionogaeth yn gymhwys i ddynion pan mewn sefyllfa o blentynra o ran galluoedd a gwybodaeth, neu pan mewn sefyllfa o farbareidd-dra o ran eu moesau. O dan yr amgylchiadau hyn, addefir cymhwysder Cristionogaeth i'w dyrchafu nid yn unig o'r tir isel y maent ynddo, ond hefyd i dir sydd uwchlaw iddi hi ei hunan! Hyn ydyw, ar ol i Gristionogaeth wneuthur ei heithaf yn y ffordd o ddyrchafu y cyfryw gymeriadau, tybir ei bod yn eu cyflwyno i ofal athraw uwch a mwy cymhwys i gario y gwaith ymlaen, sef Gwyddoniaeth! Y mae crefyddau yn bod y rhai y gellir yn briodol eu hystyried fel arweiniad i rywbeth uwch. Gellir cydnabod fod Mahometaniaeth, gydag un erthygl fawr ei chredo, "Un Duw sydd," yn rhagori ar y crefyddau Paganaidd a ddisodlwyd ganddi, yn y rhai yr oedd ama-

dduwiaeth yn ffynu; ac mor bell a hyny ei bod yn arwain trigolion y gwledydd a'i derbyniodd i dir uwch nag yr oeddent arno o'r blaen. Felly hefyd gyda golwg ar *Buddhism*, gellir dyweyd fod y grefydd sydd yn dwyfoli dyn perffaith mewn rhinweddau moesol, yn tra rhagori ar y crefyddau ymha rai y mae gweithredoedd o aflendid a chreulondeb yn rhanau o'u defosiwn ac o gymaint a hyny, er heb fod y grefydd uchaf ei hun, ei bod yn tueddu i arwain i fyny tua'r uchaf. Mewn ystyr annhraethol uwch na Mahometaniaeth neu *Buddhism*, gellir dyweyd fod Iuddewiaeth yn grefydd arweiniol i un uwch na hi ei hun, o herwydd hi ydoedd y plisgyn o fewn pa un yr oedd hadau Cristionogaeth yn gorwedd, ac allan o ba un y darfu iddynt eginu pan y daeth cyflawnder yr amser. Ond am Gristionogaeth ei hun ein honiad yw, mai *nid* crefydd arweiniol i un uwch ydyw, ond crefydd derfynol, o leiaf can belled ag y mae a fyno â'r byd hwn. Os ydyw yn gymhwys i ddyw yn y sefyllfa isaf y dichon fod ynddo, yr ydym ni yn dal hefyd ei bod yn gymhwys i ddyw yn y sefyllfa uchaf o ddiwylliant meddwl a moesoldeb y gall ei gyrhaedd. Gallwn edrych yn ol trwy oleuni hanesiaeth, ar oesau a chenedlaethau o ddynion lawer islaw i ni o ran gwybodaeth a diwylliant, a gweled cymhwysder Cristionogaeth i'w dyrchafu; gallwn hefyd edrych ymlaen a chredu y daw oesau ar ein hyl yn tra rhagori arnom ni mewn llawer o bethau, gan gredu fod Cristionogaeth yn meddu cymhwysder ar eu cyfer hwythau. Gan hyny nid hen bobl anwybodus, ac nid plant bychain yn unig, ond y dynion uchaf mewn gwreiddolder, annibyniaeth, a diwylliant, sydd wedi talu gwarogaeth â'u meddwl, â'u teimlad, ac â'u hymddygiad iddi. Os gwir ei honiadau, y mae fel Duw yn hollbresennol yn ei chymhwysder i ddyw, o iselder ei dloddi a'i blentyn-dra, i uchder ei athrylith a'i ddiwylliant.

Y mae gan Mr. Mathew Arnold syniadau yn y cyfeiriad a nodwyd ag yr ymdrechwn yma ddangos eu geudeb. Dywed Mr. Arnold mai diwylliant ydyw addfedrwydd holl alluoedd yr enaid, trwy *wybodaeth* o'r pethau goreu a feddylwyd ac a lefarwyd yn y byd, a thrwy egnion i wneuthur daioni. Dywed yn ychwanegol mai gwaith Cristionogaeth—neu yr hyn a eilw ef yn *Hebraism*, gan ystyried Cristionogaeth yn dyfiant o'r grefydd Iuddewig—ydyw magu a meithrin cydwybod; ond mai llenyddiaeth Groeg, neu *Hellenism*, ydyw y moddion cymhwys i gryfhâu y rheswm a meithrin meddylgarwch. Cydnabyddwn ar unwaith y gwirioneddau sydd yn y golygiad hwn. Addfedrwydd holl alluoedd yr enaid, trwy bob moddion cyrhaeddadwy, ydyw diwylliant yn ystyr uchaf y gair. Gwaith mawr a phenaf Cristionogaeth ar ddyw ydyw ei sancteiddio, ei buro, ei goethi, a'i ddyrchafu mewn ystyr foesol. Ei hamcan uniongyrchol a chyntaf ydyw puro a goleuo y gydwybod, ac yn briodol felly, gan mai y gydwybod o herwydd ei gwaith yn rheoli, yn cymeradwyo neu yn condemnio gweithrediadau y cynneddfau eraill, ydyw prif gynneddf yr enaid. Ac ymhellach, y mae llenyddiaeth Groeg yn meddu cymhwysder neillduol i gynnyrchu meddylgarwch dyrchafedig yn mhawb sydd yn ei hefrydu i bwrpas. Cydnabyddwn gyda'r parod-rwydd mwyaf fod Athroniaeth Roegaidd a Gwyddoniaeth yr oes bresennol yn hynod o gymhwys i amaethu a diwyllio meddyliau dynion. Nid ein gwaith ni fydd diraddio unrhyw gangen o wybodaeth gyffredinol; nid yw ein Cristionogaeth yn gofyn nac yn caniatáu i ni wneuthur hyny.

Yr unig wybodaeth a gondemnir ganddi ydyw yr un a *gamenwir* felly, y peth sydd yn galw ei hun yn wybodaeth, ond nad yw felly mewn gwirionedd.

Ond y mae y syniad dan sylw yn cynnwys awgrymiad fod yn rhaid troi oddiwrrth Gristionogaeth at lenyddiaeth Roegaidd er cael meithriniaid i'r rheswm. Nis gellir derbyn y fath awgrymiad o gwbl. Gorchymyn awdurdodol Cristionogaeth ydyw, "Pa bethau bynag sydd wir—meddyliwch am y pethau hyn." Os bydd Mr. Darwin yn gwneuthur darganfyddiadau newyddion am arferion anifeiliaid, meddai Paul, yn ysbrydoledig gan Dduw, "Pa bethau bynag sydd wir, credwch hwynt!" Os cyfyd rhyw athronydd i wneuthur elfeniad newydd o gynneddfau yr enaid, meddai Cristionogaeth y Bibl, "Pa bethau bynag sydd wir, meddyliwch am danynt." Duw y gwirionedd yw ein Duw ni, y gwirionedd ei hun ydyw Mab, Ysbryd y Gwirionedd ydyw ei Ysbryd. Y mae yr ysbryd Cristionogol o fewn dyn yn ymgais cydwybod i wybod pa bethau sydd wir i'w credu, yn talu gwarogaeth calon iddynt ar ol eu cael, ac yn barod i ddyoddef merthyrdod yn hytrach na'u haberthu. Nid oes dim yn iselu tôn foesol yr enaid yn fwy na darostyngiad o wirionedd er mwyn cyrhaedd unrhyw amcan hunanol.

Ond heblaw gogoneddu gwirionedd lle bynag y ceir ef, y mae gan Cristionogaeth ei gwirioneddau ei hun, y rhai nid ydynt yn meddiant yr un wybodaeth arall. Er hyny nid yw astudio y gwirioneddau hyn yn gwneuthur astudiaeth o wirioneddau gwybodaethau eraill yn ddi-angenrhaid. Y mae Cristionogaeth yn tebygu i'r Iesu yn y peth hwn fel ymhob peth arall. Mewn un ystyr Efe ydoedd *unig*anedig y Tad; mewn ystyr arall yr oedd yn *gyntaf*anedig ymhlith brodyr lawer. Yr ydym ni yn dal fod Cristionogaeth mewn un ystyr yn *unig*anedig—yn unig ac ar ei phen ei hun, fel y mae yn cynnwys trefn i faddeu pechod, i lanhâu y galon, ac i buro y gydwybod: ond mewn ystyr arall—yn ei chymhwysder i amaethu a choethi y meddwl—gellir ei hystyried fel y *gyntaf*anedig ymhlith brodyr lawer o wybodaethau eraill, ymhlith y rhai y cyfrifwn lenyddiaeth Groeg a gwyddoniaeth yr oes hon; yn *gyntaf*anedig dywedwn, am fod ganddi wirioneddau sydd yn dal perthynas â dyn, yn bersonol, yn deuluol, ac yn gymdeithasol, nad ydynt yn meddiant yr un wybodaeth arall, o leiaf yn y ffurf arddunol ag y maent yn meddiant Cristionogaeth. Mewn geiriau eraill, tra y mae yn *unig* ac ar ei phen ei hun yn ei pherthynas â chydwybod, y mae hefyd y flaenaf a'r *gyntaf* yn ei pherthynas â rheswm.

Er dyfod i iawn adnabyddiaeth o'r berthynas dan sylw, y mae yn ofynol i ni ddeall yn gyntaf pa beth yw hanfod Cristionogaeth fel y cyfryw. Yr hyn sydd yn dyrysau anffyddwyr yn aml ydyw yr amrywiaeth barn sydd yn bod ymhlith Cristionogion. Nid drwg digymysg yw amrywiaeth barn er hyny, oblegid o leiaf profa fod Cristionogion i ryw fesur yn arfer meddwl drostynt eu hunain. Y mae y gwirionedd ei hun mor eang, ac iddo gynifer o ochrau, fel y mae amrywiaeth barn yn beth hollol naturiol ymhlith rhai sydd yn edrych arno o wahanol safleoedd; ac y mae cylch athrawiaethau Cristionogaeth mor fawr fel y gall yn rhwydd gynnwys o'i fewn liaws o olygiadau. Nid yw y gwahaniaeth rhwng golygiadau Cristionogion ond cyffelyb i'r gwahaniaeth a geir yn mhwyseleisiad ambell i adnod mewn ambell i ddosbarth, ac y

mae yn rhaid cofio yn wastad mai gwahaniaeth *pwyslais* ac nid gwahaniaeth *gwirionedd* ydyw. Gellir gwled amrywiaeth o'r un natur mewn perthynas â llawer o bethau heblaw Cristionogaeth. Er engrafft: er fod dynion yn gyffredin yn unffurf eu barn ynghylch geirwiredd, gonestrwydd, uniondeb, &c., fel egwyddorion cyffredinol, eto pan eir i'w cymhwyso gyda manylrwydd at amgylchiadau neillduol y mae amrywiaeth ar unwaith yn cael ei amlygu. Fe fyddai yn ffolineb o'r mwyaf i neb ddadleu oddiar yr amrywiaeth mewn manylion, nad oes egwyddorion moesol yn bod, ac nad yw geirwiredd, gonestrwydd, &c., ond pynciau yn dibynu ar opiniwn ffaeledig. Fel egwyddorion tra-gwyddol nid oes lle i wahaniaeth yn eu cylch; yn eu cyffyrddiad âg amser a'i amgylchiadau, y mae amrywiaeth yn sicr o gyfodi. Sonir yn aml am "the glorious uncertainty of the law." Ond perthyna yr "ansicrwydd gogoneddus" yn unig i'r modd y mae cymhwyso cyfraith Lloegr at amgylchiadau neillduol, ac nid i gadernid diammheuol ei hegwyddorion sylfaenol.

Teg gan hyny ydyw gofyn, Pa beth ydyw y Gristionogaeth hono sydd yn gyffredin i Gristionogion yn yr holl amrywiaeth sydd yn perthyn iddynt? Rhaid cydnabod fod amrywiaeth amlwg yn eu plith o barthed i ystyr geiriau. Nid yr un ystyr a roddir i'r gair "*ethol*" gan yr Armin a chan y Calfin. Nid yr un ystyr ychwaith a roddir gan y Pabydd a'r Protestant i'r gair "*cyfiawnhâd*." Ceir amrywiaeth drachefn yn y dull a gymerant i esbonio yr un adnodau, ac amrywiaeth hefyd yn y modd y maent yn cydio adnod ac adnod, ac yn cysylltu pynciau â'u gilydd. Dadleuant hefyd ar y materion, ac ymresymant ynghylch pa un sydd gyntaf o ran amser ac o ran trefn, a chwestiynau cyffelyb. Y mae yn beth pwysig a dymunol i bob dyn ffurfio y farn oreu y medr ynghylch pethau o'r fath. Ond o dan yr holl amrywiaeth, y mae cytundeb cyffredinol yn bod ymhlith Cristionogion ar ddau bwynt hanfodol. 1. Y mae pob pwnc sydd yn nghredo pob Cristion, mewn undeb â Pherson yr Arglwydd Iesu. 2. Y mae pob pwnc mewn undeb â dyledswyddau ymarferol bywyd. Os ydyw y Calfin a'r Armin yn methu cytuno ar ystyr y gair *ethol*, yn Nghrist y mae y ddau yn sefyll; ac os ydyw y Pabydd a'r Puritan yn gwahaniaethu ynghylch natur ffydd a'i pherthynas â chariad, y mae y naill a'r llall yn cysylltu ffydd a chariad â Pherson yr Arglwydd Iesu; a hefyd, er nad yn yr un modd, â dyledswyddau ymarferol bywyd. Ac y mae perthynas ffydd a chariad â'u gilydd yn beth llawer llai pwysig na pherthynas y ddau â'r Arglwydd Iesu, ac â moesoldeb ymarferol! Nid yn yr un cysylltiad y mae y tri gair *cyfiawnhâd*, *madden*, ac *aileni*, yn sefyll yn nghredo y Pabydd a'r Puritan; ond nid oes gwahaniaeth yn y modd y cysylltir hwy ganddynt â Pherson yr Arglwydd Iesu ac â dyledswyddau ymarferol. Nid ydyw yn briodol dyweyd fod hanfod Cristionogaeth yn gynnwysedig o egwyddorion noethion. Person Iesu Grist, sef y ffeithiau am dano yn ol yr esboniad a roddir arnynt gan yr Ysbryd Glân trwy ei Apostolion, ydyw ei hanfod, gan fod Cristionogaeth yn seiliedig ar y Bôd o Dduw; ac y mae cyflawni dyledswyddau bywyd mewn ysbryd priodol yn hanfod ei hamcanion.

I. Y mae Cristionogaeth yn destun priodol efrydiaeth am fod ei phynciau athrawiaethol yn cynnwys, neu yn hytrach yn amlygiad o

egwyddorion cyffredinol wedi eu rhoddi mewn ffurf neillduol. Y mae cyffredinolrwydd yr egwyddorion, a neillduolrwydd eu ffurf yn yr Efengyl, yn gwneuthur ei phynciau yn gymhwys i reswm weithredu arnynt. Fe ddywedir gan rai fod pynciau yr Efengyl yn rhy gul i feddyliau mawrion gymeryd eu cyfyngu ganddynt, a bod yn rhaid i ddynion o athrylith fyned tu allan iddynt, tu hwnt iddynt, uwchlaw iddynt, er mwyn cael digon o le i'w meddyliau ehedeg yn rhydd. Ambell i waith defnyddir hyn fel math o esgusawd dros fod dynion galluog yn Anffyddwyr; ond y cwbl a brofir gan y fath ddywediad ydyw anwybodaeth llwyr y rhai sydd yn meddwl ac yn llefaru fel hyn o bynciau yr Efengyl. Rhywbeth yn gyffelyb i hyn y teimla y rhai a fynent fod yn feirdd tra yn amddifaid o ysbryd barddonol. Teimlant fod gwirionedd yn cyfyngu arnynt, ac am hyny ceisiant ehedeg ymhell allan o olwg dynion a thu hwnt i awyrgylch gwirionedd. Yn hollol fel y gellid tybio am aderyn gwallgof, yn cwyno fod yr awyr yn cyfyngu arno, heb wybod mai yr awyr yw ei fywyd, mai yr awyr sydd yn cynnal ei adenydd i ehedeg o gwbl, a phe yr ehedai y tu hwnt iddo na wnai hyny byth ond unwaith! Os ydyw gwirionedd yn cyfyngu ar ehediadau y bardd, prawf ydyw hyny na fwriadwyd iddo erioed ehedeg o gwbl, ac y dylai ymfoddloni ar *gerdded* mewn meddyliau ac iaith gyffredin. Yn gyffelyb gyda golwg ar y rhai sydd yn teimlo fod pynciau yr Efengyl yn cyfyngu ar eu meddyliau, profant trwy hyny na wyddant mai eu hysbryd a'u bywyd ydyw yr egwyddorion mawrion cyffredinol, ymha rai y mae digon o le hyd yn nod i Feddwl Anfeidrol weithredu ynddynt a thrwyddynt, ac am hyny llawer mwy na digon o le i'r holl feddyliau meidrol yn y nef ac ar y llawr. Ein hamcan, fel y gwelir, ydyw dangos fod pynciau yr Efengyl yn wedd neillduol ar egwyddorion cyffredinol; ond dylid cofio nad ydyw yr egwyddorion yn llai cyffredinol o herwydd y wedd neillduol ymha un y cyflwynir hwynt ger bron ein sylw. Ceir esiampl o hyn yn y ddynoliaeth. Gellir dyweyd fod person un dyn yn wedd neillduol ar y natur ddynol, a bod un dyn yn werthfawr am ei fod yn amlygiad neillduol o'r egwyddorion mawrion sydd yn hollbresennol trwy ddynolrwy; ond yr un pryd nid ydyw eu neillduolrwydd mewn un yn eu gwneuthur yn llai cyffredinol ymhlith pob math o ddynion. Gellir cael esiampl arall o'r un peth mewn duwinyddiaeth. Gwirionedd mawr cyffredinol ydyw, mai egwyddor sancteiddrwydd yw cariad yn cael ei derfynu gan, ac yn gweithio trwy gyfiawnder. Y wedd neillduol sydd i'r gwirionedd hwn mewn duwinyddiaeth ydyw, fod y cariad cyfiawn hwn yn hanfod Duw, tra nas gall fod ond yn natur ei creadur. Nid yw y wedd neillduol sydd arno yn Nuw yn effeithio dim gyda golwg ar gyffredinolrwydd yr egwyddor.

Fel y sylwyd, y mae Crigionogaeth yn cynnwys egwyddorion cyffredinol cymhwys i reswm weithredu arnynt. Y fwyaf a'r bwysicaf o'r oll yw yr un a gawn ei galw yn *Bersonoliaeth*. Y mae yr egwyddor hon yn rhedeg trwy holl bynciau yr efengyl. Ni a'i cawn yn gyntaf yn amrywiaeth *personol* yn yr Hanfod Ddwyfol. Fe ddefnyddir y gair *Personau* fel un priodol i'w arfer: dywedir fod Un yn gofyn i'r Ail i roddi y Trydydd, &c. Drachefn yr ydym yn cael Person Dwyfol yn yr Arglwydd Iesu, yr hwn, yn ei ufudd-dod a'i ddyoddefaint, yw yr Iawn a gynnygir yn yr Efengyl. Darlunir ffydd, nid fel crediniaeth mewn



gosodiadau, ond fel ymddiriedaeth mewn Person. Dynoda y geiriau "yn Nghrist" undeb rhwng person pechadur a Pherson yr Arglwydd Iesu; ac wrth gyflawnhâd y meddylir cymeradwyaeth Duw o berson pechadur ar sail ei foddlonrwydd yn Mherson un arall. Gan hyn ym o egwyddorion sylfaenol Cristionogaeth yw *personoliaeth*; ac nis gellir deall ei phynciau o gwbl ar wahan oddiwrth yr egwyddor hon. Teg gofyn yn y fan hon, Pa beth a feddylir wrth y gair *personoliaeth*? Heb fyned i roddi darnodiad o hono, digon yw dyweyd ein bod yn ei gydnabod bob tro y defnyddiwn y gair "Myfi" am danom ein hunain i'n gwahaniaethu oddiwrth bawb arall. Nid perthyn i'n *person* y mae ewyllys, cydwybod, rheswm, &c., ond i'n *natur*; y mae y pethau a enwyd yn gyffredin i holl ddynolryw. Ond y mae genym ryw "Myfi" yn meddu ar y natur hono. Islaw holl gynneddfau a nodweddion y natur, y mae "Myfi" ag sydd yn ein gosod mewn sefyllfa o arbenigrwydd ac o unigedd hollol ymhlith pawb arall. Geiriau rhyfeddaf iaith ydyw y rhai sydd yn ymddangos symlaf i ddyinion, ymhlith y rhai y ceir Myfi, Tydi, ac Efe, geiriau bychain a syml, ond pwysfawr, gan eu bod yn cynnwys o'u mewn holl egwyddor Personoliaeth. Dyma egwyddor fawr sydd tu hwnt i allu gwyddoniaeth hyd yn nôd i'w gweled. Eithaf gwyddoniaeth ydyw darganfyddiadau o'r natur ddynol yn ei nodweddion anianyddol. Fe all, ac y mae, gwyddonwyr yn darganfod ffeithiau yn nghylch y modd y mae syniadau ac arferion yn cael eu trosglwyddo yn etifeddiaeth o genedlaeth i genedlaeth, ac o oes i oes; ac o'r modd y mae elfenau oedd unwaith yn gorwedd yn yr hedyn yn y natur ddynol yn ymddadblygu ac yn tyfu i addfedrwydd; ond eithaf gwyddoniaeth, yn ei chysylltiad â'r "Myfi," ydyw dadgan ei fod yn agored i nifer o argraffiadau (*impressions*) trwy synwyrâu y corff, pa rai y gellir eu trosglwyddo. Yn ol Hume a Huxley, yr oll a ellir ei gyrhaedd ar lwybr rhesymeg trwy wyddoniaeth ydyw ein bod yn berchen teimladau. Dangosir felly y berthynas agos sydd rhwng dynolryw, yn gymaint a'u bod yn meddu yr un natur ddynol, yr un nodweddion, a'r un cynneddfau; ond y mae gwyddoniaeth yn analluog i groesi drosodd o'r natur ddynol i'r person. Y mae Hume yn dyweyd nad oes dim ond *argraffiadau* yn bod, a dilyna Profeswr Huxley mor bell ag i ddyweyd nas gallwn *wybod* fod dim mwy na phellach nag argraffiadau yn bod. *Olrhain y natur ddynol yn ei gwedd anianyddol, can bellod â'r argraffiadau y mae yn brofiadol o honnnt, yw eithaf gwyddoniaeth!* Ni ddylid beio gwyddoniaeth am beidio myned ymhellach, am nas gall. Yn wir, y mae yn troi o fod yn wyddoniaeth i fod yn rhywbeth arall pan y ceisia wneuthur hyny. Ond y mae Cristionogaeth yn gallu myned ymhellach ac yn ddyfnach. Tra y mae gwyddoniaeth yn ein harwain at natur ddynol ar lwybr anianyddol, y mae Cristionogaeth yn ein harwain at Berson ar lwybr Dwyfol. Un o wirioneddau mawrion Cristionogaeth ydyw fod pob dyn yn berson. Nid ydyw yn cyrhaedd y gwirionedd am bersonoliaeth dyn trwy esgyn i fyny ato o'r anifail, ond trwy ddisgyn i lawr ato o'r Duwdod. Condemnir Cristionogaeth gan rai—Profeswr Tyndall ymhlith eraill—trwy ei galw yn *Anthropomorphism*; wrth yr hyn y meddylir ei bod yn euog o ddarlunio Duw ar lun dyn. Fel arall, mewn gwirionedd, y mae Cristionogaeth yn gwneuthur—darlunio dyn yn ei bersonoliaeth ar ddelw Duw. Os ydyw

"Gwnawn ddyd" (Gen. i. 26) yn amlygu personoliaeth yn Nuw, y mae yr "ar ein delw ni," sydd yn dilyn, yn amlygu personoliaeth dyn. Felly y mae personoliaeth y natur ddynol yn cael ei olrhain i bersonoliaeth yr Hanfod Ddwyfol. Cawn ymhellach fod y gwirionedd yn un cyffredinol. Y mae personoliaeth yn gosod gwerth ar y plentyn bach, na fedr na meddwl na siarad, fel y cyll y neb a'i lladdo ei fywyd ei hun. Y mae personoliaeth yn y gwallgofddyn, fel na chedwir ef megys anifail direswm, ac fel na theimlir yn ormod i ddynton mwyaf y deyrnas ymgynghori pa fodd y sicheir cysuron iddo. Y mae personoliaeth hefyd yn y carcharor budr a charpiog, boed lofrudd, boed leidr, fel y ceisir gwneuthur o leiaf bob tegwch âg ef. Ond beth am y Negro? Sonia Hæckel, yn ei *History of Creation* (Vol. ii. p. 365), am deithiwr nas gallai wneuthur ei feddwl i fyny i alw y Negro "yn ddyd ac yn frawd," gan y byddai i hyny roddi hawl i'r *gorilla* gael ei dderbyn i'r teulu! Ond y mae Cristionogaeth yn ein dysgu fod personoliaeth yn gorwedd hyd yn nod yn y Negro; ac am hyny ei fod yn frawd i'r dyn coethaf a mwyaf dyrchafedig ar y ddaear. Er fod y natur ddynol yn y Negro yn hynod o debyg i'r natur anifeilaidd yn y *gorilla*, y mae personoliaeth y cyntaf, yn ol Cristionogaeth, yn gwneuthur gwahaniaeth anfesurolog cydrhyngddynt. Am hyny os na fedr Cristionogaeth effeithio llawer ar y Negro ei hun, y mae am wneyd ei goreu i addysgu a dyrchafu ei blant.

Y mae gwirionedd mawr personoliaeth yn y Duwdod, yn yr Arglwydd Iesu, yn yr Iawn, mewn cyfiawnhâd trwy ffydd, &c., yn deffro mewn dynion gred yn eu personau eu hunain ac yn mhersonau eu gilydd; ac y mae cynnydd gwareiddiad a diwylliant mewn gwlad yn cydfyned â dwysder cred yn y bersonoliaeth sydd yn gorwedd wrth wreiddiau y natur ddynol. Ar gyfrif y natur ddynol sydd gan bob dyn, gellir myned i edrych ar ddynolryw fel un person; ac yn gyffelyb gellir ystyried gwlad o bobl sydd wedi tyfu gyda'u gilydd, ac yn meddu ar yr un syniadau ac arferion, fel un person. Mewn gwledydd gwâr-baganaidd, fel Rhufain a Groeg, arferid edrych ar y llwyth, y genedl, y deyrnas, fel yr oll ac yn oll; ond y mae Cristionogaeth yn dadleu hawliau personau unigol yn erbyn gormes mwyafrif; yn didoli dynolryw oddiwrth eu gilydd, ac yn dal fod gan ddyd hawliau o'r fath na fédd holl drigolion y byd, pe baent mewn undeb â'u gilydd, unrhyw awdurdod gyfiawn i'w amddifadu o honynt. Er mor bwysig ydyw dadleu hawliau y mwyafrif yn erbyn gormes un, y mae mor bwysig a hyny i ddadleu hawliau un yn erbyn gormes y mwyafrif. Gan ddal i fyny hawliau un, y mae Cristionogaeth yn cyflwyno ei hun ger bron y byd, yn gymaint a bod *personoliaeth* yn un o'r egwyddorion mawrion cyffredinol sydd yn gorwedd yn ei phynciau.

Yn yr Iawn yr ydym yn cael holl elfenau gwir Aberth wedi cydgyffarfod. Yn ychwanegol at bersonoliaeth, ni a gawn yno gariad a gwirfoddolrwydd ewyllys yn gweithio mewn ufudd-dod a dyoddefiadau nes llanw Meddwl Anfeidrol â boddlonrwydd. Dyma eto egwyddor gyffredinol sydd i'w chael, i fesur a graddau llai, ymhob gwir aberth. Ceir drachefn fod athrawiaeth *cyfrifiad* yn cynnwys gwirionedd mawr sydd yn ffynnu mewn gwledydd gwâr. Y gwirionedd hwnw ydyw fod undeb rhwng cynnrychiolwr â'r rhai a gynnrychiolir ganddo yn sail

cyfrifiad, fel y mae yr hyn a wneir gan y cynnrychiolydd yn dyfod yn eiddo i'r rhai a gynnrychiolir ganddo megys pe buasai wedi ei wneuthur ganddynt yn eu personau eu hunain. Hon yw yr egwyddor sydd wrth wraidd gweithrediad Seneddol Llywodraeth Lloegr, yn gystal â llywodraeth pob gwlad arall lle ceir cynnrychiolaeth deg. Yn y wedd Buritanaidd ar Gristionogaeth y mae *aïeni* yn seiledig ar gyfiawnhâd; hyny yw, wedi ei ddiosg o eiriau duwinyddol, y mae cyfnewid anian yn seiledig ar gyfnewid cyflwr. Gwelir cymhwysiad neillduol o'r egwyddor hon yn rhyddhâd y caethion. Pa un ai newid cyflwr y caethwas trwy ei ryddhâu, ac wedi hyny meithrin ysbryd gŵr rhydd ynddo, ai rhoddi ysbryd gŵr rhydd ynddo yn gyntaf ac ar ol hyny ei ryddhâu, sydd gwestiwn ag y bu llawer o ddadleu arno. Y syniad cyntaf a gariodd y dydd; newidiwyd cyflwr y caethwas, ac yn ei ryddhâd cafwyd esiampl fyw o gyfnewid anian yn seiledig ar gyfnewid cyflwr. Drachefn, os credu yn yr Efengyl yw cwlwm mawr undeb rhwng Duw a phechadur, ymddiried sydd yn cylymu dynion â'u gilydd yn deuluol, yn fasnachol, yn wladol, ac yn grefyddol.

Fe gyfyd y gofyniad yn naturiol, Onid oes modd ystyried yr egwyddorion a'r pynciau ar wahan oddiwrth eu gilydd (1.) Onid yw yn bosibl credu yr egwyddorion heb y pynciau o gwbl? Ydyw y mae,— fel pethau cymhwys i reswm pur weithredu arnynt, ond rhaid am egwyddorion mewn corff er mwyn cyrhaedd amcanion ymarferol bywyd. Heblaw hyn, trwy bynciau y mae y meddwl yn gallu esgyn i fyny at egwyddorion. Fe all dyn siarad yn uchel am ddynoliaeth, ac ar yr un pryd siarad yn ddirmygus am ddynion neillduol. Fe ellir canmawl sancteiddrwydd, ac eto iselu dynion sanctaidd fel pe baent ragrithwyr. Gellir canmawl geirwiredd, a merthyru dynion geirwir ar yr un pryd. Trwy bynciau neillduol y medr y meddwl ymaffyd mewn egwyddorion i'w deall â'u gwerthfawrogi, ac i ganfod y modd y gellir eu dwyn i ymarferiad. Yn hyn y gwelir y fantais a berthyn i Gristionogaeth fel crefydd, nid o egwyddorion noethion, ond o egwyddorion mewn Person fel sail, o ymddygiadau moesol fel goruwchadeiladaeth, ac o bynciau fel y drefn ddwyfol i adeiladu ar y sail. (2.) Onid yw yn bosibl dadleu dros y pynciau heb weled yr egwyddorion sydd ynddynt? Ydyw, y mae hyny yn bosibl. Pan y mae dynion yn dadleu dros bwnc heb ddeall ei egwyddor, y maent fel meddygon yn *dissectio* corff marw; ond yn rhy aml amlygant folineb nad yw meddygon yn euog o hono, sef tybied eu bod yn deall person byw am eu bod yn deall corff marw. Y mae rhestr o bynciau yn y meddwl heb ddirnadaeth o'u hegwyddorion yn gyffelyb i'r fynwent, a gellir wylo wrth rodio ymhlith y beddau mewn dyhead hiraethlawn am ddiwrnod pan y bydd egwyddorion tragwyddol wedi eu hanadlu yn y cyrff meirwon sydd yn gorwedd yno nes y byddont yn codi ar eu traed yn llu mawr iawn. Pan y gwelir ambell un yn dadleu yn gryf dros bwnc, ond yn amlwg ei fod heb deall yr egwyddor sydd yn gorwedd ynddo, y mae o-leiaf yn ymddangos fel pe byddai yn gwneuthur ei oreu i brofi fod y *parrot* ymhlith ei henafiaid. Effaith ddrwg arall o astudio pynciau ar wahan oddiwrth eu hegwyddorion ydyw rhoddi bôd i'r syniad fod Cristionogaeth Efengylaidd yn gul, tra nad yw y culni yn perthyn i Gristionogaeth o gwbl, ond i'r dynion

sydd heb weled ei hegwyddorion. Ei nodwedd hi ydyw bod ei phynciau yn engreiffitiau o wirioneddau cyffredinol sydd yn ffynnu trwy holl lywodraeth y Goruchaf, ac yn meddu ar eangder diderfyn a sefydlogrwydd tragwyddol.

II. Mewn Cristionogaeth fe geir yr egwyddorion cyffredinol mewn ffurf neillduol (1.) Y maent ynddi yn ei ffurf uchaf a phuraf—yn eu cartrefe—yn Naw ei hun, tra ymhob man arall y maent yn gymysgylid, yn ddiffygiol, yn feidrol yn eu gweithrediad. Y mae sanateiddrwydd yn Hanfod Duw, tra nas gall fod yn uwch nag yn natur dyn. Yn Naw y mae Personau mewn un Hanfod; ymhlith creaduriaid yr oll a gawn yw personau mewn un natur. Y mae cynnrychiolaeth ymhlith dynion ffaeledig a llygredig yn amherffaith a dirywiedig; ond pan y mae Person Dwyfol yn gynnrychiolwr, ni a gawn gynnrychiolaeth mewn perffeithrwydd gogoniant. Fe geir dynion yn gwneuthur aberth er mwyn eu gilydd fel ffriwyt eu cariad; hwnw yn gariad meidrol, yn cynnwys dyoddef, hwnw yn ddyoddef terfynol o ran gradd a mesur, ac yn peri boddlonrwydd i feddyliau dynion ffaeledig; ond pan y cawn gariad, ufudd-dod, dyoddef, a boddlonrwydd yn eu purdeb ac yn eu hanfeidroldeb, y cawn ymhlith myrdd o aberthau yr un Aberth sydd yn ddigon mawr i fod yn Iawn. Gan fod yr Hanfod Ddwyfol yn treiddio trwy holl bynciau yr Efengyl, ynddynt hwy y gwelir egwyddorion mawrion yn eu ffurf fwyaf pur a pherffaith.

(2.) Mewn Cristionogaeth y maent wedi eu gosod i weithredu gyda'r amcan o waredu dynion oddiwrth eu pechodau. Gwelir peth o'r un natur mewn cysylltiad â chelfyddyd. Lle bynag y mae dwfwr a thân yn cyfarfod â'u gilydd y mae deddfau yr ager yn gweithredu. Lle bynag y mae olwynion yn troi y mae deddfau peiriannol yn gweithredu. Ond ar y ffyrdd haiarn y mae deddfau cyffredinol yr ager a'r olwynion yn cael eu gosod i weithredu i'r amcan o dynu dynion mewn cerbydau i ben eu taith. Nid gallu yn gwneuthur deddfau sydd ar waith, ond dyfais ddoeth yn defnyddio hen ddeddfau i bwrrpas neillduol. Felly nid gallu yn gwneuthur egwyddorion newyddion sydd yn yr Efengyl, ond "dyfais fawr tragwyddol gariad" yn gwneuthur defnydd o egwyddorion yr oedd eu cartrefle erioed yn hanfod y Goruchaf, ac yn eu cyfeirio i'r amcan o ddwyn dynion

O ddyfnder dinas dystryw  
I eitha 'r nefoedd wên.

Dyma yr egwyddorion sydd yn bynciau efrydiaeth y Goruchaf ei hun. Dyma y rhai ag y mae creaduriaid uchaf a dysgleiriaf llywodraeth y Goruchaf yn chwennychu edrych arnynt fel hoff destunau eu myfyrdod. Dyma y pethau ag y cynnysgaeddwyd ninnau â chynneddfau cymhwys i'w deall, i'w holrhain, ac i'w cymhwysu at wahanol amgylchiadau y byd, a thrwy hynny fwynhâu yr hyfrydwch coeth a dyrchafedig o weled amgylchiadau amser yn cael eu harwisgo â gogoniant tragwyddol, nes y llyncir yr hyn sydd farwol gan fywyd. I'r Hwn a roddodd i ni y fath gynneddfau i ddirnad, ac a amlygodd i ni y fath wirioneddau i'w dirnad ganddynt, y byddo gogoniant, yn dragwyddol!

## CYFANSODDIAD YR EISTEDDFOD GENEDL- AETHOL.

LLAWER o gwyno sydd wedi bod o dro i dro o herwydd diffygion yr Eisteddfod, ac amryfal yw yr ymdrechion a wnaed er ei diwygio; a rhaid addef fod gwelliant mawr wedi cymeryd lle, er fod eto "dir lawer i'w feddiannu" yn y cyfeiriad hwn. Gellir olrhain y drefn bresennol o gynnal yr Eisteddfod yn ol hyd Eisteddfod Caerfyrddin yn y flwyddyn 1819, pan yr adgyfodwyd hi dan ymgeledd Iolo Morganwg, Idrison, a Gwallter Mechain, ar ol bod yn farw am yn agos i gant a hanner o flynyddoedd; ac y mae pob Eisteddfod ar ol hono wedi dilyn gyda mwy neu lai o fanyldra y drefn a sefydlwyd yno, gan fabwysiadu ambell ddiwygiad yn awr ac yn y man. Bu dygiad i mewn y cystadleuaethau cerddorol a'r cyngherddau yn foddion i chwaneu cryn lawer at nerth a phoblogrwydd yr Eisteddfod; ac o radd i radd y mae wedi ennill dylanwad anghyffredin o gryf yn y wlad. Beth bynag a ddywedir am Iolo Morganwg a'i gyfeillion, y mae yn ffaith anwadadwy eu bod wedi gallu rhoddi symbyliad newydd i'r sefydliad hwn, a'i fod wedi "myn'd" gyda'r genedl a'r oes, fel yn awr y teimlir nas gellir ei ddiystyru, ond fod ynddo nerth grymus er da neu er drwg, ac y dylai gwladgarwyr a dynion goreu y genedl ymaflwyd ynddo i'w ddefnyddio er lles a daioni. Bu amryw ymdrechion er cael dosbarth a threfn ar yr urddo yn Ngorsedd, a chael arholiadau; ond hyd yn hyn nid boddhaol na sefydlog yw hyn, er fod arwyddion gwella. Bu ymdrech hefyd i gael cyfarfodydd ynglŷn â'r Eisteddfod i ddarllen papyrâu, o blaid pa rai yr ymdrechai y Cymmrodorion yn ganmoladwy; ond ni chawsant y gefnogaeth a deilyngent. Yn awr y mae ymdrech adnewyddol yn cael ei gwneyd, yr hon a gychwynwyd yn benaf gan ein cydwladwr cenedlgarol a byth-lafurus, Syr Hugh Owen, Llundain. Darllenodd efe bapwr yn Eisteddfod ddiweddfaf Caernarfon ar y mater, ac mewn canlyniad galwyd cyfarfod yn yr Amwythig ymha un y sefydlwyd Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol, yr hon sydd weithian yn gweithio ymlaen yn brysur mewn parotoad at ddiwygio. Ond ffaith hynod mewn cysylltiad â'r Eisteddfod ydyw, nad oes iddi hyd yn hyn un ffurf benodol na chyfansoddiad rheolaidd. Ymddengys fod y trefniadau henafol yn perthyn i reoleiddiad y mesurau barddonol a graddau y beirdd a'r cerddorion, ac nid i drefn dygiad yr Eisteddfod ymlaen, ac nid yw yn ymddangos i Iolo Morganwg osod i lawr unrhyw reolau gyda golwg ar hyny. Gwirionedd sydd yn dangos gwedd arbenig ar ein nodwedd fel cenedl yw, mai drychfeddwl ardderehog yw yr Eisteddfod, yn cymeryd ffurf yn awr ac yn y man, i raddau helaeth fel y dygwyyddo, er hyny wedi parhâu felly am amser maith. Gyda'r Saeson buasai wedi cael ei ddwyn i ffurf, neu ynte wedi marw; ond gall y Cymry garu a glynu wrth

ddrychfeddwl. Tua'r flwyddyn 1860, yn Eisteddfod Dinbych, bu ymgais am ychydig o drefn, ac etholwyd Pwyllgor Cyffredinol "cynwysedig o brif lenorion a gwladgarwyr Gogledd a Deheudir Cymru;" ac o hwnw etholwyd Pwyllgor Gweithiol yr hwn a elwid "Y Cynghor," a bu hwnw yn ymdrechu er dwyn pethau i drefn am saith neu wyth mlynedd; ond syrthiodd dan gyfrifoldeb arianol a cholledion trymion. Nid yw yn ymddangos fod nemawr ddim ar ffurf Cyfansoddiad wedi ei dynu allan y pryd hwnw; yn hytrach gellir olrhain anfodion y Cynghor hwnw mewn gradd helaeth i'r diffyg o Gyfansoddiad, yn gosod allan derfynau cyfrifoldeb y naill Bwyllgor a'r llall, a'u perthynas â'u gilydd. Talfwyd diffygion Eisteddfodau ar y Cynghor, ond ni chaent unrhyw elw a ddeilliai oddiwrth rai eraill. Buasai Cyfansoddiad rheolaidd ac ymrwymadau priodol yn arbed yr anffawd yma. Yn awr gan hyny, pan y mae ymdrechion adnewyddol ac egniol yn cael eu gwneyd i gael trefn ar bethau, tybiwn fod yr amser wedi dyfod i awgrymu y priodoldeb o osod i lawr sylfaen deg a diogel mewn Cyfansoddiad rheolaidd a lled gyflawn, fel y galler adeiladu arno y diwygiadau angenrheidiol. Dylai y cyfryw Gyfansoddiad redeg ar hyd y llinellau sydd eisoes mewn arferiad, fel y galler cadw yr hyn oll sydd o werth, a mabwysiadu gwelliant angenrheidiol yn bwylllog a rheolaidd, ac wedi ystyriaeth briodol. Yn yr ysgrif hon yr ydym yn dymuno awgrymu brasgynllun cyfansoddiad o'r fath, a'i gyflwyno i sylw Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol a llenorion Cymru yn gyffredinol.\*

## BRASGYNLLUN O GYFANSODDIAD I'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

### I. AMCAN YR EISTEDDFOD.

Amcan yr Eisteddfod ydyw diwyllio llên a moes, cefnogi "cof am a fu, ystyr am y sydd, a barn am a fydd" ymhlith y werin—"meithrin a dadlenu athrylith a thalent y Cymry, a defnyddio pob moddion eraill, o bryd i bryd, a fyddo yn debyg o ddrychafu cyflwr cymdeithasol, moesol, a deallol y genedl." †

\* Darfu i ni tua'r flwyddyn 1864 anfon awgrymiadau ar ddiwygiad Eisteddfodol i ofal y "Gohebydd" cyn iddo gychwyn i'w daith i'r America, yr hyn fu yn achlysur i'r papyr hwnw gael ei roddi o'r neilldu yn nghanol papyrau eraill; cyfranasom a mabwysiadwyd amryw o'n hawgrymiadau yn y papyr a ddarllenwyd gan Pedr Mostyn yn Eisteddfod Caerlleon; ennillasom wobwr ar ddiwygiad Eisteddfodol yn Eisteddfod y Wyddgrug, ac wedi hyny ar "Pa fodd i wneyd yr Eisteddfod yn llwyddiannus" yn Eisteddfod Treberbert, 1874, ac ar "Y Pulpud, yr Ysgol Sabbothol, y Wasg, a'r Eisteddfod" yn Mhorthaethwy, 1878. Yr ydym yn crybwyll hyn, nid mewn ymfrost, ond i ddangos mai nid fel "newyddian" yr ydym yn ysgrifenu arno. Os oes genym hawl i siarad, y mae yn codi oddiar sylw ac astudiaeth blynyddoedd ar y mater. Er na phenodwyd ni gan unrhyw Bwyllgor na chyfarfod i dynu allan Gyfansoddiad, yr ydym yn gwneyd hyny oddiar argyhoeddiad fod ar hyn o bryd angenrheidrwydd am dano, ac mewn awydd i gyfranu ein hailing at y gwaith pwysig o ddiwygiad Eisteddfodol.

† Y mae y dyfyniad cyntaf yn yr erthygl hon o atebiad Dafydd ab Edriwnt i gwestiwn Gruffydd ab Nicolas yn Eisteddfod Caerfyrddin yn 1461, sef "Pa beth yw achos a defnydd a dyben Eisteddfod?" Y mae yr ail o'r darnodiad a roddwyd gan y "Cynghor" a etholwyd yn 1860. (Gwel yr *Eisteddfod*, tu dal. 1.) Dyma y darnodiad yn gyflawn:—"Amcan yr Eisteddfod yw—Diwyllio a meithrin Barddoniaeth a Llenyddiaeth; chwilio, trefnu, a chadw cofnodion hanesyddol a gweddillion llenyddol y genedl; cynorthwyo i gyhoeddi gweithiau gwreiddiol yn yr iaith Gymraeg; meithrin a dadlenu talent y Cymry, a defnyddio pob moddion eraill o bryd i bryd a fyddo yn debyg o ddrychafu cyflwr cymdeithasol, moesol, a deallol y genedl." Dychymygo o eiddo'r Saeson yw mai cadw'r iaith Gymraeg yn fyw yw unig amcan Eisteddfod, ond nid oes sail iddo.

## II. AWDURDOD.

Dygir y gweithrediadau ymlaen drwy awdurdod Gorsedd, yn ol "braint a defawd Beirdd Ynys Brydain," ar "osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn, a gwŷs a gwahawdd i holl brydyddion cenedl y Cymry o ba wlad bynag yr henynt, i ddyfod dan nawdd a chroesaw i'r Eisteddfod," o dan nawdd cefnogaeth a chynnorthwy uchelwyr a phrif lenorion y wlad, ac yn iaith y trigolion.

## III. LLYWODRAETHIAD.

Bydd yr holl weithrediadau dan reolaeth

1. *Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol*, yr hwn fydd i gymeryd arolygiaeth gyffredinol dros yr Eisteddfod yn ei holl gysylltiadau.

2. *Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol*, gan yr hwn y trefnir cyfarfodydd y beirdd, llenorion, &c., yr arholiadau am urddau, a gweithrediadau a defodau yr Orsedd, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol.

3. *Pwyllgor Cyffredinol Lleol*, gan yr hwn y trefnir testunau y cystadleuaethau, y gwobrwyon, pabell ac amser yr Eisteddfod, a'r holl amgylchiadau cysylltiedig â'r rhan gystadleuol a'r cyngherddau, ond yn ddarostyngedig i reolaeth y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol.

## IV. Y PWYLLGOR GWEITHIOL GENEDLAETHOL.

1. *Aelodau y Pwyllgor*. Dewisir aelodau y Pwyllgor hwn mewn cyfarfod cyffredinol o aelodau yr Eisteddfod (Erthygl XI.), ond bydd yn rhaid i ddwy ran o dair fod o nifer y tanysgrifwyr at y Drysorfa Gyffredinol.

2. *Swyddogion*. Bydd i'r Pwyllgor ddewis Cadeirydd, Trysorydd, Ysgrifenydd Cyffredinol yr Eisteddfod, a'r cyfryw swyddogion ag a farno yn angenrheidiol i ddwyn y gwaith ymlaen. Etholir y swyddogion hyn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor a gynnelir ar adeg yr Eisteddfod Genedlaethol, neu y cyfarfod cyntaf ar ol hyny. Gellir llenwi unrhyw swydd ychwanegol neu a ddygwyddo ddyfod yn wag mewn unrhyw gyfarfod rheolaidd, ar ol rhoddi rhybudd o hyny yn ngalwad y cyfarfod.

3. *Trysorfa Gyffredinol*. Bydd y cyllid fydd dan reolaeth y Pwyllgor yn gynnwysedig o danysgriadau aelodau yr Eisteddfod, rhoddion a chymunroddion, a chyllid o unrhyw ffynnonell arall y gwelir yn briodol.

4. *Gwaith*. Gwaith y Pwyllgor hwn fydd—

(a) Ystyried a chwilio i mewn i geisiadau am yr Eisteddfod Genedlaethol, ac edrych ar fod y cyfryw geisiadau yn unol â'r telerau gofynol yn ol Erthygl VII. o'r cyfansoddiad hwn, a chyflwyno y ceisiadau a gymeradwyir i gyfarfod cyffredinol aelodau yr Eisteddfod (Erthygl XI.) i'w penderfynu.

(b) Arolygu, cyfarwyddo, a chymeradwyo gweithrediadau y Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol, a'r Pwyllgor Cyffredinol Lleol. Bydd hawl gan y Pwyllgor i wrthwynebu unrhyw destun, neu wobwr, neu benodiad unrhyw berson, neu unrhyw drefniad a ystyrir oddiar resymau digonol

yn anmhrïdol, ac hefyd i roddi unrhyw awgrymiadau a chyfarwyddyd a welir yn angenrheidiol.

(c) Defnyddio y cyllid fyddo yn llaw y Trysorydd i amcanion priodol er dwyn ymlaen waith yr Eisteddfod Genedlaethol a chario allan ei hamcanion.

(d) Archwilio cyfrifon y Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol, a'r Pwyllgor Cyffredinol Lleol, ac edrych ar fod y telerau a'r ymrwymïadau yn cael eu cadw. Bydd gan y Pwyllgor hawl i wrthwynebu unrhyw daliad a ystyrir yn anmhrïdol neu wastraffus, a lleihâu neu dynu y cyfryw allan o'r cyfrifon, a delir y person neu bersonau fydd wedi gwneyd y cyfryw daliad yn gyfrifol am dano.

(e) Argraffu adroddiad o weithrediadau yr Eisteddfod Genedlaethol, a chrynodeb o bob cyfrifon fydd yn perthyn iddi (wedi eu harchwilio), a chefnogi a chynnorthwyo i argraffu hyd y gwelir yn briodol gynnrychiion buddugol yr Eisteddfod.

(f) Trefnu cyfarfodydd aelodau yr Eisteddfod, er trin y gwahanol faterïon perthynol iddynt. (Erthygl XI.)

(g) Rhoddi adroddiad blynyddol o'i weithrediadau i gyfarfod cyffredinol aelodau yr Eisteddfod. (Erthygl XI.)

#### V. PWYLLGOR LLENYDDOL CENEDLAETHOL.

1. *Aelodau.* Dewisir yn aelodau o'r Pwyllgor hwn nifer penodol (dyweder chwech) o fysg prif lenorion Cymru yn y gwahanol ganghenau, llenyddiaeth, barddoniaeth, cerddoriaeth, &c. Gwneir y dewisiad yn nghyfarfod cyffredinol aelodau yr Eisteddfod. (Erthygl XI.)

2. *Swyddogion.* Bydd i'r Pwyllgor ethol Cadeirydd, Ysgrifenydd, a'r cyfryw swyddogion ag a fyddo yn angenrheidiol i ddwyn y gwaith ymlaen.

3. *Treuliadau.* Bydd i'r treuliau angenrheidiol er dwyn ymlaen waith y Pwyllgor hwn gael eu talu o'r Drysorfa Gyffredinol, a bydd y cyfryw dreuliadau yn ddarostyngedig i reolaeth y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol.

4. *Gwaith.* Bydd gwaith y Pwyllgor hwn—yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol—yn gynnwysedig o'r pethau canlynol:—

(a) Trefnu yr arholiadau am Urddau perthynol i'r Eisteddfod Genedlaethol, penodi arholwyr ynghyd a lle ac amser yr arholiadau, a gofalu am fod y cwbl yn cael ei ddwyn ymlaen yn briodol a theg, a darparu tystysgrifau i'r ymgeiswyr llwyddiannus.

(b) Trefnu lle ac amser—mewn cyd-ddealltwriaeth â'r Pwyllgor Cyffredinol Lleol—i gyfarfodydd y Beirdd, Llenorion, Cerddorion, &c., yn adranau, yn ol Erthygl VIII; penodi Cadeirydd ac Ysgrifenydd, a threfnu gwaith ar gyfer pob un o'r cyfryw gyfarfodydd; a gofalu am fod eu gweithrediadau yn cael eu dwyn ymlaen yn drefnus a rheolaidd.

(c) Trefnu lle ac amser gweithrediadau yr Orsedd, penodi personau cymhwys i ddwyn y gwaith ymlaen, ac edrychi ar fod y cwbl yn drefnus a rheolaidd yn ol arferion a defodau Beirdd Ynys Prydain.

(d) Cymeryd sylw o lyfrau neu gynnrychiion neu waith a gyflwynir ger eu brôn o eiddo dynion o athrylith a thalent yn perthyn i'r genedl,



cyfarwyddo yr Ysgrifenydd i nodi y cyfryw mewn cofrestrlyfr i'r pwrpas hwnw, a chyflwyno enwau personau o deilyngdod uchel i sylw cyfarfod cyffredinol aelodau yr Eisteddfod (Erthygl XI.) fel rhai cymhwys i dderbyn aelodaeth o'r Eisteddfod, neu urdd anrhydeddus a roddir gan yr Eisteddfod.

(e) Cyflwyno adroddiad blynyddol o'i weithrediadau i gyfarfod cyffredinol aelodau yr Eisteddfod. (Erthygl XI.)

## VI. PWYLLGOR CYFFREDINOL LLEOL.

1. *Aelodau.* Bydd nifer (heb fod yn llai na'r hanner) o aelodau y Pwyllgor hwn i'w dewis gan gyfarfod cyhoeddus wedi ei alw yn rheolaidd, o drigolion y dref lle y gwahoddir yr Eisteddfod iddi, a'r gweddill yn ol fel y trefnir gan y cyfarfod hwnw. Tuag at fod wedi ei alw yn rheolaidd, rhaid iddo fod trwy rybudd cyhoeddus heb fod yn llai na phedair awr ar hugain trwy hysbysiad mewn newyddiadur, hysbysleni, criwr y dref, neu ryw ddull arferol arall.

2. *Swyddogion.* Bydd i'r Pwyllgor hwn ethol ei Lywyddion, Trysor-yddion, Ysgrifenyddion, a'r cyfryw swyddogion ag a farno yn angenrheidiol iddo ei hun.

3. *Trysorfa.* Bydd i'r Pwyllgor hwn dderbyn i'w drysorfa danysgrifiadau, rhoddion, holl elw y rhan gystadleuol a chyngherddau yr Eisteddfod, a chyllid o unrhyw ffynnonellau priodol eraill.

4. *Gwaith.* I'r Pwyllgor hwn y perthyn:—

(a) Anfon cais rheolaidd am yr Eisteddfod at y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol, a darparu y cyfryw sierhâd, ac ymrwymo i'r cyfryw delerau ag a fydd yn angenrheidiol yn ol y cyfansoddiad (Erthygl VIII).

(b) Dewis testunau, penodi gwobrau, ethol beirniaid, dadganwyr, &c., a'r holl drefniadau fydd yn angenrheidiol er dwyn yr Eisteddfod ymlaen.

(c) Trefnu pabell ac amser yr Eisteddfod, ethol Llywyddion, Arweinwyr, &c., a mabwysiadu y cyfryw fesurau ag a fydd yn angenrheidiol er sicrhâu llwyddiant yr Eisteddfod.

(d) Darparu lleoedd (mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Llenyddol a'r Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol) er cynnal yr arholiadau, cyfarfodydd y Beirdd, cyfarfodydd aelodau yr Eisteddfod, &c., a defodau yr Orsedd, a threfnu amser priodol iddynt.

(e) Cadw cofnodau cywir a chyflawn o holl weithrediadau y rhan gystadleuol a chyngherddau yr Eisteddfod, a chyflwyno y cyfryw mewn amser priodol i Ysgrifenydd Cyffredinol yr Eisteddfod, modd y galler eu cynnwys yn yr Adroddiad Cyffredinol.

(f) Cadw cyfrifon manwl, eglur, trefnus, a chywir, a darparu *balance sheet* o'r cyfryw ynghyd a'r holl dalebau, neu *vouchers*, a'u cyflwyno i'w harchwilio gan y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol, neu Archwilwyr a benodir gan y cyfryw, ymostwng i'r dyfarniad a roddir yn y cyfryw archwiliad, a chyhoeddi y cyfryw gyfrif fel y bydd wedi ei gymeradwyo gan yr Archwilwyr.

(g) Bydd yr holl weithrediadau hyn yn ddarostyngedig i gymeradwysaeth y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol, a bydd i'r Pwyllgor Cyffredinol Lleol ddu sylw dyladwy a rhestruol i awgrymiadau a chyfarwyddiadau y Pwyllgor hwnw.

## VII. CAIS AM YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL.

Bydd pob cais oddiwrth unrhyw dref am gael yr Eisteddfod Genedlaethol am flwyddyn ddyfodol, i'w wneyd at y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol drwy Ysgrifenydd Cyffredinol yr Eisteddfod (Erthygl IV. 2), o leiaf dri mis cyn adeg cynnaliad yr Eisteddfod am y flwyddyn fydd yn rhedeg. Wrth ystyried y cais hwnw, bydd i'r cyfryw Bwyllgor wneyd ymchwiliad gofalus i gael sicrwydd fod y telerau canlynol yn cael eu cadw :—

1. Fod y cais yn dyfod oddiwrth gyfarfod cyhoeddus o drigolion y dref wedi ei alw yn rheolaidd (Erthygl VI. 4, a), a bod y cyfarfod hwnw wedi ethol o leiaf hanner y Pwyllgor Cyffredinol Lleol fydd i gario yr Eisteddfod ymlaen, a bod y cais wedi ei gymeradwyo a'i arwyddo gan brif swyddogion cyhoeddus y dref hono, megys y Maer, Ynadon Heddwch, &c.

2. Fod *Guarantee Fund* o swm a fernir yn briodol gan y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol, wedi ei danysgrifio a'i sicrhâu, a thafien o'r cyfryw yn cael ei anfon gyda'r cais.

3. Fod amcangyfrif o'r derbyniadau a ddysgwylir a'r costau tebygol yn cael ei anfon yr un modd gyda'r cais, ac ymrwymiad yn cael ei wneyd y bydd i'r elw oddiwrth yr Eisteddfod gael ei ddefnyddio at amcanion cyhoeddus a nodir ac a gymeradwyir gan y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol.

4. Fod i bob testun cystadleuol yn yr Eisteddfod fod yn agored i'r byd. Wrth gymeradwyo y cyfryw geisiadau i'w penderfynu yn Nghyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod, bydd i'r Pwyllgor gadw mewn golwg, hyd y bydd yn bosibl, fod yr Eisteddfod yn cael ei chynnal bob yn ail yn Ngogledd a Deheudir Cymru, ac na bydd ond un Eisteddfod Genedlaethol i'w chynnal yn yr un flwyddyn.\*

VIII. CYFARFODYDD Y BEIRDD, LLENORION, CERDDORION, &c.,  
YN ADRANAU.

Ar foreu y dydd cyntaf, a'r ail, a'r pedwerydd (os bydd), o'r Eisteddfod, bydd i'r Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol drefnu cyfarfodydd ar wahân i'r adranau. Nis gellir trefnu y cyfryw gyfarfodydd ond i'w cynnal yn y boreu; ond os bydd unrhyw fater yn aros heb ei benderfynu, gellir gohirio cyfarfod yr adran hono i unrhyw adeg fydd yn gyfeus i'r aelodau yn gyffredin, ond nid yn hwyrach na naw o'r gloch y nos.

1. *Adranau.* Yr adranau ydynt—(a) Barddoniaeth, (b) Cerddoriaeth, (c) Llenyddiaeth, (d) Celfyddyd, &c. Gall y Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol chwaneu nifer yr adranau os gwelir hyn yn briodol.

\* Pe dygwyrddai na byddai un lle yn barod i dderbyn yr Eisteddfod Genedlaethol fel y cynnelir hi yn awr, gallai y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol drefnu Eisteddfod o Gyfarfodydd Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod, Cyfarfodydd y Beirdd, Llenorion, yr Arholisau a'r Orsedd, yn ol Erthyglau VIII., IX., X., a XI. Arbedai hyny y drawl sydd mewn cysylltiad â'r rhan gystadleuol a'r cyngherddau, a byddai yn Eisteddfod yn llawr ystyr y gair, ond heb y "Gadair."

2. *Aelodau.* Y rhai fyddant yn meddu hawl i fod yn bresennol a phleidleisio yn nghyfarfod pob adran ydynt:—

(a) Rhai wedi pasio yn llwyddiannus arholiad rheolaidd y Pwyllgor Llenyddol am urdd yn yr adran.

(b) Rhai wedi derbyn aelodaeth yn yr adran trwy gymeradwyaeth y Pwyllgor Llenyddol a chadarnhâd Cyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod.\*

Ni bydd aelodaeth mewn un adran yn rhoddi hawl i fod yn bresennol a phleidleisio mewn cyfarfod o eiddo adran arall.

3. *Swyddogion.* Bydd i'r Pwyllgor Llenyddol benodi Cadeirydd ac Ysgrifenydd i gyfarfod pob adran, ac nis gall y cyfryw adran gyfarfod heb eu bod hwy yn bresennol. Mewn achos o absenoldeb un o'r cyfryw, bydd i Ysgrifenydd y Pwyllgor Llenyddol drefnu i lanw'r gwagle, yn unol â threfniad y Pwyllgor.

4. *Gwaith.* Y gwaith fydd yn perthyn i bob adran yn y cyfarfod fydd:—

(a) Cael anerchiad gan Gadeirydd yr adran ar fater yn dal perthynas â'r cyfryw.

(b) Darllen papyr neu baprau ar faterion yn dal cysylltiad â'r adran, ac ymddyddan ar y mater.

(c) Derbyn rhybuddion o gynnygion yn yr adran i'w hystyried ymhen blwyddyn.

(d) Ystyried cynnygion y rhoddyd rhybudd o flwyddyn am danynt, a phasio penderfyniadau i'w cyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod am gadarnhâd.

(e) Gall y cyfarfod benodi Pwyllgor neillduol i gario allan unrhyw fater cysylltiedig â'r adran ei hun, y cyfryw bwyllgor i roddi adroddiad yn nghyfarfod yr un adran ymhen blwyddyn.

5. *Cofnodau.* Bydd i Ysgrifenydd pob adran gadw cofnodau cywir a chyflawn o weithrediadau y cyfryw gyfarfod, a chyflwyno yr adroddiad yn uniongyrchol i Ysgrifenydd y Pwyllgor Llenyddol, fel y gallo efe gyflwyno y penderfyniadau o bob adran i Gyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod. (Erthygl XI.)

#### IX. ARHOLIADAU AM URDDAU.

Bydd i'r Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol drefnu arholiadau am urddau Beirdd, Cerddorion, ac Ofyddion, mewn cysylltiad â'r Eisteddfod Genedlaethol, a bydd i feirniaid y cyfryw arholiadau gyflwyno eu dyfarniad i Ysgrifenydd y Pwyllgor hwnw, mewn pryd i'w gynnwys yn adroddiad y Pwyllgor yn Nghyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod. Urddir yr ymgeiswyr llwyddiannus yn Ngorsedd yn ol braint a defawd Beirdd Ynys Prydain ar ddydd olaf yr Eisteddfod, a chyflwynir y tystysgrifau wedi eu llenwi yn briodol iddynt.

Bydd i'r Pwyllgor yn eu hadroddiad hefyd gyflwyno enwau personau o deilyngdod uchel fel rhai cymhwys i dderbyn Urdd anrhydeddus gan

\* Wrth gwrs cydnabyddid y rhai sydd eisoes yn feirdd, cerddorion, a llenorion adnabyddus. Yn raddol yr ennillai y cymhwysderau uchod eu lle ac y ceid cofrestrlyfr o holl aelodau yr Eisteddfod; ond y mae yn angenrheidiol cael telerau aelodaeth er mwyn dosbarth a threfn.

yr Eisteddfod, megys Prif-fardd, Pencerdd, &c., ac urddir y cyfryw i'r radd hono yn Ngorsedd ar ddydd olaf yr Eisteddfod.

#### X. YR ORSEDD.

Bydd i'r Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol drefnu agoriad a chynnal- iad yr Orsedd yn ol y defodau cysefin, ar amserau priodol ar ddyddiau yr Eisteddfod Genedlaethol. Y gwaith a wneir yn yr Orsedd fydd:—

1. Urddo Beirdd, Cerddorion, ac Ofyddion, yn ol braint a defawd Beirdd Ynys Prydain, a'r rhai o Urdd anrhydeddus.

2. Cyhoeddi lle yr Eisteddfod Genedlaethol nesaf, ac unrhyw hysbys- rwydd angenrheidiol mewn cysylltiad â hi, ac hefyd unrhyw Eistedd- fodau Taleithiol a gymeradwyir gan Gyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod.

3. Cyhoeddi penderfyniadau fyddo wedi pasio yn rheolaidd yn Nghyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod, a rhoddi rhybuddion o unrhyw gynnygion a gwelliantau fydd dan ystyriaeth hyd flwyddyn ddyfodol.

4. Unrhyw waith arall priodol i'r Orsedd fyddo wedi ei drefnu gan y Pwyllgor Llenyddol, neu Gyfarfod Cyffredinol yr Aelodau.

Bydd gan unrhyw aelod o'r Eisteddfod a'r Orsedd hawl i wneyd gwrthdystiad yn erbyn unrhyw ran o weithrediadau yr Orsedd, a phan y gwneir hyn ni wneir mwy ar y pryd na chofnodi y gwrthdystiad, a'i gyflwyno, ynghyd a'r mater y perthyna iddo, i gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol yn eu cyfarfod cyntaf ar ol hyny.

Cedwir cofnodau cywir a chyflawn o holl weithrediadau yr Orsedd gan Ysgrifenydd y Pwyllgor Llenyddol, a chyflwynir hwynt ganddo i Ysgrifenydd Cyffredinol yr Eisteddfod o fewn amser priodol, i'r dyben i'w corffori yn yr adroddiad argraffedig o weithrediadau yr Eisteddfod.

#### XI. CYFARFOD CYFFREDINOL AELODAU YR EISTEDDFOD.

Bydd i'r Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol drefnu cyfarfod ar y noson flaenorol i ddydd cyntaf yr Eisteddfod, i aelodau yr Eisteddfod, ymha un y traddodir "Anerchiad Blynnyddol" yr Eisteddfod gan Lywydd yr Eisteddfod Genedlaethol, neu berson cymhwys a benoder i hyny, ac hefyd y gwneir unrhyw waith a drefnir gan y Pwyllgor. Gall y cyfar- fod hwn fod yn un cyhoeddus a rhydd, ond pan y bydd felly bydd rhan o'r adeilad wedi ei neillduo i aelodau yr Eisteddfod, a chanddynt hwy yn unig y bydd hawl i siarad a phleidleisio ar unrhyw fater.

Bydd i'r Pwyllgor hefyd drefnu Cyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod ar foreu y trydydd dydd o'r Eisteddfod.

1. *Aelodau.* Aelodau yr Eisteddfod ydynt, (a) Yr holl bersonau fydd yn meddu hawl aelodaeth mewn un o'r adranau. (b) Tanysgrifwyr o 10s. 6c. ac uchod i Drysorfa Gyffredinol yr Eisteddfod.

2. *Gwaith.* Y gwaith a wneir yn Nghyfarfodydd Cyffredinol yr Aelodau fydd:—

(a) Ethol Llywydd yr Eisteddfod Genedlaethol am y flwyddyn; a pherson cymhwys i draddodi yr "Anerchiad blynnyddol" ar ddechreu yr Eisteddfod y flwyddyn ddyfodol. Mewn achos o farwolaeth neu

fethiant, bydd i'r Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol benodi i lanw'r gwagle.

(b) Derbyn adroddiadau y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol a'r Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol, a phenderfyna y materion a gynnwysir ynddynt.

(c) Ethol aelodau y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol a'r Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol am y flwyddyn ddyfodol.

(d) Penderfynu lle yr Eisteddfod Genedlaethol nesaf, a chymeradwyo unrhyw Eisteddfodau Taleithiol a welir yn briodol.

(e) Derbyn adroddiad arianol yr Eisteddfod Genedlaethol flaenorol, a chyfrifon y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol.

(f) Cymeradwyo neu wrthod penderfyniadau fyddo wedi pasio yn rheolaidd mewn cyfarfodydd adranol.

(g) Penderfynu unrhyw gynnygion neu welliantau y bydd rhybudd o flwyddyn wedi eu rhoddi am danynt.

(h) Ni ellir dwyn i mewn unrhyw fater newydd heb rybudd priodol, oddieithr trwy gysyniad unfrydol yr holl aelodau fyddo yn bresennol; ac wedi cael ymdriniaeth arno, nis gellir ei basio yn rheolaidd heb gysyniad dwy ran o dair o'r aelodau fyddo yn bresennol.

(i) Pan y bydd unrhyw fater arianol ger bron yn dal cysylltiad â Thrysorfa Gyffredinol yr Eisteddfod, os bydd i bump o Danysgrifwyr wneyd cais ysgrifenedig am hyny, cyflwynir y cyfryw fater heb ychwaneg o ddaid i'w benderfynu mewn cyfarfod neillduol o'r Tanysgrifwyr yn unig, i'w alw ynghyd drwy awdurdod Cadeirydd ac Ysgrifenydd y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol.

3. *Cofnodau.* Cedwir cofnodau cywir a chyflawn o weithrediadau y cyfarfod hwn gan Ysgrifenydd Cyffredinol yr Eisteddfod, yn cael ei gynnorthwyo gan Ysgrifenydd y Pwyllgor Llenyddol, a bydd i Ysgrifenydd Cyffredinol yr Eisteddfod gyhoeddi y cyfryw ranau o'r cofnodau ag a fyddo yn angenrheidiol yn Ngorsedd cyn diwedd yr Eisteddfod.

## XII. COFNOD-LYFRAU.

Bydd i Ysgrifenydd Cyffredinol yr Eisteddfod, dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol, gadw cofnod-lyfr mawr, ymha un yr ysgrifena gofnodau cywir a chyflawn o holl weithrediadau yr Eisteddfod Genedlaethol, y rhai fyddant yn awdurdod gwarantedig o'r penderfyniadau a basiwyd a'r gweithrediadau a wnaed yn y cyfryw Eisteddfod, ac er cof a chadw i'r oes a ddél.

Bydd i Ysgrifenydd y Pwyllgor Llenyddol Cenedlaethol, dan gyfarwyddyd y Pwyllgor hwnw, gadw cofrestr-lyfr, ymha un y cofrestrir enwau holl aelodau Llenyddol yr Eisteddfod, ac y rhoddir wrth enw pob un gofnodau o ddyddiad ei urddiad, ac o sylw a wnaed gan y Pwyllgor o unrhyw lyfr, cynnyrch, neu waith o eiddo'r cyfryw, ac o unrhyw fanylion eraill a welo y Pwyllgor yn briodol, modd y bydd gan yr Eisteddfod, trwy y Pwyllgor hwn, olwg gryno ar gynnydd, amrhydedd, ac ymdrechion pob aelod er lles a dyrchafiad i'w wlad a'i genedl.

Bydd i'r Ysgrifenyddion hyn hefyd gadw yn ofalus ac mewn trefn y cyfryw lyfrau, ysgrifau, &c., ag a welir yn briodol gan eu Pwyllgorau, er cadw y cyfrifon a'r cofnodau, ac er dwyn ymlaen yr holl waith yn rhwydd ac effeithiol.

## XIII. TROSEDDAU.

Os bydd i unrhyw aelod o'r Eisteddfod gyflawni trosedd fyddo yn ei wneyd yn annheilwng o gael ei restru ymhlith llenorion ei wlad a'i genedl, bydd i'r Pwyllgor Llennyddol gymeryd sylw o'r cyfryw yn ei adroddiad blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod, ac argymhell fod i enw y cyfryw berson gael ei dynu allan o'r cofrestr-lyfr, ond ni fydd y diarddeliad hwn mewn grym nac i'w gofnodi yn y cofrestr-lyfr hyd nes y byddo wedi ei gadarnhau gan Gyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod.

## XIV. CADARNHAD Y CYFANSODDIAD.

Bydd i'r cyfansoddiad hwn gael ei basio mewn cyfarfod rheolaidd o feirdd, llenorion, cerddorion, ac arweddwy'r yr Eisteddfod mewn un Eisteddfod, ac yna gadewir ef dan ystyriaeth hyd Eisteddfod ddilynol, pryd y gellir dwyn i mewn ddiwygiadau a gwelliantau arno. Wedi ei ddiwygio felly, gellir ei gadarnhau yn ffurfiol a rheolaidd, ac ar ol hyny bydd mewn grym.

## XV. GWELLIANT AR Y CYFANSODDIAD.

Ar ol i'r Cyfansoddiad hwn gael ei gadarnhau a dyfod i rym, gellir cynnyg unrhyw welliant arno mewn cyfarfod adranol neu Gyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod, pryd y gadewir ef dan ystyriaeth am flyyddyn, ac os pesir y gwelliant yn yr un cyfarfod ymhen blwyddyn, ers am flyyddyn ymhellach i'w benderfynu yn derfynol yn Nghyfarfod Cyffredinol Aelodau yr Eisteddfod.

---

Ni fuasai neb synwrol yn tybied fod brasgynllun o'r fath yma yn berffaith, a'i fod i'w gadw yn ei gyfanrwydd heb unrhyw welliant arno. Gwelir ein bod wedi rhoddi darpariaeth yn Erthygl XIV. nad ydyw i ddyfod i rym heb gyfleusdra teg i'w wella. Ar yr un pryd, yr ydym wedi ei wneyd mor gyfan a chyflawn ag y gallem ni, ac nid ydym wedi rhoddi un frawddeg i mewn heb ein bod yn tybied fod rhesymau digonol drosti. Y mae hyn yn debyg i wneyd mesur Seneddol; gwneir hwnw yn gyflawn a chyfunol mor berffaith ag y gellir, eto y mae yn agored i gael ei ddiwygio yn ol fel y bydd y Senedd yn gweled yn angenrheidiol.

Bron nad ydym yn gallu dychymygu ymlaen llaw rai o'r gwrthdadauon a godir yn ei erbyn. Un ydyw, ei fod yn cynnwys gormod o fanylion, ac y buasai yn well cymeryd ychydig o egwyddorion cyffredinol. Pe buasem yn cychwyn sefydliad newydd, buasem yn addef mai felly y buasai oreu, am mai yn raddol y galleisid gweled pa fodd y buasai yn ymfurfio yn ngwyneb amgylchiadau; ond y mae yr Eisteddfod yn bur agos yn ei ffurf bresennol wedi cael triugain mlynedd o brofiad, ac y mae y profiad hwnw yn ein galluogi i wneyd y Cyfansod-

iad yn gyflawn. Heblaw hyny, buasai ychydig o reolau cyffredinol, o angenrheidrwydd yn amhenodol, ond y mae eisieu i Gyfansoddiad cyflawn gynnwys darpariaeth ar gyfer yr holl amgylchiadau, ond heb fod yn rhy anystwyth. Gwrthddadl gyferbyniol ydyw, nad yw yn cynnwys digon o fanylion, megys, er esiampl, destunau arholiadau y Beirdd, &c., nifer yr adranau, &c.; ac fe ddichon y teimla rhai nad yw yn cyfnewid a diwygio amryw bethau ag y mae eisieu hyny. Ond y mae manylion felly yn bethau cyfnewidiol, tra y mae Cyfansoddiad i fod yn lled sefydlog. Ac yr ydym wedi ceisio ymafnyd yn yr Eisteddfod fel y mae, nid yn hollol hwyrach fel y dylai fod, gan gymeryd yr hyn *sydd* yn sylfaen; ac yn ol y Cyfansoddiad gellir ei diwygio i'r hyn ddylai fod, ac i'r cyfnewidiad hwnw fod yn raddol, pwylllog, a diogel. Ac wrth adeiladu ar sylfaen fel hyn, fe welir wrth fyned ymlaen bob cam pa le yr ydys yn sefyll. Y mae y pethau newydd a ddygwyd i mewn, yn cael eu rhoi fel yn angenrheidiol i wneyd y cwbl yn gyflawn a chyfunol. Gwrthddadl fwy grymus, fe allai, a gyfyd, yw fod y berthynas rhwng y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol a'r Pwyllgor Lleol yn rhy gaeth, a'r rheolau yn rhy dŷnion. Y mae hyn wedi cael ystyriaeth bwyllog, a thra nad ydym yn rhwymo hanfod y Cyfansoddiad wrth bob manylion, eto yr ydym yn credu fod eisieu i'r berthynas hon gael ei hegluro yn oleu, fel na byddo dim camgymeriad na thafiu y cyfrifoldeb oddiwrth y naill i'r llall. Y mae gallu cadw y telerau a'r berthynas yn dibynu ar ba faint o nerth fydd yn y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol, a pha faint o fraint fydd yn ei allu i'w roi ar yr Eisteddfod. Os bydd yn gryf ac effeithiol, bydd ei ddylanwad yn rymus, a da fydd fod deffiniad manwl o'r terfynau; os na bydd felly, ni bydd yn gallu rhoddi grym yn y telerau. Gwelir mai y Pwyllgor hwn sydd yn cynnrychioli y genedl i edrych ar fod yr holl Eisteddfod yn cael ei dwyn ymlaen yn deilwng; ac i ochel y pethau anfodddhaol sydd wedi bod mewn adegau a basiodd, ac i gyflawni yr oruchwyliaeth hon, mae yn rhaid iddo gael ei osod mewn safle a'i galluoga i wneyd y gwaith yn effeithiol. Nid yw ond oferedd iddo gael ei ethol i hyn, a gorfod dyweyd nad oes ganddo lywodraeth ar yr amgylchiadau; rhaid rhoddi y llywodraeth iddo.

Gallai rhai, hwyrach, dybied y buasai yn well gwneyd un cyfangorff, ac nid rhanu y gwaith rhwng tri phwyllgor. Yn hyn hefyd yr ydym wedi cychwyn gyda'r sefyllfa bresennol, ac hyd yn nod pe gwneid ond un cyfangorff cenedlaethol, byddai yn rhaid i hwnw ddewis is-bwyllgorau, rywbeth yn debyg, i wneyd y gwaith. Y Pwyllgor Lleol sydd hyd yn hyn wedi dwyn ymlaen bron yr holl waith. Y mae Pwyllgor Cymdeithas yr Eisteddfod Cenedlaethol yn dyfod yn bur agos i'r hyn fyddai y Pwyllgor Gweithiol Cenedlaethol; y cwbl yr ydym ni yn ei wneyd ydyw ei ddwyn i mewn i Gyfansoddiad yr Eisteddfod, fel y gallo fod yn awdurdodedig a rheolaidd, ac nid yn ymyrwr o'r tu allan, a darnodi ei safle. Y mae y gwaith a roddir i'r Pwyllgor Llenyddol hyd yn hyn i raddau hollol yn cael ei esgeuluso. Y mae yr arholiadau, cyfarfodydd y Beirdd, a'r Orsedd, yn hollol anhrefnus, ac yn ein bryd ni dyma y rhan ddylai fod yn oreu, yn fwyaf dylanwadol a phwysig o'r holl Eisteddfod. Nid oes neb yn teimlo ei fod yn gyfrifol am y pethau hyn, ac y mae yma ddigon o waith i Bwyllgor neillduol i'w wneyd, a'r rhai

cymhwys ato ydyw llenorion blaenaf y genedl. Canolbwynt yr Eisteddfod, fel y gwelir, yw Cyfarfod Cyffredinol yr Aelodau—y Beirdd, y Llenorion, a'r Tanysgrifwyr; yma y mae yr awdurdod yn terfynu, ac y mae pob Pwyllgor yn ddarostyngedig i hwn; dyma yr etholiadaeth fydd yn rhoi barn derfynol. Pa fodd i gael hyd i aelodau priodol y cyfarfod pwysig hwn sydd bwne dyrys; yr ydym wedi ceisio cyfeirio y ffordd drwyddo. Y pwnc mwyaf anhawdd i'r Pwyllgor Llenyddol, ar y dechreu, fydd penderfynu pwy sydd eisoes yn feirdd, llenorion, a cherddorion cydnabyddedig i gychwyn; ond fe lwyddai y Pwyllgor, yr ydym yn credu, i gael dosbarth a threfn ar hyn. Ac y mae yn hen bryd cael ymwardd o ryw ddosbarth disynwyr a bombastaidd, mwy na hanner meddwon, sydd yn ymgyfenwi ar enw Beirdd, ac yn siarad baldordd yn y cyfarfodydd nes llawn syrffedu gwŷr goreu y wlad, a dwyn gwarth ar enw yr Eisteddfod Genedlaethol. Credwn y daw y cyfarfodydd hyn i fri a grym, ac y bydd eu hymdriniaethau yn cario dylanwad cryf er dyrchafu a llesâu y genedl. Yr ydym braidd yn hoffi y syniad o gynnal Eisteddfod ambell i flwyddyn heb y rhan gystadleuol a'r cyngherddau. Ni fyddai y gost o hyny ond cymhariaethol fychan, a phe dygwyddai amgylchiadau fod yn isel, neu i Bwyllgor ddigaloni fel y gwnaeth un Treffynnon ddwy flynedd yn ol, ni byddai eisieu i un flwyddyn basio heb Eisteddfod Genedlaethol yn llawn ystyr y gair.

Bellach yr ydym yn gadael y brasgynllun hwn i sylw ein cydwladwyr, dan yr argyhoeddiad mai un o'r camrau cyntaf tuag at ddiwygiad effeithiol a pharhâus yw cael Cyfansoddiad rheolaidd a threfnus; ac o gael dosbarth a threfn fel hyn y daw yr Eisteddfod Genedlaethol lawer yn uwch i fri, ac yn foddion llawer mwy grymus a dylanwadol er daioni, yn sefydliad y gallwn fel cenedl ymfrostio ynddo, ac yn un fydd yn anrhydedd a gogoniant i'n gwlad a'n cenedl am oesau lawer.

*Llanrug.*

J. EIDDON JONES.

---

## JOHN WESLEY.

*John Wesley: Ei Fywyl yd a'i Lafur.* Gan JOHN EVANS (Eglwysbach). Treffynnon: Argraffwyd (dros yr Awdwr) gan P. M. Evans a'i Fab. 1880.

YN marn Tyerman, "Methodistiaeth yw y ffaith fwyaf yn hanes eglwys Crist;" ac yn marn Mr. Aubrey, "John Wesley oedd y gelyn mwyaf a gyfarfyddodd y diafol er dyddiau yr Apostol Paul." Ac y mae yn debyg yr awgrymir syniadau cyffelyb i lawer o feddyliau trwy weithrediadau y Gynadledd Gyffredinol o holl Fethodistiaid Wesleyaidd y byd, fydd wedi terfynu cyn y daw y llinellau hyn i ddwyllaw ein



darllenwyr; tra y mae yn cael ei wawdio fel gormodiath afresymol ac anesgusodol gan Mark Pattison ac eraill. Nid rhaid, pa fodd bynag, ond wrth y sylw mwyaŷ arwynebol i ganfod pwysigrwydd Methodistiaeth, a phwysigrwydd y diwygiad o ba un y tarddodd. Mae yr amcan-gyfrif gan Tyerman o nifer yr aelodau perthynol i'r gwahanol gyfundebau Methodistiaidd, dybygem, yn eithaf rhesymol, sef 12,103,979. Yn yr *Edinburgh Review* am Gorphenaf diweddaŷ, y mae ysgrifenydd galluog ac anhleidgar yn eu gosod i lawr yn bedair miliwn ar bymtheg. Ac y mae yr un ysgrifenydd yn gosod i lawr eu meddiannau eglwysig trwy y byd yn werth pum' miliwn ar hugain o bunnau, tra nad yw y cyfraniadau blynyddol at amcanion Methodistiaidd yn unig yn ddim llai na deng miliwn o bunnau. Ac fel y dangosir yn y gwaith uchod, nid ydyw dylanwad bywyd Wesley yn gyfyngedig i'r cyfundebau sydd ar ei enw. Ond y mae pwysigrwydd y rhai hyn yn y byd Protestanaidd yn ddigon i roddi arbenigrwydd ar fywyd eu Sylfaenydd, yn annibynol ar bob dylanwadau y tu allan iddynt sydd yn ddyledus iddo am eu cychwyniad. Nis gallem lai na theimlo cywreinrwydd cryf am feddu pob gwybodaeth ddichonadwy am y gŵr ag y mae cynifer o filiynau o grefyddwyr yn ymfrostio mewn bod yn ganlynwyr iddo, hyd yn nod pe methem, wedi ei adnabod, ddeall gweithrediad Rhagluniaeth Ddwyfol yn ei osod yn y fath le. Ond nid felly y mae yn ei achos ef. Fel y sylwai Deon Stanley (yr hwn y mae yr holl fyd Cristionogol yn galaru am dano ar ei farwolaeth annysgwylhedig) mewn darlith ar John Wesley, y mae ef yn wahanol i sefydlwyr cyfundebau crefyddol yn gyffredin. "Edrycher ar Robert Brown, sylfaenydd yr Annibynwyr; John Spilsbury, sylfaenydd y Bedyddwyr; John Biddle, yr Undodwr Seisonig cyntaf; ac hyd yn nod George Fox, sylfaenydd y Crynwyr, nid ydynt ond cymharol fychain yn ymyl rhai o'u dysgyblion; ond fel Francis o Assisi, fel Dominic, fel Ignatius Loyola, yr oedd John Wesley yn anghymharol fwy na neb sydd wedi galw eu hunain yn ganlynwyr iddo." Ac y mae yn ammheus a oes rhyw gymeriad cyhoeddus mewn unrhyw gylch wedi cael mwy, os cynifer, o fywgraffiadau. Mor lliosog ydynt fel y mae yn gwbl sicr, yn enwedig ar ol gweithiau dyhysbyddol Tyerman, na ddeuir o hyd i unrhyw ffaith newydd yn ei hanes; ac eto nid ymddengys fod y bywgraffiad safonol wedi ei ysgrifenu hyd yma. Mae y defnyddiau wedi eu chwilio allan i berffeithrwydd, ond nid ydynt wedi eu gosod ynghyd yn y fath fodd fel ag i foddhâu y rhai sydd wedi gwneyd John Wesley a'i waith yn hoff efrydiaeth eu bywyd.

Ond er y cyflawnder o Fywgraffiadau Seisonig, nid oedd cymaint ag un yn Gymraeg cyn cyhoeddiad y gwaith uchod. Wrth ystyried brwdfrydedd y Wesleyaid Cymreig am y pedwar ugain mlynedd diweddaŷ, y mae hyn yn eithaf hynod; ond nid yw y diffyg yn achos gofid, o leiaf os buasai iddo sefyll ar fordd y Bywgraffiad hwn. Tra manteisiol yn ddiau ydyw ymddangosiad y gwaith hwn ar adeg pan y mae pob defnyddiau angenrheidiol yn barod wrth law, a chan awdwr sydd wedi ymgynabyddu trwy flynyddoedd o efrydiaeth fanwl & hwynt oll, yn gystal a thrwy ymweliadau personol â braidd bob lle o ddyddordeb neillduol mewn cysylltiad â hanes Wesley, yn llawn edmygedd o hono, ac yn cyfranogi yn helaeth o frwdfrydedd ei ysbryd a'i ymroddiad

diffino i lafur yn yr efengyl. Erbyn hyn y mae gan y Cymro uniaith Fywgraffiad o John Wesley sydd ar lawer cyfrif yn rhagori yn unrhwy fywgraffiad o fewn terfynau cyffelyb ag sydd yn meddiant ei frodyr Seisonig. Nid ydym yn ymgymeryd â dywedyd pa mor bell y mae yn llanw y diffyg am y Cofiant Safonol y cyfeiriwyd ato uchod; ond gallwn ddywedyd fod Mr. Evans yn ei ysgrifenu gyda'r *ideal* o flaen ei feddwl, ac yn ei osod ynghyd yn ol yr egwyddorion sydd yn rhwym o gael eu dilyn gan awdwr y Cofiant hwnw, pa bryd bynag y gwnelo ei ymddangosiad. Nis galleid cynnwys o fewn cwrpas mor fychan yr holl ffeithiau a geir yn nghyfrolau trwchus Tyerman; ond y mae ymadawriad â'r drefn amseryddol wedi galluogi yr awdwr i grynhoi ynghyd ffeithiau yn ol egwyddorion mwy pwysig, fel ag i osod darlun cywir, cyflawn, a ffyddlawn o'r gwrthddrych mewn cylch llawer llai. Nid ydym yn ysgrifenu y sylwadau hyn er mwyn nodi unrhyw ddiffygion neu frychau a ymddangosant ar y gwaith. Ein hamcan fydd galw sylw at ei brif nodweddau, er mwyn ei gymhell yn daer i sylw darllenywyr Cymreig; ond goddefer i ni yn y fan hon grybwyll y buasem yn foddolawn i fod heb lawer o'r manylion ynghylch gwahanol aelodau y teulu yn nechreu y gwaith, er mor ddyddorol ydynt, er mwyn cael sylw teilwng ar bethau pwysicach a adewir allan, neu ynte y rhoddid iddynt lai o le nag a haeddant tua'i ddiwedd. Nid yw y bennod ar "Ei Olygiadau Athrawiaethol a'i Ddadleuon" ond prin wyth tu dalen; yn wir, nid oes air yn hono ar ei ddadleuon, ond esgusawd dros eu gadael heb un cyfeiriad pellach atynt. Mae yn amlwg fod rhanau blaenaf y gwaith wedi chwyddo i'r fath faintioli dan ddwyllaw yr awdwr, fel yr oedd yn rhaid gadael y pennodau olaf heb eu gweithio allan fel y teilyngent, neu ynte chwyddo y gwaith tu hwnt i'r terfynau rhagosodedig. A gwelw fuaasai genym ni ychwanegu rhifyn arall er mwyn diogelu cyfartaledd priodol i wahanol ranau y gwaith.

Ond heb unrhyw sylwadau pellach, ceisiwn osod i lawr nifer o'r prif ffeithiau yn mywyd Wesley, gan obeithio y bydd iddynt dueddu lliaws o'n darllenywyr i bwrcasu a darllen y llyfr drostynt eu hunain.

Yr oedd enwogrwydd neillduol yn perthyn i'w deulu o du ei dad a'i fam. Tybyg-em fod rhediad cyffredin ffeithiau yn cynnal y syniad mai y rheol yw, fod dynion mawr byd ac eglwys yn deilliaw o gyffion sydd mewn rhyw gyfeiriad, neu mewn rhyw engraffau neillduol, wedi profi eu huwchraddoldeb; ac nid yn anfynych y gellir olrhain rhai o brif linellau tueddfryd a gweddnod feddyliol dynion, yn gystal a'u pryd a'u gwedd, i weddod ac anianawd rhyw un neu ychwaneg o'u hynafiaid. Yr ydym yn meddwl fod hyn yn wirionedd yn ei berthynas â'r Parch. John Wesley, A. C.,—yr oedd linellau difwlch o hynafiaid, oll yn foneddwy, ysgoleigion, dau-nyddion, ac yn Gristionogion dysglaer a chydwybodol, yn cydgyfarfod yn nheulu Epworth, ar ochr y tad a'r fam.

Yr oedd ei hen daid, Bartholemew Wesley,—cansy felly y sillebid yr enw hyd ymadawriad Samuel Wesley, tad John Wesley, o Rydychain yn 1688,—yn un o'r clerigwyr a ddyoddefasant trwy Ddeddf Unffurfiaeth dan deyrnasiad Siarl II.

Derbyniodd Bartholemew Wesley phiol lawn o flinder yr amseroedd hyny; cansy hwrwyd ef allan fel "*Intruder*" o blwyf Charmouth, yn fuan ar ol adferiad Siarl II., Mawrth 2, 1662—bum' mis cyn y diwrnod tywyll du a elwir ar enw Sant o'r un enw ag ef. Ac ymddengys iddo gollu bywiolaeth Catheston ar y 24ain o Awst y flwyddyn hono, a hyny o herwydd ei Anghydfurfiaeth. Ac nid dyna y cwbl, oblegid yn lled

huan ar ol hyn cymhwyswyd ato "gyfraith y pum' milldir," fel ei gelwid, yr hon oedd yn gwahardd i Anghydfurfiwr drigianau o fewn pum' milldir at unrhyw dref gorfforedig, neu i'r lle y buasai unwaith ynddo yn gweinidogaethu.

Un mab a fu i Bartholomew Westley, sef John, yr hwn oedd taid gwrthddrych y Cofiant. Graddiodd ef yn Rhydychain yn amser Oliver Cromwell, pan oedd Dr. Owen yn Is-Ganghellydd y Brifysgol. Adeg nodedig oedd hon yn hanes Rhydychain. Heblaw Dr. Owen, yr oedd yno y pryd hwn Dr. Thomas Goodwin, Stephen Charnock, John Howe, ac eraill o gyffelyb feddwl. Ac ymysg cydefrydwyr John Westley yr oedd William Penn, Philip Henry, Robert South, Christopher Wren, Joseph Alleine, ac eraill.

Bwriwyd ef ymhlith côr ardderchog y "Ddwy Fil" o'i fywiolaeth i dlodi ac anharch; ac oni bae am gareidigrwydd boneddwr na wyddys ei enw yn rhoddi ei dŷ yn Preston iddo yn ddiardreth, mae yn anhawdd dyfalu pa beth a ddaethai o hono ef a'i deulu. Bu arno awydd fwy nag unwaith i fyned yn genadwr i America Ddeheuol, gan na chaniateid iddo bregethu yr efengyl gartref; eithr lluddiwyd ef gan wasgfa amgylchiadau i gario allan ei amcan. Bu yn cadw ysgol mewn trefu i ennill moddion cynnalïaeth i'w deulu, a phregethai amlaf y gallai mewn lleoedd dirgel, yr hyn a'i darostyngodd i erlidigaethau a thrallodion lawer gwaith: efe a garcharwyd o achos hyn bedair gwaith, a dyoddefodd anharch ac anhunedd fwy na mwy. O'r diwedd ymollyngodd ei iechyd, er gofid dirfawr i'w dad, Bartholomew Westley, a bu farw yn 1678, yn ŵr 42 oed. Dywedir fod yr amgylchiad wedi tori calon ei dad, ac mai buan y disgynodd yr hynafgwr parchedig mewn tristwch a phenwyni, ar ol ei fab erlidiedig i'r bedd.

Yn y John Westley hwn y mae amryw o'r prif nodweddion yn John Wesley ei ŵyr yn gwneyd eu hymddangosiad.

Pregethwr lleygol, heb gael ei ordeinio gan yr esgob, oedd y taid, ac yn llafurio gan mwyaf fel efengilydd amdeithiol; ac mor amlwg ydyw y ddau beth yma yn hanes codiad, ac yn nghyfundrefniad y Fethodïaeth a sefydlodd yr ŵyr. "Dawn, gras, a firwyth," oedd y cymhwysderau gofynol i waith y weinidogaeth yn syniadau y taid, fel y dengys natur ei tebion i Esgob Bristol; ac y mae yn hysbys i lawer o'n darllenwyr mai y "tri hyn" a gyfansoddent y prif safon i'r cylch gweinidogaethol a sefydlodd yr ŵyr yn nhrefn Wesleyaeth hyd y dydd heddyw. Yr ysbyrd cenadol a goloddai y taid a ddaw i'r golwg yn hynt genadol yr ŵyr i drefedigaeth Georgia, ac a ddadblygodd ar raddfa a fuasai yn mawr lawenhâu y ddau yn llafur Dr. Coke, y Cymro twymngalon, ac yn sefydliad a gweithrediadau y Gymdeithas Genadol Dramor Wesleyaidd. A dian na ddylid colli golwg ar yrfa a Chyfundeb yr ŵyr, fel y maent yn weithiad allan ffyddlawm ac ymarferol o'r golygiadau a'r ysbyrd oedd mor anwyl gan, ac mor amlwg yn nghymeriad a hanes yr efengilydd teithiol a addysgwyd yn Rhydychain, fu byw y tu allan i gyloch esgobyddiaeth, ac a fu farw dan orthrymderau yr erlidigaeth a'i goddiweddasai yn herwydd ei anghydfurfiacth gydwybodol a llwyr oddiwirrh ddefodau Uchel-Eglwysyddiaeth. A phan ddeallir fod John Westley yr ŵyr wedi hen ymsefydlu ar ei yrfa, ac fod prif egwyddorion Trefnyddiaeth wedi cael eu mabwysiadu ganddo cyn iddo gael gafael yn Nyddylyr John Westley ei daid, na gwybod nemawr o'i hanes ef na'r daliadau a goleddai, fe welir fod y cyd-darawiad nodedig a grybwyllwyd yn fwy o effaith cyffelybrwydd amianawd, cymeriad, ac amcan, dan ddyllanwad amgylchiadau rhacluniaethol, nag o ymgais ar du yr ŵyr i efelychu credo na gyrfa bywyd yr enwocaf o'i hynafiaid.

Mab i'r John Westley uchod oedd Samuel, tad sylfaenydd Wesleyaeth; a ganwyd ef ymhen pedwar mis ar ol dydd Sant Bartholomew, 1662. Bu farw ei dad pan nad oedd ond prin 16 mlwydd oed. Pan oedd yn 21 mlwydd oed cefnodd ar Anghydfurfiacth, ac aeth i Brifysgol Rhydychain. Mae cryn lawer wedi ei ysgrifenu gyda golwg ar y rheswm neu y rhesymau dros y cam hwn o'i eiddo. Yn ol y cyfrif a roddir gan ei

fab John, yr ydoedd yn firwyth argyhoeddiad a gynnyrchwyd gan gŵr o ddarlleniadaeth yr aeth drwyddo gydag amcan cwbl wahanol, sef i wneyd atebiad i ymosodiadau ar yr Anghyddfurfwyr. Crybwylla Mr. Evans sylw o'i eiddo ef ei hun fod Dr. Owen yn awyddus iddo ef ac eraill o'i gydefrydwyr Anghyddfurfiol gymeryd eu graddau yn y Prifysgolion heb gymeryd y llwon, gan ddysgwyl am y chwyldroad a gymerodd le yn 1688. Mae llawer o ddyfaliadau eraill; ond yr hyn sydd bellach o'r pwys mwyaf gyda golwg ar yr amgylchiad ydyw yr hyn a geir yn y dyfyniad canlynol:—

Mae hyn yn sicr, ei fod ef yn berffaith gydwybodol yn yr holl drafodaeth hon, fel mewn ambell ymddygiad byrbwyll, os nad annoeth, arall o'i eiddo yn ystod ei oes. Dywed ef ei hun yn benderfynol nad sefyllfa ddyoddefus yr Anghyddfurfwyr oedd achos ei ymadawiad â hwynt; a hawdd yw ei gredu, oblegid yr oedd arweinwyr Ymneillduaeth yn edrych ymlaen yn hyderus am ddyddiau gwell er ys peth amser cyn i'r chwyldroad gymeryd lle, ac yn dysgwyl llawer mwy o fanteision nag a gawsant trwy goroniad Tywysog Orange; ac y mae yn sicr fod Samuel Wesley yn cyfranogi yn y dysgwyliadau hyn. Ymhellach, yr oedd ef trwy adael Anghyddfurfiaeth yn florffedio y rhoddion a'r cymhorth a dderbyniasai er ys blynyddau gan hen gyfeillion ac edmygwyr ei dad, ac yn wynebu ar faes hollol newydd gyda llogell wag, heb gymaint âg un cydnabod na châr ag y gallasai ddysgwyl y cymhorth arianol lleiaf oddiwrttho.

Cafodd urddau diacon yn Eglwys Loeegr yn 1688, ac urddau offeiriad yn 1689. Dechreuodd gyda churadiaeth yn Llundain yn werth £28 yn y flwyddyn. Ymhen y flwyddyn penodwyd ef yn gaplan ar fwrdd llong ryfel am gyflog o £70. Ac ymhen blwyddyn arall cymerodd guradiaeth drachefn yn Llundain am gyflog o £30 yn y flwyddyn. Daliodd hi am ddwy flynedd, a chan iddo ennill hefyd £30 y flwyddyn olaf trwy ei lafur llenyddol, barnodd nad rhyfygus fyddai iddo gymeryd gwraig. Trwy ddylanwad Ardalydd Normanby cafodd fywiolaeth fechan South Ormsby, yn Lincoln, ac yn 1697 ymsefydlodd yn Epworth, lle y gadawyd ef, er ei ddysg a'i deilyngdod uchel, i dreulio ei fywyd helbulus hyd ei farwolaeth yn 1735. Gŵr o alluoedd uchel ydoedd, o ddysegeidiaeth helaeth, yn arbenig yn yr ieithoedd Dwyreiniol, ac o ymroddiad anarferol; ac y mae yn resyn meddwl am y trafferthion a'r helbulon aneirif yr aeth trwyddynt gyda'i deulu lliosog yn mhlwyf Epworth. Mae Mr. Evans wedi eu cyfleu yn deg o flaen ei ddarllenwyr, heb wneuthur, yn ein tyb ni, ddim tu hwnt i'r hyn oedd ddyledus i onestrwydd diammheuol Samuel Wesley er amddiffyniad i'w gymeriad.

Merch ydoedd Susanah Wesley i'r Parch. Samuel Annesley, LL.D., yr hwn oedd o deulu pendefigaidd,—ei dad yn gefnder i Iarll Môn. Addysgwyd ef yn Rhydychain, ac ordeiniwyd ef yn weinidog, mae yn debyg, yn ol y ffurf Bresbyteraidd, yn 1643 neu 1644. Yn 1658 cafodd fywiolaeth gyfoethog St. Giles, Cripplegate, Llundain, oedd yn werth £700 yn y flwyddyn. Tafwyd yntau allan ymysg y "Ddwy Fil." Fel hyn gwelir fod taid a hen daid John Wesley o ochr ei dad, a'i daid o ochr ei fam, yn perthyn i fyntai anrhydeddus y "Ddwy Fil."

John White oedd enw tad mam Samuel Wesley, Ficer Epworth; a John White hefyd oedd enw tad mam Susanah Wesley, gwraig y Ficer. Gweinidog yr efengyl oedd y naill, sef taid Samuel Wesley, a adwaenid dan yr enwad hybârch "Patriarch"

Dorchester ;” ond cyfreithiwr—gweinidog y ddeddf—oedd y llall, sef taid Susanah Wesley. Yr oedd y ddau John White . . . yn aelodau o Gymanfa Duwinyddion Westminster, yn Buritaniaid o'r radd flaenaf, ac yn dal safleoedd pwysig, y naill yn yr Eglwys, a'r llall yn y Wladwriaeth.

Gwraig anghyffredin ydoedd Mrs. Susanah Wesley, a hawdd fyddai ysgrifenu yn helaeth ar ei chymeriad. Ni chyfeiriwn ond at un neu ddau o bethau, ac at y rhai hyny o herwydd ymddangosiad yr un nod-weddau yn nghymeriad ei mab ac yn nghyfansoddiad y Cyfundeb a ddygwyd i fodolaeth ganddo.

Yn absenoldeb ei phriod yn y Confocasiwn, a phan nad oedd gwasanaeth prydawnol yn yr Eglwys ar y Sabbothau, dechreuodd Mrs. Wesley weddio gyda'i theulu liosog, a darllen pregeth iddynt, a dwyn ymlaen wedi hyny ymddyddanion crefyddol. Yn ddamweiniol daeth rhai o'r plwyfolion i mewn ar adeg yr addoliad teuluaid hwn, a chan na farnai fod hyny yn rheswm dros ei roddi heibio, aeth ymlaen gydag ef fel arferol. Y canlyniad fu i eraill ddyfod nes y chwyddodd y gynulleidfa i ddau gant o nifer. Daeth Mr. Wesley i wybod am y cynnulliadau, ac y mae yr ohebiaeth rhwng y gŵr a'r wraig mewn canlyniad yn wir ddyddorol. Ymddangosai ei hymddygiad yn *hynod*, meddai Mr. Wesley. “Eithaf gwir,” meddai Mrs. W., “ac felly y gwna pob peth difrifol, neu a allo mewn un modd ddwyn gogoniant i Dduw, neu iachawdwriaeth i eneidiau, os gwneir ef allan o'r pulpud neu mewn ymddyddan cyffredin; oblegid yn yr oes lygredig hon arferir y gofal a'r diwydrwydd mwyaf i alltudio pob ymddyddan am Dduw, neu am bethau ysbrydol, allan o gymdeithas, megys pe na byddai crefydd byth i ymddangos y tu allan i'r ystafell ddirgel, ac na ddylem gywilyddio o ddim yn gymaint ag o addef ein hunain yn Gristionogion.” Ac mewn tŷon gyffelyb yr atebai ei holl wrthddadleuon. Ysgrifennodd y Curad ato i gwyno fod y Ficerdy wedi ei droi gan ei wraig yn “dŷ cwrdd,” ac ysgrifennodd ail lythyr llawer cryfach na'r cyntaf. Wedi rhai dyddiau o ystyriaeth cyn ei ateb, y mae yn diweddu ei llythyr fel y canlyn :—

If you do, after all, think fit to dissolve this assembly, do not tell me that you *desire* me to do it, for that will not satisfy my conscience; but send me your *positive command*, in such full and express terms as may absolve me from guilt and punishment for neglecting this opportunity of doing good, when you and I shall appear before the great and awful tribunal of our Lord Jesus Christ.

Er ei glod, ni chododd ei phriod un gwrthwynebiad pellach iddi. Gobeithio iddo ynddo ei hun gywilyddio am ei wrthwynebiad blaenorol. Nid annatoriol yw tybio, gyda Julia Wedgwood, i'r cynnulliadau hyn adael argraff ddofn ar feddwl tyner ac ieuanc John Wesley. Onid yr un peth, yn ei ddull ei hun, a wnaeth yntau yn waith mawr ei fywyd?

Rhaid crybwyll yn fyr hefyd am ddysgyblaeth deuluaid Mrs. Wesley :—

Mor fuan ag y genid y plant i'r byd, gosodid hwynt dan ddeddf, a rheoleiddid eu holl anghenion mewn cysondeb a rheol anhyblyg. Trefnid eu cwsig felly, pan yn fabanod. Gosodid hwynt yn y cryd, a chyfodid hwynt allan o hono ar awr benodol, a gwneid y naill a'r llall yn gywir yn yr adeg; ac yr oedd ganddi gynllun yn ol yr hwn y byrheid amser eu cwsig yn raddol fel y cynnyddent mewn oedran. Pan gyrhaeddai y plentyn ei flwydd oed, gosodid arno arswyd y wialen, ac ni chaniateid iddo

o hyny allan i grio ond yn unig mewn ocheneidiau dystaw, fel nad oedd y fath beth a nadau uchel plant i'w clywed yn y Persondy. Mor fuan ag y tyfent yn weddol gryffon, gosodid hwynt dan ddeddfau diwyro gyda golwg ar ymborth. Cyfyngid hwynt i dri phryd yn y dydd, ac nid oedd bwyta rhwng y prydiau un amser yn cael ei ganiatáu ond mewn achosion o afiechyd. A phorthid hwynt, gan mwyaf, â bwyd llwy, ac wedi eu dysgu i hyny, bwytaent bob peth a osodid ger eu bronau. Mor gynted ag y gallent ddefnyddio cyllell a fflore, cymerent eu seddau wrth y bwrdd teuluol. Gwaherddid iddynt i ofyn yn uchel am ddim wrth y bwrdd, ond i sibwrdd eu hanghenion wrth y forwyn a weinyddai arnynt, yr hon a gludai eu cais i'r fam. Yn ddioced ar ol swper cynnar parotoid hwynt i'w gwelyau, ac am wyth o'r gloch yn gywir gadewid hwynt yn effro yn eu hystafelloedd, canys un o reolau y tŷ ydoedd, "nad oedd neb i eistedd wrth erchwyn gwely plentyn hyd nes cysgai." Dysgid Gweili yr Arglwydd i bob un o honynt mor gynted ag y medrai siarad, ac adroddid hi ganddynt hwy a boren. Cymerid pob gofal i'w dysgu i barchu a bod yn garedig i'w gilydd, ac nid oeddnt i gyfarch y naill y llall ond yn y geiriau mwyaf parchus ac anwyl. Treulid chwe' awr bob dydd yn yr ysgol; ac yr oedd siarad uchel, chwarae neu reddeg allan heb ganiatâd ar yr oriau hyny, yn gwbl waharddedig. Ni ddysgwyd yr un o honynt ond Kessiah i ddarllen hyd nes cyrhaeddent bump oed, ac yna dysgwyd iddynt feistrol y wyddor mewn un diwrnod, yr hyn a wnaethant oll namn Mary ac Anne—buont hwy ddiwrnod a hanner yn cyflawni y dasg. Cenid Salmau wrth agor a therfynu yr ysgol; a chymerai y plant hynaf un o'r rhai ieuengaf gyda hwy i ddarllen ynghyd gyfran o'r Bibl, ac yna i ymneillduo i gyflawni eu defostynau dirgelaidd. Yn yr holl bethau hyn, ymgais Mrs. Wesley oedd plygu ewyllys y plentyn, a'i ddyysgu o'i febyd i ufuddhâu i gyfraith y tŷ. Golygai hyny yn angenrheidiol tuag at gadw llywodraeth deuluol, a'r parotoad goreu yn bosibl ar feddwl y plentyn i dderbyn addysg grefyddol. Dilynid y parotoad yma gydag ymdrechion ueillduol, nid yn unig i gyfrau addysg elfenol dda, ond hefyd i'w dwyn i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Cymerai y fam boen a mawr ofal calon i gyrhaedd yr amcan olaf. Eglurai iddynt athrawiaethau a dyledswyddau crefydd, a threuliai gyfran o amser unwaith yn yr wythnos gyda phob plentyn wrtho ei hun am fater ei enaid. "Dydd Llun," ysgrifena Mrs. Wesley, "yr wyf yn siarad gyda Molly; ddydd Mawrth gyda Hetty; ddydd Mercher gyda Nancy; ddydd Iau gyda Jacky; ddydd Gwener gyda Patty; ddydd Sadwrn gyda Charles; a chydâ Sukey ac Emilia ynghyd ar y Sabboth."

Nid rhyfedd oedd i un wedi bod dan ddeddfau fel hyn ddyfod i ymddiried mewn deddfau, ac i fod yn enwog fel deddfwr. Ac megys deddfau y Ficerdy, felly deddfau y Cyfundeb,—deddfau i'w cadw oeddnt. Gall y Methodistiaid Calfinaidd *wneyd* deddfau yn lled wych, ond eu *cadw*, nid ydynt yn medru arno. Ac onid ydym yn gwelw yn yr ymddyddanion personol hyn rhwng y fam a'i phlant ar eu penau eu hunain yr hedyn o ba un y tyfodd y dosbarthiadau neu y rhestrau yn y Cyfundeb Wesleyaidd? Anhawdd ydyw sylweddoli maint y ddyled y mae Wesleyaeth, ac yn wir y byd, dani i'r wraig rinweddol a galluog hon.

Bu i'r rhieni hyn bedwar ar bymtheg o blant; a'r pymthegfed o honynt ydoedd John, neu fel yr enwyd ef ar y cyntaf John Benjamin. Pan ydoedd tua chwech oed llosgwyd y Persondy i'r llawr; a chafodd ei waredigaeth gyfyng o'r tân argraff annileadwy ar ei feddwl. Cafodd effaith hefyd ar feddwl y fam, oblegid ymysg ei phapyrâu caed dadganiad o benderfyniad a wnaed ganddi mewn gweddi i gymeryd gofal *mary neillduol* am enaid y bachgen a waredwyd mor ryfedd. Derbyniwyd ef gan ei dad at fwrdd yr Arglwydd pan nad oedd ond wyth mlwydd oed. Pan yn ddeng mlwydd a hanner oed, anfonwyd ef i ysgol y Charterhouse, yn Llundain, lle y cyfrenid addysg uwchraddol yn rhad. Wedi treulio chwe' blynedd a hanner yno, etholwyd ef yn fyfyrwr yn Eglwys Crist, Rhydychain; ac yn Mawrth, 1726, pan nad oedd yn

llawn 23 mlwydd oed, etholwyd ef yn Gymrawd o Goleg Lincoln. Yr oedd wedi derbyn urdd diacon yn yr Eglwys yn 1725, a derbyniodd urdd offeiriad ynddi yn Medi, 1728. Derbyniodd y gradd o B.A. yn 1724, a'r gradd o M.A. yn 1727.

Nis gallwn fanylu ar ei hanes crefyddol yn mlynnyddoedd ei febyd a'i ieuentyd. Mae pobpeth sydd yn angenrheidiol er rhoddi golwg gyflawn a ffyddlawn ar ddadblygiad ei gymeriad crefyddol i'w gael yn y Cofiant. Gwnawn un dyfyniad byr:—

Tra yr ydoedd John Wesley bob amser yn llanc moesol ei gymeriad a chrefyddol ei ogwyddiadau, eto yn y flwyddyn 1724, pan raddiwyd ef yn B.A., ac yn 1725 pan ordeiniwyd ef yn ddiakon gan Dr. Potter, Esgob Rhydychain, ac y gosododd ei fryd ar y swydd weinidogaethol, cymerodd cyfnewidiad le yn naws ei feddwl a'i deimladau. Daeth yn llawer mwy difrifol ei ysbryd nag o'r blaen, dangosai byrder am fod dan lywodraeth y cymhellion priodol yn ei ymgais am urddau, rhoddai gyfeiriad neillduol i'w efrydau, ac ymofynai am yr ysbryd a'r fuchedd gyfaddas i un a fwriadai gael ei oed yn ngwaith goruchel a sanctaidd y weinidogaeth.

Ymysg y llyfrau a ddarllenwyd ganddo tua'r adeg yma, neu hwyrach beth yn gynt, yr ydoedd *Dilyniad Crist*, gan Thomas à Kempis, *Byw a Marw yn Sanctaidd*, gan Jeremy Taylor, a *Galwad Ddifrifol*, gan William Law. I ddylanwad y llyfrau hyn, neu rai o honynt, y rhaid priodoli y "golygiadau meudwyol lled eithafol" a goffeidiwyd ganddo.

Bu am beth amser yn cyflawni dyledswyddau addysgwyl yn Ngholeg Lincoln, ac ar ddwy adeg yn gwasanaethu fel Curad i'w dad yn Wroote, lle bychan mewn cysylltiad âg Epworth; ond yn 1729 dychwelodd i ymsefydlu fel athraw yn ei Goleg yn Rhydychain. Yn ystod ei absenoldeb o'r Brifysgol y cychwynasid y "Clwb Sanctaidd"—

Cymdeithas fechan, . . . o'r hon y tarddodd un o'r diwygiadau crefyddol mwyaf grymus, a chyffredinol, a bendithiol a ymwelodd â Lloegr erioed. Cyfansoddid y gymdeithas hon gan ychydig o fyfyrwyr ieuainc duwiolfrydig a ymwasant ynghyd i annog eu gilydd i gynyddu yn ngras a gwybodaeth yr Efyngyl, ac i ymarfer â defosiynau yr Eglwys gyda dyfalwch neillduol. Boreu-godent, gan neillduo oriau penodol i ddyledswyddau dirgelaidd crefydd. Cyfranogent o'r Cymun yn rheolaidd bob Sabboth, ymprydident bob dydd Mercher a dydd Gwener, ac ymgyfarfyddent bob prydnaawn i ddarllen ac i chwilio y Testament Groeg, yn ogystal ag i gyfoethogi eu hunain mewn gwybodaeth grefyddol trwy gyd-ddarllen llyfrau da eraill. Ymgysegr-ent gyda zel i weithredoedd o gymwynasgarwch ymarferol, trwy ymweld â charchar-orion, egwyddori plant yn y *Catecism*, cyfranu elusenau i'r tlodion, ceisio llesâd ysbrydol y myfyrwyr eraill, ac achub pob cyflusdra i dderbyn a gwneuthur daioni. O herwydd fod cynllun, cysondeb, a rheol yn nodweddu eu hymarferion, galwyd hwynt oddiar wawd yn Drefnyddion (*Methodists*), yr hwn enw a lynodd hyd y dydd heddyw wrth ganlynwyr Wesley a Whitefield.

Achlusur ffurfiad y Clwb Sanctaidd ydoedd sefyllfa isel y Brifysgol mewn ffydd ac ymarwedd. Teimlai gwyr ieuainc cydwybodol nad oedd yn hawdd iddynt fyw yn y fath le yn agos fel y dylid heb ymneillduo oddiwrth arferion a chymdeithas y myfyrwyr eraill. Sylfaenesid y Clwb ar egwyddor Sacramentaraidd ac Uchel-Eglwysig fuasai yn cyd-daro â golygiadau Keble a Pusey; a phe na buasai cyfnewidiad dirfawr wedi cymeryd lle ar ol hyn yn marn a chylyrau ei aelodau, diau mai diwerth, os nad niweidiol, fuasai ei ddylanwad ar y byd. Ond ynglŷn â'r gwaith da a wnaed ar gyflyrau ei aelodau ar ol y cyfnod dan sylw, profodd ffurfiad a dylanwad y gymdeithas hon yn rhagarotoad gwerthfawr i'r Methodistiaid i'w cymhwyso at waith eu hoes, ac i fod o fendith fawr i grefydd. Prif offeryn ei sefydliad ydoedd Charles Wesley—brawd ieuengaf ein gwrthddrych.

Ceir amlinelliad dyddorol o hanes prif aelodau y Clwb Sanctaidd yn y Bywgraffiad, ac un o'r darluniau mwyaf dyddorol â pha rai yr addurnir

y gwaith yw y darlun o'r Clwb. Yr oedd Whitefield yn aelod o hono, er fod ei sefyllfa ef yn ei Goleg yn dra israddol i'r hyn oedd safle John Wesley yn Lincoln, a Charles Wesley yn Eglwys Crist. Ond "John Wesley oedd enaid yn gystal a llywydd y gymdeithas."

Coledai efe y pryd hyn ddyhewyd angerddol am iachawdwriaeth, tra ar yr un pryd yr oedd llyfrau Thomas à Kempis, Taylor, a Law, a dylanwad ei ymarferion caeth a hunanboenydiol fel aelod o'r Clwb Sanctaidd, wedi ei arwain i ymgyfiawnhau yn y ddeddf ac i osod ei gyfiawnder ei hun yn lle cyfiawnder Duw, nes gwneuthur o hono Uchel-Eglwyswr defodol, cyfriniol a hunan-gyfiawn. Gyda syniadau o'r fath yma am fywyd crefyddol, ceir arwyddion eto o'i awydd i arwain bywyd naillduedig a hanner mewnswyaidd. Fel y bwriadai ychydig flynyddau cyn hyn i dreulio ei oes mewn cwm gwyllt yn Swydd York, ei gynllun yn awr yw cael aros am ei oes yn y Brifysgol.

Rhoddodd i fyny y dymuniad hwn drachefn, ac yn Hydref 1735, trwy ganiatâd eu mam, yr hon oedd erbyn hyn yn weddw, cawn John Wesley, a'i frawd Charles, gyda dau gyfaill iddynt, Charles Delamotte a Benjamin Ingham, yn cychwyn i drefedigaeth Georgia, yn America, dan arweiniad y Cadfridog James Edward Oglethorpe. Yr oedd y ddau Wesley yn myned allan fel cenadon i'r drefedigaeth, ac yr oedd yr hynaf, yn arbenig, yn dra awyddus i lafurio ymysg yr Indiaid brodorol. Ond nid ydyw hanes John Wesley, ac yn enwedig Charles, yn Georgia, yn un y gellir aros gydag ef gyda dim hyfrydwch. Nid rhy lym fyddai cyhoeddi y naill yn gystal a'r llall, er nid i'r un graddau a'r llall, yn fethiant yn y drefedigaeth. Ar yr un pryd y mae llawer o ffeithiau dyddorol yn ei hanes yn gysylltiedig â'i ymweliad â Georgia, ac â'i ddychweliad oddiyno.

Pennod bwysig yn hanes John Wesley oedd ei gysylltiad â'r Morafiaid, ac yr ydym yn cael rhai rhanau o honi yn ystod ei daith i Georgia ac yn ol. Ond nis gallwn fanylu ar yr amgylchiadau. Hwyrach y dylem ddyfynu y crynhoed canlynol a roddir gan Mr. Evans o ganlyniadau ei genadaeth yn Georgia.

Ond os yn fethiant cymharol, nid oedd ei hynt genadol yn fethiant hollol. Dilynwyd ef yn Georgia gan Whitefield, ac y mae ef yn ei *Ddyddlyfr* wedi ysgrifenu geiriau cryfion yn ffafr effaith gweinidogaeth Wesley a'i lafur ymhlith y trefedigaethwyr. Dywed fod ei enw yn barchus gan laweroedd, a'i fod wedi gosod sylfaen i waith nad allai dynion na diafliaid ei siglo. Methiant hollol! nac ydoedd. Y fath effaith ddaionus a gafodd ar y cenadwr ei hun! Dysgodd dair o ieithoedd tra y bu yno, sef yr Allmaneg, yr Italaeg, a'r Yspaeneg. Cyfranodd addysg efrenol a chrefyddol i lawer o blant; ennillodd rai mewn oed o blith gwahanol genedloedd y byd i afael iachawdwriaeth yr Efengyl; aeth dan gwrs o ddysgyblaeth a'i dysgodd i adnabod ei galon ei hun yn well, ac i adnabod gwegi ac anallu defodau cnawdol, a phob peth ond Crist croeshoeliedig i ladd gelyniaeth pechadur ac i'w waredu oddi-wrth ei bechodau; a dygwyd ef i gyffyrddiad â'r gangen o eglwys Crist oedd i gyfrantu yn helathach na neb arall, dan fendith Duw, tuag at lunio ei olygiadau athrawiaethol, i achub ei enaid, a chyfeirio gyrfa ei fywyd i ddyfod yn un o'r dynion duwiolaf a defnyddiolaf a welodd yr eglwys a'r byd er dyddiau yr Apostol Paul.

Yn y cyfnod hwn yr ydym gyda'r hyn a elwir gan Mr. Evans yn "Dröedigaeth" Wesley. Ac nid yw hyn ond y wedd a gymerai Mr. Wesley ei hun ar yr amgylchiadau. Fel hyn yr ysgrifennai yn fuan wedi ei ddychweliad i Loegr: "Y mae yn awr yn ddwy flynedd a phedwar mis er ys pan adewais fy ngwlad enedigol, i'r dyben o ddyysgu



yr Indiaid yn Georgia; ond pa beth a ddysgais fy hunan yn y cyfamser? Hyn (y peth olaf y meddylaswn am dano), sef fy mod i, yr hwn a aeth i America i ddychwelyd eraill, heb gael fy nychwelyd erioed at Dduw." Gwir iddo yn ddiweddarach ychwanegu nodiad gyda golwg ar y frawddeg olaf, "Nid wyf yn hollol sicr o hyn;" ond ni ysgrifennodd ddim sydd yn anghyson â'r wedd a roddir gan Mr. Evans ar y cyfnewidiad. Er mor ddyddorol fyddai manylu gyda Mr. Evans ar hanes y Morafiaid, ar gymdeithas Mr. Wesley â hwynt, ei ddyled i Peter Bohler, ei ymweliad â sefydliadau y Morafiaid, &c., rhaid gadael heibio bellach bob parotoadau yr aeth Wesley trwyddynt er ei gymhwyso at waith mawr ei oes. Dyfynwn yn unig ei eiriau ei hun am y cyfnewidiad a brofodd ar y 24ain o Fai, 1738, pan ydoedd bellach yn 35 mlwydd oed. Yr oedd yn bresennol y dydd hwnw mewn cyfarfod crefyddol a gynnelid yn Aldersgate Street, Llundain; ac fel hyn yr ysgrifena:—

Oddentu chwarter i naw, pan ddarllenid desgrifiad Luther o'r cyfnewidiad a ddwg Daw o amgylch yn y galon trwy fydd yn Nghrist, teimlais fy nghalon yn gwresogi yn hynod. Teimlais fy mod yn ymddiried yn Nghrist am iachawdwriaeth; a derbyniais sicrwydd ei fod Ef wedi dileu fy mhachodan, i.e. yr eiddo fi, ac iddo fy rhyddhân oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth.

Dyma (ychwanega Mr. Evans) argyfwng mawr ei fywyd crefyddol yn awr wedi pasio, a'i ysbryd blinderog a thrwmlythog, a fuasai am flynyddoedd yn methu cael lle i orphwyso, o'r diwedd wedi cael gorphwysfa glyd a gwleidd. Dechreuodd y trobynt bendigaid hwn gyfnod newydd yn ei hanes fel Cristion a phregethwr. . . . Tawelwyd ei feddwl, a heddyohwyd ei gydwybod ffin; tynerwyd ei galon, gloeswyd ei obeithion, a daeth yn ddyn dedwydd, siriol, a neillduol o garedig dros weddill ei oes. Pregethai hefyd gyda nerth cwbl newydd. Ymhen deunaw niwrnod ar ol dydd ei dröedigaeth traddododd ei bregeth ragorol ar y testun, "Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy fydd" (Eph. ii. 8), yn Eglwys St. Mair, ger bron Prif-ygol Rhydychain, yn yr hon y ceir yr athrawiaeth newydd yn cael ei hegluro a'i hargymhell. Ac yn ystod yr un flwyddyn y cyhoeddwyd ei bregeth fawr ar "Rad Ras," yr hon, mae yn debyg, ydyw y bregeth ragoraf o eiddo John Wesley sydd ar gael. Yn y ddwy bregeth hyn ceir yr athrawiaethau a neillduolent ei weinidogaeth ef, a thrwy bregethiad fyddlaw'n o ba rai y dygwyd oddiamgylch y diwygiad crefyddol mwyaf a brofodd Lloegr erioed.

Hyd yma yr ydym wedi gwneyd dyfyniadau helaeth yn ngeiriau yr awdwr, ond arweinid ni i ormod meithder wrth barhau y dyfyniadau oddiyma i ddiwedd ein herthygl. Yr ydym wedi dilyn Wesley hyd yr adeg y mae yn ymdafu i waith y Diwygiad. A da fuasai genym allu rhoddi brasolwg ar ei hanes; ond gorfodir ni i ymfoddloni ar gyfeirio yn unig at y prif gamrau yn ngyrfa Wesley a sylfaeniad Methodistiaeth Wesleyaidd. Dyry Mr. Evans ddesgrifiad gwerthfawr o sefyllfa grefyddol y deyrnas hon cyn y Diwygiad, yr hyn sydd gwbl angenrheidiol er sylweddoli ein dyled i'r symudiad cynhyrfiol hwnw. "Torodd y diwygiad hwn allan yn mlyneddau diweddf hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif, yn amser teyrnasiad Sior II.; ac y mae yn haeddol o'n sylw, mai dyna yr adeg y suddasai y wlad ddyfnaf i benrhyddid, anfoesoldeb a thrueni. . . . Gorwedda i y deyrnas mewn drygioni, dan fagddu o dywyllwch moesol, a phob math o annuwioldeb a thrueni. . . . Yn awr, pan ystyrir fel yr oedd golygiadau llac ac anffyddol yn ymdaenu dros y wlad, yn nghochl Deistiaeth; y pydredd llygredig oedd yn nodweddu etholiadau a symudiadau politicaidd; y diofalwch crefyddol, a'r ymlygriad moesol oedd yn ffynu yn y llys ac ymhlith y bendefigaeth; a'r ysbryd

trachwantus, ymollyngar i gamblo a chyngwystlo, a thori eu gyddfau wrth geisio myned yn gyfoethog ar frys, oedd yn dwymyn ar ymenydd mawrion a masnachwyr ein gwlad, a chofio yr effeithiau niweidiol a ganlynent yr holl bethau hyn ar deimladau crefyddol a moesau y bobl, fe wél y darlennydd ar unwaith y rhaid fod ein gwlad mewn stad erchyll o ddigrefydd a difoes yn y cyfnod dan sylw. Ond ysywaeth ni fynagwyd eto mo'r hanner."

Yn y tywyllwch, pa fodd bynag, torodd gwawr y Diwygiad Methodistaidd. Mae Matthew Arnold yn ceisio profi nad oedd sefyllfa crefydd yn y deyrnas mor isel ag y desgrifir hi gan Esgob Butler yn ei *Gyfatebiaeth* (ac yn 1736 yr ymddangosodd y gwaith anfarwol hwnw gyntaf), oddiwrth y ffaith fod Butler ei hun wedi ymddangos yn y cyfnod hwnw. Gyda'r un priodoldeb y gellid gwadu yr un ffaith oddiwrth doriad allan y Diwygiad. Ond y mae yr ymresymiad yr un peth yn hollol a phe ceisid gwadu y caethiwed yn yr Aipht o herwydd cyfodiad Moses i waredu y genedl o'r caethiwed. Yr ydym ni yn eithaf boddllawn i edrych ar y Diwygiad Methodistaidd yn waredigaeth o drefniad Dwyfol i Brydain o'r dyfnder ofnadwy yr ydoedd yn foesol a chrefyddol wedi syrthio iddo. Ac nid yw y ffaith fod diwygiadau cyffelyb wedi tori allan yn America, yn Scotland, ac yn Nghymru tua'r un cyfnod, a'r cwbl yn hollol annibynol ar eu gilydd, mewn un modd yn milwrio yn erbyn y syniad.

Yr oedd Wesley yn llawn awydd i bregethu yr efengyl, yn angerddol ei zel am iachawdwriaeth eneidiau, er heb y syniad lleiaf yr adeg hon am fyned y tu allan i drefniadau yr Eglwys Sefydledig i gyflawni y gwaith gogoneddus. "Ond erbyn diwedd y flwyddyn 1738, yr oedd bron holl bulpudau yr Eglwys Sefydledig wedi eu cau yn erbyn John Wesley." Pa beth ynte oedd i'w wneyd.

Rhaid cyfeirio yn awr at gysylltiad Wesley & Whitefield. Y diwrnod cyn i Wesley lanio, ar ei ddychweliad o Georgia, yr oedd Whitefield wedi hwylio yno, er siomedigaeth fawr i Wesley. Ymddengys iddo ar yr amgylchiad syrthio i'r gwendid oedd barod i'w amgylchu, ar un cyfnod o leiaf o'i fywyd, sef penderfynu materion o bwys trwy goelbren. Bwridd goelbren y tro hwn, ac mewn canlyniad anfonodd genadwri ar ol Whitefield ar iddo ddychwelyd. Ymlaen yr aeth efe; ond ar ol misoedd o lafur llwyddiannus yn Georgia dychwelodd, a chawn Wesley a Whitefield, ar ol blynyddoedd o absenoldeb oddiwrth eu gilydd, ynghyd yn Llundain yn Rhagfyr 1738. "Erbyn hyn yr oedd yr athrawiaeth a bregethai Wesley wedi cau pob eglwys bron yn ei erbyn. Pan ddychwelodd Whitefield o Georgia, cafodd dderbyniad ffafriol gan Esgob Llundain, a chan Archesgob Caergaint; ond cyn pen nemawr o ddyddiau cauwyd pump o eglwysi yn ei erbyn yntau. Flwyddyn yn flaenorol i hyn yr oedd poblogrwydd Whitefield yn Llundain yn enfawr, ac eglwysi yr holl ddinas yn agored iddo; ond yn awr pan ddeallwyd am ei ogwyddiadau Methodistaidd, nid hir y buwyd nad oedd yr oll, namyn tair neu bedair, wedi eu cau i'w erbyn." Yr oedd wedi dechreu dyoddef, o ran hyny, cyn ei ymadawiad i Georgia, a llawer o rai a edrychent arno gydag amhueaeth, os nad gelyniaeth, yn llawenhâu yn ei ymadawiad. Yn Ionawr, 1739, derbyniodd urdd offeriad; ac wedi treulio pum' wythnos yn Llundain,

“aeth ar daith bregethwrol i’w Sir enedigol. Bristol oedd y dref gyntaf yr ymwelodd â hi, ond yr oedd drygair am dano wedi cyrhaedd yno o’i flaen, a’r holl eglwysi yn gauedig i’w erbyn. Gwnaeth dau glerigwr ymgais i agor eu pulpudau iddo, ond methasant, gan i Ganghellydd Bristol ymyraeth yn yr achos. Bygythiwyd Whitefield â diarddeliad os na roddai i fyny y gwaith o bregethu yn yr esgobaeth hono. Yr oedd hyny yn ddigon. Gwasgwyd y clerigwr tanlyd i argyfwng. Ni fynai gymeryd ei safnrwymo gan Ganghellydd nac Esgob; a chan na chaffai eglwysi Bristol at ei wasanaeth, ymaith âg ef i Kingswood; ac ar yr 17eg o Chwefror, 1739, efe a gymerodd y cam beiddgar o bregeth allan, ar dir na chysegrasid â halen, i gynnulleidfia o rhyw ddau gant o’r glöwyr a ymgasglasent i wrando arno.”

Ar gais Whitefield aeth Wesley i Bristol. Drannoeth wedi cyrhaedd yno, gwrandawodd ar ei gyfaill yn pregethu i filoedd ar *bowling green* yn nghanol dinas Bristol. “Prin yr oedd Wesley yn gallu ymgymodi â’r dull afreolaidd o bregethu felly yn y prif-fyrrdd a’r caeau; ond wrth weled y fath arwyddion o foddlonrwydd Duw ar y gwasanaeth, a chanfod nad oedd caniatâd i’w gael o gwbl i ddefnyddio yr eglwysi, argyhoeddwyd yntau fod ei gyfaill Whitefield yn ei le; a chan ollwng gafael o’i hen syniad defodol am sancteiddrwydd lleol i fyned gyda’r pedwar gwynt, penderfynodd ddilyn ei esiampl.”

Ar yr 2il o Ebrill, 1739, y pregethodd gyntaf yn yr awyr agored i dair mil o eneidiau yn ninas Bristol. Ac fel hyn yr ysgrifena Mr. Evans am ddylanwad y cam hwn:—

Do, croesodd yntau y Rubicon y dydd hwnw, a rhyfedd fu y canlyniadau. Gan nad beth oedd dylanwad Rhydychain a Georgia, ac effaith dysgeidiaeth ac esiamplau y Morafiaid ar olygiadau, cyflwr ysbrydol, a gyrfa bywyd John Wesley, meiddiwn ddadgan na chyflawnasai y ganfed ran o’r daioni a gwblhaodd yn ei oes, ac na fuasai y fath beth a Methodistiaeth Wesleyaidd erioed wedi cael ei bodolaeth oni buasai am y cam beiddgar a phwysig hwn a gymerodd Wesley ar gais Whitefield o bregethu yr efengyl yn y prif-fyrrdd a’r caeau. Gwelsom yn nechreu y bennod fod Whitefield dan ddyled fawr i Wesley am gydymdeimlad a chyfarwyddyd yn ffordd addysg a bywyd tragwyddol; ond erbyn hyn, nyni a welwn fel y mae Wesley a’r Diwygiad a effeithiwyd trwyddo dan rwyman llawer mwy i wroldeb, zel, ac esiampl George Whitefield.

Gwnaethom y dyfyniad uchod mewn rhan ar gyfrif y pwys a berthyn i’r cam hwn o eiddo Wesley yn ei berthynas â’r Diwygiad, ac mewn rhan i ddangos y tegwch hanesyddol tuag at Whitefield sydd yn nodweddu yr awdwr yn nghanol yr edmygedd mwyaf digêl o Sylfaenydd Wesleyaeth.

Bellach yr ydym yn cael Wesley yn ymroddi i’r gwaith yn Bristol a Kingswood, gan gymeryd gwibdeithiau yn awr a phryd arall i fanau eraill—anhawsderau yn cyfodi, ac erlidiau yn ei orddiwes. Cawn ef yn dechreu adeiladu capel yn Bristol, yn cyfodi ysgol yn Kingswood, a chyn diwedd y flwyddyn yn cynnal ei odfa gyntaf yn y *Foundry*, a ddaeth ar ol hyny yn lle mor bwysig a chysegredig yn hanes Wesleyaeth, ac yn sefydlu hefyd y gymdeithas grefyddol gyntaf, o ba un yr ymddadablygodd y Cyfundeb Wesleyaidd. Dechreuodd John Cennick yn Mehefin yr un flwyddyn bregethu i löwyr Kingswood, trwy ganiatâd Mr. Wesley; ac efe oedd y pregethwr lléygal cyntaf. Yr oedd, gan hyny, fel y sylwa Mr. Evans, “y rhan fwyaf o anheggorion Wesleyaeth, fel y saif ger

bron y byd heddyw, wedi gwneyd eu hymddangosiad yn y flwyddyn fythgofiadwy 1739, sef ei rhestr-gyfarfodydd, ei darpariaeth o addoldai, ei phregethu lleyygol a theithiol, a'i defnydd o'r wasg fel moddion i ledaenu addysg a gwybodaeth iachus."

Yn 1740-1, ni sefydlwyd gan Wesley ond tair cynulleidfa—un yn Llundain, un yn Bristol, ac un yn Kingswood; ond yn 1742 gosododd ei fryd ar ledaeniad y gwaith. Treuliodd dair wythnos ar ddeg o'r flwyddyn ar ei deithiau. Ymysg ei hamgylchiadau mwyaf dyddorol y mae ei waith yn pregethu y tro cyntaf ar feddfaen ei dad yn Epworth, a marwolaeth ei fam yn Llundain, ei ymweliadau â Newcastle, &c. Yn 1743 y gwrthodwyd iddo y cymun yn yr Eglwys am y tro cyntaf, a hyny yn hen Eglwys ei dad yn Epworth. Ymledodd y gwaith yn fawr, a chyhoeddwyd am y tro cyntaf "Reolau y Cymdeithasau Unedig." Heblaw sefydlu Cymdeithasau, yr oedd yn ofalus i'w llywodraethu ac i'w cadw yn bur trwy ddysgyblaeth fanwl, yn cael ei gweinyddu â llaw gadarn. Yn 1744 y cynnaliwyd y Gynnadledd gyntaf yn yr Hen *Foundry* yn Llundain, yr hon a barhaodd am chwe' diwrnod. Ac wrth ysgrifenu y llinellau hyn, gerllaw cyfarfodydd y Gynnadledd yn 1881, y mae dyddordeb neillduol yn y cofnodiad,—

Galwesid hi gan Mr. Wesley, ac yr oedd yn bresennol y personau canlynol:—John a Charles Wesley, John Hodges, Henry Piers, Samuel Taylor, a John Meriton—oll yn glerigwyr a dderbyniasent ordeiniad esgobol; yaghyd a'r pregethwyr lleyygol canlynol,—Thomas Maxfield, Thomas Richards, John Bennett, a John Downes. Yn 1744, meddai Wesley, ysgrifenisai at amryw glerigwyr, ac at bawb a'm gwasanaethodd fel meibion yn yr efengyl, gan ddymunio arnynt fy nghyfarfod yn Llundain, i ymgynghori gyda mi gyda golwg ar y modd goreu i gario ymlaen waith Duw.

Rhanwyd y gwaith dan dri o gwestiynau:—"Pa beth i'w ddysgu, Pa fodd i'w ddysgu, Pa beth i'w wneyd, neu pa fodd i reoli yr athrawiaeth, y ddysgyblaeth, y weinidogaeth, a'r cymdeithasau." Fel hyn y sylwa Mr. Evans ar y Gynnadledd gyntaf:—"Yr athrawiaethau y cytunwyd arnynt y pryd hyny ydynt bynciau amlycaf y pulpud Wesleyaidd hyd heddyw, ac y mae hadau pren mawr y Cyfundeb Wesleyaidd, hyd yn nod yn ei ffurf ddiweddaraf, i'w cael yn Nghofnodau y Gynnadledd gyntaf" yn 1744. Yr oedd ei holl aelodau yn cael eu croesawu gan yr Arglwyddes Huntingdon; ac yn ei phalas hi y pregethodd John Wesley ar derfyn y Gynnadledd. Er fod Wesley a Whitefield wedi ymwahanu cyn hyn, yr oeddynt wedi eu dychwelyd i gymmod â'u gilydd na aflonyddwyd arno hyd ddiwedd eu hoed, er iddynt barhâu i weithio ar wahân.

Rhaid gadael heibio o hyn i'r diwedd bob cais i olrhain y gwaith yn ei gynnydd a'i ledaeniad o'r naill gam i'r llall, a chyfeirio yn unig at y prif ddygwyddiadau yn sefydliad Wesleyaeth, ac at rai o'r prif nodweddau a berthynent i gymeriad a llafur John Wesley.

Mae hanes sefydliad Wesleyaeth yn yr Iwerddon yn dra dyddorol. Yn 1747 y talodd Wesley ei ymweliad cyntaf â'r Ynys Werdd; ond yr oedd yn Dublin yn agos i 300 o aelodau wedi eu casglu gan un Thomas Williams cyn iddo gyrhaedd. Ar ol ymadawiad John Wesley, aeth Charles ei frawd a chyfaill iddo drosodd i wthio y gwaith ymlaen i ganolbarth yr Ynys. Dyoddefwyd erlidigaethau chwerwon yno am dymmor; ond yn raddol tawelodd yr ystorm, ac aeth y gwaith ymlaen.

Croesodd Wesley y Culfor 42 o weithiau i ymweled â'r Ynys, a threuliodd yno, a chyfrif y cwbl, o leiaf chwe' blynedd i lafurio ac efengylu. Nis gallwn lai na gofidio na buasai Whitefield gyda'i hyawdledd ganrhyfogl wedi cymeryd yr Iwerddon yn faes iddo, yn lle croesi y Werydd i'r America gynifer o weithiau. Byddwn yn tybio weithiau y buasai hanes yr Iwerddon am y can' mlynedd diweddfaf yn dra gwahanol pe buasai cymaint o lafur Whitefield wedi ei roddi yno ag a roddwyd yn yr America. Ond gwnaed gwaith da yno gan y ddau Wesley. Erbyn 1760 yr oedd yno 2600 o aelodau; a chyfododd o fysg y Gwyddelod rai o'r colofnau cryfaf yn y Cyfundeb Wesleyaidd o hyny hyd yn awr.

Rhaid i ni roddi lle i'r dyfyniad canlynol yn cynnwys crynodeb o ganlyniadau llafur Wesley o 1740 hyd 1760:—

Mewn ugain mlynedd yr oedd Wesleyaeth wedi cael ei sefydlu bron ymhob Sir trwy Loegr a'r Iwerddon, ac wedi planu rhai gorsafau yn Scotland a Chymru; yr oedd 90 o bregethwyr teithiol yn llafurio dan ei arolygiaeth, a nifer llawer mwy na hyny o bregethwyr cynnorthwyol a swyddogion eglwysig; yr oedd capeli wedi eu hadeiladu mewn mwy na 50 o drefi, heblaw rhai cannoedd o leoedd addoli yn y ffurf o ysgoldai, ystafelloedd llogedig, a thai annedd, a hyny pan nad oedd poblogaeth Lloegr a Chymru uwchlaw chwe' miliwn o eneidiau. Yn chwanegol at yr holl lafur oedd ynglŷn â chychwyniad yr achos yn yr holl leoedd hyn, cyhoeddodd John Wesley yn y cyfarnau, mewn undeb â'i frawd Charles, oddeutu deuddeg o gyfrolau, o gylch deg ar hugain o draethodau, a llawer o hymnau; a chyhoeddodd hefyd yn annibynol ar ei frawd, naw cyfroliad helaeth o'i *Journals*, cant a deg ar hugain o bregethau a thraethodau, ac yn agos i 70 o gyfrolau, yn cynnwys ei Esboniad ar y Testament Newydd, ei Bregethau, a'i Lyfrgell Gristionogol.

Amgylchiad o'r fath bwysicaf yn hanes Wesleyaeth oedd ei sefydliad yn America. A dymunol fuasai genym i Mr. Evans fanylu ychydig ar yr amgylchiadau a'r rhesymau a arweiniasant i'w sefydliad yno yn y ffurf esgobyddol. Yn ol syniad yr ysgrifenydd y cyfeiriwyd ato uchod yn yr *Edinburgh Review*, yr oedd Wesley yno yn dilyn yn rhydd ac eofn ei syniadau a'i dueddiadau ei hun, heb gael ei lyffetheirio gan yr ystyriaethau o *expediency* oeddynt o'r fath bwys iddo yn y wlad hon. Ond yr argraff a adewir ar y meddwl wrth ddarllen hanes y drafodaeth, a geiriau Wesley ei hun yw, ei fod trwy ordeiniad Dr. Coke yn esgob (neu arolygwr) yn cyfarfod yr anhawsder i ddarparu ar gyfer gweinyddiad yr ordinhadau yn yr America yn yr unig ffordd a welai yn ddichonadwy iddo. Erbyn hyn, pa fodd bynag, y mae Methodistiaeth Wesleyaidd yn ffaith fawr yn America. Mae yno bump o gyfundebau yn mabwysiadu y ffurf esgobyddol, a phump eraill yn anesgobyddol; ond y mae eu nerth cyfunol ymhell uwchlaw pob cyfundeb crefyddol arall yn y wlad. Dywed Mr. Dale yn ei bregeth ar yr Adfywiad Efengylaidd fod y Methodistiaid, yn ol y *census* diweddfaf, yn darparu lle i addoli i fwy na 6½ miliwn, tra nad yw y Bedyddwyr, sydd yn agosaf atynt mewn nerth, yn darparu ar gyfer mwy na phedair miliwn. Nid yw yr holl ddarpariaeth ond ar gyfer ychydig uwchlaw 19 miliwn; ac felly y mae y Methodistiaid yn gwneuthur eu hunain tua'r drydedd ran o'r ddarpariaeth. Yn wyneb y cyfrifon hyn o ystadegau awdurdodedig y Llywodraeth, ymddengys sylw Mr. Evans yn eithaf cymedrol, "fod y bedwaredd ran o holl boblogaeth y Talaethau Unedig yn Wesleyaidd."

Yn 1784 yr ordeiniwyd gweinidogion gan John Wesley ar gyfer yr America; ac yn yr un flwyddyn y cymerwyd cam pwysig arall gyda'r

gwaith yn Lloegr, sef ffurfiad y Gynadledd yn Gorrforaeth trwy y *Deed of Declaration*. Ordeiniwyd gweinidogion ar gyfer angen Scotland yn 1785, ac ar gyfer anghenion Lloegr yn 1787. A thrwy y pethau hyn gwnaed pob darpariaeth ar gyfer parhâd y Cyfundeb ar ol dydd Mr. Wesley. Bu farw yn 1791, yn yr oedran patriarchaidd o uwchlaw 87 mlwydd. Ac erbyn hyny, "Yr oedd y Cyfundeb wedi ymledu trwy Loegr, Ysgotland, a'r Iwerddon yn y deyrnas hon; gorsafau wedi cael eu sefydlu yn Nova Scotia ac yn Newfoundland, ac yn agos i driugain mil o aelodau yn America." Yn ol un cyfrif, yr oedd nifer yr aelodau trwy y byd ar adeg ei farwolaeth yn 134,599, ac yn ol cyfrif arall yn 136,622. Mor ddirfawr y cynnyddodd y gwaith yn ei ddwyllaw!

Yr ydym yn gorfod terfynu heb alw sylw at nifer o'r pennodau mwyaf dyddorol yn y gwaith, megys ar *Ei Gydweithwyr a'i gynnorthwyr*, *Ei Eriidigaethau ef a'i ganlynwyr*, *Ei Deithiau a'i Lafur yn Nghymru*, *Ei berthynas â'r Eglwys Sefydledig*, *Ei Ymddangosiad a'i Gymeriad Personol*, *Ei Nodweddau Cyhoeddus fel Trefnydd*, *Pregethwr*, *Llenor a Diwygiwr*. Yr ydym hefyd wedi gadael allan bob cyfeiriad at ei dduwinyddiaeth ef a Whitefield. Yn y pennodau uchod y ceir ymdriniaeth â gystyr ffeithiau a symudiadau bywyd Wesley, yr hyn sydd yn gwneyd y llyfr yn llawer mwy na chofnodiad syml o honynt,—yn rhoddi iddo hawl i gael ei gyfrif yn Fywgraffiad yn ngwir ystyr y gair.

Yr oedd Wesley yn ddyn mawr; a gwnaeth waith mawr. Yr oedd yn ddyn mawr mewn llawer cyfeiriad, a gwnaeth waith mawr ymhob un o honynt. Yr oedd yn berchen athrylith wreiddiol, daeth yn ysgolhaig rhagorol, yn llenor o'r radd flaenaf, yn bregethwr nad oedd ei ragorach oddigerth Whitefield, ac yn drefnydd na welwyd ei gyffelyb. Ond y mae ei lafur yn ein llanw â chymaint o syndod a'i alluoedd. Erioed ni bu dyn wedi ymdeimlo i raddau mwy â gwerth amser, ac yn gwneyd defnydd llwyrach o hono. Ac erioed ni welwyd dyn yn ymdaflu yn fwy llwyr i'r gwaith fyddai ganddo mewn llaw. Priodolai ei iechyd yn ei hen ddyddiau i'w lafur dibaid. Yn 80 mlwydd oed ysgrifennodd yn ei Ddyddlyfr fel hyn:—"Bendigedig fyddo Duw! nid llafur a thrallod yw fy amser. Nid wyf yn cael yno fwy o boen a gwendidau corfforol na phan yn bump ar hugain oed." "Priodolai hyn i bump o bethau,—(1.) Fod Duw wedi ei gymhwysu i'r gwaith y galwyd ef iddo. (2.) Teithio pedair neu bum' mil o filldir-oedd yn y flwyddyn. (3.) Y llywodraeth oedd ganddo dros gwsg. (4.) Ei arferiad o fore godi. (5.) Ei waith yn pregethu yn barhâs, yn enwedig yn y boreu, h.y. am bump o'r gloch yn y boreu."

Tra anhawdd, dybygem, fyddai i neb ddarllen y Bywgraffiad uchod heb gael ei lanw gan ysbryd gwaith. Nid symudiad yn myned ymlaen wrth ei bwysau, gan ysgubo pob peth o'i flaen, oedd y Diwygiad, ond symudiad oedd yn cadw y dynion galluog oeddynt yn brif oruchwylwyr ynddo ar eu llawn eithaf yn wastadol. Yr oedd yr elfen ddydol mor amlwg ynddo â'r Ddwyfol. Ac ni welai Wesley un argoel am ddim i gario crefydd ymlaen ar ol ei ddydd ond yr ymroddiad mwyaf egniol yn ei ganlynwyr i gyflawni gwaith eu dydd fel y gwnaethai yntau.

Mae Mr. Evans yn olrhain, fel y gwna Tyerman, ac fel y rhaid i unrhyw sylwedydd yn meddu ar ronyn o graffder, effeithiau bywyd

Wesley yn ddwfn ac arosol mewn llawer o fanau y tu allan i'r Cyfundebau Wesleyaidd. Yn wir nid ydyw y perygl yn fawr i waith Wesley mewn unrhyw gylch gael ei briodoli i eraill; mae mwy o berygl, dybygem ni, i waith Whitefield a'i gydweithwyr Calфинаidd gael ei ystyried heb fod yn meddu unrhyw ganlyniadau parhaol o gwbl, o herwydd ei ddiffyg amlwg fel trefnydd. Yr ydym yn ymfoddloni yn awr, heb geisio cyfrif y gwahanol gymdeithasau neu symudiadau y buont yn foddion yn llaw Rhagluniaeth Ddwylol i'w dwyn i fodolaeth, ar grybwyll mai y Diwygiad yn eu dwylaw hwy a achubodd y deyrnas o afaelion Deistiaeth ac anffyddiaeth y ddeunawfed ganrif, ac a'i cyfododd o ddyfnderoedd y llygredigaeth ofnadwy yr oedd wedi syrthio iddo.

Yr hyn sydd yn bwysig i ni ydyw bod yn ffyddlawn i'r gwirioneddau mawrion Efengylaidd a gawsant oruchafiaeth yn y cynod hwnw. Dywed Mr. Gladstone mai y Defodwyr sydd yn awr yn dwyn ymlaen waith y Diwygwyr Methodistaidd; ond yr ydym ni, o'n calon, yn cytuno â Mr. Dale mai ei ddinystrio a amcenir ganddynt hwy, er ein bod yn bell o gydsynio âg yntau fod yr amser yn agos, os nad wedi dyfod eisoes, pan y rhaid i ni ollwng ein gafael o dduwinyddiaeth y Diwygiad. Nid yw yn anmhosibl nad yn y Defodwyr y mae mwyaf o ymroddiad y Diwygwyr i'w ganfod; ond y mae eu plant hwy i'w cael ymysg y Cyfundebau Methodistaidd, Wesleyaidd a Chalfinaidd. Ond y mae y byd yn gofyn genym brofion cryfach o wirionedd ein perthynas â hwynt nag aelodaeth yn y Cyfundebau ar eu henwau, ac o fywyd ysbrydol nag y gellir eu rhoddi trwy unrhyw ystadegaeth.

Onid yw ffyddlondeb y brodyr Wesleyaidd i hanes a choffadwriaeth eu Sylfaenwyr yn gondemniad llym ar ddiotalwch eu brodyr Calфинаidd? Mr. Tyerman sydd wedi rhoddi bywgraffiad teilwng i George Whitefield. Ond y mae Howell Harris, can belled ag y mae a fyfno yr oes hon âg ef, heb fywgraffiad o gwbl. Ac eto fe'n hysbysir fod yn Llyfrgell Trefeca gisteidiau o *Journals* a gohebiaethau rhyngddo a'i gydlafurwyr yn Lloegr, heb i unrhyw ddefnydd gael ei wneyd o honynt erioed. Ac y mae Charles o'r Bala, cychwynydd yr Ysgol Sabbothol yn Nghymru, a chychwynydd y Fibl Gymdeithas, wedi ei adael genym hyd yn hyn heb Gofiant. Ai megys y mae wedi bod y rhaid iddi fod yn oes oesoedd?

G. ELLIS.

*Boote.*

## CYCHWYNIAD YR ACHOS DIRWESTOL YN NGHYMRU.

Yn niwedd Mehefin, 1881, cynnaliwyd Cylchwyf bwysig yn Llundain, ar adeg Jubili sefydliad yr achos Dirwestol yn y Deyrnas hon. Ymysg nifer o bapyrâu a ddarllenwyd yn y Cynnadleddau fe ddarllenwyd y papyr canlynol, yr hwn a barotoisid ar gais y Cyfoisteddfod ar "The Origin and Early History of the Temperance Cause in Wales." Gan nad ydyw yn debyg fod ond ychydig o'n darllenwyr wedi ei weled yn Saesoneg, ac fod yn dra angenrheidiol i ni gael ein bedyddio yn helaeth yn Nghymru y dyddiau hyn a'r ysbryd rhagorol oedd yn meddiannu ein tadau y dyddiau hyn, ac fod cynifer bellach wedi codi yn ein plith nad oes ganddynt ond ychydig syniad am hanes ystyr-fawr yr amseroedd y cyfeiriwn atynt, yr ydym yn cydsynio âg annogaeth amryw o'n cyfeillion ac yn ei gyhoeddi yn Gymraeg yn y TRAEHDYDD.

NID ydwyf yn ddigon hen i gofio yn fanwl am gychwyniad yr achos Dirwestol yn Nghymru: ac eto y mae genyf adgof clir am amgylchiadau bywiog ei hanes foreuol ac am lafur llawer o'r dynion rhagorol a fu yn gweithio mor ddiffino gydag ef. Yr ydwyf yn credu fod y symudiad wedi dechreu mewn amryw ranau o'r Dywysogaeth tua'r un amser. Y Parch. Evan Davies o Lanerchymedd, yr hwn a adnabyddid gan ei gydwladwyr yn y wasg Gymreig dan yr enw "Eta Delta," a honai ei fod y cyntaf i ddwyn yr egwyddor o lwyr-ymattaliad i sylw pobl Cymru. Mewn llythyr o'i eiddo yn y *Dirwestur* am 1843, dywed ei fod wedi cynnyg â'i holl egni yr egwyddor o lwyr-ymattaliad yn Llanrwst, Medi 1834; ond yr oedd y llanw y pryd hyny yn rhy gryf iddo, er na bu ei lafur yn hollol ofer, ac y daethant yn fuan yno yn Ddirwestwyr da. Dywed hefyd nad oedd ond efe a'i deulu yn Ddirwestwyr ymrwymiadol hyd Mai 11, 1835, pryd, meddai efe, y sefydlwyd y gangen gyntaf yn Nghymru. Mae yn ddiarneu fod Mr. Davies, can belled ag yr oedd ei wybodaeth yn cyrhaedd, yn amcanu at fod yn hollol gywir wrth ysgrifenu felly; ond yr wyf yn deall fod amryw eraill cyn hyny yn "ddirwestwyr ymrwymiadol." Rywbryd yn 1834 yr oedd y Parch. William Morris, y pryd hyny o Garmel, a'r Parch. John Jones, y pryd hyny o Gaergwrle, dau bregethwr ieuainc poblogaidd gyda'r Methodistiaid, wedi arwyddnodi yr ardystiad, y naill yn Liverpool a'r llall yn Manchester; ond pan ddechreusant ddadleu yr ymrwymiad hwnw yn Sir Fflint ar eu dychweliad, fel yn rhagori ar yr hen ymrwymiad "Cymedrol," ennynasant y fath ragfarn yn eu herbyn ag a'u gorfododd am beth amser i fod yn ddystaw. Yr wyf yn deall hefyd fod y Parch. H. Gwalchmai a John Mills, wedi hyny y Parch. John Mills, F.A.S., o Llundain, ac eraill, o honynt eu hunain, cyn hyny, ac yn nghanol y symudiad Cymedrol, wedi cymeryd ymrwymiad o lwyr-ymattaliad yn Llanidloes. Fe ymddengys, fodd bynag, mai yr un a sefydlodd Mr. Davies yn Mai, 1835, oedd y *gymdeithas* lwyr-ymattaliol gyntaf a sefydlwyd yn



Nghymru. Dywed efe yn y llythyr a grybwyllwyd y goddefwyd, er mwyn heddwch, i gael tri ardystiad: 1. Llwyrr-ymwrthod â phob diodydd meddwl. 2. Llwyrr-ymwrthod â gwirodydd poethion, ond cael yfed yn gymedrol o ddiodydd frag. 3. Cael yfed pob diod feddwl, ond peidio meddwi. Am rai blynyddoedd yn flaenorol, yr oedd cryn lawer o ymdrech wedi bod gyda "Chymedroldeb," ac yr oedd llawer wedi arwyddnodi yr ymrwymiad hwnw. Dywedai cyfaill wrthyf y dydd o'r blaen ei fod ef yn cofio yn glir am anerchiad ar Gymedroldeb, a draddodid gan y Parch. John Elias, mewn Cymdeithasfa yn Llanerchymedd, credai efe yn 1832. Yn yr anerchiad hwnw cyfeiriai Elias at yr amaethwyr oeddent ymysg y miloedd oedd yn ymgynulleidig ar y maes, gan gydnabod mewn modd parchus a deniadol y lle pwysig yr oeddynt yn ei lanw, mai "ar dir llafur yr oedd y brenin yn byw, &c.;" ac yna, gan edrych i fyny a phwyntio ei fys, a than deimlad angerddol, yn gofyn, "Ond, amaethwyr! beth pe byddai Duw yn myned i fragu eich fyd?" Mae fy nghyfaill yn gallu teimlo eto yr *ids* o arswyd a ddisgynai ar y gynnulleidfa fawr pan ofynai y cwestiwn. Eto, er yr ymdrechion a wneid ganddo ef ac eraill, ni ddarfu i'r egwyddor o gymedroldeb wneyd nemawr argraff ar y wlad, ac elai meddwdod ymlaen yn ei lawn rwysg. Sonia y Parch. Evan Davies am draethodau a phapyrau a gawsai o'r Iwerddon ac America, ond dywed nad oedd efe yn gwybod, pan ddechreuodd ddysgu yr egwyddor o lwyr-ymattaliad, fod neb arall wedi meddwl am hyny yn y deyrnas hon, er iddo wedi hyny ddeall fod cymdeithasau wedi eu sefydlu yn Preston, a Liverpool, a manau eraill. Fe lafuriodd efe am beth amser i geisio dysgu cymedroldeb, eto yn bur gynnwys fe ymroddodd â'i holl egni i ddadleu llwyr-ymattaliad, gan ei fod yn gweled mai dyna yr unig ddiogelwch rhag hudoliaeth y ddiodydd. Yn fuan wedi iddo ef ddechreu, os nad ymron tua'r un amser, yr wyf yn gweled fod areithwyr yn dyfod i wahanol barthau o Gymru o Preston a Liverpool, ac fe allai o fanau eraill, i ddysgu yr un peth. Yn haf 1836 darfu i un Mr. John Finch, haiarn-fasnachydd, o Liverpool, ddarlithio ddwywaith ar lwyr-ymattaliad yn Neuadd y Dref yn y Wyddgrug, y cyfarfodydd dan lywyddiaeth y Parch. Owen Jones, F.A.S., yn awr o Landudno, yr hwn a breswyliai y pryd hyny yn y Wyddgrug; arwyddnododd tua deugain yr hen ymrwymiad cymedrol, a rhyw ddeg yr un newydd o lwyr-ymattaliad. Yn fuan wedi hyny, y Parch. Joseph Barker, gweinidog o'r *New Connexion*, a ddarlithiai yn yr un lle ar lwyr-ymattaliad, a chymerodd amryw yr ymrwymiad, ac yn eu plith Mr. Jones ei hunan, yr hwn o hyny hyd yn awr sydd wedi bod yn filwr profedig yn y gwasanaeth. Yn lled fuan wedi cymeryd yr ymrwymiad ei hun fe gafodd yr hyfrydwch o'i roddi i'r Parch. William Williams, Wern, Thomas Aubrey, a Dr. Pritchard o Langollen. Ymddengys fod llafur y Parch. Joseph Barker wedi bod o wasanaeth mawr. Ymhen rhai blynyddoedd wedi hyny fe gyflwynwyd anrheg iddo yn Mhenarlâg yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth, at ba un yr oedd llawer wedi cyfranu; ac mi gyflwynais fod dwy o foneddigesau ieuainc y pryd hyny a gymerent ddyddordeb cynhes yn y gwaith, ac a gynnorthwyent yn y *tea party* ar adeg y cyflwyniad, y naill o ba rai a ddaeth yn Arglwyddes Lyttelton, a'r llall yn deilwng briod y Gwir Anrhydeddus W. E. Gladstone. Fe gofr yn dda am Mr. Robert Herbert Williams, tad y

diweddar Mr. R. G. Williams, Q.C., yr hwn a fu farw ychydig flynydd-oedd yn ol, ei fod wedi dyfod, yn 1835, o Liverpool i Sir Gaernarfon a manau ereill, i ddysgu yr athrawiaeth newydd, pan gynnrychai ddwfn syndedigaeth ymhlith y bobl trwy dynu yr *alcohol* allan o'r ddiod, a'i losgi o flaen eu llygaid! Fe grybwyllir hefyd am enwau dynion eraill, y rhai gyda zel angerddol a ddelent allan ar anfoniad y cymdeithasau Seisonig i bregethu llwyr-ymattaliad mewn gwahanol ranau o'r wlad. Nid ydwyf mor gydnabyddus o hanes y symudiad yn y Deheudir, ond yr ydwyf yn meddwl na ddechreuodd lawn mor foreu yno, ac nad ydoedd ei lwyddiant mor nodedig o gryf. Ond yn fuan fe gymerth feddiant o'r holl Dywysogaeth, ac yr oedd y gwaith a wnaeth yn fawr a thra bendithiol.

Y peth hynotaf ynglŷn â'r achos Dirwestol yn Nghymru, ac y mae yn myned ymhell iawn i esbonio ei anferth lwyddiant, ydyw y parodrydd ardderchog â pha un y darfu i weinidogion yr Efyngyl a'r dynion blaenaf yn y gwahanol gyfundebau crefyddol ymgymeryd âg ef a dechreu gweithio gydag ef. Yr oedd yn beth tra dyeithr yn Nghymru i glywed am weinidogion yn Lloegr yn edrych gyda llygad eiddigus ar y symudiad, a hyd yn nod yn ymostwng i'w gondemnio, gan edrych ar ei amddiffynwyr gyda drwgdybiaeth ac ofn; a dyeithrach fyth i glywed fod yn rhaid dwyn y gwaith ymlaen y tu allan i gyloch yr eglwysi, ac fod rhai o'i amddiffynwyr mwyaaf amlwg yn rhai gwrthgrefyddol. Yr oedd rhai yn Nghymru yn lled araf i ddyfod allan. Byddai offeiriad Eglwys Loegr yn gyffredin yn edrych ar y peth gyda chryn ddirmyg. Nid wyf yn cofio am fwy nag un offeiriad Cymreig oedd y dyddiau hyny yn cymeryd dim dyddordeb ynddo,—y Parch. Henry Griffith o Landrygarn, gŵr a gerid yn fawr, ac oedd bob amser “wedi ei berffeithio i bob gweithred dda.” Yr oedd rhai gweinidogion Ymneillduol oeddynt yn anewyllysgar i roddi i fyny yr hyn a olygent fel diod iachus a dymunol yn unig am fod y peth yn cymeryd meddiant o'r wlad, ac yn dyfod, fel yr ystyrid ef ganddynt hwy, yn benboethni. Ac, fel y galleid yn naturiol dysgwyl, yr oedd y dull garw ymha un y beirnedid hwynt gan feddwon dychweledig, ac eraill, yn gwneyd yn anhaws fyth iddynt roddi eu gyddfau dan yr iau newydd. Ond am y dynion da a sanctaidd y rhai ymysg y gwahanol enwadau oeddynt wedi ennill mor lwyr ymddiried a chariad eu cydwladwyr, a'r rhai trwy eu zel a'u gallu a'u ffyddlondeb oeddynt wedi ennill y fath allu dirfawr arnynt, fe ddarfu iddynt hwy ymron ar unwaith ymdafu i'r gwaith, a gwych y darfu iddynt lafurio gydag ef. Y fath wŷr â'r Parchedigion John Elias, Henry Rees, ac Ebenezer Richard ymysg y Methodistiaid Calfinaidd; Dr. Arthur Jones a William Williams, Wern, gyda'r Annibynwyr; Christmas Evans a Dr. Pritchard gyda'r Bedyddwyr; Lot Hughes a William Rowlands gyda'r Wesleyaid; a llu o rai eraill o gyffelyb ysbryd, fe ddarfu iddynt hwy adnabod yn y symudiad ar unwaith arweiniad Rhagluniaeth, a chymeryd ato fel gwaith Duw. Yr oedd y tir a gymerent yn uchel o'r dechreu, ac yr oedd eu hamddiffyniad i achos sobrwydd yn gynnorthwyol i ymgeleddiad pob rhinwedd Cristionogol arall. Fe adnabyddid y symudiad ar y dechreu dan ffurf Gymreig o'r gair *Teetotalism*, yr enw oedd gyffredin arno yn Lloegr,—“*Titotaliaeth*,” ond yn fuan fe gymerwyd ei le gan y gair “*Dirwest*,” yr hwn

a ddefnyddir yn y Testament Newydd Cymraeg, nid yn unig am "gymedroldeb," fel yn Act. xxiv. 25, a Gal. v. 22, ond hefyd am "ymattaliad," fel yn Act. xxvii. 21. Y cyfarfod cyntaf i bleidio llwyr-ymattaliad yn Sir Fflint a gynnaliwyd yn haf 1836, mewn lle o'r enw Carmel, yr hwn a lywyddid gan y Parch. William Morris, wedi hyny o Ruddlan, ac anerchid ef gan y cadeirydd a'r Parchn. Owen Jones, y pryd hyny o'r Wyddgrug, a Griffith Hughes, y pryd hyny o Dreffynnon. Fel ffrwyth ymgynghoriad rhwng y tri ar ol y cyfarfod, dewiswyd yr enw "Dirwest" i ddynodi y symudiad, ac yn fuan fe ddaeth i gael ei arfer yn gyffredinol, ac y mae yn parhâu felly hyd heddyw.

Yr oedd dylanwad y Parch. John Elias ynglŷn â'r achos hwn o ddirfawr werth. Yr ydwyf yn cofio pan yn bur ieuanc ei glywed yn dyweyd na fyddai efe ymron amser yn cyffwrdd â dim diod feddwol, ond y byddai yn bur achlysurol yn cymeryd dyferyn o win ar ol ei lafur Sabbothol; a phan sonid am Ddirwest, fod ei gyfeillion yn dyweyd nad oedd wiw iddo feddwl am ymuno, fod yr ychydig win hwnw yn anhegorol iddo; ond wrth weled y gwaith oedd yn cael ei wneyd, a chael y fath le i greu ei fod o Dduw, ei fod ef yn hollol ddibetrus wedi ymuno âg ef, a'i fod y pryd hyny yn gallu tystio fod yr ychydig win a gymerai mor bell o fod yn help iddo fel y teimlai yn llawer gwell ar ol rhoddi y goreu iddo yn llwyr. I ddangos y tir a gymerai efe gyda'r achos yma, fe goffêir ei fod ar un tro yn cyfarch cyfarfod mawr yn Mangor, yr hwn a lywyddid gan Dr. Arthur Jones, ac iddo lefaru i'r perwyl a ganlyn:—"Dylai dynion lwyrwmwrthod â gwlybyroedd meddwol er mwyn eu hiechyd corfforol, er mwyn eu cymeriad moesol, ac er mwyn eu heneidiau anfarwol. Y mae eu hyfed yn cryfhâu chwant at eu hyfed, ac y mae llymeitian yn llithio dyn i feddwod, gan wanhâu ei gorff a dyrysu ei feddwl; gan iselu ei gymeriad mewn modd na fydd i wr synwrol roddi unrhyw ymddiried ynddo, a chan aflanhâu ei enaid yn y fath fodd fel na chaiff efe etifeddu teyrnas Dduw. Feddwon, arswydych! yr ydych yn pechu yn erbyn y Nef, ac yn gwneuthur cam â'ch oneidiau eich hunain; yr ydych yn casâu doethineb, ac yn caru anghen. Gymedrolwyr, ymbwyllwch! gwelodd y meddwyn ddydd y gallai ddywedyd ei fod yntau yn ddyw sobr; a dichon y cewch chwithau weled amser y byddwch fel ef, os parhewch fel ef i yfed. Dduwiolion, ystyriwch! os nad ydych ddirwestwyr, cofiwch nad yw hyny yn *rhan* o'ch duwioldeb. Y mae ar eich dwylaw wneuthur daioni mawr, y saif rhai o honoch gan beidio ei wneuthur. 'Melldigwch Meroz,' ebe angel yr Arglwydd; nid am iddynt wrthwynebu, ond 'am na ddaethant yn gynnorthwy i'r Arglwydd!' Crinodd y ffigysbren, nid oblegid dwyn ffrwyth drwg, ond am nad oedd arni ffrwyth da. 'Am hyny i'r neb a fedr wneuthur daioni, ac nid yw yn ei wneuthur, pechod yw iddo.'" Ar achlysur arall dywedai: "Tynghedodd Josua'r bobl, gan ddywedyd, 'Melldigedig ger bron yr Arglwydd *fyddo* y gŵr a gyfyd ac a adeilado y ddinas hon Jericho.' Ei eiriau ef ydynt, melldigedig *fyddo* y gŵr a adeilado ddinas Jericho: a ddywedaf fi melldigedig *fyddo* y gŵr a adeilado gaerfa i feddwod yn Nghymru? Na wna; nis beiddiaf ddywedyd melldigedig *fyddo*, eithr anturiaf ddywedyd mai melldigedig a *fydd!*" Yr oedd unwaith yn llywyddu mewn cyfarfod Dirwestol yn Llangefni, yn yr hwn yr oedd y

Parchedigion William Jones, Rhuddlan, a Christmas Evans yn areithio. Cyfeiriai yn ei araeth agoriadol yn dra pharchus a charedig at y tafarnwyr, gan ddangos mai nid eu drygu hwy mewn un modd oedd yr amcan mewn golwg, ond gwaredu y bobl rhag mellidith y ddiold feddwol. Ond gan na ellid gwneyd hyny heb beri niwed, fe allai, iddynt hwy, fe'u cynghorai yn daer i gilio mor fuan ag y gallent o ffordd y perygl. "Meddylwch," ychwanegai, "am wiber yn nant y Pandŷ yna, ar lán yr afon, ac yn bygwith bod o'r perygl mwyaf i'r dref. Ni fyddai dim i'w wneyd, mae yn amlwg, ond saethu y wiber, er mwyn arbed y dref. Ond meddylwch fod rhyw ddynion yn sefyll rhwng y bobl â hi. Ni a waeddem yn sicr, 'Foneddigion, symudwch o'r naill du, yr ydym ni yn myned i saethu y wiber!' Ond os *na* symudant, nid oes mo'r help; mae yn *rhaid* saethu y wiber!" Pan ychwanegaf fod y fath ddadganiadau yn cael eu cyfnerthu gan yr urddas personol a'r difrifoldeb mwyaf yn yr areithiwr, ac yn cael eu gyru adref gan ei hyawdledd digymhar yn y fath fodd ag a barai fod pob gair yn *dyweyd*, gellwch yn hawdd feddwl am yr effaith a gynnyrchid. Fe adroddir ystori am un o'r hen weinidogion yn dyweyd, mewn cyfeiriad at north pregethu Elias pan eto yn *ŵr* ieuanc, "Duw baro fod y bachgen yna yn dyweyd y gwir, canys *rhaid* i'r bobl ei gredu!" Fe ddywedodd wirionedd rhagorol mewn perthynas i Ddirwest, ac fe ddarfu i filoedd ei gredu.

Mi grybwyllais enw Dr. Arthur Jones, gweinidog a berchid yn fawr ymysg yr Annibynwyr. Yr ydoedd yntau hefyd yn amddiffynnydd tra enwog i Ddirwest. Yr oedd ei ddull ef o ymosod yn dra gwahanol i'r eiddo Elias, ond prin yn llai effeithiol. Yr ydoedd efe yn llawn o *humour* neu ysmaldod, ac, fel y mae yn dygwydd yn fynych gyda'r fath ddynion, yr oedd ei lywodraeth ar ffynnon dagrau yn y natur ddynol mor hollol ag ar ei theimlad o'r hyn sydd ddigrif neu chwerthinus. Ac mae yn dda genyf ychwanegu nad arferai Dr. Jones un amser y galluoedd rhyfeddol hyny o'i eiddo yn unig i ddifyru neu doddi ei wrandawyr; ond mor ffyddlaw'n i achos gwirionedd ac mor ddiffrifol ydoedd ei natur, fel yr ymddangosai bob amser yn gosod ei holl egni ar waith, yn ei ffordd neillduol ei hun, yn ngwasanaeth rhinwedd a daioni. Pan fyddai ei gyfeillion fwyaf pryderus rhag fod ei ysmaldod yn rhedeg yn wylt, ac y byddai yr effaith yn niweidiol, yn sydyn fe ymattaliai, a chyda difrifwch anorchfygol fe yrai y wers yn y modd mwyaf effeithiol adref i galon a chydwybod ei wrandawyr. Ar un achlysur clywais ef yn disgrifio dyn meddw a gyfarfyddasai, yn honcian yn ddiymadferth o'r naill ochr i'r ffordd i'r lall, a phan sylwai efe wrtho, "Mae y ffordd yn bur hir, onid yw?" Yr ateb a gafodd oedd, "'Dw' i 'n cwyno dim am ei *hyd*, ond ei *lled* sydd yn fy mlino i yn ofnadwy!" Profesai llawer fel eu hesgus dros beidio dyfod yn Ddirwestwyr mai yfyrwr cymedrol oeddynt, a dyma y ffordd ymha un ar un achlysur y clywais ef yn darostwng eu consê't i anferth ddigrifwch. Yr ydoedd yn dyfod adref, meddai efe, un diwrnod o un o'i gyhoeddiadau, ac fe welai ddyn yn eistedd yn dawel yn y ffos ar ochr y ffordd, a'i hanner dan ddŵr, ac meddai wrtho, "Wel, 'dwyt ti ddim yn ditotal, mae yn debyg?" "Nac ydw," ebe'r truan, mor eglur ag y gallai ei floesgni meddwl ganiatáu iddo, "cymed-ddol ydw i!" Fe ddaeth y *math yna* o gymedroldeb—*Cymedrol ar ei din yn y dêr!*—yn ddiareb ymysg y werin am flynydd-

oedd. Mewn un cyfarfod mawr, pan oedd y llefaru wedi myned yn lled drymaidd, a'r gwrando yn hollol farw, galwyd Arthur Jones i fyny, a chyda'r geiriau cyntaf a ddywedodd fe gynhyrfodd y sylw mwyaf astud, yr hwn hefyd a gadwodd yn y bywiogrwydd mwyaf hyd ddiwedd ei araeth. Dywedai:—"Ni fynaf fi ddim chwaneg! Oni ddywedais i na fynwn i ddim chwaneg?" Gwraig wedi llyncu diod y bendro a orweddodd ar dywod Traeth Lafan, i aros cwch, ac a gysgodd. Pan ddaeth y cwch yn agos ati, gwelai y dynion lanw y môr yn nesu at ei hwyneb; a phan ddaeth dwfr hallt at ei genau, troes ei phen draw, gan ddywedyd, 'Ni fynaf fi ddim chwaneg.' Gyda hyny, daeth dwfr hallt drachefn i gyffwrdd â'i safn, a phoerodd hithau allan hyny a allai, gan waeddi, 'Oni ddywedais i na fynwn i ddim chwaneg?' Ac oni buasai i rai o ddyinion y cwch fyned ati bellach ffordd nag oedd modd i'r cwch nofio, *chwaneg* a gawsai, a myned i drueni nad oes ynddo ddwfr! A fynwch chwi yma chwaneg o hanes dwfr croew? Ddwy flynedd i'r gauaf diweddaf, aeth nifer o wŷr a llanciau hoenus i dafarn newydd at gynnal yr hyn a alwent yn dwymo tŷ (*house-warming*); ac wedi yfed digon i dwymno eu traed, eu cyrff, a'u penau, trwy feddwi, aethant allan ryw-bryd, gan orwedd lle gallent. Ond yn lled foreu clywid un yn gwaeddi, 'Y mae rhywbeth yn cydio gafaal yn fy nhraed, fel nad allaf eu symud.' 'Y mae rhywbeth yn ymafïyd yn fy ngwallt innau, fel na fedraf godi fy mhen,' ebai un arall. Gorwedd mewn cymrwd meddal a wnaethent, a hwnw erbyn iddynt ddeffro o'u cwsg wedi rhewi. Dychwelasant adref, a'u gwisgoedd heirdion wedi eu dwbio â chalh, a'u hetiau yn dolciau llwydion. Trugaredd fawr nad ymaflodd rhywbeth ynddynt oll a'u tafu i'w twymno yn uffern! Ond trugaredd fwy fod y dafarn hono erbyn hyn wedi ei throï yn annedd pobl sobr, gwŷr a llanciau yr *house-warming* yn ddirwestwyr, a rhai o honyng yn professu crefydd y Ceidwad bendigedig." Mi glywais fy nghymydog a fy nghyfaill Mr. Thomas Lewis, yn dyweyd iddo ei glywed yn adrodd ystori yr *house-warming* mewn cyfarfod tra lliosog un tro yn Mangor, a dywedai na welodd erioed yn ei fywyd y fath ddirfawr wahaniaeth â rhwng y chwerthin auorchfygol a gynnyrchid gan y desgrifiad o'r dynion meddwon yn ymwingo ac yn gwaeddi yn y mortar yr oeddent wedi glynu ynddo, a difrifwch ofnadwy y sylw, "Trugaredd fawr nad ymaflodd rhywbeth ynddynt oll a'u tafu i'w twymno yn uffern!" Yr oedd yr effaith yn dra hynod.

Fe deimla dyn yn anhawdd ymattal yn nghanol yr adgoïon dyddorol am areithio Dirwest y dyddiau ieuengaidd a difrifol hyny yn Nghymru. Adroddai Dr. Edwards o'r Bala ychydig flynyddoedd yn ol gymhariaeth ragorol a ddefnyddid gan y Parch. Ebenezer Richard, tad yr aelod anrhydeddus dros Ferthyr Tydfil. Desgrifiai ddyng yn y tônau mawrion, ac mewn perygl o foddi; a'r cymydogion, gan weled ei sefyllfa, yn ymaflïyd yn nwyllaw eu gilydd, ac felly yn myned i'r môr ato, yn ei gyrhaeddyd ac yn ei achub. Ac ai ni fyddai iddynt hwythau wneyd yn debyg gyda'r meddwyn truan, perygl yr hwn oedd gymaint yn fwy? Y Parch. William Griffith, gweinidog Annibynol yn Nghaergybi, yr hwn mewn oedran teg a ystyrir gan ei gydwladwyr yn gyffredinol fel un o'r dynion mwyaf hybarch ar y ddaear,\* yn un o'r cynnulliadau

\* Wedi i'r geiriau uchod gael eu cysodi clywsom fod Mr. Griffith hefyd wedi myned at y mwyafrit!

Dirwestol mawrion, a adawai argraff ddofn a hynod iachus ar feddyliai ei wrandawyr wrth adrodd a chymhwyso ystori genadol. Mewn cyfarfod a gynnelid gan un o'r cenadon yn India, yr oedd rhieni y gymydog-aeth yn cael hyfrydwch neillduol wrth glywed eu plant yn cael eu cateceisio ac yn adrodd rhanau o'r Ysgrythyr, yn canu, &c. Ond yr oedd un wraig, yn nghanol yr holl ddyddordeb a'r mwynhâd, yn wyllo yn chwerw. Gofynai y cenadwr iddi paham yr wylai? "Oh," ebe hithau, "pe buasit ti yma yn gynt, fe fuasai gen' innau fachgen allasai ateb cystal â'r un o honyn' nhw! Ond, gyda fy nwyllau fy hun, mi a'i gosodais o dan olwynion y Juggernaut!" A'r fath nifer o'r rhai oedd wedi eu dinystrio gan y ddiod allasant fod yno y dydd hwnw, yn ddiogel ac yn barchus, pe buasai y diwygiad Dirwestol wedi dechreu yn gynt; rhai hyd yn nod ag yr oedd eu rhieni, trwy eu hesiampl yn yfed, wedi eu gosod dan olwynion y Juggernaut! A'r fath gymhelliad a ddylent hwy dynu oddiwrth hyny i weithio eu goreu gyda'r achos ac felly attal trychinebau cyffelyb yn y dyfodol. Yr oedd Williams o'r Wern yn ddadleuydd tanbaid a nerthol dros Ddirwest, ac felly, yn gystal ag mewn llawer o fyrrdd eraill, fe fu yn offeryn anrhydeddus i wneyd daioni mawr. Fel engraifft o'i ddadleuaeth uchel dros yr achos, cymerwch a ganlyn:—"Y mae yn y wlad aml i wrthgiliwr, wedi gadael crefydd er ys blynyddau, ac yn swgio ei hunan mewn tafarndai, gan ymddangos yn hollol ddidaro ynghylch ei gyflwr; a lleferydd yr Arglwydd ato yw, 'Pa fodd y'th roddaf ymaith, wrthgiliwr? y'th roddaf i fyny, enaid? trodd fy nghalon ynof.' Mam, ac un o'i bechgyn bychain yn cymeryd gafael yn ei llaw, a fynegai wrth gymydog iddi fyned i geisio bachgen iddi, a'i gael ar myl y gamlas yn doddi pluen i nofio ar y dwfr, gan estyn allan ei ben i'w chwythu yn bellach oddiwrtho; 'ac, ebai hi, 'oni b'ai fy mod yno i gydio yn ei fraich, buasai wedi myned i'r dwfr a boddi; a theimlais fy nghalon yn rhoi tro.' Feddwyn rheglyd, gwrandaw! Wrthgiliwr meddw, clyw! Y mae yr Arglwydd yn dy ganfod ar myl dinystr, yn chwareu â theganau ysgafnach na phlu; y mae efe yn dy weled yn ymestyn at golledigaeth, uwch ben dystryw tragywyddol. Ystyria, ddyn! os na fydd i law trugaredd rasol y Nef ymafael yn dy enaid, tydi a ddisgyni o'r dafarn i dân, ac oddiwrth y cwrw a'r gwirod i le na chai ddyferyn o ddwfr i oeri dy dafod; ac y mae calon Duw yn rhoi tro!"

Mewn braslinelliad o hanes dechreuol Dirwest yn Nghymru, pa mor fyr bynag, fe fyddai yn anfaddeuol peidio crybwyll enw y Parch. Christmas Evans. Er mewn oedran mawr, ni phetrusodd efe syrthio i mewn â'r symudiad newydd, a gwnaeth ei oreu i'w hyrwyddo. Yn wir, y mae yn ffaith o ddyddordeb neillduol gyda golwg ar ymron yr oll o'r dynion rhagorol a grybwyllais fel wedi gwneyd cymaint gyda Dirwest yn Nghymru, eu bod wedi ymgymeryd â hi yn mhrydnawn eu heinioes, pan y galleid yn rhesymol eu hesgusodi am beidio newid eu dull o fyw, a phan y gallasai hyd yn nod y rhai mwyaf zelog o'n cyd-wladwyr yn briodol awgrymu iddynt y priodoldeb o orphwys oddiwrth eu llafur. Ond fel y dywedai John Elias, ar un amgylchiad nodedig, "ei fod yn ymddangos iddo ef mai yn y cerbyd Dirwestol yr oedd Brenin y brenhinoedd y dyddiau hyny yn marchogaeth trwy y wlad," felly hwy deimlent oll mai eu braint oruchaf hwynt oedd talu eu gwarogaeth

iddo Ef, a gwneyd a allent i barotoi ei ffordd. Ac ni ddarfu i neb o honynt wneyd hyny gyda mwy o barodrwydd calonog na'r hwn, gyda'r fath gariad pur, y sonid mor fynych am dano gan y Cymry fel yr "Hen Gristmas." Yr ydoedd efe yn wir blentyn natur, yn ddyun o ffansi oedd bron yn anystywallt, ac o ddigrifwch diderfyn, er, gyda dwfn ddirifoldeb ei gymeriad, y gwnelai ymdrechion egniol i gadw y nerthoedd hyny dan lywodraeth, a'u gwneyd yn wasanaethgar i'r achos oedd ganddo mor agos at ei galon. Er uwchlaw pedwar ugain ar yr unig achlysur pan gefais i, yn fachgen, y pleser o'i weled ar esgynlawr Dirwestol, eto fe ymddangosai ei ysbryd yr ieuengaf o'r cyfan, ac fe fuasem ni, y bechgyn, yn tyngu iddo dragywyddol gariad. Mewn un ran o'i araeth—mi dybygaf y rhaid ei fod yn ceisio cynhyrfu y rhai rhinweddol a da i beidio gadael i bobl dra gwahanol fyned o'u blaen yn y gwaith hwnw—yr wyf yn cofio yn dda yr hwyl a'r effaith oedd gyda'i waith yn gwaeddi, "O, ffei, gadael i Betsi fach o Nefyn guro y llongau mawr ar y môr!" "Fy mhobl i," meddai ar un achlysur mewn cyfarfod mawr a gynnelid yn Nghapel Moriah, Caernarfon, "nid arferais yfed ond ychydig wlybyr meddwl ar unrhyw adeg, er pan yn ceisio cyhoeddi Crist yn Waredwr i bechaduriaid; a phan droais heibio yr ychydig hyny, er mwyn teimlo yn eofn at geisio gan y meddwon beidio yfed y gwlybyroedd tanllyd, tybiais fy mod yn aberthu f'ch; eithr y mae gweled y meddwon yn sobri wrth yr ugeiniau, duciaid Edom yn cael eu darostwng, a chrefydd bur yn myned i'r lân, yn lloni fy ysbryd, yn ireiddio fy nghawd, ac yn gwneuthur i mi deimlo nad aberthais ond llygoden freinig!" Yr oedd ei allu ar y cyfarfodydd hyny yn anferth; ond yn llawnder ei frwdfrydedd, gyda'i ddigrifwch rhyfedd, fe fyddai y chwerthin eithafol a gynnyrchid yn fynych dan ei areithiau weithiau yn peri gofid i'r bobl oreu. Mi glywais y diweddar Barch. David Jones, Treborth—enw sydd yn beraroglaidd gan adgofion serchog!—er ei fod ei hunan yn un o'r dynion mwyaf siriol, yn dyweyd y byddai yn fynych yn gofidio wrth y chwerthin a gynnyrchid gan Christmas Evans pan yn areithio ar Ddirwest, yn enwedig wrth feddwl fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn addoldai, er ei fod yntau mor ddiymadferth a neb pan y gogleisid ef gan y swynwr mawr. Un nos Lun, fodd bynag, ar ei ffordd i'r cyfarfod yn Moriah, fe benderfynodd na chai Christmas ddim gwneyd ffwl o hono mwyach, ac y gwnelai a allai i roddi attalfa ar y chwerthin anwedus; gwysiai holl nerth ei ewyllys, a cheisiai hyd yn nod am gymhorth o le uwch i gario allan ei benderfyniad. Aeth y cyfarfod am beth amser ymlaen yn sobr ddigon, ond pan gododd Christmas ar ei draed fe deimlai Mr. Jones holl dymher y cyfarfod ar unwaith yn llacio yn beryglus. Ei eiriau cyntaf oeddynt: "Mae y ddiod, fy mhobl i, yn bur debyg i dumpling hen berson y clywais am dano yn Sir Aberteifi." Wrth reswm, yr oedd holl sobrwydd y cyfarfod wedi diflanu! Yna, fel y caniateid iddo gan y chwerthin, aeth rhagddo i ddyweyd fod yr hen berson hwnw yn dra hoff o dumpling gyda'i giniaw ddydd Sul, ac fod ei forwyn braidd wedi blino ar y drafferth ychwanegol o'i choginio, ac iddi un diwrnod benderfynu ar dipyn o ddichell ddireidus er mwyn ceisio ei osgoi. Rhoddodd arian byw yn y dumpling, ac mewn canlyniad pan ddechreuai y dwfr ferwi neidiai y dumpling allan. Aeth at ei meist'r, gan gymeryd arni fod mewn syn-

dod, os nad dychryn, a dyweyd fod arni ofn, nad arosai y dumpling yn y crochan, ond ei bod yn dawnsio ar hyd y gegin. Yr hen ŵr a waeddai pw pw ar ei hystori, ac a ddywedai fod y fath beth yn anmhosibl. Aeth gyda hi i'r gegin, gan orchymyn fod y dumpling yn cael ei gosod yn y crochan eilwaith. Yn y fan, er ei syndod a'i fraw, allan â hi drachefn, gan ddawnsio yn wyllt o amgylch ei draed. Nid oedd ond un penderfyniad i ddyfod iddo,—Yr oedd y cythraul yn y dumpling! Edrychodd am ei Lyfr Gweddi a daeth yn ol, gyda'i yspectol, i ddarllen yn sobr y gweddiau, ac i yru y cythraul allan. Yn nghanol ei weddi, sut bynag, neidiodd y dumpling allan drachefn, gan chwaraeu yr un campau o'i amgylch. Yr ydoedd yn ŵr dewr, ac fe geisiodd drachefn yru yr ysbryd ymaith, ond gyda'r un canlyniad; ac o'r diwedd rhoddes y cwbl i fyny, gan sylwi gyda sobrwydd mawr, Mae y cythraul yn y dumpling! Yr oedd pob brawddeg yn y disgrifiad, wrth reswm, yn peri chwerthiniadau byddarol, ond yr oedd y wers fawr—fod y cythraul yn y ddiod!—yn cael ei hargraffu yn ddwys ar feddyliau y bobl, ac mai eu hunig ddiogelwch oedd ymwrthod â hi yn gwbl oll.

Fe ddarfu i liaws o ddynion eraill, a rhai ieuengach, ddyfod allan yr un modd, ac ymdafu i'r gwaith. Yn wir, yr ydoedd yn eithriad anfyfych i weled unrhyw weinidog yn sefyll o'r neilldu, ac nid ydwyf yn gwybod am ddim ond un—Caledfryn—a oddefodd gymeryd ei yru gan sarhâd y rhai gor-zelog i sefyllfa o wrthwynebiad. Yr oedd yr hunanymwadiad i lawer yn costio cryn dipyn. Byddai ei gyfeillion yn cael llawer o ddifyrwch gyda yr hen gyfaill Isaac James o Sir Aberteifi, gŵr ffraeth ac ôd, nad oedd mewn un modd yn hoffi rhoddi i fyny y ddiod yr ydoedd wedi ymarfer â hi, ac eto a deimlai bwysau yr ysbryd Dirwestol mor gryf fel nad allai lai nag ildio iddo. Y Parch. Thomas Richard o Abergwaun, gweinidog enwog yn y Deheudir, ac yn lled hoff, fel eraill, o dipyn o ysmaldod ar draul Isaac James, a ofynai iddo unwaith yn mhresenoldeb nifer mawr o weinidogion a blaenoriaid mewn Cymdeithasfa, "Isaac James, a y'ch chi'n ddirwestwr?" "Odw," ebe yntau. "Ie, a y'ch chi'n ddirwestwr o galon?" "Beth sy fynoch chi i â nghanol i? 'rwy'n ddirwestwr o fola." Fe ddywedir ystori dda am y Parch. Evan Evans, Aberffwrdd, o'r un Sir. Edrychai efe ar gymeryd ymrwymiad o lwyrymattaliad yn beth pur ffol, ac am beth amser ni ellid ei berswadio i ddilyn ei frodyr a'i gymeryd. Un diwrnod, sut bynag, fe'i goddiweddiwyd gan ddyd oedd yn dychwelyd o farchnad Aberystwyth, yr hwn, a dyweyd y lleiaf, nad oedd ei sobrwydd yn hysbys i bob dyn; gyda phroffes fawr o barch a chariad, fe ddechreuodd ganmawl a gwenieithio i'r hen weinidog parchus, gan ffoesg-barablu, "Mae yn dda gen i chi, Mr. Evans; mae yn dda gen i chi; 'r y'ch chi yr un ochr â ni, ac nid yn perthyn i'r hen dotals gwirion yna. Mae yn dda iawn gen i chi, Mr. Evans!" Fe lewyrchodd y gwirionedd ar unwaith ar feddwl y gweinidog. "Y fi yr un ochr â thi! Na, ni chei di ddim dweyd byth mwy fy mod i yr un ochr â thi!" Ac fe argyhoeddwyd llawer eraill mewn dull cyffelyb. Nid ydyw yn ormod dyweyd fod holl nerth moesol Cymru i gyd, ymhen ychydig iawn o amser, wedi ei osod o ochr Dirwest, ac am lawer o flynyddoedd yr oedd y croesgadiad Dirwestol trwy yr holl wlad yn hynod o rymus ac effeithiol. Sefydlid cymdeithasau ymhob cymydogoeth, ymha rai yr ymunai



yr holl enwadau; oedwid cyfarfodydd cyhoeddus yn fynych, a gwneid ymdrechion difrifol i ddysgu egwyddorion sobrwydd. Mewn llythyr oddiwrth y Parch. David Charles, B.A., o'r Bala, wedi hyny Dr. Charles, a gyhoeddwyd yn y *London Temperance Intelligencer* yn 1838, a'r hwn a gyfieithwyd i'r *Cerbyd Dirwestol* am y flwyddyn hono, fe ddywed, ymysg pethau eraill, fod y Parch. Lewis Edwards, M.A., a anrhydeddir yn awr gan yr holl Dywysogaeth fel Dr. Edwards, wedi pregethu bythefnos cyn yr amser yr ysgrifennai bregeth ar Ddirwest ar nos Sabboth yn y Bala i gynnulleidfa fawr; ac mor rymus oedd effeithiau y bregeth hono fel cyn diwedd yr wythnos fod deuddeg a deugain wedi arwyddnodi yr ymrwymiad, llawer o ba rai oeddent hyd hyny wedi bod yn wrthwynebwyr mwyaf cyndyn y symudiad. Dywed Dr. Charles yn y llythyr hwnw, allan o 1200 oedd yn gwneyd poblogaeth y Bala ar y pryd, fod 900 wedi cymeryd yr ymrwymiad; ac yr oedd y gwaith yn myned rhagddo yn gyffelyb ymhob man. Fe fyddai areithwyr galluog, yn fynych o wahanol enwadau, yn myned ar deithiau trwy y gwahanol wledydd i gynnal cyfarfodydd. Fe fu y diweddar Barchedig Henry Rees o Liverpool, gyda y diweddar Dr. Charles, ar daith felly, a sonir am dani hyd heddyw. Clywais yn ddiweddar am gyfarfod enwog iawn a gynnaliwyd ganddynt yn Eglwys Llanfaircaereinion. Yr oedd Mr. Charles yn llosgi yr *Alcohol*, a Mr. Rees yn tafu ei holl ymadferthoedd ysplenydd i araeth ag oedd fel llifeiriant yn cario pobpeth o'i blaen. Mewn un ran o honi yr oedd ganddo sylwadau ardderchog ar y dwfr, a'r mawredd a osodid arno yn Ngair Duw; dirwynid un *climax* i fyny â'r sylw mai dwfr oedd yn cael ei 'yfed gan y cynddiluwiaid, "a chawri oedd ar y ddaear y dyddiau hyny." "Hoch," meddai John Hughes, Pontrobert, ar hyny,—cystal a dyweyd fod y mater yna wedi ei setlo bellach am byth. Clywais am Mr. Rees mewn un arall o'r areithiau hyny, wrth ddangos yr ymfydrwydd o feddwl fod y diodydd meddwol a arferir yn y wlad hon o'r un natur â'r diodydd y sonir am danynt yn y Bibl fel rhoddion y Brenin Mawr, ac fel arwyddion o fendithion yr iachawdwriaeth, yn cario y cyfarfodydd yn anorchfygol gydag ef wrth ofyn, beth a fuasai y bobl eu hunain yn feddwl o addewidion Dwyfol am gyflawnder o chwisi a gin, afonydd o rum, a mynyddoedd yn defnynu brandi, &c. Bu Dr. Owen Thomas, yn awr o Liverpool, yn llafurio yn dra egniol a llwyddiannus yr un ffordd; hefyd y diweddar Barch. Richard Humphreys, Dyffryn, a llawer eraill. Mewn llawer o'r gwledydd yr oedd trefniadau cyflawn wedi eu gwneuthur, dosbarthiadau gyda chynnadleddau chwarterol, a chyfarfodydd blynyddol Sirol, a gwyliau yn ddirif. Yr oedd y gorymdeithiau ar y gwyliau hyny, pan fyddai fe allai ddwsin o gymdeithasau o'r ardaloedd cylchynol yn ymuno â chymdeithas y dref neu y dreflan, pob un yn cael ei blaenori gan ei baner, yn gwisgo eu medelau neu eu hysnodenau, ac yn canu emynau Dirwestol, ac yn cyfarfod wedi hyny, yn gyffredin mewn cae lle y byddai esgynlawr wedi ei barotoi, neu yn y capelau mwyaf, i wrando yr areithiau, &c., yn bethau gwych a thra chofiadwy. Mae yn wir eu bod yn cael eu gwawdio, ac weithiau fe wneid ymgeisiadau adgas at eu tarfu neu eu niweidio; ond fe arweinid y bobl ynddynt gan y rhai a olygent fel eu dynion blaenaf, eu hathrawon ysbrydol enwog; fe gyn-

nelid eu meddwl hefyd gan yr ymwybodolrwydd eu bod yn codi i fyny yn erbyn gormes gelyn a fynai lethu eu bywyd ymaith; ac ymhellach, nid oeddynt heb ddwfn argyhoeddiad mai gwaith Duw ydoedd: ac yn ngoleuni yr ystyriaethau hyn, hwy allent yn dawel fod yn ddiystyr o ddirmyg ac erlidigaeth ychydig o dafarnwyr isel, a boneddigion digymeriad, a meddwon, a dybient eu bod yn dangos gwroldeb wrth geisio eu llesteirio. Mewn ugeiniau o amgylchiadau fe sychwyd i fyny y tafarnau yn gwbl, ac nid yn anfynech fe fyddai dynion da a chydwybodol, wedi agor eu llygaid i natur y fasnach a ddygid ymlaen ganddynt, yn ei rhoddi i fyny o honynt eu hunain, llawer yn tywallt eu barilau i'r afon, ac mewn ffyrdd eraill yn myned dan gollodion arianol trymion. Fe roddwyd cychwyniad nerthol hefyd i achos crefydd yn gyffredinol, a llawer o'r rhai oedd yn cael eu dinystrio gan feddwdod a achubwyd, ac a ddaethant yn Gristionogion anrhydeddus; a daliodd miloedd felly hyd ddiwedd eu dyddiau. Yn un o'i areithiau fe ddywedai Christmas Evans: "Dygir amryw wrthgilwyr yn ol, y dyddiau hyn. Torodd llawer un ar ei gyflog, a throes ei gefn ar dŷ yr Iesu, wedi bod yno yn gwasanaethu y Meistr mawr am flynyddoedd. Wrth grwydro, ac wedi crwydro llawer,—o dafarn i dafarn, ac o fan i fan, cymerodd yn ei ben fyned a rhoddi tro mewn cyfarfod dirwestol, er gweled pa beth oedd yn myned ymlaen yno. Pan yn myned ar heol heol Dirwest, aeth ymlaen i heol Sion; a phwy a'i cyfarfyddai yno ond ei Feistr. Go yswil oedd y gwrthgiliwr; ac ebai y Meistr, Os ymadael, gâd i ni ymadael yn gyfeillion; tyred gyda mi. Aeth ei Feistr âg ef i heol y Groes, ac i mewn dan arwydd y winwydden; ac wedi eistedd, cawsant bob i wydriad o win gwinwydd Escol, a sathrwyd yn ngwinwryf Calfaría; dygwyd iddynt o'r rhywogaeth oreu; ac wele y gwrthgiliwr dychweledig ar ei draed, ac â'r dagrau yn treiglo yn berlau gloëwon, rhoes ei ddeheulaw yn estynedig at ei Feistr, gan waeddi, Meistr anwyl, cyfeillion i dragywyddoldeb mwy! Dere yn ol, ebai'r Meistr; y mae'r hen fywioliaeth a welaist gynt yn aros eto: 'Eu pechodau a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach.' Fy nghymdeithion yn eglwys yr Iesu bendigedig, mae y bodau mawrion yn y Nef, y thronau, yr arglwyddiaethau, y tywysogaethau, a'r holl etholedig angelion, mewn cyflwr hollol ddiogel; ond gan nad pa mor ddiogel yw y ser etholedig, mae y rhai a godwyd o dyrau llwch yr adeilad a syrthiodd yn Eden mor ddiogel â hwythau, oblegid y maent yn llaw Mab y dyn, a'r adamant mawr wedi amgau yn dragywyddol am danynt. O frodyr! nid lle'r ser hyn yw awyrgylch y dafarn a'r gyfeddach; canwyllr gweinidogion y Testament Newydd yw twll yr heol! Lle diogel yw twll yr heol i ddal seren!"

Mae yn dda genyf allu dyweyd fod y diwygiad rhyfeddol hwnw wedi sicrhau i'r egwyddor ddirwestol gartref diogel yn nghalonau lliaws mawr o bobl Cymru. Mae yn wir, yn nghwrs amser, fod y zel a ddangosid gyda'r achos wedi marweiddio yn fawr. Gyda chynnydd llwyddiant fe ddarfu i lawer ildio i'r dychmyg na fyddai eu byrddau yn barchus os na fyddai y diodydd, yr edrychid mor uchel arnynt gan gynifer o bobl barchus, yn cael eu gosod arnynt. A gwaeth na'r cwbl, fe ddechreuodd y meddygon siarad am effeithiolrwydd rhyfeddol porter, bitter beer, &c., fel pethau i adfer pobl o bob math o

lesgedd, ac fe ganmolid brandi ganddynt ymron fel dwfr y bywyd. Wrth reswm yr oedd llawer yn ddigon o ffyliaid i'w credu, ac y mae y trychinebau a gymerodd le mewn canlyniad, mewn llawer o amgylchiadau, yn ddychrynllyd. Y mae un effaith a ddilynodd hyny yr hyn, er nad ydyw wedi cael nemawr o sylw cyhoeddus, eto sydd yn ol fy marn i, wedi bod o nodweddiad hynod o andwyol; yr wyf yn cyfeirio at anallu dynion da a chydwybodol, oeddent wedi bod yn amddiffynwyr effeithiol i Ddirwest, ar ol ildio i ddysgeidiaeth y meddygon gyda golwg ar wasanaeth y diodydd hyn i iechyd, i gymeryd yr un safle gref ag o'r blaen mewn dysgu sobrwydd. Mewn canlyniad i hyn, fe ddirywiodd yr areithio dirwestol, ac fe ddarfu i'r gynau mawrion, oeddent wedi bod yn gwneyd y fath hafog ar nerthoedd ymyfed, gael eu dystewi. Fe brofodd dygiad Temlyddiaeth Dda i Gymru yn 1872 yn fendith o ddirfawr werth. Fe gododd y llanw gyda nerth mawr, ac yr ydoedd yn lled fuan wedi gorchuddio yr holl Dywysogaeth. Yr oedd y goreuon o ran gallu a chymeriad ymysg dynion mwyaf gobeithiol Cymru yn cymeryd eu lle ymysg amddiffynwyr Dirwest; fe ddaeth y mater i gael ei astudio mewn dull nad ydoedd wedi ei astudio er ys llawer o flynnydoedd, ac mewn canlyniad fe ddaeth yr areithio i wisgo ieuengrwydd a nerth oeddynt yn newydd a thra gwerthfawr. Fe gafodd llawer o feddwon eu hadfer a'u gwneuthur yn ddynion newydd, ac fe gafodd miloedd yn ychwaneg o'r genedl oedd yn codi eu dwyn o'r lleoedd lithrig, a'u sefydlu yn ffyrdd rhinwedd. Yr wyf yn ofni fod tòn Temlyddiaeth i gryn fesur wedi gwario ei nerth yn Nghymru, ac yr ydym mewn angen am gychwyniad newydd arall gyda'r achos Dirwestol. Y mae nifer helaeth iawn o lwyr-ymattalwyr yn ein plith, ond nid ydynt wedi eu gosod mewn trefn i weithio, ac y maent llawer iawn yn rhy ddystaw. Y mae nerth ein teimlad Dirwestol newydd gael ei ddangos yn bur amlwg yn yr unfrydedd difrifol â pha un y darfu i'r holl wlad alw am gau y tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru; ac yr wyf yn credu, mewn llawer iawn o'n hardaloedd, y byddai i "ddewisiad lleol," pe byddai y gallu wedi ei ymddiried iddo, wneyd i ffwrdd â'r fasnach yn gwbl oll. Ond y mae mawr angen am ymdrech llawer mwy egniol mewn addysgiaeth Ddirwestol ymhob man, ac nid ydwyf heb obeithio y bydd i ni cyn bo hir weled hyny yn cael ei ddwyn oddiamgylch.

DANIEL ROWLANDS.

## ODDICARTREF.

### II.

NID ydym yn bwriadu yma gyfranu dim at wybodaeth ddaearyddol darllenwyr y TRAETHODYDD, ond yn unig draethu ychydig o'r hyn a welsom ac a glywsom tra y buom "oddicartref." Diau y cofiant i ni o'r blaen eu hysbysu mai ar fwrdd un o longau ei Mawrhydi yr oeddem, ac mai ein neges ar dueddau Affrica oedd gcsod llyffethair ar y gaeth-fasnach. Yn awr yr ydym yn troi allan i fan arall, sef Culfor Persia, a chydag amcan arall, yr hwn y bydd y darlennydd yn lled debyg o'i ddyfalu cyn i ni derfynu.

O Aden y cychwynasom y tro hwn, a chawsom fordaith heb ddim gwerth ei draethu mewn perthynas iddi nes i ni gyrhaedd yn deg oddi-mewn i'r Culfor, ac angori yn Muscat. Deng niwrnod fu ein mordaith; canys gadawsom Aden ar y 6ed o Orphenaf, 1878, ac yr oeddyd yn Muscat ar yr 16eg.

Muscat yw prifddinas teyrnas Oman, ac y mae yr holl diriogaeth yn cyrhaedd o Benrhyn Mussendom i Kooria Moorla. Llywodraethir y deyrnas hon gan Syyed Toorke Ben Said, a rhyw ddigon rhempus ydyw fel llywodraethwr. Y mae yn meddu llawn allu ar ei ddeiliaid, fel y gall roi i farwolaeth neu gadw yn fyw y neb a ewyllysio. Cosbir lladrdd yn gyffredin trwy dori ymaith yn yr arddwrn y llaw dde; os bydd y troseddwr yn parhâu i chwennychu a chymeryd eiddo ei gymydog, defnyddir yr un orchwyliaeth ar y llaw aswy; ac y mae y gyfraith yn lled gydnabod y dichon dyn ladrata wedi cael ei amddifadu o'i ddwy law, a chan hyny darperir trydedd cosb, nid amgen tynu allan y ddau lygad. Wedi cael felly ei amddifadu o'i ddwyllaw a'i lygaid, rhaid i'r lleidr rhag cywilydd droi allan ar ol hyny yn ddyn gonest. Y mae tref Muscat yn meddu porthladd da er ei fod yn fychan, yr hwn sydd yn cael ei amgau ar bob ochr oddigerth ochr y môr. Cyfyd mynyddoedd uchel ar bob tu, fel y mae yma gysgod da ond pan fyddo y gwynt yn chwythu o'r môr. Y pryd hwnw edryched pob llong ati ei hun, canys y mae Neifion fel pe am berchenogi pobman, yn dref a bryniau. Bydd y môr yn ymddyrchafu i'r fath raddau, ac yn golchi i mewn gyda'r fath rym, fel y rhaid i bob llong angori ei hun ar bob ochr rhag ofn y caiff ei lluchio gan y gwynt yn deg i'r lân. Y mae yn boeth iawn yma yn yr haf, a'r poethwyntoedd yn dwyn gyda hwynt y fath orthrwm ar y corff dynol truan, nes y teimla dyn yn llesg a diym-adferth hollol. Druan yw y sawl na byddo ganddo bâr da o ysgyfaint, canys y mae pawb fel eu gilydd ar yr amserau hyn fel pe yn hanner tagu. Bydd pob gwaith ar ben y pryd hyny, canys cyst hyd yn nod

i'r brodorion roi i fyny yr ymdrech; pa faint mwy Ewropeaid! Y mae Muscat yn gwneyd masnach helaeth â'r Culfor, âg India, Batavia, Yemen a Zanzibar. Allgludir *dates*, pysgod wedi eu halltu, brethynau a llieiniau, crwyn, halen, cŵyr, perlau, &c.; tra yr atgludir yma reis, sidan, cotwm, &c., a chyfrifir fod yr atgludion yn werth o leiaf £200,000. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg cododd y Portwgiaid amddiffynfeydd i gadw y dref a'r porthladd, ac y mae yr hen amddiffynfeydd hyny i'w gwled eto, ond mewn cyflwr pur adfeiliedig.

Y mae Muscat yn meddu tipyn o ddyddordeb i ni y pryd hwn, am ein bod yn cael golwg ar y grefydd Fahometanaidd. Ceir y trigolion yn cadw gŵyl fawr y Ramadan neu Ramazan. Dyma y Grawys Mahometanaidd, a chedwir ef gyda llawer mwy o ddyfalwch nag y gwna y Pabyddion na neb arall dybygem. Dechreuau y boreu ar ol i leuad y nawfed mis (Ramazan) gael ei gwled gyntaf, a pharhâ yr ŵyl hyd nes y bydd i frenhines y nefoedd ddangos cil ei hwyneb y mis canlynol. Y mae yr ympryd hwn yn rhwymedig ar bob un o ddilynwyr Mahomet, oddigerth teithwyr, a'r rhai hyny y byddo eu hiechyd yn gyfryw ag i'w wneyd yn rhy beryglus iddynt ei gadw i fanylwydd y llythyren. Esgusodir y cyfryw ar yr ammod fod iddynt wneyd i fyny am eu diffygion ar amser arall, ddiwrnod am ddiwrnod ac awr am awr. O ddau hyd bedwar o'r gloch y bore bydd yr addolwyr yn gwneyd eu hunain yn weddol foldyn, ac weithiau defnyddir yr holl nos i'r amcan; ond o bedwar o'r gloch hyd fachlud haul nid oes genad i neb na bwyta nac yfed nac ymwneyd â gwragedd. Yn ystod yr oriau hyny y mae yn anghyfreithlawn cyffwrdd â dim. Ar yr 20fed neu yr 21ain, y mae y Shiah, sect o'r Mahometaniaid, yn cynnal noson Ali, yr hwn, meddir, a fu farw ar un o'r nosweithiau hyn, er nad yw yn hysbys pa un o honynt. Cerddant trwy yr heolydd gan guro eu dwyfronau, a dygant elor gyda hwynt yn yr orymdaith. Gosodir hefyd gryn bwys ar noson y 27ain o'r mis, am y dywedir mai ar y noswaith hono y disgynodd y Coran o'r nef, a chedwir gwyliaidwriaeth trwy yr holl nos.

Hwyrach y bydd yn dda gan ein darllenwyr gael yr ychydig fanylion a ganlyn am rai seremoniau Mahometanaidd, y rhai a gawsom gan ein cyfieithydd, yr hwn oedd o'r grefydd hono.

Edrychir ar enedigaeth bachgen gyda llawenydd llawer mwy nag yr edrychir ar enedigaeth benyw. Wedi gwisgo am y baban am y tro cyntaf, rhaid gwaeddi yn ei glust dde yr alwad i weddio, ac yn ei glust chwith y credo Mahometanaidd; ar ol hyny bydd Mahometan tra chrefyddol yn trochi ei fys mewn mêl ac yn ei ddodi yn safn y baban cyn y gosodir ef wrth y fron. Ymgasgla holl berthynasau y fam i'r tŷ, a gosodant baladrau glaswellt gwyrdd yn ngwallt y tad, am wneuthur yr hyn y rhaid iddo yntau fod yn hael yn ei anrhegion i bob un o honynt; ac y mae Jack yn dyweyd wrth ein hochr mai amheus ydyw pa un ai llawenhâu ai wyllo a ddylai tad bachgen o grefydd Mahomet, yn gymaint ag y rhaid fod y frainit o fod yn dad yn frainit led gostus ar y goreu. Wedi myned trwy yr anrhegu, byddys yn myned ar unwaith trwy y ddefod o enwi y baban, yr hyn a wneir naill ai yr un diwrnod neu ynte ymhen yr wythnos. Penderfynir yr enw mewn un o ddwy ffordd,—naill ai trwy agor y Coran ar amcan, a

dewis yr enw a ddelo gyntaf ger bron y llygad; neu ynte gadewir y dewisiad i'r baban ei hun, trwy adael iddo bigo allan o nifer o bapyrâu âg enwau wedi eu hysgrifenu arnynt yr un a fyno ei fysedd bychain ar y pryd.

Bydd y plant Mahometanaidd yn cael eu dyweddio ar gyfer eu priodi pan yn ieuainc iawn, ac ymbriodant pan fyddo y llanc yn 18 oed, a'r foneddiges ieuanc yn 13 neu 14 oed o bellaf. Cyflawnir wyth o seremoniau priodasol o gwbl, a chedwir i fyny y llawenydd priodasol am wythnos neu ragor. Y seremoni wychaf oll yw y Shab-gasht, neu y tramwyad nosol. Y pryd hwnw bydd y priodfab wedi ei wisgo yn wych, ac yn cael ei ddilyn gan gerddorion a chwmmi o gyfeillion, yn marchogaeth ar gefn ceffyl neu elephant i'r *mosque*, lle yr offryma dair o weddiau byrion, ac yna â rhag ei flaen i dŷ ei ddyweddi. Cyflawnir y ddefod briodasol gan y Kazi neu ei ddirprwywr, yr hwn, ar ol iddo yn gyntaf symud dwy len oddiar wyneb y priodfab, a bar iddo adrodd ar ei ol bennodau penodol o'r Coran, y pum' credo Mahometanaidd, banau y ffydd, ac yn olaf, ffurf o ddiolchgarwch. Wedi hyn bydd y priodfab yn adrodd y cytundeb priodasol, pan yr unir llaw y briodferch yn yr eiddo ef, ac y gweddïa y Kazi am i'r cwpl dedwydd fod mor gariadus ag Adda ac Efa, Abraham a Sarah, &c. Dyna' y defodau priodasol weithian ar ben.

Ar ol yr *hatches* a'r *matches*, y mae y *despatches* hefyd yn dilyn mewn bywyd dynol; ac nid yw y Mahometan yn ddiog ar yr amser hwnw. Pe byddai arnom anghen rhyw brawf o anfarwoldeb dyn, ac o'r ymwybodolrwydd sydd yn y fynwes ddynol o sefyllfa ddyfodol, onid ellir ei gael yn y ffaith hon—fod y Pagan, y gau-grefyddwr, y Cristian, bob un fel eu gilydd, yn gosod pwys ar yr amgylchiad o farw? Pan y bydd person o ffydd Mahomet ar farw, anfonir am ddarllenwydd y Coran, yr hwn a ddarllena y bennod a elwir Surah-i-yassin a dau greddo. Ar ol hyny tywelltir i'r safn, ddiôd felus, yr hon meddir sydd yn rhwyddhâu mynediad yr ysbryd allan. Ar ol marw golchir y corff yn rhywadol, a phan fyddo wedi sychu, bydd camphor mân yn cael ei rwbio ar y dwylaw, y traed, y gliniau, a'r talcen, yn gymaint a bod y rhanau hyn wedi bod yn cyffwrdd â'r llawr wrth ymgrymu i weddio. Ar ol hyny amrwymir y corff mewn amdo o galico da, ar yr hwn y bydd pennodau neillduol o'r Coran wedi eu hysgrifenu. Cludir yr arch at y bedd gan y perthynasau, y rhai a adroddant ar hyd y ffordd, "Nid oes un Duw ond Duw, a Mahomet yw prophwyd Duw," neu ryw greddo neu adnod arall. Ar ol y tlawd bydd y Kazi yn darllen y gwasanaeth claddedigaethol; ond pan fyddo y trancedig yn gyfoethog, darllenir y gwasanaeth gan y perthynasau. Mae y gwasanaeth yn gynnwysedig o bedair cyffes ffydd ac un fendith; ar ol darllen y rhai hyny, bydd cyfnasaf y trancedig yn gwaeddi allan, "Gall pawb fyned ymaith bellach." Ar ol hyny disgynir y corff i'r bedd, pan y gosodir y marw ar ei gefn â'i ben tua'r gogledd a chyfeiriad y wyneb i'r gorllewin tua Mecca. Yn ddilynol bydd pob un o'r gwyddfodolion yn cymeryd dyrnaid o bridd, ac wedi adrodd pennod 112 o'r Coran, neu yr adnod, "Creasom chwi o'r pridd ac yr ydym yn eich dychwel i'r pridd, ac ni a'ch codwn o'r pridd ddydd yr adgyfodiad"—gollyngant bob un ei bridd yn dringar i'r bedd. Adroddir wedi hyny pen. 1 a 111 o'r

Coran, a chyfrenir elusenau, pryd y bydd y gwasanaeth claddu ar ben ac yr ymwasgara pawb i'w fan.

Arosasom naw niwrnod yn Muscat, ac yr oedd y gwres yn cynnyddu fwyfwy bob dydd. Y canlyniad fu i'n Capten fethu dal y gwres yn hŵy, a chafodd ymosodiad o'r parlys, fel y gadawodd ni am gartref gyda'r llythyrllong gyntaf. Ond wele amgylchiad mwy difyrus i ni na thynge-dion hanner dwsin o longlywyddion. Dywed Solomon, "Megys dyfroedd oerion i enaid sychedig yw newyddion da o wlad bell." Ein gwlad bell ni ar hyn o bryd oedd yr hon a adawsom, a mawr oedd ein helynt yn gyffredin am wybod hynt ein cyfeillion a'n cydnabod. Wele un o'r llythyrllongau wedi dyfod i mewn, ac y mae pawb yn dysgwyl fod ganddi rywbeth iddo ef. Cyn rhoi allan y llythyr, byddai yn burion i'r darllenydd ddeall nad oes yr un o honom yn cael ei anrhydeddu â'r blaenddodiad Mr. wrth ei enw, nac ond pur ychydig â'r olddodiad Esq. Yn llynges ei Mawrhydi buasai Amos Todd y Crynwr, yr hwn a ddymunai gael ei enw "without any tail," yn cael ei ddymuniaid yn llawn. Dylem ddyweyd hefyd mai lle campus am lysenwau yw ar fwrdd un o longau ei Mawrhydi, canys nid oes neb, o'r capten i waered, yn cael ei eithrio yn hyn. Weithiau gall fod y llysenw wedi dyfod gyda'r person; os amgen, gellir ffurfio un oddiwrth ei genedl, megys Sandy, Pat; neu oddiwrth ei alwedigaeth ar y llong, megys Chippy y saer, Cookey y cogydd, &c. Wele, ynta, pan fyddo y swyddog yn myned o gylch y gwaith o ranu y llythyr, ni elwir ar neb wrth ei enw priodol, ond gelwir am "Chippy," "Slush" (cogydd), "Rorty" (gwagfostiwr), "Chatty" a "Crummy" (dynion budron), "Bunting" (dyn yr arwyddion), "Clamps" (dyn â thraed mawrion), "Pipes" (badwr); ac felly o un i un, nes y bydd yr holl ddyrnaid llythyr wedi eu rhoddi allan, heb gymaint ag un enw priodol wedi ei alw. Ond y mae y llythyr yn eithaf derbynol, er gwaethaf y colyn sydd yn ei ddilyn. Byddem hefyd yn ofalus am gymeryd y cyfleusdra i anfon ein llythyr mewn pryd, canys anaml y byddai neb yn colli y *mail*.

Wedi i'r Capten ein gadael, gadawsom ninnau am Bahrein, ynys ar arfordir Arabia, yr hon a elwid gynt wrth yr enw Awal, a'r hon sydd tua 27 milldir o hŷd a 10 o led. Y brif dref ynddi yw Manameh, lle y mae penaeth y tylwyth Uttubi. Tlodaidd yw y tai yma; yr unig un o werth o honynt yw tŷ y Sheikh ei hun. Y mae ef yn bur gyfeillgar â Llywodraeth Lloegr, ac y maent hwythau yn talu y pwyth trwy ei amddiffyn yntau rhag ymosodiadau tylwyth arall—y Wahebbi. Y mae cenadwr Seisonig yn byw yma, ond Persiad o genedl yw y cenadwr presennol. Mae y rhan fwyaf o'r trigolion yn bysgotwyr perlau, tra y gwneir masnach o honynt, yn gystal a gwahanol ffrwythau, âg India, Arabia, ac amgylchoedd y Culfor. Ceir olion hen dref yma, yn dwyn yr enw Beled al Jedin (yr hen dref); a chan ei bod yn ymddangos yn fwy ac yn meddu gwell adeiladau na'r dref bresennol, yr ydym yn cael ein tueddu i feddwl fod Bahrein yn llai o ran ei llwyddiant nag y bu yn yr amser gynt. Tybir mai Syriaid oedd yr hen drigolion, wedi eu gyru ymaith o'u gwlad eu hunain. Gwelir llawer o hen feddau ar yr ynys; ac wrth gloddio ychydig daethom o hyd i freichledau a choesarnau aur; ond bu raid i ni droi drosodd y

gwaith hwnw i ddwyllaw chwaerlong, tra yr oeddym ni ein hunain yn symud i le arall. Tra yma caem y gwres yn fwy annyoddefol nag unlle. Yr oedd y gwresfesurydd yn aml mor uchel a 99° mor fore a saith o'r gloch; ac o hyn yd 11, a thrachefn o 4 hyd 6 y prydawn, yr oeddym fel pe buasem mewn baddon poeth. Buom mewn tymheredd uwch na hwn, i fyny hyd 108°; ond yr oedd y gwres yn Bahrein yn anhaws ei ddyoddef hyd yn nod pan ddisgynai mor isel a 95° neu 97°. Yr achos o hyn ydoedd fod y gwres yma â rhyw naws llaith yn perthyn iddo. "Gallwn fyw mewn tân, ond nid oddimewn i faddon Tyrcaidd," oedd atebiad un o drigolion Baghdad i Mr. Rich yn 1821; ac yr oedd yn hynod ddynodol. Po sychaf y byddo yr awyr, hawsaf yn y byd yw dyoddef y gwres; ond y mymryn lleiaf o leithder a'i gwna yn annyoddefol. Yr oedd yn nesaf peth i anmhosibl gweithio, a da oedd cael symud i rywle.

I Bushire yr oedd ein symudiad nesaf. Tref yw hon ar arfordir Persia. Cyn cyrhaedd yno, pa fodd bynag, cawsom brawf o dymhestl erchyll—ac erchyll yn wir yw tymhestloedd y gwledydd Dwyreiniol. Prin y mae genym ni, preswylwyr gwledydd y gorllewin, un ddirnad-aeth am yr ystormydd y mae pobl y pwynt cyferbyniol i ni yn eu dyoddef; ac yr ydym yn tybied mai nid rhyw lawer o'r gorllewinwyr a wnai brawf arnynt heb brofi rhyw raddau o edifeirwch. Bu ein llong mewn cryn berygl y pryd hwn, ond buom ddiangol, a chyrrhaeddasom Bushire yn Awst 1878.

Y mae y dref hon, llywydd yr hon a elwir Darya-Beg, neu arglwydd y môr, yn cynnwys tua 12,000 o drigolion, ac yn perthyn i lywodraeth Tywysog Fars. Cymysgedd o Arabiaid a Phersiaid yw y trigolion. Yn eu mysg ceir tua chant o farsiaidwyr Armeniaid wedi ymsefydlu, ac y mae ganddynt eglwys Grigionogol fechan, ac oddimewn iddi y mae amryw gofologolnau ar ol swyddogion Seisonig a gollasant eu bywydau yn ystod y ffrwgwd fu rhyngom ni a Persia yn 1856—7. Y mae masnach fawr yn cael ei dwyn ymlaen rhwng Bushire a'r India, Basrah, Batavia, a Mauritius. Dygir ymlaen yr holl fasnach â chanol-barth y wlad ar gefnau mulod, am mai y creaduriaid hyny yw yr unig rai a allant fyned trwy yr agorfeydd culion yn y mynyddoedd sydd rhyngom a chanol y wlad. Pob clod i'r mulod, meddwn ni, er mor ddiystyrlyd yr edrychir arnynt yn Lloegr, a Chymru hefyd ysywaeth. Cofia amryw o honom yn hir am ein hymweliad â Bahrein a Bushire, o herwydd prin y diangodd neb heb deimlo rhywfaint oddiwrth y toriadau ar y croen sydd yn deillio oddiwrth y gwres. Y mae fel rhyw frech o blorynod cochion dros yr holl gorff, ond yn enwedig dan y ceseiliau.

Nid hir y bu ein Capten newydd heb ymuno â ni, a chawsom orchymyn i fyned i le o'r enw Ras Tanorah, lle y dywedid fod llu o longau—dhows—môrladron, a llongau a ddeuent heibio yn gorfod gwybod am eu presennoldeb. Yr oedd tref o'r enw El Katif wedi cael ymosod arni gan 3000 o'r Arabiaid Bedouinaid, a phob cymundeb â'r dref wedi ei dori. Wedi derbyn yr hysbysrwydd hwn penderfynodd ein Capten fyned tuag yno er mwyn adfer cymundeb, a galw yn Ras Tanorah ar y ffordd. Yno y mae amddiffynfa fechan a gwarchodlu o'r Tyrcaid ynddi. Hysbyswyd ni gan y gwarchodlu eu bod hwy wedi cael ymosod arnynt gan fórladron rai dyddiau cyn hyny; a chawsom y



truain mewn cyflwr salw, am fod bron eu holl ymborth wedi darfod. Bu gorfod i ni eu cyflenwi âg ymborth, ac aethom ymlaen i angori yn Tirhoot. Wedi cyrhaedd yma gwelem ugain o fân longau, ac ni buom yn hir heb ymofyn eu neges, eithr nid oeddynt namyn cychod pysgota. Aeth ein cychod ni ymlaen i El Katif, lle y cawsom ein hysbysu fod lliaws mawr o longau y môrladron o amgylch. Cyn hir gwelem amryw o honynt mewn cilfach yn ymyl y tir, a gyrasom allan bob cwch oedd genym i fyned tuag atynt. Fel yr oeddym yn nesáu tuag atynt, gwelem hanner dwsin o honynt yn codi eu hwyliau ac yn prysuro i'n cyfarfod, ac wrth weled hyny, gwnaethom barotoadau i roddi derbyniad "gwresog" iddynt. Taniafant arnom, ond bu raid iddynt edifarhâu am eu rhyfyg, canys nid cynt y dychwelasant eu tân nag y teimlasant ei bod yn myned yn rhy boeth. Gadawsant eu llongau yn lluoedd, a gwnaethant antur am eu bywydau trwy geisio nofio i'r lân. Wrth weled eu blaenoriaid fel hyn yn gorfod cilio, cymerodd dwylaw y llongau eraill hefyd i'r dwfr, fel cyn pen ychydig fynddau yr oedd y llongau heb neb i ofalu am danynt. Prin y gwelsom y fath lwfrdra yn unlle, canys yr oeddynt o ran nifer yn ddigon llïosog i'n bwyta bob copa. Wedi llwyddo i nofio i'r lân, yr oeddynt yn parhâu i danio, a gwelem hwynt yn cydlechu fel gŷr o wartheg neu ddeadell o ddefaid wedi eu hel i'r unfan, a chan nesáu tuag atynt, gollyngasom ergyd neu ddwy o un o'n magnelau, y rhai a aethant i'w canol. Och y dinystr! Nid oedd nemawr lai na deugain o honynt yn gelaneddau meirwon, a chawsom fod mwy na dau ddeugain wedi eu clwyfo yn dost. Wrth ddynesu yn agosach atynt, a chael i'r lân ein hunain, yr oeddynt yn gallu gwneyd defnydd campus o'u traed; canys fföent ymhob cyfeiriad. Ni chawsom y drafferth leiaf i gymeryd eu llongau yn feddiant i ni ein hunain, ugain mewn nifer. Wrth gwrs, y mae yn anghyfreithlawn i un dyn gymeryd dim o'r yspail iddo ei hun; ond prin yr ydym yn meddwl fod un o honom wedi bod yn well nag y dylasant fod yn yr amgylchiad; a diau fod yn Lloegr heddyw amryw bethau yn goffadwriaethau am dano. Y goreu oll ydoedd na chollassom yr un o'n nifer trwy yr holl ysgarnes, er i amryw o honom gael diangfa gyfyng iawn. Pell o fod yn gysurus ydyw clywed chwiban pelenau o blwm yn myned heibio i'n clustiau:

But there's a sweet little chernb that sits up aloft,  
That looks after the life of poor Jack.

Cawsom ninnau Un yn amddiffynydd i'n bywydau y tro hwn, fel yn nghanol marwolaeth na chawsom gymaint a'n clwyfo.

Wedi cymeryd eu llongau, yr oedd yn angenrheidiol i ni eu symud ymraith. Tuag at hyn, rhoddasom ddyn ar bob llong; ac un o'r pethau mwyaf difyrus a welsom yn ystod ein holl hynt oddicartref oedd gweled llongwriaeth y llywyddion newydd-wneuthuredig hyn. Y mae genym ofn ceisio mynegu pa sawl gwrthdarawiad a pha sawl tro trwstan a gymerodd le cyn dwyn yr holl longau hyny i angorfa yn El Katif. Yr oll na, yr oedd un yn eisieu, canys cyfaryddasom â llong Dyraidd ar ein dychweliad, gyda'i llonaid o filwyr, y rhai oeddynt, fel y deallasant, i gymeryd rhan yn yr ymosodiad; ond a fuont mor ffodus neu anffodus, nis gwyddom pa un i'w alw, a chadw o'r neilldu ac yn groen-

iach. O barch iddynt hwy, trosglwyddwyd un long iddynt, a gosodasant hi ar dân, ac yr oedd cyn pen ychydig wedi llosgi hyd at wyneb y dwfr. Pa un a oedd y tro hwn i'w chwanegu at nifer y cyflafanau Tyrcaidd y clywodd Ewrop gymaint y blynnyddau diweddaf hyn am danynt, barned y darlennydd.

Wedi clywed am ein ffawd dda, a hyny heb aberthu cymaint ag un bywyd, yr oedd Llywydd El Katif yn llawenydd drosto, ac yn hael dros ben pobpeth yn ei ddiolchiadau; o herwydd cafwyd allan fod y llongau hyn yn perthyn i lwyth Amayed, yr hwn oedd wedi bod yn lled enwog am flino eu cymydogion mwy heddychol. Darfu i Lywodraeth India hefyd gydnabod dewrder yr haid fechan o wroniaid mewn diolchiadau dros fesur ac mewn ychydig arian.

O Bushire i Bahrein, ac o Bahrein i Bushire, yr oeddym yn myned o hyd, nes oeddym bron troi gydag Alexander i wylo na buasai rhyw fyd arall i'w orchfygu. O'r diwedd buom yn ddigon ffodus i gael newid ein "byd," canys cymerwyd ni i Basrah neu Bussorah. Yma gall y Cymro ein dilyn, canys yr ydym yn dechre dyfod o'r diwedd i leoedd y mae efe i raddau yn gydnabyddus a chartrefol gyda'u henwau. Mewn difrif, ddarlennydd, beth a feddyliet ti am hwylio ar wyneb yr Euphrates? Yno yr ydym. Dyma un o'r afonydd a welodd ein rhieni cyntaf; a dyma afon sydd yn dyfod i'r golwg yn hanes Abraham, tad y ffyddloniaid; a'r afon hon oedd i fod yn derfyn y wlad addawedig i'w had. Y mae rhywbeth yn adlonol i'n hysbryd ninnau yma, canys ar ol ffurfio cydnabyddiaeth yn y Culfor â glânu anial a diffaeth, heb nemawr dyfiant i'w ganfod, y mae rhimyn ar lân yr Euphrates yn ffrwythlawn dros ben. Yma y cyfarfyddir â'r *dates* goreu yn y byd, ac y mae yma liaws o ffrwythau eraill, ac yd, fel yr oedd yn newidiad siriol i ni, ac y bydd y 27 o Hydref, 1878, yn ddiwrnod a gofir gan amryw o honom gyda hyfrydwch, wedi i ni ymwasgaru oddi-wrth ein gilydd. Cul yw y rhimyn ffrwythlawn hwn, er mor ammheuthyn ydyw i'n golwg, canys ni raid ond myned tua dwy filldir o'r lân nad yw pobman yn gors ddiffaeth.

Wedi angori yn Basrah, yr hwn yw prif borthladd Mesopotamia (enw Ysgrhythrol eto), cawsom ganiatâd i fyned am dipyn o dro am ein hiechyd. Yr oedd y caniatâd hwn yn cyrhaedd dros dridiau. Wele ynte, ar y 30ain o Hydref, tuag ugain o honom yn llogi cychod i fyned *gartref*—nid i Loegr na Chymru, nac ychwaith i'r rhan arall o'r Deyrnas Gyfunol a adnabyddir wrth yr enw Llanrwst. Yr oedd ein hwynebau ni heddyw ar gartref mwy dyddorol—cartref cyntaf nid yn unig y Cymro a'r Sais a'r Gwyddel a'r Ysgotyn, ond pob dyn arall oedd yn lwynau Adda y dyn cyntaf. Wedi dyfod mor agos i Ardd Eden, yr oedd yn rhaid i Jack gael ei gweled. Wele dri o gyohod ynte yn esgyn yr Euphrates ar y dydd a nodwyd, â'u hwynebau tua lle a elwir Kurnáh. Yno y mae traddodiad yn gosod i lawr baradwys yr hil ddynol. Wedi cyrhaedd Kurnáh, cawsom ei fod yn bentref bychan o tua dwsin o'r cabanod mwyaf dilun a diolwg. Yn yr "ardd" y mae dau hen foncyff—digon hen o ran eu golwg i fod wedi cydoesi âg Adda, os nad i fod o'r byd cyn Adda. Er hyny y maent yn dwyn ychydig ddail, ac yr oedd llawer o'r rhai hyny wedi eu tynu ymaith, a diau fod sypynau o honynt heddyw mewn gwahanol ranau o Brydain Fawr, ar ol i ni a'n

cymdeithion eu hanfon mewn llythyrau i'n cyfeillion. Y mae yma hefyd dŵr crwn henafol, i mewn i'r hwn yr aeth dau o honom. Yno yr oedd aflendid blwyddyn ar ol blwyddyn wedi ymgasglu, nes oedd y drygsawr yn annyoddefol; ond er y dreth a osodai hyn ar ein ffroenau, yr oeddem yn awyddus i esgyn i'w ben. Busasai yn well i ni beidio meddwl am hyny, canys cyn myned hanner y ffordd i fyny, cawsom ei fod yn drigfan ystlumod, fel er mai morwyr oeddem, ac yn ddigon dewr i unrhyw beth bron, y troisom yn ein holau mewn dychryn, gan wneyd ein ffordd allan gyntaf fyth ag a allem. A dyma Baradwys! "Pa fodd y tywyllodd yr aur! y newidiodd yr aur coeth da!"

"Ond a fuoch chwi mewn gwirionedd yn Ngardd Eden?" Wrth gwrs, y duwinyddion sydd i benderfynu hyny; ac y mae arnom ofn mai prin y ceir y doctoriaid yn unfarn. Luther a dybiai fod yn anhosibl dyfod o hyd i'r fan, am fod pob rhan o baradwys wedi ei difodi gan ddinystyr y diluw i'r fath raddau fel nas gellid byth ei had-nabod; ond barnai Calvin, o'r tu arall, ei bod yn sefyll rhwng y Dwyrain a Judea, a gesyd hi mewn map oedd gyda'i Esboniad, yn nheudir Mesopotamia. Nid yw awduron mwy diweddar yn amrywio llai na'r ddeuddyn hyn, ac y mae amryw leoedd yn Asia ac Ewrop wedi eu nodi fel safle Eden.

Byddai yn rhyfyg ynom ni geisio penderfynu y ddadl; ond yr ydym yn cofio tra yr oeddem yno i ni ymgais at dduwinyddu tipyn. Gan droi i'r ail bennod o Genesis, darllenem, "Ac afon a aeth allan o Eden, i ddyfrhâu yr ardd, ac oddiyno hi a ranwyd, ac a aeth yn bedwar pen. Enw y gyntaf yw Pison: hon sydd yn amgylchu holl wlad Hafilah, lle y mae yr aur; ac aur y wlad hono sydd dda; yno mae bdeliwm a'r maen onix. Ac enw yr ail afon yw Gihon: hono sydd yn amgylchu holl wlad Ethiopia. Ac enw y drydedd afon yw Hidecel: hono sydd yn myned o du y dwyrain i Assyria: a'r bedwaredd afon yw Euphrates." Dyma un o'r pedair afon, yr Euphrates, am yr hon nad oes dim dadl. Beth am y tair eraill? Am ddwy o honynt nid ydym yn profesu gwybod dim; ond yr ydym yn ddygydd bod mewn lle y ceir *rhanriad*, gan mai yma yr una yr Euphrates a'r Tigris â'u gilydd. Wrth ymofyn âg amryw esbonwyr, yr ydym yn eu cael yn barnu fod yr Hidecel yr un â'r Tigris. Ond dyna, ni a adawn y pwnc heb ei benderfynu, er nad ydym yn meddwl fod yn rhyfyg ynom goleddu y farn y daethom iddi ar y pryd—mai nid ymhell oddiyma y *gallai* fod cartref gwreiddiol dynolryw. Yr ydym yn ei adael yn ddigon pengogored, fel y gwelir, i ryw Gymro arall gael rhywfaint i'w wneyd pan yr elo i'r un lle.

Y mae enwogrwydd Kurnah y dyddiau hyn, nid fel safle gardd Eden, ond fel gorsaf bellebrol berthynol i'r Cwmni Indo-Ewropeaidd. Er i ni gael ein siomi yn yr olwg ar ein cartref, canys tlodaidd iawn yn wir ydyw, gwnaeth y daith les i ni, canys y mae yn un hyfryd mewn gwirionedd, a dychwelasant i'n llong wedi cael adloniant dymunol am y tridiau y buom allan. Ni phallai y môrladron a darparu gwaith i ni, canys clywem am danynt yma ac acw yn barhâus, fel y tybiem eu bod yr un fath a'r *phoenix* yn adgyfodi o ludw yr hen aderyn. Aem o fan i fan, gan obeithio eu cael yma a'u cael draw; ond ni ddygwyddodd byth i'n rhan i wneyd yr un hafog ag a wnaethom y tro cyntaf. Os

oeddynt a'w cael o gwbl, buont ofalus i gadw o'n ffordd ni. Gan hynny ni a adawn lonydd iddynt bellach, a dymunem arwain y darlennydd gyda ni i hynt arall a wnasthom. O Basrah, um bore, cychwynasom am fordaith o 250 o filldroedd yn yr agerlong Caliphia, yr hon a lywyddid gan gapten Seasonig. Y lle y dymunem fyned iddo oedd Babilon. Mawr oedd ein hawydd am ei gweled, ac addawem i ni ein hunain gryn fwyniant a difyrwch ar ben ein taith. O'r diwedd daeth y fordaith i ben, a pheth a welem? Mewn difrif, meddem, ai dyma y ddinas y bu Nebuchodonosor, y rhyfalwr dewr a'r gorchfygwr mawr, yn edrych arni un bore teg, gan ofyn yn malchder ei galon, "Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiladais i yn frenhindaŷ yn ngaryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi?" Beth ydyw? Pentwr o adfeilion dilun. "A bydd Babilon yn garneddau, yn drigfa dreigiau, yn syndra, ac yn chwibaniad, heb breswlydd." "A Babilon, prydfertwch y teyrnasoedd, gogoniant godidogrwydd y Caldeaid, fydd megys dinystr Duw ar Sodom a Gomorrah. Ni chyfanneddir hi yn dragywydd, ac ni phreswylir hi o genedlaeth i genedlaeth; ac ni phabella yr Arabiaid yno, a'r bugeiliaid ni chorlanant yno. Ond anifeiliaid gwylltion yr anialwch a orwedant yno; a'u tai hwynt a lenwir o ormesiaid, a chywion yr estrys a drigant yno, a'r ellyllon a lamant yno; a'r cathod a gyd-atebant yn ei gweddwdai hi, a'r dreigiau yn y palasoedd hyfryd: a'i hamser sydd yn agos i ddyfod, a'i dyddiau nid oedir." Llauer o ddy-eithriaid sydd yn ymweled â Babilon, ac mewn unrhyw le arall byddai rhywun yn sicr o ymasfydlu pe na byddai ond er mwyn masnach; ond nid oes na lletty na chroesaw i'w gael yma yn un man—dim un caban, dim un babell, i'w chanfod yn unlle o amgylch; ond y mae yr adfeilion yn un chwarel fawr, lle y ceir priddfeini o fesur llwyth llong ar y pryd; ac os nad ydym yn camgymeryd, y mae digon o briddfeini Babilonaidd i'w cael mewn adeiladau yn Basrah a lleoedd eraill. Ha! cafodd prophwyddoliaeth ei gwynfyd ar Babilon! do, do, i'r llythyren! Dyma fan lle y gallai holl ammheuwyr y byd gael rhywbeth i'w synu. Am danom ni, forwyr, er cymaint ein diffygion, yr ydym yn faes gwael iawn i hau ynddo yr efengyl yn ol Bradlaugh, ac eraill, canys yr ydym yn gweled cynifer o olion gwaith y Penllywydd mawr fel yr ydym ar y cyfan yn tueddu i fod yn orgredwyr yn hytrach na gwrthgredwyr. Ond ceisied yr ammheuwyr esbonio Babilon, a bydd yn daag iddo. Wedi sicrhau rhywbeth bob un i gofio am y fan ac am yr ymweliad, ac wedi i'n capten sicrhau cyfluniau (*casts*) o Birs Nimroud, troisom eilwaith i fyned yn ol i'r llong.

Wedi diwallu yr efrwydd Ysgrythyrol fel hyn, gallwn rpi tamaid neu ddau i'r gwyddonwr. Noson y 15fed o Fai, 1879, gwelsom olygfa bur hynod, yr hon a gyflwynwn i'n darllenwyr mewn llythyr a ysgrifennodd ein Capten i'r *Hydrographical Office*:—

SIR,—I have the honour to inform you that about 9 40 p.m. on May 15, 1879, in latitude 26° 26' N. and longitude 53° 11' E.; a clear unclouded starlight night; Arcturus being within 7° of Zenith and Venus about to set; wind N.W., force 3; sea smooth and slight swell from some direction; ship on the starboard tack, heading W.S.W., going 3 knots,—an unusual phenomenon was seen from the vessel.

I noticed luminous waves or pulsations in the water moving at a great speed, and passing under the ship from S.S.W. On looking towards E., its appearance was that of a revolving wheel, with its centre on that bearing, whose spokes were

illuminated; and on looking towards W., a similar wheel appeared to be revolving in the opposite direction. I then went to the mizen top (about 80 feet above the water) accompanied by the First Lieutenant, and saw that luminous waves or pulsations were really travelling parallel to each other, and that their apparently rotatory motion, as seen from the deck, was caused by their high speed, and the greater angle of the nearer than the more remote part of the waves. The light of these waves looked homogeneous and lighter, but not so sparkling, as phosphorescent appearances at sea usually are, and extended from the surface to well under water. They lit up the white bottoms of the quarter boats in passing. I judged them to be 35 feet broad, with dark intervals of 75 feet between each, or 100 feet from crest to crest; and their period was 74 to 75 a minute, giving a rough speed of 84 or 85 English miles per hour. From this height of 50 feet, looking with or against their direction, I could only distinguish six or seven waves; but looking along them as they passed under the ship the luminosity shewed much further. The phenomenon was very beautiful and striking, commencing at 6 3 Greenwich mean time and lasting 40 minutes. The direction from which these luminous waves travelled changed from S.S.W. by degrees to S.E. and E. During the last five minutes, concentric waves appeared to emanate from a spot about 200 yards E.; and these meeting parallel waves from S.E., did not cross, but appeared to obliterate each other at moving point of their contact, and approached the ship, enclosing an angle about 90°. Soundings were taken in 29 fathoms. Barometer was already at 29.25 from 8 p.m. until midnight.

	8 P.M.	10 P.M.	MIDNIGHT.
Temperature of Air . . . . .	84	83	83
“ Sea Water . . . . .	84	82	82

I observed no kind of change in the wind, swell, or any part of the heavens. The compasses were not disturbed. A bucket of water was drawn, but unfortunately got capsized before daylight. The ship passed through oily looking fish spawn on the evening of 15th and evening of 16th.—I remain, yours, &c.

Hawdd y gallwn gadarnhâu geiriau ein Capten, “The phenomenon was very beautiful and striking.” Yr oedd yn brydferth mewn gwirionedd. Er nad allwn ni anturio esbonio lle y methodd gwyddonydd o'i fath ef, ac er na welsom fod neb yn y papyrâu gwyddonol wedi cyanyg un math o eglurhâd arno, ma chofnodi amgylchiad cyffelyb, eto y mae yr adgof o hono yn fyw ac annileadwy. Bron nad ydym yn tybio mai un o'r golygfeydd hyny ydoedd a welir unwaith mewn oes; ac yr oedd yn werth bod mor bell oddicartref â Chulfor Persia y noson hono er mwyn ei gweled.

Nis gallwn fod yn hir yn Nghulfor Persia heb dalu ymweliad â Bombay, ac y mae y newidiad yn un pur ddymunol beb amser; canys yn annibynol ar y gwahaniaeth yn y tymheredd, y mae ein dyfodiad i Bombay yn sicrhâu i ni dipyn o orphwys, a gwneyd cyfathrach â'r lân. Ond nid bob amser y ceir y melus heb ryw gyfran o leiaf o'r chwerve. Un tro, pan yr oeddyd wedi cyrhaedd yno, beth a glywem er ein syndod, ond fod ein llong i gael ei harolygu y bore drachefn gan y Llyngesydd. Y boreu drachefn! a ninnau wedi bod mewn tywydd drwg, ein rhaffau yn anhwylyu, ein hwyliâu yn ddi-drefn, ein bwrded, ein cabanau, a phob man i raddau yn fudron, a'n copr ymhob man yn lasddu. Beth oedd i'w wneyd? I ymddangos mewn rhyw lun yn unig, buasai raid gweithio trwy y nos. Ond hyny a wnaeth Jack yn ewyllysgar; canys y mae o gryn bwys, pan y byddo y Llyngesydd yn talu ymweliad âg unrhyw long, ei fod yn cael pobpeth yn yr hyn a alwn ni yn *apple-pie order*. Y dydd nesaf daeth y Llyngesydd at ei gyhoeddiad; a chan nad oeddem ond newydd gyrrhaedd, tybygem fod ein

Capten yn ceisio gwneyd esgusawd, rhag ofn y daethai ar draws rhywbeth a fuasai yn ddiffygiol. Atebiad hygryw yr awdurdod goruchel, gan fesur ei frawddegau, ydoedd, "Capten —, nid—wyf—wedi d'od—yma—i wrando—ar esgusodion, ond—i edrych—dros—y llong; arweiniwch." Aeth y Capten a swyddog arall gydag ef, ond nid hir y buont cyn colli y Llyngesydd yn rhywle yn y peiriandŷ; ac wedi chwilio yn aflwyddiannus am dano dros yspaid, daethant i fyny ar y bwrdd i edrych a welodd neb ddim o hono. Yno, fodd bynag, nid oedd neb wedi ei weled; a phan oeddym yn dyfalu beth a ddaethai o hono, gwelem ef yn dyfod i fyny o'r peiriandŷ, gyda'i lodrau gwynion glân mor dduon a phe buasai wedi bod yn gweithio yno am ddyddiau. Gadawodd ni gyda rhyw hanner gwg, hanner gwên, fel nas gwyddem yn iawn beth a dybiai o honom; ond pan ddaeth ei adroddiad allan, yr oedd yn hynod ganmoliaethol, fel y cawsom hyny yn gyfnewid am gwsg noswaith.

Bombay yw y lle mwyaf pwysig ar yr orsaf Ddwyr-Indiaidd. Gellir myned yn fuan trwy brif olygfeydd y dref ei hun. Yn eu mysg y mae yr Amddiffynfa, lle hefyd y ceir yr Eglwys Gadeiriol, y Bathdŷ (*Mini*) a'r Tolldŷ. Y gweithfeydd cotwm, a'r gweithfeydd lle y gwneir cyweinwaith Bombay, ydynt yn werth ymweled â hwynt. Ar ol hyny daw tŷ y Llywydd yn Malabar Point, Dyfrgist Valukeshwar, Tyrâu Dystawrwydd y Parsiaid, a Theml Maha Lakshmi yn Breach Candy; Tŷ y Llywodraeth yn Parell, ac yn gysylltiol âg ef y gerddi llysiennol, amgueddfa Elphinstone, coleg meddygol Grant, ysbyttŷ cyffredinol Jamshidgee, ac ysbyttŷ bydweiriol Jamshidgee. Ceir hefyd ysbyttŷ i greaduriaid direswm, y mwyaf o'r fath ar y pryd hwn yn India. Addurnir muriau yr Eglwys Gadeiriol â llawer o gyweinion celfyddyd, hardd dros ben, yn gystal a chofgolofnau i'r Llywodraethwyr fuont feirw yma, a swyddogion o'r fyddin a'r llynges a gollasant eu bywydau yma ar wahanol brydiau tra yn ymladd dros eu gwlad. Cawsom y ffrainc o glywed amryw yn pregethu yma, ond yr oeddym yn gorfod cwyno, fel rheol, fod y pregethau mewn rhyw "sing-song manner," ys dywedir, heb ddim difrifwch yn perthyn i'r pregethwyr, ond yn darllen eu pregethau mewn dull marwaidd a diystyr a fuasai yn drychinebus i hogyn ysgol ddydd yr arholiad, oblegid cawsai fyned y dydd hwnw adref heb ei wob. Yr oedd, fodd bynag, un eithriad yn eu plith, a hwnw oedd yr Esgob Milne. Pregethai yr Esgob mewn modd efengyllaidd, a gwasgai adref at ei wrandawyr wirioneddau yr efengyl yn y fath ddull rhesymol, a chyda'r fath radd o synwyr cyffredin, ag i wneyd ei hun yn dra chymeradwy ar unwaith i'r morwyr a phawb arall oedd yn ei wrando. Oni b'ai fod y fath weinidogaeth ragorol yn Nghymru, bron na thybiem y byddem yn foddolawn eto i fyned yr holl ffordd i Bombay i wrando ar yr Esgob Milne.

Y mae Castell Lowja, palas teulu Lowja, yn adeilad hynod brydferth ar y ffordd i Parell. Y mae y ffordd tuag ato o'r Amddiffynfa yn arwain trwy y Bhendi Bazaar, lle y gwelir Marathiaid, Parsiaid, Mughuliaid, morwyr Seisonig, Arabiaid, Portugiaid, a dyeithriaid o lawer gwlad arall, wedi eu gwisgo mewn gwahanol ddulliau ac o amrywiaeth mawr o liwiau. Fel y mae yn nosi, y mae yn hynod i'r teithiwr sydd wedi clywed cymaint am neillduedd y benywod yn y

Dwyrain weled ystafelloedd uchaf y tai wedi eu llawn oleuo, a'r ffenestri yn llawn o fenywod mewn gwisgoedd amryliw. Y "Nautch girl caste" ydynt, ond o'r dosbarth iselaf; ac er eu bod yn troseddu yn erbyn y syniad cyffredin am foesoldeb, y mae yr heddeidwaid yn myned heibio iddynt yn hynod ddidaro.

Lleoedd prysur yw y Bazaars. Ganol dydd, o dan wres trofegol, y mae yn gryn dasg myned iddynt, ond y mae yr olwg a geir yn talu am dani ei hun. Dyma lle y mae llu ar lu o fodau dynol yn rhuthro trwy eu gilydd, ac yn gwaeddi gellid meddwl bawb am yr uchaf, a phob un â'i olwg am elw. Yma y mae Duwies Masnach mewn llawn lywodraeth, a gwelir marsiandiaeth a chynnyrch pob cenedl wedi eu tyru gyda'u gilydd, yn dysgwyl eu symud i'r gwledydd lle y bydd celfyddyd yn ychwanegu at werth rhoddion Natur. Gellir gweled gyda'u gilydd y gludiau gwerthfawr a'r peraroglau goreu, llestri o wahanol olewau, ifori pur o goedwigoedd Ceylon, crwyn y rhinoceros o amgylchoedd Zanzibar, a chynnyrchion mwyaf dewisol India, Persia, Affrica ac Arabia; tra yn gymysgedig â hwynt y canfyddwn raffau, angorau mawrion, &c. Ar hyd y ffordd bydd rhai yn cludo cotwm wedi ei ddirwasgu i'r eithaf, ac yn gwegian dan eu llwythi trymion; yr Arabiaid gyda'u penguwchau anferth o lian rhesog, ac "Aabas" yn chwyfio yn llac am danynt, yn dyfod ymlaen wrth eu pwys; Persiaid gyda gwasgodau sidan, yn gyffredin o wyrdd dysglaer, a'u hetiau o groen wyn Bokhara, i'w gweled yn uwch na dim yn yr holl dorf; Banyans, yn fudron a phrysur, gyda'u penguwchau cochion, ar y rhai y bydd ysgrifbinau a phaprau gyda mân nodiadau wedi eu gosod, yn gweithio eu ffordd heb nemawr ddefod na moes ar ddehau ac aswy; Bangres gyda sypynau anferth neu lestri dwfr llawnion; Fakirs o bob rhan o'r India; Janis mewn dillad mor wñnion â'r eira, gyda'u ffyn fel meudwyod o'r hen oesau; Padres gyda hetiau duon crynion a mantelli tywyll; ac wrth gwrs Iuddewon, y rhai ydynt i'w cael mewn unrhyw fan ac ymhob man os bydd y geiniog yn treiglo; tra fyth a hefyd y bydd gwêdd ychain yn ymgais am ymwithio trwy y dyrfa, neu rai o'r Parsiaid cyfoethog yn eu cerbydau gwyhion ac addurniadol yn agor ffordd i fyned trwodd, ond yr hon a gauir i fyny gan y lliaws gynted fyth ag yr änt heibio.

Cyffelyb o ran eu prysurdeb y ceir y marchnadoedd hefyd, o'r rhai y mae amryw yn Bombay. Ond nis gallwn ni feddwl am fyned heibio i Gartref y Morwyr, yr hwn y gosodwyd ei sylfaen gan Dduc Edinburgh, a'r hwn a agorwyd, fel y cawsom y fraint o weled, pan dalodd Tywysog Cymru ymweliad â Bombay. Diau y cofia rhai o'n darllenwyr mai yn 1875—6 y bu hyny; ond er nad oes nemawr dros bum' mlynedd, gwerthfawrogir ef i'r fath raddau gan y morwyr, fel y mae eisoes yn dwyn ei holl dreuliau ei hun. Yma y bwytasom ein ciniaw Nadolig yn 1879, ac oni b'ai ein bod wedi dyweyd cymaint o bethau eraill eisoes, a bod ychydig eto heb ei ddyweyd, buasai yn ddifyr genym roddi adroddiad o'r areithiau "dyddorol" a draddodwyd gan "Jack ashore" ar y pryd.

Mae gan Bombay ei cholofnau a'i cherffuniau, ond tua'r mwyaf prydferth o honynt yw yr un o'n Brenhines—Ymherodres India—lle y darlunir hi yn eistedd ar ei gorsedd, wedi ei gwisgo mewn gwisgoedd brenhinol ac yn dal yn ei llaw arwyddion llywodraeth; ac un arall o

Dywysog Cymru yn marchogaeth, yr hon a anrhegwyd gan Syr David Sassoon er cof am ymweliad ei Uchelder Brenhinol.

Am y trigolion nis gallwn ddyweyd nemawr, canys yr ydym o dan yr anfantais o fod heb ddeall iaith neb, ac nid yw yr ychydig a geir mewn Saesoneg cloff yn werth ei roddi ar bapyr. Mae yr Hindwaid, fâl y Dwyreinwyr yn gyffredin, yn gweled "llonyddwch, mai da yw." Hwy yw gwenyn diog y cwch mawr Indiaidd; tra y mae y gwenyn gweithgar i'w cael yn y Parsiaid, neu addolwyr tân. Dyeithriaid ydynt yma, ond y maent mor ddiwyd fel y bernir eu bod, er nad ydynt ond prin 50,000 mewn nifer trwy holl India, yn dal yn eu dwylaw y rhan fwyaf o holl gyfoeth India. Mewn gwirionedd, "llaw y diwyd a gyfoethoga" yma. Ond er eu prysurdeb, y maent yn grefyddol i'r eithaf. Cydnabyddant fodolaeth un Duw, yr hwn sydd hollbresennol, wedi creu pob peth, ac yn anweledig; ond honant fod gweled ei weithredoedd yr un peth a'i weled ef ei hun. Ystyr hyn yw eu bod yn addoli yr haul a'r elfennau fel amlygiadau o'r Duwdod. Aml: waith y gwelsum y Parsiaid ar lán y môr gyda'r wawr; a'u dwylaw i fyny, ac ar ymddangosiad yr haul yn penlinio, ac yn myned ar eu hyd, gan gyffwrdd y llawr a'u talcenau.

"Temlau Dystawrwydd" y Parsiaid ydynt yn hynod, ac y mae pedair o honynt yn Bombay. Claddfeydd ydynt, a dygir y cyrff yno ar elor o gareg, haiarn neu blwm, lle y gadewir hwynt mewn hen garpiau, neu ynte yn hollol noeth, fel y gallo adar ysglyfaethus neu ynte yr haul poeth eu difa. Anaml y caiff un dyeithryn fyned yn agos atynt, oddigerth pan na byddo cyrff yn dygwydd bod yno, a'r pyrth yn dygwydd bod yr ddaadglöedig.

Y mae tair o demlau tân yn perthyn iddynt yn Bombay, lle y cedwir y tân yn cynneu yn wastadol; yr hwn a borthir a'r coed mwyaf aroglus; ond gan ei bod yn drosedd anfaddeuol i unrhyw un dyeithr fyned i mewn iddynt, rhaid i'r darlennydd gymeryd y cyfan a ddywedir am yr hyn yw ei werth.

O Bombay y gadawsom am y tro diweddaf, gan ymweled eilwaith â Mahe; prif ynys o liaws ynsoedd y Seyschelles, eithr cyn myned yno cawsom ysturm a barodd i ni feddwl mai yno yr oedd ein beddau wedi eu bwriadu i fod; ond fel arall y bu. Buasai yn ddifyr gan y darlennydd weled amryw o gynnyrchion yr *amateur poets* ar yr amgylchiad, ond rhaid eu gadael o'r neilldu i ymogoneddu mewn anghyhoeddusrwydd yn nhai pob un o honom pan y cyrhaeddom Brydain Fawr. Yn ddiâu ysturm i'w cheffo ydoedd.

Fel ymhob mordaith, yr oedd Jack yn y fordaith hon yn dangos ei duedd i ymgynabyddu â milodaeth. Yr oedd genym gwn, cathod, adar o wahanol rywogaethau, ac nid y lleiaf o honynt, oen swci. Anrhydeddidd yr oen a'r enw Bib, ac yr oedd o "Ardd Eden." Meddyliond ei berchenog y buasai yn alluog i'w gadw nes dyfod i Loegr, ond collwyd Bib druan cyn i ni glirio o'r Culfor. Yr oedd arnom fawr ddyled i Ragluniaeth y nesoedd am ein dwyn oll adref, namyn tri, ar ol bed am yn agos i bedair blynedd oddicartref. Nid ydym yn myned i flino ein darlennydd trwy adrodd y modd y daethom adref; ond adref y daethom, canys glanasom yn Sheerness ar y 18fed o Hydref, 1880, ac ar y 29ain yr oeddym yn ymadael a'n gilydd, bawb i'w



gartref. *Ymadawiad* yn ngwir ystyr y gair yw ymwahaniad y dwy-law oddiar fwrdd un o longau ei Mawrhydi; canys er ein bod wedi treulio hir amser gyda'n gilydd, y tebygolrwydd ydyw na wél dwy ran o dair o honom wynebaw ein gilydd byth ar ol hyn. Aiff pawb i'w fan, a phan ddél amser ein hymweliad â'n cartrefi drosodd, byddwn yn dychwelyd i rywle lle y gwelo ein harglwyddi goruchaf yn dda ein hanfon.

Wel, gan ei bod yn bryd dybenu yr ydym yn dybenu. Bydd yn hir eyn y' cawn fyned oddicartref eto.

D. PRICE GRIFFITHS.

## YR ENWADAU CREFYDDOL A DIRWEST.

PAPYR A DDARLLENWYD YN UN O GYNNADLEDDAU JUBILI DDIRWESTOL LLUNDAIN, MHEFIN 29, 1881.

Y MAE yr Eglwys Gristionogol yn y wlad hon wedi bod yn araf i ymgymeryd â'r symudiad Dirwestol, ac nid ydym yn cael pob angen o'r eglwys hyd yn bur ddiweddar yn gweithio yn egniol ac mewn trefn er mwyn cynnorthwyo yr achos hwn. Mi geisiaf ddangos fod eu hymdrechion wedi eu dilyn â mesur helaeth o lwyddiant.

Y mae Cymdeithas Ddirwestol Eglwys Loegr, yr hon y mae Arch-escobion Canterbury a York yn llywyddion iddi, yn awr yn y seithfed flwyddyn o'i bodolaeth. Y mae y ffeithiau canlynol mewn perthynas i'w gwaith yn Llundain ac mewn rhanau eraill o'r deyrnas yn profi yn ddiammheuol ei bod eisoes wedi gwneyd daioni annhraethol. Y mae iddi ddeuddeg o offeiriad, heblaw naw yn ychwaneg o leygwyr, yn ysgrifenyddion. Y mae canghenau yn perthyn iddi ymhob Esgobaeth yn y deyrnas. Y mae dros 30,000 o bersonau â'u henwau wedi eu hysgrifenu ar ei llyfrau. Yn ystod y chweched flwyddyn o'i gwaith, sydd newydd derfynu, fe bregethwyd 167 o bregethau dan ei nawdd ar yr un dydd, ac yn Llundain yn unig. Mewn tri ar ddeg ar hugain o borthladdoedd fe dderbyniwyd 4,839 o forwyr yn aelodau o ganghenau o'r gymdeithas a sefydlwyd yn unig er mwyn y morwyr. Mae y ffigyrau hyn yn dangos cynnydd yn ystod y flwyddyn o 439 o aelodau a naw o borthladdoedd lle y sefydlwyd y canghenau hyn. Y mae y gymdeithas yn gweithio yn Woolwich a'r manau eraill lle y cyrha ein milwyr, ac fe godwyd ganddi dros £4,000 tuag at gael tŷ coffi a chlwb perthynol i'r fyddin. Y mae canghenau y plant mewn ystâd hynod o lewyrchus; dengys tair ar ddeg o ganghenau yn yr esgobaethau aelodaeth o 19,469 yn llwyr-ymattalwyr. Y mae y gymdeithas wedi estyn ei gweithred-adau i New Zealand, Canada, India'r Gorllewin, Affrica Ddeheuol a

Chanolbarthol ; a gadewch i mi ychwanegu, y mae ei gwaith yn Lloegr wedi cynhyrfu zel aelodau Eglwys Esgobaethol Iwerddon yn y fath fodd fel y maent wedi sefydlu cymdeithas Wyddelig gyda chyffelyb ymrwym-iadau. Mae gan y gymdeithas hon 378 o ganghenau, a 48,400 o aelodau ; ac yr oedd y cynnydd y flwyddyn ddiweddfaf yn 85 o ganghenau, a 10,724 o aelodau. Yr oedd y derbyniadau am y flwyddyn yn cyrhaedd y cyfanswm o £7,311 18s. 4c.

Y mae Cymdeithas Lwyr-ymattaliol yr Annibynwyr yn cario ei gwaith ymlaen gydag egni a llwyddiant cynnyddol. Allan o dros 2,037 o weinidogion yn Lloegr, fe wyddys fod mwy na'r drydedd ran yn llwyr-ymattalwyr ; ond allan o'r 518 gweinidogion yn Nghymru nid oes ond un ran o bedair â'u henwau yn ddirwestwyr. Yn ystod y flwyddyn ddiweddfaf fe sefydlwyd pump ar hugain o ganghenau newyddion, a thua diwedd 1880 fe bregethwyd ar yr un adeg nifer helaeth o bregethau dirwestol o bulpudau yr Annibynwyr yn Llundain a thrwy y deyrnas. Fe gynnaliwyd cyfarfodydd tra llwyddiannus hefyd yn ystod y flwyddyn yn ngwahanol golegau duwinyddol yr enwad.

Y mae Cymdeithas Lwyr-ymattaliol y Bedyddwyr wedi bod mewn bodolaeth am saith mlynedd. Fe geir prafw amlwg o'i llwyddiant cyflym yn y ffeithiau fod yn bresennol 552 o weinidogion, 325 o swyddogion eglwysig, a 229 o efrydwyr yn y colegau yn llwyr-ymattalwyr. Dair blynedd yn ol, allan o 262 o efrydwyr yn y colegau duwinyddol, nid oedd ond 120 yn ymattalwyr, neu ddim yn llawn 46 y cant ; y flwyddyn ddiweddfaf fe geid fod y cyfartaledd wedi cynnyddu i 75 y cant ; y mae yn awr yn llawn 80 y cant. Ymhellach, yn ngholegau Manchester, Llangollen, a Phontypool, y mae yr efrydwyr oll yn ymattalwyr. Mae y ffaith olaf hon yn llawn o obaith ; canys yn y dyddiau a aeth heibio, y cyfundeb o Fethodistiaid Calфинаidd oedd yr unig adran o'r eglwys yn Nghymru oedd yn gosod arbenigrwydd dyladwy ar egwyddorion dirwest ; hyd yn bur ddiweddar yr oedd yn eithriad canfod gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd heb fod yn ymattaliwr, fel yr ydoedd yn rheol i gael gweinidogion gydag unrhyw enwad arall heb fod yn ddirwestwyr. Gweinidogaeth yr achos dirwestol yn yr amser aeth heibio yn ddiammeu ydoedd cyfundeb y Methodistiaid Calфинаidd ; ac er fod mwyafrif mawr aelodau a gweinidogion y cyfundeb eto mewn profes yn gystal ag mewn gweithred yn ddirwestwyr, fe'm tueddir i greu nad ydyw llwyr-ymattaliad yn llawn mor gyffredin ymysg y gweinidogion ag y byddai yn arfer bod.

Y mae y Methodistiaid Wesleyaidd yn gefnogwyr cedyrn ac egniol i symudiad y Band of Hope. Y mae yn awr tua 2000 o Bands of Hope mewn cysylltiad uniongyrchol â'r cyfundeb mewn gwahanol barthau o'r wlad. Y mae nifer yr aelodau yn agos i 200,000. Mae y gwaith, mi ddymunwn ychwanegu, yn cynnyddu yn gyson. Nid ydyw y corff Wesleyaidd hyd yma wedi gwneyd rhyw lawer gyda'r symudiad dirwestol mewn unrhyw wedd arall arno ; ond pan ddywedaf fod cryn gyfartaledd o weinidogion ac efrydwyr yn ymattalwyr, ac fod y cyfartaledd yma yn amlwg ar gynnydd, fe ymddengys fod rhesymau cryfion dros greu y bydd dyfodol y cyfundeb yn ddyfodol o ymdrech egniol a pharhaus i waredu, nid yn unig y rhai ieuainc, ond rhai mewn oed hefyd, oddi tan ormes anghymedroldeb. Fe bregethwyd pregethau yn

cyfeirio yn bendant at achos sobrwydd, yn ol awgrymiad y Gynadledd, yn holl addoldai y Wesleyaid yn mis Rhagfyr diweddaf.\*

Y mae y *Primitive Methodists* wedi bod yn hynod o fyddlawn i'r symudiad dirwestol er ys llawer dydd. Y mae y mwyafrif mawr o'u gweinidogion a'u pregethwyr lleol yn llwyr-ymattalwyr. Mae Bands of Hope y cyfundeb yn cynnyddu mewn dylanwad a gallu; dengys y cyfrifon diweddaraf fod tua 50,000 o aelodau yr Ysgol Sabbothol yn perthyn iddynt. Mae hyn yn dangos llwyddiant mawr, oblegid nid oedd y rheolau er sefydlu Bands of Hope wedi eu furfio a'u cymeradwyo gan y Gynadledd hyd 1879.

Yn 1879 hefyd y darfu i'r *Methodist New Connexion* sefydlu eu *Temperance and Band of Hope Union* fel y mae yn bresennol. Y mae eisoes wedi dyfod yn allu nerthol, ac y mae wedi gwneyd llawer o ddaioni. Y mae y Cyfundeb wedi bod bob amser yn edrych gyda ffair neillduol ar symudiad y Band of Hope, ac wedi cynnorthwyo yn egniol ei ddygiad ymlaen. Y mae ei ysgolorion ei hunan sydd yn y Band of Hope yn 20,000; y mae 50 y cant hefyd o'r gweinidogion, a'r holl efrydwyr, yn llwyr-ymattalwyr. Yn y Gynadledd a gynnaliwyd yn Mehefin, 1880, fe benderfynwyd ar ei fod yn arferiad flynyddol i gael pregethau ar ddirwest yn holl gapelau yr enwad, ac anerchiadau dirwestol yn ei holl Ysgolion Sabbothol yn mis Rhagfyr.

Ni ellir dyweyd llawer am y cymhorth a roddes Eglwys Henaduriaethol Lloegr yn yr amser a aeth heibio i'r achos dirwestol. Fe ellid casglu rhywbeth am faint a natur ei gweithrediad yn y dyfodol oddi-wrth yr argymhelliad arwyddocaol a ganlyn, yr hwn a gymeradwywyd gan eu *Synod* a gynnaliwyd yn ddiweddar yn Newcastle-on-Tyne:—"Yn gymaint a'i fod yn angenrheidiol i'r Eglwys gymeryd rhan egniol ac amlwg yn y croesgadiad yn erbyn anghymedroldeb, ac yn gymaint a'i fod yn wir fod eisoes lawer o'n gweinidogion a'n pobl yn llafurio gyda'r gwaith hwnw, ei fod yn ddymunol i'r Eglwys ddwyn yr oll o'r cyfryw waith dan ei sylw a'i llywodraeth ei hunan; yr ydys, gan hyny, yn argymhell fod Cymdeithas Ddirwestol Enwadol yn cael ei sefydlu, yr hon a gynnwysa—yn gyntaf, llwyr-ymattalwyr; yn ail, rhai heb fod yn llwyr-ymattalwyr ond yn ymgadw rhag y gwarthrudd o anghymedrol-

\* Yn ol yr adroddiad dyddorol a roddid gan y Pwyllgor Dirwestol yn y Gynadledd a gynnaliwyd yn Liverpool, wedi ysgrifenu y papyr uchod, yr oedd y Bands of Hope y pryd hyny yn 2,033, mwy o 202 na'r flwyddyn o'r blaen; a'u haelodau yn 205,516, mwy o 24,309 na'r flwyddyn o'r blaen. Fe geid fod 66 y cant o'r Bands of Hope wedi eu sefydlu yn ol trefniad y Gynadledd. Dywedid hefyd fod y cymdeithasau dirwestol y pryd hyny yn 144, mwy o 27 na'r flwyddyn o'r blaen; ac fod eu haelodau yn 9,402, mwy o 1,278 na'r flwyddyn o'r blaen.

Yn y Gynadledd Wesleyaidd Gyffredinol—*The Ecumenical Methodist Conference*—a fwriedir gynnal yn *John Wesley's Chapel*, City Road, Llundain, lle y dysgwylir 400 o aelodau, yn cynrychioli 4,000,000 o gymunwyr, a 18,000,000 o boblogaeth Wesleyaidd trwy y byd, mae yn dda genym weled fod un diwrnod cyfan, Medi 12fed, i gael ei roddi i achos sobrwydd. A dyma'r drefn am y diwrnod hwnw:—Dydd yr Arglwydd a Dirwest: traethawd, y Parch. John Baker, Liverpool; y Parch. T. B. Roberts, o'r *Free Methodist Church*. Perthynas Wesleyaeth a'r symudiad Dirwestol: traethawd, y Parch. Esgob D. A. Payne, o Eglwys Wesleyaidd Esgobaethol Affrica; y Parch. Joseph Kirsoop, Manchester. Cymdeithasau Dirwestol y Plant a'u lledaeniad trwy yr Ysgol Sabbothol a'r Eglwys: traethawd, y Parch. Charles Garrett, Liverpool; anerchiad, y Parch. Marshall W. Taylor, o'r Eglwys Esgobaethol Wesleyaidd. Mesurau Gwladol ar attal Anghymedroldeb a pherthynas yr Eglwys a'r cyfryw Symudiadau: traethawd, y Parch. Dr. Warden, o'r Eglwys Wesleyaidd Esgobaethol; anerchiad, Mr. William Beckwith, Leeds.—GOL. Y TRAEFHODYDD.

deb; y rhai, er nad allant weled<sup>1</sup> fod<sup>1</sup> yn ddyledswydd arnynt i lwyr-ymattal, a ddymanant gynnorthwyo mewn lleihâu meddwdod; ac, yn drydydd, plant fyddont lwyr-ymattalwyr." Fe hyderir yn fawr y bydd ƒr gymdeithas hon fod mor lwyddiannus â'r cymdeithasau Gwyddelig a Seisonig sydd yn gweithio gyda chyffelyb ymrwymadau.

Y mae yr *United Methodist Free Churches* yn ddiweddar wedi dangos eu hymdeimlad o bwysigrwydd y gwaith dirwestol trwy sefydlu cymdeithas ddirwestol gyfundebol, dan yr enw, "Free Methodist Temperance League," a thrwy gymeryd y mesurau angenrheidiol i gario ymlaen waith y *League* yn drwyadl ac mewn trefn. Fe ddywedir fod yr holl efrydwyr yn ngholeg y cyfundeb yn Manchester, a chyfartaledd<sup>1</sup> mawr iawn o'r gweinidogion, yn llwyr-ymattalwyr.

Mae y *Bible Christian Connexion* yn gweithio yn egniol gyda'r achos dirwestol. Mae cyfartaledd mawr o leygwyr yr enwad yn llwyr-ymattalwyr, fel hefyd y mae bron yr holl weinidogion, a'r efrydwyr sydd yn ymbarotoi i'r weinidogaeth. Mae yn agos i hanner aelodau yr Ysgol Sabbothol yn y Bands of Hope, ac mae yn agos i 60 y cant o'r athrawon yn llwyr-ymattalwyr profsedig.

Mae aelodau Cymdeithas y Cyfeillion wedi bod bob amser ymysg y rhai blaenaf yn yr ymdrech yn y wlad hon yn erbyn y drwg anferth o anghymedroldeb. Y mae llawer o amddiffynwyr mwyaf galluog a dylanwadol egwyddorion dirwestol yn, ac wedi bod yn Gyfeillion; ac fe gyfrifir cyfarfod blynyddol Undeb Dirwestol y Cyfeillion yn un o gyfarfodydd mwyaf pwysig, fel y mae hefyd yn un o'r rhai mwyaf dyddorol a gynnelir gan yr enwad yn ystod y flwyddyn. Mae y mwyafrif mawr o'r Cyfeillion yn ddirwestwyr amlwg.

Mae yr Eglwys Babaid yn gweithio yn ardderchog o blaid dirwest. Y mae y *League of the Cross*, a sefydlwyd gan Cardinal Manning ychydig flynyddoedd yn ol, wedi dyfod yn allu mawr, ac fe deimlir ei ddylanwad, nid yn unig yn Llundain, ond hefyd yn holl drefi mawrion y deyrnas, ac nid yn unig gan eu pobl, ond hefyd gan eu hoffeiriaid. Y mae y *League* wedi bod yn foddion i gael gan 200,000 gymeryd yr ymrwymiad.

Ychydig sydd yn yr Eglwys Undodaidd yn ymlwyn wrth yr achos dirwestol. Y mae rheswm i greu, fodd bynag, y bydd i'r ychydig mewn amser ddyfod yn llawer, canys y mae cryn nifer o'i gweinidogion, a llawer o'r efrydwyr sydd yn awr yn y *New College* yn Manchester, yn ddirwestwyr, ac y mae Bands of Hope yn ddiweddar wedi eu sefydlu ynglŷn â llawer o gapelau Undodaidd.

Fe ddywed un o weinidogion y *New Jerusalem Church* "fod dirwest yn ddiammheul ar gynnydd yn y *New Church*. Mae ysgrifenyddion y Gynadledd, y cymdeithasau cenadol a thraethodau, Undeb yr Ysgolion Sabbothol, a'r *Scottish New Church Association*, ynghyd a llawer eraill nad ydynt lai o ddifrif yn eu hymlyniad wrth, a'u gwerthfawrogiad o neillduolion credo yr Eglwys Newydd, yn ymattalwyr."

Mae y *Gospel Temperance Mission* wedi bod yn foddion i sicrhâu dros 25,000 o ymrwymadau yn Leeds ac yn Newcastle. Mae y symudiad yn myned rhagddo yn gyflym mewn trefi mawrion eraill yn y Gogledd, ac yn ei argymbhell ei hun i filoedd o Gristionogion difrifol.

Mae y *Blue Ribbon Army*, er nad ydyw wedi codi o'r un ran neillduol o'r Eglwys Gristionogol, yn amlwg yn gwneyd gwaith cenadaeth Crist-

ionogol dda. Mae ei phencadlys yn y rhanau mwyaf poblogaidd o'r East-end yn Llundain; ac er nad ydyw mewn bod ond er ys tair blynedd, y mae mwy na 2,600 o gyfarfodydd wedi eu trefnu ganddi, ac fe gymerwyd 42,000 o ymrwymiadau trwy ei gweithrediad union-gyrchol.

Yn Scotland, ac fel y crybwyllais, yn Iwerddon, y mae gwaith dirwestol yn cael ei gario ymlaen yn rymus gan yr eglwys. Yn nghylch-wyliau blynyddol y *Leagues* Dirwestol Ysgotaidd a Gwyddelig a gyn-naliwyd y flwyddyn hon yn Glasgow a Belfast, yr oedd yn bresennol nifer mawr o glerigwyr a gweinidogion o wahanol enwadau, ac ar gais y *Leagues*, fe bregethwyd pregethau ar yr un adeg mewn llawer o eglwysi a chapelau mewn trefi a phentrefi yn Scotland a'r Iwerddon.

Yn adroddiad y pwyllgor ar anghymedroldeb a gyflwynwyd y dydd o'r blaen i Gymanfa Gyffredinol Eglwys Scotland, fe ymddengys y brawddegau gobeithiol a chalonogol a ganlyn:—"Y mae profion digonol o ddyddordeb sydd yn dyfnhâu ac o ymdrech gynnyddol trwy yr holl Eglwys ar y cwestiwn hwn. Flwyddyn ar ol blwyddyn y mae nifer cynnyddol o weinidogion, henuriaid, ac aelodau yr Eglwys y rhai, er mwyn eu lles personol eu hunain, neu er mwyn lles eraill, ydynt yn ymattal rhag defnyddio diod feddwol. Y mae prawf o'r fath fwyaf boddhaol o gynnydd yn y nifer mawr o'r rhai sydd wedi derbyn addysg, y rhai, er nad wedi ymrwymo i lwyr-ymattaliad, ydynt wedi rhoddi i fyny yn gwbl ddefnyddio diodydd alcoholaidd; ac y mae yr arteriad o gynnyg diod gref ar ymweliadau, mewn priodasau, mewn bedyddiadau preifat, mewn claddedigaethau, mewn *servants' halls*, wrth wneyd bargeinion, neu dalu arian, neu am wneyd negesau, neu yn gydnabyddiaeth am fân gymwynasau gan weithwyr, yn sicr yn myned yn llai. Y mae cynnydd cyson mewn cymdeithasau dirwestol plwyfol trwy yr Eglwys oll. Yn yr holl neuaddau Duwinyddol y mae nifer mawr o'r efrydwyr yn llwyr-ymattalwyr, ac y mae gwelliant yn arfer a theimlad yr holl efrydwyr ar y mater hwn."

Fe basiwyd penderfyniad yn unfrydol gan y Gymanfa yn cymeradwyo yr adroddiad, yn ail benodi y pwyllgor, ac yn argymhell y *kirk sessions*, yr henaduriaethau, a'r cymdeithasfaoedd i ystyried yn ofalus pa fodd i ddellio â'r drwg o anghymedroldeb.

Nid yw yn disgyn o fewn cylch y papyr byr hwn i ymfyn i'r lliaws achosion o'r zel a'r gweithgarwch mawr y mae yr Eglwys Gristionogol yn y deyrnas hon yn ddangos y dyddiau hyn yn mhlaidd llwyr-ymattaliad, ac fe'm hattellir gan hyny rhag ceisio mesur y clod sydd yn ddyledus i'r gwahanol gymdeithasau dirwestol, ac yn enwedig y *National Temperance League* a'r *Band of Hope Union*, am ragolygon dysglaer a gobeithiol yr achos dirwestol yn y dyddiau hyn.

Wrth derfynu, nid oes genyf ond dadgan y gobaith y bydd i gymdeithasau dirwestol gwladol a chrefyddol y deyrnas weithio mor dangnefeddus a llwyddiannus yn y deyrnas yn y dyfodol ag a wnant yn awr ac y maent hefyd wedi gwneyd yn yr amser aeth heibio.

T. M. WILLIAMS.

*Llundain.*

## Y PARCH. WILLIAM MORRIS, RHUDDLAN.

CASTELL Rhuddlan—olion gormes—

Tŵr yw 'n hanes Cymru lân ;  
Gan daranfollt John Elias,  
Crynai hon yn nghanol tân ;  
Yn y ffraethlym hen bregethwr,  
William Jones, cariadus oedd ;  
Creig ei hanes adsain enw,  
Morris, hyd yr udgorn floedd !

Ni freuddwydiai Carmel fechan—

Wylaidd edrych tua 'r môr,  
Pan yn siglo cryd ei William  
Fod anrhydedd iddo 'n stôr.  
Ysbryd ei golygfa swynol  
Yfai ei athrylith gref ;  
Adlewyrcha arni hithau  
Gyfran o'i ddysgleirdeb ef.

Gwely brwd yr aelwyd dduwiol,

Yno ei planwyd gynta' erioed ;  
Twf i ddarllen ei hoff Fibl  
Pan nad yw ond pedair oed :  
Gwrcn yn yr Ysgrythyrau,  
Oedd ei ddoeth, grefyddol dad ;  
Dwfn y gwreiddiodd, helaeth firwythodd,  
Ynddo yntau 'r dwyfol had.

Sylfaen ddofn i'w ddefnyddioldeb

A fu cwrs o addysg dda ;  
Lleinw swyddi o ymddiried,  
Goruwch-adeiladu wna :  
Ar farwolaeth ei dad ffyddlawn,  
Gelwir ef i lanw ei swydd ;  
Cyll y blaenor mewn pregethwr—  
Un o Dduw, a than ei lwydd !

Buan, dawn'y weinidogaeth

Ymddadblygai ynddo 'n llawn ;  
Hedai 'n seraph trwy 'r Dywysogaeth,  
Gyda Jones \* o wreiddiol ddawn.

\* Yr hybarch John Jones, Treffynnon. Wedi i'r naill a'r llall gael odfa galed mewn rhyw fan, dywedai John Jones wrtho : " Mae y diafol yn y pulpud, neu mae y rheol yn wâg ! " Dygwyddodd yr olaf fod yn wâg.

Cododd Carmel o ddinodedd,  
 I anrhydedd, wrtho ynglŷn ;  
 Yno mynai 'r cysgod aros,  
 Enyd, wedi colli 'r dyn.

Cododd angor o'i hen gartref,  
 Pan oedd cwmwl dros ei hedd ;  
 Ac er taer ymbiliau brodyr,  
 Ni fu yno hyd ei fedd.  
 Hendref, Rhuddlan, fu ei drigfan,  
 Ac yn Rhuddlan tawel hŷn,  
 Hyd Foreusul yr ail godi,  
 Na ddaw ar ei ol ddydd Llun !

Brwydr boeth y "*System newydd*"  
 Oedd yn aflonyddu ei Sir ;  
 Llawn eiddigedd oedd y tadau  
 Dros yr hen athrawiaeth wir :  
 Clwyfo ei hunan wna 'r Cwrdd Misol,—  
 Torai ambell aelod byw :  
 Lletach na chyfundrefn ddynol  
 Ydyw dwfn wirionedd Duw.

Safle yr amaethwr parchus,  
 Gafodd gyda 'i briod gu ;  
 Ynddi hi ca'dd gysur bywyd,  
 A Rhagluniaeth ddoeth o'u tu :  
 Gwelsant fab a merch, rinweddol,  
 Yn cydaros yn eu nyth,  
 Fu 'n ddyddanwch i'w hen ddyddiau—  
 Perlau fŷnt i'w coron byth !

Wrth ddefnyddio 'r hen awduron,  
 Cryf y twf i'w gyflawn nerth ;  
 Dringa eu mynyddoedd uchel,  
 Cloddia aur o'u hochrau serth :  
 Gyda Charnock, Howe, ac Owen,  
 Yn nghwmni pur ysbrydion mawr,  
 Uwchlaw niwl ammheuon dynol,  
 Trig yn nghlaer oleuni 'r wawr.

Ar eu maes mae cnwd toreithiog  
 O ŷd goreu yr hen wlad,  
 I'w ddefnyddio 'n ymborth iachus,  
 Ac yn werthfawrocaf hād ;  
 Ond o gynnyrch had y Bibl,  
 'R oedd ei faes o dan ei lwyth ;  
 A thrwy rin yr haul-belydrau,  
 Rhoddai 'n wastad addfed ffrwyth.

Wrth ymroi i efengylu  
 Cododd bryn\* o dan ei draed ;  
 Daeth yn nôd i saeth cefnigen  
 A sychedid am ei waed :  
 Dallwyd Nygad John Elias†  
 Gan lwch rhagfarn,—ond o dan  
 Rin dylanwad ei eneiad,  
 Fe agorodd yn y fan !

Yn ystafell gudd fy nghalon  
 Hongia arlun o wr Duw,  
 Dynwyd gan belydrau cariad,  
 Ynof mae yn ddelw fyw :  
 Cyfran ydyw o'm bodolaeth,  
 Er yn hanfod ar wahân ;  
 Derbyn genyf barch addolgar,  
 Adgof ddyry hwn ar dân !

Ar ymylon gorwel f' einioes,  
 Cyfyd craig uwchlaw y dôn ;  
 Adgof orphwys arni enyd,  
 Nis gall fyned hwnt i hon :  
 Mewn addoldy anwyl genyf,  
 Cês ei weled gynta' erioed ;  
 Aros eto mae yr argraff  
 Roddodd arnaf yn chwech oed.

Llygad plentyn welai ynddo  
 Wr golygus, du o bryd,  
 Yn nghyflawnder nerth ei iechyd,  
 O sefyllfa yn y byd.  
 Hyfryd lanwai 'i lais y capel,  
 Wrth ei bodd 'r oedd tyrfa fawr ;  
 Yn y nefoedd 'r oedd y ddaear,  
 'R oedd y nefoedd ar y llawr.

Yn ngoleuni syml Dadguddiad,  
 Gwelai ddyfnder cyflwr dyn ;  
 Nid fel pwnc y traethai arno,  
 Mewn pechadur gwelai 'i hun :  
 Tân gelyniaeth, tân euogrwydd,  
 Yn cynnyddu wrth gyd fyw ;  
 Gwaed yn unig a'u diffoddent,  
 Gwaed yn llawn o haeddiant Duw.

I'r anghenus fe agorai  
 Anchwiliadwy olud Crist ;

\* Bryn anrhydedd. Cyfeiriad at y ffugchwedi am fryn yn oedi o dan droed Dewi Sant pan yr oedd yn pregethu.

† Wedi ei wrandaw yn pregethu yn Nghymdeithasfa Llanrwst, llongyfarchwyd ef gan Elias fel y canlyn :—"Gwaa y bregeth yna y tro i fyned trwy yr holl fyd !"



Goreu win yr addewidion,  
 Ganddo oedd i'r enaid trist :  
 Arddangosai drefn y cadw  
 Heb fod ynddi ddolen wan,  
 A darluniai ras Jehofah  
 Fel yn chwyddo byth i'r lân.

Cafodd ei fedyddio 'n helaeth  
 Gydag ysbryd tadau 'r oes ;  
 Dringo wyddfa Charles Caerfyrddin\*  
 Arno 'n ddwfn ei argraff roes.  
 Yn nhoddedig fflam y gyfraith,  
 Gwlychodd flaen ei saethau llym ;  
 Ond y groes a'r adgyfodiad,  
 Roes i'w fwa ddwyfol rym.

Trigai yn nghanol byd y meddwl,  
 Gwelai 'r sylwedd yn ei lun,  
 A than ffeithiau gwasgaredig,  
 Ddeddf a gydiai 'r oll yn un ;  
 Mewn awrygylich ddyrchafedig  
 O syniadau hoffai fyw,  
 Anadliadau ei athrylith  
 Oeddynt ysbrydoliaeth Duw.

Nid gardd flodau gelfydd ydoedd,  
 Ond y llydain feusydd llawn,  
 Coedydd, bryniau, a dyffrynoedd  
 Natur eang oedd ei ddawn :  
 Dan arwyneb o amrywiaeth  
 Prydferth olygfeydd ar daen,  
 Cynllun eang, amcan uchel,  
 Ynddo oedd yn llydan haen.

Fel y môr yn graddol lenwi,  
 Gyda hunanfeddiant cawr,  
 'R oedd wrth gefn ei dòn eiddilaf,  
 Nerth a grym y tônau mawr :  
 Nerth y môr oedd ynddo 'n codi,  
 Swn y môr oedd yn ei lais ;  
 Chwyddai tônau 'r brægeth fwyfwy,  
 Nes ymdori heb un trais.

Dwys, urddasol, fel y mynydd,  
 Y cyfodai 'n genad Duw ;  
 Ond y golofn fwg fgythiol,  
 Ddwedai—mynydd tanllyd yw !

\* Hoffai adrodd rhanau o brægeth a wrandawsai gan Charles ar "Gymmodi y pethau yn y nefoedd ynddo Ef."

Creig ergydient i'r uchelder,  
 Ufel fwriai 'i grombil lawn,—  
 Ond islaw, ar ol y storom,  
 Gwenai 'r ardd dan lwyth orawn!

Er yr hoffai 'r creigiau uchel  
 Lle gwna 'r eryr balch ei nyth,  
 Teithio ei lwybrau ar ei aden  
 Gwyllt-ddych'myggol, ni wnai byth;  
 Niwliog lwybrau 'r ffug athronydd  
 At ei archwaeth ni fu erioed;  
 Llwybrau ffydd ar graig tystiolaeth,  
 Dyna 'r fan lle sangai 'i droed.

Fel y dyner, lās awyrgylch,  
 Gyll mewn anfesuroi fôr,  
 Ei feddyliau cryf agorent  
 Gilddrws ryw dragwyddol stôr.  
 Tebyg oedd mewn llais ac arddull,  
 I enwog seraph Talysarn;  
 Ond nid golchiad aur, mo hono,  
 Aur i gyd o'r blaen i'r carn!

Yn ffurfafen ei Gyfundeb,  
 'R oedd yn ddysglaer seren fawr;  
 Saethai 'i gwawl trwy niwl y ddaear,  
 Collodd yn ngoleuni 'r wawr:  
 Os yn anerch y frawdoliaeth,  
 Neu 'n pregethu yn ngrym ei ddawn,  
 Ar y maes—y safle bwysig  
 Morris amddiffynai 'n llawn.

Gydag ymborth cryf i'r perffaith,  
 Rhoddai ddidwyll laeth i'r gwan;  
 Byddai 'r teulu yn cydwledda,  
 Pawb yn llawn fwynhâu eu rhan.  
 Am nad ysgrifennai 'r bregeth,  
 Fe ddibynai 'n fwy ar hwyl,  
 Hwyl i arllwys drychfeddyliau  
 Godai 'r dorf i gadw gwyl.

Cariad welai 'n llawen dremio  
 Ar adeilfan daear dyn,  
 Lle cyfodai 'r golofn fyddai  
 Yn fythol ddelw o hono 'i hun:  
 Gwelai 'r angel cryf yn cydio  
 Yn hen bendil awrlais Ior;  
 Clywai 'i ddelef—Ni bydd amser,  
 Collodd mewn tragwyddol fôr!

Fel ei Arglwydd, gorfu iddo  
 Offrwm ingol weddi 'r ardd ;  
 Bywyd uwch trwy hunan farw,  
 Gadd, o'i farw bywyd dardd :  
 Aeth i d'w'llwch colledigaeth  
 Cyflwr, gyda lamp yr hedd ;  
 Llef yr Adgyfodiad ynddo,  
 Greai fywyd yn y bedd.

At gyfodi 'r fath adeilad,  
 Cyflawn ddyn oedd raid, yn sail ;  
 Nid pregethwr mawr yn gyntaf,  
 A dynoliaeth fach yn ail :  
 Cyfrwys allu i guddio 'r gwendid,  
 Noddfa y bychanddyn yw ;  
 Yn awyrgylch daear Morris  
 Nis gallasai 'r neidr fyw.

Teml ei gorff oedd dderwen gadarn,  
 Meddai ben urddasol iawn ;  
 Dan ei ael 'r oedd tân athrylith—  
 Gyda llydan dalcen llawn :  
 Urddas person, llais pereiddgryf,  
 Oeddynt arlun mewdol ddyn ;  
 Sail enwogrwydd William Morris  
 Ddwfn orwedda i ynddo 'i hun.

Ar gyfandir llawn gwybodaeth,  
 Fe drafnidiai ôl a blaen ;  
 Ar ol gwibdaith trwy 'r ffurfafen,  
 Chwiliai 'r graig o haen i haen :  
 Meusydd hanes byd ac eglwys  
 Ddiwyd loffodd yn ei oes ;  
 O'u goreuon, offrwm cariad  
 Beunydd roddai wrth y groes.

Tyfiant Ymneillduaeth Cymru,  
 Dan ddiwylliant uwch, oedd ef ;  
 Gwreiddiodd yn ei Methodistiaeth,  
 Cryf ymledodd tua 'r nef ;  
 Pob dylanwad roed dan deyrnged,  
 Er ei wneyd yn gyflawn ddyn ;  
 Y pregethwr a'r amaethwr,  
 Ynddo, oedd urddasol un.

Fe ysigwyd cwr ei aden,  
 O dan bwys gofalon byd ;  
 Methai, er ymdrechu 'n galed,  
 Ag ehedeg lawer pryd :

Pan, gan dremio i'r goluni,  
Y codai ar ei aden gref,  
Angel-efengylwr ydoedd,  
Nofiai yn eangder nef!

Gwladwr goleuedig ydoedd,  
Addfed firwythau oedd ei farn;  
Dwin a chryf ei argyhoeddiad,  
Gwrol hefyd hyd y carn.  
Orael ydoedd yn ei ardal,  
Bu yn ŵr o gynghor doeth;  
Teyrnged wiwbarch gan ei uwchradd,  
Hawliai ei gymeriad coeth.

Meddai graffder i adnabod  
Arian drwg oddiwrth y gwir;  
Dychryn oedd i'r ffugymhonwr,  
Nerth ei ddyrnod deimlai 'n hir;  
Yn mhlanhigfa 'r weinidogaeth  
Ef ni phlanai flagur gwael;  
Gwelai mai 'r planhigyn gwerthfawr  
Roddai eto firwyth yn hael.

Fel dirwestwr, cyn bod Dirwest,\*  
Trwm ar feddwod ydoedd ef;  
Aml i adwy yn nhŵr y gelyn  
Dorodd ei gyflegr gref:  
Taran oedd ei weinidogaeth  
Rymus, ar bechodau 'r oes;  
Saethai 'r mellt ar ffordd pechadur,  
Mellt o Sinai, mellt o'r groes!

At glorianu gwag arferion,  
A oedd ganddo bwysau mân?  
Dwedai 'n erbyn tanio cetyn, †  
Bron fel pe rhoid tŷ "ar dân."  
Gwel'd ysgafnder ysbryd bechgyn,  
Yn marchogaeth ar y mwg  
Daniai 'i enaid âg eiddigedd:  
Gwelwent dan ei wawdlym wg!

Pan yn trafod achos cerydd,  
'R oedd yn onest fel y dur;  
Ysgol cystudd ddysgodd iddo  
Wersi cydymdeimlad pur:

\* Dywedir mai efe oedd y cyntaf i awgrymu yr enw Dirwest ar y gymdeithas.

† "Mae mwy o son, machgen i, am eich smocio nag am eich pregethu," meddai wrth bregethwr ieuane, unwaith, pan yn ei holi.

Athraw da i Ston ydoedd,  
 Rhoddai iddi fywiol faeth ;  
 Cyrchai 'r ddafad gyfrgolledig,  
 Porthai 'r wyn â'r puraf laeth.

Bu yn dilyn ei Gwrdd Misol  
 Yn lled gyson fwyddi maith,  
 Ac yn un o'r prif golofnau  
 Oedd yn cynnal pwysau 'r gwaith :  
 I fâs sianel mân achosion,  
 Yr oedd llu o lestri llai ;  
 Gwnaed ei long i hwylio 'r cefnfor,  
 Lle nad oes na thraeth na thrai.

Gwelodd firwd y ddwy athrofa  
 Yn ymchwyddo 'n afon gref,  
 Cryfion gedrwydd ar ei glanau,  
 Yn dyrchafu tua 'r nef :  
 Dan ddyllanwad tân yr addysg,  
 Gan y ffyddlawn athraw doeth,  
 Purir aur y weinidogaeth,  
 Ceir y nerthol yn fwy coeth.

Er yn gawr yn y frawdoliaeth,  
 Brawd ymysg ei frodyr fu ;  
 Mewn diffuant gydymdeimlad  
 Curai 'i galon byth yn gry' ;  
 Yn awyrgylch cydymdeimlad  
 Brodyr, yntau hoffai fyw ;  
 Teimlai fod eu cariad ato  
 Yn adlewyrch cariad Duw.

Pan y byddai, gan ryw waeledd,  
 Yn nghaethiwed prudd-der du,—  
 Fel yr haul yn codi 'r barug,  
 Fyddai cwmni brodyr cu :  
 Rhydd a siriol ymddyddanai,  
 Gyda chwaeth oedd byth yn goeth ;  
 Weithiau 'n adrodd chwedl ddiifyr,  
 Yn ysgil ryw sylw doeth.

Iraidd fu yn ngauaf cystudd,  
 Helaeth firwythodd yn ei ha' ;  
 Cariad Crist oedd iddo 'n wreiddyn,  
 Blanwyd mewn dynoliaeth dda :  
 Wrth ei wasgu gan drallodion,  
 Peraroglai 'n hyfryd iawn ;  
 Fe 'i hadblanwyd mewn gwell hinsawdd,  
 Byth i ymddad blygu 'n llawn.

Gyda thaer weddïau ffyddiog,  
 Tynai 'n drwm ar fanc y nef ;  
 Aeth â'r corff a'r llog yn ddeublyg  
 I Gaersalem gydag ef :  
 Cyfoethocach yw y nefoedd,  
 Wrth gymeryd iddi ei hun  
 Aur mor goeth nes gwelai 'r Purwr  
 Ynddo ei hawddgarol lun.

O ffurfafen y Cyfundeb,  
 Ciliai 'r ser o un i un ;  
 Eraill godent, ond ei gyfoed  
 A'i gadawai wrtho ei hun ;  
 Mwy dyeithriol oedd y ddaear,  
 Tynai 'r nefoedd ati ei hun ;  
 Trwy nos Sadwrn einioes, gwelai  
 Wawr ei Sabboth wrthi ynglŷn.

Teml ei gorff oedd iddo 'n garchar,  
 Rhyddid fynai 'i enaid mawr  
 I ehedeg mewn eangder  
 Claer, uwch afiach niwl y llawr :  
 Plygion newydd o ogoniant  
 Welai 'i ffydd yn marw 'r pren,—  
 Cyflawn wisgo delw 'i Arglwydd  
 Oedd ei fryd, a'i wel'd heb len.

Gan ergydion trymion cystudd,  
 Adfeiliedig oedd ei dŷ ;  
 Ond adfeilion palas ydoedd,  
 Yn ei wendid 'r oedd yn gry' ;  
 Saethai trwy ei ymddyddanion,  
 Aml i belydr dysglaer iawn,  
 Brofai fod tu hwnt i'r cwmwl  
 Haul oedd yn dysgleirio 'n llawn.

Mwy na nef o fêl a blodau  
 Barotoed i feibion Duw ;  
 Bythol dyfu at berffeithrwydd,  
 Bythol chwyddo 'r nefoedd yw :  
 Llawn ddadblygiad o bob gallu,  
 Yma yn nghwsg neu 'n effro sydd,  
 A'u rhoi oll yn offrwm cariad,  
 I wasanaeth Duw, a fydd.

Gyda chalon y frawdoliaeth  
 Curai 'i galon yn y glyn ;  
 Cryf linyrau bywiol cariad  
 Byth a'u hunent yn fwy tŷn :

“Cadw'r groes yn ffrynt y bregeth—  
Arbenigrwydd ar yr iawn—”  
Oedd ei serch-anerchiad olaf  
Ati, gyda chalon lawn.

Dydd ei angladd draethai'n eglur,  
Fod tywysog yn ei arch;  
Troed ei feddrod prudd yn allor  
I offrymu iddo barch.  
Ei bregethau nerthol erys  
Yn y saint yn brofiad byw;  
Dygant ffrwyth toreithiog erbyn  
Dydd dadguddiad meibion Duw.

*Colwyn.*

JOSEPH HUGHES.

## ADRODDIAD PWYLLGOR Y LLYWODRAETH AR ADDYSG YN NGHYMRU.

DYMA Adroddiad y *Departmental Committee on Intermediate and Higher Education in Wales* o'r diwedd yn ein dwylaw, ac yr ydym yn teimlo yn hynod o ddiolchgar am dano. Mae yn debyg y rhaid i ni aros ychydig am y gyfrol gyflawn, yn cynnwys y tystiolaethau a dderbyniodd y Pwyllgor, ac ar bwys pa rai y profesa fod wedi cael ei arwain i'r casgliadau y daeth iddo; ond y mae yn llawer mwy dyddorol genym yn awr gael y casgliadau eu hunain, ac felly allu ffurfio rhyw amcan gyda golwg ar y ffrwyth a ellir ddysgwyl i Gymru oddiwrth yr ymchwiliad hwn. Yr ydym wedi gorfod aros am yr Adroddiad yn hwy nag y buasem yn meddwl; ond nid gwaith bychan oedd cael trefn a dosbarth ar y corff anferth o *evidence* a dderbyniasid, yr hwn a gynnwysai o angenrheidrwydd lawer iawn o ffeithiau yr oedd yn rhaid eu hystyried, a llawer yn ychwaneg mae yn ddiammau o opiniynau yr oedd yn rhaid eu cymeryd am eu gwerth. Ac y mae yn hawdd genym gredu, fel yr ysgrifennai un o foneddigion parchus y pwyllgor atom dro yn ol, “fod yr Adroddiad yn well o'r oediad.” Yr oedd meddyliau y Dirprwywr, o aros yn bwyllog uwch ben y materion yr ymddiriedwyd iddynt eu chwilio allan a rhoddi barn arnynt, yn cael eu harwain yn fwyfwy clir i'r casgliadau y daethant iddynt,—casgliadau ag oeddynt i feddyliau annibynol a theg, er mewn llawer golygiad yn chwyldroadol, eto yn amgylchiadau neillduol Cymru, yn anocheladwy. Ac wedi darllen yr

Adroddiad yr ydym yn llawn gydweled â sylw ein gohebydd parchus mewn perthynas iddo ymhellach: "It is a very satisfactory document; in my view the best piece of work that has been done for Wales at any period of her not too prosperous history."

Mae yn hyfryd meddwl fel y mae pethau yn gwella gyda golwg ar Gymru. Wedi deffro o honom fel pobl o ddifrawder oesoedd ein darostyngiad, a dyfod i deimlo fod genym hawliau ag yr oedd yn gwbl anghyfiawn i'n llywodraethwyr eu hattal oddiwrthym, fe'n meddiennid am amser maith gan yr ystyriaeth, mor anobeithiol, wedi y cwbl, ydoedd i ni ddysgwyl am wrandawriad i'n cwynion. Gallesid dywedyd wrth y Cymro, "Wele, y mae dy faterion yn dda ac yn uniawn; ond nid oes neb dan y brenin a wrandawo arnat ti." Erbyn hyn, fodd bynag, y mae pethau wedi newid yn fawr; mae llais Cymru i'w glywed yn nghyngor y Llywodraeth, ac nid ydyw yn ormod gan y Senedd a Gweinidogion ei Mawrhydi—ie heb i ni droi yn Ffeniaid na chynhyrfu am lywodraeth gartrefol,—roddi gwrandawriad parchus i'r hyn sydd genym i'w ddyweyd, a cheisio ystyried pa fodd i ganiatáu i ni ein ceisiadau. Y mae y mesur i gau ein tafarnau ar y Sabboth erbyn hyn wedi ei wneyd yn ddeddf. Ni a fuom oll yn pryderu yn fawr yn ei gylch, ac yn ofni, yn wir, yr elsai y flwyddyn hon hefyd heibio heb ei basio; ond yr oedd hyn yn codi yn gwbl o daiogrydd rhyw un neu ddau o benbyliaid yn y Senedd oeddent yn ddigon isel i ddadleu buddion masnach lygredig yn erbyn cydwybod cenedl o bobl, ac felly, dan amgylchiadau eithriadol, yn gallu llwyddo i attal y mesur, tra yr oedd mwyafrif digyffelyb o'n Seneddwyr yn gryfion o'i blaid, a Llywodraeth ei Mawrhydi, o barch i'n dymuniadau unfrydol, yn awyddus am ei wneyd yn gyfraith. Yr oedd i Mr. Gladstone o'r blaen le mawr yn ein parch a'n cariad; ond y mae trwy y caredigrwydd a'r cyfiawnder uchel a ddangosodd yn yr achos hwn wedi ennill ein calonau i raddau llawer mwy. Yr ydym wedi cynnefino â'r gwawd diystyrllyd y mae llawer o wŷr urddasol yn dybied yn addas fwrw arnom ar gyfrif ein Hymneillduaeth, ac mae yn debyg fod y catffwl gan Warton yn meddwl ei fod yn annelu saeth dra gwenwynig o'i gawell pan yn mingamu ar y rhan a gymerasid gan y "capelau" yn Nghymru gyda deisebu o blaid mesur Mr. Roberts; ond yr oedd y mawredd a ddangosai Mr. Gladstone, sydd ei hunan yn Eglwyswr pur, wrth ddadgan ei ofid fod neb yn gallu siarad yn y fath fodd am ymdrechion canmoladwy pobl Cymru i ofalu am eu haddysg grefyddol, a hyny pan oedd yr Eglwys yn eu llwyr esgeuluso, y fath fel, er mae yn ddiarnneu na wnaeth unrhyw argraff ar Mr. Warton, nad allai lai na dyfod dros ysbryd y deyrnas fel awel hyfryd o iechyd. A'r un modd gyda'r mater pwysig o Addysg. Y mae llawer, ac yn eu plith, ysywaeth, aml i Ddic Sion Dafydd Cymreig, sydd yn cael dirfawr foddhâd wrth edliw i ni ein diffyg ysgolheigod, ac yn edrych ar hyny, mae yn debyg, fel peth digon addas i fod yn fythol gysylltiedig â "*meanness*" ein Hanghydffuriaeth. Mae yn wir ein bod, heblaw gwneyd ein rhan fel y gweddill o'r boblogaeth tuag at gynnal yr Eglwys Wladol, ac adeiladu capelau a chynnal moddion crefyddol at wasanaeth corff ein cydwladwyr, wedi gwneyd ymdrechion mawrion o blaid addysg. Yr ydym wedi llanw y wlad âg ysgolion elfenol, lle y gellir dysgu ein plant heb eu prosielytio i



sect; wedi sefydlu ein colegau enwadol a'u cynnal, fe mewn rhai amgylchiadau eu gwaddoli hefyd; ac wedi sefydlu a gwaddoli y coleg anenwadol yn Aberystwyth. Pan gymerir i ystyriaeth ein hamgylchiadau, nid ydym yn synu yn wir fod llawer o ddynion meddygar yn ystyried fod yr ymdrechion hyn o eiddo gwerin Cymru o blaid addysg yn rhai na ellir dangos eu cyffelyb yn holl hanes y byd. Ond ni wél y bobl ardderchog y cyfeiriwn atynt yn hyn oll ddim ond sydd yn galw am eu dirmyg. A phan ddyrchafem ein llais, mewn undeb â'n brodyr Anghydfurfiol yn y deyrnas, am i'r gwaddoliadau addysgawll mawrion oeddent wedi eu gadael at wasanaeth y genedl, ond wedi eu gorfaelu i fod yn gediau i blaid, gael eu gosod yn agored, fel y bwriedid hwynt ar y dechreu, i'r boblogaeth fel y cyfryw, fe gyfodid y fath wwb o syndod a dychryn â phe buasem yn amcanu at y cysegryspeiliad mwyaf anfad mewn bod. Pa fodd bynag y mae genym achos i fod yn ddiolchgar am fod Rhagluniaeth wedi ein bendithio yn bresennol â Llywodraeth gref ac uniawn, ac yn ben iddi wr mor fawr o ran gallu a diwylliad ac eangder calon, fel y gallwyd o'r diwedd gymeryd golwg ar helyntion Cymru, ac yn arbenig ei hanghenion addysgawll, a hyny mewn dull a fuasai mor anmhosibl i ragfarn a dallbleidiaeth y bobl ag oedd yn arfer bod wrth yr awenau, ag a fuasai creu planed newydd yn y ffurfafen. Fel gweithred o'r arwyddocâd uchaf yn yr ystyr yma, yr oedd gwneyd ein cydwladwr teilwng Mr. Hugh Owen yn Farchog—i'w adnabod i'r byd ac i'r oesoedd bellach fel SYR HUGH OWEN,—yn rhywbeth newydd ar y ddaear. Mae y pethau yr arferir edrych arnynt fel hawliau i'r anrhydedd hwn—perchenogaeth o lydain aceri, sefyllfa uchel mysg y mawrion, gwrol-gampau wedi eu cyflawni ar feusyedd cyflafan, y ddamwain o fod yn faer y dref ar yr achlysur o ymweliad brenhinol, a'r cyffelyb ragoriaethau—yn Syr Hugh Owen oll yn hynod am eu habennoldeb. Fe fuasai pob Prifweinidog arall, oddieithr Mr. Gladstone, yn ystyried y buasai y syniad noeth am wneyd Marchog o'r fath un yn ddiraddiad bythol ar bob urddas. Ac eto fe ddangosodd efe y glewder angenrheidiol i gyflawni y weithred fawr hon,—gweithred nad oes, o'i bath, yr un a all adlewyrchu mwy o ogoniant ar ei enw. Nid oes yn ein cydwladwr ddim o'r pethau ffasiynol i Farchogion,—dim ond oes hir o rinwedd difrycheulyd; ymroddiad diffino ymron trwy gydol yr oes hono i wasanaethu pobl eraill, ac yn enwedig ei gydwladwyr; ac ymdrech ddigyffelyb, mewn amser ac allan o amser, a chyda gwydnwch tawel na fynai gymaint a chydabod bodolaeth rhwystrau ac anhawd-derau, i sicrhau i'w genedl addysg dda,—ymdrech sydd er ys llawer o flynyddoedd wedi llyneuo ei ymadferthoedd i'r fath raddau fel y mae yn hanfodi er ei mwyn, ac wedi dangos yni gyda hi na feddylia dystion am ei alw allan ond i wneyd eu ffortun, a'r cwbl heb fod yn gymaint â dimai o ennill iddo ei hun, ond yn draul barhaus arno o gannoedd ar gannoedd o bunnau: dyma yr unig bethau oedd ganddo ef i dynu sylw atynt; ac eto fe farnodd Mr. Gladstone eu bod y fath fel y gollid Marchog o honaw. Yr ydym ninnau yn tueddu i fod o'r un farn. A dyma deimlad Cymru oll. Yn wir, y mae yn amheus a fu cyflwyniad urddas erioed i neb a drydanodd y fath lawenydd trwy galonau cenedl gyfan, ac a barodd heblaw hyny i gynifer y tu allan i gylch ei genedl y fath foddhâd. Ac y mae yn falch genym yn neillduol ddeall fod Mr.

Gladstone yn golygu i'r anrhydedd hwn i Syr Hugh Owen gael ei ddeall fel *compliment* i Gymru, ac yn arbenig fel amlygiad o'i ddwfn gydymdeimlad â'i hymestyniadau yn y mater o addysg. Ac i amcanion felly nid oedd yn ddichonadwy iddo feddwl am wrthddrych mwy cymhwys i dderbyn y cyfryw anrhydedd. Ac nid ydyw penodiad y Pwyllgor i ymchwilio i sefyllfa Addysg yn Nghymru ond amlygiad arall o'r un doethineb uchel a'r un teimlad caredig. Nid oedd Syr Hugh ar y Pwyllgor hwn, a hyny, mae yn ddiaw, am fod yn well ganddo fod yn ei lanw mewn ffyrdd eraill. Ond dewiswyd dynion na ellid eu rhagorach i'r gwaith, ac y maent wedi ei gyflawni yn y fath fodd fel na all lai na bod yn glod parhâus iddynt hwy eu hunain, ac yn fendith i Gymru o amhrisiadwy werth.

Y personau a benodwyd i'r amcan yma oeddynt, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Aberdâr, yn gadeirydd; Arglwydd Emlyn, yr Aelod Seneddol dros Sir Gaerfyrddin; y Parchedig Prebendary Robinson o York; Mr. Henry Richard, A.S.; Proffeswr John Rhys; a Mr. Lewis Morris, gorŵyr Llewelyn Ddu o Fôn.

Mae yn ddiawmeu mai y caredigrwydd mwyaf a allem wneyd â'n darllenwyr yn awr fyddai rhoddi rhyw syniad iddynt am gynnwys yr Adroddiad pwysig a dyddorol hwn. Yn y bennod gyntaf fe geir golwg gryno ar sefyllfa bresennol Addysg ganolraddol ac uwchraddol yn Nghymru a Swydd Fynwy. Nifer yr ysgolion gramadegol gwaddoledig o fewn maes eu hymchwiliad ydyw 27, o ba rai y mae 13 yn Ngogledd Cymru, 11 yn y De, a 3 yn Swydd Fynwy. Y mae rhai eraill sydd, o ddiffyg cyllid neu achosion eraill, wedi peidio a bod, neu wedi syrthio i fod yn ddim ond ysgolion elfenol. Swm gwaddoliadau yr ysgolion gramadegol, mor agos ag y gellid casglu, ydyw tua £12,788, o'r hyn y mae £4,352 yn y Gogledd, £4,665 yn y De, a £3,771 yn Swydd Fynwy. Mae yr holl ysgolion hyn yn rhai i fechgyn. Nid oes ond tair o ysgolion gwaddoledig i enethod yn Nghymru oll, sef y rhai yn Ninbych a Llandaf, a gynnellir ar elusen Howell, sydd yn swm blynyddol o £6,500, a'r un yn Nolgellau, a sefydlwyd dan yr *Endowed Schools Act*, gydag arian o elusen Dr. Daniel Williams, sydd tua £300 yn y flwyddyn. Rhoddir hanes cryno am yr ysgolion uchod, gan nodi swm eu gwaddol, y nifer a gynnwysent—pa un bynag ai i aros ynddynt ai yn unig i dderbyn addysg, y nifer oedd ynddynt pan wneid yr ymchwiliad, y nifer o Gymru, natur yr addysg a weinyddid ynddynt, y nifer oedd dan addysg yn y gwahanol ganghenau, y nifer o'r ysgolorion oedd yn Eglwyswyr, y taliadau, sefyllfa yr adeiladau, &c. Fe geid nad oedd nifer y bechgyn yn holl ysgolion gwaddoledig Cymru a Swydd Fynwy ar y pryd ond 1,540, o ba rai yr oedd fe allai 1,200 yn enedigol o'r wlad. O'r holl nifer yr oedd rhwng pump a chwe' chant yn dysgu Groeg, a llai na phum' cant yn dysgu rhyw gangen o Wyddoniaeth Naturiol. Yn ychwanegol at addysg Seasonig gyffredin, yr oedd y rhan fwyaf yn dysgu Lladin a Rhifyddiaeth, ac yn y rhan fwyaf fe ddeallid fod o leiaf un iaith Ewropëaidd yn cael ei dysgu. Yr oedd mwy na hanner y rhai oedd yn dysgu Groeg a Gwyddoniaeth Naturiol yn perthyn i ysgolion Bangor, Aberhonddu, Llanymddyfri, a Mynwy. Yr oedd ysgolorion y pedair ysgol hyn yn 633, mwy na'r drydedd ran o'r oll yn y 27 o ysgolion gramadegol sydd yn Nghymru a Swydd Fynwy.

Fe geid, tra y mae tair rhan o bedair, ac yn ol rhai, gyfartaledd mwy o'r boblogaeth yn Anghydfurfwyr, fod dwy ran o dair o'r ysgolorion yn perthyn i Eglwys Loegr; ac ystyrid y rhaid fod pwys yn y dystiolaeth a roddid gan gynifer o'r rhai a ymddangosent o flaen y Pwyllgor fod Anghydfurfwyr Cymru yn teimlo anymddried mawr yn yr ysgolion gramadegol ar gyfrif y lle anghymesur sydd i ddylanwad Eglwysig yn eu llywodraethiad. Nid oes hanes ond rhyw dair o *proprietary schools*, sef ysgolion wedi eu sefydlu gan gwmnïau,—un yn Nghaerdydd, un yn Merthyr Tydfil, ac un yn Nghastellnedd. Ceid fod 152 o ysgolion preifat, yn addysgu 4,158 o blant. O'r rhai hyn yr oedd 79 yn ysgolion i fechgyn, gydag *attendance* o 2,287; a 73 yn rhai i enethod, gydag *attendance* o 1,871. A chymeryd yr ysgolion gwaddoledig ynte, gyda'u 1,540 o ysgolorion; y *proprietary schools* gyda'u 209; a'r ysgolion preifat gyda'u 2,287, ni cheid fod ond 4,036 o fechgyn yn ein gwlad yn derbyn addysg ganolraddol. Y mae lle yn yr ysgolion gramadegol i 2,846; ond nid yw y nifer sydd ynddynt ond 1,540, neu ychydig gyda hanner digon i'w llanw. Fel rhesymau am fychander y nifer yn yr ysgolion hyn crybwyllir (1) anghyfleusdra eu llöoliad, (2) eu hanghyfaddasder i amgylchiadau addysgawl yr ardaloedd y maent ynddynt, (3) y syniad annheilwng sydd gan rieni am yr hyn sydd yn gwneyd addysg dda, (4) fod yr ysgolion gramadegol, fel y dangosid gan gynifer o'r tystion, yn cael edrych arnynt fel sefydliadau Eglwysig. Yn ol Adroddiad y *Schools Inquiry Commissioners* fe ddylai 16 o fechgyn allan o bob mil fod yn derbyn addysg uwch nag elfenol. A chymeryd poblogaeth Cymru a Swydd Fynwy, fel yn ol *census* 1881, yn 1,570,000, a chymeryd hefyd 10 y fil, yn lle 16, fel y nifer a ddylai fod yn derbyn addysg ganolraddol, fe ddylai fod lle i roddi addysg felly i 15,700 o fechgyn, ac fe ddylai y nifer hwnw fod yn derbyn y cyfryw addysg. Yn lle hyn nid oes le yn yr ysgolion cyhoeddus ond i lai na 3,000, ac nid yw y nifer sydd yn eu dilyn ond lai na 1,600. Wedi cydnabod yr oll a ellir hōni ar ran ysgolion eraill sydd yn y wlad, y mae hyn yn dangos fod pethau yn ein plith mewn ystâd dra anfodddhaol. Am addysg uwchraddol y mae ein manteision yn dlotach fyth. Cyn sefydliad Coleg Aberystwyth nid oedd un lle a amcanai at gyfranu addysg uchel ar wahân i amcanion galwedigaethol. Rhwng 1863 ac 1880 fe dderbyniwyd at Goleg Aberystwyth £65,398, o'r hyn yr oedd £51,131 yn gyfraniadau gwirfoddol, a'r gweddill yn daliadau yr efrydwyr, &c. Fe geid fod y genedl fel y cyfryw wedi gweithio o blaid y sefydliad hwn; yr oedd 33 y cant o'r gyfraniadau wedi dyfod oddiwrth Eglwyswyr, 29 y cant oddiwrth y Methodistiaid Calfinaidd, 24 y cant oddiwrth yr Annibynwyr, a'r gweddill—14 y cant—oddiwrth yr enwadau eraill. Y nifer oedd wedi pasio trwy y coleg oedd 313, y rhai a ddeuent o bob Sir yn Nghymru, ond y rhan fwyaf o Sir Aberteifi; y nifer fwyaf a fu yno ar unwaith, heblaw y rhai oedd yn efrydu cerddoriaeth yn unig, oedd 93; y nifer ar y pryd oedd 57. Ceid fod yno nifer dda o athrawon galluog, digon i ddysgu llawer yn ychwaneg o efrydwyr. Y swm a godid am yr addysg oedd £10 y flwyddyn, ond yr oedd traul pob efryddydd i'r coleg, ar wahân oddiwrth gynnalïaeth, yn £53 y flwyddyn; fel yr oedd mwy na phedair rhan o bump o'r draul yn cael ei chyfarfod gan gyfeillion y coleg trwy danysgrifiadau, cyfrodion, a chasgliadau. Cwynid fod y

rhan fwyaf o'r rhai a ddalent yno ymhell iawn yn ol o ran eu haddysg, er eu bod yn gwella yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae hynny o anganrheidrwydd wedi cadw y coleg i lawr, er fod yn amlwg ei fod wedi gwneyd gwaith rhagorol, a gwaith na allid ei wneyd gan yr ysgolion canolraddol. Er hynny yr oedd yn rhaid addef fod y coleg wedi siomi gobeithion ei gefnogwyr. Nid yw nifer ei efrydwyr wedi bod ond bychan. Ychydig iawn oedd wedi dyfod o Ogledd Cymru, a llai fyth o wlad boblog Morganwg gyda'i holl weithfeydd. Fe gyrchid i'r sefydliad gan mwyaf o'r Siroedd cylchynol. Fel rhesymau na fuasai llwyddiant y coleg gymaint ag a obeithid, crybwyllid sefyllfa anghyfleus Aberystwyth, a sefyllfa anaddefed yr efrydwyr pan yn dyfod i fewn; dywedid hefyd fod awdurdodau yr ysgolion gramadegol yn edrych yn anffatriol ar y coleg, a braidd yn anghefnogi eu hysgolorion i fyned iddo. Y mae yn cael ei gynnal yn bresennol ar draul i'w gefnogwyr o £2,500 yn y flwyddyn, a theimlid anhawser cynnyddol i gael yr arian ynghyd, a dywedid y byddai raid iddo fyned i lawr oddieithr i'r Llywodraeth estyn cymhorth at ei gynnalïaeth. Fe geid fod cryn nifer o golegau enwadol yn cyfranu addysg fwy neu lai uchel i ymgeiswyr am y weinidogaeth perthynol i'r gwahanol gyfundebau crefyddol. Sefydlwyd coleg Llanbedr gan yr Esgob Burgess yn 1827 i'r dyben o barotoi ymgeiswyr am y weinidogaeth yn yr Eglwys yn Nghymru. Fe'i corfforwyd trwy Siarter Brenhinol ar adeg ei sefydliad, ac yn 1852 cafodd siarter i roddi y gradd o *Bachelor of Divinity*, ac yn 1865 fe ychwanegwyd at hwnw yr awdurdod i roddi y gradd o *Bachelor of Arts*. Y mae yn derbyn £1,500 oddiwrth yr *Ecclesiastical Commissioners*, ac y mae ganddo waddoliadau yn ychwanegol o £700 yn y flwyddyn, ynghyd ag ychydig gyllidau eraill. Nifer yr efrydwyr ar y pryd ydoedd 78. Rhwng 1873 a 1880 yr oedd 147 wedi eu derbyn iddo, o ba rai yr oedd 121 o'r Deheudir, 18 o Ogledd Cymru, ac 8 o Loegr. O'r cyfan yr oedd 128 yn siarad Cymraeg, a 19 yn Saeson. Er 1865 yr oedd 192 wedi cymeryd y gradd o B.A. Y gost ar gyfartaledd i bob efrydydd ydoedd tua £48 y flwyddyn. Fe wneir crybwylliad ymhellach am wyth o golegau duwinyddol gan y gwahanol enwadau: coleg y Methodistiaid Calffinaidd yn y Bala; coleg yr Annibynwyr yn y Bala, yn awr yn ddwy gangen; coleg y Bedyddwyr yn Llangollen; y coleg Presbyteraidd yn Nghaerfyrddin; coleg y Bedyddwyr yn Hwlfordd; coleg yr Annibynwyr yn Aberhonddu; coleg y Methodistiaid Calffinaidd yn Nhrefecca; coleg y Bedyddwyr yn Mhontypool. Fe wnaed ymfyniad i ba raddau y mae gwŷr ieuainc o Gymru yn gallu cymeryd mantais ar y Prifysgolion er cario ymlaen eu haddysg uwchraddol, ac er na chaeu y manylion a ddymunid, eto fe ddaeth cryn lawer o ffeithiau dyddorol i'r golwg ynglŷn â'r mater yma. Dangosai Dr. Harper, Llywydd Coleg yr Iesu, fod, rhwng 1859 ac 1880, 638 o frodorion Cymru a Swydd Fynwy wedi eu derbyn yn Rhydychain; ac o'r rhai hynny fe ddaeth 262 i goleg yr Iesu, 312 i'r colegau eraill, a 64 yn *unattached*, heb fod yn aros yn yr un o'r colegau. Mae y nifer yn Nghaergrawnt wedi bod yn llawer llai. Hysbysid y Pwyllgor gan Lywydd coleg Aberystwyth fod 11 o efrydwyr y sefydliad hwnw o'r dechreuad wedi graddoli yn Rhydychain, Caergrawnt, a Llundain. Gresyn na fuasai ymfyniad wedi ei wneyd am y graddoledigion Cymreig yn mhrifysgolion Edinburgh, Glasgow, a

Llundain. Fe gaed allan, fodd bynag, fod tua 70 o weinidogion Anghydfurfiol yn awr yn Nghymru wedi graddio mewn rhyw brifysgol, ac fod eu nifer yn cynyddu bob blwyddyn. Mae yn sicr fod llawer o'n cydwladwyr sydd wedi ennill graddau yn byw yn Lloegr hefyd. Mae fod cynifer o'r Cymry yn gallu cyrhaedd y prifysgolion, ac ystyried yr holl amgylchiadau, yn dra rhyfedd, ac ar bob cyfrif yn llawer o glod iddynt. Ond er hyn rhaid fod y nifer llawer yn llai nag a fyddai pe b'ai ein haddysg ganolraddol mewn sefyllfa well, ac yn enwedig pe b'ai y nawdd sydd yn y mater o addysg yn profi o gymaint cynorthwy i wŷr ieuainc mewn rhanau eraill o'r deyrnas yn gweni ychydig yn fwy caredig ar fechgyn Cymru. Yn ol yr hyn a ddywedid wrthynt gan Mr. Lloyd o *Christ's College*, Aberhonddu, y mae y nifer yn Prwsia sydd yn myned i'r prifysgolion yn un o bob 2,600 o'r boblogaeth. Yn ol hyn fe ddylai fod o leiaf 600 o efrydwyr mewn prifysgolion o Gymru. Ond mae yn amheus a oes mwy na hanner y nifer hwn yn yr holl brifysgolion gyda'u gilydd. A than yr amgylchiadau, fe fuasai ymaron yn wyrthiol i efrydwyr Cymreig fod yn fwy llwyddiannus yn y prifysgolion nag y maent wedi ac yn eu profi eu hunain.

Buasai yn dda genym allu aros ychydig gyda'r ail bennod o'r Adroddiad, lle yr ymdrinir â'r tystiolaethau a dderbyniwyd o berthynas i Anghenion Addysgawl ein gwlad, a'r Awgrymiadau a roddwyd gyda golwg ar y ffordd ymha un y dylid eu cyfarfod; ac yn enwedig gyda'r drydedd bennod, lle yr edrychir i mewn i nifer o Gynlluniau er dwyn oddiamgylch addysg ganolraddol ac uwchraddol a osodwyd o flaen y Dirprwywyr gan bersonau a deimlent ddyddordeb neillduol yn y peth: ond yr ydym yn prysuro at olygiadau y Dirprwywyr eu hunain, ac yn neillduol at yr hyn a farnent yn briodol ei argymhell i'r Llywodraeth fel yr hyn sydd yn ofynol i gyfarfod ein hanghenion addysgawl.

Pennod dra gwerthfawr ydyw y bedwaredd, ar Amgylchiadau neillduol a nodweddion gwahaniaethol Cymru, gyda rhesymau dros fabwysiadu ar ei rhan ddarpariaethau newyddion o addysg ganolraddol ac uwchraddol. Y mae wedi bod yn gymaint ffasiwn, wrth drafod helyntion Cymru, i beidio cydnabod dim o'r pethau pwysig sydd yn arbenig nodweddiadol o honi, ac i'n barnu fel cenedl fel pe buasem ymhob ystyr yn sefyll ar yr un tir â'r Saeson, fel y mae yn gysur neillduol gweled gwŷr fel y rhai sydd yn gyfrifol am yr Adroddiad hwn yn tori ar draws yr hen arfer ffol, ac yn wynebu yr amgylchiadau fel y maent, gan ddangos mai ar gyfer y rhai hyn y dylai y Llywodraeth y mae Cymru dani drefnu ei mesurau. Yr oedd Mr. Gladstone llawer gwaith wedi dangos ei fod yn ddigon mawr i ddeall hyn, ac felly wedi profi ei hun yn fil agosach atom na'r rhan fwyaf o'n mawrion Cymreig sydd yn byw yn ein canol, ac eto fel pe byddent yn benderfynol o beidio gwybod dim yn ein cylch. Am y rhan fwyaf o aelodau y Pwyllgor hwn, gallasem deimlo yn lled dawel o'r dechreu am y cyfeiriad a gymerent; ond y mae yn hyfrydwch neillduol genym ddeall erbyn hyn fod cydymdeimlad pob un o honynt â Chymru yn ddwin ac yn bur, a'u bod oll yr un mor awyddus i argymhell y pethau a fyddent yn debyg o brofi iddi o fwyaf o les, heblaw eu bod hefyd yn cydweled yn hapus yn y casgliadau y daethant iddynt. Y peth cyntaf a nodant yn y bennod dan sylw fel yn hawlio cael ei gymeryd i ystyriaeth ydyw (1) ein cenedlaetholdeb—

“that Wales has a distinct nationality of its own.” Nid ydyw ein bod yn ddeiliaid ufudd a ffyddlawn i goron Lloegr mewn un modd yn profi fod ein cenedlaetholdeb wedi ei anghofio genym. Yn hytrach, “mae yr ysbryd sydd mewn manau eraill yn dyfod i'r golwg mewn ymdrechion yn erbyn y llywodraeth, ac mewn gwrthdystiadau yn erbyn uchafiaeth y bobl sydd mewn awdurdod, yn Nghymru yn foddolwrn ar ddal i fyny y bywyd cenedlaethol, cadw teimladau traddodiadol yr hiliogaeth, a choledd y syniadau a'r arferion sydd yn wahaniaethol a nodweddiadol o'r genedl.” Nid ydyw peth fel yma i'w “anwybyddu,” ac yn maru y Pwyllgor ni ddylid ei anghefnogi. Ac yn sicr nid yr addysg oreu i'r Cymry ydyw yr un a geisio eu dadwreiddio o'r ddaear garedig ymha un y cawsant eu bodolaeth, a gwneyd planhigion Seisonig o honynt, ond yr un, gan eu cymeryd fel y maent, a amcana at eu coethi a'u dyrchafu, ac felly beri iddynt yn eu bywyd naturiol eu hunain ddangos y rhagoriaethau sydd yn briodol iddynt. Mewn cysylltiad agos â hyn (2) y mae yr iaith Gymraeg hefyd i'w chymeryd i ystyriaeth. Mae hyn i bobl Cymru yn ffaith y maent mewn cyffryddiad bywiol â hi yn barhâus. Yn ol cyfrifiad a wnaed ar ol *census* 1871 gan Mr. Ravenstein yn ei waith ar y *Celtic-speaking Population of the British Isles*, allan o boblogaeth o 1,426,514 yn Nghymru a Swydd Fynwy, yr oedd dim llai na 1,006,100 yn barhâus yn siarad Cymraeg. Dywedai Mr. Vivian hefyd yn ddiweddar yn y Senedd fod 686,220 ymysg enwadau Anghydfurfiol Cymru, neu a chymeryd plant dan ddeg oed 870,220, yn addoli yn Gymraeg, yn erbyn 36,000 sydd yn addoli yn yr iaith Saesoneg. Ac y mae y bywyd llenyddol a ddangosir yn yr iaith Gymraeg yn gryf. Nid oes ychwaith unrhyw debygolrwydd y bydd ymlyniad y Cymry wrth eu hiaith yn llai yn y dyfodol nag yn yr amser aeth heibio. Mae yn amlwg gan hyny y dylid eu cyfarfod lle y maent gyda golwg ar hyn hefyd, a chyfaddasu y gyfundrefn addysgawl i'w sefyllfa fel rhai y mae eu tafod yn Gymraeg, ac y mae eu hymwneyd â'u cydwladwyr, gan mwyaf o lawer, yn rhwym o fod yn yr iaith Gymraeg. A phrin yn llai pwysig gyda golwg ar sefyllfa addysgawl pobl Cymru y rhaid i ni ystyried (3) eu crefydd. Yn absenoldeb cyfrifiadau awdurdodedig, ni allwn fod yn sicr am niferi cymhariaethol y gwahanol enwadau; ond ni all fod un amheuaeth nad ydyw yr Anghydfurfwr yn gwneyd mwyafrif mawr iawn o boblogaeth Cymru a Swydd Fynwy. Y mae hefyd mor sicr a hyny fod eu Hanghydfurfiaeth yn amlygiad o argyhoeddiad crefyddol dwfn ymhlith y bobl. “Mae y Cymry,” medd yr Adroddiad, “gan droi ymaith oddiwrth y gyfundrefn eglwysig a gydnabyddir gan y Wladwriaeth, wedi creu yr eiddynt eu hunain ac yn ei chadw ymlaen ar draul flynyddol fawr ag y maent yn gwirfoddol ymgymeryd â hi. Y maent wedi adeiladu eu capelau ymhob man, ar y llethr unig yn gystal ag yn y dref boblog, ac felly, heblaw trwy eu hysgolion Sabbathol, y rhai yr ymddengys eu bod yn dal gafael trwy gydol einioes ar ran fawr o'r boblogaeth, y mae ymron ddyddordeb cyffredinol yn cael ei ddal i fyny mewn materion crefyddol. Yr ydys eisoes wedi dangos fod cynnydd addysg wedi ei lesteirio gan yr anymddiried a deimlid yn gyffredinol at yr ysgolion gwaddoledig o herwydd y dylanwadau Eglwysig a ffynent ynddynt, ac yn yr argymhelliadau fydd genym i'w gwneyd fe fydd yn ddyledswydd arnau

awgrymu rhyw ddull o gymmodi yr argyhoeddiadau cenedlaethol a'r sefydliadau sydd yn bodoli er dwyn ymlaen addysgiad y genedl." Fe geir hefyd (4) fod arbenigrwydd mawr wedi ei roddi yn y tystiolaethau ar y dymuniad sydd ymysg y Cymry am addysg well. Fe gydnabyddir fod y dymuniad hwn yn ddiammheuol, ac wedi ei ddangos mewn llawer o wahanol ffyrdd. "Fe gyfeiriwyd yn fynych at y dyddordeb a gymerid yn y coleg yn Aberystwyth, a swm y tanysgrifiadau a godwyd at ei gynnalïaeth ymysg y dosbarthiadau tlotaf yn Nghymru, fel prawf o'r dymuniad y soniwn am dano; ac at hyn fe ellid ychwanegu y dyddordeb mawr a chyffredinol a arweiniodd i appwyntiad eich Pwyllgor, a'r hwn a'i dangosai ei hun fel yr oedd yr ymchwiliad yn cael ei gario ymlaen ymhob parth o'r Dywysogaeth ac ymysg pob dosbarth fel eu gilydd." Ac o angenrheidrwydd rhaid cymeryd i ystyriaeth (5) dloidi cymhariaethol y wlad. Fe roddwyd llawer o dystiolaethau i ddangos fod y dosbarthiadau sydd mewn angen am y fath addysg yn Nghymru yn gyffredin yn dlotach na'r un dosbarthiadau yn Lloegr. Dangosid mai cyfartaledd maintioli y daliadau amaethyddol yn Nghymru, heb son am eu hawsawdd, ydyw 46 o aceri, tra yn Lloegr y mae y cyfartaledd yn 56; ac nad yw nifer y tai a drethir dan yr *house duty* yn Nghymru ond 6.6 y cant, tra yn Lloegr y maent yn 18 a 19 y cant. Drachefn nid yw gwerth *real property* yn Nghymru ond £3 9s. y pen o'r boblogaeth, tra yn Lloegr y mae yn £5 6s. Yn y blynyddoedd 1875-6, yn siroedd Lloegr, yr oedd treth yr incwm yn £15 7s. y pen; ond yn Nghymru nid ydoedd ond £12 y pen; yn Sir Fon, £9 16s. ydoedd, ac yn Sir Aberteifi, £8 4s. Yn y bwreidsrefi Seisonig yr oedd y dreth yn £24 y pen; ond yn y rhai Cymreig nid ydoedd ond £13. Y mae hyn oll yn dangos yn amlwg, faint bynag allo fod ein hawydd fel pobl am roddi addysg dda i'n plant, nad ydyw ein moddion i wneyd hyny ond pur derfynol. Ac y mae i'w ychwanegu hefyd ymhellach, (6), tra y mae ein hamgylchiadau lawer yn fwy cyfyng, a'n bod felly yn llai abl i ddarpar ar gyfer ein hanghenion addysgawl, fod y gwaddoliadau sydd wedi eu gadael at addysg yn Nghymru lawer iawn yn llai nag ydynt yn Lloegr. Mae yn wir nad ydyw y rhai sydd genym dan yr hwsmonaeth oreu, ac y mae cryn lawer i'w wneyd mewn tynu oddiwrthynt, fel y maent, y mwyafswm o firwyth a ellid gael trwyddynt; ond wedi y cwbl y maent yn fychain iawn; ac fe wnaeth y Pwyllgor hwn waith rhagorol trwy alw sylw at hyny. Yn ol tafieni y *General Digest of Endowed Charities* a wnaed i'r Senedd yn 1877, fe geid fod derbyniadau yr elusenau—addysgawl ac i ddybenion eraill, yn Lloegr ar y pryd yn £2,167,427 2s. 4c. Ond nid oedd cyfanswm y derbyniadau oddiwrth elusenau yn Nghymru a Sir Fynwy ar yr un adeg ond £31,087 2s. 4c. Fe wneid y rhai hyny i fyny fel y canlyn: Gogledd Cymru, £14,802 15s. 1c.; y Deheudir, £10,047 4s. 10c.; Sir Fynwy, £6,827 2s. 5c. Nid oedd y derbyniadau oddiwrth yr elusenau addysgawl yn unig ar y pryd, yn Lloegr, ond £632,650 17s. 11c. Ond yn Nghymru nid ydoedd yn ddim ond £10,173 8s. 8c., a £4,057 16s. 1c. yn Sir Fynwy: y cyfan am Gymru a Sir Fynwy yn £14,231 4s. 9c. Y mae arwyneb Cymru yn un ran o saith, a'i phoblogaeth yn un ran o ddeunaw o'r eiddo Lloegr; ond nid ydyw ei gwaddoliadau addysgawl hi a Sir Fynwy ond rhyw un ran o ddeugain o waddoliadau addysgawl

Lloegr! Rhaid i ni benderfynau ynte, naill ai fod Lloegr, gyda'i chyfoeth sydd gymaint yn fwy, yn cael cryn lawer yn ormod o swowr yn yr ystyr yma, neu fod Cymru fechan, gyda'i holl grefyddolder, a'r rhinweddau, a'i hawyddfryd angerddol am addysg, yn cael llawer iawn llai nag a ddylai ddyfod i'w rhan.

Wedi paratoi eu fferdd yn y wedd yma, mae y Pwyllgor yn y bumed bennod, a'r olaf, o'u Hadroddiad—yr hon hofyd ydyw y feithaf a'r bwysicaf o'r cyfan,—yn gosod ger bron y Casgliadau y daethiant i'ddynt trwy yr holl ymchwiliad, a'r Argymhelladau y maent yn wneyd gyda golwg ar gyfarfod â'n haughenion addysgwyl.

Am ein Haddysg Ganolraddol, y maent yn cael fod yn hollol amlwg fod y cyflenwad ymhell o fod yn ddigonol o ran maint, ac nad ydyw mewn un modd yn gyfaddas o ran natur. Nid oes le yn ein hysgolion gramadegol gwaddoledig, fel y dangoswyd, ond i 2,846 o ysgolion, nifer sydd ar bob cyfrif lawer iawn yn llai na'r hyn a ddylai fod mewn poblogaeth o dros 1,500,000. Yn ol cyfrifiad mor isel a deg y fil, fe ddylai fod genym lawn 15,000 yn derbyn addysg o'r fath yma. Ond er nad oes genym le yn yr ysgolion hyn i ddim ond 2,846; sef llai na'r bummed ran o'r hyn a ddylai fod, nid yw y nifer sydd yn eu mynychu ond 1,540, neu ychydig gyda hanner y nifer y mae lle iddynt. Ac y mae y lle yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yn dra anghyfaddas, heblaw fod yn amlwg fod rhwystrau ar ffordd pobl Cymru i wneyd defnydd o'r ysgolion hyn sydd yn eu gwneyd, i gorff y boblogaeth, ymron yn hollol ddi-ddednydd. Y peth cyntaf gan hyny, ebe y Pwyllgor, y dylid ei fynu er mantais i addysg Gymreig ydyw, fod yr ysgolion hyn nid yn unig yn cael eu gwneyd mor effeithiol ag y byddo bosibl, ond eu bod yn cael eu trefnu yn y fath fodd ag i sicrhau eu cyfaddasder i anghenion lleol a'u gafael yn ymddiried y cyhoedd. Mewn trefn i ddwyn hyny oddiamgylch, awgrymai rhai fod holl waddoliadau y Dywysogaeth yn cael eu casglu ynghyd a'u gosod dan lywodraeth *Special Commissioners* i'w gweinyddu er mwylaf o fudd i Gymru; ond barna y Pwyllgor mai gwell, fe allai, fyddai gwneyd defnydd, yn ol trefniadau yr *Endowed Schools Acts*, o'r *Charity Commissioners*. Y mae hyny wedi ei wneyd eisoes yn addrefniad *Schemes* saith o ysgolion y Gogledd, a phump yn y De. Y mae yn amlwg erbyn hyn nad yw y cyfnewidiadau a wnaed yn y rhai hyny yn mayned yn ddigon pell; ond y mae hyny yn codi, nid oddiar annigonolrwydd y trefniad, ond o'r anhawsder o gario allan ddiwygiadau yn erbyn gwrthwynebiad egniol pobl sydd wedi arfer eu llywodraethu, ac sydd yn analluog i gymeradwyo y cyfnewidiadau a gynnygir. Ond nid yw yr anhawsder hwn yn anorfod. "Gellid gobeithio, yn wir," medd yr Adroddiad, "pan ddaw dymuniadau pobl Cymru a'u sefyllfa eithriadol, fel eu dangosir trwy yr ymchwiliad hwn, i gael eu deall yn glir, y bydd i'r rhai hyny y gorphwysa gyda hwynt benderfyniad eithaf y cwestiwn hwn, farnu yn ddoeth ac yn deg rhwng golygiadau ac anghenion cenedl a chynnrychiolwyr cyfundrefn draddodiadol y mae amser a chyfnewidiad yn awr wedi ei gwneyd yn anghyfaddas, ac, yn wir, i unrhyw amcan defnyddiol yn ymarferol amhosibl." Barnant mai doeth ar derfyniad tymmor yr *Endowed Schools Acts* yn 1882 fyddai penodi aelod ychwanegol ar y *Charity Commission* fo yn gwybod yn dda am amgylchiadau Cymru, er cynnorthwyo i gario allan y trefniadau a



argymhellir. Ond tra yn golygu y gallai peiriannwaith, o'r fath fod yn ddigonol i'r amcan yma, y maent yn galw sylw at y ffaith fod cryn ryddid dan yr *Endowed Schools Acts* gyda golwg ar ad-drefniad gwaddoliadau; ond gyda golwg ar Gymru nad ellir gwneyd hyn ond mewn un ffordd, os ydys i gael cyfundrefn foddhaol o addysg ganolraddol. Ac yn y lle cyntaf, os ydyw yr ysgolion i feddu ymddiried y bobl, ac i'w mynychu gan y dosbarthiadau y bwriedir hwy ar eu cyfer, y mae yn hanfodol na fo iddynt un nodwedd sectaraidd neu enwadol. Dan weithrediad adran 17 o'r *Endowed Schools Acts*, 1869, y mae yr ysgolion gramadegol Cymreig eisoes, o ran eu safle gyfreithiol, yn anenwadol; ond er hynny "y maent, gydag ychydig eithriadau, yn ymarferol yn nwyllaw un corff crefyddol, sydd yn gwneyd i fyny yr hyn sydd mewn cymhariaeth yn lleiafrif bychan o'r boblogaeth. Ni a gawsom yn ystod ein hymchwiliad fod, mewn amryw achosion, yr oll o'r corff llywodraethol yn aelodau o Eglwys Loegr. Felly yr ydoedd yn Rhuthyn, Bontfaen, Mynwy, y ddwy ysgol waddoledig i enethod yn Llandaf a Dinbych; a hyd yn nod yn yr achosion lle y cynnrychiolir yr Anghydfurfwr ar y corff llywodraethol, y mae y mwyafrif dirfawr yn gyffredin o'r Eglwys Sefydledig. Yn Mangor, allan o 20 o lywodraethwyr, nid oes ond pedwar o Anghydfurfwr. Ac at hyn rhaid ychwanegu fod y prif athraw a'r rhan fwyaf o'r athrawon eraill ymron bob amser yn aelodau o Eglwys Loegr." Nid rhyfedd eu bod yn cael fod yr Anghydfurfwr yn unllais yn cymeryd fod hyn yn rhoddi nodweddiad enwadol i'r ysgolion yma, ac nad ydynt ond i fesur bychan yn gwneyd defnydd o honynt. Ni chaent fod y Cymry am gau allan addysg grefyddol o'r ysgolion, ond y mae yn rhaid iddi fod yn hollol anenwadol. Fel ail egwyddor hanfodol mewn cynlluniau i ysgolion cyhoeddus Cymreig, gan hynny, y maent yn argymhell fod pa ddarpariaeth bynag a wneler er rhoddi addysg grefyddol yn cael ei chyfyngu i ddarllen ac egluro yr Ysgrhythrau Sanctaidd, ac nad ydyw i gynnwys addysg yn athrawiaethau neu gyffesion unrhyw eglwys, sect, neu enwad. Ymhellach golygant y barnai llawer yn ddiammheuol, yn sefyllfa bresennol y farn gyhoeddus, y byddai yn sicrwydd ychwanegol o gydraddoldeb crefyddol fod yr athrawon yn yr ysgolion hyn yn llyegwyr. Y peth nesaf y rhoddant bwys mawr arno ydyw cyfansoddiad y cyrff llywodraethol sydd i ofalu am yr ysgolion hyn. Cânt fod pobl Cymru yn unllais yn galw am i'w llywodraethiad fod yn boblogaidd a chynrychioladol, a hynny a argymhellant hwythau. Dan amgylchiadau y wlad nid doeth fyddai dal at yr arferiad o wneyd rhai yn aelodau am eu hoes. Nid da ychwaith y golygant y dull a awgrymid gan rai o adael penodiad y cyrff hyn yn gwbl i'r byrddau ysgol; ond cael cynnorthwy amryw o gyrff etholiadol o nodwedd boblogaidd a chynrychioladol, ymysg pa rai, wrth reswm, y gellid yn briodol restru y byrddau ysgol. Golygir i'r argymhelliad hwn am y cyrff llywodraethol weithredu yn ol ar y trefniadau sydd eisoes wedi eu gwneyd, yn gystal ag ar gynlluniau fo i'w gwneyd yn y dyfodol. Egwyddor bwysig arall y galwant sylw ati ydyw y pwys o fod yr ysgolion gwaddoledig yn cael eu cyfaddasu, o ran eu haddysg, i amgylchiadau ac anghenion y wlad; neu fod budd y gwaddoliadau yn cael ei sicrhau i'r rhai y mae ganddynt yr hawl flaenaf ynddynt. Mewn amryw amgylchiadau nid felly y mae

wedi bod. Coffeir am ysgol Beaumaris, yr hon gyda gwaddoliad gwerthfawr o tua £1,000 y flwyddyn, nad ydoedd am rai blynyddoedd yn addysgu mwy na hanner dwsin o blant Sir Fôn. Wedi rhai sylwadau am natur yr ysgolion a ofynir, a'r ffordd oreu o lettfa yr ysgolorion, eir ymlaen i drin am yr adeiladau, y rhai yn y rhan fwyaf o achosion y dylid eu hadgyweirio a'u helaethu, ac mewn achosion eraill eu hadeiladu o newydd ar raddfa haelfrydig. Ond o ba le y ceir yr arian? Y mae allan o'r cwestiwn i feddwl wynebu ar y gwaddoliadau tlodion. Gyda phob cynnildeb fe fydd y gost yn fawr; ac am hyny rhaid chwilio am gyllid y tu allan i'r gwaddoliadau. Wedi dadgan eu barn ar amryw awgrymiadau a dderbyniasant, teimlant eu bod o angenrheidrwydd yn cael eu harwain i'r casgliad fod yn rhaid troi am gyllid at yr adeiladau at dreth leol neu rodd Seneddol, neu y naill a'r llall. Caent fod golygiadau yn amrywio cryn lawer ar hyn. Tybiai rhai y dylai y Senedd fyned i'r holl draul; eraill, ac yn eu plith rai wedi talu llawer o sylw i helyntion Cymru, a farnent y gellid gwneyd hyn heb help y Senedd. Yr oedd gan Syr Hugh Owen gynllun tra golygus i ddwyn hyn oddiamgylch trwy dreth sirol, a dywedir "ei fod ef wedi ychwanegu at y mawr wasanaeth a wnaethai i'r ymchwilid hwn trwy osod ger bron y Pwyllgor amcangyfrif llafurfawr o'r gost a ofynai ei alwadau ar y dreth sirol." Dangosai, a thybied fod swm o £100,000 yn ofynol at adeiladu, y gellid benthycu y cyfryw swm gan y *Public Loan Commission* i'w ad-dalu gyda'r llog mewn 50 mlynedd, trwy godi oddiar bob eiddo a drethir i amcanion sirol yn Nghymru a Sir Fynwy swm heb fod yn fwy na  $\frac{1}{2}$  o geiniog yn y bunt, ac yn ol hyn na fyddai y tâl a godid oddiar denant a drethir am £100 y flwyddyn yn fwy na 1s. 6c. Teimlid ei fod yn wrthddadl yn erbyn hyn y byddai y draul o adeiladu yn disgyn yn anghyfartal ar y gwahanol siroedd, yn ol maint eu diffyg o ysgolion. I gyfarfod hyn awgrymai Syr Hugh Owen na bo i'r dreth mewn un amgylchiad bod yn fwy na dimai yn y bunt, ac â hyn fe gytunai y Pwyllgor. Golygai eraill y byddai yn rhesymol i'r Wladwriaeth gyfranau at yr amcan yma, yn enwedig gan nad ydyw eto wedi gwneyd dim tuag at addysg uwchraddol yn Nghymru, pan y mae y rhanau eraill o'r deyrnas wedi bod am dymmor maith yn derbyn yn haelionus at y fath amcan. Ymddengys nad oedd y Pwyllgor ei hun yn hollol unfrydol ar hyn, ac ymfoddona ar osod ger bron y dewis o'r naill neu y llall o'r ffyrdd canlynol: 1. Codi benthyc i'w ad-dalu gyda llog o'r dreth sirol mewn taliadau blynyddol yn ymestyn dros 50 mlynedd; y benthyc hwnw i fod yn gyfartal i hanner y draul, a'r hanner arall i'w thalu gan y Llywodraeth. Neu, 2. Codi treth heb fod yn fwy na dimai yn y bunt; ac os mewn unrhyw amgylchiad y bydd y draul yn fwy na hyny, gwneyd y diffyg i fyny trwy gymhorth o'r Llywodraeth. Heblaw adgyweirio a helaethu ac ailadeiladu, mae eisieu cryn nifer o ysgolion newyddion hollol. A chyda golwg ar y rhai hyny, fe gynnygir eu bod yn cael eu hadeiladu a'u dodrefnu trwy fenthyc wedi ei godi ar y dreth sirol, i'w ad-dalu gyda llog trwy daliadau blynyddol yn ymestyn dros 50 mlynedd; ac wedi parotoi yr adeiladau fod cymhorth tuag at gynnalriad effeithiol yr ysgolion hyny yn cael ei roddi trwy *grant* Seneddol heb fod yn fwy na swm penodol y pen ar gyfartaledd o'r ysgolorion a font yn eu dilyn,

yn cael ei wneyd yn ol fel y pasiant mewn arholiad blynyddol fo yn cael ei gario ymlaen yn unol â rheolau a ffurfir i'r perwyl. Yr ysgolion hyny hefyd, yr un ffunud, i fod yn anenwadol, ac i gael eu llywodraethu gan gyrrif wedi eu hethol mewn ffordd boblogaidd. Fe geid fod Ysgolion Elfennol Uwchraddol wedi eu sefydlu mewn rhai manau, ac yn gwneyd gwaith rhagorol; ac mewn manau lle y mae rhieni yn dymuno addysg uwch i'w plant nag a geir mewn ysgolion elfennol cyffredin, ac eto yn analluog i'w hanfon i'r ysgolion gramadegol, fe argymhellir sefydlu ysgolion felly.

Am ein cyflenwad o ysgolion da i enethod, y mae yn druenus o annigonol—dim ond y tair a grybwyllwyd o rai cyhoeddus gwaddoledig trwy Gymru oll. Ymddengys fod cynlluniau neu *schemes* ger bron y *Charity Commissioners* i gael dwy yn ychwaneg, un trwy gyfran o waddoliadau Beaumaris, ac un arall o gyllid elusen Tasker yn Hwlfordd. Mae yr angen am ddarpariaeth llawer helaethach yn fawr iawn. Rhoddodd Mrs. Verney o Rhianva dystiolaeth hynod o bwysig ar hyn. Cyfeiriwyd drachefn a thrachefn at ysgol Dr. Williams yn Nolgellau, fel y math o ysgol ag y mae eisieu llawer o'i chyffelyb yn Nghymru. Teimlai y Pwyllgor fod yr hyn a argymhellasant gyda golwg ar addysg bechgyn yn cael galw am dano hefyd gyda golwg ar addysg genethod, ac yn wir yn llawer mwy, gan fod ein darpariaeth ar eu cyfer hwy gymaint yn llai. Ond gan y byddai cario hyny allan yn fater o anferth draul, y maent yn awgrymu, fel un cyfraniad at yr amcan, fod gwell defnydd yn cael ei wneyd o'r gwaddol sydd eisoes mewn llaw. Y mae elusen Howell yn £6,500 y flwyddyn, mwy na hanner holl waddoliadau ysgolion gramadegol Cymru a Sir Fynwy; ond nid oes mwy o frwyth i'w gael ar hyn oll na chynnal a gwisgo ac addysgu 25 o enethod amddifaid yn Ninbych, a 30 yn Llandaf. Y mae hyn yn llawer gormod i'w dalu mewn gwlad mor dlawd â Chymru, ac am mor ychydig o waith. Ac nid oes unrhyw anhawsder i ymyraeth â'r achos yma yn codi oddiar ewylllys y cyfranydd. Nid yw y defnydd presennol o'r cyllid, gyda'i holl gulni a'i sectyddiaeth, yn codi oddiar ddim awdurdod anhaws i ymyraeth âg ef na gweithrediad y *Court of Chancery* yn 1847. Argymhellir gan hyny fod cymeriad y sefydliadau yn Ninbych a Llandaf fel amddifattai, gydag eithrio y rhai sydd yn awr yn eu mwynhâu fel y cyfryw, yn cael ei gyfnewid; eu bod yn cael eu gwneyd yn ysgolion canolraddol i enethod, lle y ceir cynnalieith ac addysg mor rhadlaw'n ag a fo yn gyson âg effeithiolrwydd; na bo mwy na swm blynyddol o £1,500 yn cael ei ddefnyddio at bob un o'r ddwy ysgol, ac o'r swm hwn fod o leiaf £500 yn cael eu dal at ysgoloriaethau i'w mwynhâu yn yr ysgol, fel cymhorth at gynnalieith ac addysg, gan adael y flaenoriaeth iddynt, os bernid yn briodol, i enethod amddifaid; ac fod y gweddill yn cael ei ddefnyddio at gynnortlawyo ysgolion i enethod sydd eisoes wedi eu sefydlu yn Nghymru, neu i helpu tuag at sefydlu rhai newyddion. Rhaid gwneyd yr ysgolion hyn hefyd yn hollol anenwadol, a sicrhâu iddynt lywodraethiad cyfatebol. Hefyd fe ddylai fod cyfartaledd teg o ferched yn perthyn i'r cyrrif llywodraethol. Cafodd y Pwyllgor wybodaeth werthfawr yn ystod eu hymchwiliad am ysgol Gymreig sydd yn Ashford, Middlesex. Fe'i sefydlwyd yn 1714, ac fe'i cynnelid ar y dechreu trwy gyfraniadau

gwirfoddol; yr ydoedd wedi ei bwriadu i blant y hyddai o leiaf un o'u rhieni yn enedigol o Sir Gymreig neu o blwyfi Cymreig neillduol yn nghantref Croesoswallt, ac a fyddent eu hunain wedi eu geni o fewn deng milldir i'r *Royal Exchange* yn Llundain. Yn nhrefniad amser, trwy gyfrodion, cymumroddion, a llogau, fe gyanyddodd y cyllid yn y fath fodd fel y mae ei werth presennol yn £49,000 yn ariansoddion y Llywodraeth. Fe godwyd yr adeiladau presennol yn Ashford yn 1854 ar draal o £20,000. Y mae yn yr ysgol yn awr 44 o fechgyn a 33 o enethod yn cael eu cynnal a'u haddysgu, heblaw nifer o ysgolorion eraill sydd yn talu eu traul. Nid oes plant Cymreig o fewn ei chyrrhaedd yn bresennol, ac felly y mae wedi colli amcan ei sefydliad. Fe argymhellir fod yr arian yma, er mwyn eu defnyddio i amcan eu rhoddiad, ac yn neillduol yn amgylchiadau presennol y wlad, yn cael eu cymeryd at roddi addysg ganolraddol i enethod o rieni Cymreig; ac er mwyn arbed traul fawr ac ofer mewn teithio, eu bod yn cael eu symud i Gymru, a'u defnyddio yn y modd goreu er cyrrhaedd yr amcan hwn; ac fod y farchnad oreu a ellid yn cael ei gwneyd o'r adeiladau yn Ashford. Yr oedd y Pwyllgor yn rhwymedig am y wybodaeth werthfawr a gawsid am y sefydliad yma i Mr. Charles W. W. Wynn, y diweddar aelod dros Sir Drefaldwyn, cyn-drysoydd yr ysgol, a Mr. Stanley Leighton, A.S., ei thrysorydd presennol, y rhai a ddaethent i ddyweyd ei hanes o'u blaen yn y Trallwm.

Nid oes dim a wesgid yn fwy at sylw y Pwyllgor na'r pwys o fod cymmerthwy yn cael ei roddi i'r ysgolorion mwyaf gobeithiol i fyned rhagddynt o ysgolion is i rai uwch, a bernid mai y ffordd oreu i wneyd hyny fyddai trwy sefydlu ysgoloriaethau neu *exhibitions*, i'w hennill trwy arholiadau. Ac y maent hwythau yn argymhell: 1. *Fod exhibitions* o ddim mwy nag £20, i'w dal mewn unrhyw ysgol ganolraddol yn Nghymru neu Sir Fynwy, am yr amser ac yn ol y rheolau a drefner, i ymgais am danynt gan fechgyn a genethod a fyddont wedi bod yn dilyn ysgol elfenol am o leiaf dair blynedd yn Nghymru neu Sir Fynwy, ac wedi pasio o flaen Arolygydd y Frenhines mewn un o leiaf o'r ddau safon uchaf yn y *code* sydd yn bresennol mewn grym. 2. *Exhibitions* o'r un gwerth, i fechgyn a genethod o Gymru neu Sir Fynwy, fo eisoes mewn ysgolion canolraddol yn Nghymru neu Sir Fynwy, neu yn ceisio am dderbyniad iddynt. 3. *Exhibitions* o ddima llai nag £20 a dim mwy na £30, i'w dal mewn ysgol ganolraddol o'r dosbarth blaenaf neu mewn coleg, ac i ymgais am danynt gan rai heb fod dan 15 mlwydd oed, ac a font o Gymru neu Sir Fynwy. Tuag at gael cyllid at hyn, cynnygir cymeryd gwaddoliadau a ddefnyddir yn bresennol yma a thraw at ysgolion elfenol, y rhai y gallir yn awr eu cynnal mewn ffordd arall, ynghyd a gwaddoliadau at amcanion elusenol eraill nad ydynt mwyach yn angenrheidiol at yr amcanion y defnyddir hwynt yn bresennol. A chrybwyllir yn neillduol, trwy gytundeb rhwng yr *Oxford University Commissioners* a'r *Charity Commissioners*, fed £20,000, rhan o waddoliad Meyrick, i gael ei ddefnyddio at addysg yn Nghymru, ac y gellid eu defnyddio at yr amcan hwa. Ni fyddai yr holl arian a ellid gael felly o bob ffynnonell at yr ysgoloriaethau yn llai na thua £12,000 yn y flwyddyn.

Cyn gadael y mater o addysg ganolraddol y mae y Pwyllgor, fel y

basaai yn dysgwyl, yn rhoddi pwys neillduol ar fod yr ysgolion hyn, fel y rhai elfenol, yn cael eu harkoli a'u harolygu gan swyddogion cynhwys wedi eu happwyntio i'r gwaith. Ac os dewisai ysgolion preifat fyned dan yr un prawf, fe allai fod yn deilwng o ystyriaeth ai ni allent hwythau hefyd mewn rhyw ffordd gyfranegi o fudd yr *exhibitions*.

Yna symudir ymlaen at Addysg Uwchraddol. Ceid fod dymuniad oedd ymron yn gyffredinol yn cael ei ddangos am sefydlu colegau taleithiol yn Nghymru, ac "ni phetrusa y Pwyllgor ddadgan ei argyhoeddiad fod colegau o'r fath yma a sefydlwyd yn ddiweddar mewn llawer o'r trefi mwyaf yn Lloegr yn ddymunol yn amgylchiadau Cymru, ac y caid hwy yn fanteisiol i gynnydd addysg uwchraddol yn y wlad. Ymysg pobl fel y Cymry, y rhai, er yn ddiffygiol mewn addysg reolaidd, ydynt yn meddu tuedd naturiol at ryw ffurfiau o ddiwylliad llenyddol a human-amaethiad, fe dueddai y fath sefydliadau i gynhyrfu y dymuniad am addysg uwch trwy ddarpar cyfseuderau i'w chyrrhaeddyd ar y telerau mwyaf cyfaddas i sefyllfa a gofynion y genedl." Ond nes y bo addysg uwchraddol wedi cyrrhaedd tir llawer uwch, ni fernir yn addas yn bresennol wneyd llawer yn y cyfeiriad yma; ac ni argymhellir fod ond un coleg yn cael ei ychwanegu at yr un sydd genym eisoes yn Aberystwyth. Credant y cytunai pawb y dylai y coleg newydd fod yn Morganwg, yn Nghaerdydd neu Abertawe. Gellid dysgwyl i goleg Morganwg, am beth amser o leiaf, gyfarfod gofynion y Dehaudir; a rhaid derbyn Coleg Aberystwyth, pa un bynag ai lle y mae ai wedi ei symud i Gaernarfon neu Fangor, fel coleg i Ogledd Cymru. Ni allant weled fod modd cynnal colegau felly heb gynnorthwy o'r Llywodraeth, a barnant y byddai £4,000 y flwyddyn i bob un, gyda thaliadau yr efrydwyr, yn ddigon tuag at eu cynnal, ac argymhellant fod y swm yma yn cael ei roddi. Ac wrth argymhell fod addysg uwchraddol yn Nghymru yn cael cynnorthwy i'r graddau yma, appelliant at yr hyn a wnaed yn y dull hwn ar ran Scotland ac Iwerddon. Rhoddwyd *grant* o £100,000 at adeiladu y *Queen's Colleges* yn Iwerddon, a £140,000 at adeiladu uwyddion Prifysgol Glasgow. Ac yn amcangyfrifon 1881—2 ceir y symiau canlynol wedi eu fotio: *Queen's University* (Ireland), £5,199; *Royal University* (Ireland), £2,176; *Queen's Colleges* (Ireland), £15,428; eto (adeiladau), £3,033; yr oll i'r Iwerddon mewn un flwyddyn, a thug at gymaliaeth ei cholegau, yn £22,803; heblaw £3,033 yn ychwaneg at adeiladau. Rhoddid hefyd am yr un flwyddyn at gynnal-iaeth prifysgolion Scotland £18,992. Ac y mae yn gysur neillduol i ddeall fod hyn oll yn ateb dyben da. Oddiwrth adroddiad Dr. Porter, Llywydd *Queen's College*, Belfast, a gyhoeddwyd y dydd o'r blaen, yr ydym yn cael fod nifer yr efrydwyr sydd wedi bod yn y coleg hwnw er ei agoriad yn 1849 yn 3,625. Ac fe welir y cynnydd y mae wedi ei wneuthur yn amlwg yn y ffaith, tra nad oedd nifer yr efrydwyr yn 1849—50 ond 90, eu bod y tymmor diweddaf yn 482. Mae mwyafrif yr efrydwyr wedi bod yn Bresbyteriaid, oblegid mai Presbyteriaid ydyw mwyafrif mawr poblogaeth Ulster, ac yn enwedig Belfast; ond er hyny mae 755 o honynt wedi dyfod o Eglwys Esgobaethol Iwerddon, 214 o blith y Pabyddion, a 158 o blith y Wesleyaid. Dywed Dr. Porter fod rhai yn meddwl y basasai sefydlu y *Royal University* yn Iwerddon yn tueddu tuag at leihau y nifer yn y *Queen's Colleges*; ond nid felly y bu;

yr oedd nifer eu hëfrydwy'r yn Belfast y flwyddyn hon yn llïosocach nag y buasai unrhyw flwyddyn flaenorol, ac yr oedd eu cynnydd yn eu hëfrydiau yn gyfatebol. Crybwylla hefyd gyda chymeradwyaeth am weithrediad yr *Intermediate Education Act* yn Iwerddon fel yn codi yr ysgolion i ystâd uwch o effeithiolrwydd, yn darparu gwell efrydwy'r i'r colegau, ac yn dyrchafu safon addysgiaeth yn gyffredinol yn y wlad. Y mae efe yn gwaeddi am helaethiad ar eu cyfïeuserau mewn dysgu gwyddoniaeth, ac yn rhoddi pwys mawr ar gael addysg helaethach mewn galwedigaethau (*technical*), yn cael ei chario ymlaen ar egwyddorion gwyddonol, fel yn anheggorol, yn "vital necessity to the nation at large." Y mae cyfïeuserau y wlad, &c., yn anghymharol, ac nid oes eisieu ond ychwaneg o addysg yn y cyfeiriadau a awgryma efe nad allai yr Iwerddon, dybygid, gydymgais yn llwyddiannus ag unrhyw ran arall o'r deyrnas, neu un wlad arall yn y byd. Y mae hyn oll yn burion: ond os felly y teimlir yn Iwerddon, lle, yn ychwanegol at ei chyfundrefn werthfawr o ysgolion canolraddol, y mae £22,803 yn cael eu talu yn flynyddol o'r cyllid cyhoeddus at addysg uwchraddol yn ei phrifysgol a'i cholegau, beth a ddywedir am Gymru, nad oes iddi brin addysg ganolraddol o gwbl, ac na ddarfu i'r Llywodraeth, hyd o fewn y misoedd diweddaf yma, gymaint a meddwl am wynebu yr ystyriaeth pa un a allai fod mewn angen am unrhyw addysg uwchraddol o gwbl? Y mae ein bod wedi gallu goddef pethau yn yr ystâd yma a bod yn weddol heddychol, yn sicr yn un o ryfeddodau hanesyddiaeth. Ac yn fwy fyth felly pan yr ydym yn dangos mor eglur i hawb mai nid difrawder ydyw rheswm ein tawelwch, ond ein ffyddlondeb fel deiliaid ufudd a theyrn-gar i'r Goron. Yn sicr fe ddylai meddwl am hyn, ac edrych yn enwedig ar yr ymdrechion a wnawn, er ein tlodi i gyd, i sicrhâu i ni ein hunain ychydig o addysg, gynhyrfu ein Llywodraeth, pan y mae yn awr, rhag cywilydd, wedi gorfod agor ei llygaid i weled y sefyllfa, a pheri iddi o'r diwedd estyn i Gymru y manteision y mae ei hawliau cyfiawn yn galw mor uchel am danynt, ac y mae hi yr unig ran o'r Deyrnas Gyfunol sydd dros gymaint o amser wedi ei gadael yn y fath amddifadrwydd o honynt. Y mae y Pwyllgor hwn yn bresennol yn gryf yn argymhell pethau gwell i ni. At adeiladu y coleg yn Morganwg argymhellir *grant* o'r Llywodraeth yn gynnorthwyol i gyfraniadau lleol. Rhoddir pwys ar fod addysg y colegau hyn yn gyfaddas i amgylchiadau y wlad, fod eu cyrff llywodraethol yn cael eu dewis yn ofalus, eu bod yn hollol anen-wadol a heb roddi unrhyw addysg dduwinyddol; golygir hefyd y dylai y Llywydd ymhob amgylehiad fod yn llyegwr. A barnant y dylent fod yn agored i enethod neu ferched ieuaine a ddymunont addysg uwch nag a allent gael yn yr ysgolion, yn gystal ag i fechgyn a gwŷr ieuaine.

Ar y cwestiwn o Brifysgol i roddi Graddau yn Nghymru, fe ymddengys fod amrywiaeth go fawr yn y tystiolaethau a dderbynai y Dirprwy-wyr; ond mae yn amlwg eu bod hwy wedi cymeryd golwg hynod o haelfrydig ar hyn. Eu hargymhelliad ydyw, fod y siarter a roddwyd i Lanbedr i roddi graddau yn y celfyddydau yn cael ei dynu yn ol, ac yn ei le fod un newydd yn cael ei roddi trwy ba un y gellid estyn awdurdod i roddi graddau i gynghor neu fwrdd, cynnwysedig o gyn-nrychiolwyr mewn niferi cyfartal o gyrff llywodraethol Coleg Dewi Sant, Llanbedr, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, ac unrhyw goleg arall lle y gweinyddir addysg uwchraddol y gellid ei gysylltu i'r perwyl. Ni

fernir yn angenrheidiol ymyraeth âg awdurdod Coleg Llanbedr i roddi y gradd o B.D., neu Wryf mewn Duwinyddiaeth. Fe geid fod y tystiolaethau yn dangos fod y gallu i roddi graddau wedi bod yn dra manteisiol i Lanbedr; ac fe fernir y byddai gallu o'r fath a gynnygir yn fanteisiol yr un modd i'r colegau eraill. Dywedir fod safon gradd Llanbedr yn gyfartal i'r eiddo Rhydychain neu Gaergrawnt; ac wedi dwyn y gwahanol golegau i weithio dan yr un siarter, fe ddysgwylir y byddai y bywyd a'r cydymgais a ddeffroid ynddynt yn ddigon o ddiogelwch am effeithiolrwydd eu haddysgiaeth, ac felly hefyd, mewn amser, am barchusrwydd eu graddau.

Mewn perthynas i Goleg yr Iesu yn Rhydychain, fe roddwyd ger eu bron lawer o dystiolaethau gan wŷr o allu a dylanwad gyda golwg ar y defnydd goreu a ellid wneyd o'i gyllidau, a'r rhai hyny yn amrywio yn lled fawr oddiwrth eu gilydd. Ac nid ydyw yn rhyfedd fod y golygiadau a ddygid ger eu bron yn effeithio i fesur yn wahanol ar feddyliau chwe' gŵr o gymeriad annibynol. Y cwestiwn ydyw, pa un a fyddai o fwyaf o fantais i addysg Cymru, fod y coleg hwnw yn cadw ei nodwedd o goleg Cymreig, gan estyn manteision arbenig ar bwys ei waddoliadau i Gymry, ynte fod rhan fawr o'i gyllid yn cael ei adael yn agored i fod at wasanaeth Cymry a ewyllysiont astudio mewn colegau eraill yn Rhydychain neu Gaergrawnt, neu unrhyw brifysgolion neu golegau eraill. Nid ydyw y Dirprwywyr yn gwneyd un cynnygiad gyda golwg ar hyn, a hyny, fe ellid meddwl, am eu bod yn methu cydweled. Yn wir y mae yn rhyfedd eu bod yn cydweled cystal. Gallwn yn hawdd gydsynio â'r sylw canlynol a wnant mewn cysylltiad â'r mater hwn gyda golwg ar eu cydwelediad cyffredinol yn yr holl ymchwiliad: "Ni a anturism ddyweyd, ar derfyn ymchwiliad maith a llafurus, ei fod yn fater o lawenydd a syndod ein bod, tra yn ymwneyd â mater mor lednais a dyrys, mater ag oedd yn gwrychu yn gymaint gan anhawsderau neillduol â'r un a ymddriedwyd i ni, ein bod, heb unrhyw aberthiad o argyhoeddiadau cydwybodol, wedi gallu cyrhaedd casgliadau o'r pwysigrwydd mwyaf gydag unfrydedd ag oedd ymron yn hollol. Yn y cyfamser gallwn obeithio y bydd i'r tystiolaethau a ddygasom ynghyd, a'n hadolygiad arnynt, profi o wasanaeth pan ddél yr achos i gael ei drafod, fel y mae yn debyg y daw, yn eisteddiad nesaf y Senedd." Y mae tri o'u nifer wedi teimlo yn ddyledswydd arnynt ychwanegu bob un ei *Memorandum* yn y diwedd ar bethau yr oeddynt yn anghydweled â'u brodyr yn eu cylch. Golygai y Pwyllgor nad oedd teimlad Cymru yn galw am gau y Bibl ac addysg yn ei bethau allan o'r ysgolion cyhoeddus, ond i'r addysg hono gael ei chario ymlaen mewn dull hollol ansectaraidd; ond ychwanega Mr. Richard Gofnodiad i ddangos ei fod ef, wrth ystyried y gwrthwynebiad a deimla llawer i ddefnyddio yr arian cyhoeddus at addysg grefyddol o unrhyw fath, a'r anhawsder o ddyfeisio unrhyw ffurf o addysg ysgrythyrol a allai fod o nemawr werth ac a fyddai yn ddiramgwydd i bawb, yn barnu mai gwell fyddai cyfyngu addysg yr ysgolion cyhoeddus at faterion cyffredin yn unig, gan drefnu ar fod cyfleusdra yn cael ei roddi i weinidogion y gwahanol enwadau i ba rai y perthyna rhieni y plant, i roddi iddynt addysg grefyddol. Eilwaith yr oedd y Pwyllgor yn barnu na fyddai yn anaddas codi treth sirol, heb fod yn fwy na dimai yn y bunt, tuag at gyflenwi y wlad âg ysgolion

gramadegol, gan gyfnyg fod y gweddill yn cael ei dalu gan y Llywodraeth; ond barnaf Arglwydd Emllyn—yr hwn, fel y dywedaf Mr. Lewis Morris yn Merthyr Tydfil, “yw yr unig aelod Ceidwadol droa y Deheudir, ond sydd er hyn yn Rhyddfrydwr rhagorol”—nad ydyw yn briodol myned at y dreth sirol hyd yn nod am swm bychan i'r fath amcan, heb fod *grant* o'r un swm ymhob amgylchiad yn cael ei geisio gan y Llywodraeth, a gwna yntau ei Gofnodiad i ddyweyd hyny. Drachefn fe ddaw Mr. Lewis Morris â'i Gofnodiad yntau i ddadgan ei fod ef yn bendant o'r farn y dylai cyllid Coleg yr Iesu gael ei estyn i fechgyn Cymry mewn unrhyw goleg a ddewisont, ac nid cyfyngu y rhai a enilliant yr ysgoloriaethau i Goleg yr Iesu yn unig. Teimla yn ddyledswydd arno hefyd ddyweyd y dylai y darpariaethau ar gyfer corff llywodraethol y coleg hwnw fod mor fychain ag a fyddo yn gyson â gwir effeithiolrwydd, ac y dylid eu hystyried yn eu perthynas âg amgylchiadau Cymru, a'r galwadau y maent hwy fel Dirprwywyr yn wneyd ar ei rhan ar y pwrs cyhoeddus. Fe daflai efe hefyd yr *exhibitions* o £30 y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad yn agored i'w dal, nid yn unig yn y colegau taleithiol, ond hefyd mewn unrhyw sefydliad o addysg an-enwadol, ac mewn unrhyw wlad. Y mae gwahaniaethau o'r fath yma, pa fodd bynag, yn lled ddibwys mewn cymhariaeth i'r unfrydedd hynod y mae y Pwyllgor wedi ei gyrhaedd ar y materion tra phwysig a gyflwynwyd i'w ystyriaeth.

Yr ydym hyd yma wedi ein cyfyngu ein hunain i'r amcan o geisio gosod ger bron ein darllenwyr syniad o'r hyn y daeth y Pwyllgor iddo gyda golwg ar y gwaith mawr a ymddiriedwyd i'w ofal. Ac nid oes genym eto ond dadgaa ein dwfn foddhâd a'n cymeradwyaeth fwyaf calonog wrth feddwl am yr ysbryd annibynol, eyniawn, a haelfrydig, yn gystal a'r gallu a'r doethineb, a ddangosodd y boneddigion hyn yn eu hymchwiliad maith a llafurus, ac yn yr argymhellion addfed a thag y maent, fel ffrwyth eu holl lafur, yn osod ger bron yn yr Adroddiad hwn. Y mae llawer o'n darllenwyr yn cofio yn dda am y Saeson ieuainc ffroenuchel a anfonwyd allan, gyda rhyw garsiwn o Gymry fel cynnorthwyr iddynt, i chwilio i fewn i'n hanghenion addysgwyl yn 1847. Yr oedd y Llywodraeth y pryd hyny fel yn ystyried y dylsid gwneyd rhywbeth mewn ffordd o estyn i'r Cymry gyfundrefn o addysg, ac er mwyn dangos y dirfawr angen oedd am hyny, fe anfonwyd y gwŷr ieuainc y cyfeiriwyd atynt, gyda llawn awdurdod *Commissioners*, i chwilio i'n hamgylchiadau ac i ddangos i'r byd mwr gwbl amddifaid oeddem o bob rhagoriaeth, ac mor farbaraidd oedd ein sefyllfa. Yr oeddem ninnau, yn arbenig wrth weled nad oedd gan y Llywodraeth un amcan ar ein haddysgu ond trwy wneyd Eglwyswyr o honom, yn edrych yn lled eiddigus mae yn ddiampneu ar yr holl helynt. Ac wrth weled mor ysblenydd yr oedd y gwŷr ieuainc hyny, ynghyd a'u cynffonau, yn troi yn ein plith, ac mor ddibris ganddynt oedd pobpeth a werthfawrogai y genedl Gymreig, yr oeddem, mae yn sicr, yn edrych arnynt yn iwy difater fyth, ac yn anobeithio y deuai dim daioni i ni o'r fath ymweliad â hwnw. Pan ddaeth eu hadroddiad allan, ac y gwelsom gyda'r fath ddyhewyd yr oeddynt wedi bod yn casglu baw i'w fwrw arnom, a heb ddangos y rhithyn lleiaf o gydymdeimlad â ni, fe gyffrôdd calon Cymru i'w gwraidd, ac fe ddaeth y “llyfrau gleision”



yn felkith ac yn rheg. I amcan y Llywodraeth ar y pryd, fe asth yr holl drafferth a'r draal yn waeth nag ofer. Ond fe wnaeth lss mawr trwy symbylu egnion ein cenedl i gyflenwi y wlad ag ysgolion elfenol anenwadol. Ymhon blynyddoedd fe ddaeth ein llywodraethwyr i ddeall pethau yn well, ac i weled fod sefydlu cyfundrefn o addysg genedl-aethol trwy law offeiriaid yr Eglwys Sefydledig, yn gwbl allan o'r cwestiwn, ac os oedd y gwaith i'w wneyd o gwbl fod yn rhaid ei adael yn nwyllaw y bobl eu hunain. Yn 1870 fe basiwyd Deddf Addysg Mr. Forster, y mesur Seneddol mwyaf pwysig, mae yn ddiammeu, y gwybu yr oesoedd diweddfaf yma am dano. Ac nid oes un ran o lywodraeth ei Mawrhydi a roddes i'r Act fawr hon y fath groesaw calonog a Thywysogaeth Cymru. Y mae ymron yr holl wlad erbyn hyn dan fyrdau ysgol; mae yr ysgolion Brytanaidd bron i gyd, a llawer o rai Eglwysig hefyd, wedi eu gosod dan y byrddau hyny, a lliaws mawr o honynt wedi eu hadgyweirio a'u helaethu fel ag i'w gwneyd yn ysgolion o'r fath fwyaf dymunol; ac heblaw hyny, y mae rhai cannoedd bellach o ysgolion newyddion wedi eu sefydlu gan y byrddau trwy holl hyd a lled ein gwlad. A thra yr oedd Cymru fechan yn cario ymlaen yr ymdrech ddigyffelyb hon er rhoddi ychydig o addysg i'w phlant, yr ydoedd hefyd—heblaw para i gynnal ei hathrofeydd er amaethu meddyliau ei phregethwyr ieuaine—yn deffro i'r ymdrech feiddgar o sefydlu a chynnal prifysgol iddi ei hun, a heb nennawr well gobaith am gyllid at y fath amcan nag a ellid o geiniogau ei thlodion. Yn sicr prin yr oedd eisieu gw'r o graffder Mr. Gladstone i weled fod gwlad fel hon yn addfed i unrhyw gynllun rhesymol er perffeithio ei chyfundrefn addysgawl; ei fod yn wastraff ac yn gamwri fod o'i mewn gymaint o adnoddau ynglŷn â'r ysgolion gwaddoledig, &c., nad oedd y Cymry yn gallu gwneyd prin unrhyw ddefnydd o honynt; a'i fod hefyd yn ddirfawr anghyfiawnder fod y Llywodraeth yn rhoddi cynnorthwyon mor hynod o hael tuag at roddi cydysg o'r fath oreu i ranau eraill o'r deyrnas, a hyny ar draul y cyllid cyhoeddus y mae Cymru yn dawel trwy y blynyddoedd yn gwneyd ei rhan er ei gynnyrchu, ond heb ericed dderbyn dimai o hono at ei haddysg ei hunan, er yn dangos yr awydd mwyaf angerddol am ychydig addysg, ac yn gwneyd ymdrechion na welodd unrhyw wlad haiach eu cyffelyb er mwyn ei chyrhaeddyd. Mewn ysbryd o gydymdeimlad caredig â Chymru, dan amgylchiadau mor eithriadol, y penodwyd y Pwyllgor hwn; ac mae yn gwbl amlwg mai yn yr un ysbryd y gwnaeth yntau ei waith. Ni ddylai fod yn syndod i'r gwŷr rhagorol oedd yn ei wneyd i fyny os oedd rhai o'r Cymry yn edrych yn ammheus arnynt. Yr ydoedd yn beth mor newydd i ni dderbyn unrhyw ystyriaeth garedig oddiar law y Llywodraeth; fe ddeallid hefyd eu bod hwythau oll, oddieithr un, yn Eglwyswyr; ac yr oedd rhai o honynt mor anadnabyddus, fel nad ydoedd mewn un modd yn beth anaatoriol i ni deimlo fel ar ein gyfliadwriaeth, ac ystyried y gallai y tro hwn hefyd brofi yn siomedigaeth i ni. Erbyn hyn, pa fodd bynag, y mae pob achos o betrusder wedi ei symud, ac y mae boneddigion y Pwyllgor wedi profi eu hunain yn gyfeillion calon i ni. Ni fyddai yn syn genym weled fod rhai o'n cydwladwyr yn cymeryd golwg dra gwahanol ar eu gwaith. Yr oedd y Proffeswr Rhys yn Llanynddyfri yn gallu yn-

synied â'r posibilrwydd y byddai rhai wedi gweled eu Hadroddiad yn eu "mellidithio." Mae yn ddiau y bydd llawer yn siomedig, ac fe allai yn lled analluog i gadw gwastrodedd ar eu tymherau. Gwelsom fod cryn sôn mewn rhai cynnadleddau am y pwys o ymddangos o flaen y Pwyllgor i roddi tystiolaethau fyddent "yn ffafriol i'r Eglwys;" ac mae yn ddiau fod tipyn o ymdrech wedi ei wneyd yn y cyfeiriad hwnw. Ond mae yn ymddangos fod y Dirprwywyr wedi barnu fod "yr Eglwys" wedi cael llawn ddigon o ffafrau yn Nghymru, a'i fod bellach yn bryd dechreu meddwl am y genedl Gymreig yr oedd yr Eglwys, tra yn hanfodi i'w gwasanaethu, wedi ei hesgeuluso mor gywilyddus. Y mae ein gwaddoliadau addysgawl a'n hysgolion wedi eu cadw hyd yma yn gwbl yn llaw a than lywodraeth yr Eglwys; ac mewn canlyniad nid ydyw pobl Cymru wedi bod yn meddwl am gael unrhyw fantais arnynt, ond y maent wedi bod yn helpu eu hunain fel pe na fuasai ysgolion gwaddol-edig o fewn eu gwlad, gan adael i sect, a hono yn un fechan, yr hyn a fwriadwyd i genedl. Bellach y mae y Pwyllgor hwn, heb un ddeilen ar ei dafod, yn galw am i hyn oll gael ei newid, ac am i'r adnoddau a neillduwyd i wasanaeth y bobl gael eu cymeryd o law y sect, a'u defnyddio mewn ffordd rydd a theg er mantais i'r bobl fel y cyfryw. Mae yn ddigon tebyg y teimla rhai o'n cydwladwyr eu bod yn cael dirfawr gam wrth gael eu hamddifadu o'r gallu a'r nawddogaeth sydd wedi bod cyhyd yn eu dwylaw, ac y bydd yn chwith ganddynt feddwl am yr anfantais i'r Eglwys o golli peiriannwaith rhadlawn a chyfleus i ddwyn i fyny offeriaid iddi. Digon tebyg y bydd yn ysgorn gan rai o honynt feddwl am gydweithredu â phobl sydd bellach yn debyg o gael eu gosod, gyda golwg ar y pethau hyn, ar yr un tir â hwythau. Fe ddywedir fod gŵr oedd yn flaenor neu ddiagon mewn eglwys oedd unwaith dan ofal y Parch. W. Williams, Wern, wedi troseddu, ac fe aed i gynnal cyfarfod brodyr ar ei achos. Wedi myned i'r holl helynt, fe farnodd y frawdoliaeth yn addas ei ddiswyddo, ond gadael ei aelodaeth iddo. Rhoad ar Mr. Williams i hysbysu i'r brawd y penderfyniad y daethid iddo. Wedi gwrandao, ebe y dyn, yn syn a brawychus, "Wel, felly, fydda i ond yr un fath â dyn arall?" "Yr un fath â dyn arall," ebe y gweinidog. Yr oedd hyny, bid siwr, yn dynged dra dirifol! Mae yn ddigon tebyg y teimlir hi felly gan amryw o'n cydwladwyr gyda golwg ar weinyddiad ein gwaddoliadau addysgawl. Nid ydym yn sicr a fuasai cael eu gadael allan y tro yma eto yn gymaint profedigaeth i Anghydfurfwyr Cymru, oblegid y maent hwy bellach trwy oesoedd o ormes a dirmyg wedi cynnefino â dyoddef.

Still have we borne it with a patient shrug,  
For sufferance is the badge of all our tribe.

Mae yn ddigon tebyg er hyny y buasai peth felly y tro hwn yn ein chwervei i gryn raddau, ac y buasem yn barod i waeddi, "I'ch pebyll, O Israel." Ond y mae y Pwyllgor wedi gweithredu yn dra gwahanol. Yr oedd gan y *Western Mail* ei ysgrêch y dydd o'r blaen: "Y llais yw llais Arglwydd Aberdâr; a'r dwylaw, dwylaw Henry Richard ydynt." Beth a ddywedai y *Western Mail* o ddeall fod y llais a'r dwylaw mewn modd arbenig yn eiddo yr unig ŵr Eglwysig oedd ar y Pwyllgor? Fe ddywed aderyn, tra yr oedd holl aelodau y Pwyllgor

yn gwneyd eu rhan yn galonog yn ffurfiad yr Adroddiad, ac felly yn gydgyfrifol am dano, eto fod y rhan fwyaf o'r Adroddiad fel y mae yn gynnyrch ysgrifell Canon Robinson. Os felly, pob clod iddo! Yr ydoedd yn un o fil, ac yntau yn foneddwr o Sais ac yn ŵr Eglwysig, i allu darllen calon Cymru mor drwyadl ag y gwnaeth, ac yn enwedig i allu edrych gyda llygad mor uniawn ar hawliau ei Hanghyddfurfiaeth. Yr oedd efe yn adnabyddus o'r blaen fel addysgydd,—wedi bod yn llywydd Coleg Athrawol York, yn arolygydd ysgolion, yn aelod o'r *Endowed School Commission*, ac yn aelod o'r *Charity Commission*; yr oedd y cymhwysderau ynddo a'i cyfaddasent i'r fath swyddau a'r rhai hyn, ynghyd a'r profiad gwerthfawr a ennillasai ynddynt, yn ei wneyd yn hynod o gymhwys i weithredu ar y fath Bwyllgor â hwn. Ond er y cwbl, prin y gallasem ddysgwyl iddo ymryddhâu yn gymaint oddiwrth "eilunod y llwyth," neu ragfarnau ei blaid, ag i allu cymeryd i fyny mor galonog y golygiadau sydd yn rhedeg trwy yr Adroddiad hwn. Ac mae yn dda genym ddeall fod holl aelodau y Pwyllgor, yn enwedig gyda golwg ar egwydderion mawrion eu Hadroddiad, yn "gweled lygad yn llygad." Y mae un peth, sut bynag, ag y mae yn debyg y teimla llawer yn anmharod i gytuno â hwynt, sef y pwys a roddant ar fod llywyddion y colegau a phrifathrawon yr ysgolion gramadegol yn lleygwyr. Y mae gradd o wahaniaeth yn eu dull o eirio gyda golwg ar y ddau fath o sefydliadau; am yr ysgolion, dywedant y byddai i lawer yn sicrwydd ychwanegol am eu hansectariaeth pe byddai eu prifathrawon yn lleygwyr; ond gyda golwg ar y colegau, dywedant y dylai eu llywyddion ymhob amgylchiad fod yn lleygwyr. Ond mae yn debyg mai yr un ydyw eu teimlad gyda golwg ar yr ysgolion a'r colegau, canys mae yn amlwg fod cymeriad ansectaraidd y cyfan, neu hyd yn nod yr hyn a roddai foddlonrwydd i'r wlad am eu cymeriad ansectaraidd, yn beth mor hanfodol yn eu golwg fel ag i alw am aberthu pobpeth er ei fwyn. Nid ydym yn meddwl am fynyd eu bod wrth ddyfod i hyn yn dangos unrhyw ddiffyg parch i weinidogion yr Efengyl, neu unrhyw eiddigedd yn erbyn i ddynt, am ei fod wedi ei ordeinio, ymgymeryd â sefyllfa ag y profo ei fod yn meddu cymhwysder arbenig iddi, ac y teimlo duedd hefyd i ymgymeryd â hi. Yn hytrach fe ymddengys i ni fod enwadaeth yr ysgolion gwaddoledig wedi ei ddulio yn gymaint i'w penau yn ystod eu hymwelid â Chymru, nes eu dwyn i deimlo, costied a gostio, y rhaid cael ein holl beiriannwaith addysgawl o hyn allan yn anenwadol, ac mewn trefn i sicrhâu hyny mai gwell fyddai cau allan y gweinidogion. Ond yr ydym yn meddwl eu bod yn hyn yn myned yn rhy bell. Yr oedd Mr. Richard, er mwyn sicrhâu fod addysg yr ysgolion canolraddol yn hollol anenwadol, am gyfyngu eu haddysg at bethau cyffredin yn gwbl, a pheri na ellid darllen y Bibl na son am grefydd ynddynt ond gan weinidogion ag y dewisai rhieni y plant iddynt gael cyfleusdra i wneyd hyny; ond yr oedd y Pwyllgor yn barnu fod pobl Cymru yn teimlo yn wahanol iddo ar hyn, ac nad allai fod perygl yn y byd i unrhyw enwad fod y Bibl yn cael ei ddarllen a'i egluro, tra y mae hyny yn cael ei wneyd ar y dealltwriaeth clir nad oes dim golygiadau sectol i gael eu dysgu. Yn y mater y cyfeiriwn ato y mae y Pwyllgor am yru ei resymeg mor bell ag y mynai Mr. Richard wneyd ar y mater arall. Am fod yr ysgolion gwaddoledig, y rhai yn awr a lywodraethir gan Eglwyswyr ac a ddysgir gan offeiriaid, yn ysgol-

ien mor Eglwysig fel na fyn y Cymry mo honys, y maent yn penderfynu na ddylai un gweinidog fod yn llywydd ar un o'n sefydliadau addysgawl. Beth os na themlai pobl Cymru unrhyw wrthwynebiad i weinidog fod yn y fath sefyllfa? Beth hefyd os teimlent fod y ffaith o fod gweinidog yr Efangyl, y gwyddant o bosibl rywbeth am dano, wrth lyw sefydliad felly, yn foddlonrwydd arbenig iddynt am ei gymeriad, a hyny mewn mater sydd yn ngolwg miloedd o rieni Cymru, trwy drugaredd, yn llawer mwy pwysig na phob cwestiwn hyd yn nod o ysgolheigod? A beth os ydyw y boddlonrwydd perfffaith y mae pobl Cymru wedi gael am anenwadaeth yr ysgolion Brytanaidd ac ysgolion y byrddau, y fath ag a roddai foddlonrwydd hefyd i'w meddwl na fyddai i un gweinidog, tra yn llywyddu sefydliad addysgawl sydd yn cael ei gario ymlaen ar egwyddorion anenwadol, byth gymeryd mantais ar y sefyllfa hono i ledanu golygiadau ei enwad neu i chwyddo dylanwad ei sect? Wrth reswm ni ddysgwylid i weinidog a fo mewn sefyllfa felly ymgymeryd â gofal bugeiliol unrhyw eglwys, neu adael i'w bregethu ei rwystro i wneyd cyflawnder â'i ddyledswyddau yn yr ysgol; ac ni ddysgwylid iddo gael ei benodi i le mor bwysig heb ei fod mewn ystyriaethau eraill y cymhwysaf i'w lanw. Ond pan y mae gweinidog yn meddu pob cymhwysder i fod yn brifathraw neu lywydd mewn ysgol neu goleg, dan lywodraethiad hollol ansectaraidd, ac yntau yn barod i ymgymeryd â'r gwaith yn gwbl ar y dealltwriaeth hwnw, yr ydym ni ymhell o greda y byddai pobl Cymru yn awyddus i'w gau allan, yn unig am ei fod yn achlysurol yn arfer dyweyd ychydig wrth ei gyd-ddynion am Grist yn Geidwad, gyda pha enwad bynag ygallo fod wedi bwrw ei goelbron. Yr ydym gan hyny yn barnu mai di-aw-am-dano ac annoeth fyddai rhwymo dwylaw llywodraethwyr ein sefydliadau addysgawl mewn mater o'r fath yma. Gyda hyn o eithriad, nid ydym ni yn gallu gweled dim yn argymhelliadau yr Adroddiad sydd mewn un modd yn tantic beirniadaeth; ond fel y dywedasom o'r blaen yr ydym yn eu mawr gymeradwyo, ac yn teimlo yn bur sicr y byddai eu carie i weithrediad yn ddaioni mawr i'n hanwyl wlad.

Hyderwn yn fawr y bydd i'r Llywodraeth y Senedd-dymmor nesaf eu corffori mewn Act Seneddol, a phrysuro i osod y peiriannwaith gwyh a olygir gan y Pwyllgor ar waith i ddyrchafu ein cenedl. Ac nid oes, dybygem, ond ychydig o le i amneu nad felly y bydd. Y mae Mr. Gladstone bellach amryw weithiau wedi dadgan ei argyhoeddiad fod Cymru yn y pethau hyn yn cael ei thrin yn bur annheilwng, a diamneu nad ydoedd efe a'i gymdeithion wrth benodi y Pwyllgor hwn yn dysgwyl i'w Adroddiad fod nemawr yn wahanol i'r hyn ydyw, ac y gallwn felly gymeryd y ffaith o'i benodiad fel argoel led sicr eu bod yn bwriadu gweithredu yn ol ei argymhelliadau. A gallwn hefyd deimlo yn fwy hyderus fyth am hyny pan feddylw'n am y gallu a'r doethineb a ddangosodd y Pwyllgor yn nghyflawniad y gorchwyl anhawdd a ymddriedwyd i'w ofal. Ac yr ydym, yn ychwanegol at hyn oll, yn dysgwyl yn hyderus y bydd llais Cymru yn amlwg yn cyrhaedd y Senedd fel yn calonog gymeradwyo argymhelliadau y Pwyllgor. Gadewch i ni roi ar ddeall i'n cynrychiolwyr Seneddol tra y byddont yn ystod y misoedd hyn yn troi yn ein plith, ein bod yn teimlo mai dyma y pethau sydd arnom eu heisiau; ac os barnir hyn yn angenrheidiol, ni fydd

ond, peth hawdd i ni lawr y Senedd. An deisebau, fel y gwneithom gyda'r achos o gau ein tafarnau ar y Sabboth, i ofyn am i'r trefniadau hyn gael eu hestyn i ni. Yr ydym hefyd yn teimlo yn gwbl sicr, ond i ni gael ein sefydliadau addysgwyl fel yr argymhella, y Pwyllgor hwn, na fydd unrhyw betrusder yn ein plith i wneyd defnydd llawn o honynt. Hyd yma yr ydym, ac eithrio rhyw leiafrif bach o Eglwyswyr yn ein plith, wedi bod yn anfon ein plant i Loegr, ac fel y cyfeirir drachefn a thraohafn ya, yr Adroddiad yma, i fanau na wyddem ond nesaf peth. i ddim yn eu cych, er cael ychydig o addysg uwch iddynt nag a gair yn yr ysgolion elfenol, a hyny am nad ystyriem fod ein hysgolion gwaddoledig ein hunain yn bod i ni. Ond wedi i ni eu cael dan lywodraethiad eang, ac wedi eu codi i ystad o effeithiolrwydd priodol, a chael hefyd gyflawnwad digonol o honynt, ni feddyliai neb o honom am beidio gwneyd y defnydd mwyaf dibetrus o honynt. A'r un modd am y colegau. Y mae yr awgrym a wneir o berthynas i gymeryd Aberystwyth fel coleg i Ogledd Cymru, neu os barnid yn fwy addas ei symud i Gaernarfon neu Fangor, sut bynag, yn galw am ystyriaeth bwysig a difrifol pobl Gwynedd. Y mae colég Aberystwyth yn dangos yn ei holl Adroddiadau fod ganddo ffydd ddofn yn sylw Dr. Matthew Arnold: "Os oes un peth, y mae fy mhrofiad tramor wedi fy ngadael i'm argyhoeddedig o hono,—mor argyhoeddedig ag ydwyf o'n hangen am addysgiaeth uwchraddol, o gwbl—dyma ydyw: y rhaid i ni gymeryd yr addysgiaeth yma at yr efrydwyr, ac nid gobeithio dwyn yr efrydwyr at yr addysgiaeth." Fe ddysgwyliad ar y dechreu y byddai coleg yn Aberystwyth yn ateb y dyben felly i'r oll o Gymru. Ond mae yn amlwg bellach nad ydyw wedi gwneyd hyny, ac y mae llais Morganwg wedi ei godi mor groch ar hyn fel y golygir bellach ar bob llaw fod cael coleg i Abertawe neu Gaerdydd yn anheborol. Clywsom fod un o'r tystion wedi gosod cyfrif ger bron y Pwyllgor yn dangos, pe buasai yr un cyfartaledd i'r boblogaeth o efrydwyr Aberystwyth o Sir Forganwg ag o Sir Aberteifi, y buasai eu nifer, yn lle bod yn chwe' deg, yn chwe' chant. Ac fe ddywed yr Adroddiad yma nad yw y nifer sydd wedi bod yno o'r Gogledd, mwy nag o Forganwg, ond bychan iawn, ond fod y cyflenwad wedi dyfod o Sir Aberteifi a'r siroedd cyfagos. A thra y mae Morganwg, yn y De, am fynu coleg yn Nghaerdydd neu Abertawe am ei bod yn ystyried Aberystwyth yn anghyrhaeddadwy iddi, a all Gogledd Cymru foddwl am darwiad amrant am foddloni ar goleg Aberystwyth, sydd yn mhellder y Deheudir, fel coleg iddi ei hun? Y mae y fath beth yn gwbl allan o'r cwestiwn. Pe gwneid prawf ar gynllun mor hollol anymarferol, ni fyddai ond ymron yr un peth a gadael coleg Aberystwyth, fel y gwaeddai Rowlands, Llangeitho, pan yn cael ei droi allan am adael yr Eglwys, ac fel y darfu i ninnau am oesoedd adael yr ysgolion gwaddoledig, "i'r dylluanod." Digon tebyg y teimlai rhai ymlyniad wrth Aberystwyth, ac y gallai fod gradd o anhawser i gael gwared o'r adeilad sydd yno wedi llyncu cymaint o'n harian. Ond os ydym yn awr, yn ol argymhelliadau y Pwyllgor yma, a than nawdd a chyda chymhorth y Llywodraeth, yn myned i wneyd cychwyniad newydd effeithiol gydag addysg Cymru, gadewch i ni ar bob cyfrif wneyd hyny yn y dull mwyaf addawol i lwyddiant; ac os bydd raid dyoddef ychydig golled ar yr adeilad yn

Aberystwyth,—wel, ni a wyddom beth a fydd hyny, ac ni a allwn ei fforddio. Y mae y Pwyllgor yn enwi dwy dref yn y Gogledd ag y byddai y naill neu y llall o honynt yn gyfaddas fel eisteddle coleg y Gogledd; ond os gwir a glywsom, nid oes dim petrusder yn eu meddwl hwy, fel nad allai fod, dybygid, yn meddwl neb arall, gyda golwg ar y cwestiwn pa un o'r ddwy a fyddai fwyaf cymhwys. Ni a ddylem, gan hyny, ar ymddangosiad yr Adroddiad hwn gymeryd cyfleusdra, mor fuan ag y bo modd, i roddi ar ddeall i'r *Lord President of the Council* a'r awdurdodau eraill, a bod yn barod hefyd i ddadgan yn y Senedd, nad all Gogledd Cymru feddwl am gymeryd ei choleg yn Sir Aberteifi; ac os ydyw addysgiaeth uwchraddol "i'w dwyn at yr efrydwyd," chwedl Matthew Arnold, "ac nid gobeithio dwyn yr efrydwyd at yr addysgiaeth," fod yn rhaid cael coleg y Gogledd yn ninas Bangor.

Gyda'n cyfundrefn addysgawli felly wedi ei chwblháu, mae yn sicr genym na fyddai pall am ysgolorion ac efrydwyd. Fe lenwid ein hysgolion, ac oddiyno fe lenwid ein colegau; fe ryddheid ein hathrofeydd enwadol yn fuan oddiwrth y trybestod o geisio dysgu pobpeth i'w hefrydwyd, ac fe geid hamdden ynddynt i'w harwain i feusydd uwch beirniadaeth, duwinyddiaeth, hanesiaeth eglwysig, a'r efrydiau eraill sydd mor angenrheidiol i'r alwedigaeth gysegredig y bwriadant ymroddi iddi; ac nid ydyw yn debyg y meddyliai ein pobl ieuainc am gefnu ar y sefydliadau Cymreig oddieithr ar bwys y nerth a allont fod wedi ennill ynddynt i gydymgais â glewion o sefydliadau rhagorol eraill, ac felly i brofi eu hawl i'r rhodfeydd uchaf.

DANIEL ROWLANDS.

---

## NODIADAU LLENYDDOL.

*The Truth of Scripture in connection with Revelation, Inspiration, and the Canon.*  
By JOHN JAMES GIVEN, PH.D., Professor of Hebrew and Hermeneutics in Magee College, Londonderry. Edinburgh: T. & T. Clark.

CYFROL hardd o 370 o du dalenau, ac o ran mater yn hynod o werthfawr.

Ar bob llaw fe welir mai lled wan yw gafael y gwirioneddau mawrion yn meddwl llawer yn y deyrnas y dyddiau hyn, ac fod ysbryd amhieuath i gryn raddau fel pe byddai wedi heintio yr awyrgylch. Ond fe ddeil Dr. Given, a hyny yn dra rhesymol, ei fod yn ddyledswydd arnom oll ymestyn am olygiadau sefydlog, yn enwedig gyda materion sydd o'r fath anfesurrol bwys. Mae einioes yn rhy fer i dreulio mwy o amser nag a fo raid mewn ymwrando â gwrthdadauleon, mantoli tebygolrwydd, a "chloff rhwng dau feddwl." Golyga fod geiriau yr Apostol, "Dywedyd yr wyf wrth rai synwryol; bernwch chiwi beth yr wyf fi yn ei ddywedyd," o gymhwysiad eang-ach na'r amgylchiad neillduol oedd ganddo ef mewn golwg ar y pryd; ac ynglŷn â'r materion mawrion y geilw efe sylw atynt ya y gwaith hwn, myntumia y dylem, fel "rhai synwryol," ymchwilio iddynt, hyd eithaf ein gallu, yn drwyadl a goonest: ac wedi cael boddlonrwydd mewn perthynas iddynt, na

ddylem betruso i ddal ein gafael hyd byth yn ddiysagog ynddynt. Y mae efe yn ymchwilio felly i bwrpas yn y gwaith hwn; ac fe fydd yn dda gan ein darllenwyr ddeall mai ffrwyth ei ymchwiliad yntau, fel yr eiddo y fath liaws o wŷr galluog a difrifol eraill, ydyw fod yr Ysgrythyrau, fel y professant eu bod, yn Air Duw, ac fel y cyfryw yn teilyngu oddiar ein llaw "bob derbyniad." Ac fe fydd yn dda ganddynt ddeall ymhellach nad ydyw yr awdwr wedi dyfod i'r casgliad yma yn ddiarwybod o'r gwrthresymau cywrair a golygus a ddygir ymlaen ar yr ochr arall. Yn hytrach fe ddengys gydnabyddiaeth helaeth a manwl â'r cyfan; ac fe'u geayd ger bron hefyd mewn dull mor deg a chyflawn fel nad all neb achwyn eu bod yn cael un math o gam oddiar ei law; ac eto fe ddengys eu bod, tra yn cael eu dwyn ymlaen ar dir rheswm, yn methu profi eu hawl; ie, fod rheswm ei hunan, a hyny yn y modd mwyaf difloesgni, yn rhoddi ei dystiolaeth yn mhlaid y pethau ag y gwyisiwyd y gwrthdadaelion i'w profi yn ddirym. Myn y rhaid cael y pen a'r galon, y dealltwriaeth yn gystal a'r teimladau, at y gwaith o farnu yn y fath fater â hwn :—

Fe allai dyn, fel y Dwyreiniwr mawr Geseinus, yr hwn a wnaeth gymaint droeddysgeidiaeth Hebreig, feddu ysgolheigdom addfed a barn wir feirniadol; ac eto, fel yr un gŵr mawr, gallai fod dan iau rhesymoliaeth oer, ac anturio trin y gwirioneddau tragywyddol gyda gwên neu hyd yn nod watwareg. Yr ydych, gadewch i ni dybio, yn myned drwy lanerch brydfêrth wedi i gysgodau yr hwy'r ddisgyn ar y ddaer, wedi i'r byd prysur suddo i orphwys, a thra y mae dystawrwydd yn teyrnasu o amgylch. Y mae y llenad lawn yn tywallt ei goleu srianaidd ar faes ac afon a choedwig, ar fryn a dyffryn, ar dŵr a thref. Mae yr olygfa yn brydfêrth, ond y mae y dystawrwydd yn farwol; mae yr olygfa yn ddymunol, ond y mae oerder rhyllid yn ei hydreiddio; mae y lloer-belydrau yn ddyaglaer, ond nid oes cynhesrwydd na bywyd. Yr ydych yn myned trwy yr un lanerch yn ngoleu dydd ac ar awr brysar canoldydd, pan y mae llewyrch cynhes haul haf yn pelydru ar y cyfan, yn dysgleirio y cyfan, ac yn prydferthu y cyfan, ac ar yr un pryd yn gwasgar cynhesrwydd trwy y llanerch, yn bywiocâu curiadau bywyd, ac yn bywiogi llafur y diwyd. Y fath gynnewidiad! Chwi ddywedwch, Y fath wellhâd! Yr olygfa hono yn weledig trwy y lloerbelydrau a allai arddangos gwirionedd dwyfol fel y mae i'w weled yn ngoleu oer clir beirniadaeth resymolaidd; ond yr olygfa hono yn weledig yn nghanol yr heulwen ydyw yr un gwirionedd fel y mae yn cael ei arddangos gan feirniadaeth sancteiddiedig yr ysgolhaig ag y mae ei galon wedi ei chynhesu gan belydrau Haul y cyfiawnder, a'i ddeall wedi ei oleuo gan Ysbryd yr Arglwydd.

Gyda gwaith mor fawr, ac o fewn y cylch yr ydym wedi ein cyfyngu iddo, ni fyddai ond ofer ceisio rhoddi crynodeb o'i gynnwys. Ar yr un pryd fe garai ein darllenwyr gael rhyw syniad am ei allu. Y mae yr awdwr yn fynych yn hapus mewn gosod ger bron megys mewn darlun ffrwyth ymdriniaeth resymegol fanwl. Fel engraifft, dyma fel y dywed am y profion allanol a thumewnol o Ddwyfoldeb yr Ysgrythyrau :—

I egluro perthynas y ddau fath o brawf y cyfeiriwn atynt, a'r gallu priodol i'w gwerthfawrogi ar yr un pryd, gadewch i ni dybied achos sydd rywbeth yn gyffelyb. Y mae darlun wedi ei gael mewn rhyw dref neu ardal yn yr Iseldiroedd; haerir ei fod wedi ei wneyd gan un o'r hen feistriaid enwog o'r Dutch neu y Flemish. . . . Wrth chwilio i wirionedd yr haerid y mae dau gwrs yn agored. Dyna y prawf allanol neu haanes y darlun. yn cynnwys y fath ymfyniadau â'r lle y cafwyd ef, y tebygolrwydd o fod darlun gan y fath arlunydd i'w gael yn y lle, yr amgylchiadau dan ba rai y darfu i'r teulu neu y perchenog neillduol ddyfod i feddiant o hono, geirwiredd y perchenog presennol, a phethau eraill cyffelyb o natur hanesyddol neu amgylchiadol. I ddwyn ymlaen y fath ymfyniad neu i farnu am ei ffrwyth, fe fyddai unrhyw ddyn o ddeall da ac yn gynnefin â phwyso tystiolaethau yn gymhwys. Ond wedi gwneyd hyny, y mae tasg arall fwy pwysig, yn gystal a mwy anhawdd yn aros; a hyny ydyw bod yn abl i ganfod yn y darlun ei hunan y fath arnodion ag a wasanacthont i'w gysylltu â'r hwn a'i gwnaeth, mewn gair, i ddarllen y prawf tumewnol a roddir gan y darlun, a bod yn allnog i ddynodi y fath bwyntiau neillduol—y fath gyffyrddiadau llednais neu arlliwiau neu amlinellid; neu y fath drefniad neillduol ar

gyssod a goleu, ag a roddai drywydd i gael allan yr ariunydd o law yr hwn y ddech y darlun. Yn awr, pw y ond un yn meddu chwasth at a medr mewn darluniau—gwir feirniad mewn celfyddyd neu wir arlunydd—a allai sicrhau fod yr awyryglch yna y fath ag a wnelai Cuypp yn weledig, a'r olygfa yna y fath ag a oleuai efe i fyng ag a osodai i ennyn gan yr heulwen gynhes; neu fod y beisionau tywodlyd acw, y traethau graianllyd, y moroedd awelog, a'r llongau uchel-ganllaw, oll wedi eu gorphen mor herffaith ac mor lednais fanwl, yn union y fath ag a garai Vandevelde arlunio; neu, yn y glyn coediog, a charllaw pabell y cad-hailydd, fod y ffafryn yna o farch gwyn, mor fyw, mor brydferth, ac mor ysbrydol, yn hollol y fath un ag sydd i'w weled mor fynych yn narluniau Wouvermans; neu fod tryloywder gwreichionllyd y rhaiadr yna, neu dywyllwch yr ystorn yna sydd yn crynhoi, neu y coed uchel tirfion acw yn nghyrrion y goedwig, yn hollol yn arweddion golygfa a drosglwyddid ar hian gan Ruysdale; neu fod y gwladwyr llon acw, gyda'u gwên lydan a llawan, yn brawf diymwad o ddynodiad anefelychadwy a chyffyrddiad Teniers, neu fod y cymysgiad anghyffredin yna o feddalwch a llymder yn neillduol i waith ei law, neu fod yr olygfa yna yn union y fath ddarn yn yr Iseldir ag a arferai Teniers gynnyrchu? I hyn oll fe fyddai angen am ysbryd y gwir gelfyddydwr neu y beirniad medrus, neu arlunydd gyda llygad craff ac enaid yn abl i werthfawrogi. Felly y dyn sydd yn meddu canfyddiad ysbrydol, neu wedi ei gynnysgaedu â chalon grediniol, ufudd, sydd yn meddu y prawf goreu a sieraf nad all gwirioneddau y Bibl ddim dyfod ond oddiwrth Dduw; canys yn ysbrydol y bernir y gwirioneddau hyny.

Tra mai y prawf allanol sydd, mae yn debyg, fwyaf cyfaddas i argyhoeddi y gwrthwynebydd, y mewnol bob amser sydd yn gwneyd yr argraff ddyfnaf ar feddwl yr ymofnydd gonest; ar yr un pryd, dyma sydd yn rhoddi i'r credadyn y sicrwydd cryfaf am eail ei fydd. Gyda golwg ar y prawf allanol, yr ydym yn profi mai Duw a lefarodd y Bibl; gyda'r prawf tumewnol yr ydym yn cymeryd y ffaith yn ganiatol, ac yn ei phrofi oddiwrth yr hyn a ddywedir; a chan wneyd felly, yr ydym yn osai deng mil o brofion yn y gyfrol ei hun nad ydyw yn ddim llai na gwirionedd Daw. Eto, tra y gallai rhai ddewis yn hytrach un dosbarth o brawf fel yn fwy cyfaddas i alw sylw a chynnyrchu fydd, a rhai un arall, nid ydyw y mathau gwahanol yma i'w hesguluso, oblegid y mae effaith yr oll gyda'u gilydd yn gyd-gynnyddol, a hynaf yn y radd uchaf. Y maent fel gwahanol belydrau goleuni, oll yn gydgrynhoi yn yr un pwynt; a gwyddom oll am effaith nerthol y fath gydgrynhoed.

Fe dalai y gwaith gwerthfawr hwn yn dda iawn am ei astudio.

*A Commentary on the Greek Text of the Epistles of Paul to the Thessalonians.*  
By the late JOHN EADIE, D.D., LL.D., Professor of Biblical Literature and Exegesis, United Presbyterian Church. Edited by the Rev. WILLIAM YOUNG, M.A., Parkhead, Glasgow. With Preface by the Rev. PROFESSOR CAIRNS, D.D. London: Macmillan.

Fe dreuliodd Dr. Eadie dymmor maith yn efrynu Epistolau Paul, ac yn ei ddoesbarth duwinyddol yn yr Athrofa yn gystal a thrwy y wasg fe gafodd gyfleusdra i osod ffirwyth ei efrydiau o flaen lliaws mawr sydd erbyn heddyw ymysg ein dysgawdwyr crefyddol mwyaf clymeradwy. Yn niwedd ei yrfa yr ydym yn ei gael yn y gwaith olaf hwn o'i eiddo yr ydoedd wedi ei barotoi i'r wasg cyn gadael y byd, yn dychwelyd at lythrau cyntaf yr Apostol. Fe allid meddwl fod y gwaith, fel y mae, ymron yn yr ystad ag y buasai efe ei hunan yn ei ddwyn allan, oddieithr yr ymddengys fod yn ei fryd ychwanegu at y traethawd a gawn yn niwedd y gyfrol ar "Y Dyn Pechod" ddau draethawd arall, y naill ar yr "Adgyfodiad," a'r llall ar yr "Ail Ddyfodiad." Fel y sylwa Dr. Cairns, yr ydym yn cael yn y gwaith hwn, mewn llawn fesur, y rhagoriaethau amlyg hyny a'i hynodent fel esboniwr: "Yr un ysgolheigod eang a manwl; yr un gwreiddioldeb ymchwiliad ac annibyniaeth barn; yr un treiddgarwch a chraffder wrth olrhain cwrs ymresymiad; a'r un cydymdeimlad difeth â meddyliau a gwersi dyfnaf ysbrydoliaeth." Mae yn sicr fod Dr. Eadie yn un o'r esbonwyr goreu. Nid ydyw byth yn esgeulus o ddim a allai brofi o unrhyw wasanaeth er taflu goleuni ar y rhan o'r Gair yr amcana ei egluro, ac y



mae bob amser yn trefnu ei ddefnyddiau gyda'r fath farn dda, ac mewn achosion o anhawder yn dangos y fath allu addfed i nodi y meddwl, fel y teimla y darlennydd yn ddiolchgar am y fraint o gael astudio yr Ysgrhythrau o dan ei arweiniad. Y mae yn fyw iawn i bethau goreu esbonwyr galluog eraill; a thrwy ei synwyr da a helaethrwydd ei adnabyddiaeth o'r gwirionedd, y mae nid yn anfynych yn gwneyd hafog o honiadusrwydd rhai sydd yn tybied eu bod, pa un bynag ai trwy ffug ysgolhelgddol ai trwy ffug athroniaeth, yn gallu trefnu goleuni ar bethau na feddylwyd am dano o'r blaen gan ddynton goreu yr oesoedd. Er engraffit, mae yn debyg y golygai Profeswr Jowett na ddylasai Paul hōni fod unrhyw wirioneddau neu athrawaethau neillduol wedi eu dadguddio iddo, ac am hyny dywed nad ydyw o gwbl yn profesu iddo dderbyn dim o'r cyfryw; ond fe geir ei fod yn amlwg fod yr Apostol yn gwneyd hyny nid yn anfynych: megys, gyda golwg ar ei faes cenadol neillduol (Act. xxii. 18—21); gyda golwg ar safle Cenedloedd crediniol (Ephes. iii. 3); gyda golwg ar Swper yr Arglwydd (1 Cor. xi. 23); gyda golwg ar wirionedd, profion, a chanlyniadau adgyfodiad Crist (1 Cor. xv. 3; 2 Cor. xii. 1); heblaw a ddywed yn Gal. i. 12, 16, ac yn y gair yn 1 Thess. iv. 15, lle y professa ei fod yn dyweyd "yn ngair yr Arglwydd" na fydd i'r rhai byw yn y dydd mawr "ragflaenu y rhai a hunasant." Golyga Eadie fod eglwys Thessalonica yn cael ei gwneyd i fyny o Genedloedd dychweledig, gan y sonia am danynt wedi "eu troi oddiwrt h eilunod i wasanaethu y bywiol a'r gwir Dduw;" ac nad ydyw o gwbl yn dyfynu yr Hen Destament fel yn yr Epistolau eraill. Mae ganddo sylw da ar Paul yn gweithio a'i ddwyllaw,—"gan weithio nos a dydd," &c. (1 Thess. ii. 9): "Mae yn anhosibl i ni feddwl am yr Apostol fel crefftwr, wedi ymwisgo yn nillad gŵr tlawd, ac yn trin arfau ei alwedigaeth, yn gyru y wenol neu y nodwydd am ei fara beunyddiol—heb fod dim gwahaniaeth rhyngddo mewn ymddangosiad a'r gweithwyr oddi-amgylch iddo, pa un ai wrth eu gwaith ai wrth eu prydiau bywd. Mae yr hwn a bregethai anchwiliadwy olud Crist yn estyn allan ei ddwyllaw i dderbyn y cyflog bychan a ennillasai ei ddiwydrwydd. Yr hwn yn ei swyddogaeth uchaf a deimlai mai bychan oedd iddo gael ei farnu gan farn dyn, sydd rald iddo ymostwng i'w waith gael ei weled a'i gymeradwyo cyn y telir iddo am dano. Gellid caufod cymwynaswr pena'r byd, yn nesaf at ei Waredwr, mewn gweithdy—yno o fwrriad pwylllog; crefftwr yn Thessalonica, areithydd yn Athen. Rhaid ei fod yn orchwyl pur galed iddo, gyda chymaint o bethau yn lesteirio, i ennill tipyn o fywoliaeth. Y mae yn addef hyny; ond dywed na ddarfuo i'w gyfeillion yn Philippi ei anghofio," &c. Ysgrifenyd y llythyr cyntaf i dawelu me'dyliau y Thessalonaiad, oeddent wedi cael eu camarwain gan athrawiaeth yr apostol am agosrwydd dydd Crist, na fyddai eu cyfeillion oeddynt wedi marw ddim, yn cael eu hamddifadu o ogoniant yr ail ddyfodiad, oblegid y bydd adgyfodiad y meirw yn rhagflaenu newidiad y byw. Ae ysgrifenyd yr ail i egluro nad ydyw agosrwydd neu sydynrwydd annysgwyl-iadwy dyfodiad Crist i farn, ddim i'w ddeall yn rhy lythyrenol, gan y rhaid cyn hyny i ddirywiad mawr gymeryd lle, a dadguddio y dyn pechod, mab y golledigaeth. Mae y traethawd ar y Dyn Pechod yn dra galluog. Boddlonia yr awdwr ei hun—1. Mai prophwydoliaeth yw y geiriau. Ymysg golygiadau cyfeillornus eraill ar hyn uoda farn Jowett, fod pedair elfen yn y syniad am y Dyn Pechod: (1.) "Delweddiad draddodiadol y prophwydi hynaf"—ond ceir fod y brophwydoliaeth yn noeth a syml o ran iaith. (2.) "Arddull yr apostol a'i oes"—yr hyn a gymerir yn ganiataol. (3.) "Yr argraff o ddy-gwyddiadau hanesyddol diweddar sydd yn rhoddi y ffurf"—dadganiad pengogred a disail. (4.) "Sefyllfa y byd a'r eglwys, a'r ymwybodolrwydd, lle y mae da, y rhaid fod drwg mewn graddau ychwanegol, sydd yn gwneyd mater y brophwydoliaeth"—tybiaeth a olyga mewn gwirionedd nad yw prophwyd-oliaeth ond haerid mai yr hyn sydd ac a fu, a fydd bob amser. O'r fath ddefnyddiau fe allasai Jowett brophwydo yn gystal a Phaul. 2. Ymfynir i'r gwahanol olygiadau o barth i'r cwestiwn, Os prophwydoliaeth yw y geiriau,

a ydyw wedi ei chyflawni? Wedi ymchwiliad maith a llafurus i'r golygiadau hyny, a rhoddi iddynt oll ystyriaeth bwylllog a gofalus, y mae Eadie yn dyfod i'r casgliad nad ydyw y brophwyddoliaeth eto wedi ei dwyn i ben. 3. Ac wrth edrych am ei chyflawniad yn y dyfodol y mae yn dyfod i'r casgliad, nad y diafol a olygir (Pelagius); ac nad olyniaid o ddyinion, fel y synia'yr esbonwyr Protestanaidd y rhai a dybiant mai y Babaeth oedd yn ngolwg yr Apostol; ond mai mewn rhyw un dyn y mae y brophwyddoliaeth i'w chyflawni, rhyw un, fel y dywedai yr Aurenan (Chrysostom), ag a oddefai ynddo lawn weithrediad gallu y diafol:—

Y mae yr apostol yn disgrifio ymadawiad, allan o ba un y cyfyd dyn yn yr hwn y bydd drygioni yn dal uchafiaeth beiddgar; yr hwn a ymgynddeirioga mewn gelyniaeth uffernol yn erbyn Duw, ac a sathra ar bobpeth a addolir; yr hwn a gymer ei eisteddle yn nhemi Dduw ac a hawlia iddo ei hunan addoliad fel Duw; yr Anwir, yr hwn a huda y byd trwy arwyddion a rhyfeddedau gau a phob dichell anghyflawnder, canys y mae yn bobpeth ond ymganawdoliad o Satan—y Dyn Pechod, ac am hyny Mab y Golledigaeth. Nid oes neb eto wedi ymddangos yn yr hwn y mae yr holl elfenau hyn wedi eu cydgrynhoi; ond fe ymddengys fod Pabyddiaeth, fel yn sicr yn enciliad amlwg a pharhâus oddiwrth y wir ffydd, ac yn corffori llawer o'r priodoleddau hyn, yn gysgod o hono; neu fe allai mai yr ymadawiad ydyw sydd yn rhagflaenu ac yn parotai at ei ymddangosiad.

Critical and Exegetical Commentary on the New Testament. By HEINRICH AUGUST WILHELM MEYER, TH.D.—*Critical and Exegetical Handbook to the Epistle to the Ephesians and the Epistle to Philemon*. Translated from the Fourth Edition of the German by REV. MAURICE J. EVANS, B.A.

*Critical and Exegetical Handbook to the Epistles of St. Paul to the Thessalonians*. By DR. GOTTLIEB LUNEMAN, Professor of Theology in the University of Göttingen. Translated from the Third Edition of the German by REV. PATON J. GLOAG, D.D.—Edinburgh: T. & T. Clark.

Y GYNTAF o'r cyfrolau uchod ydyw yr olaf o eiddo Meyer ar y Testament Newydd. Y mae wedi ei chyfieithu o'r pedwerydd argraffiad Germanaidd—yr olaf a ddaeth o dan law Meyer ei hun,—gan ein cymydog parchus y Parch. Maurice J. Evans, B.A., o Benmaenmawr, a hyny, ys dywed Dr. Dickson o Glasgow, Golygydd dysgedig y gyfres, "with skill and judgment." Ymddengys fod pummed argraffiad wedi ymddangos yn Germany yn 1878, wedi marw yr awdwr, dan olygiaeth Dr. Schmidt o Leipzig, yr hwn, er professu "na allasai erioed gymeradwyo yr arferiad o ganiatáu i ddwyllaw eraill ail ffurfio gweithiau rhai ymadawedig," a fu mor anesboniadwy ffol a thria y rhan yma o waith yr Esboniwr enwog ymron fel y crybwyllasom dro yn ol fod Dr. Weiss wedi gwneyd â'r Esboniad ar Marc a Luc, gan ei wneyd yn dra gwahanol i'r hyn y daethai o dan law ei awdwr. Y mae Dr. Schürer yn cymeradwyo peth fel yma; ond ymddengys i ni ei fod ar bob tir yn beth i'w ddwfn gondemnio. Os nad ydyw y gwŷr y cyfeiriwyd atynt yn fodd-lawn ar waith Meyer yn y perffeithrwydd uchaf ag y gallodd efe ei ddwyn iddo, bydded iddynt wneyd cymwynas â'r byd ac ennill enwau anfarwol trwy ysgrifennu gweithiau perffaith eu hunain. "I am, however, disposed to think," ebe Profeswr Thorold Rogers yn ei ragymadrodd i'w argraffiad rhagorol o waith mawr Adam Smith, "that the editor of a great work, like the 'Wealth of Nations,' should submit to the functions of a clerk, rather than assume those of a partner, however deferential his language may be towards the author with whom he associates his name." Beth a ddywedasai am waith un yn *cyflawnid* llyfr felly i'r fath raddau nes ei fod mewn gwirionedd wedi dyfod yn "waith hollol newydd," ac ar yr un pryd yn gwneyd hyny yn y cymeriad o olygydd iddo! Fe fydd yr oesoedd yn dywedyd, "Meyer a adwaenom," ac fe fydd efe yn fawr yn eu golwg ddyddiau lawer; eithr gofynant mewn diglioneidd i'w

olygwyr, a thybied y bydd llydynt trwy unrhyw ddamwain eu cyrhaeddyd, "ond pwy ydych chwi?" Y mae cael y 15 cyfrol hyn o Esboniad Dr. Meyer yn Saesoneg yn drysor mawr, a diammeu y bydd duwinyddiaeth y deyrnas yn gyfoethocach erddynt.

Fe grybwyllir fod yr ail gyfrol a nodasom "dan olygiad Dr. Meyer," ac y mae, fel ychydig o rai eraill sydd i ddyfod, perthynol i'r un gyfres, ar yr un cynllun a'r eiddo yntau, ac felly yn amcanu at gwblhau y gwaith ag y gorfodwyd ef, er maint ei yni a'i ddiwydrwydd, i'w adael yn anorphenol. Y mae Dr. Lünemann yn ysgrifenu yn rhagorol iawn ar yr Epistolau at y Thessalon-iaid. Rhaid addef ein bod yn teimlo ynddo radd o ddiffyg y dwfn graffder a'r nawseidd-dra sydd yn gosod y fath amhrisiadwy werth ar Meyer fel Esboniwr, ond er hyn y mae ei allu a'i ddyg y fath fel nad ymddengys ond ychydig yn isradol, ac nad ydyw yn ymddangos yn ail ond i Meyer ei hunan. Edrychasom i'w esboniad ar amryw o'r manau anhawdd yn yr Epis- tolau hyn, a chawsom ef yn y cwbl yn dda, a thrwyadl, a chryf.

The Cambridge Bible for Schools. General Editor:—J. J. S. PEROWNE, D.D., Dean of Peterborough. *Ecclesiastes; or the Preacher*, with Notes and Introduction. By E. H. PLUMPTRE, D.D., Professor of New Testament Exegesis, King's College, London. Edited for the Syndics of the University Press. Cambridge Greek Testament for Schools. General Editor:—J. J. S. PEROWNE, D.D., Dean of Peterborough. *The Gospel according to St. Matthew*, with Maps, Notes and Introduction. By REV. A. CARR, M.A., Late Fellow of Oriel College, Oxford, Assistant Master at Wellington College. Edited for the Syndics of the University Press.—London: Cambridge Warehouse.

MAE y gwaith hwn ar y *Pregethor* yn un o'r gyfres y cyfeiriasom ati dro yn ol a gyhoeddir gan Brifysgol Caergrawnt at wasanaeth ysgolion. Mae enw ei hawdwr yn ddigon o warant am ei theilyngdod. Fel y cyfrolau eraill yn y gyfres, y mae yn deilwng iawn o gael ei hastudio mewn cylch eangach. Y mae yn arweiniad rhagorol i lenyddiaeth y llyfr, ac yn rhoddi i ni addef ffrwyth yr ymchwiliadau mwyaf cymeradwy i'w ystyr. Fe geir gan yr awdwr ei hun hefyd lawer o sylwadau sydd yn gynnyrch astudiaeth alluog a chyd- naws ar y rhan hynod yma o'r gair. Y mae y *Pregethor* wedi bod yn gymaint o ddyrystbwn i'r esbonwyr fel y maent yn amrywio yn ddiderfyn bron yn eu golygiadau arno, a phob un, wrth reswm, yn meddwl mai ei ddamcaniaeth ef sydd yn rhoddi y goleuni sydd i dafu pob damcaniaeth arall yn ei gylch o'r golwg, ac i beri iddo lewyrchu ger bron y darlennydd yn ei ystyr ardderchog ei hunan. Ac nid ydyw Dr. Plumtre yn hyn yn wahanol iawn i'w gyd- lafurwyr yn yr un maes. Ei olygiad am ei awduriaeth ydyw ei fod wedi ei ysgrifenu tua 230 cyn Crist, gan Iuddew anadnabyddus o Jerusalem, yr hwn sydd ynddo yn rhoddi hanes ei fywyd yn ei ystyr uchaf fel ymchwiliad am ddaioni. Ni chymerir y cyfeiriad at Solomon ond fel ffurf lenyddol boblog- aidd i'r gwaith, a rhoddir lliaws o resymau oddiwrth y gwahanol gyfeiriadau a geir ynddo i brofi y rhaid ei fod o awduriaeth diweddarach. Rhaid dyweyd fod y rhesymau hyn yn ymddangos yn hynod o deg, ac fod esboniaeth y llyfr mewn cyfeiriad at amgylchiadau cyfnod tybiedig ei awduriaeth yn dra naturiol. Ac nid oes unrhyw niwed o gymeryd y cyfryw olygiad. Mae ei wers fawr yn llewyrchu ar feddwl y darlennydd yn llawn mor ddysglaer ag y gallai wneyd o'i chymeryd ynglŷn â bywyd Solomon, os nad yn wir yn fwy felly, ac yn dangos nad oes ond un man lle y gall enaid, ar ol pob crwydr- iadau, deimlo gartref ynddo, sef yn ofn yr Arglwydd. Mae y dyfyniadau helaeth a geir trwy gorff yr esboniad, ac yn enwedig yn y ddau attodiad, *Koheleth and Shakespeare*, a *Koheleth and Tennyson*, sydd yn dangos fel y mae dynion meddylgar pob oes yn cael eu harwain i'r un casgliadau mawrion, yn hynod o werthfawr.

Mae y gyfran o'r Testament Groeg a nodasom, gyda mapiau, nodiadau, ac

arweiniad, yn hynod o gyffaddas i'w gosod yn nwyllau strydwyr. Mae y testan wedi ei ddethol o gyweiriadau Tischendorf a'r Fregelles a'r awdurdodau geueu eraill, ac yn cael ei osod ger bron, nid yn-ol y derbyniedig, neu y "testum nunc ab omnibus receptum," ond fel y gellid meddwl ei fod wedi dyfod o dam law yr ysgrifswyr sanctaidd. Y mae wedi ei argraffu yn hynod o hardd. Nid yw y nodiadau yn feithlon, ond y maent yn hynod o bwrsol, ac yn crynhoi i gylch bychan lawer o ysgolheigod ac addfedrwydd barn. Cymerer fel engraifft ei olygiad ar *Petros a petra*, Matt. xvi. 18: "Fe fyddai tybied nae oes cyfylliad rhwng *Petros a petra* yn wrthwyneb i feirniadaeth deg. Ar y llaw arall, fe fyddai golygu *petra* fel yn ddim ond yr un peth a *Petros*, ac ystyried *Petr* y *person* fel y graig ar ba un y mae yr Eglwys wedi ei hadeiladu, yn coulhan yr ystyr. *Petra* ydyw athrawiaeth canolbwynt yr Eglwys Gristionogol—Duwod ei Harglwydd. Eto ni enwir *Petr* mewn cysylltiad a'r *petra* heb achos. I *Petr* y rhoddwyd gyntaf dderweliad ysbrydol i gawfod, a gwroldeb i gyffesu y gwirionedd mawr hwn; a chan hyny, ei fraint ef ydoedd bod yn ygrifenydd wedi ei ddygu i deyrnas nefoedd, ac i *Petr* fel y cyfod y cyfeirir y fendith. . . . Mae o bwys gan hyny (1) Cofio mai wrth *Petr* gyda y gyffes fawr ar ei wafusan y lleferir y geiriau. Duwod *Crist* yw y *petra*—maenlo yr Eglwys, a *Phedr* ar y fynyd yw cynrychiolydd y grediniaeth yn y gwirionedd hwnaw ymysg dynion. (2) I gymeryd y gair mewn cyfeiriad (a) at ymadroddion eraill o'r Ysgrythy. Mae yr Eglwys wedi ei hadeiladu ar sail yr Apostolion a'r Prophwyd, Eph. ii. 20, ar *Grist* ei hun, 2 Cor. iii. 11. (b) At hanesyddiaeth; nid yw *Petr* yn gadwrfa anfaeoledig gwirionedd. Fe'i ceryddir gan *Paul* am Iuddewiaeth. Ac nid ydyw yn dal prif le ymysg yr Apostolion wedi hyny. Iago, nid *Petr*, a lywyddia y Cynghor yn *Jerusalem*. (c) A rheswm; canys hyd yn nod pe buasai i *Petr* flaenoriaeth ar yr Apostolion eraill, a phe buasai yn *Esgob Rhufain*, yr hyn nid yw yn hanesyddol sicr, nid oes un prawf fod ganddo hawl i drosglwyddo y flaenoriaeth hono i'w olywyr."

Philosophical Classics for English Readers. Edited by WILLIAM KNIGHT, LL.D., Professor of Moral Philosophy, University of St. Andrews. *Butler*. By the REV. W. LUCAS COLLINS, M.A., Honorary Canon of Peterborough. *Berkeley*. By A. CAMPBELL FRASER, LL.D., Professor of Logic and Metaphysics in the University of Edinburgh. *Fichte*. By ROBERT ADAMSON, M.A., Professor of Logic in the Owen's College, Victoria University, Manchester.—Blackwood and Sons.

GALWASON sylw at y gyfres werthfawr hon ar ymddangosiad y gyfrol gyntaf ar *Descartes*. Mae y tri gwaith uchod wedi eu hysgrifenu ar gynllun cyffelyb, —yn rhoddi yn gryno hanes bywyd yr athronwyr, ac ynglyn â hny hanes tyfiant neu ddadblygiad eu golygiadau athronyddol, ynghyd a golwg deg ar werth eu cyfraniad at ein cyfoeth o ddoethineb. Nid ydyw y llyfrau hyn, wrth reswm, i wneyd yn lle astudiaeth o ysgrifeniadau yr athrawon eu hunain; ond pan nad aller hebgor yr arian neu yr amser at hyny, ac yn neillduol fel arweiniad i astudiaeth fwy cyflawn o'u hysgrifeniadau, mae yn anmhesibl cael dim a atebai y dyben yn well. Mae *Butler* yn enwedig yn adnabwydd fel awdwr i lawer o'n darllenwyr. Byddai yn ddyddorol ganddynt ddaillan ystori ei fywyd gan *Mr. Lucas Collins*. Yr oedd ganddo nai, *John Butler*, ag oedd yn meddu llawer mwy o ffansi at beiriannyddiaeth nag at y cwestiynau mawrion y treuliai ei ewythr ei einloes uwch eu pen. Yr oedd ganddo achos unwaith i fenthyca *vice* haiarn gan gymydog o gyfeithiwr *Ysgotiaidd*, yr hwn a siaradai yn uchel am yr *Analogy* ac a goledai feddwl mawr am ei ewythr. Yr oedd yntau newydd gael copi o'r llyfr yn anrheg gan ei ewythr, ond gan fod *Mr. Thompson* yn hessi yr *Analogy*, ac yntau yn hosi y *vice* haiarn, sef gynnygiodd eu bod yn feirio. Cy-isyniai *Thompson* yn llawen, ac aeth yntau adref yn dra hapus, gan ystyried ei fod wedi troi anrheg ei ewythr i ddyben zha-

etol! Ohware teg iddo, yr oedd ganddo yntau yn ei fibrdi feddwl mawr am ei ewythr, o herwydd pan gynnigiwyd iddo yr archesgobaeth, daeth ato gan gynnig iddo £20,000, os dewisai, tuag at dreulïadau ei sefydliad yn ei urddas newydd. Ond ni thuoddai Butler ar dderbyn y dyrchafiad. Ac nid bri mawr a osodai ar gyfoeth. Pan ddaeth boneddwr ato unwaith i ofyn ei gynnorthwy at ryw achos da, galwodd am ei oruchwyliwr a gofnodd faint o arian oedd ganddo yn y tŷ? "Pum' cant o bunnan, fy arglwydd." "Pum' cant o bunnau!" ebe yntau, "y fath gywilydd i esgob feddu cymaint! Rhowch nhw ymaith ar sawath—showch nhw i'r boneddwr yma, yr hwn a wna ddefnydd da o honyt." Ond yr ydoedd yn ofalus am bethau eraill. Gwrthoedd unwaith roddi dyrchafiad i un o'i neiod yr hwn oedd offeiriad, ond yr ydoedd wedi clywed drwg am dano; yr hyn a barodd i John Butler, arwr y vice haisar a'r cynnygiad o £20,000, yr hwn oedd frawd i'r ymgeisydd, ddyweyd, "Fy arglwydd, y mae yn anffawd bod yn perthyn i chwi." Ceir llawer o famylion dyddorol eraill am dano, a heiriadaeth deg a galhuog ar ei yagrif-griadau. Yr oedd efe, fel y dywedai Dr. Chalmers, yn nodedig gyfoethog "mewn hadau pethau," ac fel y dywedai Syr James Mackintosh, "yn awdwr y gwaith mwyaf gwreiddiol a dwia a geir mewn unrhyw iaith ar athroniaeth eraflydd." Fe etyb y gyfrol hon ddyben rhagorol wrth ei wneyd yn fwy adnabyddus.—Y mae y llyfr ar Berkeley wedi ei gyfansoddi gan Profeswr Fraser, golygydd yr argraffiad gorau o'i weithian, ac athronydd sydd yn ei ddeall yn drwyadl ac yn eiddymdeimlo yn ddwfn âg ef. Prin y mae yn athronydd wedi cael ei gamddeall yn fwy na Berkeley, neu wedi ei gamddarlunio a'i waradwyddo yn gymaint mewn eamlyniad i'r cyfryw gamddealltwriaeth. Y mae ei ddrychfeddyliaeth, fel gwadiad o fodolaeth byd oddiallan, wedi ei gymeryd fel pwnc o ysmaldod difesur. Ond mae ei olygiadau ef yn cyrhaedd yn antesurol ddyfnach i ddirgelwch y bydysawd nag a allai y chwerrhinwyr ddychymygu. Nid oedd efe yn gwadu byd oddiallan, ond daliai nad oedd ei fodolaeth ond peth bychan tuag at gren y syniad sydd genym ni am dano, mewn cynhariaeth i'r gallu a ddygw ni ein hunain at y gwaith, pa un hynag ai yn eia synwtrau corfforol ai yn ngweithrediad ein meddwl. Beth all y golygyfeydd fod i'r dall, a beth holl fawredd nefoedd a daear lle na bo gallu i ymstyried yn ei gylch? O'r ochr arall, y mae y gallu sydd o'n mewn yn agoriad i'r dirgelwch. Yr ydym yn ymstyrio am fodolaeth eraill fel yr ymstyriwa am ein bodolaeth ein hunain, ac yn cael ein harwain trwy natur at y goruwchaaturiol a'r ysbrydol, ac felly yn y pen draw yn gallu gosphwysa yn Nuw fel cartref ein holl ddymuniadau. Amcana y gyfrol hon am y waith gyntaf i roddi syniad am athroniaeth Berkeley yn unoliaeth ei dadblygiad yn ei hanes personol, a chymhara hi â golygiadau diweddarach, ac â damoniaethau mwyaf pwysig y dyddiau hyn. Ac nid ydyw yn anobeithio am ein dyfodol.—Y mae llyfr Profeswr Adamson ar Fichte yn ein harwain i gylch tra gwahanol. Yr oedd drychfeddyliaeth Berkeley wedi cael effaith ddofn ar Hume, ond yn nghyfeiriad ammhenaeth; fe ddaeth Kant i'r maes ac fe wnaeth waith mawr mewn creu o'r un elfenau ei athroniaeth feirniadol ddofn a gwerthfawr. Fe'i dilynwyd yntau gan Fichte, yr hwn gan weithio yn yr un linellau, a gariodd athroniaeth ei ragflacnydd i orphenrwydd uwch, gan ymestyn at olygiadau mwy addfed ar y cwestiynau mawrion. Y mae athroniaeth Germany, yn ychwanegol at gylch mwy cyfyng ein hymchwiliadau Frydeinig, yn ymestyn at y cwestiynau pwysig sydd yn ymgodi yn y meddyliau cryfaf a mwyaf ymofyngar mewn perthynas i ni ein hunain, y byd oddiallan, ein cyaylltiad ni âg ef, a chysylltiad y naill a'r llall â Duw, llywodraeth y greadigaeth, rhagolygon ein dyfodol, &c. Ac i nai sydd yn gallu teimlo mai nid mater ydyw pobpeth, fe fydd dygeidiaeth Fichte yn rhwym o fod yn werthfawr iawn fel arweiniad i olygiadau terfwn ar y pethau hyn. Nid ydyw diffyg ei athroniaeth ef mewn pontio o'r ysbrydol i'r naturiol ond bychan, yn ein bryd ni, mewn cymhar-iaeth i ddiffyg llawer o'r athroniaeth sydd mewn bri y dyddiau hyn mewn

pontio o'r naturiol i'r ysbrydol; ac os na ellir cael boddlonrwydd yn y ddau gyfetriad, gadewch i ni yn hytrach fod yn sicr o'r ysbrydol, lle y teimlwn fod ein mawredd tragywyddol, yn hytrach nag ymorphwys ar y materol ag y mae mor amlwg i ni oll nad all fod ond diflanedig iawn.

*The Temperance Reformation from a Medical Point of View.* By JAMES MURRAY M'CULLOCH, M.D., &c., Dumfries. Manchester: United Kingdom Alliance.

*The Action of Alcohol upon Health.* By ANDREW CLARK, M.D., Physician in Ordinary to the Queen. Being an Address delivered in All Souls Schoolroom, Marylebone, in connection with the Parochial Branch of the Church of England Temperance Society. London: Church of England Temperance Publication Depôt.

"HA, Diamond, Diamond," ebe Syr Isaac Newton wrth ei gi bach oedd wedi dymchwelyd ei lamp, a gwneyd coelcerth o ysgrifeniadau oedd wedi bod iddo yn llafur blynyddoedd, "ychydig wyddost y drwg wyt wedi ei wneyd!" Ychydig yn sicr a wyddai, neu o leiaf a feddyliai ein meddygon am y drwg llawer mwy y mae lliaws o honynt hwy wedi achlysuero wrth argymhell diodydd meddwol i ddynion er mwyn eu hiechyd. Yn awr, fodd bynag, mae yn dda genym weled eu bod, nid yn unig yn dychrynu wrth feddwl am y canlyniadau ofnadwy a fu mewn miloedd o amgylchiadau i'w cynghorion, ond hefyd, wedi astudiaeth fwy gwyddonol o natur yr alcohol a'i effeithiau ar y cyfansoddiad dynol, yn cywilyddio wrth feddwl am y dallineb y buont cyhyd ynddo, a bellach, lawer o honynt, yn enwedig y rhai enwocaf, yn gwneyd eu goreu i ddysgu i ddynion bethau gwell. Dyma ddau bampled, wedi eu hysgrifenu gan feistriaid yn y gelfyddyd, ond wedi eu cyhoeddi gan y cymdeithasau gweithgar a enwir yn ddiagon rhadlawn i fod yn nghyrrhaedd pawb, a fyddent yn sicr o roi goleuni mawr i feddwl unrhyw un o'n darllenwyr a garai astudio cwestiwn y ddiod feddwol yn yr olwg a gymerir arno gan wyddoniaeth feddygol fwyaf addfed y dyddiau hyn. Traddodwyd yr eiddo Dr. M'Culloch yn 1860, fel darlith i Efrydwy'r Prifysgol Glasgow; ac yn wyneb galwadau parhâus am argraffiad newydd o honi, y mae yn awr, ar ol cael ei hail ysgrifenu, ei chywiros, a'i helaethu, wedi ei chyhoeddi fel hyn. I wneyd yn hollol eglur natur y ddiod, gofyna i'r darlennydd gymeryd cegiad o wiros, dyweder chwisi, a'i ddal yn ei safn am bum' mynyd; fe deimla ei fod yn ei losgi yn dost; ac os edrych, fe wêl fod ei safn yn lliidiog, neu *inflamed*. Os deil ef am ddeg neu bymtheg mynyd, fe gyfyd pothellau; ac os gorchuddia ei lygaid, a cheisio archwaethu, er engraifft, ddwfr, finegr, llaeth, senna, &c., fe fydd yn analluog i wahaniaethu y naill oddiwrth y llall. Digon o brawf fod alcohol, nid yn unig yn gynhyrfydd, *irritant*, ond hefyd ei fod, fel *narcotic*, yn peri dideimladrwydd. Ac os felly yr effeithia ar y safn, pa faint mwy yr effeithia yn gyffelyb ar y rhanau tumewnol, sydd gymaint yn fwy llednais, er na bo eu teimladrwydd y fath ag i wneyd dyn mor ymwybodol o'r niwed a oddefant? Y mae mor bell o gynnorthwyo treuliad, fel y mae yn rhaid i'r cylla ei yru allan o'i derfynau ef cyn y gall y gwaith hwnw fyned ymlaen. Fel prawf o hyn, cymerer dau lestr, rhodder yn y ddau ychydig o gig, a gorchuddier y darnau â *gastric juice*, y sudd hwnw yn y cylla sydd yn peri treuliad; rhodder yn un o honynt ychydig alcohol, dyweder chwisi, a rhodder y naill a'r llall mewn cynhesrwydd o 98 neu 100 gradd am bedair awr; fe fydd y cig yn llestr y *gastric juice* yn unig, wedi myned yn nôdd llwydwyn, fel a geir yn nghylla dyn ac anifail pan y mae treuliad ymron wedi ei gwblhâu; tra yn y llestr lle yr ychwanegasid alcohol y mae y cig yn aros fel o'r blaen, oddieithr ei fod wedi ei greychu. Mae llawer o brofion eraill yn dysgu yr un peth, ac yn cadarnhâu dywediad Todd a Bourneau yn eu gwaith mawr, *The Physiological Anatomy of Man*, "Oni bae fod y diodydd hyn yn cael eu cymeryd ymaith yn gyflym o'r cylla, y byddai yn hollol anmhosibl i dreuliad gymeryd

lle yn y rhai a'u defnyddiant." Ond wedi cael ei yru o'r cylla, y mae yr alcohol yn rhuthro i'r gwaed, ac oddiyno i'r ymenydd, o'r lle y profwyd y gellid yn hawdd ei ddiystylllo: y mae y gwenwyn hwn, yn fwy dieflig faleisus na'r un arall, yn ymosod ar ddyw yn ei fywyd uchaf, ac yn ei ddinystrio gorff ac enaid! Ac fel y mae cyfraith y tir yn gofalu am wallgofiaid, &c., sydd yn analluog i ofalu am danynt eu hunain, neu yn beryglus i eraill, y mae Dr. M'Culloch yn terfynu ei ddarlith ragorol gyda dadl rymus dros yr angenrheidi- rwydd am weithrediad cyfreithiol i roddi gallu i'r bobl, os yn barod trwy fwy- afrif rhesymol i wneyd hyny, i rwystro i'r fasnach mewn diodydd mor beryglus gael ei chario ymlaen yn eu plith.

Am Dr. Andrew Clark, er ei fod yn feddyg i Mr. Gladstone, ac yn un o feddygon ei Mawrhydi, y mae ei brofiad msiith a'i efrydiaeth oleuedig o'r materion hyn wedi ei arwain yntau yr un ffunud i argyhoeddiadau hynod o gryffion gyda golwg arnynt. Y mae efe wedi cael profiad pum' mlynedd ar hugain fel meddyg mewn ymarferiad tra helaeth, wedi bod dros amser maith mewn cysylltiad â'r London Hospital, ac, fel llawer eraill o'r awdurdodau uchaf, wedi gwneyd llawer o arbrawfiadau ar ei berson ei hun. Ac y mae y farn yr arweiniwyd ef i'w ffurfio trwy hyn oll am werth alcohol i'r cyfansoddi- ad dynol yn hynod o isel. Am *iechyd*, yr ystad hono ar y corff pan y mae pob rhan o hono yn gwneyd ei gwaith heb alw dim sylw, ac ymha un y teimla dyn fod bodolaeth yn fwynhâd, nid ellir ei wella mewn un modd trwy alcohol; i.e. mewn naw amgylchiad o bob deg, fe'i niweidid. "Y mae yn ystad sydd yn fynych yn dal alcohol heb niwed amlwg; ond yr wyf yn ail adrodd i chw'i, fel ffyrwyth meddwl maith a gofalus, nad ydyw yn un a all mewn unrhyw ystyr gael ei leshâu trwy alcohol." Am bobl nad ydynt yn mwynhâu ieched da, ac wedi ymarfer âg alcohol fel peth ag y teimlant ei fod yn anhegborol iddynt, ei gynghor ef iddynt hwy ydyw, "Cymerwch eich dyferyn bach o gwrw, ond cymerwch ofal nad eloch byth tu hwnt i hyny." I sicrhâu y lles mwyaf, rhaid i'r ddogyn fod mor fechan ag y bo modd! Am *waith*, fe ga ei fod yn mhrofiad personau unigol nad all alcohol fod ond rhwystr iddo. "Nid yn unig nid ydyw yn gynnorthwy, ond y mae yn rhwystr sic'r waith; ac y mae pob un sydd yn dyfod i gylich uchaf galwedigaeth yn Llundain yn dwyn y nodwedd yma, mai po brysuraf y ddel, lleiaf yn y ffurf o alcohol a gymera, a'i esgusawd yw,—Mae yn bur ddrwg genyf, ond ni allaf ei gymeryd a gwneyd fy ngwaith." A'r un modd pan y mae llawer o ddynion yn gweithio ynghyd. Nid all fod un arbrawf yn fwy teg i ddangos hyn na'r un a gymerodd Dr. Parker, o Netley. Fe gafodd efe nifer o filwyr o'r un oed, o'r un math o gyf- ansoddiad, yn byw dan yr un amgylchiadau, yn bwyta yr un bwyd, ac yn anadlu yr un awyr; fe'u rhanodd yn ddwy fyntai—y naill yn cael alcohol a'r llall ddim—ac fe'u cymerodd at waith neillduol, am ba un y derbynient dâl ychwanegol. Fe wyliai y ddwy fyntai yn fanwl, gan sylwi ar eu gwaith. Yr oedd y fyntai alcoholaidd ar y blaen ar y dechreu. Yr oedd ganddynt fweoda o gwrw gerllaw, ac fel y blinent ychydig, cymerent gwrw, ac ymhen rhyw awr neu ddwy yr oedd y fyntai arall ar ol ymhell; ond fe arosai yntau ac fe wyliai, ac ymhen enyd fe ddechrenai yni y fyntai alcoholaidd leihâu, ac er iddynt wneyd eu goreu, cyn diwedd y diwrnod yr oedd y fyntai arall wedi eu gadael ymhell ar ol. Wedi i hyn fyned ymlaen am rai dyddiau, fe erfyniai y fyntai alcoholaidd am gael ei gosod gyda'r llall, fel y gallent ennill ychydig chwaneg o arian. Ond fe ddarfu i Dr. Parker, er mwyn gwneyd yr arbrawf yn ddynol hollol, drawsnewid y mynteioedd; gwnaeth yr un alcoholaidd yn analcohol- aidd, a'r un analcoholaidd yn alcoholaidd—y dynion yn foddawn i'w rhoddi eu hunain i'r arbrawf; ac yr oedd y canlyniadau yn gwbl yr un. Mae mil- oedd o amgylchiadau eraill yn profi yr un peth—fod alcohol yn rhwystr i waith. Am ei ddylanwad ar *afiechyd*, dywed y Doctor enwog ei fod wedi myned y diwrnod hwnw trwy ei Hospital, ac erbyn ymofyn, fe gafodd fod 7 o bob 10, neu 70 o bob 100, o'r rhai oedd wedi dyfod i'r London Hospital â'u hiechyd wedi ffaelu, wedi dyfod i'r ystad hono trwy ddiodydd meddwl, er

nad oedd cymaint âg na o honrynt wedi bod yn yfwyr mawr neu yn feddwen. Nid y rhai sydd yn meddwi yn achlysurol sydd yn derbyn y niwed mawr, ond y rhai sydd yn barhaus yn yfed gochydig yn ommod. Ac mae faint—? o bob 10—oedd cyfartaledd y rhai a ddygant felly i'r Hospital hwn! "Nid oes genyf fodd i ddyfod yn fanwl i'r casgliad, ond yr wyf yn gwybod hyn, nid yn unig fed cyfartaledd mawr o'r fath anhwylderau ag a enwais, ond fod peth anferth—yn sicr fwy na thair rhan o bedair yr anhwylderau yn yr hyn a alwa yn 'fywyd ffasiynol'—yn codi oddiar ddefnyddiad o'r cyffwr yma yr wyf yn son am dano." Mae ganddo sylw difrifol hefyd ar y felldith a drooglwyddir trwy ymyfed i'r plant a enir. "Y fath feddwl ofnadwy yw hyn. A all fod un dyn yma yn bresennol yr hwn, os ydyw yn cymeryd mwy nag a ddylai, a all fod yn ddfater i hyn oll? Pa fodd y gall efe feddwl heb ddychryn am y ffaith ofnadwy hon—canye ffaith ydyw, mor sicr a bod dan a dau yn gwneyd pedwar—fod y dymuniad yma yn dyfod yn rhan o'i natur, a'i fod yn ei drosglwyddo i lawr, nid er da, ond er y drwg mwyaf arswydus a all dym ddyoddef, i genedlaethau sydd eto heb eu geni! A allaf fi ddyweyd wrthyce unrhyw eiriau cryfach na'r rhai hyn am effeithiau arswydus y camddefnydd o alcohol? Pan feddyliaf fi fy hunan am hyn oll fe'm tueddir, fel y dywedais mewn lle arall, i ruthro i'r eithaf gwrthgyferbyniol, rhoddi fy ngalwedigaeth i fyny, rhoddi pobpeth i fyny, a myned allan ar Groesgadiad Sanctaidd, gan bregetha i bawb—Goebelwch y gelyn yma i'r hiliogaeth!"

*Slate Quarrying, and how to make it profitable. Bubble Companies, Bribery, Swindling, and Incompetent Management exposed.* By MORGAN RICHARDS (Morgrugyn Machno), Bangor.—Bangor: Evan Williams.

Y MAE Mr. Richards wedi gwneyd gwasanaeth gwerthfawr wrth gyfansoddi a dwyn allan trwy y wasg y fath waith a hwn. Mae yn ddiagon tebyg, ar yr un pryd, y gallasai weithio ei ffordd yn fwy rhwydd i ymddiried a ffaith ei ddarllenwyr pe buasai yr awdwr mewn rhai amgylchiadau wedi gallu cadw llywodraeth gryfach arno ei hun, ac wedi puro ei arddull i slymledd mwy dychafeddig. Y mae yn awr ac yn ymestwng i'r rhodres o *son* am ef ostyngeddwrwydd; ond mae yn lled amlwg y gallasai hebgor y drafferth. Ac nid ydym yn deall pa angen oedd iddo wastraffu cymaint o amser i bregethu ei annibyniaeth a thaeu y dywedai yn ddfloesgni yr oll oedd ar ei feddwl i'w ddyweyd ar y materion a ddalent dan ei sylw. Chwedl mam Coriolanus,

You might have been enough the man you are,  
With striving less to be so.

Y mae hefyd, yn enwedig yn y rhanau cyntaf o'r gwaith, yn ymollwng i brofedigaeth yr anaddded o yagrifenu yn ddoniol, a thrwy hyn yn bradychu ei urddas mewn dull digon amffodus. "Fe ddywedir wrtho ef y gallai un yn awr glywed mewn eglwysydd a chapelau, wythnos ar ol wythnos, bregethau glaswraidd nad oes iddynt amcan o gwbl ond boddhu pawb, heb dramgwyddo nac aflonyddu ar feddwl neb, heb eithrio yr un drwg ei hunan—os oes y fath fôd." Os felly y mae, barna y dylai hyn ar unwaith gael sylw difrifol "arweinwyr y genedl, *irrespectively of all creeds and sects.*" Pa fodd y mae hyn i'w wneyd, a phwy yw yr arweinwyr sydd i'w wneyd "*irrespectively of all creeds and sects,*" ni ymostyngir i'n hysbysu. Adroddir "a somewhat funny story" am chwech o *engineers* enwog o Lundain wedi dyfod i'r penderfyniad y rhaid fod gyfthen y llechfaen yn Arfon yn rhedeg i Ynys Seiriol a Phen y Gogarth, ond erbyn cyrhaedd yno, "to their dismay, instead of finding slates, they only met the eternal hard gritstone, stretching out its sinewy arms to embrace the fawning waves of the billowy sea, that for ever come and go with awful grandeur that defies all description." Buasai yn dda genym wybod a ddaru i'r trueiniaid orfw eu dychryn. Desgrifir llech-wytheni Arfon yn dyfod i'r gelwg gyntaf yn agos i Gonwy; y maent yn myned ymlaen ac yn



llechu anyd, fel pe byddai dan gwaedion y Ffronlwyd; addlynno ant yndean "quietly and undisturbedly" i Lanberis, a chan arwng arno elliad ar ochr yr Eiddis, megys mewn dull o ddyweyd, mewn ofn rhag croesi Llwynoedd mawrion Padarn a Pharis islaw, fe ffurfiar chwarel ysblynydd Mr. Assheton Smith; yn eu chwrs y maent yn trafaelio yn araf trwy Ddyffryn Nantlle: fe'u gwelir yn olaf yn agos i Fourcrosses, "where the gigantic granite of the Eifl comes across their path, and seems to say to the slate vein, 'Thus far shalt thou go and no further;'" nid ydys yn gwybod pa un a ydyw yn terfynu yno, ond wedi croesi'r Ynys Werdd fe'i ceir drachefn bron gyfarbyn â'r lle y collasom hi yn Fourcrosses, ac er na ellir dyweyd ei bod yn parháu ei chwrs dan y Werydd, "but it is strange enough that we meet it again in America, and some of the nicest and finest quality—appearing, metaphorically speaking, as having been washed and cleansed of all its dross in its passage under the ocean." Mae y ffaith wyddonol y cyfeirir ati yn y disgrifiad a roddir o gwrs y llechfaen yn dra dydorol, ond y mae ysgrifenu am dani fel y gwneir yma yn ymddangos i ni yn blentynald. Tra yn condemnio yr arfer ddiroswm ac andwyl ynglŷn â gosod bargeinion o roddi, heblaw *poundage* a gwerth y llechi, hyn a hyn y llath neu y dunnell am dori y graig, a hyn a hyn "yn mhoced y fargen," ymstynga i ysgrifenu yn y dull ffol a ganlyn: "It was commenced, as is pretty well known, at — Quarry, under the bad management of the notorious —, who has long ago gone to his account, and, shall I add, is at it ever since (metaphorically speaking) on the treadmill of his conscience, not counting beads in purgatory, but the sovereigns he unjustly extracted from his employers and his men, which by this time have become so hot in his hands that his fingers are burnt to stumps; still he must go on counting and counting until the general restoration, if ever such a hope can be held out to so blackened a character."

Yr ydym yn teimlo yn fwy anfoddog wrth feiliau a ffolinebau o'r fath a nodasom, am fod y gwaith hwn mewn ystyriaethau eraill o deilyngdod tra uchel, ac yn haeddu ei astudio yn dda gan bob un a fyno ddeall clir yn nghyfrinion chwarelyddiaeth. Ac mae yn dda genym ddyweyd, fel y mae yr awdwr yn myned rhagdde i'r materion pwysig oedd ganddo i'w trafod, fod ei arddull yn gwellháu yn fawr, a'i fod yn ysgrifenu yn syml a dirodes, ie yn fynych yn glir a grymus. Ac am ei olygiadau y maent, dybygem, fel ffurwyth profiad ymarferol am lawer o flynyddoedd ymhob rhan o weithiau chwarelau, a hyn gan ŵr o synwyr cryf, ac un sydd wedi llafurio i gadw ei hun i fyny â goleuni gwerthfawrocaf yr amseroedd ar y materion ddaw dan ei sylw,—y fath fel nad all un dyn rhesymol lai na'u mawr gymeradwyo. Mae yn debyg y ceir amryw bethau yma a thraw trwy gorff y gwaith y teimla llawer eu bod braidd yn rhy radicalaidd a dymchweliadol; ond fe geir y rhai hynny, gan mwyaf, yn nghildroadau yr awdwr at bethau na fuasai o ddim colled iddo eu gadael yn llynydd: ond am ei ymdriniaeth â'r mater pwysig o lech-chwarelyddiaeth, yn ei amrywiol ganghenau, ymddengys i ni ei bod yn feistrolgar a deoth, ac yn hynod o resymol a theg. Yn wir fe deimlai dyn ei fod braidd yn anesboniadwy pa anhawser a allai fod ar ffordd pobl ag y mae a fynont â chwarelau i dderbyn y cyfryw olygiadau. Ond rhaid cofio fod gan ddyinion grediniaeth ddofn a greddfodol yn y drefn ar bethau a welsant o'u mebyd, er nad oedd hono ond yr hyn y darfu i ddyinion yn mabandod eu profiad ddygwydd dyfod ar ei thraws; ac fod dynolryw, fel y dywedai Carlyle am ddeng miliwn ar hugain poblogaeth ein teyrnas, "gan mwyaf yn ffyliaid." Y mae y gwaith hwn yn sicr yn haeddu ei astudio yn dda gan bawb ag y mae a fynont â'r pethau hyn, a chan bawb a garai ffurfio barn oleuedig am gangen o ddiwydrwydd ag y mae bywoliaeth cynifer o filoedd o'n cydwladiwyr yn ymddibynu arni. Y mae wedi ei ysgrifenu yn Saesneg er mwyn y bobl arianog sydd yn mentro mewn chwarelydd, ac er mwyn goruchwylywyr se eraill ag y mae a fynont â hwynt, nad ydynt yn deall, neu na fyddai yn wif ganddynt ymestwng i ddarllen Cymraeg. Yr ydym yn galonog yn argymhell

y llyfr fel un ag y byddal astudiaeth feddylgar o hono yn dra thebyg o fod yn fanteisiol i drefn fwy gonest a theg a diogel o weithio chwarelau; i ochel y dirfawr wastraff sydd yn bresennol yn ffynu yn y dull o'u gweithio; a hefyd i sicrhau y dealltwriaeth sydd mor fawr i'w ddymunio rhwng y tîrfeddianwyr a pherchenogion chwarelau, a rhwng perchenogion a'r gweithwyr, yn gystal a rhwng y gweithwyr a'u gilydd.

*Buchdraeth y Parch. John Mills, F.R.G.S., M.R.A.S.,* Awdwr "Nablous and the Modern Samaritans;" "The British Jews;" "Palestina;" "Hyfforddwr yr Efrdydd;" "Gramadeg Cerddoriaeth," &c., &c. Gan RICHARD MILLS a'r Parch. N. CYNHAFFAL JONES. Llanidloes: R. Mills.

MAE yn falch genym gael yr hyfrydwch o roddi croesaw calonog i'r gyfrol brydferth a dyddorol hon. Fe gafodd Mr. Mills ei alw o'n plith pan y gallasem obeithio fod dyfodol ffurwythlawn o ddefnyddioldeb eto yn gorwedd o'i flaen. Bron na ellid dyweyd am dano yntau, "Ei haul a fagludodd tra yr oedd hi yn ddydd." Ac eto fe wnaeth waith mawr, ac mae yn ddiarnus fod gorphwys yn felus iddo. Ac fel y mae trwy ei lafur personol a'i ysgrifeniadau wedi bod o gymaint bendith i liaws mawr, felly ni a allwn yn hyderus ddysgwyl y bydd ystori brydferth ei fywyd i lawer o'n cydwladwyr, yn enwedig ein pobl feuaic, yn ddaioni parhâus. Fel y rhan fwyaf o'r dynion y mae gan Gymru fwyaf o achos i fendithio eu coffadwriaeth, ni estynnodd y byd hwn iddo ond ychydig o'i nawddogaeth. Fe orfu iddo i fesur mawr fod yn dad ac yn athraw iddo ei hun. Ac eto fe'i cafodd ei hunan, fel y dangosir yn amlwg yn y llyfr hwn, o'i febyd, yn mynwes cymdeithas yn Llanidloes oedd mor fagwriaethol i bob rhagoriaeth fel nad oedd ryfedd yn y byd ei fod, yn ei chariad a'i doethineb, yn dyfod rhagddo yn hyfryd, ie yn "cynnyddu gan gynnydd Duw." Ac fe ddangosodd yntau yn fore fod ynddo deithi a'i galluogent i wneyd defnydd da o bob mantais, ie o bob anfantaish hefyd o ran hyny, er ennill nerth a gorchfygu. Y peth hynotaf yn ei holl gymeriad oedd yr hunanfeddiant tawel â pha un y ffurfiai ei benderfyniadau, neu, a defnyddio gair ag yr oedd efe ei hun yn lled chwannog o'i arfer, ei "gynlluniau," ac wedi gwneyd hyny y gwydnwch di-ildio â pha un yr ymroddai i'w cario allan. Ni chai dim ei gymeryd yn "gynllun" ganddo ef heb ei fod yn cael pob boddlonrwydd, nid yn unig yn nheilmad y fynydd, ond hefyd wedi yr ystyriaeth adddefaf a allai roddi iddo mai dyna, dan yr amgylchiadau, a fyddai y peth doethaf y gallai feddwl am dano. Ac wedi iddo felly ei fabwysiadu, nid oedd eisieu dim ail feddwl wedyn yn ei gylch, ond yr ydoedd yn hanfodi i'w osod mewn gweithrediad. Nid oedd o ddim gwahaniaeth pa un a fyddai hyny al gorchwyl ychydig ddyddiau, ai gorchwyl blynyddoedd, ai gorchwyl einioes; fe fyddai efe mor ffyddlawn iddo ag yw y dydd i'r haul; ac felly er pobpeth yr ydoedd, fel Joseph, "yn wr llwyddiannus," ac yr oedd yr Arglwydd hefyd gydag yntau. Yr oedd hyny yn gosod prydferthwch neillduol ar ei grefydd. Nid oedd ddim byd yn hono ag oedd yn *conventional* neu ystrydebol; yn wir gan ddyfined ei thawelwch fe fyddai rhai ymron yn barod i ammeu a oedd ynddi nemawr o dân a bywyd. Ond yr ydoedd efe er hyny yn "gosod yr Arglwydd bob amser ger ei fron," ac yr ydym yn cael aml gyfleusdra yn y llyfr hwn i weled mor hollol gysegredig ydoedd i Grist, ac mor ddwfn oedd ei gymundeb âg ef. Fel un engraifft o liaws, yr ydym yn ei gael yn hollol ddirodres yn adrodd ei brofiad yr ail Sabboth a dreuliodd yn Jerusalem yn y dull canlynol:—

Yr ail Sabboth, teimlais awydd i beidio a myned i'r gwasanaeth yn y prydawn. Rhywfodd wrth fyned adref o'r gwasanaeth Saesoneg fe syrthiodd chwant anesgrifiadwy arnaf am gael gweld yr Arglwydd Iesu. Yr oeddwn wedi teimlo hyny gannoedd o weithiau o'r blaen, ond nid dim yn debyg i'r tro hwn. Yr oeddwn wedi llwyr ymgolli i bob peth allanol wrth feddwl am ei osgo hardd, ei wyneb prydferth, ei nodwedd ddihalog, a'i amcan grasol a goruchel Ef. Iâ, meddwn ynof fy hun,

dyna y fan lle y bu Duw mewn cnawd yn tramwyo. Ond beth pe bawn yn cael golwg arno, a chyfeillach âg ef, ac iddo ofyn i mi fel i Pedr, 'A wyt ti yn fy ngharu i?' Beth fyddai yr ateb? Wel, byddai yn dda genyf gael y cyffe iddo ddyweyd wrthyf os nad ydwyf. Yr oeddwn ar y pryd yn myned i lawr *Via Dolorosa*, a deunaw cant o flynyddau cynt yr oedd yntau yn cerdded yr un heol â'i groes drom ar ei gefn. 'O!' meddwn, 'beth pe b'ai o yma heddyw, yn awr, yn fy nghwrdd i, ac i mi gael cyffe i ysgwyd llaw âg Ef, byddai yn well genyf na mil o fydoedd. Ond nid oedd dim gobaith. I lanw y diffyg goreu gallwn, mi benderfynais fyned i dreulio y prydnewn i ddarllen a myfyrio am dano allan i Gethsemane. Rhoddais fy Mibl dan fy mraich, ac i ffwrdd â fi ar hyd *Via Dolorosa*, allan trwy borth Stephan, ac i lawr y llwybr serth i ddyffryn Jehosaphat; ac ar ol croesi ffyrddle Cedron, ymhen rhyw ugain neu ychwaneg o gamrau, yr oeddwn yn cyrhaedd y fan 'lle yr oedd gardd.' Ond ar y llaw chwith rhwng yr ardd a bedd y Forwyn y mae olewydden fawr a phrydferth yn taenu ei changau hardd o bob tu, ac, mewn gwlad mor gynhes, yn ffurfio cysgodfa ddymanol iawn. Eisteddais dan yr hen olewydden, a dechreuais ddarllen hanes y Ceidwad yn yr Ardd. Ond cyn hir aeth yn rhy dwym i ddarllen; gorfod i mi gau fy Mibl, a rhoi y ffwrwyn i fy myfyrdodau. Wrth fyfyrio, ennynodd tân ynof, ac wrth i hwnw gryfhau, mi dorais allan i hwmian canu. Hen bennill Williams, Pantycelyn, a ddaeth i'm cof fel y diliau mêl:—

"Ai Iesu mawr, ffrynd dynolryw,  
A welaf fry, a'i gnawd yn friw,  
A'i waed yn lliwio'r lle?  
Fel gŵr di bris yn rhwym ar bren,  
A'r gwaed yn dorthau ar ei ben?  
Iâ, f' enaid, dyma Fe."

Hen dôn felus—yr hen "Groeshoeliad"—oedd genyf ar y geiriau. Ac fel yna yr oeddwn yn eistedd, fy llaw chwith dan ochr fy mhen, a fy llygaid yn nghauad, yn canu, ac fel yr hen bobl, yn dyblu ac yn ail ddyblu drosodd a throsoedd drachefn. Pa mor uchel yr oeddwn yn dyrchafu fy llais nid wyf yn awr yn medru dirmad. A oedd rhai o'r brodorion yn fy nghlywed nis gwn; ond gwn un peth, i'r angel oedd yn fy arwain yn y ffordd fy nghlywed, ac yr oeddwn yn dychymygu iddo fyned ar ei adenydd cyflym i'r drydedd nef, a dyweyd wrth yr hen Williams fod bachgen o Gymru y fynydd hono yn canu un o'i bennillion yn Gethsemane.

Pwy na charasai fod yno yn gwrando arno, yn ymuno yn y gân, ac yn cyfrangoi o'r nefol fwynhâd? Y mae ei ffyddlondeb i ddrychfeddwl llywodraethol yn dyfod i'r golwg yr un ffunud yn y feistrolaeth lwyr a ennillodd, ac yntau yn naturiol nwydwyllt, ar ei dymher. Yn y lliaws o amgylchiadau profedig-aethus a'i cyfariâ, wedi iddo weled ei ddyledsdydd yn hyn o beth, a rhoddi ei hun yn llaw Duw am nerth i'w chyflawni, fe feddiannai ei enaid ymron fel y gallesid dysgwyl i gerub wneyd. Yr ydoedd yn un o'r dynion mwyaf tirion, hynaws, a gwir foneddigaidd a sangodd y ddaear. Ac yr ydoedd hyny iddo ef, fel y nota Mr. Charles Davies yn ei bregeth angladdol ragorol iddo a geir yn niwedd y llyfr hwn, fel i Moses a'r apostol Ioan, yn gymaint mwy o ogoniant fel yr ydoedd, nid yn gynnrych tymher naturiol ag ydoedd, fel y cydnebydd Charles o'r Bala am yr eiddo ef, "yn fanteisiol i ras," ond yn goncwest ar dymher a fuasai, pe cawsai ei ffordd, yn ei phrofi ei hunan yn hynod o anrasol. Am ei nerth yn gweithio allan "ei gynlluniau" yn holl lafur mawr ei einioes, o'r dechreu i'r diwedd, y mae wedi bod, ac ystyried yr holl amgylchiadau, ymron yn ddigryffelyb. Y mae "wedi marw yn llefaru eto!" Y mae yntau hefyd wedi gadael ôl ei draed yn y tywod—

Footprints in the sands of time;  
Footprints that perhaps another,  
Sailing o'er life's solemn main,  
Some forlorn and shipwrecked brother  
Seeing, may take heart again.

Diammen y diolcha llawer o'n darllenwyr am i ni alw eu sylw at y llyfr hwn, ac y byddant yn prysuro i'w feddiannu a'i fwynhâu. Ac o wneyd hyny, prin

y mae yn bosibl iddynt beldio bod yn fawr ar eu hennill. Cynswys ddarllen tra rhagorol o Mr. Mills. Pris y gyfrol mewn llian hardd yw tri a chwech.

*Cyfandir Ewrop a'i Ryfeddodau, neu o Gymru i Rufain ac yn ôl.* Gan THOMAS LLOYD JONES, Talysarn.

Ffe ddylasai y llyfr hwn fod wedi ein cyrhaedd yn gynt. Y mae yn haeddu croesawiad helaeth gan ein cydwladyz. Mae ein cyfaiell tirion, Mr. Lloyd Jones, fel yr hen Gymro gynt yn y gân, wedi bod

A'i fwriad ar drafaelio ;

ac y mae wedi gwneyd llawer, trwy ei ddarlithiau dyddorol a phoblogaidd, tuag at wneuthur ei gydwladwyr i fesur yn gyfranog o'r hyfrydwch a fwynhâi efe ei hunan wrth weled y byd. Ac y mae y gyfrol fechan yma yn cynnwys llawer o wybodaeth werthfawr am wledydd Ewrop, ac wedi ei hyagrifennu mewn dull poblogaidd a thra darllenadwy. Dylai gael ei darllen gan filoedd o'n cenedl, a dylai fod cyflenwad parhâus o honi yn ein marchnad lyfrau. Y mae ein llenyddiaeth yn dlawd mewn lyfrau o'r fath, ac am hyny fe ddylai gwaith fel hwn gael darlenniad awchus a chyffredinol. Rhoddai lawer iawn o wybodaeth dra dyddorol, a chynnorthwyai tuag at fetthin yn y darlennydd allu i ganfod y pethau a ddygwyddo fod yn weled ; oblegid fel y dywed yr awdwr, "Mae llawer yn edrych ar bethau heb erioed eu gweld." Mae y dull dirodres a naturiol ymha un y mae wedi ei ysgrifennu hefyd yn ychwanegu yn fawr at ei werth. Weithiau y mae ei frawddegau dan ei ddwyllaw yn dyfod, a defnyddio gair ag y mae efe ei hun braidid yn rhy chwannog i'w arfer, yn "gampus." Am Ryde dywedir, "Ceir yma seindorf yn chwarae yn wastadol, ar awelon yn cario y swm peraidd i lanau yr yny." Mewn lle arall, "Buasai yn dda genyf allu desgrifio llifddyfroedd dychrynllyd yr Alpen yn disgyn i lawr yma. Dyma un o'r attyniadau mawrion i'w penau, sef i weled disgyniadau y dyfroedd. Y maent yn aruthrol, ac y mae yn aumhosibl ffurfio un dychymyg am danynt heb eu gweld. Y creision cynddeiriog yn llifeiriant fel pe buasai yr holl gymylau duon uwch ben wedi ymdori, a'u cynnwys oll yn rhaiadrau yn ymwylltio trwy yr unig agoriad iddynt o danon, a'u swm fel taranau mawrion." Dyddorol yw hanes yr esgyniad yn y *train* i ben y Rigi, mynydd ymron ddau uchder y Wyddfa. A welodd efe yn yr *Album* a gedwir yn yr Hotel ar ben y Rigi y pennill a gofnoda Dr. Buchanan, ymha un yr arllwysai y taithydd hwnw ei lid dan bwys y siomedigaeth o fethu gweld dim wedi dringo, cyn dyddiau y *train*, ar ei draed i ben y mynydd ?

Five weary miles we toilsome sped  
The setting sun to see ;  
Sulky and grim he went to bed,  
Sulky and grim went we :

Seven sleepless hours we tossed, and then  
The rising sun to see,  
Sulky and grim we rose again,  
Sulky and grim rose he.

*Y Sacramentanau Cristionogol.* Gan y PARCH. JAMES S. CANDLISH, D.D., Prof-feswr Duwinyddiaeth yn Ngholeg yr Eglwys Rydd, Glasgow. Wedi ei gyfieithu trwy ganiatâd yr Awdwr gan y PARCH. WILLIAM WILLIAMS, Bala.—Bala : Edward Jones.

DRO yn ol argymhellasau y gwaith hwn yn y modd mwyaf calonog i sylw ein darllenwyr ar ei ymddangosiad yn Saesoneg yn nghyfras *Hand-Books for Bible Classes* a gyhoeddir gan Meistri Clark o Edinburgh. Mae yn dda iawn genym ei weled wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg ; wedi ei gyfieithu, fel y galleid yn hyderus dysgwyl gan Mr. Williams, yn gwbl deilwng o'r gwaith ei hun ; ac am bris—dim ond Swllt—a ddylai ei wneyd yn gyrrhaeddadwy i filoedd. Byddai yn fendith pe'i hastudid mewn llawer o Ddoesbarthiadau Bibliatd yn Nghymru. Nid all fod gwell arweinid i athrawiaeth y Sacramentanau.

*Buddugoliaeth y Groes: Pryddest.* Testun Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1880. Gan GLAN ALAW.

NID ydym wedi gweled yr un o'r cyfansoddiadau etall ar y testun hwn, nac yn dygwydd gwybod i bwy y dyfarnwyd y wobr; ond darlennasom y Bryddest hon gyda llawer o foddhâd, ac yr ydym yn teimlo y byddai yn dda pe darllenid hi gan liaws o'n cydwladwyr. Diammeu y caent trwy hyny lawer o hyfydwch pur, a hyderiaeth y gadewid ar eu meddwl argraff o fendith barhâus. Fe deimla dyn wrth ei darllen fod ynddi lawer o yni a thân, a hefyd gryn fesur o aneiniad. Y mae yn llawer i'w ychwanegu nad ydyw yn annheilwng o'r ganmoliaeth a roddid iddi yn weirniadaeth llawdden, yr hon a ddyfynir yn y Rhagnodiad. Gwelsom yma a thraw rai amryfuseddau ag y buasai yn dda pe cymerasai yr awdwr hamdden i'w symud ymaith. Er engraifft, drwg yw cymharu y Gorchfygwr mawr ar un cyfrif â "Phiction ddewr yn Waterlŵ." Y mae Milton ar amgylchiad llawer mwy goddefol yn cymeryd gofal i ddangos gwendid y gymhariaeth a wna trwy ddyweyd, "To compare small things with great." Ac y mae yr awdwr yma mewn amgylchiad arall yn amddiffyn urddas ei fater trwy ddyweyd fod Satan yn debyg,

Os ydyw yn ddiogel  
Tebygu cythraul-ddys i gythraul-angel,  
I Rhisiart ffyrnig ar faes Bosworth waedlyd, &c.

Ond mae y cyfeiriad at Picton yn cael ei adael ya noeth, ac y mae yn eiddil iawa. Ar yr un pryd, nid ydyw y pethau yr achwynem arnynt ond ychydig a dibwys mewn cymhariaeth, tra y mae rhagoriaethau y ganiad yn sawrion a diammheuol. Cymered y darlennydd, fel engraifft o allu Glan Alaw, y desgrifiad a ganlyn o'r ddau angel wrth y bedd:—

Mor hardd urddasol ydynt! eu hadenydd  
Sydd yn fil harddach na gwrid ruddian 'r wawrddydd,  
Yr oll gan aur a pherlau ymddysgleiriant  
Fel wedi eu bedyddio â gogoniant!  
O! 'r ie'nctyd, glendid, harddwch, a grymuder,  
Belydrant yn eu golwg! Beth wnai cryfder,  
Dynol o'u blaen! Pe codai 'r byd mewn cyffro,  
Dan bwys eu bysedd dengmil geid yn syrthio;  
Ac os mor gedyrn yr urddasol weision,  
Beth am yr hwn sydd Arglwydd yr angelion!  
Beth am y Person fu â gair ei enau  
Yn han ei fydoedd drwy yr eangderau,  
Ac sydd â'i air yn dal holl heulieu 'r nefoedd,  
A mil myrddiynau 'r sêr o fewn eu cylchoedd!  
Nid rhyfedd yw fod angen y llwygu  
O'i flaen, a dieifi a dynion yn cydblygu.

*Pigion o Englymion fy Ngwlad; neu 1,000 o Englymion, wedi eu dethol o Weithiau Awdwyr hen a diweddar.* Gan EIFIONYDD.—Liverpool: Isaac Foulkes.

MIL o Englymion am Swllt! Pwy na theimlai ei fod yn cael bargaen? Drychfeddwl hapus oedd gwneyd casgliad fel yma o Englymion, a diammeu y bydd yn falch gan lawer wneyd y llyfr yn eiddo iddynt. Rhydd y casglydd ar ddeall fod ganddo lawer yn ychwaneg wrth law; os felly fe ddyasai fod yn ddigon gwrol i ommedd derbynid i gryn nifer o rai lled gyffredin sydd wedi ymwithio i blith y Mil hyn. Ond iddo fod ychydig yn fwy llym yn ei ddetholiad, bydd yn hyfryd iawn genym gael eto Ail Fil o'i law. Y mae llawer o englymion campus ar lafar gwlad, ac y byddai yn dda iawn eu sicrhâu cyn i'r adeg fyned hebio; fel yr un a adroddai Talhaearn, y dywedai i ryw

fardd awen-barod o'r De ei wneyd ar darawriad, pan herid ef i wneyd englyn yn cynnwys y geiriau Llanrhaidr-yn-mochnant a Rhosllanerchrugog, ac i fod hefyd yn sen ar y Methodistiaid :—

Y Calfiniaid cul a fynant—eu rhodres,  
Yn Llanrhaidr-yn-mochnant ;  
Yn Rhosllanerchrugog crogant  
Bob Armin, Sosin, a sant.

Neu yr eiddo y diweddar Barch. Robert Thomas, pan yn dychwelyd o Aber-soch wedi methu cael hwyl ar bregethu yn y cyfarfod :—

Rhyw bur sych yw 'r Abersochiaid,—yn lloi  
Lleyn, pur ddi enaid ;  
Gwedi 'r wyl eu gado raid  
Yno fel anifeiliaid.

Neu ysmaldod Hiraethog pan achwynal Gruffydd Rhistart un tro yn mhresen-noldeb ei frodyr fod y *Cronicl Bach* yn sal, gan ychwanegu, "Gwnewch englyn iddo, Mr. Rees,"—

Y Cronicl sydd fel croen ei,—disylwedd,  
Dau salach na gwegi ;  
Ni bu coecach baw cawci  
Yn un oes, dyna 'marn i.

A channoedd lawer yn ychwaneg. "Gruffydd Dafydd, Brynengan !" Yr ydym yn cofio cyd-deithio â'r diweddar Gynddelw yn y train, pan ydoedd yn paratoi ei argraffiad newydd, gyda llawer o ychwanegiadau, o *Flodau Arfon*. Gofynasom a ydoedd wedi cael gafael ar englyn Dewi Wyn ar ol Robert Dafydd, Brynengan—

Nodedig o ddawn nid ydoedd,—er hyn  
Bhanai fara 'r nefoedd,  
O'i law aur i laweroedd ;  
Offeryn Duw a'i ffrynd oedd.

Nid oedd Cynddelw wedi ei gael, dotiai arno, ac ysgrifennodd ef ar y pryd. Pan ddaeth y llyfr allan, sut bynag, gwelsom fod *Robert Dafydd* wedi myned yn *Gruffydd Dafydd* ; ac y mae Eifionydd yn y llyfr hwn wedi dilyn ei amry-fusedd, ac nid oes wybod pa benbleth y bydd haneswyr y dyfodol ynnddi wrth geisio gwneyd allan pwy allasai y Gruffydd Dafydd hwnw fod.

*The Manual of Alethography, being an improved system of Short-hand, based upon the spoken sounds of the English Language and adapted to verbatim reporting.*

By the Rev. JAMES WILLIAMS, Pontypridd.

*The A B C Method of Short-hand, based on the sounds of the English Language, designed for Beginners as an Introduction to the system of Short-hand explained and developed in the Manual of Alethography.* By the Rev. JAMES WILLIAMS, Pontypridd.

YMDDENGYS fod Mr. Williams wedi talu sylw dyfal i gyfrinion Llaw Fer. Dywed yn y cyntaf o'r llyfrau uchod iddo fod am ddeuddeng mlynedd yn dysgu *Phonography* Pitman, ac ymddengys ei fod wedi astudio yn dda y gwa-hanol gyfundrefnau eraill a ddygwyd i sylw y byd ; ac fe ymddengys fod y gyfundrefn y mae efe ei hun wedi ei gweithio allan yn rhagori mewn symledd ac effeithiolrwydd ar nemawr ddim a gynnygiwyd i'r byd o'r blaen. Ni chymerai ychwaith ond ychydig amser i'w meistrolï, ac y mae yn ddiammeu y byddai y fantais o hyn yn fawr iawn.



